Ban, *s.* (S. *bannan*, *abanan*; Al. ac Is. *ban*, *bannen*; Celt. *bann*, *ban*; Ff. *ban*) cyhoeddiad; gosteg; esgymundod, melltith, rheg, rhydwng; gwaharddiad; camgwl.
Banns of matrimony, } gostegion priodas.
Banns of marriage, }
To put under the ban of the empire—gosod *neu* roi dàn esgymundod y deyrnas; esgymuno.

Ban, *v.* melltithio, melltigo, esgymuno, rhegu.

Banco, *s.* (It.) ariandy Gwenethïa; ariandy.

Band, *s.* (S. *banda*; Is. *band*; Al. *band*, *binde*) rhwym, rhwymyn, amrwymyn; cengl, ceingl, ceingel; caw, ffas, tas, tasgell; cwlwm, clwm, achlwm; achrwym; cadwyn; cyfrwym, rhefog; byddin, torf, (*pl. t.* oedd, au), tyrfa, (*pl. t.* oedd), myntai, bagad, torfa, (*pl.* torfaoedd, torfëydd).
By bands—yn fyddinoedd, yn fynteioedd, yn dorfoedd, yn dorfaoedd, yn lluoedd, yn dyrfaoedd; wrth y mynteioedd, wrth y lluoedd.
Band of music, } perorion, perorwyr,
Band of musicians, } peroriaid, seindorf, seinorion.
Band of pensioners—torf gyfarwysog; cyfarwysogion.
Band of vagrants—gwiblu, gwibiaid; haid o wibiaid, haid o grwydriaid.
Swaddling band—rhwymyn magu, ysnoden gorni, rhwymyn.
Band round the waist—gwasgrwym, gwasgrwymyn.
Band of honour—bangaw.
Hat-band — hetrwym, hetrwymyn, llinyn het.
Head-band—penre, penrwym, ffunen, penrwymyn.
Little band—rhwymynyn, ffunenig, ysnodenig.
Band of hay—ffwynen.
Hymen's bands—rhwymau Hufon, rhwymau Priodas.

Band, *v.* rhwymo, cyfrwymo, cenglo, cenglu, ffunenu, ysnodenu; ymfyddino, ymfynteio; uno, ymuno; llunio cyfarfod.

Bandage, *s.* (Ff.) amrwym, amrwymyn, cyfrwym, rhefog, rhwymyn.
Slight bandage—gorwym, gorwymyn.
Tight bandage—tynrwym, tynrwymyn.

Bandbox, *s.* (*band* a *box*) caesfliwch; blwch hetiau; blwch papyr; blochas.

Bander, *s.* (o *band*) ymfyddiwr; ymuniwr.

Banderet, *s.* (o *band*) penciwdod y Swissiaid.
Banderol, *s.* (Ff. *banderole*) banerell, trofaner.
Bandit, *pl.* Bandits, Banditti, *s.* (Ll. *banditto*) ysbeiliwr, ysbeilydd, carnleidr: *pl.* ysbeilwyr, carnladron, ysbeildorf.
Bandlet, } *s.* (Ff. *bandelette*) amrwymyn, am-
Bandelet, } rwymen, amdorchen, toprwymyn; taleithig.
Bandog, *s.* (o *band* a *dog*) cadwyn-gi.
Bandoleers, *s. pl.* (Ysp. *bandolera*; Ff. *bandoulière*) gwregys, ysgwyddrwy, ysgwyddwregys.
Bandore, *s.* (Ysp. *bandurria*; Gr. *pandoura*) cyfeileg=math o offeryn cerdd.
Bandrol, *s.* (Ff. *banderole*) baneren, llumanig.
Bandstring, *s.* (*band* a *string*) ffaslinyn.
Bandy, *s.* (Ff. *bander*) pelgip, pelgib.
To play bandy—chwareu pelgip.
Bandy-leg—coes gam.
Bandy-legged—coesgam, gargam.
Bandy, *v.* pelgipio; curo yn ol ac yn mlaen; ysgytio, gwesgrynu, chwyfo; ymryson, ymdrechu, terfysgu, cynghuro, ymdynu.
To bandy reports about—chwalu chwedlau.
To bandy together—dirgel ymgynnull; ymgyfarfod i derfysg.
Bane, *s.* (S. *bana*, llofrudd; Gr. *phenô*, lladd) gwenwyn; dinystr, dystryw, dïen; andwyad, drygedd.
Flea-bane—cedowydd, cedowys, anmhrydlwyd.
Common flea-bane — cedowys cyffredin, cedowydd cyffredin.
Samphire-leaved flea-bane—cedowys sugol, sampier y geifr.
Wolf's bane—bleidd-dag, llysiau y blaidd, llys y blaidd.
Leopard's bane — llewpard-dag, llysiau y llewpard.
Bane-wort—codwarth.
Flea-bane-wort—llysiau Silin.
Blue flea-bane-wort—anmhrydlwydrhuddlas.
Hen-bane—llewyg y iar, parfyg, bela.
Common hen-bane—bela, parfyg, crys y brenin, ffa y moch, llewyg y iar.
Bane-berry, } llysiau Christopher,
Herb Christopher, } llysiau Cristoffis.
They are the bane of human society—gwenwyn y gymdeithas ddynol ydynt.
Bane, *v. a.* gwenwyno; andwyo.
Baneful, *a.* (*bane* a *full*) gwenwynol, gwenwynig, marwol, angeuol; andwyol, dinystriol, adwythig.
Banefulness, *s.* (o *baneful*) gwenwynigrwydd, gwenwynoldeb; adwythigrwydd, andwyolder.
Bang, *v. a.* (D. *banker*; Al. *bängel*, pastwn) llachio, dulio, curo, ffusto, llabio, paffio, wabio, pwmpio, ffonodio, maeddu, baeddu, maeddgenu, pwyo.
Bang, *s.* llach, llab, dul, pwmp, ffonod, dyrnod; curiad, pwyad.
Bangle, *v.* (anhysbys) gwastraffu bob yn ychydig, afradu.
Banian, *s.* (gair dwyreiniol) boreuwisg, arferedig yn yr India Ddwyreiniol.
Banish, *v. a.* (Ff. *bannir*, *bannissant*) alltudio, alltrodio, deol, allwladu, aethwladu, carddu, gorthorddi; gyru o'r deyrnas; gyru ymaith.
To banish one's self — ymalltudio, ymddeol; myned o'r wlad neu deyrnas.
A banished one—alltud; gwr deol, gwr allfro, gorthordd, alltudiedig.
A banished woman—alltudes; gwraig ddeol, gwraig allfro.
They were banished from court—gwahardd-wyd y llys iddynt; deolwyd hwynt o'r llys.
Banisher, *s.* (o *banish*) alltudiwr, deolwr, deolydd.
Banishment, *s.* (o *banish*) alltudiaeth, alltrodiaeth, alltudedd, deoliad, allwladiad, aethwladiad.
They suffered banishment in a strange country—goddefasant alltudedd mewn gwlad ddyeithr.
Long be his banishment—hir bid ei alltudiaeth; boed hir ddifröedd arno.
Banister, *s.* (llygriad o *baluster*)=*Baluster*.
Bank, *s.* (S. *banc*; Is. ac Al. *bank*; Sw. *banck*; D. *banke*; C. *banc*; Gael. *banc*, *beinc*; Gw. *beinc*; Llyd. *bancq*; Cern. *benk*; It. *banco*; Ysp. a Port. *banca*, *banco*; Basc. *banco*; Ff. *banc*, *banque*; Ar. *bank*) banc, ariandy, cedfa; glàn, ceulan, torlan, min, arlan, ebyrn; traethell, tywoden, esgyndir; twmpath, bryncyn, twyn; clawdd, gwaldon.
Bank of England—banc Lloegr, ariandy Lloegr.
Bank-bill, } cedlen, cedeb, banceb; *pl.*
Bank-note, } cedleni, cedebion, banocebion.
Bank-post-bill--cedlythyreb, banclythyreb.
Bank-stock—cedsawdd, ariansawdd banc.
Bank-interest — cedlog, llog banc, banclog.
Bank-agio — cedwarthal, cedryngwerth, rhyngwerth banc.
Savings' bank—banc cynnilion, cedfa cynnilion, swylgedfa, ariandy cynnilion.
Bank of oars, } mainc o rwyfwyr; meinc-
Bank of rowers, } aid o rwyfwyr.
Bank-cresses—arfog=enw llysieuyn.
Bank of a river—glàn afon, ceulan afon, min afon, torlan afon.
Parallel bank—cynglan.
Sand-bank—traethell, tywoden, tyrwn.
Bank, *v. a.* bancio, gosod yn yr ariandy; gwrthgloddio.
Banker, *s.* (o *bank*) arianydd, arianwr, bancwr, cedydd.
Banking, *s.* (o *bank*) bancyddiaeth, arianyddiaeth; gwrthgloddiad.
Bankrupt, *s.* (o *bank*, a Ll. *ruptus*; Ff. *banqueroutier*) torged, torgedwr; methdalwr, methdalydd.
Bankrupt law—torgedraith, cyfraith torgedaeth.
He has become a bankrupt—y mae efe wedi tori; y mae wedi myned yn dorged.
Bankrupt list—torgedres.
He made his creditor a bankrupt—efe a dorodd ei achretor; y mae wedi tori ei echwynwr.
Bankruptcy, *s.* (o *bankrupt*) torgedaeth, methdal; methdaliad, methfasnach.
Bankruptcy court—torgedlys.
Banner, *s.* (C. *baner*; Ff. *bannière*) baner, baniar, lluman, penwn, penon, pensel; arwydd.
Bearing a banner—banerog, llumanog.
An army with banners—llu banerog, llu banierog, byddin fanerog.
To display a banner—dyrchafu baner.

Bannered, *p. a.* (o *banner*) banerog, llumanog, baniorog.

Banneret, *s.* (Ff. o *banner*) marchog y faner, cadfarchog, baneryn.

Bannock, *s.* (Gw. *boinneog*; Gael. *bonnach*) teisen geirch, torth geirch.

Banns, } *s. pl.* (o *ban*) gostegion.
Bans, }

Banquet, *s.* (Ff.) gwledd, cyfeddach; banfaeth, prain, cyfedd, cywledd, gwestfa, allwest.
A princely banquet — gwledd freninol, ariwy breninol, gwledd dywysogaidd.
At the banquet of wine—yn nghyfeddach y gwin, yn ngwledd y gwin.
Delicacies of the banquet—ceinion cyfeddach, danteithion cyfeddach; danteithion y wledd.
Banquet-house, } gwledd-dy, gwleddfa,
Banqueting-house, } gwindy, ty gwledd.

Banquet, *v.* gwledda, cywledda, preinio, cyfeddach.

Banqueter, *s.* (o *banquet*) gwleddwr, cyfeddachwr.

Banqueting, *s.* (o *banquet*) cyfeddach, gwledd; gwleddiad.
Banqueting room—gwleddystafell, ystafell wledd, gwleddgell.

Banquette, *s.* (Ff.) uchsarn, ardyle.

Bans, }
Banns, } *s. pl.* (o *ban*) gostegion.
Bans of matrimony, } gostegion priodas.
Banns of matrimony, }

Banticle, *s.* (anhysbys) crothell; *pl.* crythyll=math o bysgodyn.

Banter, *v. n.* (Gr. *phenaciz6*? Ff. *badiner*?) cellwair; cydgam, chwerthin am ben, gwawdio, llonwawdio, saethyta.

Banter, *s.* cellwair, celchwar, llonwawd, gwawd, digrifwawd, digrifwch.

Banterer, *s.* (o *banter*) cellweiriwr, cydgamwr, llonwawdydd, digrifwr.

Bantling, *s.* (Al. *bankart*?) maban, baban, plentyn, plentyn bach.

Baphomet, *s.* (llygriad, tebygol, o *Mahomet*) eilun dychymygol y Temlyddion.

Baptism, *s.* (Gr. *baptisma*, *baptismos*) bedydd.
Infant baptism—bedydd babanod.

Baptismal, *a.* (o *baptism*) bedyddiol.
Baptismal font—bedyddfaen, bedyddfan.
Baptismal vow—adduned bedydd.

Baptist, *s.* (Gr. *baptistês*) bedyddiwr; *pl.* bedyddwyr.
John the Baptist—Ioan Fedyddiwr.
Baptist minister—gweinidog y Bedyddwyr, gweinidog bedyddiol.

Baptistery, *s.* (Ll. *baptisterium*) bedyddfa, bedyddfan, bedyddfaen, bedyddle.

Baptistic, } *a.* (o *baptist*) bedyddiol; perth-
Baptistical, } ynol i fedydd.

Baptistable, *a.* (o *baptist*) bedyddadwy.

Baptize, *v. a.* (Gr. *baptizô*) bedyddio.

Baptizer, *s.* (o *baptize*) bedyddiwr, bedyddiedydd.

Bar, *s.* (C. *bâr*; Ff. *barre*; It. *barra*) bâr; bollt, trosol, gweilging; rhwystr, lludd, llestair, attaliad; annod, oed.
Iron bar—bâr haiarn; bâr o haiarn.
Bar of soap—bâr o sebon, agalen o sebon.
Thou shalt make bars of Shittim wood—gwna farau o goed Sittim.
To stand at the bar—sefyll wrth y bâr; sefyll o flaen y bâr; sefyll o flaen y fainc; sefyll o flaen y frawdle; sefyll ger bron y frawdle; sefyll mewn llys; sefyll yn ngwyneb llys.
When I first appeared at the bar—pan ymddangosais gyntaf wrth y bâr; pan ddadleuais gyntaf o flaen y fainc; pan ddadleuais gyntaf yn ngwyneb llys.
He was called to the bar—galwyd ef i'r bâr; galwyd ef at y bâr; dyrchafwyd ef i'r ddadleufa; galwyd ef i ddadleu.
Bar of an inn—bâr gwestty, bâr tafarn.
Bar-maid—barweinyddes, barferch, morwyn bâr.
Cardigan bar—bâr Aberteifi.
Bar of a door—bâr drws, bollt drws.
The bar of public opinion—barn y wlad; brawdle y cyhoedd; llais y wlad.
Bar (in music)—ban, bâr.
Double bar—deufar, deufan, bâr dyblyg.
Bars gemels—gefellfarau.
Bars of a plough—probwyllau.

Bar, *v. a.* bario, bolltio; attal, lluddio, rhwystro; annodi, oedi, gohirio, eithro; llysu, gwrthod; trecio.
To bar the door—bolltio y drws, bario y drws; rhoi y bâr ar y drws.
To bar out—cau allan; bario allan; gwahardd.

Barb, *s.* (Ll. *barba*; C. *barf*; Cern. *bar*) adfach, gafiach, gwrthfach; barf; blaen arf; tagell.
Barb of an arrow—barf saeth, adfach saeth.

Barb,† *v. a.* (Ll. *barba*; C. *barf*) eillio, trwsio y farf; adfachu; trecio march.

Barb, *s.* (talfyriad o *Barbaria*, gwlad yn Affrica) ceffyl o Barbaria, Barb.

Barbacan, } *s.* (Ff. ac It. *barbacane*) rhagwerth-
Barbican, } yr, murglawdd, rhagfwrch; gwnorel, magneldwr.

Barbarian, *s.* (Gr. *barbaros*; Ll. *barbarus*) barbariad; anwariad, anfoesog, anwaryn, anfoesyn, creuloniad; estron: *pl.* barbariaid, anwariaid, anfoesogion, creuloniaid, estroniaid.
They put the multitudes of the barbarians to flight—hwy a yrasant dyrfaoedd y barbariaid i gilio *neu* ar ffo.
I am a debtor both to the Greeks and to the Barbarians—dyledwr ydwyf i'r Groegiaid ac i'r Barbariaid hefyd.

Barbarian, *a.* barbaraidd, anwaraidd; anfoesaidd, difoes, trwsgl, annysgedig, anghyfieithus; creulawn, annynol, ciaidd.

Barbaric, *a.* (Ll. *barbaricus*) tramor, pellenig; o'r gwledydd pell; barbarig.
Barbaric gold—aur tramor, aur o'r gwledydd tramor.
Barbaric pearl and gold—myrierid pell ac aur.

Barbarism, *s.* (Ll. *barbarismus*) lledaith, llygriaith, anghyfiaith, anwariaith, brithiaith; llygrair; annysg, anfoes; anfoesogrwydd, creulonedd, anwaredd.

Barbarity, *s.* (o'r Ll. *barbarus*) barbariaeth, anwariaeth, anwaredd; creulondeb, creulonedd, ffyrnigrwydd, annynoliaeth; lledaith.

Barbarize, *v. a.* (Ll. *barbarus*) barbareiddio, anwareiddio, anfoeseli.

Barbarous, *a.* (Ll. *barbarus*) anwar, anwaraidd, barbaraidd; anfoesog, difoes, diddysg, aniwyllus, trwsgl, taiog, gwladaidd, gwrthun; anghyfiaith, anghrocw; gwyllt; creulawn, ffyrnig, annynol, ciaidd, milain, milus.

Barbarous expression—gair anghyfiaith, llygrair; ymadrodd trwsgl; lledíaith.
To speak barbarously—llefaru yn anghroew, dywedyd llediaith.
Destroy not so cruelly and barbarously—na ddystrywia mòr greulawn ac mòr annhrugarog.

Barbarousness, *s.* (o *barbarous*) anwaredd, barbaredd; anfoesogrwydd, anfoesgarwch, trysgledd, taiogrwydd, gwrthunedd; creulonedd, creulondeb, ffyrnigrwydd, annynoldeb, mileindra.

Barbary, *s.* (*Barbary* neu *Barbaria*) ceffyl o wlad Barbaria.

Barbate, **Barbated**, *a.* (Ll. *barbatus*, o *barba*) barfog.

Barbe, *s.* (Ff.) troswalc, trosfur.

Barbecue, *s.* (gair Americaidd) cyfanrost=anifel wedi ei drin yn gyfan.

Barbecue, *v. a.* cyfanrostio, cyfandrin; trin yn gyfan; trin anifel yn gyfan.

Barbed, *a.* (o *barb*) adfachog, barfog, gaflog, gaflachog; arfog; cyfgaened, ollarfog; adfachedig, barfogedig; eilliedig.
Barbed horse—march ollarfog, march cyfgaened; march arfog.
Barbed and crested—tagellog a chribog.
Barbed arrow—saeth adfachog, picell farfog, picell aflog.
Canst thou fill his skin with barbed irons?—a lenwi di ei groen ef â phigau heiyrn?

Barbel, *s.* (Is. *barbeel*; Ff. *barbeau*; Ll. *barbus*) barfogyn; *pl.* barfogion=enw pysgodyn.

Barbellate, *a.* (Ll. *barba*) barfedigol.

Barber, *s.* (Ll. *barba*, barf) eilliwr, barfwr, barfydd, eilliedydd.
Barber's shop—eilldy, ty eillio.
Barber-surgeon—crachfeddyg.
Take thee a barber's razor—cymmer iti ellyn eillio.

Barber, *v. a.* eillio; tori gwallt, trwsio gwallt.

Barberess, *s.* (o *barber*) eilliedyddes, barfyddes.

Barberry, *s.* (Ll. *berberis*; Gw. *barbrog*) pren melyn, draenen ysbinus, ysbinwydden, ysbinys.

Barbet, *s.* (Ll. *barba*) barfedn, barfednog: *pl.* barfednod, barfednogion; barfigion.

Barbican, *s.* (Ff. ac It. *barbacane*)=*Barbacan*.

Barbiton, *s.* (Gr.) offeryn cerdd, telyg, meddir, i delyn, arferedig gàn yr hynafiaid.

Bard, *s.* (C. *bardd*; Gw. a Gael. *bard*; Ll. *bardus*; Ff. *barde*) bardd, (*pl.* beirdd, beirddion); prydydd.
Graduated bard—bardd cadeiriog, cadeirfardd, bardd caw.
Court bard—bardd llys.
Royal bard—bardd breninol, bardd y brenin, teyrnfardd, breinfardd.
Domestic bard—bardd teulu.
Itinerant bard—clerwr, treiglfardd, bardd treigl, cyrchynfardd, bardd teithiol.
Primitive bard—cynfardd.
Mediæval bard—gogynfardd, bardd canoloesol.
Female bard—barddes; prydyddes.
Bard's cowl—barddgwcwll.

Bard, *s.* (It. *barda*) marchaddurn, marchwisg, trec march.

Barded, *p. a.* (o *bard*) seirchiedig, mewn seirch; llurigog, arfog.

Bardic, *a.* (C. *berddig*) berddig, barddol.
Bardic alphabet—coelbren y beirdd.

Bardish, *a.* (o *bard*) barddaidd, barddol, berddig, barddonaidd.

Bardism, *s.* (o *bard*) barddas, barddaeth, barddawd, barddin; barddoniaeth, barddoni.

Bare, *a.* (S. *bar* neu *bær*; Al. *bar*) noeth, llymrig, llwm, moel, noethlwm; tlawd, angenus; diaddurn; unig.
To make bare—noethi, dynoethi, dihatru, llymhau, moeli; tlodi, teneuo.
Bare of money—llwm o arian; gwag o arian; mewn angen am arian.
Bare on all sides—amnoeth, noeth o bobtu.
To make one's self bare—ymnoethi, ymddihatru, ymddïosg, ymfoeli.
Thread-bare—llwm, lledlwm, croenllwm; treuliedig.
Bare assertion—haeriad noeth.
Rather bare—lledlwm, go lwm, lled lwm.
I have made Esau bare—mi a ddynoethais Esau.
To become bare—myned yn noeth, llwm, llymrig, *neu* foel; llymhau, noethi, moeli; truanu.

Bare, *v. a.* (S. *abarian*) noethi, dynoethi; moeli, dihatru; llymhau, llymrigo.
To bare the head—pennoethi, noethi y pen.

Barebone, *s.* (*bare* a *bone*) goachul, gewai, ysgerbwd.
He is a barebone—nid oes ond ei lun.

Bareboned, *a.* (o *barebone*) cul, teneu, esgyrnllwm; dim ond y croen a'r esgyrn.

Barefaced, *a.* (o *bare* a *face*) gwynebgaled, gwynebagored, digudd, hysbys; amlwg; digywilydd, haerllug.
Barefaced falsehood—celwydd noeth; celwydd goleu.

Barefacedness, *s.* (o *barefaced*) haerllugrwydd, digywilydd-dra, rhyfyg, gwynebgaledwch.

Barefoot, **Barefooted**, *a.* (o *bare* a *foot*) troednoeth.
To dance barefoot—dawnsio yn droednoeth; corelwi yn droednoeth.
He generally went barefooted and barelegged—ai yn fynychaf yn droednoeth goesnoeth.

Bareheaded, *a.* (o *bare* a *head*) pennoeth.

Bareheadedness, *s.* (o *bareheaded*) pennoethder, pennoethni.

Barelegged, *a.* (o *bare* a *leg*) coesnoeth, esgeirnoeth, llymgoes, llymgoesog.

Barely, *ad.* (o *bare*) yn noeth, yn llwm, yn dlawd; prin, braidd, yn brin, o braidd, o'r braidd.
A prince barely in title—tywysog mewn enw yn unig; tywysog mewn enw heb ddim yn rhagor.
He barely lives—y mae yn byw o braidd; prin y mae yn byw.

Barenecked, *a.* (o *bare a neck*) gwàrnoeth, gyddnoeth; dïorchudd.

Bareness, *s.* (o *bare*) noethder, noethni; llymder, moelder, moeledd; culder, teneuder, culni; prinder, tlodi.

Bareribbed, *a.* (o *bare* a *rib*) eisnoeth; cul, teneu.

Baret, *s.* cap cynorog.

Barful, *a.* (o *bar* a *full*) rhwystrog, llawn o rwystrau, lluddiol.

Bargain, *s.* (Ff. *barguigner*) cytundeb, ammod, ammodiad, bargen, newid, cyfnewid; pryniad.

He had a bargain of it—efe a gafodd newid arno; cafodd fargen arno; yr oedd newid arno iddo.
Mutual bargain—cydfargen, cydammod, ymobryn.
To make the best of a bad bargain—gwneyd y goreu o'r gwaethaf.
To strike a bargain—taro'r fargen; taro yr ammod; taro i bant.
Into the bargain—yn y fargen; i wella 'r fargen; dros ben; i wella yr ammod.

Bargain, *v.* cytuno, ammodi, bargena, bargenio, bargeinio, marchnata, ffeirio; gwerthu.
Bargainee, *s.* (o *bargain*) ammodai, bargenai; prynwr.
Bargainer, *s.* (o *bargain*) cytunwr, ammodwr, bargenwr, ffeiriwr; y gwerthwr.
Barge, *s.* (*Is. bargie;* It. ac Ysp. *barca;* Gael. a Gw. *barc*) ysgraff, ysledfad, bad; tlysfad, teyrnfad.
Bargeman, *s.* (*barge* a *man*) ysgraffwr, badwr.
Bargemaster, *s.* (*barge* a *master*) penysgraffwr, meistr ysgraff *neu* fad.
Barger, *s.* (o *barge*)=*Bargemaster.*
Barilla, *s.* (Ysp.) halwymon; lludlyrlys, llyrlymaint; llyrlys Yspaen.
Baritone, *s.* (Gr. *barus* a *tonos*)=*Barytone.*
Barium, } *s.* (o'r Gr. *barus*) math o fettel,
Barytum, } a ddarganfuwyd gan Syr H. Davy yn 1807.
Bark, *s.* (D. *bark;* Sw. *barck*) rhisg, rhisgl; rhisgyn, rhisglyn.
Decoction of bark—rhisgwy.
Peruvian bark—rhisg Periw; rhisgl y cryd.
Bark-bed, } gwely rhisgl; rhisgdwymdy,
Bark-stove, } twymdy rhisg.
Bark, *v. a.* rhisgo, rhisglo, dirisglo, pilio.
Bark, } *s.* (Llyd., Gw., a Gael. *barc;* Ff. *bar-*
Barque, } *que*) llong drihwyliar, llong drihwylbren, barg.
Bark, *v. n.* (S. *beorcan, byrcan*) cyfarth, arthio, dyrfarth.
To bark at—cyfarth ar.
Barkary, *s.* (o *bark*) rhisgfa, rhisgle.
Barkbared, *a.* (*bark* a *bare*) dirisgl, dirisgledig.
Barker, *s.* (o *bark*) cyfarthwr, cyfarthydd; rhisglwr, rhisgydd, rhisglydd, rhisgwr.
Barking, *s.* (o *bark*) cyfarthiad, arthiad, cyfarth.
Barking-Irons, *s. pl.* piloffer; pilbren.
Barky, *a.* (o *bark*) rhisgog, rhisglog.
Barley, *s.* (C. *barlys*) haidd, barlys; heiddwellt.
Barley-bread—bara haidd, bara barlys.
Barley-broth—cawl haidd; dïod gadarn.
Barley-corn—heidden, heiddyn, barlysyn.
Barley-grass—heiddwellt.
Barley-meal—blawd barlys, blawd haidd.
Barley-mow—beisgawn haidd, mwdwl barlys, ysgafn o haidd.
Barley-sugar—breusugr, breusugar.
Barley-water—heiddwy, dwr haidd.
Long-eared barley—barlys hirdwys, haidd hirdwys.
Naked barley—barlys moel.
Wall-barley, } heiddwellt y muriau.
Mouse-barley, }
Barm, *s.* (S. *beorm;* Al. *bärme*) burym.
Barmy, *a.* (o *barm*) burymog; swyfog.
Barn, *s.* (S. *berern*) ysgubor, ytty, heiniardy.
Small barn—ysguboran, ysguborig.
Hay barn—gweirdy, ty gwair.
Barn floor—llawr ysgubor, llawr dyrnu.

Barnacle, *s.* (Ff. *barnacle, barnaque*) genfa, penwar; gefail drwyn, y wefl felus.
Barnacle, } *s.* (Ff.; Port. *bernaca*) gwyran: *pl.*
Bernacle, } gwyrain, adar gwyran=math o ŵydd fôr.
Barometer, *s.* (Gr. *baros* a *metron*) hinfynag, hinraddog, awyrfynag.
Barometrical, *a.* (o *barometer*) hinfynegol, hinraddol.
Barometrograph, *s.* (Gr. *baros, metron,* a *graphô*) hinfydrebyr.
Baron, *s.* (Ll. *baro;* Ff. ac Al. *baron*) baron, barwn, brëyr; arlwydd, arglwydd.
Barons of the exchequer — baroniaid y syllttу; arglwyddi yr argedlys.
Lord chief baron — arglwydd brif farwn, arglwydd ben baron, yr arlwydd brif faron.
Barons of the Cinque Ports—baroniaid y Pum Porthladd.
Baron and femme—gwr a gwraig.
Baron-land—barondir, breyrdir.
Court-baron—baronlys, breyrlys, llys brëyr, llys breyrol, llys baron.
Baronage, *s.* (o *baron*) baroniaeth, breyriaeth, barwniaeth; arglwyddiaeth; barondod.
Baroness, *s.* (o *baron*) barones, barwnes, breyres; arglwyddes, arlwyddes.
Baronet, *s.* (Ff. bychanig o *baron*) baronig, barwnig, breyrig.
Baronetage, *s.* (o *baronet*) baronigaeth, breyrigaeth.
Baronetcy, *s.* (o *baronet*) baronigaeth, breyrigaeth, baronigdod=senw ac urddas baronig.
Baronial, *a.* (o *baron*) baronol, baronaidd, breyrol, barwnol.
Barony, *s.* (o *baron*) baroniaeth, barwniaeth.
Baroscope, *s.* (Gr. *baros* a *scopeô*) awyrnodydd, awyrbwysai; hinfydrai.
Baroscopic, *a.* (o *baroscope*) awyrnodol, hinfydrol.
Barouche, *s.* (Al. *barutsche*) rhythgerbyd, rhythglud=math o gerbyd pedrolwyn.
Barracan, *s.* (It. *baracane*) panwe, tew-nwydd.
Barrack, *s.* (Ysp. *barraca*) lluest, lluestty, lluestfa, lluest milwyr, catrotty: *pl.* lluestau, luesttai, lluestfaoedd, catrottai.
Barrack-master—lluestydd, lluestwr.
Barrack-master general—penlluestydd.
Barrator, *s.* (hen Ff. *barat,* cynhen; It. *baratta*) cyfreithgarwr, ymgyfreithiwr; cecryn; twyllgadben.
Barratrous, *a.* (o *barrator*) cyfreithgar, ymgyfreithgar.
Barratry, *s.* (o *barrator*) cyfreithgarwch.
Barred, *p. a.* (o *bar*) bariedig, bolltiedig; attaliedig, lluddiedig; gwaharddedig; brith, brithedig, croes, rhwyllog, bârog.
Barrel, *s.* (C. a Ff. *baril*) baril; barilaid.
Barrel of beer—barilaid o gwrw.
Barrel, *v. a.* barilo.
Barrel-bellied—cestog, boliog.
Double-barrelled gun—dryll dwyfaril, gŵn dwy faril.
Barren, *a.* (S. *bar, bær*) anffrwythlawn; anmhlantadwy, diblant, dïepil, anfab; hysp, (*f.* hesp), difiith; diffrwyth, diffaeth; sych.
Barren land—diffaethwch, diffaethdir, tir diffaeth, tir diffrwyth.
Barren womb—croth anmhlantadwy.
Barren cow — buwch hesp, buwch goeg, buwch ryderig.

Thy cows are barren—hyspion yw dy wartheg.
Barren-wort—anhiliog, yr anhiliog.

Barrenness, *s.* (o *barren*) anffrwythlondeb, anffrwythlonder, anffrwythlonedd, diffrwythder; hysprwydd, hyspedd, diepiledd, anhiledd; prinder.
He turneth a fruitful land into barrenness—efe a wna dir ffrwythlawn yn ddiffrwyth.

Barricade, } *s.* (Ff. *barricade;* It. *barricata*)
Barricado, } brysgaer, brysglawdd, bargae, attalgae, bardel, attalglawdd=amddiffynfa neu gaerwaith â wneir mewn brys, o goed, daiar, certwyni, a phethau cyffelyb: caerwaith; rhwystr.
Barricade of trees—bardelwydd, attalgoed.

Barricade, *v. a.* rhwystro, lluddio, cau i fyny; attalgau, attalgloddio.

Barrier, *s.* (Ff. *barrière*) attalgaer, buddelgaer; terfyn, cyffin; diffynfa, caerfa, argae.

Barrister, *s.* (o *bar*) dadleuwr, dadlydd, cynghawsydd, bargyfreithiwr, barofydd.

Barrow, *s.* (S. *berewe;* Al. *bahre;* C. *berfa*) berfa, carthglwyd.
Hand-barrow—berfa ddwylaw.
Wheel-barrow—berfa olwyn, berfa olwynog, berfa drol.
Barrow-man—berfâwr, berfâydd, gyrwr berfa.

Barrow, *s.* (S. *berga, beorgh*) mochyn; mochyn dysbadd, twrch.
Barrow-grease—bloneg mochyn, bloneg twrch.

Barrow, *s.* (S. *beorg, byrgen*) crug, gwyddgrug, gwyddfa, carnedd, carn; tomen, twmpath.

Barrulet, *s.* (o *bar*) pedryfar, pedran bâr.

Barry, *a.* (o *bar*) barog, barwedd.

Barse, *s.* (Al. *barsch*) ysbinbysg.

Barshot, *s.* (*bar* a *shot*) barbeled, barbelen, barbel, pelen ddeupen.

Barter, *v.* (Ysp. *baratar;* It. *barattare*) amnewid, nwyddnewid; newid, cyfnewid, trafnidio, cyngwerthu, ffeirio, cyfwerthu.

Barter, *s.* amnewidiaeth, newidiaeth, nwyddnewidiaeth, cyfnewidiaeth, cyfwerthiant.

Barterer, *s.* (o *barter*) amnewidiwr, nwyddnewidiwr; cyfnewidiwr, newidiwr, newidydd, ffeiriwr, cyngwerthydd, cyfwerthydd.

Bartery, † *s.* (o *barter*)=*Barter*.

Barton, *s.* (S. *bere-ton*=barley-town) maenor, maenol; maenorfa.

Bartram, } *s.* (Ll. *pyrethrum*) pelydr gwyllt.
Bertram, }

Bartsia, *s.* (oddi wrth Dr. Ioan *Bartsch*) gorudd, Bartsia=enw llysieuyn.
Red Bartsia—gorudd, gwaedlys bychan.

Baryphony, } *s.* (Gr. *barus* a *phonê*) ffeigeb,
Baryphonia, } attal dywedyd.

Baryta, } *s.* (Gr. *barutês*) daiar drom, trom-
Barytes, } ddaiar.

Barytic, *a.* (Gr. *barutês*) barytig, tromddaiarig, perthynol i ddaiar drom.

Barytone, *s.* (Gr. *barus* a *tonos*) tromsain, tromsacan, tromacen.

Barytone, *a.* tromsain, trymsain.

Basal, *a.* (o *base*) seiliol, bonsangol, gwaelodol.

Basalt, *s.* (Ll. *basaltes*) colofgraig=craig galed, golofnog, o liw duaidd.

Basaltic, *a.* (o *basalt*) colofgreigiol, basaltig.

Basanite, *s.* (Gr. *basanos*) iaspis du, maen iaspis du, maen Lydia.

Bascinet, }
Basinet, } *s.* (o *basin;* Ff. *basinet*) penial,
Basnet, } penor, penffestin, helm.

Base, *a.* (Ff. *bas;* C. *bâs*) gwael, isel, distadl, dibris; brwnt, (*f.* bront), budr, bawaidd, diffaeth, anaddwyn, dyhir, bas, dybryd, gwrthun, gwarthus; gorwael, diwerth, arwael, anwiw, anweddaidd, annhelediw, anhyglod; adlawaidd, dirmygus, arlyth; gau, ffugiol; cymmysg, llygredig; iselwaed, iselradd; hagr, salw; dwys, dwfn.
Base action—gweithred ddybryd; gweithred annhelediw; cyflafan ddybryd; gweithred front; gweithred wael.
Base trick—tro brwnt, ymdro dichellgar, drwg ystranc; tro bawaidd, bawlyd, *neu* iselwael.
Base tricks—castiau mân, pranciau drwg; troion brwnt; castiau bawaidd.
Base fellow—bawddyn, bawyn, bawai, adill.
Thou art a base wretch—anwr *neu* adyn ydwyt; dyhiryn wyt; adyn gwael wyt.
Base woman—dyhiren, dyhirog.
The basest of men—y gwaelaf o ddynion.
It shall be the basest of the kingdoms—isaf fydd o'r breniniaethau.
He is of the basest rank of men—adlaw ydyw; adill ydyw.
I will be base in my own sight—byddaf ddirmygus yn fy ngolwg fy hun.
Money of base alloy, } arian drwg; arian
Base money, } gau, llygredig, *neu* gymmysg; arian ffugiol.
Base tenure—caethafael, caethddaliad, taiogafael.
Land in base tenure—tir cyfrif, tir caethafael; taiogdref.
Base court—adlys; tu cefn, clos, ffald.

Base, *s.* (Gr. a Ll. *basis;* Ff. *base;* It. *base*) sylfaen, sail, gwaelod, gwadn, bonsang, bon, sylfon, gosail, ysbur, syl, murdd, ystol, seilwadn; sawd; coeswisg; hws, suder; cyflegryn.
Base of a pillar—ysbur; gwadn, troed, *neu* fonsang colofn.
Base (in chemistry)—sawd, sodai, gwaelod.
Base-mouldings—sodrigolau.

Base, } *s.*=
Bass, } *Bass.* *Base.*

Base, *v. a.* seilio, sylfaenu, seiliannu, gwadnu, gosod sylfaen; gwaelu, iselu.

Baseborn, *a.* (*base* a *born*) basdarddaidd; o ordderch; isel, gwael, iselwaed, iselradd.
Baseborn child—basdardd, basderddyn, plentyn gordderch; mab gordderch, (*f.* merch ordderch); plentyn basdardd.

Baseless, *a.* (*base* a *less*) diseil, disylfaen, disylwedd.
The baseless fabric of a vision—adeilad ddiseil gweledigaeth nos.

Baseline, *s.* (*base* a *line*) basiin, basiinell.

Basely, *ad.* (o *base*) yn wael, yn isel, &c.
To act basely—ymddwyn yn fawaidd; gwneuthur yn frwnt.
To come off basely—ymdaro yn frwnt.

Basement, *s.* (o *base*) seiliad, bonad; sylfan, llawr, sylfa, syl.

Base-minded, *a.* gwaelfrydig, gwael ei feddwl, gwael o feddwl; o feddwl gwael *neu* anwraidd.

Base-mindedness, *s.* gwaelfrydedd, gwaeledd meddwl, gwaelfrydigrwydd.

Baseness, *s.* (o *base*) gwaelder, gwaeledd, gwaeldra, distadledd, distadlrwydd, diffeithder, anaddwyader, salwedd, anenwogrwydd; isder gradd; gwarthusrwydd, dyhirwch; brynti, baweiddrwydd; gwrthuni; geuoldeb, ffugioldeb; crintachrwydd; basdarddiad; anwredd; dwysder sain.

Baseness of birth—basdarddiad, lledryw, lledach, iselder gwaed, salwedd ach; haniad gordderch.

Basenet, } *s.* (*Ff. basinet*) penial, penor, helm,
Basnet, } penffestin.

Bash, *v. n.* (Is. *verbaasen*; H. *bosh*) cywilyddio.

Bashaw, *s.* (*Ar. basha*; Per. *pasha*) Pasha, Basha; rhaglaw, rhaglofydd=senw à roddir i raglawiaid, pensaethiaid, cadfridogion, a phendefigion ereill, yn amherodraeth Twrci: gormesydd, gormeilydd; balchyn.

Bashful, *a.* (o *bash*) gwylaidd, gŵyl, yswil, gorwylaidd, cywilyddgar, gwladaidd, gwyleddog, mulaidd, cynwyl, cyrchwylus; aneofn, ofnus.

Somewhat bashful—go wylaidd, lled wylaidd, go yswil, lled ŵyl, lled yswil, mulaidd, goful, lledful.

Of a bashful disposition—gwylaidd, yswil, gŵyl, mulaidd.

Bashfully innocent—mulwirion.

Bashfulness, *s.* (o *bashful*) gwylder, gwyledd, yswilder, yswildra, gorwyledd, gorwylder; gwladeiddrwydd, mulder, cynwyledd, symlrwydd, cywilyddgarwch, cyrchwyledd.

Bashless, *a.* (*bash* a *less*) digywilydd, diwylder, diwyledd.

Basic, *a.* (o *base*) sodig, halsodig, gwaelodol; seiliol, bonol, bonsangol, seiligol.

Basifier, *s.* (o *basify*) sodydd, sodeiddiwr.

Basify, *v. a.* (Ll. *basis* a *facio*) sodeiddio, sodigo.

Basil, *s.* (anhysbys) minosgo, minosg; osgofn, osgfin.

Basil, *v. a.* osgfinio, osgfiniogi, hogi minosg.

Basil, } *s.* (Dwyreiniol *bazw*, dihatru) croen
Basan, } dafad, molltgroen.

Basil, *s.* (*Ff. basilic*; It. *basilico*) breninllys, basil.

Great basil—breninllys dof.

Wild basil, } breninllys gwyllt.
Field basil, }

Stone basil—gruwlys, gruw.

Basil weed—breninllys gwyllt.

Basilar, } *a.* (*Ff. basilaire*; Ll. *basilaris*) prif,
Basilary, } penaf; gwaelodol, seiligol.

Basilic, *s.* (Gr. *basilicê*; Ll. *basilica*) breninllys, breninfa, urddasdy, neuaddlys; esgobllys, esgobdy; eglwys, eglwys gadeiriol, capel.

Basilic, } *s.* gwythen yr afu; gwythen ganol y
Basilica, } fraich; alwythen.

Basilic, } *a.* cadeiriol, bangorol; neuaddol;
Basilical, } alwythenol; perthyn i wythen ganol y fraich.

Basilicon, *s.* (Gr.) alenaint, enaint, basilicon.

Basilisk, *s.* (Gr. *basiliscos*) y fad felen, ceiliog neidr; cobwiber; cyflegr mawr, algonon.

Basin, } *s.* (*Ff. bassin*) cawg, mail, oged,
Bason, } osgyd, golchlestr; dyfrgist, pantlyn, llynwyn, cronbwll, nofle, llongle, noflyn; machwy; haenbant; pannyledd, pant, pantle.

Small basin—cogyn, meilyn, cawgyn.

Washing basin, } cawg ymolchi.
Wash-basin, }

Bason-ful—cogaid, meilaid, cawgaid, llonaid cawg.

Venus's bason—llysiau'r cribau, cribau'r panwr.

London basin—pannyledd Llundain.

The coal-basin of South Wales—pannyledd glo Deheubarth Cymru; cae glo y Deheudir; globant y Deheubarth.

Basin-shaped—cawgaidd; ar ddull mail *neu* gawg.

Basin of a balance—pen tafal.

Basis, *pl.* **Bases**, *s.* (Gr. a Ll.) sylfaen, sail, gwaelod, gwadn, bonsang, bonsail, bon, sylfon, ysbur, syl, gosail; sawd; seilwaith.

What is the basis?—beth yw y sail? pa yw y sail? pa beth yw y sylfaen? pa sail y sydd?

Basist, *s.* (o *base*) cantor isalaw.

Bask, *v.* (Is. *backeren*? Gw. *baisgam*?) ymheulo boldesu, ymdesota, bronheulo, bolheulo, torheulo, ymfoldesu, ymfolheulo, ymdordaen, ymorheulo; heulo, cynhesu.

Basking shark—tesbysg, heulbysg; tesforgi.

Basket, *s.* (C. *basged*) basged, cawell, basgawd, mwys, fflasg; basgedaid, cawellaid.

Little basket—basgedan, basgedyn, cawellan, cawellig.

Reed basket—basged gyrs.

Twig basket, } basged ferhelyg; cesten,
Wicker basket, } cest.

Clothes basket—fflasg ddillad, basged ddillad.

Hand basket — basged law, llawfasged, maned.

Fishing basket—cawell pysgota.

Butter basket—basged ymenyn.

Basket-work—basg, basgwaith.

Basket-maker — basgedwr, gwneuthurwr basgedi.

Basket woman—basgedes, basgedyddes.

Basket hilt—carn basged.

Basket-hilted sword—cleddyf carn basged, cleddyf basgedol; cleddyf â'i fenybr ar wedd basged.

Basket-ful—basgedaid, cawellaid, fflasgaid, llonaid basged *neu* gawell.

The contents of a basket=*Basket-ful*.

Basket-like—basgedaidd, basgedol.

They filled twelve baskets with the fragments—hwy a lanwasant ddeuddeg basgedaid o'r briwfwyd.

Basket-fish—y forseren.

Basket-salt — terhalen, halen ter, halen bord.

Basket, *v. a.* basgedu; rhoi *neu* osod mewn basged; fflasgu.

Bass, } *s.* { It. *basso* } isalaw, sawd, byrdon,
Base, } { Ll. *basis* } byrddwn, islais.

Thorough bass—trysawd.

Double bass—deusawd.

Bass-string—llorfdant.

Bass-clef, } allwedd yr isalaw.
Bass-cliff, }

Bass-viol, } sodgrwth, crwth y byrdon.
Base-viol, }

Bass-voice—yr islais, sodlais; isalaw.

Bass-relief, }
Basso-relievo, } iselsaf, basalun, basddelwad.
Low-relief, }

Bass, *a.* isel, bas, dwfn, dwys.

Bass, *v. a.* dyfnseinio, dyfnleisio, sodleisio.

Bass, *s.* (Al. *barsch*; Is. *baars*) graenbysg.

Bass, } **Bass-wood,** } *s.* (Is. a D. *bast !*) gwaglwyfen, (*pl.* gwaglwyf), piagwydden, (*pl.* piagwydd).

Bass, } **Bassoc,** } *s.* rhestog, mat, hesgwe, bannas.

Bassa, *s.*=*Bashaw.*

Basset, *s.* (Ff. *bassette*) math ar chwareu cardiau.

Basset, *v. n.* gogwyddo i fyny; gogwyddo tuag i fyny.

Basset-horn, *s.* tolgorn.

Basseting, *s.* (o *basset*) gogwyddiad i fyny.

Bassetto, } **Bassette,** } *s.* (It.) sodgrythan.

Basso-continuo, *s.* (It.) trysawd.

Basso-violino, *s.* (It.) sawd y sodgrwth, isalaw y sodgrwth.

Bassoon, *s.* (Ff. *basson;* It. *bassone*) sodbib, sawdbib.

Bassoonist, *s.* (o *bassoon*) sodbibydd, dadgeinydd ar y sodbib.

Bast, *s.* (D. ac Is. *bast*, rhisg) rhisgraff; pisgraff, rhaff lwyf.

Bastard, *s.* (C. *basdardd;* Llyd. *bastard;* Gw. *basdard*) basdardd, basderddyn; plentyn gordderch, mab gordderch, merch ordderch; cysswynfab, mab llwyn a pherth; anhap: *pl.* basdarddiaid, basdarddion, basdeirdd.

Bastard child—plentyn gordderch, basdardd.

Bastard son—mab gordderch, basdardd, cysswynfab.

Female bastard—basdarddes, merch ordderch, merch gysswyn.

A little bastard—basderddyn.

Bastard, *a.* basdarddol, basdarddaidd; diryweidig, lledrywiog, llygredig, diryw, lledryw, wedi dirywio; gau.

Bastard Welsh—Cymraeg lygredig *neu* ledrywiog.

Bastard balm—gwenynog, y wenynog.

Bastard hope—gobaith gau.

Bastard wing—aden ledryw.

Bastard, *v. a.* basdarddu, basdarddio.

Bastardism, *s.* (o *bastard*) basdarddiaeth.

Bastardize, *v. a.* (o *bastard*) basdarddu, basdarddio, basdarddoli; profi yn fasdardd.

Bastards, *s. pl.* Basdarddiaid=haid o ladron â ysbeilient dir Gwyain yn Ffrainc yn y 14ydd canrif.

Bastardy, *s.* (o *bastard*) basdarddiaeth, gorderchiaeth.

Baste, *v. a.* (Ysp. *baston;* It. *bastone;* Ff. *bâton*) pastyno, ffonodio, curo; iro, sewio.

Baste, *v. a.* (Ysp. *basteur;* It. *imbastire*) brasbwytho, hirbwytho, go-wnio.

Bastile, *s.* (Ff. *bastille*, o *bâtir*, am *bastir*) carchar yn Paris gynt: carchar, carcharle.

Bastinade, } **Bastinado,** } *s.* (Ff. *bastonnade;* Ysp. *bastonada*) pastyniad, ffonodiad, ffustiad, curfa, dwysguriad; pedlachiad, pedffustiad =cosp yn mhlith y Tyrciaid o guro gwadnau traed y troseddwr.

Bastinade, } **Bastinado,** } *v. a.* pastyno, ffonodio, ffondorio, ffusto; pedffusto, pedffonio, pedlachio.

Basting, *s.* (o *baste*) pastyniad, ffonodiad; iriad, sewiad; brasbwythiad, hirbwythiad.

Basting stitch—brasbwyth, hirbwyth, gowni.

Basting thread—edaf frasbwytho, edeu frasbwyth.

Bastion, *s.* (Ff. ac Ysp.) rhagfur, gwrthglawdd, clawdd, bwrch, amddiffynfa.

Baston, } **Bastoon,** } *s.* (Ysp.) bonrigol, sylrigol=talaith addurnol bonsang colofn mewn adeilyddiaeth: byrllysg=baryn mewn arfbais, yn cyrhaedd, o fewn ychydig, o gornel bwgilydd i'r maes, gân ddisgyn ar osgo o'r tu de tua'r tu aswy.

Bat, *s.* (S.) humog, hum, human, humig; clwpa, ysgi, cnwpa, cwlbren; cleifaen, llosgleifaen; dernyn o briddfaen.

Cricket bat—tafarch, humog, hum, human, clwpa.

Brick-bats—darnau priddfeini.

Bat, *v. n.* humio, tafarchu, ysgïo; chwareu pel a chlwpa.

Bat, *s.* (anhysbys) ystlum, ystlumyn, ysbril.

Bat-fowling—nosadariad.

Bat-fowler—nosadarwr, daliwr adar yn y nos.

Batable, *a.* (o *bate*) dadleuol, dadladwy, dadleuadwy.

Batable ground—tir cyffin, tir amryson.

Batch, *s.* (o *bake;* Is. *bakzel*) pobiad, poblwyth, ffyrnaid, crasiad; armerth.

Bate, *s.* (S.) cynhen, amryson, ymrafael.

Make-bate—heuwr ymryson, pwt y gynhen, mam y drwg.

Bate, *v.* (Ff. *battre*)=*Abate.*

Bateau, *s.* (Ff. o'r Ll. *batillum*) culfad, bad cul ysgafn.

Bateful, *a.* (o *bate*) cynhenus, cynhenllyd, ymrafaelus, cecrus.

Bateless, *a.* (*bate* a *less*) dileihad, digolliad.

Batement, *s.* (o *bate*) lleihad, toliad, treiad, gostyngiad, bychaniad.

Batful,† *a.* (o *batten*) ffrwythlawn; bras.

Bath, *s.* (S. *baeth, batho;* Is., Al., Sw., a D. *bad*) badd, baddon, ymdrochle, ymolchfa, ymdrochfa; baddondy, eneindy; dyfrenaint.

Cold bath—oerfadd, oerfaddon, baddon oer=o 40° i 65°.

Cool bath—badd llugoer, baddon llugoer, badd lledoer=o 65° i 75°.

Temperate bath—badd tymmerus, baddon tymmerus=o 75° i 85°.

Tepid bath—badd clauar, baddon clauar, clauarfadd=o 85° i 92°.

Warm bath—badd twym, baddon cynnes, baddon gwresog=o 92° i 98°.

Hot bath—badd poeth, baddon poeth, badd brwd=o 98° i 112°.

Dry bath—sychfadd, sychfaddon, baddon sych.

Vapour bath—tarthfaddon, tarthfadd.

Air bath—awyrfadd, awyrfaddon.

Shower bath—cawodfadd, cawodfaddon.

Sand bath—tywodfadd, tywodfaddon, baddon tywod.

Medical bath, } Medicated bath, } meddygfadd, baddon meddygol.

Metalline bath—mettelfadd, baddon mettelus, badd mettelaidd.

Animal bath—milfadd, milfaddon.

Bath-room—baddgell, baddystafell, ystafell drochi.

Undressing room at a bath—ymddïosgfa.

Knight of the Bath—Marchog y Baddon.

Bath-stone—baddfaen.

Bath, *s.* (H.) mesur Hebrëig yn cynnwys y ddegfed ran o homer, neu 7 galwyn a 4 peint.

Bathe, *v.* (S. *bathian*) ymolchi, ymdrochi; baddo, trochi, golchi; mwydo; ymolchi mewn baddon.
To bathe one's self—ymdrochi, ymolchi, ymfaddo.
Bathing place — ymdrochfa, ymdrochle, trochfa, golchfa, ymolchfa; baddon, badd.
Bathing tub—twba trochi, twba ymdrochi.

Bather, *s.* (o *bathe*) baddwr, ymdrochydd, ymolchydd, golchwr.

Bathing, *s.* (o *bathe*) ymdrochiad, ymolchiad, trochiad, trochfa, baddiad; ymeneiniad.

Bathos, *s.* (Gr.) suddadiaeth, suddiaith, disgyniaith.

Bating, *p.* (o *bate*) gàn gymmeryd *neu* dynu ymaith; gàn adael i maes *neu* allan; gàn gymmeryd allan.
Bating some few—oddi eithr rhyw ychydig; oddi gerth rhyw nifer bychan; gàn adael allan ryw ychydig; à gadael allan ryw nifer bychan.
Bating that—oddi eithr hyny; oni bai; à gadael hyny allan *neu* i maes; onid hyny.

Batist, *s.* (Al.) math o lian main à wneir yn Ffianders a Picardi.

Batlet, *s.* (o *bat*) golchbren, golchffon.

Batman, *s.* coglestrydd, coglestrwr.

Batoon, } *s.* (Ff. *bâton*) berllysg, byrllysg; ffon,
Baton, } llawffon, pastwn.

Batrachia, } *s. pl.* (Gr. *batrachos*) llyffanog-
Batrachians, } ion, creiniogion, llyffantryw= milod o ryw y llyffant, sef y trydydd dosbarth o Ymlusgiaid, yn ol trefn Cuvier.

Batrachian, *s.* llyffant, llyffan, creiniog; un o'r llyffanogion, creiniogan, creiniogyn.

Batrachian, *a.* llyffanol, llyffanog, creiniogol; perthynol i lyffanolion.

Batrachoid, *a.* (Gr. *batrachos* ac *eidos*) llyffanaidd, llyffantaidd, creiniogaidd; ar wedd llyffant *neu* greiniog.

Batrachomyomachia, } *s.* (Gr. *batrachos, mus,* a
Batrachomyomachy, } *maché*) Rhyfel y llyffaint a'r llygod; Cad y creiniogod a'r llygod; Llyffantlygodgad, Llyffantlygodaer = enw gogerdd à briodolir i Homer.

Batrachophagous, *a.* (Gr. *batrachos* a *phagô*) llyffantysol, creiniogysol; yn byw ar lyffanod.

Batsman, *s.* (o *bat* a *man*) tafarchwr, humanwr, humiwr, humogwr.

Battable,† *a.* (o *batten*) diwylladwy, gwrteithadwy.

Battalant,† *s.* (Ff. *bataille*) brwydrwr, ymladdwr, cysbwywr.

Battalous, *a.* (Ff. *bataille*) rhyfelog, brwydrol; byddinol, cattrefnol, cattrefnus.

Battalia, *s.* (Ysp. *batalla;* It. *battaglia*) cattrefn, trefn cad, cadwedd; corff y gad; llu wedi ymfyddino.
The king put his army into battalia—y brenin a fyddinodd ei fyddin; gosododd y brenin ei fyddin mewn trefn cad; rhoes y brenin ei wŷr yn barod i ymladd.

Battalion, *s.* (Ff. *bataillon*) cadfyddin, cadfagad, gogatrawd; bagad=corff o wŷr traed o 500 i 800 o nifer.
They marched out of the camp by battalions—aethant allan o'r gwersyll yn fyddinoedd *neu* bob yn fyddin.

Battel, *s.* (Ff. *bataille*) ornest, ymgysbwy; prawf ornest.

Battel,† *v. n.* (Goth. *go-batnan* ?) tewychu, tewhau.

Battel,† *a.* ffrwythlawn, ffrwythog.

Battel, *v. n.* (S. *tælan*) treulebu; bod mewn dyled ar lyfrau coleg yn Rhydychain.

Battel, *s.* treuleb.

Batteler, } *s.* (o *battel*) treulebydd, treulebur=
Battler, } enw dosbarth o fyfyrwyr yn mhrifysgol Rhydychain.

Battement,† *s.* (Ff.) pwyad, duliad, tarawiad; cyffroad.

Batten, *v.* (S. *fæt* ?) tewychu, tewhau, brashau, pwyntio; ymbesgu, gloddesta, ymdewychu; gwrteithio, diwyllio, ffrwythloni.
To batten land—gwrteithio tir, ffrwythloni tir.

Batten, *s.* hirgulen=astell hirgul, o 1 i 7 modfedd o led, o hanner i 2 fodfedd a hanner o drwch, a 6 troedfedd neu chwaneg o hyd.
Battens of the hatches—hirgulion y clorddrysau.

Batten, *v. a.* gwneyd âg estyll hirgul; llunio à hirgulion.

Battening, *s.* (o *batten*) murastell.

Batter, *v.* (Ff. *battre;* It. *battere*) pwyo, curo, dulio, ffusto, dybwyo, ysgytio, taro, briwo, hyrddio, hyrddu, cymhwyo; pwyo à rhyfeloffer, hyrddbwyo, cadhyrddio; ysgwyddo *neu* chwyddo allan, ysgythu.
Battering-ram—hyrddiadyr, cadbwyadyr, hwrdd rhyfel, hyrddermig, hyrddofferyn, (*pl.* hyrddoffer) hyrddyr=offeryn rhyfel à arferid gynt i guro muriau i lawr.
Batter-rule—ysgythlin=math o blymlin.
Battering pieces—pwyoffer, hyrddoffer.
To batter down—curo *neu* bwyo i lawr; dadymchwelyd, bwrw i lawr.
He made an engine of war, and battered a certain tower—efe a wnaeth ryfel-offeryn, ac a darawodd un tŵr.
All the people that were with him battered the wall—yr holl bobl, y rhai oeddent gydag ef, oeddent yn curo 'r mur.
To batter with great guns—ysgytio *neu* ysgydio à magnelau; curo, pwyo, *neu* daro à gynau mawrion.

Batter, *s.* (o *beat* neu *batter*) pwyfysgedd=cymmysgedd o beillied, wyau, halen, &c. wedi eu pwyo.

Batterer, *s.* (o *batter*) pwywr, curwr, duliwr, &c.

Battery, *s.* (Ff. *batterie;* Ysp. *bateria*) magnelfa, gynwal, hergodfa, hyrddfa, gyn-glaiadd, hyrddglawdd; cadhyrddiad, hyrddwd; rhuthr hwrdd, hyrddermig, hyrddofferyn; pwyoffer, hyrddolion.
Assault and battery—sarhad ac argywedd.
Electrical battery—cluder trydanol.
Galvanic battery—cluder Galfanig.
To raise a battery against a place—codi magnelfa yn erbyn lle; trefnu magnelau yn erbyn lle; gosod offer rhyfel yn erbyn lle.

Batting, *s.* (o *bat*) tafarchiad, humiad.
Batting-staff—golchbren, golchffon; pwyedydd.

Battish, *a.* (o *bat*) ystlumaidd.

Battle, *s.* (Ff. *bataille*) brwydr, cad, ymladdfa, rhyfel, ymladd; aer, brwydrin, cadwaith, breithell, trin, brcithred, brythred, aergad,

cammawn, ceintach, cymminedd, cadorfod, cadafwy, cittrach, brythwch, trafod, ymgyrch, plymnwyd, rhae, gwaith, maes.

Field of battle—maes y gad, cadfaes, cadwent, aerfan, cadlan, cadfa, aerfle, caint, cadgae, aergae, tranial.

Place of battle—cadle, cadfa, cadfan, aerfa, ymladdle.

Van of battle, } cadflaen, talgad, blaen y
Front of battle, } gad, y fyddin flaen, gwyneb y drin, y blaeniaid, y blaen-gis, cyncad, llugynnor.

Main battle—tromgad, bargad.

To march to battle—cattrodi, cattrodio, aerdrodi; trodio i'r gad; myned i'r gad; cychwyn i'r frwydr.

March to battle—aerdrawd, cattrodiad.

Terror of battle—aerfraw, aergawdd, cadarswyd.

Rage of battle—cadfar, aerfar, aerflawdd, cadlid.

Horn of battle—cadgorn, cadfan, llugorn.

Trophy of battle—cadfuddiant.

Line of battle—cadres.

Pitched battle—cad ar faes, brwydr orsafol.

Battle and tumult—cad a chynhwrf, cad ac ymladd, cad a brwydr.

Course of battle—aerwib, aerystod.

Chief of battle—aergun, cadgun, aerner, cadner, cadlyw, aerlyw.

Knight of battle—cadfarchog.

Commander of battle—cadflaenor.

Conquerer in battle—gweithfuddug.

Fiend of battle—buddugre, aerwyll.

Strong in battle—cadffer; cadarn mewn rhyfel.

Doubtful battle—brwydr annilys, cad ammhêus.

General battle—brwydr gyffredinol.

Battle-pieces—cadarluniau, cadluniau, aerddarluniau.

Battle array—byddinad, cattrefn, trefn cad, ymbediad, ymfyddinad.

To draw up in battle array—ymfyddino; byddino llu; trefnu *neu* restru llu i ryfel; cattrefnu.

An army drawn up in battle array—llu byddinedig; llu byddinog; llu o filwyr trefnedig i ryfel; milwyr byddinedig; byddin o wŷr; llu cattrefnus.

He drew up in battle array against the enemy—efe a fyddinodd yn erbyn y gelyn.

To march in battle array—myned, cerdded, *neu* gychwyn yn fyddinedig; myned mewn byddin; trodio yn fyddinedig; myned mewn byddin drefnedig i ryfel.

To give battle—ymgyrchu *neu* ymladd â; rhuthro *neu* ymosod ar; ymruthro *neu* daro yn nghyd; cyhydreg *neu* ymdaraw âg.

To join battle—brwydro, ymladd; taraw yn nghyd; ymwrio; ymgyfarfod o'r gad; cydio â'r gelyn; myned y rhyfel yn nghyd.

So they joined battle—yna hwy a darawsant yn nghyd; yna yr ymladdasant.

On the seventh day the battle was joined—ar y seithfed dydd y rhyfel a aeth yn nghyd.

To turn the battle to the gate—dychwelyd y rhyfel i'r porth.

To shout for the battle—bloeddio i'r frwydr, cadfloeddio.

This is the very spot where the battle was between them—dyma, ïe, dyma'r fân, lle bu yr ymladd *neu* ymladdfa rhyngddynt.

There was another bloody battle between them—bu rhyngddynt faes gwaedlyd arall; bu rhyngddynt frwydr waedlyd arall.

It is a people that have no strength for a strong battle—pobl ydynt hwy heb nerth yn erbyn llu mawr.

This is the condition of the battle which every man shall fight—dyma ddull yr ymdrech à ymdrecha pob dyn.

It came to a battle at last—hi aeth yn ymladd *neu* daraw rhyngddynt o'r diwedd.

To provoke to battle—cyffröi *neu* annog i ryfel; galw allan i ryfel.

To gain a battle—ennill y maes; myned â'r maes; ennill y frwydr; cael y llaw uchaf ar y gelyn; cael y goreu ar y gelyn; gorchfygu mewn brwydr *neu* ryfel.

He gained the battle—ennillodd y maes; ennillodd y dydd.

To lose a battle—colli y maes; colli y dydd; cael ei orchfygu *neu* drechu.

To make one's self ready for battle—ymbaratöi *neu* ymwregysu i ryfel.

To refuse a battle—gwrthod ymladd; pallu ymladd.

Beginning of a battle—dechreu cad; dechreu brwydr; cynosod.

Battle by sea—morgad, cad ar fôr, morfrwydr, morgadwaith; ymladd llyngesau, ymladd llongau.

Battle-ship—cadlong, llong rhyfel.

Battle, *v.* brwydro, ymladd, cadu, aerodi, rhyfela, ymwrio, belu, brythu; cuddio âg arfogion.

To battle it out—ymladd *neu* ymdrechu i'r eithaf; ei hymladd hi allan; para i ymladd hyd y diwedd.

To battle it with one—ymwrio *neu* ymdynu âg un; tynu y dorch âg un; dâl y tant âg un; ymddadleu *neu* ymdaeru âg un; ei hymladd hi âg un.

Battle-axe, } *s.* cadfwyell, aerfwyell, bwyell,
Battle-ax, } ennilleg, bwyell arf, bwyell ddeufin, bwyell ddeupen.

Battled, } *a.* gwalcwedd, gwalciedig.
Batteled, }

Battledoor, } *s. battle* a *door*) pelgib, pelgip;
Battledore, } y llyfr corn.

Battlement, *s.* (Ff. *battellement*, o *bâtir!*) canllaw, gwalc; murganllaw, caerganllaw, rhwyllganllaw: *pl.* canllawiau, canllofau.

Battlement of a wall—murganllaw.

Battlement of a castle—caerganllaw, gwalc castell, canllaw castell.

Battlement of a bridge—canllaw pont, gwalc pont.

Take away her battlements—tynwch ymaith ei murganllawiau.

Thou shalt make a battlement for thy roof—gwna ganllawiau o amgylch i'th nen.

Battling, *s.* (o *battle*) brwydrad, ymladdiad, aerawd, ymladdfa; brwydr, cad.

Battologist, *s.* (o *battology*) ffladrwr, adeiriwr.

Battologize, *v. a.* (o *battology*) ffladru, ffladreddu, adeirio, ail adrodd.

Battology, *s.* (Gr. *battologia*) ffladredd, adeiriad.

Batton, } *s.* (o *bat*) darn o bren at lorio a'r
Batten, } cyffelyb.
Battue, *s.* (Ff.) perthbwyad.
Battulate, *v. a.* (?) trafnwarafun, trafnwardd, gwaharddtrafnid.
Battulation, *s.* (*obattulate*) trafnwarddiad, trafnwarafun, trafnwardd.
Battuta, *s.* (It.) awdguriad, curiad amser.
Batty, *a.* (o *bat*) ystlumol, perthynol i'r ystlum.
Banbee, *s.* (Ff. *bas-billon!*) dimai : arferedig yn yr Alban ac yn ngogledd Lloegr.
Bauble, } *s.* (Ff. *babiole*) ffril, tegan : *pl.* ffrilion,
Bawble, } ffrilach, teganau, bychydigion.
Baulk, *s.*=*Balk.*
Bavaroy, *s.* math o gochl neu hugan.
Bavin, *s.* (?) ffagoden, tasgell, tusw; ysgub o friw-wydd *neu* fanwydd; tamaid o bren.
Bawbling, † *a.* (o *bawble*) dirmygus, gwael, diwerth, dibwys.
Baw-cock, *s.* (*beau-cock!*) coegyn, ysgoegyn, pertyn.
Bawd, *s.* (hen Ff. *baude*, yn ol *Johnson;* C. *baw : bawd* a *bawdy* yw *bawlyd* yn Chaucer a'i gyfgedion) carnbuteu, brontlatai, nwyflatai, trythylles; ceidwad *neu* geidwades puteindy.
To play the bawd—bod yn nwyflatai; cadw puteindy; nwyfweini, trythyllu.
Bawd, *v. a.* nwyfweini, nwyfweinyddu; bod yn nwyflatai; cadw puteindy.
Bawdiness, *s.* (o *bawdy*) serthedd, brynti, budredd; anlladrwydd, anniweirdeb, trythyllwch.
Bawd-money, *s.*=*Bald-money.*
Bawdrick, *s.*=*Baldrick.*
Bawdry, *s.* (o *bawd*) nwyflateiaeth, nwyfweiniad; serthedd, brynti, budredd; serthiaith, anlladiaith.
Bawdy, *a.* (o *bawd*) serth, brwnt, (*f.* bront), budr, afian; anniwair, anllad, trythyll, cywilyddus, serthus; budr ei dafod.
Bawdy-house—trythylldy, puteindy.
To haunt body-houses—cyrchu i buteindai; cynniwair i drythylldai.
Bawdy language—serthiaith, anlladiaith, brontiaith; serthair.
Bawdy songs—serthganau, canau anllad, cerddi serth.
Bawl, *v.* (S. *bellán;* Sw. *bola*) gwaeddi, bloeddio, bloeddian, llefain, crochlefain, garmio, ysgarmain, ysgego, lleisio, germain, beichio, gwaeddi yn groch, gawrian.
He came bawling to me—daeth ataf dàn ysgarmain.
Bawler, *s.* (o *bawl*) gwaeddwr, bloeddiwr, &c.
Bawling, *s.* (o *bawl*) gwaeddiad, bloeddiad, &c.
Away with your bawling—ffwrdd â'ch dadwrdd; tewch â'ch lleisio.
Bawn, } *v. a.* (Al. *bauen*) cau â changau coed.
Ban, }
Bawn, † *s.* lleidgaead; amgaered.
Bawrel, *s.* (?) math o walch.
Bawsin, *s.* (?) daiarfochyn, broch.
Bay, *a.* (Ff. *bai, baie*) gwineu, gell, gwineugoch.
Light bay—gwineugoch, claerwineu.
Dark bay—gwineuddu, ffadw.
Dapple bay, } coch ceiniogog, gwineu
Dappled bay, } mànog, gell ceiniogog.
Gilded bay—llebwineu, melynwineu.
Chesnut bay—llwydwineu, castanwineu, llychwineu.
Bay horse—ceffyl gwineu.
Light bay horse—ceffyl melyn, march melyn; ceffyl gwineugoch.
Bay, *s.* (Ff. *baie;* It. *baia*) machwy, ebach, morebach; angorfa, angorle; dyfrargae.
Hudson's Bay—Machwy Hudson.
Bay-salt—morhalen.
Bay, *s.* (Al. *bau;* Ff. *baie*) cwlas, duad.
Cran-berries, } llygaeron, llyged aeron,
Bog-berries, } llygaid aeron, llyged eirian, llygeirin, ceirios y waen, llyged eirin: *sing.* llygaeren, ceiriosen y waen, llygeirinen.

Crake-berries—creiglus, creiglys, cryglus, llus y brain, llus duon y mynydd.

Cloud-berries, **Roebuck-berries**, } mwyar dwywan, mwyar Berwyn, mwyar gwenith, mwyar y ddaiar.

Dew-berries—mwyar Mair, mwyar ffreinig, mwyar glaslwyd, mwyarllwyni gleision.

Goose-berries — eirin Mair, eirin perth eurddrain, grwys: *sing.* grwysen, eirinen Mair, eirinen perth eurddrain.

Rasp-berries—afan, mafon; *sing.* afanen, mafonen.

Straw-berries—mefus, syfi; *sing.* mefusen, syffen.

Elder-berries — grawn ysgaw, crawel ysgaw, cyrawol yr ysgaw.

Ivy-berries—grawn eiddew, crawel eiddew, cyrafol eiddew, crawel e iddiorwg.

Service-berries, **Service-tree-berries**, } crawel, cyrawol, cyrafon, rhafon, rhafol, grawn criafolen; aeron criafol *neu* gerddin.

Hawthorn-berries, **Whitethorn-berries**, } ogfaen, (*sing.* ogfaenen), egfaen, (*sing.* egfaenen), crawel y moch, grawn yr ysbyddaid.

Dogrose-berries—egroes, (*sing.* egroesen), aeron mïeri Mair, grawn y ciros, afalau y bwci, ffrwyth yr egroeswydd, mwcwg.

Bryony-berries—eirin gwïon, aeron greol.

Heath-berries — gruglus, grugon, llus y llau, llus y brain.

Gritty berries—graianllus, grutlus.

One-berry—cwlwm cariad, llys Paris llysiau ungronyn.

Olive-berries—grawn olewydd.
Crop of berries—cnod o aeron, cnwd o aeron, cnwd o rawn.
Candle-berry tree—gwerwydden, gwerfanwydden.

Berry, *v. n.* dwyn *neu* gynnyrchu grawn; grawnddwyn.

Berry-bearing, *a.* grawnddygol, grawnddwyn.
Berry-bearing alder—breuwydd.
Berry-bearing chickweed—gwlyddyn gronynog.

Berth, *s.* (o *bear*) llongrawd, llongaf; cysseigfa; gwelygell, cuddigl, cysgell.
He has got a berth—y mae gauddo sefyllfa, swydd, *neu* fywoliaeth yn y llong; y mae iddo gyflog morwr.

Bertram, } *s.* (Ll. *pyrethrum*) pelydr gwyllt.
Bartram, }

Beryl, *s.* (Gr. *bêrullos;* Ll. *beryllus*) beryl, maen beryl=math o wyrddfaen gwerthfawr.
Beryl-crystal—beryl-grisial.

Berylline, *a.* (o *beryl*) berylaidd; glaswyrdd; fel beryl, fâl maen beryl.

Besaint,† *v. a.* (*be* a *saint*) seintio, seintioli.

Besayle, *s.* (Norm. *ayle;* Ff. *aieul*, taid) gorhendad.

Bescatter,† *v. a.* (*be* a *scatter*) gwasgaru, gwasgar, taenu ar led.

Bescrawl, *v. a.* (*be* a *scrawl*) ysgrifenu yn drwsgl *neu* anferth.

Bescreen, *v. a.* (*be* a *screen*) cuddio, cysgodi, gwasgodi.

Bescribble, *v. a.* (*be* a *scribble*) coeg-ysgrifenu; gwneyd baglau brain.

Besee,† *v. a.* (*be* a *see*) edrych; gofalu.

Beseech, *v. a.* (S. *be* a *secan*) atolygu, atolwg, erfyn, deisyf, deisyfu, erfynied, erfynio, ymbil, adolwyn, crefu, erdolwg, dymuno, taer ofyn, erchi; ymhŵedd, ymadolwyn, ymddifregu, *neu* ymioli âg.
We humbly beseech thee—yn ufydd atolygwn i ti; ni yn ufydd a atolygwn i ti; ufydd atolygwn arnat; yn ostyngedig atolygwn i ti.
I beseech thee—atolwg, adolwg, adolwyn; atolwg iti; adolwyn iti.
Grant my request, I beseech thee—caniatâ fy neisyfiad, yr wyf yn ymbil arnat; atolwg, caniatâ fy neisyfiad; caniatâ fy erfyniad, atolygaf i ti; caniatâ fy neisyfiad, adolwg i ti; adolwyn iti, caniatâ fy neisyfiad.
I besought them for God's sake—ymbiliais â hwynt er mwyn Duw.

Beseecher, *s.* (o *beseech*) atolygwr, erfyniwr, deisyfydd, deisyfwr, &c.

Beseek,† *v. a.* (*be* a *seek*)=*Beseech*.

Beseem, *v. a.* (*be* a *seem*) gweddu, cydweddu; bod yn gweddu; bod yn weddus, addas, cymhwys, *neu* addwyn; cyngweddu; bod yn gyngweddol.

Beseeming, *a.* (o *beseem*) gweddus, gweddaidd, addas, cymhwys, cyngweddol.

Beseeming, } *s.* gwedduster, gweddusrwydd,
Beseemingness, } addasrwydd, harddwch, gweddeidd-dra.

Beseemingly, *a.* (o *beseem*) addas, gweddus, gweddaidd, priodol, cymhwys, addas; sutiol.

Beseen,† *a.* (*be* a *see*) cymhwys, cyfaddas.

Beset, *v. a.* (*be* a *set*) amgylchu, amgylchynu, gwarchau, cau ar, amgau, cau i mewn; cynllwyn, rhagod; dyrysu, nidro; ymosod ar.
Thou hast beset me behind and before—amgylchynaist fi yn ol ac yn mlaen.
Troubles and fears beset me on all sides—gofidiau ac ofnau a ymdywalltasant arnaf *neu* o'm hamgylch.
We are beset with enemies—yr ydym yn nghanol gelynion; amrwydwyd ni gân elynion; yr ydym wedi ein hamgylchu gân elynion; yr ym wedi ein hamgylchu gân elynion.
You are hard beset—mae yn galed arnoch; y mae yn gyfyng arnoch; mae'n drwm arnoch. [gemau.
Beset with jewels—gemog; addurnedig â
A besetting sin—pechod parod i amgylchu.

Beshine,† *v. a.* (*be* a *shine*) llewyrchu ar.

Beshrew, *v. a.* (*be* a *shrew*) melltithio, melltigo, rhegu; dymuno drwg i un.
Beshrew your heart—yn ngrogy boch chwi; drwg dynged i chwi; dystryw a'ch caffo; i ddystryw â chwi; anmhorth i chwi; drwg Duw a'ch dalio.

Beshut,† *v. a.* (*be* a *shut*) cau i fyny.

Beside, *prep.* (*be* a *side*) ger llaw, wrth, ger, gâr, yn ochr, yn ymyl, yn agos at, wrth ochr, wrth ystlys; heb law, dros ben; anmherthynol i, dyeithr i, anghytunol â, allan o, tu hwnt i; gyda; heb; heibio i.
Beside the stream—yn ymyl y ffrwd; yn min y ffrwd; ar fin y ffrwd; ar lân y ffrwd; wrth y ffrwd.
Beside all this—heb law hyn oll.
Beside the shepherds' tents—ger llaw pebyll y bugeiliaid.
Beside the bridge—wrth y bont; ger llaw y bont; yn gyfagos i'r bont; yn agos at y bont.
A thousand shall fall beside thee—wrth dy ystlys y cwymp mil.
It is beside my present business—y mae yn anmherthynol i'm dyben ar hyn o bryd; y mae yn anghytunol â'm neges y pryd hwn.
Some things are beside nature—y mae rhai pethau tu hwnt i natur.
To put one beside his patience—gyru un allan o'i amynedd; tori ar amynedd un.
Beside her he had neither son nor daughter—nid oedd ganddo na mab na merch ond hi; heb law hi nid oedd ganddo na mab na merch.
To be beside one's self — ynfydu, gorphwyllo, anmhwyllo, gwallgofi, ansynwyro; bod mewn gorphwyll; bod yn orphwyllus *neu* wallgofus; bod wedi colli ei gof *neu* ei bwyll; bod allan o'i bwyll.
Thou art beside thyself—yr wyt ti yn ynfydu; yr wyt allan o'th bwyll; yr wyt yn anmhwyllo.
Beside one's self—gorphwyllog, gorphwyllus, anmhwyllog, ynfyd, gwallgofus, gwallgof; allan o'i bwyll *neu* ei gof; lledfrydig.
To be beside the mark—bod maes o'i amcan; colli ei amcan; colli ei ergyd; cyfeiliorni oddi wrth y nod.

Besides, *prep.* (*be* a *side*) heb law, gyda, eithr, oddi eithr, heb, ond, onid, oddi gerth, odd eithr.
Besides the first famine—heb law y newyn cyntaf.
Besides those men—heb law y dynion hyny; gyda y cyfryw ddynion.

Nobody thinks so besides myself—nid oes neb ond fy hun yn tybied felly.

Beside, } *ad.* heb law hyn; hefyd, yn mhellach;
Besides, } gyda hyn *neu* hyny; am ben hyn; mwyach, eto, eto mwyach.

Hast thou any here besides?—a oes genyt ti yma neb eto?

Besides, it is our duty so to do—am ben hyn, ein dyled yw gwneuthur felly.

To all beside—i bawb ereill; i bawb heb law hyny *neu* y rhai hyny.

Except him, and a few besides—ond efe ac ychydig ereill; eithr *neu* oddi eithr ef ac ychydig ereill; onid ef ac ychydig gydag ef; eithr efe ac ychydig ereill hefyd.

Besides, I have no mind to rob her—heb law hyn, nid wyf yn chwennych ei hanrheithio hi.

And besides, it was her own desire—ac hefyd *neu* yn mhellach, ei dymuniad hi ei hun ydoedd; ac heb law hyn, ei dymuniad hi ei hunan oedd.

Besidery, *s.* (?) math o beren.

Besiege, *v. a.* (*be* a *siege*) gwarchau, gwarchae, gwarchau ar; amgylchu, amgylchynu, cylchynu, amgau; cynllwyn wrth; gwersyllu yn erbyn.

Besieged city—dinas warchauedig, dinas amgylchynedig, dinas warchedig.

The besieged—ygwarchauedigion; gwarchedigion; y rhai y gwarchauir arnynt.

He fortified the city against besieging—efe a gadarnhaodd y ddinas yn erbyn gwarchau; cadarnhaodd y ddinas rhag gwarchae.

Besieger, *s.* (o *besiege*) gwarchauwr, gwarcheuwr, amgylchwr, amgylchynydd.

Besieging, *a.* (o *besiege*) gwarchauol, gwarcheuol, gwarchaeol, amgylchynol, amgylchol.

Besit, † *v. a.* (*be* a *sit*) gweddu; bodyn gymhwys.

Beslave, † *v. a.* (*be* a *slave*) caethiwo, darostwng.

Beslime, † *v. a.* (*be* a *slime*) diwyno, bryntio.

Besmear, *v. a.* (*be* a *smear*) dwbio, plastro; diwyno; edlynu, iro; tomlydu, budreddu.

Besmirch, *v. a.* (*be* a *smirch*) diwyno, dwyno, bryntáu, budrhau; llychwino, dilliwio.

Besmoke, *v. a.* (*be* a *smoke*) mygu, mygaychu; sychu yn y mwg.

Besmut, *v. a.* (*be* a *smut*) pardduo, duo, huddyglo; gorchuddio á pharddu *neu* huddygl.

Besnow, *v. a.* (*be* a *snow*) eiryo; gwasgaru *neu* daenu fel eira.

Besnuff, *v. a.* (*be* a *snuff*) trewlychio; diwyno á threwlwch.

Besom, *s.* (S. *besm*; Al. *besen*; Is. *bezem*) ysgubell, dysgubell, ysgub.

A small besom—ysgubellan, ysgubellig, ysgubell fechan.

I will sweep it with the besom of destruction—ysgubaf hi âg ysgubau dystryw.

Besom, *v. a.* ysgubo.

Besomer, *s.* (o *besom*) ysgubwr, ysgubellydd.

Besort, *v. a.* (*be* a *sort*) sutio, gweddu; bod yn weddus *neu* briodol.

Besort, † *s.* gosgordd, cymdaith; gosgorddiad.

Besot, *v. a.* (*be* a *sot*) meddwi; gofrwysgo, brwysgo, lledfeddwi, penfeddwi; ymfeddwi, ar *neu* o; syfrdanu, pendroni; gwneuthur yn feddw *neu* frwysg; pensyfrdanu, dotio, hurtio; bod yn benwan.

Besotted on—wedi ynfydu, pendroni, dotio, *neu* feddwi ar.

Besottedness, *s.* (o *besot*) syfrdandod, pendrondod, penwendid; brwysgedd, gofrwysgedd, lledfrydedd; ynfydrwydd, ffolineb.

Bespangle, *v. a.* (*be* a *spangle*) seirianu, serenu, seriglo, echdywynu, eirianu, tryfritho; hau á ser, ysgeintio á ser.

Bespangled with stars — seirian, serig, serigl; brith o ser.

God is the architect of the bespangled sphere—Naf yw saer y nef seirian.

Bespatter, *v. a.* (*be* a *spatter*) diblo, caglo; taenellu, ysgeinio, *neu* ysgeintio á llaca *neu* laid; taenellu; tasgu dwr; diwyno; enllibio, goganu; taenu *neu* roi anair.

Bespawl, *v. a.* (*be* a *spawl*) poeri ar; diwyno á phoer; dyboeri; ymboeri *neu* amboeri ar; poeri, cornboeri, ymboeri, mynych boeri.

Bespeak, *v. a.* (*be* a *speak*) rhaglefaru, rhagddywedyd; rhaglafaru am; rhagerchi, rhagorchymyn, rhagammodi, rhagrwymo; gorchymyn, ammodi, *neu* gytuno yn mlaen llaw; dywedyd yn mlaen llaw; rhagfynegu, rhagddarogan, rhagddangos, rhagarwyddo; cyfarch, anerch; llefaru; llafaru wrth; dangos, arddangos, arwyddo, dynodi; rhagofyn, gofyn, ceisio.

His manners bespeak him a gentleman—dengys ei foesau mai boneddig ydyw.

To bespeak one's good opinion—ennill *neu* ddiogelu tyb da un yn mlaen llaw; rhagennill barn dda un.

He thus the queen bespoke—fel hyn y dywedodd efe wrth y frenines; efe a gyfarchodd y frenines fel hyn.

Bespeaker, *s.* (*be* a *speak*) rhaglefarwr, rhagofynwr, rhagammodydd, &c.

Bespeaking, *s.* (o *bespeak*) rhagdreithiad, rhagdreithawd, rhaglefariad, &c.

Bespeckle, *v. a.* (*be* a *speckle*) britho, manogi, mànu, mànfritho, dyfritho, ysmotio, amliwio, brychu; amliwio á brith.

Bespice, *v. a.* (*be* a *spice*) perlysieuo; cyweirio *neu* dymmeru á pherlysiau.

Bespirt, } † *v. a.* (*be* a *spirt*) chwistrellu; pis-
Bespurt, } tyllio *neu* saethu allan; ffrydio *neu* lifo allan yn ddisymmwth.

Bespit, *v. a.* (*be* a *spit*) diwyno *neu* ddwbio á phoer; poeri ar.

Bespot, *v. a.* (*be* a *spot*) manogi, mànu, britho, ysmotio, mànfritho, amliwio; nodi á mànau *neu* ysmotiau.

Bespread, *v. a.* (*be* a *spread*) taenu, lledu, *neu* estyn dros; gwasgaru ar hyd; gorchuddio á.

With painted flowers bespread—yn llawn o flodau hardd eu lliw.

Besprinkle, *v. a.* (*be* a *sprinkle*) taenellu, ysgaenu, ysgeinio, ysgeintio.

Besprinklings, *s. pl.* (o *besprinkle*) taenellion, taencliadau, ysgeiniadau, ysgeinion.

Besputter, *v. a.* (*be* a *sputter*) taenellu á phoer; tasgu poer trwy ddannedd ar; gwlychu á phoer o rhwng dannedd; diwyno á phoer; poerdaenu, poerysgaenu.

Best, *a.* (S.) goreu, goraf.

The best—y goreu, y goraf; y rhagoraf, yr amgenaf; yr eithaf.

The very best—y goreu oll, y goraf, y goreu i gyd.

The best of all—y goreu i gyd, y goreu o'r

cwbl; y goreu o bawb; cymmaint a hyny yn well.
At best, } ar y goreu.
At the best, }
Let a man do his best—gwnaed dyn ei oreu; gwnaed dyn y goreu ag y medro; gwnaed dyn hyd eithaf ei allu; gwneled dyn ei eithaf; gwnaed dyn ddim ag a allo.
Life is at best very short—ber iawn yw einioes ar y goreu.
To the best of my knowledge—hyd eithaf fy ngwybodaeth; hyd yr eithaf o'm gwybodaeth; càn belled ag yr wyf yn gwybod.
To make the best of—gwneyd y goreu o; gwneyd cystal ag y gellir o; gwneyd yr eithaf à ellir o.
To make the best of the way—gwneyd y goreu o'r ffordd.
To make the best of ill fortune, } gwneyd
To make the best of a bad bargain, } neu wneuthur y goreu o'r gwaethaf.
To put the best construction upon a thing—rhoi y lliw goreu ar beth; rhoi yr ystyr goreu ar beth; derbyn, cymmeryd, neu ddeall peth yn yr ystyr goreu.
To have the best of one—cael y llaw uchaf neu oreu ar un; cael y trechaf ar un; cael y llaw drechaf ar un; myned à'r maes ar un; gorchfygu un.
He is none of the best—nid y goreu mo hano; nid y goreu mo hono; nid un o'r goreuon yw.
I did it in the best manner I could—mi a'i gwnaethym yn oreu ag y medrwn; gwnaethym ef yn y dull goreu y medrwn neu y gallwn.
The best must have their grains of allowance—nid yw'r goreu heb ei fai; y mae gwehilion i'r gwenith.
Verily every man at his best state is altogether vanity—diau mai cwbl wagedd yw pob dyn, pan fo ar y goreu.
The best part—y rhan oreu; y rhan fwyaf; y rhan benaf.
The best things are worst to come by—anhawddaf yw cyrhaedd y goreuon.
What is the best news?—beth yw y newydd goreu? beth yw y newydd? pa newyddion sydd? pa newydd sy?

Best, *ad.* yn oreu, yn oraf, goreu.
Best of all—goreu i gyd; goreu o'r cwbl; yn oreu i gyd; yn oreu o'r cwbl.
You know best—chwi a wyr oreu; chwi a wyddoch oreu; goreu y gwyddoch chwi; nid oes à wyr yn well na chwi.
Thou hadst best be quiet—gwell i ti beidio; gwell i ti nas gwnelot; goreu i ti nas gwnelot.
I know not what I had best do first—nis gwn i pa beth i'w wneuthur gyntaf.
We strive who shall love him best—yr ydym yn ei garu am y goreu.
They strive who shall do best—maent yn ymröi am y goreu; ymroant am y goreu.
Every one likes his own things best—gwell gàn bob un yr eiddo ei hun; goreu gàn bawb yr eiddynt.
As you think best—fel y bo yn dda yn eich golwg; fel y byddo dda genych; fel yr ydych yn tybied oreu; fel y tybiwch yn oreu; fel y mae yn oreu yn eich golwg.

Bestain, *v. a.* (*be* a *stain*) llychwino, ystaenio; diwyno.
Bestead, *v. a.* (*be* a *stead*) llesoli, buddio, lleshau, cymmwynasu, llesu, cedu; diwallu; trefnu.
They shall pass through it, hardly bestead and hungry—hwy a dramwyant trwyddi, yn galed arnynt ac yn newynog.
Bestial, *a.* (o *beast*) anifeilig, anifeilaidd; bwystfilaidd, milaidd, bwystus; creulawn, lleddfer.
Bestiality, *s.* (o *bestial*) anifeiligrwydd, anifeleiddrwydd; milgydiad, milrywgydiad.
Bestialize, *v. a.* (o *bestial*) anifeleiddio, bwystfileiddio, anifeilio; gwneyd yn anifail.
Bestick, *v. a.* (*be* a *stick*) pigo, brathu; clwyfo neu archolli i gyd drosto.
Truth shall retire bestuck with slander's darts—gwirionedd a gilia yn archolledig gàn saethau enllib.
Bestir, *v. a.* (*be* a *stir*) cynhyrfu, cyffröi, egnïo.
Bestir yourselves — ymgynhyrfwch, ymgyffröwch, ymegnïwch, ymgyfodwch, ymröwch; ymgodwch neu ymröwch ati; byddwch wŷr.
Then thou shalt bestir thyself—yna ymegnia.
He bestirred himself against them—ymgynhyrfodd yn eu herbyn.
They bestirred themselves in defence of the realm—ymwrolasant yn mhlaid y deyrnas.
The innocent shall bestir himself against the hypocrite—y diniwed a ymgyfyd yn erbyn y rhagrithiwr.
Bestow, *v. a.* (*be* a *stow*) rhoddi, rhoi, anrhegu, gosod, dodi, dyroddi; rhoddi neu osod ar; cyflëu; rhoi i gadw neu yn nghadw; treulio; gwario neu dreulio ar; costio wrth neu gyda; rhoi neu osod allan; cyfeirio, troi, defnyddio.
Though I bestow all my goods to feed the poor—pe porthwn y tlodion à'm holl dda; pe rhoddwn fy holl dda i borthi y tlodion.
To bestow labour, } llafurio, poeni; cym-
To bestow pains, } meryd poen, llafur, neu drafferth.
Mary, who bestowed much labour on us—Mair, yr hon a gymmerodd lawer o boen erom ni.
To bestow a daughter in marriage—rhoddi merch yn briod; rhoddi merch i'w phriodi; rhoi merch i briodas.
Lest I have bestowed upon you labour in vain—rhag darfod i mi boeni wrthych yn ofer.
My labour will be well bestowed—ni bydd fy llafur yn ofer; nid ofer fydd fy llafur.
I bestowed a great deal of pains on that work—mi a ddygn boenais wrth y gorchwyl hwnw; cymmerais boen ddygn wrth y gwaith hwnw; cymmerais lawer iawn o drafferth wrth y gorchwyl hwnw.
I sent you to reap that whereon ye bestowed no labour—myfi a'ch anfonais chwi i fedi yr hyn ni lafuriasoch, neu yr hyn ni lafuriasoch wrtho.
I bestowed much money upon him—mi a gostiais swrn o arian wrtho; mi dreuliais lawer o arian wrtho.
Bestow not thy money for wine—na ddod dy arian am win.
Why do you bestow your money on such bawbles?—pa ham y treuliwch, y gwar-

iwch, y gosodwch, *neu* y gwastraffwch eich arian ar y fath deganau?

I have no room where to bestow my fruits —nid oes genyf le i gasglu fy ffrwythau iddo.

Upon these we bestow more abundant honours—yn nghylch y rhai hyny y gosodwn ychwaneg o barch.

He bestowed them in the house—efe a'u rhoddodd i gadw yn y ty; rhoddes hwynt yn nghadw yn y ty.

Bestowal, Restowment, } *s.* (o *bestow*) rhoddiad, anrheg-iad; rhodd, anrheg.

Bestower, *s.* (o *bestow*) rhoddwr, anrhegydd.

Bestraddle, *v. a.* (*be* a *straddle*)=*Bestride.*

Bestraught, † *a.* gorphwyllog, gwallgofus, gwallgof, ynfyd.

Bestrew, *v. a.* (*be* a *strew*) gwasgaru, gwasgar; burw ar led; taenu; gorchuddio, gorchuddio â; taenu ar hyd.

They would bestrew his paths with roses—rhoent yn ei lwybrau lawer rhosyn.

Bestride, *v. a.* (*be* a *stride*) marchogaeth yn fforchog; myned ar geffyl â choes o bobtu; brasgamu dros; myned goes o bobtu; fforchogi, hirgamu, brasgamu, camu dros; marchgan.

Bestud, *v. a.* (*be* a *stud*) boglynu, boglymu, gemu; addurno â boglynau.

To bestud with stars—seriglo, serigo, seirianu; hau *neu* fritho â ser; boglynu â ser.

Bestudded with stars—serigl, serig, seirian, serog; hauedig â ser; brith o ser.

Beswike, † *v. a.* (S. *beswican*) hudo, denu, llithio.

Bet, *s.* (S. *bad*) cyngwystl.

I will venture you what bet you please—mi ddaliaf â chwi y peth à fynoch.

To make bets—cyngwystlo, dàl cyngwystl.

Bet, *v. a.* cyngwystlo, dàl cyngwystl.

I will bet nothing with you—ni ddaliaf ddim â chwi.

Beta, *s.* (Ll.)=*Beet.*

Betake, *v. a.* (*be* a *take*; S. *betæcan*) cymmeryd; ymosod ar; gosod at; rhoi *neu* osod ar.

To betake one's self—ymgymmeryd, ymroddi, ymrōi, ymosod; rhoi ei hun, gosod ei hun; rhoi *neu* ddodi ei fryd, ei feddwl, *neu* ei fwriad; glynu; bod yn ystig; ystigo.

They betook themselves to arms—cyrchasant at arfau; ymgyrchasant at arfau; defnyddiasant arfau; ymgymmerasant at arfau; cymmerasant eu harfau; ymwisgasant *neu* ymwregysasant âg arfau.

To betake one's self to a place—cyrchu *neu* fyned i le; hwylio camrau *neu* gerddediad i le *neu* fàn.

I betook me *or* myself to my heels—cymmerais y traed; cymmerais y gwadnau; mi a gymmerais y traed a'r gwadnau; rhoddais y traed yn y tir.

They betook themselves to flight—ffoisant; hwy a ffoisant ymaith.

To betake one's self to a person for protection—cyrchu at un am noddfa *neu* noddfa; brysio at un am ei nawdd; ffoi at un am amgeledd; ymnoddi dan aden un.

Beteem, † *v. a.* (*be* a *teem*) heigio, heidio, hilio yn aml.

Bethink, *v.* (*be* a *think*) adgofio, galw i gof; galw *neu* ddwyn ei hun i gof; ymalaw i gof; ystyried, pwyllo, cymmeryd pwyll; cofio, addeddwl.

Consideration may make him bethink himself—dichon ystyriaeth beri iddo gymmeryd pwyll.

If they shall bethink themselves—os dychwelant at eu calon.

Bethlehem, *s.*=*Bedlam.*

Star of Bethlehem—seren Bethlehem, seren Fethlehem=enw llysieuyn.

Common star of Bethlehem—seren Bethlehem gyffredin.

Bethlehemite, *s.*=*Bedlamite.*

Bethrall, *v. a.* (*be* a *thræll*) caethiwo, darostwng; dwyn i gaethiwed.

Bethump, *v. a.* (*be* a *thump*) pwmpio, dyrnodio; curo, paffio.

Betide, *v.* (*be* a *tide*) dygwydd, dygwyddo, dammeinio, hapio; dyfod *neu* ddygwydd i.

Woe betide you — gwae chwi; dryglam ichwi; drwg dynged ichwi; drwg ddamwain ichwi.

What will betide the few?—beth a ddaw o'r ychydig? beth a ddygwydd i'r ychydig?

If she were to die, what would betide thee?—pe dygwyddai iddi hi farw, beth a ddeuai o honot ti? pe byddai iddi hi farw, beth a wnait ti?

Betime, Betimes, } *ad.* (*be* a *time*) yn brydlawn, yn amserol, mewn amser, mewn pryd; yn gynnar; yn ebrwydd.

They rose up betimes in the morning—codasant yn fore; bore-godasant.

Do your work betimes — gwnewch eich gwaith mewn pryd *neu* yn brydlawn.

Get thee betimes unto him—cyfod yn fore ato ef.

Begin betimes in the spring—dechreuwch yn gynnar yn y gwanwyn.

Betoken, *v. a.* (*be* a *token*) arwyddo, argoelio, argoeli, arwyddocâu, dangos, rhagddangos, rhagarwyddo, arddangos; dangos drwy arwydd *neu* argoel.

Betony, *s.* (Ll. *betonica*) dannogen, cribau Sant Ffraid, dwyfog, llysiau dwyfog, llys dwyfog, y feddyges lwyd.

Wood betony=*Betony.*

Paul's betony—rhwyddlwyn gruwddail.

Water betony—dannogen y dwr, gornerth y dwr.

Betorn, *a.* (*be* a *tear*) drylliedig, llarpiedig.

Betoss, *v. a.* (*be* a *toss*) taflu, ysgwyd, siglo, cysgogi, gwesgrynu, treiglo.

Betrap, † *v. a.* (o *trap*) maglu, rhwydo.

Betray, *v. a.* (Ff. *trahir*; Al. *betriegen*) bradychu, bradu; gwneyd brad; dadguddio, dangos, mynegu, cyhoeddi, amlygu, hysbysu; troi yn fradwr i *neu* yn erbyn; cyhuddo.

Brother shall betray brother to death—brawd a ddyry frawd i farwolaeth.

He betrayed me in this thing—efe a wnaeth fy mrad yn hyn o beth; bradychodd fi yn y peth hwn.

A tale-bearer betrayeth secrets—hustingwr a ddadguddia gyfrinach.

Rhodocus betrayed the secrets to the enemies—Rhodocus a ddadguddiodd y cyfrinachau i'r gelynion.

Lest you betray your ignorance—rhag dadguddio *neu* ddangos o honoch eich an-

wybodaeth; rhag i chwi fradychu eich anwybodaeth; rhag bradychu o honoch anwybodaeth.

Betrayer, *s.* (o *betray*) bradychwr, bradwr; dadguddiwr cyfrinach.

Betrayment, } *s.* (o *betray*) bradychiad, brad-
Betrayal, } iad.

Betrim, *v. a.* (*be* a *trim*) trwsio, addurno, pincio, pefru, hoewi, cymhenu, trymio, gwychu, tegychu, eirioni, harddu.

Betroth, *v. a.* (*be* a *troth*) dyweddïo; ymgredu, cyfneithio; ymgredu i *neu* â; ymffyddio â; cyfathrachu; cymmeryd yn ddyweddi; enwi i egobaeth.

To betroth a wife—dyweddïo gwraig, ymgredu â gwraig, cyfneithio gwraig.

Betrothed maid—morwyn-wraig; morwyn wedi ei dyweddïo; merch wedi ymgredu â gwr.

I will betroth thee unto me—mi a'th ddyweddïaf â mi fy hun.

Her master betrothed her—ei meistr a'i cymmerodd hi yn ddyweddi; dyweddïodd ei meistr hi; ei meistr a'i dyweddïodd.

She is betrothed to a husband—hi a ddyweddïwyd i wr; hi a ymgredodd â gwr.

To betroth each other, } ymgredu, ym-
To betroth mutually, } ffyddio, ymddyweddïo, *neu* ymneithio â'u *neu* i'w gilydd.

Betrothment, *s.* (o *betroth*) dyweddïad, ymgrediad, cyfneithiad, ymddyweddïad; dyweddi, ymgred, cred briodas.

Betrust, *v. a.* (*be* a *trust*) ymddiried, hyderu; ymddiried *neu* gredu i; hyderu ar; ymddibynu ar.

To betrust one with a thing—ymddiried peth i un; ymddiried *neu* gredu i un am beth; rhoi peth dàn ymddiried un.

Betrustment, *s.* (o *betrust*) ymddiriad, hyderiad.

Better, *a.* (S. *betere, betera;* D. *beter*) gwell; rhagorach, amgenach, amgen.

Better and better—gwellwell.

For the better—er gwell.

For better, for worse—er gwell, er gwaeth.

In a better manner—yn well; mewn gwell trefn; mewn trefn well.

To have the better, } cael y goreu; cael yr
To get the better, } oruchafiaeth *neu* y
To gain the better, } fuddugoliaeth; cael y maes; cael y llaw uchaf; cael y llaw drechaf; cael y trechaf; ennill y maes; ennill y fuddugoliaeth *neu* yr oruchafiaeth; myned â'r maes; ennill *neu* gario y dydd; gorchfygu, trechu, gorfod, gorthrechu, goresgyn; cefnu.

To get the better of an enemy—gorchfygu gelyn; cael y goreu ar elyn; gorfod gelyn; gorfod ar elyn.

They could not get the better of him—nis gallent ei orchfygu *neu* ei drechu ef.

The villain got the better of her—y dyhiryn a'i gorthrechodd hi.

He rested not till he had the better of them—ni orphwysodd nes eu meistroli hwynt.

The English had far the better of the Spanish—goresgynodd *neu* gorchfygodd y Seison yr Yspaeniaid heb drafferth yn y byd; yr oedd y Seison yn ddigon yn drech na'r Yspaeniaid.

To be better—bod yn well; bod yn well na; bod yn rhagorach na; rhagori *neu* flaenori ar.

To be better off—bod mewn gwell amgylchiad *neu* amgylchiadau; bod mewn gwell cyflwr, helynt, ansawdd, *neu* sefyllfa; bod yn well ei ansawdd, ei amgylchiadau, ei helynt, *neu* ei gyflwr.

All the better, } goreu i gyd; gwell o
So much the better, } hyny; cymmaint a hyny yn well.

Never the better, } dim yn well; dim gwell;
None the better, } ddim gwell; nid gwell o ddim; yn ddim gwell.

Somewhat better — ychydig yn well; ychydig gwell; gwell o ychydig; gwell o rywbeth; gwell o rywfaint; rhyw ychydig yn well.

To give one the better—gado'r maes i un; rhoi y goreu i un; rhoi y lle i un; rhoi i fyny i un.

Better once than always—gwell unwaith na chanwaith.

Better late than later — gwell hwyr na hwyrach; gwell hwyr no hwyrach.

It is better—gwell yw; y mae yn well; mae'n well; gwell ydyw.

Are ye not much better than they?—onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy? onid ydych chwi yn llawer gwell na hwynt?

Much better—gwell o lawer; llawer yn well; llawer gwell; rhagorach o lawer; llawer yn rhagorach *neu* yn amgenach.

It is something better than a yard—y mae rhywbeth dros ben llathaid; mae ef rywbeth yn fwy na llathaid; y mae yn llathaid, a rhywbeth *neu* rywfaint yn ychwaneg.

The wall is ten feet high and better—y mae y mur yn ddeg troedfedd o uchder ac ychwaneg; mae y mur yn ddeg troedfedd o uwchder, a thros ben; y mae y mur yn ddeg troedfedd a chwaneg o uchder; mae y mur dros ddeg troedfedd o uchder.

What shall I be the better?—beth gwell a fyddaf? pa beth yn well a fyddaf? beth a fyddaf yn well?

Better, *ad.* yn well; yn rhagorach, yn amgenach.

Better and better—yn wellwell.

To write better than another—ysgrifenu yn well nag arall.

To love better, } caru yn fwy; caru yn
To love the better, } well.

To grow better—gwellhau, gwella; diwygio; myned *neu* ddyfod yn well.

When did he begin to grow better?—pa bryd y gwellhaodd arno? pa bryd y dechreuodd wella?

She grows better every day—mae hi yn gwella beunydd; y mae hi yn dyfod yn well bob dydd.

To make better—diwygio, unioni, gwella, gwellhau, adgyweirio, gwneuthur yn well.

He had better go — gwell iddo fyned; byddai yn well iddo fyned; gwell fyddai iddo fyned.

I had better not have told it—buasai yn well i fi beidio ei ddweyd; gwell fuasai i mi beidio â son am dano.

Art thou better?—a wyt ti yn well?

Better, *v. a.* (S. *beterian*) gwellhau, gwella; gwneuthur yn well; rhagori ar; blaenori ar; goreuo; diwygio; dwyn yn mlaen.

She was nothing bettered—ni chawsai ddim lleshad.

Bettering house—gwelligdy, diwygdy.

Betters, *s. pl.* gwell, goreuon, uchafiaid, blaenoriaid, uchelwyr, goruchelwyr, goreugwyr.

Our betters—ein gwell; ein gwell ni; ein huchafiaid; uwch gwŷr na ni; gwell gwŷr na ni; ein goreugwyr, ein blaenoriaid, ein huchelwyr, ein goruchelwyr.

Give place to your betters—rhowch le i'ch gwell, &c.

Their betters would be hardly found—prin y gallid cael eu gwell; prin y gellid cael gafael ar eu gwell; anhawdd fyddai cwrdd â'u rhagorach.

Betterment, *s.* (o *better*) gwelliant, gwellhad, gwellad, gwellineb.

Betterness, *s.* (o *better*) rhagoriaeth, rhagoriant, rhagordod, amgenedod.

Bettor, } *s.* (o *bet*) cyngwystlydd, cyngwystlwr.
Better, }

Betty, *s.* (oddi wrth enw morwyn, *Betty!* o *beat!*) doragorydd=offeryn i dori drws yn agored.

Betula, *s.* (Ll.; Celt. *beith, beithe, beso, bedho, bedw*) bedw.

Between, *prep.* (S. *betweonan, betwynan*) rhwng; cyfrwng, cydrwng.

Between me—rhyngof, rhyngwyf, rhyngddof, rhyngddwyf, rhyngthof.

Between thee — rhyngot, rhyngddot, rhyngthot.

Between him, } rhyngddo, rhyngo, rhyng-
Between it, } tho.

Between her—rhyngddi, rhyngthi, rhyngi.

Between us — rhyngom, rhyngddom, rhyngthom.

Between you — rhyngoch, rhyngddoch, rhyngthoch.

Between them — rhyngddynt, rhyngynt, rhyngthynt.

Between me and thee—rhyngof fi a thi.

Between those—rhwng y rhai yna; rhwng y rhai hyny; rhwng y cyfryw rai.

Between heaven and earth—rhwng nef a llawr; rhwng nef a daiar; cyfrwng nef a llawr.

Between her and herself—rhyngddi a hi ei hun.

Between ourselves—rhyngom ein hunain; rhyngom ni ein hunain; rhyngot ti a minnau; rhyngof fi a thithau; rhyngoch chwi a minnau; rhyngom ni a chwithau; rhyngof fi a chwithau.

Between both—rhwng y ddau; yn y canol; yn y cyfrwng; yn y cyfwng; canolig, yn ganolig; heb fod y naill na'r llall; na'r naill na'r llall; nid un o'r ddau.

We might see all above, below, and between—gallem weled y cwbl oddi arnom, oddi tanom, ac yn y cyfwng *neu* y cyfrwng.

They left a parcel of ground between them—gadawsant dalwrn yn y canol; gadawsant randir yn y canol rhyngddynt; gadawsant swrn o dir rhyngynt.

To distinguish between right and wrong—gwahaniaethu rhwng cam a chymhwys; gwahaniaethu rhwng iawn ac aniawn; dosbarthu drwg a da.

Betwixt, *prep.* (S. *betwyxt, betweox, betwyx*)= *Between.*

I am in a strait betwixt two—y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu.

Bevel, } *s.* (Ff. *buveau*) osgonglyr, osglyfelyr,
Bevil, } osglyfelydd.

Bevel angle—osgongl, osgelin, gŵyrelin.

Bevel geer—cêr osgonglyr, treo osgonglyr; osgolwynion, osgrodau.

Bevel, *a.* gŵyr, osgoawl, agwyr, ar osgo, cam, crwca, lledbeiol, goleddf, osg.

Bevel wall — osgfur; mur osgoawl *neu* agwyr.

Bevel, *v.* osglyfelu; gwyro, comi, camu, lledbeio, cyrfu.

Bevelled wheel—osgolwyn, osgrod; olwyn âg osgîn iddi.

Bevelling, *a.* (o *bevel*) osgoaidd, gŵyr, agwyr, lleddf.

Bevelment, } *s.* (o *bevel*) osgdoriad, comdoriad;
Bevelling, } osgongliad, osglyfeliad; osglyfelyr.

Bever,† *s.* (It. *bevere*) byrbryd, rhagbryd.

Bever, *v. n.* byrbrydio, rhagbrydio.

Beverage, *s.* (It. *beveraggio*) dïod, dïodlyn, llyn; peth i'w yfed: dïottal; dïodrodd; rhagddïod; anrheg o ddïod; dyfrosai, afalwy.

To pay beverage—talu dïottal; rhoi arian i yfed ar gyfrif dillad newydd, &c.; talu arian yfed; rhoi arian yfed.

Nectar is called the beverage of the gods—dïod y duwiau y gelwir neithdar; gelwir neithdar yn ddïod y duwiau; gelwir neithdar yn ddïodlyn y duwiau; neithdar a elwir dïod y duwiau.

Bevile, } *s.* osgarn, osgriciad=peth ar ddull osg-
Bevil, } onglyr mewn herodraeth.

Bevilled, *a.* (o *bevil*) osgriciol, osgriciedig.

Bevilways, *ad.* (*bevil* a *ways*) ar ddull osgarn *neu* osgriciad; yn osgriciol.

Bevy, *s.* (It. *beva*, yn ol y Dr. *Johnson*, ond?) llu *neu* haid o adar; nythaid, nythal; haid, tŵr, cynnulliad, llu.

A bevy of fair ladies—tŵr o rianod teg; haid o foneddesau teg; torf o foneddigesau teg; myntai o rianod mwyndeg.

A bevy of quails—nythaid o soflieir; cyfor *neu* lu o soflieir; haid o soflieir.

A bevy of roebucks—deadell o iyrchod.

A bevy of roes—deadell o ewigod; haid o iyrchesau.

Bevy-grease — gwer iwrch *neu* iyrches; blawn iwrch; gwer llwdn hydd.

A bevy of the choicest words—nifer o'r geiriau godidocaf.

Bewail, *v.* (*be* a *wail*) alaethu, cwynfan, cwyno, galaru, cwynofain, wylofain, drygyrferthu; dwys ofidio.

Bewail your children—galarwch dros, o herwydd, *neu* o blegid eich plant.

They bewailed him many days—galarasant am dano ef ddyddiau lawer.

Lest I shall bewail many—rhag bod i mi ddwyn galar dros lawer.

Bewailable, *a.* (o *bewail*) alaethadwy, &c.

Bewailer, *s.* (o *bewail*) alaethwr, galarwr, &c.

Bewailing, *a.* (o *bewail*) alaethol, galarus, gofidiol; gwiwgwyn.

Bewailing, *s.* galar, galarnad, alaethiad, cwynfan, alaeth, cwyn, cwynofaint, amafar, wylofedd, wylofaeth.

Bewailment, *s.* (o *bewail*) alaethiad, galariad, cwyniad, cwynfaniad.

Beware, *v. n.* (S. *bewerian*, *bewarian*) gochelyd, gochel, gwilio, gwilied, ymogelyd, ymochelyd, gwachelyd, cadw, ymgadw, gogelu, gogelyd, ymswyno, ymswyn, gofalu, synu, edrych.

Beware of him—ymswyn rhagddo; gwilia rhagddo; gochel ef; ymgadw oddi wrtho; ymochel rhagddo.

Beware of the breed—gochel y giwed; ymswyna rhag y giwed; gwilia rhag yr ystrain; gochel y gethern.

Beware what you do—edrychwch beth a wneloch.

Beware of all, but most beware of man—gwilia bawb, ond gwilia yn benaf ddyn; gochela bawb, yn benaf gochel ddyn; goreu gochel, gochel dyn.

Beware of the concision — gochelwch y cyttoriad.

Beware that you do it not, } gwel nas
Beware not to do it, } gwnelit;
gofala *neu* syna nas gwnelit.

Beware that thou pass not such a place—ymgadw rhag myned i'r lle a'r lle; syn nad elit i'r lle a'r lle; gwilia nad elot i'r cyfryw le.

Beware of him, and obey his voice—gwilia rhagddo, a gwrando ar ei lais ef (*Ecs.* xxiii. 21.)

Beware that thou speak not—cadw arnat rhag ynan.

Beweep, *v. a.* (*be* a *weep*) wylo dros *neu* am; arwylo; dagreuo; gwlychu *neu* wlitho â dagrau.

Bewet, *v. a.* (*be* a *wet*) gwlychu, mwydo; gwlitho.

Bewhore, *v. a.* (*be* a *whore*) puteinio.

Bewilder, *v. a.* (*be* a *wild*; Is. *verwilderen*) dyrysu, nidro, ffeigio, methlu, annhrefnu; ymddyrysu yn; peri dyryswch; gwneuthur yn ddyrys *neu* afrwydd.

Lost and bewildered in the fruitless search—gwedi ymgolli ac ymddyrysu yn yr ymgais anfuddiol.

Bewildered, *a.* (o *bewilder*) dyrysedig, dyrys, &c.; brawychedig, brawychus; ar goll mewn dyrysleced.

Bewilderedness, } *s.* (o *bewildered*) dyryswch,
Bewilderment, } nidrolrwydd, methlusrwydd, ymddyryswch, dyrysoldeb.

Bewinter,† *v. a.* (*be* a *winter*) gauafoli, gauafu.

Bewitch, *v. a.* (*be a witch*) swyno, hudo, llygattynu, rheibio, ystrempio, rhempio, swynogli; denu, llithio, hudoliaethu; tynu *neu* ennill serch; dwyn, denu, hudo, *neu* lithio serch; caethiwo, maglu, *neu* rwydo serchiadau.

Who hath bewitched you?—pwy a'ch llygattynodd chwi?

He had bewitched them with sorceries—efe a'u hudasai hwynt â swynion.

She bewitched him with her charms and address — hi a'i hudodd ef â'i swynion a'i mwynion eiriau; hi a'i swynodd ef â'i haml eiriau teg.

She is bewitched—y mae hi wedi ei swyno *neu* reibio; mae hi yn rhemp.

They are bewitched with the love of this world—y mae bydgarwch wedi eu llygattynu; hwy a faglwyd gàn eu bydolrwydd; y mae trachwant i'r byd wedi eu maglu; hwy a rwydwyd gàn eu cybydd-dod; hwy a faglwyd gàn drachwant i'r byd hwn.

She bewitched all men with her beauty—ei thegwch a dynodd y byd ar ei hol; hudodd y byd â'i thegwch.

He bewitched me with his tongue—efe a'm denodd â'i dafod teg; fe 'm hennillodd â'i hyawdledd; e'm daliodd yn rhwyd ei hyawdledd.

Bewitchedness, *s.* (o *bewitch*) swynedigrwydd, hudoledigrwydd, hudoluarwydd, swynoldeb; rheibioldeb.

Bewitcher, *s.* (o *bewitch*) swynwr, swynydd, hudwr, hudolydd, rheibiwr, rheibydd, llygattynwr, ystrempiwr.

Bewitchery, *s.* (o *bewitch*) hudoliaeth, swyn, hud, swynoliaeth, hudolrwydd.

Bewitchful, *a.* (o *bewitch* a *full*) hudlawn, swynlawn, hudolus, swynol, hudoliaethus.

Bewitching, *a.* (o *bewitch*) hudolaidd, swynol, hudol, denol; llygattynol; yn tynu y byd ar ei ol; yn dallu y byd.

Bewitchingness, } *s.* (o *bewitch*) hudoliaeth,
Bewitchment, } swynoliaeth, hudolrwydd, hudoldeb, swynolrwydd; llygattyniad, rheibiant, swyniad, hudiad, rhempiad.

The bewitchingness of riches—hudoliaeth golud.

Bewrap, *v. a.* (*be* a *wrap*) goblygu, amblygu, plygu i fyny.

Bewray, *v. a.* (*be* a S. *wrecan*) bradychu, bradu; cyhuddo, dadguddio, dangos.

Thy speech bewrayeth thee—y mae dy leferydd yn dy gyhuddo.

He heareth cursing, and bewrayeth it not—efe a wrendy ar felldith, ac nis mynega.

Thy own knavery will bewray thee—dy ddyhirwch dy hun a wna dy frad.

Bewrayer, *s.* (o *bewray*) bradychwr, bradwr; dadguddiwr, mynegwr.

He is a bewrayer of secrets—dadguddiwr cyfrinach yw efe.

Bewrayment, *s.* (o *bewray*) bradychiad; cyhuddiad; amlygiad cyfrinach.

Bewreck,† *v. a.* (*be* a *wreck*) dystrywio, dinystrio.

Bey, } *s.* (Tyrc. *begh*, *bek*) = { *Beg.*
Beg, } { *Beg.*

Beyond, *prep.* (S. *begeond*) tu hwnt, hwnt, tu draw, tros, dros, tra; tu hwnt i, hwnt i, tu draw i, o'r tu hwnt, y tu hwnt i, o'r tu hwnt i, o'r tu draw i, y tu draw i; uwch law, uch law; yn mhellach na; rhy, trag, alltra, traw, draw.

From beyond—o'r tu hwnt i; o'r tu draw i.

To go beyond—myned tu hwnt i; myned dros; myned heibio i; rhagori *neu* flaenori ar; twyllo, hudo, somi; gorthrymu, gwasgu; troseddu; rhyseddu; träu; maeddu.

That no man go beyond his brother—na byddo i neb orthrymu ei frawd.

Seek not things beyond your reach—na cheisiwch bethau i maes o'ch cyrhaedd.

Beyond belief — anghredadwy, anghoeladwy, anhygoel, anhygred; tu hwnt i gred *neu* goel.

Beyond measure—tu hwnt i fesur; allan

o fesur; dros ben mesur; yn ddirfawr; mwy na mwy.

They were astonished beyond measure—synasant yn ddirfawr; synu a wnaethant yn anfeidrol; synodd arnynt tu hwnt i fesur; synasant fwy na mwy.

Beyond dispute—yn ddiddadl; tu hwnt i ddadl.

Beyond recovery—ar ddifancoll, ar gyfrgoll; yn gyfrgolledig; wedi ei gyfrgolli; wedi darfod am dano.

Beyond the sea, } tramor, tra môr; tu hwnt
Beyond sea, } *neu* tu draw i'r môr; tros y môr; trag y môr.

The countries beyond the sea—y gwledydd tramor, y gwledydd pell, y gwledydd pellenig.

Beyond thy back—tra dy gefn; y tu cefn iti; tu ol i'th gefn; hwnt i'th gefn.

Beyond, *ad.* draw, acw, oco.

Bezan, *s.* cotwm Bengal.

Bezant, } *s.* (o *Byzantium*, Caercystenyn) Bes-
Byzant, } ant, Byzant=darn aur bathedig yn Nghaercystenyn.

Bezant (in heraldry)—Bezant, cylch, cantell.

Bezantler, *s.* (o *antler*) eilgainc, adgainc=ail gangen corn carw, y nesaf uwch y dalgainc.

Bezel, } *s.* (Cal. *bezal*? Sw. *betzel*?) maenfan,
Bezil, } boglyn modrwy.

Bezoar, *s.* (Pers. *badzar*, *pazahar*) besoar, cyllagai; dadwenwyn=math o gareg neu gyttwf hynod à geir yn nghylla rhai anifeiliaid, yr hwn a gyfansoddir o amryw haenau, a thybir ei fod yn dda rhag gwenwyn. Y Besoar dwyreiniol a geir yn Persia a'r India Ddwyreiniol; a'r un gorllewinol, yn yr Orllewinol India.

Bezoardic, } *a.* (o *bezoar*) besoarig, besoar-
Bezoardical, } aidd; cyllageiol.

Bezzle, † *v. a.* (Norm. *beseler*) gwastraffu, afradu.

Biangular, } *a.* (Ll. *bis*, dwywaith, ac *an-*
Biangulate, } *gulus*, ongl neu gongl) dwy-
Biangulated, } onglog, dwyonglaidd, dwyelin-
Biangulous, } og, dwygonglog, deugornelog.

Biarseniate, *s.* (*bis* ac *arseniate*) deuarsenaint, dyarsenaint.

Biarticulate, *a.* (Ll. *bis* ac *articulatus*) deureddog, deugymmalaidd, deugymmal.

Biarchy, *s.* (Ll. *bis*, a Gr. *archê*) deubenaeth, deubendodaeth, deubendod, llywodraeth dau.

Bias, *s.* (Ff. *biais*) tuedd, gogwydd, gogwyddiad, tueddiad, gwyredd; tueddfryd, rhael, rheliad, göen; pwysiad, gobwysiad; lledochriad; rhagfarn.

To put one out of his bias—gyru un allan o'i amcan; gwthio un allan o'i amcan, tuedd, neu ogwydd; troi un allan o'i lwybr cynefinol; troi un allan o'r ffordd arferol; bwrw un ymaith o'i arfer *neu* gynnefod; trathynu un oddi wrth ei arfer *neu* gynnefod.

To set a bias upon — gogwyddo, tueddu; gwyro bryd.

Contrary bias—gwrthogwydd, gwrthduedd.

Mutual bias—cyttuedd, cydogwydd.

Wrong bias—camduedd, camogwydd.

Bias, *v. a.* tueddu, gogwyddo, gwyro, lledochri; pwysio at; peri rhagfarn.

To be biased to a party—pleidgaru; bod yn bleidgar *neu* bleidiol; bod wedi ymrwymo wrth blaid; bodi wedi ymroddi i blaid; bod wedi ei ddallu gàn serch at blaid; gogwyddo, tueddu, *neu* wyro at blaid.

Bias-drawing, † *s.* pleidgarwch.

Biasness, *s.* (o *bias*) gogwyddolrwydd, tueddoldeb, pleidgarwch.

Biauriculate, *a.* (Ll. *bis* ac *auricula*) deuglustenol; â dwy glusten iddo.

Bib, *s.* (Ff. *bavette*) bronllïan, bronllïain.

Bib-apron—bronffedog.

Bib, *s.* bronwyn=math o bysgodyn.

Bib, *v. a.* (Ll. *bibo*) llymeitan, llymeitio, llymeita, dïota, dyfoli ar, potio, yfetri, llyna, yfed, mynych yfed, ymyfed.

Bibacious, *a.* (Ll. *bibax*) yfgar, dïodgar, gwingar; chwannog i lymeitan.

Bibacity, *s.* (Ll. *bibacitas*) yfgarwch, dïodgarwch, yfetri, ymyfed, yfedgarwch, yfogrwydd, gwingarwch.

Bibasic, *a.* (*bis* a *basic*) deusodig, deuwaelodol, deuwaelodig.

Bibber, } *s.* (o *bib*) llymeitwr, yfwr, dïotwr,
Bibler, } potiwr; ymyfwr; dyn yfgar *neu* wingar; meddwyn.

Wine-bibber—yfwr gwin, gwin-yfwr.

Bibbs, *s. pl.* (o *bib* ?) llwyfystanciau.

Bibio, *s.* (o *bib*) gwingleren; *pl.* gwingler, gwinglyr.

Bibitory, *a.* (o *bib*) yfedol, llymeitiol; perthynol i yfed.

Bible, *s.* (Gr. *biblos*, *biblion*) Bibl, Beibl, yr Ysgrythyr, y Llyfr.

The Holy Bible—y Bibl Santaidd, y Beibl Cyssegrlan; yr Ysgrythyr Lân.

The Bible should be the standard of language as well as of faith—dylai y Bibl fod yn safon iaith yn gystal ag yn safon ffydd.

Bible-Society — Bibl-Gymdeithas, Cymdeithas y Beiblau.

The British and Foreign Bible-Society—y Feibl-Gymdeithas Brydeinig a Thramor; y Fibl-Gymdeithas Frytanaidd a Thramor; y Gymdeithas Fiblaidd Brydeinaidd a Thramor.

Biblical, *a.* (o *bible*) ysgrythyrol, beiblig, biblaidd, beiblaidd, biblig.

Biblical criticism — beirniadaeth ysgrythyrol.

Biblical literature — llenoriaeth ysgrythyrol, llenyddiaeth ysgrythyrol, llenyddiaeth Feiblig, llenoriaeth y Beibl.

Biblical antiquities—henafion ysgrythyrol, hynafiaethau Beiblaidd.

Biblical cyclopædia — gwyddoniadur ysgrythyrol.

Biblical dictionary, } geiriadur ys-
Dictionary of the Bible, } grythyrol, geirlyfr ysgrythyrol.

Biblicists, *s. pl.* (o *bible*) Beibligion, Bibligiaid =doethoriaid yn y 12fed canrif â elwid felly.

Bibliognosy, *s.* (Gr. *biblion* a *gnôsis*) llyfrwybodaeth, llyfrwybyddiaeth.

Bibliographer, *s.* (Gr. *biblion* a *graphô*) llyfronydd, llyfrolwr, llyfrofydd, llenofydd=un hyddysg yn hanes llyfrau a llenoriaeth: llyfrysgrifydd, adysgrifwr.

Bibliographic, } *a.* llyfronol, llyfrofyddol,
Bibliographical, } llenofyddol, llyfronyddol.

Bibliography, *s.* (Gr. *bibliographia*) llyfron-

iaeth, llyfrofyddiaeth, llenofyddiaeth=hanes llyfrau a llenoriaeth.

Bibliolatry, *s.* (Gr. *biblion* a *latreia*) llyfraddoliaeth, llyfraddoliad, addoliad llyfrau.

Biliolite, *s.* (Gr. *biblion* a *lithos*) llyfrfaen.

Bibliomancy, *s.* (Gr. *biblion* a *manteia*) beiblarmes, beibliddewiniaeth; llyfrarmes.

Bibliomania, } *s.* (Gr. *biblion* a *mania*) llyfr-
Bibliomany, } orphwylledd, llyfrwallgofrwydd, llyfrorphwyll, llyfrynfydrwydd.

Bibliomaniac, *s.* (o *bibliomania*) llyfrorphwyllog, llyfrorphwyllwr, llyfrwallgofwr: *pl.* llyfrwallgofiaid, llyfrorphwylliaid, llyfranmhwyllwyr.

Bibliomaniacal, *a.* llyfrorphwyllog, llyfrorphwyllus, llyfrwallgofus, llyfrynfyd.

Bibliopegic, *a.* (o *bibliopegy*) llyfr-rwymol, llyframrwymol, llyfrgloriol; perthynol i rwymo llyfrau.

Bibliopegy, *s.* (Gr. *biblion* a *pégnuô*) llyfrrwymiadaeth, llyfr-rwymyddiaeth, celfyddyd rhwymo llyfrau.

Bibliopole, } *s.* (Gr. *bibliopôlês*; Ll. *bibliopola*)
Bibliopolist, } llyfrwerthydd, llyfrwerthwr, gwerthwr llyfrau.

Bibliopolic, *a.* (o *bibliopole*) llyfrwerthyddol, llyfrwerthiadol, llyfrwerthol.

Bibliotheca, } *s.* (Ll. a Gr.) llyfrgell, llyfrfa,
Bibliotheke, } llyfrdy, llyfyrgell.

Bibliothecal, *a.* (o *bibliotheca*) llyfrgellol, llyfrfaol; perthynol i lyfrgell.

Bibliothecary, } *s.* (Ll. *bibliothecarius*) llyfr-
Bibliothecarian, } gellydd, llyfrgellwr, ceidwad llyfrgell, ceidwad llyfrau.

Biblist, *s.* (o *bible*) beiblydd, beiblwr, biblwr, ysgrythyrydd=un à gymmer yr ysgrythyr yn unig reol ffydd; ac un à fo yn hyddysg ynddi.

Bibracteate, *a.* (*bis* a *bracteate*) deugilddeiliog, deugoesddeiliog, deudradeiliog.

Bibulous, *a.* (Ll. *bibulus*) ysbyngaidd; sugnol.

Bicalcarate, *a.* (Ll. *bis* a *calcar*) deusbardunog, deusbardunol; â dau ysbardun iddo.

Bicapitated, *a.* (Ll. *bis* a *caput*) deubenog, deuben, deubenedig.

Bicapsular, *a.* (Ll. *bis* a *capsula*) deugistog, deugistanog, deugibellog, deuhadgellog.

Bicapsular pericarp—pliag deugistog.

Bice, } *s.* (?) lliw glas o'r gareg Armeniaidd.
Bise, }

Green bice—gwyrddliw, glaswyrdd, gwanwyrdd.

Blue bice—lliw glas, gwanlas.

Bicephalous, *a.* (Ll. *bis*, a Gr. *cephalê*) deubenog, deupenog, deuben, deupen; â dau ben iddo.

Bicipital, } *a.* (Ll. *bis* a *caput*) deupen, deu-
Bicipitous, } ben, deupenog, deubenog; â dau ben iddo *neu* ganddo.

Bicker, *v. n.* (C. *bicra*, *bicre*; Ysg. *bicker*) ymgiprys, ymryson, ymrafael, ymrafaelio, ymgynhenu, bicra, ymgecru, ymeirio, ymserthu, belu, cadhewrach, catewrach, ymdynu, ymwrial, cernial, ysgarmesu, cittrachu, ymgeintach; bwhwman, hofian, crychneidio, dygyfor.

The bickering flame—y fflam yn bwhwman.

The bickering stream—y ffrwd yn crychneidio.

Bicker, *s.* (Al. *becher*) dïodlestr, meilen, cogan.

Bickerer, *s.* (o *bicker*) ymrysonwr, ymgynhenwr, cnifiwr, ysgarmesydd, &c.

Bickering, *s.* (o *bicker*) ymgiprys, ymrafael, ciprys, cynhen, ymryson, bicre, cittrach, ceintach, &c.; ymgynheniad, ymrysoniad, &c.

Bickerment, *s.* (o *bicker*) ymryson, cynhen, ymgiprys, ymrafael, bicre, ciprys.

Bickern, *s.* (o'r C. *pig*) pigarn.

Bicolligate, *a.* (Ll. *bis* a *colligo*) deugydrwymol.

Bicolour, *a.* (*bis* a *colour*) deuliwiog, deuliw.

Bicorn, *s.* (Ll. *bicornis*, o *bis* a *cornu*) deugorn, deugornog, blodeuyn deugorn.

Bicorn, } *a.* deugorn, deugorniog, deugornog,
Bicornous, } deugornaidd.

Bicorporal, *a.* (Ll. *bicorpor*) deugorff, deugorffol, deugorffog.

Bicorporate, } *a.* (Ll. *bis* a *corpus*) deu-
Bicorporated, } gorffog, deugorffol, deugorff.

Bicrural, *a.* (Ll. *bis* a *crus*) dwygoes, dwygoesog, dwygoesol, dwyesgeiriog.

Bicuspid, } *a.* (Ll. *bis* a *cuspis*) deuflaen,
Bicuspidate, } deubig, dwybig, deubigol.

Bid, *v. a.* (S. *biddan*, *beodan*) gorchymyn, erchi, peri, peru; gwahodd, cynnyg, ceisio, dymuno ar; cyhoeddi; rhoi gorchymyn; dweyd wrth un am.

To bid farewell, } canu yn iach; ymadael;
To bid adieu, } ymiachäu â.

Bid me come to thee—arch i mi ddyfod atat.

Bid her cease—pera iddi beidio.

Neither bid him God speed—na ddywedwch, Duw yn rhwydd, wrtho.

We will do all that thou shalt bid us—yr hyn oll a ddywedych di wrthym a wnawn ni.

Bid him ask—arch iddo ofyn; cais ganddo ofyn.

What do you bid for it?—beth a gynnygwch am dano? pa beth yr ydych yn ei gynnyg am dano?

To bid up for a thing—cynyg mwy am beth; codi y cynnyg.

To bid one welcome—croesawi un; rhoi croesaw i un; derbyn un yn groesawgar; arfolli un; derbyn yn roesawus.

To bid good day—rhoi dydd da; erchi *neu* ddymuno dydd da; cyfarch â dydd da; canu yn iach; ymadaw.

To bid good night—rhoi nos dda; dymuno *neu* erchi nos dda; cyfarch â nos dda; canu yn iach; ymadael.

To bid beads—annog i bader; erchi pader; annog i weddi; annog i weddïo; gweddïo â phaderau.

To bid fair—bod i *neu* gàn un gynnyg teg; bod yn debygol i gael *neu* gyrhaedd; bod yn debygol i ddyfod i; bod yn debyg i ddyfod o hyd i; bod yn sefyll yn deg; ymddangos yn deg *neu* yn dda; bod yn debyg *neu* debygol.

To bid defiance—rhoi her, herio, herfeiddio, rhoi hew, hewian; gofyn gwaethaf; gofyn gwaethaf dannedd un; ymherio âg un; erchi i un wneuthur ei waethaf; annog, herio, beiddio, arfeiddio, cynhyrfu, *neu* gyffroi un i ymladd; galw un allan os baidd efe.

Bid him come in—cais ganddo ddyfod i mewn; arch iddo ddyfod i mewn; pera iddo ddyfod i mewn.

Bid, *s.* cynnyg, cynnygiad.

Bidale, *s.* (*bid* ac *ale*) cwrw cymhorth, cwrw gwahodd.

Bidder, s. (o *bid*) cynnygydd, cynnygwr, cynygiwr.
The highest bidder—yr uchaf ei gynnyg; y cynnygwr uwchaf.
Bidding, s. (o *bid*) gwahoddiad; gorchymyn, arch, archiad; cyhoeddiad; archedigaeth, gwahoddiaeth, gwahodd: neithior (yn rhai parthau o Gymru).
Bidding of beads—gleinarchiad, paderarchiad; archiad paderau; annogiad *neu* annogaeth i weddio.
Bide, v. (S. *bidan*) aros, bod; preswylio, trigo, anneddu; goddef, dàl; para, parhau.
Bidens, s. (Ll.) graban.
Bident, s. (Ll. *bidens*) deuddant, fforch, offeryn dwybig.
Bidental, Bidented, Bidentate, Bidentated, a. (Ll. *bidens*, o *bis*, dwywaith, dau, a *dens*, dant) deuddaint, deuddant, deuddeintiol; â dau ddant iddo *neu* iddi.
Bidet, s. (Ff.) cludferlyn; ceffylyn, marchilyn.
Biding, s. (o *bide*) arosiad, arosfa, trigiad; trigfa, trigle, preswylfod, anneddle; anneddiad, preswyliad.
Bidoon, s. (?) gwlyb-fesur o yn nghylch pum pedraid, arferedig gàn forwyr.
Biennial, a. (Ll. *biennis*) dwyflwyddol, dwyflwydd, dwyflyneddol; bob dwy flynedd.
Biennially, ad. (o *biennial*) bob dwy flynedd, bob dwyflwydd; yn ddwyflwyddol; unwaith mewn dwy flynedd.
Bier, s. (S. *bær*; Is. *baar*; Gw. *fer*) elor, gelor, elorwydd.
Bier-balk—ffordd eglwys, ffordd angladd.
Biestings, Beestings, s. pl. = *Beestings*. *Biestings*.
Bifarious, a. (Ll. *bifarius*) deublyg, dyblyg; dwyffordd.
Biferous, a. (Ll. *bifer*, *biferus*) deugnydiog; yn dwyn ffrwyth ddwywaith yn y flwyddyn.
Bifid, Bifidated, a. (Ll. *bifidus*) holltog, deuholltog; deuranol; rhanedig, holltedig.
Biflorous, a. (Ll. *bis* a *floreo*) deuflodeuol, deuflodynol, deuflodol; yn dwyn dau flodeuyn.
Bifold, a. (*bis* a *fold*) deublyg, dyblyg, deufath.
Bifoliate, a. (Ll. *bis* a *folium*) deuddeiliog, dwyddeilenog, dwyddalenog; âg iddo ddwy ddalen.
Biforate, a. (Ll. *bis* a *foro*) deudyllog, deudrydyllog.
Biform, a. (Ll. *biformis*, o *bis* a *forma*) dwyffurf, deuffurfiog, deuddull, deuddulliog.
Biformed, a. (o *biform*) deuddulliedig, deuffurfiedig.
Biformity, s. (o *biform*) deuddulliaeth, deuffurfiaeth, ffurf ddyblyg.
Bifronted, a. (Ll. *bifrons*) deudal, deudalog, deudalcennog, deuwynebog; â dau dàl iddo.
Bifurcate, Bifurcated, a. (Ll. *bifurcus*) fforchog, dwybigog; â dwyfforch iddo.
Bifurcation, s. (o *bifurcate*) fforchogiad, fforchiad, dwyfforchiad; deubarthiad.
Bifurcous, a. (Ll. *bifurcus*) fforchog, fforchol, dwyfforchog.
Big, a. (*D. bug*, bol? C. *baich*, *beichiog*?) mawr, braisg, praff, amrosgo, anferth, bras, rhef; chwyddedig, balch, trahäus, ucheldrem; uchel; dewr; llawn; ar dori.
Big with child—beichiog.
Big with young—torog; cyfebr, cyfebol; cyfoen; cyflo.
Big with foal—cyfebr, cyfebol, cyfebolig, cyfab.
Big with calf—cyflo.
Big with lamb—cyfoen, cyfebr.
A sow big with young—hwch dorog.
To grow big—chwyddo; breisghau; myned yn fawr.
To grow big with child—beichiogi.
To grow big with young—cyfebru; cyflöi; torogi.
To grow big with foal—cyfebru, cyfebu.
To grow big with calf—cyflöi.
To grow big about—breisghau, praffhau; bolchwyddo.
Very big, Vastly big, abrwysgl, amrosgo, amryffleu; tra mawr, gorfawr, enfawr, mawr iawn.
Monstrous big—anferth o faint; anferth o fawr; mawr anafus, anafus o fawr.
Infinitely big—anfeidrol o faint; anfeidrol o fawr, anfeidrol fawr, mawr anfeidrol.
As big—cymmaint, mòr fawr.
As big as a mountain—cymmaint a mynydd; fel mynydd o faint; mòr fawr a mynydd.
As big about as a man's thigh — cyn freisged, cyn braffed, *neu* cyn frased a morddwyd gwr; mòr fraisg *neu* braff a morddwyd gwr; cyfrefed *neu* cyfref a morddwyd gwr.
His mind is too big for his estate—y mae ei feddwl yn fwy *neu* yn uwch na'i foddion.
As big again—cymmaint arall; dau gymmaint; y cymmaint arall; y ddau gymmaint.
As big again and better—mwy na'r cymmaint arall; y cymmaint arall a mwy; cymmaint arall a thros ben; tros ben cymmaint arall.
It is not above an acre big—nid yw ef ddim y tu hwnt i erw o dir—nid yw fwy na chyfar o faint.
He talks big—y mae yn siared yn fras *neu* fawr; y mae efe yn llefaru geiriau chwyddedig; y mae yn siared yn chwyddedig; mae efe yn dywedyd chwyddedig eiriau.
I am not scared with your big words—nid wyf fi yn ofni mo'ch geiriau gerwin; nid yw eich geiriau breision yn gyru ofn arnaf.
To look big—edrych yn sur *neu* flwng; edrych yn fras *neu* fawr.
He looks as big as bull-beef—y mae efe yn barod i ymdori gàn falchder; y mae efe ar ymdori gàn falchder.
Big with pride—chwyddedig o falchder; ar dori gàn falchder; bron ymdori gàn falchder; llawn balchder.
Big-bellied—boliog, cestog, gorfoliog, cestfawr, bolfawr; beichiog, tromfeichiog; torog.
A short big-bellied person—torpwth.
Big with expectation—llawn o ddysgwyliad; llawn dysgwyliad.
To grow bigger—mwyhau, myned yn fwy; cynnyddu; myned ar gynnydd.
To grow bigger and bigger—myned fwyfwy; myned yn fwyfwy; cynnyddu yn fwyfwy; cynnyddu, tyfu.
To make bigger—mwyhau; gwneuthur yn fwy; peri cynnydd *neu* gynnyddu.

Big, *v. a.* (S. *byggan*) adeiladu, adeilo.

Big, } *s.* barlys gauaf.
Bigg, }

Bigam,† *s.*=*Bigamist.*

Bigamist, *s.* (o *bigamy*) dwyweddog, deuweddog, dwyweddogwr=un â chanddo ddwy wraig ar unwaith.

Bigamic,† *a.* (o *bigamy*) dwyweddogaidd, dwyweddog.

Bigamy, *s.* (Ll. *bis*, a Gr. *gamos*) dwyweddogaeth, dwywreigiaeth=bod yn briod â dwy wraig : amlwreigiaeth.

Bigboned, *a.* (*big* a *bone*) esgyrnog, esgyrnfawr.

Bigcorned, *a.* (*big* a *corn*) grawnfawr.

Bigeminate, *a.* (Ll. *bis* a *geminus*) dwyfforchog, gefellfforchog.

Biggin, *s.* (Ff. *beguin*) cap maban, talgap, iadgap, taleithgap.

Biggin,† *s.* (S. *byggan*) adeilad.

Bight, *s.* (Is. *bogt ;* D. *bugt*) plygraff, amraff, amgord ; cengliad ; camedd ; coesblyg, coesgamedd ; crigyll, ebach.

Biglandular, *a.* (*bis* a *glandular*) dwychwarenog, dwyridenog.

Bignamed, *a.* (*big* a *name*) mawr ei enw.

Bigness, *s.* (o *big*) maint, maintioli, meintioli ; mawrder ; swmp ; praffder, breisgedd, rhefder.
Bigness about—praffder, breisgedd, rhefder, rhefdra, amrefder.
Of equal bigness—cymmaint.

Bigot, *s.* (Ff.) dallbleidiwr, penboethiad, penboethwr, penboethyn ; un penboeth dros ei blaid ei hun, *neu* yn erbyn plaid arall : *pl.* dallbleidwyr, dallbleidiaid, penboethiaid, penguliaid.

Bigoted, } *a.* dallbleidiol, penboeth, rhag-
Bigot, } farnllyd, llawn rhagfarn ; dall *neu* gaeth gân ragfarn ; culfarn.

Bigotry, *s.* (o *bigot*) dallbleidiaeth, dallbleidiad ; penboethder, penboethni ; dall-ymlyniad ; rhagfarn dros *neu* yn erbyn plaid.

Bigsounding, *a.* (*big* a *sound*) seinfawr, trystfawr, aeddfawr, soniarus, sonfawr.

Bigswoln, *a.* (*big* a *swell*) chwyddedig ; ar ymdori ; chwyddfawr.

Biguddered, *a.* (*big* ac *udder*) tethfawr, piwfawr ; mawr ei thethau.

Bijou, *s.* (Ff.) gem, tlws ; tegan ; blychan, cistan.

Bijoury, *s.* (o *bijou*) gemyddiaeth, ceinionyddiaeth.

Bijugous, } *a.* (Ll. *bis* a *jugum*) dwyleuog ;
Bijugate, } â dau bâr o ddeilenigion iddo *neu* iddi.

Bilabiate, *a.* (Ll. *bis* a *labium*) dwywefusog, deufusog ; â dwy wefus iddo.

Bilaciniate, *a.* (Ll. *bis* a *lacinia*) dwyleiniog.

Bilamellate, *a.* (Ll. *bis* a *lamella*) deulafnog.

Bilander, *s.* (Is. *bylander ; Ff. belandre*) nwyddlongan=math o long ddau hwylbren, arferedig yn benaf ar gamlasau yr Isdiroedd.

Bilateral, *a.* (Ll. *bis* a *latus*) dwyochr, dwyochrol, dwyochrog, deuochrol, deuochrog.

Bilberry, } *s.* (Al. *heidelbeere ;* Is. *blaauwbes*)
Bleaberry, } llusen, llusïen ; lluswydden : *pl.* llus, llusi, llus duon bach, llusi duon bach, mwyar y brain, lluswydd.
Bilberry shrub—lluswydden ; *pl.* lluswydd.

Bilbo, *s.* (o *Bilboa*, yn Yspaen) hergledd ; cleddyf, cledd.

Bilboes, *s. pl.* (o dref *Bilboa*) cyffion llong, cyffion llongwyr, môrgyffion ; cyffion.

Bilboquet, *s.* (Ff.) peldegan.

Bildstein, *s.* (Al.) llunfaen, dullfaen.

Bile, *s.* (Ll. *bilis ;* Ff. *bile*) geri, llyn y bustl, bustl.
Black bile—geri du, dueg.

Bile, } *s.*=*Boil.*
Boil, }

Bileduct, *s.* (*bile*, a Ll. *ductus*) pibell y geri, geribib, geribibell.

Bilestone, *s.* (*bile* a *stone*) gerifaen, maen geri.

Bilge, *s.* (C. *bwlg ;* S. *bulgian*) cest, bwlg ; lled gwaelod llong ; cestagen, cestag.
The bilge of a cask—cest casgen, cest baril.
The bilge of a ship—cest llong ; gwaelod llong.
A bilged ship—llong gestagenog, llong gestagog.
Bilge-pump—llorsugnell, agensugnyddd ; sugnyr i godi dwr o waelod llong.
Bilge-water—dwfr ar waelod llong ; agenddwr.

Bilge, *v. n.* cestagenu, cesttori ; agenu, ymddryllio, tolcio.

Biliary, *a.* (o'r Ll. *bilis*) gerïaidd, gerïol, gerïog.
Biliary duct—pibell y geri, geribib, geribibell.
Biliary calculi—gerigeion.

Bilingegate, *s.* (oddi wrth le o'r enw yn Llundain) serthedd, serthiaith, drygiaith, budriaith ; iaith Porth Beli ; drwg dafod, sertheiriau.

Bilingual, } *a.* (Ll. *bis* a *lingua*) dwyieithog.
Bilinguar, }

Bilinguous, *a.* (Ll. *bilinguis*) deudafodiog ; dwyieithog.

Bilious, *a.* (o'r Ll. *bilis*) gerïol, gerïog, gerïaidd ; bustlaidd.

Biliteral, *a.* (Ll. *bis* a *litera*) deulythyrol, dwylythyrenol ; cynnwysedig o ddwy lythyren.

Bilk, *v. a.* (Goth. *bilaikan*) somi, siomi, twyllo, seithugio, hocedu.

Bill, *s.* (S. *bile*) pig, gylfin, gylfant, duryn, gylf.
Crane's bill—pig yr aran, mynawyd y bugail.
Stinking crane's bill, } troedrudd, llysiau y
Herb Robert, } llwynog.
Crowfoot-leaved crane's bill—pig yr aran y weirglawdd.
Shining crane's bill—pig yr aran dysglaer.
Dove's-foot crane's bill—troed y golomen, pig yr aran cyffredin.
Small-flowered crane's bill—pig yr aran manflodeuog.
Jagged-leaved crane's bill—pig yr aran llarpiog.
Long-stalked crane's bill—pig yr aran hirgoesog.
Bloody crane's bill—pig yr aran rhuddgoch.
Stork's bill—pig y crëyr.
Hemlock stork's bill—pig y crëyr cegidaidd.
Musky stork's bill, } pig y crëyr mwsg-
Muscovy, } aidd.
Sea stork's bill—pig y crëyr arfor.
Spoon-bill—llwybig=enw aderyn.
Hard-bills—pig-gelyd, gylfin-gelyd=rhywogaeth o adar pinc.

Bill, *s.* (S. *bil ;* Al. *beil ;* Is. *byl*) glaif, bilwg ; gylyf ; cyfegydd, bwyellgaib.
Bill-hook—bilwg, gylyf, sèr.
Hand-bill—bilwg, bilwg llaw.
Hedging bill — gwddi, gwyddi, gwddif,

cryman cau, ffonfilwg, hicell, cruman penffon.
Brown bill—gylyf llwyd, llwydylyf.
The bill of an anchor—pig angor.

Bill, *s.* (Ff. *bill*, *billet*) ysgrif, ysgrifen; dyleb, dyl, dyledlen, ysgrifeb; craifft; llythyr; cwyn; ysgrif-rwym; cofres, hysbyseb.
Bill and receipt—dyleb a thaleb, hawleb a derbyneb.
Bill of exchange—dyl cyfnewid, llythyr cyfnewid.
Bill of attainder—difwyneb, llythyr difwyn.
Bill of sale—arwertheb, llythyr arwerth.
Exchequer bill—argedlen, dyleb y syllttу: *pl.* argedleni, dylion y syllttу, dylebion y cyllidlys, dylebion y trysorlys.
Bill of parcels—dyl amrywion.
Bill of fare—bwydreseb, bwydres; cofres bwyd *neu* arlwy.
Bill of debt—dyledlen, dyledeb, dyleb.
Dishonoured bill—dyl didaledig; dyleb wrthodedig.
Hand-bill—postlen, gwyneblen, llawgraifft, coeden, hoeddlen.
Bill of costs—dyl traul, dyl treulion, ysgrifen costiau, cyfrif costiau.
Bill of record—cofysgrif, cofysgrifen.
Bill of divorce—llythyr ysgar, llythyr esgar, esgareb.
Bills of mortality—cofresi *neu* gofrestri marwoldeb: *sing.* cofres *neu* gofrestr marwoldeb.
Bill in law—cwyn cyfreithiol; cwyn, hawl, cynghawsedd, dadl; treithiad hawl; cyhuddiad.
Bills of parliament—ysgrifau y senedd; ceisreithiau y senedd; rheithysgrifau seneddol.
Reform bill—ysgrif y diwygiad.
Cross-bill—gwrth-hawl.
Bank-bill—cedlen, cedeb, banceb, banclythyr, ysgrif ariandy, cedgoel, ced-ddyl.
Post-bill—llythyrddyl.
Bank-post-bill—cedlythyreb, banclythyreb, llythyr ariandy.
Bill of lading—llonglwytheb, llwytheb, cofres llwythllong.
Bill of rights—ysgrif defion, defysgrif.
Bill of credit—credysgrif, coelysgrif, coelysgrifen.
Bill of entry—llyfriadeb.
Bill of exceptions—eithradeb, ysgrif eithriadau.
Bill in equity, Bill in Chancery, } ysgrif unionder.
Bill of indictment, Bill of complaint, } cyhuddgwyn.
Bill of health—arwaeseb iechyd, tystysgrif iechyd.
Bill of store—ystoreb, arlwygraifft.
Bill of sight—gwel-ysgrif, ysgrif nwyddwel.
Bill of sufferance—goddefeb, ysgrif oddef.
Physician's bill—dyleb meddyg.
To pass a bill—neithio ysgrif, pasio ysgrif; neithio dyleb; cymmeradwyo ysgrif *neu* ddyleb.
True bill—ysgrif gywir, gwir ysgrif; cwyn *neu* gyhuddgwyn cywir.
Take thy bill, and write fourscore—cymmer dy ysgrifen, ac ysgrifena bedwar ugain.

To cash a bill—talu dyleb, ariandalu dyleb, arianu dyl; talu gofyn.

Bill, *v. n.* ymylfinio; myned big yn mhig; myned ylfin yn ngylfin; ymgusanu, ymgaredigo.

Bill, *v. a.* hysbysu; hysbysu â phostlen, *neu* â rhybudd cyhoedd.

Billage, *s.* (o *bill* ?) lled llawr llong, llongled.

Billard, *s.* (?) gogabwllt, ceiliog hanner dysbadd.

Billet, *s.* (Ff. bychanig o *bill*) llythyryn, nodyn, llythyr bychan; dofreb, llettyeb; tocyn.
Soldiers' billet—dofreb milwyr, llettysgrifen milwyr, llettysgrif milwyr, tocyn sawdwyr.

Billet, *s.* (Ff. *billot*) peithyll, pillyn, peithyn, peithynen, hortyr, (*pl.* hortrau), ysgyryn; llysgbren, cippillen.
Billet-wood—pillwydd, peithyllwydd.
Billet mouldings—pillrigolau, pilladdurnau.
Billet (in heraldry)—peithyll, peithynen.
Billet of gold—clamp o aur.

Billet, *v. a.* llettya milwyr; dofri, llettya, trefoli.
To billet soldiers upon one—lletty *neu* ddofri milwyr gydag un.

Billet-doux, *s.* (Ff.) llythyr caru, llythyryn serch, serchlythyr.

Billiard, *a.* (o *billiards*) pelreawl; perthynol i belre.
Billiard table—pelrefwrdd, bord belre, pelreuford.
Billiard ball—pelen belre, pelre-bel.
Billiard stick—ffon belre, pren pelre.

Billiards, *s. pl.* (Ff. *billard*) pelre.
To play at billiards—pelrëu, chwareu pelre.

Billion, *s.* (*bis* a *million*) biliwn, miliwn o filiynau, dwyradd milfil=1,000,000,000,000.

Billon, *s.* (Ff.) basfwnai; basaur, basarian; presfwnai=arian neu aur â gormod o gopr yn gymmysg â hwynt.

Billot, *s.* (Ff.) eurfar, mwneifar=yr eurdalp neu yr ariandalp cyn ei fathu.

Billow, *s.* (D. *bölge*; Sw. *bölja*) tòn, gwaneg, (*pl.* gwenyg, gwanegau); morgaseg, mordon, moryn; llifeiriant.

Billow, *v. n.* gwanegu, tonogi, tònio; chwyddo, dygyfor; codi yn dònau, gwenyg, *neu* forgesyg.

Billowy, *a.* (o *billow*) tonog, tonol, gwanegol.

Bilobed, **Bilobate**, } *a.* (*bis*, a Gr. *lobos*) deulabedog, deulestog.

Bilocular, *a.* (Ll. *bis* a *loculus*) dwygellog, dwygellol.

Bimaculate, *a.* (Ll. *bis* a *macula*) deufanog; â dau ysmotyn arno.

Bimana, *s.* (Ll. *bis* a *manus*) dwylawog, dwylofiog=creadur â dwy law ganddo; megys, dyn.

Bimanous, *a.* dwylawog; â dwylaw ganddo.

Bimarginate, *a.* (*bis* a *margin*) deufylog; â dau ymyl iddo.

Bimedial, *a.* (*bis* a *medial*) deuganolog; deugymmysgol.

Bimensal, *a.* (Ll. *bis* a *mensis*) deufisol.

Bimuscular, *a.* (*bis* a *muscular*) deugyhyrog.

Bin, *s.* (S. *binn*, *binne*) cist, cist ystyffyllog, ydgist.
Corn bin—ydgist, cist yd.
Bins for wine—celloedd poteli gwin mewn seiler.

Binacle, } *s.* (Ff. *boite d' aiguille*, blwch nod-
Binnacle, } wyddau ?) cwmpasgloer, cwmpaswain, compodgist, compasgist.

Binary, *a.* (Ll. *binarius*) deuol, dwyol.
Binary arithmetic—rhifyddeg ddeuol=dyfais â briodolir i Leibnits, yn yr hon dau rifnod yn unig, 0 ac 1, a ddefnyddir, yn lle deg.
Binary number—rhif deuol.

Binary, *s.* deuad, dwyad, deudod.

Binate, *a.* (Ll. *binus*) dyblyg, deublyg, cypledig; yn tyfu yn bârau.

Bind, *v.* (S. *bindan*; Is. ac Al. *binden*) rhwymo, clymu, cylymu; caethiwo, cadwyno; cawio; ymylu; bod yn rhwymo; caledu.
To bind one's self—ymrwymo, &c.
To bind about—amrwymo, amglymu; rhwymaw o amgylch ogylch; rhwymo am.
To bind slightly—gorwymo; rhwymo yn llacs; llacs rwymo.
To bind a book—rhwymo llyfr, clorio llyfr, caeadu llyfr.
To bind with a bandage—cawio; rhwymo â rhwymyn.
To bind together—cydrwymo, cyfrwymo, cynghlymu, cydglymu; rhwymo *neu* glymu yn nghyd.
To bind to—rhwymo *neu* glymu wrth.
To bind in bundles—rhwymo yn sypynau *neu* yn ysgubau; rhwymo *neu* glymu yn dasgell *neu* yn ffasgell.
To bind back—olrwymo; rhwymo yn ol.
To bind behind—rhwymo o'r tu ol, *neu* o'r tu cefn.
To bind before—rhagrwymo; rhwymo o'r blaen, *neu* o'r tu blaen.
Bind him hand and foot—rhwymwch ef draed a dwylaw.
With his hands bound behind his back—â'i ddwylaw yn rhwym ar ei gefn; â'i ddwylaw yn rhwym o'r tu ol i'w gefn; â'i ddwylaw yn rhwym o'r tu cefn iddo, *neu* drach ei gefn.
To bind a bargain with earnest—rhwymo *neu* sicrhau cytundeb âg ern *neu* ernes; cadarnhau ammod trwy roddi ernes.
To bind a garment—ymylu gwisg; cuddio ymylau gwisg â chadas *neu* ysnoden.
To bind fast—rhwymo *neu* glymu yn dyn; caethrwymo; rhwymo yn gaeth *neu* ddiogel.
To bind one's self to appear—ymrwymo *neu* ymwystlo ar ateb; rhoi meichiau ar ateb.
To bind one's self with an oath—ymrwymo â dïofryd; rhwymo ei hun â dïofryd; rhoi dïofryd ar fod iddo; ymddïofrydu.
To bind one by oath—rhwymo trwy lw; mynu llw gàn un; rhwymo un ar ei lw.
Bound with a vow—dân adduned; dïofrydog.
To bind over—rhwymo un dàn feichiau i ymddangos *neu* ateb; mechnïo un i ateb gerbron y llys.
To bind a wheel — rhwymaw olwyn; rhwymo troell.
To bind an apprentice—rhwymo dysgadur, rhwymo breintwas, rhwymo rhwymwas.
To bind out a servant—cyflogi gwas; rhwymo gwas.

Bind, *s.* cynghlwm; corsen *neu* gallodryn pensag.
A bind of eels—cynghlwm *neu* gydglwm o lyswenod=250 o nifer.

Binder, *s.* (o *bind*) rhwymydd, rhwymwr; llyfrrwymydd; rhwymyn, amrwymyn.
Binder of books—llyfr-rwymwr, rhwymwr llyfrau, cydrwymwr llyfrau.

Bindery, *s.* (o *binder*) llyfr-rwymfa, rhwymdy llyfrau.

Binding, *s.* (o *bind*) rhwymiad, clymiad; rhwymyn, rhwym; ymylrwym, bylrwymyn, gwaldas.
Worsted binding—cardws.

Binding, *a.* rhwymol, rhwymiadol; yn rhwymo; yn rhwym ar; à rhwyma; rhwymedig, rhwymedigol, rhwymedigaethol.
Binding joists—rhwymreswydd, rhwymgeibr.

Bindinguess, *s.* (o *binding*) rhwymolrwydd, rhwymedigrwydd, rhwymiadoldeb, rhwymedd.

Bindweed, *s.* (*bind* a *weed*) cynghafog, ffithys.
Great bindweed—cynghafog fawr, tagwydd, tagwydd mawr, moled Olwen, cloffrwym y mwci, clych y perthi, cloffrwym y cythraul, gwden y coed.
Small bindweed—cynghafog fechan, taglys.
Sea bindweed—cynghafog arfor, ebolgarn y môr.
Black bindweed, Climbing buckwheat, perthlys. } yttag, taglys yr yd,

Binervate, *a.* (Ll. *binervatus*) dwyeisog, dwyeisol; dwygïeuog.

Bing, *s.* crug o allog.

Binnacle, *s.*=*Binacle.*

Binocle, *s.* (Ll. *binus* ac *oculus*) deulygadyr, deusylliadyr, deulygwelyr, deubellwelyr, deulygsyllyr=math o ysbeiadyr trwy yr hwn y gellir canfod â'r ddau lygad ar unwaith.

Binocular, *a.* (Ll. *bis* ac *oculus*) deulygeidiog; deuchwibog.
Binocular telescope—deulygadyr, deulygwelyr, deubellwelyr, deulygsyllyr, deusylliadyr, ysbeiadyr deulygeidiog.

Binoculate, *a.* (*bis* ac *oculus*) deulygeidiol, deulygeidiog.

Binomial, *a.* (Ll. *bis* a *nomen*) deuenwol, deuenwog.

Binominous, *a.* (Ll. *binominis*) deuenwol, deuenw; â dau enw arno.

Binot, *s.* aradr dwygwys.

Binotonous, *a.* (*bis* a *note*) deunodol, dwyoleferol, dwydonol.

Binous, *a.* (Ll. *binus*) deuol, dyblyg; yn bâr, mewn pâr.

Biocellate, *a.* (Ll. *bis* a *ocellus*) deulygedynog, deulygfanog.

Biographer, *s.* (o *biography*) bugraffydd, bugraffwr, cofiannwr, buchdreithwr, bywgraffydd, hanesydd bucheddau.

Biographical, } *a.* (o *biography*) bugraffiadol,
Biographic, } bugraffyddol, bugraffol, buchdreithol, cofiannol, bywgraffiadol.
Biographical dictionary—geiriadur bugraffiadol, geirlyfr bugraffyddol, geirlyfr bugraffol, bucheiriadur.

Biography, *s.* (Gr. *bios* a *graphô*) bugraffiad, bugraffyddiaeth, bugraffiaeth, bywgraffiad, bucheddiaeth, buchdreithiad, hanes bywyd, oeshanes, cofiant.

Biology, *s.* (Gr. *bios* a *logos*) bywydeg, aniandraw, anianddysg.

Biparous, *a.* (Ll. *bis* a *pario*) deuddygol, gefelldygol, gefeilldwyn.
Bipartible, } *a.* (Ll. *bis* a *partio*) dwyranadwy,
Bipartile, } deubarthadwy; â ellir ei ranu yn ddau neu ddwy.
Bipartient, *a.* (Ll. *bis* a *partio*) dwyranol, deuranol, deubarthol; yn rhanu yn ddau.
Bipartite, *a.* (Ll. *bipartitus*) deubarthol, deuranol, deuran, deuranog, dwyranog, dwybleidiol, dwyran.
Bipartition, *s.* (Ll. *bis* a *partitio*) deubarthiad, deuraniad, dwyraniad.
Bipectinate, *a.* (Ll. *bis* a *pecten*) deugribol, deugribog.
Biped, *s.* (Ll. *bipes*) deuped, deubedog, deubediog, deudroediog, deubedfil = creadur deudroed; megys, dyn.
Bipedal, *a.* (o *biped*) deudroed, deudroediog, deubediog.
Bipeltata, *s. pl.* (Ll. *bis* a *pelta*) deuaesogion, dwyaesogion=llwyth o grestogion.
Bipennate, } *a.* (Ll. *bipennis*) dwyasgellog,
Bipennated, } deuasgellog, dwyadeiniog, deuadeiniog.
Bipetalous, *a.* (Ll. *bis* a Gr. *petalon*) deuflodeiliog, deuflodeuddail.
Bipinnate, *a.* (Ll. *bis* a *pinnatus*) dyblasgellog.
Bipinnatifid, } *a.* (Ll. *bis*, *penna*, a *findo*) deu-
Bipennatifid, } asgholltog, dwyasgholltog, holltadeiniog.
Bipolar, *a.* (*bis* a *polar*) deubegynol.
Bipunctual, *a.* (Ll. *bis* a *punctus*) deubynciol, deubwyntiol.
Bipupillate, *a.* (Ll. *bis* a *pupilla*) dwylygenog.
Biquadrate, *s.* (Ll. *bis* a *quadratus*) pedrysawdd; pedrysoddiaeth=yr arsawdd neu y gwreiddyn ysgwar wedi ei luosogi âg ef ei hun.
Biquadrate, } *a.* pedrysoddol; perthynol i
Biquadratic, } bedrysawdd.
Biquadratic, *s.*=*Biquadrate.*
Biquadratic root, } pedrysawdd, gwreidd-
Biquadrate root, } yn pedrysawdd.
Biquadrate root (as a rule)--pedrysoddiaeth.
Biquintile, *s.* (Ll. *bis* a *quintus*) deubumaint, deubumiant.
Biradiate, } *a.* (Ll. *bis* a *radiatus*) deureidd-
Biradiated, } iog, deuffloiog, deubelydrog.
Birch, *s.* (S. *birce*; Al. *birke*; D. *birk*) bedwen; *pl.* bedw.
Birch-tree—bedwen, pren bedw: *pl.* bedw, coed bedw, prenau bedw.
Dwarf birch—corfedwen; *pl.* corfedw.
Birch grove—llwyn bedw, llwyn o fedw; bedlwyn, bedwlwyn, bedwerw: *pl.* llwyni bedw, bedlwyni, bedweni, llwyni o fedw.
Common birch—bedwen gyffredin.
Birchen, } *a.* bedwaidd; perthynol i fedw; o
Birch, } fedw.
Birch wine—bedwin, gwin bedw=gwin â wneir o sug bedw yn y gwanwyn.
Birchen broom—ysgubell fedw.
Birch oil—olew bedw, bedw-olew.
Birch of Jamaica—bedwen Iamaica=math o ystorwydden.
Bird, *s.* (S. *bird* neu *bridd*) aderyn, edn, ednog, ednan, ednant, ehedyn: *f.* adaren, eden: *pl.* adar, ednod, ednogion, ednaint, ednain.
Singing bird—cethlydd, telorydd.
Young bird—aderyn bach, cyw aderyn.
Mountain birds—adar ban, adar mynydd.
Multitude of birds—llu o adar, cyfor o adar, haid o adar.
Bird's head and neck—gwp, gwp aderyn.
The science of birds—ednogaeth, adaryddiaeth.
The bird of Jove—aderyn Iou, eden Iau; yr eryr.
Bird of paradise—iar wynt; aderyn paradwys.
A brace of birds—pâr o adar; cwpl o adar.
Bird-seller—adarwerthwr, adarwr.
Birding piece—dryll adara.
Birding net—rhwyd adara, rhwyd adar.
To catch birds—adara, dàl adar.
To breed birds—adaru, magu adar.
Birds of a feather will flock together—adar o'r unlliw a dynant i'r unlle; adar o'r unlliw a hedant i'r unlle.
A bird in hand is worth two in the bush—gwell aderyn mewn llaw na dau yn y llwyn; gwell penlöyn yn llaw na hwyad yn awyr.
To kill two birds with one stone—lladd dau aderyn â'r un gareg; gwneyd deubeth dàn un; gwneuthur dau beth dàn yr un; gwneyd dau beth ar unwaith.
It is an ill bird that defiles his own nest—disynwyr yw y dyn à boero ar ei bilyn ei hun.
You bring up a bird to pick out your eyes—chwi a fagwch neidr yn eich mynwes.
One beats the bush, another catches the bird—un yn tori y gneuen, ac arall yn bwyta y cnewullyn; un yn curo y llwyn, ac arall yn dàl yr adar.
A pretty bird with a long beak—aderyn hardd â duryn hir.
Bird's nest—nyth aderyn; cyttwf, moronen y maes, meddyglyn.
Yellow bird's nest—cyttwf.
Bird's foot—troed yr aderyn.
Common bird's foot — troed yr aderyn cyffredin.
Bird's-foot trefoil—pysen y ceirw.
Gibbous bird's-foot trefoil—pysen y ceirw flewog.
Bird's eye—llygad y goediar, llygad yr aderyn.
Bird cherry — rhuddwernen, (*pl.* rhuddwern), llyngwren.
Bird's-eye maple—crychfasarn, masarnwydd crych.
Bird grass—gwaenwellt culddail.
Bird's tongue, } yttag, taglys yr yd, perth-
Bird's tares, } lys.
Jail bird, } carcharor; crogyn o ddyn;
Newgate bird, } un â haeddai ei grogi; un â llun y crogbren ar ei dalcen.
Bird's-eye view, } adarbaith, golwg aderyn,
Bird-eye view, } llorwel, golwg oduchod.
Bird, *v. n.* adara, dàl adar, hely adar.
Birdbolt, *s.* (*bird* a *bolt*) adarsaeth.
Birdcage, *s.* (*bird* a *cage*) adardy, adargell, adargaes, gwialdy adar, ffronc adar.
Birdcall, *s.* (*bird* a *call*) adarlef; pibell neu chwibanogl adarwr.
Birdcatcher, *s.* (*bird* a *catcher*) adarwr.
Birdcatching, *s.* (*bird* a *catcher*) adarwriaeth, adara, celfyddyd adara.
Birder, *s.* (o *bird*) adarwr, adarydd.
Birdeyed, *a.* (*bird* ac *eye*) llygadgraff.
Birdlike, *a.* (*bird* a *like*) adaraidd; tebyg i aderyn.

Birdlime, *s.* (*bird* a *lime*) ysgroling, asgroling, adarlud, ysgrawling, ysglawring.
Birdlimed, *a.* (o *birdlime*) ysgrolingol; gwedi ei ysgrolingo; gludiog, gwydn.
Birdman, *s.* (*bird* a *man*) adarwr, adarydd.
Bird-organ, *s.* ednorgain, adarorgan; orgain i ddysgu adar i ganu.
Bireme, *s.* (Ll. *biremis*) llong ddwyrwyf; dwyrwyflong.
Birgander, *s.*=*Bergander*.
Birhomboidal, *a.* (*bis* a *rhomboidal*) deuleddfbetryal.
Birken,† *v. a.* (o *birch*; S. *birce*) gwialenodio.
Birostrate, } *a.* (Ll. *bis* a *rostrum*) deugylfin-
Birostrated, } og, deuddurynog, dwybigol, dwybig.
Birt, *s.* (?) torbwt, lleden chwith=math ar bysgodyn.
Birth, *s.* (S. *beorth*, *byrd*; Al. *geburt*; Gw. *beirthe*) genedigaeth, ganedigaeth; esgoriad, esgorfa, esgoredigaeth, genid; gwaedogaeth, gwaedoliaeth; dechreuad, cychwyniad.
Time of birth—tymp, amser geni, amser esgor.
Untimely birth—erthyl,erthylyn,erthylan; erthyliad.
To have two at a birth—dwyn gefeilliaid; cael gefellod; geni gefeilliaid; esgor ar efeilliaid.
A man of birth—gwr o fonedd; dyn o waed *neu* waedogaeth.
An Englishman by birth—Sais o waedoliaeth, Sais o enedigaeth, Sais o achau, Sais o genedl, Sais o waed, Sais cynnwynol, Sais geni.
The land of my birth—gwlad fy ngenedigaeth; fy ngenedigol wlad; gwlad fy ngeni; y wlad y'm ganwyd ynddi.
Citizens by birth—breiniol-anedig; rhai a anwyd yn freiniol; dinasyddion genedigol, dinasyddion brein-anedig.
Of good birth—diledryw, diledach, boneddig; yn dyfod o fonedd; yn dyfod o deulu *neu* dylwyth da.
Gentleman by birth—boneddig cynnwynol, boneddig diledryw, boneddwr diledach; boneddig o waed *neu* waedogaeth.
Of mean birth — lledrywiog, lledachog, adlawaidd, gwerinaidd, gwreng, o'r werin.
Noble birth—bonedd, pendefigedd, gwaed pendefigaidd.
It was this that gave birth to the report—dyma yr hyn a roddodd ddechreu i'r chwedl.
This gave birth to the undertaking—hyn a barodd i'r gorchwyl gael ei ddechreu.
The birth of an empire—dechreuad amherodraeth, genedigaeth ymherodraeth.
New birth—genedigaeth newydd,adenedigaeth, ail enedigaeth.
Birth, } *s.*=*Berth*.
Berth, }
Birthday, *s.* (*birth* a *day*) dydd genedigaeth, dydd genid; gwyl genedigaeth.
Birth-day anniversary—cylchwyl genedigaeth, genidwyl, dygwyl geni, cofwyl geni.
Birthday ode—awdl dydd genid, genedigawdl.
His birthday—dydd ei enedigaeth; y dydd ei ganwyd arno; cofwyl ei enedigaeth.
Birthdom,† *s.* (*birth*, a S. *dom*) braint geni, genidfraint.
Birthing, *s.* (o *birth* neu *berth*) peth i godi ochrau llong, ystlysgawd.
Birthnight, *s.* (*birth* a *night*) nos genedigaeth; nos geni; noswyl genedigaeth; cylchwyl nos geni.
Birthplace, *s.* (*birth* a *place*) genidfan, màn enedigol, lle genedigol; y fân y ganwyd un ynddi; y fân lle y ganwyd un; lle genedigaeth; genedigol fân *neu* fangre.
My birthplace—y fân lle 'm ganwyd; y lle y'm ganwyd ynddo; fy ngenedigol fân; fy ngenidfan, &c.
Birthright, *s.* (*birth* a *right*) genedigaeth-fraint, genidfraint, braint genedigaeth, rhagorfraint geni, braint geni, genedigaeth fraint.
He had the estate by birthright—efe a ddaeth i'r tir dàn enw treftadog; daeth i'r tir o *neu* drwy dreftadaeth; daeth y diriogaeth iddo trwy *neu* wrth etifeddiaeth.
Birthsong, *s.* (*birth* a *song*) genidgan, cân ar enedigaeth.
Birthstrangled, *a.* (*birth* a *strangle*) taganedig, tagenedig; à lindagwyd wrth ei eni.
Birthwort, *s.* (*birth* a *wort*) esgorlys, esgarlys, henllydan, mamai, afal daiar.
Round birthwort—esgorlys crwn, esgarlys crwn, henllydan.
Climbing birthwort } — esgorlys bychan,
Climbers, } esgarlys bychan.
Long birthwort—esgorlys hir, esgarlys hir, hir henllydan.
Biscotin, *s.* (Ff.) cyffaith o beillied, sugr, marmelad, ac wyau.
Biscuit, *s.* (Ff. o'r Ll. *bis*, a'r Ff. *cuit*, pobedig) cresdeisen, deugrasen, teisen ddeugras; lletrogen, teisen: *pl.* cresdeisenau, cresdais, bara deugras, lletrogau.
Bisect, *v. a.* (Ll. *bis* a *seco*, *sectum*) deubarthu, rhanu; rhanu yn ddau.
Bisection, *s.* (o *bisect*) deubarthiad, rhaniad; deuraniad; rhaniad yn ddwy ran gyfartal.
Bisegment, *s.* (*bis* a *segment*) dwygrom, deubarthran=un o ranau llinell, wedi ei rhanu yn ddwy ran gyfartal.
Biserrate, *a.* (Ll. *bis* a *serratus*) deurygnog, deufylchog, deudwn; fel dannedd llif.
Bisetous, } *a.* (Ll. *bis* a *setosus*) deuwrychog,
Bisetose, } deuwrychynog.
Bisexous, } *a.* (Ll. *bis* a *sexus*) deurywiog, deu-
Bisexual, } ryw, deurywiol.
Bishop, *s.* (Gr. *episcopos*; S. *biscop*, *bisceop*) esgob; *pl.* esgobion, esgyb.
Bishop's palace—esgobdy, esgoblys, palas esgob, plas esgob, llys esgob.
Odious is a bishop without learning—cas esgob heb ddysg.
White bishop — esgob gwŷn, aspygan, llygad y dydd.
Suffragan bishop—rhaesgob.
Bishop, *v. a.* rhoi bedydd esgob, crysfadu; esgobyddu; urddo.
Bishopdom, *s.* (*bishop*, a S. *dom*) esgobdod, esgobawd, esgobaeth.
Bishoplike, *a.* (*bishop* a *like*) esgobaidd, fel esgob. [awd.
Bishopric, *s.* (*bishop*, a S. *ric*) esgobaeth, esgob-
Bishopsweed, *s.* { *bishop* a *weed* } esgoblys.
Bishopswort, *s.* { *bishop* a *wort* } llysiau yr esgob, githran.

Bisk, *s.* (*Ff. bisque*) sewisgell=math o isgell neu botes.

Bismuth, *s.* (*Al. wismuth*) math ar fettel *neu* ystaenwydr o liw melynaidd neu gochwyn, o ddarganfodiad Paracelsus y Swissiad, yn y 16ed canrif.

Bismuthal, } *a.* (o *bismuth*) bismuthig, bismuth-
Bismuthic, } aidd; perthynol i bismuth.

Bismuthine, *s.* (o *bismuth*) bismuthin=math o ddelid cyfansoddedig o bismuth a llosfaen.

Bismuthine, *a.* bismuthain, bismuthaidd, bismuthin, ystaenwydrin.

Bison, *s.* (Ll.) bual, ych gwyllt.

Bispinose, *s.* (Ll. *bis* a *spina*) deusbinog, deusbinog.

Bissextile, *s.* (Ll. *bissextilis*, o *bis* a *sextus*) blwyddyn naid=y flwyddyn yn yr hon y chwanegir diwrnod at fis Chwefror, yr hyn a ddigwydd bob 4 blynedd; megys, 1848, 1852, 1856.

Bissextile, *a.* perthynol i flwyddyn naid.
The bissextile year—y flwyddyn naid.

Bisson, † *a.* (S. *bisen*) dall.

Bister, } *s.* (*Ff. bistre*, o *bis*, llwyd) paent
Bistre, } llwyd, llwydliw.

Bistort, *s.* (Ll. *bistortia*) llysiau y neidr, neidrlys.
Great bistort—neidrlys, llysiau y neidr.

Bistoury, *s.* (*Ff. bistouri*, oddi wrth ddinas *Pistoia*) trychiadyr=math ar offeryn llawfeddygol.

Bisulcate, *a.* (Ll. *bis* a *sulcus*) dwygwysog, dwygwys.

Bisulcous, *a.* (Ll. *bisulcus*) fforchog, fforchdroed; yn fforchogi yr ewin; fforchog ei ewin.

Bit, *s.* (S. *bita, bitan;* Is. *bit*) tamaid, tam, tameidyn, difyn, dernyn, breubysyn, breubys, hyffyn, tipyn, tip, ticyn, mymryn, gronyn, dryllyn; min; safnaid, bochaid.
A small bit—tamaid bach, cat, cetyn, cilcyn, tameidyn, timyn.
Tid bit—tameidyn melus, ammoethyn, ammeuthyn: *pl.* tameidiau melus, ancwynion, ammoethau, ammoethynion, ammeuthynion, danteithion, danteiddfwydydd.
By bits—yn dameidiau; bob yn damaid; yn dipynau, yn ddifynion, bob yn ddifyn, bob yn ddernyn, bob yn freubysyn, bob yn ddryllyn, bob yn dipyn bach.
To tear all to bits—tameidio; difynio, chwilfriwio, cinynio; tori yn dameidiau; tori yn freubys; tori yn gatiau; tori bob yn getyn.
There is not a bit of it left—ni adäwyd difyn o hono; nis gadäwyd ysgylffyn o hono.
Not a bit—dim tamaid; dim un tamaid; dim un tipyn, mymryn *neu* ronyn; dim o'r gronyn lleiaf; dim yn y radd leiaf; dim yn y mesur lleiaf.
A four-penny bit—dernyn grot, dernyn pedair ceiniog.
Adam's bit—tam Adda, tamaid Addaf.
Devil's bit—cas gàn gythraul, gwreidd-don.
Devil's bit scabious—caswenwyn, bara y cythraul, clafrllys, gwreidd-don, cas gàn gythraul, tamaid y cythraul.
Hawk-bit—peradyl.
Rough hawk-bit—peradyl garw.
Autumnal hawk-bit—peradyl cynauafol.
Sheep's bit, } clefryn.
Sheep's scabious, }
Frog-bit—alaw lleiaf.

Bit, *s.* (S. *bitol*) genfa, genddal.
Bit of a bridle—genfa ffrwyn, genfa, haiarn ffrwyn.
Bit of an auger—ewin taradr; ceufin taradr, treufin tarad.
Bit of a plane—min canwyr, osgfin canwyr.
Bit of a lock—pill clo.
Bit of a key—pill allwedd, rhwyll allwydd.
Centre bit—creiddebill, canolbill.

Bit, *v. a.* gwisgo ffrwyn; rhoi ffrwyn yn mhen march; rhoi genfa am en.

Bitch, *s.* (S. *bicca, bicce, bice;* Al. *betze*) gast, (*pl.* geist), cïes.
Little bitch—gasten, gastan, gast fach.
Proud bitch, } gast gynäig, cïes lawd.
Salt bitch, }
Bitch big with young—gast dorog.
Wolf-bitch, } bleiddast, bleiddes.
Bitch-wolf, }
Fox-bitch, } cadnawes, cadnöes, llwynoges,
Bitch-fox, } llwynogast.
Hound-bitch—bytheuad ast, bytheuades, helast.
Blood-bitch—gwaedast.

Bite, *v. a.* (S. *bitan;* Sw. *bita*) cnoi, brathu, deintio, danneddu, pigo; brathu â dant *neu* â cholyn; tymmigo, llosgi, llymbigo; tori, clwyfo; gwanu; hocedu, twylle, somi; merwino; peri merwindod.
A dog accustomed to bite—ci cynnefodig.
To bite again—adgnoi, eilgnoi, eilfrathu; talu y pwyth; cnoi yn ol.
This bites him—y mae hyn yn ei gnoi; mae hyn yn ei ddygn flino; y mae hyn yn gwasgu arno.
To bite off—cnoi ymaith; tori ymaith â dannedd.
To bite around—amgnoi, damgnoi; cnoi o amgylch.
Biting wind—gwynt pigoglym, llymbigog, brathiadol, tostlym, *neu* lymdost; gwynt oer anoddef; gwynt yn blingo y ffordd y cerddo; gwynt duoer; gwynt deifiol; gwynt trywanol; gwynt yn trywanu; gwynt yn gwanu trwy.
A biting jest—llym gellwair, arabedd pigoglym, ymadrodd cellweirgnoawl, cellwair du, gair du, celleirgno, llymgno cellweirus.
Very biting—tra llym a phigog.
A biting sword—cleddyf trywanol; cledd yn gwanu.
Frost-bitten—rhewedig, fferedig; wedi rhewi, fferu, *neu* rynu; â'r ewinrew arno; deifiedig.
Hunger-bitten—newynog, newynllyd; â newyn arno.
He taunts him bitingly—y mae efe yn ei frathu ef yn dost â'i eiriau pigoglym.

Bite, *s.* brath, cno, cnoad, brathiad; tamaid, tam, safnaid, bochaid; hoced, twyll; hocedwr, hocedydd, twyllwr, somydd, hen gadnaw.

Biter, *s.* (o *bite*) cnöwr, brathwr, brathydd; hocedydd, twyllwr; cnithiwr, goddeintiwr.

Biting, *a.* (o *bite*) brathol, cnoawl, brathlyd; llymbigog, egr, pigoglym, llymdost, poeth; yn llosgi.

Biting, *s.* cnoad, brathiad, cnofa, tymmigiad; ysgerfiad, surysiad.

Bitless, *a.* (*bit* a *less*) heb enfa, dïenddal.

Bittacle, *s.*=*Binacle.*

Bitter, *a.* (S. *biter*; Al., Is., Sw., a D. *bitter*) chwerw, chwerwaidd; bustlaidd; llym, tost, llymdost, tostlym, blindost, pigog, chwerw dost; sur, sarig, garw, gerwin, gofidus, anhynaws; anhyfryd; oeth.
Bitter words—geiriau chwerwon, llymion, pigog, *neu* bigoglym.
Bitter cold weather — oerfel anguriol; tywydd oer anoddef; tywydd oerllyd anoddefol.
Somewhat bitter—chwerwaidd, gochwerw, tran chwerw, lled chwerw.
Very bitter—tra chwerw, chwerw iawn, gorchwerw.
To make bitter—chwerwi; gwneuthur *neu* beri yn chwerw; chwerweiddio; gofidio, blino.
To grow bitter—chwerwi, ymchwerwi, ymfustlo; myned yn chwerw.
Gall bitter—ebustl.
To mix gall bitter with the sweets of life—cymmysgu ebustl â melusion oes.
Bitter as gall—bustlaidd; chwerw fel bustl.
Bitter enmity—gelyniaeth chwerw, chwerw lid.
He wept bitterly—efe a wylodd yn chwerw dost; wylodd yn chwerw-dost.
I have found a thing more bitter than death—cefais beth chwerwach nag angeu.
The sweet cannot be got without the bitter—ni cheir y melus heb y chwerw.
Bitters—chwerwon, chwerlynoedd=dïodlynoedd, neu wirod-poeth, y sicir chwerw lysiau neu wreiddiau ynddynt.
Bitter apple, Bitter gourd, } surgicaion, chwerafal, cicsion chwerw.
Bitter salt—halan Epsom, hal Epsom, blawr Epsom; halen chwerw.
Bitter principle—dansawdd chwerw.

Bitter, *s.* peth chwerw, chwerwyn, chwerw.

Bitterish, *a.* (o *bitter*) chwerwaidd, gochwerw, tran chwerw, lled chwerw.

Bitterishness, *s.* (o *bittcrish*) chwerweiddrwydd, gochwerwedd, chwerweidd-dra.

Bittern, *s.* (Is. *butoor*; Ff. *butor*) aderyn y bwn, aderyn y bwmp, bwmp y gors.

Bittern, *s.* (o *bitter*) heli halen.

Bitterness, *s.* (o *bitter*) chwerwedd, chwerder, chwerwder, chwerwineb, chwerdod; bustledd; llymder, toster, tostedd, gerwinder, pigogrwydd.
Gall of bitterness—bustl chwerwedd, bustl chwerwder.
Bitterness of anger — chwerwedd *neu* chwerder llid.
Surely the bitterness of death is past—chwerwder marwolaeth yn ddiau a aeth ymaith.
Nothing could exceed the bitterness of his words—ni allai dim fyned tu hwnt i lymder ei eiriau; nis gallai dim fod tu hwnt i chwerder ei eiriau.
She was in bitterness of soul—yr oedd hi yn chwerw ei henaid.
Root of bitterness—gwreiddyn chwerwedd.

Bittersweet, *s.* (*bitter* a *sweet*) elinog, manyglog, mynyglog.

Bittervetch, *s.* (*bitter* a *vetch*) pysen y garanod, pysen yr aran; pysen y coed.

Bitterwort, *s.* (*bitter* a *wort*) crwynllys chwerw.

Bittor, **Bittour**, } *s.*=*Bittern.*

Bitt, *v. a.* (o *bitts*) rhaffystancio, rhoi am y rhaffystanciau, ystancio rhaff.

Bitts, *s. pl.* (o *bit*) rhaffystanciau, ystanciau rhaff angor.

Bitume, *s.*=*Bitumen.*

Bitumen, *s.* (Ll.) duglist, llosglws, llosbyg, daiarbyg=math o ddefnydd gwydn a hylosg, tebyg i byg, â geir yn y ddaiar mewn rhai gwledydd. Yr amrywiaethau o hono ydynt y canlynol:
Naphtha—hedlosbyg=y mwyaf hylif.
Petroleum—cleibyg.
Maltha, Mineral pitch, } pyglws, delbyg.
Elastic bitumen, Mineral caoutchouc, } twythlosg, twythlosbyg, duglist hydwyth.
Asphalt—pyglo, breulos, breubyg, pyg yr luddew=y caletaf a breuaf.

Bituminate, *v. a.* (o *bitumen*) duglistio, llosbygo; nawseiddio â duglist.

Bituminiferous, (o *bitumen*, a Ll. *fero*) duglistiog, duglustddygol; yn cynnyrchu duglist *neu* losglws.

Bituminization, *s.* (o *bituminize*) duglistiad, duglisteiddiad, llosbygiad.

Bituminize, *v. a.* (o *bitumen*) duglistio, duglisteiddio, llosbygo, llosbygeiddio.

Bituminous, *a.* (o *bitumen*) duglistaidd, llosglysaidd, pygloawl, llosaidd.
Bituminous shale—llosgleifaen.
Bituminous limestone—llosgalchfaen.
Bituminous spring — llosffynnon, pygdarddell, ffynnon dduglist.

Bivalve, **Bivalvular**, **Bivalvulous**, } *a.* (Ll. *bis* a *valva*) dwygaffellog, deugloriog, dwygragenog, deufasglog, deufasgl.

Bivalve, *s.* deugloriog, dwygragenog; deufasglog=milyn â chanddo ddwy gragen neu gaffell yn cau ac ymagor; megys, y llymeirch, a hadlestri rhai llysiau.

Bivaulted, *a.* (*bis* a *vault*) deufwaog, dwygromenog; â dau fwa iddo.

Biventral, *a.* (Ll. *bis* a *venter*) deufoliog; â chanddo ddau fola.

Bivious, *a.* (Ll. *bivius*, o *bis* a *via*) dwyfforddl, dwyfforddiog.

Bivouac, *s.* (Ff.) cadwyliad, nosgadwyliad; gwyliadwriaeth gàn yr holl fyddin drwy gydol y nos; gwersylliad heb bebyll.

Bivouac, *v. a.* cadwylied, cadwylio; gwyliaw o'r holl fyddin.

Bizantine, *s.*=*Byzantine.* [ymrgol.

Bizarre, *a.* (Ff.) hynod, ysmala, od; dych-

Blabber, *v.* (Is. *labbery*; C. *llafaru*; Gw. *blabh, labhaim, clabaire*) baldorddi, baldorfi, baldordd, llolian, gwagsiarad, dadwrdd, dadyrddu; chwalu chwedlau; adrodd chwedlau; dweyd â ŵyr; siarad, llafaru.
To blab out—gollwng y gath allan o'r cwd.

Blab, **Blabber**, } *s.* (Gw. *blobaran, blobaire*) baldorddwr, bragaldiwr, gwagsiaradwr, llolwr, dwndrwr, chwedleuwr, clepiwr, clapgi, llolyn, clebarddyn, clepai.
A common blab—chwalwr, heuwr, *neu* chwelidydd chwedlau.
He is no blab of his tongue—nid yw efe amleiriog; anaml ei eiriau yw efe.

Blabberlipped, *a.* (o *blabber* a *lip*)=*Blobberlipped.*

Black, *a.* (S. *blac, blæc*) du; much, muchiain, muchuddol, pygliw; tywyll; dybryd, erchyll,

anfad, echryslawn, ysgeler, ofnadwy; cuchiog; athrist; caddugol.
Bright black—claerddu, gloewddu, duloew.
Somewhat black—duaidd, goddu, godywyll, llychwin, gwrm.
Pale black—du gwelw, gwelwddu, goddu.
Light black—goleuddu.
Yellowish black—melynddu.
Brown black, Greyish black, } gwineuddu, llwyd-ddu.
Jet black—much, muchiain, muchudd, muchuddaidd, duddu, llwyrddu.
Black and blue—dulas; du a glas; duglais, cleisiog.
Black and brown—dulwyd.
Black and red—dugoch.
Reddish black—cochddu.
Black and white—du a gwyn.
Bluish black—glasddu.
Lamp black—du yr efail.
Black hue—lliw du, gne du, muchiân.
To make black—duo; gwneuthur yn ddu; pardduo.
To grow black—duo; myned yn ddu.
To be black and blue—bod yn ddu ac yn las; bod yn ddduglais; bod dân ei gleisiau; bod yn gleisiog.
Black and blue spot—duglais, clais, cleisen.
To become black and blue—cleisio, dugleisio; myned yn ddduglais; myned yn ddu ac yn las.
To beat black and blue—cleisio, dugleisio; gwneuthur yn ddduglais; curo *neu* bwyo yn ddu ac yn las.
To dye black—lliwo yn ddu, lliwio yn ddu.
It is a black business—gorchwyl dybryd ydyw; gorchwyl tywyll yw; perwyl du ydyw.
Black will take no other hue—y du ni newid mo'i liw.
You cannot say 'black is his eye'—ni allwch ddywedyd 'du lygad' wrtho; nis gellwch ddywedyd 'du ei lygad' am dano.
Black is your day—dybryd eich dydd; gwae chwi.
Black friar—brawd du, brawd gwisgddu, Dominiciad; brawd *neu* fonach o urdd Sant Dominic.
Black monk—mynach du, Benedictiad; monach o urdd Sant Benedict.

Black, *s.* du, much, muchudd; lliw du; dyn du; galarwisg, gwisg ddu, arwylwisg.
Clothed in black—gwisgedig â du; â fo yn gwisgo du; gwisgddu, gyrmdde; mewn galarwisg.
Frankfort black—du Ffrancffort, golosged Ffrancffort.

Black, *v. a.* duo; gwneuthur yn ddu; pardduo, diwyno, tywyllu.

Black-act, *s.* y weithred ddu=gweithred â ddeddfwyd yn amser Georg 1, yn erbyn hela neu ladrata danys, &c. â gwyneb duedig.

Black-art, *s.* y gelfyddyd ddu; darswyniad, dewiniaeth, rhinwaith.

Blackamoor, **Blackmoor**, } *s.* (*black* a *moor*) dyn du, mwyariaid, duaniaid, duanwys, duantwys, muchwys, Negroaid, Negrwys.
To wash the blackmoor white—golchi 'r du yn wŷn; golchi traed yr alarch.

Black-ball, *s.* pelen ddu, dubelen, tugel du.

Black-ball, *v. a.* dubclenu; tugelu â phelen ddu; pleidleisio yn erbyn.

Black-berry, *s.* (*black* a *berry*; S. *blacberian*) mwyaren, mwyaren ddu, mwyaren y perthi: *pl.* mwyar, mwyar duon, &c.
Blackberry-bush — mwyarllwyn, mïarinllwyn, llwyn dyrysi.

Blackbird, *s.* (*black* a *bird*) mwyalch, mwyalchen, merwys, aderyn du, gwyalch, gwyalchen.

Black-board, *s.* astell ddu.

Black-bonnet, *s.* bras y cyrs = math ar aderyn.

Black-book, *s.* llyfr du; llyfr dewiniaeth.
The black-book of the Exchequer—llyfr du y Sylltty=llyfr, meddir, â gyfansoddwyd yn 1175.

Blackbrowed, *a.* (*black* a *brow*) aeldu; âg aeliau duon iddo *neu* iddi; cuchiog; sarig ei olwg; cethin, bygythiol.

Blackcap, *s.* (*black* a *cap*) penlöyn, penddu, y lleian benddu.
Blackcap of the rushes—penddu y brwyn.

Black-cattle, *s.* da duon; ychain, gwartheg, biw, buchod.

Black-chalk, *s.* marm du=math o gleifaen â geir yn Arfon.

Black-cock, **Black-game**, **Black-grouse**, } *s.* ceiliog du, ceiliog du y mynydd, ceiliog y mynydd, ceiliog y grugieir.

Black-earth, *s.* pridd; daiar ddu.

Blacken, *v.* (S. *blœcan*) duo, gordduo, pardduo, cibdduo, arddduo; gwneuthur yn ddu; tywyllu, cymylu, caddugo, gyrmu, gwyllu; diwyno; myned yn ddu; troi yn ddu; athrodi.
To blacken a person's character—duo nodweddiad un; rhoi drygair i un; dwyn anair ar un; anrheithio un o'i air da; dwyn gair da un oddi arno; duo un; gwneuthur un yn ddu; duo enw da un.

Blackener, *s.* (o *blacken*) düwr; tywyllwr, caddugwr; athrodwr.

Blackeyed, *a.* (*black* ac *eye*) llygad-ddu, llygatddu; du ei lygad.

Black-faced, *a.* gwyneb-ddu; du ei wyneb.

Black-fish, *s.* y pysgodyn du.

Black-flux, *s.* du-redlif, rhedlif du.

Black-guard, *s.* dyhiryn, dyhirwr, drygadyn, anfadyn, anfadwas, adyn, mab y fall.

Black-guardism, *s.* dyhirwch, dyhirwaith, anfadwaith, anfadrwydd; dyhiriaith.

Black-headed, *a.* penddu.

Black-hearted, *a.* calonddu.

Blacking, *s.* (o *black*) duad, du esgidiau.

Blackish, *a.* (o *black*) duaidd, go ddu, lled-ddu, lled ddu, duol, duawg, duwelw; tywyll, caddugaidd; hyll.
Blackish brown, Blackish grey, } dulwyd.
Blackish blue—dulas.
Which are blackish by reason of the ice—y rhai a dduasant gân rew.

Black-jack, *s.* diodlestr lledr.

Black-jaundice, *s.* y clefyd du.

Blacklead, (*black* a *lead*) plwm du, dublwm, muchblwm.

Black-mail, *s.* dudreth.

Black-legs, *s. pl.* dugoesau, dugoesogion, coesau duon, hapchwareuwyr.

Black-letter, *s.* llythyren ddu.

Black-Monday, *s.* dydd Llun du=Llun y pasc, Ebrill 14, 1360, yr hwn oedd gymylog, tywyll

ac môr oer nes y cwympai dynion yn farw oddi ar eu ceffylau.

Blackmouthed, *a.* (*black* a *mouth*) minddu, cegddu, geneuddu, du ei enau; budreiriog.

Blackness, *s.* (o *black*) duedd, dŵwch, duder, muchedd, muchiant; parddu; tywyllder, tywyllwch, tywyllni; erchyllder.

Blackpudding, *s.* (*black* a *pudding*) gwaedogen.

Black-rod, *s.* y wialen ddu, berllysg ddu, dufrysgyll, dulath; berllysgwr, brysgyllydd.

Usher of the black-rod — dygiedydd y wialen ddu, berllysgydd du, dygiedydd y ferllysg ddu.

Black-sheep, *s.* dafad ddu=lluman y Turcmaniaid.

Black-sea, *s.* y Môr Du, y Môr Eucsinus, Môr Eucsinus, Môr Eucsin.

Blacksmith, *s.* (*black* a *smith*) gof, gof du, gof haiarn.

Black-tail, *s.* dulostog=math o bysg â chynffon ddu iddynt.

Black-thorn, *s.* draenen ddu, eirinberth.

Black-wash, *s.* (*black* a *wash*) golch du, agolch du=golch â wneir o alwyballi a chalchwy.

Blackwork, *s.* (*black* a *work*) gofwaith, gwaith gof.

Bladder, *s.* (S. *blædr*, *blædra*) pledren, chwysigen, gwysigen, coden.

A little bladder—pledrenig, pledrig, pledrenan, chwysigenig; pledren *neu* chwysigen fechan.

Blown bladder—chwythigell, chwythigen; chwysigen *neu* bledren lawn o wynt.

Gall bladder—coden y bustl.

Bladder-nut—dagrau Addaf.

Bladder-nut tree—dagrau Addaf.

Bladder-wort—chwysigen-wraidd, chwysig-wraidd.

Common bladder-wort—chwysigen-wraidd cyffredin.

Lesser bladder-wort — chwysigen-wraidd lleiaf.

Bladder campion, } codrwth, gludlys, llys-
Bladder catchfly, } iau y poer, menyg y gog.

Bladder wrack—codwymon, gwymon codog.

Bladdery, *a.* (o *bladder*) pledrenog, chwysigenog, codenog.

Blade, *s.* (S. *blæd*, *bled*) llafn, llefnyn; llain; eginyn, (*pl.* egin), glaswelltyn, blewyn glas; llanc hoew, gwychyn, pefryn, rhacai, brolyn.

Blade of grass—gwelltyn, blewyn; blewyn o laswellt.

Blade of corn—eginyn; *pl.* egin.

Blade of an herb—deilen llysieuyn, deilen blagur.

To be in the blade—bod yn yr eginyn; bod yn ei egin; bod yn ei hosan.

Blade of a flower—mân belydryn, mân baladr: *pl.* mân belydr, mân belydr blodau, mân edafedd blodau.

Blade of hay—gweiryn.

Having many blades—lluosbaladr; âg aml baladr iddo.

Blade of an oar—palf rhwyf.

Blade of a knife—llafn cyllell.

Blade bone, } asgwrn y balfes, craf-
Shoulder blade, } cell yr ysgwydd, ysbawd,
Shoulder bone, } asgwrn yr ysgwydd.

A blade of a man—llach o ddyn, llafn o ddyn, llefnyn o ddyn; gwas gwych.

A cunning blade—dyn ffals, cyfrwys, *neu* gyfrwysgall.

A cunning old blade—hen gadnaw, hen lwynog; hen ddyn cyfrwysddrwg; hen ddyn dichellgar.

A stern old blade—henwr traws, hen ddyn sarig.

An active young blade — llach o ddyn ieuanc gweisgi; dyn ieuanc gweisgi.

A lusty blade—gwas gwych, dyn dihafarch.

A sneering blade—gwatwarwr cymhen.

A brother of the blade — bocsachwr, broliwr, ffrostiwr, dyn brochus, dyn mawr ei froch; ymffrostiwr yn ei wrhydri.

There is a fine blade of a man—dyna lafn o ddyn teg; dyna lach o ddyn teg.

Blade-fish—llafn-bysg=pysg hynod, perthynol i'r India.

Blade, *v. a.* llafnu; cymhwyso llafn i.

Bladed, *p. a.* llafnedig, llafnog, llafnol, llafnaidd; eginedig, eginol; lleiniog.

Bladesmith, *s.* (*blade* a *smith*) llafnof, cleddof, gof cleddyfau.

Blain, *s.* (S. *blegene*; Is. *blein*) llynor, llynoryn, ploryn, penddüyn, cornwyd; pothell, chwysigl, chwydalen; llyfanwst, llyffant tafod.

Full of blains—llynorog, plorynog, cornwydlyd, pothellog.

A boil breaking forth with blains—cornwyd llynorog.

Blake,† *a.* (?) melyn.

Blake, *s.* gleiad, gleiaden=tom gwartheg wedi ei sychu at danwydd.

Blame, *s.* (Ff. *blâmer*) bai; cerydd, sen, sard, cwl, cwyl, achwyn, argywedd, argyhoeddiad, caredd.

He bore the blame—efe a ddygodd y bai; efe a gymmerodd y bai arno; efe a gafodd y cwyl arno; efe a gas y cerydd; efe a acth dân y bai; rhoddwyd y bai arno.

The blame fell upon him—syrthiodd y sard arno ef; arno ef y syrthiodd y bai; y camgwl a syrthiodd arno ef.

He had all the blame—efe a gafodd yr holl gerydd; efe a gafodd yr holl fai; cafodd ef y bai i gyd; bwriwyd yr holl fai arno ef.

They escaped without blame—diangasant yn ddisen; diangasant yn ddigerydd.

He will lay blame upon thee—efe a fwrw fai arnat; efe a'th feia.

Let me bear the blame — bydded y bai arnaf fi; rhodder y bai arnaf fi; bwrier y bai arnaf; cyfrifer fi yn euog; gorwedded y bai wrth fy nrws i.

Without blame—difai, difeius, digwl, digaredd, dinam, digerydd.

He is to blame—y mae i'w feio; mae efe yn feius; y mae bai arno ef; efe sydd i'w feio; arno ef y mae y bai.

You will be very much to blame for that—bydd arnoch fai nid bychan am hyny.

To free from blame—difeio, digylu; diheuro; rhyddhau oddi wrth fai.

Blame, *v. a.* beio, ceryddu, argyhoeddi, senu, sardio, cylu; beio ar, bwrw bai, bwrw bai ar.

Because he was to be blamed—am ei fod i'w feio.

I was blamed—beiwyd fi; beiwyd arnaf; cefais fy meio; mi geis gwyl; bwriwyd bai arnaf; rhodd y bai *neu* y caredd arnaf fi.

Inform thyself first, and then blame—myn wybod yn gyntaf, ac yna beia.

Let no man blame us for this—na feied neb arnom am hyn.
Blame not before thou hast examined the truth—nac achwyn cyn chwilio y gwirionedd.
They are the less to be blamed—y mae bai y rhai hyn yn llai.
The prophet blamed them—y proffwyd a'u ceryddodd hwynt.
Blame your companion for it—rhoddwch y bai ar eich cydymaith; bwriwch y bai ar eich cydymaith.

Blameable, *a.* (o *blame*) beius; i'w feio; cylus, cylfawr, cwylfawr, camgylus, hygwl, ar fai, ar y cam, euog o fai; ceryddus, ceryddol; beiadwy.

Blameableness, *a.* (o *blame*) beiusrwydd, beiuster, beioldeb, cylusrwydd, hygyledd, hygwyledd; bai, cwl.

Blameful, *a.* (o *blame* a *full*) beius, beiol; euog, cylus, cwylfawr; i'w feio.

Blamefulness, *a.* (o *blameful*) beiusrwydd, beiusdod, beiolrwydd; euogrwydd, cylusrwydd, hygyledd.

Blameless, *a.* (*blame* a *less*) difai, difeius, digwl, dieuog, gwirion, dinam, diargyhoedd, difrycheulyd, dinam, anhygwl; digerydd, digaredd.

Blamelessness, *s.* (o *blameless*) difeiusrwydd, difeioldeb, anhygyledd, digyledd; dieuogrwydd, gwiriondeb.

Blamer, *s.* (o *blame*) beiwr, ceryddwr, *&c.*

Blameworthiness, *s.* (o *blameworthy*)=*Blameableness.*

Blameworthy, *a.* (*blame* a *worthy*)=*Blameable.*

Blancard, *s.* (Ff.) math ar lian â wneir yn Normandi.

Blanch, *v.* (Ff. *blanchir*) cànu, gwynu, dargànu, arwynu, gwynhau; gwneuthur yn wyn *neu* gannaid; dirisglo, pilio, gweisgioni; seithugio, somi, gochelyd; bod yn wagelog; dweyd yn deg.
To blanch almonds — dirisglo *neu* bilio almonau.

Blanch-farm, } gwynddyddyn = tyddyn y
Blank-farm, } telid am dano mewn arian, nid mewn anifeiliaid.

Blancher, *s.* (o *blanch*) cànwr, cànydd, dargànydd; delgànwr.

Blanchimeter, *s.* (*blanch* a Gr. *metron*) cànfesur, cànfydrai.

Blanching, *s.* (o *blanch*) cànad, dargànad, darwynad.

Blanc-manger, *s.* (Ff.) càngyflaeth, canfysgedd, gwyngyflaeth.

Bland, *a.* (Ll. *blandus;* Ff. *blond*) mwyn, mwynaidd, tirion, tyner, hynaws, rhywiog, tawel, geirdeg, afieithus, hyfryd, teg, blydd, gwâr, gwenawl, denol, ardymherus.
Bland words—geiriau teg, geiriau mwyndeg, llathreiriau.
A man of bland words—dyn geirdeg, dyn teg ei eiriau.
Bland zephyrs — awelon blydd; awelon tirion tawel; gwyntoedd tirion dawel.

Blandation,† *s.* (Ll. *blanditia*) gorwenieithad, truth digywilydd, gweniaith amlwg.

Blandiloquence, *s.* (Ll. *blandiloquentia*) gweniaith, hudiaith, ymadrodd teg, ymadrodd afieithus, geiriau teg gwenieithol, siarad teg, parabl afieithus; mwyniaith, arabeddiaith.

Blandish, *v. a.* (Ll. *blandior*) gwenieitho, gwenieithu, godruthio, truthio, mwythddenu; darfwytho; llodi, mwytho, anwesu, llochi; denu â geiriau teg.

Blandisher, *s.* (o *blandish*) gwenieithwr, godruthiwr, tegeiriwr, mwythddenwr, lloddwr, llochwr; dyn afieithus *neu* wenieithus.

Blandishing, *s.* (o *blandish*)=*Blandishment.*

Blandishment, *s.* (o *blandish*) afiaeth; geiriau teg; mwyniaith, lloddineb, afieithusder, afieithusrwydd, mwythiant, anwesdod, llawch, darfwythiant, mwythusder; gwenieithad, godruth, gweniaith, arabeddiaith.

Blue-haired, *a.* gwalltlas, penlas, glaswallt.
Blueing, *s.* (o *blue*) glasiad.
Blue-mantle, *s.* glasfantellog, glas ei fantell= herodr yn gwisgo mantell las.
Blueness, *s.* (o *blue*) gleani, glesid, glasder, glaswg, glasliw.
Greyish blueness—llwydlesni.
Reddish blueness—cochlesni.
Blackish blueness—dulesni.
Greenish blueness—gwyrddlesni.
Pale blueness—gwynlesni.
Blue-ointment, *s.* glasenaint.
Blue-peter, *s.* arwydd i hwylio, hwyl-amnaid.
Blue-pill, *s.* glasbelen, pelen las.
Blue-throat, *s.* y ceglas=aderyn à gyfannedda ogleddion Ewrop ac Asia.
Blue-veined, *a.* gwythenlas, glaswythenog; glaslinellog.
Bluey, *a.* (o *blue*) glasaidd, lledlas, golas.
Bluff, *a.* (C. *llwff?*) tren, gerwin, blwng, tryn, brochus, ffyrnig; chwyddedig, trawsfalch, tordyn, uchelgest, cestuchel, sythfalch; trystfawr.
See how bluff he looks—gwelwch mòr dren y mae yn edrych; gwelwch mòr drawsfalch y mae yn chwyddo ei fochau; gwelwch mòr dordyn ydyw.
Bluff, *s.* trenfa, brochlan=craig neu esgyndir uchel yn ymysgwyddo allan i'r môr.
Bluffness, *s.* (o *bluff*) blyngder, blyngedd, trenigrwydd; ymchwydd, blythni; sarigrwydd, afrywiogrwydd, trawsfalchedd.
Bluffy, *a.* (o *bluff*) trenfaog, brochlanog, sythgreigiog.
Bluish, *a.* (o *blue*) glasaidd, golas, lledlas.
Bluish red—glasgoch.
Bluish black—glasddu.
Bluish brown—glaslwyd.
Bluish yellow—glasfelyn; *f.* glasfelen.
Bluish grey—glaslwyd, glasflawr.
Bluish crimson—glasrudd.
Bluish green—glaswyrdd; *f.* glaswerdd.
Bluish bright—glasloew.
Bluish white—glaswyn; *f.* glaswen.
Bluishness, *s.* (o *bluish*) golesni, lledlesni, glaseiddrwydd.
Blunder, *v.n.* (Is. *blundercn*, yn ol *Johnson*) camsynied, camsynio, camgymmeryd, camddywedyd, amryfuso, amryfuseddu, cyfeiliorni, methu; camsynied *neu* gyfeiliorni yn chwithig; tramgwyddo, tripio; taro wrth *neu* yn erbyn peth; dywedyd methair; methu yn ei ymadrodd; bod yn drwsgl, afrugl, anhyfedr, *neu* drwstan.
The mole sometimes blunders into light—daw y wadd weithiau i oleuni heb wybod iddi.
Blunder, *s.* camsyniad, camgymmeriad, amryfusedd, cyfeiliornad, tramgwydd; coll, meth, methiad, methwaith, methymadrodd, camddywediad; camsyniad *neu* gamgymeriad chwithig *neu* warthus; chwithrwydd, cuallder.
Blunderbuss, *s.* (*blunder*, ac Is. *bus*) rhythwn= math o wn byr â cheuedd mawr iddo.
Blunderer, *s.* (o *blunder*) camsyniwr, camgymmerydd, camddywedwr, camwedydd, amryfuswr; dyn camsyniol *neu* ddiofal; camsyniwr chwithig; cuall.
Blunderhead, *s.* (*blunder* a *head*) cadafacl, penbwl, penllorcan, cuall.
Blunt, *a.* (Al. *plump?* Gr. *amblunô?*) pwl,

(*f.* pol), aflym, difin, dïawchus, dïawch, ambylus; difoes, trwsgl, (*f.* trosgl), trwstan, blwng, (*f.* blong), iang, dwl, (*f.* dòl), anfoneddigaidd, taiog, dreng, lledarw, anghymhen, gwladaidd, afledneis; byrbwyll, swrth; anhydraidd.

A blunt fellow—dyn difoes *neu* drwsgl, &c.; delff, drel, drelyn, cuall, dengyn.

Blunt-edged—minbwl; pwl, difin, aflym.

Blunt-headed—penbwl, penbylaidd.

Blunt, *v. a.* pylu, arbylu, erbylu, aflymu, ambylu; tori awch *neu* lymder; gwneuthur yn bwl; dïawchu, difinio; llaesu, llinaru.

Blunt not my affection—na phylwch fy serch; na thorwch ar fy serch.

To blunt the edge of love—pylu awch cariad; pylu min serch.

To blunt the stings of pain—pylu colynau poen; tori llymder poen.

Blunting, *s.* (o *blunt*) rhwystr, attaliad, attalfa.

Bluntness, *s.* (o *blunt*) pylni, pyledd, pylder, pylrwydd, arbyledd, aflymder, ambyledd, dïawchedd, difinedd; difoesedd, anfoesogrwydd, trysgledd, taiogrwydd, iangedd, dylni, anfoneddigrwydd, trwstanwch, anfoes, garwedd, afledneisrwydd.

Bluntwitted, *a.* (*blunt* a *wit*) synwyrbwl; penfeddal, penfas, penfasw, penblydd, penbylaidd, hurt, dwl, (*f.* dòl), siol-wag.

Blur, *s.* (Ysp. *borra*, yn ol *Skinner*; C. *llur*, Ll. *luridus?*) dunod, dufan, màn, màn du, ystaen; magl, brycheuyn; nam, anaf, gwall, mefl.

Blur, *v. a.* diwyno, ystaenio, mànu, dufanu, duo, brycheuo, ysbrychu; anafu, meflu.

To blur a person's reputation—llygru, diwyno, andwyo, anafu, *neu* anurddo cymeriad dyn; diwyno gair da un; gwaradwyddo un; dwyn gwaradwydd *neu* anair ar un; peri anaf i nodweddiad un; duo enw da un.

Blurt, *v. a.* (S. *fleardian?* C. *fladr?*) dywedyd yn ffladr *neu* chwidr; dywedyd cyn *neu* heb ystyried; siarad yn fyrbwyll; llolian, gwagsiarad, ffiadru; bwrw geiriau allan.

Blush, *v. n.* (Is. *bloozen*; Sw. *blyas*) gwrido, cochi, gwridgochi, gwridogi, gruddgochi; dygochi, dargochi, yswilio; cywilyddio, gwladeiddio; bod cywilydd, gorchwyledd, *neu* wylder ar un.

I blush to lift up my face to thee—y mae arnaf orchwyledd codi fy wyneb atat ti.

They could not blush—ni fedrent wrido.

Blushing rose—rhosyn gwridog.

He is ashamed to blush—y mae arno gywilydd gwrido.

He blushed as red as fire—cochodd fel y tân; cochodd hyd ei ddwyglust.

He made them blush—parodd iddynt wrido *neu* gochi; parodd arnynt gywilydd wyneb; cywilyddiodd hwynt; perodd i'w gwaed godi yn eu gwynebau.

Blush, *s.* gwrid, gorne, gwridgochni, cochni.

He could not behold her without a blush—nis gallai efe edrych arni heb gochi.

At first blush—ar yr olwg gyntaf; ar y drem gyntaf; ar y gipolwg gyntaf.

To get a blush of a thing—cael cipolwg ar beth; cael lledolwg ar beth; cael tremyn ar beth; cael cildremyn ar beth.

He put the ladies to the blush—efe a barodd i'r rhianod gochi; parodd i'r boneddesau wrido, wynebgochi, *neu* gywilyddio; parodd gywilydd wyneb ar y rhianod; parodd orchwyleddary rhianod.

The rosy blush of love—rhosliwiog wrid cariad; gwrid rhosliwiog serch.

Blush-colour—rhosliw, lliw rhos cochion, lliw gwrid, gwridliw.

Blushet,† *s.* (o *blush*) gwriden, gwridoges, merch ieuanc wylaidd.

Blushful, *a.* (o *blush* a *full*) gwridlawn.

Blushing, *p. a.* (o *blush*) gwridog, gwridgoch, rhosliwiog; gwylaidd, gwyl, yswil, cywilyddgar.

Blushing-red—gwridgoch; coch gàn gywilydd.

Blushless, *a.* (*blush* a *less*) diwrid; digywilydd, haerllug; na fedr wrido.

Blushy, *a.* (o *blush*) gwridog; rhosliwiog, gwridliwiog.

Bluster, *v. n.* (S. *blæstan?*) dwndro, trystio, trybestu, dadyrddu, dadwrdd, tyrddu; gwneuthur twrdd *neu* gyffro; damdyrddu, tyrddain, bygylu, rhuo, ystormi, gorddyar; gwagfwgwth, gwagsynio, brochi.

Bluster, *s.* dwndwr, trwst, twrdd, swn, terfysg, twrw, twrf, dadwrdd, damdwrdd, dwndwrdd, gwestledd, godwrdd, cyffro, ffwndwr, cynhwrf, ffrwst; bròl, broch, bocsach, gwagfolach, boloch; rhu, rhuad, rhyferthwy, ystorm, tymhestl.

Blusterer, *s.* (o *bluster*) dwndrwr, tyrddwr, bocsachwr, broliwr, trystiwr, dadyrddwr, bygylwr, brochwr, damdyrddwr; gwagfostiwr, gwagfygythiwr, ymgecrwr; dyn mawr ei roch; ysgrechwr.

Blustering, } *a.* (o *bluster*) dadyrddus, dal-
Blusterous, } yrddol, trystfawr, trystiog; yn
Blustrous, } cadw mawr swn; brochus, damdyrddus, bloeddfawr, bloeddgar, terfysgus, afreolus, cynhyrfus; bocsachus, ffrostfawr; tymhestlog, ystormus, rhuadus, rhuadol, gwyntog.

Blustering aspect—brochwel.

He makes a blustering noise and stir—y mae efe yn fawr ei swn a'i ddwndwr.

Blustering wind—gwynt ystormus *neu* dymhestlog; gwynt ysgrechog *neu* gryf.

Bo, *in.* (C.) bo! bw!

Boa, *s.* (Ll.) dosbarth o seirff dwyelfenog perthynol i Ddeheudir America.

Boa constrictor—yr alsarff, gwasgarff=y fwyaf o'r holl seirff, weithiau o 30 i 40 troedfedd o hyd.

Boar, *s.* (S. *bar*; Al. *eber*) baedd.

Wild boar — baedd gwyllt, baedd coed, gwyddfochyn, gwyddfaedd, carog.

Tame boar—baedd gwâr, baedd dof.

Boar set apart for breed—baedd cenfaint.

Splayed boar—twrch, baedd dysbaddedig.

Apt to follow the boar—baeddredog.

Boar spear—baedd-waew, hych-waew.

Boar, *v. n.* tremynu.

Board, *s.* (S. *bord*; Celt. *bord*, *bwrdd*) astell, estyllen, astyllen; astellan, ystyllen, estellan, llifwydden; bwrdd, bord; ymborth, bwyd; bwrdd llong; eisteddfod, cyfeisteddfod, cyfeisteddle, cynghor: *pl.* estyll, estyllod, ystyllod, llifwydd.

Board of agriculture — bwrdd diwyllodraeth, cyfeisteddfod amaethyddiaeth.

Board of control—swyddfa ardwy, bwrdd ardwy.

Board of trade—swyddfa trafnid, bwrdd trafnid.
Board of commissioners—bwrdd prwyaduron, eisteddfod dirprwywyr, eisteddfod prwyaduron.
Board of treasury—bwrdd y trysorlys.
Tea-board—te-ford, te-fwrdd, bwrdd te, bord de, heilyr te.
Board of health—bwrdd iechyd, cymmanfa iechyd, cyfeisteddfod iechyd.
To summon a board — cydwysio eisteddfod; galw eisteddfod yn nghyd; cynnull cyfeisteddfod *neu* gyfeisteddwyr.
Board of a ship—bwrdd llong.
On board—mewn llong; yn y llong; ar y bwrdd; ar fwrdd llong; ar fwrdd; i'r bwrdd; i long.
To go on board—esgyn i long; dringo i long; llongi; myned i long; myned i fwrdd llong.
On board the admiral—yn llong y llyngeswr; ar fwrdd llong y llyngesydd.
Board to board—yn ochr yn ochr; yn gyfystlys.
To fall over-board—syrthio *neu* gwympo dros y bwrdd.
To heave *or* cast over-board—taflu dros y bwrdd; bwrw dros y bwrdd; bwrw allan i'r môr.
To slip by the board—syrthio dros ochr llong; llithro dros yr ochr.
Weather board—yr ochr nesaf i'r gwynt; yr ystlys tua'r gwynt; ochr y tywydd.
Board and board—ochr yn ochr; cyfystlys, cyfarystlys.
To make a good board—hwylio yn uniongyrch.
To make short boards—hwyldroi yn aml; mynych ŵyrhyntio.
Float boards of a water-wheel — llwyau rhod ddwr.
Board yard — astellfa, estyllfa, astyllfa, estyllodfa, clos estyll.
Split boards—ais, ysgyr, fflochenau, estyll.
A thin board—clawd, astell deneu.
Deal boards — byrddau ffawydd; estyll ffawydd.
Cedar boards — estyllod cedrwydd, estyll cedr, byrddau cedrwydd.
To slit into boards—estyllodi, astellodi; hollti yn estyll.
Mould board, Earth board, } chwelydr, dymchwelydr.
Chess-board—tawlfwrdd, tawlbwrdd, clawr y wyddbwll.
Sound board, Sounding board, } seinfwrdd, seinglawr.
Side-board—ystlysfwrdd, ystlysford.
A book in boards—llyfr mewn byrddau; llyfr rhwym mewn byrddau.
Paste-board — sythbapyr, gludlen, sythfwrdd, gludfwrdd, papyrfwrdd.
Pressing board—gwasgfwrdd.
Board and lodgings—bwyd a lletty; bwrdd a lletty.
To pay for one's board—talu am ei fwrdd; talu am ei ford; talu am ei fwyd; talu am ei gymmaeth; talu am ei gynnaliaeth; talwestu.
At bed and board—ar fwrdd ac ar wely.
Above board—ar gyhoedd, yn yr amlwg, mewn goleuni, yn y goleuni, yn ddigudd; yn ddidwyll, yn ddihoced, yn ddiduedd, yn ddiragrith, yn ddiddichell; yn uniawn ac yn onest; yn deg, yn glau, yn bur; uwch law bwrdd.

Board, *v.* byrddio, byrddu, bordio; astellodi, astellu, estyllodi, toniaru, cyfastellu, llofftio; goresgyn llong, treislongi; talwestu, cymmaethu.
Boarded floor—llawr estyllod, llawr estyll, llawr cyfastell, hurtyr, llofft, tafiod.
To board in—cau âg estyll *neu* astellod.
To board over—byrddu, byrddio, astellodi; toi âg estyll.
To board a ship—myned i mewn i long; neidio i long; goresgyn llong.
To board the enemy — goresgyn llong y gelyn.
To board students — byrddio myfyrwyr; talwestu myfyrwyr; cymmeryd myfyrwyr ar eu bwrdd; cymmaethu myfyrwyr; gwestlettya myfyrwyr.
To board with one—byrddio, talwestu, *neu* gymmaethu âg *neu* gydag un; cydfucheddu *neu* gydfwyta ac yfed âg un; bod yn westai i un.
It is there he boards—yno y mae efe yn byrddio *neu* dalwestu; yno y mae yn byw ac yn bod; yno y mae yn cymmaethu; yno y mae ei westle ef.

Boarder, *s.* byrddiwr, talwestwr, talwestydd, gwestlettywr, cymmaethwr, cytteullŵr; esgynwr llong, llongesgynwr, treislongydd.
Boarder of a ship in action — byrddiwr llong mewn cad; treislongydd mewn ymgyrch.

Boarding-house, *s.* talwestty, gwestle, cydwestle, gwestletty.
Boarding-pike, *s.* byrddwaew, byrddlost, ysbar fyrddio.
Boarding-school, *s.* gwestysgol, ysgol gydwest.
Board-wages, *s. pl.* bwyttal, bwydgyflog.
Boarish, *a.* (o *boar*) baeddaidd, baeddol, baeddog; mochaidd; anifeilaidd, creulawn.
Boast, *v.* (C. *bostio*) bostio, ffrostio, ymffrostio, bragio, brolio, brolian, amryfu, ymfawrygu, ymogoni, ymogoneddu, ymglodfori, bocsachu, ymfolachu, rhodresu, ymorfoleddu; gwneuthur ffrost, bost, *neu* ymffrost; ymhoni.
He boasted proudly—efe a ymffrostiodd yn ei falchder.
Boasting himself to be somebody — gân ddywedyd ei fod ef yn rhyw un.
To boast great things—ffrostio pethau mawrion.
Boast not thyself of to-morrow — nac ymffrostia o'r dydd efory.
In their glory shall ye boast yourself—yn eu gogoniant hwy yr ymddyrchefwch.

Boast, *s.* (C. *bost*) bost, ffrost, ymffrost, gwagfost, brol, bocsach, brawl, broled, rhodres, molach, gorfoledd.
To make one's boast=*Boast, v.*
Great boast, small roast—addaw mawr a rhodd fechan.
Of him will I make my boast—ynddo ef yr ymogoneddaf; ynddo ef yr ymffrostiaf.

Boaster, *s.* (o *boast*) bostiwr, ffrostiwr, ymffrostiwr, broliwr, bocsachwr, bragiwr, &c.
A mere boaster—llew yn ei araeth, a llo yn ei arfau.

Boastful, } *a.* (o *boast*) ffrostus, bostfawr,
Boasting, } ffrostfawr, ffrostiol, bostus, ymffrostgar, bocsachus, rhodresgar, ymfolachus, gwagorfoleddus, bragiol, broled, coegfostus.
Boasting words — bosteiriau, ffrosteiriau, geiriau chwyddedig, geiriau gorwagedd.
Boastfulness, *s.* (o *boastful*) ffrostusrwydd, bostusrwydd, ffrostgarwch, bostforedd, bocsachusrwydd.
Boasting, *s.* (o *boast*) ffrostiad, ymffrostiad, bostiad, ymffrost, bost.
Vain boasting—coeg ymffrost, gwagfolach, gwag ymffrost, oferfost.
Great boasting—gorymffrost, mawr ymffrost, ffrost mawr.
Where is boasting then?—pa le gàn hyny y mae gorfoledd?
Boastive, *a.* (o *boast*) rhyfygus, amryfygus, cymmyreddus.
Boastless, *a.* (*boast* a *less*) difost, diffrost, diymffrost; heb fost *neu* ymffrost; difrawl.
Boat, *s.* (S. *bat*; Sw. *bat*; D. *baad*; C. a Gw. *bad*; Is. *boot*) bad, cwch; ysgraff, cafn.
Life-boat—bywydfad, diogelfad.
Advice boat—ysbeifad, peithas, peithfad, hysbysfad, peithlong, bad ysbeiana.
Long boat—cwch mawr, y cwch mwyaf; hirfad, hirgwch.
Jolly boat—iolfad, ysgwyddfad.
Ferry-boat—ysgraff, ceubal, troesglwyddfad.
Fishing boat—cwch pysgota, bad pysgota, pysgfad, pysgodfad.
Flat-bottomed boat—garfwch, cafn enlli, ysletan, cwch gwaelod-wastad.
Steam-boat — agerfad, agerddfad, agerlong.
Fly-boat—hedfad, ehedfad, ysgafnfad, badlong ysgafn.
Passage-boat — troesfad, troesglwyddfad, tramwyfad.
Packet-boat—llythyrfad, llythyrlong, llong lythyrddwyn.
Pleasure-boat—difyrfad.
Tilt-boat—gwasgodfad, pabellfad, gorthofad.
Open boat—cwch penagored, bad agored.
Horse-boat—marchfad.
Boat-ful—badaid, cychaid; llonaid cwch *neu* fad.
The rowers' seats in a boat—trawstlathau.
To go by boat—myned mewn bad; mordwyo mewn bad; myned ar hyd y dwr; mordwyo.
Boat, *v. a.* badu, cychu; trosi *neu* droesglwyddo mewn bad.
Boatable, *a.* (o *boat*) badadwy; nofiadwy i fadau *neu* gychod: arferedig yn y Taleithiau Cyfunol.
Boat-bill, *s.* badbig, badylfin=rhywogaeth o adar.
Boat-fly, } *s.* badrilionen, badgleren; *pl.*
Boat-insect, } badrilion, badgler.
Boat-hook, *s.* badfach, bach cwch.
Boating, *s.* (o *boat*) badiad, cychiad; badhwyllad.
Boation,† *s.* (Ll. *boo*) rhuad, rhu, gwaedd, swn.
Boatman, } *s.* (*boat* a *man*) badwr, cychwr,
Boatsman, } ysgraffwr.
Boat-rope, } *s.* badraff, rhaff cwch, rhaff
Boat-painter, } bad.
Boat-shaped, *a.* cychaidd, badaidd; badwedd, badlunlaidd; ar wedd bad *neu* gwch.

Boatswain, *s.* (S. *batswein*) penbadwr, prifgychwr; meistr y cwch mawr.
Bob, *s.* (anhysbys) diblyn, bagedyn, crogaddurn, dibyndlws, tegan, clustdlws; pelen; gair cyrch, gair llusg, llusgair; cnith, ergyd ysgafn; ysgydiad, gwth, ysgwt, lledwth; sbwyd; gwawdair, gwawd; cyrchganiad; penguwch cwta.
Bob, *v.* cnithio, taro, baeddu; taro, pwyo, curo, *neu* gnithio yn erbyn; siglo, hongian; chwareu yn ol ac yn mlaen; ysgwyd, siglo, ysgytio, ysgytian, gwthio; twyllo, hocedu; gwawdio, hudo; cellwair; cytio, tori yn fyr; llyswena, dàl llyswod; dala llyswod â genwair.
Her birthday jewels bobbling at her ears —ei thlysau gwerthfawrocaf yn nibyn wrth ei chlust.
While cherries ever bobbed against her lip —a'r ceirios hwythau yn taro gàn mwyaf wrth ei min.
Bob, *a.* byr, cwta; *f.* bèr, cota: arferedig mewn cyfansoddiad.
Bobance,† *s.* (o *bob*) ymffrost, ffrost, bostiad.
Bobbero, *s.* (Ysp.) math o ddawns neu chwareu.
Bobbin, *s.* (Ff. *bobine*) plethbin, plethwaell; cronbleth, pinbleth, plethlinyn; gwerthyd.
Bobbin net—plethrwyd.
Bobbinwork, *s.* (*bobbin* a *work*) plethbinwaith.
Bobcherry, *s.* (*bob* a *cherry*) crogsurian=math o chware plant.
Bobstays, *s.* (*bob* a *stay*) osgraffau.
Bobtail, *s.* (*bob* a *tail*) cynffon gota, cynffon fèr, cwtog; y werinos, ciwed, y gwreng.
Bobtailed, *a.* (o *bobtail*) cwta, (*f.* cota), byr, (*f.* bèr), cynffon-gwta, (*f.* cynffon-gota,) cynffonfyr, (*f.* cynffonfer), cwtog
Bobwig, *s.* (*bob* a *wig*) penguwch cwta, rhithwallt cwta.
Bocal, *s.* (Ff.) cronwydrel.
Bocaque, } *s.* (?) milyn, tebyg i gwningen, à
Bocake, } geir ar lanau yr afon Nieper.
Bocasine, *s.* (Ff. *boucassin*) math ar sythlian teg.
Boce, *s.* (?) math o bysgodyn, y sparus.
Bockelet, }
Bockeret, } *s.* (?) math o walch hir-aden.
Bocking, *s.* (?) math o frethyn cedenog.
Bockland, *s.*=*Bookland.*
Bode, *v.* (S. *bodian*) darogan, rhagarwyddo, rhagddangos, argoeli, brudio, darmain, argoeli, rhagargoelio.
To bode evil — argoelio *neu* argoeli yn ddrwg; bod yn argoel ddrwg; darogan drygau; darogan drwg.
To bode good — argoelio *neu* argoeli yn dda; bod yn argoel dda; darogan da.
To bode well—argoelio yn dda; argoeli yn dda; darogan yn dda.
This bodes well to you—y mae hyn yn argoelio yn dda i chwi; argoel dda i chwi yw hyn; coel dda yw hyn i chwi.
Ill boding words—geiriau yn darogan drygau; geiriau drwg eu hargoel; geiriau dryg-ramant.
Bode, *s.* argoel, darogan, rhagarwydd; arosiad, arosfa.
Bodement,† *s.* (o *bode*) argoel, daroganiad, rhagargoel, argoeliad, rhagarwydd, rhagddangosiad.
Bodge,† *v. n.* (C. *bwgwl!*) petruso, rhuso: ffugio; aros.
Bodge,† *s.* clytwaith, bonglerwaith.

Bodice, *s.* (o *body*) gwasgrwym, gwasg, gwast, gwasgai; corff.

Bodied, *a.* (o *body*) corffog, corfforol, corffol; âg iddo gorff.

Slender-bodied—archfain, mein-gorff.

Big-bodied — corffol, corffog; â chorff mawr iddo.

Able-bodied man, } dyn cydnerth, dyn
Strong-bodied man, } corffog, dyn cadarn-gryf.

Strong-bodied wines—gwinoedd trachadarn, gwinoedd trachryfion; gwinoedd cadarn-gryf, nerthol, *neu* nerthog.

Bodiless, *a.* (*body* a *less*) digorff, anghorfforol; heb gorff iddo.

Bodily, *a.* (o *body*) corfforol; gweithredol, gwirioneddol.

Bodily act—gweithred wirioneddol.

Bodily, *ad.* yn gorfforol; yn ei gorffolaeth.

Boding, *s.* (o *bode*) darogan; daroganiad, argoel, rhagarwydd.

Bodkin, *s.* (Gw. *bod*, llost, a'r terfyniad bychanig *kin*) gwaell, gwniwaell, gwalltwaell; pwyntyr, mynawyd.

Body, *s.* (S. *bodig*) corff; corf, corffor; cyff; dynawd, ansawd, un, dyn; crynodeb, crynoad, swm, casgl, deseb; byddin, llu; corfforaeth; cryfder.

Body of divinity—corff o ddduwinyddiaeth, corff dwyfyddiaeth.

Body of men—corff o ddynion; llu o ddynion.

The main body of a thing—rhanau cyfanol peth; y corff cyfan.

Dead body—corff marw, celain, celan, un marw; burgun, llurgun.

Behold, they were dead bodies—wele hwynt yn gelaneddau meirwon.

Solid body—trygorff, corff tryfaint.

Round body—corff crwn, clwch.

Hollow body—corff gwag, corff ceuol, cofft.

Little body — corffyn, corffilyn, corff bychan.

What can a body do?—beth a wnai dyn? pa beth a wnai un? beth a wnai un?

Any body—rhywun, rhyw un, unrhyw un; neb, nebun, un, yr un, rhyw; y neb *neu* y sawl a fynoch; un dyn pwy bynag.

Every body without exception—pob rhyw un heb adael un; pob rhyw ddyn heb adaw un; pob rhyw ddyn heb eithro un; pawb yn ddieithrad.

Every body knows—gŵyr pawb; pawb a wyddant; nid oes dyn nas gŵyr.

What will every body say?—beth a ddywed pawb? beth a ddywed dynion yn gyffredinol.

It is in every body's mouth—y mae yn gorn cân; y mae ar dafod pawb; y mae rhwng dannedd pawb.

No-body—neb, nebun, neb un, neb rhyw ddyn; nid neb, nid un, nid nebun; nebawd, neb dyn.

Every body—pob un, pob dyn; pob rhyw ddyn; pob rhyw un; pawb, pawb oll; y cwbl i gyd, y cwbl oll, i gyd oll.

Some-body — rhywun, rhyw un, rhyw ddyn.

No body understands me—nid oes neb a'm deall; nid oes dyn a'm deall; nid oes neb yn fy neall; nid oes un yn fy neall; nid oes nebun yn fy neall.

That no body do hurt any body—na bo i neb ddrygu neb.

Let any body be judge between us—bydded y sawl a fynoch yn farnwr rhyngom.

The body of a tree—corff, cyff, paladr, cippill, *neu* gyrfyll pren.

The body of a church—corff eglwys, corf eglwys.

Body of foot—byddin *neu* fyntai o wŷr traed; corff o bedwys.

Body of horse—myntai *neu* fyddin o wŷr meirch; corff o farchwys; marchoglu.

The main body of an army—corff byddin; y fyddin ganol; y dromgad; canolrenc byddin; rhes ganol byddin.

Busy-body—ymyrwr, rhodreswr; prysur heb ddiolch; prysurwas, dyn cymmyreddus, dyn ymyrgar; un â'i fys yn mhotes pawb.

To come in a body upon one—heidio *neu* dwysgo am ben un; dyfod yn haid am ben un.

Bigness of body—cofforoldeb, corffolaeth.

Trunk *or* chest of the body—corf, arch, cyff.

Wine of a good body—gwin cryf; gwin nerthol *neu* nerthog; gwin cadarn.

From the body of the country—o gorff y wlad; o ganol y wlad; o galon y wlad.

The whole body of the law opposes it—y mae holl gorff y gyfraith yn ei erbyn; y mae y gyfraith yn hollol yn ei wrthwynebu; y mae holl ddefnydd *neu* sylwedd y gyfraith yn ei erbyn.

The body of the clergy—y corff offeiriadol, y corff o offeiriaid, corff yr offeiriaid, y corff o glerigion.

Body politic—corff gwladol, corff gwleidiadol, corff gwladwriaethol.

Body corporate — corff cynghorfforedig, corff cyfunol, corff cyfunedig.

Body, *v. a.* corffoli, corffori, corffi, llunio, ardumio, rhithio.

Bodyclothes, *s. pl.* (*body* a *clothes*) dillad corff; corffwisgoedd; marchwisgoedd.

Bodyguard, *s.* (*body* a *guard*) corffosgordd, diffyngor, diffynwys, gosgorddlu; llysfilwyr; diogelwch.

Bog, *s.* (Gw. a Gael. *bog*, *bogach*; S. *bugan*) cors, mignen, siglen, mign, migyn, gwern, corsle.

Reed bog—coralwyn.

Quaking bog, } pydwern, siglen.
Quaggy bog, }

Bog, *v. a.* migno, siglenu, corso.

Bogbean, *s.* (*bog* a *bean*) ffäen y gors, meillionen y gors, maill y gors.

Bogberry, *s.* (*bog* a *berry*) llygaeren, ceiriosen y waen, llygeirinen, llygad aeron: *pl.* llygaeron, llygaid aeron, llyged aeron, llyged eirian, llygeirin, llyged eirin, ceirios y waen.

Bog-earth, *s.* corswerydd, corsddaiar.

Boggle, *v.* (C. *bwgwl*, *bygylu*) petruso, rhuso, arbetruso, ammheu; cilio yn ol rhag ofn; ysgöi, osgöi, gwrthdynu; ffugio, lledrithio; ymragrithio; cydragrithio â; chwareu llaw wèn; dyrysu, rhwystro, nidro; dwyn i gyfyng gynghor.

It was time for him to boggle with the world—yr oedd yn bryd iddo ymragrithio â'r byd.

Boggler, *s.* (o *boggle*) petruswr, rhuswr, ammheuwr, anwadalwr; dyn anwastad, anwadal, *neu* ofnog; ffugiwr.

Bogglish,† *a.* (o *boggle*) ammheuol, ammhëus.
Boggy, *a.* (o *bog*) corsog, siglenog, mignog, corsol, corslyd, mignol; llawn corsydd *neu* siglenydd.
Boggy meadow — migwern, mignwern, corswaen, migwaen.
Boggy place—corsle, corsfa; lle corsog *neu* siglenog.
Boghouse, *s.* (*bog* a *house*) geudy, ysgothdy, ysgothfa, coddyn, ty bach, rheitty.
Bogland, *s.* (*bog* a *land*) corsdir.
Bogland, *a.* corsdirol, corsdirog.
Bogle, } *s.* (C. *bwg*, *bwgan*, *bwgwl*) bwgan,
Boggle, } bwbach, bwg, hudwg, hwdwg, bolol, drychiolaeth, bo, bw, bwcai, bwci.
Bogmoss, *s.* (*bog* a *moss*) corsfwsog, corsfwswn, corsfwswgl.
White bogmoss—migwyn, migin, migyn; corsfwswg gwŷn.
Bog-ore, *s.* corsfwn, corsfwyn, corsfwn haiarn.
Bogrush, *s.* (*bog* a *rush*) corsfrwynen, brwynwellt: *pl.* corsfrwyn.
Black bogrush—corsfrwynen ddu, brwynwellt du.
White-headed bogrush—brwynwellt gwŷn, corsfrwynen wèn.
Prickly bogrush—pibfrwynen, llymddreiniog.
Black bogrush—corsfrwynen ddu.
Brown bogrush—corsfrwynen rudd.
Bogspavin, *s.* (*bog* a *spavin*) boglyncoes, corslyncoes.
Bogtrotter, *s.* (*bog* a *trotter*) corsduthiwr, corsogwr, corsdrig, corsred, corsdrotiwr.
Bogwhort, *s.* (*bog* a *whort*) corslusen, corslusen ddu fach, llusen ddu fach y gors, corsfwyaren y brain: *pl.* corslus, corslusi, llus duon bach y gors, corsfwyar y brain.
Bohea, *s.* (o *Vu-ee*, *Vou-y*, neu *Voo-y*, enw y mynyddoedd lle ei cynnyrchir yn China) Bohea, Bohe, math o de du.
Boiar, } *s.* (R.) pendefig neu arglwydd yn
Boyar, } Rwssia, Transylvania, Moldavia, a Walachia; milwr.
Boiarin, *s.* (R.) boneddig, boneddwr; penteulu.
Boil, *v.* (Ff. *bouillir*; Ll. *bullio*) berwi.
To boil over—gorferwi; berwi drosodd.
To boil together—cymmerwi, cydferwi; berwi yn nghyd.
To boil bubblingly—berwi yn grychias; berwi yn grych; berwi yn glychau; berwi yn grychias glochog; berwi yn grych glochog; crychiasu, crychferwi.
To boil away—treulio, treio, cilio, *neu* ddarfod wrth ferwi; myned dàn y berw; myned dàn ei ferw; berwi ymaith.
To boil till half the liquor be consumed—berwi i'r hanner.
To boil with rage *or* anger—berwi o lid; gwyniasu gàn ddigofaint; poethi gàn lid; llidio, digio, angerddu, ymangerddu, dyfrydio; bod mewn angerdd o ddig; dyferwi gàn ddig.
The blood boils within me—y mae y gwaed yn berwi *neu* yn brydio ynof; y mae y gwaed yn dyfrydio ynof.
To boil as the sea—morgymmlawdd; codi yn forgymmlawdd *neu* yn dònau; berwi *neu* angerddu fel y môr.
Neither boiled nor raw—na brwd nac anmrwd; na brwd nac of.
Under boiled—heb ferwi digon; tàn ferw; heb fod yn ddigon.
Over boiled — rhyferw, rhyddigon; wedi berwi gormod.
Boiled meat—cig berw, cig berwedig; bwyd berw *neu* ferwedig.
Boil, *s.* (Is. *buil*; Al. *beule*; S. *bile*) cornwyd, crugdardd, penddüyn, ploryn; chwydd.
Boiler, *s.* (o *boil*) berwedydd, berwadyr; callor, pair, crochan; berwydd, berwr.
Hand-boiler—llawgallor.
Boilery, *s.* (o *boiler*) berwadfa, berwadle; berwolion.
Boiling, *s.* (o *boil*) berwad, berwedd, berw, crychias, crychferw, dyferwad, berwyd, brydiant, crychiant.
Boiling hot—brwd ferw; yn frwd ferw.
Boiling springs—ffynnonau berw, tarddellau berw.
Boisterous, *a.* (Is. *byster*; D. *puster*, *pust*, *bister*) tymhestlog, ystormus, terfysglyd, terfysgus, ysgethrog, cyffróus, cyffroawl, ffrowys, aflonydd, rhuadol, rhuol, rhuain, rhochfawr, bloeddfawr, rhuadus, ysgrechog, croch, trystiog, dadyrddus, trystfawr, brochus, cynhyrfus, afreolus, brythus, ffrochus, molochain, gwythlawn, angerddol, ffyrnig, ffromwyllt, brochwyllt, afrywiog.
Boisterous weather—tywydd tymhestlog, &c.; dryghinedd, dryghin, rhyferthwy, ystorm.
Boisterous wind — gwynt ystormus *neu* ysgethrog; gwynt croch, &c.; gyrwynt, hyrddwynt, toredwynt, ysgrechwynt.
When he saw the wind boisterous—pan welodd efe y gwynt yn gryf.
Boisterousness, *s.* (o *boisterous*) tymhestlogrwydd, ystormusrwydd; terfysg, cynhwrf; tryblawdd, brochusrwydd, ffromwylltedd, brythwch, angerddoldeb, angerdd; bloeddgarwch, ysgrechogrwydd; aflonyddwch, afreoledd; ffrochusrwydd, afrywiogrwydd, &c.
Bolary, *a.* (o *bole*) lleionol, cleiol.
Bold, *a.* (S. *bald*, *beald*) hy, hyf, eon, eofn; anturiol, anturus, hyfaidd, hydr, glew, dewr, dïarswyd, dïofn, drud, calonog, gwrdd, hyderus, dewrwych, ewn, rhull, arlyfasol, erfain, beiddiol, ehud, dihafarch, llyfasus, dilwfr, diarchar, gwychr, blaengar; rhyfygus, haerllug, digywilydd; penrydd, trahäus; uchel, serth, syth; yn ysgwyddo allan; amlwg, hywel; tarawiadol.
As bold as a lion—mòr hyf a llew.
It is a bold part of him—cymmer arno orchwyl anhydrin.
He is a bold fellow—y mae iddo galon llew; dewrwas yw gwas; gwych ydyw; dewryn ydyw; un hy, tra hy, eofn, tra eon, *neu* ddigywilydd yw.
I have been so bold as to write to you—bum mòr hy, hyf, *neu* eofn ag ysgrifenu atoch; cymmerais fy hyfder i ysgrifenu atoch.
I was bold—bum hyf, buais hy, bum eon.
You are not more bold than welcome—nid ych chwi ddim yn eonach *neu* hyfach na'ch croesaw; nid ydych yn eofnach nag y mae i chwi groesaw; nid ych eonach na'ch croesaw.
These are bold words—geiriau penryddion *neu* drahäus yw y rhai hyn; geiriau hyfion yw y rhai hyn; eon yw y geiriau hyn.

Bold coast—arfordir serth, swta, *neu* ledsyth.

To be bold, } beiddio, arfeiddio, llyfasu,
To make bold, } anturio, hyderu, rhyfygu; bod yn hy *neu* eofn; gwneyd yn hy.

I dare be bold to say—beiddiaf ddywedyd; mi a ryfygaf ddywedyd; byddaf mòr eon a dywedyd; byddaf eofned a dywedyd.

He was bold to call him a traitor—beiddiodd ei alw ef yn fradychwr.

The slaves have been bold to come down against us—y caethweision a feiddiasant ddyfod i waered yn ein herbyn.

We may make bold to imitate such great examples—gallwn arfeiddio dylyn y cyfryw fawrion anghreifftiau.

He will be bold over thy servants—efe a fydd hyf ar dy weision.

I durst not make bold with Ovid—ni feiddiais fod yn hyf ar Ofydd.

To grow bold, } ymhyfhau, ymhyfu, ym-
To wax bold, } eofni, ymeoni, ymlewhau, ymhyderu; myned yn hyf, eon, *neu* hyderus.

Esaias grows bold, } y mae Esaias yn ym-
Esaias is very bold, } hyfhau.

They grew bold in wickedness—ymeofnasant mewn drygioni.

The apostles waxed bold—yr apostolion a aethant yn hy.

To make bold—hyfhau, eofni, eoni, llewhau; gwneuthur yn hy *neu* eofn.

To make bold with one—bod yn hy *neu* eofn ar un; arferu hyder *neu* hyfder tuag at un; ymddyddan *neu* ymddywedyd yn rhydd âg un; dywedyd ei feddwl yn hy, yn eon, yn eofn, yn ddigryd, yn rhydd, *neu* yn ddïarbed wrth un; gwneyd yn hyf ar un.

Make not too bold with men of authority—na fydd ry hyf ar wŷr o awdurdod.

Bold face—gwyneb digywilydd; wyneb pres; talcen pres; haerllugrwydd, digywilydd-dra, talgryfder; sarigrwydd.

Bold-faced—talgryf, haerllug, digywilydd, talog, hyfwyneb, hyweb, wynebgaled.

Bold-faced and hard-hearted are they—talgryfion a chaled-galon ydynt hwy.

To put on a bold face—myned yn wynebgaled *neu* yn ddigywilydd; myned yn haerllug *neu* dalgryf; caledu ei wyneb; ymhyfhau, ymeofni.

To speak boldly—llafaru yn hyf, yn eofn, yn ddigryd, yn ddïarswyd, yn ddifyngial, yn ddifyngus, *neu* ar gyhoedd.

Extremely bold—tra hyf, tra hy, tra eon, anturus iawn, &c.

Bold,† *v. a.* gwneuthur yn hyf; hyfhau.

Bolden, *v. a.* hyfhau, eofni, hyderu.

Boldness, *s.* (o *bold*) hyfder, hyfdra, hyder, hydeb, eonder, eofnder, eondra, dewredd, dewrder, gwroldeb, gwrolder, calondid, glewder, glewdid; gwychder; tradewredd, antur, chwdrwydd, llyfasedd, dihafarchedd, rhulldder; haerllugrwydd, digywilydd-dra, anfoesgarwch; taeredd, taerder; penrhyddid, trarhyddid, gormod rhyddid, traha, rhyfyg, afn.

They spake the word of God with boldness—llafarasant air Duw yn hyderus.

The boldness of his face shall be changed—nerth ei wyneb ef a newidir.

Great is my boldness of speech toward you—y mae hyfder fy ymadrodd yn fawr wrthych.

Boldness is a child of ignorance—un o blant anwybod yw haerllugrwydd.

Bole, *s.* (Sw. *bol*; D. *bul*; Gr. *bôlos*) paladr, cyff, bonyn; bwl, chwellestraid.

Bole, *s.* lleion=math o glai teg.

Armenian bole—lleion Armenia, lleion Armeniaidd.

Lemnian bole—lleion Lemnos, lleion Lemnaidd.

Boletic, *a.* (o *boletus*) madarchig; perthynol i fadarchen.

Boletic acid—sur madarchig, sur madarchen.

Boletus, *s.* (Ll.) madarchen=math o ffwng, neu fwyd y barcud.

Bolis, *s.* (Gr. a Ll.) tanwyden, goruchionell, goruchionen, tanwydyn, lluchbelen, lluchedbel.

Boll, *s.* (C. *bul*; S. *bolla*, cawg) bul, paisg, peisgen, hadgell, hadgib, hadlestr, plisg; bolltad, (*pl.* bollteidiau), bâl, corsen.

A boll of flax—bâl o lin, bolltad llin, llyweth o lin; balwg.

Boll, *v. n.* corsenu, bollteidio, paladru; hodi, bulio, balio, hadu.

The flax was bolled—yr oedd y llin wedi hadu.

Bollings, *s. pl.* (o *boll*) toccoed, coed toc, tocbrenau, prenau tociedig, tocwydd.

Bolster, *s.* (S. a Sw.; Al. *polster*) gobenydd, clustog; gob.

Bolster of a saddle—clustog cyfrwy, panel cyfrwy.

Bolster for a wound—clustog gweli.

Bolster, *v. a.* gobenyddu, gobenyddio, clustogi, gobellu; attegu, cynnal, dàl i fyny, cynnal i fyny.

Bolsterer, *s.* (o *bolster*) cynnalydd, attegydd.

Bolstering, *s.* (o *bolster*) atteg, cynnaliad.

Bolt, *s.* (D. a R.; Al. *bolzen*; Is. *bout*) bollt, (*pl.* bolltau, byllt), bàr; trosol, saeth, picell, chwarel, pilwrn, gaflach: 28 llathell o sachlïan.

Bolt of a door—bollt drws, trosol drws, bàr drws, bollten dor, pâr drws.

Thunder bolt—taranfollt, mellten, lluched-en; maen y daran, maen cawod, tân mellt.

A fool's bolt is soon shot—ni chel ynfyd ei feddwl.

He has shot his bolt—deryw ei chware; darfu ei chwareu.

Bolt, *v.* bolltio, bàrio; saethu; ymsaethu, chwarelu; rhwystro, attal, ystwyo, nadael, llyffetheirio; sicrhau, diogelu.

To bolt a door—bolltio, bario, *neu* gloi drws; rhoi y bàr ar y drws; rhoi pâr ar ddrws.

To bolt in—ymsaethu i mewn; saethu i mewn; bolltio i mewn; cau i mewn.

To bolt out—ymsaethu allan; saethu allan fel bollt; bolltio allan; cau allan; bolltio i maes.

To bolt out of the house—bolltio allan o'r ty; ymsaethu allan o'r ty; tasgu allan o'r ty.

To bolt out a rash expression—llafaru yn fyrbwyll; dywedyd yn chwidr yr hyn ni ddylid; bolltio *neu* saethu allan ymadrodd byrbwyll.

Bolt upright—mòr uniawn a'r saeth; fel y saeth.

Bolt, *v. a.* (Norm. *bulter*) gogrynu, gogryn, gwegryn, gwegrynu, rhuchioni, peillio, cànu; dadlu, ymresymu; chwilio *neu* fynu allan.
To bolt a coney—tarfu *neu* yru cwningen allan o'i thwll; tarfu ffiogen.
To bolt a case—gogryn achos, pwnc, *neu* fater; ymddadleu yn nghylch rhyw beth; dadleu ar ryw destyn.

Bolt-auger, *s.* taradr byllt, bollttaradr.

Bolt-boat, *s.* bolltgwch, bolltfad.

Bolter, *s.* (o *bolt*) peillogr, gogr rhuwch, gogr paill, gogr peillio; peillrwyd.

Bolter,† *v. a.* dwbio, iro, edlynu.

Bolthead, *s.* (*bolt* a *head*) gwagell=math o lestr dystyllu, arferedig mewn fferylliaeth.

Bolting, *s.* (o *bolt*) bolltiad, bariad; gogryniad, gwegryniad; dadleuad, dadliad, chwiliad, arholiad.
Bolting cloth — peillgarthen, peill-lian, rhuwchlïan.
Bolting house—peilldy, gwegryndy.
Bolting hutch—peillgist.
Bolting mill—peillfelin, peill-ermig, melin beillied; melin beillio *neu* ogryn.
Bolting tub—peilldwba, trwpa gogryn.

Bolt-rope, *s.* bolltraff, ymylraff, rhimpraff.

Bolts, *s. pl.* (o *bolt*) bolltau, barau; gefynau, troedogau, llyffetheirïau.

Boltsprit, *s.* (*bolt* a *sprit*) osghwylbren, osghwyliar, yr hwylbren gogwyddedig.

Bolus, *s.* (Ll.; Gr. *bôlos*) masbel, masbelen, cyfferbel; pelen fasw *neu* wagsaw.

Bomb, *s.* (Ll. *bombus;* Gr. *bombos*) llosbel, llosbeled, llosbelen, llosgbelen, llosgeubel, tanbel=ceubelen o dân gwyllt à daflir yn erbyn tref neu gastell i'w dinystrio: bwmp, bwm, bwmbwr.

Bomb,† *v. a.*=*Bombard.*

Bomb, *v. n.* swnio, bwmpio.

Bombard, *s.* (o *bomb*, a S. *ard;* Ff. *bombarde*) llosbeladyr, llosbelwn, algonon; llosbelgyrch, llosbeliad, llosgbeliad.

Bombard, *v. a.* llosbelu, tanbelu, llosgbelenu; llosgbelgyrchu, llosbelruthro; ergydio tânbelau yn erbyn.

Bombardier, *s.* (o *bombard*) llosbelwr, tanbelwr, llosgbelydd; triniwr gynau *neu* offer tân gwyllt.

Bombardment, *s.* (o *bombard*) llosbelgyrch, llosbeliad, llosgbeliad, tanbeliad.

Bombardo, *s.* (It.) goddwnbib=math ar offeryn cerdd chwyth.

Bombasin, } *s.* (Ff. *bombasin*) gosidanwe,
Bombazine, } sidanwe cotymog, ffillwe.

Bombast, *s.* (enw math o gotymwe) chwyddiaith, bostiaith, ffrostiaith.

Bombast, } *a.* chwyddedig, bostieithol, ffrost-
Bombastic, } ieithol; sonfawr.

Bombastry, *s.* (o *bombast*) chwyddiaith, chwyddiaeth; ymadrodd uchelsain disylwedd; chwyddeiriau.

Bombax, *s.* (Gr.) cotymwydden, pren cotwm: *pl.* cotymwydd.

Bombazette, *s.* (Al. *bombasette*) math o frethyn, bombasett.

Bombazine, *s.*=*Bombasin.*

Bombchest, *s.* (*bomb* a *chest*) llosbelgist, llosgist=cist lawn o losbelau, neu o bylor yn unig, à roir yn y ddaear i ddystrywio wrth ffrwydro.

Bombic, *a.* (Ll. *bombyx*) sidanbryfig, sidanbryfol; perthynol i'r sidanbryf.
Bombic acid—sur sidanbryf, sur sirig; sur surig.

Bombilation, *s.* (Ll. *bombilo*) swn, sain, trwst.

Bomb-ketch, } *s.* llosglong, lloslongan, llosbel-
Bomb-vessel, } long, llong losgbel.

Bomb-proof, *a.* anhydraidd i losbel; nas gall llosbel fenu arno; à allo ddâl llosbelau.

Bombus, *s.* (Ll.) y gwenyn gwylltion.

Bombycinous, *a.* (Ll. *bombycinus*) sidanaidd, sidanol; o liw y sidanbryf; melynloew, tryloew melynaidd.

Bombyx, *s.* (Ll.) sidanbryf, pryf y sidan, y pryf sidan.

Bon, *s.* enw Aifftig y pren coffi.

Bonair,† *a.* (It. *bonario;* Ll. *bonus*) mocsgar, boneddigaidd, hyfoes, hynaws, moddus.

Bona-roba, *s.* (It.=gŵn gwych) nwyfoges, anllades, puten.

Bonasus, *s.* (Ll.) ych gwyllt â mwng hir iddo; bual, gofual.

Bon-chretien, *s.* (Ff. = cristion da) math ar beren.

Bond, *s.* (S. *bond;* Al. *band*) rhwymyn, rhwym, cyfrwym, amrwymyn; rhwymeb, ymrwymeb, ysgrifrwym, machysgrif, machysgrifen, llythyr ymrwym; rhwymiant, achrwym, rhwymedigaeth, rhwymiad, achrwym, cwlwm, achlwm, cadwyn; caethiwed, carchar; undeb; rhaghawlyddiaeth.
Bond of peace—rhwymyn tangnefedd.
Worthy of bonds — teilwng o rwymau, cadwynau, *neu* garchar.
Post-obit bond—trengrwymeb.
To engage by bond—diffleisio; ymrwymo ar ysgrifrwym.
He engaged to the sheriff by bond to prosecute the action—diffleisiodd y sirydd ar ganlyn yr hawl.
To enter into bond for appearance—ymrwymo *neu* ymwystlo ar ateb; ymrwymo ar ddyfod ger bron.
To put in bonds—rhwymo; dodi *neu* roi mewn rhwymau; rhoi mewn cadwynau.

Bond, *a.* rhwym, caeth.
Bond and free—caeth a rhydd; rhwym a rhydd; caeth ac anghaeth.

Bond, *v. a.* rhwymo, ysgrifrwymo, rhwymebu; nwyddrwymo; ymrwymo ar; rhoi rhwymeb dros *neu* ar.
Bonded goods — nwyddau rhwymedig, nwyddau ymrwymedig, rhwymnwyddau.

Bondage, *s.* (o *bond*) caethiwed; caethwasaeth, caethwasanaeth; caethglud, caethfyd, ceithialedd, caethrawd; carchariad; rhwymiad, rhwymedigaeth.
House of bondage—ty caethiwed; ty y caethiwed.
To bring into bondage—caethiwo, caethgludo; dwyn yn gaeth; dwyn i gaethiwed; gwarogi.
To free *or* deliver from bondage—rhyddhau *neu* ollwng o gaethiwed; rhyddhau caeth; adferu caeth i'w ryddid; esgaethu.

Bonding, *s.* (o *bond*) nwyddrwymiad.

Bondmaid, *s.* (*bond* a *maid*) caethes, caethforwyn, caethferch, cystoges.

Bondman, *s.* (*bond* a *man*) caeth, caethwas, caethwr, caethfab, berrwyog, gwr caeth, caethddyn; aillt, mab aillt.

To free a bondman—gollwng o gaethiwed; rhyddhau caeth; gwneuthur yn wr rhydd neu freiniol; breintioli; breintio caeth.

Bondservant, *s.* (o *bond* a *servant*) caethwas, caethwr, caeth, caethfab, gwas caeth.

Bondservice, *s.* (*bond* a *service*) caethwasaeth, caethwasanaeth, caethweiniad, caethwarogaeth, caethiwed.

Bondslave, *s.* (*bond* a *slave*) caethwas, caeth, caethwr, caethyn, caethweinydd, berrwyog, gwr caeth.

Bondsman, *s.* (*bond* a *man*) mach cynnogn, mach talu; mach, meichnïwr, ymrwymwr;† caethwas, caethddyn.

Bondstone, *s.* (*bond* a *stone*) clymfaen, maen clymu, rhwymfaen.

Bondswoman, } *s.* (*bond* a *woman*) caethes, caeth-
Bondwoman, } ferch, caethforwyn, caethddynes, caethwraig, benyw gaeth, cystoges.

Bondtimber, *s.* (*bond* a *timber*) clymgoed, clymwydd.

Bone, *s.* (S. *bam*; Sw. *ben*; Is. *been*) asgwrn; *pl.* esgyrn.

Rhif ac Enwau esgyrn y corff dynol ydynt y canlynol:

I. Esgyrn y Pen—55.

Frontal bone — asgwrn y talcen, y tal-asgwrn,	1
Occipital bone — asgwrn y gwegil, asgwrn yr uchgreuan,	1
Parietal bones—esgyrn y greuan,	2
Temporal bones—esgyrn yr arlais,	2
Sphenoid bone—asgwrn bon iad,	1
Ethmoid bone—yr asgwrn rhidyllog,	1
Nasal bones—pont y trwyn, esgyrn y trwyn,	2
Cheek bones—esgyrn y rudd, eilgyrth, grànau,	2
Lachrymal bones — y deigr-esgyrn, esgyrn y dagrau, esgyrn deigron,	2
Upper jaw—y gorfant, y mant uchaf, asgwrn yr en uchaf,	2
Lower jawbone—yr isfant, y mant isaf, asgwrn yr en isaf, càr yr en isaf,	1
Palatine bones—esgyrn y gorchyfant, esgyrn yr orcharfan, esgyrn y gorcharfanedd,	2
Turbinated bones—yr esgyrn cogyrnog, yr esgyrn trogyrnog	2
Tongue bone—asgwrn y tafod,	1
Teeth—y dannedd, daint,	32

II. Esgyrn y Cyff neu y Corff—56.

Spine bones—esgyrn y cefn, gleiniau y cefn,	24
The ribs—yr ais,	24
Breast bone—asgwrn y ddwyfron, clwyd neu gledr y ddwyfron,	1
Hip bones—esgyrn pen clun, esgyrn y glun, bylau pen clun,	2
Rump bone—asgwrn y gloren, asgwrn y cwman,	1
Coccygeal bones—esgyrn cogylfin,	4

III. Esgyrn yr Eithafion neu y Blaenau—132.

Collar bones—pont yr ysgwyddau, trybedd yr ysgwyddau,	2
Blade bones—ysbodau, esgyrn y palfeisiau, crafell yr ysgwyddau,	2
Arm bones—esgyrn y breichiau,	2
Fore-arm bones—esgyrn yr iselin, esgyrn y gynfraich,	4
Wrist bones—esgyrn yr arddyrnau,	16
Hand bones—esgyrn y dwylaw	8
Finger bones—esgyrn y bysedd,	24
Thumb bones—esgyrn y bodiau,	6
Sesamoid bones—yr esgyrn ithionaidd,	4
Thigh bones—esgyrn y morddwydydd,	2
Knee pans—y pedyll pen lin, padell y penliniau,	2
Shin bones—llorfau, llorp-esgyrn, esgyrn y crimogau, ysberyglau,	2
Small leg bone—esgyrn y meilynau,	2
Tarsal bones—esgyrn gwadn y troed,	14
Metatarsal bones—esgyrn gwâr y troed, esgyrn y mwnwgl,	10
Toe bones—esgyrn bysedd y traed,	28
Sesamoid bones—yr esgyrn ithionaidd,	4

Articulations of bones — pencnawiau yr esgyrn, pencnawiadau yr esgyrn.

What is bred in the bone will never be out of the flesh—hysbys y dengys y dyn o ba radd y bo ei wreiddyn; à wreiddio mewn drygioni, anhawdd fydd ei gynghori; anhawdd cynghori à wraidd mewn drygioni.

He is all skin and bones—nid yw efe ddim ond croen ac esgyrn; nid oes ond ei lun ef.

He made no bones of it—ni phetrusodd yn ei gylch; ni phetrusodd fawr o beutu iddo; ni wnaeth efe nemawr o orchest o hono.

I gave him a bone to pick—mi berais iddo beth rhwystr; mi a wnaethym iddo betruso ychydig; rhoddais iddo asgwrn i bilio; rhois beth iddo i gnoi ei gil arno; rhoddais beth iddo i'w gilgnoi.

To fall upon one's bones, } rhoi maeddgen,
To be upon one's bones, } curfa, *neu* gosfa i un; ymosod *neu* ruthro ar un.

Bone of contention — achlysur cynhen, achos ymryson; asgwrn ymgiprys.

Bone by bone — bob yn asgwrn; bob yn asgwrn ac asgwrn; asgwrn ac asgwrn.

To take out the bones—diesgyrnu.

I tremble every bone of me—yr wyf yn crynu bob asgwrn o honof; yr wyf yn crynu bob modfedd o honof.

Whale-bone—asgwrn y morfarch; asgwrn gorfant morfil.

Full of bones — llawn esgyrn; llawn o esgyrn; esgyrnog, asgyrnog, asgyrniog, esgyrniog.

Broken bone—asgwrn twn, asgwrn briw, briw-asgwrn.

Small bones—mân esgyrn, esgyrn mân.

Little bone — asgyrnyn, asgwrn bychan, asgwrn bach, asgwrn bychan.

Bone, *v.* esgyrnu; diesgyrnu.

Bone-ace, *s.* asgyrnas=math o chwareu ar gardiau neu sethleni.

Bone-ache, *s.* esgyrnwst; poen yn yr esgyrn.

Bone-ash, *s.* lludw esgyrn.

Bone-black, *s.* dulosg esgyrn, golosg esgyrn, golosged esgyrn.

Boned, *a.* (o *bone*) esgyrnog, asgyrnog, asgyrnedig: arferedig mewn cyfansoddiad.

Bone-dust, *s.* llwch esgyrn, esgyrnlwch, ffylor esgyrn.

Bone-earth, *s.* esgyrnddaiar, daiar esgyrn, esgyrndir.
Bone-house, *s.* esgyrndy, ty esgyrn, esgyrnle.
Bonelace, *s.* (*bone* a *lace*) ysmoden lin, llinwe.
Boneless, *a.* (*bone* a *less*) diesgyrn, diasgwrn.
Bonelike, *a.* (*bone* a *like*) esgyrnaidd, esgyrnllyd, esgyrnol.
Bone-manure, *s.* gwrtaeth esgyrn.
Bone-mill, *s.* melin esgyrn.
Boneset, *v. a.* (*bone* a *set*) esgyrnosod, esgyrnsodi; gosod *neu* gyfosod esgyrn; gosod esgyrn yn eu lle.
Bonesetter, *s.* (o *boneset*) esgyrnsodwr, esgyrnosodydd; cyssodydd *neu* gydosodydd esgyrn.
Bonesetting, *s.* (o *boneset*) esgyrnsodiad, cyssodiad esgyrn, esgyrnosod.
Bone-spavin, *s.* llyncoes caled, esgyrn-lyncoes.
Bonfire, *s.* (Ff. *bon*, da, a *fire*) coelcerth, banffagl, cynneu, gwenfflam.
Bongrace, † *s.* (Ff. *bonne* a *grace*) talguwch, talwisg, math ar orchudd talcen.
Boniform, *a.* (Ll. *bonus* a *forma*) tloswedd, tlyswedd, lluniaidd.
Bonify, † *v. a.* (Ll. *bonus* a *facio*) troi *neu* wneyd yn dda; daeiddio.
Bonity, † *s.* (Ll. *bonitas*) daioni.
Bon-mot, *s.* (Ff. *bon*, da, a *mot*, gair) ffraetheb, ffraethair, perteb, tlysair; cellwair.
Bonnet, *s.* (Ff.; Gw. *boinead*; Gael. *boineid*; Llyd. *bonet*) hodell, bunet, buned, bunhet; cap, penwisg, argap, penguwch.
Bonnet à prêtre, Bonnet de prêtre, } capan offeiriad.
Bonnets—hwylenau, adhwyliau=hwyliau byrion i'w cydio wrth hwyliau ereill.
Bonneted, *a.* (o *bonnet*) hodellog; yn gwisgo hodell *neu* benguwch.
Bonnibel, *s.* (Ff. *bonne* a *belle*) tlosferch, tloseneth, tegeneth, rhian dlos.
Bonnilass, *s.* (*bonny* a *lass*) teglances, teglodes.
Bonniness, *s.* (o *bonny*) dillynder, dillynedd, destlusrwydd, tlysni, clysni, harddwch, hoewedd, hoewder, hoenusrwydd, glwysder, llyfnder gwedd.
Bonny, *a.* (Ff. *bon*, *bonne*) dillyn, destlus, tlws, (*f.* tlos), clws, (*f.* clos), hardd, glandeg, prydferth, hoewych, mirain; hoew, gwych, hoenus; difyr, llawen, llon, hylon, gorawenus, nwyfus, chwarëus; llyfn, llyfndeg, llyfnwedd.
Bonny, *s.* mwnwalas.
Bonny-clabber, *s.* (Gw. *baine* neu *bainne*, llaeth, a *clab* neu *claba*, tew?) llaeth enwyn sur; enwyn sur, llaeth sur.
Bon-ton, *s.* (Ff) arddullwedd, uchel ddullwedd, arddefod, dullwedd.
Bon-vivant, *s.* (Ff.) glân gydymaith, llawen gyfaill; cydymaith difyr *neu* lawen.
Bonum-magnum, *s.* (Ll.) math ar beren.
Bonus, *s.* (Ll.) madoseb, madobrwy, madobr, breintobrwy=gwobr à roddir am fenthyg, am freintlen, neu am ryw fraint arall, à ganiatëir i gymdeithas neu frawdoliaeth.
Bony, *a.* (o *bone*) esgyrnog, asgyrnog, esgyrnig, esgyrnol; esgyrnawr; cryf, cadarn, nerthog.
Bonze, *s.* offeiriad yn Iapan, China, ac India.
Booby, *s* (Ysp. *bobo*) hurtyn, hurthgen, delff, penbwl, penbwla, penwan, penfeddal, drelyn, drelwas; llabwst, lleban, symlyn, cuall, cadafel, cadafael.
Boodh, **Budh,** } *s.* Bwdh, Bwdd=y Duwdod, yn nhyb trigolion Asia Ddwyreiniol.
Boodhism, **Budhism,** **Buddhism,** **Boudhism,** } *s.* (o *Boodh* neu *Budh*) Bwdhiaeth, Bwddiaeth=crefydd y Bwdhiaid, un o dair prif blaid grefyddol India, ac ereill o wledydd y dwyrain.
Boodhists, **Budhists,** **Boudhists,** **Buddhists,** } *s. pl.* (o *Boodh*) Bwdhiaid, Bwddiaid: *sing.* Bwddiad, Bwdhiad, un o'r Bwdhiaid.
Book, *s.* (S. *boc*; Is. *boek*; Al. *buch*; Sw. *bok*) llyfr; cwrach.
Little book—llyfryn, llyfran, llyfr bach.
Contents of a book—cynnwysiad llyfr, banau llyfr, cynnwyseb llyfr.
Hand-book, Manual, } llaw-lyfr, llawiadur.
Manuscript book—ysgriflyfr.
Note-book—nodlyfr.
Text-book—testynlyfr, testlyfr, llyfr testyn.
Reading book—darlleniadur, llyfr darllen.
Account-book, Book of accounts, } cyfriflyfr, llyfr cyfrifon.
Common-place book—nodachlyfr, cofiyfr, argofiyfr.
Day-book—dyddlyfr, dyddiadur.
Memorandum-book—cofnodlyfr, cofiyfr, cofnodur, llyfr cofnodau, llyfr coffadwriaeth.
Red book—llyfr coch.
Blue book—llyfr glas.
Church-book—llyfr eglwys, llyfr plwyf, y llyfr gwyn. [Gyffredin.
Book of Common Prayer—Llyfr Gweddi
Pocket-book—codlyfr, llyfr llogell, llyfr llawgod; llogellgod.
School-book—llyfr ysgol.
Cash-book—cofiyfr arian, mwneilyfr, llyfr arian. [res.
Invoice-book—nwyddreslyfr, llyfr nwydd-
Bill-book—dyleblyfr, dylebiadur, llyfr dylebion.
Receipt-book—derbyniadur, taleblyfr, llyfr derbynion.
Book of receipts and disbursements—llyfr derbynion a thalion.
Letter-book—llythyrlyfr, llythyrgloer.
Book-account—llyfrgyfrif.
Book-debt—llyfrddyled.
Waste-book—goreslyfr, llyfr gores.
Blank book—llyfr gwyn.
Book depository—llyfrdy, llyfrfa, llyfrystordy, llyfrystorfa; ystordy *neu* ystorfa llyfrau.
A book in folio—llyfr unplyg.
Book-trade—masnach llyfrau, trafnid llyfrau, llyfr-fasnach.
In books—mewn parch, mewn bri, mewn ewyllys da; mewn parchus gof; mewn llyfrau.
I was so much in his books—yr oeddwn mòr bell yn ei lyfrau; yr oeddwn mewn cymmaint bri ganddo; meddwn gymmaint o'i ewyllys da.
To get into one's books—ennill cariad *neu* ewyllys da un; tynu *neu* ddenu serch un; myned mewn parch gydag un; ennill parch gydag un.
Without book—ar gof; ar dafodleferydd; ar dafod; heb lyfr, heb y llyfr, i maes o lyfr; heb ddarllen; heb awdurdod.
To run into one's books—rhedeg yn llyfrau un; rhedeg mewn dyled i un.

To get out of one's book—myned allan o lyfrau un; colli parch gydag un; colli ewyllys da *neu* serch un.

Mind your book—ymröwch i'ch llyfr; rhowch eich bryd ar eich llyfr; ystigwch wrth eich llyfr; gofalwch am eich llyfr.

The best record is the record of book—goreu cof, cof llyfr.

Book, *v. a.* llyfru, cofiyfru.

To book a thing down—ysgrifenu peth mewn llyfr; dodi i lawr mewn llyfr; dodi mewn llyfr; llyfru.

Bookbinder, *s.* (o *book* a *bind*) llyfr-rwymwr, llyfr-rwymydd, llyfrgloriwr; rhwymwr, cyfrwymwr, *neu* gloriwr llyfrau.

Bookbinding, *s* (o *book* a *bind*) llyfr-rwymiaeth, llyfr-rwymiadaeth, llyfr-rwymyddiaeth, llyfrgloriadaeth, celfyddyd rhwymo llyfrau.

Bookcase, *s.* (*book* a *case*) llyfrgloer, llyfrgaes, cloer llyfrau.

Bookful, *a.* (*book* a *full*) llyfrlawn; llawn o ddysg annhrefnus.

Bookish, *a.* (o *book*) llyfrgar, myfyrgar, darllengar, llyfreugar; chwannog i ddarllen; hoff o fyfyrio; mwy nabyddus â llyfrau nag â dynion.

A bookish person—llyfrgarwr, darllengarwr; dyn llyfrgar; llyfrbryf, llyfrlwth; darllenydd diwala.

Bookishness, *s.* (o *bookish*) llyfrgarwch, myfyrgarwch, darllengarwch.

Book-keeper, *s.* llyfriedydd, llyfriadur; cyfrifiadur; golygydd *neu* geidwad cyfrifon.

Book-keeping, *s.* llyfriadaeth, llyfryddiaeth; cyfrifiadaeth, ceidwad cyfrifon.

Bookland, **Bocland**, **Bockland**, *s.* (*book* a *land*) breiniordir, breintlendir.

Booklearned, *a.* (o *book* a *learn*) llyfrddysgedig, llyfrddoeth; hyddysg ar lyfrau.

Booklearning, *s.* (*book* a *learning*) llyfrddysg, llyfrwybodaeth.

Bookless, *a.* (*book* a *less*) dilyfr, annysgedig.

Booklouse, *s.* (*book* a *louse*) llyfrwyfyn.

Bookmadness, *s.* (*book* a *madness*) llyfrorphwylledd, llyfrwallgofrwydd, llyfrorphwyll, llyfr-ynfydrwydd, llyfr-ynfydedd.

Bookmaking, *s.* (o *book* a *make*) llyfrwneuthuriaeth, llyfrysgrifeniaeth.

Bookman, *s.* (o *book* a *man*) llyfrwr, llyfrydd, llyfrfyfyriwr, llyfrefrydydd.

Bookmate, *s.* (o *book* a *mate*) cyfysgolwr, cyfysgolor, cydysgoläig.

Bookmindedness, *s.* (o *book* a *mind*) llyfrgarwch, llyfrhoffder, llyfroldeb.

Bookoath, *s.* (*book* ac *oath*) llyfrlw, llw ar y Bibl.

Bookseller, *s.* (o *book* a *sell*) llyfrwerthydd, llyfrwerthwr; gwerthydd *neu* werthwr llyfrau, llyfrwr.

Bookseller's shop—llyfrwerthfa, llyfrwerthdy, masnachfa llyfrau.

Bookseller and stationer—llyfrwerthydd a safwerthydd; llyfr- a saf-werthwr.

Bookshop, **Bookstore**, *s.* llyfrwerthfa, llyfrwerthdy, llyfrdy, llyfrystorfa; masnachdy *neu* ystordy llyfrau.

Bookstone, *s.* (*book* a *stone*) llyfrfaen.

Bookworm, *s.* (*book a worm*) llyfrbryf, llyfrysydd, llyfrwyfyn, pryf y llyfrau; llyfrgarwr, darllenydd diflin.

Booley, *s.* gair ar arfer yn yr Iwerddon am grwydryn, gwibiad, annhrefog, neu un heb un cartref sefydlog.

Boom, *s.* (Is; Al. *baum*) hwylbawl, hwyldrostan, trostlath; nod-drostan; porthfar, trawst porthladd, bargadwyn.

Boom, *v. n.* (Is. *bommen;* C. *bwmp*) rhuthro, trystio; hwylio yn rhychwyllt; chwyddo, gwanegu; rhuo; bwmpio, cadw bwmbwr, bwmbro; lleisio fel aderyn y bwn.

The hoarse waves booming to the ocean shore—y tònau croch fwmbwr yn rholian i'r làn; y tònau dân ddwndro yn ymlithro i'r làn; y tònau cryg eu bwmbwr yn rhuo ar y làn.

Boomerang, *s.* taflofferyn arferedig gàn gynfrodorion Awstralia.

Boon, *s.* (Ll. *bonus;* Ff. *bon;* Norm. *boon*) rhodd, anrheg, goseb; cymmwynas, ced, llad, tro da; dawn.

Boon, *s.* (D. a Sw. *bön*) cais, deisyfiad, erfyniad, arch.

Boon, *a.* (Ll. *bonus;* Ff. *bon*) llon, llawen, difyr, hylon, dyddan, mwyn; hael, caredig; gwiwlan.

Boon companion—glân gydymaith, cydymaith glân, cyfeddachwr, cyfddïotwr.

Boon, *s.* mwlwg llin, llinfwlwch.

Boops, *s.* y morfarch trwynbig.

Boor, *s.* (S. *gebur;* Is. *boer;* Al. *bauer*) taiog-ddyn, delff, taiog, ystelff, cuall; dyn o'r wlad, un o'r wlad; dyn gwladaidd *neu* wledig; dyn mynyddig; gwerinwr, buach, cabrotai, gwaer, iangwr, gwreng, cabrotyn, gwladeiddyn, drel, delffyn, lleban, gwrengyn.

The boors of such place—gwaer *neu* wreng y fân a'r fân.

Boorish, *a.* (o *boor*) taiogaidd, gwladaidd, gwledig, mynyddig; delffaidd, buachaidd, gwaer, gwaerol, gwaeraidd, gwrengaidd, drelaidd, gwerinaidd, gwerinol, iangaidd, trwsgl, annysgedig, anwaraidd, anfoesgar, cartrefaidd, cuall.

Boorishness, *s.* (o *boorish*) taiogrwydd, delffedd, gwladeiddrwydd, gwledigrwydd, gwrengeiddrwydd, cabrawd, delffeiddrwydd, gwerineiddrwydd, anfoesgarwch, difoesedd, &c.

Boose, **Bouse**, *s.* (S. *bosig, bosy*) preseb, côr.

Boose, **Bouse**, *v.* (C. *boddi;* Llyd. *beuzi;* hen Is. *buy-sen*) meddwi, yfed, dyfolio, dyfoli, abrwysgo, dïota, cofftio.

Boosy, **Bousy**, *a.* (o *boose, bouse*) meddw, abrwysg, gofrwysg, lledfeddw, mewn dïod.

Boot, *v. a.* (S. *bót, bote;* Is. *boete;* Sw. *böt*) elwa, ennill, ynnill, buddio, lleshau, manteisio.

What boots it?—pa leshad, pa fantais, *neu* pa ennill yw? beth a dâl? beth a fuddia? beth a dâl i?

It boots not—ni thâl ddim; nid yw fuddiol; ni lesha; ofer yw; diles *neu* anfuddiol yw.

Boot, *s.* budd, ennill, ynnill, elw, mantais, mael, lles, elwant; gwarthal, gorthal, mantol; anrhaith, ysbail.

To boot—yn warthal, yn orthal; yn heblaw; heb law, dros ben, yn chwaneg, gyda, mewn chwanegiad, yn ychwaneg.

What will you give me to boot—beth a roddwch i mi yn warthal? pa warthal *neu* orthal a roddwch i mi? beth a rowch imi yn warthal? beth a roddwch i mi rhyngddynt?

You will be instructed to boot in several sciences—addysgir chwi heb law hyn mewn llawer o wyddorion.

Boot, *s.* (Ff. *botte;* C. *botas;* Gw. *butais, botis*) botas, botasen, bwtas, bwtasen, cwran.
Jack-boots—coesarnau, coeswisgoedd.
The boot of a coach—botas cerbyd, lledrgist cerbyd, botgist cerbyd.
A pair of boots—pâr o fotasau, bwtias.
To liquor boots—gwrteithio botasau *neu* gwranau; cyffeithio botasau.

Boot, *v. a.* gwisgo botasau, botasu, ymfotasu.

Boot-catcher, *s.* (*boot* a *catch*) tynwr botasau.

Booted, *a.* (o *boot*) botasog, bwtasog, cwranog; gwisgo botasau.

Bootee, *s.* (o *boot*) corfotas, hanner botas.

Bootes, *s.* (Gr. *boötês*) cydser gogleddol, yn cynnwys, yn ol Fflamsteed, 54 seren.

Booth, *s.* (Celt. *bwth, buth, bothag, bothan, both, boith*) bwth, (*pl.* bythod), bwthyn, caban, pabell, lluest, lluestty, llendy, toniardy.

Boot-hose, *s.* socas; hoslodrau.

Boot-jack, *s.* botasyr; offeryn i dynu botasau.

Boot-leg, *s.* (*boot* a *leg*) coes botas, botasgoes.

Bootless, *a.* (*boot* a *less*) anfuddiol, diles, difudd, ofer, difantais, anolo, dilwydd.

Bootlessness, *s.* (o *bootless*) anfuddioldeb, aflesoldeb, dilesoldeb.

Bootmaker, *s.* (*boot* a *maker*) botaswr, cwranwr, bwtaswr, cwranydd.

Boots, *s.* (o *boot*) esgidwas, botaswas, bwtwas.

Boottopping, *s.* (o *boot* a *top*) bottopiad.

Boot-tree, Boot-last, *s.* botasbren, botasweddyg, botweddyg; gweddyg *neu* bren botas.

Booty, *s.* (Sw. *byte;* D. *bytte;* Is. *buit*) anrhaith, ysbail, ysglyfaeth, ysglyf, ysbleddach, ysgafael, esgafaeth, caffaeliad; praidd, preiddin.
Thou shalt be for a booty unto them—ti a fyddi yn wasarn iddynt (*Hab.* ii. 7).
To play booty—chwareu twyll; chwareu llaw wèn; chwareu y ffon ddwybig; hocedu; gwneuthur hoced; gwneuthur lliw o beth; chwareu yn dwyllodrus; chwareu gyda bwriad i golli.
To get booty—ysbeilio, anrheithio, ysglyfio, ysglyfaethu, ysglyfu, ysglyfied, preiddio.

Bopeep, *s.* (*bo* a *peep*) migymgudd, migymguddiad, micymguddiad.
To play bopeep—migymguddio, micymguddio, mig ymguddio, mic ymguddio, chwareu mig ymguddio, chwareu mic ymguddio, gwareu salltu, chware mig, chwareu cudd ac ymddangos.

Borable, *a.* (o *bore*) tylladwy, ebilladwy.

Boquet, *s.*=*Bouquet.*

Borachio, *s.* (Ysp. *borracho*) meddwyn: †costrel, potel, baril.

Boracic, *a.* (o *borax*) borasig, halasig; perthynol i halas *neu* boracs.
Boracic acid—sur borasig, sur halasig, sur halas, sur boracs.

Borage, *s.* (Ll. *borago*, cyfnewidiad *cor* ac *ago*) bronwerth, llawenlys, tafod yr ych, glesyn, tafod y fuwch.
Common borage—bronwerth, tafod yr ych, llawenlys, glesyn cyffredin, glesyn, tafod y fuwch.

Borate, *s.* (o *borax*) hal, blawr, *neu* halan boras.

Borax, *s.* (Ar. *boracon*) halas, boras, boracs=math o ddelid neu ddefnydd fferyllaidd, arferedig yn benaf i asio metteloedd.

Bordage, (S. *bord*) bordaeth, borttal; tir bord.

Bordel, Bordello, *s.* (Ff. *bordel;* It. *bordello*) puteindy, trythylldy, trythyllfa.

Bordeller, *s.* (o *bordel*) ceidwad trythylldy *neu* buteindy.

Border, *s.* (Ff. a Llyd. *bord;* Al. *borde*) ymyl, cyffin, ffin, goror, terfyn, cyffinid, min, cwr; min, bargod; ymylgylch, ymylwaith, cant, cantel, cylch, cylchwy, hem, hemiant, amaerwy, eirionyn, or, gorwy, gororwy, emyl, miniog, cymminiog, ael, godre, (*pl.* godreon, godrau), dibl, gorddibed, carddagl; gwely.
Borders of a country—cyffiniau, terfynau, *neu* ororau gwlad; eithafoedd, eithafion, minion, blaenau, ardaloedd, *neu* dueddau gwlad; cyfrwng deudir; cynghyd deudir; cydiad dau dir.
Land on the borders—amminiogdir, amminioctir, miniogdir, cyffindir, ymyldir; tiroedd cytterfyn; tiroedd wrth *neu* am y terfyn; tir amminiog, tir cyffiniol.
Border of a garment—ymyl, ael, eirionyn, cylch, hem, ymylgylch, rhimp, gwrym, godre, *neu* amaerwy gwisg *neu* ddilledyn.
They make broad their phylacteries, and enlarge the borders of their garments—y maent yn gwneuthur yn llydain eu cadwadogion, ac yn gwneuthur ymylwaith eu gwisgoedd yn helaeth.
Ornamented, worked, *or* laced border of a garment—ymylgylch, ymylwaith, hemwaith, amaerwy, gwregys, eirionynau, *neu* dlysau dilledyn; llafn *neu* lain yn nghylch gordreon.
The utmost borders—y cyrau eithaf; eithafion, eithafoedd, eithaf, y terfynau eithaf.

Border, *v.* cyffinio, ffinio, ymylu, terfynu; hemio, cyriogi; eirionynu, terfynu ar; ffinio *neu* gyffinio â.
To border together—cyffinio â'u gilydd; bod yn gytterfynol â'u gilydd; cytterfynu â; bod am y terfyn â'u gilydd; bod yn unffin â'u gilydd; bod yn ffinio; bod yn nghyfer *neu* ar gyfer eu gilydd; cyffinio, cydffinio.
Bordering together—terfyn yn nherfyn; ar gyfer, yn nghyfer; yn ffinio *neu* yn cydffinio; cyffiniol, cydffiniol.
To border upon—terfynu *neu* ymylu ar; ffinio *neu* gyffinio â; bod derfyn yn nherfyn â; bod ffin yn ffin *neu* yn gydffin â; bod yn gytterfynol *neu* am y terfyn â; ffinio, cyffinio, cydffinio, *neu* gydymylu âg; ymylu *neu* ffinio ar.
Falsehood borders upon truth—y mae y gau a'r gwir derfyn yn nherfyn.
Bordering near *or* upon—cytterfynol, terfynol, cyffiniol, cydffin, unffin, amminiog; agos i *neu* at; cyfagos; nesaf at; ar *neu* am y terfyn; cyfnesaf; yn cyffwrdd; yn cyrhaedd at; o'r gymmydogaeth; ar fin *neu* ymyl.
To border a garment—ymylu, eirionynu, *neu* hemio dilledyn.

Bordered, *p. a.* (o *border*) ymylog, eirionynog, amaerwyog, godreol, godreog, cyriog, gwrymiog; âg iddo ymylwaith, ymylgylch, *neu* amaerwy.

Borderer, *s.* (o *border*) cyffiniwr, cyffinydd, cymmydog: *pl.* amminogion, cyttirogion, cyffinwyr, cyffinyddion, cymmydogion, eithafigion, bargodiaid.

Bord-halfpenny, *s.* (S. *bord*) tir bwrdd, tir bord, tir y ford, borttir; maenor *neu* randir cynnaliaeth.

Bord-load, } *s.* bordllwyth, bordglud.
Bord-lode, }

Bord-man, *s.* deiliad borttir, bord-ddeiliad.

Bord-service, *s.* bordwasanaeth, byrddwasanaeth, bord-ddaliad.

Bordure, } *s.* (Pf.) rhimgylch, ymylgylch.
Border, }

Bore, *v.* (S. *borian;* Is. *booren;* Ab. *bohren*) tyllu, ebillio, taradu, taradru, trău, trulio, trydyllu.

To bore through—trydyllu; tyllu trwy, tyllu trwodd.

Bored through—trydwll, (*f.* trydoll), trydyllog, tyllog, tylledig.

Bored through the head—pendwll, (*f.* pendoll), pendyllog.

The horse bores—y mae y ceffyl yn cario ei drwyn tua'r llawr; mae y ceffyl yn tyllu.

Bore, *s.* twll, trydwll, ceuedd, mantor, trwydd, trydd, ceudwll, treudwll, ceudod; tyllydd, trwyddyr, trwyddew, ebill, taradr, treiddew, oethrol, tryddew.

The bore of a gun—ceudwll dryll, ceudod dryll, ceuedd dryll, mantor gŵn, gyndwll.

The bore of a pipe—ceudwll pibell, cau pibell, ceuedd pib, trydwll pib.

The bore of a lock—twll clo.

Bore, *s.* hygre, tonrwyg, gorlif=ymdywalltiad sydyn y morlif neu y gorllanw i mewn i afon neu i gulfor cyfyng; llanw ar lanw.

The bore of the Severn—hygre Hafren, tonrwyg Hafren.

Bore-cole, *s.* tyllfresych.

Boreal, *a.* (Ll. *borealis*) gogleddol, gogleddig; perthynol i'r gogledd *neu* i'r gogleddwynt.

Boreas, *s.* (Ll. a Gr.) gogleddwynt, gwynt y gogledd, oerwynt y gogledd.

Boree, *s.* (Pf.) math ar ddawns neu gorelw.

Borer, *s.* (o *bore*) tyllydd, tyllwr, tylliedydd; taradr, tarad, ebill, trwyddew, treiddew, tryddew, trul, rhwmp: treubryf, tyllbryf, tylldd—math o forbryf.

Boring, *s.* (o *bore*) tylliad, treiddiad, ebilliad, treuad, treiddiad, traidd, truliad; twll.

Boring machines—tyllermigion, ermigion tyllu.

Boring bits—treubillion.

Born, *p. p.* (o *bear*) ganedig, genedig; à anwyd, à aned; gwedi ei eni; hanedig; yn hanu; amianol, naturiol, genedigol, cynnwynol, cynhenid.

To be born—geni, cael genedigaeth, cael ei eni; hanu.

Alas that ever I was born!—gwae fi erioed fy ngeni!

They go astray as soon as they are born—o'r bru y cyfeiliornant.

To be born again—adeni, aileni, ail eni, geni drachefn.

Born again—adanedig, adenedig, ailanedig, adenedigol; wedi ei ail eni; gwedi ei ail- *neu* ad-eni.

To be born of, } geni, hanu, tardd-
To be descended from, } u, *neu* ddisgyn o; dyfod o lwynau *neu* o gorff.

He was born of good parents—ganwyd ef o rieni da.

Thou art born of kings—o freninoedd y'th hanwyd; henaist o freninoedd.

And such as are born of them—a'u plant; a'r sawl a enir o honynt.

He also was born to the giant—efe hefyd oedd fab i'r cawr. [wraig.

Man that is born of woman—dyn à aned o

Man is born unto trouble—dyn a aned i flinder.

He was born under an evil planet—ar awr ddrwg y ganwyd ef; dân blaned ddrwg ei ganwyd ef; dân blaned drom y ganwyd ef.

Before I was born—cyn fy ngeni.

Since I was born—er pan ym ganwyd; er pan y'm ganwyd; er pan ym ganed; er ym oed.

I was born thirty years ago—ganwyd fi drideg mlynedd yn ol; cefais fy ngeni ddeng mlynedd ar ugain yn ol; ganed fi er ys trideg mlynedd.

Nobleman born — pendefig cynnwynol; pendefig o waedogaeth; pendefig diledryw *neu* ddiledach.

They that are *or* shall be born after—olafiaid, oliaid; y to *neu* yr oes à ddel; y rhai à ddeuant; yr oes *neu* y to à ddel ar ol; y byd à ddel ar ol; y rhai a ddoant ar ol; y to nesaf; hiliogaeth, hil, epil, epiledd, essill, esillydd, esillyd; plant ac ŵyrion.

Bred and born—gwedi ei eni a'i fagu; wedi ei eni a'i ddwyn i fyny.

He was bred and born in Cardiganshire—ganwyd a magwyd ef yn Ngheredigion; cafodd ei eni a'i ddwyn i fyny yn Ngheredigion; yn Ngheredigion y ganwyd ac y meithrinwyd ef.

He was born and brought up in England—ganwyd a magwyd ef yn Lloegr.

Well-born—boneddig; boneddig cynnwynol; boneddig o waed; yn dyfod o dylwyth *neu* deulu da; diledach, diledryw, urddasol.

Born of mean parentage—â lledach *neu* ledryw ynddo; iselwaed, o waed isel, iselradd, lledachog, lledrywiog; yn dyfod o dylwyth *neu* deulu iselradd.

First-born—cyntafanedig, cyn-anedig, cyn-anedig, cynblentyn; cynfab, cynferch.

Elder-born — hynaf-anedig, hyn-anedig, hynaf.

New-born — newydd-eni, newydd-anedig.

Only-born—unig-anedig, unigenid.

Born before the time—erthyl, annhymmig; à eagorwyd arno cyn tymp; un genedig cyn tymp.

Still born — marw-enedig, marw geni; à anwyd yn farw; à enir yn farw.

Still-born child — plentyn marw-anedig; plentyn à anwyd yn farw; plentyn marw; erthyl.

Born together—cydanedig, cydenedig.

Born at a birth, } gefeilliaid, gefellod.
Born at one birth, }

Born of such a stock—gwedi tyfu, hanu, *neu* ei eni o ryw ach; yn dyfod, disgyn, *neu* hanfod o ryw garennydd, teulu, tylwyth, *neu* welygordd.

Born to a thing—genedig i beth, wedi ei eni i beth; wrth enedigaeth, *neu* wrth dreftadaeth; dyfod i beth wrth etifeddiaeth.

We are not born of fornication—nid drwy buteindra y cenedlwyd ni.

Borne, *p. p.* (o *bear*) dygiedig, cludedig, goddefedig, &c.

Borne, *s.*=*Bourn.*

Boron, *s.* un o'r defnyddiau neu sylweddau elfenol; sawd elfenol sur borasig.

Borough, *s.* (S. *burg, burh, beorh, beorg;* Is. ac Al. *burg, berg*) bwrdeisdref, breindref, tref freiniol, tref fwrdeisiol.

Borough, *s.* (S. *borhoe*) gwaesafas; bwrdais.

Borough-head, } *s.* penbwrdais, pen bwrdeis-
Borough-holder, } dref, maer, penfaenorydd.

Borough-master, *s.* treflywydd, treflyw, dinasfaer, maer, penswyddog bwrdeisdref, pencais tref.

Borrachio, *s.* twythygl, twythruglydd, twythrwbyr, rhwbiedydd yr India.

Borrel, *a.* (S. *bure*) difoes, trwsgl, (*f.* trosgl), trwstan, gwladaidd, garw.

Borrow, *v. a.* (S. *borgian;* Al. ac Is. *borgen*) echwyna, benthyca, benthycio, banddygio, benthygio, echwyno, llogi; ceisio benthyg; ceisio yn fenthyg; ceisio yn echwyn; cymmeryd echwyn.

To borrow at interest—llogi; echwyna *neu* fenthyca ar log; cymmeryd *neu* gael yn llog; cymmeryd ar log.

Borrow not without cause—na chymmer echwyn heb achos.

To borrow of one to pay another—benthyca gan un i dalu arall; treiglo y geiniog; agor un bwlch i gau y llall.

Man that borrowed his own spirit—dyn yr hwn nid oes ganddo ond benthyg ysbryd.

Borrow, † *s.* benthyg, echwyn; benthyciad, echwyniad.

Borrowed, *a.* (o *borrow*) benthyg, echwyn; echwynol, benthyciol; echwynedig, benthyciedig, llogedig.

Borrowed money—arian benthyg, arian echwyn.

It was borrowed—benthyg oedd.

Borrowed clothes have no warmth—nid cynhes dillad benthyg.

Borrower, *s.* (o *borrow*) benthyciwr, echwynwr, echwynydd, benthygiwr, llogwr; derbynydd echwyn *neu* fenthyg.

It shall be, as with the lender, so with the borrower—bydd yr un ffunud i'r hwn a roddo ac i'r hwn a gymmero echwyn.

Borrowing, *s.* (o *borrow*) echwyniad, benthyciad, benthygiad, banddygiad, cymmeriad echwyn.

Borsholder, *s.* (o'r S. *buhr* ac *ealdor*) penbwrdais, pen maerdref, maer, penfaeronydd, pen treddegwm.

Boscage, *s.* (hen Ff.; yn awr *bocage;* It. *bosco;* Al. *busch*) coed, prysgoed, prysgwydd, gwig, coedwig, tewgoed, prysg, brycini; coettir, tir coedog; prysgwaent, prysgwerydre.

Boschas, *s.* (Ll. *boscus*) hwyad wyllt.

Bosket, } *s.* (It. *boschetto*, bychanig o *bosco*)
Bosquet, } llwyn, coedlwyn, prysglwyn, prys-
Busket, } lwyn; llwyn mewn gardd.

Bosky, *a.* (o *boscage*) coedog, coediog, llawn coed, prysgoedog, prysgol, prysgog, prysain, prysol.

Bosom, *s.* (S. *bosm, bosum;* Is. *boezem*) monwes, mynwes; bron, calon; cofi, afell, asgre, cesail, llofres, brocen, bronwedd; cilfach.

Bosom friend—cyfaill monwesol, cyfaill calon, cyfaill anwylaf, cyfaill monwes.

He is one of my bosom friends—un o'm cyfeillion mynwesol ydyw; cyfaill calon i mi ydyw; un o'm cuaf gyfeillion yw efe.

The wife of thy bosom—gwraig dy fonwes; dy wraig fonwesol; dy wraig anwylaf *neu* anwylgu.

Bosom enemy—gelyn monwesol; cyfaill twyllodrus *neu* fradwrus; twyll ei gydymaith; cyfaill gau, geu-gyfaill.

Bosom of a shirt—crysalain; mynwes crys; agoriad crys.

The bosom of the earth—monwes *neu* galon y ddaiar.

The bosom of the deep—monwes y dyfnder; eigion y môr; monwes y môr.

With his books in his bosom—â'i lyfrau yn ei lofres.

To put into one 's bosom—monwesu, mynwesu; rhoi, rhoddi, *neu* osod yn ei fonwes; cofleidio.

Bosom, *v. a.* monwesu, mynwesu; cofleidio, coleddu, dodi, rhoi, *neu* osod yn y fonwes; celu, cuddio.

Bosom up my counsel—trysora ym cynghor yn dy fynwes; rho fy nghynghor i gadw yn dy fonwes.

Boson, *s.* (llygriad o *boatswain*)=*Boatswain.*

Bosporian, } *a.* (o *Bosporus* neu *Bosphorus*)
Bosphorian, } balaog, morfalaog; perthynol i gulfor rhwng deufor.

Boss, *s.* (Ff. *bosse*) boglyn, boglwm; bolglwm, bogeilglwm, pwmpl, cnap, clob, clop, clopa, oddf, oddfyn, cnwc, hwrwg, cnwb, pothon, pothan, botwm, clöen, clöyn; tor; twdd, twddf.

Boss of the navel—bogeilglwm.

Boss of a shield—boglyn, boglwm, *neu* foth tarian.

Upon the thick bosses of his bucklers—trwy dewdwr torau ei darianau.

Bossed, *a.* (o *boss*)=*Bossy.*

Bossage, *s.* (o *boss;* Ff. *bossage*) corbed, tyddfaen; tyddwaith.

Bossive, *a.* (Ff. *bosse*) cam, crwca; afluniaidd, anferth.

Bossy, } *a.* (o *boss*) boglynog, boglymog, bot-
Bossed, } ymog, bolglymog, cymhibog, bogeiliog, cnapog, clopog; oddfog, tyddfog, pwmplog, cnycog; chwyddedig allan.

Bostrychite, *s.* (Gr. *bostruchos*) llofnem; gem ar ddull cudyn o wallt.

Botanic, } *a.* (Gr. *botanicos*) llysieuol, llys-
Botanical, } ieuaidd, llysonol, llysonig, llyseuol, llyseuaidd, planigol.

Botanic garden—gardd blanigion, llysieuardd, llyseuardd, gardd lysiau, gardd lyseuol, llyseufa, llysieufa.

Botanist, *s.* (o *botany*) llysieuwr, llysieuydd, llyseuwr, llyseuydd, llysonydd, planigydd, planiadur.

Botanize, *v. n.* llyseua, llyseuo, llysieua; astudio planigion *neu* lysiau.

Botanology, *s.* (Gr. *botané* a *logos*) llysieuaeth, llyseueg, llysieudraith, llysdraith.

Botanomancy, *s.* (Gr. *botané* a *manteia*) llysarmes, llysddewiniaeth, dewiniaeth â llysiau.

Botany, *s.* (Gr. *botané*) llysieuaeth, llysieueg, llyseuaeth, llysoneg, llysoniaeth, planigaeth.

Botargo, *s.* (Ysp.) math o selsig Italaidd, à wneir o ronell y pysg mingrwn.

Botch, *s.* (It. *boeza*) llynoryn, cornwyd, ploryn, llwg, chwaren, crachen, penddüyn, oddf, oddfyn; gweli crawnllyd; brasgiwt, brasgiwtyn; braswaith, clytwaith, bonglerwaith, trwstanwaith.

Botch, *v. a.* brasglytio, brasdaclu, clytio, brasgweirio; cyweirio yn drwsgl; anharddu, anurddo; llynori, cornwydo, plorynu, gwelïo.

Botcher, *s.* (o *botch*) brasglytiwr, brasdrwsiwr; brasbwythwr, brasdaclwr; clytiwr, bongler, bwngler, cyweiriwr trwsgl, gweithiwr anghelfydd.

Botcherly, *a.* (o *botcher*) trwsgl, trwstan, brasglytiol, brasweithiol, anghelfydd, bwngleraidd.

Botchery, *s.* (o *botcher*) clytwaith, brasglytwaith, braswaith, trwsglwaith, bonglerwaith.

Botchy, *a.* (o *botch*) llynorog, plorynog, cornwydlyd, cornwydog, gwelïog, penddüynog, chwarenog, crachog.

Bote, *s.* (Ff. *botte*) iawn, daffar, dadolwch; tâl; pethau anghenrheidiol, rheidiau.

Boteless, *a.* (*bote* a *less*)=*Bootless.*

Both, *a.* (S. *butu, butwu; batwa;* Is. ac Al. *beide*) y ddau, dau, y ddwy, dwy, deuoedd, dwyoedd; pob un o'r ddau; y naill a'r llall.

Both of us, } ni ein dau; y naill a'r llall o
We both, } honom; ein dau; ein deuoedd; ni ein deuoedd; ni ein dwy; ein dwy; ein dwyoedd; ni ein dwyoedd.

Both of you, } chwi eich dau; eich dau; eich
You both, } deuoedd; chwi eich deuoedd; chwi eich dwy; eich dwy; eich dwyoedd; chwi eich dwyoedd; y naill a'r llall o honoch.

Both of them, } hwy eill dau; hwy ill dau;
They both, } hwy eu dau; eu dau; ill *neu* eill dau; eu deuoedd; hwy eu deuoedd; y naill a'r llall o honynt.

Both of us are here—yr ydym ni ein dau *neu* ein deuoedd yma; yr ym yma ein dau; yr ym yma ein dwy.

Why should I be deprived of you both in one day?—pa ham y byddwn yn amddifad o honoch eich dau mewn un dydd?

They went both of them together—hwy a aethant ill dau yn nghyd.

Both of them made a covenant—hwy a wnaethant gynghrair ill dau.

He made both one—efe a wnaeth y ddau yn un.

The land shall be forsaken of both her kings—gwrthodir y wlad gàn ei dau frenin.

Both came thither—y ddau a ddaethant yno; daeth y ddau yno; daethant yno eu dau *neu* eu deuoedd.

Both the women were there—yr oedd y ddwy wraig yno.

Both were seen together—gwelwyd y ddau yn nghyd.

The Pharisees confess both—y mae y Pharisiaid yn addef pob un o'r ddau.

Both of them were thieves—lladron oedd y naill a'r llall o honynt; lladron oeddent eill dau.

Both parties—y ddwy blaid, y ddwy ochr, y ddwyblaid, y ddeuliw, y ddwyliw, y ddau, y ddeutu, y ddeuddyn.

They were both females—dwy fenyw oeddent; benywod oedd y ddwy.

On both sides—o'r ddeutu, o bob tu, o bob ochr, o'r ddeuparth, o bob parth; wyneb a gwrthwyneb; wyneb a chefn.

Jack of both sides—Siôn bob ochr; à chwareuo y ffon ddwybig; à fedr chwareu y ffon ddwybig; deuochrog; deuwynebog.

Many were slain on both sides—llawer o bob tu a laddwyd.

The tables were written on both their sides—y llechau a ysgrifenasid o'u dau du.

Both the Indies—y ddwy India.

The archbishops of both provinces—archesgobion y ddwy dalaeth.

Both ways—yn y ddwy ffordd; yn y ddwyffordd; pob un o'r ddwy ffordd; yn mhob un o'r ddwy ffordd.

Both-handed—deheuig o bob llaw; dwylawdde, dwylawddeog.

Both, *c.* yn gystal, cystal; hefyd.

Both morning and evening—yn gystal bore a hwyr; bore a hwyr.

Both now and ever—yr awr hon a phob amser; nan a byth.

Both the quick and the dead—y byw a'r meirw; yn gystal y byw a'r meirw; y byw yn gystal a'r meirw.

A great multitude both of the Jews and also of the Greeks—lluaws mawr o'r Iuddewon ac o'r Groegwyr hefyd.

Both by sea and land—ar fôr ac ar dir; ar fôr a thir.

Bother, *v. a.* (Gw. a Gael. *bodhair;* C. *byddaru;* Cern. *bothur*) syfrdanu; dyrysu, dwndro, dadwrdd, trybestu.

Bother, *s.* syfrdandod, baldordd, dwndwr; dyryswch.

Bothrodendron, *s.* (Gr. *bothros* a *dendron*) pydwydden; *pl.* pydwydd.

Botrychium, *s.* (o'r Gr. *botrus*) lloerlys, lloerredynen.

Botryllarians, } *s. pl.* (Gr. *botrus*, swp grawn-
Botryllariæ, } win) grabogion=enw teulu o'r Dibenogion noeth.

Botryoid, } *a.* (Gr. *botrus* ac *eidos*) grawn-
Botryoidal, } sypiol, grawnsypiaidd, grawnsypynaidd; grabaidd, gronynaidd, gronynol, gronynog; ar ddull sypiau grawnwin.

Botryolite, *s.* (Gr. *botrus* a *lithos*) grawnfaen, grabfaen.

Bots, *s. pl.* (Ff. *bout*) euddon, gwyrn; pryfigedd; pryfed y perfedd: *sing.* euddonyn, gwyrnyn.

Bottle, *s.* (Ff. *bouteille;* Ysp. *botella*) potel, costrel; potelaid, costrelaid.

A bottle of wine—potelaid *neu* gostrelaid o win; costrel *neu* botel o win.

She opened a bottle of milk—hi a agorodd gunnog o laeth (*Barn.* iv. 19).

A small bottle—costrelig, costrelan, potel fechan.

Glass bottle—costrel wydr, potel wydr.

Leather bottle—costrel groen, potel ledr.

Sucking bottle—sugnbotel, sugn-gostrel, costrel sugno, potel sugno.

Bottle-ful—costrelaid, potelaid; llonaid potel *neu* gostrel.

Bottle of hay—sopen, sypyn, bwrn, *neu* drwsa o wair; sopen wair.

Bottle ale, } cwrw potel; cwrw poteledig
Bottled ale, } *neu* gostreledig; cwrw o'r botel.

Bottle case—potelgaes, potelgist, costrelgist.

Bottle companion, } cydyfwr, cydbotiwr,
Bottle friend, } cyfddïotwr, cyfeddachwr; cyfaill wrth y botel.
Bottle flower, } cramenog yr yd, penlas yr
Blue bottle, } yd, penlas wèn.
Bottle-nosed — trwynbwt, trwynbant, trwynfawr, trwynbotel.
Bottle skrew—sidrwy potel, asgrwy costrel; corcyll, corcasgrwy, corcysgrwy.

Bottle, *v. a.* potelu, costrelu, potelo; rhoddi *neu* ddodi mewn costrel *neu* botel.

Bottling, *s.* (o *bottle*) poteliad, costreliad.

Bottom, *s.* (S. *botm*; Is. *bodem*) gwaelod; sail, sylfaen, sylfon, sylfan, gwadn, llawr; godre, troed; gwraidd, sawdd, sawd, gwys; gwaddod, gwaelodion, llorion, rhytion; pant, dyffryn, ystrad, allmor, glyn, cwm; tin, cwt, ysgwt; llong, llestr.
Bottoms—gwaelodion, gwaddod, gwaddodion, llorion, rhytion.
Bottom of beer—gwaddod *neu* waelodion cwrw.
To sink into the bottom—gwaelodi, gwaddodi; disgyn i'r gwaelod; suddo i'r gwaelod.
In the bottom—yn y gwaelod.
It stands upon a good bottom—y mae yn sefyll ar sail dda; y mae yn esmwyth, yn glyd, *neu* yn gynhes yn y byd; y mae mewn amgylchiadau esmwyth yn y byd; y mae efe mewn sefyllfa dda yn y byd.
From the bottom—o'r gwaelod; o'r sail, o'r gwadn, o'r gwraidd; yn llwyr.
He made its bottom of gold—ei lawr a wnaeth efe o aur.
To sift an affair to the bottom—chwilio mater i'r eithaf; chwilio peth i'r gwaelod; chwalu mater yn drwyadl; gogrynu peth i'r gwaelod.
I would see the bottom of it—mynwn weled ei eithaf.
The bottom of the story—sylfaen *neu* wreiddyn y chwedl; gwaelod y chwedl.
At the bottom of the altar—wrth droed yr allor.
I went down to the bottom of the mountain—disgynais i odre y mynydd.
The bottom of the hill—troed y bryn; troed yr allt; troed y fron.
The bottom of the cliff—troed y rhiw.
The myrtle-trees that were in the bottom—y myrtwydd y rhai oeddent yn y pant.
The veil of the temple was rent from the top to the bottom—llèn y deml a rwygwyd oddi fyny hyd i waered.
To the very bottom—i'r eigion; i'r eigion eithaf; i'r gwaelod eithaf; i'r dyfnder eithaf.
The bottom of the sea—gwaelod y môr: eigion y môr; gwaelod y dyfnder; y dyfnfor.
In the bottom of the sea—yn ngwaelod, yn eigion, *neu* yn nyfnder y môr.
From the bottom of my heart—o eigion fy nghalon; o waelod fy nghalon.
Bottom land—panttir, pant, dyffryn, ystrad, cwm, doldir, dol, pantle, llawnt.
A little bottom—cwmarch, pannwl, gobant.
There is no bottom in his voluptuousness—nid oes terfyn i'w lythineb; nid oes gwaelod i'w loddest.
To fix one's bottom—ymsefydlu; gwneuthur ei sefyllfa yn dda *neu* sicr.
At the bottom of the street—yn ngodre yr heol; yn mhen isaf yr heol.
Bottom of thread—pellen o edafedd; pelen o edafedd.
They embarked on the same bottom—ymunasant yn y perygl; ymunasant yn y gorchwyl.
Better spare at the brim than at the bottom—wrth ddechreu *neu* yn nechreu y dorth y mae tolio; yn ngeneu y cwd y mae cynnilo.
A horse of good bottom—ceffyl o ruddin da; march mettelus.

Bottom, *v.* dirwyn, gwaelodi; seilio, sylfaenu; gorphwys ar; pellenu.
To bottom a chair—gwaelodi cader; rhoi gwaelod i gadair.

Bottomed, *a.* (o *bottom*) â gwaelod iddo; gwaelodol: arferedig mewn cyfansoddiad.
Flat-bottomed—gwaelod-lydan; gwaelodwastad; gwastad ei waelod; âg iddo waelod llydan; llydan ei waelod; digrwn ei waelod; gwastad-waelod.
Broad-bottomed—gwaelod-lydan; llydan ei waelod; â gwaelod llydan iddo; âg iddo waelod llydan; engwaelod; llydan-waelod; llydansail.

Bottomless, *a.* (*bottom* a *less*) diwaelod; heb waelod.
Bottomless pit—pwll diwaelod; affwys, annwn, annwfn, anoddyn, llynclyn, cadduglyn, caddugfa, noddyn.

Bottomry, *s.* (o *bottom*) llongwystl=arian echwyn ar long.

Bottoned, } *a.* (Ff. *boutou*; C. *botwm*) bal-
Botoned, } groesedig, boglymgroes.
Bottony, } *s.* (Ff. *bouton*; C. *botwm*) boglym-
Botone, } groes, balgroes.
Bottone, }

Bouchet, *s.* (Ff.) math o beren.

Boud, *s.* (Ff. *bout*) ydys, ydysydd, bragys, ydbryf, ydysbryf.

Boudoir, *s.* (Ff.) neilltugell, cuddigl, cuddgell; tlysgellan.

Bouge, *v. n.* (Ff.) chwyddo allan; cestu.

Bouge, † *s.* arlwy, ymborth, darmerth.

Bough, *s.* (S. *bog, bogh, boh*) cangen, cainc, cang, caing, clofen, gwrysgen, osgl, osglen, brigyn: *pl.* cangenau, cangau, ceinciau, ceingiau, gwrysg, clofenau, osglau, brig, brigau.
A little bough—cangenig, cangenan, brigyn.
Large boughs—bras geinciau, bras gangau, praff geinciau.
Thick boughs—tewfrig, cauadfrig, cacadfrig.
Green bough—cangen ir, irlas, *neu* werdd.
Dead bough—cangen grin.
Full of boughs—cangog, cangenog, ceinciog, brigog, osglog, clofenog, tewfrig, cauadfrig; llawn brigau.
Top-boughs—brig, brigau.
Two or three berries in the top of the uppermost bough—dau neu dri o rawn yn mlaen y brig.
When the boughs thereof are withered—pan wywo ei brig hi.

Bought, *p. p.* (o *buy*) prynedig, prŷn; à brynwyd.

Bought, *s.* (Is. *bogt*) camedd, plyg, plygiad, ystum, ystumiad; tro, troad, nydd-dro, trofa; dolen, tresddolen; cwlwm, clwm.

Boughty, *a.* (o *bought*) cam, plygol, troawl.

Bougie, *s.* (Ff.; Ysp. *bugia*) taeniadyr, trudd-iadyr = math ar offeryn llawfeddygol neu brofiadyr.

Bouille, *s.* (Ff.) sic-lysgig; cig wedi ei fallferwi gyda llysiau.

Bouillon, *s.* (Ff. *bouillir*) cawl, isgell, potes, cigdrwyth.

Boulder, } *s.* (o *bowl*) crynfaen, caregan, gro-
Bowlder, } faen: *pl.* crynfain, crynfeini, caregos, grofeini, creigarnau.

Boulder stones, } creigarnau, talpau gwib-
Boulders, } iog, treiglarnau.

Boulder-wall—mur crynfain, grofeinwal; mur neu wàl o geryg crynion.

Boulet, } *s.* (Ff.) rhagblyg egwyd, swrn-
Boulette, } ogwydd.

Boult, *s.* = *Bolt.*

Bounce, *v. n.* (Is. *bouzen*) neidio, ysboncio, cyrneidio, cyrchneidio; ysgortio, trystio, toncio, cloncian; ysboncio allan dàn drystio neu glindarddach; taro nes neidio yn ol; curo, ysbancio, pancio, pwmpio; bostio, boc-achu, ymffrostio; bygylu.

To bounce at a door—ysbancio drws; pwyo drws à sawdl.

Bounce, *s.* naid, ysbonc, cyrnaid; cyrchnaid; ysgort; pwmp, panc, ergyd, clap, tonc, trwst; ffrost, ymffrost, bwgwl: ysbancydd = math o forgi.

Bouncer, *s.* (o *bounce*) ffrostiwr, bocsachwr, rhodreswr; bygylwr.

Bouncing, *a.* (o *bounce*) cryf, ffyrf, grymus, cydnerth, pybyr, hoenus, bywiog, glew, gwych; mawr a thrwm; cyrchneidiol, cyrneidiol.

A bouncing lass—llach o lodes, cloben o lodes, llafnen o eneth, tolffen o eneth, crotes.

A bouncing child—plentyn gwrygiannus, hoenus, eidiog, bywiog, neu gnodig; plentyn grymus a gweisgi.

A bouncing lad—gwas gwych, llanc pybyr, dyn dewrwych, ymladdwr pybyr, llach o lanc.

Bound, *s.* (o *bind*; Norm. *bonne, bounne, bond*) terfyn, ffin, cyffin, ffinedd, cyffinid; eithaf; goror: rhimp, cylched.

He made the sea the bounds of his kingdom—efe a wnaeth y môr yn derfynau i'w deyrnas.

There are no bounds to his generosity—nid oes terfyn ar ei haelioni; nid oes dyben i'w haelioni ef.

To keep within bounds—cadw o fewn terfynau; cadw rhag myned dros y llestri; attal, cyfattal, ffrwyno, rhagod, rhwystro.

Bound-stone, } careg chware, maen
Bounding stone, } chwareu.

To set bounds—gosod terfynau; terfynu.

The meeting of bounds—cytterfynau, cyffiniau, cydiad terfynau.

Bound, *s.* (Ff. *bondir*) naid, llam, cyrchnaid, cyrnaid, crychnaid, ysbonc, cyrchlam, crychlam, adlam.

Bound, *v. a.* terfynu, ffinio, cyffinio; gosod terfynau; ffrwyno, attal, caethiwo.

Bounded by—terfynedig neu derfynol gàn; à derfynir gàn; yn gytterfyn neu gytterfynol âg; terfyn yn nherfyn â; am y terfyn âg.

Wales is bounded by the sea — terfynir Cymru gàn y môr.

The Welsh language is bounded within narrow limits—cynnwysir y Gymraeg o fewn terfynau cyfyng.

We must bound our wishes—rhaid i ni gadw ein dymuniadau o fewn terfynau; rhaid i ni ffrwyno, attal, neu gaethiwo ein dymuniadau; rhaid rhoi attalfa ar ein dymuniadau.

Bound, *v. n.* (Ff. *bondir*) neidio, llamu, ysboncio, cyrchneidio, crychneidio, cyrneidio, crychlamu, cyrchlamu; adlamu, llemain, arlamu, dychlamu, gwrthneidio.

Bound, *p. a.* (o *bind*) rhwym, rhwymedig; dàn rwymau, dàn rwymedigaeth; dyledus; caeth, caethedig; clymedig.

Whither are you bound?—i ba le yr ydych yn rhwym? i ba le yr ych chwi yn myned? i ba le yr ydych yn hwylio? pa le yr ych yn myned? i ba le yr ewch?

We are bound to thank God — dïolch a ddylem i Dduw; y mae arnom rwymau dïolch i Dduw; yr ydym yn rhwym i ddïolch i Dduw.

Thou mayest be bound up—fel y'th iachäer.

His life is bound up in the lad's life—y mae ei hoedl ef yn nglŷn wrth hoedl y llanc.

A ship bound from Liverpool to Dublin—llong yn rhwym o Lynlleifiad i Ddulyn; llong rwym o Lynlleifiad i Ddulyn.

We are bound to *or* for Swansea — yr ydym yn rhwym i *neu* am Abertawy.

Bound bailiff, } ceisbwl, gwysiwr, gafael-
Bum bailiff, } wr, isgeisiad; cynffon y gyfraith.

Boundary, *s.* (o *bound*) terfyn, ffin, cyffin, ffinfa, terfynfa, cyffinid, ffinedd, cylched.

Boundary stone—ffinfaen, maen ffin, careg ffin, maen terfyn, orfaen, terfynfaen, tirfaen.

Bounden, *a.* (o *bind*) rhwym, rhwymedig; dyledus, iawn, cyfiawn.

It is our bounden duty—ein rhwymedig ddyled yw; mae yn ddyledswydd rwymedig arnom.

Of bounden duty—o rwym *neu* rwymedig ddyled.

Our bounden service—ein dyledus wasanaeth.

Bounder, *s.* (o *bound*) terfynydd; terfyn, cyffin.

Boundless, *a.* (*bound* a *less*) diderfyn, annherfynol; anfesurol, anfesuredig, annherfynedig, difesur, anfesuradwy; diddiwedd; didran; heb ddiwedd, heb derfyn.

Boundless power—gallu anfeidrol, gallu diderfyn, &c.

Boundlessness, *s.* (o *boundless*) annherfynoldeb, annherfynolrwydd, anfesuroldeb, anfesuri.

Bounteous, *a.* (o *bounty*) = *Bountiful:* arferedig yn benaf mewn prydyddiaeth.

Bounteousness, } *s.* haeledd, haelionusrwydd,
Bountifulness, } haelioni, haelwychedd, haelgarwch, rhoddgarwch, haelder, haelusrwydd, elusendod, cirioldeb, cirwn, hygedrwydd, daioni, cedolrwydd, cymmwynasgarwch, haelionedd, madedd, syberwyd.

Bountiful, *a.* (*bounty* a *full*) hael, haelionus,

haelwych, rhoddgar, haelgar, elusenol, elusengar, hyged, cedol, daionus, cymmwynasgar, hyrodd, heilin, bronheilin, hyddawn, doniog, hyddoniog, llawegor, ciriol, cedrwys, lladol, darladol, madiain, mad, digyrrith, rhwyddged, dibrin, helaeth, helaethwych, rhywiog, rhwyddgalon.

Deal bountifully with thy servant—bydd dda wrth dy was.

He that soweth bountifully, shall reap also bountifully—yr hwn sydd yn hau yn helaeth, a fed hefyd yn helaeth.

To be bountiful—bod yn hael *neu* haelionus; dangos haelioni *neu* haeledd.

To become bountiful — haeluso, haelu; dyfod *neu* fyned yn hael.

Bountihede, Bountihead, Bountihood, † *s.* daioni, haelioni, haeledd, rhinwedd.

Bounty, *s.* (Ff. *bonté*; It. *bonta*; Ll. *bonitas*) haelioni, haeledd, haelder, daioni, dawn, rhodd, cedrodd, haelrodd, ceinrodd, llad, bendith, madedd, mad, haelged, cir, ciried.

Make up beforehand your bounty—rhagddarparwch eich bendith.

Queen Anne's bounty—rhodd y frenines Ann; haelioni y frenines Ann; cedrodd y frenines Ann; arian-rodd y frenines Ann.

All this he gave her of his royal bounty—hyn oll a roddodd efe iddi o'i freninol haelioni.

Bounty money—arian rhodd, rhodd arian; alafrodd, arian-rodd.

Excessive bounty — rhyhaeledd, gorhaeledd.

Bounties of providence — lladau rhagluniaeth; hael roddion rhagluniaeth; haelioni *neu* haelderau rhagluniaeth.

Bouquet, *s.* (Ff.) blodeuas, blodeuglwm, blodas.

Bourd, † *s.* (Ff. *bourde*) cellwair.

Bourgeois, *s.* (Ff.) math o argraff-lythyren.

Bourgeon, *v. n.* (Ff. *bourgeonner*) tarddu, tarddu allan, baldarddu, blaendarddu, blaguro, egino, impio.

Bourn, Bourne, *s.* (Ff. *borne*) terfyn, cyffin, goror.

Bourn, Bourne, † *s.* (S. *burn*; Al. *brunnen*) nant, cornant, afonig, carog.

Bouse, Boose, *v. n.* (Llyd. *beusi*; C. *boddi*; hen Is. *buysen*) meddwi, yfed, ymyfed, dyfolio, dyfoli, abrwysgo, diota, cofftio.

Boustrophedon, *s.* (Gr. *bous* a *strephô*) budroad, ychdro, ychdroad, buchdroad=dull o ysgrifenu, yn mhlith y Groegiaid boreol, o'r dde i'r chwith, ac o'r chwith i'r dde, bob yn ail, fâl ych yn y wedd.

Bousy, Boosy, *a.* (o *bouse*) meddw, abrwysg, go-frwysg, lledfeddw; mewn diod; diodgar.

Bout, *s.* (Ff.; It. *botta*) tro, chwyl, siâs, ysias; cais, cynnyg, praw; ffrwgwd.

This bout—y tro hwn; y siâs hon; y waith hon; y chwyl hon; y chwel hon; ar hyn o chwyl *neu* dro.

At one bout—ar un waith; ar unwaith.

Shall we have a bout at it?—a gawn ni wneuthur prawf, ymbrawf, cais, *neu* gynnyg arno? a gawn ni dro *neu* siâs arall arno *neu* arni.

A drinking bout — cyfeddach, cydyfed, term, term cyfeddach.

A merry bout—awr ddifyr, noswaith lawen, gŵyl mabsant.

Let us have a merry bout of it to-day—gadëwch i ni gynnal *neu* gadw gŵyl mabsant heddyw; gwnawn ŵyl mabsant o honi heddyw; cadwn heddyw yn ŵyl mabsant.

Boutade, *s.* (Ff.) chwim, nwyth, nwythas, asbri, pranc.

Boutant, *s.* (Ff.) cromwanas, crymwanas.

Boutefeu, *s.* (Ff.) ffaglydd, ffaglwr, ffleimiad, tylosgwr, banffaglwr; terfysgwr, aflonyddwr; cynhenwr.

Boutisale, *s.* (*booty-sale?*) iselwerth, iselbris, iselwerthiad.

Bovate, *s.* (Ll. *bovata*) ychgyfar, cyfar ych=28 erw yn ol Cowel; cymmaint o dir ag a ardda ych mewn blwyddyn.

Bovid, *a.* (Ll. *bos*, ych) buchol, buchin, buol, biwol.

Bovidæ, *s. pl.* (Ll. *bos*) bufilod, ychfilod, buogion, bucholion, ycholion=milod o'r un rhywogaeth a'r ych.

Bovine, *a.* (Ll. *bovinus*, o *bos*) buchol, buchin, buwchol, buol, ychol, ychaidd; perthynol i'r ych.

The bovine genus—y buchryw, yr ychryw, rhyw yr ych.

This animal is the strongest of the bovine genus—yr anifel hwn yw y cryfaf o ryw yr ych; yr anifel hwn yw y cryfaf o'r bufilod, y bucholion, *neu* y buogion.

The bovine ark—yr ychol arch.

Bow, *v.* (S. *bugan*, *bygan*; C. *bwâu*; Al. *biegen*) plygu, crymu, camu, ymgrymu, ymostwng, gostwng, gestwng, iselu, darostwng; dolenu, doli; gogwyddo, tueddu; bwâu.

To bow down—gostwng, gestwng, crymu; gostwng i lawr; plygu i lawr; tynu i lawr.

They bow down together—cydgrymant.

They shall bow themselves down together—cydymgrymant.

Bow down thy ear—gostwng dy glust; gogwydda dy glust.

To bow one's self—ymgrymu, ymostwng, ymblygu, &c.

It is better to bow than to break—gwell yw plygu na thori; gwell plygu na thori.

He bowed the heart of all the men of Judah—efe a drodd galon holl wŷr Iudah.

To bow the head—gostwng pen, crymu pen, gostwng y pen; ymgrymu.

They bowed down their heads—ymgrymasant; crymasant eu penau.

Bow down your heads to the dust—gogwyddwch *neu* gostyngwch eich penau i'r llwch.

Bow thy head to a great man—gostwng dy ben i wr mawr.

The people bowed down to their gods—y bobl a addolasant eu duwiau hwynt.

He would not bow to a proud man—nid anrhydeddai efe ddyn balch; nid ymgrymai i ddyn balch.

To bow the knee—plygu glin; plygu gâr; ymgrymu i un.

To me every knee shall bow—i mi y plyga pob glin.

I was bowed down at the hearing of it—syrthiais wrth ei glywed.

To bow together—cydgrymu, cydblygu.

To bow into a hook—bachu; plygu yn fach.
To bow round—amgrymu, amblygu, amgylchu, cylchu.
Bowed like an arched roof—nen-grwm, bwaog; gogrwm fel bwa maen.

Bow, *s.* bwa; bwa saeth; crymiad, ymgrymiad, pengrymiad; crwcad; gostwng, ymostwng; gwyrog, gwragen, dolen, dôl; magl.
Bent bow—bwa annelog, bwa ar annel.
To bend a bow—annelu bwa.
To unbend a bow—dadannelu bwa, dadennylu bwa.
Bow and arrow—bwa a saeth.
Steel bow—bwa dur.
Battle bow—bwa rhyfel.
To draw a bow—annelu bwa; gosod bwa ar annel.
Well-drawn bow—bwa annelog, annelog fwa.
Bow case—cod bwa, caes bwa.
Cross bow—albrys, bwa croes, croesfwa, blif.
Long bow—bwa hir, hirfwa.
The use of the bow—saethyddiaeth, saethiadaeth, bwäyddiaeth.
Rain-bow—enfys, enfysg, yr enfys; bwa yr arch, bwa y Trindod, bwa y gwlaw, bwa y wrach.
Bow of a violin—bwa crwth.
Ox-bow—dôl, dolen, gwragen, dôl iau, gwary.
Bow-knot—cwlwm dolen, clwm dolen.
Bow-pin—gwarllost, gwarbin, gwarog.
Bow of a ship—fflureg, pen blaen llong.
Lean bow—fflureg gul.
Bold bow, Bluff bow, } fflureg lydan, fflureg dren.
Bow of a saddle—cambren cyfrwy, bwa cyfrwy, camedd blaen cyfrwy.
Bow instruments—bwa-offer, offer bwa; offer tannau à chwareuir â bwa.
Running-bow—byddag, byddagl, tagfagl, tagfyddag.
As swift as an arrow out of a bow—cynted a'r gwynt; càn gynted a'r gwynt; cynted a'r awel; mòr gyflym a'r awel; cynted a'r saeth oddi ar y bwa.

Bowable, *a.* (o *bow*) plygadwy, camadwy, hyblyg.

Bowbearer, *s.* (*bow* a *bear*) gwigfanagwr=iswyddog y goedwig.

Bowbent, *a.* (*bow* a *bent*) cam, crwca, (*f.* croca), bwaog, bwaol.

Bowcompasses, *s. pl.* (*bow* a *compass*) crymgwmpas, camgwmpas.

Bowdye, *s.* (*Bow*, lle ger Llundain, a *dye*) math o ysgariad; airos Bow, lliw Bow.

Bowhand, *s.* (*bow* a *hand*) y llaw à drinia y bwa; llaw y bwa.

Bowel, *v. a.* (gwel *Bowels*) diberfeddu; tynu allan yr ymysgaroedd.

Bowel, *s.* perfeddyn, coluddyn.

Bowelless, *a.* (*bowel* a *less*) diymysgaroedd; didosturi, dideimlad.

Bowels, *s. pl.* (Ff. *boyau*; Al. *bauch*) ymysgaroedd, amysgaroedd; perfedd, coluddion, coludd; tosturi: *sing.* amysgar, ymysgar, coluddyn.
Bowels of compassion—ymysgaroedd tosturi; tosturi, trugaredd, gresyndod, gresyni.
The bowels of the earth—ymysgaroedd *neu* berfedd y ddaiar; dirgelion y ddaiar; bru y ddaiar.
It came into his bowels like water—daeth fel dwfr i'w fewn.
Two manner of people shall be separated from thy bowels—dau fath ar bobl a wahenir o'th fru di.
Where is the sounding of thy bowels toward me?—mae lluosogrwydd dy dosturiaethau tuag ataf fi?
From the bowels of his mercy—o eigion ei drugaredd.
My bowels yearn after him—cynhyrfir fy nghalon gàn dosturi tuag ato.
Pain of the bowels—coluddwst, poen y coluddion.

Bower, *s.* (S. *bur*; o *bow*?) deildy, cysgotty, gwasgotty, gwasgodfa, celli, llwyn, gwasgodlwyn, gwasgodwydd, celydd; mwd; cuddigl, cilgell; cotty, gwlatty.
Lady's bower—cudd y coed, dringiedydd, barf y gwr hen.

Bower, *v.* celyddu, gwasgodi, cysgodi; amgau; llettya.

Bower, *s.* (o *bow*, fflureg) blaenangor, angor blaen, angor y fflureg, angor blaen llong.

Bowers, Bowrs, } *s. pl.* (o *bow*, plygu) plygyrion, plygorion=y cyhyrau à blygant y cymalau.

Bowery, *a.* (o *bower*) celyddog, celyddig, deildyog, gwasgodog, gwasgodaidd, cysgodaidd, cysgodog, cysgodig, llwynaidd, mydaidd.

Bowet, Bowess, } *s.* (?) hebogan, hebog ieuanc.

Bowge, *v. n.* (Ff. *bouge*) chwyddo allan, cestu, ymchwyddo.

Bowge, *v. a.* trydyllu, tyllu, trywanu.

Bowgrace, *s.* (*bow* a *grace*) blaenddiffyn=peth i gadw pen blaen llong rhag niwed gàn ia, yn y moroedd rhewllyd.

Bowing, *s.* (o *bow*) bwad.

Bowl, *s.* (S. *bolla*; C. *buelin*) cawg, mail, cogan, cawgen, ffiol, cwpan, meilen; basarn.
Large bowl—trwca; cogan fawr.
Small bowl—meilen, meilan, cogan, cawgen.
The bowl of a spoon—pen llwy.
Bowl-ful—cogaid, meilaid, cawgaid; llonaid mail *neu* gawg.

Bowl, *s.* (Is. *bol*; Ff. *boule*; Ysp. *bola*) cnapan, cnapen, cwnell, pelan, pel, bwl, pel dreigl, treiglen.
To play at bowl—chwareu cnapan; chware pel dreigl.

Bowl, *v.* bwlio, bylio, pelu, peldreiglo, treiglo; chwareu cnapan; cnapluchio; taflu.

Bowlder, Boulder, } *s.*= { *Boulder.* *Bowlder.*

Bowleg, *s.* (*bow* a *leg*) coes gam, bèr gam, camgoes.

Bowlegged, *a.* (o *bow* a *leg*) coesgam, gargam, bergam.

Bowless, *a.* (*bow* a *less*) difwa, heb fwa.

Bowler, *s.* (o *bowl*) bwliwr, byliedydd; chwareuwr cnapan, chwarëydd pel dreigl.

Bowline, *s.* (Ysp. a Port. *bolina*) hwylraff, hwylreffyn.

Bowling, *s.* (o *bowl*) chware cnapan, bwliad, byliad.

Bowling-green, Bowling-ground, } *s.* pelgadlas, treiglesin, cnaplas.

Bowman, *s.* (*bow* a *man*) saethydd, saethwr, bwäwr, bwëydd, bwedydd; blaenrwyfwr.

Bowman of a boat—blaenrwyfwr bad, blaenrwyfydd cwch.
Bownet, *s.* (*bow* a *net*) cryw, crowyn, perced, balleg, ballegrwyd.
Bowpiece, *s.* (*bow* a *piece*) blaen-gyflegr; cyflegr à gàrir ar ben blaen llong.
Bowsaw, *s.* (*bow* a *saw*) plyglif, cromlif.
Bowse, *v. a.* (?) tynu, llusgo, cyttynu.
Bowssen,† *v. a.* (o *bouse ?*)=*Bouse, Boose.*
Bowshot, *s.* (*bow* a *shot*) ergyd bwa.
Bowsprit, *s.* (*bow* a *sprit*; Is. *boegspriet*) osghwyliar, osghwylbren, yr hwylbren gogwyddedig.
Bowstring, *s.* (*bow* a *string*) llinyn bwa, cordyn bwa, carai bwa.
Bow-window, *s.* cromffenestr, ffenestr grom.
Bowyer, *s.* (o *bow*) saethydd, saethwr, bwëydd.
Box, *s.* (S.; Ll. *buxus, pyxus*) blwch, blochas, golwrch, coffr, cist, prenial, cloer, byle, prenfol; llogawd, llawgist; hawg; bwl; blychaid, golyrchaid, coffraid.
Box, } ysbeinwydd, bocys, coed bocys,
Box-tree, } bocs, bocyswydd: *sing.* ysbeinwydden, bocysen, boden, pren bocys, bocs.
Box-wood—ysbeinwydd, coed bocys.
Box-thorn—bocysddraen, bocysddraenen, bocys pigoglym.
Box-grove—llwyn bocys, bocys-lwyn.
Full of box—bocysog; llawn o focys *neu* ysbeinwydd.
As pale as box—mòr las a'r angeu; cyn *neu* càn lased a'r angeu.
Little box—blychyn, byle, gofiwch.
Poor box—cyff elusen, elusen-gist; coffr *neu* flwch elusen.
Garden box—hawg gardd; hafdy.
Christmas box—calenig, rhodd Nadolig.
Dice box—ffristiol, ffristial, blwch disiau, disflwch.
Ballot box, } tugelgist, blwch y tugel.
Balloting box, }
Letter box — llythyrgell, llythyrgist, llythyrgloer.
Box of a skrew—gwain asgrwy, gwain sidrwy, trowain.
A box of ointment—blwch o enaint; blychaid o enaint.
Spice box— perflwch, blwch peroglau.
Spitting-box—poerflwch, blwch poeri.
Salt box—crwth halen, cist halen.
Coal box—hawg glo, ysgutell glo, ysgudell lo, crwth glo.
A box of tea—blychaid o de.
Coach box — cerbydgist, cludgist, cludseddfa, eisteddle gyrwr cerbyd.
Wooden box — prenfol, prenial; blwch coed, blwch pren.
Box and needle—compawd; blwch a nydwydd.
Box-maker—blychwr, blychydd, golyrchwr; saer blychau, &c.
Boxes in a play-house—côrau chwareudy, seddau chwareudy; cuddiglau *neu* logodau mewn chwareufa.
Box of a wheel—both olwyn; bwl troell.
Box-ful — blychaid, golyrchaid, llonaid blwch.
You are in the wrong box—yr ydych maes o'ch amcan; yr ych chwi wedi colli y ffwyl; yr ych chwi allan o'ch lle; yr ych yn camgymmeryd.

Box, *v. a.* blychu; rhoi mewn blwch; bothi.
To box a tree—tyllu coeden; trychu coeden i gael ei sudd; gollwng sudd pren.
To box the compass—cyfrif pwyntiau y cwmpas; pwyntrifo y compawd.
Box, *v. a.* (Ysp. *boxar*) amhwylio, hwyliaw o amgylch, cylch-hwylio.
Box, *s.* (C. *boch*) dyrnod, cernod, bonclust, cernhep, llach, chwap, palfod.
Box on the ear—bonclust, cernod, cernhep; dyrnod yn mon clust.
To give a box on the ear—bonclustio.
He gives himself a shrewd box on the ear —y mae yn poeri i'w fonwes ei hun.
Box, *v.* dyrnodio, bonclustio, cernodio, cernhepio; paffio, llachio, cobio, chwapio, ymbaffio.
To box on the ear—bonclustio, cernodio, cernhepio; dyrnodio yn mon clust.
To box together—ymddyrnodio, ymfonclustio, ymgernodio, ymbaffio, ymgobio; ymladd à dyrnau.
Boxcoat, *s.* (*box* a *coat*) trosgoban, troshugan cerbydwr.
Boxen, *a.* (o *box*) bocysaidd, ysbeinwyddain; o bren bocys; perthynol i'r ysbeinwydd *neu* y bocys.
Boxen wood—ysbeinwydd, coed bocys, bocyswydd.
Boxen pipe—pib focys, pibell focys.
Boxen hue—bocysliw, lliw y bocys, lliw bocys.
Her cheeks of boxen hue—ei gruddiau o liw 'r bocys.
Boxer, *s.* (o *box*) dyrnodiwr, paffiwr, paffiedydd, cysbwywr, ymladdwr, ymbaffiwr, dyrnymladdwr, ymladdwr à dyrnau.
Box-haul, *v. a.* pwynt-hwylio.
Box-hauling, *s.* pwynt-hwyliad.
Boxing, *s.* (o *box*) dyrnodiad, paffiad; paffiadaeth, dyrnodiaeth, dyrn-ornest.
Boxing bout, } dyrnodfa, dyrnodwaith,
Boxing match, } dyrn-ornest; ymladdfa, ffustfa; ymdrech *neu* ymornest à dyrnau.
Boxings of a window—cloeriadau ffenestr.
Boy, *s.* (anhysbys) bachgen; llanc, llencyn, mab, herlod, hogyn, bachgenyn, hoglanc, glaslanc, macwy; rhocyn, crwt, crwtyn.
A little boy—bachgenyn, herlotyn, bachgen bach, gwesyn: *pl.* bechgynos.
Little boys—bechgynos; bechgynach.
A rustic boy—crwt, crwtyn, rhocyn: *pl.* crytiaid, hogiau gwledig.
Errand-boy—negeswas, negeslanc.
Cabin-boy—cellwesyn, cabanwas.
Servant-boy—gwesyn; ymlyniad; gwas.
A soldier's boy—macwy, milwrwas.
Post boy—llythyrwas.
School boy—bachgen mewn ysgol; bachgen ysgol; ysgoläig.
Boys and girls — bechgyn a genethod; meibion a merched.
A son while he is a boy—mab cyd bo mab.
He is past a boy—y mae wedi gadael ei febyd; aeth allan o'i faboed; nid bachgen mo hono mwyach.
Boys' play — chwareu plant; chwareu bachgenaidd *neu* blentynaidd.
He has left boy's plays — gadawodd ei deganau; gadodd ei chwareuon plentynaidd; rhoes heibio ei bethau bachgenaidd.

I was then but a boy—nid oeddwn y pryd hwnw ond bachgen ŵes hogyn.

Boy, *v. a.* bachgenu; trin fel plentyn; ymddwyn fel plentyn.

Boyar, } *s.* = { *Boiar.*
Boiar, } { *Boyar.*

Boyau, *pl.* Boyaux, *s.* (Ff.) rhyngwyth.

Boyer, *s.* math o long Ffiemig.

Boyhood, *s.* (*boy* a *hood*) bachgendod; mebyd, mabood, plentyndod, llencyndod, hogyndod.

Boyish, *a.* (o *boy*) bachgenaidd, bachgenol, llencynaidd, plentynaidd, llancaidd, hogynaidd, mabaidd, mebinaidd.

A boyish swain—bugeilwas llencynaidd.

Boyishness, *s.* (o *boyish*) bachgendod, bachgenrwydd, bachgeneiddrwydd, llencyndod, plentyndod, plentyneiddwch, mabanrwydd.

Boyism, *s.* (o *boy*) bachgendod, bachgenrwydd, plentyndod, plentyndra, mabanrwydd; mebmedd, mabolaeth.

Boy's-play, *s.* chwareu plant, difyrwch bachgenaidd, chwareu bachgenaidd; chware hogiau ŵes lancian.

Brabble,† *s.* (Is. *brabbelen*) ymgiprys, ymgecraeth, cecraeth, ymddadwrdd, crintach, ymryson, ffrwgwd, terfysg, cynhwrf.

Brabble,† *v. n.* ymgiprys, ymgecru, ymgegu, ymeirio, cecru, ymddadyrddu, &c.

Brabbler,† *s.* ymgecrwr, ymgegwr, cecryn, cecrwr, cynhenwr, ymdaerwr, &c.

Braccate, *a.* (Ll. *braccatus*, o *bracca*) llodrog.

Brace, *s.* (Ff. *bras;* Ysp. *brazo*) creffyn, craff, rhwymyn, rhwym; lleg; pâr, cwpl, cwplws; cydnod; tyndra, tynder; dalgarai; seiroh, trec.

Braces (in typography)—cydnodau, cyplysnodau, cyfreion=fel hyn { }

Braces — cyfreion; cyplysau, craffau, clymeion.

A brace of ducks—pâr o hwyaid, cwpl o hwyaid.

A brace of dogs—cwpl o gŵn.

Braces of a drum—craffau tabwrdd; tynrwymau tabwrdd.

Braces of a coach—cyfreion cerbyd, dalgareion cerbyd, crogledrau cerbyd.

Brace of pistols—dau lawddryll.

In warlike brace—mewn trec rhyfelgar.

It has lost its brace—collodd ei graff; collodd ei dyndra.

Braces of a ship—dalraffau llong, llegraffau llong.

Braces for pantaloons—cyfreion llodrau.

Brace, *v. a.* creffynu, rhwymo, cydio, cyfrwymo, cydrwymo, cydglymu, clymu, cyplysu; gwregysu; tynhau, cryfhau, grymusu; cydio â chraffau; tynrwymo; tynu yn dyn.

Bracing girdle—gorwregys.

Bracelet, *s.* (Ff. *bracelet, brasselet*) breichled, breichrwy, breichwisg, breichdlws, breichledr; arddyrnas, arddyrndlws.

Wearing a bracelet—breichrwyog, breichledog, breichdlysog.

Bracer, *s.* (o *brace*) cyfrwymydd, cyfrwe, cyfrwymyn, creffyn, rhwymyn, clymai; breichwisg, breichrwy; rhwymai, dirglymai: *pl.* cyfreion, cyfrwymau, dirglymolion, argaeolion, rhwymolion, &c.

Brack, *s.* (Ff. *braque;* Is. *brak*) huadast, bythesadast.

Brachelytra, *s. pl.* (Gr. *brachus* ac *elutron*) byrweinogion=dosbarth o drychfilod caesadeiniol.

Brachial, *a.* (Ll. *brachialis*, o *brachium*, braich) breichiol, breichus, breichaidd; perthynol i'r fraich.

The brachial artery—rhydweli y fraich.

Brachiate, *a.* (Ll. *brachiatus*) breichiog; parosglog.

Brachiopods, } *s. pl.* (Gr. *brachiôn*, braich, a
Brachiopods, } *pous*, troed, ped) breichbedogion = math o fywiaid dwygragenog â'u breichiau yn gwasanaethu yn lle traed a choesau.

Brachiopod, } *s.* breichbedog, breichbedogyn;
Brachiopode, } un o'r breichbedogion.

Brachiopodous, *a.* (Gr. *brachion* a *pous*) breichbedogol, breichbedogaidd; perthynol i'r breichbedogion.

Brachman, } *s.* (San.) un o athronyddion, llen-
Brahman, } orion, neu offeiriaid yr Hindw-
Brahmin, } aid: *pl.* Brachmaniaid, Brah-
Bramin, } maniaid, Brahminiaid, Braminiaid, Braminwys.

Brachycatalectic, *a.* (Gr. *brachus* a *catalecticos*) byrgoll; à fo ddwy sill yn rhy fyr.

Brachycatalectic, *s.* byrgoll, mydr byrgoll; pennill rhy fyr o ddwy sill.

Brachygrapher, *s.* (Gr. *brachus* a *graphô*) byrysgrifydd, byrysgrifenydd, byrysgrifwr, byrysgrifiwr, byrysgrifenwr.

Brachygraphy, *s.* (Gr. *brachus* a *graphê*) berysgrifiaeth, byrysgrifiaeth, bersgrifiaeth, berysgrifen, llaw fêr.

Brachylogy, *s.* (Gr. *brachus* a *logos*) beriaith, byriaith, byrdraith, byrebiaeth.

Brachypodinæ, *s. pl.* (Gr. *brachus* a *pous*) byrbedogion, tresglod troedfyr.

Brachyptera, *s. pl.* (*brachus* a *pteron*) byrednogion, byradenogion, adar byradeiniog.

Brachypterous, *a.* byradeiniog, adeinfyr.

Brachypus, *s.* (Gr. *brachus* a *pous*) byrbedog; y fronfraith droedfer.

Brachytypous, *a.* (Gr. *brachus* a *tupos*) byrddulliog.

Brachyurous, *a.* (Gr. *brachus* ac *oura*) byrlostog, byrgynffonog, cynffonfyr.

Bracing, *a.* (o *brace*) rhwymol, dirglymol, cryfhaol; tynhaol.

Bracing medicines — rhwymolion, dirglymolion, argaeolion, cryfhaolion.

A bracing air—awyr cryfhaol.

Bracing, *s.* cyfrwymiad, cydrwymiad, cydglymiad, creffyniad, craffad; tynhad, cryfhad.

Brack, *s.* (Al. *bracke, bruch;* Norm. *brek*) breg, agen, toriad, briw, twn; llwgr.

Bracken, *s.* (Al. *breche*) rhedyn.

Bracket, *s.* (Ff. *braquer;* Ll. *brachium*) ysgwyddyn, ystanc, gobenyddiad, cynnalbren; crymfach, camfach.

Brackets — crymfachau, camfachau = fel hyn [ ].

Brackish, *a.* (Is. *brak*) halltaidd, hallt, heliaidd, lled hallt, halenaidd, hallaidd.

Brackishness, *s.* (o *brackish*) halltrwydd, helltni, halltedd, halltineb, gohalltedd.

Bracky,† *a.* (Is. *brak*)=*Brackish.*

Bract, } *s.* (Ll. *bractea*) deiligen, blodeilen.
Bractea, }

Bracteate, } *a.* (Ll. *bracteatus*) blodeilog,
Bracted, } deiligol.

Bracteolate, *a.* (o *bracteole*) blodeiligol.

Bracteole, *s.* (Ll. *bracteola*) blodeiligen.

Brad, *s.* (Gw. *braid, brod;* D. *braad;* Llyd. *broud*) llorhoel, hoel ddiglop, hoelen lorio, hoelen foel.
Brad-awl—mynawyd llorhoel, mynawyd llorio.
Bradypoda, } *s. pl.* (Gr. *bradus*, araf, a *pous*,
Bradypods, } troed) musgrellogion, arafolion.
Bradypterus, *s.* (Gr. *bradus* a *pteron*) arafednog; *pl.* arafednogion.
Bradypus, *s.* (Gr. *bradus* a *pous*) arafbed, musgrellog.
Brae, } *s.* (C. *bre*) bron, llechwedd, llethr;
Bray, } glàn, torlan afon; bryn, bre, banttir: arferedig yn yr Alban.
Brag, *v. n.* (o'r C.) ffrostio, ymffrostio, bragio, brolio, bostio, bocsachu, brolian, rhydresu, gwagfostio, bragal.
Brag, *s.* bost, ymffrost, ffrost, broled, brawl, brol, bocsach, gwagfost, rhodres.
He makes grievous brags—y mae yn ofid calon i un ei glywed yn bragio; y mae yn flinder calon ei glywed yn ffrostio *neu* rodresu.
Brag, *s.* chwareu ar gardiau.
Braggadocio, *s.* (o *brag*, o'r hwn y ffurfiodd Spenser ei farchog *Braggadocchio*) broliwr, ffrostiwr, bostiwr, ymffrostiwr, bocsachwr, bragiwr.
Braggart, } *s.* (o *brag*) ffrostiwr, ymffrostiwr,
Bragger, } broliwr, bostiwr, bocsachwr, rhodreswr, ymfolachwr, bragiwr.
Braggart, *s.* ffrostus, bostfawr, ffrostfawr, bostus, ffrostiol; rhodresgar.
Bragget, *s.* (o'r C.) bragod, bragawd, bragoddlyn.
Bragging, *s.* (o *brag*) ffrostiad, ymffrostiad, bostiad; bost, ffrost, ymffrost.
Bragless, *a.* (*brag* a *less*) diffrost, difost, dïymffrost.
Brahmin, *s.*=*Brachman*, &c.
Brahmanic, } *a.* (o *Brahman*, &c.) Brahminig,
Brahminic, } Brahmanig, Brahminaidd; perthynol i Frahminiaid yr India.
Braid, *v. a.* (S. *bredan;* hen Seisoneg *brede*) plethu, brwydo, crychu, modrwyo.
Braiding machines — pleth-ermigion, ermigion plethu.
Braid, *s.* pleth, rhwymbleth.
Braids of a loom—brwyd, brwydau, peithynau.
A braid of hair—cudyn, llofn, llyweth, *neu* fodrwy o wallt; pleth o wallt; cudyn modrwyog.
Braided, *p. a.* (o *braid*) plethedig; cymhleth; crych.
Brail, *s.* (Ff. *brayer*) crychraff, plygraff, hwylraff; hebogrwym.
Brails—crychraffau, plygraffau, hwylraffau.
Brail, *v. a.* codi i'r crychraffau; crychreffynu, crychraffu.
Brain, *s.* (S. *bræġan, bregen;* Is. *brein*) ymenydd, emenydd, menydd.
Brains—ymenydd; synwyr, deall.
The external membrane of the brain (*dura mater*) — y crefadyr; pilen allanol yr ymenydd; arbilen yr emenydd.
The middle membrane of the brain (*arachnoid membrane*)—y gopwebilen; breithell yr ymenydd; pilen ganol yr ymenydd.
The innermost membrane of the brain (*pia mater*)—yr isgrefadyr; isbilen yr ymenydd; pilen isaf yr emenydd.
The hinder part of the brain (*cerebellum*) —olymenydd, gorymenydd, gormenydd, yr emenydd bychan.
The tunicle *or* membrane involving the brain—pilen *neu* bilionen yr ymenydd; croenen y menydd.
Had I had my brains—pe buasai synwyr dyn ynof.
His brains are addle—y mae wedi pendroni; y mae penwendid arno; nid oes ynddo synwyr gwydd; y mae ei fenydd yn glaf *neu* yn glwc.
To dash out the brains—difenyddio, dïymenyddio; taro *neu* guro yr emenydd allan.
To beat one's brains about a thing—curo, dirbwyo, *neu* ddirboeni yr emenydd yn nghylch peth.
Brain, *v. a.* dïymenyddio, difenyddio; dïemenyddio; dïenyddio; taro yr ymenydd allan.
Brainish, *a.* (o *brain*) penboeth, pendwym, nawswyllt, gorwyllt; ffyrnig, angerddol.
Brainless, *a.* (*brain* a *less*) dïymenydd, dïemenydd, difenydd; disynwyr, penffol, penwan, anghall, ffol, ynfyd, ehud, anystyriol, chwidr, byrbwyll.
Brainpan, *s.* (*brain* a *pan*) creuan, y greuan, padell yr ymenydd, penglog; iad, siâd, siòl.
Brainsick, *a.* (*brain* a *sick*) penglwc, penwan, penfeddal, pensyfrdan, lledfrydig, penysgafn, penchwiban, penddarus, gorphwyllus, gwallgof, anmhwyllog, disynwyr, ffol, ehud, anystyriol, chwidr, byrbwyll, difeddwl; âg ymenydd claf *neu* glwc iddo.
Brainsickness, *s.* (*brain* a *sickness*) penwendid, pensyfrdandod, syfrdandod, lledfrydedd, penfeddaledd, gwallgof, gorphwyll, penfrag, penddaredd; ffolineb, ansynwyr, chwidredd, byrbwylledd.
Brainthrob, *s.* (*brain* a *throb*) dychlam yr ymenydd.
Braird, *s.* (S. *brord*) cynegin, cynfalant.
Brait, *s.* (?) graenem, celltem arw, adamant garw.
Brake, *s.* (C. *brwg;* Gw. *fraoch;* Al. *brechc*) dyrysalwyn, gwyddelwern, prysglwyn, prysgle, prys, prysg, gwyddle, brwg, brycell, brycini, clŷn, preselyn, cardden, gwyddwal, cadberth, tewlwyn, llwyn, perth; presceldir, prysel, pryseldir, prysgyll, clynog; ffyllog: *pl.* gwyddeli, prysgoed, prysglwyni, ffyllon.
Brakes — adeinredyn, rhedyn eryraidd: *sing.* adeinredynen, rhedynen eryraidd.
Common brakes—adeinredyn eryraidd.
Rock brakes—adeinredyn y chwarelau.
Thorn brake — draenllwyn, dreinllwyn, dreinberth.
Furze brake—clŷn o eithyn, eithinog.
Fern brake—clŷn o redyn, rhedynog.
Land overgrown with fern brakes—rhedyndir.
Bramble brake—mïerinllwyn, dyrysalwyn, mïerog, dyrysïog, clŷn mïeri.
It is one brake of furze—y mae yn un clŷn o eithin.
A place over-run with brake—clynog, prysain, pryseldir.
Either a brake or a bush—naill ai llwynog ai llwyn rhedyn.
Brake, *s.* (S. *brœcan;* C. *breq*) heisyllt,

heisian, brenan llin, llinfreuan; braich sugnell; cafn tylino, noe bobi; genfa ffrwyn, genfa.

Brakeman, *s.* (*brake* a *man*) carluddiwr; attaliwr ceir ar reilffordd *neu* dramrawd.

Braky, *a.* (o *brake*) gwyddelain, prysglwynaidd, clynog, prysain, prysgaidd, ffylliog, preselog, dreiniog, eithinog; perthlawn, perthog; garw; llawn o ddyrysiwyni, &c.

Brama, } *s.* (Ff. *breme;* Ysp. *brema*) y merfog,
Bream, } math o bysg.

Brama, } *s.* (San.) duw penaf yr Indiaid:
Brahma, } Brama y creawdydd, Vishnw y
Bruma, } cynnalydd, a Siva y dinystrydd, a ffurfiant Drindod yn ol duwinyddiaeth yr Hindŵaid.

Bramble, *s.* (S. *brembel, bremel*) mïeren, mïaren, miar, dyrysïen, mïerïen; mwyarllwyn, mïarllwyn, dyrysïwyn: *pl.* mïeri, mwyar, dyrysi, mwyeri.

Bramble bush—mwyarllwyn, mïarllwyn, mïerinllwyn, dyrysïwyn; llwyn mïeri *neu* ddyrysi; mïerïenllwyn; perth fïeri; perth.

Mountain bramble—mwyaren Berwyn, mïaren Dwywan, mwyaren Dwywon, mïaren y brenin.

Hazel-leaved bramble—mwyarllwyn cyllddail; mïaren gylldddail.

Common bramble, } mwyaren ddu, mwy-
Blackberry bramble, } arllwyn du, mïarllwyn.

Stone bramble—corfwyaren; mwyaren y ceryg.

Sooner will the oak fall than the bramble before the wind—cynt y cwymp dâr no mïaren o flaen y gwynt.

Bramble net—dyrysrwyd; rhwyd i ddâl adar.

Bramble bonds—tyrch dyrysi, tyrch mïeri.

Of a bramble bush men do not gather grapes—oddi ar y berth ni heliant rawnwin.

Brambled, *a.* (o *bramble*) dyrysïog, mïerïog; llawn mïeri *neu* ddyrysi.

Brambling, } *s.* bonrhuddyn y mynydd=aderyn
Bramble, } o'r enw.

The greater brambling—golfan yr eira.

The lesser brambling—golfan leiaf, yr olfan leiaf.

Brambly, *ad.* o (*bramble*) yn llawn o ddyrysi neu fieri.

Bramin, } *s.* (San.) Bramin, Brahmin, Bram-
Brahmin, } iniad: *pl.* Braminiaid, Brahminiaid=*Brachman*, &c.

Braminess, } *s.* (o *bramin* neu *brahmin*)
Brahminess, } Bramines, Brahmines, gwraig
Braminee, } Brahmin.

Braminical, *a.* (o *bramin*) Braminig, Braminaidd, Brahminig; perthynol i'r Braminiaid.

The braminical system—y ddeseb Framinig; y gyfundraith Framinaidd; deseb y Braminiaid.

Braminism, *s.* (o *bramin*) Braminiaeth, Brahminiaeth; athrawiaeth y Braminwys.

Bran, *s.* (C., Gw., Gael., a Ff. *bran;* Llyd. *brenn*) brân, eisin, rhuddion, rhuchion.

Full of bran—brânog, eisinog, rhuddionog, rhuchionog, eisinllyd, branllyd, rhuchionllyd; llawn brân.

Brancard,† *s.* (Ff.) elor feirch, meirchelor; elor.

Branch, *s.* (Ff. *branche;* Llyd. *brancq*) cangen, cainc, caing, cang, clofen, osgl, osglen, gwrysgen, ysbag, ysbagen, colfen, braich, bâr, bâren, brigyn, pingyn, pincyn; rhan, adran; canwyllyr, ceinciadyr: *pl.* cangenau, gwrysg, ysbagau, pingau, brigau, &c.

Branch of the sea—cainc o fôr, cangen o fôr, morgainc, gwythen môr.

Young branches—ysgewyll, mabgeinciau, blagur.

Little branch—cangenig, ceincen, cangenan, planigyn; cangen fechan.

Branch of a pedigree—cainc cenedl, caing o genedl, gradd carennydd, tras, ach.

Every branch of it—pob cangen, rhan, *neu* aelod o hono.

Collateral branch—cainc ystlysol, cainc gyfarystlys; cainc ystlysol o ach; gradd gyfarystlys o genedl.

Two olive branches—dau bincyn olewyddden; dwy gainc olewydden.

Branches of a bridle—cangau *neu* geinciau ffrwyn.

Branches of a stag's horn—ceinciau *neu* gangau corn carw; cornosglau *neu* gorngangau carw.

His branch shooteth forth in his garden—yn ei ardd y daw ei frig allan.

Branch, *v.* ceincio, cangenu; osgli, colfenu, clofenu, ysbago; tyfu yn gangenau; ymranu yn gangenau; adranu, dosranu, dosbarthu, ymranu, rhanu; tori allan, tarddu allan, ymhelaethu, helaethu.

To branch out upon a subject—ymhelaethu ar beth; llefaru yn helaeth ar ryw destyn; ymadroddi, llefaru, *neu* areithio yn faith ac yn fanol.

Branched, *a.* (o *branch*) ceinciog, cangog, cangenog, osglog, brigog.

Brancher, *s.* (o *branch*) ceiniedydd, cangenydd; canghebog, hebog ieuanc.

Large branched—llydanfrig, briglydan.

Branched with gold—eurgeinciog, eurgangenog, eurosglog.

Branched candlestick—canwyllbren ceinciog, canwyllarn cangog.

Branched work—ceincwaith, ceingwaith.

Branchery, *s.* (o *branch*) ceinciadau, cangeniadau; canglestri.

Branchiæ, } *s. pl.* (Gr. *bragchia;* Ll. *branchiæ*)
Branchiæ, } tagellau, tegyll, crogenau.

Branchiness, *s.* (o *branchy*) cangogrwydd, ceinciogrwydd, cangenogrwydd, brigogrwydd, osglogrwydd.

Branching, *a.* (o *branch*) ceinciol, cangol, cangenol, ysbagol, brigol, colfenol.

Branchiopoda, } *s. pl.* (Gr. *bragchia* a *pous*)
Branchiopods, } tagellbedogion, crogenbediaid, crogenbedogion.

Branchiopode, } *s.* tagellbedog, crogenbedog;
Branchiopod, } un o'r crogenbediaid.

Branchiopodous, *a.* (Gr. *bragchia* a *pous*) tagellbed, crogenbedog, crogendroed.

Branchiostegans, } *s. pl.* (Gr. *bragchia* a *stegos*)
Branchiostegi, } hulgrogeniaid, huldagellogion=math o bysgod.

Branchiostegous, } *a.* (Gr. *bragchia* a *stegos*)
Branchiostegeous, } cuddgrogenog, hulgrogenol, tagellgudd.

Branchireme, *s.* (Gr. *bragchia*, a Ll. *rhemus*) crogenrwyf=math o filyn.

Branchleaf, *s.* (*branch* a *leaf*) cangddalen, ceincddalen, cangddeilen.

Branchless, *a.* (*branch* a *less*) digainc, difrig, digangau, digangenau; noeth, moel, diffrwyth, noethlwm.

Branchlet, *s.* (o *branch*) ysbrigyn, cangenig, cangenan, ysbagen, ysbrigen.

Branchy, *a.* (o *branch*) ceinciog, cangenog, cangog, brigog, osglog, clofenog, colfenog, ysbagog, colfog; ymdaenol.

Brand, *s.* (S., Is., Al., a Sw.) tewyn, pentewyn, etewyn; llosnod, haiarnnod; dunod, gwarthnod, gwarthrudd, gwaradwydd; bollt, taranfollt; † cleddyf.

He set the brands on fire—cynneuodd dân yn y ffaglau.

Brand, *v. a.* llosnodi, llosgnodi, haiarnnodi; nodi â haiarn poeth; gwarthnodi, gwarthruddo, drygnodi.

To brand with infamy—gwarthnodi; nodi â gwarth, cywilydd, *neu* waradwydd.

Brand, **Burnt**, } *s.* llosg=math o haint ar dyfolion.

Brand-goose, *s.* yr ŵydd wendorch, gŵydd wyllt, brent-ŵydd.

Brand-iron, **Branding-iron**, } *s.* trybedd, trybed, tribed; llosnodyr, llosghaiarn, haiarn nodi.

Brandish, *v. a.* (Ff. a Port. *brandir*) ysgwyd, chwyfio, chwyfo, chwyrnellu, gnisio, dysbeilio, dysbelio, ffrowyllu, gwringellu, ewybro; ysgydwyd dân fwgwth; chwareu; cymhenu.

When I shall brandish my sword before them—pan wnelwyf i'm cleddyf ddysgleirio o flaen eu hwynebau hwynt.

To brandish syllogisms—chwareu â chyfresymau; cymhenu cyfresymau; bragio cyfresymau; brolio rhesymeg.

Brandish, *s.* ysgwyd, ysgydwad, gnis, dysbeliad.

Brandisher, *s.* (o *brandish*) ysgwydwr, ysgwydydd, ysgydwydd, chwyrnellydd, &c.

Brandle, † *v. a.* (Ff. *brandiller*) ysgwyd, siglo.

Brandling, *s.* pryf y gwlith, gwlithbryf, pryfyn y gwlith.

Brand-new, *a.* newydd tanlliw, newydd tanlli, newydd danlliw, newydd grai; tanllachar.

Brandrette, **Brandrith**, } *s.* (o'r Ff. *brandir?*) perging, achwre=canllaw neu gledr o amgylch geneu ffynnon.

Brandy, *s.* (o *brande-wine*, neu *burnt-wine*; Al. *branntwein*=burnt-wine; Is. *branden*) llosgwin, llosgwin, poethwin, dystyllwin, brandi.

Brandy-wine=*Brandy*.

Brangle, *s.* (o *wrangle?* C. *bragaldian?* Gael. *brangach?*) cecr, cecraeth, ymgiprys, harl, harlach, ymryson, ymrafael, cynhen, ceintach, ymeiriad, ymdaeniad, cynheniad, ymgecriad.

Brangle, *v. n.* cecru, ymgecru, ymgiprysu, ymdafodi, tafodi, harlu, ymryson, ymrafaelio, ymgynhenu, ymgeintach, ymdaeru, cynhenu, ymsenu, ymserthu, ymremial, ymddanneddu.

Branglement, *s.* (o *brangle*) cecraeth, ymgecraeth, ymgiprys, harlach, ymryson, ymdafodiad, &c.

Brangler, *s.* (o *brangle*) ymgecrwr, cecrydd, ymdafodwr, &c.

Brangling, *s.* (o *brangle*)=*Brangle*.

Brank, *s.* (*brance*, yn iaith y Galiaid gynt: 'quod illic *brance* vocant:' *Plinius*, xviii. 7.) gwenith yr hydd, gwenith y bwch.

Brankursine, *s.* (*brank*, a Ll. *ursus*, arth) llawdr yr arth, elldrain.

Branlin, *s.* bysgog, bysogyn: *pl.* bysogiaid=math o eog neu faran.

Branny, *a.* (o *bran*) brânog, eisinog, rhuddionog, rhuchionog; branllyd, eisinllyd, rhuchionllyd, rhuddionllyd, brânaidd, eisinaidd, rhuchionaidd, rhuddionaidd.

Bransle, † *s.* (Ff. *branle*) dawns, corelw, ciprysddawns.

Brant, **Brent**, } *s.* (*brant* = burnt?) yr ŵydd wen-dorch, brent-ŵydd, gŵydd wyllt.

Brant, **Brent**, } *a.* (C. *bryn*) uchel, ban, bant; serth.

Brasen, **Brazen**, } *a.* (o *brass*)= { *Brasen.* / *Brasen.*

Brash, *a.* (Gw. a Gael. *bras*; C. *brys*, *brysiog*, *pres*) nawswyllt, poethnaws; byrbwyll, ehud, ffrom, rhull; tanbaid, angerddol, rhuthrwyllt; brau; pres.

Brasier, **Brazier**, } *s.* (o *brass*; Ff. *brasser*) presof, gof pres, efyddof, gof efydd, presweithydd; ysgutell, hawg glo, crwth glo.

Brasil, *s.*=*Brazil*.

Brass, *s.* (S. *bræs*; C. *pres*; Gw. *pras*) pres; elydr, elydn, efydd; haerllugrwydd.

Brass pan—padell efydd, efydden, padell bres.

Brass kettle—callor pres, calloran pres.

Brass cauldron—pair pres, callor pres.

Brass pot—efyddyn, crochan pres.

Greaves of brass—botasau pres; coesarnau o bres.

Brass-work — preswaith, efyddwaith, gwaith pres, gwaith efydd.

To cover with brass—presu, efyddu; gorchuddio â phres *neu* efydd.

Sounding like brass—efyddlais, preslais; fel efydd yn seinio.

Brass-paved—presgaled; mòr galed a phres.

Brass-visaged — preswynebog; â gwyneb pres; presweb; haerllug, talgryf, digywilydd.

Brass-colour—presliw, lliw pres, lliw efydd.

Fine brass—pres coeth.

Brasses—preslechau, presluniau, presgofluniau, presgoflechau, coflechau pres, coflunian pres.

Brassage, *s.* (o *brass*) bathged, bathdoll, presdoll.

Brassarts, *s. pl.* (Ff. *brassard*) breicharnau, breichwisg, breichwisgoedd.

Brasse, *s.* (Al. *brassen*) brasbysg, graenbysg mânog.

Brasset, *s.* (o *brass*) penial, penffestin, helm, penor.

Brassica, *s.* (Ll.) bresych.

Brassiness, *s.* (o *brassy*) presogrwydd, preseiddrwydd, presinrwydd; haerllugrwydd, talgryfder.

Brassy, *a.* (o *brass*) presaidd, presin, presog, efyddaidd, efyddog, efyddin; haerllug, talgryf, digywilydd, afnaws.

Brast, † *a.* (S. *byrstan*; Is. *barsten*) ymddryllieddig, toredig, holltedig.

Brat, *s.* (C.; Al. *brut*) brat, bretyn, gwrengyn; plentyn, hil, hiliogaeth.

Bravado, *s.* (Ysp. ac It. *bravata*; Ff. *bravade*) bost, ffrost, ymffrost, bocsach, brol, gwagymffrost, gwagfwgwl.

Brave, *a.* (Ff.; Ysp., Port., ac It. *bravo*; Al. *brav*) dewr, glew, calonog, gwych, (*f.* gwech),

drud, eon, eofn, mawrfrydig, gwychr, dewrwych, hy, hyf, hyderus; gwronaidd, *gwrooel*; mawreddog, uchelwych, mawrwych, mawryddig, ardderchog, godidog, rhagorol; taclus, harddwych, hoew, telediw, hoew-wych, destlus; galawnt.

Extremely brave—trylew, tryddewr, gorwych, gorhoew; tra dewr, &c.

As brave a man as ever lived—cyn ddewred gwr ag a aned erioed; càn wyched dyn ag a anwyd erioed i'r byd.

This is a brave palace—llys gwych yw hwn; palas mawrwych *neu* ardderchog yw hwn.

Iron is a brave commodity—nwydd gwych *neu* odidog yw haiarn.

A brave scholar—ysgoläig rhagorol; ysgolor gwych; dyn tra dysgedig.

Here is an exceedingly brave fire—dyma dân da dros ben.

A brave musician—cerddor cyfarwydd; perorydd gwych; un celfydd i dynu ar dannau.

A brave young soldier—milwr ieuanc esgudlym; dewr filwr ieuanc; milwr ieuanc calonog.

Brave, *s.* dewrwas, bygylwr, rhodreswr, heriwr, heron; bost, ymffrost, her, hew, baidd, beiddiad.

Brave, *v. a.* herio, arfeiddio, beiddio; rhoi her, rhoi hew; llyfasu, bygylu; gofyn gwaethaf; ymwroli *neu* ymsythu yn erbyn; gwynebu; gwynebu yn ddigryn *neu* ddigryd; dewr-wynebu; gwychfostio.

Seeing he braves me to it—gàn ei fod yn fy annog i hyny.

To brave the tempest—herio *neu* feiddio y dymhestl; rhoi hew i'r ystorm; gwynebu y dymhestl yn ddigryn; gwynebu y dymhestl; gofyn gwaethaf y rhyferthwy.

Bravery, *s.* (o *brave*) dewredd, dewrder, glewder, gwroldeb, dewrdra, gwrolder, glewdid, gwychder, mawrfrydigrwydd, calondid, arwredd, glewineb, gwronedd, gwroniaeth, gwrioiaeth, heroniaeth; gorwychder, mawrwychedd, godidogrwydd, rhagoriaeth, harddwychder; taclusrwydd, harddwch; harddwisgoedd, dillad gwychion, pethau teg, addurnau; golwg, ymddangosiad; gwag ymddangosiad; rhodres, ymffrost, bost, ffrost.

Women 's bravery—addurnau *neu* ddillynion gwragedd; harddwisgoedd menywod; dillad gwychion benywod; addurndrec merched a gwragedd; gwychderau dyneaau.

Bravo, *s.* (It. ac Ysp.) lloglofrudd, llogleiddiad, harlofrudd, carnlofrudd, glewddyhiryn; ysbeilydd; crogyn o ddyn, crogddyn.

Bravo, *ia.* purion! puriawn! rhagorol! gwych iawn! da iawn! o'r goreu!

Bravoura, } *s.* (It. ac Ysp. *bravura*) glewddy-
Bravura, } gan; glewgan.

Bravura, *a.* (It.) ysbrydlawn, arialus, claerwych; anhawdd, afrwydd.

Brawl, *v.* (Al. *brüllen*; Is. *brullen*; Ff. *brailler*) cecru, ymgecru, ymgiprys, ymdaeru, ymdafodi, ymddanneddu, ymeirio, ymrafaelio, ymrafael, ymryson, ymddeintio, ymserthu, ymrega, clewtian, cwerylu; rhuo, swnio, cadw swn; cilgwthio, burthio; gyru *neu* garo ymaith.

A brawling woman—gwraig anynad; hellgre, ysgolpen, ymgecren.

Brawl, *s.* cecr, cecraeth, ymgecraeth, cynhen, ymryson, ymrafael, ffrwgwd, ciprys, ymgiprys, ymsen, ymdafodiad, ymdaeriad; twrdd, dadwrdd, terfysg, rhu, swn, cythrwfl;† math o ddawns.

Brawler, *s.* (o *brawl*) cecrwr, cecryn, cynhenwr, dwndrwr, tyrddwr, ymdaerydd, &c.

Brawling, *s.* (o *brawl*) cecraeth, ymgecraeth, cynhen, amryson, &c.

Brawn, *s.* (C. *brawn*; Ll. *aprugna*) baeddgig, cig baedd; baedd; cyhyrgig; cyhyrog; y cyhyrog, cig llywethog, brawn; y fraich; grym, nerth, cryfder.

Brawn of the arm—tewder y fraich, brawn y fraich; cyhyrog, cyhyrgig, *neu* gyhyr y fraich.

Brawned, *a.* (o *brawn*) cyhyrog; braisg; cryf, grymus, cadarn.

Brawner, *s.* (o *brawn*) baedd wedi ei ladd at ymborth; baedd at wasanaeth y bwrdd.

Brawniness, *s.* (o *brawny*) cyhyrogrwydd, cyhyrwch, cyhyredd, llywethogrwydd; cryfder, grym, nerth, grymusrwydd, caledrwydd; breisgedd.

Brawny, *a.* (o *brawn*) cyhyrog, gewynog, llywethog, brawnog; cigog, cnodig, cnawdog; braisg, ffurf, praff; cryf, grymus, nerthog; caled.

Braxy, *s.* (S. *breac*) gwaedlif defaid, dafadre.

Bray, *v.* (S. *bracan*; Ff. *broyer*) briwo, briwio, pwyo, malurio, malu, cymhwyo, breuanu, cymriwo; malu yn fân; briwo yn fân; talchu.

Bray, *v. n.* (Ff. *braire*) brefu, rhuo, drygnadu, brëu; brefu *neu* weryru fel asyn; brefweryru; ysgarmain.

Doth the wild ass bray when he hath grass?—a rua asyn gwyllt uwch ben glaswellt?

Among the bushes they brayed—rhuent yn mhlith y perthi.

Bray, *s.* bref, rhu, *neu* lais asyn.

Bray, *s.* (C. *bre*) esgyndir, twyn; bre; caer, amddiffynfa, breglawdd; llechwedd, llethr.

Brayer, *s.* (o *bray*) brefwr, brefor, brefydd, rhuwr, drygnadwr; brefydd fel asyn; pwyan, pwyordd.

Braying, *s.* (o *bray*) brefiad, rhuad; rhuad *neu* frefiad asyn; banllef, bloedd, garm.

Brayle, *s.*=*Brail*.

Braze, *v. a.* (Ff. *braser*) efyddu, presu; sawdrio *neu* sawdurio â phres; asio *neu* gydio â phres; haerllugo, ymgaledu.

Brazed, *a.* (o *brace*) ymgraffedig, amglymol.

Brazen, } *a.* (o *brass*) pres, presaidd, efyddaidd,
Brasen, } o bres, o'r pres; talgryf, haerllug, digywilydd, wynebsyth.

Brasen vessels—llestri pres.

Brazen shield — tarian bres, tarian o bres.

Brazen age, } oes bres, yr oes bres, pres-
Age of brass, } fyd=mewn chwedloniaeth, yr oes nesaf ar ol yr oes arian.

Brazen sea—môr pres.

Brazen pan—padell bres, padell efydd, efydden.

Brazen-footed — presdroed, troed efydd, efyddbed, efydd-droed.

Brazen-nose—presryn, presdrwyn, trwyn pres.

Brasen-nose College, } Coleg Presryn, Col-
Brasenose College, } eg Presdrwyn, Col-
eg y Presryn.

Brasen face—gwyneb pres, presweb, talcen pres; haerllugwr, preswepwr, preswebydd; un digywilydd *neu* haerllug; un â phres ar ei dalcen.

Brasen-faced—haerllug, digywilydd, talgryf, gwynebsyth, gwynebgaled; presdalog, preswynebog; â gwyneb pres iddo.

To put on a brasen face—gwisgo haerllugrwydd; ymwisgo â digywilydd-dra; mynedyn ddigywilydd; taflu cywilydd *neu* orchwyledd i'w ol; sathru cywilyddgarwch dàn draed; gwisgo talgryfder.

With a brasen face—âg wyneb digywilydd; â gwyneb haerllug.

Brasen-browed — presaelog; talgryf, digywilydd; haerllug ddigywilydd; â haerllugrwydd ar ei ael.

The brasen din of the trumpet—pres ddyar yr udgorn; sain bres yr udgorn.

Brasen-coated — presgaen, presgaenog, presgobawg, preslurigog, preswisgedig.

The brasen-coated Greeks—y Groegiaid presgobawg, y Groegiaid presarfog, y Groegwyr preslurig, y Groegiaid presgaenog; y Grywiaid preslurigog.

Brazen, *v. n.* haerllugo; haeru *neu* daeru yn haerllug *neu* ddigywilydd; bygylu; bod yn dalgryf, haerllug, *neu* ddigywilydd.

Brazenness, *s.* (o *brazen*) presogrwydd, preseiddrwydd; haerllugrwydd, talgryfder, digywilydd-dra.

Brazier, } *s.* = { *Brasier.*
Brasier, } { *Brazier.*

Brazil, } *s.* (o *Brazil*, gwlad yn America
Brazil-wood, } Ddeheuol) brasil, brasilwydd,
Brasil, } coed brasil=math o bren tramor â'r hwn y lliwir yn goch.

Brazil nut—cneuen brasil, cneuen Brasil.

Braziletto, *s.* (o *brazil*) gofrasil, brasil, brasiletto.

Brazing, *s.* (o *braze*) sawdriad, sawduriad, efyddiad, delasiad.

Breach, *s.* (Ff. *brèche*; Al. *bruch*) adwy, breg, toriad, tor, rhwyg, rhwygiad, bwlch, agen, bradwy, gwahaniad, drylliad, twn, gorthoriant, ffosp, briw, adfail; anghydfod, anghytundeb, cweryl, anysgymmod.

Breach of promise—tor addewid, toriad addewid, toriad gair.

Breach of friendship—tor cyfeillach; toriad *neu* ddattodiad cyfeillach.

Breach of the peace—toriad yr heddwch, toriad heddwch, tor heddwch.

To make a breach between men—peri anghydfod, ymrafael, ymryson, cynhen, anghytundeb, *neu* anysgymmod rhwng dynion; tori yr heddwch rhwng dynion; hau amryson rhwng dynion.

To make a breach in a wall—gwneuthur adwy, rhwyg, rhwygiad, breg, *neu* fwlch mewn mur; peri adfeilio; dryllio, gwahanu, adwyo, bregu, adfeilio.

To enter the breach—rhuthro i mewn i adwy *neu* rwyg.

To make a breach upon kingly power—tori ar allu breninol; gwneyd ymgyrch ar freninol allu.

Breach of trust—tor ymddiried, toriad ymddiried, tor hyder.

He stood in the breach — safodd ar yr adwy.

It shall be called the plain of breaches—maes y gwahaniadau y gelwir ef.

Breach, *v.* adwyo, bylchu, tori, bregu; gwneyd adwy, rhwyg, *neu* fwlch.

Bread, *s.* (S. *breod*; Al. a Sw. *brod*; Is. *brood*; D. *bröd*) bara.

Wheaten bread—bara gwenith, bara càn, bara peillied.

Barley bread—bara haidd, bara barlys.

Oaten bread, } bara ceirch, bara cerch.
Oat bread, }

Rye bread—bara rhyg.

Brown bread—bara canryg, bara coch, bara eilflawd, bara trwyddo, bara amyd.

White bread—bara càn, bara gwenith, bara peillied, bara gwŷn, bara man-gan, bara man-gant.

White bread of fine flour—bara gwŷn manbaill.

Household bread—bara tylwyth, bara gwenith trwyddo, bara amyd, bara eilflawd, bara plano, bara greidell.

Cocket bread—bara manbaill.

Manchet bread—bara coesed, bara mïod.

Biscuit bread — bara deugras, bara llongau, creadais.

Leavened bread—bara surdoes, bara eples, bara llefeinllyd.

Meslin bread—bara brithyd, bara amyd.

Unleavened bread—bara croew, bara cri, bara crai, bara teneu, bara dihepleo.

Unfermented bread—bara llechwen.

Ammunition bread—bara gwersyll.

Cake bread — bara teisod, bara teision, bara teisen, bara calan, bara mïod, bara melus, calan-fara.

Ship bread—bara llong, bara deugras.

Baked bread—bara pob, bara crasedig.

Broken bread—bara briw, bara twn, briwfara, briwfwyd.

Griddle bread—bara greidell, bara cradell, bara llech, bara planc.

Show bread—bara gosod, bara dangos.

Bread of grace—afrllad, arllad. [mun.

Eucharist bread—bara offeren, bara cy-

Dough bread—bara toealyd, bara anghras, bara digras.

Light bread—bara ysgafn, bara masw, bara gwagsaw, bara chwysigog.

Mouldy bread—bara llwyd, bara mws.

Ginger bread—bara sinsir, bara sinsirog, bara perboeth.

Laver bread—bara llafan, bara llawr, bara yslafan.

Bee bread—bara gwenyn, blodeubaill.

Sow bread—egel, bara yr hwch, llysiau y ddidol, moch-wraidd.

Swine bread—ffwng y moch, clôr y moch, bara y moch.

St. John's bread—bara Sant Ioan, y pren Carob.

Sweet bread—cefndedyn.

Sugar bread—bara sugr, bara sugrog.

Bread and butter—bara ac ymenyn; brechdan.

A slice of bread—tafell o fara.

A slice of bread and butter—brechdan, brechdaen; tafell *neu* glem o fara ac ymenyn; tafell o frechdan.

The soft part of bread—mwydion bara.

Daily bread—bara beunyddiol, bara peunyddiol.
Bread corn—yd bara, amyd.
Bread stuff—defnydd bara, yd bara; bara, yd, blawd, *neu* beillied.
Bread chipper—pobwas, gwas pobydd; isdrulliad.
Bread tree, } barawydden, y pren
Bread-fruit tree, } bara: *pl.* barawydd= pren à dyf yn ynysoedd y Mor Tawel.
Bread-room—cell bara, cell y bara.
To know on which side one's bread is buttered—gwybod ar ba wyneb i'r bara y mae yr ymenyn.

Bread,† *v. a.* (S. *brædan*) taenu.

Breaden, *a.* (o *bread*) o fara; à wnaed o fara.

Breadless, *a.* (*bread* a *less*) difara, heb fara.

Breadth, *s.* (S. *brǽd*) lled, llydander, lledander; eangder, helaethrwydd, helaethder.
Hand-breadth—dyrnfedd, lled llaw, moeldyrnfedd, dyrnfedd foel=4 modfedd.
Hair breadth—trwch blewyn, lled blewyn, trwch y blewyn.
Every one of them could sling stones at a hair breadth—pob un o honynt a ergydiai â chareg at y blewyn.
Of equal breadth—cyfled.
Of one breadth—gogyfled, unlled.
Palm breadth—lled palf.
Main breadth—lled mwyaf.

Breadthless, *a.* (*breadth* a *less*) diled, heb led.

Break, *v.* (S. *brǽcan, brecan;* Is. *braaken, brækes*) tori; dryllio, bregu, briwo, darnio, gwthori; dofi, hyweddu; agenu, hollti; ymholltì, ymdori, ymddryllio.
To break in—hyweddu, dofi, tori i mewn.
To break with age—tori gàn henaint *neu* oedran; tori gàn oed; methu gàn oedran *neu* henaint; amdrymu gàn henaint; colli ei fiodau, ei wawr, *neu* ei degwch; gwanhau, gwanychu, edwi, dihoeni.
To break asunder—gwahanu, dadgyssylltu, ysgaru, esgaru; tori yn ddrylliau; rhwygo, darnio; gwasgaru.
To break down—tori i lawr; tynu, bwrw, *neu* gymmynu i lawr; dystrywio, dinystrio, dryllio, rhwygo; dadymchwelyd, dadymchwel, dattod.
He will break down their altars—efe a dyr i lawr eu hallorau.
Then let him break down the house—yna tyned y ty i lawr.
There is a time to break down—y mae amser i fwrw i lawr.
That which I have built will I break down—myfi a ddystrywiaf yr hyn a adeiledais.
I will break down this tower—mi a ddystrywiaf y tŵr yma.
You shall break down their altars—drylliwch *neu* dinystriwch eu hallorau hwynt.
Thou shalt quite break down their images—dryllia eu delwau hwynt yn gandryll.
He hath broken down the middle wall of partition—efe a ddattododd ganolfur y gwahaniaeth.
They break down the carved work thereof—y maent yn dryllio ei cherfiadau hi; drylliant ei cherfwaith hi.
To break down a fence—dadgau; tori y cae i lawr; gwasgaru cae; dryllio cae; tynu clawdd i lawr.
Whoso breaketh a hedge—y neb a wasgaro gae.
To break down the walls of a city—difurio caer; difurio dinas.
To break forth—tori allan; tarddu allan; pistyllo, tarddu, tarddellu, boglynu, goferu.
Waters shall break forth in the wilderness—dyfroedd a dorant allan yn yr anialwch.
Then shall thy light break forth as the morning—yna y tyr dy oleuni allan fel y wawr.
To break forth into laughter—crechwenu; tori allan yn grechwen; chwerthin yn grechwen; tori allan i chwerthin.
To break forth into joy—tori allan o lawenydd; bloeddiaw o lawenydd.
To break forth into singing—canu o lawenydd; bloeddio canu; tori allan i ganu.
To break away—tori ymaith; dattod, dadrwymo; rhyddhau oddi wrth; gwasgaru, chwalu, dadgaddugo, hinoni, cynnyllu; myned *neu* fod yn hinon.
To break from—tori ymaith; tori oddi wrth; ymryddhau oddi wrth; tori yn swta.
To break in—tori i mewn; rhuthro i mewn; gwthio i mewn; ymwthio i fewn; tori am ben; tori ar draws; tori i; gwneuthur adwy.
No breaking in, nor going out—na rhuthro i mewn, na myned allan.
He will break into the house—efe a dyr i'r ty.
The plague broke in upon them—tarawodd pla yn eu mysg.
To break in upon a man's property—anrheithio *neu* dreisio un o'i eiddo; treisfeddiannu, treisgipio, *neu* gamoresgyn eiddo arall; tori am ben eiddo dyn arall.
To break loose—tori yn rhydd; myned yn rhydd; ymryddhau; dianc; tori allan; tynu pen yn rhydd; dianc *neu* ymryddhau o fagl; ymddirwydo, ymddirwyllo, ymddirwystro.
To break off—tori ymaith; rhwygo ymaith; peidio â; dibarhau; tori ar; lluddio, gwahanu; tynu oddi wrth *neu* ymaith.
Break off thy sins—tor ymaith dy bechodau.
Break his yoke from off thy neck—tor ei iau oddi am dy wddf.
My purposes are broken off—tynwyd ymaith fy amcanion; fy amcanion a dynwyd ymaith; diddymwyd fy amcanion.
Break off the golden ear-rings—tynwch y clustdlysau aur.
He broke off all commerce with her for the future—nid ymgystlynodd efe â hi mwyach; torodd ymaith bob ymgyfathrach â hi mwyach.
He broke off very abruptly—diweddodd *neu* darfu yn ddirybudd iawn; torodd ymaith yn fyr *neu* swta iawn; efe a ddybenodd yn sydyn iawn.
To break off for a time—peidio dros amser; peidio dros ennyd, encyd, *neu* dro; peidiaw orig, ennyd, encyd, *neu* ysbaid; gadael heibio dros ennyd *neu* ysbaid; gorphwyso yn y canol; llaesu dros ysbaid *neu* ennyd; dysbeidio.

To break out—tori allan; rhuthro, neidio, dïanc, dyfod, *neu* saethu allan; tarddu allan, blaendarddu, tyfu allan; myned yn rhugl, myned ar led; tyfu, codi, cyfodi; ennyn, cynneu; ymdori allan; tori i maes; llifo *neu* fyned trosodd; myned yn rhyferthwy.

A fire broke out in his house—torodd tân allan yn ei dy ef.

The plague broke out among them—torodd y pla allan yn eu mysg.

The man broke out—neidiodd *neu* rhuthrodd y dyn allan, &c.

If the leprosy break out in the skin—os y gwahanglwyf a dardda yn y croen.

A war broke out among them—cyfododd rhyfel yn eu plith; torodd rhyfel allan yn eu plith.

To break out into pimples—crugdarddu, llynori; tarddu allan o blorynod.

To break out (as a rash)—llyfritho, tarddu, tarddain, tori allan, brido, llygu, ffleisio.

To break out into singing—canu o lawenydd; canu gàn lawenydd; tori allan i ganu; bloeddio canu.

To break out into a passion—ennynu gàn lid; ennyn o lid; poethi gàn ddigofaint; tanio, ymdanio; rhoi y ffrwyn i'r drwg nwydau; tori allan mewn nwydau; brochi.

To break out into tears—tori allan i wylo; wylo yn hidl; wylo yn hidlaidd.

To break to pieces—chwilfriwo, briwioni, briwsioni; briwo, briwio, malurio; tori yn dipiau; tori yn deilchion; tori yn dipiau mân.

To break up—ymadael, ymadaw, ymado; myned ymaith; tori i fyny; dattod, gwahanu, ymwasgaru, ymwahanu; diweddu, terfynu; parthu, ysgaru; symmud gwersyll; dadfyddino; cleirio, hinoni; agoryd, egori.

It is high time to break up—madws yw ymadaw; y mae yn bryd ymadael; y mae yn llawn bryd tori i fyny.

To break up ground—braenaru tir; tori tir; arddu tir.

Break up your fallow ground—braenarwch i chwi fraenar.

To break up house-keeping—rhoi heibio gadw ty; rhoi i fyny gadw ty.

To break up an army—difyddino, dadfyddino, dattod byddin, diswyddo byddin.

To break up company—tori cyfeillach i fyny; ymadael o gymdeithion; ymwahanu o ymgyfarfod; gwahanu cymdeithas.

To break up a bed of earth—agor gwely yn y ddaiar.

To break up school—tori yr ysgol.

All the fountains of the great deep were broken up—rhwygwyd holl ffynnonau y dyfnder mawr.

To break up trade—rhoi crefft i fyny; rhoi crefft, celfyddyd, *neu* alwad heibio; ymadael â masnach; codi crefft i'r glwyd.

To break open—tori yn agored; tori yn egored; tori trwy drais; rhwygo; gwthio yn agored; agor o drais; treisagor.

To break open a letter—dadselio llythyr; dattod, agor, *neu* dori sel llythyr; tori yr hyn â seliwyd; tori sel.

To break open the bars—dryllio y barau.

To break through — tori trwy; tori *neu* gloddio trwodd; trydori, cythrychu.

The thieves broke through—cloddiodd y lladron trwodd.

Hunger will break through stone walls—newyn a dyr *neu* a dylla trwy y gareg.

To break through difficulties—tori drwy anhawsderau; gorchfygu anhawsderau.

To break through old customs—tori trwy hen ddefodau; diddymu, dibrisio, dïystyru, *neu* esgeuluso hen ddefodau.

He took with him seven hundred men to break through into the king—cymmerodd saith cant o wŷr gydag ef i ruthro ar y brenin.

Let not the people break through into the Lord—na ruthred y bobl at yr Arglwydd.

To break with—tori â; tori i fyny â; dybenu âg; peidio â bod yn gyfeillion; tori cyfeillach; cwympo allan; darfod *neu* ymddarfod âg; ymrafaelio, ymryson, *neu* anghytuno â.

I broke the friendship between them—mi a dorais y gyfeillach rhyngddynt.

To break the back—tori y cefn; tori asgwrn y cefn.

To break bulk—dechreu dadlwytho, dilwytho.

To break a deer—tori carw, bwyttori hydd.

To break fast—boreubrydio, borebrydio, bregwesta, bwyta boreufwyd, tori ympryd.

To break ground — arddu, aru, aredig; troi *neu* dori tir; cloddio, rhigoli, cleisio, agor ffosydd.

To break a jest—cellwair, cydgam, cymmwedd; dywedyd digrifair; gollwng allan air o gellwair; dywedyd gair o gellwair *neu* arabedd.

To break the heart—tori calon.

To break the neck — tori gwddf, tori gwddwg, torfynyglu.

Thou shalt break his neck — torfynygla ef; tora ei wddf ef; tor ei wddwg; tor ei fwnwgl ef.

To break the neck of an ill custom—torfynyglu arfer ddrwg; ymwrthod *neu* lwyr ymwrthod â drwg arfer.

To break a horse—tori, dofi, *neu* hyweddu ceffyl *neu* farch; hyweddu, gwarhau, *neu* ddarostwng march *neu* geffyl; tori ceffyl at waith.

To break, } gwawrio, dyddhau, dyddio;
To dawn, } cyfodi *neu* dori o'r wawr; cyfodi *neu* dori o'r dydd; goleuo, tywynu, cleisio; myned yn ddydd; rhaciaw o'r wawr *neu* y dydd; goleuannu.

Until the day break—hyd oni wawrio y dydd.

The day breaks—y mae y dydd yn tori; mae y wawr yn tori, yn codi, *neu* yn rhacio; y mae y dydd yn cleisio.

Let me go, for the day breaketh—gollwng fi ymaith, o blegid y wawr a gyfododd.

As the day was breaking—a hi yn dyddhau; a hi yn goleuo; gyda thoriad y dydd; gyda rhaciad y wawr; gyda'r dydd; gyda'r wawr; gyda thoriad y wawr.

My soul breaketh for longing to thy judg-

ments—drylliwyd fy enaid gàn awydd i'th farnedigaethau.

To break the ice—tori yr ia; agor y ffordd; rhagiwybro; hyrwyddo, rhwyddhau, parotòi, *neu* balmantu y ffordd; agor pen y ffordd; agor y llwybr; dechreu.

To break an officer—diswyddo un; tori un allan o'i swydd; diraddio swyddog; talu neu dori swyddog ymaith.

To break a law—tori cyfraith, troseddu cyfraith, halogi cyfraith.

Break thy league with the king—tor, tora, neu diddyma dy gyfammod â'r brenin.

I will not break my covenant with them—ni thoraf *neu* ni ddiddymaf fy nghyfammod â hwynt.

Let him not break his word—na thored ei air; na haloged ei air.

To break one's mind—dangos, dadguddio, neu ddadgan ei feddwl; dweyd ei feddwl; treithu ei feddwl; mynegu ei ofeg; tori at.

I broke my mind to him—dangosais fy meddwl iddo; torais ato.

To break sleep—tori cwsg; tori ar gwsg; peri anhunedd; peri i gwsg gilio; tori ar esmwythder; rhwystro cysgu.

To break the sides with laughing—hollti gàn chwerthin; ymhollti gàn chwerthin.

To break with sorrow—tori gan ofid; henciddio gàn ofid; gwywo, dihoeni, edwino, edwi, *neu* grino gàn ofid.

To break on the wheel—tori ar yr olwyn; dirdynu ar yr olwyn; troelldynu; tori ar y rhod.

To break, } tori; methdalu;
To make bankrupt, } gwneuthur yn dorged *neu* fethdalwr.

To break one of ill habits—peri *neu* wneuthur i un ymadael âg arferion drwg; tori un oddi wrth ei ddrwg arferion; gwneyd i un ymddiwygio oddi wrth ei ddrwg arferion; diddyfnu un oddi wrth ei arferion drwg.

He was broken of his wicked tricks—gwnaethpwyd iddo adael ei branciau drwg.

To break wind—bramu, bremian.

To break one's wind—tori ei wynt; gwynthollti; ymsafnrythu.

To break the spirits—tori yr ysbrydoedd; soddi *neu* suddo yr ysbrydoedd; llesghau yr ysbrydoedd.

My heart is ready to break—y mae fy nghalon ar dori.

I will break this custom of yours—diddymaf y ddefod hon o'r eiddoch.

He will break the bones—efe a dyr *neu* a ddryllia yr esgyrn.

It will not break thy bones—ni thyr mo'th ben.

He breaks his brains with studying—y mae efe yn pwnio ei ymenydd wrth fyfyrio *neu* astudio.

To break, } tori; methdalu;
To become bankrupt, } torgedu; methu mewn masnach; myned yn ol llaw yn y byd.

To break the surface—briwdòni; tori y dònen *neu* y gwyneb.

To break a design—tori amcan; rhwystro, somi, diddymu, *neu* seithugio amcan *neu* fwriad.

To break rank—tori rhenc *neu* res; annhrefnu rhenc *neu* reng; gwŷro *neu* droi oddi ar y llwybr.

To break one—tori un; difa, llwyr-anrheithio, dinystrio, difrodi, *neu* anafu un.

To break silence—tori ar daw; tori taw; tori ar y dystawrwydd; tori ar osteg; tori gosteg; dechreu siarad; dywedyd y gair cyntaf; dechreu cynanu *neu* lefaru.

To break small—tori yn fân; malurio, briwio, chwilfriwio, manddarnio, talchu.

To break the dispute—tori y ddadl; tori yr amrafael *neu* ymrafael; dosbarthu cynhen.

Break, *s.* toriad, tor, breg, twn, bwlch, agoriad, agen, hollt, ageniad; saib, cyfrwng, gorphwysfa, gorphwys; rhwystr; gwagle; cil, cilfa.

Break of day, } toriad y dydd, gwawriad y
Day-break, } dydd, glasiad y dydd; clais y dydd, llug y dydd; y wawr, y wawrddydd, pylgain, plygain, cyfddydd, glaswawr, boreddydd, boreuddydd, glasddydd; toriad y wawr; y goleu cyntaf.

A little before day-break—ar y pylgain, &c.; ychydig cyn toriad y dydd.

Break in a furrow—balc, malc, bryncyn.

Breakage, *s.* (o *break*) toriad; tordal, tordaliad, torgoll.

Breaker, *s.* (o *break*) torwr, torydd; drylliwr, drylliedydd; troseddwr; dinystrydd, rhwygwr, rhwygydd; beisdon; torglawdd, morfur, gwrthglawdd; torgraig.

Breakers—beisdonau, mordònau, tonieri, morgesyg, ewyngaint.

Breaker of the law—torwr *neu* droseddwr y gyfraith.

Breaker of the Sabbath—torwr, halogwr, *neu* anmharchwr y Sabbath.

Breaker down of walls—difuriwr, adfeiliwr; torwr *neu* ddinystrydd caerau; bwriwr caerau i lawr.

Breaker of horses, } torwr ceffylau; dofwr,
Horse-breaker, } dofydd, *neu* dorwr meirch; gwarhâwr ceffylau.

Breaker up of ground—arddwr, braenarydd, braenarwr, amaeth, amaeth aradr.

Heart-breakers—serchgudynau, serchlofnau, cudynau cariad, cudynau tor calon.

Breakfast, *s.* (*break* a *fast*) boreufwyd, borefwyd, boreubryd, borebryd, bregwest, cynbryd, torympryd.

Breakfast, *v.* boreubrydio, borebrydio, bregwesta, bregwestu, torymprydio, cymmeryd borefwyd.

Breakfasting, *s.* (o *breakfast*) bregwestwyr, bregwestiaid.

Breaking, *s.* (o *break*) toriad, &c.; toriad *neu* ruthrad i mewn; torgedaeth, methdaliad; dofiad, hyweddiad.

Breaking in—toriad i mewn; rhuthrad *neu* ymwthiad i fewn; cyrch, ymgyrch, rhuthrad.

As a wide breaking of waters—megys dwfr trwy adwy lydan.

Breaking-joint—torgymmal.

The place of the breaking forth of children—yr esgoreddfa; esgoreddfa y plant (*Hos.* xiii. 13).

Heart-breaking—torgalonus.
A breaking off—toriad ymaith; tor, toriad.
A breaking in the middle—canoldrychiad, canoldoriad, toriad yn y canol.
A breaking off for a time—dysbaid, dysbeidiad, dysbeidiant, seibiant, hamdden, gorphwys; cymmeriad anadl; toliad.
A breaking out in the head—pendandde, tarddiant pen, pengrachedd, pengrechni, pendarddiad, pendarddiant.
A breaking out into pimples—crugdarddiad, crugdarddiant.
A breaking out of waters—tarddiad, tarddelliad, pistylliad, boglyniad, *neu* ferwad dyfroedd allan; brychedd; rhaiadr.
Breaking up of ground—braenariad, braenariad tir.
A breaking up of school—toriad ysgol i fyny.
A breaking up *or* away of the weather—hinoniad, hinoniad y tywydd, dadgaddugad y tywydd, cleiriad i fyny.
A short breaking up of the weather—llygedyn, godywyn.
A breaking up of a will—agoriad ewyllys; agoriad llythyr cymmyn.
A breaking up of parliament—dattodiad *neu* ymddattodiad y senedd; dadgyssoddiad y senedd; gollyngiad y senedd ymaith; toriad y senedd i fyny.
A breaking asunder—gwahaniad, ysgariad, dadgyssylltiad, rhwygiad, ysgariaeth.

Breakneck, *s.* (*break* a *neck*) clogwyn, diffwys, dibyn, serthle, serthfa; lle dibyn *neu* serth.

Breakpromise, *s.* (*break* a *promise*) torwr addewid, addaw-dorwr.

Breakvow,† *s.* (*break* a *vow*) torwr adduned, addundorwr.

Breakwater, *s.* (*break* a *water*) torglawdd, barglawdd, gwrthglawdd, noddfur, morfur.

Bream, *s.* (Ff. *breme*; Ysp. *brema*) y merfog, math o bysg.

Bream, *v. a.* llosgi bryntion *neu* ysgarthion gwaelod llong; ysgarthlosgi.

Breast, *s.* (S.; Sw. a D. *bröst*; Al. *brust*; Is. *borst*) bron, dwyfron; afell, monwes, brocen, asgre, calon; cydwybod; †arwest: *pl.* bronau.
The two breasts—y ddwyfron.
The breast of an animal — parwyden anifail, hydgyllen anifel.
A little breast—bronig.
Having breasts—bronog; â bronau iddi.
The nipple of a woman's breast—pen bron, penig bron, diden, titen.
Grief-oppressed breast—tromfron.
Breast-apples—bron-afalau, teth-afalau; aeron ar lun tethau.
Pain in the breast—bronwst; poen yn y ddwyfron.
To give breast to, } rhoi bron i; rhoi
To nurse at the breast, } sugn i; brona, bronhau; magu ar y fron.
Heave of the breast—argwll, argyllaeth, argyllwch; peuad y fron.
It lies in his breast—y mae yn gorwedd yn ei fynwes ef; mae yn gorwedd *neu* yn gorphwys ar ei law ef.
Let every man weigh it in his own breast pwysed pob dyn ef yn ei gydwybod *neu* ei fynwes ei hun.
The law was written in man's breast—ysgrifenwyd y gyfraith yn nghalon dyn.
To keep in one's own breast—cadw yn mynwes un ei hun.
Wisdom grew in my breast—daeth doethineb i'm dwyfron.
They pluck the fatherless from the breast—tynant yr amddifad oddi ar y fron.
To swell out the breast — bronrheinio, bronchwyddo.
The breast of a hill—bron, (*pl.* bronydd); llechwedd *neu* ochr bryn.
Red-breast—bronrhuddyn, bronrhuddog, brongoch, y frongoch, y goch gam.

Breast, *v. a.* gwynebu; cyfarfod yn ngwyneb; gwrthwynebu wyneb yn wyneb; cyfwynebu, cyfarwynebu.
To breast up a hedge—bronysgythru; tori y naill wyneb i wrych.

Breastbone, *s.* (*breast* a *bone*) asgwrn y ddwyfron, cledr y ddwyfron, clwyd y ddwyfron.

Breastcasket, *s.* (*breast* a *casket*) brondennyn.

Breastcloth, *s.* (*breast* a *cloth*) bronllïan.

Breast-deep, *a.* hyd y bronau; cyfuwch a'r ddwyfron.

Breasted, *a.* (o *breast*) bronog, bronlydan, broneang; arwestog, llcisber, hyfrydlais.
Broad-breasted — bronlydan, bronllydan, llydanfron; llydan ei fron.
High-breasted, } bronog, broneang, bron-
Full-breasted, } fawr, bronrain, bronlawn, bronuchel.
Narrow-breasted—brongul; cul ei bron *neu* ei fron; culfron.
Flat-breasted, } bronisel, iselfron; isel ei
Low-breasted, } fron.
White-breasted—bronwyn; *f.* bronwen.
Black-breasted—bronddu.
Red-breasted—brongoch.
Motley-breasted—bronfrith; *f.* bronfraith.
Well-breasted—bronwych.

Breastfast, *s.* (*breast* a *fast*) bronddal; *pl.* bronddalion.

Breast-high, *a.* cyfuwch a'r ddwyfron; hyd y bronau, hyd y ddwyfron.

Breast-hook, *s.* bronfach.

Breasting, *s.* (o *breast*) bronysgythrad; toriad un wyneb i wrych.

Breastknot, *s.* (*breast* a *knot*) bronglwm, brongwlwm.

Breastpin, *s.* (*breast* a *pin*) bronbin, pin bron, crysbin.

Breastplate, *s.* (*breast* a *plate*) dwyfroneg, brondor, broneg, bronfoll.
The breastplate of righteousness—llurig iawnder (*Eph.* xvi. 14).
He put on righteousness as a breastplate—gwisgodd gyfiawnder fel llurig (*Esa.* lix. 17).
Wearing a breastplate—bronfollog, llungog, bronegog; yn gwisgo dwyfroneg.

Breastplate, } **Breast-leather**, } *s.* brongengl, brondengl.

Breastplough, *s.* (*breast* a *plough*) gwtharadr, gwtharad; bronarad.

Breastrail, *s.* *breast* a *rail*) bronrail, bronreilen.

Breastrope, *s.* (*breast* a *rope*) bronraff, bronreffyn.

Breast-summer, *s.*=*Brest-summer*.

Breastwall, *s.* (*breast* a *wall*) bronfur, bronwal.

Breast-wheel, *s.* bronolwyn, bronrod.

Breastwork, *s.* (*breast* a *work*) bronglawdd, bronwaith.

Breath, *s.* (S. *bræth*) anadl, anal, chwyth, ffun, ahan, adyl, ffwn; awel, chwa, mygdarth, mygdarth, mygod-darth, mygottarth; anadliad; chwythad; anadlyn; saib; cythrym.

Breath of life—anadl einioes; ffun anadl einioes (*Gen.* vii. 22).

Shortness of breath—diffyg anadl, byrder anadl, cyfyngder anal; y fogfa; erthwch.

A person affected by shortness of breath—dyn byr ei anadl; un anadlfyr, byranadlog, dyn erthychlyd; un yn chwythu yn fyr; un â dyhead arno.

By the breath of God frost is given—â'i wynt y rhydd Duw rew.

By the breath of his mouth—trwy ysbryd ei eneu ef.

Wisdom is the breath of the power of God—angerdd gallu Duw yw doethineb.

No man regards his breath less than I do—nid oes dyn ar y ddaiar yn gofalu llai am ei einioes *neu* ei fywyd na myfi.

There is not a breath of wind stirring—nid oes awel o wynt yn ysgog *neu* ysgogi; nid oes awelan *neu* awelyn o wynt yn syflyd; nid oes anadl o wynt yn ysgogi.

To spend one's breath to no purpose—llafaru yn ofer, yn ddïeffaith, yn ddiles, *neu* yn seithug; llefaru i ddim dyben.

Stinking breath — dryg-anadl, dryg-anal, anadl ddrewedig, anadl fws; anal ddrewllyd *neu* ddrewlled.

Sweet breath—anadl ber, anadl beraidd, per anal, per anadl.

Having a sweet *or* fragrant breath—anadlber, analber; per ei anadl, chweg ei anal; âg anadl ber iddo *neu* iddi.

While yet there was breath in him—ac efe eto yn fyw; ac efe eto âg anal ynddo.

In a breath, } ar un anadl; ar yr un
All in a breath, } mynyd; ar yr un mynydyn; ar un pryd; ar yr un cythrym; heb orphwys.

To gasp for breath—tynu anadl dân ddyhëu, dân beuo, *neu* dân luddedu; agor y geneu mewn lludded *neu* dân luddedu am anadl; terthain, oriain.

To the last breath—hyd y diwedd; tra bo chwyth; i'r anadl ddiweddaf *neu* olaf; tra parhao bywyd; nes chwythu yr anal olaf maes; i'r anadliad olaf; tra bo anal yn ei ffroenau.

Brisk, *v.* bywiogi, bywiocâu, bywioli, arialu, lloni, sirioli, llawenhau, llawenu; ymloni, ymgaloni, ymlawenu, ymsirioli; brysio, prysuro, gorffullio, chweio, cyflymu; brysio yn mlaen yn orhoenus; brysgo; ymsythu.
To brisk up=*Brisk, v.*
To brisk one's self up—ymloni, ymfywiogi, ymsirioli, ymlawenu.

Bristle, *s.* (S. *bristl*) gwrychyn; rhawnyn mochyn: *pl.* gwrych, rhawn moch.

Bristle, *v.* gwrychu, gwrychio; codi gwrych; codi gwrychyn; codi yn wrych; codi yn ei wrych; codi ar ei wrych; sythu, ymsythu; gosod gwrychyn.
To bristle a shoemaker's thread—gwrychio edaf crydd.
To bristle at one—gwrychio wrth *neu* at un; neshau at un dân godi ei wrych; gosod ar un dân godi ei wrych; dyfod at un â'i wrych yn y gwrthwyneb.
To bristle the crest—gwrychio y gribell.
Bristle-armed—gwrycharfog, gwrycharfedig; arfog o wrych.
Bristle-like—mòr syth a gwrych; gwrychaidd.
Bristle-shaped—gwrychluniaidd, gwrychlun; ar ddull *neu* wedd gwrych; gwrychfal; o hyd a lled gwrychyn.
Bristle-bearing — gwrychddwyn, gwrychfag, gwrychddygol, gwrychog, gwrychiog.

Bristled, *p. a.* (o *bristle*) gwrychedig.

Bristly, *a.* (o *bristle*) gwrychog, gwrychol, gwrychiog; garw, gerwin, graenol; llawn gwrych.

Bristol-flower—blodyn Caerodor=math o luglys, neu flodeuyn rhudd.

Bristol-stone, } *s.* creigrisial, crisfaen Caer-
Bristol-diamond, } odor, Crisial Caerodor = math o faen crisial â geir mewn craig ger Caerodor.

Bristol-water, *s.* dwfr Caerodor, dwr Odor= dwr ffynnonau twym ger dinas Caerodor, o dymmeredd 74°.

Brisure, *s.* (Ff.) osgragfur.

Brit, *s.* torbwt, lleden y môr.

Brite, } *v. n.* (?) goraddfedu; dyfod *neu* fod
Bright, } yn rhy addfed.

Britkse, } *s.* (Al. *britsche*) math o rythglud,
Britchka, } neu gerbyd penagored, â phedrol-
Britzska, } wyn iddo.

Brittle, *a.* (S. *brittan, brytan*) brau, breuol, bregus, hydor, hyfriw, hydwn, bradw, athor; crin.
Brittle-edged—breufin, breulif, minfrau; brau ei fin.
As brittle as glass—cân freued a'r gwydr; fel y gwêr gwŷn.

Brittleness, *s.* (o *brittle*) breuder, breuolder, breuoldeb, breuedd, breuoledd, breuolrwydd, breurwydd, breuawd, breuolaeth; bregusrwydd, hydoredd; crinder, crinedd.

Brize, *s.* (Gr. *brizô*) crydwellt, eigryn; yd Sant Pedr.
Briza media—gwenith yr ysgyfarnog.

Brize, *s.*=*Breese, Breeze.*

Broach, *s.* (Ff. *broche*) bêr, beran; brwyd, gwaell, gwachell, pwyned, nydell; gleinaddurn.

Broach, *v. a.* (Ff. *embrocher;* C. *procio*) beru; gwânu â bêr; gwaellu, gwachellu; dwselu, twselu; agor, tyllu, egori, ebillio, procio; gollwng, gollwng allan; cyhoeddi, taenu, hau; hau *neu* daenu ar led; rhoi ar led.
To broach lies—hau *neu* daenu celwyddau; taenu celwyddau ar led; lledu celwyddau.
To broach an error—hau, taenu, *neu* gyhoeddi cyfeilliornad; taenu *neu* hau camddaliad ar led; bod yn awdur, yn hauwr, *neu* yn ddychymygydd camdyb; dychymygu, cyhoeddi, *neu* haurgau athrawiaeth; cyhoeddi camddysg gyntaf.
To broach to—gogwyddo yn ddisymmwth at y gwynt.

Broacher, *s.* (o *broach*) bêr, beran; dwselydd, dwselwr, tyllwr, agorydd, gollyngwr; taenydd, hauwr, cyhoeddwr; taenwr *neu* gyhoeddwr cyntaf.

Broad, *a.* (S. *brad;* Is. a D. *breed;* Sw. *bred;* Al. *breit*) llydan, lledan; eang, helaeth, ehelaeth, ang, helaethfawr; bras, braisg, rhwth (*f.* rhoth), rhydd; ar led, penagored, lledegored; mawr; hysbys, honaid, amlwg, noeth, dïargel, dïorchudd, dïaddurn; garw; anmhur, budr, annestlus, aflednais, anniwair,

trwsgl, anweddaidd, brwnt; hyf; cynnwysfawr.

As broad—cyfled.

Broad as long—un lled a hyd; yr un hyd a'r un lled; pedrogl, pedrongl, ysgwar.

It is as broad as long—i'r un fân y daw yn y diwedd; i'r un peth y daw yn y diwedd; annilys yw.

Broad day—dydd goleu, goleuddydd.

In broad day light—ar hyd y dydd goleu.

Broad awake—cwbl-effro, cwbl effro, cwbl ddeffro, cwbl ddihun; hollol ar ddihun; hollol effro.

Broad language — serthiaith, budriaith, serthedd, croesanedd, croesanair, croesanaeth, croesaniaith, crasder; ymadrodd anweddaidd, serth *neu* aflan; geiriau anniwair, brwnt, budr, *neu* serthaidd; iaith lydan, llydaniaith.

He would use language perfectly broad—croesanaeth croew soniai; croesaniaith groew seiniai; arferai serthiaith groew.

He is in some places broad and fulsome—y mae efe mewn rhai manau yn serth ac yn ffiaidd.

The measure thereof is broader than the sea—mae ei fesur yn lletach na'r môr.

Thy commandment is exceedingly broad—dy orchymyn di sydd dra eang.

A broad mixture of folly—cymmysgedd helaeth, helaethlawn, dibrin, *neu* ddigyrrith o ynfydrwydd *neu* ffolineb.

Thou shalt make an altar five cubits broad—gwna allor o bum cufydd o led.

He would have removed thee out of the strait into a broad place—efe a'th symmudasai di o eneu cyfyngdra i eangder.

He makes broad signs—rhydd arwyddion eglur.

Let those censers be wrought into broad plates—gweithier y thuserau hyny yn ddalenau llydain.

Broad is the way—llydan yw y ffordd.

They were as broad as they — un lled oeddent a hwynt; yr oeddent càn lleted a hwythau.

To make broad—llydanu, lledu, lledanu; eangu, helaethu; estyn o led; gwneyd yn llydan; rhythu.

They make broad their phylacteries—y maent yn gwneuthur yn llydain eu cadwadogion.

That may be made broad—lledadwy, hyled; à ellir ei ledu *neu* lydanu.

That cannot be made broad—anlledadwy, anhyled; nas gellir ei lydanu; diled.

To speak broad—siarad yn llydan; siarad *neu* lafaru yn serth, yn serthaidd, yn fudr, yn aflednais, yn anniwair, *neu* yn anllad, &c.

Very broad—tra llydan, tra eang; llydan *neu* eang iawn, &c.

The broad end of an oar—palf rhwyf.

A broad laugh—crechwen, chwerthin croch, croch chwerthin, crechwenfloedd.

Broad-ax, } *s.* bwyell lydan, bwyell ledan;
Broad-axe, } bwyell gynnud.

Broad-backed, *a.* cefnlydan; llydan ei gefn.

Broad-bills, *s. pl.* (*broad*, a *bill*, pig) piglydain; *sing.* piglydan=math o adar.

Broad-blown, *a.* llawn chwyth, chwythlawn.

Broad-bottomed, *a.* gwaelod-lydan, llydansail; llydan ei waelod; â gwaelod llydan iddo; âg iddo waelod *neu* wadn llydan; llydan-waelod, engwaelod, bonllydan.

Broad-breasted, *a.* bronlydan; llydan ei fron.

Broad-brimmed, *a.* ymyl-lydan, minlydan; ymyl llydan; âg ymyl llydan iddo.

Broad-cast, *s.* llawdafliad, llawhauad, llawheuad, hauad â llaw.

Broad-cast, *a.* llawheuol, llawdafliadol; à heuwyd â llaw.

Broad-cast, *ad.* trwy *neu* dàn dafiu *neu* hau à llaw.

To sow broad-cast—hau â llaw, hau â'r llaw; llaw dafiu had.

Broad-chested, *a.* bronlydan, llydanfron.

Broad-cloth, *s.* brethyn deuled, brethyn llydan.

Broaden, *v. n.* (o *broad*) ymlydanu, ymledu; myned yn llydan.

Broad-eyed, *a.* tremlydan, llygadlydan, llydandrem, tremfawr, tremeang, eangdrem; golygfawr, llygadfawr.

Broad-faced, *a.* gwyneblydan, wyneblydan, wynebglawr, wynebfawr, gweblydan.

Broad-footed, *a.* troedlydan, pedlydan, llydandroed; llydan ei droed.

Broad-fronted, *a.* tàl-lydan, llydandal, rhaglydan, talcen-lydan.

Broad-fronted Cæsar — Caisar raglydan; Caisar dàl llydan.

Broad-headed, *a.* penlydan, penllydan.

Broad-horned, *a.* cornlydan, llydan-gorn.

Broadish, *a.* (o *broad*) llydanaidd, golydan, lled lydan, lledlydan.

Broad-leafed, } *a.* llydanddail, llydanddeiliog;
Broad-leaved, } â dail llydain iddo *neu* ganddo.

Broad-mouthed, *a.* safnlydan, ceglydan, geneulydan, llydan-eneu.

Broadness, *s.* (o *broad*) lled, llydander, lledander, llydanedd; helaethder, helaethrwydd, eangder, eangrwydd.

To palliate the broadness of his meaning — i guddio serthedd *neu* frynti ei feddwl.

Broadness of pronunciation—llydan-lafariad, llydander cynaniad.

Broad-piece, *s.* llydarn, llydanddryll=bath aur gwerth oddeutu 20*s.*, arferedig yn y deyrnas hon yn amser Iago 1. a Carl 1.

Broad-seal, *s.* y sel lydan, y sel fawr; sel fawr Lloegr.

Broad-set, *a.* ffall.

Broad-set person—ffallach, dyn ffall.

Broad-shouldered, *a.* ysgwyddlydan; llydan ei ysgwyddau; âg ysgwyddau llydain iddo.

Broad-side, *s.* ochr llong, ystlys llong; ochrergydion; lledwedd, gwyneblen, wyneblen.

Broad-side (in typography)—gwyneblen, wyneblen, lledwedd = papyr argraffedig ar y naill wyneb yn un tudalen.

He fired upon them a whole broadside—efe a daniodd arnynt ystlys gyfan; efe a ollyngodd arnynt lawn ystlys.

Broad-spread, *a.* llydandaen, llydandaenol.

Broad-spreading, *a.* yn taenu yn llydan; yn llydanu; llydaenol; yn taenledu.

Broad-sword, *s.* gleifawr, ffoswn, cleddyf llafnllydan.

Broad-tailed, *a.* cynffonlydan, llydanlost, cwtlydan; â chynffon lydan iddo.

Broad-wise, *ad.* ar led, ar ei led, o led; ar hyd y lled.

Brocade, *s.* (Ysp. *brocado*) eurfrithwe, eurfrod-

we, brodwe, gwullwe, blodwe, blodeuwe, brygwe.

Brocade shell—brodgragen, cragen frygwe.

Brocaded, *a.* (o *brocade*) eurfrodiog, brodweog, brodweuedig, gwullweog, gwullweuedig, eurfrodwisg; eurblethedig.

Brocaded with gold—eurfrodiog. [caerog.

A diadem of brocaded silk—coron o bali

Brocage, } *s.* (o *broke*) prwydal; maeldal,
Brokage, } troafaeloriaeth, prwydaliaeth, maeldaliaeth; hennwyddiaeth.

Brocatel, } *s.* (Ysp. *brocatel*) brodfaen, brith-
Brocatello, } faen; brodwe arw.

Broccoli, *s.* (It. *broccolo*; Ff. *brocoli*) math o fresych neu gawl.

Brochan, *s.* (Gael; C. *brwchan*; Gw. *brocan*) brwchan, uwd, uwd blawd ceirch.

Brochure, *s.* (Ff.) llyfryn, llyfran, llyfr bychan.

Brock, *s.* (S., Gw., a Cern. *broc*; C. *broch*) broch, daiarfochyn, gwilfrai, pryf penfrith, pryf llwyd, byrhwch.

Brocket, *s.* (Ff. o *brock*) carw dwyflwydd; rhydain coch dwyflwydd oed.

Brodekin, } *s.* (Ff. *brodequin*) gwentas, go-
Brodequin, } fotas, corfotas, hanner botas.

Brogans, *s. pl.* (o *brogue*) tudleau, esgidiau coed.

Broggle, *v. n.* (?) llyswena, pysgota am lyswod, dal llyswod.

Brogue, *s.* (Gw. *brog*) cyfarchen; esgid Wyddelig; esgid goed: *pl.* cyfarchenau, tudleau: lledlaith, briwlaith.

He has a brogue—y mae lledlaith arno; briwlaith y mae yn siarad.

Brogue-maker—cyfarchenwr, gwneuthurydd tudleau.

Broid, † *v. a.* = *Braid.*

Broider, *v. a.* (Ff. *broder*; C. *brodio, brwydo*) brodio, brwydo, darfrodio, cyfrestru; gweithio âg edeu a nodwydd.

Broidered work—brodwaith; gwaith edaf a nodwydd.

Broidered coat—pais frodiog; pais o waith edaf a nodwydd (*Ecs.* xxviii. 4).

Broidered garments—brodwisgoedd, gwisgoedd brodiog; gwisgoedd symmudliw; gwisgoedd o waith edaf a nodwydd.

Broidered hair—gwallt plethedig, plethwallt, brodwallt, gwallt brodiedig.

Broiderer, *s.* (o *broider*) brodiwr, brwydydd, darfrodiwr.

Broidery, *s.* (o *broider*) brodwaith, brwydwaith, brodiaeth, brodiad; gwaith edeu a nodwydd; gwaith edaf a nydwydd; addurnwaith nydwydd.

Golden broidery—brodwaith aur.

Broil, *s.* (Ff. *brouillerie*; It. *broglia*) terfysg, cynhwrf, cyffro, cythrwfl, cymhelri, trabludd, godwrdd, godwrf, trafferth, godorin, godoran, godorun; cynhen, ymryson, amryson, ymrafael, ymgeintach, cyfrysedd, ceintach, cywrysedd, anghydfod, ffrwgwd, brwth, brythwch, ymswrn, brythred, ymgatewrach, berw.

Given to broils — cynhenus, cynhenllyd, ymrysongar, ymrafaelus, ymrafaelgar, ymgeintachus, ceintachus, ceintachlyd, cecrus, tringar, cwerylus.

Full of broils — terfysgus, cythryblus, cythryflus, cyffröus, cynhyrfus, trallodus, trafferthus, trabluddus; llawn cynhen ac ymryson; llawn terfysg, &c.

To raise broils — gwneuthur *neu* godi terfysg, &c.; peri *neu* wneuthur cynhen, &c.; terfysgu, trabluddio, cynhenu, ymgeintach.

Broils and quarrels—cynhenau ac ymrysonau.

A raiser of broils—cynhenwr, terfysgwr, cynhyrfydd; dyn cynhenus *neu* derfysgus, &c.; awdur anghydfod.

Broil, *v.* (Ff. *brûler, brouiller*) briwlio, briwlian, alchrostio, rhostio, golosgi, traphoethi; pobi *neu* rostio ar alch, o flaen tân, *neu* ar farwor.

Broiler, *s.* (o *broil*) terfysgwr, terfysgydd, cynhyrfwr, cynhenwr, dyn cynhenus, dyn terfysgus, awdur anghydfod; briwliwr, alchrostiwr, rhostydd, golosgwr.

Broiling, *s.* (o *broil*) briwliad, alchrostiad, rhostiad, golosgiad.

Broke, *v. n.* (S. *brucan*? o *break*, medd y Dr. *Skinner*) rhyngfaelu, trosfaelu, rhyngfasnachu, trosfasnachu; maelu *neu* fasnachu dros arall.

Broken, *p. a.* (o *break*) toredig, drylliedig, briwedig; à dorwyd, à ddrylliwyd, à friwyd; twn (*f.* tòn), briw, bregus, trwch (*f.* troch), twnedig, maluriedig, darnedig, ymdoredig, ymddrylliedig, briwennig, bwlch (*f.* bolch); gwedi tori; gwedi ei dori, &c.

Broken-backed — cefndwn, cefndoredig, cefnwan; âg asgwrn ei gefn wedi tori.

Broken-backed ship—llong gefndon, llong gefndoredig.

Broken-bellied—boldwn, boldoredig; borsog.

Broken bread—bara briw, bara twn, briwbara; briwfwyd.

Broken-hearted—gwedi tori ei galon; torgalon, briwgalon; briw ei galon; calondoredig, calonfriw; drylliedig *neu* friwedig o galon; yssig ei galon; digalon.

The broken in heart — y cystuddiedig o galon.

Broken heart—calon friw, calon dòn, calon doredig, &c.

To die of a broken heart—marw o dor calon; tori calon.

To heal the broken-hearted — iachäu y rhai drylliedig o galon; rhwymo y rhai yssig eu calon.

A broken spirit drieth the bones—meddwl trwm a sych yr esgyrn.

Broken-handed—llawdwn, llawfriw, llawdoredig.

Broken-footed—troed-dwn, troettwn, troedfriw; cloff; anafus ei droed.

Having broken teeth—deinttrwch, deinttwn, deinttoredig, deintfriw.

Broken-headed—pendrwch, penfriw.

Broken-nosed—trwyndwn, trwynfriw.

Broken particles — malurion, briwion, teilchion, talchedigion; dernynau *neu* demigion briw.

Broken down—drylliedig, adfeiliedig.

The earth is utterly broken down—gàn ddryllio yr ymddrylliodd y ddaiar.

Broken surface—briwdon, briwdab; arwyneb briw, twn, *neu* doredig.

Broken meat—briwfwyd, bwyd briw.

Broken-sounded—clwc, clwc ei sain, seinglwc.

Broken off—talmedig; toredig ymaith; à dorwyd ymaith, &c.
Broken small—chwilfriw, mânfriw, briwionedig, talchedig.
Easily broken—hydor, hyfriw, brau, breuol, hydrwch; hawdd ei dori *neu* friwo.
Broken state—briwant, briwawd, briwder; cyflwr *neu* ansawdd briw *neu* doredig.
Broken language—briwiaith, brithiaith, llediaith.
To speak broken English—briwo Seisoneg; llefaru *neu* siarad Seisonaeg friw.
To speak brokenly—llefaru, llafaru, *neu* siarad â llediaith arno; chwedleua yn anmherffaith; llefaru iaith friw.
Broken-wind—tor gwynt, torwynt.
Broken-winded—anadlfyr, analfyr, byranadlog; gwedi tori ei wynt; gwynttoredig, torwyntog, gwynt-holltedig, gwynt-hollt.
An old broken soldier—hen fethfilwr; hen filwr methedig.
I am like a broken vessel—yr ydwyf fel llestr methedig (*Salm* xxxi. 12).
Broken merchant—masnachydd methdal, masnachwr wedi tori, methfasnachwr, methfaelwr, torfasnachwr.
Broken officer—swyddog diraddiedig, swyddog diswyddedig; swyddog wedi ei dalu ymaith; swyddog toredig.
Broken sleep—cwsg anesmwyth *neu* aflonydd; anhunedd; cwsg rhwystredig, toredig, attaledig, *neu* anghyfan.
Broken letter—llythyren friw, llythyren dôn, briw lythyren.

Brokenness, *s.* (o *broken*) briwdod, briwder, briwiant, toredigrwydd, drylliogrwydd.

Broker, *s.* (o *broke*) rhyngfaelwr, rhyngfaelier, rhyngfaelydd, trosfaelwr, trosweinydd, trosfasnachwr, rhyngfasnachydd, dirprwywr, goruchwyliwr; hennwyddwr, gwerthwr hen bethau; nwyfweinydd.
Pawn-broker—llogwystlwr, gwystl-fasnachwr, llogfasnachwr.
Exchange-broker—trosfaelwr, *neu* drosweinydd cyfnewid.
Stock-broker—rhyngfaelwr *neu* drosfaelwr soddion, trosfasnachydd ariansawdd.
Insurance-broker—rhyngfaelydd digolledïad, goruchwyliwr yswiriant.
Bill-broker—dylfasnachwr; rhyngfaelydd dylion *neu* ddylebion.
Ship-broker—trosfaelwr llongolion.
Commercial broker—dirprwywr masnachol, rhyngfaelwr trafnidiol.
Brokers' row—marchnadle hennwyddwyr; marchnadfa gwerthwyr hen nwyddau; hennwyddfa; rhes llugenyddion.
To play the broker—chwareu y bargenwr dros arall.

Brokerage, **Brokage**, **Brocage**, *s.* (o *broke*) prwydal, dirprwydal, maeldal; tâl rhyng- *neu* drosfasnachwr; prwydaliaeth, maeldaliaeth.
Brokerage (as a rule)—prwydaliaeth, maeldaliaeth, dirprwydaliaeth.

Brokerly, *a.* (o *broker*) gwael, isel, distadl, iselwael, gwasaidd.

Brokery, *s.* (o *broker*) trosfaeleriaeth, rhyngfaeloriaeth, trosfaelyddiaeth.

Bromal, *s.* (Gr. *brômos*) math o hylif diliw olewaidd, à geir trwy effaith bromin ar wirf.

Bromate, *s.* (Gr. *brômos*) bromat, bromaint=math o hâl fferyllaidd.

Bromatology, *s.* (Gr. *brôma* a *logos*) ymborthegaeth=treithawd ar faeth neu ymborth.

Brome-grass, *s.* (Gr. *bromos*, a *grass*) pawrwellt, porwellt.
Smooth rye brome-grass—pawrwellt llèr, llèr.
Soft brome-grass—pawrwellt maswy, porwellt masw.
Smooth brome-grass—pawrwellt llyfn.
Upright perennial brome-grass—pawrwellt unionsyth.
Hairy wood brome-grass—pawrwellt blewog.
Barren brome-grass—pawrwellt anhiliog.
Slender wood brome-grass—pawrwellt eiddil y goedwig.

Bromic, *a.* (o *brome*) bromig, drewinig, drewig.
Bromic acid—sur bromig, sur drewhalwy, sur drewig = cyfansawdd o ufelai a bromin.

Bromide, *s.* (o *brome*) bromid=cyfuniad o fromin ac unrhyw gorff syml arall.

Bromine, **Brome**, *s.* (Gr. *brômos*) bromin, drewin, drewhalwy=sylwedd fferyllaidd à gafwyd allan gàn Balard, fferyll Ffrengig, yn y flwyddyn 1826.

Bromus, *s.* (Gr. *bromos*)=*Brome-grass*.

Bronchia, **Bronchi**, *s. pl.* (Gr. *brogchos*) brefantosglau, pibellau *neu* gangenau y corn chwyth; chwabibau yr ysgyfaint.

Bronchial, **Bronchic**, *a.* (o *bronchia*) breuantosglaidd; brefantosglog; perthynol i gangau y corn chwyth yn yr ysgyfaint; brefantaidd.
The bronchial arteries—rhydwelïau y brefantosgl, y rhedwelïau breuantosglaidd.

Bronchitis, *s.* (Gr.) brefanttandde, breuanttandde, fflameg y brefantosglau.

Bronchlemmites, *s.* (Gr. *bronchos* a *lemma*) brefanttandde pilenaidd.

Bronchocele, *s.* (Gr. *brogchos* a *cêlê*) brefantchwydd, chwydd y breuant.

Bronchophony, *s.* (Gr. *brogchos* a *phônê*) brefantlais, brefantswn, brefantsain.

Bronchotomy, *s.* (Gr. *brogchos* a *tomê*) brefanttrwch, breuanttrwch, brefanttrychiad.

Bronchus, *s.* (Gr. *brogchos*) brefant, breuant, y bibell chwyth, y corn chwyth, pibell yr ysgyfaint.

Brond,† *s.* (o *brand*) cleddyf, cledd.

Brontology, *s.* (Gr. *brontê* a *logos*) tarandraith, taraneg=treithawd yn nghylch y daran.

Bronze, *s.* (Ff.; It. *bronzo*) pres, elydr, elydn, gweiling; lliw pres, prealiw; preslun, presgoflun; preswaith; bathodyn, presfath=cymmysg o gopr ac alcan.
Bronze-powder—presbylor.
Bronze-liquid—preshylif, preswy.

Bronze, *v. a.* presu, presio, elydru, prealiwio; presdebygu; efelychu pres.

Bronzing, *s.* (o *bronze*) presiad, elydrad, presdebygiad.

Bronzite, *s.* (o *bronze*) presith, elydrith.

Brooch, *s.* (o *broach*) gem, tlws; gyddfem, gyddf-dlws, brondlws, gleinaddurn, glain gwddf; paentiad unlliw *neu* gyfliw.

Brooch, *v. a.* gemu, gyddfemu, gleinaddurno, brondlysu; addurno â gemau *neu* â gyddemau.

Brood, *s.* (S. *brod*; Is. *broeden*; Al. *brüten*) deor, gôri, deori, deorain, eistedd ar wyau, rhoi gôr.

To sit brooding=*Brood, v.*

Brood, *s.* hil, hiliogaeth, epil, epiledd; nythaid, nythlwyth, nythal, deoraid, haid o gywion, âl, haig; deoriad.

Brood hen—iar orllyd, iar ddeor, iar ori, iar ddeorllyd, deoriar, mamiar, iar glwc, iar ffiegain.

Brood mare—caseg rewys, caseg re, caseg rwys, caseg fagu.

A brood of chickens—nythaid, nythlwyth, *neu* ddeoraid o gywion.

The youngest *or* last of a brood—cardodwyn (*f.* cardodwen), cardydwyn (*f.* cardydwen), corbedwyn (*pl.* corbedw), bach y nyth.

Hellish brood—cethern, hil uffernol, âl uffern, ciwed uffernol.

Brooding, *s.* (o *brood*) deoriad, deorawd, gôriad, gôri; eisteddiad ar wyau.

Broody, *a.* (o *brood*) gorllyd, deorllyd, deoraidd.

Brook, *s.* (S. *broc, brooc*) nant (*pl.* nentydd, neint, rannau), afonig, corafon, dyfrnant, gwythreden, gofer, carog, cornant.

A small brook—cornant, corafonig, goferen, rhewyn, nant bychan, nentig.

A swift *or* rapid brook—mochnant; nant mwth, chwyrn, *neu* wyllt; nant buanred *neu* ffrydwyllt.

A brook running in a deep channel—ceunant.

They are gone over the brook of water—hwy a aethant dros yr aber ddwfr (2 *Sam.* xvii. 20).

Brook, *v. a.* (S. *brucan*) goddef, dyoddef, aros; cyd-ddwyn, ymoddef, *neu* ymaros â *neu* âg.

I never could brook him—nis gallwn erioed mo'i aros; nis gallwn erioed ei oddef.

To brook an affront patiently—dwyn sarhad yn amyneddgar *neu* amyneddus; ymddwyn yn amyneddgar dân sarhad; bod yn dda ei oddef dân anmharch; bod yn dda ei amynedd dân anmharch.

To brook a weight—dwyn pwys; ymgynnal dân bwys.

Brooklet, *s.* (o *brook*) cornant, corafonig, goferen, rhewyn, nentig.

Brooklime, *s.* (*brook* a *lime*) goferini, llychlyn y dwr, y greulys fenyw.

Brookmint, *s.* (*brook* a *mint*) mintys y dwr, mintys y nant.

Brookursine, *s.*=*Brankursine.*

Brookweed, *s.* (*brook* a *weed*) claerlys, samwl, samylen; ffrydlys.

Brooky, *a.* (o *brook*) nantog, corafonog, cornantog; llawn o nentydd.

Broom, *s.* (S. a Gw. *brum*; Is. *brem, braam*) banadl, banal, banad; ysgubell fanal, ysgubell: *sing.* banadlen, banalen.

Dyer's broom—banadlos, eurfanadl, banadl aur, corfanadl: *sing.* eurfanadlen, banadlen aur, corfanadlen.

Butcher's broom — banadl pigog (*sing.* banadlen bigog), celyn Mair, celyn Ffrainc, llys y giau, gieulys, gewynllys, pryseg.

Sweet broom—banadlos, eurfanadl, banadl aur, corfanadl.

Broom-rape—gorfanadl, gorfanal, gorfanc, orfanc, paladr hir, caldrist y banadl, corn y bwch, corn yr afr, corn yr hydd, corn yr iwrch.

Greater broom-rape=*Broom-rape.*

Spanish broom — banadl Yspaen, banal Yspaenig, banadl Hispaen.

Abounding with broom—banadlog; llawn banal, llawn o fanadl.

Broom, *v. a.* (?) ysgarthlosgi; llosgi bryntion *neu* ysgarthion gwaelod llong.

Broom-corn, *s.* banadl-yd, banal-yd.

Broomland, *s.* (*broom* a *land*) banaldir, tir banadl, tir banadlog, banadldir.

Broomstaff, } *s.* coes ysgubell, pren ysgub-
Broomstick, } ell.

Broomy, *a.* (o *broom*) banadlog; llawn o fanadl, llawn banadl.

Brose, *s.* (S. *briwas*) brywes = math o saig Ysgotaidd.

Broth, *s.* (S. a Gw.) cawl, potes, isgell.

A beggar of broth, } cawlai, (*c. g.*),
A great lover of broth, } poteswr, cawlwr; un hoff o gawl *neu* botes.

Brothel, *s.* (Ff. *bordel*) puteindy, trythylldy, trythyllfa, hurendy, bryntty.

Brothel-house=*Brothel.*

Brotheller, *s.* (o *brothel*) cyrchwr i buteindai; trythyllwr, puteiniwr.

Brothelry, *s.* (o *brothel*) trythyllwch, anlladrwydd; puteindod; serthedd, brynti.

Brother, *pl.* Brothers, Brethren, *s.* (S. *brother, brethrer*; Al. *bruder*; Sw. a D. *broder*; Is. *broeder*) brawd; *pl.* brodyr, broder.

Brother in law — brawd yn nghyfraith, brawd yn y gyfraith.

Step-brother—llysfrawd.

Brother-german — brawd undad unfam, gwirfrawd, brawd calon.

Brother by the father's side—brawd undad.

Brother by the mother's side, } brawd un-
Uterine brother, } fam, brawd un galon.

Brother by the father and mother=*Brother-german.*

Half brother—hanner brawd, brawd naill hanner, brawd o'r naill du.

Foster brother — brawd maeth, brawd cydfaeth, brawd unfaeth, brawd unfron, brawd cydlaeth.

Twin-brothers—gefeilliaid, gefellod.

Brother-officer—cydswyddog, uncydswydd, swyddfrawd, brawdswyddog.

Brother in trade — brawd wrth alwad; brawd yn ngalwad; brawd wrth grefft *neu* alwedigaeth; brawd mewn celfyddyd.

A brother of the blade—bocsachwr, broliwr, ffrostiwr, ymffrostiwr; dyn brochus; dyn mawr ei froch; ymffrostiwr yn ei wrhydri; milwr, cadfrawd.

A brother of the quill *or* pen—brawd wrth y blufen; brawd y pin; ysgrifenydd, awdur, awdwr.

A brother of a religious order—brawd ffydd, brawd crefydd, brawd crefyddol.

Brother's children — plant brawd; cefndyr; *f.* cyfnitheroedd.

Brother's son—mab brawd, nai.

Brother's daughter—merch brawd, nith.

Sworn brothers—brodyr tyngedig; brodyr

twng; brodyr cynghreiriol ar lw; cydeiddunwyr, cynghreirwyr.

Brotherhood, *s.* (o *brother*) brawdoliaeth, brodoriaeth, brodedd; cymdeithas, cyweithas, cyfeillach.

Brotherless, *a.* (*brother* a *less*) difrawd, heb frawd.

Brotherlike, *a.* (*brother* a *like*) brawdaidd, fel brawd, fel brodyr.

Brotherliness, *s.* (o *brotherly*) brawdoldeb, brawdolrwydd.

Brotherlove, *s.* (*brother* a *love*) brawdserch, cariad brawdol, brawdgarwch.

Brotherly, *a.* (o *brother*) brawdol, brawdgar; serchog, cariadus.

Brotherly love — brawdgarwch, cariad brawdol, brawdserch.

Let brotherly love continue — parhäed brawdgarwch.

Brotherly, *ad.* yn frawdol; fel brawd.

Brought, *p. p.* (o *bring*) dygiedig, &c.

Brow, *s.* (S. *brǽow, bruwa;* Is. *braauw*) ael; tàl, talcen, ellael, cylmael.

Brow of a cliff—ael rhiw, ffring, ffrin.

Brow of a hill—ael bryn, tàl bryn.

To knit the brows — talgrychu, cuchio, crychu aeliau, crychu talcen, gwneuthur cilwg, sarigo, cibo, aeldrymu, trwynsori.

The knitting of the brows—talgrychiad, cuwch, cuch, cuchiad, crychiad talcen, gwg, cilwg.

Eye-brow—ael, ael y llygad, ellael.

Dark brown her eye-brow—gwrn ei hael; gorm ei hellael.

The space between the brows—cyfwng yr aeliau.

That knits his brows—talgrych, cuchiog, aeldrwm, sarig, garw-guchiog, gygus, ffroensur, trwynsor.

Brow of a wall—bargod; talaith, rhactal, *neu* grib mur; ael mur.

Beetle-brow—cuch, cuwch, cuchiog ael, banael, crognel, ael fawr.

Beetle-browed—cuchiog, cuwchiog; aeliog, aelfawr, talfawr, banaeliog, cyfaeliog; sarig.

Big-browed—aelfawr, talfawr, aeliog.

The sweat of his brow—chwŷs ei dalcen.

Thy brow is brass—dy dalcen sydd o bres; pres yw dy dalcen; talcen pres sydd iti.

Brow, *v. a.* aelio, ymylu, terfynu, ffinio, bargodi.

Browantler, *s.* (*brow* ac *antler*) talgainc=cangen gyntaf corn carw.

Browbeat, *v. a.* (*brow* a *beat*) bygylu, ciliorni, cuchddwrdio, cuwchddondio, gygddondio; edrych yn fygylus ar; edrych dân fwgwth ar.

Browbeating, *s.* (o *browbeat*) bygyliad, bygyliaeth, ciliornad, cuchddwrdiad.

Browbound, *a.* (*brow* a *bound*) talrwym, aelrwym; coronog.

Browed, *a.* (o *brow*) aeliog, ymylog.

Browless, *a.* (*brow* a *less*) digywilydd, haerllug.

Browpost, *s.* (*brow* a *post*) talbost; trawst à elo ar groes i adeilad.

Browsick, *s.* (*brow* a *sick*) talglaf, penisel, pendrist.

Brown, *a.* (S. a Ff. *brun;* Is. *bruin;* Al. *braun*) llwyd, gwrm, gwineu, brych, llychwin, gwrmwn.

Brown inclining to white—llwydwyn, (*f.* llwydwen); brychwyn, (*f.* brechwen).

Brown inclining to black — llwyd-ddu; brychddu, gwineuddu.

Reddish brown—cochlwyd, gwineu.

Nut-brown—o liw y gneuen wisgi; fel plisg y gneuen wisgi; cneuliw, cethinliw, cethin.

Nut-brown maid—Gwèn lliw 'r gneuen; Gwèn gyfliw 'r gneuen; elen liw 'r gneuen; gwineues, gwineuen, cethinen.

Nut-brown ale — cwrw lliw 'r gneuen;

Dark brown—dulwyd, arddufrych, gwrm, gwineuddu.

Light brown — llwyd goleu, llwydoleu, goleulwyd, gwineu goleu, goleuwineu.

Brown mingled with black and red — haiarnliw, lliw yr haiarn; llwyd dugoch *neu* gochddu; dugochlwyd, dulwydgoch.

Black and brown—dulwyd, brychlwyd.

Brown hue—lliw llwyd, llwyd, llwydliw, llwydne.

Variegated brown—brych, brithlwyd.

Yellowish brown—melynlwyd, llwydfelyn.

Tawny brown—llwyd melynddu; llwydfelynddu.

Purple brown—rhuddlwyd, porfforlwyd, llwyd porfforaidd.

Spanish brown—llwyd Yspaen.

Brown rust—llwydrwd, rhwd llwyd.

Brown handled sword—cleddyf gwrmsaid.

Brown paper—papyr llwyd.

Brown sugar—sugr llwyd.

Brown bread—bara canryg, bara coch, bara eilflawd, bara trwyddo, bara amyd.

Of a brown quality—gwrmdde.

Brown woman — gwineuen, gwineues, llwyden; merch *neu* wraig winculiw; benyw orm.

To make brown, } =*Brown*, *v.*
To become brown, }

Brown study—prudd *neu* ddwys fyfyrdod; syn fyfyrdod; efryd dybryd.

To be in a brown study—bod yn syn fyfyriol; myfyrio yn llwydaidd; bod mewn myfyrdod syn.

Brown, *v. a.* llwydo, gwrmu, gwineuo, llychwino, llwyd-dduo, cethino, godywyllu.

Brownbill, *s.* (*brown* a *bill*) gylyf llwyd, llwydlaif.

Brownie, *s.* (o *brown*) un o'r tylwyth llwydion =rhyw goblyn *neu* fwgan teuluaidd, yn ol ofergoelion yr Ysgotiaid.

Brownish, *a.* (o *brown*) llwydaidd, gwrmaidd, lledwineu, lledlwyd, gowineu, golwyd.

Brownish red—llwydgoch.

Brownish white — llwydwyn; *f.* llwydwen.

Brownish blue—llwydlas, gwrmlas.

Brownish black—llwyd-ddu, gwrmddu.

Brownish yellow — llwydfelyn; *f.* llwydfelen.

Brownness, *s.* (o *brown*) llwydni, gwrmder, llychwinder, gwineudra, lliw llwyd.

Brown-spar, *s.* gwrmysger, ysger lwyd, llwydysger.

Brown-wort, *s.* gwrmlys; y feddyges las; gorneth lwyd.

Browny,† *a.*=*Brown*.

Browse, *v.* (Gr. *brôscô;* Ff. *brouter;* Llyd. *brouza*) brigbori, pori brigau, pori brig; pori; pori meddalfrig.

To browse on shrubs—brigbori manwydd; pori ar frysgyll.

Browse, *s.* porfrigau, pawrfrigau, brigborion, brigbawr, porddail.
Brucina, *s.* math o alcali.
Bruin, *s.* arth; *pl.* arthod, eirth.
Bruise, *v. a.* (S. *brysan*; Ff. *briser*) briwo, briwio, malurio; sigo, ysigo, cleisio; llethu, sathru; pwyo, mânbwyo, pwyo yn fân, malu, dryllio, briwsioni, breuanu, cymriwo, curo, baeddu; bod yn friw.
To bruise together—cymriwo, cydfriwo; briwo yn nghyd.
The God of peace shall bruise Satan under your feet—Duw y tangnefedd a sathr Satan dân eich traed.
Bread-corn is bruised—yd bara a felir.
Bruise, *s.* briw, clais, ysgigad, sigad, sig, ysgig, ysigfa, ysgigdod, archoll, anafod, cleisen.
Bruised, *a.* (o *bruise*) ysgig, sigedig, ysgigedig; briw, briwedig, maledig, maluriedig, dryll-iedig, cymriwedig.
Bruiser, *s.* (o *bruise*) ysgigwr, ysgigydd, sigwr, cleisiwr, briwiwr, drylliedydd, pwyedydd; paffiwr, ymladdwr.
Bruisewort, *s.* (*bruise* a *wort*) cyfardwf, llysiau y cwlwm; glesyn y coed, golchenid; seboallys meddygol.
Bruising, *s.* (o *bruise*) ysgigad, sigad, cleisiad, briwad; maluriad; paffiad.
Bruit, *s.* (Ff.) son, y son, gair, y gair, chwedl, y chwedl, y newydd, y swn, y sain.
The bruit of his manliness was spread every where—aeth y gair o'i wroldeb ef i bob lle.
All that hear the bruit of thee—pawb à glywont son am danat (*Nah.* iii. 19).
Bruit, *v. a.* cyhoeddi; taenu ar led; rhoi y gair, y son, y chwedl, *neu* y newydd allan; gyru y son ar led; taenu y gair ar led; son, chwedlu.
It is bruited abroad—y mae y gair, y son, neu y chwedl allan *neu* yn rhugl; e gerdd y gair; fe gerddodd y gair; dywedir yn rhugl; e gerddodd y son.
Brumal, *a.* (Ll. *brumalis*) gauafol, gauafaidd.
Brume, *s.* (Ff.; Ysp. *bruma*) niwl, tarth, nudd.
Brunet, Brunette, *s.* (Ff.) gwineuan, gwineuen, gwineues, cethinen, merch wineuliw, gwineuferch; Gwên lliw'r gneuen.
Brunion, *s.* (*Ff. brugnon*) math o ffrwyth rhwng peatus ac eirinen.
Brunswick-green, *s.* gwyrdd Brunswig, gwyrdd Brunswic.
Brunt, *s.* (D. *brynde*, *brunst*) rhuthr, cyrch, ymgyrch, poethgyrch, ymosod, ymosodiad, rhyagyr, hypynt, lluchynt, angerdd, poethder; ergyd, cyfergyd, hwp; dryglam.
To endure the first brunt—goddef yr ymgyrch neu hypynt cyntaf; dâl y lluchynt cyntaf; goddef y cyn-gyrch; goddef yr ymgyhydreg gyntaf.
To bear the brunt of battle—dwyn pwys a gwres y rhyfel; sefyll ar gyfer wyneb y rhyfelwyr glewaf.
To stand the brunt of ages—dâl pwys ac ymgyrch yr oesoedd; sefyll lluchynt llawer oes.
Brush, *s.* (Ff. *brosse*; It. *brusca*; Ysp. *bruza*, *brusca*) gwrychell, ysgubel; ysgubellan, ysgubellig, ysgubell; cynffon, tusw; ymosodiad, cyfergyr, harlach; ffrwgwd.
The brush of a fox—cynffon llwynog, llost cadnaw, ysgubell cadnaw.
The brush of a squirrel—llost *neu* gynffon gwiwer; tusw gwiwer.
Electrical brush—gwrychell drydanol, ysgubell drydan.
Brush, *v.* ysgubo, rhuglo, gwrychellu, crafellu; hwysgo, ffrystio; brysio; gogyffwrdd, cisio; glanhau.
To brush along—myned dân frysio, dân ffrystio, *neu* dân ysgytio; hwysgo yn mlaen.
To brush away, To brush off, } brysio, ffrystio, *neu* ddy-frysio ymaith; ffoi ymaith ar ffrwst; ffoi ar ffrwst; hwysgo ymaith; hwysgo.
To brush by one—myned yn chwimmwth, ar redeg, ar nawf, *neu* ar ehedeg heibio i un; hwysgo heibio un.
To brush upon one—rhuthro ar *neu* am ben un; dyfod yn chwimmwth am ben un.
To brush clothes—gwrychellu dillad.
Brush away the dirt—rhugla y baw i ffwrdd.
I will brush your coat for you—mi dy gosaf di; ti a gei genyf gosfa.
Brush, Brushwood, *s.* manwydd, prysgoed, prysgwydd, pryswydd, gelwig, mangoed, prys, prysg, prysgl, prysel, gortho tir; man-gangau, tocfrigau.
Dry-brushwood — crinwydd, briw-wydd, crinellau.
Brusher, *s.* (o *brush*) gwrychellwr, gwrychellydd, ysgubelydd, rhuglwr, rhwbiwr.
Brushing, *s.* (o *brush*) gwrychelliad, ysgubad, rhuglad, rhwbiad; glanhad.
Brushing, *a.* heinif, gweisgi, chwimmwth, esgud, ysgafn, chwim.
Brushlike, *a.* (*brush* a *like*) ysgubellaidd, gwrychellaidd.
Brush-maker, *s.* gwrychellydd, gwrychellwr, gwneuthurwr gwrychellau.
Brush-wheels, *s. pl.* gwrych-rodau, gwrych-olwynion, rhugl-olwynion.
Brushwood, Brush, *s.* = *Brush*. *Brushwood*.
Brushy, *a.* (o *brush*) ysgubellaidd, gwrychellaidd; hirflewog, cedenog, garw; ffluwchaidd.
Brusque, *a.* (Ff.) difoes, trwsgl, iang, dysmwth, ffysg, dreng, taiog.
Brustle, *v. n.* (S. *brastlian*) clecian, clindarddach, siffrwd, grillian, ysgwrlwgach, trystio, clecdrystio, chwithrwd; bocsachu, ffrostio, bygylu.
To brustle up to one—neshau at un dân fygylu, yn fygylus, *neu* dân fwgwth; ymsythu yn erbyn un.
Brustling, *s.* (o *brustle*) ysgwrlwgach, siffrwd, clindarddach, grigwd, chwithrwd, trwst.
Brut, † *v. n.* (Ff. *brouter*)=*Browse*.
Bruta, *s. pl.* (Ll.) bwystogion, bwystolion.
Brutal, *a.* (Ll. *brutus*) anifeilaidd, anifeilig, milaidd, bwystus, bwystfilaidd, milain, mileinig; creulawn, annynol, anwar, dideimlad, didrugaredd, cïaidd.
Brutality, *s.* (o *brutal*) anifeleiddrwydd, anifeleidd-dra, mileiddrwydd, cieidd-dra, creulonedd, creulonder, anwaredd, bwystni, ffyrnigrwydd, annynoliaeth, dideimladrwydd.
Brutalize, *v.* (o *brutal*) anifeleiddio, mileiddo, anifeilio, anifeiligo, bwystfileiddio, anifeilhau, mileinio, anwareiddio, cïeiddio, annynoli, afresymoli; ymgreuloni; troi *neu* fyned yn anifel.

Brute, *a.* (Ll. *brutus*; Ff. *brut*) dideimlad, direswm, afresymol, anresymol, anwar, barbaraidd, anfoesog, creulawn, annynol, anbynaws, cïaidd, lledffer, bwystus, anifeilaidd, milaidd, bwystfilaidd, ysgrublaidd.
The brute creation—y greadigaeth ddideimlad; y greadigaeth ddireswm.
Brute beasts—anifeiliaid ysgrublaidd; anifeiliaid direswm *neu* afresymol.
A brute philosopher—athronydd anwar.

Brute, *s.* anifail, anifel, mil, bwystfil, ysgrubl, milyn; milddyn, anifeilddyn.

Bruteness, † *s.* (o *brute*)=*Brutality*.

Brutify, *v. a.* (Ll. *brutus* a *facio*) mileiddio, anifeleiddio, bwystfileiddio; troi *neu* wneyd yn fwystfil; gwneyd yn ddideimlad *neu* ddidosturi.

Brutish, *a.* (Ll. *brutus*) anifeilaidd, anifelaidd, anifeilig, bwystfilaidd, milaidd, bwystaidd, bwystlawn, mileinig, mileinus, milus, llydnaidd, ysgrublaidd, bwystus; cïaidd, ffyrnig, creulawn, anwar, anwaraidd, didostur, dideimlad, direswm, afresymol, disynwyr, annoeth, anfoesol, ansyberw, nwydwyllt; ffiaidd, brwnt.
He that hateth reproof is brutish—y neb a gashao gerydd, anifeilaidd yw (*Diar.* xii. 1).
A brutish man knoweth not—gwr annoeth ni ŵyr (*Salm* xcii. 6).
I am more brutish than any man—yr ydwyf yn ffolach na neb (*Diar.* xxx. 2).
I know none so brutish—nid adwaen i neb *neu* un mòr ddireswm.
They are altogether brutish—cydynfydasant (*Ier.* x. 8).
Brutish men — dynion poethion (*Esec.* xxi. 31).
Every man is brutish—ynfyd yw pob dyn (*Ier.* x. 14; a li. 17).
The counsel of the wise counsellors is become brutish—cynghor y doethion gynghorwyr a aeth yn ynfyd (*Esa.* xix. 11).
He became brutish—hyllodd arno; cïeiddiodd; ymgïeiddiodd; aeth yn anifeilaidd, &c.
To make brutish=*Brutalize*.

Brutishness, *s.* (o *brutish*) anifeleiddrwydd, anifeleidd-dra, mileinrwydd, mileinigrwydd, bwystfileiddrwydd, cïeiddrwydd, creulonedd, creulonder, ffyrnigrwydd, annynoliaeth, annhosturi, anwaredd, afresymoldeb.

Brutism, *s.* (o *brute*) miledd, anifeiliaeth, bwystfiledd, mileiddrwydd, mileiniaeth.

Bryonine, *s.* (o *bryony*) greolin=math o ddansawdd gwenwynig à geir o wraidd greol.

Bryony, *s.* (Ll. *bryonia*; Gr. *bruônia*) greol, greuol, greolen, greuolen.
Red-berried bryony, } greol, greolen, greu-
White bryony, } ol, meipen fendigaid, meipen Fair, gwinwydden wèn, bloneg y ddalar, llysiau y twrch.
Black bryony — gwinwydden ddu, coedrwym, coedgwlwm, coedglwm, clwm y coed, cwlwm y coed, rhwymyn y coed, cwlwm y gwŷdd, paderau y gath, afal Addaf, afal Adda, grawn y perthi.
Black bryony berries—eirin gwion, ffrwyth y winwydden ddu, eirin y winwydden ddu, &c.

Bryum, *s.* (Gr. *bruô*) edeu-fwsogl, edeu-fwswn.

Bub, *s.* cwrw cadarn.

Bub, † *v. a.* bwrlymu, tarddellu.

Bubble, *s.* (Is. *bobbel*; Sw. *bubla*) bwrlwm, cloch y dwr, cloch y dwfr, cloch ar ddwr, cloch suddas, tyniar, boglyn, llaig, morwyniad, morwysen, morwyf, clogoren, llygaden; coegbeth, anober, som; twyll, hoced; meddalddyn: *pl.* bwrlymau, clych y dwr, clych tawch, morwyn, morwyniaid, morwynion, tyniaroedd, tynieri, &c.
The South-Sea bubble—bwrlwm Môr y De; sombeth Môr y De.
He made a bubble of him—efe a'i twyllodd, a'i hudodd, *neu* a'i denodd ef.

Bubble, *v.* bwrlymu, clochi, crychferwi, berwi; codi yn glych; tarddellu, tarddu, clogori, morwynio, boglynu; hocedu, twyllo, somi, seithugio.
To bubble up—bwrlymu i fyny; berwi yn grych, yn grychias, yn glych, yn glychau, yn glochog, *neu* yn grychias glochog; berwi i fyny.
The mouth of fools bubbleth out foolishness—geneu ffyliaid a frytheiria ffolineb.
A bubbling stream—ffrwd fwrlymol *neu* fwrlymog.

Bubbler, *s.* (o *bubble*) brwchan; hocedydd, twyllwr, somwr.

Bubbling, *s.* (o *bubble*) bwrlymad, bwrlymiad, morwysiad, berwad, tarddelliad, tarddiad, crychferwad; brychen.

Bubbly, *a.* (o *bubble*) bwrlymog, tarddellog, morwysog.

Bubby, *s.* (Gr. *boubôn*) bron, bonig, diden.

Bubo, *s.* (Ll. *bubo*; Gr. *boubôn*) llynoryn arfed, arffettwdd, gwerydlwg, arffedlwg; cornwyd, ploryn, gorgal.

Bubo, *s.* (Ll.) y ddyllnan gorniog, y ddallnan gyrnig.

Bubon, *s.* (Gr. *boubôn*) perllys Macedonia, perllys Macedoniaidd.

Bubonocele, *s.* (Gr. *boubôn* a *cêlê*) tor arfed, tor gwerchyr, torgest isel.

Bubuckle, † *s.* (?) ploryn *neu* grugdardd coch.

Bucanier, } *s.* (Ff. *boucaner*) gwillmyr, mor-
Bucaneer, } leidr: *pl.* gwillmyriaid, mor-
Buccanier, } ladron=enw à roddid i'r ysbeil-
Buccaneer, } wyr à fliment gynt ororau America Ddeheuol a'r India Orllewinol.

Bucao, *s.* math o aderyn hardd ei bluf à geir yn yr Ynysoedd Philipin.

Buccal, *a.* (Ll. *bucca*) bochol; perthynol i'r foch.
Buccal artery—rhedweli y foch.

Buccella, *s.* (Ll.) tameidyn, timyn, tamaid bach, safnaid fach.

Buccellaton, *s.* (Ll. *buccella*) brasdoriad, brasdameidiad, brasddarniad.

Buccina, *s.* (Ll.) udgorn.

Buccinal, *a.* (Ll. *buccina*) udgornaidd; ar lun udgorn, fel udgorn.

Buccinator, *s.* (Ll.) chwythgyhyr, chwagyhyr.

Buccinoida, } *s. pl.* (Ll. *buccina*, a Gr. *eidos*)
Buccinoides, } udgornogion=enw teulu o fân filod, yn ol deseb G. I. Ch. Ff. D. Cuvier.

Bucco, *s.* barfedn, barfednog: *pl.* barfednod, barfednogion, barfadar.

Bucentaur, *s.* (Gr. *bous* a *centaurus*) Bugentawr, dyneidion, dyndarw = math o anghenfil hanner dyn a hanner ych: rhwyfiong y llywodraeth yn Ngwenethia, yn yr Ital.

Bucephalus, *s.* (Gr. *bous* a *cephalê*) math o

afrewig neu grychgorn : enw march Alecsander Fawr.

Buceros, *s.* (Gr. *bous* a *ceras*) cornbig, cigfran yr India.

Bucholzite, *s.* (oddi wrth Mr. *Bucholz*) bucholsith=math o ddelidfaen à gafwyd yn ddiweddar yn y Tyrol.

Buck, *s.* (S. *buc, bucca ;* Al. a Sw. *bock ;* Is. *bok ;* C. *bwch*) bwch ; y gwryw o'r iyrchod, y geifr, yr ysgyfarnogod, a'r cwningod ; balchyn, coegyn.

Roe-buck—iwrch, earw, eilon, iyrchfwch ; carwiwrch : *pl.* iyrchod, iyrchwys, iyrch, ceirw : *f.* iyrches, iyrchell, ewig.

A young roe-buck—iyrchyn, iyrchwyn ; iwrch *neu* garw ieuanc : *f.* iyrchen.

Wild roe-buck—iwrch *neu* garw gwyllt ; eilon mynydd.

Buck of deer—bwch danas, bwch danys, danasfwch.

Buck-goat—bwch gafr.

Buck-coney — cwningen wryw, ffiogen wryw, bwch cwningen, bwch cwningod.

Buck-hound—hyddgi, bychgi.

Buck of the first head—bwch yn ei bummed flwydd.

Great buck—bwch mawr=bwch yn ei chweched flwydd neu chwaneg.

He is like a buck—mae efe fel iwrch ; y mae efe yn iwrch.

Buck, *v. n.* rhidio, bycho.

Buck, *s.* (Al. *beuche, bauche*) golch, trwyth, lleisw coed ; trwythddillad, golchddillad.

Buck-lye — trwyth, lleisw coed, coettrwyth.

Buck-ashes — lludw coed, trwythludw, llutrod.

Buck of clothes—golchiad, golch, *neu* olchfa o ddillad ; trwyth *neu* drwythad o ddillad ; dillad i'w golchi.

She washes bucks at home—y mae hi yn golchi dillad gartref ; y mae hi yn golchi golchfaoedd o ddillad gartref.

Buck, *v. a.* trwytho, sicio, trwytholchi, golchi ; golchi mewn lleisw coed.

To buck clothes — trwytho, sicio, *neu* drwytholchi dillad ; mwydo, golchi, *neu* ferwi dillad mewn trwytholch *neu* mewn lleisw coed.

Buck-washer — trwytholchyddes, trwytholchuries ; golchyddes *neu* olchwraig mewn lleisw coed ; trwythwraig dillad.

Buck-basket, *s.* basged olchi, golch-fasged.

Buck-bean, *s.* ffäen y gors, ffäen cors, meillionen y gors, maill cors.

Bucket, *s.* (S. a Sw. *buc ;* Ff. *baquet*) celwrn, ystwe, crwc, dyfriestr, cibl.

Bucket with a lid—celwrn.

Bucketful, *s.* (o *bucket* a *full*) celyrnaid, ystycaid, crycaid, ciblaid, llonaid celwrn, &c.

Buckeye, *s.* (*buck* ac *eye*) llygad y bwch, bychlygad=planigyn perthynol i Daleithiau Gorllewinol America.

Buckeyed, *a.* (o *buck* ac *eye*) bychlygeidiog ; drwg ei lygad ; llygadfrith.

Bucking, *s.* (o *buck*) trwythad, trwytholchiad, trwythsiciad ; golch, trwyth.

Bucking stool, } cyff golchi, ystol olchi,
Bucking stock, } golchgyff.
Bucking block, }

Bucking tub—twba golch, trwpa golch, trwpa, golchdwba.

Buckish, *a.* (o *buck*) bychaidd, iyrchaidd gwych, balch, balchaidd.

Buckle, *s.* (Ff. *boucle ;* Gw. *bucla ;* Llyd. *boucl ;* C. *bwcl*) bwcl, tytmwy, gwäeg, ystraig, boglwm ; crychgudyn, cudyn o wallt.

The tongue of a buckle—pill bwcl, tafod bwcl, gwäeg, gwanas, gwelgin.

Buckle-maker—byclwr, tytmwywr, gwaegwr.

Buckle, *v.* byclu, byclo, tytmwyo, ystreigio, gwaegu ; cyttaro, ymgyrchu, ymwrio, brwydro, ymgydio, ymosod ar, ymaflyd ; parotöi, ymwregysu, rhwymo, amrwymo, ymrwymo ; terfynu, gosod terfyn ; plygu, crymu, ymostwng. [gwallt.

To buckle hair — modrwyo *neu* grychu

To buckle together—ymgyrchu, ymdrafodi, ymwrio, ymladd, brwydro, ymgydio, ymaflyd, ymorchestu.

To buckle to a thing—ymosod ar beth ; ymwregysu at beth ; cydio *neu* ymaflyd â pheth ; ymröi i beth ; cychwyn, ymgychwyn, *neu* blygu at beth.

To buckle to one—ymostwng, ymddarostwng, ymollwng, ymröi, *neu* ufyddhau i un ; rhoi y goreu i un ; ymrwymo wrth beth.

Go, buckle to the law—dos, ymostwng i'r gyfraith ; dos, ufyddha i'r gyfraith.

To buckle in—gosod terfyn, terfynu ; cau i fewn.

To buckle under—plygu *neu* grymu dàn.

To buckle with—ymglymu, ymgyssylltu, ymrwymo, *neu* ymbriodi â *neu* âg.

Buckled, *p. a.* (o *buckle*) bycledig, tytmwyedig, &c.

Buckler, *s.* (C. *bwccledr ;* Ff. *bouclier ;* Gw. *buicleir*) bwccled, bwccledr, tarian, aes, aestalch, astalch, asafar, berses, ostid, talbos, asant, ysgwyd, parfais.

A small buckler—tarianig, tarianen ; tarian *neu* fwccled fechan.

Buckler-maker—tarianwr, bwccledwr, bwccledydd, ysgwydwr ; gwneuthurwr tarianau *neu* fwccledau.

Armed with a buckler, } tarianog,
Bearing a buckler *or* shield, } bwccledog, tarianddwyn, aesddwyn, aesor ; yn dwyn *neu* arwain tarian *neu* fwccled.

One's buckler-bearer — ysgwydwas, aesddyn, tarianwas ; cludydd bwccled *neu* darian ; yr hwn a ddwg darian un.

A march under cover of bucklers—aesdrawd, aesdrodiad.

Having a broken buckler—aesdwn, aesfriw, aesdalch, aesdrai, ysgwydfriw.

Buckler-head, } aesben, aesbenog, aes-
Buckler-headed, } benaidd ; â phen tarian *neu* fwccledr iddo.

Buckler,† *v. a.* tarianu, bwccledu, amddiffyn.

Buckler-thorn, *s.* draenen Crist ; math o rafnwydden.

Buckmast, *s.* (Al. *buche*=beech, a *mast*) ffrwyth y ffawydd ; cnau *neu* aeron y ffawydd.

Buckram, *s.* (Ff. *bougram ;* It. *bucherame*) sythlïan, gludlïan.

Buckram, *a.* syth, anhyblyg, anystwyth ; manwl, cryno.

Buckrams, *s. pl.* garlleg gwyllt, craf y geifr, craf gwyllt, craf y nadroedd.

Buckshorn, *s.* (*buck* a *horn*) corn y carw, llyriad, erllyriad, llysiau Efa, seren y ddaiar.

Buckshorn plantain—corn y carw, llysiau Efa, llyriad.

Buckskin, *s.* (*buck* a *skin*) hyddgen, hyddgroen, croen carw, croen bwch danys.

Buckskin, *a.* o groen hydd; hyddgenaidd.

Buckstall, *s.* (*buck* a *stall*) annel, danasrwyd, bychrwyd.

Buckthorn, *s.* (*buck* a *thorn*) rhafnwydden; *pl.* rhafnwydd.

Sea buckthorn, Sallow thorn, } myr-rafnwydden, mor-rafnwydden, rhafnwydden y môr, rhafnwydden arfor.

Buckthorn berries—grawn *neu* aeron y rhafnwydd.

Buckwheat, *s.* (Al. *buchweizen*=beech-wheat; Is. *boek-weit*) gwenith yr hydd, gwenith y bwch.

Climbing buckwheat—yttag, taglys yr yd, perthlys.

Bucolic, } *a.* (Gr. *boucolicos*) bugeilig, bugeil-
Bucolical, } iol, bugeilaidd, bugeiliaidd.

Bucolic poet — bugeilfardd, bugelfardd, bugeilegydd, prydydd bugeilig.

Bucolic poetry—barddoniaeth fugeiliol, prydyddiaeth fugeilig, bugeilfarddas.

Bucolic poem—bugeilgerdd, bugeilgan, bugeileg, cerdd fugeiliol.

Bucolic, *s.* bugeileg, bugeilgerdd, bugeilgan; bugeilfardd, bugeilegydd: *pl.* bugeilegion, bugeiligion, bugeilgerddi, bugeilganau.

Bud, *s.* (Is. *bot*; Ff. *bouton*) blaguryn, eginyn, bywullyn, balgur, blaendardd, baldardd, bal, balennyn, blaendwf: *pl.* blagur, blaguron, bywull, bywullion, blaendarddion, blaendyfion, egin.

Leaf-bud—deilflagur.

To nip in the bud—lladd yn yr eginyn; peri gwywo yn y blaguryn; peri methu cyn ffynnu; lladd, mygu, tagu, *neu* fogi yn yr enedigaeth; deifio yn y blagur.

Nip vice in the bud—lladd wŷd yn ei febyd.

His hopes were nipped in the bud—bu farw, marwodd, *neu* trengodd ei obaith yn yr enedigaeth; darfu am ei obeithion yn yr enedigaeth; pallodd ei obeithion cyn cael o honynt eu geni.

I have caused thee to multiply as the bud of the field—yn fyrddiwn y'th wnaethym, fel gwellt y maes (*Esec.* xvi. 7).

Full of buds—blagurog; llawn o flagur, &c.

Bud, *v.* blaguro, egino, bywullu, blaendarddu, baldarddu, blaendyfu, tarddu, pibori, balannu, blodeuo, agor; tarddu allan; bod mewn blodau; impio; prifio.

To bud again—adflaguro, adegino, attarddu, attyfu, adfwrw blagur, adfalannu.

To bud together—cydflaguro, cydegino, cydfalannu, cyttarddu.

To bud trees—impio *neu* fywullu coed.

Budding instrument—bwsg; *pl.* bysgau.

Young budding virgin—gwyryf dirfoed; gwyryf ieuanc yn ei blodau; morwyn ieuanc dirf.

Buddha, *s.*=*Boodh*, *Budh*.

Buddhism, *s.*=*Boodhism*, &c.

Buddhists, *s. pl.*=*Boodhists*, &c.

Budding, *s.* (o *bud*) blaguriad, eginad, blaendarddiad, baldarddiad, bywulliad, balant, baldardd, piboriad, tardd, tarddiad, tarddiad allan, bala; impiad; tyfiad, blodeuad.

First budding—cyndarddiad, cynfalant, cyndyfiant, cynnhyfiant, cynnhwf, cyndwf.

Buddingness, *s.* (o *budding*) blagurolrwydd, eginoldeb, bywullogrwydd, blaendyfolrwydd.

Buddle, *s.* (?) golchfa mwn, mwnolchle, mwnolchfa; mwnolchyr; golchle.

Buddle, *v. n.* mwnolchi; golchi *neu* ddadfyngu mwn.

Budge, *v. a.* (Ff. *bouger*) chwimio, ymsymmud, syflyd, ysgytio, ysgogi, ysgogyd.

Budge,† *a.* chwimmwth, heini; llonwych; anhynaws, blwng, surllyd, anfwyn, ystyfnig, anhyblyg, ffurfiol, chwyddedig.

Budge, *s.* (Ff. *bouge*) cen-gen, cenban, pânwlan =croen oen wedi ei drin â'r gwlan arno.

Budge-bachelors—pân-febyddion.

Budge-barrel—cenfaril, cenwain=math o faril bylor.

Budgeness, † *s.* (o *budge*) sarigrwydd, blyngder, gerwinder, afrywiogrwydd, toster, ystyfnigrwydd.

Budger, *s.* (o *budge*) symmudwr, chwimiwr, ysgogwr.

Budget, *s.* (Ff. *bougette*) cod, coden, ffetan, bolgan, bwlgan, bwlan, ysgrepan; cedres, cyllid, cyllideb, daeriadeb; ystor, amledd.

Budgy,† *a.* (o *budge*) panog, panaidd, o bân.

Budlet, *s.* (o *bud*) blaenflaguryn; blaguryn bychan.

Buff, *s.* (talfyriad o *buffalo*) bualgen, croen bual; hyddgen; bualgob; llebliw, lliw bualgen; llebwy; ergyd.

Buff coat—bualgob, coban fualgen, bualhugan, pais o groen bual.

Buff *or* buffy coat (on the surface of blood)—bualgen, llebwy.

Buff, *v. a.* taraw, rhoi ergyd.

Buffalo, } *s.* (It. ac Ysp. *bufalo*; Ff. *buffle*;
Buffle, } Ll. *bubalus*) bual, (*pl.* buail), yak gwyllt.

Buffalo-robe—bualgen; croen bual America Ogleddol.

Buffalo's horn — bualgorn, buelin, corn bual.

Cups made of buffalo's horns—bualgyrn, buelinau.

Of *or* belonging to a buffalo—buelin, bualaidd; perthynol i fual.

Buffel, *s.* yr hwyad benfual.

Buffel's-head duck, Buffel-headed duck, Buffel duck, } hwyad benbual, hwyad ben bual, hwyaden ben bual

Buffer, *s.* (o *buff*, taraw) rhagodydd, parfydd=peth i rwystro cerbydau i daraw yn chwyrn wrth eu gilydd ar reilffyrdd.

Buffet, *s.* (Ff.; It. *buffeto*) nester, cilnester, cibgell, cilior.

Buffet stool—ystol drithroed, ystol hyglud, cader hyddwyn.

Buffet, *s.* (It. *buffeto*) cernod, dyrnod, cernhep, bonclust, ysmacht, ysmach, maedd, maeddgen; llach.

Buffet, *v.* cernodio, dyrnodio, cernhepio, bonclustio, ysmachtio, maeddu, baeddu, bwbachu, paffio, cobio, bustachu, maeddgenu; ymryson yn erbyn; gwrthladd, gwrthwynebu.

We are buffeted—yr ydym yn cael cernodiau (1 *Cor.* iv. 11).

Buffeter, *s.* (o *buffet*) cernodiwr, dyrnodiwr, cernhepiwr, paffiwr, maeddwr, bonclustiwr, ysmachtiwr, bustachwr.

Buffeting, *s.* (o *buffet*) cernodiad, dyrnodiad,

cerahepiad; ymryson; ymosodiad, ymgyrch, gwrthwynebiad.

Buffa, *s.* (?) math o ddefnydd garw.

Buffle, *s.* (Ff.) bual, ych gwyllt.

Buffle-horn cup—buelin, bualgorn.

Buffle, *v. n.* (Ff. *beffer!*) dyrysu, methu, ffeigio; bod mewn cyfyng gynghor.

Buffle-head, *s.* (*buffle* a *head*) penfawr, un â phen mawr; hurthgen.

Buffle-headed, *a.* (o *buffle* a *head*) penfawr, pendew, pendrwm; penbwl, penbylaidd, dwl, ffol.

Buffon, *s.* crechydd Numidia.

Buffonia, *s.* (oddi wrth G. L. Le C. *Buffon*, yr Aniaynydd Ffrengig) Bwffonia, Buffonia.

Buffoon, *s.* (Ff. *bouffon*) ysgentyn, croesaniad, croesanwr, croesan, ystumiwr, digrifwas, chwarddgampiwr, ffwl y ffair, mab yr epa, arabwr, munudiwr, gwatwarwr, mociwr, chwidrwr, digrifyn, gwas digrif, chwydawydd, ysmaldodwr.

Buffoon, *v. a.* chwareu yr ysgentyn, &c.; gwneyd yn chwerthinus; chwerthin am ben.

Buffoonery, } *s.* (o *buffoon*) croesanaeth, myd-
Buffoonism, } umiaeth, ystumiaeth, munudiaeth, chwidredd, chwydawiaeth, cymmwedd, chwarddgampwaith, ysmaldod, gwatwariaeth, mociaeth, ffolddigrifwch, coegchwareu, gwegi, arabedd, ffoledd; ystumian digrif.

Buffooning, *s.* (o *buffoon*)=*Buffoonery.*

Buffoonish, } *a.* (o *buffoon*) ysgentynaidd,
Buffoonlike, } croesanaidd, ysmala, digrifiawn, digrif, arabeddus, cellweirus, dysmal.

Buffoonize, *v. n.* (o *buffoon*) chwareu yr ysgentyn neu y croesan, &c.; ysmaldodi, cellwair, chwidreddu.

Buffoonly, *a.* (o *buffoon*) ysgentynaidd, croesanaidd, ysmala.

Bufo, *s.* (Ll.) llyffant, llyffan.

Bufoidæ, *s. pl.* (Ll. *bufo*, a Gr. *eidos*) llyffantogion, llyffantolion, llyffanogion, llyffantryw; llyffaint.

Bufonite, *s.* (Ll. *bufo*) llyffantfaen, llyffanfaen.

Bug, } *s.* (C. *bwg*) bwg, bwgan, bw, bo,
Bugbear, } bwbach, bwcai, bwci, hudwg, hwdwg, bolol, bredych, hugwd, bygwydd, coblyn.

Bug, *s.* (?) torogen, trogen, drewen, drewyn, drewlseen: *pl.* torogod, trogod, drewlan.

May-bug—chwilen, chwil, chwilen ddu.

White bug—gwendrogen, torogen wèn.

Bugee, *s.* math o epa Indiaidd.

Bugger, } *s.* (Ff. *bougre;* Is. *boggeren*) gwrywgydiwr, Sodomiad; milgydiwr; ymlochlachwr.
Buggerer, }

Buggerry, *s.* (*bugger*) gwrywgydiad, Sodomiaeth; milgydiad, milrywgydiad; ymlochlach.

Bugginess, *s.* (o *buggy*) trogenogrwydd, drewnogrwydd.

Buggy, *a.* (o *bug*) trogenog, drewenog; llawn torogod, &c.

Buggy, *s.* cerbyd unmarch penagored.

Bugle, } *s.* (C. *bugail;* Ll. *buculus*, ych)
Bugle-horn, } bualgorn, buelin, helgorn, corn hely, corn hela; corn rhyfel, cadgorn, llugorn, rhyfelgorn.

Bugle, *s.* glain, glain gwydr, gleinron gwydr.

Bugle, *s.* (Ll. *buculus*) ych gwyllt, bual.

Bugle, *s.* (Ll. *bugula, bugillo*) golchenid, glesyn y coed, llysiau Mair.

Common bugle—golchenid gyffredin, glesyn y coed, llysiau Mair.

Bugle-weed—golcheindlys.

Bugloss, *s.* (Gr. *bouglôsos;* Ll. *buglossus*) tafod yr ych, tafod y fuwch.

Viper's bugloss—gwiberlys, glesyn y wiber.

Common viper's bugloss—gwiberlys cyffredin, bronwerth y wiber, tafod y bwch, tafod yr afr.

Small bugloss—bleidd-drem, tafod yr ych culddail.

Garden bugloss—tafod yr ych meddygol.

Wild bugloss—tafod yr ych gwyllt.

Bugwort, *s.* (*bug* a *wort*) trogenlys, trogendarf.

Buhl, *s.* (oddi wrth ddyn o'r enw) aur neu bres anghaboledig.

Buhl-work, *s.* coed wedi eu brith-addurno â metteloedd, &c.; Buhl-waith.

Build, *v.* (S. *byldan;* D. *bilder*) adeiladu, adeilo; gwneuthur, codi; saernïo; codi adeilad; seilio.

To build a wall—murio, magwyro, gwalio; adeiladu neu godi mur neu wâl.

To build again—ail adeiladu, adadeiladu, adeilo drachefn, adeiladu drachefn.

To build together—cydadeiladu, cydadeilo.

To build before—rhagadeiladu, rhagadeilo.

To build under—adeiladu oddi danodd; goseilio, gwadnu, sylfaenu.

To build by, unto, *or* near to—adeiladu wrth; ychwanegu at; cadarnhau trwy attegwaith; atadeilo.

To build up—adeiladu; gorphen adeilad; codi.

To build on *or* upon—goruwch-adeiladu; adeilo ar, adeiladu ar.

Another buildeth thereon—y mae arall yn goruwch-adeiladu; arall a adeilada arno.

If any man build upon this foundation—os goruwch-adeilada neb ar y sylfan hon; os adeilada neb ar y sylfaen hwn.

To build *or* pile up—cludeirio, pentyru, curtio, dasylu, dasyrnu, mydylu; pentyru neu gludeirio i fyny.

To build *or* rely on—pwyso ar; rhoi pwys ar; rhoi coel, goglud, neu hyder ar; hyderu ar; ymorphwys ar; ymddiried neu hyderu yn neu mewn; rhoi ymddiried mewn.

I build my hopes upon your promise—yr wyf yn pwyso ar eich addewid; yr wyf yn rhoi fy mhwys ar eich addewid; y mae fy ngobaith yn eich addewid; rhoddaf neu rhoaf fy ngobaith yn eich addewid; seiliaf fy ngobaith ar eich addewid.

I build upon your word—ymddiriedaf yn eich gair; rhoddaf fy ymddiried yn eich gair chwi; yr wyf yn ymorphwys ar eich gair chwi.

He built the walls of the house within with boards of cedar—efe a fyrddiodd barwyddydd y ty oddi fewn âg ystyllod cedrwydd (1 *Bren.* vi. 15).

The church is being built—adeiladir yr eglwys.

He built ships—efe a wnaeth neu a adeiladodd longau.

He built great bulwarks against it—efe a gododd glawdd uchel yn ei herbyn (*Preg.* ix. 14).

That may be built—adeiladwy.

Builder, *s.* (o *build*) adeiladydd, adeiladwr, adeilydd, adeilwr; saer, gwneuthurwr.

Whose builder and maker is God—saer ac

adeiladydd yr hon yw Duw (*Heb.* xi. 10).

Master-builder — pensaer, penadeilydd, prifadeiladydd, penadeiladwr.

Building, *s.* (o *build*) adail, adeilad, adeiladaeth, adeilwaith, adeildy, adeilfa; magwyrad; ty.

Ship-building — llongyddiaeth, llongsaerniaeth, llongwaith, adeilad llongau.

Bridge-building — pontyddiaeth, pontadeilwaith, pontwaith, pontadeiliaeth.

Wall of a building—mur, gwâl, neu fagwyr adeilad; magwyren.

Decay *or* fall of a building—adfail; *pl.* adfeilion, adfeiliau.

To take down a building—tynu neu fwrw adeilad i lawr; dadadeiladu, dadadeilo, dïadeilo.

The art of building—adeilyddiaeth, adeiladaeth, pensaerniaeth, saerniaeth, corfïnyddiaeth.

Model of a building—cynllun, rhaglun, neu argraff adail.

Surveyor of buildings—adeilior; golygwr adeiliau neu adeiladau.

Built, *s.* (o *build*) adeilad, adeiladiad; ffurf, llun, dull; ffurfiad, lluniad; dull neu ffurf o adeilad.

Bul, *s.* (?) lleden, llythïen.

Bulb, *s.* (Gr. *bolbos*; Ll. *bulbus*; Ff. *bulbe*) llòr, crŷnwreiddyn, crŷnben; oddf: *pl.* llorau, crŷnwreiddiau, crŷnwraidd, crŷnbenau.

Bulb, *v. n.* sefyll allan neu yn mlaen; oddfi; crothi, dargrothi; llori.

Bulbaceous, *a.* (o *bulb*) llorog, crŷnwreiddiog.

Bulbed, *a.* (o *bulb*) pengrwn.

Bulbiferous, *a.* (Ll. *bulbus* a *fero*) llorddwyn, llorddygol, llorog.

Bulbiform, *a.* (Ll. *bulbus* a *forma*) lloraidd, crŷnbenaidd.

Bulbogemma, *s.* (Ll. *bulbus* a *gemma*) llorflagur, llordardd.

Bulbotuber, *s.* (Ll. *bulbus* a *tuber*) lloroddfyn, llorgnap, llordopyn.

Bulbous, *a.* (o *bulb*) llorog, crŷnwreiddiog, oddfog, crŷnbenog; crwn.

Bulbous root—crŷnwreiddyn, llorwreiddyn: *pl.* crŷnwraidd, crŷnwreiddiau, llorwraidd, llorwreiddiau.

Little bulbous rush—corfrwynen, brwynen ledglymog.

Bulchin, *s.* (o *bull*) llo gwryw, tarw bach.

Bulge, *s.* (C. *bwlg*) crwb, crwmp, chwydd, cnwc, hwrwg, cest, dargest, tor, bwlg; tolc; cest llong; agen, hollt.

Bulgeway — torgoed, cestgoed, crybgoed, cestwydd.

Bulge, *v. a.* chwyddo allan; chwyddo, crythu, dargestu, crothi, bylgu, dargrothi, gorgrothi; tolcio; cestagenu, agenu.

To bulge in—pantu, pannylu.

Bulging, *a.* (o *bulge*) yn chwyddo allan; crythog, crothog, dargestog; cestagenog.

Bulimia, } *s.* (Gr. *boulimia*) gorwanc, newyn-
Bulimy, } wst, newyn-glwyf.

Bulithum, *s.* (Gr. *bous* a *lithos*) bufaen, biwfaen.

Bulk, *s.* (C. *bwlg*; Gw. *balc*) maint, maintioli, maintiolaeth, meintiolaeth; swmp, sum, swm, sym; corffolaeth, corff, cyff; praffder, rhefder, rhefdra, breisgedd, ffyrfder, crynvth, clamp, talp; bwlg; rhagfwrdd; bargod; mwyafiaeth, mwyafiant, y rhan fwyaf; y lluaws.

The bulk of the people—y rhan fwyaf o'r bobl; corff y bobl; y werin, y werinos, y lluaws, y werin bobl.

It is of no great bulk—nid yw o fawr swmp, swm, neu faint.

That fit shattered all his bulk—yssigodd y cyrch hwnw ei holl gorff; y cyrch hwnw a yssigodd ei gyff oll.

Vast bulk—maint amrosgo neu anferth; anghenfaint; aruthredd maint, maintioli aruthr.

Of vast bulk—anferth o faint; mawr anferthol; dirfawr o faint; aruthr o faint.

To break bulk—dilwytho llong; dechreu dad- neu ddi-lwytho llong; tori ar lwyth llong.

Laden in bulk—â'r llwyth yn rhydd yn y ceudod; yn rhydd-lwyth.

To sell by the bulk—gwerthu dân neu wrth swmp; gwerthu yn y crynswth; gwerthu wrth y talp; gwerthu wrth y swmp.

Bulk of a ship—eangder, eangrwydd, cynnwysiad, neu faint llong; bwlg llong.

Bulk-head—y pen bwlg, pen y bwlg.

Bulkiness, *s.* (o *bulky*) praffder, ffyrfder, breisgedd; maintiolaeth, maint; corffolaeth; mawrder, amrosgëedd.

Because of its bulkiness—herwydd ei faint.

Bulky, *a.* (o *bulk*) mawr, praff, braisg, ffyrf, helaeth, ehelaeth, eang, cynnwysfawr; corffol, aneiddil, tew; mawr o faint; o faintioli mawr; bylgus, sumiol, marthus.

Very bulky—amrosgo, abrwysgl, dirfawr, anferth, amryffieu; amrosgo neu anferth o faint, &c.

Bull, *s.* (Al. *bulle*, *bull*; C. *bwla*) tarw; bwla, bittolwa.

Gelded *or* splayed bull—bwla, dadfwl, adfwl, buelyn, attarw, tarw dysbadd.

Vicious bull—tarw rhuthrog, tarw barus.

A story of a cock and a bull—chwedl y ceiliog a'r tarw; chwedl heb na phen na chynffon; chwedl heb na dyben na dosbarth; chwedl ddilun.

John Bull—Siôn Ben Tarw; y wlad; pobl Prydain.

Bulls and bears—teirw ac arthod; prynwyr a gwerthwyr ariansoddion.

The Bull, } y Tarw, arwydd y Tarw=un
Taurus, } o'r deuddeg arwydd.

Town-bull — tarw y plwyf; bragaldiwr bocsachus.

Earth turned up by a bull—bugiawdd.

Wild bull—tarw gwyllt, yeh gwyllt, bual.

Bull's pizzle—gwialen tarw.

Strong bulls of Bashan — gwrdd deirw Basan.

Twelve brasen bulls—deuddeg o ychain pres (*Ier.* lii. 20).

Bull, *s.* (Ll. *bulla*; It. *bolla*) selwarant, baneb, archlythyr, banlythyr, archiadeb, pabarchiad, pabarcheb; gwrthiaith, gwrthddywediad, gwrthuni, camsyniad, anghyssoniaith.

Pope's bull—selwarant y Pab, baneb y Pab, pabarchiad, llythyr insel y Pab, pabwarant, gwarant y Pab.

The golden bull—y selwarant aur, y faneb aur=archiadeb neu gyhoeddiad o eiddo Carl v. amherawdwr yr Almaen.

leaden bulls—banebion plwm, selwarantau plwm.

Waxen bulls—banebion cwyr, archlythyrau cwyr.

Bullace, *s.* (?) eirin y perthi, eirin gwyllt'ion, eirin surion, eirin duon bach, eirin tag, eirin duon tag, aeron duon bach, bwlas, eirin bwlas.

Bullace-tree — draenen ddu, duddraenen, eirinbren gwyllt, bwlas, pren bwlas.

Bullantic, *a.* (o *bull*) banebig, pablythyrol; perthynol i fath o briflythyrenau arferedig yn y pabarchau.

Bullary, *s.* (o *bull*) casgl o babarchau; casgliad o selwarantau pabaidd.

Ballate, *a.* (Ll. (*bullatus*) ffothellaidd, pothellaidd; wyfalgrwn.

Bullbaiting, *s.* (*bull* a *bait*) cyfarthfa teirw, tarwgwnad; ymgyrch neu ymladd cwn a tharw.

Bullbeef, *s.* (*bull* a *beef*) cig tarw.

To look as big as bullbeef—bod yn barod i ymdori gân falchder; bod ar ymdori gân falchder; edrych neu dremu yn drahäus.

Bullbeggar, *s.* (*bull* a *beggar*) bwgan, bwbach, bw, bo.

Bullcalf, *s.* (*bull* a *calf*) llo gwryw; hurthgen, brebwl, llelo, ffwlcyn, pendew.

Bullchafer, } *s.* (*bull* a *chafer*) chwilen gorniog,
Bullfly, } cawrchwil, cawrchwilen, chwildarw, gwas y neidr, gwaell y neidr, tarw y dwfr.

Bulldog, *s.* (*bull* a *dog*) targi, ci tarw, tarwgi, cystawoci, cipiad, (*pl.* cipiaid), gafaelgi.

Bullen-nails, *s. pl.* hoelion pengrwn efyddaid.

Bullet, *s.* (*Ff. boulet*) peled, pelen, pelen gŵn, maen gŵn, bwleden, bolawd, bwled, gynfaen, maen blif, gynbel.

Bulletin, *s.* (Ff.) cyhoeddiad, cyhoeddeb, hoeddeb, hysbysiad, adroddiad, mynegiad.

Bibliographical bulletin—cyhoeddiad *neu* hysbysiad llyfronol.

Bullfaced, *a.* (*bull* a *face*) wynebfawr, gwynebglawr, wyneblydan; â gwyneb tarw iddo; gwynebdarw.

Bullfeast, } *s.* ymladd teirw; tarw-ornest=
Bullfight, } math o ddifyrwch anwar yn mhlith yr Ysbaeniaid a'r Portugiaid.

Bullfinch, } *s.* (*bull* a *finch*) y rhawngoch, coch
Bullinch, } y berllan, chwibanydd, y tingoch, llostruddyn.

Black bullfinch — y chwibanydd du, y rhawnddu.

White bullfinch—y chwibanydd gwŷn, y rhawnwyn.

Speckled bullfinch—y chwibanydd brith, y rhawnfrith.

Bullfly, } *s.* = { *Bullchafer.*
Bullbee, } { *Bullfly.*

Bullfoot, *s.* (*bull* a *foot*) troed y tarw, carn yr ebol, alan bychan, pesychlys.

Bullfrog, *s.* (*bull* a *frog*) creiniog mawr, gorgreiniog.

Bullhead, *s.* (*bull* a *head*) penbwla, penbwl, bawd y melinydd, gwrachen; dyn penglwpa, pendew, pemfras, clwpa, penbwl o ddyn, hurtyn, hurthgen, pendrwm, brebwl.

Bullion, *s.* (*Ff. billon*) aur clamp, arian clamp, aur talp, arian talp, eurdalp, ariandalp; aur neu arian yn y clamp, neu heb ei fathu; mwnaidalp, alfwnon.

Bullirag, } *v. a.* (o *bully*) sarhau dân fygylu;
Bullarag, } bygylu, sarhau.

Bullish, *a.* (o *bull*) tarwaidd; gwrthun, camsyniol, gwrthieithol, anghyssonaidd.

Bullist, *s.* (o *bull*) banebydd, banlythyrydd, ysgrifenydd pabarchiadau.

Bullite, *s.* (Ll. *bulla*) selfaen.

Bullition, *s.* (Ll. *bullio*) berwad, berwedd, dyferwad, gorferwad, berwyd, berw.

Bullock, *s.* (S. *bulluca*; Al. *bullochs*) bustach, (*pl.* bustachod, bustachiaid, bustych); eidion, ych, enderig, dyniawed.

Let him kill the bullock—lladded yr eidion (*Lef.* i. 5).

When thou preparest a bullock for a burnt-offering—pan ddarperych lo buwch yn offrwm poeth (*Num.* xv. 8).

Thus shall it be done for one bullock—felly y gwneir am bob ych (*Num.* xv. 11).

Bullock's eye — toffenestr, nenffenestr, ffenestr to, ffenestr pen ty.

Bullocks' sheds — pentai bustych, pentai ychain.

Bullstag, *s.* (*bull* a *stag*) attarw, adfwl, dadfwl, buelyn.

Bulltrout, *s.* (*bull* a *trout*) brithyll mawr; brithyll gwryw.

Bullweed, *s.* (*bull* a *weed*) llysiau y tarw, cramenog, pengaled, madfelen.

Bullwort, *s.* (*bull* a *wort*) esgoblys, llysiau yr esgob.

Bully, *s.* (Sw. *böla, buller*; S. *bulgian*) bygylwr, bocsachwr, ymgecrwr, dwndrwr, cwerylwr, ffrostwalch, coegryswr; rhyswr dybiren.

Bully, *v.* bygylu, bocsachu, ymgecru, dwndro, crochdaeru; sarhau, argoddi.

He bullies me daily—y mae yn fy mygylu beunydd; efe a'm bygyla beunydd.

Bulrush, *s.* (*boll* neu *bull* a *rush*) llafrwynen, corsfrwynen, tostfrwynen, lladdfrwynen; brwynen: *pl.* llafrwyn, &c.

Bulrush bed—cors, twyn llafrwyn, twyn brwyn, twmpath llafrwyn.

Full of bulrushes—llafrwynog, corsfrwynog, brwynog; llawn o lafrwyn, llawn corsfrwyn, &c.

Vessels of bulrushes—llestri brwyn (*Esa.* xviii. 2).

Is it to bow his head like a bulrush?—ai crymu ei ben fel brwynen ydyw? (*Esa.* lviii. 5).

Bultel, *s.* (Norm. *bulter*) brân, rhuchion, rhuddion; peillgarthen, peillgwd, rhuwchlian.

Bulwark, *s.* (Al. *bollwerk*; Sw. *bolverck*) gwrthglawdd, rhagfur, gwrthfur, ysgor, gwarchglawdd, amddiffynfa, diffynglawdd, bwrch, gwerthyr, gwrthyr, caer, caerfa; diogelfa, amddiffyn, diogelwch, nodded, nawdd, cadernid, noddle.

On the towers and upon the bulwarks—ar y tyrau ac ar y conglau (2 *Cron.* xxvi. 15).

Bulwark, *v. a.* cadarnhau gwrthglawdd *neu* ragfur; amgaeru, caeru, rhagfurio, gwrthfurio; amddiffynu, diogelu, cadarnhau.

Bum, *s.* (Is. *bomme*) tin, bontin, ffolen, pedrain, y cyfeistedd.

Bum, *v. n.* cadw swn, swnio; mwngial, myngial.

Bumbailiff, *s.* (llygriad o *bound bailiff*) ceisbwl, ceisiad, isgeisiad, gafaelwr, gwysiwr; cynffon y gyfraith.

Bumbard, *s.*=*Bombard.*

Bumbast, *s.* clytwaith; sechnwydd, sagnwydd, saglian.

Bumble-bee, *s.* (Ll. *bombus*) begegyr, bychygyr.

Bumboat, *s.* (o *bum* neu *bump* a *boat*) porthgwch, porthfad.

Bumkin, *s.* (o *bump*, a S. *kyn*, math, rhyw) hwylbolyn.

Bump, *s.* (C. *pwmp*; Goth. *bomps*) cnwc, chwydd, hwrwg, oddf, oddfyn, pwmp, pothan, pothon; dyrnod, ergyd.

My head is all over bumps—y mae fy mhen yn gnyciau drosto i gyd; mae fy mhen yn un chwydd gân ddyrnodiau.

Bump, *v. a.* dyrnodio, pwmpio, ergydio; codi yn gnwc.

Bump, *v. n.* (C. *bwmp*) bwmbro, bwmpio, cadw bwmbwr; lleisio fel aderyn y bwn.

Bumper, *s.* (o *bump*) *cy*forgib, llawnwydryn, cibli; cwpan cyforiog; llawn gwpanaid.

Fill a bumper—cyforiwch y cwpan.

Bumpkin, *s.* (*bump*, a *kin*, neu S. *kyn*) delff, taiogddyn, cuall, drel, ystelff, llabi, lleban, buach, dyn gwladaidd, llabwst.

Bumpkinly, *a.* (o *bumpkin*) delffaidd, cuall, taiogaidd, buachaidd, gwladaidd.

Bun, } *s.* (Ysg. *bun*, *bunn*; Gw. *bunna*; Gr.
Bunn, } *bounos*; Ysp. *bunuelo*) chwiog, chwiogen, mîoden, teisen fiod: *pl.* chwiogod, mîod.

Bunch, *s.* (D. *bunke*; C. *pwng*) swp, sypyn, twff, tusw, tuswy, clwm, cwlwm, cwlm, sobyn, sob, soban, sobe, siobyn, pwng, cobyn, rhawol, swba, bagad, bagwy, magwy; oddf, oddfyn, cnwc, cwgn, cnwb, cnap, hwrwg, chwydd, tasgell, cnu, topyn, clysdwr, rhafol, cyttwr.

A small bunch—soban, sobyn, siobyn, sobe, swba, tyffyn, bagedyn, pyngyn; swp, *neu* sypyn bychan; cnycyn, cygnyn, oddfyn, crugyn, chwydd bychan.

A bunch of grapes—swp, bagad, *neu* fagwy o rawnwin.

A bunch of nuts—cwlwm, clwm, cwlm, pyngyn, bagad, *neu* fagedyn o gnau.

A bunch of garlic—clwm o arlleg, cwlm garlleg.

A bunch of keys—cwlwm *neu* glwm o allweddau *neu* agoriadau.

A bunch of little sticks—swp, dyrnaid, *neu* ffagoden o friw-wydd.

A bunch of flowers—tasgell o flodau, blodeuglwm, swp o flodau, clwm o flodau, blodeuswp, twff o flodau.

A bunch of feathers—sobyn, siobyn, sob, *neu* dusw o blu; plufdusw.

A bunch of hair—tusw *neu* duswy o wallt; twff *neu* sobyn o wallt; llyweth o wallt; cnuwch o wallt.

He is the best of the bunch—efe yw y goreu o'r llwyth *neu* o'r genedl.

Hard bunch—caledchwydd; chwydd, cnwb, *neu* gnwc caled.

The bunch on a camel's back—y cnwc, y cnwb, *neu* yr hwrwg ar gefn camel; oddf cefn camyll.

Upon the bunches of camels—ar gefnau camelod (*Esa.* xxx. 6).

A bunch of hyssop—tusw o isop (*Ecs.* xii. 22).

Bunch, *v.* ymsypio, sypio, bagwyo, bagadu, tuswo, tuswyo, clysdyru, tasgellu, tyffo, siobynu; chwyddo, chwyddo allan, oddfi, cnycio, cygnu.

Bunchbacked, *a.* (*bunch* a *back*) cefn-grwm, cefnhwrwg, cefn-grwba, cefn-grwbi, crwca; â hwrwg, cnwc, *neu* gnwb ar ei gefn.

Bunchiness, *s.* (o *bunchy*) bagwyogrwydd, bagwyolrwydd, bagadogrwydd, clymogrwydd, sypiolrwydd; oddfogrwydd, cnycogrwydd, cnapogrwydd.

Bunchy, *a.* (o *bunch*) bagwyog, bagadog, sypiog, siobynog, tuswog, tuswyog, bagwyol; oddfog, cnycog, cnapog, cygnog.

Bundle, *s.* (S. *byndel*; Al. *bündel*) sypyn, bwrn, bwrnel, byrnaid, sopyn, sopen, trwm, trŵl, (*pl.* trylau), twysg, rhef, ffun, tasgell, ffasgell, ffagoden, oedysen, (*pl.* oedys), sybwrn, dref, cnuwch, swb, swp, llyweth, tusw, cwlwm, rhwym, rholyn, rhol, dylwf, ysgub, crafangaid, pyner, rhwymfaich.

A small bundle—byrnyn, sypyn, dylofyn, ffunell, cubyn, tusw, twygen, sypynyn.

In bundles—yn sypynau, yn sopeni, yn fyrnau, yn ffagodau, &c.

A bundle of sticks—ffagod, ffagoden; clwm, ysgub, *neu* rwym o goed, o fanwydd, *neu* o friw-wydd.

A bundle of brushwood—cnuwch o wyddeli; tasgell, ffasgell, *neu* ffagoden o fanwydd.

A bundle of straw—sopen o wellt, sopen wellt.

The bundle of hay—y sopen wair.

A bundle of flax—llyweth o lin, bâl o lin, tusw o lin.

A bundle that may be taken under the arm—ceseilwrn.

Behold, every man's bundle of money was in his sack—wele godaid arian pob un yn ei sach (*Gen.* xlii. 35).

When they saw the bundles of money—pan welsant y codau arian (*Gen.* xlii. 35).

The soul of my lord shall be bound in the bundle of life—enaid fy arglwydd a fydd wedi ei rwymo yn rhwymyn y bywyd (1 *Sam.* xxv. 29).

Bind the tares in bundles—rhwymwch yr efrau yn ysgubau.

When Paul had gathered a bundle of sticks—gwedi i Paul gynnull yn nghyd lawer o friw-wydd (*Act.* xxviii. 3).

A bundle of myrrh is my wellbeloved unto me—fy anwylyd sydd i mi yn bwysi myrr (*Can.* i. 13).

Bundle, *v. a.* sypynu, byrnio, sypio, sopenu, sybyrnio, bwrnelu, ffasgu, tasgellu, ffasgellu, cydrwymo, trylio, sopio, llywethu, drefu, ffagodi, ffunenu, pynorio, pynio; cylymu, rhwymo, ffunenu, *neu* wasgu yn nghyd; gwneuthur *neu* rwymo yn sypyn, yn fwrn, *neu* yn sopen; rhwymo *neu* glymu yn ysgubau.

To bundle up=*Bundle*, *v. a.*

Bung, *s.* (C. *bwng*; Ff. *bondon*) terth, twmffed, byngyr, clawr bwng, casad twll baril.

Bung-drawer—byngdynydd, byngdynyr, gordd bwng.

Bung, *v. a.* byngio, byngu, terthu, byngyru, byng-glorio; cau bwng; rhoi casad *neu* glawr ar fwng baril; argau, cau i fyny.

Bungai-serpent, *s.* creigsarff, sarff Bungai=math o sarff berthynol i'r India Ddwyreiniol.

Bungalow, *s.* (gair Indiaidd) gwlatty neu

gbandy o ddefnyddiau ysgafn, yn yr India Ddwyreiniol.

Bunghole, *s.* (*bung* a *hole*) bwng, twll baril, derbyndwll baril, twll y bwng.

Bungle, *v.* (C. *bungler*, *bongler*) bonglera, bwngleru, carbylu, braeglytio, clytio, clytweithio; gwneuthur yn anghelfydd, anfedrus, anhyfedr, annhaclus, trwsgl, *neu* chwithig.

A bungling piece of work=*Bungle*, *s.*

Bungle, *s.* bonglerwaith, bwnglerwaith, braswaith, clytwaith, trwsglwaith, hyllwaith, trygledd, annybenwaith, methwaith; gwaith anghelfydd, &c.

Bungler, *s.* (C. *bongler*) bongler, bwngler, bonglerwr, bwnglerwr, bongleryn, bon y gler, mwagrellyn, tryglyn, anfedrusyn; gweithiwr anfedrus, trwsgl, &c.; dyn difedr *neu* anfedrus.

Bungling, *a.* (o *bungle*) bongleraidd, chwithig, lledchwith, carbwl, trwsgl, trwstan, anfedrus, trwsglaidd, anghelfydd, afluniaidd, anghrefftwraidd, annhaclus, anhyfedr.

In a bungling manner—yn drwsgl, yn fongleraidd, &c.

A bungling fellow=*Bungler*.

Bunias, *s.* (Gr. *bounos*, bryn) hegydd=rhyw o blanigion.

Bunion, *s.* (Gr. *bounos?*) corn bawd, corn ar fawd, corn ar fys troed, bysgorn.

Bunium, *s.* (Gr. *bounos*) bywi, clor, cylor, cnau y ddaiar, daiargnau.

Bunn, **Bun**, *s.* = *Bun*, *Buns*.

Bunsing, *s.* math o filyn à geir yn Mhenryn Gobaith Da.

Bunt, *s.* (C. *punt?* o *bent*, yn ol y *Dr. Skinner*) casol, ceudod, *neu* gest hwyl; hwylgod, hwylchwydd, hwylgeudod: ceuffordd, ffynell.

Bunt, *v. n.* chwyddo gân wynt; ceuo *neu* ymchwyddo fel hwyl gân wynt; hwylchwyddo, hwylgeudodi: cornio, hyrddio.

The white bosom of the sail bunts out—chwydd monwes wèn yr hwyl gân wynt.

Bunter, *s.* (?) swgan, bronten, budren, ysiebren, hafnai, budreddes, huren; carpyddes.

Bunting, *s.* (?) aderyn bras yr yd, bras y ddrutan, bras yr yd, bras yr yten: *pl.* adar bras yr yd.

Snow bunting—bras yr eira, aderyn bras yr eira.

Yellow bunting, Yellow hammer, melyn yr eithin, yr aderyn penfelyn.

Reed bunting, Rice bunting, bras y cyrs, aderyn bras y cyrs.

Mountain bunting—bras y mynydd.

Blackheaded bunting—bras y ddrutan penddu, bras yr yd penddu.

Common bunting, Corn bunting, =*Bunting*.

Bunting, **Buntine**, *s.* (Al. *bunt*) llumandenlli, banerwaith; nwydd; tenlli llumanau *neu* faneran.

Bunting-cloth — hwyl-islaing, gwrthlain hwyl.

Buntlines, *s. pl.* (*bunt* a *line*) hwylgodraffau, hwyltraffau, hwylreffynau, rheffynau hwyl.

Buoy, *s.* (Ff. *bouée*; Is. *boei*; Al. *boie*) nodadyr, nofnod, nofyn, nof-fynag.

Life buoy—nofnod bywyd, bywydnawf.

To stream the buoy—ffrydio y nofiadyr; gollwng y nofyn i lawr i'r dwr dros ochr y llong, cyn taflu yr angor.

Buoy, *v.* nofio; nofnodi; cynnal; dàl i fyny; cynnal *neu* gadw i fyny; attegu; cadw rhag suddo *neu* soddi; cadw rhag anobeithio *neu* ymollwng; codi calon; esgyn, dyrchafu, ymddyrchafu, ymgodi, ymgyfodi.

To buoy up=*Buoy*, *v.*

To buoy up a ship—cadw llong ar nawf; codi llong soddedig; cadw llong rhag suddo; peru i long nofio; nofio llong i fyny.

The heat in the air will buoy it up—y gwres yn yr awyr a bair iddo esgyn; y gwres yn yr awyr a'i cynnal i fyny.

Rising merit will buoy up at last—rhinwedd ar gynnydd o'r diwedd a orfydd; rhinwedd gynnyddol o'r diwedd a ymddyrchafa.

Buoyancy, *s.* (o *buoyant*) nofiadoldeb, nofiadolrwydd, hynofedd, nofiadoledd, nofedd, nawfduedd, nofiannoldeb, nofwy, anhysoddrwydd; ysgafnder, ysgonder, ysgawnder.

Buoyant, *a.* (o *buoy*) hynawf, nofiadol, hynofiol, anhysawdd, nofiannol, nofiol; ar nawf; ysgafn, ysgawn, esgynol, dyrchafol; o ansawdd i nofio *neu* i esgyn.

Buoyrope, *s.* (*buoy* a *rope*) nofraff, nofreffyn, nofynraff, rhaff nofnod.

Bupeina, *s.* (Gr. *bou*, gòr, a *peina*, newyn) gorwanc, chwant diwala.

Buphaga, *s.* (Gr. *bous* a *phagô*) bugiger, bubicydd, ychbicydd=aderyn Affricaidd.

Buphthalmia, *s.* (Gr. *bous* ac *ophthalmos*) llygadwst, llygad-ddyfrwst.

Bupleurum, *s.* (Gr. *bous* a *pleuron*) paladr trwyddo; clust yr ysgyfarnog.

Buprestidans, **Buprestidæ**, *s. pl.* (Gr. *bou* a *prêstêr*) deithrilion, gorddeithogion=math o drychfilod à geir mewn gwledydd poethion.

Bur, *s.* (*burre*; Gw. *borr*; C. *bàr*) pen cynghaw, pen cynghaf; cynghaw, cynghaf: parfodrwy, ysberdorch.

Bur-Marigold—graban.

Trifid bur-Marigold — graban teir-rhan, graban teiran, graban palfogddail.

Nodding bur-Marigold—graban gogwydd.

Bur-thistle—marchysgallen.

Butter-bur—alan mawr, dail y tryfan.

Bur-parsley—troed y cyw, oliaren, eilunberllys, creigberllys.

Upright hedge bur-parsley—oliaren syth y maesydd, creigberllys syth y maes.

Knotted bur-parsley — oliaren glymog, creigberllys clymog.

Clot-bur=*Burdock*.

Burbot, *s.* (Ll. *barbatus*) llofen, llofenan, llofenbysg.

Burdelais, *s.* (Ff.) math o winrawn.

Burden, **Burthen**, *s.* (*byrden*, *byrthen*; Al. *bürde*) baich, pwn, llwyth; clud, arlwyth, bwrn, pwys; coflaid; tymp, genedigaeth; trymder.

Burden (of a song)—berdon, byrdon, byrdwn, cydgerdd, cydgan, cyngherdd; yr adgyrch, y gair llusg, yr eilgyrch.

A little burden — beichyn, crynfaich; llwyth *neu* bwn bychan; ysgafnlwyth; baich, pwn, *neu* lwyth ysgafn.

Beast of burden—anifail gwaith, ysgrubl, pynfil, llwythfil, byrnfil, pynior.

Cast away from thee the burden of the flesh—bwrw oddi wrthyt oreilid y cnawd; tafl odd wrthyt faich y cnawd.

A ship of a hundred tons burthen—llong

gàn tunell o lwyth; llong o gàn tunell o lwyth; llong yn gàn tunell ei llwyth.

A burden of steel—baich o ddur=120 pwys.

To lay *or* take down a burden—dadlwytho, dilwytho, dadfeichio; ymddadlwytho; rhoi *neu* dafiu baich i lawr.

To bear a burden (in a song)—canu *neu* gydganu y byrdwn; canu yr adgyrch, yr ellgyrch, *neu* y gydgerdd.

Burden, *v. a.* beichio, llwytho, pynio, pynorio, pynu, byrnio, gorlwytho, byrnu, arlwytho; rhoi baich, llwyth, *neu* bwn ar; gorthrymu, gormesu, gormeilio; pwyso ar.

To burden one's self — ymlwytho, ymfeichio.

They have burdened themselves — ymlwythasant.

Burden not thyself above thy power—na chyfod faich rhy drwm i ti.

To burden the conscience—llwytho, beichio, blino, gofidio, *neu* gaethiwo y gydwybod; peri petrusder cydwybod.

I mean not that other men be eased, and you burdened—nid fel y byddai esmwythdra i ereill, a chystudd i chwithau (2 *Cor.* viii. 13).

Burdened, *p. p.* llwythedig, beichiedig, pynedig, &c.; à lwythwyd, à feichiwyd, &c.; llwythog, pyniog; tàn ei faich, ei lwyth, *neu* ei bwn; trwm ei faich; à fo drwm *neu* flin arno; tàn ormes *neu* oreilid.

Burdener, *s.* (o *burden*) beichiwr, llwythwr, pyniwr; gorthrymydd, gormesydd.

Burdensome, } *a.* (o *burden*) trwm, beichus,
Burdenous, } beichiol, amdrwm, arlwythol, anhyddwyn, anhyglud; anhawdd ei ddwyn; pwysfawr, trathrwm, dwys; gormesol, gormeilus, blin, anesmwyth.

A burdensome stone—maen trwm (*Sech.* xii. 3).

To be burdensome—bod yn faich; bod yn feichus, &c.; pwyso ar; gormesu; bod yn ormesol.

I myself have not been burdensome to you—ni bum i fy hun ormesol arnoch.

We have not been burdensome to any of you—ni phwysasom ar neb o honoch.

Thou wilt be burdensome to me—ti a fyddi yn faich arnaf.

Burdensomeness, *s.* (o *burdensome*) gormesoldeb, gormeilusrwydd, beichusrwydd, beichioldeb; gorthrymedd, trymder, blinder, gorthrymder; pwysi.

Burdock, *s.* (*bur* a *dock*) cynghaf, cynghaw, cynghawf, cynghar, cacamwci, cribau'r bleiddiau, cïog, cedowrach, baw mwci.

Great burdock, } cynghaf mawr, cynghaw
Clot-bur, } mawr, cynghaf, cynghaw, cynghawf, cynghar, cribau'r bleiddiau, cïog, cedowrach, cacamwci, baw mwci.

Small burdock, } cynghaf bychan, cy-
Lesser burdock, } nghaw bychan, cynghawf bychan, cacamwci lleiaf, cedowrach lleiaf, cïog lleiaf.

Bureau, *s.* (Ff.) treillgist, ysgrifgist, ysgrifengist, treillgist ysgrifenu; ysgrifgell, ysgrifswyddfa.

Bureaucracy, *s* (*bureau*, a Gr. *crateô*) cellreolaeth, cell-lywodraeth.

Burette, *s.* (Ff.) gwyaniadyr=math ar offeryn.

Burg, } *s.* (S *burg*, *burh*, *beorh*, *berg*; Al.
Burgh, } *burg*, *berg*) bwrdeisdref, breindref, tref freiniol, tref fwrdeisiol.

Burgage, *s.* (o *burg*) bwrdeisddal, gafael breindref, bwrdeis-afael.

Tenure in burgage, } bwrdeis-afael; bwr-
Burgage tenure, } deisddal, bwrdeisddaliad; gafael bwrdeisdref *neu* freindref.

Burgamot, *s.* (Ff. *bergamote*)=*Bergamot*.

Burganet, } *s.* (Ff. *bourguignotte*) helm haiarn,
Burgonet, } haiarngap, penial, penffestin, penor.

Burgeois, *s.* (Ff. *bourgeois*) bwrdais, bwrgais, dinesydd.

Burgeois, } *s.* (Ff. *bourgeois*) math o argraff-
Bourgeois, } lythyren; bwrdeisen.

Burgeon, *v. n.*=*Bourgeon*.

Burgess, *s.* (Ff. *bourgeois*) bwrdais, bwrgais, dinesydd, dinaswr; seneddwr *neu* aelod dros fwrdeisdref; bwrdeisydd.

To admit a burgess—bwrdeisio.

Burgess-ship, *s.* bwrdeisiaeth, bwrgeisiaeth, dinasfraint, bwrdeisfraint, trefraint.

To lose one's right of burgess-ship—colli dinasfraint, colli hawl bwrdais.

To deprive one of his right of burgess-ship—difwrdeisio, difwrgeisio, *neu* ddifreinio un.

Burgh, } *s.*= { *Burg.*
Burg, } { *Burgh.*

Burgh-bote, *s.* bwrdeisdal=mewn hen gyfreithiau, tâl at adeiladu cestyll neu furiau, er amddiffyn tref neu ddinas.

Burgh-brech, *s.* (*burgh* a *break*) bwrdeisdor=dirwy ar fwrdeisdref am dor heddwch.

Burgher, *s.* (o *burg*) bwrdais, bwrgais, dinesydd, dinaswr; bwrdeisydd.

Burghers — Bwrgeisiaid, Bwrdeisiaid, Bwrgeisogion = plaid o encilwyr oddi wrth eglwys yr Alban.

Burger-ship, *s.* bwrdeisiaeth, bwrgeisiaeth, dinasfraint, bwrdeisfraint, trefraint.

Burgh-master, } *s.*= { *Burgomaster.*
Burgomaster, } { *Burgh-master.*

Burgh-master, *s.* penfwnwr, penfwynwr, penswyddog mwynwyr.

Burghmote, *s.* (*burgh*, a *mote*, cyfarfod) trefiys, trefiwyrwys, llwyrwys tref, bwrdeisiaîs, bwrdeisiys.

Burglar, } *s.* (*burg*, a Llyd. *laer*, Ff. *larron*,
Burglarian, } lleidr) tydorwr, torwr ty, torwr tai, tyleidr: *pl.* tydorwyr, tydoriaid, tyladron.

Burglarious, *a.* (o *burglar*) tydorol, tydoriadol; perthynol i dori tai.

Burglary, *s.* (o *burglar*) tydoriad, toriad ty, tysbeiliad.

Burgmote, *s.*=*Burghmote*.

Burgomaster, } *s.* (Al. *bürgermeister*) trefiyw-
Burgh-master, } ydd, trefiyw, caerlywydd, dinasfaer, maer=penswyddog y prif dref yn yr Isdiroedd, Switzerland, a'r Almaen.

Burgomastership, *s.* (o *burgomaster*) trefiywiaeth, trefiywyddiaeth, caerlywyddiaeth.

Burgout, *s.* (Ff.) uwd, uwd blawd ceirch.

Burgrave, *s.* (Al. *burggraf*) trefiarll, diniarll, caeriarll=treftadol lywiadur castell, tref, neu ddinas, yn mhlith yr Ellmyn.

Burgraviate, *s.* (o *burgrave*; Al. *burggrafthum*) trefiarllaeth, diniarllaeth=swydd neu urddas trefiarll.

Burgundy, *s.* (=talaeth yn Ffrainc) gwin Burgwyn; Burgwyn.
Burgundy pitch—pyg Burgwyn, Burgwynbyg.
Burial, *s.* (o *bury*) angladd, claddedigaeth, cynhebrwng, canhebrwng; claddiad, daiariad; arwyl, arwyliant.
Belonging to burials—angladdol; arwyliannus.
Burial-place, } *s.* claddfa, monwent, mynBurial-ground, } went, claddle, corffian, beddrod, claddlan, beddle, corddlan.
Burier, *s.* (o *bury*) claddwr, claddiedydd.
Burin, *s.* (Ff.) cerfyllyr, crifell=offeryn i gerfio ar gopr.
Burk, *v. a.* (oddi wrth lofrudd o Wyddel o'r enw, yn 1829) Burcio; lladd *neu* furnio trwy fogi; mogfurnio, mogladd, moglofruddio.
Burkism, *s.* (o *Burk* neu *Burke*) Burciaeth; mogladdiad, moglofruddiaeth.
Burl, *v. a.* (?) digedenu, digenu, dignapio.
Burling iron—digedenyr; haiarn digenu neu ddignapio.
Burlace, *s.* (talfyriad o *burdelais*) math o winrawn.
Burler, *s.* (o *burl*) digedenwr, digedenydd, digenwr, digenydd, dignapiwr.
Burlesque, *a.* (Ff.; It. *burlesco*) digrif, digrifol, ysmala, chwerig, digriflawn, cellweirus, cellweirig, chwerthinus, arab, arabeddus, gwawdus, gogerddol.
Burlesque poem—gogerdd, digrifeg, digrifgerdd, digrifgan, ysmalgerdd, ysmalgan, gwawdgerdd.
Burlesque poetry — gwawdfarddoniaeth; prydyddiaeth ddigrifol *neu* ysmala, &c.
Burlesque, *s.* digrifiaeth, digrifiaith, ysmaldodiaeth, gwawdiaith, cellwair, duchan, ffoleb, chwarddwawd, digrifwawd; gwawdfarddoniaeth, gogerdd.
Burlesque, *v. a.* gwawdio, gwatwar, duchanu, goganu, digrifoli; troi yn ddigrif *neu* ysmala, &c.; trin yn gellweirus, &c.
Burlesquer, *s.* (o *burlesque*) digrifydd, duchanwr, gogerddwr, cellweiriwr, gwawdiwr, chwarddwawdiwr.
Burletta, *s.* (It.) digrifwest; eilonwest; chwimalaw, ffrilalaw, chwidralaw.
Burliness, *s.* (o *burly*) maint; praffder, ffyrfder, ffyrfdra, breisgedd, tewder; brol, bocsach.
Burly, *a.* (C. *brolio!*) mawr, braisg, praff, ffyrf, chwyddedig, broliog, bocsachus.
Hurly-burly—ffwndwr, cynhwrf, cythrwfl, terfysg, ffrystellach, trabludd, ffrystell, cyffraw, cymhelri, trybestyd, ffwdan, helgur, godwrdd, ymffrwst, trafferth, ystwr, swn.
A burly face—gwyneb coch crugynog.
Burn, *v.* (S. *byrnan, bernan, bærnan*) llosgi; goddeithio, goloesgi, ysu, dylosgi; ymlosgi; ffiamio; bod ar dân; poethi, brydio; ymffiamychu.
The fire shall burn them—y tân a'u llosga, a'u llysg, a'u difa, *neu* a'u hysa hwynt.
The flame hath burned all the trees of the field—y fflam a oddeithiodd holl brenau y maes (*Joel* i. 19).
To burn all about—amlosgi, amboethi.
To burn again—adlosgi, ail losgi, eilfrydio.
To burn incense—arogldarthu, mygdarthu, llosgi arogldarth, addoldarthu.
To burn in sacrifice—llosgaberthu, poethoffrymu; llosgi yn aberth *neu* offrwm.
To burn in the hand—llawlosgi, llosgi llaw.
To burn bright *or* clear— llosgi yn oleu; goleu-losgi; llosgi yn danbaid.
To burn a little—golosgi, deifio, goddeifio, rhuddo; llosgi ychydig.
To burn much — trallosgi, traphoethi; llosgi llawer.
To burn thoroughly, } llwyrlosgi, tryloagi;
To burn up, } llosgi yn llwyr, yn gwbl, *neu* yn hollol; llosgi trwy; llosgi trwyddo; llosgi yn dwll *neu* yn drydwll; llosgi yn boeth; ysu, difa, llosgi.
To burn to ashes—llosgi yn ulw; llosgi yn lludw; llosgi yn boeth ulw; gwneuthur yn lludw.
To burn together—cydlosgi; llosgi yn nghyd; cyd-ddeifio, cydboethi, cydolosgi.
To burn out—llosgi allan *neu* i maes; llosgi i ben.
To burn in a light fire—llosgi yn wenfflam; myned yn wenffagl *neu* yn wenfflam; llosgi *neu* fyned yn boeth oleuben.
To burn with anger—ennyn o lid; llosgi o lid; llosgi, ymfflamychu, *neu* ennyn gân ddig *neu* ddigofaint; ymlosgi gân ddig; cynddeiriogi o ddig.
To burn with fire—llosgi â thân.
To be burnt up—llosgi; crinsychu, gwywo, edwi; llosgi i fyny.
To be burnt down—llosgi hyd lawr; llosgi i'r llawr; llosgi hyd y llawr; llosgi yn boeth ulw; llosgi yn danllwyth; myned yn burboeth *neu* yn danllwyth.
The temple of Diana was burnt down—llosgwyd teml Diana yn boeth ulw; llosgwyd teml Diana hyd y llawr.
Your eyes burn—mae eich llygaid yn ffiamio; ffiamia eich llygaid.
To burn one's fingers—llosgi bysedd; derbyn niwed *neu* eniwed; cael colled; prynu yn rhy ddrud.
Burn, *s.* llosg, llosgiad, llosgni, llosg tân.
Heart-burn—llosg cylla, cyllagwst, y dwr poeth, y dwfr poeth, ingloes, yr ingloes.
The bricks have had a good burn—cafodd y priddfeini grasiad *neu* losgiad da.
Burnable, *a.* (o *burn*) llosgadwy, hylosg, hyboeth.
Burner, *s.* (o *burn*) llosgwr, llosgydd, llosgur, ffiemor, greidwr, greidur, greidydd, creisierydd; llosgyr, greidyr.
Gas-burner — nwy-losgyr, nwy-losgydd, llosgyr nwy, llosgydd nwy.
Burner of houses—llosgwr tai, ffaglwr, ffiemor, ffaglor, banffaglwr, tylosgydd.
Burnet, *s.* (o *burn*) gwyddlwyn, gwlydd Mair, llysiau y cryman.
Common burnet—gwyddlwyn cyffredin.
Great burnet—llysyrlys, llysuog, llysyrawd.
Burnet saxifrage—gwreiddiriog.
Common burnet saxifrage—gwreiddiriog gyffredin.
Jagged burnet saxifrage — gwreiddiriog fanddrylldail.
Burnet rose—mwcog.
Burning, *s.* (o *burn*) llosgiad, llosg, goddaith

cynneu, cynne; llosgfa, poethfa, poethder, poethni, poethineb, tandde, ennynfa, brydlant, brydaniaeth, goddeithiad.
Burning for burning — llosg am losg (*Ecs.* xxi. 25).
They made a very great burning for him —cynneusant iddo ef gynneu mawr iawn (2 *Cron.* xvi. 14).
By the spirit of burning—mewn ysbryd llosgfa (*Esa.* iv. 4).
As a firebrand plucked out of the burning —fel pentewyn wedi ei achub o'r cynneu tân (*Am.* iv. 11).
Everlasting burnings — llosgfëydd tragwyddol (*Esa.* xxxiii. 14).

Burning, *a.* llosg, poeth, tanbaid, tanllyd, llosgol, angerddol, chwilboeth, deifiol, greidiol, eiras, gwynias, poethias, poethlyd, terwyn; lloa.
Burning men—dynion poethion.
A burning tempest—poethwynt ystormus, llosgwynt ystormus.
A burning fiery furnace—ffwrn o dân poeth (*Dan.* iii. 6).
Burning ague—cryd poeth, twymyn, haint gwres.
Burning hot — chwilboeth, eirias, eiriasboeth, poeth angerddol; brwd.
Burning heat—gwres poeth; gwres *neu* boethder angerddol; llosgwres, poethwres.
Burning coal—glo byw; marworyn, marwaryn, rhysodyn, eiriesyn: *pl.* marwor, marwydos, marwar, rhysod, marwor tanllyd.
As coals are to burning coals—fel glo i'r marwor. [9].
Burning pitch—pyg llosgedig (*Esa.* xxxiv.
A burning flame—ffagl, gwenfflam, gwenffagl, fflam, cynneu, goleudan, tân goleu.
The burning south wind—y deheuwynt llosg.
The burning plains of India—llosg wastadoedd India; gwastadoedd poethion Ind; gwastattiroedd poeth yr India; gwastadedd llosg yr India.
He was a burning and shining light—efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo.
These were burning and shining lights—y rhai hyn oeddent oleuadau tanbaid a dysglaer.
Burning shame — gwaradwydd cywilyddus, cywilydd gwaradwyddus, cywilydd gwarthus; peth y dylid gwrido *neu* gywilyddio o'i herwydd; cywilydd tanbaid *neu* angerddol.
Burning scent—arogl angerddol.
Burning thorny plant—fflamgoed, dalen dda.
Burning mirror, } llosgddrych, llos-
Burning reflector, } ddrych, drych llosg.

Burning-glass, *s.* (*burn* a *glass*) llosgwydr, llosgwydryn, tanwydr.

Burnish, *v.* (Ff. *brunir*; It. *brunire*) caboli, llathru, gloewi, ysgipanu, arlathru, dyrathu, lluganu, llugeinio; dysgleirio, dysgleinio; gwneuthur yn loew, yn ddysglaer, *neu* yn llathr; trwsio.
To burnish steel—caboli, llugeinio, *neu* ysgipanu dur.
Burnished steel—dur caboledig, dur cabol.
Burnishing stone—cabolfaen.
Burnishing file—durlif gaboli.
Burnished brass—efydd gloew (*Exec.* i. 7).

Burnish, *s.* dysgleirder, dysgleirdeb, llathredd, caboledd, dysgleiuder, gloewder, arlathredd, ysgipan, glawdd.

Burnisher, *s.* (o *burnish*) cabolwr, cabolur, llathrydd, llathrwr, arlathrwr, ysgipanwr, llugeinydd, llugenydd, lluganwr, dyrathydd; cabolyr, cabolydd.

Burnoose, } *s.* (Ysp. *albornos*; Syr. *birusa*) ar-
Burnous, } wisg, uchwisg, arsegan.

Burnt, *p. p.* (o *burn*) llosgedig, &c.; llosg, poeth, tanllyd, crasboeth, crinsych, poethgras, sychgrin.
Easy to be burnt—hylosg, hyboeth.
Burnt-offering — poethoffrwm, offrwm poeth, llosgaberth, offrwm tanllyd, hollboeth, ollboeth.
Burnt-sacrifice—llosgaberth, poethaberth, aberth llosg, aberth tanllyd, hollboeth.
Burnt-incense — arogldarth, mygdarth, addoldarth.
Burnt-ear—llosgdwysen; y llosg.
Burnt-wine—gwin llosg, gwin llosgedig.
A burnt child dreads the fire—a losgodd ei fys a ochel y tân; arfog a gaffo rybudd.

Burr, } *s.* (S. *burre*; It. *borr*) llabed clust,
Bur, } llabed y glust, clustlabed, tipyn y glust; isoddfyn, (=yr oddf isaf ar fon corn hydd); oefndedyn; cronrwy.

Burr-pump, } *s.* llorsugnell, llorsugnyr, agen-
Bilge-pump, } sugnydd.

Bur-reed, *s.* cleddyflys, cawen, cleddlys.
Branched bur-reed—cleddyflys cangenog, cawen gangenog, cawen gangog.
Unbranched upright bur-reed—cleddyflys undwf syth.
Floating bur-reed—cleddyflys undwf nofiadwy.

Burrel, *s.* (?) math o beren; mwythberen.

Burrel-fly, *s.* (Ff. *bourreler*, poeni) cacynen y meirch, oethreor, clyryn llwyd, rhobin y gyrwr.

Burrock, *s.* (?) gored, pwnt pysgota.

Burrow, *s.*=*Borough*, *Burgh*, *Burg*.

Burrow, *s.* (S. *byrgen*, *byrian*) twll cwningen, cwning-gaer, tyllgaer, tudletty; twll: *pl.* tyllau cwningod, tudlettai.

Burrow, *v. n.* daiaru, ymddaiaru, tyrchu, turio, tyllu, ceudyllu, tudlettya, llochesu, ymlechu, gorddodoi.
Burrowing pig—twrch gorddodyn; twrch daiar.

Bursar, *s.* (o *burse*) alwerydd, amnerydd, trysorydd, clasgedydd, clasdrysorwr, sylltydd; trysorydd coleg *neu* frawdoliaeth; clasgedog, clasfuddiog.
Bursar of a college—alwerydd coleg, clasgedydd, trysorwr clasgor, clasdrysorydd.

Bursaria, *s. pl.* (o'r Ll. *bursa*) ceufilionos.

Bursarship, *s.* (o *bursar*) alweryddiaeth, amneryddiaeth, clasgedyddiaeth; swydd alwerydd.

Bursary, *s.* (o *bursar*) clasged; alwarfa, clasdrysorfa; trysorfa coleg *neu* fonachlog.

Burse, *s.* (Ff. *bourse*; Al. *börse*; o'r Ll. *bursa*) newidfa, cyfnewidfa, newidle, newitty, cyfnewitty, trafnidfa, maeliadfa.

Burst, *v.* (*byrstan*, *burstan*; Al. *bersten*) tori, ymdori, dryllio, ymddryllio, rhwygo, ymrwygo, hollti, ymhollti; rhuthro, ymruthro, trwydo, beilio, iorni; myned yn rhengau.

To burst in pieces—tori yn chwilfriw; dryllio yn deilchion *neu* dipiau; rhwygo *neu* hollti yn gandryll.
To burst in—rhuthro, neidio, tori, ymwthio, saethu, tasgu, *neu* ddianc i *neu* i mewn.
He burst into the house—efe a ruthrodd i'r ty; torodd i'r ty.
To burst out—rhuthro, neidio, tori, ymwthio, tasgu, *neu* saethu allan; ffrydio, gwanegu, tarddu, *neu* darddellu allan *neu* i maes; pistyllio.
I will strike the stone, and fire will burst out—tarawaf y gareg, a thân a naid *neu* a dyr allan.
Tears burst out—dagrau a ffrydiasant allan; dagrau a dorasant allan; torodd dagrau allan; ffrydiodd dagrau allan.
To burst with laughing—hollti, ymhollti, *neu* ymdori gàn chwerthin; marw gàn chwerthin.
To burst out into laughter—tori allan o chwerthin; tori allan i chwerthin; tori allan yn grechwen; crechwenu; chwerthin yn grechwen.
She bursts with laughing—y mae hi ar *neu* yn ymdori *neu* ymhollti gàn chwerthin.
To burst out into tears—tori allan o *neu* i wylo; wylo yn hidl; wylo yn hidlaidd.
To burst with envy—ymdori *neu* ymddryllio gàn *neu* o genfigen; cael ei ladd gàn genfigen.
Ready to burst—ar dori, ar ymdori, &c.; parod i dori, &c.
He burst asunder in the midst—efe a dorodd yn ei ganol.
Thy presses shall burst asunder with new wine—dy winwryfoedd a dorant gàn win newydd.
It is ready to burst like new bottles—y mae efe yn hollti fel costrelau newyddion (*Iob* xxxii. 19).
He burst the bars of my prison—efe a dorodd farau fy ngharchar.
The new wine will burst the bottles—y gwin newydd a dyr *neu* a hyllt y costrelau.
That there shall not be found in the bursting of it—fel na chaffer yn mysg ei darnau (*Exn.* xxx. 14).

Burst, *s.* ymdoriad, ymddrylliad, toriad, rhuthr, rhwyg, holltiad; trwyd, trudd, iorn, ffrwch; rygot, twrf, clap, dïaspad; torgest, torllengig, bors.
A burst of laughter—rhuthr o chwerthin; crechwen o chwerthin; crechwen, crechwenfloedd; bloedd o chwerthin.
A burst of joy—rhuthr o lawenydd; llawenfloedd, llawen floedd.
A burst of thunder—trwst taran, tarandrwst; clap *neu* ddïaspad taran; ffrwydrad taran; trwst.
A burst of applause—bloedd o ganmoliaeth, cyforddyl.

Burst, **Bursten**, } *p. p.* toredig, ymdoredig, ymddryllïedig, &c.; borsog, torgestog.

Burstenness, *s.* (o *bursten*) torgest, torllengig, bolystyn, bors; dryllïogrwydd, rhuthroldeb.

Burster, *s.* (o *burst*) torwr, dryllïwr, ymdorwr, ymddryllïwr, rhuthrwr, truddiwr.

Burst-wort, *s.* llysiau y fors, torgestlys, borslys.

Burt, *s.* (?) torbwt, lleden chwith, gwymell=math o byng: tafod yr ych.

Burthen, **Burden**, } *s.* = { *Burden.* / *Burthen.*

Burthensome, *a.*=*Burdensome.*

Burthensomeness, *s.*=*Burdensomeness.*

Bur-thistle, *s.* marchysgallen; *pl.* marchysgall.

Burton, *s.* (?) tynchwerfan.

Bury, *v. a.* (S. *burian*, *burgan*) claddu; canhebryngu; daiaru, beddu, priddo, cuddio, celu; rhoi mewn bedd; rhoi dàn weryd.
To bury in oblivion—claddu mewn anghof; claddu mewn anghofiant; tellweddu.
To bury alive—claddu yn fyw.
To bury together—cydgladdu, claddu yn nghyd, cynghladdu.

Burying, *s.* (o *bury*) claddiad, claddedigaeth, cynhebryngiad.

Burying-place, **Burying-ground**, } *s.* monwent, mynwent, claddfa, claddle, corffïan, claddfan, beddrod, beddle, corddlan.

Bush, *s.* (Al. *busch*; Is. *bosch*; D. *busk*) llwyn, perth, perthen, twyn, prysglwyn; twmpath; cynffon llwynog: *pl.* gwyddeli, llwyni, &c.
Silver bush—arianllwyn, llwyn arian.
Thorn bush, Bush of thorns, } dreinllwyn, draenllwyn, dreinberth, llwyn o ddrain, perth o ddrain, llwyn drain, perth ddrain.
Bramble bush, Bush of brambles, } mwyarllwyn, mïarllwyn, llwyn mïeri, llwyn dyrysi, dyrysllwyn, cadwydd, cadberth, perth fïeri.
Gooseberry bush—perth eurddrain, grwysllwyn, llwyn grwyswydd, perth eirin Mair, llwyn eirin Mair.
Furze bush—llwyn eithin, eithinog, perth eithin.
Strawberry bush—mefusllwyn, llwyn mefus, gwŷdd mefus, mefusbren, pren syfi.
Raspberry bush — mafonllwyn, llwyn mafon, mafonwydd.
Bush of hair—cnuwch o wallt, ffluwch o wallt; cudyn *neu* lyweth o wallt; cnuwch, ffluwch, twëg, topyn, siochen, sioch.
Bush of a wheel, Bushel of a wheel, } byle olwyn, bylen olwyn, blwch troell: *pl.* bylau olwyn.
Good wine needs no bush—afraid gwahodd at gwrw da.
One bird in hand is worth two in the bush—gwell aderyn mewn llaw na dau yn y llwyn; gwell aderyn mewn llaw na dau mewn llwyn; gwell penlöyn yn llaw na hwyad yn awyr; gwell aderyn mewn llaw na dau yn y coed; gwell un 'hwde' na dau 'ti a gei.'
One beats the bush, another catches the hare—un yn hau, ac arall yn medi; un yn curo y llwyn, ac arall yn dàl yr adar; un yn tori y gneuen, ac arall yn bwyta y cnewullyn.
You have not gone about the bush—nid aethoch i bwyo *neu* ffusto y perthi; nid aethoch i gyrchu pen ffordd; nid aethoch i guro *neu* ffusto llwyni; diagynasoch yn uniongyrch at y pwnc *neu* y mater.
Who cut up mallows by the bushes—y rhai a dorent yr hocys mewn prysglwyni (*Iob* xxx. 4).

Bush, *v.* llwyno; ffluwcho; bylu, bylëu.

Bushel, *s.* (Ff. *boisseau;* Llyd. *boesel;* Norm. *bussel;*) pwysel, mwysel=8 galwyn.
Half a bushel — hanner pwysel, hanner mwysel, cib, cibyn, cibynaid.
You measure their corn by your own bushel—chwi a fesurwch frethyn pawb wrth eich llathen eich hun; yr ydych yn mesur pawb wrth eich llathen eich hunan.

Bushelage, *s.* (o *bushel*) pwyseldoll, toll wrth y mwysel.

Bushet, *s.* (o *bush*) llwynig, perthig, perthan, twynyn: *pl.* celionos.

Bush-harrow, *s.* perthoged, dreinoged; og *neu* oged ddrain.

Bushiness, *s.* (o *bushy*) perthogrwydd, prysgoedogrwydd, dreiniogrwydd; ffluwchogrwydd, cudynogrwydd.

Bushman, *pl.* Bushmen, } *s.* (Is. *bosch-man*)
Bosjesman, *pl.* Bosjesmans, } Llwynwr, Llwynydd, Coedur: *pl.* Llwynwyr, Llwynwys, Llwyniaid, Coedwys, Coeduriaid=trigolion gwyllt a chreulawn Affrica, ar dueddau Penryn Gobaith Da.

Bushment, † *s.* (o *bush*) tewlwyn, tewgoed.

Bushy, *a.* (o *bush*) perthog, llawn llwyni, llawn perthi, prysgog, prysog; llawn o brysgoed *neu* brysglwyni; ffluwch, ffluwchog, cudynog, cedenog, crych, topynog, siochog; tew, tewdaen.
Bushy hair—gwallt ffluwch.
Bushy-headed—penffluwch, pengrych.
Bushy place—prysgle, prysle, dyrysle; lle dreiniog *neu* fieriog.

Busiless, *a.* (o *busy*) diwaith, didres, diofal, dïorchwyl, didrafferth, anmhrysur, segur; mewn hamdden *neu* seibiant.

Business, *s.* (S. *bysi, bysig*) galwad, galwedigaeth, gwaith, gorchwyl, masnach, swydd, neges, achos, mater, peth, pwnc, gorchwyliaeth, trafnidiaeth, crefft, celfyddyd; gofal, helynt, heldrin, trafferth, helgur, ymdrin, trabludd, trybestod, tres.
To transact business — gorchwylio, trin gorchwylion, masnachu, negesewa; gwneyd gwaith, gorchwyl, *neu* weithred; trin, trefnu, *neu* lywodraethu gorchwyl *neu* neges; helyntio.
Man of business—masnachwr, masnachydd, trafnidiwr; dyn gorchwylgar *neu* negesgar; dyn hyddysg yn nhriniaeth gorchwylion *neu* negesau; dyn gorchwylog.
In what line of business is he?—pa drafnidiaeth sy ganddo? pa alwedigaeth sy ganddo? beth yw ei alwad, ei alwedigaeth, ei swydd, ei orchwyl, ei grefft, *neu* ei gelfyddyd?
Trifling business — goneges, gorchwyl dibwys, coegneges, anober, anoberi, coegorchwyl.
Consult not with an idle servant concerning much business—nac ymgynghora â gwas dïog am lawer o waith.
Go on with thy business in meekness—gorphen dy waith yn llednais.
A man diligent in his business—gwr dïesgeulus yn ei orchwyl.
The business is done—gorphenwyd y gwaith *neu* y gorchwyl; deryw y mater.
What business has he there?—pa swydd *neu* neges sy ganddo ef yno? beth sydd ganddo ef yno? beth sydd à wnelo efe yno?
He shall not be charged with any business—na rodder gofal dim arno.
Not slothful in business—nid yn ddïog mewn diwydrwydd.
What business hast thou here?—beth a wnei di yma? beth sydd i ti à wnelot *neu* a wnelych yma? beth sy genyt yma?
I will make that my business—ymroaf i hyny o orchwyl; glynaf wrth hyny o orchwyl; gofalaf am hyny o beth *neu* orchwyl.
I will do his business for him—gwnaf ei waith ef; mi a wnaf ei waith ef; mi a'i dyfethaf ef.
I must make it my whole business—rhaid i mi ymdrafferthu yn hollol; rhaid i mi ei wneuthur yn unig orchwyl i mi.
In the heat of your business—yn mhres eich gwaith; yn mhoethder eich gorchwylion.
I have no sort of business here, } nid oes i
I have no business at all here, } mi ddim oll ag a wnelwyf yma; nid oes genyf yma neges yn y byd; nid oes un neges pa bynag genyf yma.
You had no manner of business there—nid oedd genych neges yn y byd yno; nid oedd i chwi neges yn y byd yno; nid oedd genych un neges pa bynag yno.
None may depart, and do his own business—ni ddichon neb fyned ymaith i'w negesau ei hun.
I have business with thee—y mae i mi neges â thi; mae à fynwyf *neu* à wnelwyf â thi.
To follow other men's business—dylyn achosion *neu* orchwylion rhai ereill; dylyn galwad pobl ereill.
They had no business with any man—nid oedd negesau rhyngddynt â neb; nid oedd iddynt negesau â neb.
When the business was in hand—pan oedd y mater mewn dadl *neu* mewn llaw; pan oedd y peth ar waith.
Because the king's business required haste—oherwydd bod gorchymyn y brenin ar ffrwst (1 *Sam.* xxi. 8).
That the business may be dispatched—fel y gallo y peth ddyfod i ben; modd y delo y gorchwyl i ben; modd y cyflawner y gorchwyl; modd y prysurer y peth.
I must be about my Father's business—rhaid i mi fod yn nghylch y pethau à berthynant i'm Tad.
That is not our business — ni pherthyn hyny i ni; nid ein mater ni yw hyny.
He has enough to do about his own business—y mae efe yn ei lawn waith yn nghylch ei negesau ei hun; mae ganddo ddigon o waith gyda ei faterion ei hun.
Artifice will never do their business—dichell ni ddwg byth mo'u hamcanion i ben.
These men did the business—y gwŷr hyn a wnaethant y gwaith.
Study to do your own business—rhoddwch eich bryd ar wneuthur eich gorchwylion eich hun.
To mind *or* follow business—gofalu am waith *neu* orchwyl; ymröl i waith *neu* orchwyl; rhoi bryd ar waith, gorchwyl,

galwad, masnach, *neu* alwedigaeth; glynu wrth waith *neu* orchwyl; poeni mewn gwaith *neu* orchwyl; dylyn gwaith, gorchwyl, *neu* grefft; gorchwylio, negesca, llafurio, ymboeni, poeni, cymeryd poen.

Mind your own business—edrychwch am yr hyn a berthyn i chwi eich hunain; gofalwch am yr hyn a berthyn i chwi; gofalwch am, *neu* edrychwch ar eich gorchwylion eich hunain; gofalwch am eich gorchwyl, eich gwaith, *neu* eich mater eich hun.

To do business for another—gorchwylio *neu* negesca dros arall; trosnegesa, trosfasnachu.

To come into business—cynnyddu, gwrygio, tyfu, *neu* lwyddo mewn gwaith, gorchwyl, *neu* alwad; cynnyddu yn ei alwad; dyfod i waith *neu* orchwyl.

To find one business—tori *neu* lunio gwaith i un; rhoi *neu* ddangos i un beth i'w wneuthur; cynnal un mewn gwaith; cadw ar waith.

To free *or* disengage one's self from business—ymryddhau, ymddirwydo, *neu* ymddirwyllo o drafferth, &c.

To manage business—trin, trefnu, ardwyo, *neu* lywodraethu gorchwyl *neu* neges.

Manager of business—triniwr gorchwylion *neu* negesau; negesydd, negeswr; trefnidydd, rheolwr, rhiolydd, *neu* ardwyad gorchwylion.

Full of business—llawn gorchwyllon, gwaith, *neu* negesau; gorchwyliog, negesog; llawn trafferth, ffwdan, *neu* drybestod; tresfawr; mawr ei dres, ei drafferth, *neu* ei drybestod; ffwdanus.

Free from business—diofal, didres, diwaith, dïalwad, didrafferth, dïorchwyl, segur; rhydd oddi wrth orchwyl *neu* alwad; mewn seibiant *neu* hamdden.

Freedom from business—seibiant, hamdden, didreswrydd; bod heb lafur a thrafferth; seguryd; bod yn rhydd o alwad, gorchwyllon, *neu* alwedigaeth.

To attend to business—gofalu am fasnach, gorchwyliaeth, gorchwyl, *neu* drafnidiaeth; bod yn ddyfal, diwyd, *neu* ddiflin ar *neu* wrth orchwyl *neu* alwad; bod mewn gorchwyliaeth; bod yn ofalus am drafnidiaeth *neu* fasnach.

Business-like, *a.* gorchwylaidd, gorchwylgar, masnachaidd, masnachyddol, masnachyddaidd; fel masnachydd *neu* drafnidiwr.

Busk, *s.* (*Ff. busc*) prenol, bronatteg, bronsythell, bronsythyr.

Busk,† *s.* (D.; Sw. *buska*) llwyn, perth.

Busk, *v.* (*S. byssian*) bod yn brysur; parodi, parotöi.

Busked, *a.* (*o busk*) prenoledig, bronattegol, bronsythedig, prenolog.

Busket, } *s.* (*D. busk*) llwynig, llwynyn, perthig,
Busked, } perthan, perthen, twynyn; llwyn mewn gardd: *pl.* celionos.

Buskin, *s.* (*Is. brosekes*) gwentas, cwran, curan, llopan, llop, esgid ffal-uchel.

Buskined, *a.* (*o buskin*) gwentasog, cwranog, llopanog, curanog.

Busky, *a.* (*o busk*) perthog; llawn llwyni *neu* berthi; coedog, coediog, gwyddelog, gwyddelain, prysgog, prysgoedog, prysain, prysol; cysgodog, gwasgodog, cysgodfawr; manwyddog.

Buss, *s.* (Ll. *basio*; Is. *poes*; Ysp. *beso*; C. *bus*) cusan, cus, impog.

Buss, *v. a.* cusanu, cusu, cuso.

Buss, *s.* (Is. *buis*; Al. *büse, buise*) llestr ysgadana, llestr pysgota.

Bust, *s.* (Ll. *bustum*; It. ac Ysp. *busto*; Ff. *buste*) corffyll, pengerfyll, penddelwedd, corfflun, bronddelw=llun dyn o'r ddwyfron i fyny, sef y pen, y gwddf, a'r ysgwyddau.

The head is marble, and the bust porphyry—mynor yw y pen, a myldardd y corffyll.

Bustard, *s.* (Ff. *bistarde*; Al. *busshard*) tyrciar y gwerni, gwerniar, gwylltyrci.

Great bustard—yr araf ehedydd.

Thick-kneed bustard—y glinbraff.

Bustle, *s.* (Ll. *festino* ?) ffwdan, trafferth, ffwndwr, godwrdd, terfysg, cynhwrf, cythrwfl, twrdd, dadwrdd, trybestyd, trybestod, godwrf, twrw, ymodwrdd, tres, heldrin, helbul, helgur, cymhelri, godorun, ymffrwst, ffrawdd, dyfrys, brys, arbres, ffrystellach, trabludd, bludd, moloch, trybest, pestod, trin, ffrwst, blawdd, prwst, cynsuaf, ffair.

Great bustle—mawrdres, mawrdrin, traffull; mawr ffwdan, &c.

Bustle, *v. n.* trafferthu, ffwdanu, godyrddu, ymdrafferthu, ymdraffullio, ffrystio, brysio, dyfrysio, ffwndro, trybestu, pestota, ffrystellach, ffrysio, ffiychio, traffullio, prysuro, estricio, prystio, trafodi, dwndro, terfysgu; gwneuthur cynhwrf *neu* derfysg; bod yn drystfawr *neu* yn ffwdanfawr.

He bustles about his work—y mae efe yn ddyfal yn *neu* yn nghylch ei waith; y mae efe yn brysio yn nghylch ei waith.

Bustler, *s.* (*o bustle*) ffwdanwr, trafferthwr, ymdrafferthwr, &c.; dyn gweithgar *neu* ddyfrysgar; dyn ystig yn ei waith; ymröwr i'w waith; dyfalddyn, prysurwas.

Busto, *s.* (It.)=*Bust*: saflun.

Busy, *a.* (*S. bysi; bysig*, Is. *bezig*) prysur, diwyd, dyfal, ystig, astud, gweithgar, llafurus, diflin, egsud, ansegur, disegur, anniwaith, dïorphwys, dïesgeulus, manol, manwl; trafferthus, ffwdanus, helbulus, gofidus; pres; ar waith, llawnweithus; & thrafferth *neu* waith arno; ystig wrth *neu* ar waith; ystig yn nghylch gwaith *neu* orchwyl; llawn trafferth; mawr ei dres *neu* drybestod; yn ei lawn waith; swyddgar, rhydresgar, ymyrgar, ymyrus, rhodresus, cymmyreddus, negesgar; mawr ei ymyraeth.

As busy as a bee—mòr ddiwyd a'r wenynen; càn *neu* cyn ddiwyted a'r wenynen.

It was the busy time of harvest—yr oedd hi yn bres gynauaf; prysur amser cynauaf ydoedd.

The busy time of market—pres marchnad; pres farchnad; marchnad brysur.

When we are busiest of all—pan fom yn mhres ein gwaith *neu* orchwyl; pan yr ym brysuraf wrth ein gorchwyl; pan y byddom brysuraf wrthi.

While I was busy in writing—a mi yn brysur yn ysgrifenu; a mi yn prysur ysgrifenu.

As thy servant was busy here and there—tra yr oedd dy was yn ymdröi yma ac acw.

A busy day—dïwrnod prysur.

Busy-minded—prysur-feddwl; gweithgar neu brysur ei feddwl.

Busy, *v. a.* trafferthu, ffwdanu; ymdrafferthu neu ymdraffullio â; dàl ar waith; cadw neu ddàl wrth waith; rhoi peth i'w wneuthur; rhoi llawnwaith; cadw neu ddàl mewn llawn waith; peri trafferth i.

To busy one's self with an affair—ymyru, ymyryd, ymyraeth, neu ymrwystro â pheth.

A busy day—diwrnod prysur.

Busy not thyself with other men's affairs—nac ymyra â materion, negesau, neu bethau rhai ereill.

Busy-body, *s.* ymyrwr, ymyrydd, rhydreswr, rhodreswr; prysurwas; prysur heb ddiolch; dyn ymyrgar, rhydreagar, rhydresus, cymmyreddus, neu ymyrus; un â'i fys yn mrywes neu yn mhotes pawb; un à fwrio ei gryman i yd pawb; un a roddo ei lwy yn nysgl pawb; chwilgi.

But, *c.* (S. *butan, bute, buta*) ond, onid, eithr, oddi eithr; er hyny, eto, ond eto, yn unig; cyn, pan; hagen, anllai; eisoes, eisys; nid amgen, amgen; onis, onid e; etwaeth, eton, etwa; ag, nag.

But, *prep.* ond, onid, eithr, oddi eithr, odd eithr, oddi gerth; heb, heb law, namyn, amyn, nam, named; maes o; allan o; dim ond; dim amgen na neu no.

But yet—ond, eithr, eto, ond eto, eton, etwa, etwaeth, er hyny, eisoes, eisys, hagen; ond er hyny.

But it is plain—eithr eglur yw; ond y mae yn eglur.

But yet the king hearkened not to his words—ond eto, er hyny, er hyny eto, eisoes, neu hagen, ni wrandawodd y brenin ar ei eiriau ef.

But for—oni buasai, oni bai; heb; pe na buasai.

But for one man we should have perished—oni buasai un gwr, darfuasai am danom.

But for him—oni buasai ef; hebddo ef; hebo ef; oni buasai iddo ef; ped ond ef.

Her head was bare, but for her native ornament of hair—noeth oedd ei phen, ond ei haddurn naturiol o wallt; ei phen oedd noeth, oni buasai ei haddurn gwallt cynhenid.

But that—oni bai, oni byddai; oni buasai; pe na, pe nad, pe nas; nad oes.

But that I feared the king's displeasure—oni bai ofni o honof ddig y brenin; oni buasai ofni o honof ddig y brenin; pe nad ofnaswn ddig y brenin.

It cannot be but nature has some director—nis geill fod nad oes gàn natur ryw lywydd; nis geill lai na bod gàn natur ryw gyfarwyddwr; nis dichon fod nad oes i anian ryw lywydd; nis gall yn amgen na bod gàn anian ryw reolydd; ni ddichon fod amgen na bod i natur ryw gyfarwyddydd.

But that we were already employed—pe na buasem eisoes mewn gwaith; pe buasem heb fod ar waith eisys; oni buasai ein bod mewn gwaith eisoes.

But that I think you know it already—oni bai i mi dybied y gwyddoch ef eisoes; pe nas tybiwn y gwyddoch ef eisoes; pe na thybiwn ei wybod o honoch yn barod.

The moon was no sooner up but he opened the gate of Paradise—nid cynt y cododd y lleuad nag yr agorodd efe borth Gwynfa; yn gyntaf neu cyn gynted ag y cododd y lloer, efe a egorodd borth Paradwys.

Hardly was the former stir ended, but a new one arose—braidd y gostegasai y terfysg o'r blaen, cyn codi o un newydd; prin y peidiassai y terfysg o'r blaen, pan gyfodiodd un newydd.

But only you—neb ond chwi; neb onid chwi; chwychwi yn unig.

None but he could have done it—nid oedd neb, ond, onid, eithr, neu oddi eithr efe, a allasai ei wneuthur; nis gallai neb ond efe ei wneuthur.

A hundred but one—cant ond un; namyn un cant; amyn un cant; cant namyn un.

There was nobody at home but I—nid oedd neb gartref ond mi; nid oedd neb gartref onid myfi, nid oedd neb gartref heb law mi, neu heb fy llaw i.

There is none good but one—nid da neb ond un.

Our light affliction which is but for a moment—ein byr ysgafn gystudd (2 *Cor.* iv. 17).

There was nothing in his house, but what he shewed them—nid oedd dim yn ei dy ef ag neu a'r nas dangosodd efe iddynt.

None of them is lost but the son of perdition—ni chollwyd o honynt ond mab y golledigaeth.

We have done unto thee nothing but good—nis gwnaethom ddim ond da iti; nis gwnaethom ond da yn unig iti; nyni a wnaethom ddaioni yn unig â thi.

He did nothing but complain—ni wnaeth ddim ond achwyn..

Do you but be faithful to your promise—yn unig byddwch ffyddlawn i'ch addewid.

Obey but my voice, } yn unig gwran-
Do but obey my voice, } daw ar fy llais; yn unig gwrandawa fy llais.

These last have wrought but one hour—un awr y gweithiodd y rhai olaf hyn; ni weithiodd y rhai olaf hyn ond un awr.

Tell me nothing but that which is true—na ddywed wrthyf ond neu namyn gwirionedd; na ddywed i mi ddim ond yr hyn sy wir.

She does nothing but weep—ni phaid hi âg wylo; ni wna hi ddim ond wylo; nis gwna hi swydd ond wylo.

I cannot but speak the truth—nis gallaf na ddywedwyf y gwir; nis gallaf lai na dywedyd y gwir.

I cannot but love her—nis gallaf lai na'i charu; nis gallaf nas carwyf hi; ni allaf beidio â'i charu.

There is none but is afraid of you—nid oes neb nad yw yn eich ofni; nid oes dyn ag nad yw eich ofn chwi arno.

It cannot be but the multitude must come together—nid oes modd na ddel y lluaws yn nghyd.

There is none but knows—nid oes dyn ag nas gŵyr; nid oes neb nas gŵyr; nid oes un na ŵyr; pawb a wyddant; gŵyr pawb; gŵyr pob un.

There is no question but the king will reform—nid oes dadl na ddiwygia y brenin.

Did men but consider—petai dynion yn unig yn ystyried; petai dynion ond ystyried; pe bai dynion yn unig yn ystyried; petai dynion ddim ond ystyried; pe bai dynion ddim ond yn ystyried; ped ystyriai dynion.

Believe nothing concerning God, but what is honourable—na chred ddim am Dduw, amgen nag anrhydeddus; na chred ddim am Dduw, amgen na'r hyn a fyddo anrhydeddus.

You cannot buy it, but at a very dear rate—chwi a'i prynwch yn brid *neu* yn ddrud iawn, os ei brynu a wnewch, nis gallwch ei brynu ond am bris tra uchel.

He came but yesterday—nid oes ond er doe er pan ddaeth; ni ddaeth ond er doe.

He is but just now gone—yn awr fach yr aeth; gynneu fach yr aeth; nid yw ond newydd fyned.

There wanted but a little but he had struck him—ni bu ond y dim lleiaf rhyngddo a'i daraw; prin *neu* braidd y peidiodd â'i daraw.

I would but for hurting him—mynwn oni bai imi ofni ei niweidio ef; mynwn oni bai imi ofni gwneuthur iddo niwed.

What ails you but that you may do it?—beth a'ch rhwystra i'w wneuthur?

But if—ond os, eithr os, ond pe, ond ped, ond od, eithr od, eithr o, ond o.

But if not—ac onid e, ond onid e, eithr onid e, ac onid, eithr onid, eithr os nid, eithr os nad, ond os na.

But if you worship not—ac onid addolwch; ac onid ymgrymwch; eithr os nid ymgrymwch *neu* addolwch.

But rather—yn hytrach; eithr *neu* ond yn hytrach; eithr sy fwy; echre.

But seldom—yn anfynych, yn anaml, ond odid; ond yn anfynych; ond anfynych.

This is but seldom seen—anfynych y gwelir hyn; ni welir hyn ond anfynych; hyn ni welir ond yn anfynych.

But a while ago—yn ddiweddar; ond ychydig bach yn ol; yn hwyr; yn hwyr o amser; yn ddiweddar iawn; yn hwyr iawn; gynneu; er ys talm bach; ers ennyd bach; er ys meityn bach; er ys cetyn bach o amser.

But just now—yn awr fach; gynneu fach; ychydig bach yn ol.

Not but that—nid am na; nid am nas; nid am nad.

But only that—ond yn unig mai; ond yn unig bod.

But though—ond er, eithr er; anllai.

There is no doubt but—nid oes ammheu nad; nid oes ammheuaeth na *neu* nas.

The Thursday but one before Whitsuntide—y dydd Iau nesaf ond un cyn *neu* o flaen y Sulgwyn; y dydd Iau nesaf ond un i'r Sulgwyn.

The last line but one—y llinell olaf ond un; y llinell olaf namyn un.

It is but necessary—nid yw ond rheidiol, angenrhaid, *neu* angenrheidiol.

She is anything but handsome—mae hi yn unrhyw beth ond hardd; y mae hi yn beth â fynoch ond hardd; y mae hi yn unpeth ond hardd; mae hi y peth â fynoch ond hardd.

It is all but blank—y mae yn oll ond gwagle; mae yn oll ond gwagle hollol; y mae o fewn i ddim yn wagle hollol; y mae bron yn wagle hollol.

We shall but die — byddwn farw; ni wnawn ond marw.

But, } *s.* (Ff. *bout*) ffin, terfyn, cyffin, ffinedd;
Butt, } bon, y bon, bonwn.

But, *v.* ffinio, cyffinio, cydio, terfynu.

Butcher, *s.* (Ff. *boucher*) cigydd, cigwr; lleiddiad.

The butcher, }
Butcher-bird, } y cigydd=math o aderyn.

Great butcher-bird—y cigydd mawr.

Red-backed butcher-bird—y cigydd cefngoch.

Least butcher-bird—y barfog, y cigydd lleiaf.

Butcher's trade — cigyddiaeth, celfyddyd cigydd.

Female butcher—cigyddes.

Butcher-row—cigfa, y gigfa, marchnad y cig, y farchnad gig, cigle, cigyddfa, cigyddle; rhes o gigfau, cigres.

Butcher's shop — cigdy, cigyddfa, cigfa, cigydd-dy, cigfwth, bwth cigydd, gwerthdy cigydd.

Butcher's meat—cig, cig ir, cig ffres, cig ffresg, cig y cigydd.

Butcher's broom — banadl pigog, celyn Mair, celyn Ffrainc, gewynllys, gleulys, llysiau y gïau, pryseg.

Butcher, *v. a.* cigyddio, dïenyddio, lladd.

Butcherliness, *s.* (o *butcherly*) cigyddolrwydd, cigyddlydrwydd, gwaedlydrwydd, creulonrwydd, creulonder.

Butcherly, *a.* (o *butcher*) cigyddaidd, cigyddlyd, cigyddol; cïaidd, creulawn, gwaedlyd, ffyrnig, barbaraidd.

A butcherly fellow—cigydd o ddyn.

Butchery, *s.* (o *butcher*) cigyddiaeth; cigfa, cigyddfa, cigle, cigyddle; marchnadfa cig; galanasdra, lladderedd.

Buteoninæ, *s. pl.* (Ll. *buteo*) boncatholion, bwncathogion, boncathogion.

Butler, *s.* (Ff. *boutillier*) trulliad, trulliwr, heilyn, gwallofiad, menestr, gwallofydd, gwallofwr.

The chief of the butlers—y pentrulliad (*Gen.* xl. 2).

Female butler—trulliades, heilynes, gwallofyddes, gwallofiades.

Under-butler—isdrulliad, iswallofiad.

Butlerage, *s.* (o *butler*) trulliadaeth, heilyndoll.

Butlerage, } *s.* (o *butler*) trulliadaeth, heilyn-
Butlership, } iaeth, heilynyddiaeth; swydd trulliad.

He restored the chief butler unto his butlership again — gosododd y pentrulliad eilwaith yn ei swydd (*Gen.* xl. 21).

Butment, *s.* (hen Ff. *aboutment*) pentan, mydatteg, mydwanas.

Butment of an arch—mydatteg, mydwanas, pentan, bwa.

Butment cheeks — morteisarnau, ochrau mortais.

Butomus, *s.* (Gr. *bous* a *temnô*) engraff, brwynen flodeuog=math o frwyn.

Butshaft, *s.* (*but* a *shaft*) nodsaeth, annelsaeth, parselsaeth, saeth annel.

Butt, *s.* (Ff. *bout*) nod, parsel, annelnod; cyff cler, gwawdnod, gwatwargyff, nod y gwatwar, gwawdgyff, gwatwarnod; pwt, gwth, hyrddiad, gyrth, hwrdd, corniad; bon, arlost.

Butt of ridicule—cyff cler, gwatwargyff, cyff gwawd.

Butt and butt—bonfon; talcen yn nhalcen.

Broad butt—bauol, bon llydan.

To start *or* spring a butt—ymollwng yn mon y planciau; ymollwng *neu* ymryddhau yn y bon.

Butt-end, But-end, } bon, arlost, bonwn.

To run full butt at one another — ymgyfredeg, ymgyhydreg, *neu* ymgyfranc dalcen yn nhalcen; ymruthro dalcen yn nhalcen.

Butt, *v. n.* (C. *pwtio;* It. *buttare*) cornio, hyrddio, hyrddu, gyrthio, pwtio, pwtian, cernial, ymgornio, gwthio, gwrthdaro, hergornio, ymhyrddio.

Butt, *s.* (S. *butte, bytt;* Ysp. *bota*) bauol, bytaid, bauolaid=baril o 126 galwyn o win, neu 2 fyddi.

Butter, *s.* (Al.; S. *buter, butera;* Ll. *butyrum;* Gr. *bouturon*) ymenyn.

Fresh butter — ymenyn gwyrf, ymenyn gwyra, ymenyn ffres, ymenyn ffresg.

Salt *or* salted butter—ymenyn hallt.

Butter tray—ciler, ciler ymenyn.

To make butter — cyweirio ymenyn; gwneyd ymenyn, gwneuthur ymenyn.

A lump *or* print of butter—agalen, breian, brefan, rhisgen, manaid, calen, *neu* seigen o ymenyn.

Bread and butter—bara ac ymenyn; brechdan, brechdaen.

A slice of bread and butter—brechdan, brechdaen; tafell o frechdan; clem *neu* dafell o fara ac ymenyn.

Butter and cheese — ymenyn a chaws; enllyn gwŷn; enllyn.

She looks so demurely, as if butter would not melt in her mouth—gellid meddwl wrth ei golwg na lyncai hi mo'r llefrith.

A pot of butter, A pot-ful of butter, } ystenaid o ymenyn, potaid o ymenyn.

Butter trade—masnach *neu* drafnid ymenyn.

He that has a good store of butter may lay it thick on his bread—à fo aml ei fêl, rhoed ar ei fara; a fo aml ei fêl, rhoed yn ei uwd.

Butter, *v. a.* ymenynu; iro *neu* ddwbio âg ymenyn.

Buttered toast, Toast and butter, } crasdafell ymenynedig *neu* ymenynog; crasdafell iredig âg ymenyn; crasfrechdan, brechdan grasboeth, brechdaen gras.

He knows on which side his bread is buttered—efe a ŵyr ar ba wyneb i'r bara y mae yr ymenyn; e ŵyr y gath pa farf a lyf.

To butter a cake—ymenynu teisen; rhoi *neu* osod ymenyn ar deisen; iro teisen âg ymenyn.

Fair words butter no parsnips—ni lenwir cylla gwag â geiriau teg.

Butter-bump, *s.* aderyn y bwn, aderyn y bwmp, bwmp y gors.

Butter-bur, Butter-burr, } *s.* alan mawr, dail y tryfan.

Common butter-bur=*Butter-bur.*

Butter-cups, Butter-flower, } *s.* blodau yr ymenyn, blodau ymenyn, chwys Mair, egyllt cnapwraidd, egyllt cnapwreiddiog.

Butterfly, *s.* (S. *buter-flege*) ilir, eilir, eilier, glöyn byw, glöen fyw, pilai, pila, clöyn, clöyn byw, iar fach yr haf.

Butterfly-shaped—pileiaidd, eiliraidd, iliraidd, clöynaidd; ar ddull *neu* lun ilir.

Butterfly-shell — yr ilirgragen; *pl.* ilirgragod=math o grestlibogion.

Butterfly-plant—eilirlys, ilirlys.

Butterfly gymnadenia—baldar dwyddeiliog.

Butteris, Butters, } *s.* (?) naddiadyr, carndaclyr, haiarn naddu.

Butter-milk, *s.* (*butter* a *milk*) llaeth enwyn, enwyn.

Butternut, *s.* (*butter* a *nut*) olewgneuen, cneuen ymenyn: *pl.* olewgnau.

Butter-print, Butter-stamp, Butter-spoon, Butter-scraper, } *s.* print ymenyn, nodyr ymenyn, breiannodyr. *s.* crafell ymenyn.

Buttertooth, *s.* (*butter* a *tooth*) llaethddant, rhagddant llydan, rhagddant, blaenddant.

Buttertree, *s.* (*butter* a *tree*) ymenynwydden, pren ymenyn: *pl.* ymenynwydd, coed ymenyn.

Butter-wife, Butter-woman, } *s.* ymenyn-wraig, gwerthwraig ymenyn, ymenynyddes.

Butterwort, *s.* (*butter* a *wort*) y doddaid felen, y doddedig felen, eiryfedig.

Common-butterwort — toddaid felen gyffredin, y doddaid felen, y doddedig felen.

Buttery, *a.* (o *butter*) ymenynaidd, ymenynog, ymenynol, ymenynllyd.

Buttery, *s.* (o *butter*) bwydgell, bwytty; trullfa.

Buttock, *s.* (o'r Ff. *aboutir*, yn ol tyb *Skinner*) pedrain, ffolen, bontin, tin, clun, morddwyd, cwman, crymal.

The buttock of a ship—crymal llong.

A little buttock—ffolenig, crymalen.

With buttocks uncovered — yn dinnoeth (*Esa.* xx. 4).

Button, *s.* (Ff. *bouton;* It. *bottone;* C. *botwn*) botwm, botwn; boglwm, boglyn, cnap; blaguryn.

Button, Button-fish, } morddraenog, draenog y môr.

Button and loop—botwm a dolen.

A thing not worth a button—peth diddym; peth heb ddim; baw-beth; peth heb fod yn werth brwynen; anober, anoberi.

His tail makes buttons—y mae yn rhefro *neu* yn crynu gàn ofn; y mae yn rhefro.

Button, *v. a.* botymu, botynu, botyno; boglymu, boglynu.

Bachelor's button—lluglys ysgar, llys yr ychain, blodeuyn rhudd; botwm mab ieuanc.

Button-bush, *s.* botymlwyn.

Buttoned, *a.* (o *button*) botymog, boglymog; botymedig, boglymedig, boglynedig.

Button-flower, *s.* botymflodyn, cnapflodyn: *pl.* botymflodau, cnapflodau.

Buttonhole, *s.* (*button* a *hole*) twll *neu* rwyll botwm, twll botwn, bwt.

Button-maker, *s.* botymwr, botynwr, gwneuthurwr botymau.

Button-stone, *s.* botymfaen.

Button-tree, *s.* botymbren, botymwydden, cnapwydden: *pl.* botymwydd, cnapwydd.

Button-weed, *s.* botymlys, botymchwyn, botymwiydd.

Button-wood, *s.* botymwydd, bytwydd, cnapwydd, cnapgoed.

Buttress, *s.* (o *but*) atteg, attegwaith, cynnalfur, attegfur, canbost, cambost, gwanas, murwanas, seilddar, gwrthgefn; cynneiliad, cynnalydd, cynnaliawdr.

Flying buttress — hedwanas, hedatteg, croesatteg, atteg hedegog.

Buttress, *v. a.* attegu, cynnal; cynnal *neu* ddâl i fyny; rhoi atteg dân; gwrthgefnu.

Buttressed, *a.* (o *buttress*) attegedig, cynnaledig; âg atteg *neu* gynnalfur dano, &c.

Butts, *s. pl.* (o *butt*) parselfa, saethfa, saethle, saethfan; cihrynau, (*sing.* cilrwn); pynfeirch, argaeau.

Butwink, *s.* butwinc=enw aderyn.

Butyraceous, } *a.* (Ll. *butyrum*) ymenynaidd,
Butyrous, } ymenynog, ymenynol, ymenyllyd; o ansawdd ymenyn.

Butyric, *a.* (Ll. *butyrum*) ymenynig.

Butyric acid—sur ymenynig.

Butyrine, *s.* (Ll. *butyrum*) ymenynain, ymenynin =math o ddefnydd olewaidd à geir o ymenyn.

Buxbaumia, *s.* (oddi wrth I. C. *Buxbaum*) Bwcsbawmia, pyrfwswn.

Buxeous, *a.* (Ll. *buxus*) ysbeinwyddain, ysbeinwyddin, bocysaidd; perthynol i'r ysbeinwydd neu y bocys.

Buxina, } *s.* (Ll. *buxus*) bodlyshal, bocysin,
Buxine, } bocsin=llyshal, llysalcali, *neu* alcali llysieuaidd, à geir o'r pren bocys.

Buxom, *a.* (S. *bocsum*) bywiog, hoenus, heinif, heini, hoew, hawntus, llawen, gweisgi, gwisgi, sionc, nywus, gorhoenus, gorawenus, brywus; nwyfus, hynwyf, anllad, hyserch, trythyll; †ufydd, ufyddgar, hydrin.

The buxom air—yr awyr hyran, hydraidd, hyhollt, *neu* deneu; yr awyr hawntus.

The buxom morn—y bore bywiog *neu* awyfus.

Buxomness, *s.* (o *buxom*) bywiogrwydd, hoen, nyw, gorhoen, hoenusrwydd, heinifder; awyfusrwydd, nwyfiant, hynwyfedd, anlladrwydd, anlladedd, trythyllwch;† ufyddgarwch, hydrinedd, uddyfdod.

Buxus, *s.* (Ll.)=*Box*, *Box-tree*.

Buy, *v.* (S. *bigan*, *bygan*, *bycgan*) prynu, pwrcasu; masnachu.

To buy a pig in a poke—prynu cath mewn cwd; prynu cath mewn cod *neu* ffetan.

He shows that he has a mind to buy—dengys ei bryngarwch; dengys ei fod ar fedr *neu* ar oddeu prynu.

He has not wherewith to buy a halter—nid oes ganddo mo'r ewinedd i ymgrafu.

It is good buying with other men's money—arfog à gaffo rybudd; rhybudd i ddedwydd; prynu synwyr ar draul ereill.

To buy a bargain—prynu â newid *neu* â bargen arno; rhadbrynu; cael newid *neu* fargen ar beth.

To buy dear—prynu yn ddrud; prynu yn brid; prynu cyhyryn gân gath.

To buy and sell—prynu a gwerthu; marchnata, masnachu; porthmona.

To buy again — adbrynu, eilbrynu, ail brynu; dirbrynu.

To buy before hand—rhagbrynu; prynu yn mlaen llaw.

To buy at the best hand—prynu ar *neu* gân y llaw flaenaf; prynu o lygad y ffynnon; prynu gân y gwneuthurwr; prynu ar y llaw oreu.

To buy often—mynych brynu; prynu yn fynych; ymarfer o brynu.

To buy together—cydbrynu, cydfasnachu; prynu *neu* fasnachu yn nghyd.

Bought wit is the best—goreu synwyr, synwyr pryn.

To buy off a criminal—prynu rhyddid *neu* faddeuant i droseddwr.

To buy off conscience—prynu ymaith gydwybod; peri i'r gydwybod ddystewi; llonyddu *neu* ddyhuddo cydwybod euog; dystewi llef cydwybod euog; dallu llygaid cydwybod drwy wobrau.

To buy off a judge—prynu barnwr i ochr un; gobrwyo barnwr er peri iddo wyro barn; gobrwyo barnwr er peri iddo gyfiawnhau yr euog; llygru barnwr drwy wobrau.

To buy out of one's hand—dwyn masnach *neu* nwydd o law un; prynu ymaith o law un.

To buy up—prynu, pwrcasu; prynu i fyny.

To buy by the lump—prynu wrth y talp; prynu wrth y swmp; prynu yn y crynswth; prynu wrth y llaw; prynu yn y cyfan; prynu yn grynswth.

To buy upon tick *or* trust—prynu ar goel; prynu ar air; prynu ar ddydd; prynu heb arian parod; prynu heb dalu i lawr; prynu heb dâl ar law; prynu yn *neu* ar echwyn.

To buy with ready money—prynu âg arian parod; prynu âg arian ar lawr; prynu âg arian ar law; prynu â thâl ar law; prynu drwy dalu i lawr.

To have a mind to buy—bod â chwant prynu arno; bod âg ambrynu arno; bod âg ambryn arno; bod ar fedr *neu* ar oddeu prynu; bod yn bryngar.

A mind to buy—ambryn; chwant prynu; meddwl prynu; bwriad i brynu; blys i brynu; pryngarwch.

To buy in—prynu i mewn; prynu i fewn.

To buy off—prynu ymaith, i ffwrdd, *neu* oddi wrth.

Easy to be bought—hybryn; hawdd ei brynu.

Buyer, *s.* (o *buy*) prynwr, prynydd, pwrcaswr.

A great buyer—prynwr mawr, prynwr diwala; ambrynydd, ambrynwr.

Buzz, *v.* (It. *buzzicare*) sïo, suo, husting, sibrwd, sistrain, sisial, sisruo; lleisio, gryngian, chwyrnu, *neu* sisial fel gwenyn; isel sibrwd *neu* siffrwd.

To buzz about *or* abroad—bwrw y gair allan; rhoi y gair allan; cyhoeddi dân sibrwd; husting; taenu ar led; gyru ar gyrn a phibau.

Buzz, *s.* su, si, husting, sis, sibrwd, siffrwd, sisial, eddrin, sygan, goruad, hust; llais, mwngial, *neu* si gwenyn.

Buzzard, *s.* (Is. *buzaard*; Al. *bussaar*, *busshard*)

boncath, bwncath : cadafel, penbwl, pendew, brebwl, cuall.
Common buzzard—bod teircaill ; bwncath cyffredin, boncath cyffredin.
Honey buzzard—bod y mel.
Bald buzzard—bod tinwyn, iar dinwen, y dinwen frech ; bod y gwerni, bwncath y wern.
Moor buzzard, White-headed harpy, } bod y gwerni, bwncath y wern, y bod penwyn, y penwyn.
Buzzard, *a.* pendew, penbylaidd, cuall, disynwyr.
Buzzardet, *s.* (o *buzzard*) boncath hirgoes ; boncathyn.
Buzzer, *s.* (o *buzz*) sisialwr, sisialydd, sŵwr, sïwr, eddrinwr, siffrwr, siffrydd.
Buzzing, *s.* (o *buzz*) sïad, suad, sisial, hustingiad, hustiad.
By, *prep.* (S. *be, big ;* Sw. a D. *be ;* Is. *by ;* Al. *bei, bey*) gàn, trwy, drwy, wrth, â, âg ; ger, ger llaw, ger llaw i, gàr, gàr llaw, càr ; wrth law ; yn agos i *neu* at ; yn gyfagos i *neu* at ; agos i *neu* at ; yn nesaf i *neu* at ; ar ymyl, yn ymyl ; ar ael, yn ael, ar fin, yn min, ar làn, yn nglàn ; gyda, yn llaw, trwy law ; gerfydd ; yn ; erbyn ; heibio, heibio i ; heb law, heb ; ar warthaf ; ar hyd, hyd ; myn ; i ; llwrw, llwyr ; yn agos *neu* gyfagos ; ach ; er, er mwyn ; yn ngŵydd, ger bron, ger gŵydd ; o ; wrtho, wrthi, wrthynt.
By me—genyf, ganof, cenyf, ganddof, canddof ; wrthyf, wrthof, wrthwyf ; trwyddof, trwyof, trwof, trwyddwyf ; yn fy ymyl.
By thee—genyt, genot, genyd ; wrthyt, wrthot ; trwyddot, trwyot, trwot ; yn dy ymyl.
By him, By it, } ganddo, ganto ; wrtho ; trwyddo, trwyo ; yn ei ymyl.
By her, By it, } ganddi, ganti, genddi ; wrthi ; trwyddi, trwyi ; yn ei hymyl.
By us—genym, ganom, ganddom, cenym ; wrthym, wrthom ; trwyddom, trwyom, trwom, trwyddym ; yn ein hymyl.
By you—genych, ganoch, ganddoch, canddoch, cenych ; wrthych, wrthoch ; trwyddoch, trwyoch, trwoch ; yn eich ymyl.
By them—ganddynt ; wrthynt ; trwyddynt, trwyddont, trwyynt ; yn eu hymyl.
By myself—wrthyf fy hun ; wrthyf fy hunan ; wrthof fy hunan ; wrthof fy hun.
By thyself—wrthyt dy hun ; wrthot dy hunan ; wrthyt dy hunan ; wrthot dy hun ; ar dy ben dy hun *neu* hunan.
By himself—wrtho ei hun ; wrtho ei hunan ; wrth ei hun ; wrth ei hunan ; ar ei ben ei hun *neu* hunan.
By herself—wrthi ei hun ; wrthi ei hunan ; wrth ei hunan ; ar ei phen ei hun *neu* hunan.
By ourselves—wrthym ein hunain ; wrthym ein hun ; wrthom ein hunain ; wrthom ein hun ; ar ein pen ein hun *neu* hunain.
By yourselves—wrthych eich hunain ; wrthych eich hun ; wrthoch eich hunain ; wrthoch eich hun ; ar eich pen eich hun *neu* hunain.
By themselves—wrthynt eu hun *neu* hunain ; ar eu pen eu hun *neu* hunain.
By itself—wrtho ei hun ; wrtho ei hunan ; ar ei ben ei hun *neu* hunan ; ar ddydol ; ar neilltu ; ar wahan ; o'r neilldu ; yn wahanredol.
Hard by, Close by, } yn ymyl, yn nghyfyl, ger, gàr, ger llaw, ar warthaf, yn agos, yn gyfagos ; wrth ; yn agos at ; ger llaw i ; yn agos i *neu* at ; yn gyfagos i *neu* at ; yn nesaf i *neu* at ; ar ael ; yn ymyl, ar ymyl ; eiddwg, wnc, wng, ach ; ach law ; yn min ; ar bwys ; yn mron.
By the gate—ger llaw y porth ; ger llaw i'r porth ; wrth y porth ; ger y porth.
He sat by the king's side—efe a eisteddodd wrth ystlys y brenin.
As gardens by a river—fel gerddi wrth afon.
By the sea—wrth y môr ; ar fin y môr ; yn nglàn y môr ; yn ymyl y môr ; ar làn y môr ; ger y môr.
By the edge of the sword—â min y cleddyf ; trwy fin y cleddyf ; ar fin y cleddyf.
He was slain by his enemies—lladdwyd ef gàn ei elynion.
By man shall his blood be shed—trwy ddyn y tywelltir ei waed ef.
By weapons of war—âg arfau rhyfel.
My people shall die by the sword—fy mhobl a fyddant farw gàn *neu* drwy y cleddyf.
By thy sword shalt thou live—wrth dy gleddyf y byddi fyw.
By the sweat of his brow—trwy chwys ei wyneb.
By reason of—o herwydd, oblegid, o achos, herwydd, o ethryb ; gàn, rhag, trwy, o.
By reason of the famine—oherwydd, o achos, *neu* gàn y newyn.
By reason of the very long journey—rhag meithed y daith ; gàn *neu* herwydd meithder y daith.
If by reason of strength they be fourscore years—os o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd.
By reason that—o herwydd mai *neu* bod ; o achos *neu* o ethryb mai *neu* bod ; am mai, am fod, am taw.
By his side—wrth ei ystlys, ei ochr, *neu* ei glun ; yn ei ymyl *neu* ei ochr ; ar ei glun.
Put *or* gird thy sword by thy side—gwisg dy gleddyf ar dy glun ; gwregysa yth gledd ar dy glun.
He had a writer's inkhorn by his side—yr oedd ganddo gorn du ysgrifenydd wrth ei glun.
By the side of—cyfarystlys, cydystlys, cyfystlys, cyfochr, *neu* gyfochrog â ; ystlys yn ystlys â ; ochr yn ochr â *neu* âg ; wrth ystlys *neu* ochr ; wrth glun.
By the hand of—yn llaw, trwy law, gyda, gydag, â llaw.
Send by them—danfonwch gyda hwynt.
By the hand of a fit man—yn llaw gwr cymhwys ; gyda dyn addas.
By the hand—gerfydd y llaw ; erbyn y llaw ; ger *neu* gàr ei law ; wrth y llaw.
He took her by the hand—efe a'i cymmerodd hi gerfydd *neu* erbyn ei llaw ; efe a ymaflodd yn ei llaw hi.
They dragged him by the hair—llusgasant ef gerfydd ei wallt.

They hung him by his feet—crogasant ef gerfydd, ger, *neu* wrth ei draed.
By the way—ar hyd y ffordd; hyd y ffordd.
By the way by which thou camest—ar hyd yr un ffordd ag y daethost.
By way of illustration—mewn ffordd o eglurhad; er mwyn eglurhad; mewn dull o egluriad.
By way of recreation—er mwyn difyrwch; mewn ffordd o ddifyrwch.
To pass one another by—myned heibio i'w *neu* eu gilydd; myned yn heblaw eu gilydd; myned yn ngwrthol eu gilydd; myned law heblaw â'u gilydd; pasio heibio eu gilydd.
There he is going by—dyna efe, ef, *neu* fe yn myned heibio.
By some means—trwy ryw ffordd *neu* fodd; yn rhyw ffordd; yn rhyw fodd; yn rhyw-fodd; yn rhywffordd.
By all means—yn mhob modd; yn mhob gwedd; trwy bob modd; trwy bob cyf-lwr; er dim; yn mhob rhyw fodd; yn ddilai; yn ddïau; beth bynag a fo; beth bynag a fyddo; pa fodd bynag; bynag pa fodd; er dim ag a fo.
By no means, } nid mewn un modd;
Not by any means, } nid er dim; nid felly er dim; nag e; nag e ddim; na ddo ddim; nid mewn un modd yn y byd.
Thou shalt by no means do this—na wna mo hyn er dim; paid â gwneyd hyn er dim ag a fo; na wna hyn mewn un modd.
I will by no means forsake thee—ni'th adawaf ddim.
By any means—mewn un modd; yn un modd; yn rhyw fodd; rhyw fodd, rhyw-fodd; mewn rhyw fodd; mewn neb rhyw fodd; mewn modd yn y byd; yn hollol.
Nothing shall by any means hurt you—nid oes dim à wna ddim niwed i chwi.
By some means or other—yn rhywfodd neu gilydd; yn rhyw fodd neu gilydd; trwy ryw fodd neu gilydd.
By what means?—pa fodd? trwy ba fodd-ion? pa wedd? pa sut? trwy ba fodd? yn mha fodd? yn mha wedd? yn mha sut? yn mha ddull?
By this means—trwy *neu* drwy hyn; wrth, herwydd, *neu* o herwydd hyn; trwy y ffordd hon *neu* yma; wrth hyny; fel hyn; yn y modd hwn *neu* hyn.
By that means—trwy, wrth, *neu* herwydd hyny; trwy y ffordd hòno; y ffordd hòno; y modd hwnw *neu* hyny; fel hyny; yn y modd hwnw *neu* hyny.
By means of—trwy, drwy; trwy waith; o waith; gàn, o achos, oblegid, oherwydd, herwydd, o herwydd.
By my means, } trwyodd, trwyddof, *neu*
By means of me, } trwof fi; o'm gwaith i; o'm hachos i; o'm plegid i; o'm herwydd i; trwy ym gwaith *neu* ym llafur i; trwy fym gwaith i.
By thy means—trwyot ti, trwot ti, trwyddot ti; o'th waith di; trwy yth waith di, &c.
By his means—trwyddo ef, &c.
By their means—trwyddynt hwy, &c.
This hath been by your means — o'ch gwaith chwi y bu hyn.
By fair means—trwy deg.
By foul means—trwy hagr.
By degrees—yn raddol, yn raddau, o radd i radd, bob yn radd; bob ychydig; bob yn ychydig; o gam i gam; o glun i glun; yn araf deg; gàn bwyll; yn chwarian; o fesur ychydig ac ychydig; o fesur cam a cham; o dipyn i beth; o lwff i lwff.
By chance—o ddamwaen, o ddygwydd, o ddygwyddiad; fel y damweiniodd; yn ddamweiniol; trwy chwaen.
By course, } ar gylch; bob yn ail; ol-
By turn, } ynol; yn olynol; ar dro;
By turns, } bob eilwers; bob yn eil-wers; gwers tra gwers; y naill ar ol y llall; ail tra ail.
By little and little—bob yn ychydig; bob ychydig ac ychydig; bob ychydig; o fesur ychydig ac ychydig; o fesur cam a cham; bob yn ronyn; bob yn dipyn; gàn bwyll; yn chwarian; chwyf a chwyf; o dipyn i dipyn; bob yn dipyn bach.
By heart—ar dafodleferydd; ar ei dafod-leferydd; ar ei thafodleferydd; ar eu tafodleferydd; ar dafod; ar gof; ar ei gof; ar ei chof; heb y llyfr.
By stealth—yn lladradaidd, yn lledradaidd, yn lladrad.
By and by, } yn y màn, ar fyr, yn ddïan-
By-and-by, } nod, yn ddïoed, yn ddïaros, yn ddïattreg, ar fyrder, ar frys, allan o law, maes o law, heb attreg, yn lleigus, yn fuan, yn ebrwydd, ar y gair, toc.
By the by, } ar y ffordd, ar gerdded; ar
By the way, } redeg; ar ei hynt; wrth fyned heibio; gyda llaw; wrth frysio *neu* brysuro; gyda myned heibio.
By day—y dydd, wrth liw dydd, liw dydd, yn y dydd, ar hyd dydd, ar hyd y dydd.
Day by day—o ddydd i ddydd; beunydd; yn feunyddiol; bob dydd; o ddydd bwy-gilydd; o ddydd bygilydd; dydd yn ei ddydd; o ddïwrnod i ddïwrnod; o'r naill ddïwrnod i'r llall.
Day by day we magnify thee—beunydd a byth y clodforwn dydi.
By day-break — gyda thoriad y dydd; gyda'r wawr; gyda thoriad y wawr; ar doriad y dydd; erbyn toriad y wawr; erbyn y wawr, &c.
By night—y nos, liw nos, wrth liw nos, yn y nos, cefn y nos, ar hyd y nos, o hyd nos, ar hyd nos.
By much, } o lawer, o lawer byd, yn mhell,
By far, } yn llawer, llawer iawn.
By far the most learned—y dysgedicaf o lawer; y dysgedicaf yn mhell; yn mhell y dysgedicaf.
More by much—mwy o lawer; mwy o dalm; llawer mwy; mwy lawer.
By how much—o ba faint; o ba gymmaint; o gymmaint ag; po.
By how much the tighter the string is, so much the sooner will it snap—po tynaf fo'r llinyn, cyntaf y tyr.
By how much the hotter the season is—po gwresocaf fo yr hin.
He is by so much worse than his companions, by how much he is older than they—y mae efe o hyny yn waeth na'i gyf-eillion, o gymmaint ag y mae efe yn hŷn na hwynt-hwy.

By so much—o hyny ; o gymmaint a hyny.
By what place ?—trwy ba le ? heibio i ba le ? heibio pa le ?
By some place—trwy ryw le ; heibio i ryw le ; heibio rhywle.
By some way—trwy ryw ffordd ; ar hyd rhyw ffordd ; yn rhywffordd.
By rule—wrth reol ; yn ol rheol.
By example—trwy *neu* wrth gynllun *neu* enghraifft ; yn ol anghraifft *neu* gynddull.
By the example of the proto-martyr—yn ol enghraifft y cynferthyr ; wrth gynnrych y cynferthyr.
Drop by drop—bob yn ddyferyn ; bob yn ddafn ; bob yn ddefnyn ; bob yn ddyferyn a dyferyn ; o fesur dafn a dafn.
By the drop—wrth y dyferyn, y dafn, *neu* y defnyn.
By drops—yn ddafnau, yn ddefni, yn ddyferynau, yn ddefnynau.
Morning by morning—bob bore ; o fore i fore ; bore yn ei fore.
Man by man—bob yn wr ; bob yn wr a gwr ; o wr i wr ; o wr bwygilydd.
One by one—o un i un ; bob yn un ; bob yn un ac un ; bob un ac un ; bob un o'r neilltu ; bob un ar ei ben ei hun.
Year by year—bob blwyddyn ; o flwyddyn i flwyddyn ; o'r naill flwyddyn i'r llall ; o flwyddyn bwygilydd.
By handfuls—yn ddyrneidiau, yn funeidiau, yn llaweidiau.
They drank it by pailfuls—hwy a'i hyfasant wrth yr ystyceidiau.
A model to build others by—cynllun i adeiladu ereill wrtho.
Good rules to live by—rheolau da i fyw wrthynt.
He is by the head taller than you—y mae efe o'i ben yn uwch *neu* dalach na chwi.
The towers are higher than the walls by ten feet—uwch yw y tyrau na'r muriau o ddeg troedfedd ; y mae y tyrau ddeg troedfedd yn uwch na'r muriau.
He has very pleasant fields by the Thames—y mae ganddo faesydd trahyfryd ar làn *neu* yn nglàn Tafwys.
He has money by him—y mae iddo *neu* ganddo arian wrth ei ochr ; y mae ganddo ef arian.
He keeps some of it by him still—y mae ganddo beth o hano byth yn nghadw ; y mae peth o hono ganddo eto.
When thou hast it by thee—â chenyt beth yn awr.
He stood by me—safodd yn fy ymyl.
By the morning—erbyn y bore.
By this day fortnight—erbyn pythefnos i heddyw ; yn mhen pumthegnos.
By this time to-morrow—y pryd hwn efory ; erbyn y pryd hwn efory.
By the space of seven years—yn mhen saith mlynedd ; erbyn pen saith mlynedd ; yn mhen ystod saith mlynedd.
By this time three years—yn mhen tair blynedd ; erbyn pen tair blynedd ; erbyn tair blynedd i yn awr ; yn mhen tair blynedd i heddyw.
By taking heed thereto according to thy word—wrth *neu* drwy ymgadw yn ol dy air di.

By Jove—myn Iau, myn Iou.
By the life of Pharaoh—myn einioes Pharaoh.
By your rejoicing—myn eich gorfoledd.
By my life—myn fy einioes ; ar fy einioes ; ar yn heinioes.
Swear unto me here by God—twng wrthyf fi yma i Dduw.
By the mercies of God—er trugareddau Duw.
I adjure thee by God—yr ydwyf yn dy dyngedu trwy Dduw.
I charge you by the Lord—yr ydwyf yn eich tyngedu yn yr Arglwydd.
I charge you by the hinds of the fields—tyngedaf chwi trwy ewigod y maes.
To pass by—myned heibio ; pasio heibio ; hybio ; neithio heibio.
He would not let us pass by him—ni fynai efe ein gollwng heb ei law ; nis mynai ein gollwng heibio iddo.
I was minded to pass by you—yr oeddwn yn ewyllysio myned heb eich llaw chwi (2 *Cor.* i. 16).
I will come by you into Spain—mi a ddeuaf heibioch i'r Hispaen.
By the author—gàn yr awdur.
David by name—Dafydd wrth ei enw ; Dafydd dàn ei enw ; â'i enw Dafydd ; Dafydd erbyn ei enw.
John went by—aeth Ioan heibio.
I will not be by—ni fyddaf yn bresennol *neu* wyddfodol ; ni fyddaf yno.
By that time I shall have ended my year's office—bydd blwyddyn fy swydd i allan *neu* i maes erbyn hyny.
By that time he had just ended his speech—cyn braidd orphen o hano ei araeth ; gyda'i waith yn gorphen ei ymadrodd.
He could not take example by a wiser person—nis gallasai byth ddylyn *neu* ganlyn ol gwr oedd gallach.
To sell by retail—manwerthu, darnwerthu, rhanwerthu, dryllwerthu ; gwerthu yn fân ; gwerthu yn ddrylliau, yn fanddrylliau, yn ddarnau, *neu* yn rhanau ; gwerthu bob yn ddryll, bob yn ddarn, *neu* bob yn rhan.
To sell by wholesale—cyfanwerthu, mawrwerthu ; gwerthu yn gyfan ; gwerthu y cwbl dàn un ; gwerthu yn gyfanwerth.
By the pound—wrth y pwys ; wrth y bunt.
By trade—wrth alwad, wrth alwedigaeth, wrth grefft, wrth gelfyddyd ; yn ol galwad.
By word—ar air, mewn gair.
By thought, word, and deed—ar feddwl, gair, a gweithred.
By word of mouth—ar air ; ar dafodleferydd ; trwy *neu* mewn ymadrodd ; ar air geneu ; mewn gair o'r geneu ; â'i eneu *neu* â'i dafod ei hun.
By the way of France—trwy Ffrainc ; trwy ffordd Ffrainc.
Thirty feet by twenty—trideg troedfedd wrth ugain ; deg troedfedd ar ugain o hyd, ac ugain o led.
Be advised by me—cymmer gynghor genyf fi ; derbyn gynghor oddi wrthyf fi.
By twelve o'clock — erbyn deuddeg o'r gloch ; am ddeuddeg ar gloch.
Gone by—â aeth heibio ; neithiedig ; gwedi myned heibio.

Ages gone by—yr oesoedd à aethant heibio; yr oesoedd gynt; yr oesau sy wedi myned heibio; yr oesoedd heibio.

By the bulk—wrth swmp, wrth y swmp, dân swmp, wrth y clamp, yn y crynswth, yn grynswth, wrth y llaw.

By land or by water—ar fôr neu ar dir; ar dir neu ar ddwr.

By sea and land—ar fôr a thir.

To slip by the board—llithro dros yr ochr; llithro dros y bwrdd.

South by east—de wrth ddwyrain; de-ddwyrain.

South-east by east — de-ddwyrain wrth ddwyrain; de-ddwyrain at ddwyrain.

By mistake—mewn camsyniad; trwy gamsyniad; yn gamsyniol.

To lie by—bod, sefyll, *neu* orwedd ger llaw; gorphwys, gorphwyso; bod gyda; bod yn nghadw gyda *neu* gân; gorwedd *neu* aros gyda.

To put by—rhoi heibio; rhoi o'r neilltu; rhoi i gadw; rhoi yn nghadw; gosod o'r neilltu; gosod i gadw; troi *neu* fwrw heibio.

By hook or by crook—rhyw fodd neu gilydd; rhyw ffordd neu gilydd; o fodd neu o anfodd; trwy deg neu drwy hagr; trwy gam neu drwy gymhwys; trwy gam neu drwy union; naill ai o fodd neu o anfodd; bid gan bid gymhwys; bid cam bid cymhwys; bid gam bid union; naill ai ar groes neu ar hyd; naill ai ar draws neu ar hyd; trwy hwg neu ddwg; ar hyd neu ar groes; ai waeth pa fodd; yn rhywffordd neu gilydd; o dde neu o chwith; i'r rhyd neu i'r bont.

Byard, *s.* bronledr, brongarai.

By-blow, *s.* cil-ergyd, cel-ergyd, cilddyrnod, celddyrnod; anffawd; plentyn gordderch, bastardd.

By-business, *s.* cilneges, cil-orchwyl, goalwad.

By-concernment, *s.* cil-orchwyliaeth, cilfater, gofater.

By-corner, *s.* cilgornel, celgornel, celgilfach.

By-design, *s.* celddyben, cilamcan, camamcan, camddyben, geuamcan, genddyben; amcan gau, dyben gau, gau amcan.

By-drinking, *s.* celyfed, cilyfed.

Bye, *s.* (S.) trigfa, trefad; safle, gorsaf.

By-end, *s.* celddyben, cilddyben, camddyben, camfwriad, geuddyben, geuamcan, geufwriad; amcan neilltuol *neu* hunanol.

By-gone, *a.* à aeth heibio; neithiedig; wedi myned heibio.

By-interest, *s.* hunanelw, hunelw, hunanles, hunanfudd, hunfudd; priod-elw, cilfuddiant.

By-lane, *s.* coegheolan, cilheolan, cilfeidr, heol gefn, heolan ddiarffordd.

By-law, *s.* gogyfraith, cilgyfraith, goraith, cilddeddf, cilraith; deddf *neu* gyfraith gartrefol, leol, *neu* neilltuol.

By-lead, } *s.* cilreden, cilollyngfa.
Bye-wash, }

By-matter, *s.* cildestyn; testyn ystlysol, dygwyddiadol, *neu* ddamweiniol; ystlys-destyn; defnydd, mater, *neu* destyn dyfod.

By-name, *s.* llysenw, cilenw; enw dygwyddiadol.

By-name, *v. a.* llysenwi; rhoi llysenw.

By-past, *a.*=*By-gone.*

By-path, *s.* coeglwybr, llwybr coeg, coeg lwybr; llwybr cel, neilltuol, *neu* anghyhoedd.

By-place, *s.* lle diarffordd *neu* anhygyrch; dirgelfa, llechfa, godechfa, cilfach, cilfan, cil, llechfod, llechfan.

To retire to a by-place to hide in—lleigio.

If he attempts to make England a by-place for him—os i Loegr y cais leigio.

By-respect, *s.* ystyr ystlysol *neu* hunanol; golwg ystlysol *neu* hunanol; hunan-olwg; ystlys-olwg; cilddyben, celamcan.

By-road, } *s.* cilffordd, gochelffordd; ffordd goeg *neu* gel; ffordd anhygyrch, ddisathr, anghyhoedd, *neu* ddidramwy.
By-way, }

By-room, *s.* cilgell, celystafell, cilystafell, cuddigl.

By-speech, *s.* cil-araeth, ystlys-araeth, araeth ddygwyddol.

By-stander, *s.* edrychydd, edrychwr, gerseifiad, gersafwr; safwr ger llaw; sefyllwr ger llaw; llygad segur; à safo ger llaw; à safo yn segur i edrych ar ereill.

The by-stander will discover what is amiss —y llygad segur a wel y gwall.

By-street, *s.* cilheol, coegheol; heol goeg *neu* gel; heol anhynod.

By-stroke, *s.* celddyrnod, cel-ergyd, cilddyrnod.

By-turning, *s.* cildro, cildroad, cilffordd.

By-way, } *s.* = { *By-road.*
By-road, } { *By-way.*

By-west, *ad.* tua'r gorllewin; wrth orllewin; tua gorllewin; yn orllewinol; at orllewin.

By-word, *s.* diareb, cyfadgan; gwawd, gwawdnod, gwatwargyff; gwatwargerdd; gair dannod; dywediad cyffredin.

Byssaceous, *a.* (o *byssus*) sirigaidd, siriglinaidd.

Byssifera, } *s. pl.* (Ll. *byssus* a *fero*) siriglyniaid,
Byssifers, } sirigymlyniaid=teulu o libogion neu feddalogion pengoll.

Byssin, } *s.* (Gr. *bussos*; Ll. *byssus*) siriglin, sir-
Byssus, } iglined, llinsirig, mansirig: *pl.* siriglinion, llinsirigion.

Byssine, *a.* (o *byssus*) sirigol, sidanol, sidan; llinaidd.

Byssocladium, *s.* (Gr. *bussos* a *clados*) sirigosglon=math o wymon.

Byssoid, *a.* (Gr. *bussos* ac *eidos*) siriglinaidd, mansirigaidd; fel siriglin.

Byssolite, *s.* (Gr. *bussos* a *lithos*) sirigfaen, llinedfaen.

Byssus, *s.* (Ll.; Gr. *bussos*) sirig; sidan; llian main; urael, llinurael.

Byzant, } *s.* (o *Byzantium*) Bysant, Bisant,
Byzantine, } Besant=enw darn aur bathedig
Bizantine, } yn Nghaercystenyn, yr hon gynt
Bezant, } a elwid *Byzantium.*

C.

C, (talfyriad o'r Ll. *centum*, cant) fel rhifnod, a saif am gant=100.
CC—dau gant, deugant=200.
CCC—tri chant, trichant=300.

Cab, *s.* (H.) sychfesur Iuddewig, yn cynnwys yn nghylch tri pheint Seisonig.

Cab, *s.* (talfyriad o *cabriolet*) cab, cerbydell, cerbydan, cludan, cabglud.

Cabal, *s.* (Ff. *cabale ;* It. *cabala ;* neu oddi wrth lythyrenau dechreuol *C*lifford, *A*shley, *B*uckingham, *A*rlington, a *L*auderdale, gweinyddiaeth Carl II.) cydgyfrinachwyr, celymgynghoriaid, cydgynghoriaid, celfwriadwyr, cydbleidwyr, cnud o drawsamcanwyr, cuddamcanwyr ; ymgyfrinach, cydgyfrinach, celgyfrinach, cydfwriad, cydgynghrair, cuddamcan, dichell, cydfrad, gogyfrad, ymgynnull cyfrinachol, cabidwl.
He too was of the cabal—yr oedd yntau o'r gyfrinach.
He was admitted into the cabal—derbyniwyd ef i'r cabidwl.

Cabal, *v. n.* celymgynghori, celgyfrinachu, cydfwriadu, cydgyfrinachu, cydymgynghori, cydgynghreirio, cydlunio, cuddamcanu, dichellu, cydfradu, celymbleidio, cyfradu, bradgynllwyn, cydgynllwyn, bradfwriadu ; cydfwriadu yn ddirgel ; cynnal *neu* lunio cyfarfod dirgel ; ymuno yn fân bleidiau.

Cabal, } *s.* (H.) rhinddysg, cyfrinddysg, dir-
Cabala, } gelion Iuddewig, cyfriniaeth Iuddewig, traddodiadau Iuddewig, cyfrinolion Iuddewiaeth, cyfrindraddodion.

Cabalism, *s.* (o *cabal*) rhinddysgeidiaeth, rhinddysgiaeth, cyfrinddysg.

Cabalist, *s.* (o *cabal*) rhinddysgawdwr, rhinddysgedydd, rhinddoethor, rhinddysgwr, athraw cyfrinddysg=un hyfedr yn nhraddodiadau a chyfrinddysg yr Iuddewon.
Cabalist (in French commerce) — gorchwyliwr, trosweinydd, trosfaelydd, prwywr.

Cabalistic, } *a.* (o *cabalist*) rhinddysgol, rhin-
Cabalistical, } ddysgeidiol, rhinddysgaid ; dirgeledigol, cyfrinol, traddodiadol ; perthynol i rinddysg yr Iuddewon.

Cabalize, *v. n.* (o *cabal*) cyfrino, cyfrinio ; arferu dull *neu* iaith y rhinddysgawdwyr.

Caballer, *s.* (o *cabal*) cydgyfrinachwr, celfwriadwr, cydfwriadwr, cuddamcanwr, cuddfwriadwr, cydluniwr, cydfwriadwr cyfrinachol, dichellydd, dirgel fradwr, cydfradwr.

Caballine, *a.* (Ll. *caballinus*) ceffylaidd, ceffylog, marchol ; perthynol i geffyl ; yn perthyn i farch *neu* feirch.
Caballine aloes—elyw ceffylau, elyw ceffylog, march-elyw, braselyw, aloes meirch.

Cabaret, *s.* (Ff. o'r Ll. *caupo*) tafarn, tafarndy, ty tafarn : *pl.* tafarnau, tefyrn.

Cabassous, *s.* math o armellog.

Cabbage, *s.* (It *cappuccio ;* Ff. *cabus*) bresych, cawl, cawl gwyllt : *sing.* bresychen, cawlen.
White cabbage—bresychen bengron wen, bresychen benwen, bresychen wen.
White-heart cabbage — bresychen galonwen.
Red cabbage — bresychen bengron goch, bresychen goch.
Green cabbage—bresychen las, bresychen Milan.
Sea cabbage — morfresych, cawl y môr, cawl y graig, bresych arfor, ysgedd arfor, morgawl, llyrgawl, llyrfresych.
Common cabbage — bresychen bengron : *pl.* bresych pengrwn, bresych pengryn-ion.
Dog's cabbage—bresych y cwn, cawl y cwn, cifresych.
Cabbage plant—cawlen, bresychen.
Turnep cabbage—meip-fresych, erfin-fresych, bresych maip.
Cabbage bark—bresychriag, bresychriagl.
Cabbage caterpillar — llindys y bresych, pryf y bresych, pryf y dail.
Cabbage net — rhwyd fresych, rhwyd gawl.
Cabbage-palm, } bresychwydden, cawl-
Cabbage-tree, } wydden : *pl.* bresychwydd, bresychgoed, coed bresych=math o bren a dyf mewn hinsoddau gwresog.
Cabbage-wood — bresychgoed, bresychwydd, coed bresych.
Cabbage-worm—pryf y bresych, llindys y bresych, pryf y dail, pryf y cawl.

Cabbage, *v. n.* bresychu, ymfresychu ; tyfu fel bresychen ; pengrynu ; tyfu yn grwn *neu* bengrwn ; myned yn bengrwn ; myned *neu* dyfu yn bengron.

Cabbage, *v. a.* (Is. *kabassen*) darnguddio, darnladrata ; lladrata, lledrata, lledguddio ; lladrata rhan o beth ; ciniachu.

Cabiai, *s.* y gwyfochyn, y tapir trwyndew=math o anifel perthynol i Ddeheudir America.

Cabin, *s.* (Ff. *cabane ;* It. *capanna*) caban, cell, cuddigl, cab, ystafellan, cellan, ystafell ; bwth, bwthyn, lluest, lluestty, cotty, pabell, penty ; cut.
A cabin to sleep in—hun-gaban, hun-gell, cell gysgu, cysgell.

Cabin, *v.* cabanu ; byw mewn caban ; llettya ; cau *neu* gaethiwo mewn caban.

Cabin-boy, *s.* cellwesyn, cabanwas, cellwas.

Cabinet, *s.* (Ff.) cafell, cell, cuddigl, ystafell ; cistan, tlosgell, tlysgell, tlosgafell, tlysgist, trysorgell, trysorgist, ysgrin ; cysylgell, cynghorgell, cynghorfa, teyrn-gafell, cyfrin-gafell ; y cynghor, y cyfrin-gynghor.
Cabinet-council — cyfrin-gynghor, dirgel-gynghor, teyrn-gynghor, cynghor cyfrinachol, cellgynghor, y cynghor ; teyrn-

gysyllaid, cyfrin-gynghorwyr, dirgel-gynghoriaid, argysyllaid; cellgyssedd.

Intrigues of the cabinet—dirgelion llywodraeth, dirgel gynghorion llywodraeth; cuddamcanion y cellgynghor; cydgyfrinach y cynghor dirgel *neu* gyfrin; ystrywiau teyrn-gafell.

Members of the cabinet—aelodau y cyfrin-gynghor, teyrn-gyssedwyr, teyrn-gysyllaid; y cyfrin-gynghor; aelodau y gafell; y teyrn-gafelliaid.

Cabinet of curiosities—cywreinfa, amgueddfa, amgueddgell, creirfa, cafell cywreinion, cell hynodion, trysorfa cywreinion, cywreingell, trysorfa hynodion.

Cabinet for jewels—gemgist, amgueddgist, tlysgist, trysorgist, cistan gemau, ceinionfa, gemidfa, gemidgell.

Cabinet-drawers—llogodau cistan, treillion cistan, cist-logodau.

Cabinet, *v. a.* cau i mewn; amgau, argau.

Comical fellow—digrifwas, gwas digrif, un digriflawn, gwas digriflawn, gwas digriflan.

Comicalness, *s.* (o *comical*) digrifwch, digrifder, digrifedd, digrifoldeb, ysmaldod, cellweirgarwch, afieithusrwydd, arabedd, gogusoldeb, cymmwedd.

Coming, *s.* (o *come*) dyfodiad, dawodiad, dawediad, dyfodfa, dyfodedigaeth, dawawd; dyneiad, neshad, dyneshad.

Coming, *a.* dyfodol, dawedol, dawodol; i ddyfod; à ddaw; parod i ddyfod; yn dyfod.

Coming-in, *s.* dyfodiad i mewn; dechreu, dechreuad; dygiad i fewn; daered, ardreth; ymostyngiad.

At the coming-in at the doors—yn ymyl y dryssu (*Diar.* viii. 3).

Comitatus, *s.* (Ll.) goegordd, myntai, tyrfa; ardal, swydd.

Comitia, *s. pl.* (Ll.) maonfa; cymmanfa y bobl (yn Rhufain gynt).

Comitial, *a.* (Ll. *comitialis*) maonfaol; cymmanfaol; perthynol i'r faonfa.

Comity, *s.* (Ll. *comitas*) hynawsedd, mwynder, moesogrwydd, moesgarwch, moes, mwyneiddwch, tiriondeb, rhywiogrwydd, mynogrwydd, mynogaeth, cyweithasrwydd, mwyneidd-dra, moddusrwydd, moesau da.

Comma, *s.* (Gr.) gwahanai; rhagwahannod, Rhedwahan=(,).

Comma, semicolon, colon, and period—gwahanai, adwahanai, gorwahanai, a diweddnod.

Command, *v.* (Ff. *commandcr*; It. *comandare*; Ll. *mando*) gorchymyn, erchi, peru, peri; rhoddi gorchymyn; gorchymyn i, erchi i, peru i; rhoi gorchymyn i; dywedyd wrth un am; llywio, rheoli, llywodraethu, llywyddu, arglwyddiaethu ar, meistroli, meistroli ar; bod yn ben, yn flaenor, yn llywydd, *neu* yn feistr; bod â'r awdurdod ganddo; bod âg awdurdod ar; gosod, penodi; bod, sefyll, *neu* orwedd yn uwch na; rhoi golwg ar, bod uch ben; uchselu, gorddrychu, uchsefyll; cyfarchwylio; bod ganddo wrth alwad; anfon; dylanwadu; arwain; cadlywio; gorfodi.

To command silence—peru gosteg; galw *neu* waeddi gosteg; gostegu; peru *neu* alw gosteg ar y maes.

To command a sum of money—meddu swrn *neu* swm o arian; bod yn berchen swm *neu* swrn o arian.

The citadel commands the city—y mae y castell yn sefyll yn uwch na'r ddinas; saif y castell uwch y ddinas; rhydd y castell olwg ar y ddinas.

Who commands there?—pwy sy'n rheoli, llywio, *neu* lywodraethu yno? pwy sy *neu* sy'n flaenor yno? pwy sydd yno yn cadlywio?

He commands—efe sy'n ben; efe sy'n rheoli, &c.

I was commanded to call thee—perwyd i mi dy alw; gorchymynwyd i mi dy alw.

To command the waves of the sea—gorchymyn tònau y môr (2 *Mac.* ix. 8).

Command, *s.* gorchymyn, arch, archiad, pariad; gair; llywodraeth, awdurdod, rheolaeth, blaenoriaeth, meistrolaeth, gallu, swydd, swyddogaeth, rhwysg; neges, cais; rhai dàn lywiaeth, awdurdod, *neu* reolaeth.

I am at your command—yr wyf wrth eich gorchymyn, eich arch, eich galw, *neu* eich galwad; yr wyf wrth eich amnaid *neu* ewyllys.

He will obey your command—efe a ufyddha i'ch gair *neu* i'ch gorchymyn chwi.

He has no command of himself—nid oes ganddo lywodraeth arno ei hun.

He has a command over them—y mae iddo *neu* ganddo awdurdod arnynt.

He has the command of his passions—y mae efe yn feistr ar ei anwydau; efe a fedr reoli ei nwydau; y mae ganddo feistrolaeth *neu* lywodraeth ar ei nwydau.

A dog under good command—ci â dysg da arno.

To have the command of a language—bod yn feistr ar iaith; bod yn hyddysg mewn iaith; bod yn gyfarwydd mewn iaith; bod yn meddu cyfarwyddyd ar iaith; bod ganddo feistrolaeth ar iaith.

I have this in command to do—gorchymynwyd i mi wneuthur hyn.

To be in chief command—bod yn benllywydd, yn benciwdod, yn briflywydd, yn benllywiawdwr, *neu* yn gadflaenor.

Without command—yn ddïorchymyn; heb erchi iddo; o hano ei hun.

Questions and commands—llawfrenin.

To play at questions and commands—chwareu llawfrenin.

Commands—cymmediwau, neges, cais, gorchymyn.

Commandable, *a.* (o *command*) gorchymynadwy, archadwy, &c.; gorchymynol.

Commandant, *s.* (Ff.) llywydd, blaenor, penllywydd, penciwdod, cadfiaenor, cadlywydd, llywiadur, priflywydd.

Commandatory, *a.* (o *command*) gorchymynol, archiadol.

Commander, *s.* (o *command*) penaeth, llywydd, llywiadur, cadfiaenor, cadlyw, priflywydd, penciwdod, blaenor, ffelaig, penswyddwr, penswyddog, rheolwr, aergun, aerlyw, rhwyf, cadrwyf, arweinydd; gorchymynwr, archwr; pwyodr, pwyedydd, hyrddiedydd, gordd.

Commander in chief—cadlywydd, penciwdod, pencadlyw, priflywydd, penllywydd, pendragon, gorthywys, penllueddwr.

I have given him for a leader and commander to the people—rhoddais ef yn flaenor ac athraw i'r bobloedd.

Commandery, *s.* (Ff. *commanderie*) haeddobryn, haeddobrwy, haeddobrid.

Commanding, *a.* (o *command*) gorchymynol, archiadol; awdurdodol; llywodraethol, meistrolaidd, meistrolus, dylanwadol, boneddol; yn peri parch *neu* sylw; gorddrychol, uchsafol; gorfodogol, gorfodol, gorfodus.

Commandment, *s.* (Ff. *commandement*) gorchymyn, arch, archiad; awdurdod.

The ten commandments—y deg gorchymyn, y dengair deddf, y dengair.

Obey ye my commandment—gwnewch yr hyn a orchymynais; ufyddhewch i'm gorchymyn.

Commandress, *s.* (o *commander*) penaethes, llywiadures, priflywyddes, penllywyddes, penciwdodes.

Commark, *s.* (Ff. *comarque*) cyffin, ffin, terfyn, cytterfyn.

Commaterial, *a.* (*con* neu *com* a *material*) cyddefnyddiol, cydsylweddol, cyddefnyddiol, cyfddefnyddiol; o'r un defnydd.

Commateriality, *s.* (o *commaterial*) cyd-ddefnyddiolrwydd, cyddefnyddioldeb, cydsylweddoldeb; cyfranogiad o'r un defnydd.

Commatic, *a.* (o *comma*) byr, cryno, talfyr, cynnwys; attalnodol, gwahaneiol.

Commatism, *s.* (o *comma*) byrder, byrdra, byrdeb, crynoder, crynodeb.

Commeasurable, *a.* (*com* a *measure*) cydfesuradwy, cymmesuradwy, cyfartalwy; cydfesurol.

Commemorable, *a.* (Ll. *commemorabilis*) gwiwgof, cofiadwy, hygof, cofus; yn haeddu ei gofio; à haeddai ei gofio; gwiw ei gofio.

Commemorate, *v. a.* (Ll. *commemoro*) cyfargofio, coffhau, cofio, argoffa, argofio, adgoffa, adgoffhau; cadw *neu* gynnal cof *neu* goffadwriaeth; gwneuthur coffa am; crybwyll am; dwyn ar gof.

Commemoration, *s.* (Ll. *commemoratio*) cyfargofiant, coffhad, cofiad, cofiant, coffadwriaeth, coffa, cof, adgoffa; cofwyl, cylchwyl; cadwraeth *neu* gynnaliad coffadwriaeth.

Commemoration festival — cofwyl, gwyl goffa; cylchwyl; gwyl mabsant.

Commemorative, } *a.* cyfargofiol, coffaol, coff-
Commemoratory, } haol, cofiannol, cofiedigol; yn dwyn ar gof; à ddygo ar gof.

Commence, *v.* (Ff. *commencer*) dechreu, cynnechreu, dechre; cychwyn, cychwn, codi; dechreu bod; cynraddio, cymmeryd gradd, cymmeryd y gynradd, cymmeryd y radd gyntaf.

To commence an action—cychwyn hawl, cyffroi hawl; rhoi cwyn, cwyno.

To commence Doctor in Divinity—cymmeryd gradd Doethor Duwinyddiaeth; cymmeryd arno radd Doethor Dwyfyddiaeth; cael ei urddo *neu* raddio yn Ddoethor mewn Duwinyddiaeth; graddio yn Ddoethor Dwyfyddiaeth.

Commencement, *s.* (o *commence*) dechreuad, dechreu, cynnechreu, dechre, dechread, dechreuedigaeth; cychwyniad, cychwniad, cychwynfa, cychwnfa, codiad.

Commencement (in a University)—cynnechreu; cynraddiant, cynraddiaeth, cynraddawd.

Commend, *v. a.* (Ll. *commendo*) canmawl, clodfori, canmoli, canmol, moli, clodi, cyfoli; cyflwyno, cymmeradwyo, gorchymyn; gorchymyn i; rhoi mewn ymddiried i; cymmynu i; gwneuthur yn gymmeradwy neu dderbyniol; anfon i; rhoddi i.

To thee I commend my spirit—i ti y gorchymynaf fy ysbryd.

To commend one's self—anerch drwy law *neu* eneu arall; anfon anerch at un drwy arall; cyflwyno ei wasanaeth i un drwy un arall; anerch.

He commends himself very kindly to you—y mae efe yn dra charedig yn eich anerch.

Commend me to your father—rhowch neu cyflwynwch fy ngwasanaeth i'ch tad; cyfarchwch well i'ch tad yn fy enw i; anerchwch fi at eich tad; rhowch fy nghymmediwau i'ch tad; cofiwch fi at eich tad.

Commend, † *s.* canmoliaeth.

Commendable, *a.* (Ll. *commendabilis*) canmoladwy, gwiwglod, clodwiw, hyglod, haeddglod, moladwy, molediw, gwiwfawl, hyfawl, clodforus, moliannus.

Commendableness, *s.* gwiwglodedd, hyglodedd, moladwyedd, hyfoledd, clodforusedd.

Commendam, *s.* (Ll. *commendo*) gwaglwysfudd, gwag eglwysfudd, cyflwynfudd—bywoliaeth eglwysig à rodder i offeiriad cyfarwydd, i'w dal dan ymddiried, hyd oni chaffo arall ei gyflëu ynddi.

To hold a benefice in commendam—dal bywoliaeth eglwysig dan ymddiried; dal glwysfudd dan ymddiried.

Commendatary, } *s.* (*commendataire*; Ll. *com-*
Commendator, } *mendator*) gwaglwysfuddog, cyflwynfuddog; daliedydd bywoliaeth eglwysig dan ymddiried.

Commendation, *s.* (Ll. *commendatio*) canmoliaeth, canmoliad, canmoliant, canmolawd, molawd, molad, moleddiad, clod, clodforedd, cyfolwch, mawl, moliant, gair da, gairmawr, cymmeradwyaeth; anerch, anerchiad, cyfarchiad, gwasanaeth; cymmediwau.

Letters of recommendation — llythyrau canmoliaeth.

Commendator, *s.* (Ll.) = *Commendatary.*

Commendatory, *a.* (o'r Ll. *commendator*) canmoliaethol, canmoliaethus, canmoliannol, canmolus, canmolawl, canmoliadol, cyfoliannus; cymmynol, anerchiadol; cyflwynol, gwaglwysfuddol.

Recommendatory letter—llythyr canmoliaeth.

Recommendatory bishop—esgob yn dal

bywoliaeth dân ymddiried ; esgob gwaglwysfuddog ; esgob cyflwynfudd.

Commendatory, *s.* canmoliaeth, cymmeradwyaeth, canmolawd, clodair, iolwg, molyd.

Commended, *p.p.* canmoledig, moledig, mawledig, &c.

Highly recommended — tramoledig, tra chanmoledig, &c.; clodfawr, clodfan, hyglod, uchelglod, enwog ; mawr ei glod ; uchel ei glod ; â gair mawr iddo ; â son mawr am dano ; yn cael ei uchel gymmeradwyo.

Commender, *s.* (o *commend*) canmolydd, canmolwr, molwr, molydd, &c.: *f.* canmolwraig, molwraig, molyddes.

Commensal,† *s.* (Ll. *commensal'is*) cysseigydd, cydfyrddiwr.

Commensality, *s.* (o *commensal*) cysseigiaeth, cydfyrddiaeth, cydfwytâd, cydwestiad.

Commensation,† *s.* (Ll. *con* a *mensa*)=*Commensality.*

Commensurability, } *s.* (Ff. *commensurabilité*)
Commensurableness, } cymmesuroldeb, cydfesuroldeb, cydfesuredd, cymmesuredd, cyfartalrwydd, cymmesuradwyedd, cymmesuredigaeth, cymmedr, cydfydraeth.

Commensurable, *a.* (Ff. o'r Ll. *con* a *mensura*) cydfesuradwy, cymmesuradwy; cyfartaladwy; cydfesurol, cymmesurol, cydfydrol.

Commensurate, *a.* (It. *commensurare*) cymmesurol, cydfesurol, cyfesurol, cymmesur; cyfartal,cyfraddol; gogymmesur,cymmedrol, gogyhyd ; cydfesuredig, cymmesuredig, cydfydraidd.

Commensurate, *v. a.* cymmesuro, cydfesuro, cyfartalu ; cymmedru, cymmedroli, cymmesuroli, gogyhydu, cydfydru.

Commensurateness, *s.* (o *commensurate*) cymmesuroldeb, cydfesuroldeb, cymmesuredigrwydd, cymmesurwydd.

Commensuration, *s.* (o *commensurate*) cymmesuriad, cydfesuriad, cydfesuriant, cyfesuriad, cyfartaliad, cydfydrad.

Comment, *v.* (Ll. *commentor*) egluro, eglurhau, esbonio, amlygu, dehongli, arnodi, arnodiadu, agoryd, dehonglyd, deongl, dehongl ; sylwi, sylwi ar ; gwneuthur sylwadau ; trin ar ; † ffugio, dyfeisio.

Comment, } *s.* (Ifl. *commentarius*) esboniad,
Commentary, } arnodiad, eglurad, eglurhad, amlygiad, dehongliad, dehonglawd, agoriad, egoriad, sylwad, sylw, nodiad ; cofiyfr, cofnod.

Commentaries of Cæsar, } cofnodion Cai-
Cæsar's Commentaries, } sar, cofnodiadau Caisar, hanesgofion Caisar, ymgofion Caisar.

In the commentaries of Neemias — yn nghofiythyrau Nehemïas (2 *Mac.* ii. 13).

Commentary, *v. a.* esbonio, arnodiadu.

Commentate, *v. a.* (Ll. *commentor*) esbonio, arnodiadu, arnodi, egluro, agor, dehongli, nodiadu ; sylwi ar.

Commentator, *s.* (Ll.) esboniwr, esboniedydd, arnodiadur, arnodiedydd, nodiadur, nodiedydd, dehonglwr, sylwadur, sylwedydd, eglurwr, eglurydd, egluriadur, eglurhäwr.

Commentatorship, *s.* (o *commentator*) esboniadaeth, nodiaduriaeth, nodiedyddiaeth, sylwedyddiaeth.

Commenter, *s.* (o *comment*)=*Commentator.*

Commentitious, *a.* (Ll. *commentitius*) dychymygol, dychymygedig, ffugiol, dyfeisiol, ffug.

Commentitious tale—chwedl dychymyg.

Commerce, *s.* (Ff. ; Ll. *commercium*) masnach, trafnid, trafnidiaeth, trafnidaeth, maeleriaeth, maelieraeth, cydfasnach, cyfnewid, cyfnewidiad ; cyweithas, ymgyfeillach, ymgystlwn, ymgystlynedd, cystlwn, cyfeillach, ymdrin, ymdriniaeth, cydymdeithas, ymdrafod ; cywestach.

Trade and commerce—masnach a thrafnid.

We have no commerce with them—nid ydym ni yn ymgyfeillachu *neu* yn ymgystlynu â hwynt ; nid oes i ni ymgystlwn *neu* ymgyfeillach â hwynt.

To have commerce—masnachu, trafnidio; cyweithasu, ymgyfeillachu, ymgyfeillach, ymgystlynu, cywestachu, cyridio.

Commerce, *v. n.* masnachu, trafnidio, ymdrafnidio, cydfasnachu, maelera, maeleru, maelerio ; cyweithasu, cyfeillachu, ymgyfeillachu, ymgyfeillach, ymgystlynu, ymgystlwn, ymdrin, ymdrafodi.

Commercial, *a.* (o *commerce*) masnachol, trafnidiol, ymdrafnidiol, maelierol, maelerol, ffeiriol ; cyweithasol, cystlynol, ymgystlynol, ymgyfeillachol, ymdrafodol.

Commercial law—cyfraith masnach, cyfraith trafnid, cyfraith drafnidiol, trafnidraith, masnachraith.

Commere, *s.* (Ff. *mere*) cydfam.

Commetic, *a.* (Gr. *cosmêticos*) prydferthol, tegychol, teghaol, tecaol, addurnol.

Commigrate, *v. n.* (Ll. *commigro*) cydfudo, cymmudo.

Commigration, *s.* (Ll. *commigratio*) cydfudiad, cymmudiad.

Commination, *s.* (Ll. *comminatio*) bygythiad, bygythiant, bygyliad, bwgwth, bwgwl.

The Commination—y Bygythiant=gwasanaeth â ddarllenir yn Eglwys Lloegr ar ddydd Mercher y Lludw, neu y dydd cyntaf o'r Grawys.

Comminatory, *a.* (o'r Ll. *comminor*) bygythiol, bygythiadol, bygythiannol ; yn cyhoeddi *neu* yn cynnwys bygythion.

Commingle, *v.* (*com* neu *con* a *mingle*) cymmysgu, cydfysgu, cydgymmysgu, tryfysgu, cymhlitho, cyboli, mysgu, trymysgu.

Comminuate, } *v. a.* (Ll. *comminuo*) mahrio,
Communuate, } malu, mânfalu, pylori, meiloni, ffylori, breuddilo ; teneuo.

Comminuible, *a.* (Ll. *comminuo*) maluriadwy, maladwy, pyloradwy.

Comminution, *s.* (o *comminute*) maluriad, mânfaliad, maliad, pyloriad, meilionad, ffyloriad, breuddilad, manhad, llychiad ; teneuad.

Commiserable, *a.* (Ll. *commiseror*) tosturiadwy, gresyn, gresynol, truanus ; gwiw o dosturi.

Commiserate, *v. a.* (Ll. *commiseror*) tosturio ; trugarhau ; tosturio *neu* resynu wrth ; bod â thrueni dros ; bod ar un drueni dros ; bod yn ddrwg gân un am *neu* oherwydd ; tosturiannu *neu* dosturhau wrth ; cydymdeimlo â, cytteimlo â, cymdeimlo â.

Commiseration, *s.* (Ll. *commiseratio*) tosturi, tosturiaeth, tosturiad, tosturiant, tosturhad, trueni, trugaredd ; cytteimlad, cymdeimlad, cydymdeimlad ; cynghraifft.

Commiserative, † *a.* tosturiol, tosturus, trugarol.

Commiserator, *s.* (o *commiserate*) tosturiwr,

tosturydd, gresynydd, gresynwr; un à dosturio wrth.

Commissarial, *a.* (o *commissary*) rhaglawiol, dirprwyol, prwyadurol, glwysraglawiol.

Commissariat, *s.* (Ysp. *comisariato*) rhaglawiaeth, dirprwyaeth, dirprwyadaeth, prwyaduriaeth; dirprwyaid.

Commissary, *s.* (Ff. *commissaire;* Ll. *commissarius*) dirprwywr, dirprwyad, prwyadur, rhaglaw, rhagswyddwr, rhagswyddog; glwysraglaw; arfolygydd, arfraglaw, llu-ddarbodydd; traswyddog, cenad.

Commissary-general — penrhaglaw, penprwyadur.

Deputy commissary — isbrwyadur, israglaw, isddirprwywr, tanswyddog.

Commissary court—prwyadlys, llys prwyadurol.

Commissaryship, *s.* prwyaduriaeth, dirprwyaeth, dirprwyadaeth; swydd prwyadur.

Commission, *s.* (Ff.; Ll. *commissio*) gwneuthuriad, cyflawniad; swyddogaeth, arswyddogaeth, dirprwyaeth, prwyadaeth, prwyaduriaeth, prwyad, dirprwyeg; rhagswyddogaeth, swydd; awdurdodiad, awdurdod; gorchymyn, arch, gorchymyniad, archiad; ymddiriedaeth; prwydal, dirprwydal, maeldal, prwydaliaeth, maeldaliaeth, negesdal; negesiaeth, negesiad; gwarant, arwaesogaeth, arwaesaf, swyddallu; cyfarch; llythyr cynnwys.

The commission of sin — gwneuthuriad pechod; pechad.

Sins of omission and commission—pechodau o wall ac o wŷd; pechodau o fyrder ac o drosedd; pechodau o waith ac o anwaith.

Authority and commission — awdurdod a chenad (*Act.* xxvi. 12).

Commission of the peace — swyddogaeth *neu* awdurdod hedd-ynad; hedd-ynadaeth, hedd-yngueidiaeth; arwaesogaeth yr heddwch.

Commission merchant—prwy-fasnachydd, trosfasnachwr, trafnidiwr ar brwydal.

To sell on commission—gwerthu ar brwyad; troswerthu; gwerthu ar brwydal; gwerthu dros arall.

Special commission—prwyadaeth neilltuol *neu* arbenig; dirprwyaeth bendant *neu* benodol.

High commission — arbrwyadaeth, gorswyddogaeth.

To give commission to—awdurdodi, swyddogi.

Commission, *v. a.* awdurdodi; swyddogi, swyddo, dirprwyo, prwyadu, penodi; rhoi awdurdod i; rhoi swydd i; rhoi gallu i; gosod mewn swydd; rhoi mewn awdurdod; bwrw ar; galluogi.

Commissional, } *a.* awdurdodedig, swyddog-
Commissionary, } edig; gwedi ei benodi drwy warant.

Commissionate, *v. a.*=*Commission, v. a.*

Commissioner, *s.* (o *commission*) dirprwywr, prwyadur, dirprwyadur, prwyedydd; arswyddog, arswyddwr, traswyddog; rhagswyddwr, rhagswyddur, rhagswyddog; cynnrychiolydd, cynddrychiolydd, cynnrychwr; negesydd; cenad; swyddog awdurdodedig.

Ecclesiastical commissioners — prwyaduriaid eglwysig, prwyaduron eglwysig.

Commissioners of the poor law—dirprwywyr cyfraith y tlodion; prwyaduriaid cyfraith y tlawd; prwyedyddion y dlodraith.

Lords commissioners of the treasury—pendirprwywyr y trysorlys; arlwyddddirprwywyr y trysorlys, prwy-arglwyddi y trysorlys.

Commissure, *s.* (Ll. *commissura*) cymmal, cysswllt, cydiad; gwrym, gwniad, gwni; cydselltiad.

Commit, *v. a.* (Ll. *committo*) gwneuthur, gwneyd, gweithredu; gorchymyn, erchi; dodi, rhoddi, rhoi; gorchymyn i; rhoddi i; rhoi mewn *neu* dân ymddiried; rhoi i gadw; ymddiried; traddodi; cyflëu; anfon, danfon; peryglu; bradychu; rhwymo, gwystlo; bwrw ar; rhoddi ar; gadaw ar; treiglo ar; cystadlu; cysbwyllo, cyaseddu, pwyllgori.

To commit adultery—godinebu,gwneuthur godineb.

Thou shalt not commit adultery — na odineba; na wna odineb.

To commit iniquity—gweithredu anwiredd, gwneuthur anwiredd; troseddu, gwneuthur trosedd.

To commit murder—llofruddio, gwneuthur llofruddiaeth, cyflawnu llofruddiaeth.

To commit sin—pechu, gwneuthur pechod.

To commit violence on — treisio, dwyn trais ar.

To commit to prison—traddodi i garchar; gyru *neu* anfon i garchar; bwrw, rhoddi, *neu* daflu i garchar; bwrw, rhoddi, neu daflu yn ngharchar.

To commit to memory—trysori yn ei gof; dysgu ar gof; dysgu allan o lyfr; dysgu ar dafod; dysgu ar gof; dysgu ar dafodleferydd.

To commit treason—gwneuthur teyrnfradwriaeth; bod yn deyrnfradwr; teyrnfradu; cyflawnu bradwriaeth.

To commit to paper, } ysgrifenu; gosod
To commit to writing, } *neu* roi ar bapyr; gosod mewn ysgrifen; rhoi ar lawr mewn ysgrifen.

To commit one's self—bradychu ei hun; dynoethi ei hun; traddodi ei hun.

I commit her to your care—gorchymynaf hi i'ch llaw, i'ch gofal, i'ch cadwraeth, *neu* i'ch amgeledd chwi.

This business was committed to me—ymddiriedwyd i mi am y gorchwyl hwn.

He committed himself to him that judgeth righteously—rhoddodd ar y neb sydd yn barnu yn gyfiawn.

Commit thy works unto the Lord—treigla dy weithredoedd ar yr Arglwydd.

Let them commit the keeping of their souls—gorchymynant eu heneidiau.

Who will commit to your trust?—pwy a ymddiried i chwi?

This charge I commit unto thee—y gorchymyn hwn yr ydwyf yn ei roddi i ti.

The poor committeth himself unto thee—arnat ti y gedy y tlawd.

Commit thou to faithful men—traddoda i ddynion ffyddlawn.

Whom Nebuzaradan had committed to Gedaliah—ar y rhai y gosodasai Nebuzaradan Gedaliah yn llywydd.

If a man have committed a sin worthy of

death—os bydd mewn gwr bechod yn haeddu barnedigaeth angeu (*Deut.* xxi. 22).

To commit a bill—cyssedu *neu* bwyllgori ysgrif; cysbwyllo rheithysgrif; ymddiried ysgrif i bwyllgor.

Commitment, *s.* (o *commit*) gwneuthuriad; archiad, gorchymyniad; rhoddiad; traddodiad; traddodeb, carcharwaes, carchareb, traddodlythyr, carchwarant, gwarant carchariad; cysseddiad, cysbwylliad; anfoniad; gwystlad; anfoniad *neu* draddodiad i garchar.

Committal, *s.* (o *commit*) gwystlad, ymwystlad, ymrwymiad; gwystl, adneu.

Committee, *s.* (o *commit*) cyssedd, pwyllgor, cyfeisteddfod, cyfeistedd; cysbwyllawd, cysseddiad, cysseddiaeth; cyfeisteddwyr, cyfeisteddiaid.

Committee room—cysseddfa, cyfeisteddfa, cyfeisteddbarth, pwyllgorfa, cysseddgell.

Members of a committee — cysseddwyr, cysseddiaid, cyfeisteddwyr, pwyllgoriaid.

Committee, *s.* traddodai, ceidwad; yr un y rhoddir lloerig *neu* symlyn i'w ofal.

Committeeship, *s.* traddodeiaeth; swydd ac elw traddodeion.

Committer, *s.* (o *commit*) traddodwr, traddodydd; gweithredydd; rhoddwr; anfonydd.

Committible, *a.* (o *commit*) gwneuthuradwy, traddodadwy, &c.

Committor, *s.* (o *commit*) traddodydd, yr anfonydd; yr Arglwydd Ganghellydd, yr hwn a enfyn *neu* a draddoda wirioniaid i ofal un i'w cadw.

Commix, *v.* (Ll. *commisceo*) cymmysgu, cydgymmysgu, cydfysgu, mysgu, cymgresu, cyboli, tryfysgu, cymhlitho, bloffi.

Commixtion, } *s.* (Ll. *commixtio, commixtura*)
Commixture, } cymmysgiad, cydgymmysgiad, mysgiad, cydfysgiad, cymhlithiad; cymmysgedd, cymmysg, cymgres; dyfysgiad, cyboliad, trybola.

Commodate, *s.* (Ll. *commodatum*) benthyg (yn nghyfreithiau yr Alban).

Commode, *s.* (Ff. o'r Ll. *commodus*) cymhenwisg—math o benwisg benyw.

Commodious, *a.* (Ll. *commodus*) cyfleus; cymhwys, cyfaddas, addas, sutiol, cymmesur, cyfwlch, cyfweddus, achrwydd; priodol; defnyddiol, buddiol, buddlawn; prydlawn.

The haven was not commodious to winter in—anghyfleus oedd y porthladd i aeafu ynddo.

More commodiously—yn hwylusach; yn fwy hylwydd a hwylus.

Commodiousness, *s.* cyfleusdra, cyfleusder, cyfleusrwydd; cymhwysder, cyfaddasrwydd, addasrwydd, addasdeb; buddioldeb, defnyddioldeb; prydlonedd, prydlonder.

Commodity, *s.* (Ll. *commoditas*; Ff. *commodité*) nwydd; eiddo; peth i'w brynu *neu* i'w werthu; †budd, lles, buddioldeb, mantais, cyfleusdra: *pl.* nwyddau.

Smuggled commodity—rhednwydd, nwydd rhedeg, celcnwydd.

Commodore, *s.* (tebygol o'r It. *comandatore*, neu o'r Ysp. *comendador*) morlyw, morlywydd, morraglaw.

Commodulation, *s.* (Ll. *com* a *modulatio*) mesur; cytundeb.

Commoigne, *s.* (Ff.) cydfynach, cydfonach, cydgyfeinnwr; mynach o'r cyfaint.

Common, *a.* (Ll. *communis*; Ff. *commun*) cyffredin; cyffredinol; cyd; sathredig, arferol, arferedig, cynnefin, gnawd, gnodol, cynnefodig; gwael, iselbris, isel, iselradd, gwaer, gwerinaidd, gwerinol, anwych; rhugl, cyhoedd; mynych, aml; cydberthynol; perthynol i bawb; yn perthyn i bawb; perthynol i'r naill fel y llall; gwladol.

In common—o'r cyd; yn gyffredin; yn gyfartal; ar hannerau.

Common law—cyfraith y wlad, cyfraith rym, y gyfraith anysgrifenedig, y gyfraith gyffredin, cyfraith gyffredin gwlad; cyfraith draddodiadol.

Court of common law—llys cyffredin, cyffredinlys.

Common Pleas—deflys, llys dadleuon cyffredin.

Common council — trefgynghor, tregynghor, tregynghorfa; cynghor cyffredin; cynghorlys.

Court of common council—llys tregynghor, tregynghorlys, cynghorlys.

Common council-man — tregynghorydd, aelod trefgynghor.

Common crier—gwaedd gwlad, criwr cyffredin.

Common hall—dinasdy, dinaslys, dinlys, neuadd dinas, cydneuadd.

Common tongue — iaith gyffredin, iaith werinog, iaith werinol, iaith y werin.

The common people—y bobl gyffredin, y cyffredin bobl, y bobl iselradd, y werin, y werinos, y werin bobl, adlawiaid, adfaon, taiogion, gwreng, pobl y wlad.

In common with others — gydag ereill; yn nghyd â'g ereill.

It is common—cyffredin yw; y mae yn gyffredin; y mae yn arferol; gnawd yw, &c.

Is is a common report—mae y gair yn rhugl *neu* yn hollol; dywedir yn gyffredin; y mae yn ddywediad cyffredin.

Of the common sort—o'r rhyw gyffredin; o'r fath gyffredin; o'r gwreng; o'r iselradd.

Common to many—cyffredin, diragor, diwahan, diwahaniaeth.

Besides these things that are common to all men—heb law y pethau hyn a gydberthynant i bawb.

To make common—cyffredino, cyffredinoli; cyhoeddi; gwneuthur yn gyffredin *neu* gyhoedd.

It is become the common talk—e aeth ar gyrn a phibau; y mae wedi myned ar gyrn a phibau; y mae yn siarad rhwng pawb; y mae yn destyn siarad cyffredinol; aeth yn chwedl gwlad; aeth yn ddwnad gwlad.

It is a common saying—dywedir yn gyffredin; y mae yn ddywediad cyffredin; hen ddywediad yw; y mae yn ddiareb.

To die the common death of all men—marw fel y bydd farw pob dyn; marw fel dynion ereill yn gyffredin.

It is common among men—y mae yn gy-

ffredin, yn aml, *neu* yn fawr yn mhlith dynion.

Temptation such as is common to man—profedigaeth ddynol (1 *Cor.* x. 13).

Call not thou common — na alw di yn gyffredin; na chyffredina di.

Common air—awyr cyffredin i ni (*Doeth.* vii. 3).

Common prayer—gweddi gyffredin.

Common-prayer Book — Llyfr Gweddi Gyffredin.

Common sewer—gwehynffos, ffos budreddi, soch gyffredin, ysgarthffos gyffredin, canolffos gyffredin, ysgothfa gyffredin.

Common friend and common foe—un câr un egar.

Common woman—benyw gyffredin, llances gyffredin; puten, anllades, cyffoden.

Common substantive — sylweddair cyffredin; enw cyffredin.

Common sense—synwyr cyffredin, synwyr naturiol, pwyll pen; rheswm.

Common, *s.* cyttir, tir cyd, ceimle, cymle, maes cyffredin, tir cyffredin, tir cydbawr, cyttir pawr, tir cydymbawr, cydborfeldir, trosfa gyffredin; ble, gweling, ialdir.

Common, *v. n.* cydfwyta, cysseigio, cydymbori, cydbori, cydborfelu, cydborfäu; meddu braint cydymbawr; meddu cydborfraint; cydfeddu hawl mewn cyttir.

Common, *ad.* yn gyffredin, &c.

Commonable, *a.* (o *common*) cydboradwy; à ddelir o'r cyd.

Commonable land—tir cydboradwy; cyttir â'r rhan fwyaf o hono yn arddadwy.

Commonage, *s.* (o *common*) cydborfraint, rhyddid cydbawr, rhyddid cydymbawr, rhyddid mynydd, rhyddid cymle, hawl gydymbawr, braint gydymbawr, rhyddid i gydbori, hawl i gydbori, cydborhawl.

Commonalty, *s.* (*Ff. communauté*) y cyffredin, y cyffrediniaid, y cyffredinolion, y bobl gyffredin, y cyffredin bobl, y werin, y bobl, gwladogion, gwledigion, gwaer, adfaon, corff y bobl; pawb ond y pendefigion.

Commoner, *s.* (o *common*) cyffredinwr, cyffredinad, cyffredinog, gwr cyffredin; gwaeryn, gwreng, gwrengwr; un o'r werin; cydfwytäwr, cysseigiwr, cydymborthwr; ysgolor eilradd; seneddwr; cydborwr; huran, puten; cyfranog.

Commoner of a college — cyffredinwr coleg; ysgolor eilradd.

Commonition, *s.* (Ll. *commonitio*) rhybudd, cynghor, cydrybudd; annogaeth; addysg.

Commonitive, } *a.* rhybuddiol, rhybuddiadol,
Commonitory, } cynghorol, annogol, annogiadol.

Commonly, *ad.* yn gyffredin; yn fynychaf, fynychaf, yn amlaf, amlaf, gan amlaf; yn sathredig; yn hollol, &c.

Commonness, *s.* (o *common*) cyffredinrwydd, cyffrediniedd, cyffredinwch, cyffredinolder, cyffredinder, cyffredinoldeb; arferedigrwydd; mynychder, amledd, amlder.

Commonplace, *a.* (*common* a *place*) cyffredin, sathredig, hen, cynnefin; na newydd na godidog.

Commonplace, *s.* cofnod, cyfnodiad; testyn siarad, testyn cyffredin: *pl.* cofnodau, cyfnodion.

Commonplace, *v. a.* cofnodi, nodlyfru, cofnodlyfru, coflyfru.

Commonplace-book, *s.* nodlyfr, cofnodlyfr, nodachlyfr, coflyfr, argoflyfr, pennodlyfr.

Commonplaced, *a.* cofnodedig, coflyfredig, nodlyfredig; wedi ei ysgrifenu mewn nodachlyfr.

Commons, *s. pl.* cyffredinwyr, cyffrediniaid, y cyffredin, y cyffredinolion; aelodau ty y cyffredin; isseneddwyr; y gwladwyr; y bobl gyffredin, y cyffredin bobl, y werin, gwrengwyr, gwrengiaid, adfaon, gwaer; cyttir, maes cyffredin, tir cyd, tir cyffredin; cydymborth, cyfymborth, cyssaig, dogn, maethran; cysseigiaid.

House of commons—ty y cyffredin, ty y cyffredinwyr, y ty cyffredin, gwerinlys, y ty isaf, ty y cynnrychiolwyr.

Doctors' Commons—Rheithglas, Rheithgoleg.

Short commons—byrbryd, adwledd.

Commonweal, } *s.* (*common*, a *weal*, *wealth*)
Commonwealth, } gwladwriaeth, cydwladoldeb, gwladoldeb, gwladwch, gwledigaeth, gwledigrwydd; gweriniaeth, gwerinlywodraeth, gwerinwladwriaeth; y cyffredin; y wlad; y cyhoedd; y lles cyffredin, y cyfoeth cyffredin, lles y wlad, y budd cyffredinol; brodoriaeth.

Commonwealth's man—gwerinwr, gwerinwladwr, gweriniaethwr; gwladwr.

He is an excellent commonwealth's man—gwladwr *neu* wladgarwr rhagorol ydyw.

Commonwealth of learning—y byd dysgedig, y byd llenorol, y byd llenyddol.

Commorance, } *s.* (Ll. *commorans*) arosfa, trig-
Commorancy, } fa, trigfan, trigias, trigfod, preswylfod, annedd, cartref, arosfan, trigiant, arosiad.

Commorant, *a.* arosol, trigiannol, trigfanol, preswyliol, anneddol; yn aros.

Commoration, *s.* (Ll. *commoratio*) arosiad, trigiad, trigiant, arosfa, trefad, tariad.

Commorient, *a.* (Ll. *commoriens*) cydfarw, yn cydfarw; yn marw gyda'u gilydd.

Commot, *s.* (o'r C.) cwmmwd.

Commother, *s.* (*con* a *mother*) mam fedydd; alltrawes, elltrewen.

Commotion, *s.* (Ll. *commotio*) cyffro, cyffraw, cynhwrf, terfysg, cythrwfl, cythrwbl, trybestyd, trybest, aflonyddwch, godwrdd, twrdd, brythwch, ymodwrdd, cymhelri, ffrawdd, ffrowyll, gwesgryn, arystrin, cythrudd, dyfysgl, annhrefn, cynhyrfiad, cyffroad; angerdd, poethiad.

To stir up a commotion—codi terfysg; gwneuthur cyffro; terfysgu.

Commotioner, *s.* terfysgwr, cythryflwr, cynhyrfydd.

Commove, *v. a.* (Ll. *commoveo*) ysgogi, cynhyrfu, aflonyddu, cysgogi, ansefydlu.

Communal, *a.* (o *commune*) cymmydol; perthynol i gwmmwd.

Commune, *v.* (*Ff. communier*; C. *cymuno*) ymddyddan, ymgomio, siarad, siared, ymsiarad, ymsiared, cymddyddan, chwedleua, ymchwedleua, cydymddyddan, ymddywedyd, cydsiarad, cyfymbwyllo, cydgynghori, cydymgynghori; cymuno, derbyn y cymun.

I will commune with thee—mi a lefaraf wrthyt (*Ecs.* xxv. 22).

If we assay to commune with thee—pe profem ni air wrthyt (*Iob* iv. 2).

Commune, *s.* (Ff.) cwmmwd (yn Ffrainc).

Communicability, } *s.* (o *communicable*) cyf-
Communicableness, } ranogoldeb, hygyfranedd, cyfranadwyedd, cyfranolrwydd.

Communicable, *a.* (Ff.) cyfranadwy, cyfranogol, cyfranol; hawdd ei gyfranu; à ellir ei gyfranu; hysbysadwy, mynegadwy, adroddadwy, treithadwy, traethadwy; †cyfrangar.

Communicant, *s.* (Ll. *communicans*) cymunwr, cymunydd; à fo gyfranog o'r cymun.

Communicate, *v.* (Ll. *communico*) cyfranu, cyfranogi, cydgyfranu, rhanu, rhoddi; mynegu, dadguddio, amlygu, hysbysu; gwneuthur yn gyfranog; gwneuthur yn gydnabyddus; cymuno, derbyn y cymun; bod yn gyfranog o'r cymun; cyfroddi; bod yn gyfranog; bod yn cydgyfranu; cydio, ymgydio; bod yn cyssylltedig, yn cydio, yn gyfun, yn nghyd, ac yn ymgyffwrdd; cystlynu, cyfathrachu, cyweithasu; cyffredino.

The houses communicate—mae y tai yn ymgydio, &c.

The canals of the body communicate with each other—mae y pibelli y corff yn ymgyffwrdd; mae y pibelli y corff yn rhedeg y naill i'r llall.

Communication, *s.* (Ll. *communicatio*) cyfraniad, cyfranogiad, cydgyfraniad; ymddyddan, cymddyddan, cydymddyddan, siarad, cydsiarad, ymgomiad, ymgom, cynnadl, cydlafaredd, cylafaredd, ymddywediad, ymadrodd; hysbysiad, hysbysiaeth, mynegiad, amlygiad; gohebiaeth, gohebiad; cyffreuad, cyffreuedigaeth; cydiad, ymgydiad, cyssylltiad; cystlwn, cyfathrach, cyweithas, cymdeithas; ffordd, cyfrwng, cyfryngffordd; cynniwair, tramwy, tramwyfa.

Evil communications — ymddyddanion drwg.

Filthy communication—serthedd, serthair, croesanaeth, croesanair, brynti, serthfrynti, aflendid, ymadrodd budr.

A place of private communication—cyfrinfa, cyfrinfan.

Communicative, *a.* cyfrangar; hawdd ganddo gyfranu; rhyddfeddwl; cymmwynasgar.

Communicativeness, *s.* cyfrangarwch.

Communicator, *s.* cyfranwr, cyfranydd, cyfranogwr.

Communicatory, *a.* cyfraniadol, cyfranogol, cyfranol.

Communing, *s.* (o *commune*) ymddyddan, cydymddyddan; cyfeillach, cyfrinach; ymgystlwn cyfrinachol.

Communion, *s.* (Ff.; Ll. *communio*) cymundeb, cymun, cyfundod, cyfundeb, undeb; cymdeithas, cyfeillach, cyweithas; cymuniad.

The communion of saints—cymundeb y saint, cymun y saint, cymundeb y seintiau, cyffredinrwydd y saint.

The communion of the Holy Ghost—cymdeithas yr Ysbryd Glân; cymundeb yr Ysbryd Glân.

Communion cup—caregl, cwpan y cymun, cymungib.

Communion table—bwrdd y cymun, bwrdd yr allor, bord yr allor, bwrdd y cymundeb.

Communion service—gwasanaeth y cymun, gwasanaeth y cymundeb, cymun-wasanaeth.

Communionist, *s.* (o *communion*) cymundebwr, cymundebog; un o'r un cymundeb.

Communism, *s.* (Ff. *commun*) cydfeddiannaeth.

Communist, *s.* (Ff. *commun*) cydfeddiannur; pleidiwr *neu* amddiffynydd cydfeddiannaeth.

Community, *s.* (Ll. *communitas*) gwladwriaeth, cydwladoldeb, cywladoldeb, y gymdeithas wladol, y cyffredin, y wlad, y corff gwladol; cymmydoldeb, cyfundeb, cymdeithas; plwyf, plwyfogaeth; cydfeddiant; cyfranogiad; †cyffredinrwydd, mynychder.

Federal community—cydwladwriaeth, cywladwriaeth, cyfwladwriaeth, gwladwriaeth gyfunol.

Civil community — cymdeithas wladol, cymrodoriaeth, cyfrodoriaeth.

Community of monks—cyfundeb, cydfrawdoliaeth, *neu* gymrodoriaeth o fynachod.

Member of a community—aelod o wladwriaeth, &c.; brodor, cymrodor.

Commutability, *s.* (o *commutable*) cydnewidioldeb, newidioldeb, newidadwyedd, cyfnewidrwydd.

Commutable, *a.* (Ll. *commutabilis*) newidadwy, cyfnewidadwy, cyfnewidiol; amobrwyol; amobrwyadwy, pridadwy; hawdd ei newid; à ellir ei newid.

Commutation, *s.* (Ll. *commutatio*) newidiad, cyfnewid, cyfnewidiad, amnewid, amnewidiad, amnewidiaeth, cydnewid, newid, newidwriaeth; cospnewid, cospnewidiad, cosppryniad; amobrwyad, amobrad; iawn; pridwerth.

Commutation fee—amobrwy.

Commutative, *a.* (Ff. *commutatif*) cydnewidiol, cyfnewidiol, newidiol, cydgyfnewidiol, cylchgyfnewidiol, amnewidiol, amobrwyol.

Commutative justice—cyfiawnder cydgyfnewid; cyfiawnder cydnewidiol, cydgyfnewidiol, cytyseddol, *neu* fasnachol; cyfiawnder rhwng gwr a gwr.

Commute, *v.* (Ll. *commuto*) newid, newidio, cyfnewid, cyfnewidio, amnewid, amnewidio, arallu; amobrwyo, rhyddbrynu; prynu anghosp, cosppprynu, cospnewid, newid cosp; cymmodi, penydio, dadolychu, iawnu, rhoi dadolwch; gwneuthur iawn *neu* ddadolwch.

Commutual, *a.* (*con* a *mutual*) cyd-, cyf-, cym-, cy-, cyng-, cys-; o'r ddwy ochr; perthynol i'r ddwy blaid; eu gilydd, ein gilydd, &c.; y naill y llall; y naill gàn y llall; cydgyfnewidiol.

Comose, *a.* (Ll. *comosus*) blewog, blewbenol, blewbenaidd.

Compact, *a.* (Ll. *compactus*) cryno, cynnwys; dwys, dwysedig, cydwasg, cyngwasg, cywasg, cydwasgedig, ffêr, darddwys, durfing, durfin, clwn; talfyr, talgrwn, taclus, tacluafyr, cyfrdo, twtnais, twt, cliw, dèl, perc, trefnus, ciw, trym, arbellus, cymmon, cysbell, feledïw, corc, gwiwdeg, clws, tlws; cydnerth, cyfanaidd, ffyrf, (*f.* fferf), fferdd, tyn; cyttwf, syfn; gwneuthuredig, cyfansoddedig, cyssoddedig, cynnwysedig; cyssylltedig; gwedi ei gryno gyssylltu.

A compact narrative — cynnwyschwedl, byrchwedl; hanes *neu* hanesiad cryno.

A compact song—càn gryno, cerdd gyfaenad.

Compact, *s.* (Ll. *compactum*) cytundeb, ammod, cyfammod, cynghrair.

Compact, *v. a.* uno, cyssylltu, cydgyssylltu, cynghydio, cyfuno, dwyso, dywasgu, tynhau, cydwasgu, cynnwyso, crynöi; cyssylltu yn gryno; rhwymo, gwthio, hoelio, *neu* glymu yn nghyd; dwysglymu, tynwasgu; cymmoni, clysu, tacluso; cytuno, ammodi, cyfammodi, cynghreirio; cyfansoddi, gwneuthur, gwneyd.

Being compacted in blood — gàn geulo mewn gwaed (*Doeth.* vii. 2).

Of which things it is compacted—o ba bethau y cyfansoddwyd ef.

Well-compacted—gwedi ei gymhwys *neu* gadarn gydgyssylltu; wedi ei gyssylltu *neu* gydgyssylltu yn gryno; cywraint, cyfrdo, cyfrdelaid, cywair, cyweirgwbl, cyweirdebus.

A well-compacted style—ieithwedd daclus *neu* daclusfer; ieithwedd gynnwys *neu* gryno; dull taclusfyr ar ysgrifenu *neu* ymadroddi; cynnwysddull, delieithwedd, dullwedd gynnwys.

A well compacted man—dyn cydnerth; dyn cadarngryf.

Compactedness, } *s.* (o *compact*) crynoder,
Compactness, } crynodeb, cynnwysder, cynnwysdra, dwysder, dwysedd, dwysdra, durfinder, durfingder, clynder, clynedd, fferder, arddwysder, darddwysder, cyfander, ffyrfder, ffyrfedd, cydwasgedd, taclusder, talfyredd, oliwder, twtneisrwydd, percedd, teledigrwydd, caledwch, trysymedd, cydnerthedd, cadernid, &c.

Compacter, *s.* (o *compact*) cynnwysydd, dwyswr, cyssylltwr, cydgyssylltwr, &c.

Compaction, *s.* (Ll. *compactio*) dwysiad, crynoad, cydwasgiad, durfingad, taclusiad, clysiad, clyniad, cyssylltiad, &c.

Compacture, *s.* (o *compact*) cydgyssylltiad, cyssylltiad, cysswllt, cydiad; adail, adeilad, adeilwaith; adail gydsylltiol; uniad, cymmaliad, asiad; cymmal; gosodiad.

Compages, *s.* (Ll.) desgyssylltiad, cyfunbarthiad; cyssylltiad, cysswllt.

Compagination, *s.* (Ll. *compagino*) parthuniad, uniad rhanau; adail, adeilwaith, adeiladaeth; cyssylltiad, cyfuniad, cymhlethiad; cynnwysiad.

Companable, } †*a.* (o *company*)=*Companion-*
Companiable, } *able.*

Companableness, } †*s.* cyfeillgarwch, cyweith-
Companiableness, } asrwydd.

Companion, *s.* (Ff *compagnon*) cydymaith, cyfaill, cymdeithydd, cymdeithiwr, cyfaillt, canymdaith, canymdeithydd, cydymdeithiwr, cydymdaith, cyflewydd, cymdaith; cymhar, cyfranog, cyfranogwr, cyweithydd, cydweinydd, cydwelydd; carodyn, anwylyn; grisborth, grisgynnor.

Companion in office — cydswyddog, cysswyddog, cydswyddwr; cydymaith mewn swydd.

Companion in labour—cydlafuriwr, cydweithiwr, cydweithwr.

Companion at play—cydchwareuwr, cydchwarëwr, cydchwarëydd, cyttaplaswr.

Companion at school — cydysgolor, cydysgoliaig, cydymaith ysgol, cydysgolwr, un cydysgol, cyd-ddysgybl.

Companion in service—cydwas, cydwasanaethydd, cydwasanaethwr, cydweinidog.

Companion in arms — cydfilwr, cydfilor, cydsawdiwr, cydryfelwr, cyfflüydd.

Boon companion—glân gydymaith, cydymaith glân, cyfeddachwr, cyfddiotwr, gwleddychwr, wttreswr.

Pot companion — cydyfwr, cyfeddachwr, cestgyfaill, cydbotiwr.

Merry companion—digrifwas, gwas digrif; cyfeddachwr digrifian; cydymaith digrif.

Paul's companions in travel—cydymdeithion Paul; cytteithwyr Pawl.

Companions of thieves — cyfranogion â lladron (*Esa.* i. 23).

Female companion—cyfeilles, cymdeithes, cydymeithes, cymhares.

Knight companion—cydfarchog, marchog gydymaith.

Companion ladder—grisysgol.

Companionable, *a.* (o *companion*) cymdeithadwy, cyfeillachadwy; cymdeithasol, cymdeithasgar, cymdeithgar, cyfeillgar; addas i gymdeithas dda; yn caru cymdeithas.

Companionableness, *s.* cymdeithasrwydd, cyweithasrwydd, cymdeithasoldeb, cymdeithasgarwch, cyfeillgarwch, cyweithasoldeb.

Companionless, *a.* (o *companion* a *less*) digymdeithas, digyfaill, digymdaith; heb gydymaith, &c.

Companionship, *s.* cymdeithas, cyfeillach, cydgyfeillach, cydgymdeithas, cyweithas; cymdeithasiad, cymdeithiad; cymdeithion, torf, gosgordd.

Company, *s.* (It. *compagnia*; Ff. *compagnie*) cymdeithas, cydymeithas, cyfeillach, cymdaith, (*pl.* cymdeithiau); cymdeithion, cydgyfeillion; cymdeithwys; cymdeithfa, canymdaith, cydymdaith; ymgynnull, casgl, ymgasgl, cyfarfod, cynnullfa, cynnulliad, cyrchfa, ymgyfarfod; torf, tyrfa, myntai, llu, lluaws; rhawter, cattorf, cattorfa, cattyrfa, catrodas, adgatrawd, byddinres; bagad, nifer; haid, cydfagad, rhawd, gyr, mynwes; cyfrinach, brawdoliaeth, brawdoriaeth, cydgymdeithas, cyweithas; gosgordd, cosgordd; cydfasnach, cydfasnachwyr, trafnid-gymdeithas; cynghorff; cyfranogaeth.

East India Company — Cymdeithwys yr India Ddwyreiniol; Cymdeithwys y Ddwyreiniol Ind; Cymdeithas yr India Ddwyreiniol.

Longman and Company, } Longman ac
Longman & Co. } ereill; Longman a'i Gyfeillion; Longman a'i Gyf.; Longman a'i Gym.; Longman a'r Cyf.

Trading companies—cymdeithasau trafn, cymdeithasau trafnid, cymdeithasau trafnidiol; trafn-gymdeithasau; trafnidgymdeithasau, trafn-gymdeithwyr.

The glorious company of the apostles—gogoneddus gôr yr apostolion.

An innumerable company of angels — myrddiwn o angelion (*Heb.* xii. 22); torf afrif o angelion; tyrfa aneirif o engyl.

In company with—gyda; yn nghyd â; yn nghyd.

We were a great company of us—yr oeddem ni lawer yn nghyd.

We are thronged with company—nid oes genym mo'r lle i ymdröi gàn lawer.

You were not then in company—nid oeddech chwi yn ein plith ar ḧyny o bryd; nid oech chwi gyda ni y pryd hwnw.
Great company—tyrfa fawr.
Certain women of our company — rhai gwragedd o honom ni.
They went to their own company—daethant at yr eiddynt.
He was pleasant company — cydymaith dyddan, difyr, difyrus, *neu* ddigrif ydoedd.
Though Fame too came along in the company—er dyfod o Glod hithau yn mhlith y lleill.
He went about from company to company—cerddodd o amgylch o fyntai i fyntai, o fyddin i fyddin, *neu* o gattorf i gattorf.
He divided his men into three companies—rhanodd ei wŷr yn dair byddin, myntai, cattorf, *neu* dyrfa.
The marching of the company—cerddediad y llu (1 *Mac.* vi. 41).
Of the same company—o'r un dorf *neu* fyddin, &c.; cydfyddin.
Ship's company—gwŷr llong, cymdeithion llong.
A company of horses—bagad o geffylau; haid o feirch, &c.
Company of horse—marchoglu, marchogdorf.
Strolling company—gwiblu.
By companies—yn fynteioedd, yn fyddinoedd, &c.; yn fyrddeidiau (*Marc* vi. 39).
To bear company, } cydfyned, hebrwng,
To keep company, } hebryngu, canymdöi, cymdeithio, cydymdeithio, cyttrodio, cytteithio, cysymdeithio, cydgerdded; ymgyfeillachu, ymgymdeithasu, ymddylyn; cymdeithasu, cyfeillachu, cyfrinachu; cadw *neu* gynnal cyfeillach; bod yn gyfaill; ymwasgu â; cydymgymysgu; mynychu. [esau.
They that bear her company—ei chyfeillTo be much in company with—ymddylyn, ymganlyn, *neu* gydymganlyn â; mynych gyrchu i gymdeithas un.
He is ever in her company—y mae efe byth gyda hi; y mae efe byth a hefyd yn ei hael hi.
To break company— tori cymdeithas *neu* gyfeillach; tori cyfeillach i fyny; ymadael o gymdeithion; ymwahanu o gyfarfod; gwahanu cymdeithas; ysgaru, gwasgaru, ymwasgaru.

Company, *v.* cymdeithio, cydymdeithio, hebrwng, hebryngu, cydfyned, cyttrodio, cytteithio, canymdöi, cydgerdded; ymgyfeillachu, ymgymdeithasu, ymddylyn; cymdeithasu, cyfeillachu, cyfrinachu; cadw *neu* gynnal cyfeillach; bod yn gyfaill; ymwasgu â; cydymgymmysgu; mynychu cymdeithas *neu* gyfeillach; cywestu, cydorwedd, cywestachu; † bod yn llon gydymaith.
To company together—bod yn nghyd.

Comparable, *a.* (Ll. *comparabilis*) cymharadwy, tebygadwy; cymharol; i'w gymharu, i'w gystadlu, i'w debygu, i'w gyffelybu; cydradd, cymhar, cystal, cystadl, cyffelyb; cydwerth.
Comparably, *ad.* mewn cymhariaeth; yn gymharol; mewn modd cymharol; yn gydraddol; yn gyffelybol, yn gydgyffelybol.
Comparates, *s. pl.* (Ll. *comparatus*) cymharolion.
Comparation, *s.* (Ll. *comparatio*) darpariaeth, darbodaeth, arlwy, darpariad, darbodiad.
Comparative, *a.* (Ll. *comparativus*) cymharol, cymhariaethol, argystadlol, argystadl; cymhariadol: *pl.* cymharolion, cymhariadolion.
Comparative degree—y ganolradd, y radd gymharol, y radd ganol, y berfeddradd; y chwanegol o un radd.
Adjective of the comparative degree — ansoddair canolradd, ansoddeb canolradd, enw gwàn canolradd, chwanegair canolradd; adenw yn y radd gymharol *neu* ganol.
Comparative anatomy — difyniaeth gymharol, cyfddifyniaeth, milddifyniaeth =difyniad pob math o anifel ond dyn.
Comparative philology — ieithgymhariaeth, cymhariaeth ieithoedd, ieithyddiaeth gymharol.

Comparative, † *s.* cyfeisor, cystedlydd.
Comparatively, *ad.* yn gymharol, mewn cymhariaeth, yn gymhariaethol; mewn cystadlaeth, mewn cyffelybiaeth; o'r ddau; mewn perthynas i ereill.
Compare, *v.* (Ll. *comparo*) cymharu, cyffelybu, cystadlu, tebygu, cyfartalu, cyfalhau, cynhebygu, cydgyffelybu, dyfalu, tebygoli, hefelychu; cydystyried, cydbwyso, cydfarnu, cydosod; bod yn debyg; hefelu; † cael.
To compare together—cydgymharu, cydgyffelybu.
I am not to be compared with him—nid wyf fi ddim ato ef; oes cymhariaeth rhyngof fi ac ef.
We have none to compare *or* to be compared with him—nid oes genym neb i'w gymharu âg ef.

Compare, *s.* cymhariaeth, cyffelybiaeth, tebygrwydd; hefeleb.
Comparer, *s.* (o *compare*) cymharwr, cymharydd, cyffelybwr, &c.
Comparing, *s.* (o *compare*) cymhariad, cyffelybiad, tebygiad, hefeliad, cystadliad, &c.
Comparison, *s.* (Ll. *comparatio*; Ff. *comparaison*) cymhariaeth, cyffelybiaeth, cystadlaeth, cystadledd, cyfartaledd, cyffelybrwydd, tebygiaeth; cystadliad, cymhariad; dameg; cymharedd, cyffelybedd, cyfweddiad.
In comparison of—wrth, at; cyferbyn â, gyferbyn â; mewn cymhariaeth i; â'i gymharu â; os cymherir â.
What have I done now in comparison of you?—beth a wnaethym i yn awr wrth â wnaethoch chwi?
Without comparison—yn ddigymhariaeth; yn ddiddadl, yn ddiwrthddadl.
Degrees of comparison—graddau cymhariaeth, graddau cymharol.

Compart, *v. a.* (Ff. *compartir*) rhanu, parthu, dosbarthu, cymharthu.
Compart, *s.* aelod, rhan, parth.
Compartiment, } *s.* (Ff. *compartiment*) rhan,
Compartment, } dosbarth, parth, cymharth; adeilran.
Compartition, *s.* (Ll. *con* a *partitio*) rhaniad, parthiad, cymharthiad, dosbarthiad, dosbarth.
Compartner, *s.* (Ll. *con*, a *partner*) cyfranog, cyfranydd, cyfranogydd, cydranwr.
Compass, *s.* (Ff. ac Ysp. *compas*) cylch,

cylchedd, cylched, amgylchedd; amgylch; cwmpas, compawd, cwmpawd, compod; cylchred, cylchyn, amgant, rhygylch, comp, cwmp; terfynau.

Mariner's compass—compawd, cwmpas; cwmpas morwyr, morgompawd.

Compass, } cwmpas, compod,
Compasses, } cylchedydd, cylch-
Pair of compasses, } iadyr, cylchyr: *pl.* compodau.

Card of the compass—carden y compawd; gwyneb y cwmpas.

Triangular compass — compas tryfal, compod triongl.

The compass of the world—cylch, amgylchedd, *neu* amgant y byd; caerau y byd; y bydyssawd, y bedyssawd, yr hollfyd.

To fetch a compass—myned o *neu* oddi amgylch; amgylchu, amgylchynu, damgylchu; bod yn faith *neu* fanwl; arfer aml eiriau; arfer amgylchion geiriau.

They fetched a compass of seven days' journey—hwy a aethant o amgylch ar eu taith saith diwrnod.

Fetch a compass behind them—amgylchyna o'r tu ol iddynt.

By fetching a longer compass about—trwy fyned yn mhellach oddi amgylch.

To keep within compass—cadw o fewn mesur; cadw o fewn terfynau; bod yn gymmedrol.

Within the compass of the temple—o fewn cylch y deml.

Within the compass of a year—o fewn cylch blwyddyn; yn chwyl blwyddyn; o fewn chwyl blwyddyn; o fewn ysbaid *neu* ystod blwyddyn.

Within the compass of our memory—yn ein cof; o fewn cyrhaedd ein cof; o fewn terfynau ein cof; o fewn ein cof.

It is above the compass of art—y mae efe allan o gyrhaedd celfyddyd; y mae e tu hwnt i gyrhaedd celfyddyd.

Compass of a way—amgylchedd *neu* amgylchyniad ffordd; ymdro ffordd.

To draw into a narrow compass—cyfyngu; cwtogi, byrhau, dyfyru.

That I may speak within compass, } fel na
To speak within compass, } ddywedwyf yn rhy helaeth; fel nad elwyf *neu* elof dros y terfynau; fel na ddywedwyf dros y terfynau.

Compass, *v. a.* amgylchu, amgylchynu, cylchu, damgylchu, cylchynu, damgylchynu, cwmpasu; cael, caffael, cyrhaedd, cyrhaeddyd, cyrhaeddu; cyflawnu; dwyn i ben; dwyn o amgylch; amcanu, bwriadu, dyfeisio, cydfwriadu, cynllunio, cydfradu; mynu; cael ei amcan; cael gafael ar; dyfod o hyd i.

To compass round about together—cydamgylchu, cydamgylchynu.

To compass with a trench—amgloddio; gwneuthur *neu* fwrw clawdd o amgylch.

To compass about with a hedge—amgau; rhoi *neu* wneuthur cae o amgylch.

To compass a town — amgylchu tref; gwarchau tref, gwarchäu dinas.

To compass the death of the king—amcanu at fywyd y brenin; bwriadu am fywyd y brenin; cydfwriadu yn erbyn einioes y brenin.

To compass a business—cyflawnu gorchwyl; dwyn gorchwyl i ben.

He is compassing some great matter—mae ar oddeu *neu* yn nghylch dwyn i ben ryw beth, mater, *neu* orchwyl mawr.

Pride compasseth them about as a chain—cadwynodd balchder hwynt (*Salm* lxxiii. 6).

Compassable, *a.* (o *compass*) amgylchadwy, &c.

Compass-box, *s.* cwmpasgist, cwmpaswain, cwmpasgloer, blwch cwmpas.

Compasses, *s. pl.* (o *compass*) cwmpas, cylchiadyr, cylchedydd, cylchyr, compod.

Bow compasses — crymgwmpas, cam-gwmpas.

Spring compasses—twythgwmpas.

Beam compasses—llathgwmpas. [iad.

Compassing, *s.* (o *compass*) coedblygiad, crym-

Compassion, *s.* (*Ff.*; *Ll.* drosgl, *compassio*) tosturi, tosturiaeth, gresyndod, trugaredd, gwaws; cytteimlad, cydymdeimlad, teimladrwydd, dyngaredd, gresi, tynerwch.

To have compassion, } tosturio, trugarhau,
To take compassion, } gresynu, truanu, truanhau, tirioni, tosturiannu, tosturhau; bod yn dosturiol *neu* drugarog; bod yn ddrwg ganddo; arbed, eiriach; cydoddef.

Ye had compassion of me in my bonds—cyd-ddyoddefasoch â'm rhwymau (*Heb.* x. 34).

Compassion,† *v. a.* tosturio, trugarhau.

Compassionable, *a.* (o *compassion*) tosturiadwy.

Compassionate, *a.* (o *compassion*) tosturiol, tosturiog, trugarog, trugar, tosturus, tosturiaethol, tosturiannol, tosturhaol, trugarhäus, gresyngar, gresin, tyner, tyner-galon; tyner ei galon; à fo yn resyn *neu* ddrwg ganddo dros y truan.

To be compassionate—tosturio, &c.

Compassionate, *v. a.* tosturio wrth, trugarhau wrth; tosturio, gresynu, trugarhau, truanu, tosturiannu, tosturhau, tosturuso; bod ganddo gwyn i; bod yn ddrwg *neu* resyn ganddo dros.

Compassionateness, *s.* tosturioldeb, tosturiogrwydd, tosturusrwydd, gresynoldeb, trugarogrwydd.

Compassless, *a.* (*compass* a *less*) digwmpas.

Compass-needle, *s.* nydwydd y compawd, nodwydd y cwmpas.

Compass-saw, *s.* compaslif, cwmpaslif, cylchlif, complif, cwmplif.

Compaternity, *s.* (*com* a *paternity*) cyttadoliaeth; perthynas tad bedydd â'r un yr etyb efe drosto.

Compatibility, *s.* (o *compatible*) cydweddoldeb, cyssondeb, addasrwydd, cyfaddasdeb, cyngweddoldeb, cydfodoldeb, cydfyddusrwydd, cydsafedd, cydoddefedd; cytundeb, cyttalgarwch, cymmodoldeb.

Compatible, *a.* (*Ff.* o'r *Ll.* *competo*) cydweddol, cysson, cyngweddol, cytunol, cydunol, cydfodol, cydfyddus, cydsaf, cydsafol, cydoddef; cytun, cyttalgar, cymmodol; addas, cyfaddas, cymhwys, gwiw; à fedront gytuno yn nghyd; à fedront gydsefyll.

These two things are very compatible—dichon y ddau beth hyn gydsefyll yn hawdd.

Not compatible—anghydweddol, anghyson, &c.

Compatibleness, *s.*=*Compatibility.*

Compatient, *a.* (Ll. *com* a *patior*) cydoddefol, cydoddefus.

Concomitant, *s.* cydymaith, cyfaill, cytteithydd, cytteithiwr, cydredydd, cydfynedydd, cydganlynydd; un yn cydfyned âg.

Concomitate,† *v. a.* cydfyned, hebrwng, canlyn; cyfystlysu â.

Concord, *s.* (Ll. *concordia*; Ff. *concorde*) cytundeb, cyfundeb, cydweddiad, cyfundod, cynghordiad, cydgordiad, cydgord, cynghord, undeb, cyssondeb, cyssonedd, cyssoniant, cydsain, cyssain, cyfundon, cydlais, cytton, cynghanedd, cysseinedd; cydfod, cymmod, hedd, heddwch, cymmodloneddd, cydfod, unoliaeth, cymmodedd, teuluedd; ammod, cyfammod, cynghrair, cysswyn; cyfunawd.

Government and concord—llywodraeth a chydweddiad; rheoliaeth a chyfundod.

False concord—anghydweddiad, anghyfundod, camgydweddiad; twyllgynghanedd; twyllawdl, twyllodl.

To be at concord—cydfod, cytuno, cydgordio, cynghordio, cordio; bod yn gytun, &c.

Concord,† *v. n.* cydfod, cytuno, cydgordio.

Concordable, *a.* cytunadwy, &c.; cysson, cydweddol, cytunol.

Concordance, *s.* (Ff.; Ll. *concordantia*) cytundeb, cyfundeb, cydgordiad, cydweddiad; mynegair, mynegiadur, mynegai, dangoseg, mynegur, mynegfyfr.

Scripture concordance—mynegair ysgrythyrol, mynegiadur ysgrythyrol.

Concordancy, *s.* cytundeb, cyfundeb, cydgordiad, cynghordiad, cyfundod, cyssonedd.

Concordant, *a.* (Ll. *concordans*) cysson, cytunol, cyfunol, cytun, cytûn, cytunus, unol, cyfun, cydgordiol; cyfatebol; cydfodol, cydfodus, cymmodol, cymmodlawn, unfeddwl, ungalon, unweddol; hyfryd, boddhaol.

Concordant, *s.* cytunog; yr hyn sydd yn gysson, &c.

Concordat, *s.* (Ll. *concordo*) cynghrair, cytundeb, ammod, cydgordeb, cytuneb, cytuniad.

Concordist, *s.* mynegeirydd, mynegeiriwr, mynegyfrwr, casglydd mynegair.

Concorporal, *a.* (Ll. *concorporo*) cydgorfforol, cynghorfforol, cydgorffol.

Concorporate, *v.* (Ll. *concorporo*) cydgorffoli, cynghorffoli, cydgorffori, cynghorffori, cynghorffi, corffoli; ymgorffori, ymgorffoli; cymmysgu; ymgymmysgu; gwneuthur yn un corff.

Concorporation, *s.* cydgorffolaeth, cydgorffoliad, cynghorffolaeth, cydgorfforaeth, cynghorfforaeth, cydgorfforiad; ymgorfforiad; ymgymmysgiad.

Concourse, *s.* (Ll. *concursus*; Ff. *concours*) tyrfa, torf, ymgynnull, cynghad, cydgasgliad, cynnulliad; cyrchfa, cynnullfa, cyrch, cyfrwch, ymgyrch, ymgyfarfod, cyfarfod, cyfred, ymgyfred, ymgyfredeg, rhedegfaia.

In the chief place of concourse—yn mhrif leoedd y dyrfa (*Diar.* i. 21).

Concreate, *v. a.* (*con* a *create*) cydgreu; creu gyda; creu ar yr un pryd.

Concredit,† *v. a.* (*con* a *credit*) ymddiried.

Concremation, *s.* (Ll. *concremo*) cydlosgiad, cyflosgiad.

Concrement, *s.* (Ll. *concrementum*) cyttyfiad, cyttyfiant, cydgasgliad; cyttelpyn.

Concrescence, *s.* (Ll. *concrescentia*) twf, tyfiant, prifiad, cynnydd.

Concrescible, *a.* (Ll. *concresco*) cyttyfadwy; ceuladwy; tewychadwy.

Concrete, *a.* (Ll. *concretus*) cyttwf, cyttyfol; undwf; cydgasgledig, cynghasgledig, cydgorfforedig, cydgorffol, cyttyrol, cyttyreg, cyfun, cymmysg, cymmysgedig; ceuledig, ceiedig, cyttew; cynghrethol, cynghreth, anseddol; ymlynol, cynghlynol, cyfunsawdd.

Concrete term—cynghreth; enw neu air cynghrethol; sylfonsawdd, seilansawdd.

Concrete, *s.* cyfansawdd; cynghreth; y cyttwf, y cydwasg, y cynghlwm, y cyfun; sylfonsawdd; cydgorff, clamp, talp, cymmysg, cymmysgedd, mwl, mwlyn, cai, cyttalp, cymmysgdalp; corff cyfansawdd; ansawdd; cyttwr, crynswth.

In the concrete—yn y cyfun; yn y cynghreth.

God is not only the perfection of the creatures in the concrete, but in the abstract too—nid yw Duw yn unig yn berffeithrwydd y creaduriaid, ond yn berffeithrwydd ei hun.

Concrete, *v.* cyfuno, cyfymuno; casglu, cydgasglu; ceulo, cydgeulo; tewhau, tewychu, cyttewychu, tochi; caledu, ymgaledu; cyttyru; cynghrethu; cymmysgu, talpio, clapio, clampio, ceio, mwlu, ymlynu; cyttyfu; fferu.

Concreteness, *s.* (o *concrete*) cyttyroldeb, tewycholdeb, ceuladoldeb; fferdod, fferdra, fferder; ceulad, tewychiad, tewhad, caledïad, cyttyriad.

Concretion, *s.* (Ll. *concretio*) cyttyfiad; cyttyriad; ceulad, cydgeulad, cyttewychiad, tewhad, cyttewhad, tewychiad, talpiad, cyttalpiad; cydgorfforiad, cydgorffiad, cynghorffiad; cydgasgliad, casgl; caledïad, ymgaledïad; talp, tolch, tolchen, cyttalp, clamp, mwl, cal, môl, torp, telpyn, pelen, cyttwr, cryswth, fferiant.

Concretional, *a.* cyttewychol, cyttyrol, ceuladol, &c.

Concretionary, *a.* cyttewychol, cyttyfol, tewychol, ymdewychol, ymgasgliadol, ceuladol; à ffurfiwyd drwy gyttyriad.

Concretive, *a.* cyttyfol, cyttyrol, cynghorffol, cydymgorffol, cydymunol; tewychiadol, tewhaol, cyttewhaol, cyttyriadol, cyttalpiadol, tolchenol, talpiol, ceuladol, fferol.

Concreture,† *s.* (Ll. *concretum*) ceulad, talp, cyttalp, telpyn.

Concrew,† *v. n.* (Ll. *concresco*) cyttyfu, tyfu yn nghyd.

Concrimination, *s.* (Ll. *concriminor*) cydgyhuddiad, cydgyhudded, cydachwyniad.

Concubinage, *s.* (Ff.) cywelyogaeth, cywelyogaeth, cydwelyogaeth, cywelyaeth, gordderchiaeth, gorweddiad, gordderchiad, caradas; godineb.

Concubinal, *a.* gordderchol, cywelyol; perthynol i gywelyaeth.

Concubinary, *s.* gordderchydd, godderchwr, gordderchwas, cywelyog, gordderch.

Concubinate, *s.* (Ll. *concubinatus*) godineb, puteindra, gordderchiad, anlladrwydd, cyffodendod.

Concubine, *s.* (Ff.; Ll. *concubina*) gordderch, gordderchwraig, gordderchfun, gordderchferch, gordderches, cywelyes, cariadwraig, cariadferch, cyffoden, puten gadw, meiriones, cywres, cymmones.

Conculcate, *v. a.* (Ll. *conculco*) mathru, sathru, sarnu, dansang, damsang, gwasarnu; sathru dàn draed; gwneuthur yn sarn *neu* yn wasarn. [iad.

Conculcation, *s.* mathriad, sathriad, gwasarnu-

Concupiscence, *s.* (Ll. *concupiscentia*) chwant, trachwant, chwantach, dychwant, ymchwant, drygchwant; trythyllwch, anlladrwydd, anlladedd; gwŷn *neu* chwant cnawdol; cydchwant, dyre, chwant y cnawd; bydolchwant; blys, gwŷn; chwannwg, chwannwch, chwantrwydd.

Concupiscent, *a.* trachwantus, trachwantol; chwantus, blysig, darchwantol, darchwantus, anllad, trythyll; â dyre arno.

Concupiscential, *a.* chwantol, chwantus, chwantaidd.

Concupiscible, *a.* (Ll. *concupisco*) chwantol, chwennychol, blysig, chwannog, trachwantol, trachwantus; à bair chwant.

Concur, *v. n.* (Ll. *concurro*) cytuno, ymgytuno, ymuno, cydsynied, cydsynio, cyssynio; ymgyfarfod; cydredeg, ymgydredeg, cydymredeg, cyfredeg, cydfyned; cydymgyrchu, cyfladd, cyttaraw; amddal.

In this they concur—yn hyn y maent yn ymuno.

Concurrence, *s.* (Ff. o'r Ll. *concurro*) cytundeb, cytuniad, cyfrediad, cydrediad, cyfuniad, cyduniad, cydsyniad, cyttarawiad, undeb, uniad, uned, ymgyfarfod; bodd, cymmeradwyaeth; cyfamcaniad, cyfred, cydred, ymgyfred, paeth; cydymgyrch, cydamcaniad.

Concurrency,† *s.*=*Concurrence.*

Concurrent, *a.* (Ll. *concurrens*) cyfredol, cydredol, cydred, cyfred, ymgyfredol, cydunol, cytunol, cydsyniol, cyssyniol; cyfarfodol; cydamserol; cyfarystlys; cydgynnorthwyol, cydweithiol; cyd-ddygwyddol; cydfynedol, cyhynt; yn cyfarfod, yn cydredeg, yn ymgyfarfod, &c.; cyssylltedig, unol; cydymgyrchol.

Concurrent, *s.* cyfred, cydred, cyfredydd, cydachos: *pl.* cydredion, cyfredion, cydredolion.

Concussation, *s.* (Ll. *concussio*) gorgyffro, gorgynhyrfiad, ysgydwad angerddol.

Concussion, *s.* (Ll. *concussio*) ysgydwad, ysgytiad, ysgytfa, ysgwydfa, cysgogiad, cysgog, cyfergyd, cyfergyr, cyfergydiad, tarawiad, cyttarawiad, hyraeth, cynhyrfiad, cyffroad, cyffro, ysgwyd, siglad, sigl.

Concussive, *a.* ysgytiol, ysgydwol, cyfergydiol, cysgogol, cyffroawl, cydhyrol.

Cond, *v. a.* (Ff. *conduire*) llonglywio.

Condemn, *v. a.* (Ll. *condemno*) collfarnu, euogfarnu; dyfarnu, barnu, dedfrydu, bwrw; euogi; bwrw i farwolaeth *neu* i'w golli; bwrw *neu* farnu yn euog; dygyfwrw; condemnio; beio; beio ar, senu; anghymmeradwyo; anghanmawl; dirwyo; barnu yn erbyn; gadael yn euog; trethu.

Some condemn, and some acquit him—y mae rhai yn ei fwrw, a rhai yn ei gadw.

To condemn before hand—rhagfarnu; collfarnu yn mlaen llaw.

Condemnable, *a.* (o *condemn*) collfarnadwy; hyfarn; à aller *neu* à haeddo ei ddyfarnu; i'w feio; i'w gollfarnu.

Condemnation, *s.* (Ll. *condemnatio*) collfarn, collfarniad, colledigaeth, dyfarniad, euogfarniad, barn, barnedigaeth, collfarnedigaeth, dygyfwriad, euogfarn; condemniad; bwriad i farwolaeth; dedfrydiad.

Under a sentence of condemnation—dàn gollfarn; dàn farn marwolaeth.

Condemnatory, *a.* collfarnol, dyfarnol, barnedigol; yn dyfarnu, yn collfarnu; collfarnedigol; yn taranu, yn ergydio, *neu* yn cyhoeddi barn yn erbyn; dygyfwriol.

Condemnatory sentence — barn marwolaeth; collfarn.

Condemned, *p. p.* collfarnedig, colledig, dyfarnedig, &c.

A condemned criminal—collddyn, dyn collfywyd, collfarnog, dyn collfarn, dyn colledig, dyn collfarnedig, mab dyoddef, gwr dienydd, gwr dyfarn, gwr collfarn,

eneidfaddeu, dyn dywynfaddeu, un dàn farn angeu.

Condemned to death—eneidfaddeu, dywynfaddeu; gwedi ei fwrw i farw *neu* i farwolaeth; à fo dàn farn marwolaeth; à fo wedi ei farnu i farw.

Condemned to be banished—bwydwahardd.

The condemned hold—ogof y collddynion; daiardy, daiargell.

Worthy to be condemned—collfarnadwy, barnadwy, dyfarnadwy, colladwy; yn haeddu barn marwolaeth.

Condemner, *s.* collfarnwr, dyfarnwr, euogfarnydd, &c.; beiwr, ceryddwr.

Condensable, *a.* (o *condense*) tewychadwy, cyttewadwy, dwysadwy, &c.

Condensate, } *v.* (Ll. *condenso*) cyttewychu,
Condense, } cyttewhau, tewychu, tewhau, dwyso, dwysbau, cyd-ddwyso, cyfddwyso; myned yn dew; gwneuthur yn dew; ymgasglu yn dew; clynu, dargynnwys; cyd-wasgu, cyngwasgu, gwasgu; tewychiannu; tyru, crugio; ymdewychu, ymwasgu; durfingo, dargynuwyso.

Condensate, } *a.* dwys, tew, dwysedig, cyn-
Condense, } nwys, cydwasgol, durfing, tewychedig, cryno, crynoawl, crynöedig, clwn, darddwys, dirddwys, darddwysol, cydwasgedig, dargynnwysol.

Condensation, *s.* (Ll. *condensatio*) dwysad, dwysiad, dwyshad, cyd-ddwysiad, cyttewychiad, tewychiad, tewhad, tewychiant, tewiad, darddwysiad, dwysogaeth, dargynnwysiad, clynad, cydwasgiad, cyngwasgiad, cyfaenad.

Condensative, *a.* dwyshaol, tewychol, cyttewychol, tewhaol, cydwasgol, darddwysol.

Condense, } *v.* (Ll. *condenso*) = { *Condensate.*
Condensate, } { *Condense.*

Condense, } *a.* = { *Condensate.*
Condensate, } { *Condense.*

Condenser, *s.* (o *condense*) dwysadyr, tewychyr, dwysbeiriant = math o beiriant neu chwistrell i gydwasgu awyr.

Condensity, *s.* (Ll. *condensitas*) dwysder, dwysedd, dwysineb, tewder, tewedd, tewychedd, trathewedd, durfingder, durfingdra, clynedd, dwysogaeth, cynnwysedd, cynoder, fferder.

Conder, *s.* (*Ff. conduire*) heigebydd, heigebwr; cyfarwyddwr, canfyddwr=un à saif ar graig neu uchelfan i ddangos i'r pysgotwyr pa ffordd yr ymgyfeiria yr haig bysgod; un à gyfarwydda pa fodd i lywio llong.

Condescend, *v. n.* (It. *condescendere*, o'r Ll. *con* a *descendo*) ymostwng, ymddarostwng, ymblygu, gostwng, gostyngu; cydostwng, cydymostwng; teilyngu; bod yn wiw gàn; cydymoddef, ufyddhau; plygu, ymroddi, gildio; ymiselu.

Condescend to men of low estate—byddwch yn gydostyngedig â'r rhai iselradd (*Rhuf.* xii. 16).

Condescensive, *a.*=*Condescending.*

Condescendence, *s.*=*Condescension.*

Condescending, } *a.* gostyngedig, ymostyngol;
Condescensive, } cyweithasol, cyweithas; hynaws, hyfwyn, mwyn, addfwyn, mynog, moesgar, iselfryd, ymostyngar, mynediw.

Condescension, *s.* ymddarostyngiad, ymostyngiad, gostyngiad, cydostyngiad, ymostyngarwch, gostyngeiddrwydd, ymblygiad; iselfrydedd; hynawsedd, cyweithasrwydd, hyfwynder, mynogrwydd, mwynder, anfalchedd, tiriondeb, addfwynder.

Condescent,† *s.*=*Condescension.*

Condign, *a.* (Ll. *condignus*) haeddiannol, haeddiannus, dyledus, rhyglyddol, rhyglyddus, haeddol, haeddadigol, rhyglyddaidd, rhyglyddiannus, teilwng, haeddedig, gwiw, cywiw; addas.

Condignity, } *s.* (o *condign*) haeddiant, haedd,
Condignness, } rhyglydd, rhyglyddiant, gwir haeddiant, cytteilyngdod, teilyngdod, teilyngrwydd; haeddiannoldeb, rhyglyddoldeb, cywiwdeb; addasrwydd.

Condignly, *ad.* yn haeddiannol, &c.; yn ol ei haeddiant.

Condiment, *s.* (Ll. *condimentum*) chwaeth, blesyn, blasiyn, sibr, cyffaeth, taeth, chwaedd; tymmeriad.

Condisciple, *s.* (Ll. *condiscipule*) cyd-ddysgybl, cydysgolor, cydysgolydd, cydysgoläig, cynysgybl.

Condite, *v. a.* (Ll. *condio, conditum*) cyffeithio, cyffaethu, chwaethu, blasuso.

Conditement, *s.* (Ll. *condimentum*) cyffaeth.

Condition, *s.* (Ll. *conditio*) cyflwr, ansawdd, helynt, ystâd, sut, sud, cyflwrw; hwyl, tymmer, ardymmyr, ardymmer, dyli, gorddigor; gwedd, diwyg, drych, dull, gwedd, gosgedd, agwedd, ystum; ammod, teler, cyfammod; gradd, sefyllfa, cyfrif, cymmeriad, amgylchiad; anian, naws, naturiaeth, aniaeth, cynneddf, camp, moes, tuedd, arfer; pwynt.

On condition—dàn ammod; ar ammod; ar y telerau.

On these conditions—ar y telerau hyn.

All persons of all conditions—pawb o bob gradd; pob gradd a chyflwr o ddyn; pob gradd a chyflwr o ddynion.

In a dying condition—ar drane, ar farw, ar drengu; ar ei derfyn; ar y traed diweddaf; ar y coesau diweddaf.

He is in a poor condition—mae efe mewn cyflwr tlawd; y mae efe yn wr gwàn.

Unhappy condition—anghyflwr; cyflwr annedwydd; anffawd.

Natural condition—anianolaeth, anianolder, anianoldeb, cyflwr anianol, cyflwr naturiol.

Condition, *v.* ammodi; cytuno; gwneuthur ammodau; cyfammodi.

Conditional, *a.* ammodol, ammodus; yn sefyll *neu* yn gorwedd ar ammodau.

Conditional, *s.* terfyniad, ammodiad.

Conditionality, *s.* ammodoldeb, ammodolrwydd, ammodusrwydd.

Conditionally, *ad.* yn ammodol; dàn ammod; dàn ammodau; ar delerau.

Conditionary, } + *a.*=*Conditional.*
Conditionate, }

Conditionate,† *v. a.* addasu, cymhwyso; rheoleiddio.

Conditioned, *a.* cyflyrog; âg iddo gyflwr neu ansawdd, &c.

Good-conditioned — moesog, moesgar, moesol; da ei foes; moddus, moddgar, medrus, cyweithas, &c.; da ei gyflwr; gwych ei helynt; da ei wedd, &c.: â moesau da ganddo, &c.

Conditory, *s.* (Ll. *conditorium*) ystorfa, cronfa, addawd, addodfa.

Condolatory, *a.* (Ll. *condoleo*) cydalarus, cydalaethus, cydofidiol, cydgwynol.

Condole, *v. n.* (Ll. *condoleo*) cydalaru, cydalaethu, cydymdeimlo, cydofidio, cydgwyno, cyd-ddolurio.

Condolement, } *s.* (o *condole*) cydgwyn, cydofid,
Condolence, } cydalar, cydalaeth, cydafar,
Condoling, } cydymdeimlad, cynghwyn, cymrwyn; cydofidiad; tristwch, gofid, cystudd, gresyndod.

Condoler, *s.* cydgwynwr, cydgwynydd, &c.

Condoma, *s.* math o afrewig.

Condonation, *s.* (Ll. *condono*) maddeuad, creiffiad; maddeuant, rhyddhad, trugaredd, creiffiant.

Condor, } *s.* math o gawr-aderyn perthynol i
Cuntur, } Ddeheudir America.

Condace, *v. n.* (Ll. *conduco*) tueddu; arwain, cydarwain, gweinyddu, helpu, cynnorthwyo, cymhorth, cydweinyddu, moddio, cyffrwyo; dwyn yn mlaen; llesu, buddio.

Conducible, } *a.* (Ll. *conducibilis*) yn tueddu;
Conducive, } tueddol, buddiol, llesol, manteisiol, gwasanaethgar, cynnorthwyol, cydgynnorthwyol, hyrwyddol, defnyddiol, cyffrwyol, gweinyddol; da ar les; yn arwain yn mlaen.

Conduciblencss, } *s.* tueddoldeb, tueddgarwch,
Conduciveness, } buddioldeb, llesoldeb, gweinyddoldeb, hyrwyddoldeb, gwasanaethgarwch, cyffrwyoldeb; cymhwysder, *neu* addasrwydd i ddwyn yn mlaen.

Conduct, *s.* (Ysp. *conducta*, o'r Ll. *conductus*) ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, arweddiad, bucheddiad, buchedd, moes; arweiniad, dygiad, cyffrwyad, dygiad yn mlaen, tywysiad, arweinid, arymddwyn, arymddygiad, hyfforddiad, hyfforddiant, cyfarwyddiad, cyfarwyddyd; trefniad, trefnid, triniad, trinlaeth, trefn; llywiad, llywodraeth; medr, medrusrwydd; canymdo: caplan Coleg Eton.

Safe conduct—diogelwch i fyned a dyfod; nodded gyhoedd, nawdd cyhoeddus, teithnodded, teithnawdd, ymdeithnawdd; canymdoad diogel; nodded brenin; nawdd gwlad; teithgynnwys, canymdoad.

Courage and conduct—calondid a chyfarwyddyd.

A man of good conduct—dyn da ei foes; dyn da ei ymddygiad; un o ymddygiad da; dyn bucheddol.

Conduct, *v. a.* (Ll. *conduco, conductus*) arwain, tywys, tywyso, hyfforddi, hyfforddio, cyfarwyddo, dwyn yn mlaen, arwedd, arweddu, blaenori, cyfarwain; arwain *neu* dwyso i mewn; hebrwng, hebrygu, canymdeithio, canymdöi; trefnu, trin; llywio, rheoli, llywodraethu.

To conduct one's self—ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd; bucheddu.

Conduction, *s.* (Ll.) hyfforddiad; trosiad, trosgiwyddiad.

Conductitious, *a.* (Ll. *conductitius*) cyflogedig, cyflogol; ar gyflog; arweiniog.

Conductive, *a.* arweiniol, tywysol, hyfforddol, cyfarwyddol; hyrwyddol; trefnol; llywiol; canymdeawl.

Conductor, *s.* (Ll.) arweinydd, arweiniwr, tywysydd, tywysewr, arweddwr, tywysor, tywysog, arweinior, arweiniawdwr; hyfforddwr, cyfarwyddwr, cyfarweddiad; blaenor, llywydd, llywiwr, llywodrar, rheolwr, muner; trefnwr, ardwywr, trinydd, triniwr, trefnydd; hebryngydd, hebryngwr, hebryngiad, canhebryngwr, canymdeithydd; arweinyr, hyfforddyr.

Conductress, *s.* (o *conductor*) arweinyddes, tywysyddes, hyfforddes, arweinwraig, tywyswraig, muneres, llywyddes, arweiniores.

Conduit, *s.* (Ff.) dyfrbibell, pibell, awell, gwybib, gwybibell; gwyffos, dyfrffos, gwythredn; cafn dwr, cafn pistyll, pibell ddwr; dwsel, pistyll, dyfrle, dyfrhynt, ffos; arweinydd.

Conduit of a water-mill—ysgwd melin.

As a conduit into a garden—fel aber yn myned i ardd (*Eccles.* xxiv. 30).

Conduplicate, *a.* (Ll. *conduplicatus*) cynnyblyg, cyd-ddyblyg, ddyblyg; deublyg, cydblyg, deublygol.

Conduplicate, *v. a.* cynnyblygu, cynnyblu, cyddyblygu; dyblygu, cydblygu.

Conduplicated, *a.* cydblygedig, cynnyblygedig; dyblyg, deublyg.

Conduplication, *s.* (Ll. *conduplicatio*) dyblygiad, deublygiad, cydblygiad, cynnyblygiad, dyblygedd.

Condurrite, *s.* mwn Condurrow yn Nghernyw.

Condyl, } *s.* (Gr. *condulos*; Ll. *condylus*) cym-
Condyle, } malwrn; cwgn, cymmal, clwm.

Condyloid, *s.* (Gr. *condulos* ac *eidos*) penccnaw asgwrn; twddf pen asgwrn; oddf blaen asgwrn; twddf, oddf, oddfyn.

Condyloid, *a.* cygnaidd, tyddfaidd, oddfaidd, oldyddfol.

Condylopod, } *s.* (Gr. *condulos* a *pous*) rhedd-
Condylope, } goesog, cymmalgoes; anifel â choesau cymmalog.

Condylopoda, } *s. pl.* rheddgoesogion, cymmal-
Condylopods, } goesiaid, rheddbedogion.

Cone, *s.* (Ff.; Gr. *conos*; Ll. *conus*) ffain, côn, cwrn, pigwrn, dasgwrn, cyrnen, cyrnyn, cornyn; afal, conyn=corff bonbraff a brigfain, megys torth sugr.

Right cone—côn cyfochrog, ffain cyfochrog; côn *neu* ffain uniawn.

Scalene cone—côn anghyfochrog, ffain lleddf.

Fir-cone—afal ffeinidwydd, conyn ffawydd, top pyrwydd, pyrgon, pyrgorn, pyrdop.

Cone-pate, } *s.* drewgarlwm=math o wenci
Cone-patl, } â geir yn Mecsico.

Cone-shaped, *a.* conaidd, ffeinaidd, pigyrnaidd; ar ddull côn *neu* ffain; bonbraff a brigfain.

Coney, } *s.* (Is. *konyn*; Al. a Sw. *kanin*; Ll.
Cony, } *cuniculus*) cwningen, ffiogen; *pl.* cwningod, ffiogod.

Confabulate, *v. n.* (Ll. *confabulor*) chwedleua, ymchwedleua, cydchwedleua, ymddyddan, clebran, ymgomio, siarad, cydchwedlu; dâl pen chwedl.

Confabulation, *s.* (*confabulatio*) cydymddyddan, ymddyddan, ymgom, ymgomiad, siarad, cydsiarad, cydchwedleuad, cydchwedliad, clebran, clebar, chwaldod, baldordd.

Confabulatory, *a.* ymddyddanol, ymgomiol, ymchwedleuol, cydchwedleuol, ymchwedlol.

Confamiliar,† *a.* tra chyfeillgar, tra chydnabyddus.

Confarreation, *s.* (Ll. *confarreatio*) cytteisiad =dull ar gadw neithior yn mysg y Rhufeiniaid hynafol.

Confated,† *a.* (Ll. *confatalis*) cyttyngedol, cyttynged, undynged.

arnhau; à gadarnhao; à baro gadarnhad; crysfadol; perthynol i fedydd esgob.

Confirmedness, *s.* (o *confirm*) sefydlogrwydd, sefydledigrwydd, sicrwydd, dilysrwydd, profedigrwydd; dïymmodrwydd; cadernid *neu* gryfder gàn hir bara.

Confirmer, *s.* cadarnhäwr, sicrhäwr, cyfnerthwr, cyfnerthydd, diogelydd, gwiriwr, tystiwr.

Confiscable, *a.* (o *confiscate*) attafaeladwy, dirwyadwy.

Confiscate, *v. a.* (Ll. *confisco*) attafaelu, attafaela, anrheithio, fforffetio, fforffetu; dirwyo; dirwyaw *neu* anrheithiaw o dda; cymmeryd yn attafael, yn ddirwy, yn fforffed, *neu* yn anrhaith i'r goron.

Confiscate, *a.* attafaeledig; fforffetiedig; dirwyol, dirwyedig; à gymmerwyd yn attafael; gwedi ei gymmeryd yn attafael; dirwyedig *neu* anrheithiedig o dda.

Confiscation, *s.* (Ll. *confiscatio*) attafael, attafaeliad; dirwyad; anrheithiad; anrhaith oddef; anrhaith gribddail.

Confiscation of moveables—anrhaith oddef.

Total confiscation—anrhaith gribddail.

Confiscation of goods—dirwy o dda (*Ezra* vii. 26).

Confiscator, *s.* attafaelydd, attafaelwr, gafaelydd; anrheithydd, dirwywr.

Confiscatory, *a.* attafaeliadol; à draddodwyd i'w attafaelu.

Confit, } *s.* (Ff. *confit, confiture;* Ll. *confec-*
Confiture, } *tura*) ancwyn, cyffaeth, ammeuthyn, ammoethyn, chwegfwyd, chwegfaeth.

Confitent, *s.* (Ll. *confitens*) cyffeswr, pechaddefwr, pechgyffesydd.

Confix, *v. a.*) Ll. *configo, confixum*) sicrhau, sefydlu, gosod, cydsefydlu, gwadalu.

Confixure, *s.* (*confix*) sicrhad, cydsefydliad, gwadaliad.

Conflagrant, *a.* (Ll. *conflagrans*) cydfflamiol, cydlosg, cyflosg, cydlosgol, cyflosgol, cyttanol, goddeithiol, gwenfflamiol.

Conflagration, *s.* (Ll. *conflagratio*) goddaith, cydlosgiad, cyflosgiad, cydfflamiad, gwenfflam, banffagl, gwenffagl, tanllwyth, cyflosgfa, cynneu, cynne, cyttaniad, goddeithiad, ffagliad, cydffagliad, banffagliad, tandod, eiriasdan, eirias, goleudan, tân purboeth; coelcerth.

Conflagrative, *a.* à bair oddaith; goddeithiol, cydlosgiadol.

Conflation, *s.* (Ll. *conflatio*) cydchwythad, cydchwythiad, cydchwythawd; deldoddiad, toddiad.

Conflexure,† *s.* (Ll. *conflexus*) cydblygiad, plygiad.

Conflict, *s.* (Ll. *conflictus*) amryson, amrafael; brwydr, ymladdfa, ymladd, ymgyrch, ymdrech, trin, tringyrch, cad, aer, brwydrin, breithell, trafod, cittrach, bicre, brythwch, ymdaraw, gwrthdarawiad, ceintach, cammawn, cadafwy, gyrth, cyfarf, athrin, ymosawd, cymminedd; cydymdyniad, gwrial, cyfrwch, ymwrthryn, ymdrin, ymdrafod, trabludd, ermid, ymgiprys, ciprys, ymwrwst, ymhwrdd, cynnif, cywrysedd, cyfrysedd, ymgyffwrdd, cyfarwas, cynhen, dadl, ymddadl, anghydfod, gwrthwynebiad, cynnygnedd, ysgarmes.

Violent conflict—rhuthr, rhysgyr, lluchynt, awchrnthr, dïebyd.

Conflict, *v. n.* ymryson, amryson, amrafaelio; brwydro, ymladd, ymwrio, ymdynu, ymdrech, ymdrechu, ymdrafodi, ymornest, ymgyrchu, ymgatewrach, bicra, ymgeintach, ymgeintachu, ymdaraw, athrino, ymwrwst, ymwrthwynebu, cyfergydio, cyfergyrio, cyfseru, cadu, ymgiprys, ymgiprysu, ymwrial, ysgarmesu, cittrachu.

Conflictive, *a.* ymrysonol, ymrysongar, amafaelgar, ymdynol, &c.

Confluence, *s.* (Ll. *confluentia*) cymmer, aber, cydlif, cydffrwd, cydlifer, llifer; cydlifad, cydlifiad, cydffrydiad; ymgyfarfod dwy afon; cyfarfod deuddwr, cymmer deuddwfr, deulifgyfarfod, ynfer; cydgyrchiad, cydgasgliad, casgliad, cynnulliad, cynnullfa; tyrfa, torf, haid, haib, bagad.

Confluent, *a.* (Ll. *confluens*) cydlifol, cydlifeiriol, cydffrydiol, aberol; yn ymgyfarfod; yn rhedeg *neu* yn ymarllwys y naill i'r llall; cydfonol; topyndyfol; à fo yn ymgydlenwi.

Confluent leaves—dail topyndyfol; dail yn tyfu yn dopyn, yn dwff, *neu* yn sypyn.

Conflux, *s.* (Ll. *confluio*) cydlif, cydffrwd, cydli, cymmer, aber, llifer, cydlifer; cyrchfa, cyrchiad, ymgyrch; cynnulliad, cynnullfa, casgliad, ymgasgliad; torf, tyrfa, haib, haid, lluaws.

Confluxibility, *s.* (o *conflux*) cydffrydiant, cydlifiant, cydlifoldeb, cydffrydioldeb, hylifoldeb.

Conform, *a.* (Ll. *conformis*) unffurf, cydffurf, cydffurfiol, cyflun, unddull, unffunud, cyfluniaidd, gogyflun, cyfagweddol; tebyg, cyffelyb.

Conform, *v.* (Ll. *conformo*) cydffurfio, cyfagweddu, cyflunio, cydlunio, cydymffurfio, cydymagweddu, cydymlunio, ymffurfio; cyfaddasu i *neu* at; cymmesuro i *neu* at; ymgymmesuro *neu* ymgyfaddasu i *neu* at; cydweddu, cydarwedd, cydarweddu, cyd-ddullio, cyfddullio; cydsynio, cydsynied, ufuddhau, ymostwng; ymroddi, gildio; gwneuthur yn unddull.

Because they would not conform themselves to the manners of the Gentiles—am nas mynent ganlyn arferion y Groegwyr (2 *Mac.* vi. 9).

To conform one's self—cydymffurfio, cydymagweddu, &c.

Conformable, *a.* (o *conform*) cydffurfiol, cyfatebol, unffurf, cydffurf, cydymffurfiol, unddull, cyfluniaidd, cydweddol, cyngweddol, cysson, atebol, cyffelyb, tebyg, unweddol, amweddog, cytun, cytunol; yn cyngweddu, yn cyfateb; addas, cyfaddas, sutiol; cydsyniol, ymroddol, hyblyg, ymblygol, ymagweddol, ymgydweddol, ymostyngol, ufydd, ufyddgar, cymmodlawn; parod i gydymffurfio *neu* i gydymagweddu.

Being made conformable—gàn fod wedi fy nghydffurfio (*Phil.* iii. 10).

Conformation, *s.* (Ff.; Ll. *conformatio*) cyfluniad, cydluniad, cydffurfiad, cydymffurfiad, cyfagweddiad, cyfddulliad, cydymweddiad, cyngweddiad, amweddiad, cydweddiant, cydarweddiad; gwneuthuriad yn unffurf, &c.; dull, ffurf, agwedd.

Conformer, } *s.* (o *conform*) cydymffurfiwr,
Conformist, } cydffurfiwr, ymgyddfurfiwr, cydymffurfydd, cydffyddiwr; cydymffurfiwr à'r Eglwys Sefydledig.

Conformity, *s.* (Ll. *conformitas*) cydymffurfiad, cydffurfiad, cydffurfiaeth, cydymffurfiaeth,

ymgyffurfiad, cydymagweddiad, cydagweddiad, ymgydweddiad, cydymluniad; tebygoliaeth, tebygoldeb, tebygolrwydd, tebygrwydd, cynhebygrwydd, cyffelybrwydd, cyfatebolrwydd, cyfatebiad; cyfweddiad, cyfaddasiad; cytundeb, cyssondeb, cydgordiad, cydarwedd, cydarweddiad, cyngwedd; cydsynioldeb, cydsyniad; ufyddgarwch, ufydd-dod.

Conformity to the will of God—cydymffurfiad, cyssondeb, cytundeb, cynghordiad, *neu* gydsyniad âg ewyllys Duw; ufydd-dod i ewyllys Duw.

He lived in conformity to the doctrine which he professed—efe a luniodd ei fuchedd yn ol yr, yn gyfatebol i'r, *neu* yn gytun â'r athrawiaeth à broffesai.

In conformity to the rubric—yn ol y rhuddell; yn ol y gyfeireb; yn unol â'r rhuddell *neu* y gyfeireb; yn gydweddol â'r rhuddell.

Confortation,† *s.* (Ll. *conforto*) cysuriad; cyfnerthiad, cryfhad, nerthiad.

Confound, *v. a.* (Ll. *confundo;* Ff. *confondre*) cymmysgu, cydgymmysgu, dygymmysgu, mysgu, cydfysgu, tryfysgu, dyfysgu; dyrysu, annhrefnu, nidro, methlu, ffeigio, cynghafu; cythruddo, cythryblu, trallodi, hurtio, dychrynu, brawychu, terfysgu, cynhyrfu, cyffröi, irdangu, synu, cywilyddio, gwaradwyddo, dyddelwi; difa, dyfetha, difrodi, dystrywio, afradu, gwastraffu, andwyo; dymchwelyd.

To confound by arguments—gorchfygu, gorfod, *neu* faeddu drwy resymau; taro yn fud drwy resymau; cau genau drwy resymau; tagu â rhesymau.

Confounded, *a.* cymmysgedig, &c.; cymmysg; brawychus; anferth, dirfawr, annhrefnus; anferthol, aruthr, erchyll, adwythig, ofnadwy, echryslawn; anffodiog.

To be confounded—delwi, dyddelwi, cywilyddio, gwrido, gwladeiddio; newid lliwiau.

I am confounded—mae yn gywilydd genyf.

Confoundedness, *s.* (o *confounded*) cymmysgedigrwydd, cymmysgedd; dyryswch, annhrefn, annhrefnusrwydd, brawychusrwydd, anfertholdeb, &c.

Confounder, *s.* cymmysgwr; dyryswr, annhrefnwr; cythruddwr, trallodwr, cyffröydd, dychrynydd; difrodydd, afradwr, &c.

Confraternity, *s.* (Ff. *confraternité;* It. *confraternita;* Ll. *con* a *fraternitas*) cydfrawdoliaeth, brawdoliaeth, cydfrodoriaeth, brodoriaeth.

Confrication, *s.* (Ll. *confrico*) cydrathiad, cyfrugiad, rhwbiad, rhathiad, cydrwbiad, cydrugiad.

Confrier, } *s.* (Ff. *confrère*) cydfrawd, brawd
Confrere, } ffydd, brawd crefydd, brawd crefyddol, brawd unffydd.

Confront, *v. a.* (*con* a *front;* It. *confrontare*) gwynebu, wynebu, cyfarwynebu, cyfwynebu; sefyll, dyfod, *neu* ymddangos wyneb yn wyneb; gwrthwynebu, gwrthsefyll, gwrthu, gwydderbynu; tysterbynu, prawferbynu; cydgyfeirio; cymharu, cydgymharu, cydgyfelybu; sefyll *neu* ymosod yn erbyn; gosod gyferbyn â; gosod mewn cyferbyniad â; gosod *neu* roddi ar gyfer; dwyn wyneb yn wyneb; peri sefyll wyneb yn ngwyneb.

Confrontation, *s.* (o *confront*) cyfwynebiad, cyfarwynebiad, gwynebiad, gwydderbyniad, cyferbyniad, cydgyfeiriad; dygiad *neu* osodiad tystiolaeth gyferbyn â thystiolaeth.

Confronted, *p. p.* gwynebedig, cyfwynebedig; &c.; cyfwyneb, cyfwynebol, cyfarwyneb, cyfarwynebog, taldal, cyfaran; wyneb yn wyneb.

Confronter, *s.* cyfarwynebydd, cyfwynebydd, gwydderbynydd, gwynebwr.

Confrontment, *s.* (o *confront*) cymhariaeth, cydgymhariaeth, cymhariad.

Confuse, *v. a.* (Ll. *confusus;* Ff. *confus*) cymmysgu, cydgymmysgu, mysgu, dyfysgu, cydfysgu, tryfysgu, trymysgu; dyrysu, annhrefnu, methlu, ffeigio, dotio, nidro, annybenu; bwrw allan o drefn; bwrw blith draphlith; cythruddo, cywilyddio, gwaradwyddo, delwi, dyddelwi, cythryblu, trallodi, hurtio, cynhyrfu; peri gwrido; tywyllu.

Confused, *p. p.* cymmysgedig, cymmysg, mysgedig, &c.; annhrefnus, didrefn, annyben, tryfysg; dyrys, rhwystrus, nidrol; annosbarthus, diddosbarth, annosbarthol, anhybarth, aneglur, anoleu, anamlwg, tywyll, diragor, diwahan; à fo mewn annhrefn; à fo blith dra chymmysg; à fo blith draphlith; à fo ben dra phen; cythruddog, cythruddus.

Confused cry *or* noise—llef *neu* waedd anghroew; llef *neu* waedd anhynod; swn anghroew *neu* anhynod; trwst.

A confused piece of work—gorchwyl annhaclus, trwsgl, annhrefnus, *neu* annestlus; gorchwyl beb na dyben na dosbarth; darn o waith annhaclus, &c.

Confusedly, *ad.* yn gymmysgedig, &c.; mewn annhrefn; allan o drefn; blith draphlith; ben dra phen; ben draphen; yn bendramwnwgl; blith drachymmysg.

Confusedness, *s.* annhrefnusrwydd, annhrefnedd, annhrefnusdra, annhrefn, dyryswch annosbarthedd, &c.

Confusion, *s.* (Ll. *confusio*) cymmysgedd, cymmysgiad, mysgedd, cymmysgfa, cymmysg, dyfysgi, tryfysg, trymysg, trymysgiad; annhrefn, annybendod, annhrefniad, anghymhendod, didrefnedd, annhrefnusrwydd, llanastr; terfysg, cythrwfl, cymhelri, trabludd, ednid; helbul, afreolaeth, afreoledd; dygyfysgi, dygyfysgiad; cywilydd, gwaradwydd, gwarth, gwarthrudd, cythrudd; cyffro, cynhwrf, ffrawdd, brithred; syndod, sanedigaeth; dyryswch, nidri, penbleth; cynhwrf *neu* syndod meddwl; cyfyng-gynghor; dinystr, dystryw, difrod, dymchweliad; annosbarth, anhybarthedd, annydolrwydd, annosbarthedd, aneglurder; anghydfod; cywilyddgarwch; cywilydd *neu* wrid gwyneb; gwarthrwy.

Confusion of languages—cymmysgiad ieithoedd; cymmysgedd ieithoedd.

Confusion seize thee!—yr adwyth a'th gaffo! dïenydd drwg a ddelo iti! rheibied tranc di!

The late unhappy confusions—y diweddar gythrwfl annedwydd; y diweddar helbul trwch anhapus.

To put to confusion—cywilyddio, peri cywilyddio, gwaradwyddo, gwarthruddo; cythruddo, cyffröi, cynhyrfu, cythryblu, terfysgu; annhrefnu.

To bring into confusion—gwaradwyddo, gwarthruddo, gwarthruddio, cywilyddio,

gwarthäu, peri cywilydd, peri cywilyddio; dwyn i waradwydd; dystrywio, dinystrio, dwyn i ddinystr.

In confusion—traphlith, yn draphlith, yn gymmysg, blith draphlith, benben, bendra phen, ar lanastr, yn llanastr; mewn annhrefn, dadbrofadwy.

Confutable, *a.* (o *confute*) gwrthbrofadwy, disbrofadwy, dadbrofadwy.

Confutant, } *s.* (o *confute*) dadbrofwr, disbrof-
Confuter, } ydd, disbrofwr, gwrthbrofwr, gwrthddadlwr.

Confutation, *s.* (Ll. *confutatio*) dadbrawf, disbrawf, gwrthbrawf, dadbrofiad, disbrofiad, gwrthbrofiad, diddadliad, gwrthddadl, ymwrthddadl.

Confute, *v. a.* (Ll. *confuto*) dadbrofi, disbrofi, gwrthbrofi, dibrofi; gwrthddadlu; profi y gwrthwyneb; dymchwelyd, dirymio, dirymu; lladd *neu* orchfygu â rheswm; gorfod *neu* oresgyn mewn dadl; anaddwyno dadl *neu* wrthddadl.

Confutement, *s.* (o *confute*) disbrofiad, dadbrofiad, gwrthbrofiad, gwrthbrawf, dadbrawf, disbrawf.

Conge, *s.* (Ff. *congé*) moesblygiad, ymgrymiad, ymostyngiad, moesgrymiad; plygiad glin; plygiad pen; moes, moesgarwch, mynogaeth, parch, syberwyd; ymadawiad, ymadeb; cyfarchiad wrth ymadael; cenad, rhyddid, trwydded, moesgenadiad.

Congé d'élire (Ff.) — cenad i ddewis; trwydded i ethol; etholwys, dewisfraint, etholfraint=cenad ac archiad y brenin i'r deon a'r cabidwl i ddewis esgob, pan fyddo y gadair yn wag.

Conge, *v. n.* moesblygu, moesymgrymu, moesgrymu, ymostwng, ymgrymu, plygu, plygu glin, parchus gyfarch; ymadael gyda moes; ymadebu, canu yn iach.

Congeal, *v.* (Ll. *congelo*) rhewi, cydrewi; caledu; cyttewychu, cydgeulo, ceulo, dysgeulo, tewychu; sythu, ymsythu, fferu.

Congealed blood—ceulwaed, gwyar, tolchwaed.

Congealable, *a.* (o *congeal*) rhewadwy, ceuladwy, fferadwy, hyrew, hygaul, hyffer.

Congealedness, *s.* (o *congeal*) rhewogrwydd, rhewedigrwydd; caledrwydd, ceulogrwydd, cydgeuledd, cyttewychedd, fferder, fferdra, fferdod.

Congealment, *s.* (o *congeal*) cyttewychiad, fferedigaeth, cydgeulad, ceulad; tolch, tolchen, talp, telpyn, cai.

Congelation, *s.* (Ll. *congelatio*) cyttewychiad, ceulad, cydgeulad, ymgeulad, dysgeulad; rhewiad, cydrewiad, cydrewiant, fferiad, fferiant, fferedigaeth.

Congener, *s.* (Ll.) cydryw, cyfanian; peth cyfanianol *neu* gydrywiol; cydrywiad, cyttardd.

Congener, } *a.* cydrywiol, cydryw, cyfanian,
Congenerous, } cyfanianol, cystlynol, cystlyn-
Congeneric, } aidd, cydgenedl; gogydryw, gogydrywiol, gogydnaws, gogyfanian; cydnaws, cyfnaws, unnaws, cyfnawsaidd, unrhywiol, cyfrywiol, cyttrasol; o'r un rhyw *neu* rywogaeth; cyfredol, cyweithiol.

Congenerous muscles—cyhyrau cyweithiol, cyweith-gyhyrau, cyhyrau cywaith.

Congeneracy, *s.* cydrywiolaeth, cydrywiaeth, cydrywioldeb, cyfanianedd.

Congenerousness, *s.* cydrywioldeb, cydrywdeb, cydrywiolrwydd, cydrywiolaeth, cyfnawsoldeb, cydnawsineb, cyfanianaeth, cyfanianoldeb, cystlynoldeb; gogydrywiaeth, cyfrywiaeth.

Congenial, *a.* (Ll. *con* a *genus*) cydrywiol, cydryw, cyfanian, cyfanianol, cydnaws, cyfnaws, cydnawsaidd, cyfnawsaidd, cydnawsol, unnaws, cystlynol, cystlynaidd, cyttrasol, cydgenedl, cyfrywiol; naturiol, anianol, greddfol, noturiol, gnodol, gnawd, gnaws; ungynneddfol, ungynneddf, cydgreddol, perthynol, perthynasol; cynhenid, cynnwynol, cannwynol; cyfaddas, addasedig.

Congeniality, } *s.* cydrywiaeth, cydrywiolaeth,
Congenialness, } cyfanianoldeb, cyfanian, cydrywioldeb, cyfnawsedd, cydnawsoldeb, cydnawsineb, cystlynoldeb, cystlynolrwydd, cystlynedd, cystlynrwydd; tras, carennydd; naturioldeb; cydgynneddf, cyngreddf; gnodoldeb; addasrwydd, cyfaddasrwydd, dygymrodedd.

Congenialize, *v. a.* (o *congenial*) cydrywio, cydrywioli, cyfrywioli, naturioli; gwneuthur yn gydrywiol, &c.

Congenite, } *a.* (Ll. *congenitus*) cydenedigol,
Congenital, } cydanedig, cydenedig, cydgenedlog, cydgenedlig; cynhenid, cynnwynol, cannwynol, genedigol, anianol, cyngeni, greddfol; â fo wrth naturiaeth; â gydanwyd; â gydgenedlwyd; cyttarddol, cyfdarddol; o enedigaeth.

Conger, *s.* (Ll.) morlyswen, llyswen bendoll, morlyswen, y bendoll.

Congeries, *s.* (Ll.) clobyniaeth, cyttyriad, cydymdyriad, cydgasgliad, cyttalp; crug o amryw bethau.

Congest, *v. a.* (Ll. *congero*, *congestum*) clobynu, cyttyru, croni, cydgasglu, cyttalpio, pentyru; crugio yn nghyd.

Congestible, *a.* (o *congest*) clobynadwy, cyttyradwy, cronadwy.

Congestion, *s.* (Ll. *congestio*) croniad, cyttyriad, cydgasgliad, cydgrynoad; crawngasgliad, crawniad, ceiad, gorgai, cornwyd.

Congestive, *a.* cyttyrol, croniadol, cynghasgliadol, cronol, crawnol, cydgrynoawl, cornwydol.

Congiary, *s.* (Ll. *congiarium*) rhoddiun, anrheglun; rhodd yn cael ei harddangos ar fathodyn: mesur Rhufeinig, yn cynnwys oddeutu galwyn Seisonig.

Conglaciate, *v. n.* (Ll. *conglacio*) rhewi, rhewiannu; troi yn ia; troi yn rhew; iâenu.

Conglaciation, *s.* (o *conglaciate*) rhewiant, rhewiad, cydrewiad; troad yn ia.

Conglobate, *a.* (Ll. *conglobatus*) clobynaidd, clobynol, pellenol, cynghlobynol.

Conglobate, *v. a.* clobynu, pelenu, crynsypio, pellenu, cynghlobynu, tynbellenu, cryndyru, cydgrynhau, cydbellenu.

Conglobation, *s.* (Ll. *conglobatio*) clobyniad, peleniad, pelleniad, crynsypiad, cynghlobyniad, damgryniad; corff crwn, cnap.

Conglobe, *v.* (Ll. *conglobo*) clobynu, pelenu, pellenu, ymglobynu, ymbellenu, ymsypio, crynsypio, ymgrynhau, ymbellenu.

Conglobulate, *v. n.* ymgronellu, ymgronenu, ymglobenu, clobynu, pellenu.

Conglomerate, *a.* (Ll. *conglomeratus*) clobynol, clobynaidd, clobynedig, pellenaidd, cynghlobynaidd, pelenaidd, cynghlobynol.

Conglomerate, *v. a.* (Ll. *conglomero*) clobynu,

pelenu, pellenu, crynsypio, cryndyru, sypio, cydbellenu, cynghlobynu, cynghrynu, cydgrynhau; crynöi *neu* ddyrwyn yn bellen; pentyru, crugio.

Conglomerate, *s.* clobynfaen, selsigfaen, cynghlobyn; cyttyrgraig: *pl.* cynghlobynion.

Conglomeration, *s.* clobyniad, peleniad, pelleniad, cynghlobyniad, crynsypiad, cynghrynіad, cryndyriad, damgryniad, ymsypiad; pentyriad, crugiad, casgliad, casgl, cydgasgliad, dasyliad, tyriad, clasg.

Conglutinant, *a.* (Ll. *conglutinans*) gludiol, cydludiol, cydlynol; uniadol, unol; iachaol, iachol.

Conglutinant, *s.* gludgyffyr, iachludydd; meddyginiaeth i iachäu archollion.

Conglutinate, *v.* (Ll. *conglutino*) gludio, cydludio, cyngludio, cydlynu, cyssylltu, cydio; iachäu, gwella; clwyfludio, gludiachäu; uno, ymuno, cydymuno.

Conglutination, *s.* (Ll. *conglutinatio*) gludiad, cydludiad, cyngludiad, cydlyniad; cydiad, cynghydiad, cyssylltiad; uniad, cyfuniad, cydymuniad; iachâd, iachludiad, gludiachâd.

Conglutinative, *a.* gludiol, cydludiol, cyngludiol, cydlynol.

Conglutinator, *s.* cydludydd, cyngludai; iachludydd; peth à uno archollion.

Congo, } *s.* (Chinaeg, *Koong-foo*, llafur neu
Congou, } ddiwydrwydd) enw math o de du o China.

Congratulant, *a.* (Ll. *congratulans*) cydlawenol, cydlawenychol, cydgyfarchol.

Congratulate, *v. a.* (Ll. *congratulor*) cydlawenhau â, cydlawenychu â, cydloni â, llongyfarch, cyfloddi, hawddammori, hawddammor, rhoi hawddammor, llawen-gyfarch, cyfanerch, cydgyfarch, cydgyfarchu, anerch; dymuno llawenydd; cydlawenhau, cydlawenu, cydlawenychu.

I congratulate you on your safe return—mae yn dda genyf eich dychwelyd yn iach lawen; y mae yn llawen *neu* yn llawenydd genyf eich dychwelyd yn iach ddianaf; hawddammor i chwi ar eich dychweliad dianaf; cyfloddaf chwi ar eich dychweliad diogel.

He sent Hadoram to congratulate him—efe a anfonodd Hadoram i'w fendithio ef (1 *Cron.* xviii. 10).

Congratulation, *s.* (Ll. *congratulatio*) cydlawenychiad, cydlawenhad, cyfloddiad, llongyfarchiad, cydloniad, llongyfarch, cydgyfarchiad, hawddammoriad, hawddammor, cyfanerchiad, cydgyfarch, cyfanerch, anerchiad, cyfarchfawl, cydorfoledd.

Mutual congratulation — ymgydgyfarch, ymgyfloddiant, ymanerch, ymanerchiad, llonymgyfarch.

Congratulator, *s.* (Ll.) cydlawenychwr, cyfloddwr, llongyfarchwr, dymunwr hawddammor.

Congratulatory, *a.* cydlawenychol, cydlawenol, cydlawenhaol, cyfloddol, llongyfarchol, hawddammorol, cydgyfarchol, cyfarchedigol.

Congree,† *v. n.* (Ll. *congruo*) cytuno, cydsynio, uno.

Congreet,† *v. a.* (*con* a *greet*) cydanerch, cyfanerch.

Congregate, *v.* (Ll. *congrego*) cynnull, crynöi, casglu; ymgynnull, ymgasglu, cyfarfod,

cwrdd, dyfod yn nghyd, ymdyru, ymgydgori, dygynnull.

Congregate, *a.* cynnulledig, casgledig, crynöedig; cryno, clwn, dwys, tyn.

Congregation, *s.* (Ll. *congregatio*) cynnulleidfa, cynnullfa; cymmanfa, tyrfa, cynnullaid, cyttyrfa, cyfarfod, crynofa, torf, myntai; cynnulliad, ymgasgl, ymgynnull, ymgynnulliad, cyttyriad.

Congregation and convocation—cynnulleidfa a chymmanfa; cynnullfa ac eisteddfod.

Congregation house—cynnulldy, cynnulleitty, ty cyfarfod, ty cwrdd; dadleudy, senedd-dy.

Congregational, *a.* cynnulleidfaol, cynnullfaol; cymmanfaol; tyrfaol, mynteiol, cyfarfodol.

Congregationalism, *s.* cynnullfaoliaeth, cynnulleidfaoliaeth; annibyniaeth.

Congregationalist, *s.* cynnullfaolwr, cynnullfaolydd, cynnulleidfaolwr, cynnulleidfäwr; annibyniad: *pl.* cynnullfaolion, cynnulleidfaolion, cynnulleidfäwyr, annibyniaid.

Congress, *s.* (Ll. *congressus*) cyssenedd, cyssylfa, eisteddfod, senedd, cyngres; cydgynghor, ymgynghorfa, cynnadledd, cysseddfa, cyssyledd; cydgasgliad, cydgyfarfod, ymgyrchfa, cyfarfod, cynulliad, casgliad; ymgyrch, ymdrech, ymladd, ymladdfa, amryson, cyfrwch; cywestach, cywestwch, cyfathrach ystlenol, ymgydiad, ymgyffwrdd.

Bardic congress — eisteddfod y beirdd; eisteddfod farddonol *neu* farddol; eisteddfod ferddig; gorsedd.

Congress house—cynnulldy, cyfordy, cyfrdy, cyngresdy.

Congression,† *s.* (Ll. *congressio*) cynnulliad, cymdaith.

Congressional, *a.* cysseneddol, eisteddfodol, seneddol, cyngresol.

Congressive, *a.* (Ll. *congressus*) cywestachol, cywestol, cydgnodol, cyridiol, ymgystlynol; cyfarfodol, ymgyfarfodol, cyfrychol, ymgyrchol, ymhyrddol, yn ymgyrchu.

Congrue,† *v. n.* (Ll. *congruo*) cytuno, cyduno.

Congruence, } *s.* (Ll. *congruentia*) cytundeb,
Congruency, } cyssondeb, cyssonedd, addasrwydd, cyfaddasrwydd, cymhwysder, addasdeb, cyngweddoldeb, cymmesurdeb; cyttraw.

Congruent, *a.* (Ll. *congruens*) cyfaddas, addas, cymmesur, cymhwys, cyfatebol, cyfweddus, cydweddol, cysson, cytunol.

Congruity, *s.* (Ll. *congruitas*) cyfaddasrwydd, addasrwydd, cymhwysder, cymhwysdra, cymmesurdeb, cymmesurwydd; cytundeb, cyssondeb, cydgordiad, cynghordiad, cyfladdiad, cyfladdrwydd, cyngweddoldeb, cyngweddiad, cydsafiad; priodoldeb; cyfatebolder, cyfatebrwydd; rheswm; perthynasrwydd, perthynoldeb; cymmedroldeb; cydrediad, cyfrediad; cydnawsedd; cyttrawiad.

Grace of congruity—gras o gymmesurwydd

Condignity and congruity—cytteilyngdod a chymmesurdeb.

Congruous, *a.* (Ll. *congruus*) cyfaddas, addas, cymhwys, cymmesur, cydweddol, cyngweddol, cyfweddus, cysson, cytunol, cytun, cytûn, cyfun, cyfladdol, sutiol, cyfladd, cydsafol; yn cyfladd, yn cydweddu, yn cydsefyll.

Congrument, *s.* (Ll. *congruo*) addasiad, cyfaddasiad, addasrwydd; cyttrawiaeth.

Conia, } *s.* (Ll. a Gr. *conis*) cegidnur, cecysnur,
Coneine, } cegidsudd, alcali cegid.
Conic, } *a.* (Gr. *cônicos*; Ll. *conicus*) conig,
Conical, } ffeinig, conol, conaidd, pigyrnol, ffeinaidd, conigol, pigyrnaidd, dasgyrnaidd; cyrnenaidd, cyrnaidd; bonbraff a brigfain; bonfraisg a blaenfain; breisgfon a meinfrig; brigfain, pigfain, blaenfain, penfain.

Conic sections — conranau, conigranau, ffeinranau; conraniaeth.

Conic livergreen—clust yr asen.

Conicalness, *s.* (o *conical*) conigrwydd, ffeinigrwydd, conolrwydd, coneiddrwydd, pigyrnoldeb; bonbraffedd a brigfeinedd.

Conics, *s.* conigion, ffeinigion; conranau, ffeinranau, conigranau; conraniaeth, conigaeth, ffeinigaeth, confesuriaeth: *sing.* conran, conigran.

Conifer, *s.* (Ll.) conwydden, ffeinwydden.

Coniferæ, } *s. pl.* (Ll. *conifer*) conwydd, ffein-
Conifers, } wydd, conddygwydd=coed ffeinddygol, megys y ffawydd, pinwydd, cedrwydd, ffyllwydd, a'r cyffelyb.

Coniferous, *a.* conddwyn, conddygol, ffeinddygol; yn dwyn conau; yn dwyn hadlestri ar lun côn; à ddygo ffrwyth braisg ei fon a main ei ben.

Coniform, *a.* (Ll. *conus* a *forma*) conaidd, ffeinaidd, pigyrnaidd; bonbraff a brigfain; ar lun côn.

A coniform mountain — mynydd ar lun torth sugr; mynydd conigaidd.

Conirosters, } *s. pl.* (Ll. *conus* a *rostrum*) con-
Conirostres, } ylfiniaid, ffeinylfiniaid=llwyth
Conirostræ, } o adar, âg iddynt bigau cryfion, yn meinhau yn raddol at y blaen; megys, y brain, &c.

Conistra, *s.* (Gr.) llawr chwareudy.

Conite, *s.* (Gr. *conis*) llychfaen, llychddelid.

Conium, *s.* (Gr. *conis*) cegid, cegyr, cecys.

Conject,† *v.* (Ll. *conjecto*) taflu yn nghyd; taflu; amcanu, dychymygu, tybio.

Conjector, *s.* (Ll.) amcanydd, amcanwr, amcandybiwr, dyfalydd, dychymygwr.

Conjecturable, *a.* tybiadwy, amcanadwy, dychymygadwy.

Conjectural, *a.* (Ll. *conjecturalis*) amcanol, tybiol, tybygol, amcandybiol, dychymygol, godybiol, dyfeisiol, amcanadwy.

Conjecturality, *s.* amcanoldeb, tybygoldeb, dychymygoldeb.

Conjecturally, *ad.* ar amcan, wrth amcan, wrth dybygoliaeth, ar amcandyb; yn amcanol, &c.

Conjecture, *s.* (Ll. *conjectura*) amcan, amcaniaeth, tyb, amcandyb, llettyb, godyb, tybygoliaeth, lledamcan, tybygiad, tybiad, tybiaeth, tybiant, dychymyg, dyfaliad, amcanfarn; darogan; syniad, delfryd, meddylrith.

Conjecture, *v.a.* tybio, tybied, tybygu, llettybio, llettybied, godybio, dychymygu, dychymyg, amcanu, dyfalu, dyfeisio, bwrw amcan, lledddirnad, goddeall, lledfeddylio, meddylied, meddylio, lledwybod, darogan.

It is conjectured—tybir; e dybir; fe a dybir; mae yn debygol; yr ydys yn barnu; tybygir, &c.

Conjecturer, *s.* amcanydd, amcanwr, amcandybiwr, dychymygydd, dychymygwr, dyfalydd, dyfalwr, tybiwr, llettybiwr, lledamcanydd.

Conjoin, *v.* (Ll. *conjungo*; Ff. *conjoindre*) cydgyssylltu, cyssylltu, cydsylltu, cynglynu, cyssylltu yn nghyd, uno, cynghydio, cydio, cydrwymo, cyduno, cyfuno; cynghreirio; cyfeillachu.

Conjoint, *a.* cyssylltedig, cyssylltiol, cydgyssylltiol, cynglyn, unol, unedig; cyfunedig, cydunol, cydunedig; cydgyweithasol.

Conjoint degrees—cyfunraddau, graddau cyssylltiol, cyssylltraddau.

Conjointly, *ad.* yn gyssylltedig, &c.; yn nghyd; mewn cyssylltiad; gyda'n gilydd.

Conjugal, *a.* (Ll. *conjugalis*) priodasol, dyweddïol; cydieuol, cydweddog, gweddog, priod; perthynol i briodas; yn perthyn i briodas.

Conjugate, *v. a.* (Ll. *conjugo*, *conjugatus*) cyfieuo, cydieuo; amrywioli, cyfymredu; treiglo; † uno, cyfuno.

To conjugate a verb—amrywioli, cyfymredu, cyfieuo, *neu* gydieuo perwyddiad, berf, *neu* brifair.

Conjugate, *a.* cyfieuol, cydieuol, cyfieuog, cydieuog, cyfieuedig, cydieuedig.

Conjugate, *s.* cyfieuair, cydieuair, gair gogyfystyr, gogyfair, cyttarddair.

Conjugation, *s.* (Ll. *conjugatio*) cydieuad, cyfieuad, cyfymredad, amrywiad; treiglad; cyssylltiad, uniad, undeb; pâr.

Conjunct, *a.* (Ll. *conjunctus*) cyssylltiol, cydsylltiol, cydgyssylltiol, cyssylltedig, cydiedig, cynghydiol, clymedig, cyfunedig, unedig; cyfredol, cydredol, cydred.

Conjunction, *s.* (Ll. *conjunctio*) cyssylltiad, cyfuniad, cydgyssylltiad, cydiad, cynghydiad, cyswllt, undeb, uniad, cyfrwymiad, cyplysiad, cypliad, cynglyn, cynghlwm; cyssylltair.

Conjunction (in Grammar)—cyssylltiad, cyssylltair.

Conjunctive conjunction, } cyssylltiad cyd-
Copulative conjunction, } iadol, cyssylltiad cydiol, cyssylltiad cynglynol, cyssylltiad cyssylltiol, cyssylltair cyssylltiadol: *pl.* cydiadolion.

Disjunctive conjunction—cyssylltiad gwahaniadol, cyssylltiad anghydiadol, cyssylltiad dadgydiadol, cyssylltiad gwahanol, gwahaniedyr.

Causal conjunction — cyssylltiad achosol, cyssylltiad achosiadol.

Conjunction of the sun and moon—cyfnewid y lleuad; cyfrwng dwy leuad; cysswllt *neu* gyssylltiad yr haul a'r lloer=cyfarfod yr haul a'r lleuad yn yr un radd ar y sidydd.

In conjunction — yn nghyd; gyda'u gilydd.

Conjunctive, *a.* (Ll. *conjunctivus*) cyssylltiol, cydiadol, cydiol, cyfunol, cyfuniadol, cynghydiol, cyplysol, unol, cyssylltedig, uniadol.

Conjunctives — cydiadolion, cyfuniadolion, cydiedyddion.

Conjunctive mood, } modd ammodol, modd
Subjunctive mood, } ammodadwy, modd cyssylltiol.

Conjunctively, *ad.* yn gyssylltiol, &c.; yn nghyd; gyda'u gilydd; yn nghyswllt.

Conjunctiveness, *s.* cyssylltioldeb, cydiadoldeb, cydiadolrwydd, cydioldeb, uniadolder.

Conjuncture, *s.* (Ff. *conjoncture*) cyfnod; achlysur, echlysur, achos, amgylchiad, tymmor, dwthwn, adeg, cyfamser, cyfwng, cyfwlch; ansawdd, cyflwr, amgylchiad, sefyllfa, safiad, gosodiad, *neu* ystum pethau, materion,

gorchwylion, *neu* negesau; arfod, cyfle, cyfle addas, chwyl; hwyl, chwyl, tro, *neu* dreigl yr amser; cyswllt, cyssellt, cyssylltiad, cynghyd, cyfuniad, uniad, undeb, cyssondeb; cynglyn, cymmined; ymgyfarfod *neu* ymgyfred dygwyddiadau.

In this conjuncture of affairs—a phethau yn sefyll fâl hyn; a phethau yn sefyll yn llyn.

He had regard to the conjuncture of affairs at that time—efe a ystyriodd ansawdd *neu* sefyllfa pethau ar hyny o bryd.

Conjuration, *s.* (Ll. *conjuratio*) dewiniaeth, rhinwaith, swynwaith, arswyniad, darswyniad, cyfareddiad, swyngyfaredd, dewindebiaeth, tyngediad, tyngediant, cyttyngediad, consuriaeth, consuriad; cyttwng, cydfwriad, cydfrad.

Conjure, *v.* (Ll. *conjuro*) swyno, darswyno, arswyno, aswyno, dewino, dewinio, cyfareddu, cydswyno; arferu swynion, rhiniau, *neu* gyfareddion; consurio; tyngedu, cyttyngedu; cyttyngu, cydfwriadu, cydfradu, gwneuthur cydfrad; ymhŵedd *neu* atolygu er mwyn Duw; castio, gwneuthur castiau.

Conjurement, *s.* (o *conjure*) tyngediad, tyngediant.

Conjuror, } *s.* swynwr, darswynwr, arswynwr,
Conjurer, } aswynwr, dewin, cyfareddwr, swyngyfareddwr, chwidog, chwidw, chwiliog, hudolwr, twyllydd, consurwr, consuriwr, gwr cyfarwydd.

Connascence, *s.* (Ll. *con* a *nascor*) cydenedigaeth, cydanedigaeth; cydenid, cyttyfiant, cyttyfiad; cynhenidrwydd.

Connate, *a.* (Ll. *con* a *natus*) cydenedigol, cydanedigol, cydenedig, cydanedig; cynhenid, cynnwynol, greddfol, cydhanol; gwedi ei eni gydag; o'r un dechreuad.

Connation, *s.* (o *connate*) cydenedigaeth, cydanedigaeth, cydaniad, cydenid, undeb naturiol.

Connatural, *a.* (*con* a *natural*) cynhenid, cynnwynol, cannwynol, cyfanian, cydryw, cydrywiol, cydanian, cydanianol, cydnaws, cyfnaws, greddfol, cydgreddol; cydenedigol, cydenedig, cydnaturiol; o'r un natur *neu* anian.

Connaturality, } *s.* (o *connatural*) cydrywiol-
Connaturalness, } deb, cydrywiaeth, cydrywiolaeth, cynhenidrwydd, cynnwynoldeb, cydanianaeth, cydnawsineb, cyfanianoldeb; tras, carennydd, cystlynedd; naturioldeb; cyfranogaeth o'r un natur; undeb naturiol; cydenedigaeth.

Connaturalize, *v. a.* cydrywioli, cydrywio, cynnwynoli, cyfanianu, cydreddfoli.

Connect, *v. a.* (Ll. *connecto*) cyssylltu, cydgyssylltu, cyfuno, cydglymu, cynghlymu, cydrwymo, cyfrwymo, cydio, uno, rhwymo yn nghyd, cynghydio, cyplysu; cydgadwyno; cydlynu.

Connecting link—dolen gydiol, cydrwy.

To connect by blood—cydwaedoli, cydwaedogi.

Connection, } *s.* (Ll. *connexio*) cyssylltiad, cyf-
Connexion, } uniad, cyfuniant, cydiad, cydglymiad, cynghlymiad, cydgyssylltiad, cyfymlyniad, cyfrwym, cynghlwm, cydglwm, cyswllt, cwlwm, cynghydiad, cyplysiad; uniad, unad, uniant, cyfundeb, cyfundod, cymwedd; perthynas, cymherthynas, cydberthynas, cyfathrach, cystlynedd, ystlwn, cystlwn; cyssondeb; dygyfranc.

The Methodist connexion — cyfundeb y Trefnyddion; y Cyfundeb Trefnyddol.

Sensual connexion—cywestach, cywestwch, cydgnodiad, cydgnawd, nabyddiaeth ystlenol, cyrid.

The connexion of the Old and New Testaments—cyfuniad *neu* gyssylltiad yr Hen Destament a'r Newydd.

Connective, } *a.* cydiol, cydiadol, cyssylltiol,
Connexive, } cyssylltiadol, cynghydiol, cyfunol, cyfrwymol, cydrwymol, cyplysol, unol.

Connective, *s.* cyssylltair, cyssylltiad: *pl.* cydiadolion, cyssylltiaid, cyssylltolion, cyfunolion.

Connex,† *v. a.* (Ll. *connexum*)=*Connect.*

Connictation, *s.* (Ll. *connictatio*) amrantiad, gwinciad, ysmiciad.

Conning, } *s.* (S. *connan, cunnan*) llonglywiad;
Cunning, } cyfarwyddiad i'r llywiwr.

Connivance, } *s.* (o *connive*) goddefiad, goddef-
Connivency, } iant, goddefedd, cydoddefiad, cyd-ddygiad, rhithoddef; cymmeriad arno nas gwelo; goddefiad myned yn ddigosp *neu* ddigerydd; cyd-ddygiad â bai; ysmiciad, gwinciad.

Connive, *v. n.* (Ll. *connivo*) goddef, cyd-ddwyn, rhithoddef; cymmeryd arno na welo; myned heibio yn ddisylw; peidio â dâl sylw; esgeuluso; cau llygaid rhag; gwincio, ysmician, ysmicio; ymddyeithraw oddi wrth ganfod peth.

Connivent, } *a.* goddefol, ymoddefol, cyd-
Conniving, } ddygol, rhithoddefol; yn cymmeryd arno beidio â gweled, &c.; ysmiciol, gwinciol.

Conniver, *s.* goddefwr, ymoddefydd, cyd-ddygydd; ysmiciwr.

Connoisseur, *s.* (Ff.) hyfeirniad, cyfarwydd, beirniad, celfwyddon, celfwyddiad, beirniad hyfedr, beirniad cyfarwydd.

Connoisseurship, *s.* hyfeirniadaeth, beirniadaeth, celfwyddiaeth, medr hyfeirniad.

Connotate, } *v. a.* (Ll. *con* & *noto*) arddangos,
Connote, } arwyddo, arwyddocâu, cyfnodi; rhoi ar ddeall, dwyn ar ddeall, argoelio, awgrymu; cynnwys.

Connotation, *s.* (o *connotate*) cyfnodiad, arwyddiad, arwyddocâd, argoeliad, arwydd, casgliad.

Connubial, *a.* (Ll. *connubialis*) priodasol, dyweddiol, cydweddog, gweddog, neithiorol; perthynol i briodas.

Connumeration, *s.* (Ll. *connumeratio*) cydrifiad, cydrifiant, cydgyfrifiad, cydgyfrifiant.

Connusance, *s.* (Ff. *connoissance*) gwybodaeth, gwybyddiaeth, nabyddiaeth, nabodaeth; holiad, holedigaeth, chwiliad; sylw.

Connusant, *a.* gwybodus, gwybyddus, hysbys; yn gwybod; gwedi ei hysbysu.

Connusor, *s.* dirwyog, addefwr dirwy; amddiffynydd, diffynblaid.

Connutritious, *a.* (*con* a *nutritious*) cydfaethol, cydfaethlawn, cydfaethus, cydfeithrinol. [ol.

Conny, *a.* (C. *cono*) gwych, glew, dewr, rhagor-

Concelix, } *s.* (Ll. *conus* a *helix*) connyddyn,
Conohelix, } ffeinnyddyn.

Conoid, *s.* (Gr. *cônoeidês*) gosgon, gogyrnen, gosgyrnen.

Conoidic, } *a.* gosgonaidd, gogyrnenaidd, gos-
Conoidical, } gyrnenaidd, goffeinaidd.

Conominee, *s.* (Ll. *con* a *nomen*) cydenwai, cyfenwai; un à enwir fel cydymaith.
Conquadrate, *v. a.* (Ll. *con* a *quadratus*) ysgwario, pedrori, petryalu, pedrogli, pedrongli.
Conquassate, *v. a.* (Ll. *conquasso*) crynu, siglo, ysgwyd, cysgogi, ysgytio; annhrefnu.
Conquassation, *s.* (Ll. *conquassatio*) ysgydwad, siglad, cysgogiad, ysgytiad.
Conquer, *v. a.* (*Ff. conquerir;* Ll. *conquiro*) gorchfygu, goresgyn, goresgynu, gorfod, gorfod ar, trechu, meistroli, darostwng, cywarsangu; cael yr oruchafiaeth ar; cael y maes ar; cael y llaw uchaf ar; cael y llaw drechaf ar; cael y gorfod ar; cael y goreu ar; ennill y dydd ar; myned â'r maes ar; maeddu, curo, gorthrechu, gortrechu; ennill, ynnill; buddugo; ennill y fuddugoliaeth; gwarogi, gormeilio.
Not to be conquered—anorchfygol, anoresgynol, anorfod.
Conquerable, *a.* (o *conquer*) gorchfygadwy, gorfodadwy, goresgynadwy, trechadwy; gorchfygol, goresgynol; à ellir ei orchfygu, &c.
Conquerableness, *s.* gorchfygolrwydd, gorchfygoldeb, goresgynoldeb.
Conqueress, *s.* (o *conquer*) budduges, goresgynes, goresgynores, gorchfygyddes, gorfodoges, buddugoles, benyw fuddugol, gorfodai.
Conquering, *p. a.* buddugol, gorchfygol, goresgynol, gweithfuddig.
Conqueror, *s.* (o *conquer*) gorchfygwr, gorchfygydd, goresgynydd, goresgynwr, goresgynor, buddugwr, gorfodog, gorfyddwr, gorfodogwr, trechydd, trechwr, buddugoliaethwr, un buddugol, gweithfuddug, darostyngwr, gwr gorfod, gorfodai, cywarsangydd.
Conquest, *s.* (*Ff. conquête;* Ll. *conquisitus*) buddugoliaeth, goruchafiaeth, goresgyniaeth, goresgyniad, goresgyn, gorchafiaeth, gorfodaeth, cywarsang, gorfod, gorthrech, cywarsangiad, cywarsangiaeth, digoniant; caffaeliad, ennilliad, ennill.
Consanguineous, *a.* (Ll. *consanguineus*) cydwaed, cydwaedol, cyttrasol, cyttras; o'r un gwaed; o'r un gwaedogaeth *neu* waedoliaeth.
Consanguinity, *s.* (Ll. *consanguinitas*) cydwaedoliaeth, cydwaedogaeth, cydwaed, cydgarennydd, carennydd o waed, cyttras, tras, tras a pherthynas, edryf, edryd.
Consarcination, *s.* (Ll. *consarcino*) cydglytiad.
Conscience, *s.* (*Ff.* o'r Ll. *conscientia*) cydwybod; cydwybodaeth, cywyddiaeth.
Clear conscience, } cydwybod lân, cydwy-
Good conscience, } bod dda; cydwybod lân ddirwystr; asgre lân.
Large conscience—cydwybod helaeth, cydwybod ddibetrus; cydwybod anmhetrusgar, yr hon ni wna ragoriaeth rhwng da a drwg.
Seared conscience—cydwybod farw, ddieimlad, ddiddarbod, *neu* galed; cydwybod wedi ei serio.
Scruple of conscience—petrusder, petrusedd, petrusrwydd, ammheuaeth, *neu* ofnusrwydd cydwybod; cyfyngder meddwl; arswyd y gydwybod rhag gwneuthur ar fai.
I have a scruple of conscience—y mae fy nghydwybod yn petruso; y mae arnaf betrusrwydd cydwybod, &c.
Of a scrupulous conscience—tyner, petrus, *neu* ammhëus ei gydwybod; ofnog, ofnus, ammhëus, arswydog, rhy ofalus, ammheugar, petrusgar; cydwybodol bryderus.
To be troubled in conscience—bod mewn cythrudd, mewn gofid, *neu* mewn aflonyddwch meddwl *neu* gydwybod; bod yn flin gàn gynhwrf meddwl; cael ei ddirboeni gàn ei feddwl *neu* ei gydwybod.
To make conscience of—gwneuthur cydwybod o; bod yn gydwybodol mewn; gwneyd yn fater cydwybod; credu ei fod yn rhwymedig i wneuthur.
To charge one's conscience — caethiwo, llwytho, beichio, blino, *neu* ofidio ei gydwybod; cyfyngu ar ei gydwybod; rhoi baich ar ei gydwybod; gosod rhwymau ar ei gydwybod; peri petrusder cydwybod; gwneuthur adduned; rhoi diofryd.
To discharge one's conscience—dilwytho, dadlwytho, dadfeichio, *neu* ryddhau ei gydwybod; talu ei adduned.
Enough in all conscience—digon a digonedd; digon a thros ben; digon a digon dros ben; hen ddigon.
In conscience—ar gydwybod; yn gydwybodol; yn wirioneddol; mewn gwirioneedd; o gydwybod; mewn cyfiawnder; yn gyfiawn; ar dir teg *neu* gyfiawn; wrth reswm; ar air a chydwybod.
Court of conscience—llys cydwybod; cydwybodlys; mânddyledlys, llys mânddyledion.
Conscienced, *a.* cydwybodog; âg iddo gydwybod. [ol.
Conscienceless, *a.* digydwybod, anghydwybod-
Conscient, † *a.* (Ll. *conscions*)=*Conscientious.*
Conscientious, *a.* (o *conscience*) cydwybodol, cydwybodus; cywir, didwyll, cyfiawn.
Conscientiously, *ad.* yn gydwybodol; gyda chydwybod lân ddirwystr; yn ol cydwybod.
Conscientiousness, *s.* cydwybodoldeb, cydwybodolrwydd, cydwybodusrwydd; cydwybodoledd, cydwybodedd.
Conscionable, *a.* (Ll. *conscio*) cydwybodus, cydwybodol; cyfiawn, cywir, didwyll, uniawn, rhesymol.
Conscionably, *ad.* yn rhesymol, &c.; yn ol iawnder a rheswm; yn ol cydwybod.
Conscionableness, *s.* rhesymoldeb; cyfiawnder, unionder, cywirdeb; cydwybodusrwydd.
Conscious, *a.* (Ll. *conscius*) ymwybodol, ymwybyddus, ymwybyddol, cydwybodus, cydwybodol; yn gwybod; yn wybodus; cyfrin; teimladwy; à wypo am dano ei hun.
To be conscious—bod yn ymwybodol, &c.; ymwybod; gwybod amdano *neu* ynddo ei hun; bod yn gyfrin; gwybod.
I am conscious to myself — yr wyf yn gwybod ynof fy hun; yr wyf yn ymwybod; yr wyf yn ymwybodol.
I am not conscious of sin—nis gwn fy mod yn gyfrin o bechod; nid wyf ymwybodol o bechod.
I am conscious that I am not handsome—gwn fy hun nad wyf fi hardd.
He is conscious of his superiority—gŵyr yn dda ddigon mai efe sy ben; efe a ŵyr yn burion ei fod yn rhagori; mae yn ymwybodol o'i ragoriaeth.

Consciously, *ad.* yn ymwybodol, &c.; drwy wybod iddo *neu* amdano ei hun; drwy ymwybod.

Consciousness, *s.* ymwybod, ymwybyddiaeth, ymwybodoldeb, ymwybodolrwydd, ymwybodaeth, gwybyddiaeth; cydwybod; synïad, ymsyniad, ymdeimlad.

Consciousness of sins—cydwybod pechod (*Heb.* x. 2).

Conscript, *a.* (Ll. *conscriptus*) ysgrifenedig, ysgrifedig; rhestredig, cofresedig, cofrestredig, cofresol, coflyfredig, cofrestrig.

Conscript fathers—y tadau rhestredig, y tadau cofrestrig = seneddwyr Rhufain gynt.

Conscript, *s.* milwr rhestredig, crifilwr, gwr rhif: *pl.* rhestredigion, cofrestrigion.

Conscription, *s.* (Ll. *conscriptio*) rhestriad, cofrestriad, cofresiad, coflyfriad, cyfrestriad; milwyr rhestredig; y filwriaeth, y milwyr.

Consecrate, *v. a.* (Ll. *consecro*) cyssegru; santeiddio; bendigo, bendithio, glwyso; urddo; neilltuo; seintio, dwyfoli; offrymu, aberthu, dïofrydu; segru.

To consecrate one's self — ymgyssegru, ymsanteiddio; ymddïofrydu, ymgyflwyno.

Who is consecrated for evermore—yr hwn a berffeithiwyd yn dragywydd (*Heb.* vii. 28).

Consecrate, } *a.* (Ll. *consecratus*) cyssegredig,
Consecrated, } cyssegrol, cyssegrlan, santaidd, cyssegr, glwys; cyflwynedig, dïofrydol; urddedig; gorlladol, segr, segrol, segredig, cyferthus.

Consecrated wafer—arlladen, arladen, afrlladen, llethen gysegredig.

Consecratedness, *s.* cyssegredd, cyssegrwydd, cyssegroldeb, cyssegredigrwydd, segredigrwydd, cyferthrwydd.

Consecration, *s.* (Ll. *consecratio*) cyssegriad, cyssegredigaeth; santeiddiad, glwysiad; bendithiad, gorlladiad, cyferthiad; neilltuad; seintiad, seintiadaeth, dwyfoliad.

Consecrator, *s.* cyssegrwr, cyssegrydd, segriedd-

Consecratory, *a.* cyssegraidd, cyssegriadol, cyssegredigol.

Consectary, *a.* (Ll. *consectarius*) canlyniadol; canlynol; yn canlyn; â fo yn canlyn; casgladwy, casgliadol; à ellir ei gasglu.

Consectary, *s.* canlyniad, casgliad, cload, cynghlo, cynghload, tyniad, diweddglo, casgl.

Consecution, *s.* (Ll. *consecutio*) canlyniad, canlyniawd, dylyniad, arganlyniad; cydolyniaeth; casgliad, cynghload, cynghlo; cyfres o ganlyniadau *neu* gasgliadau; oliannaeth, olyniant; cyfres o bethau yn canlyn eu gilydd; cyfres.

Consecution month—y mis cyfrwng, mis oliannol.

Consecutive, *a.* (Ff. *consecutif*) canlyniadol, canlynol, dylynol, dylynedigol; à ganlyno; à fo yn canlyn; olynol, oliannol, olyniadol; cyfresol; yn ol; ar ol eu gilydd; yn dyfod ar ol.

Consecutiveness, *s.* oliannaeth, oliannoldeb, olynoldeb, olynolrwydd, canlynoldeb, dylynolrwydd.

Consemînate, *v. a.* (Ll. *con* a *semino*) hau had cymmysg; amhadhau, cydhau amryw had, mysghadhau.

Consenescence, } *s.* (Ll. *consenesco*) cydhen-
Consenescency, } eiddiad, heneiddiad; methiant gân henaint.

Consension, *s.* (Ll. *consensio*) cydsyniad, cyssyniad, cytundeb, cynghordiad, cyfundod.

Consent, *s.* (Ll. *consensus, consentio*) cydsyniad, cyssyniad; caniatâd, cenad, cenadiad, cynnwys; cytundeb, dundeb, cydgordiad, cynghordiad, cynghord; unfryd, unfarn; bodd, cymmodlonedd, cymmodlondeb; cyssondeb, cyfateblad; cytteimlad.

Against one's consent—o anfodd, o'i anfodd; yn erbyn ewyllys un; yn groes i wyllys un.

Without consent—heb genad, heb ganiatâd, heb gydsyniad; yn ddigenad; heb gael *neu* ofyn cenad.

With one consent—o unfryd, yn unfryd, yn unfrydol, yn gytûn, yn gydgordiol; yn unair; o un geneu; âg un ysgwydd.

By consent — o gytundeb, o gydsyniad, trwy gytundeb, trwy gydsyniad, trwy fodd, o fodd; o fodd a rhodd; o wirfodd.

Consent, *v. n.* cydsynio, cydsynied, cyssynio; cytuno, cyduno, cynghordio, cydgordio; caniatâu, cenadu, ceniadu, rhoi cenad; rhoi cydsyniad; rhoi ei fodd; rhoi ei ewyllys da; bod yn gymmodlawn; gildio; gwrandaw ar.

To obtain one's consent—cael cydsyniad un; mynu, cael, *neu* ennill bodd un; mynu cenad *neu* ganiatâd gân un.

Consentaneity, } *s.* cydsynioldeb, cytun-
Consentaneousness, } deb, cydundeb; cyssondeb, cyssonedd, cyssoniant, cyssonder, cytunoldeb; cyfaddasrwydd.

Consentaneous, *a.* (Ll. *consentaneus*) cydsyniol, cyssyniol; cytun, cydunol, cytunol, cysson, cyfatebol, addas, cyfaddas, cymhwys; yn cytuno, yn cyfateb; cydgordiol, cyngweddol.

Consenter, *s.* (o *consent*) cydsyniwr, cyssyniwr, cydsyniedydd.

Consentient, *a.* (Ll. *consentiens*) cydfarn, cydfarnol, unfarn, cyfunfarn, unfryd, unfrydol, unfeddwl; cyssyniol; cydsyniol, cydunol, cytûn, cytun; o'r un farn.

Consequence, *s.* (Ll. *consequentia*) canlyniad, canlyniant, dylyniad, cyd-ddylyniad, cyfymlyniad; casgliad, cynghlo, cydgload, cynghload; effaith, effeithiad; pwys, pwysfawredd, cyfrif, pris, cymmeriad, cymmyredd, bri, grym, nerth; tuedd, dylanwad; yr hyn a fo yn canlyn.

In consequence—o ganlyniad, yn ganlynol, trwy ganlyniad, mewn canlyniad; trwy, am, o herwydd, am hyny, herwydd hyny; wrth; o waith, trwy waith; o achos, o blegid.

By consequence—yn ganlynol; o ganlyniad; trwy ganlyniad; am hyny; o herwydd hyny.

Of great consequence—pwysfawr, pwysig, mawrbwys; o bwys mawr; o bwys a phris mawr; o fawr ganlyniad.

Of little consequence — ysgafn, ysgafnbwys, bychan-bwys, bychan-bris; o ychydig bwys; ond o ychydig bwys.

Of no consequence—dibwys, dibris, diddym; heb arwyddocâu dim; heb fod o bwys yn y byd.

Of dangerous consequence—enbyd, enbyd-

us, peryglus; à dywyso afiwydd ar ei ol; o ganlyniad peryglus.

What consequence do you draw from thence?—beth *neu* pa beth a gesglwch oddi wrth hyny? beth yw y casgliad à dynwch o hyny? pa gasgliad a dynwch oddi wrth hyny?

That is no good consequence—ni ddeillia, ni chyfyd, *neu* ni chesglir mo hyny yn naturiol oddi wrth yr hyn a ddywedpwyd.

A man of consequence—dyn rhwysgfawr; dyn mawr ei rwysg; dyn o rwysg; dyn o bwys; dyn pwysig; gwr o bwys, &c.

Consequent, *a.* (Ll. *consequens*) canlynol, dylynol, cyd-ddylynol; yn canlyn, yn dylyn; à ganlyno.

Consequent, *s.* canlyniad, effaith; casgliad, cydglo, cynghlo, cynghload; canlynor: *pl.* yr olion, yr oliaid, canlynorion, canlynolion.

Consequential, *a.* canlyniadol, canlyniannol; cyfymlynol; yn canlyn; deilliadol, tarddiadol; casgliadol, casgladwy, cynghloawl, cydgloawl; pwysig, pwysfawr; hunandybus, hundybiog, hunanol, cymmyreddus, coeg, balch, coegfalch, gwagfalch, uchelfryd, uchelfrydig, ucheldybus; rhwysfawr, rhodresgar, rhyfus, ymchwyddedig, tefyddog; llawn o'i dyb ei hun.

Consequentially, *ad.* yn ganlyniadol; trwy ganlyniad, o ganlyniad; yn casgliadol; yn angenrheidiol; yn anocheladwy.

Consequentialness, *s.* cyd-ddylyniad, cydrediad rheolaidd; canlynoldeb, canlyniadoldeb, cydoliannaeth.

Consequently, *ad.* yn ganlynol, &c.; o ganlyniad, mewn canlyniad, trwy ganlyniad; gàn hyny; yn nesaf.

Consequentness, *s.* (o *consequent*) canlynoldeb, canlynolrwydd, dylynoldeb; cydolyniaeth, cydoliannaeth.

Consertion, *s.* (Ll. *consero, consertum*) cyswllt, cyssylltiad, cydiad, cyfuniad; cyfaddasiad, addasiad.

Conservable, *a.* (o *conserve*) cadwadwy, ceidwadwy.

Conservancy, *s.* (Ll. *conservans*) cadweidiaeth, cadwad.

Court of conservancy — cadwadlys, llys cadwad=llys à gedwir i ddiogelu pysgodfa yr afon Tafwys.

Conservant, *a.* ceidwadol, cadwadol, cadwyol, cadwol.

Conservation, *s.* (Ll. *conservatio*) ceidwadaeth, cadweidiaeth, cadwraeth, cadwediguaeth, cadwaeth, cadwyaeth, gwarcheidiaeth, cadwad, gwarchodiad, gwarchodaeth; nodded, amddiffyniad.

He applied himself diligently to the conservation of the state—efe a ymroddodd yn lew *neu* a ymroddodd yn astud i noddi ac amddiffyn ei wlad.

Conservatism, *s.* diogeliaeth, ceidwadaeth, achlesyddiaeth, amddiffyniaeth, ceidwedyddiaeth, cadwriaeth, cadwadaeth, egwyddorion y diogelwyr, cadwadwriaeth, gwarchodaeth.

Conservative, *a.* ceidwadol, cadwadol, cadwol, cadwyol, cadwriaethol, cadwediguethol, cadwedigol, ceidwadig, gwarchodol, achlesol, diogelawl, noddol, amddiffynol; à geidw, à gadwo.

Conservative, *s.* ceidwadwr, ceidwedydd, cadwedydd, ceidwadydd, diogelwr, achlesydd: *pl.* diogelwyr, ceidwadwyr, cadwedyddion, cadweidiaid, gwarchodiaid, cadwadolion, ceidwadigion.

Conservator, *s.* (Ll.) ceidwad, gwaredwr, gwaredydd, ceidwedydd, cedwidydd, ymwaredwr, gwarchodydd, diogelydd; noddwr, amddiffynydd, amddiffynwr.

Conservator of the peace—ceidwad *neu* amddiffynydd yr heddwch; ynad heddwch, ynad hedd, hedd-ynad, heddyngnad.

Conservatory, *a.* ceidwadol, cadwadol, cadwol, cadwyol, cadwriaethol, cadwediguol, cadwediguethol, gwarchodol, modurol.

Conservatory, *s.* ceidwadfa, achlesfa, addodfa, gwarchadfa, cadwyfa, cadwfa, cadwyfan; pwnt, cronfa; maethle, noddle; llyseufa, llysieufa, llysieudy; ystorfa, ystordy; lle i gadw peth ynddo.

Conservatory for fish—pysgodlyn.

Conservatory for fruits — ffrwythgell, ffrwythle, ffrwythfa.

Conservatory for corn—ytty, ydle, heiniardy, ystordy yd.

Conserve, *v. a.* (Ll. *conservo*) cadw, achlesu, noddi, amddiffyn, cadwyd; cyffeithio, cyweirio, blasuso, pereiddio, ammoethi.

Conserve, *s.* ancwyn, cyffaeth, chwegfwyd, chwegfaeth, ammeuthyn, ammoethyn, cyffeithfwyd; peth cyffeithiedig; peth cadwadwy; irgyffaeth; cadwyfa, cadwfa.

Conserve of roses—rhosgyffaeth, rhosgywair, cywair rhos, cyweir-dorth rhos.

Conserver, *s.* (o *conserve*) ceidwad, ceidwedydd, diogelwr, achlesydd; cyffeithydd, cyffeithiwr, ancwynwr, cyweiriwr.

Consession, *s.* (Ll. *consessio*) cydeisteddiad, cysseddiad.

Consessor, *s.* (Ll.) cydeisteddwr, cysseddwr.

Consider, *v.* (Ll. *considero*) ystyried, ystyrio, meddylied, meddwl, meddylio; meddylied am, meddylio am, meddwl am; myfyrio; myfyrio ar, myfyrio am; synied, synio, arsynied, pwyllo; edrych ar, synied ar, synio ar, craffu ar, syllu ar, dal ar; dal sylw ar; bwrw golwg ar; gweled, edrych; astudio, hambwyllo, ambwyllo, hanbwyllo, cysbwyllo, pryderu; pwyso, dyfal bwyso; dyfal bwyso yn y meddwl; darbod, gofalu tros, gofalu am; ystyried wrth; sylwi, sylwi ar; adfyfyrio, adfeddylied, adystyried, adystyrio; adgofio; ymgynghori, ymbwyllo; ammheu, petruso; edrych yn ei gylch; parchu, perchi, gorpherchi; gwneuthur cyfrif o; cydnabod, attalu, gobrwyo, talu y pwyth, talu adref.

Let us consider one another—cydystyriwn ein gilydd.

You shall be considered for your pains—cydnabyddir chwi am eich llafur.

Considerable, *a.* (Ff. ac Ysp.) cryn; gwiwbwyll; o bwys, o werth, o gyfrif; teilwng o sylw *neu* ystyriaeth; nid bychan; nid ychydig; o bwys nid bychan; ni ddylid mo'i ddirmygu, mo'i esgeuluso, mo'i ddïystyru, *neu* mo'i ddibrisio; o fri a chymmeriad; o gymmeradwyaeth; nodol, nodedig, hynod, pwysfawr, pwysig, dirfawr; annirmygus, parchadwy, parchus; haeddbwyll; teilwng i'w ystyried; encyd o, swrn o, dïamdlawd, cetyn o,

crŷn lawer, lledbwysig, lled dda; maith; gwerthfawr; gwiw; llawer.
A considerable sum of money—crŷn sum o arian; swrn o arian; twysged o arian.
A considerable way—encyd o ffordd; crŷn ffordd; crŷn lawer o ffordd.
Considerable fortune—crŷn gynnysgaeth, crŷn waddol; swrn o waddol; cynnysgaeth ddïamdlawd; cryn lawer o waddol.
Considerable quantity — twysged, crŷn swrn, swrn.
Considerable number—bagad; crŷn nifer; rhynawd o nifer; rhifedi nid bychan; nifer nid bychan.

Considerableness, *s.* gwiwbwylledd; cyfrifoldeb, mawredd; teilyngdod o sylw *neu* ystyriaeth; lledbwysigrwydd, lledbwysfawredd; syrnedd, twysged, twysgedd; nodedigrwydd, anfychanrwydd, llaweredd.
The considerableness of things is to be estimated by their usefulness — dylid pwyso pethau yn ol eu defnyddioldeb; dylid barnu am werth a phwysigrwydd pethau wrth eu defnyddioldeb.

Considerably, *ad.* yn wiwbwyll, &c.; o lawer; yn mhell; o getyn; o swrn; o grŷn radd.
Considerably better — gwell o lawer; llawer gwell; llawer yn well; yn rhagori yn mhell ar; yn mhell o flaen; cryn dwysged yn well.
This is considerably larger than the other —y mae hwn lawer yn fwy na'r llall.

Considerance,† *s.* (Ll. *considerantia*)=*Consideration.*

Considerate, *a.* (Ll. *consideratus*) ystyriol, pwyllog, pwyllig, pwyllus, hybwyll; call, doeth, synwyrol; gofalus, rhagofalus, darbodus, cynghorus, amgelog, gwagelog, gochelgar, ymogelgar, gwiliadwrus, amwel, craff, craffus, amgraff, amgraffus, pryderol, pryderus, diesgeulus, hanbwyllus, hanbwyllog, hambwyllus, arbwyllig, arsyniol; difrifol, difrif, myfyrgar, meddylgar, myfyriol, ystyrgar, ystyriannol, gwastadbwyll, gwastadfryd; anfyrbwyll, anehud, dysbwyllog, hirbwyllig, meddyldduwys; cymmedrol, rhesymol; yn rhagweled, yn rhagddarbod; yn edrych o'i gylch; yn edrych o'i flaen ac o'i ol; tawel, hamddenol.

Considerately, *ad.* yn ystyriol, &c.; gan bwyll; trwy bwyll da; trwy gynghor; trwy gymmeryd hamdden.

Considerateness, *s.* ystyrioldeb, pwyllogrwydd, pwylligrwydd, hybwylledd, callineb, callder, hanbwylledd, pwyllineb, &c.

Consideration, *s.* (Ll. *consideratio*) ystyriaeth, sylw, ystyriant, ystyr, pwyll, pwylledd, ymbwyll, cysbwyll, pwyllineb; diledfrydedd, myfyriad, myfyrdod, meddwl, meddyliad; cyfrifoldeb; darbodaeth, rhagddarbodaeth; pryder; meddylgarwch; bwriad yn y meddwl; ymgynghoriad; cymmeriad cynghor, pwyll, *neu* hamdden; ystyriedigaeth; bri, parch, cymmeriad, pwys; rheswm, rheswm cynhyrfiol; achos, achlysur; tâl, taledigaeth, ad-daliad, iawn, tâl pwyth; cydnabyddiaeth; ammod.
To have consideration of a thing—gofalu dros *neu* am beth; darbod o beth.
Diligent consideration—dwys ystyriaeth, dyfal fyfyrdod; ystyriaeth ddifrifol *neu* ddwys.
Worthy of consideration — gwiwbwyll; teilwng o ystyriaeth; gwiw o sylw *neu* ystyriaeth.
Upon what consideration?—pa ham? pam? er pa beth? er mwyn pa beth? am ba beth? am beth? am ba achos? ar ba reswm? ar ba ammod? ar ba gyfrif? ar ba gyfrifon? ar ba ystyriaeth? pa achlysur oedd?
Upon that consideration—tàn yr ammod hòno; am yr achos *neu* y rheswm hwnw; er mwyn hyny; ar yr ystyriaeth hòno; ar y cyfryw ammod.
Under consideration — dàn sylw, dàn ystyriaeth.
For many considerations — am amryw resymau *neu* ystyriaethau; am lawer achlysur *neu* achos; ar, oblegid, *neu* oherwydd amryw achosion; ar amryw gyfrifon *neu* ammodau.
Without consideration—heb ystyriaeth; heb ystyried; yn fyrbwyll, yn anystyriol, yn ddïystyr, yn anfeddylgar, yn ddibwyll, yn ddigynghor, yn ddifyfyr, yn anfyfyr, yn wyllt-naws, yn chwidr, &c.
A person without consideration—dyn anystyriol.
After consideration—gwedi ystyried peth, mater, *neu* amgylchiad; yn ol *neu* ar ol difrifol bwyso peth; ar ol ystyriaeth *neu* ystyried.
To take into consideration — ystyried; dwys ystyried; ymgynghori yn nghylch peth; pwyso yn y meddwl; cymmeryd dàn ystyriaeth.
An author of consideration—awdur o grŷn gyfrifoldeb; awdur o grŷn gyfrif *neu* sylw; awdur o gyfrifoldeb; awdur cyfrifol; awdur o gyfrifoldeb nid bychan.

Considerative, *a.* yn ystyried; dwys-ystyriol, ystyriannol, ystyriol.

Considerer, Considerator,† } *s.* ystyriwr, pwyllwr, myfyriwr.

Considering, *s.* ystyriad, &c.; petrusiad, petrusedd, ammheuaeth.

Considering, *p.* gàn ystyried, yn ystyried, dàn ystyried, &c. âg ystyried; yn gymmaint a *neu* ag; gàn mai; gàn fod y peth felly.
Considering that — yn gymmaint a; gàn mai; gàn fod y peth felly.
Considering the weakness of our nature—âg ystyried gwendid ein natur; pan ystyriom wendid ein natur.
Considering what servants are now-a-days —wrth fel y mae gwasanaethyddion *neu* wasanaeth-ddynion y dydd heddyw; pan ystyriom y modd y ceir *neu* y gwelir gweision y dydd heddyw.

Consign, *v. a.* (Ll. *consigno*) trosglwyddo, trosi; rhoddi, rhoi, dodi; traddodi, trosddodi; ymddiried; anfon, danfon; gorchymyn; symmud; dwyn trosodd.
To consign to writing—ysgrifenu; gosod mewn ysgrifen; rhoi ar lawr mewn ysgrifen; rhoi *neu* osod ar bapyr.

Consign,† *v. n.* llofnodi, arwyddo; cytuno, cydsynio; ymostwng, gildio.

Consignable, *a.* trosadwy, trosglwyddadwy.

Consignation, *s.* (Ll. *consignatio*) trosiad, trosglwyddiad, traddodiad; anfoniad, danfoniad.

Consignature, *s.* (*con* a *signature*) cydlofnodiad, cydlofnod, llofnodiad, llawn lofnodiad.

Consignee, *s.* (o *consign*) trosiadai, trosddoddai =yr un y trosir neu y traddodir iddo.

Consigner, } *s.* (o *consign*) troswr, trosydd,
Consignor, } trosiedydd, trosadog, trosddodog, trosglwyddwr, anfonwr=yr un à draddoda neu à drosglwydda.

Consignification, *s.* (*con* a *signification*) cydarwyddiad, cydarwyddocâd, cydystyr.

Consignificative, *a.* cydarwyddol, cydarwyddocaol, cydystyrol, cydystyr, gogyfystyr.

Consignment, *s.* (o *consign*) trosiad, trosglwyddiad, trosglwydd, dadrosiad, anfoniad, traddodiad; trosiadeb, trosglwyddeb, ysgrifen drosglwydd.

Consimilar, *a.* (*con* a *similar*) cynhebyg, godebyg, cyffelyb, gogyffelyb, cyfal, gogyfal, lled debyg, cyttebygol.

Consimilitude, } *a.* cynhebygiaeth, cyttebygol-
Consimility, } iaeth, tebygrwydd, tebygoliaeth, cyffelybrwydd.

Consist, *v. n.* (Ll. *consisto*) cydsefyll, sefyll, ymsefyll, cyssefyll; bod, hanfodi, hanfod; cynnwys, annu, gannu; bod yn cydsefyll; parhau i fod; parhau mewn bod; cytuno, cydsynio.

To consist of—cynnwys; hanfod o; bod yn gyfansoddedig *neu* wneuthuredig o; gwedi ei gyfansoddi o; cael ei wneuthur o.

To consist in—bod yn; sefyll yn; bod yn gynnwysedig yn *neu* mewn; bod yn sefyll *neu* yn gorwedd yn; sefyll ar.

To consist together—cydsefyll, cyssefyll, cydhanfod, cydhanfodi, cydfodoli, cydfod.

To consist with—cytuno, cydsynio, cydsefyll, cyssefyll, cydweddu, cyngweddu, cyssoni, cydfod, dygymmod; bod yn gysson.

By his word all things consist—trwy ei air ef y cyfansoddwyd pob peth (*Eccles.* xliii. 26).

Consistence, } *s.* (o *consist*) tewdra, sylwedd,
Consistency, } tewder; cydsafiad, cyssafiad, cydsafedd, cydseifiad; cysondeb, cyngweddiad, cydweddiad, cytundeb; bod, hanfod, cydhanfod; tewedd, tewychedd; gwneuthuriad, cyfansoddiad, ffurfiad; ansawdd, sylweddoldeb; unffurfiad, unweddiad; cymhwysder; gwadalwch; safiad.

Consistent, *a.* (Ll. *consistens*) cysson, cytunol, cytun, cytunus, cyfun, cyngweddol, cydweddol, unffurf, cydffurfiol, unrhywiol, cyfunfod, unweddol; cydsafol, cyssafol, cydsaf, cyfiaddol; yn cydsefyll, yn cyssefyll, yn cytuno; à fo yn cydsefyll; uneiriog; tew, tewychol, syfn, clwn.

To be consistent with one's self—bod yn gysson âg ef ei hun; bod yn unair *neu* uneiriog; dâl ar yr un chwedl.

They are not consistent—nid ydynt yn cytuno, yn cyngweddu, *neu* yn cyfiadd â'u gilydd; y maent yn gwrthwynebu eu gilydd; maent yn anghysson; nid ynt yn cytuno, &c.

Consistorial, } *a.* eglwysalysol, glwysalysol;
Consistory, } perthynol i lys eglwysig; perthynol i lys yr esgob; gorseddol, cabidylaidd.

Consistorial court — llys yr esgob, llys esgobol, llys eglwysig.

Consistory, *s.* (Ll. *consistorium*) llys yr esgob, gorsedd esgob, llys eglwysig, eglwysalys, glwysalys, cynglwysalys; glwysalysdy; cynghordy, dadleudy; cymmanfa esgobion, cynghorfa, glwysgynghor; cynghorfa gweinidogion.

Consociate, *s.* (Ll. *consociatus*) cydymaith, cymrawd, cymrodor, cyfaelod, cyfaill; cyfranog, cyfranogwr, cydblaid, cysswyniad, cysswynwr, cydgyfranog, cyfrinachwr, cyfrinydd, cydwedd, cydwelydd.

Consociate, *v.* cyfeillachu, cymdeithasu, cymdeithogi, uno, cyfuno, cyssylltu, cyduno, ymuno, cydymuno, cyfeillio, cydbleidio, cyssylltu cymdeithas, ymgyfeillachu, ymgyfeillio.

Consociation, *s.* (*consociatio*) cymdeithas, cymdeithasiad, cydgymdeithas, cyfeillach, ymgyfeillach, cymdeithiad, cymrodoriad, cyfathrach, ymuniad, cystlynedd, cydbleidiad, ymgymdeithasiad; cymdeithasfa, cymdeithfa, cyfaelodiaeth.

Consociational, *a.* cymdeithasol, cymdeithasiadol, cymdeithasfaol, cymdeithfaol.

Consol, *s.* (o *consolidate*) cydsoddlan, cyssoddan, cedsoddan: *pl.* cyssoddion.

Consolable, *a.* (Ll. *consolabilis*) cysuradwy, dyddanadwy; hylon, siriol, llon, cysurus.

Consolate, † *v. a.* (Ll. *consolor*) cysuro.

Consolation, *s.* (Ll. *consolutio*) cysur, dyddanwch; cysuriant, cysuriaeth, cysurdeb, dyhuddiant, dyhudded, cysuriad, dyddaniad, lloddiant; sirioldeb, hyfrydwch.

Consolator, } *s.* (Ll. *consolator*) cysurydd, cy-
Consoler, } surwr, dyddanydd, dyddanwr, siriolwr, llonychwr.

Consolatory, *a.* cysurol, dyddanol, cysurus, dyddanus, lloddiannol, cysurlawn, lloddol.

Consolatory, *s.* dyhuddiant, dyhudded, dyhuddeg, cysurdraith.

Console, *v. a.* (Ll. *consolor*) cysuro; dyddanu, sirioli, lloni, adferthu, dyhuddo, sirio, llonychu; rhoi cysur i; lloddi; cynnorthwyo.

Console, *s.* (*Ff.*) tyddfyn, ysgwyddyn.

Consolidant, *a.* (Ll. *consolidans*) cyfanol, cyfaol, cyfhaol, croengyfanol; yn tueddu i uno archollion; yn cyfanu.

Consolidant, *s.* bancawydd, cyfanydd; iachgyffer; meddyginiaeth yn tueddu i wella *neu* gyfanu archoll.

Consolidate, *v.* (Ll. *consolido*) cyfanu, cyfhau; uno, cyssylltu; gwneuthur *neu* fyned yn gyfan, yn groengyfan, *neu* yn hollïach; iachâu; cyfu; caledu, ymgaledu, durfingu, clyno, ymffurfhau, cyd-ddwyso, cyfddwyso, cydgasglu, cydgrynöi; gwneuthur *neu* fyned yn galed, yn galedgorff, *neu* yn ddurfing; cydsylweddu, cyssylweddu, cydgorffori, cynghorffoli, cydsoddi; gwneuthur yn un; cryfhau.

To consolidate two benefices—uno neu gyssylltu deublwyf; gwneuthur deublwyf yn un; cydgorffori dwy fywoliaeth neu eglwys.

Consolidated fund—cydsawdd, cydargyfre, cydgyllid.

Consolidate, *a.* cyfan, durfing, clwn, calededig, cynghorffedig; yn un caledgorff.

Consolidation, *s.* cyfaniad, cyfuniad, cyssylltiad, uniad, cydgyssylltiad, cyd-ddwysiad, cyfddwysiad, clyniad, cydgorfforiad, cynghorffoliad, cydsylweddiad; cydgaledïad,

ynghledïad; gwneuthuriad deugorff, deubeth, *neu* ddeublwyf yn un.

Consolidative, *a.* cyfanol, cyfaol, cyfhaol; iachaol; cynghorfforol.

Consoling, *a.* (o *console*) cysurol, dyddanol, cysurus, dyddanus, cysurfawr.

Consols, *s. pl.* (o *consolidate*) cydsoddion, eedsoddion, cysoddion=cryn gyfran o'r ddyled wladol.

Consonance, } *s.* (Ll. *consonantia*) cydsain,
Consonancy, } cyssain, cydseinedd, cysseinedd, cydseiniant, cysseiniaeth, cysseiniant, cydlais, cytton, cyttonedd, cynghan, cynghanedd, cydganedd, cynhonedd; cyssondeb, cyssonedd, cynghordiad, cydgordiad, cytundeb, cydundeb, cydsyniad, cyssyniad, cydweddiad, cyngweddiad.

Consonance of words—cynghanedd; cynghanedd geiriau; geir-gynghanedd.

Consonant, *a.* (Ll. *consonans*) cydsain, cydseiniol, cyssain, cysseiniol, cydseiniog, cysseinieg, cysseinig, cydseinig, cydlais, cydleisiol, cyttonol; cysson, cytun, cytûn, cytunol, cyssonol, cynghordiol; addas, cyfaddas, gwiw.

To be consonant — cydseinio, cydleisio; cytuno, cydgordio, cyssoni, cyttoni; bod yn gysson, &c.

Consonant, *s.* cydsain, cydseiniad, cyssain, cysseiniad, llythyren gydsain, llythyren gydseinig: *pl.* cydseiniaid, cysseiniaid, cydseingion.

Vowels and consonants—llafariaid a chydseiniaid, llafareion a chysseiniaid, llafargion a chysseinigion.

Inflective consonant—cydsain dreigl, cyssain leddf, cydsain dreigledig, cydsain hydreigl.

Consonantness, *s.* cyssondeb, cyssonoldeb, cyssonedd, cyngweddoldeb.

Consonous, *a.* (Ll. *consonus*) cyssain, cydsain, cydseiniol, cysseiniol, cyflafar, cydleisiol, cynghanaidd, cynghan.

Consonous and synonymous — cyssain a chyfystyr; cyflafar a chyfystyr; o'r un sain a'r un ystyr.

Consopiate, } † *v. a.* (Ll. *consopio*) suo i gysgu,
Consopite, } sïo i gysgu, susganu, suo, rhoi i gysgu, sigysgu, siganu, canu i gysgu.

Consopiation,† *s.* suad i gysgu, susganiad, siganiad, suad, sïad, sigysgiad.

Consopite, *a.* tawel, llonydd; wedi ei sïo; lloddedig.

Consort, *s.* (Ll. *consors*) cydwedd, priod; gwr priod, gwr; gwraig briod, gwraig; cywely; cydymaith, cyfaill, cyfeilles, cyfail, cydwelyad, cydradd, cyfath; undeb, uniad, cyssylltiad, cydrediad; cynnullfa, cymmanfa, cymdeithasfa; cyugherdd.

Queen consort—breninesgydweddog, breninesgydwedd=gwraig brenin, nid breninesdeyrnasol.

Royal consort — cydwedd freninol, priod freninol, breninesgwraig brenin; cydwedd breninol, priod breninol, brenin.

Consort, } cydweddlong. llong gyd-
Consort ships, } wedd, cydwedd.

Consort, *v.* cyfeillachu, cymdeithasu; priodi, cydweddogi; uno, ymuno; cadw cyfeillach neu gymdeithas; cyfeillachu â'g, ymwasgu â; ymgyfeillachu, ymgyssylltu, cystlynu, ystlynu; cymmysgu; cydweddu.

With his consorted Eve—â'i gydwedd Efa.

Consortable, *a.* (o *consort*) cyfaddas, addas, cydweddol.

Consortion,† *s.* (Ll. *consortio*) cymdeithas, cyfeillach.

Consortship, *s.* (o *consort*) cymdeithas, cyfeillach, cyfranogaeth, brawdoriaeth.

Consound, *s.* (*con* a *sound*) cyfardwf, llysiau y cwlwm.

Conspection, } † *s.* (Ll. *conspicio*) gwelediad,
Conspectuity, } edrychiad, golygiad, tremiad, golwg.

Conspersion,† *s.* (Ll. *conspergo*) taenelliad, ysgeiniad, ysgeintiad.

Conspicuity, *s.* (Ll. *conspicuus*)=*Conspicuousness.*

Conspicuous, *a.* (Ll. *conspicuus*) amlwg, hywel, hynod, eglur, hysbys, honaid, hynodol, nodol, eglwg, gogyfarch, argyflwg, arwel; hawdd i'w ganfod; hawdd i'w weled; enwog, clodfawr, ardderchog, nodedig, hyglod; enddodol, enddawd, arbeithig.

A conspicuous scar — craith ogyfarch; craith amlwg, hywel, *neu* hynod.

Conspicuousness, *s.* amlygrwydd, eglurder, eglurdeb, amlygder, egluredd, hyweledd, eglygder; hynodrwydd, honeidrwydd, enwogrwydd, clod, bri, uchafedd, hyglodedd, clodforedd, dathledd.

The conspicuousness of an author—enwogrwydd awdur.

Conspiracy, *s.* (Ll. *conspiratio*) cydfradwriaeth, cydfrad, bradwriaeth, brad, cydfwriad, bradfwriad, cymrad, cymradwriaeth, cyfrad, cyfradwch, traffaith, bradgynghrair, bradgysswyn, cysswyn, bradgyfarfod; cydrediad.

Conspirant, *a.* (Ll. *conspirans*) cydfradol, cymradol, bradfwriadol, bradol, bradwriaethol, traffeithus.

Conspiration, *s.* (Ll. *conspiratio*) cydfradwriaeth, cydfrad, bradwriaeth, bradfwriad, cydfwriad, brad, cymrad, cyfrad, cymradwriaeth, cydfradiad; cydrediad, cydred, cyttueddiad, cytundeb.

Conspirator, } *s.* cydfradwr, bradwr, cyfradwr,
Conspirer, } bradfwriadwr, cydfwriadwr, cymradwr, cysswynydd.

Conspire, *v. n.* (Ll. *conspiro*) cydfradu, cydfwriadu, bradfwriadu, cyfradu, bradlunio, bradgynghreirio, cymradu; gwneuthur bradwriaeth, gwneuthur cydfrad; ymgynghreirio er gwneuthur brad; cytuno er gwneuthur drwg *neu* gyflafan; cytuno, cydsynio, cyssynio, cyduno, cyfuno, cydgordio, cynghordio, cordio, ymuno; cyttueddu, tueddu; cydymegnïo, cydwcithio.

All things conspire to make him happy—y mae pob peth yn cydweithio er ei ddedwyddyd ef.

Conspiring powers *or* forces — gallueedd cydweithiol; nerthoedd cyweithiol.

Conspiringly, *ad.* yn gydfradol, &c.; trwy fradwriaeth; o fradwriaeth; o frad.

Conspissation, *s.* (Ll. *conspissatus*) tewychiad, tewiad, tewhad; cyttewedd, tewychedd, tewedd.

Conspurcation,† *s.* (Ll. *conspurco*) halogiad, diwyniad, halogrwydd, halogedigaeth, aflanhad.

Constable, *s.* (Ysp. *condestable*; Ll. *comes stabuli*) heddwas, heddgeidwad, dyheddwr,

heddur, heddswyddog, swyddog yr heddwch; penceidwad.
Petty constable—heddwas, heddgeidwad.
High constable—penceidwad, argeidwad, penswyddog yr heddwch, arddyheddwr, gorcheidwad, arheddwas.
Constable of a castle—castellwr, castellydd, caerwr; ceidwad *neu* lywydd castell *neu* amddiffynfa.
Constable of the Tower of London—penceidwad Tŵr Llundain; penllywydd, penceidwad, argeidwad, pencaerwr, *neu* bencaerydd y Tŵr Gwyn yn Llundain.
Constable of France—penceidwad Ffrainc; penllywydd, penswyddog, *neu* benaeth y marchoglu yn Ffrainc gynt.
Lord high constable—arglwydd argeidwad, arlwydd benceidwad, arlwydd arheddwr.
To overrun the constable—byw uch law ei foddion; treulio mwy na'i feddiant; rhedeg i ddyled dros ei ben a'i glustiau; bod mewn dyled dros ei ben a'i glustiau.

Constablery, *s.* (o *constable*) heddweision, heddgeidwaid, heddlu, arheddlu; hedduriaeth, heddswyddogaeth; swyddogaeth, awdurdod, *neu* dalaeth heddwas.

Constableship, *s.* heddgeidwadaeth, heddgadwyaeth, heddwasaeth, hedduriaeth, swydd heddgeidwad.

Constablewick, *s.* talaeth *neu* gylchdaith heddwas; heddwasbarthed, heddwasgylch.

Constabulary, *a.* heddwasol, heddgeidwadol, heddgadwyol, heddurol; perthynol i heddgeidwaid, heddweision, heddweis, *neu* heddweisiaid.
Constabulary force—heddlu, arheddlu, arheddwys, heddweislu; yr heddgeidlu, yr heddgeidwaid, y corff heddgadwol.

Constancy, *s.* (Ll. *constantia*) gwastadrwydd, gwastadfod, gwadalwch, dïanwadalwch, dianwadaledd, gwadaledd, gwadalrwydd, dïysgogrwydd, dianwadalrwydd, dïymmodrwydd, dïymmodedd, disigledd, ansigledd, sadrwydd, annewidiolder; ffyddlondeb, ffyddlonder; sicrwydd, dilyswydd, sicredd, gwirionedd, gwireddoldeb, sylweddolder, parhad, dyfal barhad, dyfalwch; sywder, sywdeb, sywdra.
Constancy in suffering—goddefgarwch, dyoddefedd, dyoddefgarwch, goddefedd, ymoddef, ymaros, amynedd, gorthaw.

Constant, *a.* (Ll. *constans*) dianwadal, sefydlog, dïymmod, gwastad, dïysgog, diwamal, safadwy, hysaf, anserfyll, diserfyll, disigl, gwadal, anghyfnewidiol, dinewid, digyfnewid, ansigledig, sicr, disymmud, dïoriog, anoriog, cadarn, sad, dyfal, gwastadol, dibaid, didor, didawl, dïorphwys, parhäus, bythig, bythol, didranc, anorphen; cysson, unwedd; ffyddlawn, cyfartal, cyfartelid, syw; diwair.
Constant mind—bryd *neu* feddwl cyfartal; gwastadfryd.
Constant faith—ffydd barhäus, ffydd anniflan, ffydd annifan, ffydd ddïysgog.
There is a constant report—mae'r gair yn rhugl.
Constant to his purpose—dianwadal *neu* sefydlog yn ei fwriad, &c.; anhawdd ei symmud oddi wrth ei arfaeth; hylyn *neu* hylud yn ei amcan; tyn yn ei feddwl; anhyblyg, anystwyth, ystyfnig, taerlud hylyn, hylud, dianwadal.
If he be constant to do my commandment — os efe a ymegnïa i wneuthur f ngorchymynion.

Constant, *s.* sadrif, sadgyfran: *pl.* sadïon, sadogion.

Constat, *s.* (Ll.) eglureb, amlygeb.

Constellate, *v.* (Ll. *constellatus*) cydseirianu cydserenu, cydseriglo, cydlewyrchu, cydleu feru, cyd-ddysgleirio, cyttywynu

Constellation, *s.* (Ll. *constellatio*) cydser, cyf seryddiad, sergynnull, sergynnulliad, cyd seryddiad, cydserad, serdwr: *pl.* cydserau.

Consternation, *s.* (Ll. *consternatio*) braw dychryn, dychryndod, syndod, synder, syn dra, synedigaeth, uthredd, arswyd, cymraw echryn, echryd, gorsyndod, gorsynder, irdang irdanc, irdant, uthroldeb, aruthredd, syndo dirfawr, serfandod, sanedigaeth, ofn, cythrudd

Constipate, *v. a.* (Ll. *constipo*) cydsechu, cyd secu, cydsagio, sechu, secu, sagio, tynlenwi gorlenwi, cyttyru, cyssychu; gyru yn dyn gwthio yn nghyd; tewychu, cyttewychu tewhau; gwneuthur yn dew; cau, canad cau i fyny; gwneuthur yn ganad; attal rhwystro; rhwymo, bolrwymo, rhefrwymo rhwymo y bol.

Constipation, *s.* (o *constipate*) cydsechiad, cyd seciad, sechiad, seciad, cyssychiad, tynlen wad; tewychiad, tewhad, cyttewychiad tewychiant; rhwymiad, rhwymedd, bol rwymiad, bolrwymedd, bolrwym, bolrwym iant, rhefrwymedd; ymgalediad.

Constituency, *s.* (Ll. *constituens*) cyfansoddiad dewisiad, etholiad; etholwyr, etholiaid etholyddion; yr etholiadaeth.

Constituent, *a.* (Ll. *constituens*) cyfansoddol; elfenol, elfyddol, sylfaenol; hanfodol, angenrheidiol; sylweddol, gwreiddiol; ansoddol; sefydlawl, gwneuthurol; à bair i beth fod yn hyn ydyw; à gyfansoddo.
Constituent parts — rhanau cyfansoddol, rhanau hanfodol, rhanau elfenol, cyfseiliau.

Constituent, *s.* cyfansoddydd, cyfansoddwr, cyfansoddai, cyd-gyfansoddydd; elfen, elfydd, cyssail, cysran; gwneuthurydd, ffurfiedydd; rhan gyfansoddol; aelod hanfodol, sylfaenol, *neu* anhebgorol; etholydd, etholwr, etholai, dewisydd, dewiswr; gosodydd, anfonydd.

Constitute, *v. a.* (Ll. *constituo*) gosod, gosodi; gwneuthur, gwneyd, cyfansoddi, cyssoddi; sefydlu, ffurfio, trefnu, penodi, penu, nodi, cyfosod, cysseilio, arosod, deddfu; ethol, dewis, swydd-enwi; gosod *neu* gyfleu mewn swydd; rhoi bod *neu* sylwedd i beth; peru i beth fod yr hyn ydyw; gwneuthur i fyny; elfenu, elfyddu; gwneuthur ac awdurdodi; crethu.

Constituter, *s.* gosodydd, gosodwr, &c.

Constitution, *s.* (Ll. *constitutio*) cyfansoddiad; gosodiad, gwneuthuriad, cyngosodiad, ffurfiad, sefydliad, cysseiliad, cyssodiad, penodiad, &c.; ffurflywodraeth, ffurf llywodraeth, ffurf o lywodraeth; trefn *neu* ffurf sefydledig; ansawdd, cyflwr, tymmer, ardymmer, ardymmyr, tymmyr, dyli, naws, creth, credd, crethineb, greddf, anian, nwyd, anwyd, diwyg, hwyl, ystâd; cyflwr, ansawdd, *neu* dymmer y corff; gosodiaeth, gosodigaeth; gosodedig-

aeth, deddfawd, ffurfosodiad, gosod, goseawd, (*pl.* gosodau, gosodion), ystatyn; cyfraith.

British constitution—ffurflywodraeth Prydain; y ffurflywodraeth Brydeinig; y cyfansoddiad Prydeinig *neu* Brydeinaidd.

Civil constitution—cyfansoddiad gwladol, cyngosodiad gwladol, ffurflywodraeth, gwladoldeb, gwladoliaeth, gosodiad gwladol.

Constitution of the mind — cyfansoddiad *neu* gyngosodiad y meddwl; dyli, ardymmyr, *neu* ansawdd y meddwl.

Constitutions and canons ecclesiastical—gosodiaethau a chanonau eglwysig.

The constitutions of Justinian—deddfodau Iustinian.

The constitution in church and state—y ffurflywodraeth wladol a'r eglwysig; y ffurflywodraeth yn yr eglwys ac yn y wladwriaeth; y drefn sefydledig mewn gwlad ac mewn eglwys; y drefn sefydledig wladol ac eglwysig; y cyfansoddiad gwladol a'r eglwysig.

Good constitution—cyfansoddiad da, dyli da, diwyg da, ardymmyr da.

Of a good constitution—o gyfansoddiad da; da ei gyfansoddiad; ardymmerus; diwygus; da ei dyli; da ei naws *neu* ansawdd.

Bad constitution — cyfansoddiad drwg; drygnaws, anniwyg.

Of a bad constitution — o gyfansoddiad drwg; drwg ei ddyli; drwg ei naws; anniwygus, clefyca; drwg ei gyfansoddiad.

Constitutional, *a.* crethol, anianol, gwreiddiol, crethus, greddfol, ardymmerol; perthynol i gyfansoddiad; cyfansoddiadol; cysson, cytunol, cytun, *neu* gyngweddol â'r ffurflywodraeth; unol â ffurflywodraeth; cyfreithlawn, cyfreithus, cyfreithiol; sefydlawl, sefydledig.

Constitutionalist, *s.* ffurflywodydd, flurflywodur; ymlynwr wrth drefn sefydledig o lywodraeth: hoffwr y ffurflywodraeth Ffreinig yn 1791.

Constitutionality, *s.* ffurflwodoldeb, ffurfwladoldeb; cyfreithlonedd; cretholdeb, greddfolder, anianoldeb.

Constitutionary, *a.*=*Constitutional.*

Constitutionist, *s.* ffurflywodydd, ffurflywodwr, flurflywodur; ymlynwr wrth ffurflywodraeth y wlad.

Constitutive, *a.* cyfansoddol, cyfansoddiadol; hanfodol, gwreiddiol, sylfaenol, elfenol, elfyddol, elfyddus; gosodiadol, gosodedigol.

Constrain, *v.a.* (Ll. *constringo*; Ff. *contraindre*) cymhell, dirgymhell, argymhell, gwasgu, dirwasgu, dychymhell, dirio, gyru, gwthio; rhwymo, caethiwo, cadwyno, tynrwymo; gorfod, gorfodi, peri i, gwneuthur i; cyfyngu; rhwystro, attal, rhabu, ystwyo; cadw i lawr; cadw tân *neu* danodd; rheidioli; treisio.

I was constrained — gorfu arnaf; gorfu imi; bu gorfod arnaf.

He constrained them to depart — efe a wnaeth iddynt ymadael; perodd iddynt fyned ymaith.

I was constrained to appeal to Cæsar—mi a yrwyd i ymddibleidio at Caisar.

Not constrained — digymhell, ewyllysgar, gwirfodd, gwirfoddol.

Constrainable, *a.* cymhelladwy, gorfodadwy, caethiwadwy, &c.

Constrainedly, *ad.* trwy gymhell, o anfodd, trwy orfodaeth, trwy orfod, o orfod, yn anewyllysgar, yn anfoddlawn; yn erbyn ei ewyllys; heb ddïolch iddo.

Constrainer, *s.* cymhellydd, cymhellwr, gorfodwr, diriwr, gyrwr, gorfodog.

Constraint, *s.* (Ff. *contrainte*) cymhell, cymhelliad, dirgymhell, dirgymhelliad, argymhell, dir, dir a chymhell, diriad, gorfod, gorfodaeth, gorfodogaeth, gyriad, gwth, gwthiad, hyrddiad, hwrdd, dirdrais, dirdra, dirwasg, dirwasgiad, rhwymiad, caethiwed, cyfyngder, rhab, rhabedd, trais, rhysgyr.

Without constraint—o fodd, o wirfodd; heb na dir na chymhell; yn ddigymhell, yn ewyllysgar, yn wirfoddol.

By constraint=*Constrainedly.*

Constraintive, *a.* (o *constrain*) dirgymhellus, diriol, gorfodol.

Constrict, } *v. a.* (Ll. *constringo, constrictum*)
Constringe, } dirwasgu, rhwymo, tynrwymo, tynwasgu, cydwasgu, cyngwasgu, cyfwasgu; rhwymo yn dyn *neu* yn gaeth; cylymu yn dyn *neu* yn gaeth; caethrwymo, cydgylymu, cydrwymo; caethiwo, gwasgu, amwasgu, cyfyngu; tynu yn nghyd; crybychu, crebachu, cöri, tyrfu.

Constriction, *s.* (Ll. *constrictio*) dirwasg, dirwasgiad, cydwasgiad, dywasg, gwasg, cyngwasgiad, cydrwymiad, cydrwymad, cyfrwymiad, tynrwymiad, caethrwymiad; tyniad yn nghyd; crebachiad, crybychiad; cyfyngiad, caethiwad.

Constrictor, *s.* (Ll.) crebachydd, crybychydd, crybychyr, cyttynydd: sarff ddu Taleithiau Cyfunol America.

Boa constrictor—yr alsarff, gwagsarff, dirglymsarff=y fwyaf o'r holl seirff nabyddus, weithiau o 30 i 40 troedfedd o hyd.

Constringent, *a.* (Ll. *constringens*) dirwasgol, crybychol, crebachol; rhwymol, rhwymiadol, argaeol, bolrwymol, dirglymol; âg ynddo rinwedd i rwymo.

Construct, *v. a.* (Ll. *construo, constructum*) adeiladu, adeilo, llunio, gwneuthur, gwneyd, cyfeilio, eilio, cyflunio, cyfansoddi, ffurfio, cydosod, saernïo, dyfeisio; cyttyru; cystrawu, dehongli, deongli, deall.

Constructer, *s.* adeiladydd, ffurfiwr, cyfeilydd, cyfluniwr, cyfluniedydd, &c.

Construction, *s.* (Ll. *constructio*) adail, adeiladaeth, adeilad, adeilwaith, adeiladwaith, adeiladiad, cydadail, cyfadail; lluniad, cyfluniad, gwneuthuriad, ffurfiad, cyfeiliad, eiliawd, eiliant, cyfansoddiad, saerniaeth, saernïad; cydosodiad, cyfosodiad, cystrawiaeth, cystrawen, cystrawiad; cyssyllt iad, cyttrefn; ystyr, dehongliad, deongliad, eglurhad, eglurad, esboniad, dirnadaeth, lladmeriaeth; cyfeithiad; cymmeriad ystyr.

Construction, } cystrawiaeth, cystrawen,
Syntax, } cystrawiad, cyfosodiad, cydosodiad; cyttrefn.

Construction of language — cystrawiad iaith; ieithadaeth, ieithad.

To put the best construction on—rhoi yr ystyr goreu ar; rhoi y lliw goreu ar; cymmeryd, derbyn, *neu* ddeall yn yr

ystyr goreu; rhoi y cystrawiad goreu i *neu* ar.

To put the worst construction on—rhoi yr ystyr *neu* y lliw gwaethaf ar; cymmeryd, derbyn, *neu* ddeall yn yr ystyr gwaethaf; gwyrdroi yr ystyr; drygliwio.

Constructional, *a.* adeiladol, adeiladaidd, cyfluniol; cystrawol; ystyrol.

Constructive, *a.* (o *construct*) cystrawol, cystrawenol; cyfosodol, cydosodol; cyfluniol; debongliadol, ystyrol; casgliadol; trwy gasgliad teg.

Constructiveness, *s.* (o *constructive*) cyfluniedd, adeilgarwch.

Constructure, *s.* (Ll. *con* a *structura*) adail, adeilad, adeiladaeth, cydadail; adeilres.

Construe, *v. a.* (Ll. *construo*) dehongli, dehonglyd, deongli, esbonio, egluro; cyfieithu; troi o un iaith i'r llall; amlygu, lladmeru.

Is it so you construe the matter?—ai felly y deallwch, y barnwch, *neu* y cyfrifwch chwi y peth? ai felly yr ydych chwi yn deall y peth? ai hwna yw y lliw â roddwch chwi ar y peth?

Constuprate, *v. a.* (Ll. *constupro*) halogi, treisio, diforwyno, llathruddo, dwyn trais; gwneyd gwaith anfodd ar.

Constupration, *s.* (o *constuprate*) treisiad, diforwynad, llathruddiad, halogiad, dygiad trais.

Consubsist, *v. n.* (*con* a *subsist*) cydhanfodi, cydhanfod, cydsefyll.

Consubstantial, *a.* (Ll. *consubstantialis*) cydsylweddol, cyssylweddol, unsylweddol, cydhanfodol, cyd-ddefnyddiol; cyfanianol, cydrywiol; o'r un natur *neu* ryw.

Consubstantialist, *s.* cydsylweddwr, cyssylweddwr; credwr mewn cydsylweddiad: *pl.* cydsylweddiaid.

Consubstantiality, *s.* cydsylweddoldeb, cyssylweddoldeb, cydsylweddolrwydd, cydhanfodoldeb, cydsylwedd; cyfranogiad o'r un natur.

Consubstantiate, *v.* (Ll. *con* a *substantia*) cydsylweddu, cyssylweddu, cydsylweddoli; uno yn un sylwedd; proffesu cydsylweddiad.

Consubstantiation, *s.* (o *consubstantiate*) cydsylweddiad, cyssylweddiad=uniad corff a gwaed Crist â'r elfenau, wedi eu cyssegrer yn y cymun, yn ol barn Luther a'i ganlynwyr.

Consuetude, *s.* (Ll. *consuetudo*) defod, arfer, cynnefod, moes, arferiad.

Consuetudinary, *a.* (o *consuetude*) defodol, arferol, cynnefodol, cynnefodig.

Consuetudinary law—cyfraith defod ac arfer; cyfraith moes a defod; cyfraith gynnefodol.

Consul, *s.* (Ll.) alfaer, uchelfaer, cyssylior, cyssylfaer, consul; trafnidfaer, trafnidior, negesydd masnachol, trafnnoddwr; cynghorydd.

Chief consul—pentrafnidfaer, pencyssylfaer, penconsul.

British consul—trafnidfaer Prydeinig, consul Prydeinaidd, cyssylior Prydeinig.

Roman consul—alfaer Rhufeinig, consul Rhufeinig, cyssylior Rhufeinaidd.

Consulage, *s.* trafnittoll.

Consular, *a.* (Ll. *consularis*) alfaeronol, alfaerol, uchelfaeronol; perthynol i gonsul *neu* alfaer.

Consulate, *s.* (Ll. *consulatus*) alfaeroniaeth, alfaeronaeth, uchelfaeroniaeth, uchelfaeronaeth, consuliaeth; trafnidioraeth, trafnidlywiaeth.

Consul-general, *s.* pencyssylior, pentrafnidfaer, prif drafnidfaer, pencyssylfaer, prif gyssylfaer, penconsul.

Consulship, *s.* alfaeroniaeth, consuliaeth; swydd, swyddogaeth, *neu* urddas consul neu uchelfaer; trafnidioraeth, trafnnegesiaeth, trafnnoddiaeth.

Consult, *v.* (Ll. *consulto, consulo*) ymgynghori, ymgynghori â, cyssylio, cydymgynghori, cydgynghori; ymofyn â, gofyn cynghor, gofyn cynghor gân; golygu, ystyried, gofalu; gofalu dros, gofalu am, darbod dros, darparu dros, pryderu am, edrych at, dysgwyl at; ymbwyllo, cymmeryd pwyll; cadw golwg ar; dychymygu, dyfeisio, bwriadu.

To consult together—cydymgynghori; ymgynghori â'u gilydd; ymgynghori yn nghyd.

To consult with one's self—ymgynghori âg ef ei hun; bwrw *neu* bwyso peth yn y meddwl; cymmeryd pwyll; meddylied, ystyried; ymgyssylio.

To consult an author—ymgynghori âg awdur; edrych beth a ddywed awdur; mynu gwybod beth a ddywed awdur; ymofyn âg awdur; chwilio awdur; cyssylio awdur; cyssylio âg awdur.

To consult one's interest—edrych ato ei hun; gofalu am ei les ei hun.

Thou hast consulted shame to thy house—cymmeraist gynghor gwarthus i'th dy (*Hab.* ii. 10).

Consult, *s.* ymgynghoriad, ymgynghorfa, cynghorfa.

Consultation, *s.* (Ll. *consultatio*) ymgynghoriad, cydymgynghoriad, cyssyliad, ymgyssyliad; ystyriaeth; cymmeriad cynghor a phwyll; myfyriaeth, myfyrdod; cynghor, cynghorfa, ymgynghorfa, cydgynghorfa; ymgynghoriaid, ymgynghorwyr.

Writ of consultation—cyssylwys.

To hold a consultation—ymgynghori, cydymgynghori, cyssylio; ymgynghori yn nghyd; cadw ymgynghorfa.

Consultative, *a.* (o *consult*) ymgynghorol, cyssyliol, cydgynghorol.

Consulter, *s.* ymgynghorydd, ymgynghorwr, cyssyliwr; gofynydd *neu* ofynwr cynghor; ymofynydd, ymofynwr; à ymgynghoro.

A consulter with familiar spirits—dewin.

Consumable, *a.* (o *consume*) ysadwy, difadwy, treuliadwy, llosgadwy, &c.

Asbestos is not consumable by fire—nid ysir urael gân dân; ni lysg tân mo'r ystinos; ni ellir llosgi *neu* ddifa yr urael â thân.

The southern part of a country — deheubarth, deheudir, debarth; parth deheuol gwlad.
One of the same country — cydwladwr, cywladwr, cywleidiad, cywlad, cydwlad, un cywlad, gwr unwlad.
One born in another country — allwlad, arallwlad, un allwlad, un allfro, un arallfro, un arallwlad; alltud, (*f.* alltudes); gwr dyfod, dyfodiad.
To run, flee, *or* fly one's country—ymalltudio, ymalltudo, ymddeol; cilio *neu* ffoi o'i wlad; ffoi ei wlad; gadael ei wlad; ymadael â'i wlad; afwladu.
One that has fled his country—ffoadur, ciliad, ciliadur, cilydd, enciliad, ffiemor, enciliwr.
To dwell in a country—gwladychu, ymwladychu; byw *neu* drigo mewn gwlad; preswylio gwlad.
Love of one's country — gwladgarwch, brolwydd; cariad at ei wlad; cariad gwladol; cariad at *neu* serch ar ei wlad enedigol.
Loving one's country—gwladgar, gwladgarol; yn caru ei wlad.
In the country—yn y wlad; yn y maes; yn y maesydd; allan o'r dref.
Country, *a.* gwladaidd, gwledig, gwladol, gwladogaidd; perthynol i'r wlad; yn y wlad; o'r wlad; hafodaidd; taiog, gwaer, gwaerol, difoes, anwybodus, afiednais.
Country house — gwlatty, ty yn y wlad, hafotty, maenordy, ty gwlad.
Country seat — gwlad-annedd, maenorfa, maenordy, gwladhaddef, gwlad-drigfa, gwladfa, ty yn y wlad, sedd yn y wlad, gwladsedd.
Country squire—yswain o'r wlad; un o ysweiniaid y wlad; uchelwr o'r wlad; uchelwr y wlad.
Country town—gwlattref, maesdref, tref gwlad, pentref gwlad, tref daleithiol.
Country villages—trefi heb gaerau (1 *Sam.* vi. 18); maes-bentrefi.
Country farm — taiogdref, mileindref, gwlad-dyddyn, tyddyn gwladaidd.
Country language } mamiaith;
Language of one's country, } iaith ei wlad; iaith ei fam.
Country life—buchedd wladaidd *neu* wladol; bywyd gwledig; buchedd *neu* fywyd yn y wlad; gwlad-fuchedd.
To live a country life—byw yn wledig *neu* yn wladaidd; byw buchedd wledig; byw bywyd gwledig; byw fel taiog; byw yn y wlad.
Country song—gwladeiddgerdd, gwladolgerdd, gwladolgan, gwladgan, gwladgerdd.
Country dance — gwrthddawns, cyferddawns.
Country fellow — dyn gwladaidd, dyn gwledig, buach, taiogddyn.
Countryman, *s.* (*country* a *man*) gwladwr, cydwladwr, cywleidiad, cywladwr, cywlad, un cywlad, un cydwlad, gwr cywlad; un o'r un wlad; gwerinwr, gwaer, gwaeryn, dyn gwledig, dyn gwladaidd, un o'r wlad; amaethydd, llafurwr, tyddynwr; taiog: *pl.* gwladwyr, cywleidiaid, &c.
My own countryman—fy nghenedl fy hun (2 *Cor.* xi. 26).
Your own countrymen — eich cydgenedl (1 *Thess.* ii. 14).
What countryman is he?—un o ba wlad ydyw efe? o ba wlad y mae efe yn dyfod? o ba le y mae efe yn dyfod? gwr o ba le yw? o ba wlad yr henyw?
Count-wheel, *s.* cyfrifrod, rhifrod, rhif-olwyn.
County, *s.* (*Ff. comté; Ll. comitatus*) swydd, sir, rhandir; iarllaeth; †iarll.
County of Cardigan—Ceredigion; swydd *neu* sir Aberteifi.
County palatine — breiniarllaeth, teyrniarllaeth, breinfa; sir freiniarllaidd, swydd orfreintiol, rhandir lysfreiniol.
Jurisdiction of a county—swyddogaeth, sirogaeth, rhandirogaeth.
County corporate—swydd gorfforedig, sir gorfforaidd.
Woodland county — gwlad goedog, gwlad goediog, gwlad goettirog, gwlad goedlanog.
County, *a.* sirol, swyddig; perthynol i sir *neu* swydd.
County court—llys sirol, llys swyddig, llys y sir; llys manddyledion, manddyledlys, llys manddyled.
County rates—trethi sirol, trethi swyddig, trethi y swydd.
County town—tref y sir, tref y swydd; mamdref sir, prif dref swydd, sirdref.
Coup, *s.* (Ff.) ergyd, tarawiad.
Coup de grace — y llaw ddiweddaf; yr ergyd gorphenol.
Couped, *a.* (*Ff. couper*) trychedig, trwch, trychedig ymaith, toredig ymaith.

Coupee, *s.* (*Ff. coupé*) trychddawns, trychlam, dawnslam, corelchwyf.

Couple, *s.* (Ff. ; Ll. *copula*) pâr, dau, (*f.* dwy), cwpwl, cwplws, deulun ; cadwyn.

Married couple—dau weddog, dau gydweddog, cwpl gweddog, pâr gweddog, deuwedd, cymheiriaid priodol, cymharion priodol.

New married couple—pâr newydd-weddog, cwpl newydd-weddog, dau newydd briodi.

Couple (for dogs)—cwpl, cwplws, cyfrae.

Couple-blade—llafn cwpl, camog cwpl.

Couple of horses—deulun o feirch, cwpl o feirch, dau geffyl.

By couples—bob yn ddau ; bob yn gwpl ; yn gyplau ; o fesur dau a dau ; yn barau.

Couple, *v.* cyssylltu, cyfrwymo, cydrwymo, cydgyssylltu; cyplu, cyplysu, paru, cymharu; cydio, ymgydio, ymgyplu, ymgymharu, ymgyplysu ; cydieuo, priodi, dyweddïo, uno ; cyssylltu yn nghyd ; uno yn nghyd ; gosod yn nghyd ; gosod bob yn ddau ; myned yn nghyd ; ymrain, ymreain, cyridio ; ymgofleidio, cydorwedd ; cadwyno, cydgadwyno, rhwymo.

To couple together in matrimony—priodi; cyssylltu yn nghyd mewn priodas.

Coupled, } cyssylltedig, cypledig,
Coupled together, } &c.; gweddog, cyplysog, cynglyn, yn nghwplws.

Couple-close, } *s.* pedrygebron, pedrygwpl,
Couple-close, } pedran cwpl.

Couplement, *s.* (o *couple*) undeb, uniant, uniad.

Couples, *s. pl.* cyplau, cwpl, cwpl ty.

Couplet, *s.* (Ff.) pennill ; dwyodl, dwyawdl, deufan, dwywers, dwyfraich, dwyfraich unodl, dwyadnod, deunodl, ban ; pâr o odlau ; † pâr.

Couplet rhyme—cydawdl, cydodl, cowyddawdl, cywyddodl.

Coupling, *s.* (o *couple*) cyssylltiad, cydiad, cypliad, cyplysiad ; cyfrae, cwplws : *pl.* cyplysau, cyfreion.

Couplings of a net—maglau rhwyd.

Coupling box—cyplysrol, cyplysgist.

Courage, *s.* (*Ff.* o *cœur*, Ll. *cor*) dewredd, dewrder, gwroldeb, glewder, glewdid, calondid, dewrdra, gwrolder, pybyrwch, pybyredd, glewineb, dewrineb, gwychder, gwrolfryd, gwrolfrydedd, mawrfrydedd, mawrfrydigrwydd, hyfder, hyfdra, gwronedd ; calon, cysur, ysbryd, hawnt, gyrdd-der.

Be of good courage—ymnertha, ymgryfha ; ymwrola yn lew ; cymmer galon ; cymmer gysur ; ymwrola ; na lyfrha.

To gain courage—cymmeryd calon ; ymwroli, adfywiogi.

To inspire one with courage—rhoi calon, ysbryd, yni, arial, *neu* gysur mewn un.

To abate one's courage, } digaloni, gwan-
To cool one's courage, } hau, tori awch,
To lessen one's courage, } llyfrhau, *neu* wangaloni un ; llaesu dwylaw un.

A wicked woman abateth the courage—gwraig ddrwg a wna galon isel.

He abated their courage—efe a'u darostyngodd hwynt.

Their courage was abated—hwy a lyfrhasant.

To lose courage—digaloni, llesghau, llyfrhau, gwangaloni, llaesu, ymlaesu, ymollwng ; edwi, edwino, dihoeni.

To take courage—cymmeryd calon ; cymmeryd cysur ; gwroli ; ymwroli, ymgysuro, ymloni, ymsirioli.

Be strong and of good courage—ymgryfhëwch ac ymnerthwch.

Noble courage—calon ddihafarch, mawrwriaeth.

Void of courage—annewr, anwrol, annewrwych, anwraidd, anfilwraidd, digalon, gwangalon, llwfr, llwrf, ofnog, llesgenaidd, llesg, anwych.

Want of courage—annewredd, annewrder, anwroldeb, annewrwychedd, anwychedd, anghalondid, gwangalondid, digalonrwydd, anghalonogrwydd, ofnogrwydd, llyfrder, &c.

Courageous, *a.* (o *courage*) dewr, gwrol, calonog, dewrwych, glew, gwych, (*f.* gwech), eofn, eon, drud, dihafarch, ysbrydlawn, gwychr, mawrfrydig, gwrolfryd, gwrolfrydig, hy, hyf, hyderus, anturus, anturiog, llyfasol, gwronaidd, gwrolwych, glewddrud, drudlew, dilwfr, cefnog, dilesg, mawrfrydus, agwrdd, ffysgiolin.

Be thou strong and courageous—ymgryfha ac ymwrola. [lew.

Be thou very courageous—ymwrola yn

He that is courageous among the mighty—y cryfaf ei galon o'r cedyrn (*Amos* ii. 16).

The lion is the most courageous of wild beasts—dewraf gwylltfil llew.

Courageousness, *s.* (o *courageous*) dewrder, dewredd, dewrdra, gwroldeb, gwrolder, gwriolaeth, gwroledd, gwrolfrydedd, glewder, glewdra, glewineb, dewrwychder, dewrwychedd, dewrineb, gwychder, calondid, calonogrwydd, mawrwriaeth, mawrfrydedd, mawrfrydigrwydd, gwronedd, gwroniaeth, ysbrydlonedd ; arial, yni, ysbryd, calon, hawnt.

Courant, *a.* (Ff.) rhedol, rhedegol, yn rhedeg, dywadnol, ar redeg.

Courant, } *s.* (*Ff. courante*) brysgorelw ; brys-
Couranto, } daplas ; brysalaw ; brysiadur.

Courap, *s.* math o grafu dwyreiniol.

Courb,† *v. n.* (*Ff. courber*) plygu, ymblygu, camu.

Courb,† *a.* cam, crwca.

Courbaril, *s.* math o sylwedd ystoraidd.

Courier, *s.* (*Ff. courrier*) brysgenad, brysiadur, brysnegesydd, negesydd ; cenad gyflymred, negesydd cyflymred, rhedwr, rhedegydd ; teithwas.

They dispatched a courier — anfonasant genad ar redeg.

Course, *s.* (Ff. ; Ll. *cursus*) gyrfa, rhedfa, ystod, hynt, rhedegfa, rhawd, rhediad ; helynt, hwyl, hwylfa, hytynt ; gyr, gyriad, talm ; ffordd, llwybr, trefn, cwrs, cylch, tro, chwyl, lle, cylch cyfnewid ; moes, arfer, defod ; rhes, cyfres ; haen, taen, tedd ; hâil, saig, huliad ; rhwysg, nwyth ; rhyd, rhedle, cerhynt, cerynt, gyrynt, rhedrawd, rhodre, rhysfa ; helfa, ymlidfa, hely ; chwylfa, cyrch, hwylbynt, trawd, ystrawd, ystre, llwyprad ; oed, hyd ; sias ; cwmpas, amgylchedd ; dyddgylch, cylchddydd ; gradd, rhestr, rheng, sefyllfa, dosbarth ; rheol, cyfraith ; rhed, ffawr, erdd ; rhodwedd ; ffrwd, rhill.

Course of life—buchedd, helynt, hynt, bucheddiad, ymarweddiad, buchwedd; ystod bywyd; hwyl a threfn bywyd; oes.

Through the whole course of life—trwy holl ystod bywyd; trwy gyffred einioes.

Course of nature—trefn natur, troell naturiaeth, ystod anian, chwyl noturiaeth, trefn anian, cwrs natur.

By course of nature—wrth drefn natur; yn ol trefn anian; wrth reol natur; wrth gwrs natur.

I must take another course of life—rhaid yw i mi gymmeryd buchedd arall *neu* newydd; rhaid yw i mi fyw mewn modd amgen; rhaid i mi droi dalen newydd *neu* arall.

You follow the same course still—yr ydych chwi yn rhodio *neu* yn dylyn yr un ffordd byth.

By course—ar gylch; bob yn ail; olynol; yn olynol; ar dro; yn ei dro; bob eilwers; bob yn eilwers; gwers tra gwers; ail tra ail.

Every one in his course—pob un yn ei gylch; pob un yn ei dro; bob yn ail; pob un yn ei le; pob un yn ei drefn ei hun.

The course of this world—helynt y byd hwn; cwrs y byd hwn.

The course of the world is this—moes y byd a'i arfer yw hyn; moes ac arfer y byd yw hyn.

Of course—o ganlyniad; wrth ganlyniad; yn naturiol; wrth natur; wrth ddefod; o hono ei hun; bid sicr; trwy ganlyniad; am hyny; o herwydd hyny; wrth gwrs; o angenrheidrwydd; o wir ganlyniad; ar hynt; wrth reswm.

Words of course—geiriau defodol; geiriau o ran defod ac arfer; geiriau gweigion.

The idle must of course fall into poverty—rhaid yw i'r segur o wir ganlyniad syrthio i dlodi.

A matter of course—peth o ganlyniad; peth o wir ganlyniad; peth o ddefod ac arfer.

Swift course—buanred, mythred, cyflymred, gwylltred.

We will take another course—ni a gymmerwn *neu* a brofwn ffordd arall *neu* amgen.

They thought it their best course to—hwy a'i tybiasant yn oreu iddynt i.

He knew not what course to take—nis gwyddai pa beth a wnai; nis gwyddai pa lwybr i'w gymmeryd.

Take your own course—gwnewch à fynoch; dylynwch eich ffordd eich hun; cymmerwch eich llwybr eich hunan; cymmerwch eich hynt.

He took a wise course—efe a wnaeth yn gall.

To take a course with one—galw un i gyfrif; cospi; talu y pwyth i; talu i; canlyn un mewn cyfraith.

By a long course of—o hir ddylyn; wrth hir ddylyn; o hir ganlyn; wrth hir ddylyn ar.

Course of the year—chwyl y flwyddyn; ystod y flwyddyn; cwrs y flwyddyn; blwyddyn o amser; oed *neu* hyd y flwyddyn; ysbaid blwyddyn; cyffred y flwyddyn.

Course of victuals—hail, saig; hail *neu* saig o fwyd; hul *neu* huliad o fwyd: *pl.* heilion o seigiau, heilion seigiau.

First course—cynsaig, hail gyntaf.

Second course—eilsaig, ail hail.

Last course—olsaig, saig olaf, hail olaf; ancwyn, ammoethynion, ammeuthynion, prif ancwyn.

The tenor and course of things—hwyl a cherddediad pethau; hwyl a cherhynt pethau.

Course of lectures—cyfres o ddarlithiau.

The course of Abia—dyddgylch Abia (*Luc* 1. 5).

In the course of the week—yn ystod yr wythnos; yn nghorff yr wythnos; yn hyd yr wythnos; yn oed yr wythnos.

With a straight course—yn uniongyrch; âg uniongyrch; yn uniawn; ar uniawn hynt *neu* hwylhynt.

The stars in their courses—y ser yn eu graddau; y ser yn eu llwybrau.

All the foundations of the earth are out of course—holl sylfaenau y ddaiar a symmudwyd o'u lle.

By course of nature—wrth reol natur; wrth drefn anian; wrth gwrs natur.

Course of the sun—chwylfa yr haul; chwyl yr haul; traul yr haul; llwybr yr haul; cwrs yr haul; trogylch yr haul; rhawd yr haul; cylch yr haul; rhedfa *neu* redegfa yr haul; rhodwedd yr haul.

Swift is the sun in his course, for he compasseth the heavens round about, and fetcheth his course again to his own place in one day—buan yw yr haul yn ei gwrs, canys efe a dry o amgylch y nef mewn un dydd, ac a red eilwaith i'w le ei hun (1 *Esd.* iv. 34).

Course of studies—myfyrgylch, efrydgylch, astudgylch, astudrawd; cylch o efrydion; ystod efrydion; trawd o astudion; talm o fyfyrion; cylch trefnus *neu* reolaidd o fyfyrdodau.

We are in a course of studies—yr ydym yn myned yn mlaen yn drefnus yn nghylch *neu* yn ystod dysgeidiaeth.

The course of water—cerhynt y dwr, hytynt dwfr, dyfrhynt, dyfrgerhynt, rhediad y dwr; llyr.

Water-course—dyfrffos, gwyffos; pyrnfarch; ystrym, ffrydle, gwythreden; ffrwd ddwfr.

Course of crops—trafn cnydau; olyniaeth cnydau.

In course of time—yn rhwysg amser; mewn ennyd, gwth, *neu* ysbaid o amser; yn ol talm *neu* lawer o ddyddiau; gwedi talm *neu* lawer o ddyddiau; yn ol talm o amser; yn ol dyddiau lawer; yn ol *neu* ar ol swrn o amser; yn mhen tro; yn mhen chwyl o amser; yn ngyrfa amser.

In course—yn rhes; olynol; ar gylch; yn ei dro; yn ei le; yn ei drefn.

In course of publication, } yn cael ei
In the course of publication, } gyhoeddi; yn awr yn dyfod allan; yn cael yn awr

ei gyhoeddi; yn cael ei gyhoeddi yn rhanau; yn ystod cyhoeddiad; yn nhrawd cyhoeddiad.

Course of exchange—trafn cyfnewid.

Evil course — gyrfa ddrwg, drygarfer, mallred; drygfuchedd.

Free course—rhwydd hynt, rhedfa rwydd, redfa rydd, ffordd rydd, ffordd rwydd, rhydd hynt, rhwyddred, rhwydded, rhwydd-deb, rhwyddineb, rhwyddrediad, rhwyddredfa.

To follow the course of the times—cydymffurfio â'r amser *neu* 'r amseroedd; ymwasgu â'r ddefod; dylyn chwyl yr amser *neu* yr amseroedd; troi gyda'r amseroedd; cydymagweddu â'r amseroedd.

Right course—gyrfa gywir, gyrfa uniawn, iawnred, unionred.

Orbicular course — rhodwedd, cylchred, cylchrawd, cylchdro, trogylch.

I have finished my course—gorphenais fy ngyrfa.

Course, *v.* hela, hely, ymlid, erlyn; gyru; hyntio, rhedeg, rhedu, rhedegfain; rhedeg yma a thraw; rhedeg i fyny ac i waered.

To course away with dogs—cŷno; hel â chwn.

Courser, *s.* (o *course*) rhedfarch, helfarch, rhedant, buanfarch, gyrfarch; march buan, mwth, cyflym, cyflymred, buanred, *neu* ysgafndroed; rhedegfarch, brysfarch, cloefarch, cleufarch, cadfarch; beliwr, helydd; †ymddadleuwr: *pl.* rhedfeirch, rhedaint.

Coursers, *s. pl.* (Ll. *cursores*) rhedegyddion, rhedyddion, rhedorion, rhedadar.

Courses, *s. pl.* (o *course*) misglwyf, mislifiant, mislif, teithi gwraig; prifhwyliau.

Coursey, *s.* rhan o warddrws rhwyflong.

Coursing, *s.* hely, hela, helwriaeth, heliad, helwaith, ymlid, ymlidfa.

Court, *s.* (S. *curt*; Ll. *curia*; Gw. *cuirt*) llys, breninllys, brenindy, breinllys, palas, teyrnllys, llys brenin, palas brenin, plas brenin; y llys; cyntedd, cynteddfa, cwrt, beili, talwrn, cadlas, rhwyl, clos, llanerch, cynhordy, hongl, buarth; neuadd.

King's court—llys y brenin, breninllys, teyrnllys, brenindy, breinllys.

The court—y llys; gosgordd brenin; gosgordd tywysog taleithiog.

Court of law—llys cyfraith, llys y gyfraith, llys cyfreithiol, cyfreithlys, rheithlys, eisteddfod llys, dadleudy, llys, gorsedd.

Court of justice—brawdlys, barnlys, llys cyfiawnder.

Supreme court—prifiys, penllys, gorsedd benbaladr, uchaflys.

Principal court—llys penaf, llys arbenig; llys penadur, llys beunyddiol; argyfreithlys.

Provincial court—taleithlys, llys taleithiol, llys talaeth.

Criminal court—troseddlys, llys troseddau.

Court of chancery—canghellys, canghellys, canghellorlys, llys y canghellydd; llys unionder.

Court of admiralty—llyngeslys, morlys.

Court of common pleas—deflys, llys dadleuon cyffredin=ail lys gwladol Prydain.

Court of queen's bench—llys penadur, y llys penadur, llys y benadures, y llys penadures, meinclys y penadur, meinclys y benadures.

Court of exchequer—cyllidlys, argedlys, trysorlys, ardrethlys.

Court of equity—llys uniondeb, llys unionder, llys cyfiawnder.

Court of conscience—llys cydwybod; manddyledlys.

Court of oyer and terminer—llys clyw a dosbarth; proflys, prawflys.

Court of common law—cyffredinlys, llys cyffredin; llys cyfraith gyffredin.

Court of record—coflys.

Record of court—cof llys.

Duchy court—duglys; llys dugiaeth Hirgaer.

Court-martial—cadreithlys, cadraith, cadlys, cadreithgor, llys milwraidd, llys cadraith.

Court-baron — baronlys, breyrlys, llys baron, llys brëyr, llys breyrol, llys maenor, llys baroniaeth.

Court-leet—pentreflys, llys pentrefol, llysfawr, llys cantref, cantreflys.

Ecclesiastical court—llys eglwysig, eglwyslys, glwyslys.

Court of arches—llys yr archau, archlys, areglwyslys.

Dean of the Arches—Deon yr Archau, Deon yr Archlys.

Prerogative court—breintlys, uchfreintlys, llys rhagorfraint.

Audience court—clybodlys, gwrandawle.

Court of peculiars—gwahanlys, llys gwahanfraint.

Consistory court, } llys yr esgob, llys
Bishop's court, } esgob, gorsedd esgob, llys esgobol; llys eglwysig.

Courts christian—llysoedd eglwysig, llysoedd cristionogol.

Spiritual court—llys eglwysig, llys esgob.

Court of bankruptcy—torgedlys, llys torgedaeth.

Insolvent debtors' court—llys methdal, llys methdalwyr.

County court — llys sirol, llys swyddig, llys y sir; manddyledlys, llys manddyledion, llys manddyled.

General court—llys cyffredinol.

Extraordinary court — llys dygynnull, gorsedd ddygynnull.

Augmentation court—mwyadlys.

Inns of court — rheithwesttai, rheithostlau, gwesttai y gyfraith, gwestlysoedd; rheithglasau.

Court of session—arseddlys; prifiys gwladol yr Alban.

Court of civil judicature—llys gwlad ac arglwydd; gorsedd gwlad ac arglwydd.

Contempt of court—tremygiad llys, tremyg llys, tormach, tremyg gwŷs.

Court of adjournment—llys ail goffa.

Base court — adlys, llysyn, llys dinod; llys heb gofiyfrau.

High court—uchel lys, llys goruchel, goruchel lys.

High court of parliament—uchel lys y senedd; goruchel lys y senedd.

Court-roll—cofiyfr llys, rhol llys, cof llys.

Tithing court—degtreflys.

In court—ger bron y llys; yn y llys.

In open court—mewn llys ar osteg; mewn llys agored.
Silence in court—gosteg ar y maes; gosteg yn y llys.
To keep silence in court—cadw *neu* gynnal gosteg ar y maes; gostegu.
Officers of the court—swyddogion y llys.
Court before a house—cwrt, clos, claws, beili, cyntedd, cynteddfa, rhag-gyntedd, talwrn; llanerch o flaen ty.
A little court—cynteddan.
Court-poet—bardd lys.
Court of the gentiles—cyntedd *neu* gynteddfa y cenedloedd.
Shrubs growing in the courts—manwydd yn tyfu yn y neuaddau (1 *Mac.* iv. 38).
Court holy water—addewidion teg hyrwydd heb gwblhad; addewidion teg hyrwydd heb feddwl am eu cywiro; truth, ymoleuthiad.
A friend in court is better than a penny in purse—gwell câr mewn llys nag aur ar fys.

Court, *s.* moes; truthfoes, truthbarch; ymerlyniad am fodd, ffafr, *neu* nawdd; truth, gweniaith; mwynder, cyflysdod, mwyniaith, moesgarwch, moeswychedd, mynogaeth; truthbarch.

Court, *v.* gwenieitho, truthio, godruthio, cynffonloni, denu; denu â geiriau teg; caru, ymerlyn am; ymganlyn am; ymganlyn â; ceisio; erfyn, erfynio, erfynied, crefu, dymuno, adolygu, *neu* ddeisyfu ar; arddeisyf, argeisio, deisyf; chwareu'r gwr llys.
To court a lady—caru merch; ymerlyn am gariad merch; ymerlyn am ewyllys da merch; ymganlyn â rhian.
To court favour—cynffonloni.

Court-bred, *a.* llys-foesog, llys-foesgar, llysddygiadus; gwedi ei ddwyn i fyny yn y llys.

Court-breeding, *s.* llys-foes, llys-foesau, llysfoesgarwch, addysg llys, moes llys, moesau llys.

Court-bubble, *s.* ffrilbeth llys, bwrlwm llys.

Court-chaplain, *s.* caplan llys, capelwr llys, llys-gaplan, offeiriad llys.

Court-cupboard, *s.* hen gilfwrdd, llysgwpbwrdd.

Court-day, *s.* dydd llys, dydd hawl, llysddydd, dïwrnod llys; dydd coll a chaffael; dydd ar yr hwn y cynnelir cyfraith.
Non-court-days—dyddiau dyddon.

Court-dress, *s.* llys-wisg, llys-gwisgoedd, gwisg llys, gwisgoedd llys, gwisg gynnwyre.

Court-dresser, *s.* truthiwr, gwenieithwr, llysdruthiwr.

Courteous, *a.* (o *court*; Ff. *courtois*) hyfoes, moeswych, mwynfoes, moesog, moesgar, moeswymp, dillynfoes, cyflys, moddgar, moddus, dygiadus, moesweddol, llysaidd, llysoi, cyflysol, boneddigaidd, boneddigfoes, hynaws, mwyn, cyweithasol, cyweithas, syber, syberw, mwynaidd, mynog, rhywiog, mwynlan, rhywiogaidd, mynediw, cymmwynasgar, tirion, hyfwyn, rhadlawn; ceinwych, gorwych, dillynaidd, telediw, gwych.
A courteous one—mynogan; un hyfoes, &c.
A courteous female—mynogen, mynoges; benyw hyfoes, &c.
A courteous man—mynogwr, gwr mynog; gwr hyfoes *neu* fwynfoes, &c.

Courteously fair — mwynlan, mwyndeg, mynoglan.

Courteousness, *s.* hyfoesedd, moeswychedd, moesogrwydd, moesgarwch; mwynfoesedd, moeswympedd, mynogrwydd, cyflysdod, mynogaeth, dillynwychedd; tiriondeb, hynawsedd, mwynder, mwyneidd-dra, mwynedd, mwyneiddwch, moddusrwydd, cyweithas, llysolrwydd, &c.

Courter, *s.* (o *court*) carwr, cariad, gwr caru, mab caru, cariwr, cariadfab.
A general courter — carwr y merched; Harri caru cant; carwr cyffredinol.

Courtezan, } *s.* (o *court*; Ff. *courtisane*) puten,
Courtesan, } putan, putain, cyffoden, llysbuten, putan llys.

Courtezan,† *s.* gwr *neu* wraig llys.

Courtesy, *s.* (o *court*; Ff. *courtoisie*; Ysp. ac It. *cortesia*) hyfoesedd, moesogrwydd, moesgarwch, cyweithas, mynogaeth, cyflysdod, cyflysrwydd, mynogiant, mynogi, mwynfoes, moeswychedd, moes, moddgarwch, moddusrwydd, syberwyd, dygiadusrwydd, boneddigrwydd, hynawsedd, mwynder, hyfwynder, mwynedd, cyweithasrwydd, mwyneiddwch, rhywiogrwydd, caredigrwydd, rhadlonedd, addfwynder, mwyneidd-dra, llysolrwydd; tiriondeb, tirionwch, tirioni, cyweithaswch; cymmwynas, mwynas, lles, tro da, twrn da, llad, ced, ffafr; ymblyg, carsawd, ymostyngiad, plygiad glin glinblygiad, glin-ostyngiad.
Courtesy of England—mynogaeth Lloegr, hynawsedd Lloegr=bod i'r gwr fwynhau tir ei wraig, os bu iddo blentyn o honi, er ei marw hi a'i phlentyn.
To make a courtesy—plygu glin, camu glin, gwneuthur mynogaeth, gwneyd mynogiant, gwneuthur carsawd, gwneuthur moes; ymblygu o barch.
You have done me many great courtesies—gwnaethoch imi aml a mawrion gymmwynasau; gwnaethoch imi aml fwynasau mawrion.

Courtesy, *v. n.* plygu glin, camu glin, glinblygu, glin-ostwng, carsodi; gwneuthur moes, mynogaeth, *neu* fynogiant; gwneuthur carsawd.

Court-fashion, *s.* dullwedd llys, llyswedd.

Court-hand, *s.* llys-ysgrifen, llys-ysgriflaw, llyslaw, ysgrifen llys.

Courtesy,† *v. a.* trin yn hynaws.

Court-favour, *s.* mwynas llys, llys-fwynas, ffafr llys.

Court-house, *s.* llysdy, dadleudy.

Courtier, *s.* (o *court*) gwr llys, llyswr; truthiwr, ceisiwr bodd.

Courtiery,† *s.* moesau llys.

Court-lady, *s.* gwraig llys, llys-wraig, rhian llys.

Court-leet, *s.* pentrefllys, llys pentrefol, llysfawr, cantrefllys, llys cantref.

Court-like, *a.*=*Courtly.*

Courtliness, *s.* (o *courtly*) moesgarwch, moesogrwydd, moeswychedd, cyflysdod, cyflysrwydd, llysolrwydd, llysoldeb, llyseiddrwydd, moeswychedd, moeswychder, moeswympedd, hyfoesedd, mwynfoes, mwynfoesedd, hynawsedd, mwynder, cyweithasrwydd, urddasfwynder, dillynder, moes, dillynwychedd, boneddigrwydd, llysfoesau, syberwyd.

Courtling, *s.* gwr llys, ymlynwr llys, llysymlyn.

Courtly, } *a.* (*court* a *like*) llysaidd, llysol,
Court-like, } cyflys, cyflysaidd; moeswych, hyfoes, moesog, moeswymp, dillynwych, moesgar, moesgarol, mynog, mwynfoes, tirionfoes, dillynfoes, moesweddol, moddus, moddgar; hynaws, tirion, mwyn, hyfwyn, carusaidd, boneddigaidd, cyweithasol, mwynlan, destlus, dillyn, hoew, telediw, gorwych, harddwych, gwych; boneddigaidd ei ymadrodd a'i ymddygiad; da ei foes; llawn moesau da; tebyg ei *neu* yn ei foes i wr llys; gwenieithus, gwenieithol, truthiol.

Court-martial, *pl.* Courts-martial, *s.* cadreithlys, cadraith, cadlys, cadreithgor, llys cad, llys milwraidd, llys milwrol, llys cadraith.

Court-plaster, *s.* llysblastr.

Courtship, *s.* (o *court*) carwriaeth, caru; ymgaru; cais; ymerlyniad am fodd *neu* garedigrwydd;† moesgarwch.

Cousin, *s.* (Ff.) cefnder; câr, (*f.* cares), cydgar, undras; câr o waed.

First cousin, } cefnder, cefnderw: *pl.*
Cousin german, } cefndyr, cefndyrw, cefnderoedd, cefnderon, cefnderwedd, cefnderwydd, cefnderwyr: *f.* cyfnither, cyfnitherw: *pl.* cyfnitheroedd, cyfnithcron, cyfnitheredd.

Second cousin—cyfyrder, cyfyrderw: *pl.* cyfyrdyr, cyfyrderon, cyfyrdyrw.

Cater cousin, } perthynas o bell; câr o
Quater cousin, } bell; câr pell.

Cousin,† *a.* cyfathrachol.

Cousinet, *s.* (Ff.) toplech, corynfaen.

Couteau, *s.* (Ff.) anglas, bidog, byrgledd.

Cove, *s.* (S. *cof*, *cofe*) cilfach, crigyll, ebach, cil, cilfa; gwasgodfa, gwasgod, cysgodfa; ceuaddurn, ceugant.

Cove, *v. a.* cilfachu, ebachu.

Covenable,† *a.* (hen Ff.) addas, priodol.

Covenant, *s.* (Ff. *convenant*; o'r Ll. *convenio*) cyfammod, ammod, cynghrair, cytundeb, dygymmod; ammodeb; cofen.

Covenant of works—cyfammod gweithredoedd.

Abrahamic covenant—cyfammod Abrahamig, cyfammod Abrahamaidd; y cyfammod âg Abraham.

Covenant of grace—cyfammod rhad, cyfammod gras.

Covenant-breaker—torwr ammod, torwr cyfammod. [cyflog.

Covenant servant—gwas ammod; gwas

Under covenant—tân ammod, tân gofen.

Breach of covenant—tor ammod, toriad cyfammod.

To stick to one's covenant—sefyll wrth ei air *neu* ei ammod; bod yn ffyddlawn i'w addewid.

To enter into covenant, } = *Covenant, v.*
To make a covenant, }

Made by covenant—ammodedig; â wnaed dân ammod; â gytunwyd arno; ammodol, cyfammodol, cynghreiriol.

Covenant, *v.* cyfammodi, ammodi, cytuno, cynghreirio; ymgyfammodi; gwneuthur ammod *neu* gyfammod; cytuno ar ammodau; rhoi *neu* addaw dân ammod.

They covenanted with him for thirty pieces of silver—hwy a osodasant iddo ddeg ar ugain o arian (*Mat.* xxvi. 15).

Covenantee, *s.* cyfammodai, ammodai; yr un y gwneir ammod iddo.

Covenanter, *s.* cyfammodwr, cyfammodydd, ammodwr, cytunwr.

Covenanters—Cyfammodiaid, Cyfammodwyr = y rhai a ymgyfammodasant yn yr Alban yn erbyn y blaid uchel-eglwysig, tua chanol y 17fed canrif.

Covenous, } *a.* (o *covin*) twyllodrus, cyttwyll-
Covinous, } odrus, cyttwyllol, hocedus, ffals.

Cover, *v. a.* (Ff. *couvrir*; Norm. *coverer*) toi, gorchuddio, cuddio, gorthöi, amlenu, cysgodi, hulio, gwisgo, tuddo, enhuddo, tuddedu, taenu ar, lledu ar, gorlenu; celu, celcu, celcio, dirgelu, cynghelu, celiadu; clorio, fforelu, caesu, caeadu, caesio; gordaenu, caenu, caenenu; rhoddi arno *neu* am dano; cysgodi dros; cadw yn gyfrinachol; marchogaeth, neidio, neidio ar, rhidio, cyridio, cyfebru, llamu, rhoi naid i; rhoi dân dudded, dân do, mewn tudded, *neu* mewn amlen; gwasgodi, amddiffyn, noddi; deor, deori; eistedd ar; ateb i; bod yn gyfartal i; talu, cleirio; cynnwys; ffugio; bwrw hug ar; dwyn cwmwl ar.

To cover a table—hulio bwrdd.

To cover the fire—huddo y tân; dyhuddo y tân; enhuddo y tân.

To cover a book—clorio, fforelu, caesu, caesio, caesadu, *neu* gaeadu llyfr; rhwymo llyfr.

To cover a letter—tuddedu llythyr; amlenu llythyr; rhoi llythyr dân dudded; rhoi llythyr mewn tudded *neu* amlen.

To cover one's self, } ymorchuddio; gwisgo
To be covered, } het; gwisgo am ei ben.

Be covered—gwisgwch eich het.

To be covered in the presence of the king—ymorchuddio yn ngŵydd y brenin.

To cover with a lid—rhoi clawr, cauad, caead, *neu* werchyr ar; cau â chlawr, â chauad, *neu* â gwerchyr; clorio, gwerchyrio.

To cover all about, } amdöi, amorchudd-
To cover all around, } io, amguddio, amwisgo, amhulio, amddilladu, amhuddo, amgysgodi.

To cover before—blaenguddio, rhagguddio, blaendöi, rhagorchuddio.

To cover the feet—gwasanaethu ei gorff; esmwythäu ei gorff; cuddio ei draed.

To cover with boards—byrddio, estyllodi, astellodi, bordio, byrddu; toi âg estyll.

To cover with shade—cysgodi, gwasgodi.

To cover over—gorchuddio, gorthöi; enhuddo, cuddio; gwisgo â; rhoi, gosod, dodi, *neu* fwrw gorchudd ar *neu* dros.

The receipts do not cover the expenses—nid yw y derbynion yn cyfateb *neu* yn gyfartal i'r draul; nid yw y derbynion yn talu y gost; nid yw yn talu ei ffordd; ni thâl y derbynion mo'r draul.

His sin had covered him with shame—toasai ei bechod ef â chywilydd.

They shall cover themselves—ymddilladant, ymorchuddiant.

Cover, *s.* clawr, cauad, caead, to, llên, gorchudd, tudded, amlen, gortho, hudded, enhudded, tuddedyn, tuell, enhudden, fforel, gwerchyr, hulier, hul, hulen, arhul, huddad, gwisg, caes, crud, croeg, caen, caenen, huliad, cloryn, achre, gwarchen, gwarch, golof, tais, tawr, pall; diddos, diddoarwydd, di-

ddosfa, diddosgudd, amddiffynfa, noddfa, gwasgodfa, achwre; gwarthan, cudd, hudd, cel, celc, argel, encil, celfa, ymguddfa, cilfa; esgus, enw, rhith, lliw; cudd ac amddiffyn.

Under cover—dàn do; dàn gudd; yn nghudd; mewn ymgudd fa; mewn amlen, &c.; cowyllog, cowylledig.

We are under cover—yr ydym dàn do; yr ydym mewn diddos *neu* ddiddosfa.

Cover of a house—*to.*

Cover of a book — amlen llyfr; clawr llyfr.

A handsome cover for his imperfections—esgus teg am ei anmherffeithion; gorchudd teg i'w *neu* dros ei anmherffeithion.

While the army was under cover—tra yr oedd y llu mewn amddiffynfa.

To take off a cover—dadgaeadu, dadorchuddio, dadlenu, &c.

Coverchief,† *s.* (*cover* a *chief*; Ff. *couvrechef*) gorchudd pen, penwisg.

Covercle, *s.* (Ff. *couvercle*) cloryn, hulier, clawr bychan, clawr, gwerchyr.

Covered, *p. p.* (o *cover*) töedig, gorchuddiedig, &c.; dàn do, dàn orchudd, dàn enhudded, dàn amlen; yn nghudd, yn nghel; diddos; hudd, cudd.

Covered all over with armour—ollarfog, cwbl-arfog, amarfog; arfog oll drosto.

Covered with feathers—pluog, plufog.

Covered with gold—eurdo, eurdöedig, eurgaen, eurgrwydr, eurdde.

Gold-covered corselet — brondor eurdo, bronfoll eurdde, llurig eurdo, llurig eurdde.

Six covered waggons—chwech o feni diddos (*Num.* vii. 3).

Thou art covered with fatness—pwyntiaist (*Deut.* xxxii. 15).

Covered-way, } *s.* rhodfa gudd, rhodfa orthö-
Covert-way, } edig, ffordd gudd, amgudd-rawd, diddosrawd, celffordd.

Coverer, *s.* gorchuddiwr, töydd, cuddiwr, huliwr, hulior, achludwr, &c.

Covering, *s.* (o *cover*) gorchudd, gwisg, tudded, to, amlen, arlen, amwisg, hul, arhul, enhudded, gortho, llèn, tuell, tuddedyn, enhudden, telyw, caen, caenen, hug; dillad, achre, amde, amdawd, archre, archro, achris, hws, pilyn; clawr, hulier, gwerchyr, cauad, caead; croeg, gol, caes; toad, gorchuddiad, tuddediad, &c.

The covering of a bed—gortho gwely; dillad gwely.

Verdant covering—glasgaen, irgaen, irwisg, tudded werdd.

Summer covering — telyw haf, hafwisg, gwisg haf, &c.

Head covering—diddosben.

Covering for the tabernacle—pabell-len (*Ecs.* xxvi. 7).

Coverlet, *s.* (*cover*, a Ff. *lit*, gwely) huling, torsed, teisban, cwrlid, cadwy, brycan, tudded, pallen.

Coversed Sine, *s.* cydwrthddiblin.

Cover-shame, *s.* gwarthgudd, gwarthguddiad; gorchudd dros gywilydd.

Cover-slut, *s.* bryntgudd, budrgudded, budreddgudd, cudd budredd.

Covert, *a.* (Ff. *couvert*) cudd, cuddiedig, cel, dirgel, argel, celedig, dirgeledig, dirgelaidd, cuddiadan, gorchuddiedig; dàn gudd, dàn gel, dàn orchudd; celgar, cyfrinachol, anghyhoedd; lledrithiog, lledrithiol, ffals, twyllodrus, cipgar, cyfrwys, dichellus; cysgodog, cysgodol, gwasgodol, gwasgodog, diddos, hudd; dàn awdurdod, dàn nawdd.

Feme-covert, } gwraig briod, gwraig
Femme-couvert, } briodol, gwraig ysbwys; gwraig gowyllog; gwraig dàn gowyll; gwraig dàn nawdd ac awdurdod gwr; gwraig wrnawdd.

Covert, *s.* cuddfa, ymguddfa, cuddle, llechfa, llechfod, llechfan, encilfan, celfa, dirgelfa, cudded, cuddigl, cufigl, llech, cil; gwasgodfa, diddosfa, diddos, diddosfan, diddosgudd, cysgodfa, achlud, amddiffynfa, diffynfa, diffyniad, noddfa, ysgorfa, gwarthan, cysgodle; prysg, prys, prysglwyn, brycell, cysgodlwyn, gwasgodlwyn, brycini, gwyddelwern, prysgle, clŷn, cuddlwyn, coedlwyn, gwasgodwydd; gŏerfa, hudd, cyhudd; cinmael; gorchudd, cudd; ffau.

By the covert of the hill—ar hyd ystlys y mynydd (1 *Sam.* xxv. 20).

Covertly, *ad.* yn gudd, &c.; tàn law, dàn llaw, tàn gudd, dàn gel.

Covertness, *s.* dirgelrwydd, dirgeledd, celgarwch, celedigrwydd.

Coverts, *s. pl.* teisblu, hulbluf, tuddedion, adenblu, pluf adenydd.

Lesser coverts—y teisblu lleiaf, y tuddedion lleiaf=y plu mân ar fon yr adenydd.

Greater coverts—y teisblu mwyaf, y tuddedion mwyaf=y plu ar y pinesgyll neu y pinbluf.

Under coverts—isduddedion, teisbluf isaf =y plu o dàn yr adenydd.

Coverture, *s.* (Ff. *couverture*) gorchudd, tudded; cysgod, cysgodfa, gwasgodfa; diddos, diddosfa, diddosgudd; achles, amddiffyn, nawdd, diffyniad; cowyll; bod dàn orchudd, nawdd, *neu* awdurdod gwr; cyfiwr *neu* ansawdd gwraig briod; gwrnawdd, gwrnoddiad.

Covet, *v.* (Ff. *convoiter*) chwennychu, chwennych, trachwennychu, trachwennych, cybyddu, awyddu, chwantu, trachwantu, deisyfu, deisyf, hiraethu am, sychedu am, hiraethu, rhybucho, rhybuchu, pucho, dybucho; bod yn awyddus; bod yn chwannog i; canlyn, erlyn, ymgais â; ymegnïo i gael *neu* gyrhaedd.

All covet, all lose — yn ceisio 'r cyrn, colli'r clustiau.

Covet earnestly the best gifts—deisyfwch y doniau goreu (1 *Cor.* xii. 31).

He coveteth greedily—y mae yn fawr ei awydd (*Diar.* xxi. 26).

Covetable, *a.* (o *covet*) chwennychadwy, dymunadwy; i'w chwennych.

Coveter, *s.* chwennychwr, trachwantwr, &c.

Coveting, *s.* chwennychiad, &c.; chwant, trachwant, drygchwant, gorchwant, gormodchwant, awydd, gorawydd.

Covetise,† *s.* cybydd-dod.

Covetous, *a.* (Ff. *convoiteux*) trachwantus, cybyddus, cybyddaidd, cybyddlyd, dirchwantol, gorchwantol, bydolfryd, bydolfrydig; crintach, cyrrith, llawgaead, crin, anhael, crinwasaidd, cynnil, anghawr; awyddus, chwannog, awyddgar, trachwennychol; ariangar; barus.

Covetous of money—ariangar; chwannog i arian.
Covetous of wisdom—chwannog i ddoethineb; awyddus i ddoethineb.
Covetous of learning—awyddus i ddysg.
A covetous person — cybydd, gwr crin, crinwas, crintachwr, mab y crinwas, bydolddyn, bydgarwr, codog, dyn afrull: *pl.* bydolion, cybyddion, cotiaid.
A covetous wretch — cybydd anghawr, crinwas, mab y crinwas, bawai, cerlyn.

Covetousness, *s.* cybydd-dod, cybyddiaeth, cybydd-dra; ariangarwch, bydgarwch, bydolrwydd, bydolfrydedd, cyfoethgarwch, goludgarwch; trachwant, dirchwant, gorchwant, awydd; argynnildeb, trachynnildeb, crinder, anghawrdeb, crintachrwydd, bawciddrwydd; awydd *neu* chwannogrwydd i arian *neu* gyfoeth.
To serve the ends of covetousness—porthi cybydd-dod.
Without covetousness — yn ddïariangar (*Heb.* xiii. 5).

Covey, *s.* (Ff. *couvée*) nythaid, nythlwyth, nythal, deoraid; haid, tŵr, llu, cyfor; haid o adar; cynnulliad, cymdaith; llawnrif.
A covey of partridges—nythaid, haid, tŵr, llu, *neu* gyfor o betrus.

Covin, *s.* (Ff. *couvine*) cyttwyll, cydhoced, cystwyll, cyttwylliad; twyll, hoced, somiant, twyllofaint, twyll-ammod; cytundeb i dwyllo.

Coving, *s.* (o *cove*) mydwrn, myddwrn, ysgwyddiad bwaog.
Covings of a fire-place—ochrau y pentan; cornelau y tân.

Covinous, *a.* (o *covin*) cyttwyllol, cydhocedus, cyttwyllodrus, twyllodrus, hocedus, ffals, twyllgar.

Cow, *s.* (S. *cu*; Al. *kuh*; Is. a D. *koe*) buwch, bu, buch; henfon: *pl.* buchod, buwchod, gwartheg, buch, buw, biw.
Barren cow—buwch hesp, buwch goeg, buwch ryderig.
Cow with calf—buwch gyflo.
Milch cow — buwch flith: *pl.* buchod blithion, gwartheg blithion, da blithion, da blithog, buwchod blithog, buchod blith.
Hard cow—buwch gronedig.
Farrow cow—myswynog, buswynog.
Young cow, } buwchan, buchan, buchig,
Little cow, } anneirfuwch, treisiadfuwch; buwch ieuanc *neu* fechan.
Cow in her first calving—cynflith, buwch cynflith; buwch y llo cyntaf.
Cow near calving—buwch ddywydd; buwch yn dywyddu.
Tufty cow—buwch wasod, buwch derfenydd.
Cow that has a calf—buwch mam llo; buwch fam llo.
Cow's conception of a fœtus—cyflodawd.
Having many cows, } gwarthegog, buch-
Abounding with cows, } og.
Lady cow—y fuwch goch gota; y fuwch goch.
Sea-cow—morfuwch, morfuch, buwch fôr.
Cow (in the bardic theology) — henfon, mon.
Curst cows have short horns—rhoes Duw gorn byr i'r eidion dyrys; da gwaith Duw, rhoi cyrn byrion i'r fuwch à hwyl-

io; gwnaeth Duw bob peth yn drefnus, rhoes gorn byr i'r eidion dyrys.
To a cow's thumb—at drwch y blewyn.

Cow, *s.* (o *cowl*) cwcwll, cwfl, cwcwll sawell, top simne.

Cow, *v. a.* (o *coward*? Isl. *kufwa, kuga*?) digaloni, gwangaloni, tori ysbryd, tori calon, tori awch, hurtio, llyfrhau; cystwyo; brawychu.

Coward, *s.* (Ff. *couard*) anwr, annewryn, llyrfwas, cilgi, adwr; dyn llwfr, llwrf, digalon, gwangalon, annewr, anŵraidd, dïysbryd, ofnus, ofnog, anhy, llegach, llegus, *neu* lyferthin; cachadur, cachgi, cachan, cachad, ofnog, llegach, llibinwas, llwfr, bawyn.

Coward, } *a.* annewr, anŵraidd, llwfr, llwrf,
Cowardly, } digalon, gwangalon, llyrfaidd, dïysbryd, ofnog, ofnus, anwrol, aulew, llipa, llibin, llyferthin, llegus, llegach, gwael, distadl, isel, bawaidd, brwnt, cachgïaidd, cilgïaidd.

Coward, } *v. a.* digaloni, llyfrhau, hurtio,
Cowardize, } anwroli, gwangaloni; gwneuthur yn ofnog.

Cowardice, } *s.* (Ff. *couardise*) anwredd, an-
Cowardliness, } newredd, llyrfder, llyrfdeb, llyrfdra, llyfrder, llyfrdra, llyfrdeb, llyfredd, llyrfedd, llyfrineb, ofnogrwydd, ofnusrwydd, anghalondid, anlewdid, anwroldeb, adwriaeth, cilgïedd, cilgïeiddrwydd, cachgïeiddrwydd, cachgïedd, llyrfwasedd, aneofnder, llibindod, aneondra.

Cowardlike, *a.* anŵraidd, llyrfaidd, bawaidd, annewraidd; fel llyrfwas.

Cowardly, *ad.* yn annewr, yn anŵraidd, &c.

Cowardous,† *a.*=*Coward, Cowardly.*

Cowardship,† *s.*=*Cowardice, Cowardliness.*

Cow-bane, *s.* (*cow* a *bane*) buladd, bumustl; cegyr mawr, cegid y dwr.

Cow-berry, *s.* lluswydden y geifr; *pl.* lluswydd y geifr.

Cow-bunting, } *s.* bras y buchod=math ar
Cattle-bunting, } aderyn Americaidd.

Cowdie-pine, } *s.* math o binwydd perthynol i
Cowrie-pine, } Sealand Newydd.

Cow-dung, *s.* tom gwartheg, tail gwartheg, biswal gwartheg, biswail gwartheg, budail, beudnail.

Dried cow-dung, } gleiad, gleiaden: *pl.*
Cow-blake, } gleiaid.

Cower, *v. n.* (C. *cwrian*; Al. *kauern*) cwrian, cyrcydu, crycydu, yswatio; bod yn ei gwrwm; eistedd ar y sodlau *neu* ar y fferau.
She cowereth (in falconry)—y mae yn gwrthgodi.

Cower,† *v. a.* coleddu yn ofalus.

Cow-fetter, *s.* burwy.

Cow-grass, *s.* meillion gwyrgam, maill gwyrgam, buchwellt, buchlaswellt.

Cowhage, } *s.* (yn y Bengalaeg, *al cwshi*) ym-
Cowage, } graflys, coslys, ysbinffa, colffa=
Cowitch, } math o blanigyn plisgrawnol à
Couhage, } dyf mewn hinsoddau cynhes.

Cow-herd, *s.* bugail gwartheg, heusor gwartheg; porthwr, buborthwr, bugail, heusor, buchwr, budywr, beudywr.

Cow-house, *s.* beudy, budy, cleity, buchdy.

Cowish, *a.* (o *cow*) llyrfaidd, anŵraidd, anwrol, annewraidd, ofnog, ofnus, gwangalon, cachgïaidd.

Cow-keeper, *s.* gwarthegydd, gwarthegwr, bugeidwad.

Cowl, *s.* (*S. cugle, cugele;* Ll. *cucullus*) cwcwll, cwfl, hwf, penwisg mynach; mit, ystondir, ystondart; cwfl, cwcwll, *neu* dop sawell.
Bard's cowl—barddgwcwll.
Cowled, *a.* (o *cowl*) cycyllog, cwflog, cwfledig, hwfog.
Cowled-leaved—cycyll-ddeiliog.
Cow-leech, *s.* buchfeddyg, biwfeddyg, bufeddyg, meddyg gwartheg.
Cow-leeching, *s.* buchfeddygiaeth, bufeddyginiaeth, meddygiaeth gwartheg.
Cow-lick, *s.* llyfgudyn, trogudyn, crychlofn, cudyn crych.
Cowlike, *a.* buwchaidd, buchaidd; fel buwch.
Cowl-staff, *s.* trosol, gwif, trosol ystondir.
Coworker, *s.* (*co* neu *con* a *worker*) cydweithydd, cydweithiwr, cydweithredydd.
Cow-parsley, *s.* gorthyfail, cegiden fenyw.
Rough cow-parsley—gorthyfail garw.
Cow-parsnep, *s.* efwr, efyrllys, cron, moronen y meirch.
Cow-pen, *s.* buches, ffald buchod, cut gwartheg.
Cow-plant, *s.* buchlys, buwchlys.
Cow-pox, *s.* bufrech, biwfrech, brech buchod, brech y fuwch, buchfrech.
Cow-quakes, *s. pl.* crydwellt, eigryn, gwenith yr ysgyfarnog.
Cowry, *s.* cragen Fair.
Cowslip, } *s.* symylen, symwl, tewbanog fech-
Cow's-lip, } an, briallu Mair sawyrus, briallu Mair sawrus, dagrau Mair, llysiau y parlys; briallu, (*sing.* briallen).
Great cowslip, } briallu Mair diswr.
Ox-lip, }
Cow's-lungwort, *s.* buchysgyfeintlys, bubanog.
Cow's-stone, *s.* buchfaen, buwchfaen.
Cow-tree, *s.* buchwydden, buwydden, llaethwydden: *pl.* buchwydd.
Cow-weed, *s.* buchwyn, math ar orthyfail.
Cow-wheat, *s.* biwlith, bulith, gliniogai.
Crested cow-wheat—gliniogai cribog, bulith cribog.
Common yellow cow-wheat — gliniogai melyn, biwlith melyn.
Wood cow-wheat—gliniogai y coed, biwlith y coed.
Cow-yard, *s.* buches, buarth, buchas.
Coxcomb, *s.* (*cock's comb*) coegyn, ysgoegyn, coegwr, ysgogyn, dyn coegfalch, mursyn, mursen o ddyn, pertyn, pefryn, gwas dillad, mursenwr; crib ceiliog, crib y ceiliog; cribell; coryn, caran.
Coxcombly,† *a.* coegynaidd.
Coxcombry, *s.* coegyndod, ysgoegyndod, coegwriaeth, coegyniaeth, coegni, coegfalchedd, coegedd, coegwychedd, coegwychder.
Coxcomical, *a.* coegynaidd, ysgoegynaidd, coegaidd, coeg, coegfalch, mursynaidd, pefrynaidd, rhyddillyn, ucheldybus, ysgoeg.
Coy, *a.* (Ff. *coi, coy*) osgoilyd; mursenaidd, mursenllyd, yswil, goryswil, gŵyl, gwylaidd, cynwyl, cywilyddgar; gwagelog, tawedog, dystaw, ymgelgar; ansiaradus; yn cadw draw; à gymmer arni fod yn ŵyl dros ben; syml, gweddaidd.
A coy lass — mursen; merch ysgoilyd, llances fursenaidd.
Coy, *v. n.* mursenu, ysgoegi; bod yn osgoilyd, mursenaidd, *neu* fursenllyd, &c.; chwaren y fursen; cadw draw; cadw yn mhell; gwneuthur yn anhawdd; llyfnhau.
Coyish, *a.* lledfursenaidd, gefursenllyd, lled ysgoilyd.
Coyness, *s.* (o *coy*) mursendod, osgoilydrwydd, murseneiddrwydd; tawedogrwydd, gochelgarwch, ymgelgarwch, gochelrwydd; yswildod, gorwyledd, gwyldra; tuedd i ymgadw draw.
Coystrel, *s.*=*Castrel, Casteril, Kestrel.*
Coz, *s.* coc=bathon copr bychan, ya Persia.
Cozen, *v. a.* (Llyd. *couchicin, couchenal*) twyllo, hocedu, hudo, somi, coegio, camgolledu; twyll-ddenu, cyfrwys-ddenu.
Cozenage, *s.* (o *cozen*) twyll, hoced, dichell, hud, ystryw, chwired, som, somiant, twyllofaint; cast; cyfrwysder, cyfrwysdra, cyfrwyswaith.
Cozener, *s.* twyllwr, twyllydd, hocedwr, hocedydd, dichellwr, hudwr, castiwr.
An old cozener—hen gadnaw; hen lwynog; hen ddyn cyfrwysddrwg dichellgar.
Cozy, *a.* (?) cysurus; clyd *neu* gynhes ei sefyllfa.
Crab, *s.* (S. *crabba;* Al. *krabbe;* Gr. *carabos;* Ll. *carabus*) cranc, morgranc, cranc môr, crafanc; ceimwch coch; afal sur, surafal, corafal, cogwrn, grobosyn, (*pl.* grobos), afal sur bach; surafalwydden, afallen sur, surafallen, corafallen; cambill, dyrwynydd, rhwyniadyr; monyn, (*f.* mones, monen), soryn, sarigyn, gwrechyn, drengyn, dyn blwng, sorisad.
Crab, } y Cranc, arwydd y Cranc;
Cancer, } Alban Hefin.
Crab, *a.* sarig, sur, blwng, garw, gerwin, sorig, swr.
Crab-apple, *s.* afal sur, surafal, cogwrn, grobosyn, corafal, afal sur bach.
Crab-apple-tree, } afallen sur, surafallen,
Crab-tree, } corafallen, pren grobos, surafalwydden, afallen wyllt, pren afal sur.
Crabbed, *a.* (o *crab*) sarig, sur, sorig, anfoddog, croes, blwng, (*f.* blong), drygnawsus, drygnwydus, dryganwydus, dreng, anhynaws, gorflwng, rhwystrus, gygus, anhywaith, dysgyfrith, dysgethrin, anniddig, anynad, gwynafog, cuchiog, trwynsor, trwynsur, ffroensur, aufwyn, craseiriog, cras, anhyfodd, anhydrin, garw, gerwin, gerwinol, cystig, chwefrin, agarw, tryn, swr, traws; astrus, dyrys, rhwystrus, dyryslyd, nidrus, anhawdd, afrwydd, tywyll, caled, anhyddeall.
Crabbedness, *s.* sarigrwydd, sorigrwydd, surni, anfoddogrwydd, croesder, blyngder, drygnawsedd, anniddigrwydd, anfwynder, crasder, blyngedd, swri, gerwinder, garwedd, astrusi, &c.
Crabber, *s.* llygoden y dwr.
Crabby, *a.* anhawdd, dyrys, astrus, nidrus, caled, afrwydd.
Crab-eaters, *s. pl.* crancysiaid, crancysolion=math o grechyddion.
Crab-grass, *s.* crancwellt.
Crabite, *s.* (o *crab*) cranc wedi ymgaregu.
Crab-louse, *s.* crancleuen; *pl.* cranclau.
Crabro, *s.* (Ll.) cacwn.
Crab's-claws, *s. pl.* cranc-ewinedd, crafangau cranc.
Crab's-eyes, *s. pl.* cranc-lygaid=cythyriad yn nghylla cranc od.
Crab-yaws, *s.* troedlwg, gwadn-orfa, gwadnwell.

Crack, *v.* (*Ff. craquer ;* Al. *krachen*) bregu ; agenu, hollti, gagenu ; tori ; briwo, ysgigo, crinellu, clecian, crecian, grillian, grillio, trystio, clindarddach, clindarddu ; ymdori, ymhollti, ymagenu, crigo, ymagor, agor, agu, ymrwygo ; crechian, ysgortio ; hollti yn agau neu agenau; peri breg ; gwichio, gwichleisio; bostio, ymffrostio, brolio, gwagfostio, bragio; difwyno, anmharu, annhrefnu.

To crack nuts—tori cnau.

I will crack your crown—mi a doraf *neu* a friwaf eich pen.

The boat cracked under them—yr oedd y bad yn crinellu danynt.

To crack a bottle—egori costrel ; yfed costrel *neu* gostrelaid gydag un ; crinellu potel.

To crack one's credit—dwyn anair *neu* anghlod ar un ; tori, llygru, *neu* ddifwyno gair da un.

The clouds crack—y mae y cymylau yn clecian.

To crack a whip—clecian ffrewyll.

To crack a joke—gollwng allan air o gellwair ; dywedyd gair o gellwair *neu* arabedd ; cellwair, cydgam, cymmŵedd ; dywedyd digrifair ; dywedyd digrifwch.

Crack, *s.* (Al. *krack, krach ;* Gr. *rhagas*) breg, bradwy ; agen, hollt, gagen, ag, crig, gorimyn; crec, clec, trwst, ysgort, clap, grill, gwring ; tor, toriad, ymdoriad ; gwichlais, creglais, cryglais ; penwendid, pendrondod ; bost, ymffrost, ffrost ; anniweirdeb ; cyffoden, puten †† llanc.

It sounds as if it had a crack in it—mae yn synio *neu* leisio yn glwc *neu* glwyfus ; mae ei glec fel pe bai glwc.

Crack-brained, *a.* penchwiban, penwan, penfeddal, penffol, chwidr, gwibwrn, chwibwrn, pengiwc, syfrdan, lledfrydig, penysgafn, penddarus, hurt, anmhwyllog, disynwyr, ffol, ehud, gwallgof, gwallgofus, gorphwyllus, gorphwyllog, gwallbwyllog, pendron, lloerig; â phenwendid *neu* bendrondod arno.

Cracked, *p. p.* bregus, toredig, clecledig, &c. ; briw, agenog, holltog, ysgig ; penwan, penfeddal, anmhwyllog.

Cracked brain—y bendro wibwrn ; y bendro chwibwrn.

Cracker, *s.* (o *crack*) bostiwr, broliwr, boocachwr, ymffrostydd, bragaldiwr ; tânbelen, crinell, crinellydd, esruthren, clecledydd, ysgortydd ; hwyad gynffonfain, hwyad lostfain.

Nut-crackers—gefail gnau, cneuell.

Crack-hemp, } *s.* crogyn ; crogyn o ddyn ;
Crack-rope, } llwyth y cebystr ; cyw y cebystr ; cyw y crogbren ; un addfed i'r crogbren ; un parod i'r *neu* deilwng o'r crogbren.

Crackle, *v. n.* (o *crack*) clindarddach, crinellu, crecian, crecio, grillian, grillio, ysgwrlwgach, gwringain, gwringellu.

Crackling, *s.* (o *crackle*) clindarddach, crinelliad, ysgwrlwgach, ysgwrlwg, clindarddiad, gwringelliad, grilliad ; crinell.

Crackling of pork — crinell glasdwrch, crinell porch, crinell cig tyrchyn, crinell porchellyn.

The crackling of thorns under a pot—clindarddach drain dân grochan.

Cracklings, *s. pl.* (o *crackle*) gwergreision, gwerdeisenau, creisionod, teisenau cwn.

Cracknel, *s.* (o *crack*) breudeisen ; teisen ddeugras ; breudeisen galed ; teisen frau galed.

Crack-skull, *s.* chwidryn ; dyn penchwiban, penwan, *neu* benfeddal ; bral o ddyn ; penchwidryn, chwidrwr ; chwibwrn ei benglog.

Cradle, *s.* (S. *cradel*) cryd, cawell maban, cader maban ; cawell, canel ; crud ; llithrystram ; croper, crifyr ; mabandod ; dechreufa ; cyff.

Cradle of a scythe—cawell pladyr, clwyd pladyr, cader pladyr.

Iron cradle—cryd haiarn, alch.

Cradle of a lobster—ceuedd, cropa, bol, *neu* foly ceimwch.

Cradle band—rhwymyn maban, rhwymyn magu.

Cradle clothes—dillad cryd ; dillad magu ; dillad maban.

A cradle for a broken leg—crud coes dòn ; crud coes friw.

From his cradle—o'i gryd ; o'i febyd ; o'i fabandod.

Cradle, *v.* gosod *neu* siglo mewn cryd ; siglo cryd ; siglo y cryd i ; llonyddu, esmwytho, susganu, suo; magu mewn mabandod; crydu; tori â phladyr â chawell.

Cradle-scythe, *s.* pladyr gawell, pladyr glwyd, pladyr gawellog ; pladyr â chawell arni.

Cradling, *s.* (o *cradle*) crudgoed, crymattegwydd.

Craft, *s.* (S. *cræft ;* Al., Sw., a D. *kraft*) crefft, celfyddyd, celf, celfyddawd, celfyddiaeth ; gallu, medr, medredd, medrusrwydd, hyfedredd, cymmedr ; cyfrwysdra, cyfrwysder, cyfrwysedd, dichell, ystryw, ffalstedd, chwired, hoced, ymdro, chwiongl ; elw ; hud, cast, somiant ; llawgelfyddyd, celfyddyd llaw, galwedigaeth ; oorlong, ysgraff ; mân longau, (*pl.* mân longau).

Craft, † *v. n.* castio, chwareu castiau.

Craftiness, *s.* (o *crafty*) cyfrwysder, cyfrwysedd, cyfrwysdra, ystryw, ystrywgarwch, dichell, dichellgarwch, dichellrwydd, ffelder, ffeldra, ffelrwydd, hoced, twyll, chwired, ffalstedd, ymdro, chwiongl, dichellwaith, cyfrwyswaith, dichelldro, ffesawd.

Craftsman, *s.* (*craft* a *man*) crefftwr, celfyddwr, celfyddyddwr, gwr o gelfyddyd, celfwr, llawgelfyddwr, llawgelfyddydwr, gallofydd, llofweithydd, saer ; dyn penigamp, celfydd, *neu* gywrain.

Craftsmaster, *s.* (*craft* a *master*) meistr yn *neu* ar ei gelfyddyd ; pencrefftwr, celfyddwr penigamp, crefftwr.

Crafty, *a.* (o *craft*) cyfrwys, cyfrwysgall, ystrywgar, ystrywiog, ystrywus, cyfrwysddrwg, dichellgar, dichellus, dichellog, ffalst, ffel, hocedus, twyllodrus, chwiredus, ffur ; medrus.

Crag, *s.* (C. a Gw. *craig ;* Gael. *creag*) clogwrn, clogwyn, clegr, clegyr, craig, pencraig, ysgythredd, ysgyryd, clwg, taren ; craig ysgyryd, ysgythrog, *neu* serth ; ysgyrgraig, briwgraig.

The crag of the rock—ysgythredd y graig (*Iob* xxxix. 28).

Crag, † *s.* (S. *hracca*) gwddf, gwddwg ; gwâr, gwegil.

Crag-built, *a.* clegr-adeiledig, creig-adeiliog ; wedi ei adeiladu â chlogyrnau.

Cragged, } *a.* (o *crag*) clogyrnog, ysgythrog,
Craggy, } clegyrnog, clegrog, clogwynog,

clogyrnaidd, creigiog, ysgyryd, ysgyrgreigiog, tarenog, cerygog, garw, agarw, serth.
Craggy hill—clogfryn.
Craggedness, } *s.* clogyrnedd, clogyrnach, clog-
Cragginess, } yrnogrwydd, ysgythrogrwydd, clegrogrwydd, clogwynogrwydd, clogwyncdd, &c.
Crake, (o *crack*) bost, ymffrost, brawl.
Crake, *s.* (o'r sain) rhegen yr yd, rhegen y rhych, creciar.
Crosses of memorial—croesau cyfargofiol.
Cross and pile—croes a chluder.
The sign of the cross—arwydd y grog; arwydd y groes.
His meritorious cross and passion — ei ryglyddus grog a'i ddyoddefaint.
Holy Cross Day — Gŵyl y Grog; Dydd Gŵyl y Grog; Dydd Gŵyl y Groes; Dydd y Groes Santaidd=Medi 14.
Invention of the Cross—Caffael y Groes.
Christ-cross-row—yr egwyddor; rhestr y llythyrenau; rhes gris groes.

Cross, *a.* croes, traws; gwrthwyneb, gwrthwynebus, gwrthwynebol; anynad, anfoddog, anniddig, sor, swr, dreng, gwrthnysig, trofäus, gwrthgas, anhywaith, cyndyn, anwesog, sarig.
Cross (in composition) — croes-, traws-, gwrth-.
Cross keys — allweddau croesion, croes allweddau; dau allwydd ar draws i'w gilydd.
Cross blow — ergyd llettraws; ergyd yn ngwrthwyneb llaw; ergyd traws, dyrnod croes.

Cross, *prep.* ar groes, ar draws, yn groes; ar ŵyr; croes, traws.

Cross, *v.* croesi; gwrthwynebu, gwrthladd; bod yn groes i; bod yn wrthwyneb i; bwrw ar draws eu gilydd; rhoddi ar draws i'w gilydd; myned drosodd; myned dros; beisio, arfeisio, rhydio; gwrthweithredu, gwrthweithio, rhwystro, attal, lluddias, lluddio; gwrthwedyd; dilëu, croesi allan, crafu ymaith; cymmysgu; cylchgyfnewid; croesnodi, nodi âg arwydd y grog; † bod yn anghysson.
To cross one's self—ymgroesi, ymswyno.
To cross over—croesi; myned dros; myned drosodd; beisio, rhydio, arfeisio.
To cross the sea—croesi y môr; myned dros y môr; mordwyo drosodd; morio drosodd.
He crossed over to us—efe a groesodd, a fordwyodd, *neu* a ddaeth drosodd atom ni.

Cross-armed, *a.* croesfreichiog; â'i freichiau yn groes i'w gilydd; â'i freichiau yn mhleth; dwyfreichiog; breichiog; parosglog, deuosglog; prudd.

Cross-bar, *s.* croesfar, bàr croes, trawsfar.

Cross-barred, *a.* rhwyllog, croesog; croesfarog; gwedi ei groesfario; gwedi ei groesfolltio.

Cross-barrow, *s.* saeth albrys, saeth croesfwa.

Cross-barshot, *s.* croes-farbelen, croes-farbeled, barbelen groes, croes-farbel, barbel groes.

Cross-beam, *s.* trawstlath, trawst.

Cross-bearer, *s.* croesddygydd, croesaddygur, croesddygiedydd, croesaddygydd, addygydd y groes.

Cross-bill, Cross-beak, *s.* gylfin-groes.

Cross-bill, *s.* gwrth-hawl, croeshawl.

Cross-bite, *s.* twyll, hoced, twyllofaint.

Cross-bite, *v. a.* twyllo, hocedu; croesi drwy dwyll.

Cross-bow, *s*, albrys, bwa croes, croesfwa, bras, albras, blif.
To shoot with a cross-bow — albrysio; saethu âg albrys, &c.

Cross-bower, *s.* albrysiwr; saethwr âg albrys.

Cross-breed, *s.* trawsryw, croesryw.

Cross-breeding, *s.* croesrywiad, trawsrywiad, traws-epiliad, trawsfeithriniad.

Cross-bun, *s.* croeschwiog, croeschwiogen; chwiogen y croglith; teisen dydd Gwener y croglith.

Cross-chocks, *s. pl.* croesgoed, trawsgoed (mewn llong).
Cross-cut, *v. a.* croesdori, trawsdori; tori ar groes; tori ar draws; tori yn groes.
Crosscut-saw, *s.* trawslif, llif draws. [croes.
Crossed, *a.* croesog, croesedig; ar groes;
Crosselet, *s.* (o *cross*) croesigan, croesigen, croes fechanig.
Crossettes, *s. pl.* (Ff.) penelinau, clustiau, cornelau.
Cross-examination, *s.* croes-holiad, croes-holedigaeth, croeschwiliad, traws-holiad.
Cross-examine, *v. a.* croes-holi, traws-holi; arholi yn groes.
Cross-eyed, *a.* llygadgroes, llygattraws, llygadgam, trawslygadog, trawslygeidiog, croeslygeidiog, llygad-ŵyr.
Cross-fire, *s.* croesdan, tân croes.
Cross-flow, *v. n.* croeslifo, trawslifo; llifo yn groes *neu* ar draws.
Cross-furrow, *s.* croesrych, rhych groes, rhych y dwr.
Cross-grained, *a.* croesliniog; afrywiog, anynad, anfoddog, anniddig, anwyllysgar, anhywaith, trofaus, sarig, blin, blwng, swr, sor, croes, gwrthnysig.
Crossing, *s.* (o *cross*) croesiad, gwrthwynebiad; rhwystr, rhwystrad, lludd, attalfa; blinder, gofid.
Crossings, *s. pl.* croesion, croesiadau.
Cross-jack, *s.* croes-hwyl, hwyl groes.
Cross-legged, *a.* coesdraws; â'i goesau ar draws; â'i goes ar draws *neu* yn groes i'w gilydd; âg un glun dros y llall.
Crosslet, *s.* (o *cross*) croesig, croes fechan.
Cross crosslet—croes bengroes.
Cross-like, *a.* croesaidd; ar lun croes; ar wedd croes; ar ddull crog.
Crossly, *ad.* yn groes, ar groes, ar draws; yn wrthwynebus; yn anniddig, yn anynad; yn afiwyddiannus, yn anffodus.
Cross-multiplication, *s.* croesluosiaeth, croesluosogaeth; deuddegiadau, deuddegiaeth.
Crossness, *s.* (o *cross*) croesineb, croeseder, trawsder, trawsedd, anniddigrwydd, anynadrwydd, anwesogrwydd, sarigrwydd, croesdyniad, cyndynrwydd, gwrthnysigrwydd, gwrthwynebrwydd, trofausder, anhyfoddiant, tymmer ddrwg.
Cross-patch, *s.* drengyn, sarigyn, soryn.
Cross-path, *s.* croeslwybr, llwybr croes, trawslwybr.
Cross-pawls, *s. pl.* croesddalion.
Cross-piece, *s.* croesddarn, croesddernyn.
Cross-post, *s.* croesbost; croesredydd.
Cross-purpose, *s.* gwrthamcan, trawsamcan, croesamcan; dychymyg.
Cross-question, *v. a.* croes-holi, traws-holi; holi yn groes.
Cross-road, } *s.* croesffordd, ffordd groes, traws-
Cross-way, } ffordd; croesheol, croes-hynt; croes.
Cross-row, *s.* yr egwyddor, rhestr y llythyrenau; croesrestr, croesres, gris groes.
Cross-sea, *s.* croesfor, gwrthfor, croesdon.
Cross-springer, *s.* croesasen.
Cross-staff, *s.* croesffon=offeryn mesur.
Cross-stitch, *s.* croesbwyth, trawsbwyth.
Cross-stone, *s.* croesfaen.
Cross-tining, *s.* croesddeintiad; croesalyfnad, croesalyfnu, croes-ogedu.
Cross-trees, *s. pl.* croesgoed, croeslathau.

Cross-way, } *s.* croesffordd, ffordd groes,
Cross-road, } trawsffordd; croes-heol, croeshynt; croes.
Cross-wind, *s.* croeswynt, gwrthwynt, gwynt croes, asgellwynt, gwynt gwrthwynebol, gwynt gwrthwynebus, camwynt.
Cross-wise, *ad.* ar groes, ar draws, yn groes; ar wedd croes; ar lun crog; ar ddull crwys.
Cross-wort, *s.* croesalys, llysiau y groes.
Crotalaria, *s.* (Gr. *crotalon*) cribellys, rhuglys.
Crotalum, *s.* (Ll.; Gr. *crotalon*) math o symbal, arferedig gynt, yn enwedig gân y Corybantwys, neu offeiriaid Cybele.
Crotalo, *s.* (Ll. *crotalum*) symbal y Tyrciaid.
Crotalus, *s.* (Gr. *crotalos, crotalon*) y neidr gynffondrwst, y neidr gynffonrugl, y gynffondrwst.
Crotch, *s.* (Ff. *croc;* It. *croccia*) fforch, ffwrch, fforchbren; bach.
Crotched, *a.* fforchog, ffyrchog.
Crotchet, *s.* (Ff. *crochet, croche*) crymfach, cromfach, camfach; corfanig; cynnalbren; asbri, dychymyg, coegdyb, gwagdyb, chwim ias pen, coegfeddwl, coeg ddychymyg, nwyth, mympwy.
Crotchets (in typography)—crymfachau, cromfachau, camfachau=[ ].
Crotchet (in music)—corfanig=
Idle crotchets—arabedd; gwag ddychymygion; mympwyon ofer.
Crotcheted, *a.* crymfachog, cromfachog corfanigog; asbriog, nwythog, mympwyog.
Croton, *s.* (Gr.) math o blanigion.
Crotonic Acid, *s.* sur crotonig, sur y croton.
Croton-oil, *s.* olew y croton, olew croton.
Crotophaga, *s.* (Gr. *crotôn* a *phagô*) crotonys iaid.
Crouch, *v. n.* (Al. *kriechen, krôcke*) ymgrymu capio, ymblygu; ymgrymu *neu* ymblygu yn isel; myned yn ei gwrwm; cwricnu cynffonloni, gwenieitho, truthio, trutheinio gorwedd gyda'r llawr.
Crouch,† *v. a.* nodi âg arwydd y grog bendithio.
Crouched-Friars, *s. pl.* Brodyr y Groes, Croesfyneich, Croesfonachod.
Croude, } *s.* (Gr. *cruptô* ?) cuddgell, celgafell
Crowde, } cuddgell eglwys.
Croup, *s.* (Ff. *croupe*) pedrain, ffolen, crymancwman, bontin.
Croup, } *s.* (Ysg. *croup;* S. *kroupan;* Goth
Croop, } *kropyan*) grygwst, crygwst, gryddfwst, gyddglwyf.
Croupade, *s.* (o *croup*) crymalnaid, crymnaid gorlam, gornaid.
Croupier, *s.* (o *croup*) un â eistedd wrth drocs bwrdd.
Crout, } *s.* (Al. *kraut;* Is. *kruid*) surgawl
Krout, } surfresych, il resych.
Crow, *s.* (S. *crawe;* Al. *krähe;* D. *kraye;* Is *kraai*) brân; *pl.* brain.
Hooded crow, } brân yr Iwerddon, brân
Royston crow, } Iwerddon, brân y Werddon, brân ludlyd, brân ludliw, brân lludw.
Carrion crow—breuan, abwyfran.
Red-legged crow, } brân pig goch, brân
Cornish chough, } Cernyw.
The Iraw, } Y Gigfran, y Frân = cydsef
Corvus, } deheuol, yn cynnwys 9 seren

A flock of crows—branes, branas, llu o frain.

Young crows—branos, brain ieuainc, brain bach.

To pluck *or* pull a crow—bod yn ddiwyd yn nghylch peth dibwys; ymryson yn nghylch ffrilion.

The crow thinks her own birds the fairest—gwyn y gwel y frân ei chyw.

To strut like a crow in a gutter—cerdded yn uchelfalch; cerdded yn ucheldrem; rhygyngu gân falchder.

Crow of iron, Iron-crow, } trosol haiarn, gwif haiarn.

Crow, Crow-bar, } *s.* gwif, trosol.

Crow, *s.* canu, caniad; llais neu gân ceiliog.

Cock-crow, Cock-crowing, } caniad ceiliog, caniad y ceiliog; pylgain, plygain.

Crow, *v. n.* (S. *crawan*) canu (fel ceiliog); crŷu; ffrostio, ymffrostio, bostio, ymddyrchafu, bocsachu, torsythu; bygylu.

The young cock croweth after the old one—á gre y frân fawr a gre y frân fechan.

Crow-berry, *s.* creiglusen, creiglysen, cryglysen, llusen y brain: *pl.* creiglus, creiglys, cryglus, llus y brain, llus duon y mynydd.

Crowd, *s.* (S. *cruth, cread*) twr, pentwr, torf, tyrfa, haid, haib, llu, lluaws, ymsang, ymwasg, tyndorf; y werin, y werinos, y bobl gyffredin; twr, crug, neu gruglwyth o bobl.

To go in crowds—myned yn dyrau, yn fynteloedd, yn lluoedd, neu yn heidiau; ymdyru, heidio.

Crowd, *v.* llenwi, gorlenwi, tynlenwi, secu, sechu, gwasgu, tynwasgu, llethu; ymdyru, tyru, heidio, ymwasgu, ymwthio, torfi, tormi, sengu, ymsecu, ymsengu, pwyso ar, cyfyngu ar; myned yn dyrau; bod yn orlawn.

To crowd one to death—gwasgu neu lethu un i farwolaeth.

To crowd a thing in—gwasgu, gwthio, secu, sechu, neu sengu peth i mewn.

To crowd to a place—ymdyru i le; myned yn dyrau, yn fynteloedd, neu yn lluoedd i le; myned dân ymwasgu neu ymwthio i le; heidio i fân.

To crowd things together—tyru neu bentyru pethau yn nghyd; cydsecu, cydsechu, cydwasgu, neu gydsengu pethau; dwyso pethau; crugio yn nghyd.

To crowd in—ymwthio, ymwasgu, neu ymdyru i mewn; ymsecu neu ymsechu i fewn.

To crowd together—ymdyru yn nghyd; cydymdyru, twysgo, cydsecu, cydsechu, cyttyru.

Crowd, Crowth, } *s.* (C. *crwth*; Gw. *crwit*) crwth.

A player on the crowth=*Crowder*.

Crowder, *s.* crythor, crythwr, ffilor: *f.* crythores, ffilores.

Crowdy, *s.* cawl dwr, blawd a dwr.

Crow-flower, *s.* blodau y frân, blodeuyn y frân.

Crowfoot, *s.* (*crow* a *foot*) egyllt, crafanc y frân, llun troed y frân, troed y frân.

Wood crowfoot—peneuraid, peneuraidd.

Bulbous crowfoot, Buttercups, } chwys Mair, blodau yr ymenyn, blodeuyn yr ymenyn, egyllt cnapwraidd, egyllt cnapwreiddiog.

Celery-leaved crowfoot—crafanc yr eryr, troed yr eryr.

Creeping crowfoot—egyllt ymlusgol, crafanc y frân ymlusgaidd.

Upright meadow crowfoot—egyllt syth y gwaenydd; crafanc y frân syth boethus; crafanc y frân syth boethus y gwaenydd.

Small-flowered crowfoot—crafanc y frân manflodeuog, egyllt manflodeuog.

Ivy crowfoot—egyllt eiddewddail, crafanc y frân eiddewddail.

Water crowfoot—egyllt dyfrdrig; crafanc y frân dyfrle.

River crowfoot—egyllt yr afon; crafanc y frân afonol.

Crow-garlick, *s.* garlleg gwyllt, craf gwyllt, garlleg y brain, wynwyn gwyllt, wynwyn y maes, wynwyn y cwn, triagl y tlawd.

Crow-keeper,† *s.* bwbach, bwgan, tarfhutan, bolol.

Crown, *s.* (Gr. *corŏnē*; Ll. *corona*; Ff. *couronne*; Al. *krone*) coron, corynrwy, talaith, teyrngoron; coronbleth, gwyrlen; coryn, caran, copa, top, cwnwg, copa pen, siâd, gwarthaf, gwarthaf pen, iad, siôl; siobyn, cobyn; pumswllt, pum swllt; cwblhad, cyflawniad.

Crown, Crown piece, } coron, pumswllt, deraryn coron.

Crown of gold—coron aur, eurgoron.

Crown of a plant—llygattardd.

Crown of a hat—copa het, cwch capan.

Crown of state—teyrngoron.

Imperial crown—coron amherodrol.

Royal crown—teyrngoron, coron freninol.

Crown of the head—coryn, copa, copa pen, caran, siôl, siâd, gwarthaf pen.

Civic crown—coron ddinesig.

Mural crown—coron gaerog.

Triumphal crown—coron orfoleddol, coron orfoledd.

Crown lands, Demesne lands, } tiroedd y goron, tir y goron, tir y faerdref, tir bwrdd, tir bwrdd y llys.

Having a high crown—copaog, corynuchel, copa-uchel, caran-uchel.

Wearing a crown—coronog, taleithiog; yn gwisgo coron; caranog, corynog, caranaid.

Wearing a golden crown—eurgoronog, eurdaleithiog.

To invest with a crown—coroni.

From the sole of his foot even to the crown of his head—o wadn ei droed hyd ei goryn.

Crown of the Sun—coron yr Haul=darn o arian bath gynt yn Ffrainc.

Crown paper—papyr coronol, papyr coron.

The northern Crown, Corona borealis, } Arianrod, Caer Arianrod.

The southern Crown, Corona australis, } Coron y de, y Goron ddeheuol.

Crown, *v. a.* coroni; rhoi coron, teyrngoron, neu dalaith am ben; cylchynu pen â choron neu â thalaith freninol; addurno; cwblhau, perffeithio, gorphen.

Crowned, *a.* coronog; coronedig; taleithiog, teyrngoronog; gorphenedig.

Crowner, *s.* (o *crown*) coronwr, coronydd; gorphenydd, perffeithydd; trengholydd.

Crownet, *s.* (o *crown*) coronig, taleithig, talaith.

Crow-net, *s.* rhwyd adar, rhwyd adar gwylltion, rhwyd frain.
Crown-glass, *s.* gwydr dilin, purwydr; y gwydr ffenestri goreu.
Crown Imperial, *s.* peurôs=math ar flodeuyn.
Crowning, *s.* coroniad, coronedigaeth; cwblhad, perffeithiad, gorpheniad; gorphenwaith, cyfrwaith; gorphenran.
Crownless, *a.* (*crown* a *less*) digoron, heb goron.
Crown-office, *s.* swyddfa y goron; coronswyddfa.
Crown-post, *s.* teyrnbost, teyrnbiler, coronbost, teyrnddarn, prif bost.
Crown-saw, *s.* cronlif, llif gron, coronlif.
Crown-scab, *s.* cilgrach, cilgramen; crachen yn nghiliau carn ceffyl.
Crown-thistle, *s.* ysgallen goronog.
Crown-wheel, *s.* coronrod, prifolwyn.
Crown-work, *s.* coronwaith.
Crown-worts, *s. pl.* coronlysiau, taleithlysiau, coronwydd.
Crow's-bill, *s.* pelgraff=math o efail llawfeddyg.
Crow's-feet,† *s.* traed y frân, traed brain, bagiau brain; crychion dân lygaid.
Crow's-foot, *s.* pigogyr, pedbigogyr, troed y frân=math ar offeryn milwraidd.
Crow-silk, *s.* cyflafan, llafanog, llinwydd, llinwisg, llinwydd yr afon, llinwisg yr afon, sidan y brain, gwymon yr afon.
Crow-stone, *s.* branfaen.
Crow-toe, *s.* blodau cenin y brain; blodau cloch yr eos.
Croylstone, *s.* croilfaen, breseganfaen crisialaidd.
Croze, *s.* offeryn cylchwr.
Crucial, *a.* (Ff. *cruciale*, o'r Ll. *crux*) croes, traws, croesol; ar wedd croes *neu* grog; yn croesi eu gilydd, yn trawsdori eu gilydd.
Crucian, *s.* byrbysg.
Cruciate, *v. a.* (Ll. *crucio*) arteithio, poeni, dirboeni, cystuddio.
Cruciate, *a.* (Ll. *cruciatus*) arteithiog, arteithiedig; croesaidd, croesffurfiog, croesddulliog.
Cruciation, *s.* (o *cruciate*) arteithiad; artaith, poen, dirboen, poenedigaeth.
Crucible, *s.* (Ll. drosgl, *crucibulum*; It. *crogiuolo*, *crociuolo*) toddlestr, toddiadyr, toddbot, toddgib; ffyrnes.
Crucifer, *s.* croesddygiad; un o'r croesddygiaid.
Cruciferæ, } *s. pl.* (Ll. *crucifer*) croesogion,
Crucifers, } croesddygolion, croesddygiaid, croesddyglysiau.
Cruciferous, *a.* (Ll. *crucifer*) croesddygol, croesddwyn; arweddol; yn dwyn y groes.
Cruciferous plants — croesddyglysiau, croesddygiaid, planigion croesddwyn, llysiau croesddygol.
Crucifier, *s.* (o *crucify*) croeshoeliwr, croeshoeliedydd.
Crucifix, *s.* (Ll. *crucifixus*) croglun, crogwedd, croeslun, croes, crog, argroeslun; llun *neu* ddelw Crist ar y groes: y grefydd gristionogol.
Crucifixion, *s.* (Ll. *crucifigo*) croeshoeliad, croeshoeliant.
Cruciform, *a.* (Ll. *crux* a *forma*) croesaidd, croesddulliog, crwysffurfiog; ar lun croes; ar ddull croes.
Crucify, *v. a.* (Ll. *crucifigo*) croeshoelio; hoelio ar groes.
Crucigerous, *a.* (Ll. *cruciger*) croesddygol, croesddwyn, crwysddygol, croesarweddol; yn dwyn y groes; croesog.
Crude, *a.* (Ll. *crudus*) llymrig, anmrwd, of, ir, cri, crai, anaddfed; rhagaddfed, rhygynnar, anffaeth; anhyddysg; annhrefnus, annosbarthus; heb ei dreulio yn y cylla; anorphenedig; trwsgl.
The crude form of a word—ffurf lymrig gair.
Crudeness, } *s.* (Ll. *cruditas*) llymrigedd,
Crudity, } llymrigrwydd, anmrydedd, ofedd, ofder, irder, criedd, creider; ansaddfedrwydd, anffaethder; annhrefnusrwydd; annhreuledd.
Crudities—llymrigion; ysgarthion, eulon.
Crudle, *v. a.* (Gw. *cruth*; Ysg. *crudo*) ceulo, ceuledu, cawsio.
Crudy,† *a.* (o *crude*) anaddfed; addoer; ceuledig.
Cruel, *a.* (Ff.; Ll. *crudelis*) creulawn, gwaedlyd, ffyrnig, didrugaredd, annynol, milain, mileinig, ciaidd, ysgeler, barbaraidd, dywal, enguriol, digar, echryslawn, erchyll, anfad, creugar, creuol, anwar, didostur, annhosturiol, dideimlad.
To be cruel, } ymgreuloni, creuloni,
To become cruel, } ffyrnigo, cynddeiriogi,
To wax cruel, } gwaedlydio; brochi, sarigo, blynghau, chwerwi.
Cruelty, } *s.* (Ll. *crudelitas*; Ff. *cruauté*) creu-
Cruelness, } londeb, creulonder, creulonedd, creulonrwydd, creulonaeth, dywalder, gwaedlydrwydd, ffyrnigrwydd, mileinrwydd, milusrwydd, annynoldeb, ciaidd-dra, enguriolaeth; trawsder, traha, dirdra, gormes, anghyfiawnder, trais; gwaithred greulawn.
Cruentate, *a.* (Ll. *cruentatus*) creudde, creulyd, gwaedlyd, gwaedled, gwaedrudd, gwaedraidd, gwaedlydiedig.
Cruentous, *a.* (Ll. *cruentus*) gwaedlyd, creulyd.
Cruet, *s.* (Ff. *cruchette*) chwaethel; costrelig, gwydrel; potel surwin, &c.
Sance cruet—taethel, sibrell.
Cruise, } *s.* (Is. *kroes*) costrelan, potelan; cib,
Cruse, } cwpenyn, cwpanig, cwpan, ffiol fechan, ffiol; ffiolaid, costrelaid; ystên.
Cruise, *v. n.* (Is. *kruisen*; Al. *krenzen*) gwibfforio, gwibhwylio; hwylio yma a thraw; hwylio draw ac yma; hwylio yn ol ac yn mlaen; hwylio i fyny ac i waered; hwntian, morhwntian.
To cruise for plunder—hwylio am ysglyfaeth; hwylio ar ol ysglyfaeth; chwilio, hely, fforio, *neu* wibio am anrhaith; hwntian, ysbeio, ysbïo, ysbeiana, neu fforio am braidd; preiddio.
Cruise, *s.* gwibfforiad, gwibhwyliad; hwyliad yma a thraw; gwibfa, gwibdaith, gwiblongdaith.
Cruiser, *s.* (o *cruise*) gwiblong; preiddlong; ysbeienlong; gwiblongwr, gwibhwyliwr, gwibforiwr.
Crumb, } *s.* (S. *cruma*; Al. *krume*) briwsion-
Crum, } yn, briwionyn, breubysyn, briwsyn, difyn, tip, mymryn; bywyn; briwfwyd: *pl.* briwsion, briwysion, briwion, breubysion, mwydion, briwys, breubys.
Crumbs of bread—briwsion bara; bywyn bara, mwydion bara; bara briw.
To pick up one's crumbs—gwrygio; gwrygio ar ol clefyd; ail wrygio; dechreu

cyrchu *neu* gyrhaedd ei wedd; gwellhau ar ol bod yn glaf.

Crumb, *v. a.* briwo, briwio, briwsioni, briwioni, breubysu, malurio, malu, mânu, manhau.

To crumb bread into milk—briwo bara mewn llaeth; rhoi bara briw mewn llaeth; rhoi briwfara mewn llaeth.

Crumble, *v.* (Is. *kruimelen;* Al. *krümeln*) briwo, briwio, malurio, briwsioni, briwioni, malu, mânu, manhau; ofi; adfeilio, dadfeilio, ymollwng; darfod.

Crum-cloth, *s.* llian briwsion, lliain briwion.

Crummable, *a.* (o *crum*) briwadwy; hyfriw, briwsionllyd.

Crummy, } *a.* (o *crum* neu *crumb*) briwsionog,
Crumby, } briwionog; llawn briwsion; briwsionllyd; bywynog, llawn bywyn, mwydiog; tyner, masw, meddal, mwyth; cnodig, tew.

Crump, *a.* (S.; Al. *krumm*) crwm, crwca, cam, achrwm.

Crump-shouldered—gwargrwm, ysgwyddgrwm, ysgwyddgam, gwargam, ysgwyddgrwca.

Crumpet, *s.* (o *crumb*) mwythdeisen, mwythen, teisen fwyth, teisen fasw: *pl.* mwythdeision, mwythdeisenau, teisenau mwythus.

Crumple, *v.* (o *crump*) crychu, crybychu, crebachu, ymgrychu, sybyblo; gwneuthur *neu* fyned yn grychiadau; còri, dygrychu; anhrefnu.

Crumpling, *s.* (o *crumple*) corafal, afalyn, crychafal, cogwrn.

Crunk, } *v. n.* (o'r sain) lleisio fel garan;
Crunkle, } ysgrechian.

Cruor, *s.* (Ll.) gôr, gwyar, ceulwaed.

Crup, } *s.* (Ff. *croupe*) pedrain, ffolen, bontin,
Croup, } crymal, cwman.

Crupper, *s.* (Ff. *croupière*) pedrain, crymal, cwman; cloren; pystylwyn.

Crupper, *v. a.* gwisgo pystylwyn, pystylwyno.

Crural, *a.* (Ll. *cruralis*, o *crus*) coesol, esgeiriol, heglaidd; perthynol i'r goes.

Crural vein—gwythen y goes; gwythïen goesol.

Crusade, *s.* (Ff. *croisade;* Ysp. *cruzada*) croesawd, croessawd, crwysgad, croesgad, crwysad, rhyfel y groes, croes-ryfel.

Crusade, } *s.* crwysad = bathon Portugaidd,
Crusado, } gwerth oddeutu 2*s.* 6*c.*

Crusader, *s.* (o *crusade*) croesodydd, crwysadwr, croessawdiwr, crwysgadwr, milwr y groes, croes-filwr.

Cruce, *s.* (Is. *kroes*) costrelan, potelan, cib, cwpenyn, cwpanig, cwpan, ffiol fechan, ffiol; ffiolaid, costrelaid; ystên.

Cruset, *s.* (Ff. *creuset*) toddbot eurych, toddlestr eurydd, toddlestr gof aur, toddiadyr, toddgib.

Crush, *v.* (Ff. *écraser*) gwasgu yn chwilfriw; llethu, gwasgu, mathru, sathru, malurio, ysigo, sigo, dywasgu, cyngwasgu, sengu, briwo, cymriwo, cymhwyo, cyfarsangu, candryllio; gwasgu yn llethion; gormeilio, gorthrechu, gormesu, gorthrymu, gorddwyo; llethu i'r llawr; darostwng, cywarsangu, gorchfygu, diddymu, dystrywio, dinystrio, dyfetha; pylori, meiloni, ffylori, manbwyo.

Crush, *s.* ffrwch, gwasgiad, llethiad; gwasgiad yn chwilfriw; ysgigdod, briwiant, sigad, targiad; clindarddach, grill, candrylliad.

Crusher, *s.* (o *crush*) llethwr, gwasgwr, ysgigwr.

Crust, *s.* (Ll. *crusta;* Al. *kruste*) crofen, crawen, crafen, crest, cresten, ysgrawen, crestyn, crystyn, crwst, ysgrofen, tònen, tòn, caen, caenen; cramen, cen; cragen; plisg, pliscyn, plisgen; crawyn, crawenig, crawd, teryg.

Crust of bread—crofen bara, crystyn bara; cilcyn o fara; crofen o fara, crystyn o fara.

Crust, *v.* crofenu, crawenu, crestenu, crestynu, cresto, crafenu, crawynu, crystio, crystynu, ysgrawenu, ysgrofenu, ysgrafenu; cramenu, cenu; caenenu, caenu; cragenu; plisgenu, ysgrawio; gorchuddio â chrofen, â chrawen, â chrest, *neu* â chrystyn.

Crusta, *s.* cragem, crestem; cramen; cragen.

Crustacea, } *s. pl.* (Ll. *crusta*) crestogion,
Crustaceans, } crofenogion, crawenogion, crawogion, crestfilod: *sing.* crestfil, crestogyn.

Crustacean, *a.* crestenaidd, crawenaidd, crestogaidd, crestenogaidd; perthynol i grestfilod.

Crustaceology, *a.* (*crustacea*, a Gr. *logos*) crestfilodiaeth, crestfilodeg, crestogaeth.

Crustaceous, *a.* (Ll. *crusta*) crofenaidd, crestaidd, crawenaidd, crystynaidd, crawynaidd, crestogaidd; cramenaidd; crofenog, cragenaidd; âg iddo gragen dyner gymmalog.

Crustaceous animals=*Crustacea, Crustaceans.*

Crustaceousness, *s.* crestogrwydd, crestogeiddrwydd, crofenogrwydd, craweneiddrwydd.

Crustalogical, *a.* crestfilodol, crestogaethol; perthynol i grestfilodiaeth.

Crustalogist, *s.* crestfilodydd, crestogaethwr, crestogwr.

Crustalogy, *s.* (Ll. *crusta*, a Gr. *logos*) crestfilodiaeth, crestfilodeg, crestogaeth.

Crustated, *a.* (Ll. *crustatus*) crofenog, crestenog, crawenog, crystynog; gwedi ei orchuddio â chresten *neu* grofen.

Crustation, *s.* (Ll. *crusta*) crofeniad, craweniad, cresteniad, crestyniad, ysgraweniad, crawyniad, ysgrawiad, crameniad, crestiad, crageniad, teryg.

Crusta Petrosa, *s.* (Ll.) ffergrest.

Crustiness, *s.* (o *crusty*) crofenogrwydd, crawenogrwydd, crestogrwydd, crystynogrwydd, crestlydrwydd, cresteiddrwydd; sarigrwydd, terigrwydd, anniddigrwydd, anynadrwydd, anwesogrwydd, drygnaws, ceintach, afrywiogrwydd.

Crusty, *a.* (o *crust*) crofenog, crawenog, crestenog, crestog, crystog, crystynog; cramenog, cenog; crestol, crofenol, crawenol; crofenaidd, crystaidd; afrywiog, anniddig, sarig, blwng, anynad; anwesog, ceintachlyd, dreng, anfwyn, sur, croes; brathlyd.

Crut, *s.* (?) rhan arw rhisg derw.

Crutch, *s.* (It. *croccio;* S. *kryka;* Al. *krücke*) bagl, ffon fagl, ffonfagl; tudfach; henaint: *pl.* ffyn baglau.

Crutch, *v. a.* cynnal ar ffyn baglau; tudfachu.

Crutched, *a.* ar ffyn baglau; croesog.

Cruth, } *s.* (C. *cruth*) crwth; *pl.* crythau=
Crwth, } math ar offeryn cerdd dannau.
Crooth, }

Crux, *s.* (Ll.=croes) ffaig, dyryswch, dyrysbeth.

Cruyshage, *s.* tryfalben=math o bysg.

Cry, *v.* (Ff. *crier*) llefain, gwaeddi, crio, bloeddio, wylo, wylofain, uban, ubain, wbain, dolefain, dylefain, garmio, nadu, ysgrechian, ysgrechain, banllefain, ysgarmain, diaspedain, ysgego, bloeddian, gawri, lleisio,

gawrian, germain; gerain, geran, cwynfan, cwyno, cwynofain, dysgrio, ebychu, drygyrferthu, drygyrferth; crefu, crëu; cyhoeddi, cyffredino; udo.

To cry out, To cry aloud, To cry out aloud, } banllefain, crochlefain, crochwaeddi, dolefain, dylefain, gwaeddolef; gwaeddi yn groch; llefain yn groch; galw yn groch; gwaeddi, diaspedain, dysgrio; llefain allan; bloeddio allan; gawri, gawrian, ysgarmain, ysgego, garmio, eugi; uban, ubain; rhoi banllef, crochlef, garm, ysgarm, ynglef, *neu* ddiaspad; dadyrddu; rhoi cri allan.

To cry out for joy—bloeddiaw o lawenydd; rhoi bloddest.

To cry (as a child)—geran, gerain, crewtian, crewtio, pipian, pipianu; golefain; crïo, llefain; cwynleisio, cwynfan; cymmichdan, michdan, gwichleisio, gwichio, gwawchio, gwawchain, cwynleisio.

To cry against—llefain yn erbyn.

To cry out for mercy—ymbil, ymbilio, gwaeddu, *neu* lefain am drugaredd; gofyn, dymuno, *neu* erfyn maddeuant; gwaeddi allan am drugaredd.

To cry out against—cwyno yn uchel yn erbyn; banllefain yn erbyn; beio, beio ar; lladd ar.

To cry to—gwaeddi ar; llefain ar; erfyn ar; ymorol ar; ymbilio ar; galw ar.

To cry down—beio, difrïo, goganu, bychanu, beio ar; rhoi anair, drygair, *neu* anghlod i; hortio, enllibio; lladd ar; rhedeg ar; rhedeg i lawr; anfrïo, difenwi; dywedyd gair twn am; collfarnu, dyfarnu.

To cry up—canmawl, canmoli, canmol, dyrchafu, moli, mawrhau, codi, arwyrain, brolio.

To cry goods—crïo nwyddau; cyhoeddi nwyddau.

To cry out upon—gwaeddi wfft i; gwaeddi allan ar.

To cry out often—goriain, gorian, diaspedain, bloeddian, dysgrethain, bloeddain, dylefain, ysgarmain, germain; crochwaeddi yn fynych, &c.

To cry together—cydwaeddi, cydlefain, cydfloeddio; llefain yn nghyd.

Cry aloud, spare not—llefa á'th geg, nac arbed (*Esa.* lviii. 1).

To Thee all angels cry aloud—arnat Ti y llefa yr holl angelion.

The voice of one crying in the wilderness—llef un yn llefain yn y diffaethwch.

Cry, *s.* llef, gwaedd, cri, bloedd, dolef, dylef, garm, gawr, gwawch, diaspad, ysgrech, nad, dias, llais; garmlais, banllef, crochwaedd, gwaeddolef, crochlef; llefain, wylad, galarnad; swn, son; ud; erchwys, cniw o fytheuaid.

A loud cry—banllef, crochlef, crochwaedd, crochlais, gwawch, llef uchel, gwaedd fân, dolef groch, gwaedd groch, gawr fân, llef fân, gorfloedd, dirwaedd, arwaedd, arddolef, dysgri, baich, gorlef, garm, ysgarm, anglef.

A faint cry—golef, llef wân, gwanllef; crewt.

A loud and a bitter cry—chwerw lef uchel (*Esth.* iv. 1).

A cry of distress—ynglef, ynglais, inglef, angenfloedd, gwaeddolef, inglais.

A cry of lamentation—oerlef, oernad, oerlais, galarnad, oergri, oerwaedd, galargwyn, oergwyn, alaeth.

To make a mournful cry—cwynfan, cwynofain, cwyno, alaethu, oerlefain, oernadu, oergrio, oergwyno.

A cry of joy *or* triumph—llef gorfoledd; bloddest, oroïan, bloedd oroïan.

The cry of hounds—wö; llais *neu* gri bytheuaid yn hely.

Hue and cry—wbwb, iwbwb, gwaedd wbwb; cri a gwaedd; gwaedd ac ymlid; cri a gwaedd y wlad.

To set up *or* raise a hue and cry—gwaeddi wbwb, llefain wbwb; codi y wlad; codi ac ymlid.

A hoarse cry—cryglais, creglef, creglais, cregwaedd.

A confined doleful cry—daergri.

A squeaking cry—gwich, gwichlef, gwichlais, mich, ffilch, michlef, gwilrin, gwichgri, ysgrechlais, ysgrech, crech, llef ysgrechlyd.

War-cry—rhyfelfloedd, cadlef, cadfloedd, rhyfelwaedd, cadwaedd, bloedd rhyfel.

To set up a cry, To raise a cry, } codi llef, dyrchafu llef; rhoi llef, gwaedd, *neu* floedd; garmio, gawrio, gwawchain.

They set up a cry—dyrchafasant eu llef; rhoisant waedd, llef, *neu* floedd.

Great cry and little wool—dadleu mawr mynych, ac engu ar lygoden.

Cryal, *s.* (C. *crëyr, creyyr*) crëyr, crechydd, cregyr, garan, crychydd.

Cryer, **Crier**, *s.* (o *cry*) criwr; gwaeddwr, llefwr, dolefwr, dolefydd; cyhoeddwr, hoeddiedydd.

Public cryer, Common cryer, } gwaedd gwlad, criwr, cyhoeddwr, cenad fawr ergryd, geilwad; dodwr cri *neu* nad; rhingyll; criwr cyffredin.

Cryer of a court—gostegwr=gostegydd, cyhoeddwr y llys.

Cryer, *s.* criedydd, gelyn y golomen=math o walch.

Crying, *a.* (o *cry*) gwaeddfawr, mawrwaedd, bloeddfawr, uchelwaedd, ysgreol; hynod, cyhoedd, cyffredin, honaid, hysbys, carn.

Crying sins—pechodau gwaeddfawr, pechodau uchelwaedd.

Crying, *s.* criad, cyhoeddiad, llefad, gwaeddiad, bloeddiad; cri, gwaedd, bloedd, llef, crochwaedd, banllef, crochlef; ymbil, erfyniad, dadwrdd; llefain, wylofain, cwynofaint, geran, gerain, ubain, galar, galargwyn, beichiad; galwad daer.

Cryolite, *s.* (Gr. *cruos* a *lithos*) rhewfaen.

Cryophorus, *s.* (Gr. *cruos* a *phoreô*) rhewddygydd, rhewddygai, rhewadyr.

Crypt, *s.* (Ll. *crypta*, o'r Gr. *cruptô*) celgafell, cuddgell, dirgelfa, celfa, cuddadail; cuddfog, celogof; tanddaiargell; beddgell, cel-feddgell.

Crypta, *s.* (Ll.) celdderbynfa, celaddawd.

Cryptæ, *s. pl.* (Ll.) celoddfau, gorthyfigion.

Cryptic, **Cryptical**, *a.* (Ll. *crypticus*) dirgel, cudd, cuddiedig, cel, celedig, cynghel, dirgeledig, cuddiog.

Cryptocephalus, *s.* (Gr. *cruptô* a *cephalê*) cuddbenogion.

Cryptogam, *s.* (Gr. *cruptos* a *gamos*) cuddweddog, dirgelbriod.

Cryptogamia, *s. pl.* cuddweddogion, celweddogion, celweddogiaid, celbriodiaid; dirgelbriodol; anghibogion, anhadgellogion; uchdyfiaid, pendyfolion=enw cenedl o blanigion, yn ol trefn Linnæus.

Cryptogamian, Cryptogamic, Cryptogamous, } celbriodol, dirgelbriod, dirgelbriodol, cuddweddog, celweddogaidd, dirgelweddogol.

Cryptogamic plants=*Cryptogamia.*

Cryptogamist, *s.* celweddogwr, cuddweddogwr; un hyddysg mewn llysieuaeth gelbriodol; hoffwr cyfundraith cuddweddogaeth planigion.

Cryptogamy, *s.* (Gr. *cruptos* a *gamos*) cuddweddogaeth, celweddogaeth, celbriodaeth, dirgelweddogaeth.

Cryptographer, *s.* (Gr. *cruptos* a *graphô*) celysgrifenwr, celysgrifenydd, celysgrifydd, cuddysgrifwr.

Cryptographical, *a.* celysgrifol, cuddysgrifol, dirgelysgrifol, cuddysgrifenol.

Cryptography, *s.* (Gr. *cruptos* a *graphô*) celysgrifiaeth, cuddysgrifiaeth, cuddysgrifenad; celysgrifen, cuddysgrifen, cuddysgrif; celnodau, cuddnodau, celnodion.

Cryptology, *s.* (Gr. *cruptos* a *logos*) celiaith, dirgeliaith, cuddiaith, iaith gyfrin, cymysgiaith.

Crypto-porticus, *s.* celoriel, cuddoriel, oriel cel.

Cryptorhynchides, *s. pl.* (Gr. *cruptô* a *rhin*) celrynogion, cuddrynogiaid, cuddrynlaid.

Crystal, *s.* (Gr. *crustallos*; Ll. *crystallus*; Ff. *cristal*) crisial, crisiant, grisial, grisiant, cris.

Rock crystal, Mountain crystal, } creigrisial, creigrisiant, crisial y graig, crisial y mynydd.

Iceland crystal — crisial Ynys yr Ia; crisiant Island, crisial Islandig.

Crystal, *a.* crisialaidd, crisiannaidd, grisialaidd, grisiannaidd; tryloew, gloew, crisialwawr, trybelid, claer, dysglaer, dysglain, hyloew, canloew, ffloew.

Crystal streams—ffrydiau crisial, ffrydiau crisialaidd, ffrydiau tryloew, ffrydiau tryloewon, ffrydiau gloew, &c.

Crystal tears—dagrau tryloewon, gloew ddeigr, dagrau crisialaidd, dagrau gloewon, &c.

Crystalform, *a.* crisialaidd, crisialwedd; ar lun crisial.

Crystalline, Crystaline, } *a.* (Ll. *crystallinus*) crisialaidd, crisiannaidd, grisialaidd, grisiannaidd; crisialog, crisiannog; tebyg i grisial; crisialwawr, tryloew, gloew, trybelid, trylachar, claer, dysglaer, dysglain, hyglaer, hyloew, canloew, llachar, ffloew, pur, ter, eglur-loew.

A crystalline palace—palas crisial, plas o grisial, palas crisialog, llys crisialaidd.

Crystalline lens of the eye—crisbilen Crystalline humour } y llygad; llugell grisial y llygad; crislyn y llygad; crisnaws y llygad.

Crystallite, *s.* (*crystal*, a Gr. *lithos*) eithinfaen, aethfaen.

Crystallizable, *a.* (o *crystallize*) crisialadwy.

Crystallization, *s.* (o *crystallize*) crisialad, crisiannad, crisianniad, tryloewad.

Crystallize, *v.* (o *crystal*) crisialu, crisiannu; ymgrisialu, ymgrisiannu; tryloewi.

Crystallographer, *s.* (*crystal*, a Gr. *graphô*) crisialydd, crisiannydd, crisiannwr; un â ddysgrifio grisialau.

Crystallographic, Crystallographical, } *a.* crisialyddol, crisiannyddol, crisialegol; perthynol i grisiannaeth.

Crystallography, *s.* (*crystal* a Gr. *graphô*) crisiannaeth, crisialeg, crisialyddiaeth, crisiannyddiaeth; gwyddor crisialad a chrisialau.

Crystal-worts, *s. pl.* crisiantlysiau, crisialwydd, crialysiau.

Crystalomancy, *s.* (Gr. *crustallos* a *manteia*) crisialarmes, crisddewiniaeth.

Ctenoid, *a.* (Gr. *cteis* ac *eidos*) cribaidd; ar lun crib.

Ctenoidians, Ctenoidans, Ctenoidea, } *s. pl.* (Gr. *cteis* ac *eidos*) cribgenogiaid, cribgenogion.

Ctenoidean, *a.* cribgenogaidd, cribgenogol; perthynol i'r cribgenogiaid.

Cub, *s.* (Gw. *caobh!*) cenaw, cenau, colwyn, pothan; clan: *f.* cenawes: *pl.* cenawon.

Cub of a bear—cenaw *neu* genau arth; arthan, arthen.

Cub of a fox—cenaw llwynog; cenau cadnaw.

Cub, *s.* preseb, côr ychain.

Cub, *v. a.* dyfod â chenawon; bwrw cenawon; dyfod â chenaw *neu* genau; bwrw *neu* ddwyn rhai ieuainc; alu; cyfyngu ar, caethiwo.

Cubation, *s.* (Ll. *cubatio*) gorweddiad, gorweddawd; lledorweddiad.

Cubatory, *a.* gorweddol, arorweddol; yn gorwedd ar; lledorweddol.

Cubature, *s.* (o *cube*) cydryfaint, cubiadaeth.

Cube, *s.* (Ff.; Gr. *cubos*; Ll. *cubus*) cub, cubyn, tryfaid, tryfaint; corff chwechochrog; trygorff chweochrog, chwechochrog, chwegyfochrog, chwegyfochr, *neu* chwechwynebog; corff o'r un hyd, lled, a dyfnder.

Cube root—trysawdd, trysawd, gwreiddyn trysawdd.

Cube root (as a rule)—trysoddiaeth, trysoddiaeth.

The sign of the cube root—trysoddeb.

Cubeb, Cubeba, } *s.* (Ar. *cababan*; Indaeg, *kebaba*) math ar bupyr.

Cubebine, *s.* cubebin.

Cube-ore, *s.* cubfwn.

Cubic, Cubical, } *a.* (Ll. *cubicus*) cubig, cubaidd, cubol, chwegyfochrog, chwechochrog, chweochrog, chwegyfochr; ar wedd dis.

Cubic number—cubrif, rhif cubig.

Cubic foot — troedfedd gyfan, troedfedd dryfaint, troedfedd gub, troedfedd gubig, troedfedd chweochrog.

Cubicalness, *s.* cubigrwydd, cubeiddrwydd.

Cubicular, *a.* (Ll. *cubiculum*) ystafellol, ystafellaidd, cufiglaidd; perthynol i ystafell.

Cubiculary, *a.* (Ll. *cubiculum*) addas i ystum eistedd.

Cubiform, *a.* (Ll. *cubus* a *forma*) ar wedd *neu* ddull cub; cubynaidd, cubaidd, cubddull.

Cubit, *s.* (Ll. *cubitus*; Gr. *cubitôn*) cufydd, cyfelin, elinad; iselin.

Cubital, *a.* (Ll. *cubitalis*) cufyddol, cyfelinol; cufyddeidiol; cufydd ei hyd; iselinol.

Cubited, *a.* cufyddog, cyfelinog.
Cubless, *a.* (*cub* a *less*) digenaw; heb genaw; heb genawon.
Cuboid, *a.* (Gr. *cubos* ac *eidos*) cubaidd; gogubaidd, tryfeintaidd.
Cuboidal, *a.* cubaidd, cubynaidd; ar wedd *neu* ddull cub.
Cubo-octahedral, *a.* cub-wythsodog, cub-wythsodol, cub-wythochrog.
Cucking-stool, *s.* (o *ducking* ?) trochgader, ystol drochi, cystwyfa=offeryn â arferid gynt i gosbi benywod anystywallt.
Cuckold, *s.* (Ll. *cuculus*) cycwallt, hoffdyn, cyrnicyll, cyrnig, corniog, cyrnigddyn, gwr corniog; *gwr* i wraig anffyddlawn *neu* odinebus.
Cuckold wittol, } cycwallt cyfaddef, cyc-
Tame cuckold, } wallt trugarog, cyc-
wallt boddlon.
Cuckold, *v. a.* cycwalltu, hoffdynu, cyrnicyllu, diwrîo; gwneuthur yn gycwallt.
Cuckoldly, *a.* cycwalltaidd, hoffdynaidd, fâl cycwallt; gwael, isel, bawaidd; llechŵraidd, llechgïaidd, llechiannus.
Cuckold-maker, *s.* cycwalltwr, hoffdynwr, cycwalltydd, cyrnicyllwr.
Cuckoldom, *s.* (*cuckold*, a'r terfyniad *dom*) cycwalltawd, cycwalltedd, cycwalltaeth, hoffdyndod, cyrnigdod; godineb.
Cuckoo, *s.* (o gân yr aderyn; Ll. *cuculus*; Gr. *coccux*; Al. *kuckuck*; Ff. *coucou*) cog, y gog, cwcw, y gwcw, cethlydd: *pl.* cogau.
To sing like a cuckoo—cadw byth yr un acen fel y gwcw; dâl ar *neu* at yr un acen fel y gwcw; canu byth yr un cywydd; dywedyd yr un peth ganwaith; canu fel y gwcw; lleisio fel y gog; canu gwcw.
The cuckoo's note—gwcw; cân y gog.
The cockoo's note is still the same—yr un acen sy gân y gwcw; yr un acen sy gân y gwcw eleni ac ellynedd; byth yr un yw cân y gog.
Cuckoo's meat—suran y gog, suran y coed, bara cân y gog, bwyd y gwcw, suran deirdalen, triagl teirdalen, alelŵia.
Cuckoo flower, } hydyf, hydwf, hydyf y
Cuckoo bud, } waen, blodyn y gwcw, blodau y gog.
Cuckoo pint—pidyn y gog, calaf y cethlydd, calaf y mynach.
Cuckoo spit, } poeryn y gog, poer y gog,
Cuckoo spittle, } poeryn y gwcw, poer y gwcw.
Cuckoo chafer, } *s.* gwichell y gog, ceth-
Cuckoo chatter, } lydd y gog, gwas y gog, gwas y gwcw, cethlydd cog, gyddf-dro, pengam.
Cuckoo-like, *a.* fel y gog; cogaidd, cwcŵaidd.
Cucquean, † *s.* (Ff. *coquine*) mwyglen, anllades, anlladferch, anlladwraig, puten.
Cucubalus, *s.* (o'r Gr. *cacos* a *bolê*) gwlydd.
Cuculidæ, *s.* (Ll. *cuculus*) cogolion, cogleŵyth, llwyth y gog.
Cucullate, } *a.* (*cucullatus*) cycyllog, cwfl-
Cucullated, } edig, cycylledig, hwfog, hodog; â chap penfain iddo.
Cucumber, *s.* (Ll. *cucumer*; Ff. *coucombre*) cucumer, chwerfwr, chwerddwfr, chwerwddwr, chwerwddyfrlys.
Cucurbit, } *s.* (Ll. *cucurbita*) dystyllgib,
Cucurbite, } merinlestr, dystyllyr.
Cucurbitaceous, *a.* (Ll. *cucurbita*) cucumeraidd, cicaionaidd, greolaidd.
Cucurbitive, *a.* fel hadau y cicaion; greol-haidd.
Cud, *s.* (C. *chwyd*, yn ol *Junius*, ond ?) cil, cilfoch; cynghylla, cil boch, cyngwll, cynghwll, cyn-gylla; cilfochaid; adgnofaeth, adgnofwyd; safnaid, tamaid.
To chew the cud—cnoi cil, cnoi y cil, cnoi'r cil, adgnoi, eilgnoi, cilgnoi.
Cudbear, *s.* (oddi wrth Dr. *Cuthbert* Gordon) porfforgen; pylor Cuthberth; mwswn Cuthbert.
Cudder, } † *s.* (?) cuall, buall, delff, cadafael,
Cuddy, } hurtyn, symlyn, drel, delbren, hurthgen.
Cuddle, *v.* (C. *cuddio*; Llyd. *cuddyo*) cyrcydu, crycydu, yswatio, cwrian; gorwedd yn grynu; llechu, lleigio; cofleidio; llochi.
Cuddy, *s.* ystafell (mewn llong), cuddigl, cufigl, cell, cegin; globysg.
Cudgel, *s.* (C. *cogel*) pastwn, cwlbren, llachffon, llachbren, ystwyal, dulbren, dulffon, ialenffon, gwialffon, gwialenffon, ffon, clwpa, cogel.
To cross the cudgels—rhoi i fyny yr ymdrech, y ddadl, *neu* y chware; peidio â'r ymdrech; cyfaddef cael o hono ei orchfygu; cyfaddef ei orchfygu; tafu ei arfau i lawr; ymröi, ymroddi, ymostwng; rhoi y chware i fyny.
To take up the cudgels — cymmeryd yr ymdrech, y ddadl, yr ymddadl, *neu* y chware arno; dechreu yr ymdrech, yr ymddadl, *neu* y chware.
To play at cudgels—chwareu â ffyn; ymdrech â ffyn; chwareu â phastynau.
To beat with a cudgel=*Cudgel*, *v. a.*
Cudgel, *v. a.* pastyno, pastynu, ffonodio, ffondori, ystwyalu; llachio, ffusto, dulio, curo; curo, llachio, *neu* faeddu â phastwn; curo â ffon *neu* glwpa; ysbodoli.
To cudgel one soundly—dygaboli un; rhoi maeddgen, golchfa, cosfa, *neu* grasfa i un; rhoi cosfa dda i un.
To cudgel one's brains—pwyo ei ymenydd; pwnio ei ymenydd; curo *neu* ddulio ei ymenydd; syn fyfyrio, syn feddylied; gorweithio yr emenydd.
Cudgeller, *s.* (o *cudgel*) pastynwr, llachiwr, ffonodiwr; curwr â chwlbren, &c.
Cudgel-proof, *a.* â ddeil *neu* â oddef ffonod; â ddeil bastynawd; â geidw allan *neu* â wrthsaif ffonod; llach-brofedig.
Cudle, *s.* (Ysg. *cuddie* ?) globysg.
Cudweed, *s.* (*cotton-weed* ? ai *cud* a *weed* ?) edafeddog, yr edafeddog.
Mountain cudweed—edafeddog fynyddig, edafeddog ysgaredig.
Upright wood cudweed—edafeddog unionsyth y goedwig.
Marsh cudweed—penddu, edafeddog benddu.
Least cudweed — edafeddog leiaf, digoll lwyd.
Common cudweed—edafeddog lwyd, llwyd y ffordd, llwydyn y ffordd, penllwyd, llysiau y gynddaredd.
American cudweed—hir ei hoedl.
Cue, *s.* (Ff. *queue*; Ll. *cauda*) cynffon, llosgwrn, godre; diwedd, dyben; geiriau diweddaf araeth *neu* ymadrodd; awgrym,

amnaid, arwydd; cyfarwyddyd, hyfforddiad, addysg; tymmer, hwyl, ardymmer, tuedd; rhan; gorchwyl, swydd; tro; pelffon, ffon belre; ffyrling, ffyrlingwerth; adeg, cyfle, cyfamser, odfa, oedfa, arfod, achlysur, amser cyfaddas; cymhwysder lle ac amser.

Were it my cue to fight—pe fy rhan i fyddai ymladd; ped ymladd fyddai fy rhan i.

Mind your cue — nac esgeuluswch eich adeg, eich odfa, eich oedfa, *neu* eich arfod.

He is now in the cue for doing this—y mae efe yn awr mewn hwyl i wneuthur hyn.

In a merry cue — mewn anian lawen; mewn hwyl lawen.

He is not in the cue at present—nid yw yr awr, yr hwyl, *neu* yr ardymmer arno ar hyn o bryd.

If he be caught in the cue—os delir ef ar y tant.

Cuerpo, *s.* (Ysp.; Ll. *corpus*) corffwedd, corff.

To be in cuerpo, } bod heb gochl; bod

To walk in cuerpo, } heb hugan; bod heb orchudd; bod yn ddiorchudd, yn ddiargel, heb gudd, *neu* heb gel; bod yn ei oegedd ei hun; ymddangos yn ei liw a'i lun ei hunan.

Cuff, *s.* (Ll. *colaphus*?) dyrnod, paff, wab; cernod, bonclust, palfod.

To be at fisty-cuffs—dyrnodio, paffio; ymladd â dyrnau.

Cuff, *v.* dyrnodio, paffio, wabio; bonclustio, cernodio; curo, ymladd, ymbaffio; taraw â dwrn; crafangu; taraw â chrafangau *neu* esgyll.

Cuff, *s.* (Ff. *coeffe, coiffe*) torch llawes, llawesdorch, blaendorch llawes, arddyrndorch, llawdorch, llofdorch.

Cuinage, *s.* hychiant, clampiad, talpiad alcan.

Cuiass, *s.* (Ff. *cuirasse*) curas; dwyfroneg, broneg, llurig.

Cuirassier, *s.* (Ff.) curaswr, curasydd, curasog; milwr wedi ymwisgo â churas.

Cuish, } *s.* (Ff. *cuisse;* C. *coes*) morddwyd-

Cuisse, } wisg, clunwisg.

Culdees, *s. pl.* (Gael. *céiltich, coilltich;* Ll. *cultores Dei*?) Culdwys, Cywyllwys = math o fynachod boreol yn yr Alban a'r Iwerddon.

Culerage, *s.* (Ff. *cul*) elinog, tinboeth, yr elinog goch.

Culex, *s.* (Ll.) gwibedyn; gwibedryw: *pl.* gwibed.

Culicides, } *s. pl.* (Ll. *culex*) gwibedlwyth, y

Culicidæ, } gwibedlwyth.

Culiciform, *a.* (Ll. *culex* a *forma*) chwanenaidd; o lun neu wedd chwanen; tebyg i chwanen; chweinaidd.

Culinary, *a.* (Ll. *culinarius*) ceginaidd, ceginol; perthynol i gegin *neu* i geginiaeth.

Culinary fire—tân cegin; tân cyffredin.

Culinary art—ceginiaeth, coginiaeth, cogyddiaeth; celfyddyd y gegin.

Cull, *v. a.* (Ff. *cueillir;* It. *cogliere*) dewis, dethol, pigo, pigo allan, detholi, cwlio, dichlynu; pigaw o fysg ereill.

Cullender, *s.* (Ll. *colo*) hidl, hidyl, hidlyr.

Culler, *s.* (o *cull*) dewiswr, dewisydd, pigydd, pigwr, detholydd, etholydd, cwliwr; â bigo allan o fysg ereill.

Cullet, *s.* gwydr briw.

Cullibility, *s.* (o *cully*) coelgarwch, hygoeledd, rhygoeledd, penfasedd.

Cullion, *s.* (It. *coglione*) bawddyn, bawyn, anfadyn, bryntyn, dyhiryn.

Cullion, *s.* (Ll. *coleus*) crynwreiddyn, llorwreiddyn; tegeirian, eiria y ci, caill y ci, ceilliau'r ci.

Cullionly, *a.* bawaidd, brwnt, gwael, dyhiraidd.

Cullis, *s.* (Ff. *coulis*) isgell, potes, cawl hidledig.

Cullis, *s.* (Ff. *coulisse*) cwlas, cwlis, rhintlath, sylchymyl.

Cully, *v. a.* (Is. *kullen*) twyllo, hocedu, hudo, somi; chwareu y dwyllodres âg un; ffylio, ffoli.

Cully, *s.* un twylledig *neu* somedig gân ferch; un â dwyllwyd *neu* â somwyd gân hudolion *neu* ddyhirogod; cuall, symlyn, dyn hydwyll, hydwyllog, bawddyn hydwyll.

Cullyism, *s.* symlyndod, cuallodd, cualldra, hurthgendod.

Culm, *s.* (C. *colm*) cwlm, cwlwm, clwm, glo cwlm, glo clwm, glo cwlwm.

Culm, *s.* (Ll. *culmus, caulis;* C. *calaf*) callodr, paladr, calaf, corsen, coes, troed, bonyn, gwellt, cyff, conyn, gwrysg, gwlydd, sofl.

Culmen, *s.* (Ll.) copa, top, cop, cwnwg, crib, pen, trum, uchedd, argon.

Culmiferous, *a.* (Ll. *culmus* a *fero*) callodrog, paladrog, calafog; cylmog, llawn cwlm.

Culmiferous plant—called-lysiau, llysiau callodrog, celyf-lysiau.

Culminate, *v. n.* (Ll. *culmen*) ucheddu; dyfod i'r de; bod yn y de; esgyn i'r uchedd, i'r nen, *neu* i'r entrych; bod yn yr uchedd; nawnoli, nawnu.

Culmination, *s.* (o *culminate*) ucheddiad, nawniad; dyfodiad i'r de; trosiad y nenbwnc; uchder mwyaf seren; top, cwnwg, coryn, gwarthaf, cop, copa, nenbwnc, uchder, entrych, uchafnod, pwnc uchaf, uchder mwyaf.

Culpability, } *s.* (o *culpable*) beiusrwydd, bei-

Culpableness, } uader, beioldeb, cylusrwydd, hygyledd, hygwyledd; bai, cwl, cwyl; euogrwydd.

Culpable, *a.* (Ll. *culpabilis*) beius; i'w feio; cylus, cwylfawr, cylfawr, camgylus, hygwl, ar fai, ar y cam; euog o fai; euog, troseddol, pechadurus.

Culprit, *s.* (o *cul*, am *culpable*, a *prit*, parod, tybygir) un dân gyhuddiad; cyhuddog, cyhuddol, cyhuddedig; troseddwr, troseddur, drygweithredwr, camweddwr, camweddog.

Culter, *s.* (Ll.) cylltyr, cwlltyr, cylltor, cwlltr, crywyn.

Cultirostres, } *s. pl.* (Ll. *culter* a *rostrum*)

Cultrirostres, } cwlltrylfiniaid, swchylfiniaid = llwyth o adar, âg iddynt big hirgref flaenfain.

Cultivable, *a.* diwylliadwy, &c.

Cultivate, *v. a.* (Ff. *cultiver*, o'r Ll. *colo, cultus*) diwyllio, gwrteithio, coleddu, coledd, diwygio, trin, meithrin, maethu, amgeleddu, achlesu, meithrino, amaethu, llafurio, aru, areddu, arddu, gweryddu; diwyllu, cywyllio, amwesu, gwellhau, gwella, cyweirio, trwsio, ardymmeru, addurno; myfyrio, astudio; ymdrechu gwella; gwareiddio; cynnyrchu, codi.

To cultivate a language—diwyllio, coleddu, *neu* amgeleddu iaith.

To cultivate friendship—coledd, coleddu, cynnal, magu, amgeleddu, *neu* feithrin

cyfeillgarwch; dwyn cyfeillach yn mlaen.
Cultivated land—tir diwylliedig, &c.; tir ffaeth, tir diwylliog, tir diwyllus, diwylldir, tir cyfannedd.
Cultivated apples—afalau perion.

Cultivation, } *s.* (Ll. *cultura*) diwylliad, diwyll-
Culture, } iant, gwrteithiad, diwyllodraeth, triniaeth, triniad, trin, diwylliaeth, coleddiad, amgeleddiad, meithriniaeth, meithriniad, amaethiad, amaethad, amaethiaeth, tirdriniaeth, tirdriniad, tirddiwylliad, tirddiwylliodraeth, amaethyddiaeth, llafuriaeth, aredd, hwsmonaeth, llafurwriaeth; trin tir, cywylliad, diwyllawd, diwylliawd, cywyllawd, cywyllodraeth, cywyll, diwyll, gwrtaeth, gwellhad, gwelliant, gwellineb, amgeledd, coledd; addysg, addysgiad, addygiad, diwygiad, cyweiriad; cynnyrchiad, codiad.
Cultivation of language—diwylliad iaith, &c.; ieithgarwch.

Cultivator, } *s.* diwylliwr, diwyllydd, gwrteith-
Culturist, } iwr, diwyllodrydd, triniwr, coleddwr, amgeleddwr, amaethwr, areddwr, meithrinwr, &c.

Cultrated, } *a.* (Ll. *cultratus*, o *culter*) cylltr-
Cultrate, } og, cylltraidd, cylltyraidd;
Cultriform, } ar lun cwlltyr; llym a blaenfain.

Culture, *s.* (Ll. *cultura*)=*Cultivation.*
Culture, *v. a.*=*Cultivate.*
Cultureless, *a.* (*culture* a *less*) diddiwyll, anniwylliog, anniwyllus; heb ddiwylliad, &c.
Culturist, *s.*†=*Cultivator.*
Culver, *s.* (S. *culfer, culfra*) colomen, yseguthan.
Wood culver—yseguthan, cuddan, cuddon, cuthan.
Culver-house, *s.* colomendy, ty colomenod, cwb colomenod.
Culverin, *s.* (Ff. *couleuvrine*; Ll. *colubrinus*) hirfagnel, hirgyflegr.
Culverkey, *s.* allwedd y golomen.
Culvert, *s.* (Ff. *couvert*) tànffordd; mynedfa dàn ffordd *neu* gamlas; mydfa, crymfa; tànwythen, tànffos.
Culvertail, *s.* (*culver* a *tail*) penswth, rhen barcud, llosgwrn y golomen, cynffon y golomen.
Culvertailed, *a.* penswthog, penswthedig.
Cumbent, *a.* (Ll. *cumbens*) gorweddol, gorweddog; yn gorwedd i lawr.
Cumber, *v. a.* (D. *kummer*; Al. *kümmern*; Ff. *encombrer*) rhwystro, lluddio, lluddias; llestair, arluddio, ystwyo; attal, cyfattal, llwytho, beichio, gorlwytho; diffrwythu; dyrysu, afrwyddo, nidro, methlu, trafferthu; ymdrafferthu yn nghylch; bod yn drafferthus i.
To cumber one's self about a thing—trafferthu *neu* ymdrafferthu yn nghylch peth.
Martha was cumbered about much serving—Martha oedd drafferthus yn nghylch llawer o wasanaeth (*Luc* x. 40).
Why cumbereth it the ground?—pa ham y mae efe yn diffrwytho y tir?

Cumber, *s.* rhwystr, lludd, arludd, lluddias; beichusrwydd, methledd, dyryswch, trafferth, cyfyngder, afrwyddineb.

Cumbersome, } *a.* (o *cumber*) rhwystrus,
Cumbrous, } rhwystrol, afrwydd, rhwystrog, nidrol; trafferthus, blinderus, blin, trallodus; beichus, beichiol, trwm, amdrwm, gorthrwm, trathrwm, arlwythol, amrosgo; anhyddwyn, anhyglud; anhawdd ei ddwyn; gormesol, gormeilus, goreilidus, gorthrymus; anhydyn, anhydwyth; cymmysg, annhrefnus.

Cumbersomeness, } *s.* rhwystrusrwydd, rhwystr-
Cumbrousness, } oldeb, rhwystrusedd, rhwystri, afrwyddineb, rhwystrogrwydd; trafferthusrwydd, trafferthusdra, nidri, afrwydd-deb, beichusrwydd, beichioldeb, trymder; gorthrymder, gormesoldeb, gormeilusrwydd, blinderusrwydd; anhydynder, anhydwythder, anhydwythdra.

Cumbrance, *s.* (o *cumber*) rhwystr, lludd, lluddias, baich, llwyth, trymfaich, gorlwyth, nidr, nidri, llestair, arludd, methl, methledd, dyryswch, goludd, attal, rhagod, ffaig, lluddiant, rhwystri, arluddiad, rhwystrad, afrwyddad, rhwystrasi.

Cumfrey, } *s.* (Ll. *confirma?*) cyfardwf, llysiau
Comfrey, } y cwlwm.

Cumin, *s.* (Gr. *cuminon*; Ll. *cuminum*) cwmin.

Cuminic Acid, *s.* (o *cumin*) sur cwminig, sur cwmin.

Cumulate, *v. a.* (Ll. *cumulo*) pentyru, tyru, crugio, crugo, casglu, carneddu, athyru, sypio, dasylu, dasyrnu, cludeirio, carnu, cyttyru, cynnull yn nghyd.

Cumulation, *s.* (Ll. *cumulatio*) pentyriad, tyriad, crugiad, casgliad, carneddiad, carniad, crugiant, cludeiriad, casgl, dargynnull, cyttyriad, dasyliad, dasyrniad, clasg, twr, pentwr.

Cumulative, *a.* (o *cumulate*) pentyrol, athyrol, crugiol, tyrol, carneddol, dasyrnol, dasylaidd; chwanegol, attodol.

Cumulous, *a.* (Ll. *cumulus*) pentyrog, athyrog, crugiog; llawn pentyrau *neu* grugiau.

Cumulo-stratus, *s.* (Ll.) tarthgwmwl, crymgwmwl tarthog.

Cumulus, *s.* (Ll.) crymgwmwl, cwmwl gwŷn, dasgwmwl.

Cun,† *v. a.*=*Con.*

Cunctation, *s.* (Ll. *cunctatio*) oediad, gohiriad, gohiriant, gohir, oed, oediant, llercian.

Cunctator, *s.* (Ll.) oedwr, gohiriwr, gohirydd.

Cund, *v. a* =*Cond.*

Cuneal, *a.* (Ll. *cuneâlis*, o *cuneus*) cŷnaidd, geingaidd, llettemaidd; ar lun *neu* wedd cŷn; ar wedd *neu* ddull gaing; fel gaing *neu* gŷn; cŷniol, geingiol, llettemol.

Cuneate, } *a.* (Ll. *cuneatus*) geingaidd, cŷn-
Cuneated, } aidd, llettemaidd, cŷniol, geingiol.

Cuneiform, } *a.* (Ll. *cuneus* a *forma*) cŷnaidd,
Cuniform, } geingaidd, llettemaidd, geing-lun; ar lun *neu* ddull gaing *neu* gŷn; gaing-ffurfaidd, cŷn-ffurfaidd.
Cuneiform letters—llythyrenau geingaidd, llettemaidd, *neu* gŷnaidd; llythyrenau geingiol, llythyrenau geing-lun; llythyrenau pen gaing; llythyrenau pensaeth, llythyrenau pen saeth.

Cunner, *s.* brenigen, llygad myharan.

Vacation days—dyddiau dyddon; dyddiau dysbeidiant.
Court days, } dyddiau llys, dyddiau hawl,
Law days, } diwrnodau llys, llysddyddiau; dyddiau coll a chaffael; dyddiau cyfraith; dyddiau ar y rhai y cynnelir cyfraith.
A set day—dydd penodol, dydd penodedig, dydd nodedig, oed dydd.
A day appointed—dydd penod, dydd penodedig, dydd ammodol.
A day appointed for hearing—dydd penod hawl; penod-ddydd hawl.
Days of return—dyddiau attychwel, dyddiau ymchweliad, dyddiau cyfreithiol.
Day for prognosticating—coelddydd, dydd coel.
Sidereal day—dydd seryddol, dydd seronol.
Living but for a day—undyddiog.
A fine day—diwrnod teg, diwarnod hyfryd.
The other day—y dydd arall; ychydig ddyddiau yn ol; y dydd a'r dydd; y dydd neu'r dydd; er ys dim llawer o amser.
Now-a-days—y dydd heddyw; yr oes hon; yn yr oes hon; yr amser hwn; yn awr; yn y dyddiau hyn; yn y dyddiau presennol; y dyddiau hyn; heddyw; y to hwn; y to presennol; y to y sydd.
Of late days—yn ddiweddar; yn hwyr ddyddiau; yn y dyddiau diweddar; yn hwyr o amser; yn hwyr; yn ddiweddar o amser; yn yr amseroedd diweddar.
At shutting in of day—yn y cyfnos; yn y cyflychwyr; yn y gogyfnos; yn y gorchyfarwy; yn hwyr *neu* ucher y dydd; yn nghyfliw gwr a llwyn; pan ucherai y dydd; yn ngwyll y nos; yn min nos.
It is day—y mae yn ddydd; mae yn oleu.
As soon as it is day—cyn gynted ag y byddo hi yn ddydd *neu* yn oleu; cynted ag y dyddhao hi.
In the day-time, } wrth oleu y dydd; wrth
By day, } liw dydd; wrth liw
By day-light, } dydd goleu; lliw dydd; liw dydd; liw dydd goleu; liw goleu ddydd; liw goleuddydd; yn ngoleuddydd; ddydd goleu; yn ystod y dydd.
The day breaks—mae hi yn dyddhau; mae yn dyddhau; mae yn dyddio; mae y dydd yn tori; mae y wawr yn tori, yn codi, *neu* yn rhacio; mae y dydd yn cleisio; y mae hi yn gwawrio; y wawr a gyfododd.
When it was day—a hi yn ddydd.
To spend one's days—treulio ei ddyddiau, ei oes, *neu* ei amser; byw, bucheddu, oesi.
A day, } y dydd, yn y dydd, wrth y
By the day, } dydd.
He came that day—efe a ddaeth y dwthw hwnw.
To give one the time of the day—cyfarc y pryd o'r dydd i un; cyfarch un *neu* un; dywedyd 'dydd da iwch' wrth un dywedyd y pryd o'r dydd wrth un.
A day's work—gwaith diwrnod; gwait undydd; diwrnod o waith.
Work day—dydd gwaith, diwrnod gwaith.
Day's wages—hur undydd, cyflog undyd dyddged, dyddwobr, dyddobrwy.
Forty days—deugain diwarnod; deugai niwrnod; deugain niau.
Close of day — diwedydd, hwyr, uche hwyr y dydd; terfyn y dydd.
First day—unfed dydd, unfettydd.
Second day—ail ddydd, eilfed dydd, ei fettydd, deufettydd, deuettydd.
Third day — trydydd dydd, trydedyd trifed dydd.
Fourth day—pedwerydd dydd, pedrydy pedwarfed dydd.
Fifth day—pummed dydd, pummettydd.
Sixth day—chwechfed dydd, chwech dydd, chwechettydd.
Seventh day—seithfed dydd, seithfetty
The first day of the month—y dydd cynt o'r mis; calan y mis.
May-day—calanmai, calan Mai.
Day school—ysgol ddyddiol.
Day scholar—ysgolor dyddiol.
To win the day—ennill y dydd; ennill gamp; myned â'r gamp; cario y dydd cael y dydd; ennill y fuddugoliaeth y maes, y bel, *neu* y gâl; cael yr orue afiaeth; cael y maes; cael y goreu dwyn y bel; dwyn y gloch; myned dydd.

Daybeam, *s.* (*day* a *beam*) goleuni dydd, gole y dydd; goleuni, gwawl.

Daybed, *s.* dydd-wely, gwely dydd, gwel anwes.

Daybook, *s.* dyddlyfr.

Daybreak, *s.* gwawr, y wawr, gwawrddydd toriad y dydd, clais y dydd, cyfddydd, cyn ddydd, pylgain, plygain, pylgaint, plygaint glasiad y dydd, llug y dydd, dychlais y dydd gwawriad y dydd; glaswawr; toriad y wawr rhaciad y wawr, rhaciad y dydd, codiad wawr; boreuddydd, glasddydd, bore, bore ddydd, y goleu cyntaf.
A little before daybreak — ychydig cyn toriad y dydd, &c.; ar y pylgain; yn pylgain.

Daycoal, *s.* dyddlo, haen uchaf glo.

Daydream, *s.* breuddwyd lliw dydd; dydd freuddwyd.

Dayflower, *s.* dyddflodyn, dyddflodeuyn.

Dayfly, *s.* dyddgleren, dyddglyryn; cleren *neu* gylionen undydd; trychfil undydd; trychfil undyddiog.

Dayflyer, *s.* dyddhedegydd; milyn â ehedo wrth liw dydd.

Daylabour, *s.* dyddwaith, dyddlafur, gwaith diwrnodol, diwrnodwaith; gwaith wrth hur y dydd; gwaith wrth y dydd.

Daylabourer, *s.* dyddweithiwr, dyddweithydd, gweithiwr hur, gweithiwr wrth y dydd, diwrnodwr, dyddlafurwr.

Daylight, *s.* goleuni dydd, goleu dydd, goleu y dydd, dydd goleu; dyddwawl, gwawl dydd.
It is just upon daylight—mae hi ar wawrio,

ar oleuo, ar ddyddio, *neu* ar ddyddhau; mae hi ar y dydd; mae hi yn mron dydd; mae y wawr ar dori.

Day-lily, *s.* cilgain, gwaew y brenin.

Dayly, *a.* (o *day*)=*Daily.*

Day-rule, Day-writ, } *s.* dyddysgrifwys, dyddreol.

Dayman, *s.* (*day* a *man*) dyddiwr, canolwr, cyfryngwr, cyfryngydd, cylafareddwr; barnwr.

Dayspring, *s.* y wawr, y wawrddydd, gwawr, gwawrddydd, y wawr ddydd; toriad, glasiad, *neu* gleisiad y dydd; pylgain, plygain, pylgaint, plygaint; bore.

The dayspring from on high—codiad haul o'r uchelder (*Luc* i. 78).

Daystar, *s.* seren ddydd, y seren ddydd, gwenddydd, seren fore, y seren foreu; Gwener, y seren Gwener, seren Wener; Gwawlddwyn, Goleuddwyn.

Day's-work, *s.* gwaith diwarnod, gwaith dïwrnod; gwaith undydd; dïwrnod o waith.

Daytime, *s.* dydd, y dydd; amser goleu y dydd; ymod y dydd.

Day-wearied, *a.* dydd-flin, dydd-flinderog, dydd-flinedig; blin gân lafur *neu* ludded y dydd.

Day-woman, *s.* llaethwraig, maerones, meiriones, maerwraig, hafodwraig, morwyn llaeth, morwyn y blith.

Daywork, *s.* dyddwaith, dyddlafur; gwaith wrth y dydd; gwaith wrth hur y dydd; gwaith dïwrnodol, dïwrnod-waith.

Daze,† *v. a.* (S. *dwæs, dysi*) gorddysgleirio, pelydru, teryllu.

Daze, *s.* teryllfaen, llacharfaen.

Dazzle, *v. a.* (S. *dwæs, dwæscan*) serenu, teryllu, pelydru, ardywynu, gorddysgleirio, gorllathru, lluganu, llathru, dallu; peru i'r llygaid serenu *neu* deryllu; dallu y llygaid *neu* yr olwg; dallu â gormodd oleuni *neu* ddysgleirdeb; cymylu llygaid; bwrw hud *neu* niwl dros lygaid.

My eyes dazzle—mae fy llygaid yn serenu; mae'm llygaid yn teryllu.

Dazzlement,† *s.* (o *dazzle*) sereniad, terylliad, gorddysgleiriad.

Dazzling, *a.* teryll, llachar, dysglaer, gorddysglaer, ffloew, llathraid, llathr, llathraidd, echdywynol, ysblenydd, serenol, seirian, gloew, llewyrchol, ysblan, claer, claerwych, glai, eirig, eirian, tanbaid, lluglawn, pelydrol, effan; yn dallu y llygaid.

De, (Ll.) rhagddawd yn dynodi *oddi wrth, o, ymaith; i lawr; an- dad-, di-, dis-; tra, gŏr-; hollol.*

Deacon, *s.* (Gr. *diaconos*; Ll. *diaconus*) dïacon, diagon, degon, aeddon, iagon.

Deaconess, *s.* dïacones, dïagones, aeddones, degones, iagones; gweinidoges.

Deaconry, Deaconship, } *s.* (o *deacon*) dïaconiaeth, dïagoniaeth, degoniaeth, aeddoniaeth, iagoniaeth; swydd *neu* urddas dïacon.

Dead, *a.* (Is. *dood*; Sw. *död*; Al. *todt*) marw; marwaidd, difywyd, dïenaid, dïysbryd; wedi marw; wedi trengu; heb nac enaid nac anadl; merwin; yn merwino; â chwsg *neu* gysgfa ynddo; syth; diffrwyth, gwyw, gwywedig, crin; cysglyd, llwfr, llwrf; musgrell, diog, swrth, (*f.* sorth), trwm, trymaidd, trymllyd, trymhyrddig, anfywiog, dïymadferth, anweithgar, llesg, llesgenaidd, llibin; pwl; henaidd; oerllyd, anwresog, dïwres; dïeffaith; dideimlad, dïymdeimlad; diflas, merf, merllyd; dwfn; digyffro; gwag.

To make dead=*Deaden.*

Naturally dead—gwedi marw a threngu; gwedi trengu a marw.

Dead sleep — trymgwsg, trymhun, margwsg, cwsg marw, marw gwsg.

To be dead—bod yn farw; bod wedi marw *neu* drengu; bod wedi darfod am dano; bod wedi ymadael â'r byd; bod wedi terfynu.

He is dead—y mae wedi marw; y mae yn farw; y mae wedi trengu, &c.

When he was dead—pan oedd efe wedi marw; pan oedd efe yn farw; gwedi ei farw; ac efe wedi marw; gwedi marw o hono; gwedi ei farwolaeth.

Dead of itself—burgunaidd, llurgunaidd; gwedi marw *neu* drengu o hono ei hun.

That is dead of itself—abwy, abo, burgun, llurgun, buria, abod, abar; à fo farw o hano ei hun.

Half-dead—hanner marw; lledfarw, gallmarw, go-farw; lledfyw, breiddfyw.

Dead body—corff marw, celain, celan.

Dead coal—marworyn diffoddedig, glo marwor.

Dead drink—dïod farw, ferf, *neu* ddiflas; dïod egr ddiflas; dïod wedi colli ei grym *neu* nerth; dïod ddinerth.

Dead pays—talion coll; talion marw; cyflog y lladdedigion a'r ffoedigion mewn rhyfel.

Dead-born — marw-anedig, marw-enedig, marw geni; à anwyd *neu* à enir yn farw.

Dead water—dwr sefydlog, marw, merydd, *neu* ferllyd; merddwfr, merddwr, merllyn, llynwyn, marwddwfr, marddwfr.

Stone dead—marw syth; mòr farw a'r gareg; marw gelain.

Dead language—iaith farw; iaith ddïarfer; iaith nad yw ar arfer gwlad.

Dead letter—llythyr dïarddel, llythyr dïarddelw; llythyren farw.

Dead-letter office — swyddfa llythyrau dïarddel.

Dead, *s.* marw; meirw, meirwon; dyfnder, cefnaint, canol.

The dead—y meirw, y meirwon.

The quick and the dead—y byw a'r meirw.

The dead of night—dyfnder nos, cefnaint nos, canol nos, trymder nos, perfeddion y nos.

The dead of winter — dyfnder gauaf; canol gauaf.

To mourn for the dead—arwylo; galaru am y marw.

Make no mourning for the dead—na wna farwnad (*Esec.* xxiv. 17).

Dead,† *v.* marweiddio, lladd, marwolaethu; ymfarweiddio.

Dead-doing, *a.* dinystrol, dinystriol, angeuol, dyfethol, dystrywgar, adwythig; à laddo yn ddifeth.

Dead-doors, *s. pl.* dorau segur; dorau i ddysgwyl taro.

Dead-drunk, *a.* llwyrfeddw, llwyrfrwysg, abrwysg, cwbl feddw; marw gân feddwdod; cancr-feddw; meddw chwibwrn.

Deaden, *v.* (Is. *dooden*; Al. *tödten*; o *dead*) marweiddio, marwhau, marwolaethu, marwolhau, lladd, marwoli; peri yn farw; marthu,

gwanhau, gwanychu; pylu, diawchu; merfu, difiasu.

Dead-eye, *s.* marlygad; math o chwerfan dro.

Dead-flat, *s.* marblyg.

Dead-freight, *s.* llonglog marw, gwag longlog.

Dead-hearted, *a.* calon-farw, calon-leog; digalon, gwangalon, diysbryd, llwfr.

Dead-heartedness, *s.* gwangalondid, digalondid, llyfrdra, llyrfedd.

Dead-hedges, *s. pl.* margloddiau, cloddiau annhyfol, cloddiau tocion.

Deadish, *a.* marwaidd, gofarw, lledfarw, marth, marthig.

Dead-lift, *s.* trymbwysi, pwysi; angen, angenoctyd; dygn angen, dygnedd, cyfyngder, cyfyng-gynghor, eithaf perygl; y cynnyg diweddaf; y weddi ddiweddaf; angen diobaith; yr hwp olaf.

He came to their assistance at a dead-lift —efe a ddaeth yn gynnorthwy iddynt pan oedd reitaf iddynt wrtho; daeth yn gynnorthwy iddynt pan oeddent ar y weddi ddiweddaf, yn eu hangenoctyd, yn eu cyfyng-gynghor, neu ar yr hwp olaf.

Dead-light, *s.* marlewyrch; rhwyllglawr; tyllglawr; canad goleu neu ffenestr llong.

Deadlihood,† *s.* marwolrwydd; sefyllfa neu gyflwr y meirw.

Deadliness, *s.* angeuoldeb, angeuolder, angeuolrwydd, marwolder, marwoldeb, marwolrwydd, dinystroldeb, dinystrioldeb.

Deadly, *a.* (o *dead*) marwol, angeuol; dinystrol, dinystriol, gwenwynig, gwenwynllyd, niweidiol, adwythig, creulawn.

Deadly, *ad.* yn farwol, &c.; fel yr angeu; fel angeu; fel un marw; dygn, lawn, dros ben, tra.

Deadly pale—gwelw fel yr angeu; glas fel yr angeu; glas angeuol; gwelw angeuol; cyn lased a'r angeu; cyn welwed a'r angeu; mòr welw a'r angeu.

Deadly wounded—gwedi cael neu dderbyn archoll farwol; gwedi cael neu dderbyn archoll neu glwyf angeuol.

He was deadly fatigued—yr oedd efe yn mron marw gàn ludded; yr oedd yn barod i farw gàn ludded; yr oedd ar farw gàn ludded; yr oedd efe yn ddygn luddedig; yr oedd efe yn lluddedig iawn; yr oedd yn lluddedig dros ben.

Deadly-carrot, *s.* moron marwol.

Deadly-nightshade, *s.* codwarth = math o blanigyn gwenwynig.

Dead-neap, *s.* trai, gordrai, iseldrai, iselfor, marwddwfr, llanw isel, dystyll.

Deadness, *s.* (o *dead*) marweidd-dra, marwedd, marweidd-dod; gwendid, syrthni, marthrwydd; marweiddiad; pylni, pyledd; oeredd, oerder; difiasdod, difaterwch; merfedd, merfdra.

Deadnettle, *s.* (*dead* a *nettle*) marddanadlen, marwddanadlen, marwddanaden, marddanaden; danadlen ddall, fud, neu farw; danaden ddall, fud, neu farw.

Yellow deadnettle — eurddanadlen, marddanadlen felen.

Red deadnettle — marddanadlen goch, marwddanadlen goch, danaden farw goch, danadlen farw goch.

White deadnettle — marddanadlen wèn, marwddanadlen wèn, danadlen farw wèn, danaden fud wèn.

Dead-pledge, *s.* marwystl, marw-wystl, gwystl

Dead-reckoning, *s.* margyfrif, marwgyfrif, marw gyfrif.

Dead-ropes, *s. pl.* marwraffau.

Dead-shoar, } **Dead-shore**, } *s.* marbren, marwddarn.

Deads, *s. pl.* amsothach mwn; y pethau sy' amgylchu mwn yn y ddaiar.

Dead-struck, *a.* gwedi delwi; gwedi ei daro â syndod, â dychryn, neu âg arswyd; gwedi ei daraw yn farw.

Dead-water, *s.* marwddwfr, marddwfr, merddwfr, merllyn, llynwyn; dwfr marw, sefydlog, llonydd, merllyd, neu ferydd.

Dead-wind, *s.* marwynt; gwrthwynt, gwynt gwrthwyneb.

Dead-works, *s. pl.* y rhannau uwch y dwr (long).

Deaf, *a.* (S.; Is. *doof*; D. *döv*; Sw. *döf*) byddar trymglyw, clustfyddar; trwm ei glywed; trwm ei glybod; diglyw; aneglur, anghroew anhyglyw; anystyriol; gwedi ei fyddaru.

To be deaf — bod yn fyddar; bod y glustfyddar; bod yn drwm ei glywed neu glybod.

To be deaf to—troi y glust fyddar at; bod heb fynu neu chwennych clywed; bod yn fyddar i.

To make deaf — byddaru; syfrdanu gwneuthur yn fyddar.

To become deaf, } To grow deaf, } myned yn fyddar; trymhau o'r clybod; trymhau o'r clywed; byddaru; myned yn drwm ei glywed.

A deaf person—byddar, dyn byddar, un byddar: *pl.* byddariaid.

A deaf woman—byddares, byddar, dynes fyddar, dyn fyddar, benyw fyddar, un fyddar.

Deaf eared—clustfyddar.

A deaf ear—clust fyddar, byddarglust.

Deaf and dumb—mud a byddar; mud fyddar, byddarfud.

Somewhat deaf — go fyddar, lledfyddar anhyglust; trwm ei glybod; trwm ei glywed; tràn fyddar.

Deaf,† *v. a.* byddaru.

Deafen, *v. a.* (o *deaf*) byddaru; syfrdanu tynu clustiau.

Deafness, *s.* (o *deaf*) byddarwch, bydderi byddardra, byddardod; trymder clyw, trymder clywed, trymder clybod, trymglybod.

Deal, *v.* (S. *dælan*, *bedælan*, *gedælan*; D. *deeler*) rhanu, cyfranu, dosbarthu; rhoi rhoddi; rhoi rhan; rhoi peth yn rhanau tori i; gwasgaru, taenu, lledu; taflu amgylch; masnachu, trafnidio, ymdrafnidio maeliera, marchnata, negeseua, trafnidio trin, ymdrin, trafod, trafodi, ymdrafod, ymdrafodi; cywerthu, cyfaelio; ymgystlynu gwneuthur, gwneyd; ymddwyn; ymwneyd ymwneuthur, gweithredu, ymweithredu gweithio; llywodraethu; bod à wnel; bod à wnelo; cyfryngu; rhoddi un ar ol y llall rhoi yn aml.

To deal blows — rhoi aml ddyrnodiau, ergydion, neu ffonodiau; amlhau dyrnodiau neu ergydion; mynychu ergydion; dyblygu neu ddyblu dyrnodiau neu

ergydion; tafiu ergydion; rhoi dyrnodiau yn ffàn ac yn aml; llachio, paffio, dyrnodio, ymarfodi.

I will deal plainly — gwnaf yr hyn a fyddo amlwg, eglur, goleu, *neu* ddidwyll; ymddygaf yn deg *neu* yn ddidwyll.

Deal not foolishly—nac ynfydwch.

You deal friendly—yr ydych yn gwneuthur yn garedig; yr ydych yn gwneuthur fel câr *neu* gyfaill; caredig y gwnewch; fel câr yr ydych yn gwneuthur.

To deal deceitfully—ymddwyn yn dwyllodrus; gwneuthur *neu* drin yn dwyllodrus; gwneuthur lliw o beth; somi, bradychu, twyllo; bod yn anffyddlawn i; gwneuthur dirdra; bod yn dwyllodrus.

To deal deceitfully in bargaining—twyllfarchnata, twyll fasnachu.

He dealeth very subtilely—mae efe yn gyfrwys iawn.

The men of Shechem dealt treacherously with Abimelech—gwŷr Sichem a aethant yn anghywir i Abimelech (*Barn.* ix. 23).

To deal with one about *or* concerning—ymddyddan, ymchwedleua, siarad, *neu* ymdrin âg un yn nghylch.

About whom all the Jews have dealt with me — oblegid pa un y galwodd holl Iuaws yr Iuddewon arnaf fi (*Act.* xxv. 24).

To deal with *or* by—gwneuthur âg; ymddwyn tuag at; ymddwyn at; trin, trafod; ymwneyd âg.

Deal not with us after our sins—na wna â ni yn ol ein pechodau.

To deal with—gwneuthur â; gwneyd â; ymddwyn at *neu* tuag at; trin, trafod; ymwneyd â; gweithredu â; ymgystlynu âg; ymgystlwn âg; ymweithredu â; masnachu âg; ymfasnach âg; ymdrin â; bod à wnelo âg; ymryson â; gwrthsefyll; rhybuddio, rhagrybuddio.

To deal in — ymfasnachu yn *neu* mewn; masnachu yn *neu* mewn; trafnidio yn *neu* mewn; ymfasnachu; ymwneyd âg; ymwneuthur â; bod à wnel âg; arferu, arfer; ymdrin â; cytuno, bargena; arfer cadw.

Do you deal with me so?—ai felly y gwnewch â mi? ai felly yr ymddygwch ataf?

He dealt basely by me—efe a wnaeth yn frwnt, yn anaddas, yn anffyddlawn, yn gywilyddus, yn fawaidd, yn greulawn, yn anŵraidd, *neu* yn anfoneddigaidd â mi.

He dealt roughly with her—triniodd hi yn anhynaws.

Deal not with me according to my deserts —na thâl i mi yn ol fy haeddiant.

Deal truly with me—dywed y gwir i mi; na thwylla fi; na soma fi; na thwylla mo honof.

Wherefore dealt ye so ill with me?—pa ham y'drygasoch fi?

God hath dealt graciously with me—Duw a fu dda wrthyf; Duw a fu raslawn wrthyf.

He becometh poor that dealeth with a slack hand—y neb a weithio â llaw ddiog fydd dlawd.

He dealt with familiar spirits—mawrhaodd swynyddion (2 *Bren.* xxi. 6).

Who dealeth in proud wrath—â wnelo beth mewn digllonedd balch.

To deal with one another—ymdrafnidio.

To deal the cards—rhanu, cyfranu, dosbarthu, *neu* yru y cardiau.

I am to deal next—myfi sydd i ranu yn nesaf; mi biau rhanu yn nesaf.

Deal away—gyrwch y cardiau; gyrwch arni.

Deal, *s.* (S. *dæl*, *dal*, *gedal*; Is. *deel*; Al. *theil*) twysged, swrn, twysgen, llawer, amledd, amlder, llaweroedd, nid ychydig, swm, swmp, syrnyn, cryn swrn, cryn lawer, rhan, cyfran, cetyn, tipyn, craff, wmredd; hobyn, gyr.

A great deal, A good deal, } llawer, twysged, swrn, amledd, amlder, helaethran, llaweroedd, llawer iawn, nid ychydig, mwy na mwy, llawer byd, cyfran fawr.

He has a deal of wealth—y mae ganddo lawer o gyfoeth; y mae ganddo amledd o gyfoeth; mae ganddo lawer iawn o gyfoeth; y mae ganddo gyfoeth lawer; y mae yn berchen da lawer; y mae ganddo gyfoeth nid ychydig; y mae ganddo gyfoeth mawr aneirif; mae ganddo beth anfeidrol o gyfoeth; y mae ganddo swrn o gyfoeth, &c.

It is a great deal better—mae yn well o lawer; y mae yn llawer gwell; llawer gwell yw; gwell o lawer ydyw.

One of them is a great deal better than the other—y mae un o honynt yn rhagori yn mhell ar y llall; y mae y naill o honynt yn well o lawer na'r llall.

He is a great deal wiser—mae efe yn gallach o lawer; y mae efe lawer yn gallach; mae efe yn llawer callach.

It is a great deal better to beg than starve—llawer iawn gwell yw cardota na newynu.

A considerable deal—syrnyn, swrn, cryn swrn, twysged, twysgen, craff, talm, twysg.

I have but a very unconsiderable deal of it—nid oes genyf graff yn y byd o hono; nid oes genyf ddim craff o hono; nid oes genyf ond y prinder o hano; nid oes genyf fawr swrn o hono.

A deal of cards—gyr o gardiau, hobyn o gardiau; hobyn, gyr.

Deal, *s.* (Al. *diele*; Is. *deel*) ffaw-wydd, pren ffaw-wydd, ffeinidwydd; astell, llifwydden, ystyllen: *sing.* ffaw-wydden.

Deal boards—byrddau ffaw-wydd, estyll ffaw-wydd.

Dealbate, *v. a.* (Ll. *dealbo*) gwynhau, gwynu, cànu.

Dealbation, *s.* (Ll. *dealbatio*) gwynhad, gwynad, cànad.

Dealer, *s.* (o *deal*) masnachwr, masnachydd, trafnidiwr, marchnatwr, maelier, maelierydd, maelierwr, maelotai, maelur, maelanydd, cyfaeliwr, cywerthydd; prynwr; gwerthwr; rhyngfaelwr; rhanwr, cyfranwr, dosbarthwr, dosbarthydd, rhoddwr; hobynydd, hobynwr, gyrwr y cardiau.

Petty dealer — maelotyn, gofasnachydd, maeleryn, maelieryn.

Itinerant dealer — teithwicwr, gwicwr,

gwicydd, edwicwr, cylchwicydd, gwerthwr teithiol.
Wholesale dealer—cyfanwerthwr, cyfanwerthydd.
Retail dealer—manwerthwr, mânwerthydd, adwerthwr, adwerthur, mânwerthiedydd.
Dealer in linens—llieinydd, llianwerthwr, llieinwerthydd; masnachydd mewn llian; masnachwr llieiniau; gwerthydd llïain.
Double dealer, } twyll-fasnachwr, hocedFalse dealer, } ydd, twyllwr, somwr, bradwr, twyll i'w gyfaill, twyll i'w gydymaith, dyn anffyddlawn, dyn bradwrus, dyn twyllodrus, dyn deuwynebog; â chwareuo y ffon ddwybig; â fedro chwareu y ffon ddwybig.
Plain dealer—cywirddyn, cleuddyn, dyn gonest, dyn clau, dyn cywir, dyn difrad; dyn teg *neu* onest yn ei fasnach; dyn uniawn a gonest yn ei fasnach; dyn dihoced yn ei fasnach.

Dealing, *s.* (o *deal*) masnach, trafnid, trafnidiaeth, marchnadaeth, cyfaeliaeth, cydfasnach, ymdrafnidiaeth, maelieraeth, cysmeriaeth; ymddygiad, ymarweddiad, arfer, ymarfer; gwaith, gweithred; triniaeth, ymdriniaeth, trafod, trafodiaeth, gorchwyl; cystlwn, ymgystlwn, cyfathrach, cyweithas, cyfeillach; neges, negeswriaeth; cyfraniad, rhaniad.
I never had any dealing with him—ni bu i mi erioed fasnach, neges, *neu* drafnid âg ef; ni bu rhyngof fi ac ef fasnach erioed; ni bu rhyngof fi ac ef na masnach na neges erioed.
I will have no dealing with you—ni bydd i mi â wnelwyf â chwi.
The Jews have no dealings with the Samaritans—nid yw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid. [air i chwi.
I hear of your evil dealings—clywaf ddryg-
We have no dealings with them—nid oes i ni ymdriniaeth â hwynt; nid ydym ni yn ymdrin â hwynt.
Such was his dealing toward me—y cyfryw oedd ei ymddygiad tuag ataf fi; dyma y fath oedd ei ymddygiad tuag ataf fi; dyma y driniaeth a gefais ganddo; dyma y driniaeth â gefais oddi ar ei law ef; dyma y modd y triniodd efe fi.
There is no dealing with him—nid oes dim i'w wneyd âg ef.
Double dealing, } twyll-fasnach, deuFalse dealing, } wynebedd, anonestIndirect dealing, } rwydd, hoced, twyll, twyll-ymddygiad, somchware, anffyddlondeb, brad, bradwriaeth, dichell, chwired, ffalsedd, chwiongl, somedigaeth; twyll drwy ymddiried; chware y ffon ddwybig; chware y llaw wèn.
A double-dealing man—dyn deuwynebog, hocedus, twyllodrus, cyfrwysddrwg, dichellgar, *neu* ystrywgar; twyllfasnachwr.
Hard dealing — gwasg-farchnad, gwasgwerth, caled-werth, gwasg-bryniad, gwasg-bryn, caled-bryn, gwasgiad, caledrwydd, *neu* galedwch wrth brynu *neu* werthu; cribddail, gormail; triniaeth anhynaws *neu* galed.

Deambulate,† *v. n.* (Ll. *deambulo*) gwibio, crwydro, rhodiana, amrodio; rhodio yn rhydd.
Deambulation, *s.* (Ll. *deambulatio*) rhodiad, amdramwyad, amwibiad; gorymdaith.
Deambulatory, *s.* (Ll. *deambulatorium*) rhodfa, rhodle, rhodianfa.
Deambulatory, *a.* rhodianol, amdramwyol, tramwyol, rhodiol, amwibiol.
Dean, *s.* (Ff. *doyen*; Ysp. *dean*, *decano*; It. *decano*; o'r Ll. *decanus*) deon, dean: *pl.* deoniaid, deonau, deaniaid.
Rural dean—deon gwladol, ardal-ddeon.
Dean and chapter—deon a glwysgor; deon a chabidwl; y deon a'i gôr.
Dean of the Arches—Deon yr Archau, Deon yr Archlys.
Dean of Peculiars—Deon y Gwahanlysoedd, Deon y Gwahanfreintiau.
The Very Reverend the Dean—y Trapharchedig y Deon; y Gorbarchedig Ddeon; y tra Pharchedig Ddeon.
The Very Reverend the Dean of Bangor—y Trapharchedig Deon Bangor; Gorbarchedig Ddeon Bangor; Tra pharchedig Ddeon Bangor.
Deanery, *s.* (o *dean*) deoniaeth, deaniaeth; deondy, deonfa; llywodraeth *neu* awdurdod deon; ardal deon; cyllid deon.
Deanship, *s.* (o *dean*) deoniaeth, deaniaeth; swydd ac urddas deon.
Dear, *a.* (S. *deor*; Al. *theuer*; Sw. *dyr*; Is. *dyur*) anwyl, hoff, cu, cariadus, caredig, anwylgu, cuain, cuaidd, hoffain, hoffaidd, anwylaidd; drud, prid, gwerthfawr, prisfawr, costus, costfawr, uchelbris, mawrwerth, mawrbris, mawrwerthiog.
Too dear—rhy ddrud, rhy brid, rhybrid.
Dearly beloved—anwyl gariadus, anwyl garedig, anwylgu; anwylyd: *pl.* anwyl garedigion, anwyliaid, caredigion, anwylion.
Dearly beloved brethren—anwyl gariadus frodyr; anwyl garedig frodyr; fy anwyl gariadus frodyr; brodyr anwylgu.
Somewhat dear — gobrid, go ddrud, go brid, lled ddrud, crŷn ddrud.
To make dear—gwneuthur *neu* beri yn hoff *neu* yn anwyl; peri bod yn hoff *neu* yn anwyl; gwneuthur yn ddrud *neu* yn brid; codi y pris; peri bod yn ddrud *neu* yn brid; gwneuthur *neu* beri yn brid *neu* yn ddrud.
To buy dear—prynu yn ddrud; pryna yn brid; prynu cyhyryn gàn gath; prynu ar grogbris.
Dear, *s.* anwylyd, anwylyn, (*f.* anwylen, anwyles), anwylddyn, hoffddyn, hoffyn, (*f.* hoffen), enaid ac anwyl, enaid ac anrhaith, calon anwyl, gwir galon, unig enaid.
My dear—fy anwylyd, fy nghalon, fy anrheithi, fy anrhaith, fy anwyl un, fy nghofiaid.
My dear boy—fy machgen anwyl, fy anwyl fachgen; fy machgen hoff; fy machgen bach i.
My dear sir—fy anwyl syr.
Dear,† *v. a.*=*To make dear.*
Dear,† *a.* (S. *derian*) niweidiol, blin, cas, adgas.
Dearborn, *s.* pridglud (yn y Taleithiau Cyfunol).
Dearbought, *a.* (*dear* a *bought*, o *buy*) drud-

brynedig; à brynwyd yn ddrud *neu* yn brid; wedi ei brynu ar grogbris; drud, prid, costus, costfawr.

Dearbought and far-fetched—bargen ddrud a'i chyrchu o bell.

Dearling, *s.* (o *dear*)=*Darling*.

Dearloved, *a.* (*dear* a *love*) anwylgu, anwyl garedig, tra charedig, tra anwyl, gorhoff, gor-anwyl, anwyl iawn.

Dearn,† *a.* (S. *deorn*) unig, unigol; prudd, pruddaidd; wrtho ei hun.

Dearness, *s.* (o *dear*) drudaniaeth, prinder, pris uchel, uchelbris, mawrbris, máwrwerth; anwyldeb, anwylder, anwylwch, anwyledd, hoffedd, hoffder, cudeb, hoffaint, hoffiant, cnedd.

Dearth, *s.* (o *dear*) drudaniaeth, prinder, prindra; angen, dirangen, newyn, eisieu, diffyg, pall; diffrwythder, diffrwythdra, anffrwythlondeb.

Dearticulate,† *v. a.* (Ll. *deartico*) dadgymmalu, dadgysylltu; tynu bob yn gymmal.

Death, *s.* (S.; Is. *dood;* Al. *tod;* D. & Sw. *död*) marwolaeth, angeu, tranc, trancedigaeth, trang, dylaith, dïen, dïenydd, llaith, golaith; ymadawiad, ymddattodiad, cwymp, dinystr, dystryw; mas.

Death (personified)—angeu, yr angeu.

Pale death—yr angeu glas, angeu glas, yr angeu gwelw.

Sudden death—angeu disyfyd, angeu sydyn; marwolaeth ddisyfyd *neu* ddisymmwth.

Present death—angeu parod.

Ignominious death—marwolaeth ddifenwol, marwolaeth waradwyddus.

Lingering death—angeu hirboenus, nychlyd, anhyfrys, afrys, *neu* hwyrfrydig; nych-ddïenydd.

To put to death — marwolaethu, lladd, dïenyddu, dïenyddio; rhoi *neu* rhoddi i farwolaeth; rhoi i farw; dyfetha; cymmeryd *neu* dori ymaith.

To put one to a lingering death—nych-ddïenyddu, nych-ddïenyddio; rhoi i farwolaeth hirboenus; rhoi i angeu hirboenus, &c.

Worthy of death—yn haeddu marwolaeth *neu* angeu; yn haeddu barn marwolaeth *neu* angeu; yn haeddu barnedigaeth angeu; yn teilyngu marwolaeth; eneidfaddeu, collfywyd, dywynfaddeu; dïenyddadwy, colladwy.

At the point of death—ar farw; yn mron marw; ar ddarfod am dano; ar dranc; ar drancedigaeth; ar drengu; ar ei derfyn; yn barod i farw; yn mhorth angeu; yn nrws angeu; yn nhorth marwolaeth; yn safn angeu; ar fin angeu; gwàn dïobaith; lleag dïobaith; arfarwol.

From death to life—o farw i fyw; o farwolaeth i fywyd. [angeu.

Death pangs—gloesion angeu, gwasgfaon

Civil death — angeu gwladol; ysgariad oddi wrth gymdeithas ac oddi wrth freintiau gwladol.

Instruments of death — arfau angeuol; offerynau angeu.

It is death to do it—peth angeuol *neu* farwol yw gwneuthur hyn; angeu *neu* farwolaeth yw ei wneuthur; mater *neu* berygl bywyd yw ei wneuthur; marw sy raid os gwneir ef.

Let me not see the death of the child—ni allaf fi edrych ar y bachgen yn marw (*Gen.* xxi. 16).

Isaac was comforted after his mother's death—Isaac a ymgysurodd ar ol ei fam (*Gen.* xxiv. 67).

If these men die the common death of all men—os bydd y rhai hyn marw fel y bydd marw pob dyn (*Num.* xvi. 29).

The place of one's death—marw dywarchen, marwdy, mardy.

The gates of the shadow of death—pyrth cysgod angeu.

Deathbed, *s.* gwely angeu, marw-ysgafn, llogwydd, gwely marw.

Death-bed song—marw-ysgafn, cân gwely angeu.

Death-boding, *a.* yn darogan angeu; angeufynag.

Death-darting, *a.* angeu-luchiol, aerfwrw; yn lluchio angeu; yn saethu angeu at.

Death-doing, *a.* angeuol, marwol, dinystriol, lladdol, lladdedigol, dyfethol, adwythig; à laddo yn ddifeth.

Death-doomed, *a.* dyfarnedig i farw; eneidfaddeu, collfywyd, dywynfaddeu.

Deathful, *a.* (*death* a *full*) angeulawn, angeuol, marwol, angeuog; dinystriol, dyfethol, llofruddiol.

Deathfulness, *s.* angeuoldeb, angeuogrwydd, angeulonedd, marwoldeb; angeuaeth.

Deathless, *a.* (*death* a *less*) anfarwol; bythol; na fydd farw byth.

Deathlike, *a.* (*death* a *like*) angeuaidd, dïenig; fel angeu; tebyg i angeu; trengwedd, celanaidd, llurgunaidd; glas fel yr angeu; gwelw, gwelwlas, glaswelw, oerwelw, hyll, irad; gwyll, gwrm, (*f.* gorm); tawel, tangnefus, llonydd, digyffro; mòr dawel a'r bedd; marwol.

Death-like countenance — celyrwedd; gwedd angeuaidd, &c.

Death's-door, *s.* porth angeu, porth marwolaeth, drws angeu; pyrth angeu, pyrth marwolaeth; min trancedigaeth.

Death-shadowed, *a.* yn nghysgod angeu; hudd gàn angeu; yn nglyn cysgod angeu.

Death's-head Moth, *s.* gwyfyn pen angeu; pryf pen angeu.

Deathsman, *s.* dïenyddwr, crogwr, crogydd, dïaleddwr, lladdwr.

Death-stroke, *s.* dyrnod angeu, ergyd angeu.

Death-token, *s.* marwgoel, argoel angeu; arwydd agoshad angeu; angeu-goel.

Death-ward, *ad.* tuag angeu; tua marwolaeth.

Deathwatch, *s.* (*death* a *watch*) marw-oriawr, maroriawr, oriawr farw, ticbryf.

Deaurate, *v. a.* (Ll. *deauro*) goreuro, euro; gorthöi *neu* orchuddio âg aur.

Deaurate, *a.* goreurog, goreuredig, euredig.

Deauration, *s.* goreurad, eurad.

Debacchate, *v. n.* (Ll. *debacchor*, o *Bacchus*) llerthu, ymleferydd, ynfydu; wttresu a dwndro.

Debacchation, *s.* (Ll. *debacchatio*) llerthiad, ynfydiad; wttres a dwndwr; llerth, penwendid.

Debacle, *s.* (Ff.) tudlifer, tudlifeiriant, llifeiriant, dylif, rhyferthwy.

Debar, *v. a.* (*de* a *bar*) attal, rhwystro, llestair, llesteirio, lluddias, lluddio, arluddio, goluddio, rhagod; llysu, gwahardd, rhag-

rwystro, dyor ; cadw oddi wrth ; cau, cadw, *neu* fwrw allan ; attal rhag ; attal oddi wrth ; gwarafun i ; cadw *neu* gau rhag ; rhagu.

Debark, *v.* (Ff. *débarquer*) glanio, tirio, arlanio, dadlongi, dadforio ; myned i dir ; myned i'r làn ; disgyn o long ; rhoddi ar y làn ; bwrw i dir ; dilwytho, dadlwytho.

Debarkation, *s.* (o *debark*) glaniad, tiriad, arlaniad, dadlongiad, dadforiad ; dadlwythad ; disgyniad o long ; dyfodiad *neu* fynediad i dir.

Debarring, *s.* (o *debar*) rhwystrad, attaliad, attalfa, llesteiriad ; cauad allan.

Debase, *v. a.* (*de* a *base*) iselu, iselhau, gwaethygu, gwaethu, gwaethäu, bychanu, dibrisio, dirmygu, dïystyru, diraddïo, difrïo, darostwng, ishau ; gwneuthur yn waeth *neu* waelach ; peri yn waeth *neu* waelach ; llygru, difwyno, diwyno, anharddu, anurddo, enserthu ; lleihau *neu* iselu pris ; bwrw, gyru, gwthio, *neu* dafiu i lawr ; gwaradwyddo, gwarthruddo, gwarthäu, anmherchi, dïelwi, gwarthnodi.

To debase one's self—ymiselu, &c. ; gwael ddarostwng ei hun ; dibrisio ei hun ; iselu ei hun ; gwneuthur ei hun yn wael a dirmygus.

To debase silver—llygru arian, gwaethygu arian, gwaelu arian ; erblithio arian.

Debased, *p. a.* iseledig, gwaethygedig, llygredig, &c. ; isel, gwael, gorisel, dibris, dirmygus, dïelw, dïelwig, difwyn, difanw ; gwrthdröedig ; enserthus.

Debasement, *s.* (o *debase*) gwaethygiad, iselhad, iseliad, darostyngiad, diraddiad, ymddibrisiad, anfrïedd, difrïedd ; llygriad, anurddiant, anurddiad ; anmharch, dibrisdod, dirmyg.

Debaser, *s.* gwaethygwr, gwaethygydd, iselwr, iselhäwr, bychanydd ; llygrwr, llygrydd, anurddwr, difwynwr ; anmharchwr, anmherchwr, gwaradwyddwr, enserthwr.

Debasing, *a.* iselhaol, anurddol, diraddiol, andwyol ; yn tueddu i iselu ; à dueddo i waethygu.

Debatable, *a.* (o *debate*) dadladwy, dadleuadwy, hyddadl ; agored i ddadl ; à fo mewn dadl ; ammhëus.

Debate, *s.* (Ysp. ; Ff. *débat*) dadl, dadleu, ymddadl, ymddadleu, arddadl, arddadledd ; ymresymiad, cymhwylliad, ymbynciad ; cynnadl ; gwrthddadl ; ymryson, amryson, amrafael, anghydfod, cecr, cecraeth, cweryl, cynhen, gwaethl, gwrthryn ; cwyn.

Ye fast for strife and debate—i ymryson a chynhen yr ymprydiwch (*Esa.* lviii. 4).

Friendly debate—cynnadl, cynnadledd ; dadl gyfeillgar ; cydymddyddan cyfeillgar ar ryw bwnc dadleuadwy.

Beyond debate—diddadl, diammheu ; tu hwnt i ddadl.

Debate, *v.* dadlu, dadleu, arddadlu, ymddadlu, ymddadleu ; rhesymu, cymhwyllo, ymresymu, arbwyllo, argymhenu ; cynnadlu ; pyncio, ymbyncio, ymgomio, parlio ; dadleu am, dadlu yn nghylch ; ymrafaelio, amryson, cecru, cweryla, ymeirio, cywaethlu, cynhenu ; dàl dadl ; dàl y tant.

Debate thy cause with thy neighbour—ymresyma â'th gymmydog.

He debated this matter with himself rightly—da y barnodd, y pwysodd, *neu* yr ystyriodd efe y peth yma yn ei fonwes ei hun.

To debate on *or* in—ymresymu yn nghylch ; ymgynghori ; ymgynghori yn nghylch.

Debateful, *a.* (*debate* a *full*) dadleugar, ymddadleugar, cwerylgar, ymrysongar, gwrthddadleugar, cecrus, amrafaelus ; dadleuol, ammhëus.

Debatement, *s.* (o *debate*) dadl, dadleu, dadleuad, dadliad, ymddadleu, ymresymiad, cymhwylliad.

Debater, *s.* dadleuwr, dadlwr, dadleuor, ymddadleuwr, arddadlwr, ymresymwr, ymresymydd, rhesymwr, rhesymydd ; ymbynciwr.

Debauch, *v. a.* (Ff. *débaucher*) llygru, halogi, diwyno, difwyno ; wttresa, wttresu, gloddesta, trythyllu, rhewyddu, rhyseddu ; treisio, diforwyno, llathludo, llathruddo, anlladu ; ymlygru â ; gwneuthur yn llygredig, yn anfoesol, yn anniwair, yn anllad, *neu* yn anghymmedrol ; peri gwyraw oddi wrth yr hyn sy dda.

To debauch a woman—llygru *neu* halogi merch ; treisio *neu* ddiforwyno un ; llitho merch o lwybr rhinwedd.

A debauched course—ymroddiad i afiendid ac anlladrwydd ; ymroddiad i wttres a gloddest ; ymroddiad i feddwdod a glythineb ; wttres, gloddest, meddwdod, anlladrwydd, afiendid ; llwybr llygredig, halogedig, trythyll, anllad, anniwair, afian, *neu* anfoesol ; llwybr anghymmedrol, gwingar, *neu* feddw ; gyrfa ddiffaeth ; drygfuchedd, buchedd lodinebus.

Debauch, *s.* wttres, gloddest, gormodedd, rhysedd, meddwdod, meddwaint, anghymmedroldeb, cyfeddach ; anlladrwydd, anlladedd, llodineb.

Debauchedness, *s.* anghymmedroldeb, wttresiaeth, trythyllgarwch, trythylldod.

Debauchee, *s.* (Ff. *débauché*) wttreswr, wttresydd, gloddestwr, meddwyn, rhyseddwr, glwth, oferddyn, cyfeddachwr ; anlladwr, anlladfab, trythyllwr, trythyllfab, llodinebwr, trythyllgarwr, anlladyn, merchetwr, rhewyddwr, anfadwr, dyn anfucheddol, dyn anfoesol.

Debaucher, *s.* llygrwr, llygrydd, halogwr, llygror ; anlladai, llathludwr, llathruddwr ; trythyllwr, trythyllgarwr.

Debauchery, *s.* wttres, gloddest, wttresiaeth, wttreswaith, rhyseddwaith ; trythyllwch, llodineb, anlladrwydd, anlladedd, rhewyddiaeth, rhewydd, afiendid, trythyllgarwch, afradlonrwydd ; meddwdod, meddwaint, anghymmedroldeb, cyfeddach, yfgarwch, gormod rhysedd ; diffeithder ; brynti, drygfuchedd ; llygriad, halogiad, llithiad.

Debauchment, *s.* (o *debauch*) llygriad, halogiad, diwyniad, difwyniad, llygrawd ; llwgr, llygredigaeth ; hud, rhith.

Debellate, † *v. a.* (Ll. *debello*) darostwng, Debel, } gorchfygu, goresgyn.

Debellation, † *s.* (Ll. *debellatio*) darostyngiad, gorchfygiad, cadorfod, cadorfodiad.

Debenture, *s.* (Ff. o'r Ll. *debeo*) dylysgrif, dyladdefeb, dyledysgrif, dyledeb, hawleb, hawlysgrif.

Debentured, *a.* dylysgrifog, dylebedig, dylebog.

Debentured goods — nwyddau dylebog, nwyddau dyledebog.

Debile, *a.* (Ll. *debilis*) egwan, gwàn, gwan-

aidd, dinerth, eiddil, gwanllyd, llesg, diffygiol, nychlyd, llegach, llegus, llyth.

Debilitate, *v. a.* (Ll. *debilito*) gwanhau, gwanychu, dinerthu, annerthu, llesghau, eiddilo, dirymio, dirymu, llesgu, egwanu. [haol.

Debilitating, *a.* gwanychol, gwanhaol, llesg-

Debilitation, *s.* (Ll. *debilitatio*) gwanhad, gwanychiad, egwaniad, eiddilad, llacâd.

Debility, *s.* (Ll. *debilitas*) gwendid, gwander, egwander, llesgedd, eiddilwch, gwandra, gwanwch, llesgrwydd, eiddiledd, annerth, annerthedd, methiant, llythiant, egwanaeth, llesgarwch, nychdod; mall.

Debit, *s.* (Ll. *debitum*) dyled.

Debit, *v. a.* dyledu; gofyn yn ddyled.

Debitor, *s.* (Ll.) dyledwr, dyledydd.

Debonnair, } *a.* (Ff.) moesgar, hyfoes, moesog,
Debonair, } moeswych, cyweithasol, rhadlawn, cyflys, mynog, mwyn, mwynlan, mwynaidd, hynaws, hyfwyn, dygiadus, moddgar, moddus; da ei foes; addfwyn, gwâr, llariaidd, llary; oeinwych, gorwych, dillynwych, dillynaidd, dillynfoes, berthyll; hoenus, gorhoenus.

Debonnairness, *s.* moesgarwch, hyfoesedd, cyflysdod, mwynder, addfwynder, hynawsder, gwaredd, gwarineb, llaryedd, llarieidd-dra, oeinwychedd, gorwychedd, &c.

Debouch, *v. n.* (Ff. *déboucher*) dylifo *neu* darddu allan; ymarllwys; cyrchu, rhuthro, *neu* neidio allan; ymdywallt allan o fwlch *neu* gyfyngle.

Debris, *s.* (Ff.) malurion, ysbwrial, teilchion, creigdeilchion, creigdeilch, marlurgreig; darnau, adfeilion; dibrision.

Debruised, *a.* trososodig.

Debt, *s.* (Ll. *debitum*) dyled, dylyed; gofyn.
Pretended debt—annyled.
Original debt—cynnyled, cynddyled.
In debt—mewn dyled; tân ddyled, dân ddyled; dyledog.
To be in debt—bod mewn dyled; bod dân ddyled; bod â dyled *neu* ddyledion arno; bod â gofynion arno; bod yn ddyledwr.
To contract debt—tynu dyled; myned i ddyled; rhedeg i ddyled; rhedeg mewn dyled; tynu dyled arno.
To run in debt — rhedeg mewn dyled; rhedeg i *neu* dân ddyled; myned i ddyled.
To pay the debt of nature—talu teyrnged natur; talu dyled natur; talu olaf ddyled anian; marw.
National debt — dyled y wlad; dyled y wladwriaeth; dyled y goron; y ddyled wladol.
Forgive us our debts—maddeu i ni ein dyledion.
To liquidate a debt — toddi dyled; talu dyled; lleihau dyled.
Dribbling debts—dyledach, mân ddyledion.

Debtee, *s.* (o *debt*) dyledai, achretor, coeliwr, gofynwr, credidwr.

Debtless, *a.* (*debt* a *less*) diddyled.

Debtor, *s.* (Ll. *debitor*) dyledwr, dyledydd.
Original debtor—cynnogn, cynddyledwr, cynnyledwr.
Debtor and creditor—dyledwr a gofynwr; dyledwr ac achretor; dyledwr a chredidwr.
You are on the debtor side—yr ydych mewn dyled; yr ych yn sefyll mewn dyled.

Debullition, *s.* (*de* a *bullition*) berwad drosodd, trosferwad, bwrlymad trosodd.

Debut, *s.* (Ff.) cynwedd, dechreu, dechreuad, cynnechreu; y cynnyg cyntaf; y cais cyntaf; ymddangosiad cyntaf; y cam cyntaf; argynnyg, cychwyniad.

Deca, *s.* (Gr.; Ll. *decem*) deg: arferedig yn nghyfansoddiad geirian Seisonig.

Decachord, } *s.* (Gr. *deca*, deg, a *chordê*, tant)
Decachordon, } degtant, dectant.

Decadal, *a.* (o *decade*) degeidiol, degrifol.

Decacuminated, *a.* (*de* a *cacuminate*) tociedig, blaendociedig, blaendociog, difrigedig.

Decade, *s.* (Ff.; Ll. *decas, decadis*) degaid, deg, degrif.
The decades of Livy—degeidiau Livius.
A decade of years—dengmlynedd, deng mlynedd, deg mlynedd; deg o flyneddau, degaid o flyneddoedd.
To divide into decades—degeidio; dosbarthu yn ddegau neu ddegeidiau.

Decadence, } *s.* (Ll. *de* a *cado*) adfeiliad, dad-
Decadency, } feiliad, adfail, methiant, methineb, gwaethygiad, edwaint, meth, pall, cwymp, dinystr, diffygiad.

Decagon, *s.* (Gr. *deca* a *gônia*) degongl, degonglon, degochr, degochron, degochryn, dengochryn, degonglyn.
Regular decagon—degochr rheolaidd.

Decagram, *s.* (Ff. *décagramme*; o'r Gr. *deca*, a Ff. *gramme*) degram=pwysi Ffreinig, yn cynnwys deg *gram*, neu 154·44 gronyn.

Decagyn, *s.* (Gr. *deca* a *gunê*) degbenyw, dengfenyw.

Decagynia, *s.* degbenyw; y llwyth degbenyw, yn nhrefniant Linnæus.

Decagynian, *a.* degbenywaidd, dengfenywaidd, degbenyw.

Decahedral, *a.* (Gr. *deca* a *hedra*) degochrog, dengochrog, degochrol, degochraidd, degochr.

Decahedron, *s.* (Gr. *deca* a *hedra*) degochr, degochron, degochryn.

Decalitre, } *s.* (Ff. *décalitre*; o'r Gr. *deca*, a
Decaliter, } Ff. *litre*) degliter, deglitr=mesur Ffreinig yn cynnwys 610·28 o fodfeddi cubig.

Decalogist, *s.* (o *decalogue*) dengeirydd, dengeirwr, eglurwr y deg gorchymyn.

Decalogue, *s.* (Ff.; Gr. *decalogos*) dengair, y dengair, y dengair deddf, y deg gorchymyn.

Decameron, *s.* (Gr. *deca* a *meros*) degparth, degparthog; cyfrol yn cynnwys deg llyfr; degnydd.

Decametre, } *s.* (Ff. *décamètre*; o'r Gr. *deca* a
Decameter, } *metron*) degmesur, degmydrai=hydfesur Ffreinig, o 393·71 modfedd Seisonig.

Decamp, *v. a.* (Ff. *décamper*) dadwersyllu, dadwersylltu, symmud gwersyll, symmud gwersyllt, mudo gwersyll; mudo, myned ymaith, cychwyn; cilio, ffoi.

Decampment, *s.* dadwersylliad, dadwersylltiad; symmudiad gwersyll; mynediad *neu* symmudiad ymaith; mud.

Decanal, *a.* (Ll. *decanus*) deonol, deoniol; perthynol i ddeoniaeth.

Decander, *s.* (Gr. *deca* ac *anêr*) degwrywaidd, ig yn degwryw, dengwryw.

Decandria, *s.* Degwryw, Dengwryw=dosbarth y ddegfed genedl o blanigion, yn ol trefn Linnæus.

Decandrian, } *a.* degwrywaidd, dengwrywaidd,
Decandrous, } degwryw.

Decangular, *a.* (Gr. *deca*, ac *angular*) degonglog, degonglaidd, degonglawl.

Decant, *v. a.* (Ll. *decanto*; Ff. *décanter*) allwys, tywallt, gwalloſi, arllwys, dywallaw, gwehynu, gwehyn, glân dywallt, dynëu, dyneuo, gorddynëu; tywallt *neu* arllwys yn araf; tywallt o'r naill lestr i'r llall.

Decantation, *s.* gwallofiad, allwysiad, tywalltiad, gwehynad; diwaddodiad; tywalltiad araf oddi ar waddod.

Decanter, *s.* (o *decant*) gwydrel, trancel, gwallofiestr, gwallofyr, tranced; gwallofydd, walloſi ad, gwallofwr, tywalltydd.

Glass decanter—gwydrel, tranced wydr.

Water decanter — dyfrel, tranced ddwr, dwr-wydrel.

Spirit decanter—tranced wirod, gwydrel-wirod, gwallofiestr gwirod, gwirodyr.

Decaphyllous, *a.* (Gr. *deca* a *phullon*) degdalen, degdalenog, degnalenog, degnalen, dengnalenog.

Decapitate, *v. a.* (Ll. *decapito*) dibenu, tori pen, lladd pen, torfynyglu, pendori.

Decapitation, *s.* dibeniad, torfynygliad, toriad pen, pendoriad, lladdiad pen.

Decapod, } *s.* (Gr. *deca* a *pous*) degtroed, dec-
Decapode, } troed, degped, degtroedog.

Decapoda, } *s. pl.* degtroediaid, degpediaid,
Decapods, } degtroedogion, degpedogion.

Decapodal, *a.* (o *decapod*) degtroed, degtroedog, degtroedaidd, degpedaidd.

Decarbonate, *v. a.* (*de* a *carbon*) dadulyfu, dadulwadu; difodi ulyf o'i lysnur *neu* soda.

Decarbonization, *s.* (*de* a *carbonization*) dadulyfiad, dadulyfeiddiad, dadulwad.

Decarbonize, *v. a.* dadulyfu, dadulyfeiddio, dadulwadu.

Decardinalize, *v. a.* (*de* a *cardinal*) dadgyniaduro; difuddiaw o urdd cyniadur.

Decastich, *s.* (Gr. *deca* a *stichos*) degban, pennill deg llinell.

Decastyle, *s.* (Gr. *deca* a *stulos*) degpiler, degpillres, degpillas; rhes o ddeg colofn.

Decasyllabic, *a.* (Gr. *deca*, a *syllabic*) degsilllog, degsill, degsillafog, degsillafol, degsillol, degsillafaidd.

Decasyllabic verse—mydr degsill.

Decay, *v.* (Ff. *déchoir*; Ysp. *decaer*; o'r Ll. *de* a *cado*) dadfeilio, adfeilio, methu, gwaethu, gwaethygu, gwaethâu, nychu, dihoeni, pallu, anmharu, edwi, edwino, gwywo, difanu, difannu, gwanychu, gwanhau, llesghau, difancolli, ffaelu, llaesu, ymlaesu, llipïo, lliprynu, diwrygio, dyddfu, bradwyo; myned ar feth; ymollwng, aballu, gwallygio, erino, gwystno, diffrwytho; colli ei wawr a'i degwch; pydru, braenu, llygru; pylu; digynnyddu, anghynnyddu.

To decay utterly—darfod; myned ar ddim; methu yn llwyr; cyfrgolli; methu *neu* ballu yn hollol.

To decay with age—heneiddio; myned yn hen; talmu ar henaint; methu gân henaint; amdrymu o henaint.

Decay, *s.* dadfail, adfail, adfeiliad, dadfeiliad, meth, methiant, methineb, gwaethygiad, pall, anmhariad; edwaint, nych, nychdod, darfodedigaeth, darfodiant, edwinwst; dihoeniad, difianiad, difaniad; gwendid, llesgedd; bradwy; pydredd, pydrni, braen, hadledd, llwgr, gwywder.

In decay — methedig, dadfeiliedig, &c.; wedi methu; wedi myned ar feth; yn adfeiliedig; mewn dadfail.

To go to decay, } dadfeilio, adfeilio,
To fall to decay, } methu, &c.; myned ar feth; bod yn methu; bod yn adfeilio, &c.

Apt to decay—hyfeth, difian, difan, diflanol, difianus, difiannus, difanus, difanw.

Decayed, *p. p.* dadfeiliedig, adfeiliedig, methedig, &c.; wedi dadfeilio, &c.; wedi myned ar feth; ar feth; anmhar, anmharus, bradw, bradwyog; edwin, edw, nychlyd, gwyw, crin, gwystyn; dadfeiliog; ar syrthio; serfyll; wedi colli ei wawr a'i degwch; hadl, braen, pwdr, llygredig, braenllyd, wedi braenu; henaidd; wedi myned yn hen *neu* yn henaidd; wedi heneiddio *neu* henu.

Decayed appearance — edwedd; golwg adfeiliedig, &c.

Decaying, *p.* yn dadfeilio, &c.; methiannus, methiannol, edwinol.

Decayedness, *s.* (o *decayed*) methedigrwydd, adfeiliedigrwydd, dadfeiliedigrwydd, dadfeiliogrwydd, anmharusrwydd, &c.; methiant, methineb.

Decayer, *s.* dadfeilydd, adfeilydd, anmharydd, anmharwr.

Decaying, *s.* meth, methiant, methineb, dadfail, adfail, nychdod, nych, anmhariad.

Decease, *s.* (Ll. *decessus*; Ff. *décès*) marwolaeth, tranc, trancedigaeth, trang, trengiad, ymadawiad; ymadawiad â'r byd; mynediad oddyma.

Decease, *v. n.* marw, trengu, ymadaw, trancu; ymadaw â'r byd; myned oddyma; myned oddi yma.

He deceased—bu farw, marwodd, trengodd; ymadawodd â'r byd.

Deceased, *a.* trengedig, trancedig, marw, ymadawedig, marwedig; wedi marw; wedi ymadaw â'r byd.

Decedent, *s.* (Ll. *decedens*) un trengedig, trancedig, *neu* farw; y trengedig, y marw.

Deceit, *s.* (Ll. *deceptio*; Norm. *deceut*) twyll, hoced, twyllofaint, dichell, geudeb, som, somiant, somedigaeth, siom, hud, hudoliaeth, ffalsedd, ystryw, cyfrwysedd, cyfrwysdra, cyfrwysder, hudiaith, hiced, chwired, ffug, ffuant, chwiongl, geuawd, dichellgarwch.

To ensnare by deceit—tynu i'r rhwyd; tynu i'w rwyd; tynu i'r fagl; denu i ddystryw; dyrwyn un i mewn; bachellu, methlu; maglu drwy dwyll; bachellu â dichell.

Deceitful, *a.* (*deceit* a *full*) twyllodrus, hocedus, dichellgar, twyllfawr, twyllog, ystrywgar, cyfrwys, chwiredus, chwiredol, anffyddlawn, anghywir, deuwynebog, deueiriog, bradog, bradwrus, bradychus, ffals, geuog, geuol, llithiog; llawn o dwyll.

A deceitful knave — hocedydd; diffeithwr twyllodrus.

To speak deceitfully—llafaru yn dwyllodrus, &c.; dywedyd geiriau amwys, deu-ddeall, *neu* ddeu-ystyr; dywedyd mwyseiriau.

Favour is deceitful — siomedig yw ffafr (*Diar.* xxxi. 30).

Deceitfulness, *s.* twyll, dichellgarwch, twyllgarwch, hudoliaeth, dichell, ffalsedd, ffalsder, twyllodrusedd, twyllodrusrwydd, somedigaeth, siomedigaeth.

Deceitless, *a.* (*deceit* a *less*) didwyll, dihoced, diddichell, &c.

Deceivable, *a.* (o *deceive*) twylladwy, hydwyll; à ellir ei dwyllo; hawdd ei *neu* i'w dwyllo; hyhud; twyllodrus, dichellgar, hudoliaethus.

Deceivableness, *s.* hydwylledd, hyhudrwydd; twyllgarwch, twyll, dichellgarwch, dichell, hudoliaeth; somedigaeth.

Deceive, *v. a.* (Ll. *decipio*; Ff. *décevoir*) twyllo, hudo, hocedu, somi, coegio, ffalsu; camarwain, camdywys; tywyllu llygaid; bwrw hud ar lygaid; dallu; seithugio, ffugio; peri seithugio.

To be deceived—camgymmeryd, camsynied, camsynio, camdybied, cyfeiliorni; cael ei dwyllo, &c.

You are deceived—twyllwyd chwi; e'ch twyllwyd chwi; fe'ch twyllwyd chwi; chwi a dwyllwyd; yr ydych yn camsynied.

They have deceived my expectation—nid atebasant fy nysgwyliad; twyllasant fy nysgwyliad.

Easy to be deceived, } hydwyll, hyhud;
Easily deceived, } hawdd ei *neu* i'w dwyllo.

Deceiving and being deceived — gàn dwyllo a chael eu twyllo.

To deceive with crafty wiles—chwareu y cadnaw âg un; methlu, bachellu, baglellu, ffyrnigo.

Deceiver, *s.* (o *deceive*) twyllwr, twyllydd, twyllodwr, twyllawdr, twyllor, hocedwr, hocedydd, somwr, somydd, hudwr, coegiwr, geuwr, geuadur, hudolydd, hudolwr, hudol, un twyllodrus, ffugiwr.

The deceived and the deceiver are his—efe biau y twylledig a'r twyllodrus.

Deceiving, *s.* twylliad, twyllawd, hocediad; twyll, hoced.

In their own deceivings—yn eu twyll eu hunain (2 *Pedr* ii. 13).

Decem, *s.* (Ll.; Gr. *deca*) deg: arferedig yn nghyfansoddiad geiriau Seisonig.

December, *s.* (Ll.) Rhagfyr, mis Rhagfyr; y mis du bach cyn y Nadolig=y 12fed mis; ond y 10fed yn mhlith y Rhufeiniaid boreuol.

Decemdentate, *a.* (Ll. *decem*, deg, a *dentatus*, o *dens*, dant) degdeintiog, dengneintiog, degdant, degdaint.

Decemfid, *a.* (Ll. *decem* a *findo*) degholltog, degholltog, degranog, degparthog.

Decemlocular, *a.* (Ll. *decem* a *loculus*) deghadgellog, deg-cellog.

Decempedal, *a.* (Ll. *decem* a *pes*) degtroedfeddol; ueg troedfedd o hyd; degtroed, degtroediog, degtroedog, degpediog.

Decemvir, *pl.* Decemvirs, Decemviri, *s.* (Ll. *decemviri*) dengwr, degwr: *pl.* dengwyr, degwyr=deg penswyddog yn Rhufain gynt.

Decemviral, *a.* (Ll. *decemviralis*) dengwriol; perthynol i'r dengwyr.

Decemvirate, *s.* (Ll. *decemviratus*) dengwriaeth, y ddengwriaeth.

Decence, *s.*=*Decency*.

Decency, *s.* (Ll. *decentia*; Ff. *décence*) gweddusrwydd, gweddusder, gweddusdra, gweddeiddrwydd, gweddeidd-dra, addasrwydd, addwynder, cymhwysder, harddwch, prydferthwch, teledrwydd, iawnfoes; gwylder, gwyledd, lledneirsrwydd; glendid, sywder, sywdra, syberwyd; priodolder.

Decennary, *s.* (Ll. *decennium*, o *decem* ac *annus*) degmlwyddiant, dengmlwyddiant, degriflant, deng mlynedd; degoliaeth; ysbaid 10 mlynedd; degtref.

Decennial, *a.* (Ll. *decennis*) dengmlwyddol, dengmlyneddol, degmlyneddol; bob deng mlynedd.

Decennoval, } *a.* (Ll. *decem*, deg, a *novem*,
Decennovary, } naw) degnawol, dengnawol; perthynol i bedwar ar bumtheg; bob 19 blynedd.

Decent, *a.* (Ll. *decens*; Ff. *décent*) gweddus, gweddaidd, gweddol, addwyn, addas, cymhwys, cymmesur; hardd, trefnus, prydferth, harddwedd, moddus, moddgar, telediw; gwylaidd, llednais; glân, glanwedd, glanwaith, syw, syber, syberw.

Decent clothes — dillad gweddus, dillad addwyn, &c.

Decentness, *s.* (o *decent*)=*Decency*.

Deceptibility, *s.* hydwylledd, hyhudrwydd, twylledd.

Deceptible, *a.* (Ll. *deceptio*) twylladwy, hydwyll, hyhud, somadwy; à ellir ei dwyllo.

Deception, *s.* (Ll. *deceptio*) twyll, hud, hoced, twyllofaint, hudiad, twyllad, twyllawd, som, somiad, siomiad, dichell, hudoliaeth, lledrith; ffalsedd, ffug.

Deceptious, *a.* twyllodrus, twyllgar, somgar, dichellgar, geuol, hocedus.

Deceptive, } *a.* twyllodrus, hudolawl, twylladol,
Deceptory, } twyllodigol, twyllgar, hudol, ffals; à ddichon dwyllo; yn cynnwys twyll; yn tueddu i dwyllo.

Deceptive cadence — twyll-oslef, twyllostyngiad.

Decern, *v. a.* (Ll. *decerno*) barnu, dyfarnu.

Decerniture, *s.* (Ll. *decerno*) barn, barn llys, dedfryd.

Decerp, *a.* (Ll. *decerptus*) pliciedig; wedi ei dynu ymaith; casgledig, tociedig.

Decerptible, *a.* pliciadwy, tociadwy; à ellir ei dynu ymaith; gwahanadwy, ffwyradwy.

Decerption, *s.* (Ll. *decerptio*) pliciad, tyniad, tyniad ymaith, tociad, blaendoriad, tyniad ffwrdd.

Decertation, *s.* (Ll. *decertatio*) ymryson, amryson, anrafael, cynhen, dadl, ymrysoniad, ymrafaeliad, ymdrech, ymdrechiad. [fynt.

Decession, *s.* (Ll. *decessio*) ymadawiad, ed-

Decharm, *v. a.* (*de* a *charm*) dadswyno, dadrinio, diswyno, gwrthswyno, dadreibio, dadgyfareddu.

Dechristianize, *v. a.* (*de* a *christianize*) dadgristionogi, dadgristionoli, dadgristioneiddio, anghristionogi.

Decidable, *a.* (o *decide*) terfynadwy, penderfynadwy.

Decide, *v.* (Ll. *decido*) penderfynu, terfynu, dybenu, diweddu; gosod terfyn ar; tori ymryson, ymrafael, *neu* ddadl; barnu; dosbarthu; barnu *neu* gylafareddu rhwng pleidiau; rhoi barn; gwneuthur cylafaredd; rhoi barn cylafaredd.

To decide controversies—dosbarthu cynhenau; penderfynu dadleuon; tori anrafaelion.

Thyself hast decided it—ti a'i rhoddaist ar lawr (1 *Bren.* xx. 40).
Is it thus you decided it?—ai felly y bernwch chwi y peth? ai hon yw y farn à roddwch chwi yn yr achos?
To decide by battle—ymbroñ drwy frwydr; terfynu drwy frwydr; terfynu mewn brwydr; rhoi *neu* fwrw ar dyngedfen brwydr; penderfynu drwy frwydr.

Decided, *a.* penderfynol, dïammheuol, dïammheu, diddadl, sicr, dilys; amlwg, eglur; anamwys; hollol, cwbl; penderfynedig, terfynedig; tu hwnt i ddadl.

Decidedly, *ad.* yn benderfynol, &c.

Decidence, *s.* (Ll. *decidens*) syrthiad ymaith; syrthiogrwydd.

Decider, *s.* penderfynwr, penderfynydd, terfynwr; torwr ymryson, dadl, *neu* amrafael; barnwr, cylafareddwr; dosbarthwr.
Decider of controversies — dosbarthwr cynhenau; penderfynwr dadleuon; torwr amrafaelion.

Deciduous, *a.* (Ll. *deciduus*) syrthiol, cwympol, syrthiadol; yn syrthio *neu* gwympo yn yr hydref; diweddar-gwymp, anmharhäus.

Deciduousness, *s.* syrthioldeb, cwympoldeb; syrthiad unwaith yn y flwyddyn; blwyddsyrthioldeb.

Decigram, *s.* (Ff. *décigramme*) degfedram=pwysi Ffreinig, yn cynnwys y ddegfed ran o'r *gram*.

Decil, *s.* (Ll. *decem*; Gr. *deca*) pelldrem (dwy blaned); degfedran (y sidydd).

Decilitre, } *s.* (Ff. *décilitre*) degfedlitr, degfed-
Deciliter, } liter=mesur Ffreinig, yn cynnwys y ddegfed o'r *litr*.

Decillion, *s.* (Ll. *decem*) degsawdd, degsoddrif.

Decillionth, *a.* degsoddol; perthynol i'r degsawdd.

Decimal, *a.* (Ll. *decimus*) degol, degiadol, degfedol, degfed, degranol; degymol.
Decimal fractions—degiadau; swlliadau degol, yllion degol, yllion degranol, toriadau degol; degiadaeth, swlliadaeth ddegol, ylliadaeth ddegol.
Decimal arithmetic—degiadaeth, degrifiaeth; rhifyddiaeth ddegiadol *neu* ddegranol.
Decimal numbers—rhifau degol, degiadol, *neu* ddegranol; degrifau.
Decimal part—degfed ran, y ddegfed, y degfed, degfedran.
Decimal notation—nodiant degol, nodiant degiadol, degnodiant.

Decimal, *s.* degiad, degran; y degfed: *pl.* degiadau, degolion, degranau.
Decimals (as a rule)—degiadaeth, degrifiaeth.
Circulating decimals—corddegiadau, addegiadau; corddegiadaeth, ad-ddegiadaeth.

Decimally, *ad.* yn ddegol, &c.; bob yn ddeg; yn ddegau.

Decimate, *v. a.* (Ll. *decimo*) degymu, degoli, degu; cymmeryd *neu* dynu un o bob deg; tynu *neu* gymmeryd y ddegfed.

Decimation, *s.* (Ll. *decimatio*) degymiad, degoliad; cymmeriad y ddegfed; tyniad y degfed.

Decimator, *s.* (o *decimate*) degolwr, degiedydd, degymwr; tynwr y ddegfed.

Decimetre, } *s.* (Ff. *décimètre*) degfedfydrai,
Decimeter, } degfedfesur=hydfesur Ffreinig, o 3 modfedd a rhyw ychydigyn.

Decimo-sexto, *s.* (Ll.) 16 plyg, un plyg ar bumtheg.

Decipher, *v. a.* (Ff. *déchiffrer*) dehongli, deongli; dehongli, esbonio, egluro, darllen, *neu* egori dirgelnodau; darllen celnodau; egluro celysgrif; dadrysu, dad-ddyrysu, ddyrysu, annirgelu, egluro, amlygu, darllen, dadguddio, annirgelu, dadblygu, dadenhuddo, dattod, dirnad, celagori, celegori; dadguddio tywyllbeth; darlunio, nodi, argraffu, nodebu, awyddnodi, tynu llun.

Decipherable, *a.* dehongladwy, dattodadwy.

Decipherer, *s.* dehonglydd, dehonglwr, deonglwr, esboniwr, eglurwr, dadblygwr, &c.; dehonglwr dirgelnodau.

Deciphering, *s.* dehongliad celnodau, esboniad dirgelnodau, darlleniad celysgrifen; celagoriaeth, celegoriad.

Decision, *s.* (Ll. *decisio*) penderfyniad, terfyniad, dybendod, terfyndod, penderfyndod, pendod, dedfryd, tor ymryson, terfyniad ymryson; toriad ar ymryson; barn, dybeniad, dyben, barniad, cylafareddiad, dïofryd; dïysgogrwydd, sadrwydd, gwadalwch, ansigledd, gwadaledd; † ysgariad.
Decision of controversies — dosbarthiad cynhenau; penderfyniad dadleuon.
In the valley of decision — yn nglyn terfyniad.

Decisive, *a.* (Ll. *decido*, *decisum*) penderfynol, terfynol, dybenol, dybenus, terfynedigol, pendant; à derfyna yr ymryson *neu* y mater.

Decisiveness, *s.* penderfynoldeb, terfynoldeb, terfynolrwydd, penderfynolrwydd, terfynder, terfynoledd, dybenolder, dybenolrwydd, pendantrwydd.

Decisory, *a.* à eill benderfynu *neu* farnu; penderfynol, terfynol, dybenol, dybenus.

Deck, *v. a.* (Is. *dekken*; Al. *decken*; S. *gedecan*, *thecan*) trwsio, tacluso, taclu, trwsiadu, addurno, gwychu, harddu, teghau, pincio, harddwisgo, gwisgo, arwisgo, dilladu, hatru, neisio; hulio, byrddio.
To deck one's self—ymdrwsio, &c.

Deck, *s.* bwrdd llong, bwrdd; hurtyr, hul; cnud *neu* dŵr o gardiau.
Quarter-deck — pedryfwrdd, uchelfwrdd, uchelfwrdd llong.
Upper deck, } trydefwrdd, trydyfwrdd.
Main deck, } uchfwrdd, bwrdd uchaf.
Half-deck—hannerfwrdd, hanner bwrdd.
Middle deck—canolfwrdd, bwrdd canol.
Gun-deck — gynfwrdd, magnelfwrdd, bwrdd y gynau, bwrdd y cyflegrau.
The deck of honour — maes anrhydedd, bwrdd clod.

Decker, *s.* (o *deck*) trwsiwr, tacluswr, tacluydd, addurnwr, &c.; huliwr; hulier, hulieydd.
A two-decker — llong ddeufwrdd.
A three-decker—llong dribwrdd.
She is a two-decker — llong ddeufwrdd ydyw hi; y mae iddi ddau fwrdd.

Decking, *s.* (o *deck*) addurn, harddwch, harddwisg; addurniad, harddiad, tacluiad.

Declaim, *v.* (Ll. *declamo*) areithio, ymadroddi; llafaru yn areithyddol; gwneuthur araeth; gwneuthur araeth ddychymyg; gwneuthur tôn *neu* acen; chwarau yr areithiwr; arebu,

ffraethebu, nwyfebu; †arddadlu, dadleu dros.

To declaim against—areithio, bloeddio, gawri, germain, *neu* ddadwrdd yn erbyn; dywedyd yn uchelgroch yn erbyn; dwys feio; hwtio; rhoi uchel sen i; rhoi mynych wfft i.

Declaimant, } *s.* areithydd, areithiwr, arodor,
Declaimer, } arodydd, treithydd; rheithiorydd; ffraethebydd, ffraethebwr, aronan, nwyfebwr; llafarwr cyhoeddus; llefarydd ar osteg; ffug-areithydd, coeg-areithiwr, dadyrddwr, bloeddiwr.

Declaiming, *s.* araeth, araith, arawd; arebiad.

Declamation, *s.* (Ll. *declamatio*) araeth, araith, arawd, araeth wneuthur, araith ddychymyg, ffug-araeth, coeg-araeth, newyddwawd; traetheg, treitheg, traethoriaeth, arawn.

Science of declamation—treitheg, traetheg, traethoriaeth.

Declamator, *s.* (Ll.)=*Declaimant, Declaimer.*

Declamatory, *a.* (Ll. *declamatorius*) areithiol, areithyddol, arodol, rheithegol; ffug-areithiol; fel ffug-areithydd; o natur ffug-araeth; ar wedd ffug-araith; nwyfebus, nwyfebawl, ffraethebus; seinfawr, dadyrddus, trystfawr, crochlefus, crochlefol, gwaeddgar; dwysfeiol, crochfeiol.

Declarable, *a.* (o *declare*) traethadwy, treithadwy, mynegadwy, dadganadwy, &c.

Declarant, *s.* traethydd, treithydd, traethwr, mynegwr.

Declaration, *s.* (Ll. *declaratio*) mynegiad, traethiad, treithiad, traethad, mynegiant, mynegiaeth, adroddiad, cyhoeddiad, dadganiad, hysbysiad, dywediad, mynag, hysbysrwydd, ardystiad, tystiad, tystiolaethad, tystiolaeth, ardystiolaeth, aicrhad, haeriad, gwiriad, honiad, cadarnhad, dangosiad, arddangosiad, arddangos, gosodiad allan, ymadrodd, gair, eglurad, eglurhad, amlygiad, deongliad, traethawd; adroddiad hawl, adroddiad cwyn, traethiad cwyn; arddangosiad camwedd *neu* drosedd.

To declare abroad—cyhoeddi, gosod allan; gyru ar led; traethu ar led; cyffredino.

To declare beforehand—rhagfynegu, rhagddangos, rhagddywedyd, rhagddadgan, rhagdreithu, rhaghysbysu; dywedyd yn mlaen llaw; canu'r cywydd.

To declare for one—bod o blaid un; dywedyd yn mhlaid un; dywedyd o blaid un; rhoi ei air gydag un; pleidio *neu* sefyll gydag un; amddiffyn un; addef un; bod dros un; sefyll o blaid un.

Easily declared, } hydraeth, hydraith;
Easy to be declared, } hawdd ei draethu; hawdd i'w dreithu.

Not easy to be declared—anhydraeth, anhydraith.

That cannot be declared—annhraethadwy, annhreithadwy, anhydraeth, anhydraith, annhraethol.

Declare thou unto me—dysg dithau fi (*Iob* xlii. 4).

They declared their pedigrees—rhoddasant eu hachau (*Num.* i. 18).

Declaredness, *s.* (o *declare*) traethedigrwydd, mynegoldeb, dadganoldeb, cyhoeddolder.

Declarement, *s.* (o *declare*) treithiad, traethiad, mynegiad, cyhoeddiad.

Declarer, *s.* (o *declare*) traethwr, treithwr, traethydd, mynegwr, mynegydd, cyhoeddwr, dadganwr, hysbysydd, hysbyswr, &c.

Declaring, *s.* mynegiad, treithiad, traethad, traethiad, cyhoeddiad, dadganiad, hysbysiad, adroddiad.

Declension, *s.* (Ll. *declinatio*) gogwyddad, gogwyddiad, osgoad; dirywiad, gwaethygiad, adfeiliad, dadfeiliad, ymlaesiad; disgyniad, syrthiad, cwympad, cwymp; treiglad, treigliad, treigl, treigl gair, geirdreiglad, amrywiad, amgenedigaeth, dychwyl, cwympod; dygwydd; ciliad *neu* ffoad oddi wrth; ciliad, enciliad, gocheliad; plygiad ar waered; plygiad gyda'r gwaered; disgynfa *neu* ddisgyniad tir; llechwedd, lledbeirwydd, lledbeiedd, gorwaered, llethr, osgo; ystlysiad; meth, methiant, methineb; traul, trai, tawl, toliant.

Declension of a distemper—ymlaesiad clefyd; trai clefyd; troad ar wellad; bod ar wellhad.

Declension of nouns—treiglad enwau, treigl enwau, treigl sylweddeiriau, amrywiad sylweddebion, amgenedigaeth enwau.

Declinable, *a.* (Ff.; o *decline*) treigladwy, hydreigl; gocheladwy, gwrthodadwy.

A declinable noun—enw treigladwy, enw hydreigl, sylweddeb treigladwy.

Declinant, } *a.* syth i lawr, unionwaered.
Declivant, }

Declinate, *a.* (Ll. *declinatus*) yn plygu i lawr; plygedig i lawr; gogwyddedig, lleddf, lleddfedig, lleddy, lledbeiedig, osgedig, llipa; crymogwyddol.

Declination, *s.* (Ll. *declinatio*) gogwyddad, gogwyddiad, osgoad, ysgoad, gogwydd, osgo, ysgo; lleddfad, plygiad, gostyngiad, gwyriad; anuniondeb, anunionedd, aniawnedd; gwaethygiad, dirywiad, adfeiliad, dadfeiliad, meth, methiant; disgyniad; treigl, treigliad, treigliad, amgenedigaeth, amrywiad, geirdreigl.

Declination of a planet—osgoad planed, gwyrad planed=pellder planed oddi wrth linyn y cyhydedd, naill ai tua'r de neu tua'r gogledd.

Circles of declination—cylchau osgoad, cylchau gogwyddiad.

Declination of the compass—amrywiad y compawd; osgoad y compawd.

Declinator, } *s.* (o *decline*) osgadyr, osgoadyr,
Declinatory, } lleddfadyr.

Declinatory plea—dadl cyn barn; dadl ochel.

Decline, *v.* (Ll. *declino*) gogwyddo, osgöi, ysgöi, gwyro; gochelyd, gochel, gwrthod, llysu, ymwrthod â; cilio, encilio, ffoi, troi, cadw, ymgadw, *neu* osgöi oddi wrth; gwrthneu; gogwyddo tua'r llawr; gogwyddo tuag i waered; plygu, gostwng, gostyngu, ymlaesu, lledbeio, ystlysu, tueddu, lledochri; bod ar ei ogwydd; pwyso; pwyso i lawr; pwyso tuag i waered; pwyso tua'r naill du; peidio â; gwaethygu, methu, adfeilio, dadfeilio, pallu, anmharu, llesghau, gwanhau, nychu; treiglo, amrywio, lleddfu; syrthio, cwympo; tueddu at; tynu tua'r diwedd; lleihau, treio.

To decline a word—treiglo gair; geirdreiglo

Declining age — methoed, meth-oedran, henoed.

In a declining state of health—â'i iechyd yn pallu *neu* yn methu; â'i iechyd yn gwaethygu; yn wael ei iechyd; yn adfeiliaw o ran iechyd; â'i iechyd yn adfeilio; mewn anniwyg.

Let not thine heart decline to her ways—na thuedded dy galon at ei ffyrdd hi (*Diar.* vii. 25).

Neither have our steps declined from thy way—ac nid aeth ein cerddediad allan o'th lwybr di (*Salm* xliv. 18).

They tarried till the day declined—hwy a drigasant nes gostwng y dydd; hwy a drigasant hyd brydnawn.

Decline, *s.* methiant, methineb, meth, gwaethygiad, adfail, dadfail, adfeiliad, dadfeiliad, dirywiad; nychdod, nych, darfodedigaeth, edwaint, anmhariad; mynediad ar *neu* ar ei waeth; traul, pall, trai; gogwydd, osgo, gogwyddiad, osgoad, gwyrad.

Decline of the moon—traul y lleuad; adeg y lloer; cil y lleuad; adfan cil.

Decline of life—methoed, meth-oedran, henoed; meth-flyneddoedd, blynedd-oedd methiant.

On the decline—ar ogwydd; ar ei ogwydd; ar drai; ar ball; ar feth; ar osgo; yn gwaethygu, yn dirywio; yn syrthio, yn cwympo.

In the decline of his affairs—pan oedd ei dda yn treio *neu* ar drai; pan oedd ei foddion yn treio *neu* ar drai; yn nhrai ei foddion; pan oedd ei amgylchiadau yn pallu.

Declinous, *a.* (Ll. *declino*) gogwyddedig, lleddfedig, lleddy, osgöedig, lledbeiedig, llipa; yn plygu *neu* ogwyddo i lawr; gogwyddedig tua'r ddaiar.

Declivity, *s.* (Ll. *declivitas*) gwaered, gorwaered, disgyniad, disgynfa, gogwyddiad, cwymp; llethr, llechwedd; goriwaered, gogwyddfa, serthedd, serthfa, lledbeirwydd, serthallt, gosgo, osgo, epynt; disgyniad *neu* ddisgynfa tir.

Declivous, } *a.* (Ll. *declivis*, *declivus*) serth,
Declivitous, } llethrog, llechweddol, serthus; ar ogwydd, ar waered; yn graddol ddisgyn; osgoawl, lledbai.

Decoct, *v. a.* (Ll. *decoquo*) trwytho; berwi, berweddu; treulio; cryfhau, ffrwytho.

Decoctible, *a.* trwythadwy, hyferw, berwadwy; treuliadwy, hydraul; â aller ei ferwi, ei drwytho, *neu* ei dreulio.

Decoction, *s.* (Ll. *decoctio*; Ff. *décoction*) trwyth, godrwyth, isgell; trwythad, berwad, dyferwad.

First decoction — cyndrwyth, blaendrwyth.

Decoction of bark—rhisgwy, rhisgdrwyth, trwyth rhisg, trwyth rhisgl.

Decoctive, *a.* trwythol, trwythadol; hydrwyth; hawdd ei drwytho.

Decocture, *s.* (Ll. *decoctura*) trwythad, trwythyd; y sylwedd â dynir drwy drwytho.

Decollate, *v. a.* (Ll. *decollo*) torfynyglu, dibenu, tori pen, lladd pen, pendori, tori gwddf, diyddfu.

Decollation, *s.* (Ll. *decollatio*) torfynygliad, dibeniad, toriad pen, lladdiad pen, pendoriad, toriad gwddf.

Decoloration, *s.* (Ll. *decoloratio*) afliw, diliwiant, dadliwiant, disliwiad, diffyg lliw.

Decomplex, *a.* (*de* a *complex*) dygymhlyg; cyfansoddedig o ddelfrydau cymhlyg.

Decomposable, *a.* (o *decompose*) dadgyssoddadwy, dadgyfansoddadwy, dadansoddadwy.

Decompose, *v. a.* (Ff. *décomposer*) dadgyfansoddi, dadgyssoddi, dadgyssodi, dadansoddi; dadelfyddu; dadgyssylltu, dadgymhlitho, dadblitho, diblitho; adgyfansoddi; ail gyfansoddi; ofi, chwalu, toddi.

Decomposite, *a.* (Ll. *de* a *compositus*) adgyfanswdd, adgyfansoddol, adfysgedig, adgymmysg, adgymmysgedig, adgyssoddedig, adgyfansoddedig, dadblithiol, diblithiol, ail-gyfanswdd, ail-gymmysg, ail-gymmysgedig, ail-gyfansoddedig; gwedi ei gyfansoddi *neu* ei gymmysgu ddwywaith; gwedi ei gydgymmysgu â'r hyn oedd gymmysgedig eisoes.

Decomposition, *s.* (Ll. *de* a *compositio*) dadansoddiad, dosraniad, dadgyfansoddiad, dadgyssoddiad, dadgyssodiad, trychwaliad, dadchwaliad, dadblithiad, chwaliad, dattodiad, dadglymiad, ofiad, ofawd;† adgyfansoddiad.

Decompound, *v. a.* (*de* a *compound*) adgyfansoddi, adgyssoddi, adgymmysgu, adfysgu, adblitho, adgyssylltu, ail gyfansoddi, ail gymmysgu, ail gyssoddi, ail gyssylltu;† dadgyfansoddi, dadgymmysgu.

Decompound, *s.* adgyfanswdd, adgyssoddedig, adgymmysgedig, adgymmysg, adblithiedig, adgyfansoddol, ail-gymmysg, ail-gymmysgedig.

Decompoundable, *a.* (o *decompound*) adgyssoddadwy, adfysgadwy, adgyfansoddadwy.

Decorament,† *s.* (Ll. *decoramen*) addurn.

Decorate, *v. a.* (Ll. *decoro*, *decoratus*) addurno, harddu, gwychu, gorwychu, prydferthu, teghau, tecáu, tegychu, eirioni, eiriannu.

Decorated, *p. p.* addurnedig, addurnog.

Decorated style—dullwedd addurnog, dullwedd addurnedig, addurnwedd, dull addurnog.

Decorative, *a.* addurnol, addurniadol, prydferthol, eirionol.

Decorativeness, *s.* addurnoldeb, addurnolrwydd, prydfertholdeb.

Decoration, *s.* (o *decorate*) addurniad, addurnad, addurniant, addurniaeth, harddiad, tegychiad, eirianad, eirionad, prydferthad; addurn, harddwch, dillynedd, trwniad, gwychder.

Decorator, *s.* addurnwr, addurnydd, harddwr, eirionwr, prydferthwr, destlydd, tacluswr.

Decorous, *a.* (Ll. *decorus*) gweddus, gweddaidd, gweddol, addwyn, addas, cyfaddas, cymhwys, cymmesur; hardd, trefnus, prydferth, harddwedd, moddus, moddgar, dygiadus, telediw; priodol; hawddgar.

Decorticate, *v. a.* (Ll. *decortico*) dirisglo, dirisgo, dadrisglo, dadrisgo, pilio, digroeni, plisgo, digibo, dibliso.

Decortication, *s.* (Ll. *decorticatio*) dirisg'ad, dirisgad, dadrisgad, dadrisgiad, digroenad, piliad.

Decorum, *s.* (Ll.) gweddusder, gweddusdra, gweddusrwydd, gweddeidd-dra, gweddeiddrwydd, harddwch, addwynder, addasrwydd, cymhwysder, prydferthwch; priodolder, trefn; priodoldeb ymddygiad.

Decouple, *a.* (Ff. *découplé*) gwahan, gwahanedig, anghyplediq.

Decoy, *v. a.* (Is. *kooi*, *kooijen*) hudo, llithio, denu, twyllo; maglu; tynu, hudo, llithio, denu, *neu* dwyllo i'r rhwyd *neu* i'r fagl.

Decoy, *s.* hud, llith; llithiad, hudiad, deniad, hudedd, hudoliaeth; llithle, hudle, hudfa, llithfa, llithlyn, hudlyn; cyfrwysdra, cyfrwyswaith.

Decoy-duck, *s.* hudhwyad, hudnwy, hudhwyaden.

Decoy-man, *s.* llithddyn, hud-ddyn, maglwr, llithlynwr; un à lithio ednod gwyllt'on.

Decrease, *v.* (Ll. *decresco*) lleihau, treio, treulio, cilio, digynnyddu, toli, tolio, prinhau; cwympo, llaesu, adfeilio, darfod; myned ar gil; myned yn llai; byrhau, lleiadu.

Decrease, *s.* lleihad, lleiad, trai, treiad, tawl, toliant; byrhad; cil, ciliad; cwymp.

Decrease of the moon—adeg y lleuad; cil y lleuad; traul y lleuad; ciladeg y lloer; adfan cil; gwendid y lleuad; lloergil.

The moon is in her decrease—y mae y lleuad ar ei hadeg; mae y lleuad ar ei chil, &c.; mae godrig ar y lleuad.

Decree, *s.* (Ll. *decretum*; Ff. ac Al. *decret*) gorchymyn, deddf, gosodiad, gosodiaeth, gosod, gosodedigaeth, cyfraith, rhaith; archiadeb, cyhoeddeb; dedfryd, barn, penderfyniad, penderfyndod, tynged; ordeiniaeth, ordinhad, ordinhad gyhoedd, ystatyn; arfaeth, bwriad, amcan, rhagfwriad.

The decrees of God—arfaethau Duw.

Interlocutory decree — barn gychwedl, dedfryd gychwedl.

An umpire's decree — barn cylafaredd, cyfryngfarn.

A decree of the court of chancery—dedfryd y canghellys.

A decree of a court of law—barn llys cyfraith, barn cyfreithlys.

The common decree of the city—cyfundeb y ddinas (2 *Mac.* xii. 4).

Decree, *v. a.* gosod, gosodi, gorchymyn; dedfrydu, barnu, penderfynu, terfynu; penodi, trefnu, ordeinio, sefydlu, sicrhau, appwyntio, pwyntio; gosod deddf *neu* gyfraith; deddfu, gwneuthur cyfraith; arfaethu, amcanu, rhagarfaethu, bwriadu, rhaglunio, lluniaethu; bod ar oddeu; rhoi ei fryd ar.

Thou hast decreed—gosodaist orchymyn.

Decreed, *p. p.* gosodedig, gorchymynedig, terfynedig, arfaethedig, trefnedig, &c.

Decrement, *s.* (Ll. *decrementum*) lleihad, lleiad, traul, treuliad, treuliant, trai; cil.

To pay decrements—talu tuag at draul, ac am wasanaeth rhyw fân gelfiach.

Decrepit, *a.* (Ll. *decrepitus*) methiannus, methiantus, methianllyd, lleag, gwàn, methedig, henaidd, henddynaidd, cleirchaidd, cleiriachaidd, cymhercyn, methoedranus, gwanllyd.

A decrepit old man—clairch, (*dim.* cleirchyn), cleiriach, hen glairch, hen gleb, hen gleirchyn, hen wr methiannus.

Decrepid old age=*Decrepitness*, *Decrepitude.*

Decrepitate, *v.* (Ll. *decrepo*) crinellu, clindarddach, grillian, grillio, grillgrasu.

Decrepitation, *s.* (o *decrepitate*) crinelliad, clindarddach, clindarddiad, grilliad, grillgrasiad.

Decrepitness, } *s.* methiant, methineb, llesgedd,
Decrepitude, } gwendid, hen oedran, henaint, egwander, edwaint, cleircheiddrwydd, cleiriacheiddrwydd, gwendid a methiant; cymhercyndod.

Decrescendo, *s.* (It.) lleihad, lleiawd.

Decrescent, *a.* (Ll. *decrescens*) yn lleihau, yn treio, yn treulio; treiol, lleihaol, treuliol; ar draul, ar gil; yn myned leilai; yn gwaethygu, yn methu.

Decretal, *a.* (Ll. *decretum*) gosodol, gorchymynol, ordeiniol, ordinhadol, rheithiol; dedfrydol, penderfynol; arfaethol; deddfiyfrol.

Decretal epistle—llythyr gosodol, rheithlythyr.

Decretal, *s.* gosodlyfr, llyfr gosodau, deddfodlyfr; deddfiyfr y Pab; llyfr cyfraith crefydd; casgliad o gyfreithiau a gosodau eglwysig; gosodiaethau a chyfreithiau yr eglwys; casgliad o osodau Pabau Rhufain; llythyr gosodol, gosodlythyr, deddfiythyr; rheithgorff, rheithgynnull.

Decretion, *s.* (o'r Ll. *decresco*) lleihad, lleiad, treiad.

Decretist, *s.* (Ll. *decretum*) un hyddysg mewn gosodlyfrau, &c.; gosodlyfrwr; astudiwr gosodau y Pab; gosodiaethwr.

Decretory, *a.* (Ll. *decretorius*) barnol, barnedigol, terfynol, penderfynol, gosodol, pendant, penodol, dybenol, awdurdodol; beirniadol; à ddengys y modd y terfyna peth.

Decrew,† *v. n.* lleihau.

Decrial, *s.* (o *decry*) difenwad, goganiad, bychaniad, beiad; gogan, hort, anair, enllib, sen; cais ar leihau parch a chymmeriad peth.

Decrier, *s.* goganydd, difenwydd, hortiwr, bychanwr.

Decrown, *v. a.* (*de* a *crown*) dadgoroni, digoroni.

Decrustation, *s.* (*de* a *crustation*) dadgrofeniad, dadgraweniad, dadgrestiad, dadgrameniad, digraweniad, digrofeniad.

Decry, *v. a.* (Ff. *décrier*) goganu, difrïo, cablu, hortio, bychanu, beio, beio ar, difenwi, anfrïo, lladd ar, rhedeg ar; rhoi anair, drygair, *neu* anghlod i; rhedeg i lawr; difenwi ar gyhoedd; ceisio lleihau parch a chymmeriad; gwaradwyddo, gwarthâu, gwarthu, gwarthruddo, senu; dywedyd gair twn am.

Decubation, *s.* (Ll. *decumbo*) gorweddiad; gorweddiad i lawr.

Decumbence, } *s.* (Ll. *decumbens*) gorweddiad,
Decumbency, } gorweddawd, gorwedd, gorweddiad i lawr; ystum gorweddiad; gogwyddiad.

Decumbent, *a.* (Ll. *decumbens*) gorweddol, gogwyddol; yn gogwyddo i lawr; yn plygu i lawr.

Decumbiture, *s.* (o'r Ll. *decumbo*) claforweddiad; y gorweddiad cyntaf mewn clefyd; cadwad gwely cyntaf mewn aflechyd.

Decuple, *a.* (Ll. *decuplus*; Gr. *decaplous*) degplyg, degtro, degnyblyg, deng nyblyg, deg cymmaint, cynnifer ddengwaith; ar y ddegfed; ar ei ddegfed.

Decuple, *s.* degplyg, degtro, peth deng nyblyg.

Decurion, *s.* (Ll. *decurio*) dengwriad; pen ar ddeg o wŷr (yn y fyddin Rufeinig gynt).

Decurrent, *a.* (Ll. *decurrens*) yn estyn i lawr; yn ymestyn i waered; yn rhedeg i waered; arwaeredol.

Decursion, *s.* (Ll. *decursio*) rhediad, dylifad, dylifiant; cerhynt, hytynt; rhediad i waered, rhediad i lawr.

Decursive, *a.* rhedol, rhedegol, dylifol; rhedegol i lawr; yn rhedeg *neu* yn llifo i waered.

Decurt,† *v. a.* (Ll. *decurto*) cwtogi, byrhau; tocio.

Decurtation, *s.* (Ll. *decurtatio*) cwtogiad, byrhad, byriad, talfyriad, dyfyriad, toriad yn fyr; toriad yn gwta.

Decury, *s.* (Ll. *decuria*) deg o wŷr, torf o ddeg, deglu, deg.

Decussate, *v. a.* (Ll. *decusso*) croesi, cynghroesi, croesdori; croesi eu gilydd fel X.

Decussate, } *a.* croes, cynghroes, croesedig,
Decussated, } cynghroesedig, traws; croes fel X.

Decussation, *s.* (Ll. *decussatio*) cynghroesiad, croesiad, cymgroesiad, cydymgroesiad.

Dedalian, *a.* (Ll. *Dædalus*; Gr. *Daidalos*, enw celfyddwr cywrain) amrywiol, amrywiog, amryw, amrywiedig, amryddull, amryfal; cywrain, cywraint, hyfedr, medrus, celfydd, cynnil; dyrys, astrus; dyrysfaog, bachdrofaog, bachdroawl; cymhlyg, cymhleth, cymmysg, penbleth.

Dedalous, *a.* (o *Dædalus*) minwyrog, minrwyog, mindroawg, nidrymylog; ceinbleth.

Dedecorate,† *v. a.* (Ll. *dedecoro*) anurddo, gwarthruddo, gwaradwyddo, anharddu.

Dedecoration,† *s.* anurddiad, gwarthruddiad.

Dedecorous, *a.* (Ll. *dedecoro*) gwaradwyddus, cywilyddus, gwarthus, gwarthruddus, gwarthruddol, anweddus, anhardd, gwrthun, anurddol, anmharchus.

Dedentition, *s.* (*de* a *dentitio*) diddeintiad, dadddeintiad, bwriad dannedd, syrthiad daint, colliad dannedd.

Dedicate, *v. a.* (Ll. *dedico*) cyssegru, cyflwyno, dïofrydu, anrhegu, rhoddi, rhoi; gorchymyn; priodoli, neilltuo; dyanerch, dyanerchu, anerch; offrymu, aberthu.

To dedicate one's self—ymgyssegru, ymgyflwyno, ymroddi, ymddïofrydu.

To dedicate a book—cyflwyno llyfr; anrhegu llyfr.

Dedicate, } *a.* cyssegredig, cyflwynedig, dïof-
Dedicated, } rydedig, dïofrydog, dïofrydol, cyssegrol, cyssegr, segredig.

Dedicatee, *s.* (o *dedicate*) cyflwynai, anrhegai; yr un y cyflwyner iddo.

Dedication, *s.* (Ll. *dedicatio*) cyflwyniad, cyflwynad, cyssegriad, rhoddiad, anrhegiad; priodoliad, neilltuad; dyanerchiad.

Feast of dedication — cyssegrwyl, gŵyl cyssegriad; gŵyl goffa; gŵyl mabsant.

Dedicator, *s.* (o *dedicate*) cyflwynydd, cyflwynwr; anrhegydd, anrhegwr; cyssegrwr.

Dedicatory, *a.* (o *dedicate*) cyflwynol, cyflwyniadol, anrhegol, gorchymynol; anerchol, cymmediwol, dyanerchol; cyssegrol.

Epistle dedicatory — llythyr cyflwyn, llythyr cyflwynol, cyflwyneb.

Dedition, *s.* (Ll. *deditio*) ymroad, ymroddiad, gildiad, gorfod-roddiad, dirddodiad, rhoddiad i fyny; gwarogaeth.

Dedolent, *a.* (Ll. *dedoleo*) dïedifar, anedifar, anedifarus, anedifeiriol; dïofid.

Deduce, *v. a.* (Ll. *deduco*) tynu, casglu, *neu* gynnull oddi wrth; tynu *neu* gasglu o; erthynu; dwyn allan o; dwyn i lawr; dwyn o; arwain oddi wrth; tynu, casglu, tynu casgliad; dwyn i lawr yn ddidor *neu* yn ddïodor o'r dechreuad; †trawsblanu.

Deducement, *s.* (o *deduce*) casgliad, casgl; canlynawd, canlyniad; casgliad *neu* dyniad oddi wrth.

Deducive, *a.* casgladwy, hygasgl; à aller ei gasglu; canlyniadol.

Deducive, *a.* casgliadol, casgledigol.

Deduct, *v. a.* (Ll. *deduco*, *deductum*) tynu o; tynu ymaith; tynu oddi wrth; tynu *neu* gymmeryd allan o; erthynu, tanddygyd, tynu; tynu yn ol; tynu heibio; deoli, gohanu, toli, lleihau, lleiadu, gwahandynu.

Deduction, *s.* (Ll. *deductio*) tyniad ymaith; tyniad o; tyniad oddi wrth; tyniad allan; cymmeriad ymaith; cymmeriad oddi wrth; casgliad, arganlyniad, canlyniad, cynghlo; erthyniad, tanddygiad, tyniad, gwahandyniad; lleihad, cwtogiad; y swm à dynir allan; y swm à gymmerir allan *neu* ymaith.

Deductive, *a.* casgliadol; casgladwy, hygasgl.

All knowledge is deductive—peth à geaglir yw pob gwybodaeth; casgliad oddi wrth yr hyn a aeth o'r blaen yw pob gwybodaeth.

Deductively, *ad.* yn gasgliadol; ar ddull *neu* wedd casgliad oddi wrth yr hyn a aeth o'r blaen; trwy dynu casgliadau *neu* ganlyniadau.

Deed, *s.* (S. *dæd*; Is. a D. *daad*; Al. *that*) gweithred; gwaith, gober, praith, peth, ffaith; gorchest, gorug, gorchestedd, gorchwyl; gweithrediad.

Deed (in law)—gweithred; ysgrifen, ammodysgrif, gweithredeb, ammodeb; gweithred tir, gweithred ysgrifenedig, ysgrifiais, ysgrifenlais.

Act and deed—gwaith a gweithred.

Good deed—gweithred dda, gwaith da, twrn da, tro da, oed, cymmwynas, mwynas.

It were a good deed to beat you—da fyddai eich curo; gorchwyl da fyddai eich curo; gwaith da fyddai eich curo; da yr haeddech eich curo.

Ill deed—gweithred ddrwg, gwaith drwg, drygwaith, drygweithred, anghymmwynas, twrn drwg, tro drwg, chwired.

Foul deed—gweithred ddybryd, gweithred annhelediw, gweithred front, cyflafan, cyflafan ddybryd, anfadwaith, erchyllwaith.

In the very deed—ar y weithred; yn y weithred.

In very deed—yn wir ddïau; yn wir; mewn gwirionedd; yn ddïau; yn wir ddiammheu; yn sicr ddiammheu; yn wir ddilys; yn lle gwir.

By thought, word, and deed—ar feddwl, gair, a gweithred. [red.

Deed, *v. a.* trosi *neu* drosglwyddo drwy weith-

Deed-achieving, *a.* gorchestfawr, gorchestlawn, gorugiol, gorchestol; yn gwneuthur gorchestion.

Deedless, *a.* (*deed* a *less*) diweithred; anweithgar, diwaith, segur, dïymadferth, dibraith.

Deed-poll, *s.* gweithred anmwlch; gweithred seml anmwlch.

Deedy, *a.* gweithredog, clodfawr, enwog, gorchestlawn.

Deem, *v. a.* (S. *deman*; Is. *doemen*; D. *dömmer*) tybied, tybio, tybygu, barnu, meddylied, meddylio, meddwl, cyfrif, bwrw, ystyried, ystyrio.

Deem,† *s.* tybiant, tybiaeth, tyb, barn, tybygiad.

Deemster, *s.* (o *deem*, a'r terfyniad *ster*) ynad yn Manaw ac yn Iersey; barnydd, barnwr, ynad.

Deep, *a.* (S. *deop, dypa;* Is. *diep;* D. *dyb*) dwfn, (*f.* dofn); isel, anfas, anoddyfn, anoddyn, gwys; dwys; cudd, cel, celedig, cuddiedig; craff, craffus, call, amwel; treiddiol, treiddgar; cynhyrfiol; cyfrwys, dyfeisgar; difrif, difrifol; cryf; caled; trwm; tywyll, du; dyrys; annealladwy; syn; dyfn-, tra-, gor-, try-.

Very deep — gorddwfn, tra dwfn, dwfn iawn, anoddyfn, anoddyn.

Deep sorrow — tristwch dwys, tristwch mawr, dwys gystudd *neu* ofid calon.

Deep sleep — trymgwsg; marw gwsg, margwsg, trymhun, cwsg trwm, hun drom.

Deep poverty—dwfn dlodi, mawr dlodi.

Deep sense—dwys ymsyniad, ystyriaeth ddwys, dofn ystyriaeth, ystyriaeth ddofn; dwys ac iawn ymsyniad; ymdeimlad dwys.

Deep silence—dystawrwydd dwys, dystawrwydd mawr, gorddystawrwydd.

Deep consolation—cysur cryf.

The deep places of the earth—gorddyfnderau y ddaiar; dyfnderau y ddaiar.

Deep pits—ceuffosydd (*Salm.* cxl. 10).

To drink deep, } yfed yn helaeth; yfed
To drink deeply, } yn gryf.

To dig deep—dyfn-gloddio; cloddio yn ddwfn; cloddio yn isel.

To search deep—dyfn-chwilio; chwilio i'r dyfnder, i'r gwaelod, *neu* i'r eithaf; dyfn-geisio; chwilio yn drwyadl; try-chwilio.

A people of deeper speech than thou canst perceive—pobl o iaith ddyfnach nag a ddeallech di (*Esa.* xxxiii. 19).

To make deep—dyfnhau; gwneuthur yn ddwfn.

Deep-sea-line — plymlin dyfnfor, llinyn dyfnfor.

Deep-sea-lead—plymen ddyfnfor=plymen â chaen o wer o'i hamgylch, i godi graian o'r gwaelod.

Deep, *s.* dyfnder, y dyfnder, eigion, yr eigion, dwfn, y dwfn, y môr, dyfnfor, y weilgi, gorddyfnder, gorddwfn, y cenfor, y cefnfor, y cyfanfor, y môr mawr, eigion y môr, affwys, anoddyn, anoddyfn, môr affwys, aig, noddyn, dylan; canol.

Launch out into the deep — gwthia i'r dwfn.

In deep of night, } yn nyfnder nos;
In the deep of night, } yn nghefnaint nos; yn nhrymder nos; yn nghanol nos; ar ganol nos; yn mherfeddion y nos.

Her counsels are profounder than the great deep—y mae ei chynghor yn ddyfnach na'r dyfnder mawr (*Eccles.* xxiv. 29).

Their persecutors thou throwest into the deeps — eu herlidwyr a fwriaist i'r gwaelod (*Neh.* ix. 11).

Deep-drawing, *a.* dyfnsuddol, dyfnsoddol; yn suddo yn ddwfn.

Deep-drawn, *a.* dyfn-dynedig; tynedig o ddyfnder.

Deepen, *v.* (o *deep*) dyfnhau; gwneuthur yn ddwfn *neu* yn ddwys; gwneuthur yn ddyfnach; tywyllu, duo; gwneuthur yn dywyllach; difrifoli; pruddhau; gwneuthur yn ddifrifolach; cymylu; trymhau; chwanegu; myned yn ddyfnach.

Deep-laid, *a.* dyfn-osodedig; â luniwyd â medruarwydd dwys.

Deeply, *ad.* yn ddwfn, &c.; yn mhell i mewn; yn bell i fewn; i'r eithaf; i'r mêr; o'r galon; o ferion y galon; o eigion y galon; o eigion calon; o'r merion; i'r gwaelod; hyd y gwaelod; yn llwyr.

They are deeply in debt—maent yn mhell *neu* yn ddwfn mewn dyled; maent mewn dyled hyd eu llygaid; y maent mewn dyled hyd eu clustiau.

He is deeply in love with her—y mae efe yn ei charu o'i galon; mae efe yn glaf o'i chariad; y mae efe mewn mawr gariad â hi; y mae yn ei charu *neu* ei hoffi yn fawr dros ben; y mae ganddo fawrserch *neu* draserch arni; mae ganddo fawr gariad tuag ati; y mae efe yn ei thracharu hi. [coch tywyll.

Deeply red colour—lliw coch dwfn; lliw

Deeply coloured—dyfnliwiog, dyfnliwiedig, dyfnliw; tryliwiog.

Deep-mouthed, *a.* crochlais, crochsain, crochseiniog, crochlafar; â rydd lais croch cryglyd; â rydd sain groch gregled; croch ei geg.

Deep-musing, *a.* myfyrgar, meddylgar, dyfnfyfyr, dwys fyfyriol, dwys fyfyrgar, dwfn fyfyriol; dwys ei fryd.

Deepness, *s.* (o *deep*) dyfnder, dyfndra, dyfnedd, gorddyfnder, dyfnawd; callder, cyfrwysder.

Deep-read, *a.* tryddarllenog, dyfn-ddysgedig, trahyddysg, gorhyddysg, gorddysgedig, llwyrddarllenog, dyfn-ddarllenog, uchelddysg, cyfarwydd; gwedi darllen yn ddwys *neu* yn llwyr; â ddarllenodd nid ychydig; â ddarllenodd yn galed.

Deep-revolving, *a.* dwys fyfyriol, myfyrgar, dyfn-fyfyr; yn dwys dreiglo yn y meddwl.

Deep-scarred, *a.* dyfn-greithiog, dyfn-graith.

Deep-seated, *a.* dyfnseddog; dyfnsaf, dyfnsafedig; gwedi ei osod yn ddwfn; yn bod yn ddwfn.

Deep-sounding, *a.* dyfnseiniol, dyfnseiniog, dyfnsain, iselsain, dyfnlais, dyfnleisiog; dwys ei sain.

Deep-thinking, *a.* dwys fyfyriol, dwys fyfyr, dwys fyfyrgar, dyfn-fyfyriol, dyfn-fyfyr, myfyrgar, meddylgar.

Deep-throated, *a.* cegddwfn; dwfn ei geg; dwfn ei lais; dyfnlais, dyfn-gegog.

Deep-toned, *a.* dwys ei dôn; dwfn ei dôn; dyfnsain, dyfnseiniog; dyfn ei oslef; difrif ei dôn; prudd ei sain.

Deep-vaulted, *a.* dyfn-fwaog.

Deep-waisted, *a.* dyfn-wasg, dyfn-ganolog; yn meddu canol dwfn.

Deep-worn, *a.* dyfn-dreuliedig; gwedi ei dreulio i ddyfnder mawr.

Deer, *sing.* a *pl.* (S. *deor;* Is. *dier;* Al. *thier*) danas, danys; hydd, carw, eilon, cerwyd, llwdn hydd, cellaig, celaig, cyllaig; hyddod, ceirw.

Fallow-deer — hydd, danas, danys, llwdn hydd, bwch danas, bwch danys; hyddes, gafr ddanas, gafr ddân, ewig lwyd: *pl.* bychod danys, geifr danas, geifr danys.

Male deer — bwch danas, bwch danys, hydd, carw, eilon.
Female deer — gafr ddanas, gafr ddân, ewig lwyd, ewig.
Young deer, } elain, rhydain, rhydol, danas
Deer fawn, } ieuanc, hydd ieuanc, carw ieuanc, llwdn ewig.
Red deer, } carw, carw coch, cerwyd,
Stag, } celaig, cellaig, cyllaig; carw coch pummlwydd oed ac uchod: *f.* ewig.
Rein-deer—algar, algarw, carw Llychlyn.
Black-tailed deer—carw cynffonddu, danas cynffonddu, danys llostddu, carw rhonddu.
Long-tailed deer—carw cynffonhir, danas rhonhir.
Deer-park — hyddgae, parc ceirw, parc ewigod, hyddgoed, hyddbarc, danasgae.
Herd of deer—hyddgant, hyddre; deadell o hyddod.
Deer's skin—hyddgen, hyddgroen, croen carw, croen hydd, croen llwdn hydd.
The rutting of deer—hyddfref, hyddgyrid, hyddridiad.
Deer's horn—hyddgorn, corn hydd, ban hydd.
The knag of a deer's horns—osglau cyrn hydd; blaen cyrn hydd.

Deer-stealer, *s.* hydd-leidr, lleidr danas; lleidr hyddod *neu* geirw: *pl.* hydd-ladron: *f.* hydd-ladrones.

Deer-stealing, *s.* hydd-ladrad, hydd-ledrad, hydd-ladrata.

Deesis, *s.* (Gr. *deêsis*) dwyfanerch, nefanerch-eb, ymoralwad, gweddi.

Deess,† *s.* (Ff. *déesse*) duwies.

Deface, *v. a.* (*de*, a Ll. *facio*; Ff. *défaire*) anffurfio, anharddu, anurddo, gwrthuno, anferthu, hagru, hacru, hagrhau, aflunio, aflunieiddio, anaddwyno, difwyno, diwyno, anafu, hyllu; dilëu, diddymu, dïoli, tynu ymaith, crafu ymaith; dystrywio, dinystro, dinystrio, anrheithio, dyfetha; llygru, halogi.

Defaced, *p. p.* anffurfiedig, &c.; gwrthun, anffurfiol, anffurfaidd, anosgeddig, anaddwyn.

Defacement, *s.* anffurfiad, anharddiad, aflunïad, anurddiad, hagriad, hacriad, dilead, &c.; cam, niwed, dystryw; hagredd, aflunieiddrwydd.

Defacer, *s.* anffurfiwr, anharddwr, anurddwr; hagrydd, anafydd, gwrthunydd, dinystrydd.

Defæcation, *s.* (Ll. *defæco*) diwaddodiad, dadwaddodiad, dadffesiad; purad, coethiad, glanhad; puredigaeth oddi wrth waelodion ac anmhuredd; ysgothiad.

Defailance,† *s.* (Ff. *défaillance*) meth, pall, diffyg; methiad, erthyliad.

Defalcate, *v. a.* (Ll. *defalco*; Ff. *défalquer*) ysgythru, tori ymaith; erthynu, tynu o, lleihau, cwtogi, lleiadu, toli; tynu rhan o; rhangymmeryd.

Defalcation, *s.* (Ll. *defalcatio*) ysgythrad, ysgythriad, toriad ymaith; erthyniad, lleihad, lleiad, cwtogiad, toliad, toliant, talfyriad, colliant.

Defalk,† *v. a.*=*Defalcate.*

Defamation, *s.* (Ll. *diffamatio*) difenwad, hort, enllib, cabl, cablair, gogan, athrod, athrawd, athrodiaeth, drygabsen, absen ddrwg, sen, sarhad, cabledigaeth, hortiad, enllibiad, gwarthruddiad; gwaradwydd, anair, anghlod, achlod, gwarth, gwaradwydd, gwarthred, gwarthrudd, athrodwaith, absenw.

Defamatory, *a.* enllibus, enllibaidd, enllibiol, athrodus, athrodol, athrodgar, athrodaidd, difenwol, goganus, hortiol, cablus, cablaidd, goganawl, gwarthredus, difrïol.

Defame, *v. a.* (Ll. *defamo*, *diffamo*; Ff. *diffamer*) enllibio, enllibo, athrodi, difenwi, hortio, cablu, absenu, goganu, difrïo, gwarthruddo, gwaradwyddo, difenwi, sarhau; rhoi anair, drygair, drygabsen, *neu* anghlod i; dywedyd gair twn am.

Defamer, *s.* (o *defame*) athrodwr, athrodydd, enllibiwr, enllibwr, enllibydd, difenwr, difenwydd, hortiwr, goganwr, absenwr, drygabsenwr, cablwr, cablydd, difrïwr, gwaradwyddwr, absenwr drwg.

Defaming, *s.*=*Defamation.*

Defatigable, *a.* (Ll. *defatigo*) blinadwy, diffygiadwy; agored i ddiffygio, lluddedu, *neu* flino.

Defatigate, *v. a.* (Ll. *defatigo*) blino; gwneuthur *neu* beri yn lluddedig; peri blinder *neu* ludded; lluddo.

Defatigation, *s.* (Ll. *defatigatio*) lludded, blinder, lluddedigaeth, lluddedigrwydd, llyferthiant, llyferthineb, llyferthedd, llyferth, llyferthrwydd.

Default, *s.* (Ff. *défaut*, *défault*) diffyg, pall, gwall, meth, nam, aball; gwallusder, gwallusdra, gwallusrwydd, esgeulusder, esgeulusdra, esgeulusrwydd, esgeulusiad, esgeulusdod; bai; palldal; ffled.
Default of appearance—gwall ymddangosiad, tormach, toriad mechni; gwall ymddangosiad yn y llys ar y dydd penodedig.
To make a default of appearance—gadaw y maes; tori mechni.
In default whereof—yn niffyg hyny; o ddiffyg hyny; o wall hyny.
To suffer a default—goddef gwall ymddangosiad; goddef i gwyn gael ei alw heb ateb iddo.

Default, *v.* pallu, aballu, methu, diffygio, gwallygio; bod yn ol am ei ddyledswydd; esgeuluso cyfiawnu addewid *neu* ammod; gadaw y maes; tori mechni; galw cwyn yn yr hwn nid ymddengys yr amddiffynydd.

Default,† *v. a.* tramgwyddo.

Defaulter, *s.* aballwr, pallwr, methwr, esgeuluswr, anymddangosydd, meth-ymddangosydd, gwall-ymddangosydd, torwr mechni; palldalwr.

Defeasance, } *s.* (Norm. *defesance*; Ff. *dé-*
Defeazance, } *faisant*) dadammodiad, dadrwymad, dadymrwymad, dadymrwym; diddymiad cytundeb *neu* ammod; dirymiad ysgrifrwym; diddym-ysgrif, ysgrif ddiddymol; † gorfodaeth.
To make a defeasance—dadammodi, dadrwymo, dadymrwymo; diddymu cytundeb *neu* ammod ysgrifenedig; dirymio ysgrifrwym; dadwneuthur ammod.

Defeasible, *a.* diddymadwy, dirymadwy, aballadwy, dadrwymadwy; à ellir ei ddiddymu.

Defeasibleness, *s.* aballedd, diddymedd, hyddirymedd.

Defeat, *s.* (Ff. *défaite*) dadymchweliad, dymchweliad, gorchfygiad, colliad y maes, coll

y maes, athrechiad, maeddiad, methl, curiad, caffaeliad y gwaethaf, disodliad ; curfa, maeddgen, aerfa, lladdfa, dinystr ; diddymiad, dirymiad, seithugiad, seithugiaeth, seithugiant, somiad, dïebryd, dïebrydiad.

Defeat, *v. a.* gorchfygu, dymchwelyd, dadymchwelyd, gorfod ar, trechu, athrechu, goresgyn, maeddu, curo, rhawtio, ffwyro, disodli ; gyru ar ffo ; gyru i ffoi ; gyru i gilio ; tori ymaith, tori i lawr ; dinystro, dinystrio ; diddymu, dirymu, dirymio, seithugio, somi ; peri yn seithug ; peri seithugiad i ; dïebrydu, twyllo ; difwyno, diffrwytho, difuddio, dïleu, andwyo ; gwaradwyddo.

Thus were the enemy's designs defeated —fel hyn y diddymwyd amcanion y gelyn.

Their counsels were defeated—diddymwyd eu cynghorion ; eu cynghorion a ddiddymwyd.

Defeated, *p. p.* gorchfygedig, &c. ; diddym, dirym, diffrwyth, seithug, ofer, difudd.

Defeature, *s.* (*de* a *feature*) newidiad gwynebpryd, gweddnewid, gweddnewidiad.

Defeature,† *s.* (o *defeat*) gorchfygiad, dymchweliad.

Defecate, *v. a.* (Ll. *defæco*) diwaddodi, diwaelodi ; tynu ymaith y gwaelodion ; tynu ymaith y sothach, y sorod, *neu* yr anmhuredd ; tynu ymaith y sothach a'r sorod ; teru, puro, glanhau, dïanmhuro, coethi.

Defecated, *p. p.* puredig, teredig, &c. ; ter, pur, glân, purlan, dïanmhur, coeth, disorod, disothach, diwaddod.

Defecation, *s.* diwaddodiad, dadwaddodiad, dadfflesiad ; purad, teriad, glanhad, coethiad ; puredigaeth oddi wrth waelodion *neu* anmhuredd.

Defect, *s.* (Ll. *defectus*) diffyg, gwall, aball, meth, byrdra, eisieu, pall, ffael, coll, anaf, nam, bai, gwallwg, gwallygfa, gwallawd, gwallyg, palldod, palliant, anmherffeithrwydd : *pl.* anmherffeithion.

Where there is no defect—lle nad oes dim yn fyr ; lle nad oes dim yn eisieu *neu* yn ddiffygiol.

Complete defect — llwyrwall, llwyrball, diffyg hollol.

Defect of sense — gwall synwyr, diffyg synwyr, gwall pwyll, diffyg pwyll.

Defect, *v. n.* bod yn ddiffygiol.

Defectibility, *s.* diffygiolrwydd, diffygioldeb, diffygiolder, anmherffeithrwydd, byrdra, arwallyg.

Defectible, *a.* (o *defect*) diffygiol, gwallygus, anmherffaith, anghyflawn, gwallus, aballus ; aballadwy.

Defection, *s.* (Ll. *defectio*) diffyg, diffygiad, gwallygiaeth, gwallwg, gwallyg, gwallygiad, palliant, aballiad, pall, gwallofaint, meth ; ymadawiad, gwrthgiliad, gwrthgil, adlithriad, ymlithr, ymwrthodiad ; gwrthryfel.

Defective, *a.* (Ll. *defectivus*) diffygiol, gwallus, anmherffaith, palledig, aballus, gwallygus, gwallog ; â diffyg, meth, eisieu, *neu* anmherffeithrwydd ynddo ; byr, beius, anafus, cloff.

Defective reason—gwallbwyll, pwyll diffygiol.

Defective in reason—gwallbwyllog.

Defective law — gwallgyfraith, cyfraith ddiffygiol.

To render defective—gwallocâu, gwalluso, gwallygio, palluso, diffygioli ; gwneuthur yn ddiffygiol, &c.

Defectiveness, *s.* diffygiolrwydd, diffygioldeb, diffygiolder, gwallusrwydd, gwallusder, gwallusdra, anmherffeithrwydd, aballusrwydd, gwallygusrwydd, aballrwydd, byrdra ; diffyg, gwall, pall, meth, eisieu, ffael, nam, gwallofaint.

Defectuosity,† *s.* (Ff. *défectuosité*)=*Defectiveness.*

Defectuous, *a.* (Ff. *défectueux*) diffygiog, gwallog ; llawn diffygion, llawn anmherffeithion.

Defedation, } *s.* (hen Ff. *defedation ;* o'r Ll.
Defœdation, } *de* a *fœdus*) halogiad, aflanhad, bryntiad.

Defence, *s.* (Ff. ; Ll. *defensio*) amddiffyn, diffyn, ymddiffyn, diffyniad, amddiffyniad, ymddiffyniad ; nawdd, nodded, achles, amgeledd, ymgeledd, amnawdd, ceidwadaeth, differ, diffwyn ; amddiffynfa, diffynfa, ymddiffynfa, diogelfa, noddfa, caerwaith, amgaer ; gwart ; diogelwch, cysgod, amwg ; gwrthwynebiad.

Self-defence — ymddiffyn, ymddiffyniad, hunan-ddiffyn, hun-amddiffyn, ymddiffer, ymddiffwyn, hunan-ddiffyniad.

A place of defence—amddiffynfa, diffynfa, ymddiffynfa, diogelfa, noddfa, noddle, cadarnle, caerfa, amgaerfa.

A city of defence—dinas gadarn ; dinas gaerog ; dinas amddiffyn, dinas amddiffynol.

In defence of—dros, yn mhlaid, o blaid, er amddiffyn, yn niffyniad, yn nghweryl ; er mwyn amddiffyn.

To speak in defence of—amddiffyn, amddiffynu, diffynu ; dadleu dros ; diheuro ; gwneuthur amddiffyniad i.

To speak in one's own defence—amddiffyn ei hun ; dywedyd, llafaru, *neu* ddadleu drosto ei hun ; ymddiheuro, ymddiffyn.

Line of defence—diffynres, diffynlin, llinell amddiffyn.

Defence,† *v. a.* amddiffyn.

All the defenced cities of Judah —holl gaerog ddinasoedd Iudah (*Esa.* xxxvi. 1).

Defenceless, *a.* (*defence* a *less*) dïamddiffyn, dïymddiffyn, dïamgeledd, dïymgeledd, dinodded, dïachles, dinawdd, diddiffyn ; anniffynol, anniffred ; anghaerog ; anarfog, dïarfog ; noeth, agored ; anghadwedig.

Defencelessness, *s.* anamddiffynedd, anniffynedd, anniffynoldeb, dïamddiffynedd.

Defend, *v. a.* (Ll. *defendo ;* Ff. *defendre*) amddiffyn, amddiffynu, diffynu, diffyn, ymddiffyn, diogelu, amgeleddu, ymgeleddu, differ, differu, differyd, diffwyn, amwyn, diffred, diffredu, amug, amygu ; cadw, noddi, achlesu ; achub, gwaredu, gwared ; esglywyn, esglywi ; cysgodi, gorthöi, gorchuddio ; sefyll wrth ; cymmeryd plaid ; pleidio *neu* ddadleu gydag ; arddelwi, hôni, myntumio, dâl ; gwneuthur arddelw ; gwahardd, gwarafun.

To defend one's self—amddiffyn ei hun ; ymddiffyn, ymddiffynu, hun-ddiffynu, hunan-ddiffynu.

To defend a cause—dadleu dadl ; pleidio achos ; dadleu achos ; dadleu dros ; amddiffyn achos, dadl, *neu* gwyn.

Defended on all sides—amnoddedig, amnawdd, amnoddog; diffynedig ar bob tu.

Defendable, *a.* diffynadwy, amddiffynadwy.

Defendant, *a.* amddiffynol, diffynol, amddiffynus, ymddiffynol, ymddiffynus, diffreidiol, diffredol.

Defendant, *s.* amddiffynydd, amddiffynwr, ymddiffynydd, diffynwr, diffynydd; diffynblaid, amddiffynblaid, y blaid ddiffynol; y cyhuddedig, y cyhuddol.

Defender, *s.* amddiffynwr, amddiffynydd, diffynwr, diffynydd, ymddiffynydd, noddwr, achleswr, achlesydd, diffreidiog, diffreidiad, diffreidiwr, diffyniawdwr, ceidwad, darddiffynwr.

Defender of the Faith — Diffynydd y Ffydd, Amddiffynydd y Ffydd.

Defensative, *s.* (o'r Ll. *defenso*) amddiffyniaeth, diffyniaeth, amnawdd, amddiffynfa, amddiffyn, differ, nawdd, cadwraeth; diffynydd; peth à gadwo.

Defensible, *a.* (o'r Ll. *defenso*) diffynadwy, amddiffynadwy; noddadwy, hynawdd; à aller ei amddiffyn, &c.

Defensive, *a.* (Ff. *défensif*) amddiffynol, diffynol, amddiffynus, diffynus, ymddiffynol, diffredol, diffreidiol, diffwynol, darddiffynol, differiol; er amddiffyn.

Defensive arms—arfau amddiffyn, arfau ymddiffyn, arfau amddiffynol.

Arms offensive and defensive—arfau er taraw ac er amddiffyn; arfau ymosod ac arfau ymddiffyn; arfau er ymosod ac er amddiffyn; arfau ymosodol ac amddiffynol; arfau niweidiol a diffynol.

Defensive war—rhyfel amddiffyn, rhyfel amddiffynol, rhyfel er amddiffyn.

Defensive, *s.* amddiffyn, diffyn; amnawdd, amddiffyniad, amddiffynfa; à ddiffyno.

On the defensive—ar yr amddiffyn.

To be on the defensive, } bod ar yr am-
To stand on the defensive, } ddiffyn; sefyll ar yr amddiffyn.

Defensively, *ad.* yn amddiffynol, &c.; er amddiffyn; mewn amddiffyniad; ar yr amddiffyn.

To act defensively—bod ar yr amddiffyn; sefyll ar yr amddiffyn; amddiffyn, amddiffynu.

Defer, *v.* (Ll. *differo*) oedi, addoedi, gohirio, dyoedi, aros, cyfaros, esgeuluso, cyngydio, peidio à; bwrw *neu* adael heibio o ddydd i ddydd; bwrw *neu* adael heibio hyd amser arall; cyfeirio; ymostwng, ymroddi, ymröi, dymroddi, ymroddi, plygu, ymblygu; rhoi ar farn un arall.

Deference, *s.* (Ff. o *defer*) parch, bri, parchedigaeth, erbarch, anrhydedd; ymostyngiad, ymroddiad, dymroddiad, cydymblygiad, cydymweddiad, ymddarostyngiad; hynawsedd, mwynder, cyweithasrwydd, mynogaeth.

In deference to the ladies—o barch i'r rhianod; o barch ar y boneddigesau.

To pay deference — parchu; talu *neu* ddangos parch.

Deferent, *a.* (Ll. *defero*) dygol, dygiannol, cludol, dygludol; yn cludo, yn cario, yn dwyn.

Deferent, *s.* cyrchell, trosglwyddell, dysborthell; pibell.

Deferent of a planet—cyrchell planed (yn ol trefniant Ptolemëus).

Deferential, *a.* parchol, parchedigol, parchusol; yn dangos parch.

Deferment, *s.* (o *defer*) oediad, addoediad, gohiriad, gohiriant, oed, addoed.

Deferrer, *s.* (o *defer*) oedwr, gohiriwr, addoedwr.

Defiance, *s.* (Ff.) her, heriad, beiddiad, hew, baidd, heriant, herawd, hyr, hyriad, ymheriad, aws, orn, ornedd, annog; gofyn gwaethaf; pariad i un wneuthur ei waethaf; galwad hergar; galwad i ymladd *neu* i ymbrofi os baidd; galwad i wneuthur peth os baidd.

To bid defiance to one—gofyn gwaethaf un; peri *neu* erchi i un wneuthur ei waethaf.

Defiance to thee—gwna dy waethaf; her iti; hew iti; gwaethaf dy ddannedd di; gwna waethaf dy ddannedd.

In defiance of—er gwaethaf; o waethaf; yn ngwrthwyneb i; yn erbyn; er baidd i; o fic i; yn groes i.

To live in open defiance of religion—byw yn elyn cyhoedd i grefydd; bod yn elyn cyfaddef i grefydd; byw *neu* fod heb Dduw yn y byd.

Defiatory, *a.* (o *defy*) heriol, heriannol, heriadol.

Deficiency, } *s.* (Ll. *deficiens*) diffyg, byrdra,
Deficience, } diffygiolrwydd, diffygioldeb, diffygiolder, pall, gwall, eisieu, meth, nam, ffael, coll, anmherffeithrwydd, gwallofaint, aball, aballusrwydd, gwallusrwydd, aballedigaeth.

Deficient, *a.* (Ll. *deficiens*) diffygiol, anghyflawn, byr, anmherffaith, annigonol, annigon, anorphen, anghwbl, gwallus, palledig, gwallygus, aballus, gwallog; à diffyg, meth, *neu* eisieu ynddo; anafus, beius, bylchog.

Deficient numbers — diffygrifau, rhifau diffygiol.

Deficit, *s.* (Ff. o'r Ll. *deficio*) diffyg, pall, eisieu, byrdra, annigonedd, gwall, angen, rhy fach.

Definer, *s.* (o *defy*) heriwr, heriedydd, beiddiwr, beiddwr, ornydd, ymheriwr; annogwr diystyrllyd, dirmygwr, dirmygydd, gwaradwyddwr; gofynwr gwaethaf.

Defiguration,† *s.* (*de* a *figure*) anffurfiad, afluniad, anharddiad.

Defigure,† *v. a.* (*de* a *figure*; Ff. *défigurer*) llunio, llunweddu, darlinellu.

Defilading, *s.* tedduchedd, teddgyfeiriad.

Defile, *v. a.* (S. *afylan, befylan, gefylan*) halogi, diwyno, llygru, budreddu, budro, budrhau; llychwino, aflanhau, anurddo, llytrodi, bryntäu, budru, difwyno, mefiu; diforwyno; gwneuthur yn afian, yn frwnt, yn fudr, yn anmhur, *neu* yn halog; gwaethygu, drycio.

To defile a woman—halogi benyw; diforwyno, llathruddo, dwyn llathlud; llathruddo, llathludo, *neu* dreisio merch; gwneuthur gwaith anfodd ar fenyw.

To defile one's self—ymhalogi.

That defile themselves with mankind—gwrywgydwyr (1 *Tim.* i. 10).

To defile a sacred place—halogi cysegr; halogi lle santaidd; anghysegru, digyssegru.

To defile one's own nest—poeri ar ei bilyn *neu* ei ddilledyn ei hun.

Defile, *v. n.* (*Ff. défiler*) rhesdrodio, rhesgychwyn, rhesfyned, unrhesdrodio; myned yn unrhenc y naill ar ol y llall; myned yn unrhes olynol; cychwyn yn unrhenc ar ol eu gilydd; myned ymaith yn unrhenc *neu* yn unrhes ar ol eu gilydd; llinynu; myned yn llinyn.

Defile, *s.* (*Ff. défilé*) trawien, culffordd, bwlch, rhesffordd, rhealwybr, cyfyngffordd; bwlch dau fynydd; drws dau fynydd.

Defiled, *p. p.* halogedig, &c., halog, budr, brwnt, aflan; cyffredin.

That may easily be defiled—hylwgr; hawdd ei lygru.

Not easy to be defiled—anhylwgr; anhawdd ei lygru.

Not defiled—dihalog, dihalogedig; anhalogedig, anhalog.

Defilement, *s.* (o *defile*) halogiad, halogrwydd, halogedigaeth, halogedigrwydd, diwynaid, budrad, budrhad, budreddiad, aflanhad, llygriad, llygredigaeth; llwgr, aflendid, budreddi, brynti, mefl.

Defiler, *s.* halogwr, halogydd, llygrwr; treisiwr.

Definable, *a.* (o *define*) dosbenadwy, deffiniadwy, dysbenadwy.

Define, *v. a.* (*definio*) dosbenu, dysbenu, deffinio, darluniо, darnodi, amlygu, egluro, eglurhau, damlygu, penodi, dynodi, nodi, dysweddu, nodebu; terfynu; penderfynu; gosod terfyn; gosod *neu* nodi terfynau; dangos, nodi, egluro, deongli, esbonio, darluniо, *neu* hysbysu beth yw peth; egluro *neu* egori yn benodol beth yw hyn neu hyn; rhoi ystyr.

Definer, *s.* dosbenydd, dosbenwr, dysbenwr, deffiniwr, deffinydd, deffiniedydd, darluniwr, damlygydd, *&c.*

Definite, *a.* (Ll. *definitus*) penodol, dosbenol, deffiniol, dynodiadol, terfynol, terfynedig, pendant, penodedig, penderfynol; sefydlog, sefydledig; sicr, dilys, diau, hysbys, hollol, dir, manwl, eglur, amlwg.

Definite article, } bannod penodol, ban-
Definitive article, } nod terfynol, bannod cyfeiriol, banog cyfeiriol, bannod dosbarthiadol.

Definite, *s.* peth dosbenedig, y peth deffiniedig: *pl.* penodolion, deffiniedigion.

Definiteness, *s.* penodolrwydd, penodoldeb, dosbenoldeb, terfynoldeb; sicrwydd, dilysrwydd; sicrwydd ystyr.

Definition, *s.* (Ll. *definitio*) dosbeniad, dysbeniad, deffiniad, dynodiad, dynodiant, darnodiad, darluniad, penodiad, terfyniad, amlygiant, amlygiad, eglurad; gosodiad terfyn; eglurhad *neu* roddiad ystyr; deongliad, esboniad, *neu* eglurhad o'r hyn yw peth; darluniad peth wrth ei ansawdd a'i briodoliaethau.

Nominal definition—dosbeniad enwol, deffiniad geiriol; eglurhad gair â gair cyfystyr ond mwy cynnefin.

Real definition—dosbeniad gwirioneddol, gwir ddosbeniad, deffiniad ansoddol, darluniad ansawdd.

Essential definition—dosbeniad hanfodol.

Definitive, *a.* (Ll. *definitivus*) penodol, dosbenol, dysbenol, deffiniol, dynodiadol, terfynol, terfynedig, pendant, penodedig, penderfynol; sicr, dilys, diau, hysbys, enwedig, enwedigol, hollol, dir, amlwg, eglur; manwl, dichlyn, cywir.

Definitive, *s.* dosbenair, dysbenair, dosbenog, deffineb, dosbeneb, ansoddair dosbenol; ansoddeb; y penodol; bannod: *pl.* penodolion, dosbenolion.

Definitive article, } bannod penodol, ban-
Definite article, } nod terfynol, bannod cyfeiriol, banog cyfeiriol, bannod dosbarthiadol.

Definitively, *ad.* yn benodol, &c.; tân derfyn; yn ddybenol; mewn geiriau eglur.

Definitiveness, *s.* penodolrwydd, penodoldeb; penderfyndod, terfyndod, terfynoldeb, terfynolrwydd, dybenoldeb, pendantrwydd; sicrwydd, dilysrwydd; terfyniad.

Defix,† *v. a.* (Ll. *defigo*) gosod, sicrhau.

Deflagrability, *s.* (Ll. *deflagro*) hylosgedd, hyfflamedd.

Deflagrable, *a.* hylosg, llosgadwy, hyfflam, magdan, hydan.

Deflagrate, *v.* (Ll. *deflagro*) llosgi, hylosgi, goddeithio, ysu; fflachio, fflamio.

Deflagration, *s.* (Ll. *deflagratio*) hylosgiad, llosgiad, llosg, hyfflamiad, dyfflamiad, cyflosgiad, goddeithiad, chwyrn-losgiad.

Deflagrator, *s.* (o *deflagrate*) hylosgyr, hylosgiadyr.

Deflect, *v.* (Ll. *deflecto*) gwyro, osgöi, ysgöi, gogwyddo, camlwybro, gwyrgamu, ystlysu, lledbeio, gwyrfyned; troi heibio; troi o'r neilltu; troi heibio o'r naill du; gwyro, cilio, *neu* droi oddi wrth; plygu; meiliorni.

Deflection, } *s.* (Ll. *deflexus*) gwyrad, osgoad, ys-
Deflexure, } goad, gogwyddiad, gogwyddad, camlwybrad, cyfeiliornad, cyfeiliorn, gwyrfyniediad; lledbeiad, enciliad; troad o'r neilltu; mynediad *neu* droad o'r ffordd; plygiad, plyg; gwyredd, lleibeiedd.

Deflective forces—grymoedd osgoawl, osgrymoedd, galluoedd osgoawl, galluoedd gwŷr, grymoedd gwyrog.

Deflorate, *a.* (Ll. *defloratus*) diffilurog, diffluredig, anfflurog.

Defloration, *s.* (Ff. o'r Ll. *defloro*) diflodeuad, difflurad, difloeniad; tyniad blodau; diforwynad, llathrudd, llathruddiad, llathruddiad merch, trais merch, trais, treisiad, trais ar forwyn; casgl *neu* casgliad o flodau *neu* ddewis-ranau; pigion, detholion, blodau, blodeugasgl.

The laws of Normandy are, in a great measure, the defloration of the English laws—cyfreithiau Normandi ydynt bigion gàn mwyaf o gyfreithiau Lloegr.

Deflour, *v. a.* (Ll. *defloro*; Ff. *déflorer*) diforwyno, llathruddo, treisio, llathludo; halogi, llygru, *neu* ddifwyno merch; dwyn morwyndod, dwyn gwyryfdod; diflodeuo, diffluro, difloenu, tynu blodau; anharddu, anurddo.

Deflourer, *s.* (o *deflour*) llathruddwr, diforwynwr, treisiwr; halogwr, difflurwr.

Deflow,† *v. n.* (Ll. *defluo*) llifo i lawr; dadlifo.

Defluous, *a.* (Ll. *defluus*) yn llifo i lawr *neu* i waered; llifiannol, llifol, llifiannaidd, llifeiriol; disgynol, syrthiol; yn syrthio ymaith.

Deflux, *s.* (Ll. *defluxus*) llifiad i lawr *neu* i waered; llifiad, rhediad.

Defluxion, *s.* (Ll. *defluxio*) llifant, llifiant, llifiannad, llifeiriad, llifrediad, rhediad, ffrydiad; dyferwst, nawslifiant, nawslifad,

gormwyth ; dylifiad *neu* orddylifiad llynoedd y corff ; rhediad i waered ; cwympad i lawr.

Defly,† *ad.* (o *deft*) yn hylaw, yn ddeheu, yn fedrus.

Defœdation, *s.* (Ll. *de* a *fœdus*) halogiad, afiaethad, bryntiad, bryntâd.

Defoliation, *s.* (Ll. *de* a *foliatio*) anneiliad, anneiliawd ; amser *neu* dymmor syrthiad dail ; dad-ddeiliad.

Deforce, *v. a.* (*de* a *force*) treisfeddiannu, camoresgyn, camattal, treisattal, treisgadw ; meddiannu drwy drais a threchedd.

Deforcement, *s.* camoresgyn, treisfeddiant, treisfeddiannad, camattaliaeth, treisattafael, treisgadwad, attafael dirdrais ; attaliad tir o ddirdrais oddi wrth ei iawn berchenog.

Deforceor, **Deforsor**, **Deforciant**, *s.* (o *deforce*) camoresgynwr, camattaliwr, treisfeddiannydd ; à wthio ac à ddifeddianno un o'i dir *neu* dy drwy drais a threchedd.

Deform, *v. a.* (Ll. *deformo*) anffurfio, afluniо, anharddu, gwrthuno, hagru, hacru, hagrhau, aflunieiddio, anferthu, anffurfeiddio, anurddo, difwyno, diwyno, hyllu, anaddwyno, anafu, anmhrydferthu.

Deform, **Deformed**, *a.* anffurfaidd, anffurfiol, anffurfiog, afluniaidd, anmhrydferth, anolygus, anhardd, anosgeddig, dybryd, gwrthun, anelwig, anagweddol, anwymp, anaddwyn, anmhefr, aneirian ; hyll, hagr, anferth ; cam.

Deformation, *s.* (Ll. *deformatio*) anffurfiad, afluniad, anharddiad, &c.

Deformedness, *s.* anffurfeiddrwydd, aflunieiddrwydd, anharddwch, anmhrydferthwch, hagrwch, hagredd, hacrwydd, hagrwydd, hylldod, gwrthuni, digliwdod.

Deformer, *s.* anffurfiwr, anharddwr, &c.

Deformity, *s.* (Ll. *deformitas*) anferthwch, anferthedd, anferthrwydd, anharddwch, gwrthuni, anffurfiaeth, aflunieiddrwydd, dybrydedd, hagredd, hagrwch, hacrwydd, anffurf, anwympedd, anmhrydferthwch, afreoledd, anaddwynder, anmhefredd, hylldod, hylledd, hyllrwydd ; gwyrni, gwyredd, cemi ; anaf.

Deforser, *s.* (o *deforce*) = *Deforceor*, &c.

Defoul, *v. a.* (*de* a *foul*) halogi, diwyno, budro, aflanhau, llygru, bryntäu.

Defraud, *v. a.* (Ll. *defraudo*, *defrudo*) twyllo, hocedu, camgolledu, camattal, difuddio, gwneuthur colled ; camattal oddi wrth ; somi, seithugio ; ysbeilio ; hud-amcanu.

Those that defraud the hireling of his wages—camattalwyr cyflog y cyflogedig.

Defraud not the poor—na thwylla y tlawd.

Defraudation, **Defraudment**, *s.* twyllad, hocediad, somiant, somedigaeth, camattaliad, camgolledіad, twyll.

Defrauder, *s.* twyllwr, twyllydd, hocedwr, camattaliwr, camgolledwr, somwr.

Defray, *v. a.* (Ff. *défrayer*) talu ; talu traul, dwyn cost, dwyn traul, talu cost, digostio ; dwyn y gost ; dwyn y draul ; †digoni, llenwi.

I will defray their expenses—dygaf eu traul.

He said he would defray the charges belonging to the sacrifices—dywedodd y rhoddai efe yr holl gost à ydoedd yn perthynu i'r ebyrth (2 *Mac.* ix. 16).

Defrayer, *s.* talwr ; dygwr traul, dygydd cost, dygiawdr traul, talawdr traul, treulddygwr.

Defrayment, *s.* (o *defray*) taliad, talment, talediaeth, tâl ; dygiad traul, taliad cost, cost-ddygiad, digostiad.

Deft,† *a.* (S. *daeft*) twt, tlws, clws, trefnus, hardd, taclus, dillyn, destlus, gwych, pinc ; addas, cyfaddas ; hylaw, medrus, deheu, hyddysg, parod.

Defter-dar, *s.* (Tyrc.) llyfrgeidwad ; Canghellwr y Trysorlys (yn amherodraeth Twrci).

Deftness,† *s.* tlysni, clysni, twtneisrwydd, destledd, harddwch, glendid.

Defunct, *a.* (Ll. *defunctus*) marw, wedi marw ; trengedig, trancedig, trangedig.

Defunct claim—hawl wywedig.

Defunct, *s.* un trengedig, trancedig, *neu* farw ; y marw, y trengedig, y trancedig.

Defunction,† *s.* marwolaeth, angeu, tranc.

Defy, *v. a.* (Ff. *défier*) herio, beiddio, arfeiddio, annog, hyrio, dir-annog, llafasu, llyfasu ; rhoi her i ; rhoi baidd i ; rhoi hew i ; gofyn gwaethaf ; peri *neu* erchi i un wneuthur ei waethaf ; galw allan ; annog i ymladd ; dirmygu, gwaradwyddo, cablu, difenwi ; ymherio i ; ffieiddio, ymwrthod.

I defy any one to accuse me—her i un gwr à'm cyhuddo i.

I defy thee—gwna dy waethaf ; her iti ; hew iti ; gwaethaf dy ddannedd di ; gwna waethaf dy ddannedd ; gwna os beiddi ; yr wyf yn dy herio.

Defy,† *s.* her, baidd, heriad.

Defyer, *s.* (o *defy*) = *Defier*.

Degarnish, *v. a.* (Ff. *dégarnir*) dadaddurno, dadharddu, anaddurno, dadeirioni, annhrwsio, dïosg, dihatru ; dad-ddodrefnu, dat-ddodrefnu, diddodrefnu, dattrecio, dadgyfarparu.

Degarnishment, *s.* (o *degarnish*) dadaddurniad, dadharddiad, dattreciad, dadgyfarpariad.

Degender,† *v. n.* (*de* a *gender*) dadrywio.

Degeneracy, **Degenerateness**, *s.* (Ll. *degenero*) dirywiad, dirywiaeth, afrywiaeth, afrywiad, afrywiogaeth, afrywiogiad, afrywiogrwydd, lledrywiaeth, lledrywiad, lledrywiogaeth, afrywiogrwydd, lledrywiogrwydd, dirywiogaeth, dadrywiad, dadrywiaeth, dadrywiogaeth, llygredigaeth, llygriad, gwaethygiad ; salwedd, gwaeledd, tlodi ; ymadawiad, enciliad, *neu* ymlithrad oddi wrth rinwedd a moesau da.

Degenerate, *v. n.* (Ll. *degenero*) dirywio, afrywio, dadrywio, afrywiogi, lledrywio, lledrywiogi, gwaethygu, gwaelu ; myned yn waeth ; myned yn ddiryw ; bod yn ddirywiedig ; myned yn waeth ei ryw ; gwaethygu yn ei ryw ; anurddo ei genedl ; pallu mewn rhinwedd a moes ; anfoesogi ; cilio *neu* ymlithraw oddi wrth rinwedd a moesau da.

Degenerate, **Degenerous**, *a.* dirywiedig, diryw, dirywiog, dirywiol, lledrywiog, lledryw, afrywiol, afrywiog, afryw, dadryw, dadrywiog, dadrywiol, dadrywiedig ; dirinwedi ; gwedi dirywio, &c. ; llygredig, llygraidd, bras, gwael, isel, dirmygus, annheilwng, syrthiedig, gwaethafed.

Degenerate kind—lledryw, dadryw, afryw, goryw, rhywogaeth ddirywiog.

In these degenerate days—yn y dyddiau diryw hyn.

Degeneration, *s.* (o *degenerate*) dirywiad, lledrywiad, afrywiad, dadrywiad, afrywiogiad, gwaethygiad, llygriad ; cyfnewidiad er

gwaeth; dirywiaeth, afrywiaeth, afrywiogaeth, afrywiogrwydd; lledrywiaeth, lledrywiogaeth, lledrywiogrwydd, dirywiogaeth, dadrywiaeth, dadrywiogaeth, llygredigaeth; ymlithrad *neu* enciliad oddi wrth rinwedd a moesau da.

Deglutinate, *v. a.* (Ll. *deglutino*) dadludio; diludio; dadysgrolingo; dadgyssylltu; llacäu.

Deglutination, *s.* dadludiad, diludiad; dadysgrolingad.

Deglutition, *s.* (Ff.; Ll. *deglutio*) llynciad, darlynciad; llwnc, llwng.

Degradation, *s.* (Ff.; o'r Ll. *de* a *gradus*) diraddiad, dadurddiad, dadurddiant, diurddiad, anurddasiad, anurddas, difreiniad, diswyddiad; iseliad, iselhad, bychaniad, lleihad; diraddiaeth, dirywiad, dirywiaeth, gwaethygiad; gwaelder, iselder, salwedd; anfrïad, dianrhydeddiad, anurddiant, anurddiad, anurddedigaeth.

Degrade, *v. a.* (Ff. *dégrader*; Ll. *degredior*, o *de* a *gradus*) diraddio, diraddu, dadurddo, diurddo, diurddasu, anurddasu, difreinio, diawdurdodi, diswyddo, dadraddio; iselu; anmharchu, anmherchi, bychanu, dirmygu, gwarthruddo, anfrïo, difrïo; lleihau parch, bri, cymmeriad, *neu* gymmyredd; difuddio un o'i swydd *neu* alwad; iselu, iselhau, gostwng.

He is degraded of all his honours—diosgwyd ef o'i holl anrhydedd; diraddiwyd ef o'i holl urddas.

Degraded cross—croes ddiraddiedig, croes ddiraddiedig, croes fychanol.

Degradement, *s.* (o *degrade*) diraddiad, dadraddiad; difuddiad o radd, swydd, *neu* urddas.

Degrading, *a.* (o *degrade*) diraddiol, dadraddiol, iselhaol, anurddol, anurddasol, diurddasol, diawdurdodol, diswyddol, gwarthus, gwaradwyddus, gwarthruddol, gwaradwyddol, anfrïol, difrïol, difreiniol, andwyol.

Degravation, *s.* (Ll. *degravo*) trymhad.

Degree, *s.* (Ff. *degré*; Ll. *gradus*) gradd; gris, cam; urdd; graddiant, sefyllfa, ystâd, trefn, cyflwr; mesur; ach, achres, tras; graddoliaeth, graddogaeth; peth.

Degree (in geometry)—gradd=y 360fed ran o eithaf neu amgant cylch.

Degree of latitude—gradd lledred.

Degree of longitude—gradd hydred.

Degrees of comparison—graddau cymhariaeth, graddau cymharol, graddau cymhariad.

Positive degree—y wastadradd, y gyssefinradd, gradd gyssefin, gradd wastad, cyssefin radd.

Adjective of the positive degree—enw gwân gwastad, ansoddair gwastadradd, enw gwân gwastadradd, ansoddair cyssefinradd, ansoddeb gwastadradd; ansoddair yn y gyssefinradd; chwanegair yn y wastadradd; adenw yn y radd gyssefin *neu* wastad.

Comparative degree—y ganolradd, y radd gymharol, y radd ganol, y ganol radd, y berfeddradd; y chwanegol o un radd.

Superlative degree—eithafradd, yr uchafradd, yr uchelradd, y radd eithafol, y radd uchafol; y radd eithaf, uchaf, *neu* uchelaf.

Degree of equality—y radd gyfraddol, y radd gydraddol, cystalradd, cyfartalradd, cystadlradd.

Nouns of degree—graddenwau, enwau gradd.

Academical degree—gradd athrofaol.

First degree—cynradd, y gynradd, y radd gyntaf.

Bachelor's degree—mabradd, gradd mebydd, gradd baglor; cynradd.

Master's degree—gradd athraw, athrawradd, gradd celf-athraw, gradd athraw celfyddydau.

Doctor's degree—gradd doethor, doethoriaeth, doethorurdd, doethor-radd, athrawurdd.

Honorary degree—gradd fygedol, mygedradd, gradd fyged, gradd fygedog.

To take a degree—cymmeryd gradd; ymraddio, ymraddogi, ymraddoli; graddio, graddu, graddogi, graddiannu.

To confer degrees—graddogi, graddoli, graddu, graddiannu, urddoni; rhoi mynegradd.

Preferred to a degree, } —graddog,
Having taken a degree, } graddedig, urddog, urddol.

Degree of consanguinity—gradd carennydd; ach, tras.

The ninth degree—y nawfed ach.

A man of degree—graddwr, graddog, graddolwr.

In some degree—mewn rhyw fesur; mewn rhyw radd; i raddau; i ryw raddau.

In a great degree—yn rhagor, yn fwy, yn chwaneg.

Of the same degree—cydradd, cyfradd.

Of high degree—uchelradd.

Men of high degree—meibion gwŷr (*Salm* lxii. 9); gwŷr uchelradd; dynion uchel radd; rhai uchel eu gradd.

Of low degree—iselradd.

Men of low degree—meibion dynion (*Salm* lxii. 9); gwŷr iselradd; dynion isel radd; rhai isel eu gradd.

To such a degree—i'r fath radd; i'r fath uchder; i'r fath raddau; i'r fath belldder; i'r fath faint; i'r fath faintioli; i'r gyfryw radd; i'r cyfryw uchder, &c.; cyn belled; cân belled; cymhelled; cymmaint.

The highest degree of honour—eithafnod anrhydedd; uchafnod anrhydedd; uchafradd anrhydedd; gradd uchaf anrhydedd; pigyn anrhydedd; pinagl anrhydedd; pinygl anrhydedd; uchafbwnc anrhydedd; anrhydedd i'r eithaf.

To divide into degrees—rhannu yn raddau; dosbarthu yn raddau; graddranu, graddori, graddio, graddu.

By degrees—yn raddol; o radd i radd; yn raddau; bob yn radd; bob ychydig; bob yn ychydig; o gam i gam; o fesur cam a cham; o ris i ris; o fesur ychydig ac ychydig; o glun i glun; gân bwyll; yn araf deg; yn chwarian; o dipyn i beth; o dipyn i dipyn; o lwff i lwff; o litrwm i litrwm; gam a cham; o fesur gradd a gradd; bob yn dipyn.

By slow degrees—yn araf; yn chwarian; yn araf deg; yn araf o radd i radd; bob ychydig, &c.

Degust, † *v. a.* (Ll. *degusto*) archwaethu, profi, blasu.

Degustation, *s.* (Ll. *degustatio*) archwaethiad, blasiad, chwaethiad.

Dehisce, *v. n.* (Ll. *dehisco*) ymagor, ymegori, ymagori, ymagoryd, agor, agenu, ymagenu; dylyfu gen, safnrythu, dyhëu; dironi.

Dehiscence, *s.* (Ll. *dehiscens*) agoriad, egoriad, ymagoriad, ymegoriad, agorad; dylyfiad gen, safnrythiad, dyhead; dironiad.

Dehiscent, *a.* (Ll. *dehiscens*) ymagorol, ymegorol, agorol; yn ymagor, yn agoryd.

Dehonestate, *v. a.* (Ll. *dehonesto*) gwarthruddo, gwarthâu, gwaradwyddo, mefihau.

Dehonestation, *s.* gwarthruddiad, gwaradwyddiad, gwarthâd.

Dehort, *v. a.* (Ll. *dehortor*) gwrthgynghori, anghynghori, gwrthannog, diannogi, dadgynghori, croesgynghori, gwrthgymhell, trewynu; cynghori i'r gwrthwyneb; cynghori peidio â.

Dehortation, *s.* (Ll. *dehortatio*) gwrthgynghor, anghynghor, croesgynghor, gwrthannog, gwrthannogaeth, gwrthgynghoriad, anghynghoriad, dadgynghoriad, croesgynghoriad, cynghoriad yn y gwrthwyneb.

Dehortatory, *a.* (Ll. *dehortor*) gwrthgynghorol, anghynghorol, dadgynghorol, croesgynghorol, gwrthannogol.

Dehorter, *s.* gwrthgynghorydd, anghynghorwr, anghynghorydd, &c.

Deicide, *s.* (Ll. *Deus*, Duw, a *cædo*, lladd; It. *deicidio*) Dwyfladdiad, Duwladdiad, Dwyfladd, Cristladdiad; Dwyfleiddiad, Duwleiddiad, Dwyfladdwr, Cristleiddiad.

Deific, *a.* (Ll. *Deus* a *facio*) dwyfol, duwol, dwyfolig; duweiddiol; perthynol i'r duwiau.

Deification, *s.* (o *deify*) dwyfoliaeth, dwyfoliad, duwoliad, duwiolad, duwoliaeth, duwiolaeth; gwneuthuriad yn dduw.

Deifier, } *s.* (o *deify*) dwyfolwr, duwolwr,
Deifyer, } duweiddiwr.

Deiform, *a.* (Ll. *deus* a *forma*) duwaidd, duwiaidd, dwyfluniaidd, dwyfolwedd; âg iddo ffurf duw.

Deify, *v. a.* (Ll. *deus* a *facio*) dwyfoli, duwio, duweiddio, duwoli, duwioli; gwneuthur yn dduw; rhestru *neu* gyfrif gyda'r duwiau; addoli megys duw.

Deign, *v.* (Ff. *daigner*; Ll. *dignor*) teilyngu; bod yn wiw gàn un; tybied *neu* dybio yn deilwng; caniatäu, ceniadu, rhoddi; caniatäu *neu* roddi ar ddymuniad; caniatäu o hynawsedd; ymostwng, ymddarostwng.

Deign to do this for me—rhynged bodd i chwi wneuthur hyn erof.

Deinotherium, *s.* (Gr. *deinos* a *thêrion*) hyllfil, erchyllfil.

Deintegrate,† *v. a.* (*de* ac *integer*) Heihau, digyfanu, anghyfanu.

Deiparous, *a.* (Ll. *deiparus*) duwddygol, duwddwyn, dwyfddygol; yn dwyn *neu* yn geni duw.

Deipnosophist, *s.* (Gr. *deipnon* a *sophistês*) preinofydd, gwestofydd, preinathronydd.

Deism, *s.* (Ff. *déisme*, o'r Ll. *Deus*) duwiaeth, duwiadaeth, duwiant, dwyfiaeth, dwyfaddefiaeth, duwaddefiaeth; anffyddiaeth, rhyddddybiaeth, anghristiaeth, anghristionogaeth, anghred, anghrediniaeth, Deistiaeth.

Deism and theism—duwiaeth a duwgred; duwiadaeth a duwgrediniaeth; dwyfiaeth a duwgrededd; diffyddiaeth a duwffyddiaeth.

Deist, *s.* (Ff. *déiste*; It. *deista*; o'r Ll. *Deus*) duwiad, (*pl.* duwiaid), duwaddefwr, dwyfaddefwr, duwiaethwr; anffyddiwr, anghredwr, diffydd, rhydd-dybiwr, anghristydd, Deistiad =un à gred fod Duw, ond à wad grefydd ddadguddiedig.

Deistic, } *a.* (o *deist*) duwiaethol, duwiannol,
Deistical, } duwaddefol, anffyddiol, diffydd, rhydd-dybiol, anghrefyddus, anghredol, gwrthgredol, anghristiol; Deistiaidd; perthynol i'r dwyfaddefiaid.

Deity, *s.* (Ll. *deitas*; Ff. *déité*; It. *deità*) Duwdod, Duwdeb, Duwdid; Duw; Dwyf; duwdod, duw.

Deject, *v. a.* (Ll. *dejectus*, o *dejicio*) tafiu *neu* fwrw i lawr; gostwng, iselu, darostwng, tristäu, digaloni, llyfrhau, pruddhau, gofidio, blino, cystuddio, peri ymollwng.

To deject one's self—ymollwng, ymlaesu, ymdafiu i lawr, llyfrhau, digaloni, gwangaloni, pruddhau, ymofidio, ymgystuddio, ymdristäu.

Deject, } *a.* prudd, digalon, llwfr, llaes, trist,
Dejected, } athrist, wynebdrist, cystuddiol, galarus, trymllyd, trymfrydig, pendrist, dihoen, brwyn, isel, cwla, llibin, anhylon, dilon, yn ymollwng, yn ymlaesu; gwedi ymostwng, gwedi ymlaesu; allwynig, allwynin.

With dejected countenance—à'i wynebpryd wedi syrthio; yn brudd ei wedd.

Dejectedly, *ad.* yn brudd, &c.; yn ddïysbryd; yn isel ei ysbryd.

Dejectedness, } *s.* (Ll. *dejectio*) pruddineb,
Dejection, } prudd-der, trymfryd, tristedd, tristyd, tristwch, trymder meddwl, ymollyngiad meddwl, iselder meddwl, athristedd, athristwch, athristyd, llyfrder, llyrfder, digalondid, iselder ysbryd, iselder ysbryddoedd, llawrydedd, brwyn, ardrymedd, dihoenedd, anhoender, brwynfryd, bryd brwyn, llawryd, galar, alaeth, iselder calon; pruddglwyf, dueg; gwendid; ysgothiad, cothiad.

Dejectory, *a.* yn tueddu i dafiu *neu* fwrw i lawr; llawrydol; ysgothiadol, ysgothol, cothiadol, cothol.

Dejecture, *s.* (o *deject*) yr ysgothiad; ysgothion, ysgarthion, cothion, cothau, eulon, ystlom, ysgarth, sul, tom.

Dejerate, *v. a.* (Ll. *dejero*) dwys dyngu, trydyngu; tyngu yn brudd; cymmeryd llw.

Dejeration, *s.* (o *dejerate*) tyngad, cymmeriad llw, llw-gymmeriad.

Dejeune, *s.* (Ff.) boreubryd, borebryd, boreufwyd, borefwyd, cynbryd, torympryd, bregwest.

Dejeuner, *s.* (Ff.) byrbryd, byrwest, rhyngbryd; boreubryd.

Delaceration, *s.* (Ll. *delacero*) darnedigaeth, llarpiad; rhwygiad yn yfflon.

Delacrymation, *s.* (Ll. *delacrymatio*) gorddeigriad, gorddeigryniad; dyfrogrwydd y llygaid.

Delactation, *s.* (Ll. *delactatio*) diddyfniad, dilaethiad.

Delapsation, *s.* (o *delapse*) syrthiad, cwympad; syrthiad *neu* lithrad i lawr.

Delapse, *v. n.* (Ll. *delapsus*, o *delabor*) syrthio, cwympo; cwympo, syrthio, *neu* lithro i lawr.
Delapsion, *s.* (o *delapse*) syrthiad, cwympad, brusyrthiad, rhefrsyrthiad.
Delate, *v. a.* (Ll. *delatus*) dwyn, dygyd, cludo, cario, cywain, trosi; cyhuddo, achwyn ar, cwyno, cwyno ar.
Delation, *s.* (Ll. *delatio*) cludiad, cyweiniad, trosglwyddiad; cyhuddiad, cyhudded, achwyniad, achwyn, cwyn.
Delator, *s.* (Ll.) cyhuddwr, achwynwr, achwynydd.
Delay, *v.* (*Ff. délai; It. dilata; Ll. delatus*) oedi, gohirio, addoedi; aros, ymaros, godrigo, hirdrigo, ymdröi, llercian, hoetian, gohytian, gohoetial, sefyllian, hiriannu, ymohirio, ymoedi, dyoedi, cyngydio, twtial, godechial; lluddio, rhwystro, attal; bod ar gyngyd; bod ar ei gynghor.
He delayed not the doing of it—nid oedodd ei wneuthur.
Delay, *s.* oed, gohir, aros, attreg, gohiriant, godrig, ymaros, cyfaros, hiriant, attregwch, annod, llercian, oediad, gohiriad, godorant, addoed, hoed, arosiad, addoediad, cyngyd, gwaradrig, gwaradrigiant; rhagod, nidr, rhwystr, godor; hwyrder, hwyrfrydigrwydd, diweddarwch, annybendod.
Long delay—hiroed, hirdrig, hir aros, hir arosiad.
To make long delays—hiroedi, hirdrigo; aros yn hir, &c.
Without delay—yn ddïoed, yn ddïattreg, yn ddïaros, yn ddïohir, yn ddïannod, yn ddïodor, yn ddinidr; heb oedi, heb oed; yn hwylus.
Without any delay—heb wneuthur dim oed (*Act.* xxv. 17).
Delayer, *s.* oedwr, oedydd, gohiriwr, addoedwr, addoedur, godrigwr, llercyn, llerciwr, nidrwr, rhwystrwr, lluddiwr.
Delayment, *s.* (o *delay*) lludd, rhwystr, lluddiad, rhwystrad, oediad, gohiriad.
Del Credere, *s.* (It.) gwarantydd; gwarant.
Dele, *v. a.* (Ll. gorchymynol o *deleo*) difoder, dilëer, dïoler, gadawer allan; dilea, difoda; dilëwch, difodwch, gadwch allan.
Deleble, *a.* (Ll. *delebilis*) dileadwy, difodadwy, dïoladwy; à aller ei adael *neu* ei dynu allan; diddymadwy, dystrywiadwy.
Delectable, *a.* (Ll. *delectabilis*) hyfryd, hyfrydlon, hyfrydlawn, hyfrydlwys, hyfrydber, dymunol, damunol, melusber, tirion, difyr, dyddan, cysurlawn, araul, digrif, mwyn, cyfannedd, llawdd, ffawg, dywenol, darddewisol.
Delectableness, *s.* hyfrydwch, hyfrydlonedd, hyfrydedd, tirionwch, tirioni, tiriondeb, dymunoldeb, dymunolrwydd, areuledd, dyddanwch, mwynder, glwysedd, mawsder, mawsedd, lloddiant, hyfrydiant.
Delectation, *s.* (Ll. *delectatio*) hyfrydwch, hyfrydedd, dywenydd, difyrwch, dyddanwch, digrifwch, tiriondeb, tirionwch, tirioni, dymunoldeb, hoffedd, mawsder, mawsedd, ffawg, cyfanneddrwydd.
Delegacy, *s.* (o *delegate*)=*Delegation.*
Delegate, *v. a.* (Ll. *delego*) cenadu; anfon yn genad *neu* yn ddirprwywr; anfon, anfon ymaith, aranfon; anfon ar genadwri; trosglwyddo, trosi; trosglwyddo i, trosi i; dirprwyo, prwyadu; ymddiried i; enwi, ethol, *neu* ddewis i swydd; rhoddi mewn swydd; rhoddi *neu* gymmynu swydd i.
I delegated my care to him—trosglwyddais, rhoddais, *neu* bwriais fy ngofal arno ef; gorchymynais fy ngofal iddo.
Delegate, *s.* (Ll. *delegatus*) cenad, cenadwr, cenadydd, anfonog, dirprwywr, prwyadur, prwyedydd, cynnrychiolydd, cynnrychiolwr, rhaglaw, negeswr; un anfonedig dros arall.
Court of delegates—llys anfonogion.
Delegate, *a.* anfonedig, danfonedig; dirprwyol; anfonedig dros arall; trosglwyddol.
Delegation, *s.* (Ll. *delegatio*) anfoniad, danfoniad; anfoniad yn lle un arall; dirprwyad, enwedigiad; anfoniad yn genad; etholiad, enwad, *neu* ddewisiad i swydd; rhoddiad swydd; trosglwyddiad, trosiad; cenadwri, negesyddiaeth; dirprwyaeth, cynnrychiolaeth; dirprwywr, cynnrychiolydd; dirprwywyr, cynnrychiolwyr; gorchymyn, gwarant, awdurdod; dyethol, dyetholiad.
Delenda, *s. pl.* (Ll. o *deleo*) dileolion, difodigion; pethau i'w dilëu.
Delenifical, *a.* (Ll. *delenio* a *facio*) llinarol, esmwythol, esmwythaol; yn llaesu poen.
Delete,† *v. a.* (Ll. *deleo*) dilëu, difodi, dinystro.
Deleterious, } *a.* (Ll. *deleterius*) dinystriol, di-
Deletery, } nystrol, dystrywiol, marwol, gwenwynig, gwenwynol, gwenwynllyd, angeuol, adwythig, niweidiol; à ddinystro fywyd.
Deletion, *s.* (Ll. *deletio*) dilead, difodiad; dinystrad, dystrywiad; dinystr, dystryw.
Deletory, *s.* (Ll. *deletor*) difodydd, dilëydd, dileor; à ddileo.
Delf, *s.* (S. *delfan*) cloddfa, cleddiwig, clawdd, chwarel.
Delft, } *s.* (o *Delft*, yn Holand) llestri pridd,
Delft-ware, } llestri priddion, priddlestri, priddlestri Delfft, llestri Delfft, llestri arliwiog.
Deliac, *s.* (o *Delos*, yn yr Ynysfor) delgawg, cerfyllgawg; arian-bres.
Delibate, *v. a.* (Ll. *delibo*) profi, archwaethu, sipian, sipio, cymmeryd sip.
Delibation, *s.* (Ll. *delibatio*) chwaethiad, archwaethiad, chwaeth, profiad, prawf, dargais.
Deliberate, *v.* (Ll. *delibero*) ystyried, ystyrio, ymgynghori, pwyllo, arystyried, meddylied, meddylio, meddwl, adfeddylied, adfeddylio, adfeddwl, pwyso, myfyrio, rhagfyfyrio, holi, pryderu; pwyso yn y meddwl; pwyllo ac ystyried; ymgynghori yn nghylch; meddylied am; myfyrio ar; ammheu, petruso; cymmeryd dàn ystyriaeth.
We shall deliberate on that matter hereafter—ni a ymgynghorwn yn nghylch y peth *neu* y pwnc hwnw ar ol hyn; ni a bwyswn, a bwyllwn, a holwn, *neu* a chwiliwn y peth *neu* y pwnc hwnw ar ol hyn.
Deliberate, *a.* pwyllog, pwyllig, pwyllus, pwyllgar, hybwyll, ystyriol, pwysgar, hanbwyllus, hanbwyllog, hambwyllus, arbwyllig, hamddenol, pryderus, gochelgar, gwagelog, ymogelgar, cynghorus, rhagfyfyriol, darbodus, difrif, difrifol; araf, hwyrfrydig, chwarian, cyngydiol, maith, hirfaith; prudd, sad.
Deliberately, *ad.* yn bwyllog, &c.; trwy gynghor; gàn bwyll; mewn tawelwch meddwl; yn nhawelwch ei feddwl; mewn gwaed oer; yn wir fwriadol; o wir waith goddeu; o wir gwaith oddeu; o wir waith oddeu; o'r gwaith goddeu.
Deliberateness, *s.* pwyllogrwydd, pwylligrwydd,

pwyllusrwydd, hybwylledd, pwyllder, ystyriaeth, pwyllineb, pwyll, pwysgarwch, darbwyll, arafedd, arafwch, ystyriaeth dawel, gochelgarwch, hanbwylledd, &c.

Deliberation, *s.* (Ll. *deliberatio*) ymgynghoriad, pwylliad, pwyllad, ystyriad; ystyriaeth, pwyll, pwyllogrwydd, pwylligrwydd, pwyllineb, hybwylledd, cysbwyll, ymbwyll, pwylledd, darbwylliant, pwyllusrwydd; bwriad *neu* bwysiad yn y meddwl; cymmeriad cynghor, pwyll, *neu* hamdden; pryder, pryderi, hamdden; arafedd, arafwch, gofal, darbodaeth, ystyriant.

Mature deliberation—ystyriaeth bwyllog, ddifrifol, ddifrif, ddyfal, ddwys, faith, *neu* hirfaith; dwys *neu* ddifrifol ystyriaeth; ystyriaeth lawn, gyflawn, iawn, *neu* ddyladwy; pwyll ystyriol; ystyriaeth wiw *neu* ddyledus; iawn *neu* gyflawn ymgynghoriad, &c.

Deliberative, *a.* (Ll. *deliberativus*) ystyriol, ymgynghorol, pwyllog, ymgynghoriadol, pwyllus, pwyllig, hybwyll, ystyriannol, pwysgar, myfyrgar, meddylgar, pryderol, darbwyllus; perthynol i ymgynghoriad.

Deliberative, *s.* pwylliaith, pwyllaraeth, pwyllogaeth, ymadrodd hybwyll.

Delicacy, *s.* (o *delicate*; Ff. *délicatesse*; It. *delicatezza*) tegwch; dillynder, dillynedd, destlusedd, tlysni, dillyndra; manylder, manyldra, manylwch, manoldeb, manyledd, cynnilwch; tynerwch, tyneredd, plyddedd, plyddni, meddalwch; moethusder, moethusdra, moethusrwydd, mwythusder, mwythusrwydd, mwythedd; moeth, almes, mwyth, ammeuthyn, ammoethyn, melusfwyd, ancwyn; lledneisrwydd, moesgarwch, hyfoesedd, boneddigrwydd, boneddigdod, tlysni ymddygiad, dillynder ymddygiad; prydferthwch, tegwch pryd, prydferthwch gwedd; tegwch pryd a gwedd; tynerwch pryd a gwedd; neisrwydd; meindra, meinder, addfeinder, eiddilwch, eiddiledd; llyfnder, llyfndra, llyfnedd; esmwythder; gorfanylder, tramanyldeb, teleidrwydd, ceinder; harddwch, glendid, dillni; hyfrydwch, perdod, mwynder; anwes.

Delicacies — danteithion, moethau, mwythau, danteiddfwyd, danteithfwyd, ancwynion, ammeuthynion, ammoethau, melusion.

Delicacies of the banquet—ceinion cyfeddach, moethau gwledd, &c.

Affected delicacy — mursendod, mursen-eiddrwydd, coegni, rhyddillynedd, ffugledneisrwydd.

Delicate, *a.* (Ll. *delicatus*; Ff. *delicat*) tyner; moethus, mwythus, meddal, blydd, plydd, esblydd, masw, meddfaeth, mwyth, deintaidd, danteithiol, ammeuthyn; llednais, nais, teg, tlws, (*f.* tlos), destlus, destl, hyddestl, dillyn, taclus, misi, dain, prydus, prydweddol, glwys, pefr, cain; manwl, manol, cynnil, dichlyn, cywrain, cywraint, celfydd; moesgar, hyfoes, dillynfoes, boneddigaidd, boneddig; addfain, main, addfeinus, meindlws, meinus, eiddil, teneu, mân, meindwf; tirion, araf, mwyn; gwyn, (*f.* gwen); llerw, esmwyth, gwâr, llaidd; hyfryd; gwàn, egwan, gwanaidd, eiddilaidd; canaidd; pur, ter, dianmhur, coeth, claer, teneuglaer; llyfn; cywair, godidog, etholedig, ardderchog; mursenaidd; mein-.

Delicate and pretty, } meindlws, (*f.* mein-
Delicately pretty, } dlos, ceindlws, (*f.* ceindlos), tlysgain, tlosgain.

Delicate and meek, } meinwar.
Delicate and gentle, }

Delicate and fair, } meindeg, meinwen,
Delicately fair, } mwyndeg.

One that is delicately fair — meinwen, meinir, meingan.

Delicately sweet—melusber.

Delicate growth—meindwf, twf llerw.

Delicate aspect—meinwedd, lledneiswedd; gwedd *neu* olwg lednais.

Delicate question — pwnc cynnil, mater cynnil.

Delicate children—plant moethus; plant meddfaeth; plant eiddil; plant tyner *neu* lednais.

A delicate young animal — meiniles, meinoles; anifel ieuanc tyner.

A delicate piece of work — manylwaith, cynnilwaith, cywreinwaith.

Delicate thread—edef fain, edef fân.

Delicate health—iechyd gwàn, egwan, eiddil, gwaelaidd, *neu* eiddilaidd.

To live delicately—byw yn foethus, &c.; arfer moethau.

The tender and delicate woman — y wraig dyner a'r foethus (*Deut.* xxviii. 56.)

Susanna was a very delicate woman, and beauteous to behold — Susanna oedd dyner, a phrydferth ei gwedd (*Sus.* 31).

Delicate, *s.* † dantaeth, moeth, ammoethyn; neisbeth.

Delicateness, *s.* (o *delicate*) tynerwch, moethusder, moethusdra, moethineb, mwythusrwydd, mwythusder, mwythusdra, mwythusrwydd, meddalwch, &c.

For delicateness — gàn fwythau (*Deut.* xxviii. 56).

Delicious, *a.* (Ff. *délicieux*; Ll. *delicatus, deliciæ*) danteithiol, danteiddiol, moethus, mwythus, deintaidd, dantaidd; melusber, melusig, per, peraidd, perfelus, chweg, melusiannol, maws, mychweg; hyfryd, hyfrydlwys, hyfrydber; gorddymunol.

Delicious entertainment — gwledd ddanteithiol.

To fare deliciously—byw yn foethus, &c.; byw mewn moethau; byw ar foethau; byw yn finflysg, yn finfelus, *neu* yn finfoethus; cymmeryd byd da yn helaethwych beunydd.

Deliciousness, *s.* danteiddrwydd, danteithrwydd, moethusder, moethusdra, mwythusder, mwythusrwydd, danteithioldeb; melusder, melusrwydd, melusdra, melusigrwydd, melusedd, meluswedd, pereiddrwydd, perder, perdod, perdra, peredd, pereidd-dra, perfelusrwydd; hyfrydwch, hyfrydedd, gorhoffedd.

Deligation, *s.* (Ll. *deligatio*) rhwymiad, amrwymiad, cyfrwymiad, rhwymiad i fyny.

Delight, *s.* (Ff. *délice*; Ysp. *deleytar*; Ll. *delector*) hyfrydwch, hyfrydedd, difyrwch, digrifwch, hoffedd, hoffder, gorhoffedd, gorhoffder, gorhoffiant, dyddanwch, dywenydd; llawenydd, hoen, gorhoen, boddineb, bodd, boddlonrwydd, elwch, llawdd, ffawg; cyfanneddrwydd; ewyllys, gwyllys, plesor, meluswedd, serch; gwyn.

One's delight—hoffder, hoffedd, gorhoffder, gorhoffedd, difyrwch, *neu* hyfrydwch un; mwythau, moethau.

Rational delight—dyddanwch pwyll, difyrwch rhesymol.

Extreme delight—gorhyfrydwch, trahyfrydwch, gorddigrifwch.

Delight, *v.* difyru, hyfrydu, dyddanu, digrifhau, digrifo, digrifu, hyfrydhau; ymhyfrydu, ymddifyru, ymddigrifu, ymddigrifo, ymfoddloni, ymfoddhau, ymhoffi, ymserchu, ymblesera; cymmeryd difyrwch; cymmeryd difyrwch yn; gwneuthur difyrwch i; boddhau, boddio, boddloni, bodloni; llawenhau, llawenu, llawenychu, llonychu, lloni; caru, serchu, hoffi, gorhoffi; rhoi serch ar; rhoi ei serch ar; bod yn foddlawn i; bod yn dda, yn hoff, yn llawen, yn hyfryd, *neu* yn gymmeradwy gân; bod wrth fodd; bod â'i ewyllys ar; chwennychu; lloddi, atre.

To delight one's self—ymhyfrydu, ymddigrifo, ymddigrifu.

God delights to forgive a penitent sinner—llawen gân Dduw faddeu i bechadur edifeiriol.

To delight to do a thing—mynu (*Est.* vi. 11); bod yn hyfryd ganddo wneuthur peth; ymhyfrydu i wneyd peth.

To delight one's self in—ymhyfrydu yn, &c.

To take delight, } ymhyfrydu, ymddifyru,
To have delight, } &c.

Delighted, *a.* hyfryd, hyfrydlon, difyr; llawn hyfrydwch.

Delighter, *s.* ymhyfrydydd, ymhyfrydwr, &c.

Delightful, } *a.* hyfryd, hoff, hyfrydlon, hy-
Delightsome, } frydlawn, difyr, digrif, hyfrydlwys, dyddan, cysurlawn; tirion, araul, cyfannedd; maws, ffawg, llawdd, tra dymunol.

Delightfully, *ad.* yn hyfryd, &c.; mewn modd hyfryd.

Delightfulness, } *s.* hyfrydwch, hyfrydedd, hy-
Delightsomeness, } frydlonedd, hyfrydrwydd, hyfrydlonder, digrifwch, difyrwch, tiriondeb, tirionwch, areuledd, areulwch, cyfanneddrwydd, dymunolrwydd, hyfrydwch tramawr, mawsder, lloddiant.

Delightless, *a.* (*delight* a *less*) anhyfryd, dihyfrydwch, annigrif, annifyr, anhylon.

Delineament, *s.* (Ll. *delineo*) llunweddiad; arddangosiad drwy ddarluniad.

Delineate, *v. a.* (Ll. *delineo*) darlunio, dylunio, llinellu, arlunio, darlinellu, llunweddu, dysgrifio, arlinellu; tynu llun, tynu darlun, tynu, arfelu, arfelyddu, delweddu, ardebu, dyfalu; llunio, ffurfio, cynllunio; braslunio, brasnaddu; hynodi, darddullio.

To delineate a character—darlinellu nodweddiad, darlunio nodwedd, llunweddu cymmeriad.

Delineation, *s.* (Ll. *delineatio*) darluniad, darlinelliad, llunweddiad, arluniad, dysgrifiad, arlinelliad, brasluniad, dyluniad, tyniad, lluniad, tyniad llun; llun, ffurf, llunwedd, dull, darluniedigaeth, darddulliad, arfeliad, delweddiad, darluniawd, llinelliad, ardebiad; brasnaddiad; cynllun, amlinell, braslun.

Delineator, *s.* (Ll.) darluniwr, darlunydd, darluniedydd, arluniwr, darlinellwr, lluniedydd, llunweddwr, &c.

Delineatory, *a.* darluniadol, darluniol, arluniadol, llunweddol, llunweddiadol, dysgrifiadol, dysgrifiol, brasluniol.

Delineature, *s.* (o *delineate*)=*Delineation.*

Deliniment, † *s.* (Ll. *delinimentum*) llinariad, esmwythâd.

Delinquency, *s.* (Ll. *delinquo*) bai, trosedd, camweithred, camwedd, drygweithred, drygwaith; camweithrediad; diffyg, pall, meth, ffael, *neu* fyrdra yn nghyflawniad dyledswydd; gwall, ffael, cwl, cwyl, nam, caredd.

Delinquent, *a.* camweddus, camweithredol, troseddol; yn esgeuluso dyledswydd; euog o fai; cwylfawr, beius.

Delinquent, *s.* troseddwr, camweithredydd, camweithredwr, gwneuthurwr bai, camweddwr, camweddydd, drygweithredwr; un byr yn ei ddyledswydd; à ballo yn ei ddyledswydd; gwallygiwr, gwallygydd; un euog o fai; tramgwyddwr.

Deliquate, } *v.* (Ll. *deliqueo, deliquesco*) toddi;
Deliquesce, } ymdoddi; dadlaith, dadmer,
Deliquiate, } meirioli; dattod; ymddattod; araf doddi; toddi o hano ei hun.

Deliquation, } *s.* toddiad, toddiant, ymdodd-
Deliquescence, } iad, toddedigaeth; araf dodd-
Deliquiation, } iad; toddiad o hano ei hun; dadleithiad, dadmeriad.

Deliquescent, *a.* ymdoddol, toddol; yn toddi; yn ymdoddi; toddedigol.

Deliquium, *s.* (Ll.) toddiad, toddiant, ymdawdd; toddedd, tawdd, llŷn, gwlyb; llewyg, mas, llesmar.

Deliracy, † *s.* (Ll. *deliro*)=*Delirium.*

Delirament, *s.* (Ll. *deliramentum*) meddylwib, ffol asbri, penwendid, pendrondod, crwydrad y meddwl.

Delirate, *v. n.* (Ll. *deliro*) ymleferydd, ynfydu, gorphwyllo, pendroni; bod yn benwan.

Deliration, *s.* (Ll. *deliratio*)=*Delirium.*

Delirious, *a.* (Ll. *delirus*) penysgafn, penwan, syfrdan, pensyfrdan, lledfrydig, anmhwyllog, gorphwyllog, gorphwyllus, pwyllglaf, pwyllgoll; heb na chof na chyfrif ganddo; allan o'i bwyll; allan o'i gof; yn ymleferydd, yn syfrdanu; ansynwyrol, anrhesymol; chwibwrn, gwibwrn; yn gwibio; â cholled ynddo; â'i feddwl yn crwydro.

To be delirious—ymleferydd, pendroni, syfrdanu, gorphwyllo, anmhwyllo, gwallgofi, ynfydu; bod yn benysgafn, &c.; bod â choll ynddo.

Deliriousness, *s.* penysgafnder, penwendid, &c.

Delirium, *s.* (Ll.) ymleferydd, marwerydd, myrwerydd, penysgafnder, penwendid, pendrondod, penysgafndra, penysgawnder, lledfryd, lledfrydedd, syfrdandod, madrondod; gwallsynwyr, gorphwyll, gwallgof, ynfydrwydd, coll pwyll, collbwyll.

Delirium tremens—marwerydd y meddwon, ymleferydd crŷn, pendrondod hygryn, haint y meddwon.

Delitescence, *s.* (Ll. *delitescentia*) neilltuedd, enciledd, encil, echaeth; dinodedd, anweledd.

Delitigate, *v. a.* (Ll. *delitigo*) senu, dwrdio, ysdwrdio, amryson.

Delitigation, *s.* seniad, dwrdiad, amryson, ymgiprys.

Deliver, *v. a.* (Ff. *délivrer*; Ll. *delibro*) gwaredu, gwared, achub, rhyddhau, achubo; traddodi, trosi, trosglwyddo, rhoddi, rhoi, dyroddi, dodi; rhoddi i fyny; diianc, dieugyd,

dïangu, dïengu; tynu allan, cipio allan; dadrwystro; rhwyddhau; colwyno, esgoryd; traethu, treithu, ymadroddi, llafaru, llefaru, dywedyd, mynegu, yngan, gweyd, dosbarthu allan; rhoddi allan.

To deliver a sermon — traddodi pregeth, treithu pregeth, pregethu pregeth, parablu pregeth, pregethu.

To deliver a speech — traddodi araeth; areithio, traethu, ymdroddi, parablu, llafaru, llefaru.

To deliver from confinement—rhyddhau o gaethiwed; digaethiwo; edfryd i ryddid; rhoi *neu* osod mewn eangder; gwared o garchar; gwaredu o gaethiwed.

To deliver (as an accoucheur)—rhyddhau, colwyno, esgoryd; rhoi gwregys rhydd i.

To deliver one's self—ymryddhau, ymddirwyllo, dïanc, ymachub; achub ei einioes ei hun.

God deliver me—Duw a'm gwaredo; Duw a'm dïango.

Deliver me from the sword — gwared fi rhag y cleddyf; ysgwlf *neu* ysgylfa fi rhag y cleddyf.

To deliver down—trosglwyddo i lawr.

To deliver into one's hands — rhoddi *neu* ddodi yn llaw un; traddodi i law un.

To deliver up—rhoi i fyny; rhoddi i fyny; edfryd, adferu, adferyd, adroddi, daddroddi, dadroi, gwrthferu, gwrthfer, gwrthfryd; rhoi *neu* dalu adref; talu *neu* roddi yn ol; traddodi, bradychu; rhoi yn fradwrus yn nwylaw *neu* i ddwylaw gelyn.

To deliver to the wind—traddodi i'r gwynt; bwrw *neu* dafu gyda'r gwynt; gwrthod; bwrw *neu* dafu ymaith.

To deliver to memory—rhoi ar gof; gyru ar gof; rhoi ar gof a chadw; trosglwyddo i'r oes à ddel; trosglwyddo i'r to nesaf.

To be delivered of young—esgor; cael ei rhyddhau; dwyn newyddian i'r byd, &c.

To be delivered before her time — esgor cyn tymp; erthylu.

To deliver a message — traethu neges; traddodi cenadwri.

To deliver an office to one—rhoi swydd i un; gwystlo swydd i un.

Deliver, † *a.* (Ll. *liber*) rhydd; gweisgi, bywiog.

Deliverable, *a.* gwaredadwy, &c.

Deliverance, *s.* (Ff. *délivrance*) gwaredigaeth, gwared, ymwared, achubiaeth, rhyddhad, gollyngdod, dïangfa, gwarediant, gwarededigaeth; iechydwriaeth, iachawdwriaeth; traethiad,† ymadroddiad;† esgoriad, esgorfa.

Delivered, *p. p.* gwaredig, gwarededig, achubedig, gwaredol; traethedig, &c.

The delivered—y gwaredigion.

Deliverer, *s.* (o *deliver*; Ff. *délivreur*) gwaredwr, gwaredydd, achubydd, achubwr, achubiad, ymwaredwr, gwaredog, ceidwad, ymddiffynwr, diffynwr; iachawdwr; rhyddhäwr o gaethiwed; traddodwr, traddodydd; traethwr, parablwr.

Delivery, *s.* (o *deliver*) gwarediad, gwarediant, gwaredigaeth, gwared, ymwared; rhyddhad, gollyngdod, gollyngiad; traddodiad, rhoddiad, dodiad, dyroddiad; trosglwyddiad, trosiad; rhoddiad i fyny; rhoddiad allan; parabl, parabliad, llafar, llafariad, llefariad, traethiad, adroddiad, ymadrodd, cynaniad; esgorfa, esgoredigaeth, esgor, colwyniad, genedigaeth, tymp.

A good delivery—parabl croew, parabl da; parabliad rhwydd *neu* rydd; ymadrodd rhugl, rhwydd, rhydd, croew, *neu* drybelid; per araeth; hyawdledd.

He has a good delivery — y mae iddo *neu* ganddo barabl croew; y mae efe yn groew ei barabl; mae ganddo barabl da.

I know not one that has a better delivery —nid adwaen i yr un sydd yn fwy parablus; nid adwaen i neb gwell ei barabl.

A poor delivery — parabl gwael, parabl anghroew, ymadrodd afrugl, ymadroddiad anhyawdl, parabl afrwydd.

He has but a poor delivery — nid oes iddo ond parabl anghroew; nid yw efe ond gwàn *neu* wanaidd ei barabl; nid yw ei barabl ond gwael.

Woman's delivery—rhyddhad, esgorfa, esgoriad, esgoredigaeth, esgor, genedigaeth, tymp.

Dell, *s.* (Is. *dal*; Al. *thal*; S. *degle*) ceule, ceubwll, ceufan, ceugwm, ceunant, ceubant; glyn, pant, nant; pwll.

Delph, *s.* (o dref *Delft*, yn Holand)=*Delf.*

Delphin, *s.* enw à roddir i'r argraffiad o'r uchawduron Lladin, à gyhoeddwyd ar orchymyn Lewis XIV. o Ffrainc, er budd ei fab, edlin y goron (' *in usum Delphini* ').

The Delphin classics — yr uchawduron Delphinaidd, yr uchawdwyr Delphinig.

Delphinate, *s.* (Gr. a Ll. *delphin*) dolffynaint.

Delphine, *a.* (Ll. *delphinus*) dolffynaidd; perthynol i'r dolffyn: Delphinaidd, Dolffinaidd; perthynol i etifedd coron Ffrainc.

The delphine edition of the classics — yr argraffiad Delphinaidd o'r uchawduron.

Delphinic Acid, *s.* (Ll. *delphinus*) sur dolffynig; sur à geir o olew y pysg dolffyn.

Delphinina, Delphinia, Delphina, Delphia, Delphine, *s.* (o *delphinium*, ysbardun y marchog, o *delphis*) alcali llysieuaidd à dynir o'r lleulys, llysiau y llau, *neu* lewyg y llau; llysalcali lleulys; alcali llysieuaidd y lleulys.

Delphinite, *s.* dolffynfaen.

Delphinium, *s.* (Gr. a Ll. *delphin*) ysbardun y marchog, llysiau yr hedydd, tafod yr hedydd.

Delphinus, *s.* (Ll.) y dolffyn.

Delta, *s.* (Gr.) enw y llythyren Δ yn y Groeg, yn ateb i D yn y Gymraeg: ynys yn aber afon fawr, megys y Neilus.

Deltoid, *a.* (Gr. *delta* ac *eidos*) ar lun Δ; triongl, trionglog, trichonglog; lleddbedrog; llwyarnaidd; Deltaidd.

Deludable, *a.* (o *delude*) twylladwy, hydwyll, hyhud, ffugiadwy; hawdd ei dwyllo *neu* ei hudo.

Delude, *v. a.* (Ll. *deludo*) twyllo, hudo, llithio, hocedu, coegio, somi, seithugio, gwatwar, gwatwor; tynu ar ddidro; llithio ar gyfeiliorn; hudo, denu, *neu* lithro à geiriau teg a thwyllodrus; camdywys, camarwain; bwrw hud ar lygaid; ffugio.

Deluder, *s.* twyllwr, twyllydd, twyllodwr, twyllawdr; hudwr, somwr, somur; camdywysydd, camarweinydd; ffugiwr.

Deluding, *s.* twyll, hoced, hud, twylleb, twyllawd, geudeb.

Deluge, *s.* (Ff. *déluge;* Ll. *diluvium, deluvies*) dylif, diluw; gorlif, llifeiriant, gorllif, rhyferthwy, llifddwr, llif, lli, dyli, ffrydlif, lliant, dwll.

Deluge, *v.a.* gorlifo, llifeirio, gorlifeirio, dylifo, gorllifo; peri *neu* wneuthur yn fôr; gwneuthur yn ddylif; gorchuddio â dwr *neu* â llifddwr; rhoi dân ddwr; troi dwr *neu* llifddwr dros; dyllio, dyllu, cluddio, dargluddio, gorchuddio; boddi.

Delusion, *s.* (Ll. *delusio*) twyll, hudoliaeth, hud, twyllofaint, somiant, somedigaeth, som, ffug, lledrith, geurith, geuwedd; twyllad, twyllawd, twylledigaeth; geudeb, ffalsedd, hoced; camarweiniad, camdywysiad; amryfusedd, cyfeiliornad, camolygiad.

Strong delusion — amryfusedd cadarn (2 *Thess.* ii. 11).

Optical delusion — twyll-olwg, twyllweledíad, tremdwyllad, twylldremiad, twyllymddangosiad, gau ymddangosiad.

Delusive, } *a.* (Ll. *deludo, delusi*) twyllodrus,
Delusory, } twyllgar, somgar, hudolawl, twylledigol, twylladol, lledrithiol, hudol, hudoladd, lledrithgar.

Delusiveness, *s.* (o *delusive*) twylledd, twyllodrusedd, twyllodrusrwydd, twyllgarwch; somgarwch; twyll, hud, hoced.

Delve, *v. a.* (S. *delfan;* Is. *delven*) cloddio; palu; treiddio i; plymio; beisio; chwilio; mesuro; cael gwaelod; gwaelodi.

Delve, † *s.* clawdd, pwll, bradbwll, cloddbwll, ffos; ogof, gogof.

Delver, *s.* (o *delve*) cloddiwr, cloddiedydd, palwr.

Demagogue, *s.* (Gr. *dêmagôgos*) cornor yr adlawiaid, penadlawiad, pénadlaw, cyrniad y cyffro, pen yr adlawiaid, blaenor yr adlawiaid, corn y gynhen, arweinydd y werin, rhwyf yr ymraniad, eilun y werinos, arweinydd y bobl, cornor, pencyffröydd, ciwedlyw, gwaerflaenor.

Demain, } *s.* (Norm. *demainer*) eiddionydd,
Demesne, } maerdref, maenor, maenol, tyddyn cartrefol; tiriogaeth, treftadaeth, treftad, tattref; y maenordy a'r tir cyfagos.

Demesne land — tir y faerdref, tir bwrdd, maenordir, maenoldir; tir y goron, tir bwrdd y llys.

The king's demesnes—y frenindref, y faerdref.

The king's demesne lands—tir bwrdd y llys, tir y faerdref, tir y frenindref, tiroedd y goron.

Demand, *v. a.* (Ff. *demander; de,* a Ll. *mando*) gofyn, holi, ceisio, erchi; gofyn i; ymofyn âg; ymofyn am; ymholi â; ymoralw am, ymorol am; arddelwi, arddelw; hôni hawl i; ymarddelw o, hôni o; ymgeisio am, ymgais am; dyerchi; gofyn yn awdurdodol; mynu.

I will demand of thee, and answer thou me—a mynega i mi yr hyn a ofynwyf i ti (*Iob* xxxviii. 3).

The chief captain demanded who he was—y pen-cadben a ymofynodd pwy oedd efe (*Act.* xxi. 33).

They were demanded—dywedwyd (*Ecc.* v. 14).

David demanded of him how Joab did—Dafydd a ymofynodd am lwyddiant Ioab (2 *Sam.* xi. 7).

Demand, *s.* gofyn, gofyniad, hawl, holiad, holedigaeth, arch, archiad, mynad; arddelwad, arddelw; ymofyn, ymofyniad, galw, galwad; erfyn, deisyf, deisyfiaeth, eidduned, dymuniad, dymuniant; y peth â ofyner; y peth â geir wrth ofyn; gofyn awdurdodol; dyled.

What is your demand?—beth yw eich gofyn?

I promise to pay on demand—mi a dalaf i chwi pa bryd bynag y galwoch arnaf; talaf bryd bynag y gofyner *neu* y ceisier; talaf pryd y mynir.

That lady is in great demand—y mae ymofyn mawr am *neu* ar y rhian hôno.

Demandable, *a.* gofynadwy; â ellir ei ofyn.

Demandant, *s.* (o *demand*) gofynydd, gofynwr, hawlydd, holydd, holwr; hawlblaid, ymofynblaid, achwynydd, achwynwr.

Demander, *s.* (o *demand*) gofynwr, gofynydd, mynwr, ymofynwr, holwr, holydd, ymholwr, deisyfwr, eirchiad, archwr, archydd.

Demandress, *s.* (o *demander*) gofynes, gofynyddes, gofynwraig, holyddes, holiedyddes, achwynwraig; hawlblaid.

Demarcation, } *s.* (Ysp. *demarcacion*) terfyn-
Demarkation, } iad, terfyn, ffiniad, rhaniad, parthiant, ffin, cyffin, cyffinlin, terfynlin, llinell ffin; tirbarthiad.

Line of demarcation—llinell ffin, cyffinlin, cyffinidlin.

Demarch, *s.* (Gr. *dêmarchos*) penswyddog plwyf yn Attica; pencordd: *pl.* demarchiaid.

Demarch, † *s.* (Ff. *démarche*) trawd, trodiad, cerddediad, mynediad.

Demean, *v. a.* (Ff. *démener*) ymddwyn, ymarweddu, ymarwedd, arweddu, agweddu, dwyn; trin.

To demean one's self—ymddwyn, ymarwedd, ymarweddu, ymagweddu; dwyn ei hun.

Demean, *v. a.* (*de* a *mean*) iselu, diraddio, iselhau, difrïo, dibrisio, darostwng, gwael ddarostwng.

To demean one's self—iselu ei hun, &c.; ymiselu, ymddibrisio; dibrisio ei hun; gwael ddarostwng ei hun; gwneuthur ei hun yn wael a dirmygus.

Demean, † *s.* ymddygiad, ymarweddiad, moes, agwedd.

Demeanour, *s.* (o *demean*) ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, moes, buchedd, buchwedd, bucheddiad; ymagweddiad; dull.

Good demeanour—ymddygiad da, ymarweddiad da, gwiwfoes, syberi.

Kingly demeanour — teyrnfoes, moes brenin.

Chaste demeanour—diweirfoes, ymddygiad diwair.

Demeanure, † *s.* = *Demeanour.*

Demembration, *s.* (Ll. *de* a *membrum*) dïaelodiad.

Dementy, } *s.* (Ll. *dementia*) gwallgofrwydd,
Dementia, } gorphwylledd, gwallgof, gorphwyll, llerthedd, collbwyll, gwallsynwyr, lledfryd, lledfrydedd, gwallbwyll, penwendid, ffoledd.

Dementate, *a.* (Ll. *dementatus*) gwallgof, gorphwyllog, gorphwyllus, gwallgofus, llerth, ynfyd, lledfrydig, iwin.

Dementate, *v. a.* (Ll. *demento*) gwallgofi, gor-

phwyllo; gwneuthur yn wallgof, &c.; peri gorphwylledd.

Dementation, *s.* (Ll. *dementatio*) gwallgofiad, gorphwylliad, ynfydiad; gwneuthuriad yn orphwyllog; lledfrydedd, ynfydedd, gwallgofrwydd.

Demented, *a.* (o'r Ll. *demento*) gorphwyllog, gwallgofus, gwallgof.

Demephitization, *s.* (*o demephitize*) dad-ddrygsawriad; purad oddi wrth ddrygsawr, drewsawr, *neu* ddrewchwa.

Demephitize, *v. a.* (*de* a *mephitis*) dad-ddrygsawru; puraw o ddrygsawr; puraw o awyr afiach.

Demerge, *v. a.* (Ll. *demergo*) trochi, soddi, suddo; gyru i'r gwaelod; boddi, grawthu, cleigio.

Demerit, *s.* (Ff. *démérite*) anhaeddiant, anhaedd, dryghaeddiant, drwg haeddediaeth, afryglyddiant, anrhyglyddiant.

Demerit, *v. a.* dryghaeddu, anhaeddu, afryglyddu; haeddu cosp *neu* gospedigaeth.

Demersed, *a.* (Ll. *demersus*) soddedig, suddedig, trochedig, boddedig, grawthedig; o dan y dwr; yn tyfu tan ddwfr.

Demersion, *s.* (Ll. *demersio*) trochiad, soddiad, suddiad, suddiant, soddiant, grawth, boddiad, bawdd; toddiad.

Demesne, } *s.* = { *Demain.*
Demain, } { *Demesne.*

Demi, (Ff. o'r Ll. *dimidium*; Gr. *semi*) rhagddawd arferedig mewn cyfansoddiad, yn arwyddo *hanner, go, lled.*

Demibath, *s.* (*demi* a *bath*) hanner baddon, hannerfadd, hannerfaddon.

Demibastion, *s.* hanner rhagfur, goragfur, lledragfur.

Demibrigade, *s.* hanner brigad, hanner torfas.

Demicadence,† *s.* lledoslef, goddisgynsain.

Demicannon, *s.* hanner cyflegr, gogyflegr, hannerfagnel.

Demicross, *s.* hanner groes = offeryn i fesur uchder yr haul a'r lloer.

Demiculverin, *s.* lledhirfagnel.

Demideify, *v. a.* goddwyfoli, godduwio, godduweiddio.

Demidevil, *s.* hanner diafol, hanner diawl, hanner cythraul, go-ddiafol; dieflyn, diawlyn, diawlddyn.

Demidistance, *s.* hannerbellder, gobellder, hanner pellder.

Demiditone, *s.* (*demi*, a Gr. *ditonos*) godrydydd, isdrydydd. [lled-dduw.

Demigod, *s.* godduw, hanner duw, hannerdduw,

Demigoddess, *s.* godduwies, hanner duwies.

Demigorge, *s.* hannerlwnc.

Demigrate, *v. n.* (Ll. *demigro*) mudo, ymfudo, ymmudo, trawsfudo, ymsymmud, newid trigias, preidio.

Demigration, *s.* (Ll. *demigratio*) mudiad, ymfudiad, ymmudiad, symmudiad, trawsfudiad, preidiad.

Demilance, *s.* hanner gwaew, hannerlost, hanner rheinen, hannerwaew, gobicell.

Demilune, *s.* hanner lleuad, hanner lloer, hannerlloer, lledloer, cilgant.

Demiman, *s.* hanner dyn, hannerddyn, lledddyn; adyn.

Demi-natured, *a.* hanner-anianog, hannernaturiog.

Demi-official, *a.* hannerswyddol, lledswyddol, lledswyddogol, go-swyddol.

Demipremises, *s. pl.* gogynseiliau.

Demiquaver, *s.* gogrychyn, gogrychnod, hanner crychyn, hanner crychnod.

Dihedral, *a.* (Gr. *dis* a *hedra*) dwyochrog, dwyochr.

Dihedron, *s.* (Gr. *dis* a *hedra*) dwyochron, dwyochrog, llun dwyochrog, deuor.

Dihexahedral, *a.* (*di* a *hexahedral*) dychwechochrog, dychwechochrol.

Dijudicate, *v. a.* (Ll. *dijudico*) barnu, cylafareddu, penderfynu, dedfrydu; tori *neu* derfynu ymryson; nodi gwahaniaeth.

Dijudication, *s.* (Ll. *dijudicatio*) barniad, penderfyniad, dedfryd, cylafareddiad, barnedigol ddosbarth, gwahaniaeth cyfreithiol; nodiad gwahaniaeth rhwng pethau.

Dike, *s.* (S. *dic*; Is. *dyk*; Al. *deich*) clawdd, ffos, cladd; dyfrglawdd; gwrthglawdd, argae, gwaldon, bwrch; mur.

Offa's Dike—Clawdd Offa.

Dike, *v. a.* cloddio, argloddio; dyfrgloddio; amgylchu â chlawdd; amddiffyn âg argae.

Dike,† *v. n.* cloddio.

Dilacerate, *v. a.* (Ll. *dilacero*) llarpio, rhwygo, dryllio, cinynio, difynio, darnio, erthrychu, llurgunio, andwyo.

Dilaceration, *s.* llarpiad, rhwygiad, drylliad, drylliant, cinyniad, darniad.

Dilaniate, *v. a.* (Ll. *dilanio*) rhwygo, llarpio, dryllio, cinynio, darnio, llurgunio, erthrychu, cigyddio, chwarthorio; rhwygo yn yfflon.

Dilaniation, *s.* rhwygiad, llarpiad, drylliad, cigyddiad, llurguniad, darniad.

Dilapidate, *v.* (Ll. *dilapido*) dadfeilio, adfeilio, anmharu; difrodi, difurio, dystrywio, andwyo, gwastraffu, afradu, afradloni; tynu i lawr; syrthio i'w bwll; gadael i syrthio *neu* ddadfeilio; gwneuthur yn ddifrod.

Dilapidation, *s.* (Ll. *dilapidatio*) adfeiliad, dadfeiliad, difrod, adeilad, difrodiad adail; adfail, dadfail; difrod, dinystr, dystryw, rhewin; gwastraff, afrad; gadawiad i adeilad syrthiaw o ddiffyg adgyweiriad; celciad.

Dilapidator, *s.* dadfeiliwr, adfeiliwr, difrodydd, distrywydd; un â bair i adail syrthio.

Dilatability, *s.* (o *dilatable*) hyledrwydd, llydanolrwydd.

Dilatable, *a.* (o *dilate*) lledadwy, hyled; â ellir ei ledu *neu* lydanu.

Dilatation, *s.* (Ll. *dilatatio*) llediad, llydaniad, ymlediad, ymlydaniad, taeniad, helaethiad, ymhelaethiad, lled别aeth, pefwch, pefwg.

Dilate, *v.* (Ll. *dilato*) lledu, llydanu, lledanu, amledu, damledu, helaethu, eangu; ymledu, ymhelaethu, ymeangu, ymlydanu, ymledanu, ymrythu; rhythu, arlydanu, taenu; ymhelaethu ar; gosod allan yn helaeth; trin *neu* adrodd yn helaeth; hawru, tywi.

Dilate, *a.* llydan, helaeth, llededig.

Dilater, *s.* lledydd, llydanydd, lledanydd, helaethwr.

Delation, *s.* (Ll. *delatio*) oed, oediad, gohiriad, gohiriant, oedgarwch.

Dilator, *s.* (Ll.) llydanydd, lledanydd, llydanor, lledydd.

Dilatoriness, *s.* (o *dilatory*) hwyrfrydigrwydd, hwyrfryd, gohiriogrwydd, oedgarwch, hwyrfrydedd, cyngydiolrwydd; gohiriad, gohiriant, oediad; gohir, godrig, oed, cyngyd; annybendod, dyheirwch, musgrellni, hwyrder, hwyredd, hwyrdrymedd, hwyrdrymder, diweddarwch.

Dilatory, *a.* (Ll. *dilatorius*; Ff. *dilatoire*) hwyrfrydig, gohiriog, araf, hwyrdrwm, oediog, cyngydiol, ar gyngyd, ar ei gynghor; hwyr, hair, dyhair, musgrell, dïog, afrys, anebrwydd, oedgar, annyben, diweddar; chwannog i oedi *neu* ohirio; yn oedi; yn bwrw heibio *neu* yn gohiriaw o ddydd i ddydd; daer.

Dilection, *s.* (Ll. *dilectio*) carad; serchedd, hoffedd, hoffder, caredigrwydd.

Dilemma, *s.* (Gr.) nidreb; rheswm dwybig, deugorn, *neu* ddeufisen; ffaig, dyryswch, nidr, anhawsder, anhawsdra, cyfyngder, astrusi, ednid, cyni, trallod; cyfyngder o'r ddau du; rheswm yn cloi o ddwy ffordd; cyfyng-gynghor.

Dilettante, *pl.* Dilettanti, *s.* (It.) deinhoffwr, ceinhofydd; carwr *neu* hoffwr y celfau teg; gwyddorgarwr, celfhoffwr.

Diligence, *s.* (Ff.; Ll. *diligentia*) dyfalwch, dyfalrwydd, diwydrwydd, astudrwydd, ystigrwydd, astigrwydd, eorthedd, dichlynrwydd, esgudrwydd, prysurdeb, diwydedd, dyfaledd, prysuredd, iorthiant, iorthrwydd, iorthryn; ymroddiad dibaid; gofal; prysurglud.

With all diligence—yn dra diesgeulus (*Diar.* iv. 23).

Give diligence—gwna dy oreu (*Luc* xii. 58).

Diligent, *a.* (Ll. *diligens*) dyfal, diwyd, astud, ystig, astig, dibaid, didor, esgud, eorth,

prysur, diflin, dïesgeulus, manwl, manol, gofalus, gwyliadwrus, parhäus, didawl, anniwaith, llafurus, poenus, poenfawr, iorthol, iorth, dichlyn.

To be diligent—bod yn ddyfal, &c.; ymdrafferthu, ymboeni, ymlafurio.

To make diligent inquisition—ymofyn yn dda; ymholi yn fanwl.

Dill, *s.* (S. *dil, dile;* Sw. ac Al. *dill;* Is. *dille*) ffenigl trymsawr, gwewyrllys, gwewyrlys, llysiau y gwewyr; ffenigl.

Dilucid,† *a.* (Ll. *dilucidus*) tryloew, gloew, claer, eglur.

Dilucidate,† *v. a.* (Ll. *dilucido*) egluro, eglurhau, amlygu.

Dilucidation, *s.* (Ll. *dilucidatio*) eglurhad, eglurad, egluriad, damlygiad, arlleniad, amlygiad, esboniad.

Diluent, *a.* (Ll. *diluens*) teneuol, teneuhaol; gwanhaol; hylifol.

Diluent, *s.* teneuor, teneuyr, teneugyffer: *pl.* teneuolion, teneuorion, cyfferi teneuol.

Dilute, *v. a.* (Ll. *diluo, dilutus*) teneuo, teneuoli; eiddilo, gwanhau; gwneuthur yn deneuach; gwneuthur yn deneu drwy gymmysgu dwr â pheth; bwrw dwr am ben; cymmysgu â dwr.

Dilute, *a.* teneu, teneuedig; gwàn; gwedi ei deneuo.

Diluter, *s.* teneuwr, teneuydd; à deneuo.

Dilution, *s.* (o *dilute*) teneuad, teneuhad, gwneuthuriad yn deneu, eiddilad, gwanhad.

Diluvial, } *a.* (Ll. *diluvium*) dylifol, dylifaidd,
Diluvian, } llifeiriol, diluwiol, gorlifol, gorlifeiriol; perthynol i ddylif Noah; perthynol *neu* debyg i ddiluw llifeiriol.

Diluvialist, *s.* dylifwr, dylifiedydd, diluwiwr= un à briodola ryw effeithiau, à wadir gàn ereill, i ddylif Noah.

Diluviate, *v. n.* (Ll. *diluvio*) dylifo, gorlifo, gorlifeirio,

Diluvium, *s.* (Ll.) llifwaddod, llifiwrwg, dylifwaddod, dylifddawd, lliflorion.

Dim, *a.* (S.; D. *dum*) tywyll, pwl, (*f.* pol), aneglur, anamlwg, anghlaer, anoleu, caddugol; anghraff, anghraffus; trwm, hurt; cymylog; llygadbwl.

How is the gold become dim!—pa fodd y tywyllodd yr aur!

And his eyes were dim—a thywyllu ei lygaid (*Gen.* xxvii. 1).

To make dim=*Dim, v. a.*

To become dim—tywyllu, pylu, caddugo, cymylu, pallu; myned yn bwl *neu* yn anghraff.

Dim, *v. a.* tywyllu, cymylu, caddugo, pylu; gwneuthur *neu* beri yn bwl; bwrw niwl ar *neu* dros lygaid; bwrw hud ar *neu* dros lygaid.

Dimble,† *s.* (Al. *taumeln*) deildy, cysgotty, gwasgotty, celli, llwyn; encil.

Dime, *s.* (Ff. talfyredig o *dixième*) deim=darn arian yn y Taleithiau Cyfunol, yn cynnwys deg dimai, neu y ddegfed o ddoler, gwerth tua 5*c.*

Dimension, *s.* (Ll. *dimensio*) mesur, maint, maintioli, meintioli, mesuriad; cynnwysiad; gradd.

Dimensionless, *a.* difesur, anfesurol, diderfyn, annherfynol, didran.

Dimensity, *s.* maint, maintioli, maintiolaeth, meintiolaeth, helaethrwydd, helaethder, eangder, eangedd, cynnwysiad, cynnwysiant, cynnwysedd.

Dimensive, *a.* (Ll. *dimensus*) terfynol, cyriogol; yn dynodi y terfynau *neu* yr amlinellau.

Dimeter, *a.* (Ll.) deufydr, deufesur; âg iddo ddau fydr.

Dimeter, *s.* deufydr, deufesur, pennill deufydr.

Dimication, *s.* (Ll. *dimicatio*) ymryson, amryson, amrafael, ymdrech, ymladd, ymdrin, bicre, brwydr.

Dimidiate, *v. a.* (Ll. *dimidio*) hanneru; rhanu yn ddau hanner.

Dimidiation, *s.* hanneriad, hanneriant; rhaniad yn ddau hanner.

Diminish, *v.* (Ll. *diminuo*) lleihau, gwneuthur yn llai, tolio, toli, prinhau, peri treio; tynu *neu* gymmeryd oddi wrth; treio, cilio; myned yn llai, myned ar drai; bychanu; attal; diraddio.

Diminish not a word—nac attal air (*Jer.* xxvi. 2).

Diminishable, *a.* lleiadwy, toliadwy; à ellir ei wneuthur yn llai.

Diminished, *p. p.* lleiedig, toliedig, &c.; bradw.

Diminished on every side—amdrai, amdreiedig.

Diminished arch—bwa lleiedig; bwa llai na hannergylch.

Diminisher, *s.* lleihäydd, à leihao, toliedydd.

Diminuendo, *s.* (It.) lleiad, dadgynnyddiad (>).

Diminuent, *a.* (Ll. *diminuens*) lleihaol.

Diminute, *a.* (Ll. *diminutus*) bychan, mân, lleiedig, toliedig.

Diminution, *s.* (Ll. *diminutio*) lleihad, lleiad, treiad, toliad, toliant, bychaniad, prinhad, eiddiliad, tawl, trai; cwymp, gostyngiad, coll, diraddiad; bradwy; eiddileb.

That will be no diminution to you—ni bydd hyny anghlod *neu* ddianrhydedd yn y byd i chwi; ni thyr hyny ar eich clod yn y mesur lleiaf; ni leiha hyny mo'ch clod yn y mesur lleiaf; ni fydd hyny un diraddiad i chwi.

Diminutive, *a.* (Ll. *diminutivum;* Ff. *diminutif*) bychanig, bychan, (*f.* bechan), bach, bychanigyn, disumig, disum, arddisum, sebach, bachig, eiddil, tra bach, tra bychan, lleiedigol, coraidd, còr-.

Diminutive, *s.* bychanig, bachigyn, eiddilyn, eiddilnir, bachigair; bychanigair, gair bychanig: *pl.* bychanigion.

Diminutively, *ad.* yn fychanig, &c.; mewn modd eiddil; yn wael.

Diminutiveness, *s.* bychanigrwydd, bychander, eiddilwch, bychanrwydd, bychandra, bachigrwydd; diddymrwydd, disumrwydd; gwaeledd, salwedd, salwder.

Dimish, *a.* (o *dim*) pylaidd, lled dywyll, caddugaidd, lledbwl.

Dimission, *s.* (Ll. *dimissio*) cenad i ymadael; gollyngdod, gollyngiad, cenadiad.

Dimissory, *a.* (Ll. *dimissorius*) gollyngol, anfonol, danfonol, darddanfonol; yn anfon ymaith; yn caniatäu ymadaw.

Letters dimissory—llythyrau cenad, llythyrau gollyngdod, llythyrau anfon, llythyrau rhyddhad, llythyrau gollyngol.

Dimit,† *v. a.* (Ll. *dimitto*) caniatäu myned; gosod, rhentu.

Dimity, *s.* (Is. *diemit*) eisgotwm; math o gotwm rhengog *neu* rigolog.

Dimly, *ad.* (o *dim*) yn dywyll, yn bwl, yn aneglur, &c.

Dimming, *s.* (o *dim*) tywylliad, pyliad, caddugad; tywyllwch, pyledd.

Dimness, *s.* (o *dim*) pylni, tywyllni, tywyllwch, tywyllwg, anghreffni, anghraffedd, trembyledd; pylni *neu* dywyllni golwg; pyledd *neu* anghreffni llygaid; llygadbylni, coegddalledd, coegddellni, coegddelli; hurtrwydd; pylni y meddwl *neu* y deall; penbyledd, penfasedd, synwyrbyledd, gwendid, anmherffeithrwydd; cymylogrwydd, caddugoldeb; caddng, niwl.

Dimple, *s.* (Al. *taumeln?*) pannwl; pant, twll, *neu* dolc yn y foch *neu* y rudd; bochdwll, pant boch, twll boch, bochbannwl; pant, pannwl, twlc, tolc, rhych, *neu* rigol yr en; twll chwerthin, chwerthin-dwll, chwerthinbant; màn.

Dimple-cheeked—bochbyllog, bochdyllog, bochbannylog; â thwll *neu* bant yn y foch.

Dimple, *v. a.* pannylu, pantu, pannoli, pannelu.

Dimpled, *a.* pannylog, pantog, tyllog, mànog; bochdyllog, bochbyllog; â thyllau chwerthin *neu* â chwerthindyllau yn y foch *neu* rudd; â rhych, â thwll, *neu* â phant yn yr en.

Dimply, *a.* pannylog, tyllog, pantog, pannolog, mànog; llawn pannylau *neu* bantiau.

Dim-sighted, *a.* llygadbwl, tywylldrem, pyldrem; anghraff *neu* bwl ei olwg; trwm ei lygaid; coegddall, llygadball.

To be dim-sighted, } bod yn llygadbwl;
To be dim of sight, } bod yn bwl, yn drwm, *neu* yn anghraff ei olwg; bod â'i lygaid yn dryinion; tywyllu o lygaid *neu* olwg un; pallu o drem y llygaid; pallu o lygaid un; cau o lygaid un; bod llygaid *neu* olygon un wedi pallu.

Dim-twinkling, *a.* seirianbwl; yn serenu yn bwl.

Din, *s.* (S. *dyn; Ll. tonus*) trwst, twrf, twrdd, dadwrdd, swn, dyar, tordd, godwrdd, aban, nedd, trydar, broch, dias, cyffro, dâr, dared.

Din, *v. a.* syfrdanu, byddaru; byddaru â thrwst, &c.; dyar, trystio, dadyrddu, tyrddu, torddi, cadw swn.

Dinar, *s.* darn bath.

Dinarchy, *s.* (Gr. *dis* ac *archê*) deubenaeth, deulywiaeth, deubendodaeth, deulywodraeth, llywodraeth dau.

Dine, *v.* (S. *dynan; Ff. dîner*) ciniawa, bwyta ciniaw, bwyta ganol dydd, bwyta ciniaw echwydd; rhoi ciniaw, rhoddi ciniaw.

Dinetical, *a.* (Gr. *dinêticos*) chwildroawl, amdroawl, chwyrndroawl, pendroawl.

Ding, *v.* (S. *dencyan*) dwndro, trystio, dadyrddu, dadwrdd, rhuo, nadu, tyrddu, trybestu; syfrdanu, byddaru; taro wrth lawr; tafiu yn nerthol; ergydio, curo, baeddu, taraw, yssigo.

Ding-dong, *s.* efelychiad o sain clych; ding dong, dinc donc; gosigl.

Dinginess, *s.* (o *dingy*) gwrmder, gwrmedd, llychwinder, llwydedd, lliw llwyd.

Dingle, *s.* (S. *den, din*) cwm, glyn, pant, cwmarch, ceunant, gobant, allmor, pantle, nant, ceugwm, dyffryn, tyno, nedd.

A small dingle — gonant, gobant, cwm bychan.

Dingle-dangle, *adv.* yn crogi yn rhydd *neu* laes; yn hongian.

Dingy, *a.* (S. *dunn?*) llychwin, llychwinedig, llychwinog, diwynedig, budr; gwedi ei lychwino *neu* ei ddiwyno; gwrm, tywyll, tywylldu, gwrmdde, dwn, llwyd, llwydwawr, dulwyd, gell, cethin.

Dining-room, *s.* ciniawgell, ciniawfa, ystafell giniawa, ystafell giniaw, ystafell fwyta; ystafell wledda, gwledd-gell, gwledd-ystafell.

Dinner, *s.* (Ff. *dîner*) ciniaw, canolbryd, prydnawnfwyd, prydnawnbryd, ciniaw echwydd.

A dinner of herbs—pryd o ddail (*Diar.* xv. 17).

Dinnerless, *a.* diginiaw, heb giniaw.

To go dinnerless—myned heb giniaw; bod heb giniaw; bod heb ei giniaw; bod *neu* fyned yn ddiginiaw.

Dinner-time, *s.* pryd ciniaw, amser ciniaw.

Dinotherium, *s.* (Gr. *deinos* a *thêrion*) hyllfil, erchyllfil.

Dint, *s.* (S. *dynt*) ergyd, dyrnod; grym, nerth, yni, egni; min, awch; gormes, trais; nod, ol, màn, argraff, tolc, pant, ceuedd.

By dint of arms—trwy rym *neu* nerth arfau; trwy ormes a thrais; trwy drais a gorfod.

Dint, *v. a.* pantu, mànu, menu, tolcio, pannylu; gwneuthur ol, màn, *neu* dolc; taraw, dulio.

Dinumeration, *s.* (Ll. *dinumeratio*) unrifiad, unig rifiad.

Dinus, *s.* (Gr. *dinê*) penddaredd, pendro, chwidredd, gysp, meigryn, penddar, penfrag.

Diocesan, *a.* (o *diocese*) esgobaethol, esgobodol; perthynol i esgobaeth; yn perthyn i esgobawd.

Diocesan, *s.* esgob.

Diocese, } *s.* (Gr. *dioicêsis*; Ll. *diœcesis*) esgob-
Diocess, } aeth, esgobawd.

Dioctahedral, *a.* (*dis* ac *octahedral*) dywythochrog, dywythochrol.

Diodon, *s.* (Gr. *dis* ac *odous*) morddraenog.

Diœcia, } *s.* (Gr. *dis* ac *oicos*) Dwyanneddol,
Diecia, } Dwyanneddog; Dwyanneddolion= yr 22fed genedl o blanigion, yn ol trefn Linnæus.

Diœcian, } *a.* (Gr. *dis* ac *oicos*) dwyanneddol,
Diœcious, } dwyanneddog; perthynol i'r genedl
Diecian, } Dwyanneddol.

Dioicous, *a.* (Gr. *dis* ac *oicos*)=*Diœcian*, &c.

Dionte, *s.* math o riagraig.

Diopside, *s.* (Gr. *diopsis*) enw delidfaen.

Dioptaste, *s.* (Gr. *dioptomai*) gwyrddemgopr, mwn gwyrdd copr.

Dioptric, } *a.* (Gr. *dioptricos*) trydremiol,
Dioptrical, } pelldremiol, trydremiadol, pellolygol, pellganfodus; rheiddwyrol; â gynnorthwyo yr olwg i weled pethau pell.

Dioptrics, *s.* trydremyddiaeth, trylewyrcheg, pelldremiaeth, pellolygiaeth; rheiddwyreg.

Diorama, *s.* (Gr. *dia* a *horama*) tryddarlunfa, trywelfa, tryolwg, tryolygawd.

Dioramic, *a.* tryddarluniol, trywelfaol.

Diorism, *s.* (Gr. *diorisma, diorismos*) dosbeniad, deffiniad, dysgrifiad, gwahaniaeth, darnodiad.

Dioristic, *a.* dosbenol, deffiniol, gwahaniaethol, darnodol.

Diorthosis, *s.* (Gr.) uniawnad, unionad.

Diota, *s.* (Gr. a Ll.) math o lestr gwin.

Diotis, *s.* (Gr. *ous, otos*) moredafeddog, llwyd boneddig.

Dioxide, *s.* (*dis* ac *oxide*) isegrid.

Dip, *v.* (S. *dippan*; Al. *tupfen*; D. *dypper*)

trochi, soddi, suddo, cleigio, grawthu, dychleigio; mwydo, gwlychu, lleithio, tochi; golchi; taraw mewn dwr; ymsoddi, ymsuddo, ymolchi; tansuddo; myned, treiddio; myned i, treiddio i; dyddori; bod à fyno *neu* à wnelo; cymmeryd arno; ymrwymo, gwystlo; braschwilio, basdreiddio, baschwilio, brasdreiddio; cymmeryd cipolwg; rhedeg yn ysgafn dros; ysgafn gyffwrdd; plygu i lawr, gostwng, pantu, llosdneddu; gogwyddo i lawr.

To dip one's self—ymdrochi, ymsoddi.

To dip into a book—bwrw *neu* dafiu cipolwg ar lyfr; rhedeg yn ysgafn dros lyfr; edrych mewn llyfr ar *neu* o ddamwaen; baschwilio llyfr; edrych llyfr ar frys yma ac acw; taraw i lyfr.

To dip one's estate—gwystlo ei dir; rhoddi ei dir ar wystl.

Dip, *s.* osgo, pant; pantiad, pantedd, gostyngiad; llorduedd, llordyniad, lloresgo.

Dipchick, *s.* (*dip* a *chick*) tindroed, ymdrochiar, soddiar.

Dipetalous, *a.* (Gr. *dis* a *petalon*) deuflodeuliog, deuflodeuddail, deuwullddeiliog; â dwy flodeuddalen iddo.

Diphthong, *s.* (Gr. *diphthoggos*) deuseiniad, deusain, deudon, dwydon, cynglafarai, deugyfunsain, sain dalgron: *pl.* deuseiniaid.

Proper diphthongs—deuseiniaid priodol, deuseiniaid rhywiog.

Improper diphthongs — deuseiniaid anmhriodol, deuseiniaid afrywiog.

Diphthongal, *a.* talgron (*m.* talgrwn), deusain, deuseiniol, dwydônol; perthynol i ddeuseiniad.

Diphthongally, *ad.* fel deusain; ar ddull deuseiniad.

Diphucephala, *s.* (Gr. *diphuês* a *cephalê*) deunawdbenogion=llwyth o drychfilod caesadeinaidd.

Diphydes, } *s. pl.* (Gr. *diphuês*) dyblygrilion,
Diphydæ, } deublygrilion, deunawdrilion=
Diphyans, } teulu o lysfilod.

Diphyllous, *a.* (Gr. *dis* a *phullon*) dwyddeiliog, dwyddalenog.

Diploe, *s.* (Gr. *diplous*) madruddyn tyner.

Diploma, *s.* (Gr.) graddlythyr, urddlythyr, graddenw, breintraddeb, breintiadeb; breinteb, breintlythyr, credlythyr.

Diplomacy, } *s.* (o *diploma*) llysgenadiaeth,
Diplomate, } llysgenadaeth, cenadogaeth, teyrngenadiaeth, argenadiaeth, llysnegesiaeth, negesiaduriaeth; llysgenadau, llysgenadon, cenadau llys, teyrnnegeswyr, gweinidogion tramor; y corff llysgenadol; negesffurf; gorchwyliaeth cenadau llys; arferion, rheolau, a breintiau cenadau llys.

Diplomate, *v. a.* breintio, breintioli, rhagorfreintio; estyn braint i.

Diplomated, *a.* graddlythyrog, urddlythyrog.

Diplomatic, *a.* (o *diploma*) graddlythyrol, urddlythyrol, graddlythyrog, urddlythyrog; breintiog, rhagorfreintiog, breintebawl, breintebus; credlythyrog; llysgenadol, llysnegesol, teyrnnegesol, llysgenadogol; perthynol i genadau tramor llys; yn perthyn i lysgenadon tramor.

Diplomatic, *s.* llysgenad, llysgenadwr, llysnegesiadur, llysnegesydd, teyrnnegesydd; gweinidog tramor llys; cenad, cenadwr.

Diplomatics, *s.* henysgrifioneg, henysgrifionaeth; llywodysgrifeg; gwyddor, ofyddiaeth' *neu* athrawiaeth hen ysgrifau.

Diplomatist, *s.* un hyddysg mewn llysgenadiaeth; llysgenadiaethwr; llysgenadwr.

Dipper, *s.* (o *dip*) trochwr, trochydd, trochiedydd, soddwr, suddwr, cleigiwr, cleigydd; lledwad, lledwed: tresglen y dwr, bronfraith y dwr, mwyalch y dwr.

Dipping, *s.* (o *dip*) trochiad, soddiad, suddiad, suddiant, cleigiad, grawthiad; troch; osgoad, pantiad, pantedd, llorduedd, gogwyddad i lawr; llechweddiad, gostyngiad.

Dipping needle—nodwydd ogwyddol *neu* osgoawl.

Diprismatic, *a.* (*di* a *prismatic*) deureiddellig, dyreiddyllig, dyreiddellig, deureiddellawl.

Dipsacus, *s.* (Gr. *dipsaô*) teilai, ysgall y panwr.

Dipsas, *s.* (Gr.) madsych=sarff y pair ei brathiad syched marwol.

Dipsosis, *s.* (Gr. *dipsaô*) syched marwol.

Dipter, } *s.* (Gr. *dis* a *pteron*) dwyednog, dwy-
Diptera, } aesril, trychfil dwyadeiniog: *pl.* dwyednogion, dwyednrilion, dwyaesrilion, trychfilod dwyadeiniog.

Dipteral, } *a.* dwyadeiniog, dwyadeiniol, dwy-
Dipterous, } adenog; âg iddo ddim ond dwy aden; perthynol i'r dwyednrilion.

Dipteral, *s.* adail ddwyadeiniog, adeilad ddwyaden.

Dipteros, *s.* (Gr. *dis* a *pteron*) teml ddwyadeiniog.

Dipterygia, } *s. pl.* dwyasgellbysg, pysg dwy-
Dipterygians, } aden, dwyasgelliaid.

Diptote, *s.* (Gr. *dis* a *piptô*) enw deudreigl, deudreigl: *pl.* deudreigliaid, enwau deudreigl.

Diptych, } *s.* (Gr. *diptuchos*) dyblyglyfr, cof-
Diptychus, } lyfr; cofres esgobion a merthyron.

Dipus, *s.* (Gr. *dis* a *pous*) y Tserboa.

Dipyre, *s.* (Gr. *dis* a *pur*) dygrasfaen.

Diradiation, *s.* (Ll. *diradiatio*) dyreiddiad, pelydriad, rheiddiad, peiliad, llewyrchiad, ysbleiniad; bwriad allan belydr.

Dire, *a.* (Ll. *dirus*) erchyll, dychrynllyd, echrys, aruthr, aruthrol, engur, enguriol, erch, echryslawn, arswydus, arswydlawn, syn, ofnadwy, irad, girad, cethin, echrydus, iradus, aethus.

Direct, *a.* (Ll. *directus*) uniawn, union, cyfeiriol, uniongyrch, uniongyrchol, cywir, didro, diymdro, diwyr, dileddf, gawn; agored, noeth, amlwg, anamwys; i'r perwyl; mynedol; unfynedol.

Direct answer—ateb cymhwys *neu* addas; ateb diddichell; ateb priod, ateb parod, gwir ateb; ateb i'r perwyl; ateb uniawn.

Direct lie — celwydd noeth, goleu, *neu* barod.

Direct war—rhyfel cyhoedd, rhyfel cyfaddef.

This is a direct sin—pechod hollol ydyw hwn.

Direct line—llin uniawn; llinach uniawn; llinach o dad i fab.

Direct course — uniongyrch; llwybr uniawn, &c.

Direct and retrograde—mynedol a gwrthfynedol.

Direct motion of a planet — ysgogiad mynedol planed; ysgogiad planed o'r gorllewin i'r dwyrain.

Direct, *v. a.* cyfeirio, cyfarwyddo, hyfforddi, hylwybro, llwybreiddio, cyfrwyddo, arfforddi, fforddio, dyrwyddo, fforddoli, fforddebu, cyfeiryd; dangos, dysgu, addysgu, cymmedru, tynwyddo; arwain, hwylio, tywyso, tywys; trefnu, llywio, llywodraethu, arddwyo, arlywio, llywiadu; cyfeirio at, gwynebu at, tueddu at; iawnu; nodi allan.

Direct my steps—hwylia *neu* llywodraetha fy ngherddediad.

To direct a letter—cyfarwyddo llythyr, cyfeirio llythyr, llwybreiddio llythyr.

To direct one's course — hwylio taith; hwylio cerddediad; hwylio ei daith; hwylio camrau; myned, cerdded; troi wyneb; cyfeirio; bod â'i wyneb.

To direct one to another—cyfarwyddo, tynwyddo, *neu* gyfeirio un at arall.

Directing point—cyfeirbwynt, cyfeirbwnc.

Direct, *s.* cyfeirnod, hyfforddeb, cyrchnod, cyrch.

Directer, *s.*=*Director.*

Direction, *s.* (Ll. *directio*) cyfeiriad, cyfarwyddiad, hyfforddiad, hyfforddiant, cyfarwyddyd, cyfarwyddawd, llwybreiddiad, llwybreiddiaeth, cyfrwyddiad, fforddeb, hyfforddeb; llwrw, ffordd, hynt, hwyl, rhedfa, rhawd, uniongyrch, unionred; trefniad, trefnid, arddwy, arddwyad, trefn, llywiad, llywodraeth, llywiadaeth, llywiodraeth, tywysiad, arlywiad, trinlad, triniaeth; gweinyddiaeth, gweinidogaeth, arolygiad, arweinid; arch, gorchymyn; rheoledd, rheoleiddrwydd; cyfarwyddwyr.

Line of direction—llinell cyfeiriad, llinell y cyfeiriad, cyfeirlin.

Angle of direction—cyfeirongl, ongl gyfeiriol, elin cyfeiriad.

In the direction of—yn llwrw, llwrw; yn nghyfeiriad; yn wysg; ar gyfer, mewn cyfeiriad; tua, tuag, tuag at; gerag.

For the better direction of those who—er manylach gyfarwyddo y rhai a —.

According to the express directions of the rubric—yn ol hyfforddiadau pendant y rhuddell; yn unol â hyfforddiadau neilltuol y gyfeireb.

Directive, *a.* hyfforddiadol, hyfforddiannol, hyfforddol, cyfarwyddol; hyfforddi, cyfarwydd; yn hyfforddi, yn cyfarwyddo, yn cyfeirio, yn hylwybro; cyfeiriol, cyfeiriadol; darlywiol, llywiadol, llywiedyddol.

Directive power of a magnet—gallu cyfeiriadol ehedfaen; pegynduedd ehedfaen; pegyndyniad tryfaen.

Directive force—grym cyfeiriadol.

Directly, *ad.* yn union, yn uniawn, yn gyfeirlol, &c.; yn ddïoed, yn ddïannod, yn ddïattreg, yn chwipyn, chwip, chwap, chwaff, yn chwepyn, toc; ar lwrw, ar gyfer; yn ddigyfrwng, yn uniongyrchol; yn syth, yn unionsyth; mewn mynyd.

Go directly—dos yn union, &c.; dos ar hynt.

Directly before *or* against—ar gyfer, ar gyferyd, cyfarwyneb, cyferyd, yn nghyferyd; yn union o flaen.

Directly opposite to—yn gwbl groes *neu* wrthwyneb i; yn llwyr groes *neu* wrthwyneb i.

Neither directly or indirectly — nac yn amlwg nac ar amnaid; nac yn gam nac yn uniawn; nac ar hyd nac ar draws; nac ar hyd nac ar groes.

Directness, *s.* unionder, uniondra, uniondeb, unionrwydd, unionedd, cyfeirioldeb, cymhwysder, cymhwysdra, addasrwydd, &c.

Director, *s.* (Ll.) cyfarwyddwr, hyfforddwr, cyfarwyddydd, cyfarwyddor, cyfarwyddur, hyfforddydd, cyfeiriwr, cyfeirydd, fforddoliad, cyfarweddiad; llywiadur, llywiadur, arlyw, llywiedydd, ardwyad, llywydd, trefnwr, rhiolydd, rheolydd, rheolwr, triniwr, triniwr, trinydd, triniedydd, trefnidydd, muner, arolygydd, gorchwylydd, goruchwyliwr, llyw, blaenor; addysgwr, cynghorwr; rhwysfadur; â gyfarwyddo; cyfarwyddai, cyfarwyddyr; gosodiad, penodiad.

Director (in surgery)—cyfarwyddyr, cyfarwyddai, profyr cyfarwyddol.

Director of a bank — gorchwylydd, gorchwyliwr, cyfarwyddwr, *neu* drefnidydd ariandy.

Directorial, *a.* cyfarwyddol, hyfforddol, hyfforddiadol, hyffordd; llywedyddol, llywiadurol, trefnidyddol; yn cyfarwyddo, yn hyfforddi, yn gorchymyn, yn erchi; â gyfarwyddo; perthynol i gyfarwyddwyr *neu* i gyfarwyddiad.

Directorship, *s.* llywiedyddiaeth, llywedyddiaeth, hyfforddiaeth, llywodraeth.

Directory, *a.* cyfarwyddol, hyfforddol, hyfforddiadol, hyfforddiannol, cyfarwyddiadol; gorchymynol, archiadol; yn gorchymyn, yn erchi; â orchymyno, â archo, â gyfarwyddo; yn cynnwys cyfarwyddiad *neu* orchymyn; hyffordd, cyfarwydd; arlywodol.

Directory, *s.* cyfarwyddor, hyfforddiadur, hyfforddwr, hyfforddydd, cyfarwyddydd, arweinydd, cyfarwyddur, cyfeiriadur, cyfeirlyfr, hyfforddeg; cyfarwyddiaeth, arlywiaeth; cyfarwyddfa, llywiadfa, llywgor, llywodgor, bwrdd cyfarwyddwyr; cyfarwyddwyr.

The Bible is our best directory—y Beibl yw ein cyfarwyddor *neu* hyfforddydd goreu; y Beibl yw ein cyfeiriadur goraf.

The French directory—y llywgor Ffrengig; yr arlywiaeth Ffreinig; y gyfarwyddiaeth Ffreinig=gallu gweinyddol y Weriniaeth Ffrengig yn 1795-6.

Directress, } *s.* cyfarwyddes, hyfforddes, llyw-
Directrix, } adures, llywiadures, llywiedyddes, llywedyddes, llywiodres, cyfeires.

Direful, *a.* (*dire* a *full*) erchyll, echryslawn, echrys, dychrynllyd, aruthr, aruthrol, engur, enguriol, engyrth, ofnadwy, arswydus, arswydlawn, uthr, hyll, erch, anaele, irad, girad, aethus, echrydus, oethiu, iradus; trychinebus, trwch, truenus, adfydig; creulawn, ysgeler, ffyrnig, dywal, dysgyfrith, didrugaredd.

Direfulness, } *s.* erchylldod, erchylldra, erchyll-
Direness, } rwydd, echryslonedd, echryslonrwydd, echryslondeb, echryslonder, echrysder, aruthroldeb, aruthredd, engurioldeb, enguriolaeth, hyllder, hylldra, hyllidod, iraddedd, &c.

Dire-looking, *a.* erchyllwedd, echryswedd, hylldremiol; echryslawn ei olwg, &c.

Diremption, *s.* (Ll. *diremptio*) gwahaniad, dyddoliad, neilltuad.

Direption, *s.* (Ll. *direptio*) anrheithiad, ysbeiliad, ysglyfiad, ysgylfiad; trais, cribddail, ysgwlf.

Dirge, *s.* (o'r Ll. *dirige*) galarnad, galargan, galargerdd, marwnad, marnad, galareb, galardon, galarwawd, alaetheg, alaeth, galaeth.

Dirigent, } *s.* (Ll. *dirigo*) cyfeirell, hyfforddell.

Diretrix, } ell, llinell hyfforddol.

Dirigent, *a.* (Ll. *dirigo*) hyfforddiadol, hyfforddiannol, hyfforddol, cyfarwyddol, cyfeiriol.

Dirk, *s.* (Ysg. *durk*) dager, dagyr, dagr, bidog, corgleid.

Dirk,† *a.* tywyll.

Dirk,† *v. a.* tywyllu; gwanu, brathu, bidogi.

Dirt, *s.* (S. *gedritan*; Is. *dryten*; Isl. *drit*) baw, tom, dom, llaca, llaid, cag, llwtra, plwca, aul, llytrod, llibystr, swl; clai, pridd, priddglai; tail, tomdail; †salwedd, brynti.

Dirt-bed of Portland—tom-wely Portland.

Dirt colour—lliw baw, lliw bawlyd, lliw y baw; lliw tywyll.

Dirt, *v. a.* diwyno, bryntäu, llytrodi, tomi, budreddu, budrhau, lleidio, tomlydu, budro, budru; gorchuddio, diwyno, *neu* ddwbio â baw; llychwino; teilo.

Dirtily, *ad.* yn fawlyd, yn fawaidd, &c.

Dirtiness, *s.* bawlydrwydd, baweiddrwydd, baweidd-dra, budredd, budreddi, brynti, afiendid, tomlydrwydd; gwaeledd, distadledd, salwedd, crintachrwydd, ffieidd-dra, bawedi.

Dirty, *a.* bawaidd, bawlyd, brwnt, (*f.* bront), budr, budrog, tomlyd, llawn tom, llawn baw, diwynedig, tomog, lleidiog, llibystrus, afiaa, ffiaidd, swga, afiwys, afloew; gwael, sal, salw, iselwael, diffaeth, gwarthus, cywilyddus, disas, crintach, dirmygus, isel, cas, dybryd; tywyll, caddugol.

A dirty fellow—bawddyn, bawai, bawyn, swlyn, adill; adyn brwnt, bawaidd, *neu* fawlyd; yslyfiyn, swgyn, budryn, llyfiyn.

A dirty woman—dynes front, fudr, soga, fawlyd, swga, *neu* lyfi; bronten, budren, budrogen, budrog, llaesen, swgan, dwgan, yslwtren, ysglyfien, llyfien, yslebren, yslebog o ddynes, swlen, hafrog, hafren, hafr, dyhiren, dyhirog.

A dirty action—gweithred front *neu* annhelediw; tro brwnt, tro cas; gweithred gas, wael, fawaidd, *neu* fawlyd.

To grow dirty—myned yn frwnt, &c.; bryntäu, llytrodi, lleidio, &c.

To make dirty=*Dirty*, *v. a.*

Dirty, *v. a.* diwyno, bryntäu, budro, budru, budreddu, budrhau, llytrodi, tomi, tomlydio, tomlydu, afianhau, lleidio; difwyno, halogi, anurddo, gwaradwyddo, gwarthruddo.

Diruption, *s.* (Ll. *diruptio*) ymwahaniad, ymdoriad, ymrwygiad, rhwygiad.

Dis, (Ll.) rhagddawd anesgarol, yn dynodi *an-, di-, dis-, dud-; ymraniad, ymwahaniad, ymadawiad oddi wrth.*

Disability, *s.* (o *disable*) anallu, analluogrwydd, analluedd, diffyg gallu; analluoldeb, dïalluedd, dïalluogrwydd, dïalluoldeb, gwendid, gwander, gwandra, anaddasrwydd; anach.

Disable, *v. a.* (*dis* ac *able*) analluogi; anaddasu, anghymhwyso, anghyfaddasu; gwneuthur yn analluog, yn anghymhwys, *neu* yn anaddas; gwanhau, gwanychu, dirymio, dirymu; lluddio, rhwystro; efryddu; dwyn *neu* beri gwendid *neu* anallu; gwneuthur aelod *neu* aelodau yn ddifudd *neu* ddiffrwyth; dwyn nerth *neu* rym aelod; diffrwytho, anmharu.

Disabled, *p. p.* analluog; efrydd, brydd; diffrwyth ei aelodau; llesg gàn archollion; gwanychedig, &c.; difudd, diffrwyth.

Disablement, *s.* anallu, analluogrwydd, analluedd, analluoldeb, dïalluedd, dïalluogrwydd, diffyg gallu; gwendid, gwander, gwandra, gwanhad; anach.

Disabling, *a.* analluol, analluogol, dïalluol, dadalluogol, dadalluol; efryddol; anaddasol; gwanychol, diffrwythol; â fo yn analluogi; anachol.

Disabuse, *v. a.* (Ff. *désabuser*) didwyllo, dattwyllo; rhyddhau o gamgymmeriad *neu* gamsyniad; dangos i un ei gamsyniad *neu* gamgymmeriad; gosod un yn *neu* ar yr iawn; gosod un ar y gwir; agor llygaid un; dwyn un allan o'i amryfusedd; iawnu, dadsomi, disomi, ddatddallu.

To disabuse one's self—ymryddhau o gamsyniad, &c.; ymddidwyllo; didwyllo ei hunan; ymddihatru.

Disaccommodate, *v. a.* (*dis* ac *accommodate*) gwneuthur yn anghyfleus; peri anghyfleusdra i; anaddasu, anghymhwyso, ansutio, dïaddasu; taflu i anghyfleusder.

Disaccommodation, *s.* anghyfleusdra, anghyfleusder, anghyfleusdod, anghyfleusrwydd, anhwylusdod; anmharodrwydd, anghymhwysder, anaddasrwydd.

Disaccord,† *v. a.* anghytuno, anghydsynio.

Disaccustom, *v. a.* dadarferu, dadarfer, dadarferyd, anarferu, dadgynnefino; esgeuluso arfer *neu* ddefod.

Disacknowledge, *v. a.* gwadu, anaddef, anghyfaddef; dïarddelwi, gwrthod; peidio âg addef *neu* arddelwi.

Disacquaint, *v. a.* anghyfeillachu, anghyfeillio, anghynnefino; tori cyfeillach *neu* gydnabyddiaeth.

Disacquaintance, *s.* anghyfeillach, anghydnabyddiaeth, annabyddiaeth, anadnabyddiaeth.

Disadorn, *v. a.* anaddurno, dïaddurno, dadaddurno, anwychu, anharddu, aneirioni.

Disadvance,† *v. a.* rhwystro, lluddio, ystwyo; cloffi.

Disadvantage, *s.* (*dis* ac *advantage*; Ff. *désavantage*) anfantais, anghyfleusdra, anghyfleusder, anghyfleusdod; afles, colled, niwed, anghymmwynas, afiesrwydd, afiesiant, dilesiant, anfuddiant, anfudd.

Disadvantage of ground (in war)—anfantais, anghyfleusder, *neu* wrthwyneb tir.

Disadvantage, *v. a.* colledu, afiesu, afiesoli; niweidio, afiwyddo, rhwystro; gwneuthur anfantais, anghymmwynas, *neu* afles i; peri afles i; drygu, difanteisio; bod yn anfanteisiol i.

Disadvantageable,† *a.* anfanteisiol.

Disadvantageous, *a.* anfanteisiol, difantais, anfanteisiog, afiesol, anfuddiol; anghyfaddas, anghymhwys, anghyfleus; colledus, niweidiol; diles, anghymmwynasol, difwyniant.

Disadvantageousness, *s.* anghyfleusdra, anghyfleusder, afiesoldeb, afiesolder, afiesolrwydd, anfanteisioldeb, anfuddioldeb, afiesiant, dilesiant; anfantais, anghymhwysder; colled, niwed.

Disadventure,† *s.* anffawd, afiwydd, anhap, damwaen, dryglam, drwg ddamwaen.

Disadventurous,† *a.* afiwyddiannus, anffodus.

Disaffect, *v. a.* angharu, disgaru, diflasu, oeri, dyeithro, estroni; bod yn ddiserch i; casbau,

ffieiddio; peri anghariad, disgariad, *neu* ddiserchrwydd yn un tuag at arall; troi, tynu, *neu* ddwyn ymaith serchiadau un; diystyru, dirmygu, gwrthod, llysu; gwneuthur yn anfoddlawn *neu* anghyfeillgar; gwneuthur yn llai ffyddlawn i; annhrefnu, dyrysu.

Disaffected, *a.* drygwyllysiol, dryg-ewyllysiol, anfoddog, anfoddlawn, anfoddlon, angharedig, diserch; yn dwyn drwg ewyllys; yn dwyn drwg wyllys i; drwg ei ewyllys; yn gwyllysio yn ddrwg; yn dâl gwg *neu* gilwg ar; heb ewyllys da i; cenfigenus, cynghorfynus, digus, maleisus; anghyfeillgar.

To render disaffected to—dwyn i ddiflasu ar.

A disaffected person—drygwyllysiwr, drygewyllysiwr, drwg ewyllysiwr, gwyllysiwr drwg; dyn anfoddlawn *neu* anfoddog.

Disaffectedness, *s.* angharíad, disgariad, angharedigrwydd, diserchrwydd, anserch; drygwyllysioldeb, drygwyllysiolrwydd; anfoddogrwydd, anfoddlonrwydd, anfoddlondeb, anghywiredd, angharíadoldeb.

Disaffection, *s.* angharíad, disgariad, anserch, angharedigrwydd, anfoddlonedd, anfoddlonrwydd, diflasdod, anhoffder, casineb, drygwyllys, dryg-ewyllys, cilwg, malais, cynddrygedd; anffyddlondeb, diffyg ffyddlondeb, annheyrngarwch; diffyg *neu* eisieu serch; diffyg ewyllys da; annhrefn; drygnawa, anniwyg.

Disaffectionate, *a.* angharedig, diserch, anserchog, drygwyllysiol, anfoddlawn, anfoddog, anghyfeillgar; drwg ei ewyllys; yn gwyllysio yn ddrwg.

Disaffirm, *v. a.* gwadu, nagu, nacâu, gwrthddywedyd; dirymu, dirymio, diddymu, anghadarnhau.

Disaffirmance, *s.* gwad, gwadiad, ymwad, nag, nacâd, pall, negyfiaeth, gomedd; gwrthbrawf, disbrawf, dadbrawf, disbrofiad; dirymiad, diddymiad, anghadarnhad.

Disafforest, *v. a.* dadbrysori, digoedwigo, dadgoedwigo, dadfforestu, difforestu; troi o fod yn goedwig; difuddiaw o freintiau coedwig.

Disaggregate, *v. a.* dattyru, dadgyttyru, dadgynnull, dadgrynöi, diwraddu; gwahanu cruglwyth i'w ranau cyfansoddol.

Disaggregation, *s.* dattyriad, dadgyngread, dadgyngreawd, dadgyttyriad, dadgynnulliad, dadgryniad, diwraddiad; gwahaniad *neu* ddydoliad cruglwyth.

Disagree, *v. n.* anghytuno, anghyduno, anghydsynio, anghymmodi, anghymmod, anymgydfod, amrafaelio, ymrafaelio, anghordio, anghydgordio, anghydweddu, anghysoni, croesi; bod â rhagor rhyngddo; bod heb gyttaraw; tybio y gwrthwyneb; tybied i'r gwrthwyneb; bod o dyb arall *neu* amgen; bod yn anghyffelyb, yn anghysson, *neu* yn wrthwyneb.

Disagreeable, *a.* anhyfryd; anghytunol, anghytun, anghytûn, anghydfyddus, anghydgordiol, anghydweddus, anghyngweddus, anghydweddol; anymgymmod; diflas, anflasus, cas, annymunol; anghymmeradwy; amrafaelus, anghyfun, anghysson; anaddas, anghymmesur, anghymhwys; anghyfatebol; anmheraidd, anfelus; anhawddgar.

Extremely disagreeable—anhyfryd iawn, trachas, gorgas, cas iawn, &c.

Disagreeable hue—casiur, casliw, lliw cas.

Disagreeableness, *s.* anhyfrydwch, anhyfrydedd; annymunoldeb; anghytunolrwydd, &c.; diflasrwydd, diflasdod; aflonder, annigrifwch; casineb.

Disagreeableness of temper—gwrthnawa, tymmer gas.

Disagreement, *s.* anghytundeb, anundeb, anghyfundeb, anunoldeb, anghordiad, anghydfod, anghyssondeb, anghydfyddiaeth, anysgymmod, anghymmodlonedd, amrafael, ymryson; gwahaniaeth, amrywiaeth; amryfarn, amrydyb; anghydsyniad; annhebygrwydd, annhebygolrwydd; anaddasrwydd, anghyfaddasdeb.

Disalliege,† *v. a.* (*o liege*) anffyddloni.

Disallow, *v. a.* pallu caniatâu; llysu, gwrthod, gwrthneu, anghymmeradwyo, anoddef, anaddef; cwlio; anfoddloni mewn peth; collfarnu, beio ar, condemnio, dyfarnu, ceryddu; gomedd ei gydsyniad; gwrthod cydsynio; gwarafun.

I disallow this—nid yw foddlawn genyf hyn.

Disallowable, *a.* anghaniataol, anoddefol, anoddefadwy, llysadwy.

Disallowance, *s.* anghaniatâd, anghymmeradwyaeth, llysiant, gwrthodiad, anaddefiad, gwaharddiad, gwahardd, gwardd, gwarafun, gwarafuniaeth.

Disally, *v. a.* anghynghreirio, anghydbleidio; cynghreirio *neu* gyfathrachu yn anmhriodol.

Disanchor, *v. a.* dadangori, dïangori; tynu yn rhydd oddi wrth angor.

Disangelical, *a.* anangelaidd, anangylaidd.

Disanimate, *v. a.* digaloni, gwangaloni, llyfrhau, anghalonogi; dïeneidio, lladd, dïenyddu.

Disanimation, *s.* digaloniad, gwangaloniad, llyfrhad, llyrfhad, anghalonogiad; dïeneidiad, lladdiad, dïenyddiad; marwolaeth.

Disannex, *v. a.* dydoli, gwahanu, anghysylltu, daduno, anghyfuno.

Disannul,† *v. a.*=*Annul.*

Disanoint, *v. a.* dadeneinio, dïeneinio.

Disapparel, *v. a.* dadwisgo, dihatru, diwisgo, diddilladu.

Disappear, *v. n.* diflanu, diflannu, difanu, dysmythu, dadymddangos, dismanu; edwi, difancolli; diflanu *neu* ymgiliaw o'r golwg; peidio; peidio âg ymddangos.

Disappearance, } *s.* diflaniad, diflanniad, di-
Disappearing, } fiant, difaniad, dysmythiad, dadymddangosiad.

Disappoint, *v. a.* somi, siomi, twyllo, seithugio; tori addewid, twyllo dysgwyliad; peri seithug i; dïebrydu; diddymu amcanion.

To disappoint slightly—llesgomi, gosomi.

I have been disappointed of provisions—somwyd fi am osymmaith.

He disappointeth the devices of the crafty—efe sydd yn diddymu amcanion y cyfrwys.

Without counsel purposes are disappointed—ofer fydd bwriadau lle ni byddo cynghor.

Disappointed, *p. p.* somedig, &c.; seithug.

Disappointment, *s.* som, somediaeth, somiant, somiad, somedd, siom, siomediaeth, siomiant, siomiad, seithugiaeth, seithugrwydd, seithugiant, twyll, twyllofaint, diebryd, malc, methdaith; diddymiad amcan; anhap; pall cynllun.

Slight disappointment — lledsom, gosom, somedigaeth fechan, ychydig somiant.
Guilty of a disappointment — dïebrydig, dïebredig.

Disappreciate, *v. a.* dibrisio, tanbrisio, bychanu, anmhrisio, anwerthfawrogi.

Disapprobation, *s.* anghymmeradwyaeth, anghymmeradwyad, anfoddlongarwch, anfoddlonrwydd, anfoddlondeb, anfoddlonedd; anghymmodlonedd, pall; anfoddloniad, annerbyniad, llysiant; bai, cerydd; anhoffder.

Disapprobatory, *a.* anghymmeradwyol, anghymmerol.

Disappropriate, *a.* anmhriodoledig, annaerodedig, dydoledig; heb ei briodoli; heb ei ddaerodi.

Disappropriate, *v. a.* anmhriodoli, annaerodi, dydoli, gwahanu; difuddiaw o feddiant priodoledig.

Disapproval, *s.* = *Disapprobation.*

Disapprove, *v. a.* anghymmeradwyo; bod yn anfoddlawn i; bod heb ymfoddloni mewn; anghanmawl, llysu, gwrthod; bwrw ymaith megys anghymmeradwy.

Disard,† *s.* (S. *dysig*) baldorddwr, bocsachwr, ofer siaradwr.

Disarm, *v. a.* (*dis* ac *arm*; Ff. *désarmer*) dïarfogi, dadarfogi, dïarfu, dadarfu; dïosg o'i arfau; dihatru, dïosg; rhoddi *neu* ddodi ei arfau i lawr; darostwng, gorthrechu.

Disarmament, *s.* dïarfogiad, dïarfiad, anarfogiad, dadarfiad, dadarfogiad.

Disarmed, *p. p.* dïarfedig, &c.; anarfog, dïarfog, dïarf, dïarfau, dadarfog.

Disarrange, *v. a.* annhrefnu, ansefydlu, aflonyddu, dadsefydlu, dadrestru, didwyo.

Disarrangement, *s.* annhrefn, terfysg, afreol, afreoledd, afreolaeth, didrefnedd; annhrefniad, aflonyddiad.

Disarray, *v. a.* dadwisgo, dihatru, diwisgo, anhatru, diddilladu, dïosg, dihwylo; anaddurno, annhrefnu, dattrefnu, didwyo, anghyfrestru, anghyfrencio, dymchwelyd, terfysgu, tarfu, rhawtio; taflu i annhrefn.
To disarray an army—annhrefnu, anghyfrestru, anghyfrencio, rhawtio, *neu* darfu byddin.

Disarray, *s.* adwisg, dadwisg, anwisg, lledwisg, dattrws; anaddurn; annhrefn, terfysg, dyfysgi, cymmysgedd, annybendod, trabludd; anaddurniad, annhrefniad.

Disassiduity,† *s.* annyfalwch, anniwydrwydd, diffyg gofal.

Disassociate, *v. a.* anghyssylltu, daduno, dadgyssylltu, anuno, gwahanu.

Disaster, *s.* (Ff. *désastre*; It. *desastro*) trychineb, anffawd, aflwydd, anhap, annawn, trychni, dryglam, trychlam, drwg ddamwaen, drwg ddygwydd, drwg ddychwaen, drwg dynged, adwyth, echrys;† malldod planed drom.

Disaster, *v. a.* taraw â mellni planed annedwydd; mallu, planed-fallu; drygu, aflwyddo, cystuddio, blino.

Disastrous, *a.* trychinebus, anffodus, anffodiog, trwch, (*f.* troch), trwstan, annedwydd, anhapus, aflwyddiannus, adwythig; adfydig, anfydus, trallodus, gofidus, helbulus; ansiriol, cethin, gwrm, gwyll, tywyll.

Disastrousness, *s.* anffoduserwydd, anffodiogrwydd, trychni, adwythigrwydd, adfydigrwydd, ansirioldeb, &c.

Disauthorize, *v. a.* anawdurdodi, dïawdurdodi; difuddiaw o goel *neu* awdurdod; cymmeryd ymaith *neu* ddystrywio awdurdod.

Disavouch, *v. a.* gwadu, dïarddelwi, dïarddel; tynu *neu* alw yn ol; gomedd, llysu, nacäu, pallu.

Disavow, *v. a.* gwadu, ymwadu â; dïarddelwi, dïarddel, dïarddelw, pallu; gomedd, *neu* wrthod ymarddelw o beth; ymddywadu â; anaddef, anghyfaddef, gwrthod, llysu, pallu, gomedd, nacäu; dywedyd *neu* haeru nas edwyn efe rywun; dywedyd *neu* haeru nas gwyr efe oddi wrth rywbeth; bwrw ymaith oddi wrth *neu* oddi arno; bod heb ymfoddloni mewn peth.

Disavowal, } *s.* gwad, gwadiad, ymwad, ym-
Disavowment, } wadiad, ymwrthodiad; anaddefiad, anghyfaddefiad; haeriad nas edwyn efe rywun, &c.

Disband, *v.* difyddino, dadfyddino, dattod byddin, diswyddo milwyr; diswyddo; dadrwymo, gwahanu, dydoli, tori cyssylltiad, tori i fyny; gwasgaru, gwasgar; gollwng, gellwng, *neu* anfon ymaith; ymwasgaru, ymranu, ymddydoli, ymwahanu, ymddifyddino; ymadael â'u gilydd; myned bob un i'w fân *neu* i'w fangre.

Disbark, *v. a.* tirio, glanio, dadlongi; dirisgo, dirisglo; pilio y rhisg ymaith.

Disbelief, *s.* anghrediniaeth, anghred, anghoel, anghrededd, gwangred; anhyder, anymddiried, anffyddiad.

Disbelieve, *v. a.* anghredu, anghoelio, anffyddio; pallu credu *neu* goelio; anymddiried, anhyderu, gwanffyddio, gwangredu.

Disbeliever, *s.* anghredwr, anghredydd, anghredadyn, anghrediniwr, anffyddiwr, anghoeliwr, anghoelydd.

Disbelieving, *p.* anghrediniol, digred, anghredol, anghredadin.

Disbench, *v. a.* diseddu, dadseddu, difeincio.

Disblame,† *v. a.* difeio, dïeuogi.

Disbodied, *a.* anghorffedig; dïosgedig o'r corff.

Disbowel, *v. a.* diberfeddu, dadberfeddu; tynu allan yr ymysgaroedd.

Disbranch, *v. a.* dadgangenu, dadgangu, digangu, dïosgli, dadosgli.

Disbud, *v. a.* difiaguro, dadfywullu, difywullu, dadfiaguro.

Disbudding, *s.* difywulliad, dadfywulliad, dadfiaguriad.

Disburden, } *v.* difeichio, dadfeichio, dilwytho,
Disburthen, } dadlwytho, dadbynio; ysgafnhau, esmwytho, esmwythäu, hawshau, digaethiwo, rhyddhau.

Disburse, *v. a.* (Ff. *débourser*; o *de* neu *dis* a *bourse*) talu arian; talu *neu* osod arian allan; treulio, gwario, costio, costi; talu allan, talu i maes; dibyrsu, dadbyrsu.

Disbursement, *s.* (Ff. *déboursement*) taliad, taliad arian; gosodiad *neu* daliad arian allan; taliad allan; traul, cost; talawd, dibyrsiad, dadbyrsiad, talment.

Disburser, *s.* talwr arian, talwr, talawdr, talmentwr, treuliwr, gwariwr, dibyrswr, dibyrsydd.

Disc, } *s.* (Gr. *discos*; Ll. *discus*) gwyneb (yr
Disk, } haul *neu* y lloer); wyneb, clawrwyneb, clawr, ffriw, gweb; lled.

Discalceate, *v. a.* (Ll. *discalceatus*) dïarchenu, dïesgidio, dadarchenu; tynu ymaith yr esgidiau *neu* y sandalau.

Discalceated, *p. p.* dïarchen, dïarchenog, dïesgidiau, troednoeth.
Discalceation, *s.* dïarcheniad, dïesgidiad, dadarcheniad.
Discandy, *v. a.* toddi, dadmer, dadleithio.
Discard, *v. a.* (*dis* a *card ;* Ysp. a Port. *descartar*) diswyddo ; troi *neu* fwrw allan o swydd; troi ymaith *neu* ffwrdd; llysu, gwrthod, bwrw heibio ; talu ymaith ; dïarddelwi, dïarddelw; digaru ; digardio ; bwrw ymaith *neu* allan y cardiau anfuddiolaf.
Discarnate, *a.* (Ll. *dis* a *caro*) anghnawdiedig, dignawdiog, dignawd.
Discase, *v. a.* dïorchuddio, dadorchuddio, dilenu, dïamlenu, dïosg, digaesu, dadwisgo, diwisgo, dihatru, noethi, dynoethi, dyasg.
Disceptation, *s.* (Ll. *disceptatio*) dadl, ymddadl, dadleu, ymddadleu, dadleuaeth, dadlwriaeth, ymresymiad.
Deceptator,† *s.* cylafareddwr, dyddiwr, penderfynwr.
Discern, *v.* (Ll. *discerno*) canfod, dirnad, dirnadu, deall, gweled, iawn ganfod ; gwybod ; barnu, iawn farnu ; gwahanu, dosbarthu, gwahaniaethu ; gwahanu, barnu, dosbarthu, *neu* wahaniaethu rhwng; ymwybod drwyddo ; adnabod ; dàl sylw ; adnabod yn mysg *neu* oddi wrth ereill ; gwybod, gweled, *neu* ddeall rhagor, rhagoriaeth, *neu* wahaniaeth rhwng pethau ; dadguddio, darganfod, cael allan.
Easy to be discerned—hawdd ei ganfod, ei ddeall, *neu* ei ddirnad ; hywel, amlwg ; hyddeall.
Discerner, *s.* canfodydd, canfodwr, canfyddwr, dirnadydd, barnwr, barnydd, &c.; à genfydd, à wel, &c.
Discernible, *a.* dirnadwy, dirnadadwy, canfyddadwy, dealladwy, canfodadwy, gweladwy, gwahaniaethadwy ; hywel, amlwg ; à ellir ei ganfod, ei ddeall, *neu* ei ddirnad, &c.
Discernibleness, *s.* hyweledd, amlygrwydd, amlygder, amlygedd, canfodoldeb.
Discerning, *a.* craffus, craff, deallus, gwybodus, deallgar, synwyrol, treiddiol, treiddgraff, deallgraff, synwyrgraff ; craff ei olwg ; llygadgraff ; yn canfod y cwbl ; à genfydd y cwbl ; synwyrlym, synwyrgall, edlym, parodbwyll, doeth, call ; yn canfod *neu* à genfydd y gwahaniaeth ; craff ei ddeall, &c.
Discernment, } *s.* dirnadaeth, dirnad, deall,
Discerning, } craffder, craffineb ; craffder *neu* gyflymder deall ; amgyffred, dealltwriaeth, barn ; dirnadiad, dealliad, treiddiad ; y gallu i farnu pethau ; y gallu i wahaniaethu rhwng pethau ; gwybodaeth gwahaniaeth rhwng pethau ; pwyll gwahan ; gwahanedigaeth ; treiddgarwch.
Discerp,† *v. a.* (Ll. *discerpo*) llarpio, rhwygo, tori ; gwahanu, dydoli.
Discerpibility, } *s.* hyrwygedd, hylarpedd, dy-
Discerptibility, } doledd ; bod yn agored i gael ei larpio, &c.
Discerpible, } *a.* hylarp, hyrwyg, llarpiadwy,
Discerptible, } rhwygadwy; gwahanadwy, dydoladwy ; hydor, hyfriw.
Discerption, *s.* llarpiad, rhwygiad ; gwahaniad, dydoliad ; toriad ; dadgyfansoddiad ; tyniad yn ddarnau.
Discession,† *s.* (Ll. *discessio*) ymadawiad.
Discharge, *v.* (Ff. *décharger ;* Ysp. *descargar ; dis* a *charge*) dilwytho, dadlwytho ; gollwng, rhyddhau, gellwng ; gollwng, anfon, *neu* ddanfon ymaith ; cenadu ymadael ; caniatäu myned ymaith ; rhoi cenad i ymadael ; rhoddi cenad i fyned ymaith ; gollwng yn rhydd ; gollwng allan ; difeichio, dadfeichio ; diswyddo ; talu, diddyledu ; cyflawnu, gwneuthur, gwneyd ; ymdywallt, ymarllwys, arllwys, tywallt ; tywallt *neu* fwrw allan ; ergydio, saethu, gollwng ergyd ; digaethiwo; anfon allan ; symmud ; dystrywio ; arianio; gwaghau ; peri *neu* wneuthur yn wag ; ymollwng, ymryddhau.
To discharge itself—ymarllwys, ymdywallt; rhedeg, llifo, *neu* ddylifo allan.
To discharge a debt—talu, talu dyled.
To discharge a reckoning — talu cyfrif, gildio, talu gild.
To discharge a duty—cyflawnu, gwneuthur, gwneyd, *neu* dalu dyledswydd ; gwasanaethu swydd yn ffyddlawn.
To discharge from office—diswyddo ; dïawdurdodi ; troi o *neu* allan o swydd.
To discharge one's conscience—dilwytho, dadlwytho, dadfeichio, difeichio, *neu* ryddhau ei gydwybod; talu ei adduned.
To discharge of a crime — maddeu bai ; rhyddhau, gollwng, gollwng yn rhydd ; dïeuogi, glanhau, diheuro, cyflawnhau ; rhyddhau oddi wrth fai *neu* drosedd.
To discharge a gun — gollwng ergyd o ddryll ; saethu ; bwrw arfau.
To discharge a pledge—dadwystlo ; gollwng *neu* ryddhau gwystl.
To discharge a vow—talu, cwblhau, *neu* gyflawnu adduned.
To discharge one's stomach — cyfogi, chwydu ; arllwys ei gylla.
To discharge a ship—dilwytho *neu* ddadlwytho llong.
To discharge an obligation—ymryddhau o rwymedigaeth ; talu y pwyth.
I will cause them to be discharged there—yno y dattodaf hwynt (1 *Bren.* v. 9).
Discharge, *s.* dilwythiad, dadlwythiad ; rhyddhad, gollyngdod, gollyngiad, gollyngiad yn rhydd ; rhyddid, rhydd-did, rhydid, rhyddineb ; diswyddiad ; cenad i ymadael à swydd, à gorchwyl, *neu* à sefyllfa ; cenad *neu* ryddid i ymadael ; cenad i fyned ymaith ; gollyngiad *neu* anfoniad ymaith ; trwydded, braint ; taliad, tâl ; talnod, gollyngeb, derbyneb ; cyflawniad, gwneuthuriad ; pridwerth ; ergyd, ffrwydrad ; rhediad, llifad, dylifad, arllwysiad, tywalltiad, ymarllwysiad ; dyferlif, rhedlif ; crawn, gŵr, chwydredd ; gollyngfa, agorfa, twll ; twll, lle, *neu* ffordd y rhed peth allan drwyddo ; gollyngiad allan ; dïangfa.
Discharge (for money paid)—gollyngdod ; gollyngeb, derbyniad, talnod.
Discharge of debt—taliad dyled.
Discharge of duty—cyflawniad, gwneuthuriad, *neu* daliad dyledswydd ; gwasanaethiad swydd yn ffyddlawn.
Discharge of a gun—ergyd o ddryll ; gollyngiad ergyd o ddryll ; ergyd dryll, trwst dryll, ffrwydrad dryll.
Discharge of weapons—bwriad, taflad, ergydiad, *neu* chwyrnelliad arfau.
There is no discharge in that war—nid oes bwrw arfau yn y rhyfel hwnw (*Preg.* viii. 8).

Discharge of blood—gwaedlif, gwaedlin, gwaedling.

Discharger, *s.* rhyddhäwr, gollyngydd; gollyngwr *neu* anfonwr ymaith; taniwr; saethwr; cyweinyr.

Discharger (in electricity)—gollyngydd, cyweinyr.

Discharger of debt—talwr, talawdr, talmentwr, talwr dyled.

Dischurch, *v. a.* dadeglwyso, dïeglwyso; diffuddiaw o fod yn eglwys.

Discide,† *v. a.* (Ll. *discindo, discidi*) rhanu, gwahanu, tori, briwio.

Disciform, *a.* (Ll. *disciformis*) coetanaidd, coetenaidd; tebyg ei lun i goetan.

Discinct, *a.* (Ll. *discinctus*) anwregysog, diwregys; gwedi ei ddadwregysu; rhydd, llaes, llac, ysiac, dirwym; gwedi ei ollwng yn rhydd; esgeulus, diogswrth.

Discind,† *v. a.* (Ll. *discindo*) tori yn ddau; gwahanu, rhanu, tori.

Disciple, *s.* (Ll. *discipulus*) dysgybl; ysgoläig, ysgolor, dylynwr, dylynydd, canlynwr; athrylithgan: *f.* dysgybles.

There was at Joppa a certain disciple—yn Ioppa yr oedd rhyw ddysgybles (*Act.* ix. 36).

Disciple, *v. a.* addysgu, dysgu, dysgyblu; gwneuthur dysgybl o; †ceryddu.

Disciple all nations — dysgyblwch *neu* addysgwch yr holl genedloedd; gwnewch ddysgyblion o'r holl genedloedd.

Disciple-like, *a.* dysgyblaidd, fel dysgybl.

Discipleship, *s.* dysgybldod, dysgyblaeth, athrylithdod, ysgoleigiaeth; cyflwr *neu* ansawdd dysgybl.

Disciplinable, *a.* (Ll. *disciplinabilis*) dysgyblaadwy, dysgadwy, addysgadwy, athrylithgar, hyddysg, hydrin, llywodraethus; à ellir ei ddysgyblu;† hawdd ei ddysgu *neu* ei reoli; hawdd ei gadw dân ddysgyblaeth; †ceryddadwy, hygosb.

Disciplinableness, *s.* hyddysgedd, hyddysgybledd, athrylithgarwch, athrylithgaredd, y cyflwr o fod yn ddarostyngedig i ddysgyblaeth.

Disciplinants, *s. pl.* Dysgybliaid=plaid o benboethiaid.

Disciplinarian, *a.* (o *discipline*) dysgyblawl, dysgyblaethol; dysgyblaidd; perthynol i ddysgyblaeth; ceryddol.

Disciplinarian, *s.* dysgyblwr, dysgyblydd; dysgyblwr llym; à garo ddysgyblaeth, trefn, *neu* reolaeth; un hydrefn; coethyn.

Disciplinary, *a.* dysgyblawl, dysgyblaethol, dysgyblaidd, dysgiolin; perthynol i ddysgyblaeth; à berthyna i ddysgyblaeth.

Discipline, *s.* (Ll. *disciplina*) dysgyblaeth; rheolaeth; addysg, dysg, dysgeidiaeth, athawiaeth, ysgoleigdod, addysgiad; trefn, iawn drefn, tyn drefn, caeth drefn; cerydd, cystwy, cystwyaeth, cospaduriaeth, cyweiriad.

Disinthral, } digaethiwo, anghaethu, anghaethiwo, digaethu, esgaethu; rhyddhau o gaethiwed; rhyddhau.

Disinthrallment, } *s.* dadgaethiwad, rhyddhad,
Disinthralment, } gollyngdod; rhyddhad o gaethiwed *neu* gaethwasanaeth; anghaethiwed, anghaethder, gwaredred, esgaeth, esgaethiad.

Disinure, *v. a.* dïarferu, dadarferu, anarferu, anghynnefino.

Disinvite, *v. a.* dadwahodd.

Disinvolve, *v. a.* dadorchuddio, dïorchuddio, dynoethi, noethi, amlygu; dadblygu; dadddyrysu, diddyrysu, dinidro, dattod, rhyddhau.

Disjection, *s.* chwaliad, gwasgariad, dymchweliad.

Disjoin, *v. a.* daduno, dadgyssylltu, anghyssylltu, gwahanu, ysgaru, ysgar, dydoli, dadgydio, parthu, dosbarthu, anuno; tynu ar wahan; dadieuo.

Disjoint, *v.* dadgymmalu, anghymmalu, dadreddu; tynu y naill gymmal oddi wrth y llall; tynu bob yn gymmal; chwarthorio; dryllio yn aelodau; darnio, dryllio; tori yn ddarnau; gwahanu, rhanu, dosbarthu; ymddattod, ymagor, ymollwng, *neu* ymadael yn y cymmalau; ymwahanu; syrthio *neu* gwympo ar led.

Disjoint, } *a.* dadgymmaledig, anghymmal-
Disjointed, } edig, &c.; anghymmalus; anghyssylltedig, digyssylltiad, anghynglyn.

Disjointedness, *s.* anghyssylltiad, anghyssylltedd; anghymmalusrwydd; anghynglynedd.

Disjointly, *ad.* ar wahan, yn wahanol; bob yn gymmal.

Disjudication, *s.* (Ll. *dijudicatio*) barn, dedfryd, penderfyniad.

Disjunct, *a.* (Ll. *disjunctus*) dadgyssylltedig, anghyssylltedig, digysswllt, daduedig, daduol; gwahanol, gwahanedig, gwahanredol, dydoledig, dydol, ysgaredig, parthedig.

Disjunction, *s.* (Ll. *disjunctio*) dadgyssylltiad, anghyssylltiad, daduniad, dadgydiad, gwahaniad, ysgariad, parthiad, dydoliad, ymadawiad; dadundeb, anundeb, ysgariaeth, ysgar.

Disjunctive, *a.* (Ll. *disjunctivus*) gwahaniadol, dadgyssylltiol, anghyssylltiol, dadgydiadol, anghydiadol, gwahanol, ysgarol, esgarol, dadgyssylltiadol, anghyfieuol.

Disjunctive conjunction, } cyssylltiad gwa-
Disjunctive connective, } haniadol, &c.; gwahaniedyr.

Disjunctive, *s.* gwahaniedyr, dadgyssylltair; cyssylltiad gwahaniadol, anghydiadol, dadgydiadol, dadgyssylltiol, ysgarol, *neu* wahanol: *pl.* gwahaniadolion, &c.

Disjunctively, *ad.* yn wahaniadol, &c.; ar wahan, ar wahân, ar ddydol, yn ddigysswllt.

Disk, *s.* (Ll. *discus*; Gr. *discos*; S. *disc*) gwyneb (yr haul, y lloer, *neu* blaned); gwyneb blodeuyn; wyneb, clawr, clawr-wyneb, ffriw, gweb; coetan, coeten, taflrwy, llechen dafl.

The sun's disk—gwyneb yr haul, wyneb yr haul; gwyneb gweledig *neu* ymddangos-

iadol yr haul (fel yr ymddengys o'r ddaiar).
The earth's disk—gwyneb y ddaiar; wyneb gweledig *neu* ymddangosiadol y ddaiar (fel yr ymddengys o'r lleuad).

Diskindness, *s.* angharedigrwydd, anghymmwynas, anfwynder, anhynawsedd, annhynerwch, anserchogrwydd; tro drwg, twrn drwg, sarhad, niwed, eniwed, colled, drwg, asgen, adwyth, argywedd, cam.

Dislike, *s.* anhoffder, anhoffedd, dihoffedd, anfoddlonedd, anfoddlonrwydd, anfodd, anfoddhad; anghymmeradwyaeth, annhuedd, gwrthduedd; gwrthwyneb, gwrthwynebedd, gwrthwynebrwydd, gwrthwynebiad; casineb, cas, ffieiddiad, gogasineb, gwrthnaws, gwrthfryd, angharîad, anghar;† anghydfod.
To fall into dislike—syrthio i anmharch; myned allan o barch, o fri, o gymmeriad, *neu* o gymmeradwyaeth; myned i maes o barch, o fri, o gymmeriad, *neu* o gymmeradwyaeth; cael ei wrthod, ei anghanmawl, *neu* ei ddirmygu.

Dislike, *v. a.* anhoffi, angharu, anghymmeradwyo; cashau; peidio â hoffi; bod heb fod yn hoffi; diflasu ar.

Dislikeful,† *a.* anhoffus, cas.

Disliken, *v. a.* anghyffelybu, annhebygu; gwneuthur yn annhebyg *neu* anghyffelyb.

Dislikeness, *s.* annhebygolrwydd, anghyffelybrwydd, annhebygoliaeth, annhebygrwydd, annhebygoldeb, dihafalrwydd.

Disliker, *s.* anhoffwr, anhoffydd, anghymmeradwywr.

Dislimb, *v. a.* tynu bob yn aelod; dïaelodi, dadaelodi.

Dislimn,† *v. a.* dïardebu.

Dislocate, *v. a.* (*dis* a *locate*; Ll. *dis* a *locus*; Ff. *disloquer*) dadgymmalu, digymmalu, disgymmalu; dislëu; bwrw, taflu, rhoi, gosod, *neu* bel allan o'i le; symmud.

Dislocate, } *a.* disle; gwedi ei fwrw, ei daflu,
Dislocated, } ei roi, *neu* ei hel allan o'i le; dadgymmaledig, dadgymmalus, disgymmalus.

Dislocation, *s.* (o *dislocate*) dadgymmaliad, digymmaliad, disgymmaliad; dislead; bwriad, tafliad, rhoddiad, gosodiad, *neu* yriad allan o'i le.

Dislodge, *v.* dilochesu, didyo, dilettya; bwrw, gyru, *neu* wthio allan *neu* ymaith; gyru i gilio *neu* i ffoi; tarfu, cilgwthio; symmud o'i le; bwrw *neu* ddanfon allan; symmud, symmudo, mudo; symmud *neu* newid ei letty; newid *neu* symmud ei drigfa *neu* drigias.
To dislodge a cony—tarfu, cyffröi, cwnu, dilochesu, *neu* godi cwningen.
To dislodge a camp—symmud *neu* symmudo gwersyll; dadwersyllu.

Dislodgement, *s.* didyad, tarfiad, dilochesiad, symmudiad.

Disloyal, *a.* anffyddlawn, anghywir; annheyrngar, annheyrngarol; anffyddlawn i'w frenin; anghywir i'w frenin; bradog, bradus, bradwraidd, bradwrus, bradychus; anwadal; anufydd; anffyddlawn i gydwedd.

Disloyalty, *s.* anffyddlondeb, anffyddlonder, anffyddlonrwydd, anghywirdeb, annheyrngarwch, annheyrngaredd; bradwriaeth, brad; anffyddlondeb i'w frenin; †anwadalwch.

Dismal, *a.* (Ll. *dies malus*, yn ol y Dr. *Johnson*) erchyll, hyll, erch, cethin, echrydus, echrys, echryslawn; prudd, trist, athrist, tristlawn, galarus, aethus, alaethus, syn, ansiriol, anhylon, anghysurus; trychinebus, trwch, annedwydd, anhapus, anffodus, adfydig; tosturus, gresynol, truenus; tywyll, caddugol, gwyll, gwrm; ofnadwy, anguriol, dychrynllyd, arswydlawn, arswydus, irad, iradus.
Dismal scream — gwaedd erchyll, &c.; erchlais.

Dismalness, *s.* erchylldod, erchylldra, erchylldder, erchyllrwydd, echryslonrwydd, echryslonedd, hyllrwydd, hylldra, echrysder, &c.; arswyd, aeth; tywyllwch, caddug; tristwch.

Dismantle, *v. a.* difantellu; dïosg, dihatru, dihwylo, diwisgo; dynoethi, noethi; digaeru, dadgaeru, dadfurio; difeddu, difuddio; dystrywio, dinystro, *neu* ddinystrio caerau; dymchwelyd muriau amddiffyn; tori *neu* fwrw i lawr; gollwng yn rhydd; rhyddhau; dattaclu; digochli.
To dismantle a town—digaeru, dadgaeru, difurio, *neu* ddadfurio tref; dinystro *neu* ddystrywio caerau tref; dymchwelyd muriau amddiffyn tref; gwneuthur caerau tref yn gydwastad â'r llawr; tori *neu* fwrw tref i lawr; difantellu tref.
To dismantle a ship—dattaclu llong; dihatru llong.

Dismask, *v. a.* difygydu, dadfygydu; tynu mwgwd oddi ar; dynoethi, noethi, dïorchuddio, dadorchuddio, dadguddio, dadffugio, dadgelu.

Dismast, *v. a.* dihwylbrenu, dihwylieru; cario, dwyn, *neu* dori ymaith yr hwylbren.

Dismastment, *s.* dihwylbreniad; bod heb hwylbren *neu* hwyliar.

Dismay, *v. a.* (Ysp. *desmayar*) dychrynu, brawychu, ofni, hylldrawu, digaloni, llyfrhau, digalonogi, gwangaloni; rhoi, creu, *neu* beri braw yn *neu* mewn; peri i un ddelwi ac amliwio; cythruddo.
To be dismayed—ofni, arswydo, digaloni, llyfrhau; chwitho ar un; synu ar; tysmwyo ar un.

Dismay, *s.* braw, dychryn, ofn, arswyd, swyd, brâwch; hylldraw; digalondid, gwangalondid, anghalondid, llyrfder, llyfrdra, llyfrineb, llyfrder, gwangalonrwydd; tysmwy, cythrudd, synedigaeth.

Dismayed, *p. p.* dychrynedig, &c.; ofnog; digalon, llwfr, llwrf, sanedig, syn, lledfeddod.

Dismayedness,† *s.* dychryndod, ofnusrwydd.

Dismayful, *a.* ofnog, digalon, llwfr; llawn dychryn, braw, *neu* ofn.

Disme, } *s.* (Ff.) degwm; degfed; y ddegfed
Dime, } ran.

Dismember, *v. a.* tynu bob yn aelod; dïaelodi, dadaelodi; tori ymaith aelod *neu* ran; tori yn aelodau *neu* yn ddarnau; darnio, llarpio, dryllio, rhwygo, anafu, chwarthorio; rhwygo, dryllio *neu* dori yn ddarnau; tori ymaith; rhanu, gwahanu, parthu; tori y naill aelod oddi wrth y llall.

Dismembering, *s.* tyniad bob yn aelod; drylliad, anafiad.

Dismemberment, *s.* tyniad bob yn aelod; tyniad bob yn ddarn; dïaelodiad; darniad, drylliad, llarpiad, rhwygiad; rhaniad, parthiad, dosbarthiad, gwahaniad.

Dismettled, *a.* digalon, anarialus, anghalonog, dïysbryd.

Dismiss, *v. a.* (Ll. *dimissus, dimitto*) gollwng, anfon, danfon, troi, *neu* yru ymaith; rhyddhau, gollwng; gollwng yn rhydd; gollwng i fyned; rhoi cenad i ymadaw; caniatäu ymadael; maddeu; gadaw i ddïanc; darddanfon; rhoi yn rhydd; anfon, danfon; diswyddo, troi allan o swydd; anmharhau, disbarhau.

He dismissed ambassadors from the city—anfonodd genadau o'r ddinas.

Dismiss,† *s.*=*Dismission, Dismissal.*

Dismission, } *s.* (Ll. *dimissio*) gollyngiad
Dismissal, } ymaith, anfoniad ymaith, danfoniad ymaith, gollyngdod, gollyngiad, rhyddhad; cenad i ymadaw; anfoniad, danfoniad, darddanfoniad; maddeuant, maddeu; diswyddiad, troad allan o swydd; symmudiad.

Dismissive, *a.* gollyngol, gollyngiadol, gollyngedigol, gollyngdodol; yn gollwng ymaith; darddanfonol. [wystlo.

Dismortgage, *v. a.* dadwystlo, diwystlo, dadar-

Dismount, *v.* (*dis* a *mount*; Ff. *démonter*) disgyn, disgynu; dyfod i lawr; taraw, bwrw, *neu* dafiu i lawr oddi ar farch; disgyn un oddi ar ei farch; disgyn oddi ar farch; daddymchwelyd.

To dismount a canon—bwrw, taflu, ysgytio, dadymchwel, *neu* symmud cyflegr oddi ei drwyll *neu* gâr; disgyn magnel; dattrwyllo cyflegr.

Dismounting, *s.* dymchweliad, dadymchweliad; dattrwylliad; disgyniad; tafliad i lawr.

Dismaturalize, *v. a.* dadfreinioli, dadfreiniogi, difreinioli, difreiniogi, anghywladu, dadfrodori; gwneuthur yn estron *neu* alltud.

Dismatured, *a.* annaturiol, ananianol, dïanian; anhynaws.

Disobedience, *s.* anufydd-dod, anufyddhad, anufyddgarwch; anostyngeiddrwydd; cyndynrwydd, cildynrwydd, anhydynrwydd, gwrthnysigrwydd, ystyfnigrwydd, anwarogaeth, tynder; trosedd; anhyweddiad; afrywiogrwydd.

Disobedient, *a.* anufydd; anufyddgar; cyndyn, cildyn, cildynus, cildynog, cyndynog, anhydyn, gwrthnysig, ystyfnig, gwarayth, anhywedd, anhyweddus, anhywaith, tyn, syth, pengaled, gwargaled, anhydrin, afrywiog.

Disobey, *v. a.* anufyddhau, anufyddhau i; bod yn anufydd; bod yn anufydd i; gwrthladd, gwrthwynebu, gwrthryn; peidio âg ufyddhau; troseddu.

Disobligation, *s.* anfoddhad, anfoddineb; anghymmwynas, afrwymedigaeth, twrn drwg; trosedd, bai; casineb, cas.

Disobligatory, *a.* afrwymedigol, dadrwymedigol, afrwymiadol, afrwymol; rhyddhaol o rwymedigaeth.

Disoblige, *v. a.* anfoddhau, anfoddloni; ennill anfodd un; tynu arno ei hun anfodd, anfoddlonrwydd, *neu* gawdd un; digio, anfoddogi; gwneuthur yn erbyn; sarhau, drygu; troseddu yn erbyn; †afrwymedigo.

Disobligement, *s.* anfoddhad; ennilliad anfodd un; digiad, anfoddogiad; troseddiad.

Disobliger, *s.* anfoddlonwr, anfoddlonydd, digiwr, ennillydd anfodd.

Disobliging, *a.* anfwyn, diserch, anserchog, sur, anhynaws, anfoesgar, anfoesog, taiog, anghymmwynasgar; anghyweithas; anmharod ei gymmwynas; na wnelo dwrn da; sarhäus; tramgwyddus, blin, anhyfryd.

Disobligingness, *s.* anfwynder, diserchrwydd, anserchogrwydd, anghymmwynasgarwch, &c.

Disopinion, *s.* amryfarn, amrywiaeth barn, amrydyb.

Disorbed, *a.* (*dis* ac *orb*) disrodog, dadrodog, dadgylchlwybrog; gwedi ei dafiu allan o'i gylchlwybr *neu* gylchdro.

A star disorbed — seren wedi colli ei chylchdro; seren â dafiwyd allan o'i chylchlwybr; seren ddisrodog.

Disorder, *s.* annhrefn, annybendod, anghymhendod, afreoledd, afreolaeth, afreol, didrefnedd, annhrefnedd, annosbarth, anllywodraeth, aflywodraeth, dyfysgi, terfysg, cythrwfl, cynhwrf, cyffro, cymhelri, trabludd, annhrefnusrwydd, tryfysg, cymmysgedd, llanastr; anhwyl, anhwyldeb, anhwylder, clefyd, afiechyd, clefni, gwst, anmhwynt, selni, clefyd ysgafn.

Disorder of the mind—cythrudd, cythrwfl, terfysg, annhrefn, *neu* anhwyldeb y meddwl.

His looks discover the disorder of his mind — dengys ei wyneb gythrudd *neu* drallod ei feddwl; ni chel ei rudd gystudd ei galon; dengys ei rudd gythrudd ei galon.

To put into disorder=*Disorder, v. a.*

Disorder, *v. a.* annhrefnu, annybenu, anghymmoni; bwrw allan o drefn; cymmysgu, dyfysgu, tryfysgu, terfysgu, cythryblu, cythryblio, trallodi, cythruddo, cyffröi; bwrw blith draphlith; bwrw ben draphen; anhwylio; digyweirio, afionyddu; dadurddo.

To disorder one's self—dwyn afiechyd arno ei hun; taflu ei hun i afiechyd; rhoddi *neu* osod ei gorff mewn anhwyl drwy anghymmedroldeb; annhrefnu ei hun; annhrefnu ei gyfansoddiad; meddwi, brwysgo.

Disordered, *a.* annhrefnedig, &c.; annhrefnus, annybenu, didrefn, annosbarthus, annosbarthol; â fo mewn annhrefn; â fo blith draphlith; â fo ben draphen; plith dra chymmysg; cymmysg, dyfysgedig; anghryno; afreolaidd, afreolus, aflywodraethus, anllywodraethus, terfysgus, terfysglyd, penrydd; anhwylus, clefyca, lledglaf, claf. *sal.*

Disordered in mind — mewn cythrudd meddwl; cythruddedig, cythruddus, *neu* drallodus ei feddwl; hurt, lledfeddod; annhrefnus ei feddwl.

Disordered in one's senses—gorphwyllog, gorphwyllus, anmhwyllog, gwallgof, gwallgofus, lledfrydig; allan o'i bwyll; allan o'i gof.

Disorderedness, } *s.* annhrefnusrwydd, &c.; an-
Disorderliness, } nhrefn, cymmysgedd, dyfysgi, annybendod, afreoledd, afreolaeth, &c.

Disorderly, *a.* afreolus, afreolaidd, aflywodraethus, anllywodraethus, direol, digyfraith, penrydd; heb na rheol na threfn; heb na chyfraith na threfn; annhrefnus, didrefn; annyben, cymmysg, tryfysg; terfysgus, terfysglyd; trythyll, wttresgar, drygionus; drwg ei drefn; rhwystrus.

A disorderly house—annedd annhrefn; puteindy, trythylldy.

Disorderly, *ad.* yn afreolus, &c.; heb na rheol na threfn; heb na chyfraith na threfn; heb na rhaith na rheol; allan o drefn.

To walk disorderly—rhodio yn afreolus.

Disordinate, *a.* afreolaidd, afreolus, annhrefnus.

Disordinately, *ad.* yn afreolaidd, yn afreolus; yn anghymmedrol; yn ddrygionus.

Disorganization, *s.* dadgyfluniad, disgyfluniad, dattrefniad, dadgyweiriad, dadgyfansoddiad; dattrefn, dattrefniant, dadgyfluniodraeth.

Disorganize, *v. a.* dadgyflunio, disgyflunio, dadgyweirio, dattrefnu, dadwneuthur, dadwneyd, dadgyfansoddi, dadgyttrefnu.

Disorganizer, *s.* dadgyfluniwr, disgyfluniedydd, dadgyweiriwr, dattrefnydd.

Disorganizing, *a.* dadgyfluniol, dattrefnol, dadgyweiriol, dadwneuthurol.

Disown, *v. a.* gwadu, dïarddelwi, dïarddelw, dïarddel, gwrthod; ymwadu âg, ymwrthod â; pallu ymarddelwi o beth, â pheth, *neu* âg un; dihawlu; gwrthod *neu* ballu cyfaddef *neu* arddelwi; nacäu.

Disownment, *s.* gwadiad, gwad, ymwrthodiad, gwrthodiad, dïarddelwad.

Disoxidate, } *v. a.* dadegrido, dïegrido; di-
Disoxydate, } fuddiaw o ufelai; tynu ufelai allan o beth.

Disoxidation, } *s.* dadegridiad, dadegridiant;
Disoxydation, } tyniad ufelai allan o beth; difuddiad o egrid.

Disoxygenate, *v. a.* dadufelu, dadufeleio; difuddio *neu* ddifeddu o ufelai.

Disoxygenation, *s.* dadufeliad, dadufeleiad; difuddiad *neu* ddifeddiad o ufelai.

Dispace,† *v. n.* (Ll. *dis* a *patior*) rhodiaw o amgylch.

Dispair, *v. a.* (*dis* a *pair*) disbaru, dibaru, dadbaru, dadgyplu.

Dispand,† *v. a.* (Ll. *dispando*) taenu, lledu allan, arddangos, amledu.

Dispansion,† *s.* taeniad, lledïad, taeniad ar led, arddangosiad, amlediad.

Disparadised, *a.* (*dis* a *paradise*) symmudedig o wynfa; à symmudwyd o baradwys.

Disparage, *v. a.* (Norm. *desparager*) bychanu, dirmygu, tremygu, anmherchi, anmharchu, anfrïo, difrïo, dibrisio, dïelwi, dïystyru, gwaradwyddo, gwarthruddo, gwarthäu, goganu, hortio, cablu, difenwi, anghanmawl, anfoli, gofychanu, enllibio; trin yn ddïystyrllyd; anurddo, iselu, iselhau; ieuo yn anghymharus; priodi un isradd; anurddo drwy briodas.

Disparagement, *s.* gwarth, anfri, anurddas, gwaradwydd, gwarthrudd, anghlod, dïanrhydedd, anmharch, dirmyg, dibrisdod, bychandod; gogan, anghanmoliaeth, anfoliant, hort, enllib; anurddiad, iselhad, bychaniad; ieuad anghymharus.

Disparager, *s.* bychanydd, bychanwr, gwarthruddwr, gwaradwyddwr, dirmygydd, difrïwr, goganydd.

Disparate, *a.* (Ll. *disparata*) annhebyg, anghyffelyb, anghyfartal, anghymharus, anghyfaddas.

Disparates, *s. pl.* (Ll. *disparata*) annhebygion, annhebygolion, anghyffelybion; pethau anghyffelyb *neu* anghyfartal; pethau nas gellir eu cymharu.

Disparity, *s.* (Ff. *disparité*, o'r Ll. *dispar*) anghyfartaledd, anghyfartalwch, anghyfartalrwydd, anghyffelybrwydd, annhebygrwydd, annhebygolrwydd, anghymharedd, anmharusedd, anghyfathrwydd; afreoledd.

Dispark, *v. a.* dadbarcio, dibarcio, disbarcio; rhyddhau o barc *neu* geufaes; agoryd parc; gollwng yn rhydd; agoryd, agor, digaco.

Disparking, *s.* dadbarciad, disbarciad, dibarciad; agoriad parc; gollyngiad o geufaes.

Dispart, *v.* (*dis* a *part*; Ff. *départir*) gwahanu, rhanu, parthu, dybarthu, dysbarthu, dadgyssylltu, dydoli; rhwygo, tori, hollti, agor; ymagor, ymhollti.

Dispart, *s.* dysbarth=trwch mettel cyflegr neu faguel yn y geneu ac yn y bon.

Dispart, *v. a.* dysbarthnodi, safnrwyo.

Dispassion, *s.* arafedd, arafwch; tawelwch, esmwythdra, *neu* larieidd-dra tymmer; diddigrwydd; dideimladrwydd, annwyf.

Dispassionate, *a.* tawel, araf, llariaidd, arafaidd, pwyllus, llonydd, tawelfryd, diddig, llary, esmwyth, diderfysg, digynhwrf, digyffro, digraidd; rhydd oddi wrth anwydau; cymmedrol, anmhleidiol, anmhleidgar; anhyddig, anwyllt.

Dispatch, } *v. a.* (Ff. *dépêcher*; Ysp. a Port. *des-*
Despatch, } *pachar*) brysio, prysuro, dyfrysio, ffrystio, llwybro, llwybreiddio; anfon *neu* yru ymaith; anfon, danfon, gyru; cyflawnu, dybenu, gorphen, gorphenu, cwblhau; dwyn i ben; tynu pen ar; marwolaethu, lladd, dïeneidio, dïenyddu, tori; lladd yn ddïattreg, yn ddïoed, *neu* yn ddïohir; gwneuthur ar ffrwst; gwneuthur; tynu llaw oddi wrth.

Dispatch,† *v. n.* ymdrafod; trin a gorphen.

Dispatch, } *s.* brys, dyfrys, prysurdeb, cyflym-
Despatch, } dra, brysiad; rhwyddineb, rhwyddeb; parodrwydd, esgudrwydd; bryslythyr, brysiar; brysneges; cenad, brysgenad; cenadwri; gorpheniad; †triniad.

Make quick dispatch—brysiwch, dyfrysiwch; talmwch.

He makes no dispatch—nid yw efe yn gwneuthur dim llwybr; nid oes dim llwybr ganddo ar ei waith.

Dispatcher, } *s.* brysiwr; lladdwr, dïenyddwr;
Despatcher, } anfonydd ar negesau neilltuol.

Dispatchful, } *a.* bryslawn, brysiog, brysgar,
Despatchful, } dyfrysgar, dyfrysiog; cyflym, esgud, gweisgi.

Dispathy, *s.* (*dis* a Gr. *pathos*) annwyf, anheimlad; tawelwch meddwl.

Dispauper, *v. a.* dattlodi, didlodi.

Dispel, *v. a.* (Ll. *dispello*) gwasgaru, gwasgar, chwalu, taenu, tarfu; gyru, gwthio, *neu* darfu ymaith; gyru ar ffo.

Dispend, *v. a.* (Ll. *dispendo*) treulio, gwario; gwastraffu, afradu, afradloni, difa, ysu.

Dispender, *s.* treulydd, treuliwr; cyfranwr.

Dispensable, *a.* (o *dispense*) hebgoradwy; hebgorol.

Dispensableness, *s.* hebgoroldeb, hebgorolrwydd.

Dispensary, *s.* (o *dispense*) meddygfa, meddygdy, clafdy; cyfferifa, cyffyrdy, cyfferdy.

Dispensation, *s.* (Ll. *dispensatio*) goruchwyliaeth; triniaeth, triniad; cyfraniad, dosbarthiad, dosbarth, trefniad, trefn, agweddiad, gorchwyl; braint, trwydded, cenad, cenadiad, caniatâd, cynnwys, cynnwysiad, hebgoriad, hebgor, hebgoreb, esgusodeb; esgusodiad; maddeuant, gollyngdod; goddefiad, cyd-ddygiad; rhyddid, rhyddineb, *neu* ganiatâd i beidio â gwneuthur rhyw swydd *neu* orchwyl dyledus.

The Mosaic dispensation—goruchwyliaeth Moses, goruchwyliaeth Moesen; yr or-

uchwyliaeth Foesenaidd, yr oruchwyliaeth Foesenig.

The gospel dispensation—goruchwyliaeth yr efengyl; yr oruchwyliaeth efengylaidd.

Dispensative, *a.* trwyddedol; yn caniatäu braint, rhyddid, *neu* drwydded.

Dispensatively, *ad.* trwy fraint; drwy genad *neu* ganiatâd.

Dispensator, *s.* (Ll.)=*Dispenser.*

Dispensatory, *a.* hebgoriadol; trwyddedol; â chanddo awdurdod i ganiatäu hebgorion *neu* hebgorebion.

Dispensatory, *s.* cyfferiadur, cyfferlyfr, meddygiadur=llyfr yn dangos i gyfansoddi pob math ar feddyginiaeth.

Dispense, *v. a.* (Ll. *dispenso;* Ff. *dispenser*) cyfranu, rhanu, dosbarthu; gweinyddu; trin eiddo arall; eagusodi; hebgor, hebgori.

To dispense with—hebgor, hebgori, dyhebgor; rhyddhau oddi wrth rwymedigaeth *neu* ddyledswydd; rhoi cenad *neu* drwydded i un beidio â chyflawnu rhyw swydd *neu* orchwyl dyledus; goddef i; gadael i; cyd-ddwyn â; cydoddef â; caniatäu, ceniadu, cenatäu, cenadu, caniadu, maddeu, esgusodi; rhoi yn rhydd; gadael heibio; gwneuthur heb; gwneuthur y tro heb; rhoi heibio.

To dispense the law—gweinyddu y gyfraith.

To dispense with the law—hebgor y gyfraith; cymmedroli *neu* dymmeru y gyfraith; llacäu tynder y gyfraith; maddeu troseddiad y gyfraith; gadael y gyfraith heibio.

He often dispensed with that law—mynych y goddefodd efe i droseddiad y gyfraith hono fyned yn ddigosp.

Dispense, † *s.* goruchwyliaeth; traul, rhyddhad.

Dispenser, *s.* cyfranydd, cyfranwr, dosbarthwr, rhanwr, gwehynwr; gweinydd, gweinyddwr.

Dispenser of grace—rhadwehyn, rhadwehynwr.

Dispensing, *a.* hebgoriadol, hebgoredigol, trwyddedol, breintiol; yn caniatäu trwydded, braint, *neu* hebgoriad; yn gallu hebgor *neu* esgusodi.

A dispensing power—gallu hebgoriadol; gallu *neu* awdurdod i gymmedroli *neu* i dymmeru y gyfraith; gallu i faddeu troseddiad y gyfraith.

Dispeople, *v. a.* dibobli, diboblogi; difrodi, anrheithio, diffeithio, dattrefu.

Dispeopler, *s.* diboblwr; difrodwr, difrodydd, anrheithiwr, anrheithwr.

Disperge,† *v. a.* (Ll. *dispergo*) taenellu, ysgeintio, gwasgaru.

Dispermous, *a.* (Gr. *dis* a *sperma*) deuhadog; yn cynnwys dim ond dau hedyn.

Disperse, *v.* (Ll. *dispersus*, o *dispergo*) gwasgaru, gwasgar, chwalu, hau, heu, taenu; bwrw *neu* yru ar wasgar; gyru *neu* fwrw ar led; tarfu, atharfu; llanastru; dosbarthu, cyfranu; ymwasgaru, ymchwalu; bod ar wasgar; difäanu.

Disperse yourselves—ymwasgerwch, ymwasgarwch.

Dispersed, *p. p.* gwasgaredig, gwasgar, chwaledig, taenedig; gwasgarog, disgammar; gwahanedig.

Dispersedly, *ad.* yn wasgaredig, &c.; ar wasgar, ar led, ar daen, ar lanastr, yn llanastr.

Dispersedness, *s.* gwasgaredigrwydd, gwasgarogrwydd, chwaledigrwydd, gwasgaredd, gwasgarwch, gwasgaroldeb, gwasgarolrwydd, gwasgarder.

Disperseness, *s.* gwasgaredd, gwasgarwch, gwasgaredrwydd, gwasgarogrwydd; teneuder.

Disperser, *s.* gwasgarydd, gwasgarwr, taenwr, chwalwr, chwaliedydd.

Dispersion, *s.* (Ll. *dispersio*) gwasgariad, gwasgaredigaeth, gwasgar, chwaliad, taeniad, gwasgarawd, lledaeniad, amdaeniad, gwasgarfa, chwalfa, chwaledigaeth, chwal, llanastr, ysgardde, disberod, tarf, tarfiad, ysgardd.

Dispersive, *a.* gwasgarol, gwasgaredigol, chwaledigol, taenol, tarfol.

Dispirit, *v. a.* digaloni, gwangaloni, llyfrhau, anghaloni, anwroli; dychrynu, brawychu; digysuro, tristäu.

To be dispirited, } llyfrhau, gwangaloni,
To grow dispirited, } digaloni, dihoeni, llaesu, ymlaesu, *neu* ymollwng yn ei feddwl; bod yn ddigalon; myned yn ddigalon.

Dispirited, *p. p.* digalon, gwangalon, dïysbryd, anwrol, dihoen, llwfr, ofnog, ofnus.

Dispiritedness, *s.* digalondid, digalonrwydd, gwangalondid, gwangalonrwydd, dihoenedd, dïysbrydedd, ofnogrwydd, iselder ysbryd.

Dispiteous,† *a.* didosturi; creulawn.

Displace, *v. a.* (*dis* a *place;* Ff. *déplacer*) dislëu, anghyflëu, symmud, symmudo; dadosod, datddodi; rhoddi, dodi, *neu* symmud o'i le; dodi, rhoddi, *neu* symmud allan o'i le; diswyddo; troi, bwrw, taflu, gyru, *neu* symmud allan o swydd *neu* le; annhrefnu, cymmysgu, mysgu.

Displacement, *s.* (o *displace;* Ff. *déplacement*) dislead, anghyflead, dadosodiad, symmudiad, datddodiad; diswyddiad; symmudiad allan o le *neu* swydd.

Displacency, *s.* (Ll. *displacentia*) anfoddhad, anfodd, anfoddgarwch, anfoddlonrwydd; anfwynder, anfoesgarwch, anfoesedd, anfoes, anghyweithasrwydd.

Displant, *v. a.* dadblanu, diblanu, diwreiddio, dadwreiddio; tynu o'r gwraidd; dianneddu, dadanneddu; dihatru o drigolion; symmud.

Displantation, } *s.* dadblaniad, diblaniad, di-
Displanting, } wreiddiad, dadwreiddiad; dianneddiad, dadanneddiad; symmudiad.

Displat, *v. a.* dadblethu, disblethu, diblethu, dadffillio; dadgrychu, dadgudynu; dadnyddu.

Display, *v. a.* (Ff. *déployer;* Ll. *dis* a *plico*) arddangos, taenu, lledu allan, lledu, arhoeddi; taenu ar led, estyn ar led; dadblygu, disblygu, agor, egori; gosod allan, dadgan, dangos, amlygu, darlunio; llydanu, teddu; cwhwfan, cwhwfanu; difynio, tori; dangos o wir ffrost *neu* wag folach; siarad byth a hefyd.

To display a banner—dyrchafu baner; cwhwfanu lluman.

To display a crane—dïaelodi garan; difynio crechydd; tori garan.

With banners displayed—â banerau dyrchafedig; â banieri ar led yn hedfan; â llumanau yn cwhwfan; â llumanau ar led.

Display, *s.* arddangosiad, dangosiad, ymddangosiad, dadblygiad, disblygiad, taeniad, lledïad; taeniad *neu* estyniad ar led; gosodiad allan; dadganiad, amlygiad, agoriad, egoriad, darluniad; dangosfa; dangosiad *neu* ymddangosiad gwag-orfoleddus.

Displayer, *s.* arddangosydd, dadblygydd, &c.

Displeasance,† *s.* (Ff. *déplaisance*) dig, digder, anfoddlonrwydd.

Displeasant, *a.* (*dis* a *pleasant*) anhyfryd, annymunol; anfoddus, annhirion; cas, adgas, ffiaidd, dygn, blin.

Displease, *v. a.* anfoddio, adfoddhau, anfoddloni, anfoddogi; digio, sori, tramgwyddo, coddi, diglloni, cyffröi, cynhyrfu; bod heb ryngu bodd i; bod heb fod wrth fodd; casháu, diflasu; bod yn anhyfryd i; sarhau.

It displeases me—nid yw wrth fy modd; nid yw yn rhyngu bodd i mi; blin yw genyf; nid yw yn fy moddio.

The thing which he did displeased the Lord—drygionus oedd yr hyn a wnaethai efe yn ngolwg yr Arglwydd (*Gen.* xxxviii. 10).

Moses also was displeased—a drwg oedd gàn Moses (*Num.* xi. 10).

Displeased, *p. p.* anfoddedig, &c.; anfoddog, anfoddlawn, anfoddlon, anfodlon, anfoddlongar, dig, digofus, digus, digllawn, gygus, soredig, ffrom, ffromddig.

To be displeased—bod yn anfoddog, &c.; sori, ffromi, digio, diglloni, moni.

To be somewhat displeased—moni, tàru, sori, goddigio, lledffromi.

Displeasedness, *s.* anfoddogrwydd, anfoddedigrwydd, anfoddlonrwydd, anfoddlonedd, soredigrwydd, soriant.

Displeasing, *a.* anhyfryd, annymunol; anfoddus, cas, adgas; tramgwyddus; gwrthwyneb, gwrthwyneblyd, blin; à bair anesmwythder i un o'r pum synwyr.

Displeasingness, *s.* anhyfrydedd, anhyfrydwch, annymunoldeb; casineb, adgasrwydd; gwrthwynebrwydd, gwrthwyneblydrwydd.

Displeasure, *s.* anfoddlonrwydd, anfodd, anghariad; dig, digofaint, digllonrwydd, digllonedd, digllonder, soriant, llid, llidiogrwydd, gwg, cawdd, coddiant, gwrthfodd; tramgwydd; anghymmwynas, twrn drwg, argywedd, niwed.

To incur one's displeasure—tynu anfoddlonrwydd, digofaint, soriant, *neu* angheriad un; anfoddhau, digio; cyffröi dig un.

To do one a displeasure — gwneuthur anghymmwynas, twrn drwg, *neu* niwed i un; peri afles i un; niweidio, argyweddu.

Though I do them a displeasure—er i mi wneuthur niwed iddynt.

Displeasure,† *v. a.* anfoddhau.

Displicence,† *s.* (Ll. *displicentia*) anhoffder, casineb.

Displode, *v.* (Ll. *displodo*) ffrwydro, trwydo, dirdarfu, tori; ymddryllio, ymdori; gollwng *neu* fyned allan gyda mawr drwst.

Displosion, *s.* (Ll. *displodo, displosum*) ffrwydrad, ffrwydr, trwydiad, trwyd; ymddrylliad, dirdarfiad.

Displosive, *a.* ffrwydrol, trwydol, trwydiadol, ymddryllïol.

Displume, *v. a.* disbluo, dadbluo, dibluo, disblufio, diblufio, dadblufio; dadbluori, disbluori.

Dispondee, *s.* (Gr. *dis*, a Ll. *spondæus*) deugorfan hir, deugorfan cydbwys, corfan hir dyblyg (- - - -).

Dispone,† *v. a.* (Ll. *dispono*) trefnu; trosglwyddo.

Dispunge, *v. a.* dilëu, difodi, croesi allan, diddymu; arllwys.

Disport, *s.* chwareu, chware, gware, chwarwy, chwarw, maldod, difyrwch, digrifwch.

Disport, *v.* (*dis* a *sport*) chwareu, chware, chwarwyo, chwara, gware, gwara, maldodi, difyru, digrifo, masweddu, gornwyfo; ymddifyru, ymddigrifo.

Disport, *v. a.* (*dis* a *port*) symmud o borthladd; disborthlëu.

Disportment, *s.* chwaread, chwareuad, gwaread, chwarwyad; chwareu, chwarwy, maldod, difyrwch, digrifwch.

Disposable, *a.* (o *dispose*) trefnadwy; rhoddadwy, &c.

Disposal, *s.* (o *dispose*) trefniad, trefnad, trefnid, trefn; gosodiad mewn trefn; triniad, triniaeth; dosbarthiad, dosbarth, cyfraniad; llywodraeth, rheolaeth, rheoliad, goruchwyliaeth; gwerthiad; awdurdod i drin, i drefnu, i roddi, i osod, *neu* i werthu; rhoddiad; llead, cyflead; cyflogiad; aralliad.

To be at one's own disposal—bod yn feistr arno ei hun; bod yn ei feddiant ei hun; bod âg awdurdod ganddo arno ei hun.

This thing is at my disposal—mae hyn o beth ar fy llaw i; y mae hyn o beth yn fy ngallu i.

God has the absolute disposal of all things —Duw yn hollol a bïau y llywodraeth ar bob peth.

The father has the disposal of his daughter in marriage—y tad a bïau rhoddi ei ferch i'w phriodi; gàn y tad y mae yr awdurdod i roddi ei ferch i briodas; gàn y tad y mae rhoi ei ferch i'w phriodi.

To give one's self wholly up to another's disposal—rhoddi ei hun yn hollol dàn awdurdod *neu* lywodraeth un arall; ymroddi yn hollol i arall; bod yn hollol wrth wasanaeth un.

Divine disposal—goruchwyliaeth ddwyfol, trefniad dwyfol.

Dispose, *v. a.* (Ff. *disposer*, o'r Ll. *dispono*) trefnu, dosbarthu, gosod, trefniadu, trefnido, trefnidio; gosod mewn trefn; gosod yn rhestr; cyflëu, rheoleiddio, cymmoni, lluniaethu, cymmedru; llywio, llywodraethu, rheoli; rhoddi, dodi, gosodi, ystofi; cymhwyso, addasu, cyfaddasu, parotöi, agweddu at, llunio i, defnyddio; gwneuthur yn addas i; tueddu, gogwyddo, cyfeirio, hyblygu, nawseiddio, gostwng; rhoddi ymaith, cyfranu; gwerthu; creddu, crethu; gweddeiddio.

To dispose of—rhoddi, rhoi; gwerthu; ymadael âg, ymadaw â; rhoi *neu* roddi ymaith; cyfranu, anrhegu; rhoi yn ngwerth; rhoi ar werth; rhoddi i *neu* at; gosod i *neu* at; trosglwyddo, trosi; arferu, arferyd, defnyddio; gwneuthur defnydd *neu* ddeunydd o; gosod allan; treulio, gwario, talu; cael gwared o; cyflëu, llëu, lleoli; llywodraethu, rheoli, cyfeirio; arweddu, hwylio.

To dispose of in marriage—rhoi yn briod; rhoi mewn priodas; rhoi i briodas; rhoddi i'w phriodi; rhoi yn mhriodas; priodi â.

To dispose of by will—rhoddi drwy lythyr cymmyn; rhoddi mewn ewyllys; cymmynu, ewyllysio, gwyllysgedu.

To dispose of to another—trosglwyddo, trosi, *neu* roddi i arall; ymadaw â pheth i arall; arallu peth.

To dispose one to do a thing—dwyn, tynu, gogwyddo, *neu* blygu un i wneuthur peth; cael gàn un wneuthur peth.

To dispose one to *or* for sleep—peri *neu* ddwyn cwsg ar un; hwylio un i gysgu.

To dispose one's self to do a thing—ymbarotöi, ymddarparu, *neu* ymwregysu i wneuthur peth; ymröi i wneyd peth.

How will you dispose of this? — pa ddefnydd a wnewch chwi o hyn? at ba ddefnydd y rhoddwch *neu* y gosodwch hyn o beth?

How will you dispose of yourself the while?—beth a wnewch chwi â'ch hunan yn y cyfamser? pa fodd y treuliwch yr amser?

How will you dispose of your son?—beth a wnewch chwi o'ch mab? yn mha sefyllfa *neu* alwedigaeth y gosodwch eich mab? pa fodd yr ydych yn myned i ddwyn eich mab i fyny? beth a wnewch chwi â'ch mab?

Man purposes and God disposes—meddwl dyn, Duw a'i terfyn.

Dispose,† *v. n.* bargena; ammodi.

Dispose,† *s.*=*Disposal, Disposition.*

Disposed, *p. p.* trefnedig, à drefnwyd, wedi ei drefnu, &c.; trefnus; creddol; â'i fryd ar; â'i duedd at; -frydig, -fryd.

Piously-disposed — duwiolfrydig, duwiolfryd; o duedd crefyddol; duwiolgar.

Ill-disposed — annhueddol, anwyllysgar, anewyllysgar, drygwyllysiol, dryg-ewyllysiol, drygfrydig, drygdueddol; anhwylus; heb duedd *neu* dueddiad ynddo; drwg ei ewyllys; yn gwyllysio yn ddrwg.

To be disposed to—tueddu at; gogwyddo at; bod ar oddeu; bod â'i fryd ar; bod â'i fwriad ar; chwennychu, ewyllysio, gwyllysio, mynu.

To be disposed of—ar werth; i'w werthu; i gael ei werthu; i'w roi ymaith, &c.

How is he disposed?—pa fodd y mae efe yn tueddu? pa ffordd y mae ei duedd ef? at bwy y mae efe yn gogwyddo *neu* yn tueddu? gyda phwy y mae efe yn pleidio? at ba du y mae efe yn ystlysu? pa naws sydd ynddo? at bwy mae ei duedd *neu* ogwydd?

To feel disposed—clywed ar ei galon; tueddu, gogwyddo; bod yn barod *neu* dueddol i; teimlo awydd; clywed awydd.

To be disposed—clywed ar; gogwyddo, tueddu; bod â'i ogwydd *neu* duedd.

I am more disposed to believe—yr wyf yn barotach i gredu; y mae yn haws genyf gredu.

He is disposed to pardon—y mae efe yn barod i faddeu; y mae efe â'i duedd i faddeu; mae efe yn tueddu i faddeu.

Disposer, *s.* trefnwr, trefnydd, trefnidydd, llywiwr, llywydd, llywodraethwr, cyfarwyddwr, rheolydd, rhoddwr, &c.

Disposing, *s.* trefniad, gosodiad, llywodraethiad, triniad, triniaeth, cyfarwyddiad, rheoleiddiad.

It is not in my disposing—nid yw yn fy rhodd i; nid yw ei roddi ar fy llaw i.

Disposition, *s.* (Ll. *dispositio*) trefniad, trefnad, trefnid; dosbarthiad, gosodiad; llywiad, llywodraethiad; trefn, dosbarth; tuedd, tueddiad, gogwyddiad, gogwyddad, tueddfryd, gogwydd; tueddoldeb, tueddolder, tueddolrwydd; tymmer, ardymmer, tymmyr, ardymmyr, naws, greddf, nawsedd, anian, cynneddf, athrylith, affaith, achreth, creth, crethyll, arnyfed, hwyl, nwyd, anwyd, ansawdd, cyflwr, anianawd, teimlad, ias, chwant, awydd, rhael, rhâl, gorddigor, dychwant, addug, parodrwydd, chwannogrwydd, ewyllys, bryd, brydedd; cymhwysder, cymhwysdra, cymhwysiad; aralliad, cyfraniad, rhaniad.

Wild disposition — naws wyllt, tymmer wyllt, &c.

Of a wild disposition, } nawswyllt, nwyd-
Of wild disposition, } wyllt; gwyllt ei dymmer.

Bad disposition, } drygnaws, dryganian,
Evil disposition, } dryganiaeth, dryganedd; tymmer ddrwg, &c.

Pious disposition—duwiolfrydedd, duwiolfryd, duwgarwch, duwiolder.

Merciful disposition—tymmer drugarog, &c.; trugarddawn, trugarnaws; trugarogrwydd.

Natural disposition — tymmer naturiol, tuedd anianol; anian, naws, cynneddf, crethyll.

Slow disposition — hwyrfryd, hwyrnaws, hwyrfrydedd, hwyrnawsedd; tymmer hwyrfrydig.

Of slow disposition—hwyrfrydig, hwyrnaws, hwyrnawsaidd; hwyr ei naws.

Passionate disposition — tymmer nwydwyllt, nawswyllt, hyddig, *neu* boethlyd; dryganwyd.

Of a brave disposition—gwychnaws, glewnaws; dewr ei naws; glew ei anian.

Lukewarm disposition—tymmer glauar *neu* lugoer; llugfryd, llugnaws.

A disposition to do a thing—hwyl, tymmer.

A good disposition of body—iechyd, hoen, hwyl dda, diwyg dda, dyli da; ardymmyr da; hwyl, hwyl-bwynt.

An ill disposition of body—anhwyl, anhwyldeb, anhwylder, anniwyg, anmhwynt, clefni.

Genius and disposition — anian ac athrylith.

Disposition of the air—ansawdd, anian, naws, tymmer, tymmyr, *neu* gyflwr yr awyr.

Disposition to rain—mwyth gwlaw, tuedd gwlawio.

A man of odd disposition—dyn hynod ei dymmer *neu* anian; dyn nwythig, cynnwythig, nwythol, *neu* nwythog; dyn o râl *neu* rael rhyfedd.

A man of fickle disposition—dyn oriog *neu* anwadal; dyn anwadal ei dymmer; dyn ysgafn ei anwyd; gwr anwadal ei feddwl.

The hope of salvation is a good disposition toward salvation—y mae gobaith iachawdwriaeth yn gychwynfa dda tuag at iachawdwriaeth.

The disposition of thine heart is good—da yw amcan dy galon di (*Iudeth* viii. 29).

Their lewd disposition—eu dull drygionus (*Esth. Ap.* xvi. 6).

The disposition of a liar—arfer dyn celwyddog (*Eccles.* xx. 26).

Dispositional, *a.* trefnol, trefniadol, trefnidol, dosbarthol, &c.

Dispositive, *a.* trefnedigol, trefniadol, triniol, llywodraethol, awdurdodol; à allo roddi, &c.

Dispositor, *s.* (Ll.) trefnior, arwyddior, seren lywodraethol; † trefnwr.

Dispossess, *v. a.* difeddiannu, dadfeddiannu, difeddu, difuddio, diberchenogi, diberchenu; gwthio *neu* yru allan o feddiant; didyo.

Ye shall dispossess the inhabitants of the land—goresgynwch y tir (*Num.* xxxiii. 53).

Dispossession, *s.* dadfeddiant, difeddiannad, dadfeddiannad, disfeddiant, diberchenïad.

Disposure, *s.* (o *dispose*)=*Disposal.*

Dispraisable,† *a.* anwiwglod, anghanmoladwy.

Dispraise, *s.* anghlod, anair, anghanmoliaeth; anfoliant, anfawl, gogan, achlod, drygair, hort, cabl; bai, cerydd; gwarth, gwarthrudd, gwaradwydd, dïanrhydedd.

Dispraise, *v. a.* anghanmawl, anghanmoli, dadganmawl, anfoli, goganu, beio, beio ar, bychanu, dibrisio, testyno; rhoi anghlod, anair, *neu* ddrygair i.

Dispraiser, *s.* anghanmolwr, anghanmolydd, goganwr, goganydd.

Dispread, *v.* (*dis* a *spread*) dattaenu, llettaenu; lledaenu, taenu, lledu; taenu ffordd yma a ffordd acw.

Dispreader, *s.* dattaenydd, taenwr, lledaenwr, lledwr, cyhoeddwr, taenydd ar led.

Disprize, *v. a.* anmhrisio, dibrisio; tanbrisio, anwerthfawrogi; prisio dàn à dalo.

Disprofess, *v. a.* dadbroffesu, dibroffesu, dadgyfaddef.

Disprofit, *s.* afles, anfudd, colled; niwed, argyledd.

Disprofit, *v. a.* aflesu, afleshau, anfuddio, anfuddhau, colledu, niweidio.

Disproof, *s.* disbrawf, dadbrawf, gwrthbrawf, disbrofiad, dadbrofiad, gwrthbrofiad.

Disproperty,† *v. a.* difeddiannu, dadfeddiannu.

Disproportion, *s.* anghyfartaledd, anghyfartalwch, anghyfartalrwydd, anghymmesurwydd, anghymmesuredd, anghymmesuraeth, anghydran, anghymhariaeth, anghymmedroledd, anghymmedredd, anghyfaddasrwydd, anghyfatebolrwydd, anghystadledd; rhagoriaeth.

Disproportion, *v. a.* anghyfartalu, anghymmesuro, anghydranu, anghymharu, anghymmedru, anghydbarthu; trefnu, dosbarthu, *neu* gymmysgu yn anghyfartal; anghydweddoli; cyssylltu pethau anghydweddol.

Disproportionable, } *a.* anghyfartal, anghym-
Disproportional, } mesur, anghydranol, anghydran, anghymmesurol, anghychwïawr. anghymmedrus, anghyfatebol, anghyfaddas, digyfartal; gwedi ei ddosbarthu yn anghyfartal.

Disproportionableness, } *s.* anghyfartaledd,
Disproportionality, } anghyfartalwch, anghyfartalrwydd, anghymmesurdeb, anghymmesuroldeb, anghymmesurwydd, anghymmesuredd, anghymmedredd, anghyfateboldeb, anghyfaddasrwydd.

Disproportionate, *a.* anghyfartal, anghydbarth, digyfartal, anghymmesur, anghymmesurol, anghymmesurog, anghydranedig, anghymmedredig, anghydradd; anghyfaddas, anaddas, annigon.

Disproportionateness, *s.* anghyfartaledd, anghymmesuredd, anghydbarthedd, anghymmesurwydd, anghymmesurdeb, anghyfaddasrwydd.

Dispropriate, *v. a.*=*Disappropriate.*

Disprove, *v. a.* gwrthbrofi, disbrofi, dadbrofi, dibrofi, gwrthddangos; †anghymmeradwyo.

Disprover, *s.* gwrthbrofydd, dadbrofydd, disbrofydd, disbrofwr.

Dispunge, *v. a.* dilëu, dïoli, diddymu; crafu ymaith *neu* allan.

Dispunishable, *a.* anghospadwy.

Dispurse,† *v. a.*=*Disburse.*

Dispurvey,† *v. a.* annarmerthu, anmharotöi.

Dispurveyance,† *s.* annarmerth.

Disputable, *a.* dadleuadwy, hyddadl, dadladwy, ammhëus; à fo mewn dadl.

Disputant, } *s.* (Ll. *disputans*) dadleuwr, dadl-
Disputer, } wr, dadlydd, ymddadlwr, ymddadlydd, ymddadleuwr, ymresymwr, ymbynciwr, ymgomiwr, arddadlwr, argymhenwr, gwrthddadleuwr, ymholydd.

Disputant, *a.* dadleuol, ymddadleuol, dadlawl, ymddadlawl, dadleuadol.

Disputation, *s.* (Ll. *disputatio*) dadleuad, dadl, dadleu, dadlwriaeth, dadlawd, ymddadl, ymddadleu, ymddadleuad, ymddadliad; ymresymiad, ymgomiad, ymgynnadl, cynnadl, cynnadledd; cystadleuaeth, cystadlaeth, cystadliad, ymgystadliad.

Doubtful disputations—ymrafaelion rhesymau (*Rhuf.* xiv. 1).

A place of disputation—dadleufa.

Disputatious, } *a.* dadleugar; ymrysongar, cip-
Disputative, } gar, cecrus, cecraidd, gwrthddadleugar.

Dispute, *v.* (Ll. *disputo*) dadleu, dadlu, ymddadleu, ymddadlu, dadleuo, ymbyncio, arddadlu, arddadleu, pyncio, ymresymu, ymbarlio, ymgomio, ymgynnadlu; cystadlu, ymgystadlu, ymgystadlu am, cydymgeisio, ymgeisio, ymdrechu am; ymryson, ymdrechu, ymdrech, ymrafaelio, ymrafael, ymdafodi, ymeirio; ammheu, petruso; gwrthwynebu, gwrthladd, gwrthsefyll, gwrthrynu; ymdrechu cadw *neu* amddiffyn.

To dispute one's passage—gwrthwynebu, gwrthladd, *neu* wrthsefyll mynediad un; gwrthsefyll mynediad un yn mlaen; gwrthwynebu, gwrthladd, *neu* wrthsefyll un yn ei fynediad ymlaen; ymosod yn erbyn un i rwystro ei fynediad drosodd *neu* drwodd.

To dispute one's right at law—amddiffyn ei iawn *neu* ei hawl drwy gyfraith; myned i gyfraith *neu* i ymgyfreithio âg un yn mhlaid ei eiddo; hòni hawl.

Dispute not too busily—na chais mo'r ymholi yn rhy fanwl, yn rhy ddichlyn, *neu* yn rhy ymala.

Disputc, *s.* dadl, dadleu, dadlcuad, dadlwriaeth,

ymddadl, ymddadleu, ymddadliad, dadlawd, ymddadleuad, ymbynciad, ymbarliad, ymresymiad, ymgomiad, cynnadl, cynnadledd; ymryson, ymrafael, ymdrech, ymdrin, trafod, ymdrafod, gwrthryn, ymorwst, cecraeth, ymleflef; ammheuaeth.

They had a dispute on the lawfulness of slavery — bu cyfreithlondeb caethiwed mewn dadl *neu* dàn farn ganddynt; bu dadl rhyngddynt *neu* ganddynt am gyfreithlondeb caethwasanaeth.

To determine disputes—dosbarthu cynhenau; penderfynu dadleuon; tori ymrysonau.

Beyond dispute — yn ddiddadl; heb ammheuaeth; heb un ddadl; yn ddïammheu; yn ddiwrthddadl.

Beyond all dispute—tu hwnt i bob dadl; heb na dadl nac ammheuaeth; heb un ammheuaeth.

It admits of no dispute—nid oes dadl am dani *neu* dano; nid oes dadl i fod yn ei gylch.

Disputed, *p. p.* dadleuedig, dadledig, &c.; ammhëus, petrus; anmhenodol; mewn dadl; tàn farn.

Disputeless, *a.* diddadl; dïammheu; heb ammheu.

Disputer, } *s.* = { *Disputant.*
Disputant, } { *Disputer.*

Disputing, *s.* ymddadleu, dadleuad, dadliad, ymddadleuad, ymddadliad; dadl, ymddadl; ymrafael, ymryson, amryson, ymeiriad.

Murmurings and disputings—grwgnach ac ymddadleu (*Phil.* ii. 14).

Disqualification, *s.* anghymhwysiad, anaddasiad; anghymhwysder, anaddasrwydd; analluogrwydd, anallu; dadgymhwysiad, angreddfiad.

Disqualify, *v. a.* anghymhwyso, anaddasu; gwneuthur yn anghymhwys, yn anaddas, *neu* yn analluog.

Disqualified, *p. p.* anaddasedig, &c; anghymhwys, anaddas; à wnaed yn anghymhwys; gwedi ei wneuthur yn anaddas.

Disquantity,† *v. a.* lleihau.

Disquiet, *a.* aflonydd, anesmwyth, dïorphwys; cythryblus, helbulus; yn dwyn cur a gofal.

Disquiet, } *s.* aflonyddwch, anesmwythder,
Disquietness, } anesmwythdra, anesmwythyd,
Disquietude, } anorphwys, anorphwysdra, anosteg, anostegrwydd, annhangnef, annhangnefedd; cythrwfl, cynhwrf, cyffro, moloch; cur, blinder, gofal; anhun, anhunedd; helbul, heldrin, helgur, gofid, cyfeiaeth.

Disquiet, *v. a.* aflonyddu, anesmwytho, anesmwythäu, blino, cyffroi, cythryblu, cythrybliio, cynhyrfu, anostegu, molochi, dygn flino, terfysgu, cythruddo, trallodi, gofidio.

Why hast thou disquieted me?—pa ham yr aflonyddaist arnaf?

Disquieted, *p. p.* aflonyddedig, &c.; cythryblus, helbulus, trallodus; trafferthus, cynhyrfus, cyffröus, terfysgus.

Disquieter, *s.* aflonyddwr, anesmwythwr, terfysgydd.

Disquietful, *a.* aflonyddol, anesmwythol, cynhyrfiol, terfysgol; à bair aflonyddwch.

Disquieting, } *a.* aflonyddol, anesmwythol, af-
Disquietive, } lonyddus, terfysgus, terfysgol, cyffroawl; à bair aflonyddwch *neu* anesmwythder.

Disquietment, *s.* aflonyddiad, anesmwythad, anostegiad, cyffroad, terfysgiad, blinad.

Disquietous,† *a.* aflonyddol, anesmwythol.

Disquietude, *s.* = *Disquiet*, &c.

Disquisition, *s.* (Ll. *disquisitio*) trychwiliad, ymchwiliad, ymofyniad, arholiad, chwiliad, holiad, chwiliad; manylgais; chwiliad manwl, ymofyniad dyfal.

Disquisitionary, *a.* trychwiliadol, ymchwiliad, manylgeisiol.

Disrank,† *v. a.* diraddio, direncio; bwrw allan o'i renc *neu* restr.

Disregard, *s.* esgeulusdod, esgeulusdra, esgeulusder, esgeulusrwydd, esgeulusiant, anystyriaeth; dïystyrwch, anfri, dirmyg, tremyg, anmharch, dibrisdod, anfrïad, diofalwch.

Disregard, *v. a.* esgeuluso; peidio â sylwi ar; bod heb ofalu *neu* brisio am; dïystyru, dirmygu, tremygu, bychanu, difalio, dïystyried, dïystyrio, anmharchu; ystyried is law sylw.

Disregarder, *s.* esgeuluswr; dïystyrwr.

Disregardful, *a.* esgeulus, diofal, anofalus, dibris; dirmygus, dïystyrllyd, tremygus; ysmala.

Disrelish, *s.* gwrthflas, diflasdod, diflasder, diflasrwydd, drygchwaeth, drwg archwaeth, drygflas, adflas, anflas, anmlas, dicräwch, anchwennychiad, ffieiddiad; gwrthwynebrwydd, gwrthwyneblydrwydd, adgasrwydd.

Disrelish, *v. a.* diflasu ar, alaru ar, blino ar; anfoddloni yn mlas peth; bod yn anfoddlon i flas peth; anflasu, anmlasu, diflasu, dïarchwaethu, anhoffi; casbau, ffieiddio; bod yn anfoddlawn i; bod heb flasu; bod heb flas ganddo ar *neu* at; anghymmeradwyo; gwrthwynebu ar.

Disrepair, *s.* anmharwch, anmharedd, anghywair, anghyweiriad.

Disreputable, *a.* anhyglod, anghlodfawr, dibarch; à drygair *neu* anair iddo; à gair drwg iddo; gwarthus, gwaradwyddus, dïanrhydeddus, cywilyddus.

Disreputation, } *s.* anfri, anghlod, drygair,
Disrepute, } anair, drwg enw, dïanrhydedd, gwarth, gwarthrudd, gwaradwydd, drygfri, anmharch; anghymmeriad, anghyfrif, anghymmyraeth.

Disrepute, *v. a.* dwyn i anfri, &c.; anfrïo, anmharchu; rhoi anair, drygair, *neu* anfri i.

Disrespect, *s.* anmharch, dirmyg, tremyg, dïystyrwch, bychandod, dibrisdod, anfri, tra, traha, dïanrhydedd, dïbarchrwydd, anmharchedigaeth; anfoesgarwch, anfoesgrwydd, anfoes.

Disrespect, *v. a.* bychanu, dirmygu, tremygu, dïystyru, dibrisio, anmharchu, anfrïo, difrïo, difenwi, dïanrhydeddu; ymddwyn yn anfoesog *neu* anfoesgar tuag at.

Disrespectful, *a.* anmharchus, anmharchlawn, dibarch, dirmygus, tremygus, dïystyrllyd; difoes, anfoesog, anfoesgar; llawn dirmyg a dïystyrwch; difrïol.

Disrobe, *v. a.* dadwisgo, dihatru, diddilladu, diwisgo, dihwylo, dattrwsiadu, dattrwsio; dïosg o'i wisg, o'i ddillad, *neu* o'i addurn; dïorchuddio, dynoethi, dadencuddio.

To disrobe one's self—ymddïosg, ymddihatru, &c.

Disrober, *s.* dadwisgydd, dadwisgwr, dihatrwr, dihatrydd.

Disroot, *v. a.* diwreiddio, dadwreiddio; tynu o'r gwraidd; cloddio tanodd *neu* oddi tanodd.

Disrupt, } *a.* (Ll. *disruptus*) rhwygedig, ym-
Disrupted, } doredig, llarpiedig; gwedi ei rwygaw oddi wrth ei gilydd.

Disruption, *s.* (Ll. *disruptio*) ymdoriad, rhwygiad, drylliad, ymddrylliad; rhwyg, erthrwch, breg, ffiais; llarpiad, erthrychiad, ymagoriad, holltiad.

Dissatisfaction, *s.* anfoddlonrwydd, anfoddlondeb, anfoddlonedd, anfodd; cawdd, coddiant.

Dissatisfactoriness, *s.* anfoddoldeb, anfoddlonedd, anfoddhaolrwydd, anfoddlonoldeb, anfoddlongarwch, anfoddgarwch.

Dissatisfactory, *a.* anfoddhaol, anfoddlonawl, anfoddol; nad yw yn boddloni; nad yw yn rhoddi boddlonrwydd; anghymmeradwy; anfoddlongar.

Dissatisfied, *a.* anfoddog, anfoddlawn, anfoddlongar, anfoddedig; heb ei foddloni; heb ei ddigoni; heb gael ei ddigon *neu* ei wala; dreng, ffrom.

To be dissatisfied—anfoddloni, anfoddogi, ymddigio; bod yn anfoddlawn.

They are dissatisfied with their condition—y maent yn anfoddlawn i'w cyflwr.

Dissatisfy, *v. a.* anfoddloni, anfoddlo, anfoddhau; rhoi anfoddlonrwydd; rhoi anfoddlondeb; bod heb roi boddlonrwydd.

Disseat, *v. a.* diseddu, dadseddu; symmud o eisteddle.

Dissect, *v. a.* (Ll. *disseco, dissectus*) difynio, difyniadu; dryllio, darnio; rhanu, dosbarthu; tori yn ddrylliau, yn rhanau, *neu* yn ddifynion; tori; chwarthorio; cigyddio; trychwilio, manwl chwilio; chwalu a chwilio.

Dissection, *s.* (Ll. *dissectio*) difyniad, difyniaeth, difyniant; drylliad, darniad; rhaniad, dosbarthiad.

Dissector, *s.* (o *dissect*; Ll. *dissecator*) difyniwr, difyniedydd, attorydd.

Disseize, *v. a.* (*dis* a *seize*; Ff. *dessaisir*) difeddiannu, difeddu, dadfeddiannu, dadfeddu, camoresgyn, camoresgynu, treisfeddiannu, camfeddiannu.

Disseizee, *s.* difeddiannai, dadfeddiannai, y difeddiannedig, camoresgynai=yr un â fwrier allan o feddiant yn anghyfreithlawn.

Disseizin, } *s.* camoresgyn, camoresgyniad,
Disseisin, } camoresgynaeth, camoresgyniaeth, camfeddiant, treisfeddiant, dadfeddiant, difeddiad, difeddiannad, treisddifeddiant; tafliad *neu* fwriad allan anghyfreithlawn.

Disseizor, *s.* camoresgynydd, camoresgynwr, camfeddiannwr, treisfeddiannydd, difeddiannwr, dadfeddiannwr; à gymmero feddiant *neu* oresgyn drwy drais.

Dissemblance, *s.* annhebygolrwydd, annhebygoldeb, annhebygrwydd, annhebygoliaeth.

Dissemble, *v.* (Ll. *dissimulo*; Ff. *dissimuler*) ffugio, ffuantu, lledrithio, cymmeryd arno, dyeithro, ymddyeithro, truthio, gwenieitho, rhagrithio, gwneuthur malpai, ymragrithio, ffalsu, rhithio; celu, argelu, cuddio, ymargelu, ymgelu; gwadu; cymmeryd arno na bo yr hyn sydd; bod yn rhagrithiol.

Dissembled, *p. p.* ffugiedig, &c.; rhagrithiol, lledrithiol, lledrithiog, ffugiol, ffug-, dyeithrol, ymddyeithrol; dychymygol.

Dissembler, *s.* lledrithiwr, ffugiwr, rhagrithiwr, ffuantwr, ymrithiwr, truthiwr, gwenieithwr, dyn trofäus, un lledrithiog.

Dissembling, *p.* twyllodrus, ffuantus, rhagrithiol, ffuannol, ffugiol, lledrithgar, deuwynebog; gwenieithgar, gwenieithus, truthgar; yn ffugio, &c.

Dissemblingly, *ad.* trwy hud a lledrith; yn rhagrithiol, yn ffuantus, yn wenieithus, yn wenieithgar, yn lledrithgar.

Disseminate, *v. a.* (Ll. *dissemino*) hau, heu, gwasgaru, gwasgar, lledu, taenu, lledaenu, taenu ar led; cyhoeddi; arlydanu.

Dissemination, *s.* (Ll. *disseminatio*) heuad, head, taeniad, lledaeniad, gwasgariad, taeniad ar led; cyhoeddiad.

Disseminator, *s.* (Ll.) heuwr, hauwr, taenwr, lledaenwr, taenydd ar led.

Dissension, *s.* (Ff.; Ll. *dissensio*) anghydfod, anghytundeb, anundeb, anghyfundeb, anghydsyniad, anghymmod, ymrafael, amrafael, anysgymmod, ymraniad, ymwahaniad, ymryson, cynhen, cweryl, cyfarwas, anghymmodlonedd, disgymmod, cyfrysedd, cyfarwyd; gwrthdybiad.

Dissensious, } *a.* anghytûn, anghytun, anghyt-
Dissentious, } unol, anghydfyddus, anghydfodol, amrafaelus, ymrafaelus, ymrysonol, ymrysongar, ymrysonus, ymrafaelgar, amrafaelgar, cynhenllyd, cynhenus; anghydsyniol, anghysson; pleidgar.

Dissent, *v. n.* (Ll. *dissentio*) anghytuno, anghydsynio, anghydsynied, gwahaniaethu, amrywio; ymneilltuo, ymwahanu, ymranu; bod o dyb amgen *neu* arall; bod o farn wahanol, amrywiol, *neu* amryfal; amrywio *neu* wahaniaethu mewn barn; tybio y gwrthwyneb.

Dissent, *s.* anghytundeb, anghydsyniad; ymneilltuaeth, ymneilltuad, neilltuaeth, anghyfuniaeth; amryfarn, amrywiaeth barn, gwrthdyb, amrydyb.

Dissentaneous, *a.* (Ll. *dissentaneus*) anghytunol, anghytûn, anghydsyniol, anghydfyddus, anghysson; amryfaelus, croes.

Dissentany, † *a.*=*Dissentaneous.*

Dissentation, *s.* anghydsyniad, anghytuniad, amrywiad; ymneilltuad, ymwahaniad, ymraniad.

Dissenter, *s.* (o *dissent*) ymneilltüwr, neilltüwr, ymneilltüydd, anghyfunwr; ymwahanwr; un o amgen farn *neu* dyb: *pl.* ymneilltuwyr, ymneilltuaid.

Dissentient, *a.* (Ll. *dissentiens*) anghytunol, anghydsyniol, anghyfunol, ymneilltuol, ymneilltuaidd, ymwahanol; yn anghytuno.

Divulsive, *a.* gwahandynol; à dyno oddi wrth eu gilydd; rhwygol, dadgyssylltiol.
Dizen, *v. a.* (o *dight*, yn ol *Johnson*) trwsio, taclu, addurno, gwychu, trwsiadu; gwisgo yn orwych.
Dizz,† *v. a.* (S. *dysi, dysig*) synu, serfanu, serfu; dyrysu; syfrdanu.
Dizzard,† *s.* penbwl, cadafael, hurthgen, llelo, ffwlcyn, llob, penllorcan.
Dizziness, *s.* (o *dizzy*) syfrdandod, madrondod, syfrdanedd, pendrondod, pendro, y bendro, gysp, y gysp, penddar, penddaredd, meigryn, ehegr, dera, penfrag, gwibwrn, chwibwrn, pendronedd, pendrofa, pensyndod, penchwibandod, chwidredd, penfeddwdod, serfandod, pendreiglad; diofalwch.
Dizzy, *a.* (S. *dysi, dysig;* Al. *dusel, duselig;* Is. *deuzig*) syfrdan, pensyfrdan, pendröedig, penysgafn, penfeddw, penchwiban, serf, serfan, chwibwrn, gwibwrn, serfyll, madron, pendron; à'r bendro arno, &c.; penddarus, pendreigl, pendroiog; diofal, difeddwl, anfeddylgar.
Dizzy, *v. a.* chwildröi; syfrdanu, serfanu, serfu, penfeddwi, pendroni, penddaru, madroni, pendröi, serfyllio, pensynu; dyrysu, anhrefnu; peri syfrdandod, &c.
Do, *v.* (S. *don;* Is. *doen;* Al. *thun*) gwneuthur, gwneyd, gwneuthyd, gwneddyd, gwnelyd, gorugo; gweithredu; ymwnëyd; bod.
How do you do? } pa fodd yr ydych? pa
How do you? } sut yr ydych? pa fyd? pa hynt? pa helynt? beth yw'ch hynt? pa beth yw eich hynt? pa fodd yr ydych yn ymdaro? pa sut yr ych chwi?
He did—gwnaeth, gorug, gwneddyw.
It will do—gwna y tro; efe a wna y tro; e wna 'r tro; gwnaiff y tro; efe a wasanaetha 'r tro; efe a etyb y tro; ef a etyb y dyben.
What doth he here?—beth sydd à fyn *neu* a wna efe yma? beth y mae efe yn ei wneuthur yma? pa neges sydd iddo *neu* ganddo yma? beth sydd à fyno efe yma?
To have to do—bod à wnelo; bod à fyno.
To have to do with — ymwneyd â, ymwneuthur â; bod à wnelo â; ymgyslynu â; gweithredu â.
What have you to do with me?—beth sydd à fynech chwi â myfi? beth sydd à wnelech chwi â mi? beth sydd à fynoch *neu* à wneloch chwi â myfi?
You will have enough to do—cewch eich llawn waith; cewch eich cyflawn waith; cewch eich gwala o waith; cewch ddigon i wneuthur; cewch ddigon i'w wneyd.
We shall do very well—gwnawn yn burion; nyni a ymdarăwn o'r goreu; ni a ymdarăwn yn ddifai ddigon; ni a ymdarăwn yn burion; gwnawn o'r goreu.
What hast thou to do with peace?—beth sydd i ti à ofynych am heddwch? beth sydd i ti à wnelych â heddwch? beth sydd à fynot ti â heddwch?
Hast thou anything to do with this?—a oes à wnelot ti â hwn? a oes à fynot ti â hwn? a oes à wnelo hwn â thi?
To do well—ffynnu, llwyddo, gwrygio; gwneuthur yn dda; gwella, gwellhau.
To go about to do—bod ar fedr gwneuthur; bod yn nghylch gwneuthur; myned yn nghylch gwneuthur; myned yn nghyd â gwneuthur.
Much to do—trafferth.
I had much to do—cefais lawer o drafferth; cefais lawer i'w wneuthur.
Do not be foolish—paid â gwirioni; paid â bod yn ffol.
Do so no more—na wna felly mwy; na wnewch felly mwy; peidiwch â gwneuthur hyny mwyach.
Do I?—a ydwyf? a wyf? a ydwyf fi? a wyf fi? ydwyf fi?
Dost thou?—a ydwyt? a ydwyt ti, &c.
Do you go to the theatre?—a ydych yn myned i'r chwareufa?
I do—ydwyf, wyf, yr ydwyf, yr wyf.
I did—gwnaethym; do.
That will do—gwna hyna y tro; dyna burion; etyb hyn y dyben; gwasanaetha hyna *neu* hwnw y tro; purion; o'r goreu.
To do business — masnachu, trafnidio; gwneuthur *neu* wneyd masnach; trin masnach.
To do away—symmud, symmudo; symmud ymaith; dyfetha, dinystrio, dystrywio, lladd; symmud oddi ar y ffordd; symmud i ffwrdd; dilëu, difodi.
To do with — gwneuthur â; gwneuthur gyda; defnyddio; gwneuthur defnydd o; ennill; bod à wnelo â; bod à fyno â; bod ganddo à wnelo â; effeithio; effeithio ar; bod o bwys i; trafod.
Have little to do with jealous men—bid ychydig à wnelot â dynion eiddigus.
Do, that is a good creature—gwna, da dithau.
Do but obey my voice—yn unig gwrandaw ar fy llais; yn unig gwrandawa fy llais.
He cannot do that—nis gall efe wneuthur hyny; ni ddichon efe mo hyny.
Self do, self have—fâl y gwnaethoch y cawl, cymmerwch; megys y gwnaethoch y cawl, yfwch ef.
Do well and have well—os da y gwnei, da y cei; fel y gwnai, felly y cai; megys y gwnei, felly y cei; fâl y gwnaethoch y cawl, cymmerwch.
What hast thou to do to declare my

statutes?—beth sydd i ti à fynegech ar fy neddfau?
You have nothing to do with us—nid yw i chwi ac i ninnau (*Ezra* iv. 3).
With whom we have to do—am yr hwn yr ydym yn son (*Heb.* iv. 13).
Dost thou now govern the kingdom of Israel?—ydwyt ti yn awr yn teyrnasu ar Israel? a ydwyt ti yn awr yn teyrnasu ar Israel (1 *Bren.* xxi. 7)?

Do, *s.* sill arferedig mewn cerddoriaeth.

Doat, *v. n.*=*Dote.*

Docibility, } *s.* hyddysgedd, hyddofedd; par-
Docibleness, } odrwydd i ddysgu; parodrwydd
Docility, } *neu* gymhwysder i gymmeryd dysg; parodrwydd i dderbyn addysg; parodrwydd i gymmeryd ei ddysgu; athrylithgarwch; gwarwch, gwarder, hynawsedd.

Docible, } *a.* (Ll. *docilis*) hyddysg, hyddof, hy-
Docile, } drin, hydyn, hywedd, hywaith, dysgadwy, athrylithgar; hawdd ei ddysgu; hawdd i'w addysgu; hawdd ei drin; dofaidd, dof, gwâr, gwaraidd, hynaws.

Docimacy, *s.* (Gr. *docimasia*) delbrofiaeth, delidbrofiaeth, mettelbrofiaeth, delbrofiad, delbrawind; metteliaeth, mettelwaith.

Docimastic, *a.* (Gr. *docimasticos*) delbrofol, delidbrofol, delbrawol, mettelbrofol; mettelweithiol.

Dock, *s.* (S. *docce*; Al. *docke*; Gr. *daucos*; Ll. *daucus*) tafol; tafolen.
Sharp dock, } trython, tafol Mair, chwys-
Ditch dock, } oglen, tafol blaenllym.
Bloody-veined dock—tafolen goch, tafolen waedlyd.
Curled dock — tafolen grech: *pl.* tafol crychion, tafol crych.
Broad-leaved dock — tafolen lydanddail, tafolen y cwn, tafolen gyffredin.
Great water dock—tafol y dwr, tafol y dwfr, tafol hirion, suran hir.
Sour dock—dringol, dringon, suran yr yd.
Golden dock—tafol y môr.
Dock leaves—dail tafol.
In dock out nettle—y naill wenwyn a ladd y llall.

Dock, *s.* llongarth, llongorsaf, llongborth, llongadeilfa; cloren march, cynffon march; cloren, rhonell, conell; pedrain; tocen; cynffon *neu* gloren gota; caes tocen, tocwisg, tocwain; cloer, llogawd, bâr.

Dock, *v. a.* (o'r C.) tocio, twcio, cwtogi; tori yn fyr; tori yn gwta; tori ymaith; byrhau, talfyru, dyfyru, byrdori, blaendocio, blaendori, llosttori; tori cloren; tynu o; attal, rhwystro; dystrywio, gorchfygu.

Dock, *v. a.* llongarthu, llongorsafu, gorsafu llong, dwyn i longorsaf.

Docked, *a.* tociedig; toc, cwta; cynffonfyr, llostfyr; amdrwch; à dorwyd yn fyr.

Docket, } *s.* (C. *tocio*) toced, toceb, tocyn, toc-
Docquet, } nod, cyfeirnod, hyfforddnod, cyfarwyddnod, nwyddnod; cwynres; crynodeb, talfyriad, cynnwys; torgedeb.

Docket, } *v. a.* tocnodi, tocedu, tocebu, cyfeir-
Docquet, } nodi, hyfforddnodi; nodi â thoced; talfyru; talfyru a llyfru.

Docking, *s.* llongarthiad; tyniad *neu* ddygiad i longorsaf; llongorsafiad, llongborthiad.

Dock-master, *s.* meistr llongarthau, llongarthydd, arolygwr llongorsafoedd, meistr gorsafoedd, penllongborthydd.

Dock-yard, *s.* llongarthfa, llong-gadlas; ystorfa llongorsaf, buarth llongorsaf.

Doctor, *s.* (Ll.) doethor, dysgawdwr, dysgawdur, athraw; meddyg, doctor: *pl.* doethoriaid, doethorion.
Doctor of Divinity, } Doethor Duwinydd-
Doctor in Divinity, } iaeth, Doethor Dwyfyddiaeth; Dysgawdwr Duwinyddiaeth, Athraw Dwyfyddiaeth, Doctor Duwinyddiaeth.
Doctor of Laws—Doethor Cyfreithiau.
Doctor of Civil Law, } Doethor Cyfraith
Doctor in Civil Law, } Lëyg; Doethor Cyfraith Wladol; Doethor Cyfraith Fyd; Doethor y *neu* yn y Gyfraith Lëyg.
Doctor of Medicine, } Doethor Meddyg-
Doctor of Physic, } iaeth, Doethor Meddyginiaeth.
Doctor of Philosophy—Doethor Athroniaeth.
Doctor of Music — Doethor Peroriaeth, Doethor Cerddoriaeth, Doethor Alaw, Bardd Alaw.
Doctor of civil and canon law—doethor yn rhaith gwlad ac eglwys; doethor cyfraith lëyg a llên; doethor y ddwy gyfraith; athraw yn y ddwy gyfraith; doethor llëyg a llên; doethor cyfraith fyd ac eglwys.
Doctors' Commons—Rheithglas, Rheithgoleg, Rheithgor.
Doctor's degree—gradd doethor, doethoriaeth, doethorurdd, doethorradd, athrawurdd.
To commence Doctor in Divinity—cymmeryd gradd Doethor Duwinyddiaeth; cymmeryd arno radd Doethor Dwyfyddiaeth; cael ei urddo *neu* raddio yn Ddoethor mewn Duwinyddiaeth; graddio yn Ddoethor Dwyfyddiaeth.
Gamaliel, a doctor of the law—Gamaliel, doctor o'r gyfraith (*Act.* v. 34).
In the midst of the doctors—yn nghanol y doctoriaid (*Luc* ii. 46).

Doctor, *v.* meddygu, meddyginiaethu, gwella.

Doctoral, *a.* doethorol, doethoraidd, doethorus, doctorol, doctoraidd, doctorus; perthynol i radd doethor.

Doctorally, *ad.* yn ddoethorol; fel doethor.

Doctorate, } *s.* doethoriaeth, doctoriaeth, gradd
Doctorship, } doethor, doethorradd, athrawurdd; swydd *neu* urddas doethor.

Doctorate, *v. a.* doethori, doethorraddio; gwneuthur, graddio, *neu* raddu yn ddoethor.

Doctorly, *a.* doethoraidd, doethorus, doethorol, athrawol, athrawus, athrawaidd, dysgedig; fel doethor.

Doctress, } *s.* doethores, meddyges, meddyg-
Doctoress, } wraig.

Doctrinnaire, } *s.* (Ff. *doctrinnaire*) hoffwr
Doctrinary, } athrawiaethau *neu* ddeseban
Doctrinist, } newyddion; trawddysgydd: *pl.* trawddysgeidion.

Doctrinal, *a.* (Ll. *doctrina*) athrawiaethol, athrawiaethus, addysgiadol, addysgol, athrawus, athrawedigol.

Doctrinal, *s.* dysgeidran; à fo yn rhan o athrawiaeth; addysg, athrawiaeth.

Doctrinally, *ad.* yn athrawiaethol, yn athrawaidd; ar wedd addysg *neu* athrawiaeth; mewn modd athrawiaethol *neu* addysgiadol.

Doctrine, *s.* (Ll. *doctrina*) athrawiaeth, addysg; dysg, dysgeidiaeth.
False doctrine—gau athrawiaeth, geulith, ffals ddysgeidiaeth.
False doctrine, heresy, and schism — gau athrawiaeth, camgred, ac ymraniad.
Doctrine of faith—athrawiaeth ffydd, gofyddeb ffydd.
Contrary doctrine — gwrthddysg, gwrthaddysg; athrawiaeth groes *neu* wrthwynebol.
Whom shall he make to understand doctrine?—i bwy y par efe ddeall yr hyn a glywo (*Esa.* xxviii. 9)?

Document, *s.* (Ll. *documentum*) addysg, gorchymyn, cyfarwyddyd, hyfforddiad, gwers, llith; prawfysgrif, prawfysgrifen, gweithred, prawf, ysgrifdyst, ysgrifendyst, tysteb, ysgrif, cynysgrif, mynagysgrif; ysgrif ardystiol *neu* hysbysol.

Document, *v. a.* addysgu, athrawiaethu, cyfarwyddo; cynnysgaethu â phrawfysgrifau, &c.; tystebu.

Documental, *a.* addysgol, addysgiadol, cyfarwyddol; prawfysgrifol, mynagysgrifol, ardystiol, ysgrifdystiol.
Documental testimony—tystiolaeth prawfysgrif.

Documentary, *a.* perthynol i brawfysgrifau, &c.; cynnwysedig mewn prawfysgrifau; prawfysgrifol, ysgrifdystiol, ardystiol; cynnwysedig mewn gweithredoedd.

Dodder, *s.* (Al. *dotter*) llindro, llindag, llinglwm, cyfnydd.
Lesser dodder — cyfnydd lleiaf, llindro lleiaf.

Doddered, *a.* cyfnyddog, llindroawg; gorchuddiedig gàn lindro; cyfnydd, cyfnyddol.

Dodecagon, *s.* (Gr. *dôdeca* a *gônia*) deuddegochr, deuddegochron, llun deuddegochrog, deuddegongl.

Dodecagyn, *s.* (Gr. *dôdeca* a *gunê*) deuddegbenyw, deuddengfenyw, planigyn deuddegbenyw.

Dodecagynia, *s.* deuddegbenyw, deuddengfenyw, y llwyth deuddegbenyw.

Dodecagynian, *a.* deuddegbenywaidd, deuddengfenywaidd.

Dodecahedral, *a.* (Gr. *dôdeca* a *hedra*) deuddegochrog, deuddegoohrol, deuddegochr.

Dodecahedron, *s.* (Gr. *dôdeca* a *hedra*) deuddegochr, deuddegochron.

Dodecander, *s.* (Gr. *dôdeca* ac *anêr*) deuddegwryw, deuddengwryw, planigyn deuddegwryw.

Dodecandria, *s.* Deuddegwryw, Deuddengwryw; y genedl Deuddegwryw, yn nhrefniant Linnæus.

Dodecandrian, } deuddegwrywaidd, deuddeg-
Dodecandrous, } -wrywol, deuddegwrywaidd, deuddengwryw.

Dodecastyle, *s.* (Gr. *dôdeca* a *stulos*) deuddegbill, deuddegbillres, deuddeg colofn; pendist o ddeuddeg colofn yn yr wyneb.

Dodecatemorion, *s.* (Gr. *dôdecatos* a *morion*) deuddegfedran, deuddegfed ran, y ddeuddegfed ran.

Dodecatemory, *s.* (Gr. *dôdecatos* a *morion*) deuddegfedan=enw à roir weithiau i bob un o 12 arwydd y sidydd.

Dodge, *v.* (o *dog!*) ymdröi, ysgöi, ymogelyd, ymochelyd, castio, gochelyd, gwachelyd; somi, siomi, twyllo, seithugio; rhedeg o'r naill le i'r llall; rhedeg o'r naill beth i'r llall; tasgu yma a thraw; rhedeg o chwedl i'w gilydd; ciliaw oddi wrth ei air; gwadu, gwrthddywedyd; trawsddadleu, trawsddadlu, geirdröi; bod yn anwastad; anwadalu; gwyraw oddi wrth y gwir; gwiblo, mwysdröi, dweyd a gwrthddweyd; dylyn yn ddichellgar *neu* yn ddirgel; dylyn o hirbell; olrhain cerddediad; gwylied camrau; castio, chwareu castiau; cecru, cegruso.

Dodger, *s.* ymdröwr, ymogelwr, ysgöwr, gochelydd, castiwr; somwr; trawsddadleuwr; olrhëwr, olrheiniwr, gwyliwr camrau; cecryn, bawyn.

Dodgery, *s.* cast, ymdro, ysgoad.

Dodkin, *s.* (o *doit*, a *kin*) darn bath bychan; hatlingen.

Dodman, *s.* math ar bysg.

Dodo, } *s.* math o aderyn mawr, weithian wedi
Didus, } myned ar ddifiant.

Dodrans, *s.* (Ll.) dyrnfedd daen=mesur Rhufeinig o ddeutu 9 modfedd o hyd.

Doe, *s.* (S. *da*; D. *daa*) ewig, hyddes, gafr ddân, gafr ddanas, gafr ddanys, danas.
Doe rabbit—cwningen fenyw; benyw cwningen.

Doe,† *s.* (o *do*) gorchest, gweithred.

Doer, *s.* (o *do*) gwneuthurwr, gwneuthurydd, gweithredydd, gweithredwr, gweithiwr.
Evil doer — drygweithredwr, drygweithredydd, drygddyn, un drygionus, dyn drygionus, gwneuthurwr drwg.

Doff, *v. a.* (Is. *doffen*; *do-off!*) dihatru, dïosg, dadwisgo, ymddïosg o; rhoi heibio, rhoddi ymaith; cael gwared; cael gwared o; ysgöi, gochel, gohirio. [cïes.

Dog, *s.* (Is.; Ff. *dogue*) ci: *pl.* cwn: *f.* gast, She-dog—cïes, gast.
Little dog—cïan, ci bach, colwyn, cenau ci, cenaw ci: *pl.* cynos, cwn bach.
Lap-dog—arffedgi, ffedelgi, ci arffed.
Setting dog, } adargi, gosodgi, ci adar.
Setter, }
Wild dog—ci gwyllt, gwyddgi, gwylltgi.
Shepherd's dog—ci bugail, bugeilgi.
Dogs of chase—helgwn, cwn hela, cwn hely.
Cur dog—corgi, costog, costawcci.
Dunghill dog—costawcci, costog tom.
Domestic dog—ci dof, ci gwâr, ci tam.
Wolf dog—bleiddgi, bleigi; *f.* bleiddast.
Lion dog—llewgi.
Coach dog—cerbydgi, ci cerbyd, ci Dalmatia.
Worrying dog—ysglyfgi.
Ferocious dog—ci ffyrnig, ci difiog.
Greedy dog—ci gwancus, bargi.
Churlish dog—drelgi.
Skulking dog—llechgi, techgi, ystelci.
Prying dog—chwiwgi, chwilgi.
Mad dog—ci cynddeiriog, ci cynneiriog.
Mongrel dog—brithgi, ci cymmysgryw, ci cymmysg.
Dog-fox—llwynog gwryw, cadnaw gwryw.
Dog-ape—epa gwryw, ab gwryw.
A dog in a doublet—twyll i'w gyfaill; twyll i'w gydymaith.
Dog (in astronomy)—Cïan, Seren y Ci, Ciseren, Sirius.
Dog (in composition)—gwael, diryw, diryw-iedig, afryw, diwerth.

Dog, *s.* brigwn, gobed, daliedydd, ci.

Dog, *v. a.* hel, hela, hely, dylyn, ffel ddylyn, cel ddylyn; dylyn yn dyn; olrhain *neu* wylied camrau; cerdded ar ol un i'w wylio; dylyn yn ddirgel o hirbell; blino, dygn flino, poeni.

Dogal, *a.* (o *doge*) dugol, dugiol; perthynol i ddug lyw.

Dogate, *s.* (o *doge*) dugiaeth, duglywiaeth; swydd *neu* urddas penllywydd Gwenethia.

Dogbane, *s.* cidag, dïen y ci.

Dogbelt, *s.* dalrwymyn, dalwregys.

Dogberry, *s.* grawn cwyros, grawn cwyrialen, aeron cwyros, grawn pren ci, grawn y cwn.

Dogberry-tree, *s.* cwyros, cwyrwialen, cwyrialen, pren ci.

Dogbrier, *s.* ciros, egroeswydd, ogfaenllwyn, marchfïeri, merddrain, ogfaenwydd.

Dogcabbage, *s.* bresych y cwn, cawl y cwn, blaen yr iwrch, cwlwm yr asgwrn, cifresych.

Dogcheap, *a.* â newid y ci arno; â mawr newid arno; dân draed; tra iselbris; rhad y ci.

Dogdays, *s. pl.* dyddiau y cwn, dyddiau'r cwn =y dyddiau pryd y mae Seren y Ci yn codi a machlud gyda'r haul.

Dogdraw, *s.* cidyniad.

Doge, *s.* (It.; Ll. *dux*) dug, duc, duglyw, gwledig=penllywydd Gwenethia a Genoa.

Doge of Venice—duglyw Gwenethia.

Dogfight, *s.* ymladd cwn.

Dogfish, *s.* morgi, penci, ci coeg.

Dogfly, *s.* cigleren, cleren y cwn.

Dogged, *a.* costog, costogaidd, sarig, anfwyn, anhynaws, sur, sor, afrywiog, taiog, anfoddog, drygnawsus, drygnwydus, anynad, dreng, blwng, cuehiog, der, deraidd; cïaidd; olrheinedig, dylynedig.

Doggedness, *s.* costogrwydd, sarigrwydd, afrywiogrwydd, anhynawsedd, taiogrwydd, &c.

Dogger, *s.* (o *dog*, yn ol *Skinner*) ysgorfad; math o lestr pysgota perthynol i'r Iseldiroedd.

Doggerel, *a.* (o *dog*) gwael, gorwael, distadl, dirmygus, sal, salw, anghelfydd, anghywrain, dïelwig; afreolaidd, rhimpynaidd, rhimynaidd, rhospaidd, trwsgl.

Doggerel rhymes—rhimpynau anghelfydd, odlau rhimpynaidd, odlau rhosp, rhimynau afreolaidd, rhospau.

Doggerel rhymer — rhospwr, rhospydd, rhospur, rhimpynwr, rhosp-rimynwr.

Doggerel, *s.* rhimpyniaeth, rhimyniaeth, rhosp; prydyddiaeth rimynaidd, anghelfydd, *neu* rospaidd.

To speak doggerel—llefaru yn anghyfiaith; llefaru yn anghroew; dywedyd llediaith; adrodd rhimpynau anghelfydd, anghywair, *neu* anfarddonaidd.

Doggerman, *s.* ysgorfadwr, morwr (yn yr Iseldiroedd).

Doggers, *s. pl.* allogfain.

Doggish, *a.* (o *dog*) cïaidd, creulawn; costogaidd, costog, afrywiog, sarig, terig, anynad, cras, sur, sor, anhynaws, taiog, cipgar, brathlyd, drelaidd, dreng, der, blwng, croes.

Dog-grass, *s.* glaswellt y cwn, gwenithwellt ymdaenol, gwenithwellt rhedegog, llygad y ci, triagl y cwn.

Doghearted, *a.* cïaidd, creulawn, didostur, didosturi, annhosturiol, annhrugarog; calongïaidd; â chanddo galon ci; maleisus, drygnwydus.

Doghole, *s.* twll cwn, cut cwn.

Doghouse, } *s.* cyndy, ty cwn, ty y cwn, cyn-
Dogkennel, } llwst, cynhordy, cynel, llwst.

Dog-Latin, *s.* Lladin farbaraidd, Lladin droëgl, Lladin wael, Lladin orwael, Lladin lediaith, Lladin ledieithog, Lladin y ci.

Dog-leech, *s.* meddyg cwn.

Doglouse, *s.* lleuen cwn, lleuen y ci.

Dogly,† *a.* fel ci, ciaidd.

Dogma, *s.* (Gr.) egwyddor sefydledig, egwyddor sefydlog, addyeg sylfaenol, tyb sefydledig; egwyddor, gosodiad, gosodiant, gosodiad, gosod, gosodedigaeth, athrawdyb, trawddysg, trawdyb, daliad, haerdyb, dirdyb, hondyb, tyb, tybiant.

The dogmas of the church—trawdybiau, athrawdybiau, *neu* ddaliadau yr eglwys; trawddysg yr eglwys.

Dogmad, *a.* (*dog* a *mad*) cynddeiriog, cynneiriog.

Dogmatic, } *a.* (Gr. *dogmaticos*) trawdybiol,
Dogmatical, } athrawdybiol, trawddysgol, haerdybiol, pendant, haeriadol, honawl, honiadol, dir, awdurdodaidd, awdurdodol, rhyawdurdodol, rhy-awduraidd, rhyhyderus, trahyderus, hynandybus, meistrolgar, amryfus; cyndyn, ystyfnig; tyn *neu* syth ei farn; â fyn fod ei air ef yn air ar bawb; â fo yn bendant o hano ei hun; â fyn i bawb ymostwng i'w farn ef; tybgar; doethoraidd.

Dogmaticalness, *s.* pendantrwydd; awdurdodoldeb; haerodd, haeriadoldeb; trawdybioldeb, trawdybiolrwydd, &c.

Dogmatics, *s.* trawddysgiaeth, trawdybiaeth, dwyfyddiaeth athrawiaethol, trawddwyfyddiaeth.

Dogmatism, *s.* haeriad noeth, honiad noeth, haeriad, honiad, honawd; haerdybiaeth, meistrolddysg; pendantrwydd; amryfoldeb, amryfolder, gorhydri, trahausder; pendantrwydd tyb *neu* farn.

Dogmatist, } *s.* haerdybiwr, haerwr, haerydd,
Dogmatizer, } honwr, dyhaerydd; awdurïaethwr, trawddysgydd, trawdybiwr; dysgawdwr pendant a meistrolaidd; dysgawdwr hunan-hyderus, rhy hyderus, *neu* dra hyderus; dyn doethoraidd; cyhoeddwr *neu* draethwr tybiau newyddion.

Dogmatize, *v. n.* (Gr. *dogmatiso*) trawddysgu, trawdybio, awduriaethu; dysgu yn feistrolgar; dyhaeru, hôni; haeru *neu* hôni yn feistrolgar *neu* awdurdodaidd; haeru yn hunan-ddigonol; haeru ei farn *neu* ddaliad yn hunan-ddigonol; cyhoeddi rhyw dyb newydd; hau, taenu, *neu* bregethu ar led ei amcanion ei hun a'u cymhell ar bawb; gosod allan yn hunan-hyderus; hôni peth ammhëus megys diddadl.

Dog-poison, *s.* coegberllys, geuberllys.

Dogrose, *s.* ciros, egroeswydd, ogfaenllwyn, marchfïeri, merddrain, ogfaenwydd, rhos y cwn, rhos gwyllt: *sing.* cirosyn.

White dogrose—ciros gwŷn.
Downy-leaved dogrose—rhosyn lledwlanog.
Roughish-leaved dogrose—rhosyn lledarw.
Fruit of the dogrose—egroes, ogfaen, aeron y ciros, aeron mïeri Mair.

Dog's-bane, *s.* cidag, dïen y ci.

Dog's-ear, *s.* clust ci; ymyl dalen plygedig; clust lipa

Dog's-ear, *v. a.* plygu yn llipa; troi i lawr fel clust ci; clustlipäu; plygu dalen.

Dogsick, *a.* mòr sal a'r ci; càn glafed a'r ci; cyn saled a'r ci.
Dogskin, *a.* o groen ci; à wnaed o groen ci.
Dogsleep, *s.* cwsg ci, rhithgwsg, gogwsg, dargwsg, esgus-gwsg, cigwsg.
Dog's-meat, *s.* bwyd cwn, cig cwn; syrthion, ysborion, gwaelïon.
Dog's-rue, *s.* gorddawn y cwn, rhud y cwn, rhut y cwn.
Dogstar, *s.* Seren y Ci, Cïan, Ciseren, Sirius.
Dog's-tail-Grass, *s.* rhonwellt y ci.
Crested dog's-tail-Grass — rhonwellt y ci cribog.
Dogstones, *s. pl.* tegeirian, eirin y ci, ceilliau y ci.
Dog's-violet, *s.* peu y neidr.
Dog's-tooth, *s.* dant ci, ciddant.
Dogtooth, *s.* dant llygad, llygad-ddant, llygatddant, ciddant.
Dogtrick, *s.* cast ci, tro brwnt, cast brwnt, tro cas, ymddygiad cïaidd.
Dogtrot, *s.* tuth ci.
Dogvane, *s.* ciwyntyr.
Dogwatch, *s.* ciwylfa, byrwylfa.
Dogweary, *a.* mòr flin a'r ci; gorflin, gorflinedig, tra diffygiol.
Dogwheat, *s.* gwenith y ci, gwenith y cwn.
Dogwood, *s.* cwyros, cwyrwialen.
Dogwood-tree, *s.* cwyroswydd=pren perthynol i Iamaica.
Doily, *s.* (oddi wrth ddynsawd o'r enw) llawlïan; napcyn.
Doing, *p. p.* yn gwneuthur, gàn wneuthur, &c.
What are you doing?—beth yr ych chwi yn ei wneuthur? beth ych yn ei wneuthur? beth yr ych *neu* yr ydych yn ei gylch? beth ych chwi yn ei gylch?
By doing nothing we learn to do ill—trwy fod heb wneuthur dim y dysgwn wneuthur drwg; trwy fod yn segur y dysgwn wneuthur drwg.
It is now a doing—y mae yn awr mewn llaw.
I am still a doing—yr wyf fyth ar waith; yr wyf fyth yn ymdrafferthu; nid wyf fi byth yn gorphwys; nid wyf fi byth yn cymmeryd seibiant.
To keep one a doing—cadw un ar waith; rhoi i un waith i'w wneuthur; rhoi gwaith i un i'w wneuthur; tori *neu* lunio gwaith i un.
Doing, *s.* (o *do*) gweithred, gwaith, gweithrediad, gwneuthuriad, cyflawniad, digoniant; ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, mces; cynhwrf, twrdd, cyffro; gorchest, camp, gorug.
Doings — gweithredoedd, cyflawniadau; gorchestion, campau, gorugiau; trafferth, trafod, tres, terfysg, cynhwrf; ymddygiad, ymarweddiad, ymarwedd, moes; helynt, dygwyddiad; arlwyannau, arlwy; gwledd; llawenydd.
Great doings—gorchestion, campau, &c.; arlwy mawr; llawenydd nid bychan.
Bad doings—gweithredoedd drwg, troion drwg, chwylïon drwg.
This is the Lord's doing—o'r Arglwydd y daeth hyn.
Doit, *s.* (Is. *duit* neu *duyt*; Al. *deut*) hatling (yn yr Iseldiroedd): ffril, tegan, anober, bychydigyn.
I care not a doit—nid wyf yn malio brwynen; ni faliaf frwynen.

Dolabriform, *a.* (Ll. *dolabra* a *forma*) bwyellaidd; ar lun bwyell.
Dolce, *a.* (It.) mwyn.
Dolcemente, *ad.* (It.) yn fwyn.
Dole, *s.* (S. *dal*; R. *dolia*) rhan, cyfran, dogn, parth, ysgâr, rhandwy; cardod, rhodd, anrheg, elusen; haelrodd, llawrodd, arian-rhan, estyn; ergyd; †cyffin, terfyn.
Dole, *v. a.* cyfranu, rhanu, dogni; cyfranu cardodau *neu* elusenau.
Dole,† *s.* (Ll. *dolor*) cwyn, cwynfan, alaeth, galar, tristwch.
Doleful, } *a.* (*dole*, *full*, a *some*) tristlawn,
Dolesome, } trist, athrist, alaethus, galarus, cwynfanus, wylofus, trwm, (*f.* trom), prudd, trymllyd, irad, girad, tostur, truan, truenus, gresynus, gofidus, aethus, ansiriol, anhylon, brwyn, graen, syn; gwrm, caddugol, ffyll.
Doleful shades—cysgodion gwrm.
Doleful creatures—gormesiaid (*Esa.* xiii. 21).
Dolefulness, } *s.* alaeth, gofid, tristwch, trist-
Dolesomeness, } lonedd, alaethusrwydd, galarusrwydd, tristedd, athristedd, pruddineb, &c.; aeth, trymfryd.
Dolent,† *a.* (Ll. *dolens*) alaethus, tristlawn.
Dolerite, *s.* math o risgraig.
Dolichos, *s.* (Gr.) ymgraflys, coslys.
Dolichurus, *s.* (Gr. *dolichos* ac *ouros*) hirlostodyn, mydr hirlost; mydr â sill yn ormod ynddo.
Doll, *s.* (C. *delw*; Gr. *eidôlon*) delwan, pincen, llamddelwan geneth, maban plentyn.
Dollar, *s.* (Al. *thaler*; Is. *daalder*; D. a Sw. *daler*) doler; *pl.* doleri, dolerau=darn o arian o werth yn agos i 4*s.* 6*c.*
Dolomite, *s.* (oddi wrth *Dolomieu*, daiaregwr Ffrengig) dolomith.
Dolomitic, *a.* dolomithig, dolomithaidd.
Dolor, } *s.* (Ll. *dolor*) dolur, poen, gloes;
Dolour, } gofid, tristwch, galar, alaeth; cysteg, cystudd, cythrudd.
Doloriferous, *a.* (Ll. *dolor* a *fero*) à ddwg ddolur; à roddo boen; dolurus, cystegol.
Dolorific, *a.* (Ll. *doloríficus*) dolurus, poenus, poenfawr, gofidus, cystegol, doluriol.
Doloroso, *a.* (It.) pergyffrôus.
Dolorous, *a.* (o *dolor*) alaethus, galarus, tristlawn, trist, athrist, cwynfanus, gofidus, aethus; dolurus, poenus, cystuddiol, cystegol, irad, girad, cethin, erchyll, erch, echrys.
Dolphin, *s.* (Gr. *delphin*; Ll. *delphin*, *delphinus*; Ff. *dauphin*; Gw. *deilf*) dolffyn, morhwch: *pl.* dolffyniaid, dolffynod, morhychod.
Dolphinet, *s.* dolffynes.
Dolt, *s.* (Al. *tölpel*; S. *dol*) penbwl, pendew, hurthgen, cadafael, hurtyn, delff, cuall, lleban, hurth, brebwl, hult, hultan, hutyn, llelo, ffwl, llob, llobyn, penllorcan, penwan, ullda, un dwl, ffwlcyn.
Dolt, *v. n.* ymddwyn fel penbwl; ymddwyn fel ffwl; ymddwyn yn ffol, yn ddwl, *neu* yn ynfyd; treulio amser yn ffol; chwareu y ffwlcyn.
Doltish, *a.* penbylaidd, pendew, penfas, delffaidd, hurt, penffol, penblydd, penglogaidd, penwan, synwyrbwl, disynwyr, trymhyrddig, dwl, (*f.* dôl), cuall; swrth, marwaidd.
Doltishness, *s.* penbyledd, pendewedd, penfasder, hurtrwydd, penffoledd, &c.

Domable, *a.* (Ll. *domabilis*) dofadwy, gwaradwy, hyddof, hywar; à ellir ei ddofi.

Domain, *s.* (Ff. *domaine*; Ll. *dominium*) tiriogaeth; llywodraeth, arglwyddiaeth, arlwyddiaeth, ymherodraeth; treftadaeth, etifeddiaeth, tattref, tir, tiroedd, tiredd, meddiant; athref, tyddyn cartrefol, maenor; tiroedd o gylch trigfan.

Domal, *a.* (Ll. *domus*) tyol, tyaidd; serdyol; perthynol i dy (mewn serddewiniaeth).

Dome, *s.* (Ff. *dôme*; Ll. *domus*; Gr. *domos*) adeilad, adail, ty; cromen, croman, nendwr, cromgop, cromgopa, copolan; eglwys gadeiriol, cadeirlan; annedd.

Domed, *a.* cromenog, cromgopog, copolawg; âg iddo gopolan.

Domesday, *s.*=*Doomsday*.

Dome-shaped, *a.* cromenaidd; ar lun croman.

Domesman,† *s.* (*doom* a *man*) barnwr, barnydd, dyddiwr, canolwr.

Domestic, *a.* (Ll. *domesticus*) cartrefol, cartrefig, cartrefaidd, teuluaidd, teuluol, athrefol, athrefig, ethrefig, tyaidd, tyol; cyfannedd; dof, gwâr, dofedig; perthynol i'r ty, i'r teulu, *neu* i gartref.

Domestic man—gwr teuluaidd, cartrefol, cartrefig, *neu* drefig; cartrefwr, teulüwr, tylüwr.

Domestic wife—gwraig deuluaidd, gartrefol, *neu* gyfannedd; teuluwraig, cartrefwraig.

Domestic servant—teuluwas, tywas, gwas teulu, gweinidog teulu, tyweinydd.

Domestic slave—caeth gweinyddol.

Domestic bard—bardd teulu.

Domestic animal—anifel dof, gwâr, gwarddof, *neu* lawfaeth; gwestfil, lledfegyn.

Domestic economy—teuluaeth, teulüyddiaeth, teulüwriaeth, trefnidedd teuluaidd, cynnildeb teuluol, tylywodraeth, tydrefniant, tydrefnidedd; rheolaeth, llywodraeth, *neu* drefnidiaeth ty.

Domestic manufactures—gwaith cartref, gwaith cartrefol, gweithiau cartrefol.

Domestic medicine—meddyginiaeth deuluaidd, meddyginiaeth deulu.

Domestic, *s.* gweinidog, gweinydd, gwas, morwyn, tywas, teuluwas, teulüwr, teuluddyn, tylwythddyn; un o dylwyth *neu* deulu; un yn ngwasanaeth un.

Domesticant, *a.* teuluol, teuluaidd, tyluaidd; yn ffurfio rhan o'r un teulu.

Domesticate, *v. a.* cartrefu, cartrefigo, cartrefoli, athrefu, athrefoli, athrefigo; cynnefino *neu* arferu bod gartref; gwneuthur yn gartrefol; dofi, gwarhau, cynnefino, teulueiddio, gwareiddio; gwneuthur yn ddof *neu* wâr.

To domesticate wild animals—dofi gwyllfilod; dofi milod gwyllt ion.

Domestication, *s.* cartrefiad, athrefiad, arosiad gartref; dofiad, dofawd, gwarhad.

Domesticity, *s.* cartrefolrwydd, cartrefoldeb, cartrefigrwydd, athrefigrwydd, athrefoldeb, athrefolrwydd, teulueiddrwydd; dofaeth, dofedigrwydd, gwaredd.

Domicile, } *s.* (Ll. *domicilium*) trefred, car-
Domicil, } tref, trefad, haddef, anneddle, anneddfa, trigfa, trigle, trigias, haddfa, ystref, ymogor, tref, trefa, cartrefle, preswylfod, preswylfa, preswylfan, annedd.

Domicile, }
Domicil, } *v.a.* cartrefu, haddefu, athrefu,
Domiciliate, } trefredu, dofri, trefu, trefiannu, preswylio, anneddu, trigo, ystrefu, trefadu.

Domiciliary, *a.* (o *domicile*) haddefol, trefredol, anneddol, trigfaol, ystrefol, cartrefol; perthynol i drefred.

Domiciliary visit—gofwy haddefol, ymweliad chwil, chwil-ymweliad, chwilofwy.

Domiciliation, *s.* cartrefiad, cartrefiant, haddefiad, preswyliad, anneddiad, cyfanneddiad, trigfaniad, trefiant.

Domify,† *v. a.* (Ll. *domus* a *facio*) tyoli, tyo; tyeiddio, dofi, gwarhau.

Dominant, *a.* (Ll. *dominans*) llywodraethol, llywodraethus, llywodrol, llywiedigol, llywiannus; yn rheoli, yn llywodraethu, yn llywio, yn meistroli, yn blaenori; blaenaf, cryfaf, trech, trechaf, uchaf, penaf, pen, goruchafaidd; gorfodol, blaenorol; à fo yn rheoli, &c.; à fo â'r llywodraeth ganddo.

Dominant chord—llywdant.

Dominant, *s.* llywsain, llywnod.

Dominate, *v.* (Ll. *dominatus*) llywodraethu, rheoli, llywio, arglwyddiaethu, arlwyddiaethu, rhwyfan, rhwyfain; cael y goreu ar; cael y trechaf ar; trechu; dwyn tano; dwyn i lawr; gorchfygu, darostwng, gorfod; bod yn feistr *neu* yn ben ar; meddu yr oruchafiaeth; gormeilio; tycio.

Domination, *s.* (Ll. *dominatio*) arglwyddiaeth, arlwyddiaeth, llywodraeth, rheolaeth, goruchafiaeth, meistrolaeth, rhwyfolaeth, llywiedyddiaeth, rhwysg; llywodraethiad, rhwyfiad, rhwyfiant, rheoliad, rhwysgiad, gorthrechiant; gormes, gormail, trais, camrwysg, traws-awdurdod; gallu, gulluedd.

Dominative, *a.* llywodraethus, llywodraethol; yn llywodraethu, yn rheoli; arglwyddaidd, traws-arglwyddol, traws-arglwyddaidd, effrom, gormeilus, trahäus.

Dominator, *s.* (Ll.) llywydd, rheolydd, llywodraethydd, llyw, llywiadur, llywadur, llywiedydd, rheolur, modur; dofydd; arlywiad, arddylanwad, cyffrawd; gallu llywyddol *neu* lywodraethol; gormeilydd, gormesydd, llywiadur annibynol, traws-arglwydd.

Jupiter and Mars are dominators for this part of the world—Iau a Mars yw dofyddion y parth hwn o'r byd; Iau a Mawrth yw rheolyddion y rhan hon o'r byd.

Domineer, *v. n.* (Ll. *dominor*; Ff. *dominer*) arglwyddiaethu, arlwyddiaethu, arglwyddo, llywodraethu, rheoli, rhwysgo, meistroli, dwyn rhwysg; traws-arglwyddiaethu, traarglwyddiaethu, traws-lywodraethu; bygylu, gwag fwgwth, bocsachu, dwndro; bod yn drahäus.

Domineering, *a.* arglwyddaidd, meistrolaidd, meistrolgar, traws-arglwyddaidd, arglwyddiaethol, arlwyddiaethus, arlwyddiaethol, rhwysgol; trahäus, rhodresus, rhydresus, bygylus; gormeilus, gormesol; yn rhwysgo; yn dwyn rhwysg, &c.

Dominical, *a* (Ll. *dominicalis*) arglwyddol; perthynol i'r Sul; à berthyn i'r Sabbath; perthynol i ddydd yr Arglwydd; sulnodol, Sulaidd.

Dominical letter—llythyren Sul, llythyren y Sul.

Dominical, *s.* y Sul, dydd Sul, dydd yr Arglwydd, yr arglwyddol ddydd.

Dominicide, *s.* (Ll. *dominus* a *cædo*) arglwyddleiddiad, meistrleiddiad, lladdwr ei feistr.

Dominion, *s.* (Ll. *dominium*) arglwyddiaeth, arlwyddiaeth, llywodraeth, rheolaeth, goruchafiaeth, llywedyddiaeth, llywaduriaeth, llywyddiaeth, arlywyddiaeth, penarglwyddiaeth, penaduriaeth, teyrnedd, ymherodraeth, unbenaeth, goruch; rhwysg, gallu, galluedd, awdurdod; tiriogaeth, talaeth, cyfoeth; cyrhaeddiad *neu* helaethrwydd teyrnas *neu* dalaeth.

To have dominion over—arglwyddiaethu ar, llywodraethu ar; bod i un lywodraeth ar; llywodraethu, arglwyddiaethu, meistroli, &c.

Under the dominion of—tàn lywodraeth, tàn law.

All the kingdoms of the earth of his dominion—holl deyrnasoedd y ddaiar y rhai oeddent dàn lywodraeth ei law ef (*Ier.* xxxiv. 1).

In all his dominion—yn ei holl gyfoeth (2 *Bren.* xx. 13).

Domino, *s.* (o *Dominicus!*) cwfl, cwfl mynach; cwcwll; hirwisg; ffedwisg, ffugwisg, mygydwisg; math o chwareu.

Don, } *s.* (Ysp.; o'r Ll. *dominus*) senw neu
Dom, } enwad yn yr Yspaen, à roddid gynt i bendefigion a boneddigion yn unig, ond yn awr i ereill yn gyffredin; Don, meistr, arlwydd, arglwydd.

To walk like a don—cerdded yn wynebuchel; cerdded yn uchel-falch; cerdded yn ben-uchel.

Don,† *v. a.* (o *do on*) gwisgo, gwisgo am.

Dona, } *s.* (Ysp. benywaidd, o *don*) senw bon-
Donna, } eddigesau yn yr Yspaen; Donna,
Duenna, } boneddiges, boneddes, rhian, meistres, madon, madan, arglwyddes.

Donable, *a.* (Ll. *dono*) rhoddadwy, hyrodd, rhoadwy.

Donary, *s.* (Ll. *donarium*) glwysrodd, rhodd gyssegredig.

Donation, *s.* (Ll. *donatio*) rhodd, anrheg, dawn, cyflwyn, goseb, gwoseb, rhybuched, cyfarwys, haelrodd, ced; rhoddiad, doniad, anrhegiad, rhoddiant, rhoad, rhoddedigaeth.

Donative, *s.* (Ll. *donativum*) rhodd, anrheg, goseb, gwoseb, dawn, rhybuched, cyflwyn, haelrodd, cyfarwys; rhodd ddigyfrwng, glwysfudd digyfrwng, bywoliaeth eglwysig ddigyfrwng, rhyddwoseb.

Donative, *a.* rhoddiannol, rhoddol, rhoddiadol, gosebawl, gwosebawl.

Done, *p. p.* (o *do*) gwneuthuredig; à wnaed, à wnaethpwyd; gwedi ei wneuthur; terfynedig, gorphenedig; wedi darfod; cyflawn perffaith; digon; wedi berwi, pobi, *neu* rostio digon; gwedi digoni; gwedi ei ddigoni.

I have done—darfu *neu* deryw i mi; gorphenais, terfynais, gwnaethym, &c.; yr wyf wedi dybenu; darfum.

Church is done — darfu y gwasanaeth; deryw yr eglwys; deryw, e dderyw, fe dderyw, e ddarfu, *neu* fe ddarfu y gwasanaeth; y mae'r gwasanaeth drosodd *neu* drwodd.

When all is done—yn y diwedd; yn y pen draw.

What is there done, my son?—beth a ddygwyddodd, fy mab (1 *Sam.* iv. 16)?

For as much as this is done of thee—oherwydd bod hyn ynot ti (1 *Bren.* xi. 11).

Hast thou not heard long ago, how I have done it?—oni chlywaist ti ddarparu o honof fi hyn er ys talm (2 *Bren.* xix. 25)?

And it was done—ac felly y bu (*Salm* xxxiii. 9).

And having done all—ac wedi gorphen pob peth (*Eph.* vi. 13).

Then that which is in part shall be done away—yna yr hyn sydd o ran a ddilëir (1 *Cor.* xiii. 10).

Done, *in.* dyna ben! dyna ddiwedd! purion! o'r goreu! fe ddarfu! fe dderyw! boddlawn!

Donee, *s.* (o'r Ll. *dono*) y derbynydd, y derbyniwr, donai, rhodd-gymmeriawdr; yr hwn *neu* yr hon y rhoddir peth iddo *neu* iddi; à gaffo, à dderbynio, à gafodd, *neu* à dderbyniodd rodd *neu* ddawn.

Doniferous, *a.* (Ll. *donum* a *fero*) dawnddygol, dawnddwyn; à ddwg roddion *neu* ddoniau.

Donjon, } *s.* (Ff.) gwarch castell, diogelfa
Dungeon, } castell, cedwidfa castell; castellwarch; cadarnfa *neu* gadarnfan castell; castelldwr; daiargell, daiardy.

Donkey, *s.* (?) asyn; *f.* asen. [dïogyn.

Donnat,† *s.* (o *do* a *nought*) seguryn, segurwas,

Donor, *s.* (o'r Ll. *dono*) rhoddwr, rhoddydd, y rhoddwr, y rhoddydd, rhoddiedydd, rhoddiad, doniwr.

Donship, *s.* (o *don*) gradd *neu* urddas Don; gradd bonedd; gradd marchog; urddas marchog *neu* foneddig.

Donzel, *s.* (It. *donzello*) gwesyn, gwastrodyn, ymlyniad.

Doodle, *s.* (o *do little*, efallai, medd *Johnson*; o *dote*, Port. *doudo*, efallai, medd *Webster*) seguryn, segurwas; oferwr, oferddyn; symlyn, gwageddwr, hurtyn, cadafael, hurthgen, ffwlcyn, penffol, brebwl.

Doom, *v. a.* (S. *dom*; Is. *doemen*; Sw. *döma*; D. *dömmer*) dyfarnu, barnu, dedfrydu; collfarnu; tyngedfenu, cyhoeddi tynged; cospi; cyhoeddi barn *neu* ddedfryd.

Doom, *s.* (S., Sw., a D. *dom*; Is. *doem*) barn, dedfryd, brawd, barnedigaeth; tynged, tyngedfen, twng, ffawd; colledigaeth, collfarn, collfarnedigaeth, dyfarniad; dinystr, dystryw; cosp, cospedigaeth.

The final doom—y farn ddiweddaf.

Doom, } math o balmwydd perthynol i'r Aifft
Doam, } Uchaf.

Doomful, *a.* (*doom* a *full*) llawn dystryw *neu* ddinystr; dystrywiog, dinystriog.

Doomsday, *s.* (*doom* a *day*) dydd barn, dydd y farn, dydd brawd, dydd y frawd; y dydd diweddaf.

Doomsday-Book, } *s.* Brawdlyfr, Llyfr Dydd
Doomesday-Book, } Brawd, Llyfr Dydd Barn= llyfr à gasglwyd ar orchymyn Gwilym Oresgynydd, yn cynnwys arolwg o holl diroedd Lloegr.

Doomster, } † *s.* barnwr, barnydd, brawdwr,
Dempster, } dedfrydwr.

Door, *s.* (S. *dora*, *dur*, *dure*; Al. *thür*; Is. *deur*; Sw. *dör*; Gr. *thura*) drws, dor; porth; mynedfa.

A little door—drysan, doran, gorddrws, gorddor; rhagddrws; drws bychan, dor fechan.

Front-door, Fore-door, talddrws, talddor, wyneb-ddor, rhagddor, rhagddrws, drws wyneb, drws yr wyneb.
Back-door—drws cefn, y drws dyeithr, y drws dirgel, geuborth.
Half-door—rhagddor, rhagddrws, heulor.
Trap-door — cibglawr, brad-ddrws, brad-ddor, drws codi.
Folding door, Two-leaved door, plygddor, drws deuhanner, dorau plyg.
Outer door, Street door, cynddor, cynnor, cyntor, y drws maes, y drws i maes, y drws allan, y drws allanol.
Within doors—yn y ty; o fewn y drysau; tu mewn i'r drysau; i mewn, i fewn, oddi mewn.
Without doors, Out of doors, allan; allan o dy; y tu allan i'r drysau; o'r tu allan i'r drysau; oddi allan, oddi maes, oddi faes, i maes; oddi gartref; o'r tu allan; heb dy uwch ei ben; tân yr awyr; yn yr awyr agored.
In doors—oddi mewn; gartref, yn nghartref, yn y ty.
From door to door—o ddrws i ddrws; o ddrws bwygilydd; o'r drws i'r llall; o un drws i'r llall.

Door-button, *s.* cnap drws, cna, cna drws.
Doorcase, Doorframe, *s.* hiniog, rhiniog, ystram drws, attegwyd drws, gwisg drws, attegwisg drws, annelwisg drws, attegddor, dorystram, dorgaes, ymylddor, bylddor.
Dooring,† *s.*=*Doorcase, Doorframe.*
Doorkeeper, *s.* drysor, porthor, dorgeidwad, ceidwad drws: *pl.* drysores, porthores.
Doornail, *s.* hoel drws.
Doorpost, Doorcheep, *s.* gorsin, gorsing, post drws, eminiog, amhiniog.
Upper doorpost—gwarddrws, capan drws, gorhiniog, cap drws, hiniog uchaf, rhiniog uchaf, gwarddarn drws.
Side-posts of a door—ystlysbyst drws, cilbyst dor.
Upon the doorposts of thine house—ar byst dy dy (*Deut.* xi. 20).

Doorsill, *s.* trothwy, seilddor, hiniog.
Doorstead, *s.* drws, porth, mynedfa, lle drws, dorfa.
Doorstops, *s. pl.* dorgoed, dorddalion.
Doorway, *s.* sangiar, porth, drws, mynedfa, cyntedd.
Doorway-plane, *s.* asaf sangiar, porth-asaf.
Doquet, *s.* (C. *tocio*) gwarant, arwaesaf, arwaeseb; trwydded.
Dor, Dorr, *s.* (Gw. *dord!*) chwilen y baw, chwil y bawai.
Dorado, *s.* (Ysp.) Cleddbysg, y Cleddbysg=cydser deheuol, yn cynnwys 6 seren, anweladwy yn ein lledred ni: yr eurbysg, yr eurgefn.
Doree, Dory, John-Dory, *s.* (Ff. *jaune dorrée*, eurfelyn) yr eurgefn, yr eurbysg, y pysg eurgefn.
Doring, *s.* drychrwydiad.
Dormancy, *s.* (o *dormant*) cysgadrwydd, cysglydrwydd, llonyddwch, anghyffro, anghyffroad, ymlonyddiad, cysgad.
Dormant, *a.* (Ff. o'r Ll. *dormio*) yn cysgu, yn nghwsg; ar wedd neu ystum un yn cysgu; cysgedig, cuddiedig, dirgel, celedig, cel, tân gudd, tân gel; o'r golwg; anghyffroedig, digyffro; esgeulusedig, à esgeuluswyd; marw; anweithgar; gogwyddol, osgoawl, ar ogwydd.
Dormant money—arian marw.
Lying dormant—yn gorwedd yn farw; yn gorwedd yn nghwsg.

Dormant, Dorman, *s.* swmer, trawst, prif drawst; cysgydd, cysgadur.
Dormar, Dormar-window, Dormer-window, *s.* torment, tormwnt, nenffenestr; ffenestr syth mewn nen osgoawl.
Dormitive, *s.* (Ll. *dormio*) cysgiadyr, cysor, cysgbair; cyffyr i beri cwsg.
Dormitory, *s.* (Ll. *dormitorium*) hundy, hunfa, cerner, hungell, cysgell, gwelyfan, ystafell gysgu, ystafell wely, gwelystafell, gwelygell, cysgle; hunfa y meirw, claddfa, claddgell.
Dormouse, *pl.* Dormice, *s.* (Ll. *dormio*, a *mouse*) pathew, bathor, marwgwsg=math o lyg, à gwsg am rai misoedd.
Dorn, *s.* (Al.) morgath arw, cath arw, cath bigog.
Dornock, *s.* llian Dornoc (yn yr Alban).
Doron,† *s.* (Gr. *dôron*) rhodd, anrheg; mesur o dair modfedd.
Doronicum, *s.* (Ar. *doronqi*) llewpard-dag, llewparttag, llysiau y llewpard.
Dorp, *s.* (Is.; Al. *dorf*) cordref, pentref, pentref bychan, treflan.
Dorr, Dor, *s.* (Gw. *dord!*) chwilen y baw, chwil y bawai.
Dor,† *v. a.* byddaru â swn.
Dorer,† *s.* bychygyr, begegyr, dïogyn.
Door-hawk, *s.* aderyn y droell, rhodwr.
Dorsal, *a.* (o'r Ll. *dorsum*) cefnol, cefnaidd; perthynol i'r cefn.
Dorsal fin of a fish—asgell cefn pysgodyn; adain cefn pysgodyn; asgell gefnol pysgodyn; cefn-asgell neu gefn-adain pysgodyn.
Dorso-cervical—cefn-yddfol; gwegilaidd.

Dorse, *s.* (Ll. *dorsum*) gortho.
Dorsel, Dorser, Dosser, *s.* (Ll. *dorsum*; Ff. *dos*, *dosier*) bancyr, cefn gawell, cawell cefn, cefn-gest, crowyn, cawell, cest; pynoreg, sadell.
Dorsibranchiata, Dorsibranchiates, *s. pl.* (Ll. *dorsum* a *branchiæ*) cefndagellogion, cefndagelliaid. [ellog.
Dorsibranchiate, *a.* cefndagellaidd, cefndag-
Dorsiferous, Dorsiparous, *a.* (Ll. *dorsum*, *fero*, *pario*) cefnddygol; yn dwyn neu yn cynnyrchu had ar gefn eu dail.
Dorsum, *s.* (Ll.) cefn; trum, cefnen; cefn bryn.
Dorture,† *s.* (byrhad o *dormiture*, o'r Ll. *dormio*) hundy, hunfa, hunle.
Dose, *s.* (Ff.; It. *dosa*; Gr. *dosis*) dogn, cyfferddogn; trafiwnc, trancell, llymaid, llwnc, darlwnc, caslwnc; swnip, swm, dognedd.
Dose, *v. a.* (Ff. *doser*) dogni, cyfferddogni; rhoddi yn ddognau; rhoddi meddyginiaeth neu gyfferi; rhoddi peth cas i.
Dosser, *s.* (Ff. *dos*, cefn, *dossier*, sypyn) bancyr, cefn-gawell, cawell cefn, cefn-gest, crowyn, cawell, cest; pynoreg, sadell.
Dossil, *s.* (llygriad o *dosser* neu *dorsel*) naddob, naddobell, naddswp, naddsypyn, rholyn llieinrwd.
Dot, *s.* (Al. *dotter*, yn ol *Skinner*; llygriad o *jot*, yn ol *Johnson*; C. *dodi*?) màn, mannod, menyn, manigyn, nod, nodyn; pyncyn, pwyntyn: *pl.* manigion.

Dot, *v.* mânu, menynu, mânnodi, nodi ; gwnseuthur mân nodau; mânfritho, brithnodi, britho.

Dotage, *s.* (o *dote*) lledfrydedd, lledfryd, penwendid, gwall synwyr, gwallgof, ymleferydd, marwerydd, gorphwyll, ynfydrwydd, syfrdandod, penwendid, henaint; dotiad; maldod, maledd, maldodaeth, tracharíad, traserch, trahoffedd, gorhoffder, ynfyd gariad; mall, malledd, malldod.

Dotal, *a.* (Ff. o'r Ll. *dotalis*) gwaddolog, egweddïol, agweddïol, cynnysgaethol.

Dotal town—tref waddol.

Dotard, } *s.* (*dote*) dotiwr, un lledfrydig, un
Doter, } penwan; un syfrdan *neu* benwan gân henaint; maldodwr, maleddwr, ffiadryn, traserchwr, tracharwr, trahoffwr, gorhoffydd, ffolserchwr, ffolserchydd, ffwlcyn.

An old dotard—henddyn mall disynwyr; hen ddyn penwan.

Dotardly, *a.* lledfrydig, penwan, pensyfrdan, penysgafn, maldodus; fel dotiwr; ynfyd, ffol, trahoff, gorhoff, ffolserchus; gwrachaidd.

Dotation, *s.* (Ll. *dotatio*) gwaddoliad, cynnysgaethiad, egweddïad, berthogiad; gwaddol, cynnysgaeth.

Dote, *v. n.* (Is. *dutten ;* C. *dotio*) bod *neu* fyned yn benwan; myned *neu* fod yn lledfrydig; bod *neu* fyned yn bensyfrdan; ymleferydd, pendroni, penwanu, hurtio, gwallbwyllo, anmhwyllo, gwallgofi, gorphwyllo, ynfydu, dotio, dotian, dotianu, ffiadru; gorhoffi, traserchu, amgaru, ymserchu, ymhoffi; dadfeilio, adfeilio, edwi, celffeinio.

To dote on, } gorhoffi, trahoffi, tracharu,
To dote upon, } traserchu, ymserchu yn, ymhoffi yn; rhoi mawrserch ar; ffolserchu yn *neu* ar; ynfyd garu; dotio am; bod yn benwan am.

You dote—yr ydych chwi allan o'ch pwyll; yr ydych allan o'ch cof; yr ydych chwi i maes o'ch cof; yr ych chwi maes o'ch pwyll; yr ydych yn ymleferydd; yr ydych yn anmhwyllo, &c.

A doting tree—hen bren gwywlyd; pren wedi celffeinio.

Dots, *s. pl.* plastglytion.

Dottard, *s.* tocwydden, cwtogbren, pren tociedig.

Dotterel, } *s.* (o *dote*) hutan=enw tylwyth o
Dottrel, } adar.
Dottrell, }

Sea dotterel—hutan y môr, morhutan.

Douanier, } *s.* (Ff. *douanier*) swyddog y cyllid
Douaneer, } yn Ffrainc.

Double, *a.* (Ff.; Ll. *duplus, duplex ;* Gr. *diploos ;* D. a Sw. *dubbel*) dyblyg, deublyg, deuddyblyg, dau ddyblyg, deufwy, dwbl; dau, dwy; dwyol, deuol; cymmaint arall, dau gymmaint, cymmaint ddwywaith, cynnifer arall; dwyffordd; deudro; deutu; deu-, dwy-; twyllodrus.

Double portion—deuparth.

Double meaning—deuystyr, ystyr dyblyg.

Double chin—tagell.

Double-chinned—tagellog.

Three double, } triphlyg, tridyblyg,
Three times double, } tri dyblyg.
Four double, } pedwarplyg, pedry-
Four times double, } blyg, pedwar dyblyg.

Five double, } pumplyg, pumdyblyg,
Five times double, } pumnyblyg.
Ten double, } degplyg, degdyblyg,
Ten times double, } deng-nyblyg.

Double nuts—cnau conglog.

Double diligence — tra diwydrwydd ; diwydrwydd dyblyg *neu* ddeufwy.

Worth a double hired servant—gwerth dau gyflog gweinidog (*Deut.* xv. 18).

They were not of double heart—a hyny yn ffyddlawn (1 *Cron.* xii. 83).

Take double money — cymmerwch ddau gymmaint o arian (*Gen.* xliii. 12).

Double, *ad.* yn ddyblyg, &c.; yn mhlyg; dwywaith.

Double, *s.* plyg, dyblyg, deublyg, deuddyblyg, plygiad, dyblygiad, deublygiad, plygfa, dill, dwbl; y dau ddyblyg; dau gymmaint, cymmaint arall, cynnifer arall, cymmaint ddwywaith, cynnifer ddwywaith; dyrysblyg; cast, hoced, cyfrwysder.

Let him pay double—taled yn ddwbl (*Ecs.* xxii. 7).

To carry double—dwyn yn ddwbl *neu* ddyblyg; dwyn dau ar unwaith; ysgilio.

Double, *v.* dyblygu, deublygu, plygu, deuddyblygu, dyblu, darblygu, deuddyblu, dillio; gwneuthur yn ddyblyg *neu* ddeuddyblyg; chwanegu yn gymmaint arall; gwneuthur yn ddeufwy; ymddyblygu; mynychu; castio; dyrysblygu.

To double the leaf of a book—plygu dalen llyfr.

To double (as a hare)—plygredeg, dyrysblygu, dyblygu, dyblu, rhedeg a gwrthredeg, gwrthdröi, dyrysu; rhedeg yn ol ac yn mlaen.

To double one's fist—cau ei ddwrn.

To double a cape—hwyliaw o amgylch i benryn; hwyliaw oddi amgylch i benryn; hwyliaw heibio i benryn; hwyliaw o amgylch penryn; dyblygu *neu* ddyblu pentir.

Double-banked, } *a.* dwy-feinciog; âg iddo
Double-benched, } ddwy feincaid o rwyfwyr; âg iddo ddwy res o rwyfwyr.

Double-barrelled, *a.* dwyfarilog, dybl-farilog; âg iddo ddwy faril.

Double-barrelled gun — dryll dwy faril, gŵn dwy faril.

Double-bass, } *s.* gorsodgrwth, gorgrwth, deu-
Double-base, } sawd.

Double-biting, *a.* amgnoawl, amfiniog, amlym; yn tori o bob tu.

Double-buttoned, *s.* deu-fotymog; â dwy res o fotymau iddo.

Double-charge, *v. a.* llwytho yn ddyblyg, deulwytho, dybl-ergydio; ymddiried deubarth i.

Double-dealer, *s.* twyll-fasnachwr, hocedydd, twyllwr, somwr, twyll i'w gyfaill, twyll i'w gydymaith, dyn anffyddlawn, dyn bradwrus, dyn twyllodrus, dyn deuwynebog; à chwareuo y ffon ddwybig; à fedro chwareu y ffon ddwybig.

Double-dealing, *s.* twyll-fasnach, deuwynebedd, anonestrwydd, hoced, twyll, twyll-ymddygiad, somchware, anffyddlondeb, brad, bradwriaeth, dichell, chwired, ffalsedd, chwiongl, somedigaeth; twyll trwy ymddiried; chware y ffon ddwybig; chware y llaw wèn; chware y ddau wyneb.

Double-dye, *v. a.* deuliwio, lliwio ddwywaith.

Double-edged, *a.* deufiniog, deufin, amlym.
Double-entendre, *s.* (Ff.) mwysedd, amwysedd, mwyseb, ymadrodd deuystyr.
Double-eyed, *a.* ffals-lygeidiog, twyll-lygeidiog; hocedus ei wedd; deuwynebog.
Double-face, *s.* dau wyneb, deuwynebedd, dyblygedd, dyblygrwydd, ffalsedd, twyll, hoced.
Double-faced, *a.* deuwynebog, deuwyneb; âg iddo *neu* â chanddo ddau wyneb; rhagrithiol, twyllodrus, hocedus, ffuantus.
A double-faced fellow — rhagrithiwr, un deuwynebog.
Double-formed, *a.* deuffurfiog, dwyffurf.
Double-floor, *s.* llawr dyblyg, dyblyglawr.
Double-fortified, *a.* deu-amgaerog; wedi ei amgaeru ddwywaith; wedi ei gadarnhau yn ddyblyg.
Double-founted, *a.* deu-ffynnonog, deudardd.
Double-fronted, *a.* deu-dal, deu-dalcenog.
Double-gild, *v. a.* euro ddwywaith, dybl-euro; caenu ddwywaith âg aur.
Double-handed, *a.* dwylawiog; dyblyg ei law; twyllodrus, hocedus.
Double-headed, *a.* deupen, deubenog, deupenog; âg iddo ddau ben; dyblyg ei ben.
Double-hearted, *a.* dwy-galonog, deu-galonog; dyblyg ei galon; dau ddyblyg ei galon; bradwrus, twyllodrus, gau, ffals.
Double-lock, *v. a.* cloi ddwywaith.
Double-manned, *a.* diwalledig â digon arall o wŷr; cyflenwedig yn ddyblyg â gwŷr.
Double-meaning, *a.* deuystyr, mwys, amwys, deufeddwl; â dau ystyr *neu* ddau feddwl iddo.
Double-mill, *v. a.* gwrthbanu.
Double-minded, *a.* deufrydig; dyblyg *neu* ddeuddyblyg ei feddwl; ansefydlog, anwadal, gwamal, anmhenderfynol; yn cloffi rhwng dau feddwl.
Double-mouthed, *a.* deueneuog, deusafnog, dybl-eneuog; dyblyg ei eneu.
Double-natured, *a.* â dwy anian *neu* natur ynddo; deu-anianog; dyblyg ei anian.
Doubleness, *s.* (o *double*) dyblygedd, dyblygrwydd, deublygrwydd, deublygedd, plygedigrwydd.
Double-octave, *s.* deu-wythawd, dybl-wythawd, pumthegfed.
Double-plea, *s.* dadl ddyblyg.
Double-quarrel, *s.* cwyn dyblyg, cweryl dyblyg =cwyn offeiriad wrth yr archesgob yn erbyn urddasog is, am oedi cyflawnder.
Doubler, *s.* dyblygydd, dyblygwr, plygwr, deublygydd; dyblygyr.
Double-shade, *v. a.* cysgodi ddwywaith; cysgodi yn ddyblyg.
Doublet, *s.* (Ff.; Gw. *dwiblead*) dybled, dwbled, iswisg, gwasgod; dau, dwy, pâr, cwpl; ffugfaen.
Double-shining, *a.* deu-ddysgleiriol; yn llewyrchu *neu* yn dysgleirio cymmaint ddwywaith; tryddysgleiriol.
Double-stars, *s. pl.* ser dyblyg, ser deulun.
Double-thread, *a.* deugord, deugor, deu-edefog.
Double-tongue, *s.* tafod twyllodrus, tafod dyblyg, dau dafod.
Double-tongued, *a.* deu-dafodiog, deueiriog; â dau dafod iddo; ag y mae dau dafod iddo; twyllodrus, gau, ffals.
Doublets, *s. pl.* dyblygion, dybligion; mwysedd, amwysedd, dau ystyr.
Doubling, *s.* (o *double*) dyblygiad, deublygiad, dybliad, plygiad; plyg, plygfa, dill; dyrysblyg, ymdro, cyfrwysdra, cyfrwysder: *pl.* dyblygiadau, plygion.
The doublings of a hare—dyrysblyg ysgyfarnog; rhediad dyrysblyg *neu* ddyrysbleth ysgyfarnog; ymdroion ceinach.
Doubloon, *s.* (Ff. *doublon*) darn aur yn yr Yspaen, o werth tua £3. 5*s.*
Doubly, *ad.* yn ddyblyg, &c.
To deal doubly—chwareu y ddau wyneb; ymddwyn yn ddeuwynebog, yn dwyllodrus, yn ddichellgar, *neu* yn hocedus; chwareu â'r ddwy law; chwareu y llaw wèn.
Doubt, *v.* (Ff. *douter;* Ll. *dubito*) ammheu, petruso, ammheuo; bod yn ammhëus, yn betrus, yn betrusgar, yn annilys, mewn ammheuaeth, *neu* mewn petrusder; ofni, llettybio, drygdybio, peuo, darammheu; anghoelio; cloffi rhwng dau feddwl; bod yn anhysbys.
To doubt somewhat—lledammheu, brithammheu, lledbetruso, goammheu.
Doubt, *s.* ammheuaeth, ammheu, petrusder, petrusdeb, petrusedd, petrusdra, petrusrwydd, ammheuad, petrusawd, petrusi, annilysrwydd, ansicrwydd, amwysedd, mwysedd, mwysder, amwysdra, dadl, anhysbysrwydd; ofn, llettyb.
To be in doubt of, } =*Doubt, v.*
To make a doubt of, }
No doubt—yn ddïammheu; nid oes ammheu *neu* ammheuaeth, &c.; dïau, dïos, dir; yn ddïau, yn ddïos, yn ddïammheu.
The ship drives—mae y llong yn llusgo ei hangor ar ei hol.
And so they were driven—a hwy a ddygwyd felly (*Act.* xxvii. 17).
Driven snow—manod, od mân, briwod; lluwch.
As white as the driven snow—cyn wyned a'r manod.
Drive, *s.* gyr, gyrfa, gwib; tro mewn cerbyd; byrdaith ar farch; gyrwib.
Drivel, *v. n.* (o *drip*, *dripple*, *dribble*) glyfoerio, glafoerio, glyioeri, ymboeri; ymleferydd, ynfydu, dotio; bod yn lledfrydig *neu* orphwyllog.
Drivel, *s.* glyfoerion, glafoerion, ymboerion, poerion: *sing.* glyfoer, glafoer, poeryn, ymboer; † glyfoeriwr, ymboerwr, ynfyd.
Driveller, *s.* glyfoeriwr, glyfoerydd, glafoeriwr, ymboerwr; un lledfrydig, ynfyd, ffol, penwan, *neu* wallgof; symlyn, ynfyd, ynfydyn, hurtyn, gwirioayn, ffol, ffwl, anwr, gwaeddan. [iad.
Drivelling, *s.* glyfoeriad, glafoeriad, ymboer-
Driver, *s.* (o *drive*) gyrwr, gyriedydd, gyrydd; cethrydd, cethrwr, cethreinwr, cethreinydd, cethreor, cethreuwr; geilwad.
Driver of a cart—menwr, cartwr, certiwr, certwynwr; gyrwr cart, men, *neu* drol.
Driver of a carriage—cerbydwr, cerbydydd, cerbytai, gyrwr cerbyd, gyriedydd cerbyd.
Ox-driver, } cethreinwr, cethreinydd,
Plough driver, } cethreuwr, cethreor, cethrwr, geilwad ychain, gyrwr ychain.
Driving, *s.* gyriad, gwthiad, gyrawd, erlid, burthiad, heliad, &c.; tueddiad, tuedd; erwch.
Driving notes—gyrnodau.
Drizzle, *v.* (Al. *rieseln*) dyferynu, defnynu, deigrynu, dafnu, defnïo, ffrwylo, gwlithwlawio, brith-wlawio; briw-wlawian, mânwlawio; disgyn yn fân ddyferion; bwrw gwlaw mân, bwrw gwlith-wlaw, bwrw briwwlaw.
Drizzle, *s.* gwlaw mân, ffrwyl, mân-wlaw, briwwlaw, brith-wlaw, gwlith-wlaw, briw-wlawiach.
Drizzling, *s.* ffrwyliad, mân-wlawiad, briwwlawiad, dyferyniad, defnyniad.
Drizzling rain=*Drizzle*, *s.*
Mild drizzling weather—lleithin arafdeg.
Drizzly, *a.* mân-wlawog, mân-wlawiog, gwlithwlawog, gwlith-wlawiog, brith-wlawiog, briw-wlawog, ffrwylaidd, ffrwylog, mânddefnynog, mân-ddyferynog; yn bwrw gwlaw mân.
Drogman, *s.*=*Dragoman*.
Droil, *v. n.* (Is. *druilen*) gweithio yn araf *neu* yn aflerw; cystegu, cystogi, ymgystegu, ymgystogi, trafferthu, ymdrafferthu; bod â'i ben mewn peth.
Droil, *s.* cystegwr, cystog, cystogwr, trafferthwr, ymdrafferthydd; diogyn, seguryn, segurwas, dïoberwr, begegyr, bychgygyr, hurtyn, hurthgen; malwen o ddyn.
Droit, *s.* (Ff.) iawnder, iawn, hawl, def, cyfiawnder, uniondeb, rhaith, cyfraith.
Droits of admiralty — defion y morlys, odfaelion y llyngeslys, damweinfaelion y morlys.
Droll, *a.* (Ff. *drôle*; Al. *drollig*) digrif, digrifol, ysmala, cellweirus, cellweirgar, arabeddus, difyr, difyrus, digriflawn, digriflan, dysmal, arab, arabol, annifrif, annifrifol, llawen, llon, digriflon, gorawenus, hynod, od.
Droll, *s.* digrifwr, digrifwas, ysgentyn, croesan, croesaniad, cellweiriwr, cellweirydd, cellweirgarwr, cymhenddyn, cymhenwr, ysmalyn, un digrif, gwas digrif, un digriflawn; chware digrif, coegchware, croesaren, ysmaldod, ysmalawd, ysmalwaith, digrifwaith, croesanwaith.

Droll, *v.* cellwair, cellweirio, arabeddu, cydgam, cymmŵedd, saethyta, dywedyd maswedd, gwatwar, gwawdio, ysmalhau, dywedyd ysmaldod; chwareu y gwas digrif; twyllo hocedu.

Droller, *s.* digrifwr, digrifwas, ysgentyn, croesan, croesaniad, croesanwr, ysmaldodwr, cellweiriwr, cellweirydd, cellweirgarwr, cymhenddyn, cymhenwr, un digrif, gwas digrif, un digrifiawn, ysmalddyn, arabeddwr, arabwr, chwydawydd.

Drollery, *s.* digrifwch, ysmaldod, ysmalder, ysmalrwydd, digrifedd, cellwair, chwydawiaeth, cymmŵedd, arabedd, cymhendod, coeg ddigrifwch, ysmalhäwch, croesanaeth, croesandod, cellweirgarwch; chware llamddelwau.

Drolling, *s.* digrifwch, ysmaldod, &c.

Drollish, *a.* go ddigrif, lled ddigrif, lled ysmala, trân ysmala, go ysmala, digrifaidd.

Dromedary, *s.* (Ff. *dromadaire*; Ysp., Port., ac It. *dromedario*; Gw. *droman*; Ll. *dromedarius*; Gr. *dromas*) cammarch, dromedar; camel Arabia; camel âg un hwrwg ar ei gefn; rhedfil.

Mules, camels, and young dromedaries—dromedariaid, mulod, ac ebolion cesyg (*Esth.* viii. 10).

For the horses and dromedaries — i'r meirch ac i'r cyflym gamelod (1 *Bren.* iv. 28).

Dromo, *s.* (Gr. *dromos*) rhedlong, llong fuan: math ar bysg.

Drone, *s.* (S. *drane, dræn*; Al. *drohne*) begegyr, bychygyr, bygegyr, gwenynen ormes; diogyn, diöberwr, seguryn, segurddyn, segurwas, diogwas, dyn diog, malwoden o ddyn, dyn musgrell, dyn llegach, dyn llyferthin; grŵn, grŵnan, trymsain, swn marwaidd.

Drone, *v. n.* grŵnan, grŵna, trymseinio, seinio yn farwaidd; segura, diogi, mewyda.

Drone-fly, *s.* cleren fegygyr.

Dronish, *a.* diog, musgrell, swrth, musgrellaidd, marwaidd, llegach, llyferthin, anweithgar, araf, llusgenaidd, llibin, mewydus, merydd, trymaidd.

Dronishness, *s.* musgrellni, musgrelli, musgrelledd, diogi, syrthni, anweithgarwch, llibindod, mewydedd, mewydrwydd.

Droop, *v. n.* (S. *drepan*; Isl. *driupa*) dihoeni, llipäu, edwi, edwino, llesghau, llesgu, llaesu, llacäu, llacio, peudrymu, ymollwng, ymlaesu, lliprynu, nychu, methu, lleipro, gwywo, gwanhau, pentwyno, gogwyddo, plygu, darleddfu.

Drooping, *a.* llipa, llibin, llesg, llaes, llac, llag, pendrwm, lleipr, lliprynaidd, trymdde; dihoen, edwin, nychlyd, egwan, methedig; yn crogi ei ben i lawr; yn ymollwng; ymollyngol.

Drop, *s.* (Is.; S. *dropa, dropian*; Al. *tropfen*; Sw. *droppe*) dyferyn, dafn, defnyn, dos, mêr, meryn, mered, deigryn, degryn, dws, dyfer, llymaid; bagedyn, boglyn, clustdlws, pwmpl; croglithryn, llithryn, llithr.

Drop, *v.* dyferu, defnynu, dafnu, dystyllu, dystyllio, meru, dosi, degrynu, deigrynu, beru, ystyferu, defnïo; syrthio *neu* gwympo yn ddyferion; cwympo *neu* syrthio yn ddagrau; dyhidlo; gollwng, gellwng, syrthio, cwympo; goddef *neu* adael i syrthio; gadael, gadaw; gadael i; gadaw yn llonydd; peidio; peidio â; peidio â chanlyn; goddef i ddïanc; esgeuluso; gadaw i fyned heibio; rhoi heibio; gadael i lawr; rhoddi, dodi, *neu* osod i lawr; gostwng; bwrw, taflu; disgyn; marw, trengu; ysgeintio, britho, amrywioli; myned yn wag; syrthio, cwympo, *neu* ddyfod i mewn; twmpian, twmpio.

To drop down—syrthio i lawr; cwympo i lawr.

To drop down (in seamen's language)—myned gyda'r afon; myned tua'r môr; myned i lawr yr afon; myned i lawr; myned i waered.

To drop off—syrthio *neu* fyned ymaith; ymadael, ymadaw; marw, myned o'r byd.

To drop away—ymadaw yn ddirgel *neu* yn lladradaidd; tynu ymaith yn ddirgel *neu* yn lladradaidd; cilio yn lladradaidd *neu* yn ddirgel.

To drop in—dyfod i mewn o un i un.

To drop a suit—gadaw y maes.

To drop a calf—bwrw llo, dyfod â llo, alu, llydnu.

To drop a word—yngan gair, yngan; defnynu gair, dyferu gair.

To drop with sweat, } dyferu gân
To be dropping with sweat, } chwys; bod yn chwys dyferol; bod yn chwys dwr dyferol; bod yn chwys dyferu.

Dropping thick—hidl.

To drop astern—myned tua phen ol y llong; llaesu buander llong.

Droplet, *s.* (o *drop*) dyferyn bach, defnyn bychan, dyferionyn, defnyn: *pl.* dyferionos, defnynach.

Dropping, *s.* dyferiad, defnyniad, defnïad, dafniad, meriad, deigryniad, degryniad, hidlad, dyhidlad, dystylliad; syrthiad, cwympad.

Droppings of the eaves—defni y bargod, dyferion y bondo, dyferion y to, ystyferion.

Dropping tube—dyferbib.

Continual dropping—defni parhäus.

Droppings of cattle—biswal, biswail, tom, eulon, budail, beudail, tom gwartheg.

Droppingly, *ad.* bob yn ddyferyn, &c.; yn ddefnynau, yn ddyferynau, yn ddyferion.

Drops, *s. pl.* dyferion, defni, &c.; boglynau, pwmplau, bagadau.

Drop-serene, *s.* (*drop* a *serene*; Ll. *gutta serena*) pylolwg, pylni, tywyllni, dafn araul.

Dropsical, } *a.* (o *dropsy*) dyfrglwyfus; claf o'r
Dropsied, } dyfrglwyf; dyfrglwyfaidd.

Dropstone, *s.* dyferfaen=math o ysger.

Dropsy, *s.* (Gr. *hudrôps*; Ll. *hydrops*; hen Scis. *hydropisy*) dyfrglwyf, dyfrwst, llynwys.

Dropwort, *s.* (*drop* a *wort*) crogedyf.

Water dropwort—dibynlor.

Hemlock water dropwort—gysplys, dibynlor cegidaidd, gysplys cegidaidd.

Common water dropwort—dibynlor pibellaidd.

Paraley water dropwort—dibynlor perllysddail.

Drosera, *s.* (Gr. *droseros*) gwlithlys, chwys yr haul, tawddrudd, toddedig rudd, toddaid rudd.

Drosky, *s.* (R.) math ar gerbyd pedrolwyn, arferedig gân y Rwssiaid.

Drosometer, *s.* (Gr. *drosos* a *metron*) gwlithfesur, gwlithfeidyr=offeryn i fesur swmp gwlith.

Dross, *s.* (S. *dros*) sorod, sothach, gorferw, sinidr, swrwd, llwrwg, rhytion, rhwtion, rhwtws, sindw, swtrach, mwnws, ewyn, gorferw mettel, baw gefail; rhwd; anmhuredd.

Dross of metal—gorferw mettel, sorod mettel.

Dross of iron—sinidr, gorferw haiarn.

Drossiness, *s.* anmhuredd, anmhurder, sothachlydrwydd, sinidrogrwydd, sorodogrwydd, brynti, bryntni, budredd, annheredd, rhwd, rhydni.

Drossless, *a.* disorod, disothach, dianmhuredd.

Drossy, *a.* sothachlyd, sinidrog, sorodog, llawn sothach, brwnt, budr, anmhur, annher, rhwtionllyd, anmhuraidd, diwerth.

Drotchel,† *s.* (o *dretch*, efallai, yr hwn, yn Chaucer, a arwydda *segura*) dyhiren, seguren; seguryn.

Drought, } *s.* (S. *drugothe;* Is. *droogte*) sych-
Drouth, } der, sychin, sychder haf, tywydd sych, hin sech; syched, sychedfod; gwres, crasder.

Droughtiness, } *s.* sychder, sychdra, sychni;
Drouthiness, } sychedigrwydd.

Droughty, } *a.* sych, sychinog; sychedig; a
Drouthy, } syched arno; cras, sych-wresog, tesog.

Droumy,† *a.* (arfera Chaucer *drory*) bawlyd; trafferthus.

Drove, *s.* (S. *draf;* o *drive*) gyr, deadell, cenfaint, gre; myntai, haid, torf, tyrfa, bagad, tŵr; gyrffordd.

Drover, *s.* (o *drove*) porthmon; gyrwr, gyriedydd; gyrfad.

To act as drover—porthmona.

Pig-drover—porthmon moch.

Drown, *v.* (D. *drugner;* S. *adrencan*) boddi; soddi, suddo; gyru i'r gwaelod; trochi; gorlifo, gorlifeirio.

To drown one's self—ymfoddi, boddi ei hun.

To drown sorrow—boddi gofid; yfed er anghofio ei ofid neu ei dristyd; boddi ei dristwch mewn gynaid o gwrw; yfed er ymgysuro.

Easily drowned, } hyfawdd; hawdd ei
Easy to be drowned, } foddi; hawdd i'w foddi.

Not easy to be drowned—anhyfawdd; anhawdd ei foddi.

Drowner, *s.* boddwr, boddiedydd.

Drowning, *s.* bawdd, boddiad, boddiant; sawdd, suddiant, ymsawdd.

Drowning, *a.* ar fawdd, ar foddi, yn boddi.

A drowning man—dyn ar fawdd.

Drowse, *v.* (Belgaeg hen, *droosen*) hepian, dargysgu, lledgysgu, gogysgu, pendrymu; syrthdrymu, trymeiddio, trymluo; bod yn gysglyd, &c.; gwneuthur yn gysglyd neu drymaidd.

Drowsihed,† *s.* (o *drowsy*)=*Drowsiness.*

Drowsiness, *s.* cysglydrwydd, cysgadrwydd, cysgrwydd, cysgarwch, cyslydrwydd, cysni, cysgu, trymluogrwydd, syrthni, trymsyrthni, trymluogder, musgrelli, musgrellni, musgrelledd, diogi, marweidd-dra, trymeiddrwydd, mewyd, mewydedd, mewydrwydd, anweithgarwch.

Drowsy, *a.* (o *drowse*) cysglyd, swrth, (*f.* sorth), trymswrth, trymllyd, cyslyd, cysgadlyd, trymluog; â chysgu arno; trwm gan gysgu; diog, diogswrth, marwaidd, musgrell, swrthlyd; cuall, trymhyrddig; â suo i gysgu; â bair gysgu; cysgbair, cysgbair.

The drowsy disease—yr hunglwyf, yr hunhaint, y cysghaint.

Drowsy-headed, *a.* pendrwm, trymllyd, trymaidd, cysglyd, musgrell.

Drub, *v. a.* (Sw. *drabba;* D. a^ Al. *treffer*) llachio, ffonodio, pastyno, pastynu, ffondorio, ffusto, curo, dulio, ystwyalu, dyrnu, cnocio, llabio, wabio.

Drub, *s.* lloch, curfa, maeddgen, llab, cnoc, ergyd, ffat, cnith, wab.

Drubbing, *s.* curfa, maeddgen, cyweirfa, llachiad, pastynad, ffondoriad, ffonodiad, wabiad, dygaboliad.

Drudge, *v. n.* (Gw. *drugaire;* Ysg. *drug;* Isl. *droogur;* S. *dreccan*) cystogi, cystegu, gwneuthur caledwaith, gwneuthur budrwaith, caledweithio, budrweithio, gweithio yn galed, caethwasanaethu; llafurio, ymboeni, ymdrafferthu, ymdraffullio; bod yn was i bawb; bod yn fawr ei drybestod; ymboeni mewn gwaith; bod yn y tom hyd y clustiau; gweinyddu, gwasanaethu, athrino, gorthrino.

Drudge, } *s.* cystog, cystogwr, cystegwr, cyst-
Drudger, } ogydd, llafurwas, caethwas, caeth, caledweithiwr; un i wneuthur pob gwaith budr a chaled; gwas i bawb; gwas dan bawb; gwneuthurwr y caledwaith; gwneuthurwr y budrwaith; gwas oegin, gwas câr, gwas budrwaith: *f.* cystoges, cysteges.

Drudger, } *s.* = { *Dredger.*
Drudging-box, } { *Dredging-box.*

Drudgery, *s.* caledwaith, budrwaith, cwst, cystogwaith, caethwaith; gwaith caled a budr; gwaith anmreiniol, trybestod, ffwdan; caethiwed, caethnawd, anmraint, caethwasanaeth; pob math ar waith neu wasanaeth caled a distadl.

Drug, *s.* (Ff. *drogue;* Is. *droogery;* Ysp., Port., ac It. *droga*) cyffer, cyffyr; defnydd meddygol; nwydd anwerthadwy; gwaelbeth: *pl.* cyfferi, cyffyriau, moddion meddygol, moddion meddyg.

A mere drug—peth dibris, iselbris, dïystyr, dïelw, neu ddigyfrif; peth cwbl ddibris, &c.; gwaelbeth.

Mortal drug, } cyffyr marwol, gwenwyn.
Deadly drug, }

Drug, *v.* cyffyrio, cyfferio; rhagnodi neu weinyddu cyfferi; tymmeru neu gyweirio â chyffyriau; trwytho â chaabeth; mysgu cyfferi â.

Drugger,† *s.* (o *drug*)=*Druggist.* [druged.

Drugget, *s.* (Ff. *droguet*) math o frethyn;

Druggist, *s.* (o *drug;* Ff. *droguiste*) cyfferiwr, cyfferydd, cyfferiwr, gwerthwr cyfferi.

Drugmill, *s.* (*drug* a *mill*) melin gyfferi, cyfferfelin.

Drugster,† *s.* (o *drug*)=*Druggist.*

Druid, *s.* (Gw. *draoi;* C. *derwydd;* Gr. *druidai;* Ll. *druides, druidæ*) derwydd, dryw: *pl.* derwyddon.

Arch-druid—archdderwydd, ardderwydd.

Druidess, *s.* derwyddes, drywes.

Druidic, } *a.* derwyddol, derwyddonol, dryw-
Druidical, } ol.

Druidish, *a.* derwyddaid, drywaidd; fel y derwyddon.

Druidism, *s.* derwyddiaeth, derwyddoniaeth, derwyddoni, drywyddiaeth, athrawiaeth y derwyddon.

Drum, *s.* (Is. *trom, trommel;* Al. *trommel;* Sw. *trumma;* D. *tromme*) tabwrdd, rhuglen.
The drum of the ear—tabwrdd y glust, tabyrdden y glust, baril y glust.
A drum of figs—crynfiwch o ffigys; rholsypyn o ffigys; sypyn ffigys ar lun tabwrdd.

Drum, *v.* tabyrddu, tabyrddio; canu tabwrdd, pwyo tabwrdd, curo tabwrdd; chwareu ar dabwrdd.

Drumble,† *v. n.* (C. *trom!*) diogi, segura; bod yn drymllyd *neu* ddïog.

Drumfish, *s.* rhuglenbysg=pysg à geir ar duddau America Ogleddol.

Drumly,† *a.* (C. *trom!*) tew, plwca, marwaidd, merllyd, llonydd, sefydlog.

Drummajor, *s.* prif dabyrddwr, pentabyrddwr.

Drummaker, *s.* gwneuthurwr tabyrddau.

Drummer, *s.* tabyrddwr, rhuglenwr.

Drumstick, *s.* pren tabwrdd, dulbren tabwrdd.

Drunk, } *a.* (o *drink*) meddw, brwysg,
Drunken, } abrwysg, diodrydd, meddwedig, meddwain; gwedi meddwi; mewn meddwdod.
Somewhat drunk, } lledfeddw, gofrwysg,
Half drunk, } gofeddw, crachfeddw.
Dead drunk—meddw chwilgorn, meddw chwibwrn, llwyrfeddw, llwyrfrwysg, abrwysg, cwbl feddw; marw gàn feddwdod; cancr-feddw.
Extremely drunk—tra meddw, trameddw, gorfeddw, meddw dros ben.
To get drunk — meddwi, brwysgo, abrwysgo.
To make drunk—meddwi; gwneuthur yn feddw.
Drunk out—gwedi ei yfed yn llwyr.
He is topingly drunk—mae efe yn feddw chwilgorn.
Be not drunk with wine—na feddwer chwi gàn win.

Drunkard, *s.* (o *drunk*) meddwyn, brwysgwr, brwysgyn, diotwr, meddwr, ymyfwr, potiwr, diotai, diotydd, yfwr mawr, dyn yfgar, dyn gwingar, un meddw, diodrydd: *pl.* meddwon.
Awake, ye drunkards—deffröwch, feddwyr (*Joel* i. 5).

Drunkenness, *s.* meddwdod, meddwaint, brwysgedd, meddwawd, diotach, yfgarwch, diodgarwch.
What soberness concealeth drunkenness revealeth — allwedd calon cwrw da; allwedd y galon cwrw da; yn y gwin y ceir y gwir.

Drupaceous, *a.* (o *drupe*) ellfywynaidd, amfywynaidd, amfywynog, amffrwythol.

Drupe, *s.* (Ll. *drupæ;* Gr. *drupetês*) ellfywyn, amfywyn, amffrwyth=ffrwyth bywynaidd yn nesaf allan, yn cynnwys cneuen neu gareg â chnewullyn oddi mewn; megys eirin, bricyll, ceirios, &c.

Druse, *s.* (Al.) crisgeuedd=ceuedd craig yn dryfrith o grisial, neu yn llawn o ddwr.

Drusy, *a.* llawn o fân grisial, crisielynog, manrisialog.

Dry, *a.* (S. *dri, drig, dryg;* Is. *droog*) sych; sychlyd, hysp, dyhysbydd, dysbydd, annyfrwys, diddwfr; crin, cras, gwyw, gwywlyd, crinsych, crispin; wedi celffeinio; dinodd, disudd, disug; sychedig; diwlaw, heb wlaw anffrwythlawn, diffrwyth, egwan, eiddil; noeth, noethlwm, llymrig, noethlymyn; marwaidd, difywyd; llym, pigoglym, gwawdus, cnoawl, gwatwarus, gwatworus, digrif, ffel, ffalst, cyfrwysgall: *f.* sech, hesp.
Dry land—sychdir, tir sych; crasdir.
Dry breasts—bronau hyspion.
Dry jests — sych gellwair, mwyneiriau gwatwarllyd, digrif eiriau gwatwarus.
Dry weather—sychin, tywydd sych, hin sech, sych-hin.
Dry rot—braen sych, sychfraen, pwd sych, sychbwd, gwiddoniad.
Extremely dry—tra sych, sych iawn, gorsych, trasych, sych dros ben.
Somewhat dry—lled sych, go sych, lledsych, gosych.

Dry, *v.* sychu, dysychu, sychiannu, tarnu; crasu; gwneuthur yn sych; dyhysbyddu, dysbyddu, hysbyddu; ymsychu; myned yn sych, myned yn hysp; crispynu, crispinio, celffeinio; gwywo.
To dry up—sychu i fyny; sychu yn llwyr; tarnu; gwiddoni.

Dryad, *s.* (Gr. *druades;* Ll. *dryades*) gwyddanes, coedwen, gwyddelen, coedeigren, duwies y coed.

Dryas, *s.* (Ll. *dryades*) derig=tylwyth o blanigion.

Dryboned, *a.* esgyrnsych; sych ei esgyrn.

Dryer, *s.* (o *dry*) sychwr, sychydd, dysychwr, dysychydd; craswr, crasydd, dyhysbyddwr; sychyr.

Dryeyed, *a.* llygadsych; sych ei lygad.

Dryfat, *s.* (*dry* a *vat*) basged sech, twrnel sych.

Dryfoot, *s.* (*dry* a *foot*) sychbed, sychdroed, sawyrbed=ci à ymlido ei ysglyfaeth wrth wynt y troed.

Drying, *a.* sychol, dysychol, sychiannol, sychedigol; yn sychu.
Drying house—sychfa, sychdy, ty sychu.

Drying, *s.* sychiad, sychiant, dysychiad, dysychiant, sychedigaeth; crasiad.

Dryite, *s.* (Gr. *drus*) maenbren, coed maenedig.

Dryly, } *ad.* yn sych, yn hysp, yn gras, &c.
Drily, }

Dryness, *s.* (o *dry*) sychder; hysprwydd; crasder, crasrwydd; gwywder; crinder; syched; diffrwythder, llymrigrwydd.

Drynurse, *s.* (*dry* a *nurse*) llawfammaeth, llawfaethes, mammaeth sech, sechfammaeth, mammaeth lawfaeth, maethwraig lawaeth.

Drynurse, *v. a.* llawfaethu, llawaethu, maethu heb laeth, magu heb laeth, magu yn sych.

Dry-rub, *v. a.* sychrwbio, sychrathu; rhwbio *neu* rwtio yn sych.

Drys, *s.* (Gr. *drus!*) maenholltau, holltau careg.

Drysalter, *s.* (*dry* a *salt*) sychnwyddwr, sychionydd; masnachwr sychfwydydd.

Dryshod, *a.* (*dry* a *shod*) troedsych, yn droedsych; heb wlychu ei draed; heb fyned dros ei esgidiau.

Drystove, *s.* sychdwymdy, sychgell.

Dryvat, *s.* (*dry* a *vat*) basged sech, twrnel sych.

Duad, *s.* (Gr. *duo*) deuad, deuawd, undeb dau.

Dual, *a.* (Ll. *dualis*, o *duo*) deuol; perthynol i ddau.
Dual number—rhif deuol, deuobrif.

Dualism, *s.* (o *dual*) deuoliaeth; deudduwiaeth

=athrawiaeth dwy egwyddor wahanol ac annibynol mewn dyn.
Dualist, *s.* deuolwr, deuolydd, deuolgredwr.
Dualistic, *a.* deuolig.
Duality, *s.* deuoldeb, deuolrwydd, deuoledd; rhaniad, parthiad, gwahaniad.
Duarchy, *s.* (Gr. *duo* ac *archê*) deubendod, deulywodraeth, deubendodaeth, llywodraeth dau.
Dub, *v.* (S. *dubban;* Gr. *tuptô*) creu, gwneuthur, *neu* urddo yn farchog; urddasu, urddunо, dyrchafu, urddo; neddyfu; byrsynio.
Dub, *s.* ergyd, cnoc, ffat, cnith, llach, llab.
Dubber, *s.* costrel neu lestr croen, arferedig yn yr India.
Dubbing, *s.* neddyfiad; naddiad â neddyf *neu* fwyellan; seimwrtaeth.
Dubiety, } *s.* (Ll. *dubius*) petrusrwydd, an-
Dubiosity, } nilysrwydd, ammheusrwydd, petrusedd, petrusdra.
Dubious, *a.* (Ll. *dubius*) ammhëus, ammheuol, petrus, annilys, petrusol, arbetrus, annïau, ansicr; mwys, amwys, amwysol; aneglur, anamlwg; ansefydlog, gwamal, anmhenderfynol.
Doubtfulness, *s.* ammheusaeth, petrusder, petrusedd, petrusdeb, petrusdra, petrusrwydd, petrusgarwch, ammheurwydd, ammheuedd, ammheusrwydd, petruswch, ammheugarwch, annilysder, annilysrwydd, ansicrwydd; mwysder, amwysder, amwysedd, mwysedd; anwadalwch.
Dubitable, *a.* (Ll. *dubitabilis*) ammhëus, ammheuol, petrusol, petrus, annilys, ansicr; ammheuadwy; â ellir ei ammheu.
Dubitancy, *s.* (Ll. *dubitans*) ammheusaeth, ammheurwydd, ammheudod, ammheu, petrusrwydd; ansicrwydd, annilysrwydd.
Dubitation, *s.* (Ll. *dubitatio*) ammheusad, petrusad, petrusiant, petrusawd, arbetrusad; ammheu, ammheusaeth.
Dubitative, *a.* (Ll. *dubito;* Ff. *dubitatif*) petrusiannol, petrusiannus, petrusol, ammheusedigol, ammheuol.
Ducal, *a.* (Ff., Ysp., a Port.; Ll. *ducalis*) dugiol, duciol, dugaidd; perthynol i ddug.
Ducal coronet — coronig dug; coronig ddugiol.
Ducat, *s.* (Ff.; Ll. *ducatus*) ducat, dugat, dugad, dugiadur.
Gold ducat—ducat aur=gwerth o ddeutu 9*s.*
Silver ducat — ducat arian=gwerth o ddeutu 4*s.*
Ducatoon, *s.* (Ff. *ducaton;* It. *ducato;* o *ducat*) darn o arian bath; yn yr Ital, gwerth tua 4*s.* 6½*c.*; yn yr Isdiroedd, tua 5*s.* 5¾*c.*
Duchess, *s.* (Ff. *duchesse*, o *duc*) duges, duces.
A little duchess—dugesan.
Duchess dowager—duges waddolog, duces weddw.
Duchy, *s.* (Ff. *duché*) dugiaeth, duciaeth; ardal *neu* diriogaeth dug.
Duchy of Lancaster—dugiaeth Hirgaer, dugiaeth Caerhirfryn, duciaeth Lancaster.
Duchy Court—dunglys; llys dugiaeth Hirgaer.
Duck, *s.* (o *duck*, *v.*) hwyad, hwyaden: *pl.* hwyaid.
Tufted duck—hwyad gopog.
Eider duck, } hwyad fwythblu.
Gothland duck, }
Shoveler duck—hwyad lydanbig.
Red-breasted shoveler—hwyad frongoch lydanbig.
Pintail duck—hwyad gynffonfain, hwyad lostfain.
Swallow-tailed duck, } hwyad gynffon
Swallow-tail duck, } gwennol, hwyad lost gwennol.
Ferruginous duck—hwyad frech.
Grey-headed duck—hwyad benllwyd.
Scaup duck—hwyad lygad arian, llygad arian.
Pochard duck—hwyad bengoch.
Golden-eyed duck — hwyad lygad aur, llygad aur.
Velvet duck—hwyad felfedog.
Sea duck—morhwyad, hwyad fôr.
Decoy duck—hudhwyad, hudnwy, hudhwyaden.
Long-tailed duck — hwyad gynffon hir, hwyad lost hir.
Wild duck—hwyad wyllt, corshwyad, garan hwyad, hwyaden wyllt.
Tame duck—hwyad ddof, hwyaden ddof.
Like a duck—hwyadaidd.
Abounding with ducks—hwyadog; llawn o hwyaid.
Duck, *v.* (Al. *ducken*, *tauchen;* Is. *dukka*) trochi, soddi, suddo, grawthu, cleigio, dychleigio; ymdrochi, ymsoddi, ymsuddo; bwrw dân ddwr; taro dân ddwr; myned dân ddwr; plygu, crymu, ymblygu, ymgrymu, capio, plygu pen, crymu pen.
Duck, *s.* llamgareg, ysglentfaen, careg ddadlam, careg adlam; careg â ysglentir ar wyneb dwr; crymiad pen, plygiad pen, capiad.
Duck-and-drake — chware llamgareg, chwareu ysglentfaen; ysglentio careg ar wyneb dwr.
To make ducks and drakes of one's money —gwastraffu *neu* afradu arian; taflu ymaith arian.
Duck, *s.* (D. *dukke*) anwylyd, anwylyn, mwynen.
Duck, *s.* (Sw. *duk;* Al. *tuck*) cryflïan.
Duck-bill, *s.* hwyadbig, hwyadryn.
Duck-bill wheat — gwenith Normandi, gwenith Norddmandi.
Duck-bills, *s. pl.* hwyadbigau, pigau hwyaid =esgidiau llydanbig y 15fed canrif.
Ducker, *s.* (o *duck*) trochwr, trochydd, trochiedydd, ymdrochwr, ymsoddwr, cleigiwr.
Ducking, *s.* trochiad, ymdrochiad, ymsoddiad, trochedigaeth.
Ducking-stool, *s.* trochgader, cader drochi, ystol drochi.
Ducklegged, *a.* (*duck* a *leg*) byrgoes, coesfyr; â chanddo goesau byrion fel coesau hwyad.
Duckling, *s.* (o *duck*) hwyaden, hwyad ieuanc, hwyad ifanc, cyw hwyad.
Duck-meat, } *s.* bwyd hwyaid, bwyd yr hwy-
Duck's-meat, } aid, llinhad y dwr, llinos y
Duckweed, } dwr, llinos y dwfr, llinhad y dwfr.
Lesser duckweed—llinhad y dwfr lleiaf, bwyd hwyaid lleiaf.
Duckoy, *s.*=*Decoy.*
Duck's-foot, *s.* troed yr hwyad.
Duct, *s.* (Ll. *ductus*) pibell, pib, awell, ffordd, gwyth; tywysiad, hyfforddiad, llywiad.
Ductile, *a.* (Ll. *ductilis*) hydyn; ystwyth,

hyblyg; hyddwyn, hydrin; estynadwy, ystynadwy, tynadwy; plygadwy; hawdd ei ddwyn, ei drin, ei dywys, *neu* ei estyn; à aller ei guro a'i yru yn denau *neu* fain.

Ductileness, } *s.* (Ll. *ductilitas*) hydynrwydd,
Ductility, } hydynedd; hyblygedd, hyblygrwydd, ystwythedd, ystwythder, ystwythdra; hydrinedd; estynedd.

Duction, *s.* (Ll. *ductio*) dygiad, cyweiniad; arweiniad.

Ducture,† *s.* (Ll. *duco, ductus*) hyfforddiad, tywysiad.

Dudgeon, *s.* (Al. *degen*) dageran, bidogan.

Dudgeon, *s.* (C. *dygen*) digofaint, llid, dygen, dig, malais, cenfigen, cynghorfynt, drygwyllys, drwg ewyllys, soriant, cas, casineb, drygnwyd, cynddrygedd, anghydfod.

To take in dudgeon—digio, sori, ffromi, diglloni, cymmeryd yn ddrwg, cymmeryd yn chwith, bod yn anfoddlawn.

Duds, *s. pl.* (Ysg. *dud*; Is. *tod*) hen ddillad, hen ddillatach; bratiau, carpiau, bralau, dillad carpiog.

Due, *a.* (Ff. *dû*; Ll. *debeo*) dyledus, dyladwy, dyledig; haeddedigol, haeddedig; iawn, addas, cyfaddas, cymhwys, gwiw, priod, priodol, cyfreithlawn, da.

Due time, } iawn bryd, amser cyfaddas,
Due season, } amser priod, amser dyledus, tymmor, adeg, pryd, amser.

Due desert—iawn haeddiant, gwir haeddiant.

Due to me—dyledus i mi; yn dda i mi.

Not due—annyledus.

That which is not due—annyled, annyled.

To be due—bod yn ddyledus; dyledu.

After the due order—yn y modd y dylesym (1 *Cron.* xv. 13).

We receive the due reward of our deeds—yr ydym yn derbyn yr hyn a haeddai y pethau à wnaethom (*Luc* xxiii. 41).

With-hold not good from them to whom it is due—nac attal ddaioni oddi wrth y rhai y perthyn iddynt (*Diar.* iii. 27); nac attal ddaioni oddi wrth ei berchenogion.

Due, *s.* dyled, dylyed, dyl; iawn, cyfiawnder; eiddo; haeddiant, teilyngdod; dylw, def.

To obtain my due—cael fy nyled, fy nyl, fy eiddo, *neu* fy haeddiant.

Because it is thy due—o herwydd dy ran di yw (*Lef.* x. 13); herwydd dy eiddo di ydyw.

This shall be the priest's due from the people—hyn fydd defod yr offeiriaid oddi wrth y bobl (*Deut.* xviii. 3).

Duc, *ad.* yn iawn, yn gywir, yn addas, yn hollol, yn wiw.

Due,† *v. a.* talu yn ddyled.

Dueful, *a.* addas, gweddus, cymhwys, priodol.

Duel, *s.* (Ff.; Ll. *duellum*) ornest, ymornest, ymgysbwy; ymladd rhwng dau lawlaw; brwydr benben; ymryson.

To fight a duel=*Duel, v.*

Duel, *v.* ornestu, ymladd ornest, ymornestu, ymornest.

Dueller, } *s.* ornestwr, ornestydd, ymladdwr
Duellist, } ornest.

Duelling, *s.* ornestiaeth, ornestiad; ornest; ymladd *neu* ymladdiad lawlaw.

Duello,† *s.* (It.) ornest; rheol ornestu.

Dueness, *s.* (o *due*) priodoldeb, priodoldar, addasrwydd, cyfaddasrwydd, cymhwysdra.

Duenna, *s.* (Ysp.) dysgodres, hen ddysgodres, athrawes, dysgedyddes, elltrewen; hen fenyw i warchod ar ddynes ieuanc.

Duet, } *s.* (It. *duetto*) cân ddeulais, dygan
Ductto, } ddeulais, dwyed, deuon, dwyawd.

Duffel, *s.* (Is.) math ar frethyn garw.

Dug, *s.* (Isl. *deggia*) teth, diden, did, diten; bron.

A little dug—tethan, teth fechan.

Having dugs—tethog, didenog.

Dugong, *s.* math o forfil.

Duke, *s.* (Ff. *duc*; It. *duca*; Ysp. *duque*; Ll. *dux*) dug, duc.

Grand duke — gorddug, gordduc, uchel ddug, uchelldug, uchelddug.

Dukedom, *s.* (*duke*, a'r terfyniad *dom*) dugiaeth, duciaeth.

Dukigi Bachi, *s.* (Tyrc.) ail swyddog y cadoffer Tyrcaidd.

Dulcamara, *s.* (Ll. o *dulcis* ac *amarus*) elinog, mynyglog, manyglog.

Dulcet, *a.* (Ll. *dulcis*) melus, chweg, per, peraidd, melusber, perfelus, chwegaidd; hyfryd, hyfrydber, maws.

Dulcification, *s.* (o *dulcify*) melusiad, melusiant, pereiddiad, pereiddiant, chwegiad; gwneuthuriad yn felus.

Dulcifluous, *a.* (Ll. *dulcis* a *fluo*) meldardd, melred, melusred, melredol, chweglifol, melredog, chwegredol.

Dulcify, *v. a.* (Ff. *dulcifier*; Ll. *dulcis a facio*) melusu, pereiddio, chwegu, perhau; gwneuthur yn felus.

Dulcimer, *s.* (It. *dolcimello*) dwsmel.

Dulciness,† *s.* (Ll. *dulcis*) melusdra; mwynder, tynerwch.

Dulcitude, *s.* (Ll. *dulcitudo*) melusder, melusdra, melusedd, melusrwydd, melusi, peredd, perder, perdra, pereidd-dra, chwegrwydd, chwegder.

Dulcorate, *v. a.* (*dulco*) melusu, pereiddio, chwegu, perhau.

Dulcoration, *s.* melusiad, melusiant, pereiddiad, pereiddiant, chwegiad; gwneuthuriad yn felus.

Duledge, *s.* cyssylltbin.

Dulia, *s.* (Ll.; Gr. *douleia*) isaddoliad, isaddoliaeth, isaddoliant, santaddoliad, santaddoliaeth, addoliant saint.

Dull, *a.* (C. *dwl*; Al. *toll, tölpel*; S. ac Is. *dol*) hurt, syn, syfrdan, dwl, (*f.* dòl), penfas, penfeddal, penblydd, disynwyr, synwyrbwl, penbwl, penbylaidd, cuall, pendew, penffol, penwan, lledfeddod; trwm, trymhyrddig, hwyrdrwm, marwaidd, swrth, musgrell, dïog dïogswrth, trymluog, araf, dïysbryd, dïfywyd, hurth; diflas, ansiriol, anhylon, llwfr, prudd, trist; pwl, (*f.* pol), dïawch, difin, aflym, ambwl; tywyll, caddugaidd, cymylog, aneglur, afloew; anfywiog, anweithgar; talpaidd.

Dull of hearing—trwm ei glywed; trwm ei glybod; anhyglust, clusttrwm, lledfyddar, gofyddar, trân fyddar.

Dull of apprehension—synwyrbwl; pwl ei synwyr; trwm, anghyflym, *neu* anghraff ei ddeall; dwl ei ddeall.

Dull weather—tywydd cymylog, tywyll, niwlog, du, diflas, *neu* ddwl.

A dull fellow—dyn synwyrbwl, anhylon,

dïysbryd, hurt, *neu* ddifywyd; hurtyn, hurthgen, cuall.

A dull horse—ceffyl *neu* farch dïog, marwaidd, dïysbryd, dïafwch, dïawch, *neu* araf-droed; march hwyrdrwm.

A dull looking-glass—drych tywyll, aneglur, anghlaer, afloew, *neu* annhryloew.

Somewhat dull—lled hurt, go bwl, lledbwl, &c.

Trade is grown dull with us—aeth masnach yn farw *neu* yn ddifywyd yn ein parthau ni.

To make dull—gwneuthur yn hurt, &c.; hurtio, syfrdanu, pylu, &c.

To grow dull—dechreu hurtio, &c.; myned yn hurt, &c.

Dull, *v.* hurtio, syfrdanu; pylu, arbylu, ambylu; gwneuthur yn hurt, &c.; dïawchu, dïfinio; trymhau, marweiddio, hwyrdrymu, trymluo; byddaru; diflasu; llyfrhau, pruddhau, tristäu; tywyllu, cymylu, caddugo; myned yn hurt, &c.; hurthio.

Dullard, *a.* (o *dull*) delffaidd, cuall, hurt, hurtaidd, penbwl, penbylaidd, penfas, penfeddwl, pendew, dwl, synwyrbwl.

Dullard, *s.* cuall, delff, hurtyn, hurtan, olwpa, hurthgen, hutyn, penllorcan, llelo, penbwl, ffwlcyn, cadafael, hurth, hult, brebwl, ullda, llob, llobyn, pendew, hult, un dwl.

Dull-brained, *a.* synwyrbwl; pwl ei synwyr; pendew, penfeddal, pensyfrdan, penfas, penbwl.

Dull-browed, *a.* trymaeliog; trwm ei ael; â golwg drymaidd arno.

Dull-eyed, *a.* llygadbwl; cibddall; pwl ei olwg; pwl ei olygon; trwm ei olwg.

Dullhead, *s.*=*Dullard*, *s.*

Dull-sighted, *a.* llygadbwl, cibddall, coegddall, lled-ddall, goddall; pwl ei lygaid; pwl ei olygon.

Dull-witted, *a.* synwyrbwl; pwl ei synwyr; pwl ei ddeall, &c.

Duller, *s.* hurtiwr, syfrdanwr, syfrdanydd, pylwr, pyliedydd.

Dully, *ad.* yn hurt, &c.

Dulness, *s.* hurtrwydd, syfrdandod, syndod; pylni, pylder, pylrwydd, pyledd, arbyledd, ambyledd, aflymder, difinedd, dïawchedd; dyldra, dylni, dyldod; trymder, trymllydrwydd, trymluogrwydd, trymluogder, marweidd-dra, musgrelli, musgrellni, syrthni, dïogi, trymhyrddigrwydd, trymsyrthni, anfywiogrwydd; diflasder, diflasdod; penbyledd, pendewedd, penfasedd, penfasder, penglogedd, penwendid; tywyllni, caddug, afloewder, anghlaerder; anghreffni.

Dulocracy, *s.* (Gr. *doulos* a *crateô*) llywodraeth caethion, pendodaeth caethweision, caethbendodaeth, caethlywiseth.

Dulse, *s.* (?) dylusg=math o wymon.

Duly, *ad.* (o *due*) yn ddyladwy; mewn modd dyladwy; fel y gweddai; yn addas, yn briodol, yn iawn, yn rheolaidd; fel y mae yn addas; fel y mae yn gweddu; yn ol y rheol; yn ol y drefn; yn ol y ddefod; yn ddichlyn, yn fanwl, yn gywir, yn ddiesgeulus; yn brydlawn, yn gyfamserol; o amser i amser; o bryd i bryd.

Dumb, *a.* (S.; Al. a Sw. *dumm*) mud, aflafar; dystaw, tawedog, dilafar; heb yngan; yn tewi â son.

Deaf and dumb—mud a byddar; mudfyddar, byddarfud.

One that is dumb—mudan: *f.* mudanes, mudes.

To strike dumb—peri, gyru, *neu* wneuthur i un dewi; cau geneu un; taro yn fud; peri yn fud; gyru taw ar.

He was struck dumb—efe a aeth yn fud.

To be dumb—bod yn fud *neu* ddystaw; tewi.

Dumb, *v. a.* dystewi, gostegu; gwneuthur yn fud.

Dumb-bells, *s. pl.* mudglych, mudglychau.

Dumbness, *s.* mudaniaeth, mudandeth, mudrwydd, mudandod, mudanrwydd, aflafaredd, afleferydd, aflafarwch; mudanedd; dystawrwydd, tawedogrwydd, taw.

Dumfound, *v. a.* dystewi, gostegu, dyddelwi.

Dummerer,† *s.* (o *dumb*) ffug-fudan.

Dummy, *s.* (o *dumb*) mudan.

Dumous, } *a.* (Ll. *dumosus*) llwynaidd, perth-
Dumose, } og, prysog; llawn llwyni *neu* berthi; llawn o lwyni a dyrysi; ffluwch, siochog.

Dump, *s.* (Al. *dumm*; Is. *dom*) ysmigwst, gwedwst; madrondod; synedigaeth, syndod, syn feddwl, syn fyfyrdod, san, irdang, syfrdandod; trymfryd, tromfron, tristyd, pruddineb, prudd-der, pruddglwyf; trymder, trallod, *neu* chwithrwydd meddwl; syn-, dig-, *neu* ffrom-ddystawrwydd; gwaggaredd meddwl; absennoldeb meddwl; dybyrgan.

Dump, *s.* bwrdd cyfrif trwsgl o blwm (yn chwareu plant).

Dumpish, *a.* hurt, syfrdan, pensyfrdan, penbwl, pendew, cuall, dwl; prudd, trist, athrist, pruddglwyfus, anhylon, trymllyd, dybyr, trymfrydig, pendrist; mewn swydd, mewn syn feddwl, mewn synedigaeth; syn feddylgar, syn fyfyr, syn fyfyriol, syn ddystaw, ffrom ddystaw.

Dumpishness, *s.* hurtrwydd, syfrdandod, penbyledd, dylni, cuallder; syndod, synder, syndra, sanedigrwydd; pruddineb, pruddder, trymfrydigrwydd, syn feddylgarwch, dybyrwch, dybyrdod.

Dumpling, *s.* (o *dump*) torpell, troli, twmpan, rholen, poten; poten dorpell, pwding dorpell; torpell o bwding; torpell o boten; twmpyn, twrllach.

A dumpling fellow—dyn byrdew, dyn byrfraisg; dyn unhyd unlled; twliffyn, torpwth: *f.* twmpan, twliffen, twrlläes.

Dumps, *s. pl.* ysmigwst, gwedwst; madrondod, pruddineb, prudd-der, dybyrdod.

He is in the dumps—mae yr ysmigwst arno; mae efe yn glaf o'r ysmigwst; mae y wedwst arno; mae efe yn synfyfyriol, &c.

Dumpy, *a.* (o *dump*) byrdew, byrfraisg; unhyd unlled.

Dun, *a.* (S. *dunn*; C. *dun*; Gw. *donn*) dulwyd, dwn, llwrm, gwineulwyd, gwineuddu, gell, llwyd-ddu, arddufrych, brychddu, dufrych, gwrmwn, gwrmdde; tywyll, gwyll.

Yellowish dun—melynllai.

Dun, *v. a.* dwn-gyweirio, gwrm-gyweirio; cyweirio pysg nes y bônt o liw dwn; gwrmu.

Dun, *v. a.* (S. *dynan*) taer ofyn, taer geisio, dirio, dirwasgu; taer ofyn dyled; taer geisio arian; gofyn dyled yn fynych ac yn haerllug;

bod yn daer am arian; cymhell un i dalu; byddaru; dygn flino.

Dun, *s.* taer ofynwr, taer geisiwr, gofynydd taer, diriwr am arian, ceisiad haerllug; taer ofyniad, taer gais, taer geisiad, cais, ceisiad.

Dunce, *s.* (Al. *duns;* oddi wrth *Duns Scotus*, meddylir) penbwl, cuall, pendew, delff, brebwl, penllorcan, hurthgen, hurtyn, llelo, clwpa, penglog, penwan, delbren, hult, hurtan, llob, llobyn, ffwlcyn, ullda, hwgwd.

Dun-bee, } *s.* clyryn llwyd, cacynen y meirch,
Dun-fly, } cethreor.

Dun-bird, *s.* hwyad bengoch.

Duncery, *s.* (o *dunce*) penbylni, penbyledd, cuallder, cualldod, hurtrwydd, penfasedd, penwendid, &c.

Duncify,† *v. a.* penbyleiddio, hurtio; gwneuthur yn benbwl.

Duncish, *a.* delffaidd, penbylaidd, hurtaidd, pendew, penfasaidd, syfrdan, syfrdanaidd, hurthgenaidd, hultaidd.

Dunder, *s.* (Ysp. *redundar;* Ll. *redundo*) gwaddod, gwaelodion, llorion, anmhuredd.

Dunderpate, } *s.* hurthgen, cadafael, penbwl,
Dunderhead, } brebwl, penllorcan, hultyn, hurtyn, cuall, clwpa, pendew, penwan.

Dun-diver, *s.* hwyad ddanneddog.

Lesser dun-diver—trochydd danneddog.

Dune, } *s.* (S. *dun;* Ff. *dune;* Al. *düne*) bryn,
Dun, } bre, moel, garth, iselfre; cronadail bigfain.

Dunfish, *s.* (*dun* a *fish*) dwnbysg; y penfras wedi ei wrm-gyweirio.

Dung, *s.* (S. ac Al.) tom, dom, baw, tail; biswal, biswail, aul, eulon, ebod, ebodn, ystlom, cach, llibystr, cagl; ysgothfa.

Cow-dung—tom gwartheg, tail gwartheg, biswal gwartheg, budail, beudail, biswal, biswail, bisweilyn.

Dried cow-dung — gleiad, gleiaden: *pl.* gleiaid.

Sheep's dung — tom defaid, baw defaid, cagl.

Goat's dung—tom geifr, baw gafrod, eulon, cagl.

Horse-dung—ebod, ebodn, tom ceffyl.

Dung (for manure)—tail, tomdail.

Thin dung—pibion, ystiffion.

Full of dung—teilog, llawn tail; tomog.

Dung-cart—teilgart, tomgart, cart tail, cart teilo, certwyn teilo.

Dung-farmer—carthwr geudai, carthydd geudai, cothynwr, glanhäwr ysgothfeydd.

Dung, *v.* tomi; teilo; ystlomi, maesa; bisweilio, ebodni, euloni, tomfoi, caglu, cachu; ysgothi, ysgythu, ymarllwys; gwerydu, bwrw tail, bwrw tom; gwrteithio â thail.

Well-dunged—teilog, llawn tail; wedi ei deilo yn dda; tomog.

To dung thin—ystiffio, ysgothi, ysgythu, pibo, trafu.

Dung-beetle, *s.* chwilen y dom, chwil y dom, tomchwilen, chwilen wyllt, teilchwilen.

Dungeon, *s.* (Ff. *dongeon, donjon*) daiardy, daiargell; carchardy, carchar, carchar tywyll, carchar caeth, carchar tanddaiarol; dyfngell, pwll, ffau.

The dungeon of hell—pwll uffern, pydew uffern, tywyll garchardy uffern; gwaelod uffern.

Dungeon, *v. a.* caethiwo mewn daiardy; carcharu dàn y ddaiar; carchargellu, caethgarcharu.

Dungfly, *s.* cleren y dom, clyryn y dom, tomgleren, cylionen y dom, tomgylionen: *pl.* tomgler, tomgylion.

Dungfork, *s.* (*dung* a *fork*) teilfforch, ysteilfforch, tomfforch, fforch dail, fforch deilo, pigfforch dail.

Dunghill, *s.* (*dung* a *hill*) tomen, teilfa, tomen dail.

Dunghill, *a.* perthynol i'r domen; tomenaidd, bawaidd, brwnt, budr, gwael, distadl; prin gwerth ei godi o'r domen.

Dunghill cock—ceiliog y domen.

Dunghill gods—tomdduwiau.

Dunging, *s.* teilad, tomiad; budeilad.

Dungy, *a.* tomog, teilog, llawn tom, llawn tail, tomlyd, bawlyd, bawaidd, brwnt, budr.

Dungyard, *s.* (*dung* a *yard*) teilbarth, tombarth, buarth tom, teilfan, teilfa.

Dunlin, *s.* o (*dun*) y pibydd rhuddgoch.

Dunnage, *s.* llwythgodion=ffagodau, a phethau cyffelyb, à roir ar waelod llong i godi nwyddau trymion oddi wrth y gwaelod.

Dunner, *s.* taer ofynwr, taer geisiwr, gofynydd taer, diriwr am arian, ceisiwr haerllug; dygn flinwr, byddarwr.

Dunning, *s.* (o *dun*) dwn-gyweiriad, gwrmgyweiriad.

Dunnish, *a.* (o *dun*) gwrmaidd, dulwydaidd, llwyd-dduaidd, lled ddwn, go ddwn, brychdduaidd.

Duo, *s.* (Ll. a Gr.) cân ddeulais, dwyed; dau.

Duodecahedral, *a.* (Ll. *duodecim*, a Gr. *hedra*) =*Dodecahedral.*

Duodecahedron, *s.*=*Dodecahedron.*

Duodecimals, *s. pl.* (Ll. *duodecim, duodecimus*) deuddegiadau; deuddegiadaeth, deuddegiaeth; croesluosiaeth.

Duodecimal multiplication = croesluosiaeth, croesluosogaeth; deuddegiadaeth.

Duodecimfid, *a.* (Ll. *duodecim* a *findo*) deuddegholltog, deuddegholltog.

Duodecimo, *a.* (Ll. *duodecimus*) deuddegplyg, deuddengmhlyg, 12plyg, deuddegol; yn cynnwys 12 dalen i'r llèn.

Duodecimo, *s.* llyfr deuddegplyg, deuddegplyg, deuddengmhlyg.

Duodecuple, *a.* (Ll. *duo* a *decuplus*) deuddegplyg, deuddengmhlyg, deuddegtro, deuddegol.

Duodenary, *a.* (Ll. *duodenarius*) deuddegol, deuarddegol.

Duodenary arithmetic—rhifyddiaeth ddeuddegol, rhifyddeg ddeuddegol.

Duodenum, *s.* (Ll.) y cyntaf o'r mân goludd; y coluddyn 12 modfedd; mân berfeddyn; mân goludd, perfeddach, mân berfedd.

Duoliteral, *a.* (Ll. *duo a litera*) deulythyrol, dwylythyrenol; cynnwysedig o ddim ond dwy lythyren.

Dup,† *v. a.* (?) agor, agoryd.

Dupe, *s.* (Ff.) dyn hydwyll, dyn hyhud, symlyn, hydwyllog, hydwyllyn; dyn hawdd ei hudo *neu* ei dwyllo; dyn twylledig; ffwlcyn, gwirionyn, hygoelyn.

Dupe, *v. a.* twyllo, somi, hocedu, castio, somddenu, hudo; camarwain drwy gymmeryd mantais ar hygoeledd un.

Dupeable, *a.* hydwyll, hyhud, twylladwy.

Dupery, *s.* (Ff. *duperie*) twyllad, hudiad, hydwyllad, castiad.

Dupion, *s.* dychwilerwe, chwilerwe dyblyg.

Duple, *a.* (Ll. *duplus*) dyblyg, deublyg, dwbl.
Duplicate, *a.* (Ll. *duplicatus*) dyblyg, deublyg, deuddyblyg, dyblygol.
Duplicate, *s.* cyfysgrif, cyfysgrifen, adysgrif, adysgrifen, adlun, eilun, cysgrif, cysgrifen, gwrthysgrifen, dyblygen.
Duplicate, *v. a.* (Ll. *duplico*) dyblygu, deublygu, dyblu; gwneuthur yn ddyblyg; plygu.
Duplication, *s.* (Ff.; Ll. *duplicatio*) dyblygiad, deublygiad, dyblygiant, deublygiant, deublygiaeth, dybliad; plygiad, plygiant; plyg, dyblyg, deublyg, plygfa; adluniad.
Duplicature, *s.* (Ff.) dyblygedd, deublygiaeth, dyblygiaeth, deublygedd, dyblygiad, deublygiad; plygiad, plygiant; dyblyg, deublyg, plyg.
Duplicity, *s.* (Ff. *duplicité;* It. *duplicità;* o'r Ll. *duplex*) dyblygrwydd, dyblygedd, deublygrwydd; twyll, deuwynebedd, deuwynebiaeth, deuwynebogrwydd, rhagrithrwydd.
Dupper, } potel fualgen, costrel hydd-
Dubber, } groen.
Durability, } *s.* (o *durable*) parhausder, par-
Durableness, } hausrwydd; parhad, para, hirbarhad, hirbara; gallu i barhau; anniflanrwydd; toraeth.
Durable, *a.* (Ll. *durabilis*) parhäus, parhaol, paraol, hirbarhäus, hirbarhaol, o hirbara, o hirbarhad; à barhao, à bery; hir ei bara; diball, safadwy; anniflan, annifan; toraethus; caled, ffêr, cryf.
Dura Mater, *s.* (Ll.) crefadyr, y crefadyr; pilen allanol yr ymenydd; arbilen yr emenydd.
Duramen, *s.* (Ll.) rhuddin, rhudding, calon pren, madruddyn pren.
Durance, *s.* (Ll. *durans*) carchar, caethiwed, dalfa, attalfa; carchariad, caethiwad; parhad, para; ysbaid.
To be in durance—bod yn ngharchar.
Of little durance—dibara, dibarhad, diflan, ansafadwy, anmharhäus; byr ei barhad.
Durant, *s.* (Ll. *durans*) bytholnwydd, bythnwydd.
Duration, *s.* (Ll. *duratio*) parhad, para, hydfod, hirfod, hyd, ystod, ysbaid; olyniad.
Long duration—hirbara, hirbarhad, hir bara, hirfod.
Of long duration—hirbarhäus, hirbarhaol, parhäus; hir ei bara; hir ei arosfa; o hir barhad; o hir bara.
Of short duration—byr ei bara; byr ei barhad; dibara, dibarhad, anmharhäus; diflan, difan; darfodedig.
Durbar, *s.* clybodgell (yn yr India).
Dure, *v. n.* (Ll. *duro;* Ff. *durer*) parhau, para, aros; sefyll.
But dureth for a while—eithr dros amser y mae (*Mat.* xiii. 21).
Dureful,† *a.* parhäus, parhaol.
Dureless,† *a.* dibara, dibarhad, anmharhäus; diflannus, darfodedig, diflan, difanw.
Duress, *s.* (Norm. *duresse;* Ll. *duritia*) carchar, caethiwed, dalfa; carchariad, caethiwad, treisddaliad; cyfyngder, cyni, caledi, gwasgfa, caethder.
During, *p.* (o *dure*) yn parhau, yn para; yn aros; yn bod; parhäus, parhaol.
During long—hirbarhäus, diball; yn parhau *neu* aros yn hir.

During, *prep.* tra parhao; tra, hyd tra, cyd ag, cyhyd ag; yn ystod, yn ysbaid, yn oed.
During life—yn ystod bywyd; yn hyd bywyd; tra parhao bywyd.
During life only—oesfoddog.
During pleasure—hyd fodd, ar fodd; tra parhao bodd.
During dinner—a ni yn ciniawa; a nyni ar giniaw; tra yr oeddem yn ciniawa; tra yr oeddem ar giniaw; yn ystod ciniaw; ar giniaw.
During my stay there—tra yr aroswyf *neu* yr arosais yno; hyd tra yr aroswyf *neu* yr arosais yno; cyd ag yr arosof *neu* yr arosais yno; yn ystod fy arosiad yno; yn hyd *neu* oed fy arosfa yno.
During that time—yn hyd *neu* yn ystod hyny o amser; o fewn hyny o amser; yn ysbaid yr amser hwnw.
He staid with us during that transaction—arosodd gyda ni tra parhaodd hyny o orchwyl.
During the course of last month—yn chwyl y mis diweddaf; yn ystod y mis diweddaf.
The honour of being head of one's family is granted during life only—oesfoddog yw penoenedlaeth.
During the late unhappy confusions—dros *neu* yn amseroedd y diweddar helbul trwch anhapus; yn ystod y diweddar gythrwfl annedwydd.
Durity, *s.* (Ll. *duritas;* Ff. *dureté*) caledrwydd, caledwch, caledi, caledded; gerwinder.
Durous,† *a.* (Ll. *durus*) caled.
Durst, *p. p.* (Is. *dorst*) amser neithiedig o *Dare*.
Duse, *s.*=*Deuce*.
Dusk, *a.* (Is. *duister;* Al. *düster*) tywyll, godywyll, lled dywyll, lledlwyd, golwyd, gwrm, dwn, gell, dulwyd, llwyd-ddu, llwydaidd, llygliw, lled-ddu, gwyll, llwyd-dywyll.
Dusk, *s.* cyfnos, gogyfnos, cyflychwyr, llychwyr, gorchyfarwy, corchyferwy; cydiw gwr a llwyn; gwyll, tywyll, godywyll; hudd; dulwyd, llygliw, tywyllni, dulwydni, gwrmedd, lledlwydedd, düwch.
In the dusk of the evening—yn y cyfnos; yn y cyflychwyr; yn ngwyll y nos; rhwng gwawl a gwyll; rhwng y ddau oleu; rhwng goleu a thywyll; yn min nos.
Dusk, *v.* gwrmu, tywyllu, godywyllu, tywyllu; gwneuthur yn lled dywyll; myned yn lled dywyll; tynu at y tywyll.
Duskiness, } *s.* tywyllni, godywyllni, lled-
Duskishness, } dywyllni, gwrmder, dulwydedd, golwydedd, llygliw; tywyllwch, gwyllwch, caddug; dechreu tywyllwch.
Duskish, } *a.* (o *dusk*) godywyll, lled dywyll,
Dusky, } trân dywyll, gwyll, dywyll; dulwyd, golwyd, gwrm, dwn, llwyd, gwrmdde, gell, llygliw, llwyd-ddu, duog, duaidd, llwydaidd, gwrmwn, gwrmdde, cethin; anoleu, anghlaer, caddugol, cadduglyd, niwlog, cymylog, dilewyrch; trist, athrist, tristlawn, prudd.
Dusky green—gwrmlas, golwydlas.
Dusky greenness—gwrmlesni.
Dust, *s.* (S. *dust, dyst;* T. *doest, duyst*) llwch; ffylor, pylor, meilon, pain, paill, blawd; pridd.

Dust (in botany)—pain, paill, llwch.
Gold dust, } llwch aur, eurdywod, man-
Dust of gold, } lwch aur, eurflawd, eur-lwch.
Saw dust—blawd llif, llifion.
File dust—llifion durlif.
Wood dust—blawd gwŷdd, meilon gwŷdd.
Rope dust—rhafflwch.
Corn dust—pilion yd, ysgarthion yd, meilon yd.
A particle of dust—llychyn, ffyloryn.
A cloud of dust—haif o lwch; lluwch o lwch; hiff o lwch.
It will fall to the dust—syrthia i'r llwch; e ddaw i ddim.
Full of dust—llychlyd, llawn llwch, ffylorog, pylorog, llychwin.
Dust colour—lliw llychwin.
To throw dust upon, } llychwino,
To besprinkle with dust, } llychu, llychio,
To soil with dust, } bwrw llwch ar,
llychlydo.
Soiled *or* besprinkled with dust—llychwinedig; llychwin; llychedig.
To reduce to dust—gwneuthur yn llwch *neu* yn ffylor; pwyo yn llwch *neu* yn ffylor; llychu, meiloni, ffylori, pylori, malurio, briwo yn fân, mân friwo; troi yn llwch.
To cleanse from dust—dilychu; glanhau oddi wrth lwch; ysgubo llwch ymaith.
To dissolve into dust — troi yn llwch; myned yn llwch; llychu.

Dust, *v. a.* dilychu; llychwino, llychu, llychio, bwrw llwch ar.

Dustbrush, *s.* llychrugl, gwrychell lwch, ysgubell lwch, gwrychell lychio.

Duster, *s.* llychydd, llychyr, dilychydd, llychgarp; gogr, gwagr.

Dustiness, *s.* llychlydrwydd, llychineb, llychedd, llychiant, llychwinogrwydd, llychiogrwydd.

Dustman, *s.* llychwr, llychydd, llychur, llychwas.

Dustpan, *s.* padell lwch, llychbadell, llychban, llestr llwch.

Dusty, *a.* llychlyd, llychwin, llawn llwch; ffylorog, pylorog; pyloraidd.
Dusty white—llychwyn, gwŷn llychwin, gwŷn llychlyd.

Dutch-Clover, *s.* millfeillionen, meillionen Olwen, meillionen wèn, meillionen wèn y waen; maill gwŷn, meillion gwynion, millfeillion, meillion rhedegog.

Dutchess, *s.* (Ff. *duchesse*) duges, duces.

Dutch-Gold, *s.* eurrith, tombac, aur yr Isdir.

Dutch-Myrtle, *s.* madywydd, mordywydd, gwyrling, gwyrddling, helygen Mair.

Dutch-Rushes, *s. pl.* marchronell y gauaf, rhawn y march gauafol.

Dutchy, *s.* (Ff. *duché*) dugiaeth, duciaeth; ardal *neu* diriogaeth dug.

Duteous, } *a.* (o *duty*) ufydd, ufyddgar, gos-
Dutiful, } tyngedig, gostyngaidd, dyledgar, ufyddol, uddyf, ufyll, hufyll, ufell; naturiol; parchus, parchedig, edmygol; parod i wneuthur ei ddyled *neu* ddyledswydd; à wnel yn rhwydd ei ddyled *neu* ddyledswydd; llawn ufydd-dod; llawn o ufydd-dod; parod i ryngu bodd; wrth archiad.

Dutiable, *a.* (o *duty*) tolladwy, cyllidadwy; agored i dalu cyllid *neu* doll.

Dutied, *a.* cyllidiog, cyllidiol; tolladwy; tolledig.

Dutifulness, *s.* ufyddgarwch, dyledgarwch, ufydd-dod, gostyngeiddrwydd, gostyngedigrwydd, uddyfdod, ufylldod, ufyllder, ufyddoldeb, ufyddolder, ufyddolrwydd, hufylldod, ufyddiant, ufydd-dra; parodrwydd i wneuthur dyled *neu* ddyledswydd; tuedd i wneuthur yr hyn a ddylid; parch, parchusrwydd.

Duty, *s.* (o *due*) dyledswydd, dyled, dylyed, eddyl, dylid, dyl, daffar; swydd, gwasanaeth, gwaith, rhan; toll, cyllid, tâl, treth, tredd, teyrnged; dyledsum; cymmediw.
It is your duty—eich rhan a'ch dyled yw; eich dyledswydd ydyw; y mae yn ddyledswydd arnoch; eich dyled ydyw.
I thought it my duty—mi a'i tybiais yn ddyled arnaf; mi a'i cyfrifais yn ddyled *neu* ddyledswydd arnaf; tybiais mai ym dyledswydd oedd.
He did his duty—gwnaeth yr hyn a ddylasai; gwnaeth ei ddyledswydd.
Not to do one's duty—bod yn ol am ei ddyledswydd; peidio â chyflawnu ei ddyledswydd; peidio â gwneuthur ei ddyledswydd.
To do another's duty—dirprwyo un.
As the duty of every day required—fel yr oedd ddyledus bob dydd yn ei ddydd.
To be on duty—bod yn *neu* ar ei wasanaeth; bod yn *neu* ar ei orsaf; bod yn *neu* ar ei orchwyl; bod yn *neu* ar ei sefyllfa; bod yn nghyflawniad ei swydd; bod yn nghylch cyflawnu ei swydd; bod ar ddyledswydd.
Present my duty to him—rhowch fy ngwasanaeth iddo; rhowch fy nghymmediwau iddo.
Of bounden duty—o rwym *neu* rwymedig ddyled.
It is our bounden duty—ein rhwymedig ddyled yw; mae yn ddyledswydd rwymedig arnom.
Men on duty—gwŷr mael.

Duumvir, *s.* (Ll.) deuwriad: *pl.* deuwriaid.

Duumviral, *a.* (Ll. *duumviralis*) deuwriol; perthynol i ddeuwriaid *neu* i ddeuwriaeth.

Duumvirate, *s.* (Ll. *duumviratus*) deuwriaeth, y ddeuwriaeth, llywodraeth dau.

Dwale, *s.* (?) codwarth=planigyn gwenwynig.

Dwale, *s.* du, lliw du, cibddu.

Dwarf, *s.* (S. *dwerg, dwcorg;* Is. a Sw. *dwerg*) còr, coryn, pegor, pegoryn, nar, corddyn, corach, llogwrn, corig, gwrachyn, (*f.* gwrachen), gwrachan, gwrachell, geuddyn; còr-.
Female dwarf—coren, cores, corddynes, pegores, llogyrnes, gwrachen, gwrachanes.
Dwarf elder—corysgaw, ysgaw Mair, ysgaw y ddaiar, ysgaw bendigaid, gwaed y gwŷr, creulys mawr.
Dwarf oak—cordderwen.
Dwarf palm—corbalmwydd.

Dwarf, *v. a.* cori, naru, nareiddio, llogyrnu; gwneuthur yn gòr; rhwystro *neu* attal twf; lleihau.

Dwarfing, *s.* coreiddiad, coriad, nareiddiad, coedgoriad, coriad coed, coednariad.

Dwarfish, *a.* coraidd, corachaidd, naraidd, llogyrnaidd, corddynaidd; bychan, bychanig; gwael, dirmygedig.

Dwarfishness, *s.* coreiddrwydd, nareiddrwydd, coracheiddrwydd, corddyneiddrwydd, llogyrneiddwch, nareiddwch, gwrachandod; bychander maint.

Dwarf-walls, *s. pl.* corfuriau, corwaliau.

Dwaul,† *v. n.* (S. *dwelian, dwolian*) ymleferydd, bod yn wallgof.

Dwell, *v. n.* (D. *dwæler;* Sw. *dvala, dvälias;* T. *dualla;* Isl. *duelia*) preswylio, cyfanneddu, trigo, trigiannu, anneddu, cartrefu, tario, pryseddu, prysedda, aros, arosi, cyfaros, trefu, trefiannu, trigfannu, preswyliannu, haddefu; bod, byw, syddu; sefyll, gorsefyll; eistedd.

To dwell upon—sefyll, gorsefyll, *neu* ymhelaethu ar; bod yn faith ar; dàl manol sylw ar; aros ar; glynu wrth; erlyn.

To dwell together—cyttrigo, cydbreswylio, cyttrigiannu, &c.; trigo yn nghyd; preswylio yn nghyd, &c.; cyttal, bod yn gytty.

And made them dwell in this place—ac a'u cyfleasant hwy yn y lle hwn (1 *Sam.* xii. 8).

Elixate, *v. a.* (Ll. *elixo*) cymmerwi, sicio; tynu o beth drwy ferwi.

Elixation, *s.* cymmerwad, siciad, berwad; trwythad.

Elixir, *s.* (Ar. *al-ecsir*; Ll. *elixo*) sirlyn, sirwy, cysurlyn, sirgyffer, meddyglyn; ednyfed, alnyfed, gordaeth, gornyfed; trwyth, edrwyth, gordrwyth.

Elk, *s.* (S. *elch*; Sw. *elg*; Ll. *alce*, *alces*; Gr. *alcé*) elch, elc, gorgarw=math o garw mawr.

Elk-wood—elchwydd, elchgoed.

Elk-nut—elchgneuen, olewgneuen: *pl.* olewgnau.

Elke, *s.* elcysen, alarch gwyllt: *pl.* elcys.

Ell, *s.* (S. *elne*; D. *ell*, *elle*; Sw. *aln*; Al. *elle*; Ll. *ulna*) llathell, elinad; llathen.

English ell—hirlath Seisonig, llathell Seisonig=3 troedfedd a 9 modfedd.

Flemish ell—berlath Fflanders, llathell Fflemig=27 modfedd.

French ell—llathell Ffreinig, hirlath Ffrengig=llath a hanner.

Give him an inch and he will take an ell—lle caffo Cymro y cais; rhowch iddo fodfedd ac efe gymmer lathen.

Ellagic Acid, *s.* sur darfalig, sur darafal.

Elleborin, *s.* (Gr. *elleboros*) hylyfystor, ystor hylif y gauaf.

Ellipsis, } *s.* (Ll. *ellipsis*; Gr. *elleipsis*) hir-
Ellipse, } gylch, hirgrwn; toliaith, tolieithad, byrieithad; diffyg, byrdra, gadawiad allan; diffyglin.

Ellipsograph, } *s.* (Gr. *elleipsis* a *graphô*) hir-
Elliptograph, } gylchyr; offeryn i wneuthur hirgylch.

Ellipsoid, *s.* (Gr. *elleipsis* ac *eidos*) hirgylchen, gogronen, gogronell.

Ellipsoid, } *a.* gogrwn, gogyfrgrwn, go-
Ellipsoidal, } gynghrwn, goglobynaidd, lledglobenaidd, lledgrwn.

Elliptic, } *a.* hirgylchol, hirgylchaidd, hir-
Elliptical, } grwn, hirgrynol, hirgul; tolieithol; diffygiol, byr, anmherffaith; á cholli ynddo; á byrdra ynddo.

Ellipticity, *s.* (o *elliptic*) hirgylcholdeb, hirgylcheiddrwydd, hirgrynder, dull hirgrwn.

Elliptograph, *s.* =*Ellipsograph*.

Elm, *s.* (S.; Al. *ulme*; Is. *olm*; Sw. a D. *alm*; Ll. *ulmus*) llwyfen, llwyf, llwyfan, llwyfanen, claswydd, pren llwyf, pren llwyfen.

Elm-tree=*Elm*.

Wych-elm, } llwyfen lyfnddail;
Smooth-leaved elm, } llwyfanen á dail llyfnion.

Broad-leaved elm, } llwyfen lydanddail,
Wych-hazel, } llwyfan lydanddail.
Cork-barked elm, } llwyfen wrymrisg;
Corked-bark elm, } llwyfanen á rhisg gwrymiog.

Spreading elm—llwyfen daen, llwyfanen hydaen, llwyfen ymdaenol.

Mountain elm, } llwyfen lydanddail, llwyf-
Scotch elm, } anen lydanddail, llwyf
Wych-elm, } lydanddail.

Wahoo elm, } llwyfen adeiniog.
Cork-winged elm }

Slippery elm—llwyfen felen, llwyfen felynddu.

Of elm, } llwyfenin, llwyfin, llwyf-
Made of elm, } ain, claswyddin.

Abounding with elms—llwyfog, llwyfenog.

Elm grove—llwyn llwyfain, llwyn llwyfen, llwyn llwyf, llwyfiwyn. [dan.

Elmos-fire, *s.* hwylbrenwyll, hwynyn, ellyll-

Elmen, *a.* (o *elm*) llwyfin, llwyfenin, llwyfain.

Elmy, *a.* (o *elm*) llwyfog, llwyfenog, llawn llwyf, claswyddog.

Elocation, *s.* (Ll. *eloco*) symmudiad, ymudiad, mudiad; ymadawiad; lleamar, perlewyg.

Elocution, *s.* (Ll. *elocutio*) ffraethoneg, hyawdledd, ffraethineb, areithyddiaeth, traethoriaeth, treitheg, traetheg, parabledd, ffraethder, ffraethdeb, ffraethedd; ymadrodd, parabl, dywediad, traethiad, parabliad, cynaniad, llafariad; ymadrodd, llafar; rhyddineb ymadrodd, rhwydd-did ymadrodd; parabl croew hyfryd, parabl croewber, croewder parabl.

Elocutionary, *a.* ffraethonol, hyawdl, araethyddol; perthynol i ffraethoneg *neu* hyawdledd.

Elocutionist, *s.* ffraethonydd, ffraethonwr, ffraethebydd, arodor, aroman; un hyddysg mewn ffraethoneg.

Elocutive, *a.* hyawdl, ffraethol, ffraethdebol, ffraethineb, areithyddol, areithiol, traethorol.

Elogist,† *s.* molwr, clodforwr, arwyreiniwr.

Elogy, } *s.* (Ll. *elogium*; Ff. *éloge*) arwyr-
Elogium, } ain, clodair, clodaraeth, molawd, canmoliaeth, clod, mawl, iolwg, clodeb, arwawd, darfoliant, darfoledd, molyd.

Eloin, } *v. a.* (Ff. *éloiner*) symmud yn
Eloine, } mhell; anfon, danfon, gyru,
Eloigne, } gwthio, *neu* symmud ymaith; anfon, danfon, gyru, gwthio, *neu* symmud yn mhell oddi wrth; pellhau, symmud; symmud o'r golwg.

Eloinate, } *v. a.* symmud, symmudo, mudo.
Eloignate, }

Eloinment, } *s.* symmudiad yn mhell; sym-
Eloignment, } mudiad, anfoniad, danfoniad, *neu* yriad ymaith; symmudiad, pellhad; pellder.

Elong,† *v. a.* (Ll. *elongo*) gyru yn mhell; oedi, gohirio.

Elongate, *v.* (Ll. *elongo*) hwyhau, estyn, ystyn, estynu, ystynu, estyn allan, togi, pellhau; symmud yn mhellach; ymbellhau, cilio, encilio, ymadaw; myned yn mhellach.

Elongation, *s.* hwyhad, estyniad, ystyniad, estyniad allan, hwyedigaeth, togiad, ymestyniad, estynedigaeth; symmudiad ymaith, ymsymmudiad ymaith; pellhad, ymbellhad, ymadawiad, ciliad, enciliad; pellder, pellineb.

Elope, *v. n.* (Is. *loopen;* Al. *laufen;* S. *hleapan*) cilio, encilio, celgilio, dirgelgilio, ymgelcio; myned ar gil; myned ar encil; celffoi, celcredeg, rhedeg ymaith, ffoi, dïanc; ffoi ymaith yn ddirgel; dirgel ddïanc; myned ymaith; ymadael â'i wlad *neu* â'i drigfan; ymadaw â phriod; myned ar encil *neu* enciliaw oddi wrth ei gwr; encilio gyda chariad.

Elopement, *s.* ciliad, enciliad, celgiliad, dirgeliad, ymgelciad, celffoad, ffoad, ffo; mynediad ar gil, ar encil, *neu* ar ffo; ffoad dirgel; ymadawiad â gwlad; ymadawiad *neu* enciliad oddi wrth briod; enciliad gyda chariad.

Elops, *s.* (Gr. a Ll. *ellops*) mudfil, mudbysg= math ar bysg, â gyflëwyd gàn Milton (*Coll Gwynfa*, x. 525) yn mhlith y seirff.

Eloquence, *s.* (Ll. *eloquentia*) hyawdledd, ffraethineb, ffraethder, ffracthedd, hyodledd, rhugliaith, arugledd, areinrwydd, parabledd, per araeth, rhugledd ymadrodd, rhugl ymadrodd, parodrwydd ymadrodd, parod ymadrodd, mydwaledd, cymhendod, cymheniaith, arawn, arawd; areithyddiaeth, ffraethoneg.

Want of eloquence—anhyawdledd.

Wanting eloquence—anhyawdl, anymadroddus, anmharablus; afrugl ei ymadrodd; trwsgl ei chwedl; anghymhen; annhrybelid ei araeth.

Stately eloquence — araeth fawreddus, araith fawreddog, araeth fawrydig, ucheliaith, hyawdledd uchelwych, mawrair, ffraethineb mawreddog.

Eloquent, *a.* (Ll. *eloquens*) hyawdl, ffraeth, parablus, ymadroddus, arain, arodrydd, hylafar, parablber, cymhen; parod ei ymadrodd; rhugl ei dafod; rhugl ei chwedl; trybelid ei dafod *neu* chwedl; eureneu, eurdafodïog, eurdafod; â thafod aur ganddo.

Eloquently, *ad.* yn hyawdl, &c.; gyda hyawdledd.

To speak eloquently—hyodli, ffraethebu; llafaru yn hyawdl, &c.

Else, *a.* (S. *elles;* D. *ellers;* Ll *alius, alias*) arall, amgen, all, yr all, yr arall; gwahanol; heb law.

Who else?—pwy hefyd? pwy eto? pwy arall?

Who else is coming? — pwy arall sy'n dyfod? pwy hefyd sy yn dyfod?

What else?—beth ynte? — beth hefyd? beth arall? pa beth amgen?

Nobody else, } neb arall; nid neb
No man else, } arall; nid neb amgen.

Nothing else—dim arall, dim amgen; dim ond, dim onid.

Whosoever else cometh into the house—pwy bynag arall a ddelo i'r ty.

I am, and none else besides me—myfi sydd, ac nid neb ond myfi; mi sydd, ac nid neb arall ond mi.

I have done it, and none else—myfi a'i gwnaeth, ac nid neb arall *neu* amgen; myfi, ac nid arall, a'i gwnaeth.

This is nothing else save the sword of Gideon—nid yw hyn ddim ond cleddyf Gideon.

This is nothing else but sorrow of heart—nid yw hyn ond tristwch calon.

They meant nothing else but to overthrow me — nid oedd yn eu bryd ddim amgen *neu* ddim llai na'm dinystrio.

Else, *ad.* os amgen, ped amgen, pe amgen; onid e, onitê; oni bai hyn; oni bai hyny; oddi eithr hyn; oddi eithr hyny; oddi gerth hyn; ai, ai ynte, neu ynte, neu, ynte; i maes o hyn *neu* hyny; amgen; heb law hyny.

Or else—os amgen, ped amgen, pe amgen; ac os amgen; ac onid e.

No where else—nid mewn unlle arall; nid mewn lle arall; dim mewn un lle arall *neu* amgen.

Places else much to be desired—lleoedd tra dymunol oni bai hyny.

Or else be absent—ai bod yn absennol.

Elsewhere, *ad.* (*else* a *where*) mewn lle arall *neu* amgen; mewn màn arall *neu* amgen; mewn manau *neu* leoedd ereill; mewn un lle arall *neu* amgen; mewn rhyw le arall.

In town and elsewhere—yn y dref ac mewn lleoedd *neu* fanau ereill.

Elsin, } *s.* (T. *aelsene*) mynawyd crydd, myn-
Elsen, } awyd.

Elucidate, *v. a.* (Ll. *elucido*) egluro, eglurhau, amlygu, esbonio, goleuo, damlygu, arllenu.

Elucidation, *s.* eglurhad, egluriad, eglurad, esboniad, amlygiad, arlleniad, damlygiad, deongliad, goliant, agoriad; goleuni.

Elucidative, } *a.* eglurhaol, eglurol, egluriadol,
Elucidatory, } damlygol, amlygol, esboniadol.

Elucidator, *s.* eglurwr, eglurydd, egluriadur, eglurhäwr, egluriedydd, amlygwr, amlygydd, damlygwr, esboniwr, esboniedydd, esboniadur.

Eluctation, *s.* (Ll. *eluctatio*) ymdoriad, toriad, toriad allan, ymrwygiad; dïangfa, dïanc.

Elucubration, † *s.* (Ll. *elucubror*)=*Lucubration*.

Elude, *v. a.* (Ll. *eludo;* Ff. *éluder*) dïanc, dïengyd, dïengu, ymddïanc rhag, gochel, gochelyd, gwagelyd, gwagelu, ysgöi, osgöi; cyfrwys ochel; gochelyd drwy gyfrwysdra; ymddïanc oddi wrth; dïanc rhag, dïanc oddi wrth; ymachub rhag; bwrw, troi, *neu* ollwng heibio; troi oddi ar ffordd; somi, seithugio; dïanc rhag ei weled.

Eludible, *a.* gocheladwy, dïangadwy.

Elumbated, *a.* (Ll. *elumbis*) gwàn yn y llwynau; egwan ei lyfenau; gwanlyfenog, llyfenwan, llwynwan.

Elusion, *s.* (Ll. *elusio*) gocheliad, gwageliad, ymocheliad, gochel, ysgöad, gocheledigaeth; ystryw *neu* ddichell i ddïanc; dychymyg ystrywus i ddïanc; gocheliad *neu* ddïangfa drwy ystranc; ymdro dichellgar; cast, ystryw, ystranc, dichell, celc, twyll, som, hoced, hud, somiant; dïanc, dïangfa.

Elusive, } *a.* gochelgar, gwagelog, gochelus,
Elusory, } ystrywgar, ystrywus, dichellgar, hocedus, twyllodrus, twyllgar, somgar, ffals, gau; â'i dueddiad i ochelyd *neu* ddïanc rhag; â'i dueddnod i ddïanc rhag.

Elusoriness, *s.* gochelgarwch, gwagelogrwydd, ystrywgarwch, twyllgarwch, dichellgarwch, hocedusrwydd.

Elute, *v. a.* (Ll. *eluo, elutum*) golchi, golchi ymaith, glanhau.

Elutriate, *v. a.* (Ll. *elutrio*) hidlo, glanhidlo, terhidlo, terolchi, golchburo; puro drwy olchi.

Elutriation, *s.* hidlad, glanhidlad, terhidlad, golchburad; purad drwy olchi.

Eluxate, *v. a.* (Ll. *eluxatus*) dadgymmalu, disgymmalu, digymmalu, dislëu; taflu o'i le.

Eluxation, *s.* dadgymmaliad, disgymmaliad, digymmaliad, dislead.

Elvan, *a.* (o *elf*) ellyllaidd, ellffaidd, elffain, elffin ; perthynol i ellyllon.

Elvelock, *s.* gwyllgudyn, ellyllglwm, owlwm ellyllon, clwm gwion.

Elvers, *s. pl.* manlyswod, manlyswod, llyswod mân, llyswenigion ; morlyswod mân, morlyswenigion.

Elves, *s. pl.* (o *elf*) ellyllon, eilff, elffod, tylwyth teg.

Elvish, *a.* (o *elves*) ellyllaidd, elffaidd, gwyllaidd, coblynaidd ; tebyg i ellyllon ; lledrithiog.

Elydoric, *a.* (Gr. *elaion* a *hudôr*) olewddyfrig.

Elymus, *s.* (Gr. *elumos*) amdowellt.

Elysian, *a.* (Ll. *elysius* ; Gr. *êlusios*) gwynfaol, gwenydfaol, paradwysaidd, gwenfroawl, hyfrydlon, hyfrydlwys, hyfrydlawn, gwynfydlawn, glwys, trahyfryd, tiriondeg ; Elysiain.

Elysian fields—maesydd Elys, maesydd gwynfyd, maesydd gwenfro, maesydd gwynfaol, &c. ; hyfrydle, trigfanau dedwyddwch, trigfanau y dedwydd, y nefoedd (yn iaith y beirdd cenedlig).

Elysium, *s.* (Ll. ; Gr. *êlusion*) Elys, Elysfa, gwenfro, gwynfa, gwenydfa, paradwys, glwysfa, trigfa dedwyddwch ; hyfrydle ; nefoedd y Paganiaid.

Elytriform, *a.* (*elytron*, a Ll. *forma*) adeinweinaidd, adenweinaidd ; ar ddull adenwain.

Elytrine, *s.* (Gr. *elutron*) hulgen, hulgrofen, hulgrawen, hulgramen.

Elytron, *pl.*, **Elytra**, *s.* (Gr. *elutron*) aesgrawen, aesgrofen, adenwain, asgellwain, adeinwain, aeswain ; caes uchaf adenydd chwilod.

Em, (cyfnewiad o *en*) rhagddawd cyfystyr ag *En*.

Emacerate, + *v. a.* (Ll. *emaceratus*) teneuo, teneuhau, curio, culhau.

Emaceration, *s.* teneuad, teneuhad, curiad, culhad.

Emaciate, *v.* (Ll. *emacio*) teneuo, teneuhau, culhau, curio ; gwneuthur yn gul *neu* yn deneu ; peri yn gul *neu* yn deneu ; peri curio ; myned yn gul *neu* yn deneu ; nychu, truanu ; myned yn druan.

Emaciate, } *a.* teneu, cul, teneuedig, curiedig ;
Emaciated, } truan.

Emaciation, *s.* teneuad, teneuhad, culhad ; curiad, truanad ; nychiant ; teneuder, teneudra, teneudeb, teneurwydd, culni, culi, culder, culdra, culedd, curioldeb.

Emaculate, *v. a.* (Ll. *emaculo*) brycheuo, difrycheuo, difrychu, dadfanu, glanhau.

Emaculation, *s.* difrycheuad, dadfaniad, difaniad ; glanhad ; glanhad manau *neu* frychau.

Emanant, } *a.* (Ll. *emanans*) han, tarddol,
Emanative, } tarddiannol, deilliol, tarddiadol, hanol, haniadol ; deilliedig, hanedig, tarddedig ; deigynol ; yn deilliaw o ; yn tarddu allan o ; yn deillio.

Emanate, *v. n.* (Ll. *emano* ; Ff. *émaner*) deillio, hanu, tarddu, rhedeg allan, dyfod o.

Emanation, *s.* (Ll. *emanatio*) deilliad, haniad, tarddiad, tarddiant, tardd, ffrydiad, dylifad, deigyniad, dylifiant, goferiad, tarddiad allan, rhediad allan, hiliad, rhedlif.

Emanation of providence—ffrwd rhaglunaeth.

Emancipate, *v. a.* (Ll. *emancipo*) rhyddhau, rhyddfreinio ; breinio *neu* ryddhau caeth ; digaethu, anghaethu ; gollwng yn rhydd o gaethiwed ; adferu ei ryddid i un ; gollwng caethwas yn rhydd ; gwaredu, gwaredredu ; rhoi gwaredred i.

Emancipate, *a.* (Ll. *emancipatus*) rhydd, anghaeth, rhyddfreiniol.

Emancipation, *s.* (Ll. *emancipatio*) rhyddhad, gwaredred, rhyddfreiniad, anghaethiad, digaethiad, diwarogaeth ; gwaredigaeth o gaethiwed ; gollyngiad caethwas yn rhydd ; adferiad rhyddid i gaeth ; adferiad caeth i ryddid ; breiniad *neu* ryddhad caeth.

The emancipation of slaves — rhyddhad caethion, gwaredred y caethion.

The emancipation of Catholics — rhyddfreiniad y Pabyddion.

Emancipationist, } *s.* gwaredredydd, gwared-
Emancipist, } redwr, rhyddfreiniwr ; amddiffynydd rhyddhad y caeth.

Emancipator, *s.* rhyddhäwr, anghaethwr, digaethwr ; rhyddhäwr *neu* ollyngwr o gaethiwed.

Emane, *v. n.* (Ll. *emano*) deillio, tarddu, hanu, rhedeg allan, dyfod o.

Emarginate, *v. a.* (Ll. *emargino*) dadymylu ; tynu ymaith yr ymyl.

Emarginate, } *a.* dadymylog ; dadymyledig ;
Emarginated, } llymriciog.

Emasculate, *v. a.* (Ll. *emasculo*) dysbaddu, ysbaddu, anwrywio, anwrio, dadwrio, efnuchu ; gwanhau, gwanychu, gwreigeiddio.

Emasculate, } *a.* dysbaddedig, dysbaidd, dys-
Emasculated, } baddol, ysbadd, anwrywol, anwriedig, efnuchedig ; gwanychedig.

Emasculation, *s.* dysbaddiad, ysbaddiad, dysbeiddiad, efnuchiad ; anwriad, anwrywiad, dadwriad, anwriaeth ; gwanychder, gwreigeiddrwydd.

Embale, *v. a.* (Ff. *emballer*) sypynu, byrnio, byrnu, sypio, sybyrnio ; cydrwymo, rhwymo ; cau i fewn.

Embalm, *v. a.* (Ff. *embaumer*, o *baume*, balm) perarogli, pereneinio, perogli, perlysieuo ; perarogli, cyweirio, eneinio, pereiddio, *neu* dymmeru corff marw ; corffoethi.

Embalmer, *s.* peraroglwr, peraroglydd, pereneiniwr, peroglwr ; peraroglwr *neu* bereneiniwr cyrff meirw.

Embalming, } *s.* perarogliad, pereneiniad,
Embalmment, } perlysieuad, cyweiriad, corffoethiad.

Embank, *v. a.* (*en* neu *em* a *bank*) argloddio, cloddio, byrchio, ebyrnu, gobio ; amgau *neu* argau â chlawdd ; amgau, argau.

Embankment, *s.* argloddiad, cloddiad, byrchiad, gobiad ; arglawdd, argae, gob, bwrch, ebyrn.

Embar, *v. a.* (*en* a *bar*) bario, bolltio ; attal, rhwystro, lluddio, arluddio, nadael, dyor ; sicrhau ; cau i fyny.

Embarcation, *s.*=*Embarkation*.

Embargo, *s.* (Ysp., Port., a Ff.) llongwardd, llongwahardd, llongyrth, porthattaliad, hwylwardd ; rhwystr *neu* attal ar longau rhag hwylio.

Embargo, *v. a.* llongwardd, llongwahardd, llongyrthio, llongluddio, llongrwystro, hwylwardd, porthattal ; rhwystro hwylio i *neu* o borthladd.

Embark, *v.* (Ysp. *embarcar* ; Ff. *embarquer*) rhoddi, dodi, *neu* osod mewn llong ; rhoddi,

dodi, *neu* osod ar fwrdd llong; cymmeryd llong; myned, esgyn, *neu* ddringo i long; llongi, ymlongi, morio; anturio; cychwyn, ymuno.

To embark in an affair—ymrwymo, ymnidro, *neu* ymdraffullio mewn rhyw orchwyl; ymyryd *neu* ymhel â rhyw orchwyl; ymosod ar *neu* ymgychwyn at ryw orchwyl; anturio mewn gorchwyl; peru i un ymrwymo mewn rhyw orchwyl; tynu un i ymrwymo mewn rhyw orchwyl; rhoi *neu* osod un ar ryw orchwyl; ymgymmeryd â rhyw orchwyl; ymuno mewn rhyw orchwyl.

To embark in the same design—ymrwymo *neu* daro gydag arall i ddwyn rhyw amcan i ben; cydymosod ar ryw orchwyl; cydanturio ar ryw amcan.

They embarked on the same bottom—ymunasant yn y perygl; ymunasant yn yr un gorchwyl.

Embarkation, *s.* gosodiad, dodiad, *neu* roddiad mewn llong; gosodiad, dodiad, *neu* roddiad ar fwrdd llong; mynediad *neu* esgyniad i long; mynediad *neu* esgyniad i fwrdd llong; cymmeriad llong; llongiad, ymlongiad; moriad, cychwyniad; anturiad, anturiaeth; llongaid.

Embarkation, *s.* (Ysp. *embarcacion*) llong fechan, cwch.

Embarras, *s.* (Ff.)=*Embarrassment.*

Embarrass, *v. a.* (Ff. *embarasser;* Ysp. *embarazar*) dyrysu, nidro, methlu, rhwydo, maglu, cynghafu, ffeigio, afrwyddo; rhwystro, lluddio, llestair, attal; trallodi, cythryblu, cythruddo; annhrefnu; peri anhawsdra i; peri rhwystr *neu* attal ar; dwyn i gyfynggynghor.

Embarrassing, *a.* dyrys, dyrysol, nidrol, ffeigiol, cynghafus; yn dyrysu, &c.; â bair ddyryswch, &c.

Very embarrassing—tra dyrys, gorffeigiol, dyrys iawn, &c.

Embarrassment, *s.* dyryswch, dyrysni, dyrysi, dyrysrwydd, dyrysedd, nidr, nidri, nidredd, nidrogrwydd, anhawsder, anhawsdra, anhawsedd, afrwydd-deb, methl, methledd, ffaig, astrusi; cythrudd, cyfyng-gynghor, cyni; rhwystr, lluddias, attal, lluddiant, methliad, nidrad; gwyddwig.

Extreme embarrassment—gorffaig, gorddyryswch.

Embase, *v. a.* (*en* a *base*) iselhau, iselu, gwaethygu, gwaethâu, llygru, diraddio, anurddo, anurddasu, anafu, lleihau gwerth; gwneuthur yn waeth.

Embasement, *s.* iselhad, iseliad, gwaethygiad, gwaethâd, llygriad, diraddiad, anurddiad, anafiad.

Embassade, } † *s.* (Ff. *ambassade*)=*Embassy.*
Embassage, }

Embassador, *s.* (Ff. *ambassadeur*) cenad, cenadwr, cenadog, llysgenad, llysgenadwr, llysnegesydd, cenadwr llys, teyrngenad, negeswr, negesiadur, cenadur, arnegesydd.

Embassadress, *s.* cenades, cenadoges, cenadures, llysgenades; cenad.

Embassy, *s.* (Ff. *ambassade;* Ysp. *embaxada*) cenadaeth, cenadiaeth, cenadogaeth, llysgenadaeth, llysgenadiaeth, teyrngenadaeth, argenadaeth, cenadwriaeth, cenadwri, llysnegesiaeth, negesiaduriaeth.

Embathe, *v. a.* (*en* a *bathe*) baddo, trochi, golchi.

Embattle, *v.* (*en* a *battle*) byddino, cattrefnu; gosod mewn trefn i ymladd; trefnu gŵŷr i'r frwydr; rhestru llu i'r gad; llueddu; ymfyddino; ymdrefnu i ymladd.

Embattled, *a.* byddinog, byddinedig; gwalciog, canllawiog, canllofog, murganllawiog; arfog; gwedi bod yn faes cad.

Embattled field—maes cad, maes y gad, maes y frwydr, cadfaes, cadfa, cadfan, cadwent, aerfan, aerfa, cadlan, aerfle, aergae, tranial.

Embattlement, } *s.* gwalc, rhintwal, rhicwal,
Embatailement, } rhintganllaw.

Embay, *v. a.* (*en* neu *in*, a *bay*) cilfachu, llocio, machwyo; dàl *neu* gadw mewn cilfach; cadw mewn machwy.

Embay, † *v. a.* (Ff. *baigner*) trochi, golchi.

Embed, } *v. a.* (*en* neu *in*, a *bed*) gwelyo;
Imbed, } gosod *neu* roi mewn gwely; gwelyfu, gwelyddu; amgylchu â.

Embedment, } *s.* gwelyad, gwelyawd, gwelyf-
Imbedment, } iad; gosodiad, dodiad, *neu* roddiad mewn gwely.

Embellish, *v. a.* (Ff. *embellir*, o'r Ll. *bellus*) addurno, harddu, prydferthu, teghau, tecâu, tegychu, eirianu, eirioni, tlysu, tlysio, harddwychu, gorwychu, gwychu, clysu, clysio, ceinwychu, berthu, ceinioni, deinioli, trwsio, teleidio, destlu. [ferthwr.

Embellisher, *s.* addurnwr, addurnydd, prydd-

Embellishment, *s.* addurn; addurniad, addurnad, addurniaeth, addurniant, harddiad, prydferthiad, teghad, eirianad, eirionad, tlysiad, berthiad, &c.; harddwisg, harddwch, prydferthwch, ceinder, gwychder, dillyn.

Ember-days, *s. pl.* (o'r S. *embren, ymbryne*, yn ol rhai; o *embers*, yn ol ereill) dyddiau y cydgoriau, dyddiau ympryd, dyddiau y lludw=y Mercherau, y Gwenerau, a'r Sadyrnau, yn wythnosau y cydgoriau.

Ember-goose, *s.* gŵydd fol-arian.

Embering, † *s.* (o *ember*)=*Ember-days.*

Embers, *s. pl.* (S. *æmyrian;* Isl. *einmyria*) marwor, marwar, marwydos, rhysod, ulw, rhebres, eirysod, eirias; lludw: *sing.* marworyn, rhysodyn.

Red glowing embers—marwor rhudderw.

Of embers, } marworaidd, mar-
Belonging to embers, } worawl, marwarol, marwar; lludwog, lludlyd.

Ember-week, *s.* wythnos y cydgoriau = yr wythnos gyntaf ar ol y Sul cyntaf o'r Grawys, ar ol y Sulgwyn, ar ol gŵyl y Grog (Medi 14), ac ar ol Gwyl St. Lleucu (Rhagfyr 13).

Embezzle, *v. a.* (hen Ff. *embesler;* Norm. *embeasiler*) darnguddio, celcio, lladrata, chwiwladrata, chwiwbigo, darnladrata, celafradu; dwyn, lladrata, ysbeilio, *neu* ddarnguddio peth â roed i gadw ato; lladrata, dwyn, *neu* yspeilio peth â roddwyd dàn ymddiried iddo; lleihau a threulio yn lladradaidd *neu* yn anghyfarch; afradu, gwastraffu, afradloni.

Embezzlement, *s.* darnguddiad, celciad, ladratiad, chwiwladratiad, chwiwbigad, anghyfarch, chwiwiad, celafrad; lladrad, chwiwladrad.

Embezzler, *s.* darnguddiwr, celciwr, anghyfarchwr, anghyfarchydd; chwiwleidr, chwiwleidryn, afradwr.

Embitter, *v. a.* (*en* neu *in*, a *bitter*) chwerwi, trachwerwi, peri chwerwi.

Emblaze, } *v. a.* (Ff. *blasonner*) addurno,
Emblason, } harddu, gwychu, eirioni, eirianu, claer addurno; addurno yn harddwych *neu* ddysgleirwych; trwsio yn glaer; tynu arfau, arfddeongli, arfofyddu, arfegu, achofyddu, arwyddfarddoni, arflenu, achlunio, arflunio, paentio arfau bonedd, tynu arfau bonedd.

Emblazoner, *s.* achofydd, arfofydd, arfegwr, herodr, herodur, herodydd, arwyddfardd, arfwyddwr, achwyddwr, eirfydd, tynwr arfau, paentiwr arfau bonedd; addurnwr; lledaenwr rhwysgfawr.

Emblazonment, *s.* achofyddiad, arfofyddiad, arfegiad, arfleniad, herodriad, heroduriad, tyniad arfau bonedd.

Emblazonry, *s.* achofyddiaeth, arfofyddiaeth, arfeg, arwyddfarddoniaeth, herodraeth, heroduriaeth, achwyddiaeth, achluniaeth; arfluniau, achluniau, lluniau pais arfau.

Emblem, *s.* (Gr. *emblêma*) arwyddlun, arwydd, cysgodlun, cysgod; arddangosiad; arddangosiad cysgodol; bath, llun, rhith, cyfeirlun, darlun arwyddol.

Emblem, *v. a.* arwyddlunio, cysgodlunio, cysgodi; arddangos drwy arwyddion *neu* arwyddluniau.

Emblematic, } *a.* arwyddluniol, arwyddol,
Emblematical, } cysgodluniol, cysgodol, arwyddocius, cyfeiriol.

Emblematist, *s.* arwyddluniwr, arwyddluniedydd, cysgodluniwr; un à ddychymygo arwyddluniau.

Emblematize, } *v. a.* arwyddlunio, cysgodlunio,
Emblemize, } cysgodi; arddangos drwy arwyddluniau *neu* arwyddion.

Emblement, *s.* (Norm. *emblear*; Ff. *emblaver*) cynnyrch, cnwd, toraeth, adgen y ddaiar, ffrwyth llafurdir; cynnyrch tir hauedig *neu* blanedig.

Embloom, *v. a.* cuddio *neu* harddu à blodau; gwullio.

Embodier, } *s.* (o *embody*) corfforydd, corfforwr, cydgorfforwr, cynghorffolydd; tewychwr.
Imbodier, }

Embodiment, } *s.* corfforiad, corffoliad, cyd-
Imbodiment, } gorfforiad, cydgorffoliad, cynghorfforiad, cynghorffoliad; cymherfeddiad.

Embody, } *v. a.* (*en* neu *in*, a *body*) corffori,
Imbody, } corffoli, cydgorffori, cydgorffoli, cynghorffori; cymherfeddu; tewychu.

Emboguing, *s.* (Ff. *embouchure*) aber, ceg afon, geneu afon, ymarllwysfa.

Embolden, } *v. a.* hyfhau, cryfhau, calonogi,
Imbolden, } cefnogi, gwroli; gwneuthur yn hyf; rhoi arial, calon, *neu* yni yn; rhoi arial, calon, *neu* yni mewn; eoni, hyfiadu.

Emboldener, } *s.* hyfäwr, calonogydd, cefnog-
Imboldener, } ydd, gwrolydd; un à gefnogo.

Embolism, *s.* (Gr. *embolismos*) gorymddwyn, y gorymddwyn, ymsang; dydd *neu* ddyddiau gorymddwyn; lleuad ormes.

Embolismal, } *a.* gorymddygol, ymsangol; à
Embolismic, } osodwyd i mewn; perthynol i'r gorymddwyn; à roer yn nghyfrwng; i'w roi yn nghyfrwng; cyflenwol.

Embolismal month—mis gorymddwyn, mis ymsang, mis gorymddygol; lleuad ormes.

Embolismic year—blwyddyn orymddwyn, blwyddyn gorymddwyn, blwyddyn ymsang, blwyddyn gyflenwol.

Embolus, *s.* (Ll.; Gr. *embolos*) syflath, ceuffon, diblath, ceusyfl.

Embonpoint, *s.* (Ff.) llyfnder gwedd, llyfnder, tewedd, cnodigrwydd, efras.

Emborder, *v. a.* (hen Ff.) ymylu, eirionynu, hemio, cyriogi; harddu âg ymylwaith.

Emboss, *v. a.* (*en* a *boss*) boglynu, boglymu, clöynu, clöenu, cnybio; cerfio yn gnapiau, yn gnepynau, *neu* yn foglynau; cygnu; brodio boglynwaith.

Embossed work — boglynwaith, boglymwaith, gwaith boglynog, gwaith boglymog.

Emboss,+ *v. a.* (Ff. *emboîter*) golyrchu, cistio; cuddio, cau ar; cau i mewn.

Emboss, *v. a.* (It. *imboscare*) cau mewn coed; cuddio mewn tewlwyn; gyru *neu* hela i'r coed; cyfyngu ar, tyn erlyn.

To emboss a deer—hela *neu* yru hydd i'r coed; cyfyngu ar garw.

Embossing, *s.* boglyniad, boglymiad; boglynwaith, boglymwaith; clöyniad, pothiad, cnapiad, cnybiad.

Embossment, *s.* boglwm, boglyn, twdd, twddf, pothon, pothan, poth, cnap, cnwb, corbed; uchelsaf, bansaf, banddelwad, argerfiad; codiad; lluniau ar godiad; boglynwaith, boglymwaith.

Embottle, *v. a.* potelu, costrelu; rhoi mewn potel; dodi mewn costrel.

Embouchure, *s.* (Ff.) aber; ceg, geneu, twll geneu.

Embow, } *v. a.* bwäu, mydu, nenfydu, gwneuth-
Imbow, } ur yn fwa, cromneuu, crymweithio.

Embowed, *a.* bwaog; plygedig, crwm.

Embowed contrary, } gwrthfwaog, gwrth-
Counter-embowed, } blygedig, gwrthgrwm.

Embowel, *v. a.* (*en* a *bowel*) diberfeddu; tynu allan yr ymysgaroedd; suddo mewn.

Emboweller, *s.* diberfeddwr.

Embowelment, *s.* diberfeddiad; tyniad yr ymysgaroedd allan.

Embower, } *v. n.* celyddu; bod mewn deildy,
Imbower, } cysgotty, *neu* wasgodlwyn.

Emboxed, *a.* (o *box*) cauedig mewn blwch *neu* gist; blychedig, golyrchedig, cistiedig.

Embrace, *v.* (F. *embrasser*, o *bras*, braich) cofleidio, breicheidio, monwesu, mynwesu; ymgofleidio, ymgaredigo; myned ddwylaw yn mwnwgl; croesawu; derbyn; derbyn yn groesawus; cyfarch; cynnwys, cynnwyso; amgylchu; cymmeryd i fewn; gafaelu yn; cymmeryd gafael yn *neu* mewn; cymmeryd, caniatäu; amglymu; cyridio; gwyro, gogwyddo.

To embrace one another—ymgofleidio, ymgaredigo, ymfreicheidio, ymwasgu.

To embrace the opportunity—achub yr adeg; cofleidio yr adeg; dàl ar yr adeg; ymaflyd yn y cyfleusdra; cymmeryd gafael yn y cyfle; cipio yr adeg.

An embracing about—amgofleidiad, amgylchiad, cylchyniad, amgylchyniad.

Embrace, *s.* cofleidiad, ymgofleidiad, breicheidiad, monwesiad, ymgaredigad; cofl, cofiaid; cywestach, cyrid.

Embracement, *s.* cofleidiad, ymgofleidiad, breicheidiad, monwesiad, mynwesiad,

ymgaredigad; ymafliad; cynnwysiad; cywesach, cyridiad, ymgystlwn.

Embracer, *s.* cofleidiwr, cofleidydd, ymgofleidiwr, ymgaredwr, monweswr, mynwesydd.

Embracery, *s.* (o *embrace*) gwyrad rheithwyr; rheithwyrad; cynnyg i ddylanwadu ar reithwyr.

Embraid,† *v. a.* (S. *upgebredan*) dannod, edliw, lliwied.

Embrasure, *s.* (Ff.) twll, rhwyll, *neu* agoriad mewn mur; murag, muragoriad, muregor, osgagoriad.

Embrave,† *v. a.* (*en* a *brave*) addurno, harddu, harddwychu; gwroli; gwneuthur yn ddewr *neu* hyf.

Embrocate, *v. a.* (Gr. *embrechô;* It. *embroccare*) lleithrwbio, gwlychrathu, gwlybrathu, twymrwbio; twymfwydo, twymolchi; gwlychu a rhwbio màn dolurus; iro, eneinio.

Embrocation, *s.* lleithrwbiad, gwlychrathiad, gwlybrathiad; twymfwydiad, twymrwbiad, twymolchiad, irad, eneiniad; rhwbiad yn wlyb; rhatholch, rhathwlybwr, twymwlych, rhathlyn, gwlych.

Embroider, *v. a.* (Ff. *broder;* C. *brodio*) brodio, darfrodio, brwydo, brwydweithio, cyfrestru; addurno â gwaith edeu a nodwydd.

Embroidering frame—brwyd.

Thou shalt embroider the coat of fine linen—gweithia âg edeu a nodwydd y bais o liain main (*Ecs.* xxviii. 39).

Embroiderer, *s.* brodiwr, darfrodiwr, brwydydd, brwydwr, brodydd, brodweithiwr, brwydweithydd, brwydweithiwr, cyfrestrwr, cyfrestrydd: *f.* brwydyddes, brodwraig, brwydwraig, brwydweithyddes.

Embroidery, *s.* (Ff. *broderie*) brwydwaith, brodwaith, brodiaeth, brodiad, darfrodiad; gwaith brodiog, cyfrestrog, *neu* frwydog; gwaith edeu a nodwydd; addurnwaith edef a nydwydd; addurnwaith; addurnau.

Embroil, *v. a.* (o *broil;* Ff. *embrouiller*) aflonyddu, terfysgu, trabluddio, cythruddo, cythryblu, cyffröi, trallodi; annhrefnu, dyrysu, nidro, methlu, cynghafu, ffeigio, cymmysgu, dygymmysgu, tryfysgu; gwneuthur terfysg *neu* gythrwfl; gyru benben.

Embroilment, *s.* terfysg, dyfysgi, aflonyddwch, trabludd, cynhwrf, cyffro, cymhelri, terfysgedd, cymmysgedd, brythawd, brythred, brwth, brythaint.

Embrothel, *v. a.* (*en* a *brothel*) cau mewn puteindy *neu* drythylldy.

Embrued, *a.* (Gr. *embrechô;* It. *embroccare*) gwaedlyd, gwaedrudd, gwaedruddog.

Embryo, } *s.* (Gr. *embruon;* Ll. *embryon*) an-
Embryon, } elwig, anelwig ddefnydd, defnydd anelwig, peth anelwig, peth anorphen, rhith, ebwystl, gorllydd, pri, prionyn, milrith, côl; llysrith; gwaed cyn delwad; dechreu.

The business is but in embryo yet—nid yw y gorchwyl ond braidd wedi ei rithio, ei gynllunio, *neu* ei ddechreu hyd yn hyn.

Embryo, } *a.* anelwig, rhithiol, rhithiog, pri-
Embryon, } onol, ebruol, anorphen, dechreuol; milrithiol, milrithig; â dim ond ei rith.

Embryo bud—blaguryn anelwig, rhithflaguryn.

Embryography, *s.* (Gr. *embruon* a *graphô*) milrithionaeth, gorllyddiaeth; dysgrifiad difyniadol o'r milrith.

Embryology, *s.* (Gr. *embruon* a *logos*) milrithèg, prioniaeth; milrithiant; athrawiaeth dadhuddiad y rhith mewn milod a phlanigion.

Vegetable embryology—llysritheg, prioniaeth tyfolion.

Embryonate, *a.* (Gr. *embruon*) milrithaidd, gorllyddaidd, prionaidd; mewn cyflwr milrithaidd.

Embryonic, *a.* milrithig, anelwig, gorllyddig, rhithig, prionig; llysrithig.

Embryotomy, *s.* (Gr. *embruon* a *tomê*) milrithdrwch, milrithdrychiad, milrithdoriad.

Embusy,† *v. a.* (*en* a *busy*)=*Employ.*

Emend,† *v. a.* (Ll. *emendo*) gwella, gwellhau, diwygio, cyweirio.

Emendable, *a.* (Ll. *emendabilis*) gwelladwy, diwygiadwy, cyweiriadwy; à ellir ei ddiwygio.

Emendation, *s.* (Ll. *emendatio*) gwellhad, gwellad, gwelliad, gwelliant, diwygiad, diwygiaeth, cyweiriad, cywiriad, difeiad, adgyweiriad, diwyg, cystwyaeth; cyfnewidiad er gwell.

Emendator, *s.* (Ll.) diwygiwr, diwygiedydd, diwygydd, gwellhâwr, gwellwr, cyweiriwr, cyweirydd, cywirydd, gwelladur, adgyweiriwr, cystwywr, cystwyor.

Emendatory, *a.* diwygiadol, diwygiol, gwellhaol, cyweiriadol, cyweiriol, diwygus, cyweiriedigol, adgyweiriol, cystwyol.

Emendicate, *v. a.* (Ll. *emendico*) cardota.

Emerald, *s.* (Ysp. a Port. *esmeralda;* It. *smeraldo;* Ff. *émeraude;* Ll. *smaragdus;* Gr. *smaragdos, maragdos*) gwerddem, gwerdden, gwyrddfaen, smaragdus.

In sight like unto an emerald—yn debyg yr olwg arno i smaragdus (*Dad.* iv. 3).

Emerge, *v. n.* (Ll. *emergo*) codi, cyfodi, dyfod, *neu* esgyn allan; dadsuddo, dadsoddi, dadymsuddo, dadymsoddi, adymddangos, ymddangos; dyfod allan o fawdd *neu* o gudd; ymgodi, ymgyfodi, codi, cyfodi, cwnu; deillio, hanu, tarddu; codi, dyfod, *neu* esgyn i'r golwg; dyfod o gudd i'r golwg *neu* i'r amlwg; dyfod o dywyllwch i oleuni; dadfoddi.

Emergence, } *s.* (Ll. *emergens*) codiad, cyfodiad,
Emergency, } dyfodiad, *neu* esgyniad allan; dadymsawdd, dadsawdd, dadymsuddiad, dadsoddiad, dadfawdd; dyfodiad i'r golwg; dyfodiad o gudd i'r golwg *neu* i'r amlwg; adymddangosiad, ymddangosiad; deilliad, haniad, tarddiad; dirni, dir-angen, dir-achos, achos disyfyd, angen disymmwth, gwir angen; damwaen, dychwaen, dygwydd, dygwyddiad, achlysur, achos, achos dygwyddol, ethryb dygwyddol, achos neilltuol; angen, eisieu, rhaid, angenrhaid, angenrheidrwydd, anhebgorwch.

Emergent, *a.* yn codi, &c.; yn codi, yn cyfodi, *neu* yn dyfod allan; yn deillio; yn dadymsoddi, yn dadymsuddo; dadymsoddol, deilliol, adymddangosol; yn dyfod allan o fawdd *neu* o gudd; yn dyfod *neu* yn esgyn i'r wyneb; yn arwyrain, yn dadwyrain, yn ymddangos; yn dyfod i'r golwg; disyfyd, disymmwth, dirybudd, swta, dyswta, annysgwyliedig; na ragwelwyd; na feddyliwyd am dano; heb feddwl am dano; dygwyddol, damweiniol; pwysfawr, pwysig; dir, taer, anhebgorol, dihebgor, dirwasgol, dirgymhellol; tra neilltuol.

Emerited, } *a.* (Ll. *emeritus*) rhyglyddog; à
Emeritus, } ganiatäer ei fo'l wedi gwneuthur digon o wasanaeth cyhoeddus; rhyglyddfawr.

Emeroids, } *s.* (llygriad o *hemorrhoids;* Gr.
Emerods, } *haimorrhoides*) lledewigwst, clwyf y marchogion, haint y marchogion.

Fine golden emerods—pump o ffolenau aur (1 *Sam.* vi. 4).

Emersion, *s.* (o'r Ll. *emergo*) dadymsuddiad, dadymsuddiant, dadymsoddiad, dadymsoddiant, dadsoddiad, dadsuddiad, dadsawdd, dadfawdd, dadfoddiad; adymddangosiad, adymddangosawd; cyfodiad, codiad, *neu* esgyniad i'r gwyneb; ymgodiad; dyfodiad i'r golwg; diddyryslad.

Emery, *s.* (Ff. *émeri, émeril;* Is. *ameril;* Gr. a Ll. *smiris*) ellfwn, cabolfwn; llathrlwch.

Emesis, *s.* Gr. (*emeô*) cyfog, cyfogiad, chwydiad.

Emetic, *a.* (It. ac Ysp. *emetico;* Ff. *emetique;* o'r Gr. *emeô*) cyfogol, cyfogiadol, chwydedigol, cyfogbair, chwydbair, chwydol, gloesbair; à baro gyfogi; yn peri cyfog; gorchwydol.

Emetic, *s.* cyfog, cyfogydd, cyfoglyn, chwydai, cyfogai, chwydgyffer, gorchwydydd.

Emetin, } *s.* (o *emetic*) cyfogain, cyfognur=
Emetine, } sylwedd gorgyfogol, à gafwyd allan gàn Peletier, yn 1817.

Emeto-cathartic, *a.* chwydgothol, chwydysgothol; cyfogol ac ysgothol.

Emetology, *s.* (Gr. *emetos* a *logos*) cyfogyddiaeth, cyfogaeth, athrawiaeth cyfogion.

Emication, *s.* (Ll. *emicatio*) gwreichionad, gwreichiant, llethrid, sereniad, seirianad, seiriad, llewyrchiad.

Emiction, *s.* (Ll. *mingo, mictum*) troethiad, pisad, pisawd; troeth, pis, trwnc.

Emigrant, *a.* (Ll. *emigrans*) ymfudol, ymmudol, trosfudol, ymsymmudol, gwladfudol, trigiasfudol, ymmodol, mudol; yn mudo.

Emigrant ship—llong ymfudol, ymfudlong.

Emigrant, *s.* ymfudwr, ymfudydd, ymmudwr, trawsfudwr, trosfudwr, ymsymmudwr, allfudwr, mudwr, ymalltudiwr, gwladfudwr: *pl.* ymfudolion, trosfudolion, ymfudwyr.

Emigrate, *v. n.* (Ll. *emigro*) ymfudo, ymmudo; ymmodi, mudo, gwladfudo, trawsfudo, trosfudo, mudo, ymalltudio, symmud trigle, symmudo trigias; myned i wlad arall i drigo.

Emigration, *s.* (Ll. *emigratio*) ymfudiad, ymmudiad, mudiad, mudiant, trawsfudiad, ymalltudiad, ymsymmudiad, gwladfudiad, symmudiad trigias; mynediad *neu* symmudiad o'r naill wlad i'r llall; symmudiad.

Eminence, } *s.* (Ll. *eminentia*) uchelfa, uchel-
Eminency, } fan, lle uchel; uchder, uchelder, ucheldra, ucheledd, uchedd, uchafedd; enwogrwydd, hynodrwydd, hynodolrwydd, honeidrwydd; goruchder, urddas, mawredd, dyrchafedigrwydd, ardderchrwydd, ardderchedd, aruchelédd; rhagoriaeth, ardderchogrwydd, godidogrwydd, rhagoroldeb; clod, bri; dathledd, clodforedd, hyglodedd; codiad, dyrchafiad, derchafedd, derchawd, ucheliant; uchelradd; twyn, bre; cwnwg, copa; codiad graddol.

A person of great eminence — gwr ardderchog tra rhagorol; gwr godidog tra rhagorol; gwr mawr ei enwogrwydd.

On an eminence—ar dwyn, ar godiad; ar godiad tir.

Eminent, *a.* (Ll. *eminens*) uchel, goruchel; enwog, godidog, ardderchog, rhagorol, hynod, nodedig, nodol, hynodol, honaid, hyson, clodfawr, dathl, hyglod, clodforus; dyrchafedig, derchafedig, derchedig, derch; uchelradd, uchelraddog, uchelfawr.

Eminent men—enwogion.

Eminent Welshmen — enwogion Cymru, enwogion Cymreig, Cymry enwog, &c.

He was eminent in his profession—yr oedd efe yn rhagori yn ei alwad; yr oedd efe yn hynod yn ei alwedigaeth.

An eminent place—uchelfa (*Esec.* xvi. 24).

Eminently, *ad.* yn uchel, &c.; tra, neilltuol.

Emir, *s.* (Ar.) tywysog, yn mhlith y Tyrciaid a'r Mahometiaid.

Emissary, *s.* (Ll. *emissarius*) celgenad, celgenadwr, celnegeswr, celbrwywr, dirgel genad, cenad gyfrin, cyfrinwas, ffforgenad; ysbeiwr, ysbeiennwr, peithwas; cenad, cenad anfon.

Emissary, *a.* ysbeiol, ysbeiennol, ysbeiorol, chwiliadol, ffioriol.

Emissary vessels—llestri arlloesol, llestri ysgothol, llestri arllwys.

Emission, *s.* (Ll. *emissio*) taflad, anfoniad, ergydiad, saethiad, *neu* fwriad allan; tarddiad allan; cythiad, yffiad, wff, ergydiad, hyrddiad, lledaeniad, arllwysiad, cythwy.

Emissitious, *a.* (Ll. *emissitius*) chwilgar, ysbeiol, celchwiliadol, craff, manwl; yn ysbeienna, yn chwilota.

Emit, *v. a.* (Ll. *emitto*) anfon, taflu, ergydio, saethu, *neu* fwrw allan; cythu, yffio, arllwys, ergydio, saethu, picio; lledaenu; pelydru; gollwng allan.

Emenagogue, *s.* (Gr. *emménos* ac *agô*) misliiannydd; cyffer à bair fislifiant *neu* fisglwyf.

Emmet, *s.* (S. *æmet, æmette;* Al. *ameise*) morgrugyn, grugiad, mywionyn, (*f.* mywionen), bywionyn, (*f.* bywionen), morionyn, (*f.* morionen), dyban, môr: *pl.* morgrug, grugiaid, grugion, myrion, mywion, bywion, morion, dybanod.

Emmew, *v. a.* (*en* a *mew*) cau i mewn; cau i fyny; cau ar, argau, ffroncio, cutio, llocio, cau, gwarchau.

Emmove,† *v. a.* (*en* a *move*) symmud, symmudo, mudo; codi, deffröi, dihuno.

Emollescence, *s.* (Ll. *emollescens*) tyneredd, tyneriant, tyneriad, meddaliad, meddalhad, rhagdoddedd, rhagdoddineb.

Emolliate, *v. a.* (Ll. *emollio*) meddalhau, meddalu, tyneru, meddfu, plyddu, ystwytho; murseneiddio, gwreigeiddio.

Emollient, *a.* (Ll. *emolliens*) meddalhaol, tynerol, esmwythol, esmwythaol, llinarol, mwythol, blyddol, plyddol, mwyll, lleddfol, tynerhaol, meddfol, ystwythol, nawseiddiol; à dynero, à feddalhao, à ystwytho, à nawseiddio, à esmwythao; yn tyneru, yn meddalu, yn meddalhau, yn lleddfu, yn esmwytho, yn esmwythäu.

Emollient salve—eli meddalhaol, &c.=eli tyner, esmwyth, i feddalu ac addfedu chwydd caled.

Emollient, *s.* mwythgyffer, mwythgyffyr, mwyllgyffer, llinargyffer, mwythor; cyffer meddalhaol, &c.: *pl.* mwythgyfferi, mwythorion, mwythbeirion.

Emollition, *s.* meddalhad, meddaliad, tyneriad, tynerhad, tyneriant, ystwythad, esmwythiad, esmwythâd; rhywogiad.

Emolument, *s.* (Ll. *emolumentum*) budd, elw, buddred, lles, mantais, elwant, ennill, ced,

buddles; lles à gaer drwy lafur; swyddged, llafurged; cyflog; tâl.

Emolumental, *a.* ennillfawr, buddfawr, llesfawr, buddiol, llesol, manteisiol, llesiannol, arlesol, buddredol, ennillgar.

Emongst,† *prep.*=*Among*, *Amongst*.

Emotion, *s.* (Ff. o'r Ll. *emotio*) cyffro, cyffroad, cyffrawd, cynhyrfiad, cythrudd, swys, chwim, ffrawdden, dysgogiad, ysmud, ysmudiad; cynhwrf, cynhyrfiad, ymgynhyrfiad, *neu* gythrwfl meddwl.

Sudden emotion — cyffrawd disymmwth, disyfyd, *neu* sydyn; gorchwim.

To fill with emotion — gwyso; llanw à chyffro, &c.

Emotional, *a.* cyffroawl, cyffrodol, cynhyrfiol; perthynol i gyffrawd, swys, *neu* gynhyrfiad.

Emotive, *a.* cyffroawl, cynhyrfiol, swysol; yn peri swysau; yn cynnyrchu swyson.

Empair,† *v. a.* (Ff. *empirer*) gwaethygu, anmharu.

Empale, *v. a.* (Ff. *empaler*; Ysp. *empalar*) amgledru; amgylchu, amgylchynu, *neu* amddiffyn à pholgae; amgau, ambolioni, argau, cylchgau, polgauad, polgau; cau i mewn; polioni o amgylch; cau i mewn à choedbolion; polioni, pawlwanu, polio; trywanu à phawl; gyru pawl drwy; amgylchu, amgylchynu.

Empalement, *s.* amgledrad, amgledr, polgauad, cylchgauad; amgylchiad *neu* amddiffyniad à pholgae; polioniad, pawlwaniad, trywaniad à phawl; amgledren, gwullamdo.

Empannel, *s.* (Ff. *panneau*) rheithres, rheithgofres, cofres rheithwyr.

Empannel, *v. a.* rheithresu, rheithrestru; rhestru rheithwyr wrth eu henwau; tyngu rheithwyr; gwysio rheithwyr.

Empark, } *v. a.* (*in* a *park*) parcio; cau mewn
Impark, } parc *neu* geufaes; amgylchu à chae *neu* wâl.

Emparlance, *s.* (Norm. *emperler*; Ff. *parler*) ymbarliad, ymbarlawd, oedgais, oedeb; cais am oed dydd; eidduned am oed hawl; rheithgylafaredd, rheithgynnadledd, rheithgynnadl; cyflafaredd y rheithwyr; gohir dadl, oed hawl; cynnadledd, cyflafarodd, parliant. [wyntlwch.

Empasm, *s.* (Gr. *empassô*) ysgeintlwch, per-

Empassion, *v. a.* (*in* a *passion*) cyffröi, cynhyrfu, dariasu, affeithio, effeithio, ennyn y nwydau.

Empassionate, *a.* cyffröedig, cynhyrfiedig, cynhyrfiog; â'i nwydau wedi eu cynhyrfu.

Empeach, *v. a.* (Ff. *empêcher*) cyhuddo, achwyn ar, cwyno ar, argyhoeddi o; dwyn cyhudded yn erbyn; rhwystro.

Empeople, *v. a.* (*en* a *people*) pobli, poblogi; gwneuthur yn bobl.

Emperess, *s.*=*Empress*.

Emperished,† *a.* (o *perish*) adfeiliedig.

Emperor, *s.* (Ll. *imperator*; Ff. *empereur*) amherawdwr, ymherawdwr, amherawdr, ymherawdr, ymddyberawdr; archdeyrn, uchdeyrn, ymben, unben.

Empery,† *s.*=*Empire*.

Empetrum, *s.* (Gr. *en* a *petros*) creiglys, creiglus.

Emphasis, *s.* (Gr.) pwyslais, dirlais; pwys, pwysiad; pwysnod.

Emphasize, *v. a.* pwysleisio, dirleisio; rhoi, dodi, *neu* osod pwyslais ar.

Emphatic, } *a.* (Gr. *emphaticos*) pwysig, pwys-
Emphatical, } leisiol, dirleisiol; nerthol, grymus, hyrym, egniol, traphwysig, nerthol, cryf, effeithiol, arnodol, arbenodol, nodol; y rhoddir pwys arno; hysbys, eglur, croew; o fawr bwys, grym, *neu* effaith.

Emphatically, *ad.* yn bwysig, &c.; gyda phwys; gyda phwys neilltuol; yn ddurfing; yn darawiadol.

Emphractic, *s.* (Ll. *emphracticus*) ceugyffer, ceugyffyr; cyffer à gau i fyny y chwysdyllau.

Emphysema, } *s.* (Gr. *emphusêma*) blothwst,
Emphysem, } blothlediad, mwythchwydd.

Emphysematous, *a.* blothystog; chwyddedig, blythedig, blothedig, blothaidd, blythaidd, mwythedig.

Emphyteutic, *a.* (Gr. *en* a *phuteusis*) huriedig, cofiedig; ardrethol, ar hur, ar dâl, ar rent, ar gyflog; à gymmerwyd ar hur.

Emphyteutic lands—tiroedd rhent.

Empierce,† *v. a.* (*en* a *pierce*) treiddio, trywanu.

Empight,† *a.* (o *pight*) sefydledig, sefydlog.

Empire, *s.* (Ff.; Ll. *imperium*) amherodraeth, ymherodraeth; teyrnas; gwlad; penaduriaeth, rheolaeth, rhwysg, llywodraeth.

Roman empire—amherodraeth Rhufain; yr ymherodraeth Rufeinig.

Empiric, *s.* (Gr. *empeirikos*; Ll. *empiricus*) coegfeddyg, crachfeddyg, twyllfeddyg, ffugfeddyg, cyfareddwr; prawfeddyg.

Empiric, } *a.* coegfeddygol, crachfeddygol;
Empirical, } crach, crachyddol; prawfeddygol, ceisbrawol, ceisbrofol, argeisiadol, ymbrofol; à wnel ymbrofion *neu* argeisiadau.

Empiricism, *s.* coegfeddygiaeth, crachfeddygiaeth, twyllfeddygiaeth, coegfeddyginiaeth; crachyddiaeth; ceisbrawiaeth; gwaghoniaeth, gwagymhoniaeth, coeghoniadaeth.

Emplacement, *s.* (Ff.) lle, màn; sail.

Emplaster, *s.* (Gr. *emplastron*) plastr.

Emplaster, *v. a.* plastro, paeledu, cymrydu.

Emplastic, *s.* (Gr. *emplasticos*) gwydn, gludiog, gludiol, glynol, teng, dyludiol, ymlynol; eliol.

Emplead, *v. a.* (*em* neu *en*, a *plead*) cyhuddo, achwyn ar; dwyn cyhuddiad *neu* gwyn yn erbyn.

Emplection, *s.* (Gr. *emplêctô*) cerygoswaith, màn-gerygwaith.

Employ, *v. a.* (Ff. *employer*) rhoi ar waith; rhoddi ar waith; gosod ar waith; rhoi gwaith i; cadw *neu* ddâl ar waith; dâl *neu* gadw mewn gwaith; rhoi i un beth *neu* waith i'w wneuthur; gorchwylu, gorchwylo, gorchwylio, gweithreddi, arferu, defnyddio; swyddogi, cyflogi, hurio; treulio ar, treulio; cymmeryd i fyny; myned â.

To employ one's self—ymroddi, ymróí; trin; ymyryd âg, ymyru â.

How is he employed?—pa waith sydd ganddo ef mewn llaw? pa beth sydd ganddo ef mewn llaw? beth y mae efe yn ei wneuthur?

Employ your greatest diligence upon this thing—arferwch eich diwydrwydd eithaf yn nghylch y peth hyn.

He employs most of his time in these researches—efe a dreulia y rhan fwyaf o'i amser ar *neu* yn yr ymofyniadau hyn.

This thing alone employs all my time—y

mae y peth hyn yn unig yn cymmeryd i fyny fy holl amser; mae y peth hwn yn unig yn myned â'm holl amser.

This ought to employ all your pains—y mae hyn yn gofyn eich cwbl ymroad *neu* ddiwydrwydd.

He employs his time ill—efe a gamdreulia ei amser.

Employ this man in it—gorchymynwch y peth i'r gwr hwn; rhoddwch y peth ar y dyn hwn; rhoddwch y gorchwyl yn ngofal hwn.

Old age has nothing to employ itself in—nid oes gân henaint ddim i'w wneuthur.

Employ, } *s.* gorchwyl, gwaith, gorchwyl-
Employment, } iaeth, gorchwylwaith, gwasanaeth; galwad, galwedigaeth; swydd, neges, swyddwaith; crefft, celfyddyd; trafferth; peth i'w wneuthur.

A trifling employment—oferswydd, coegswydd, oferwaith, coegwaith.

Employable, *a.* gorchwyladwy; arferadwy; â ellir ei roddi ar waith, &c.

Employe, *s.* (Ff.) gorchwylai; un ar waith; un y rhoddir gwaith iddo; y gorchwyledig.

Employed, *p.p.* ar waith, mewn gwaith; â thrafferth *neu* waith arno; disegur, trafferthus.

Employer, *s.* gorchwyliwr, gweithroddwr, swyddroddwr, gweithosodwr; un â rydd waith, swydd, *neu* orchwyl; rhoddwr ar waith; un â rydd un ar waith; defnyddiwr, arferwr, arferydd.

Emplunge, *v.*=*Plunge.*

Empoison, *v. a.* (Ff. *empoisonner*) gwenwyno; chwerwi.

Empoisoner, *s.* gwenwynwr, gwenwynydd.

Empoisonment, *s.* gwenwynad.

Emporetic, *a.* (Ll. *emporeticus*) marchnadol, marchnataol; arferedig mewn marchnad.

Emporium, *s.* (Ll.; Gr. *emporion*) marchnadfa, marchnadfan, marchnadle, trafnidfa, prif farchnadfa, maelor, maelerfa, maelierfa, maeldref, marchnattref, tref farchnad, lle marchnad; synwyrfa.

Empoverish, *v. a.* (Ff. *appauvrir;* It. *impoverire*) tlodi, llymhau, digyfoethi, digyfoethogi; gwneuthur *neu* beri yn dlawd; diffrwytho, anffrwythloni.

Empower, *v. a.* (*en* a *power*) galluogi, awdurdodi; rhoddi gallu *neu* awdurdod i.

Empress, *s.* (talfyredig o *emperess*, o *emperor*) amherodres, ymherodres, ymddyberodres; archdeyrnes, uchdeyrnes, ymbenes, unbenes.

Emprise, *s.* (Norm.) antur, anturiaeth, arlyfasiad, gorchwyl.

Emptier, *s.* gwaghäwr, arllwyswr, arllwysydd, arlloesydd, arlloeswr, arloesydd, dyhysbyddwr.

Emptiness, *s.* (o *empty*) gwagder, gorwagder, gwagedd, gwegi, gorwagedd, coegedd, coegni, coegder, gwegyd; gwagle; gwall.

Emption, *s.* (Ll. *emptio*) pryniad, pryniawd, prŷn.

Empty, *a.* (S. *æmtig, æmti*) gwag, gorwag, coeg; arloes, arlloes, arlloesedig, arllwysedig; heb ddim ynddo; diddym, disylwedd, ansylweddol; llwm; llymsi; diddodrefn; dysbydd, hysp; gwaglaw; heb ddim.

Empty house—gwagdy, ty gwag.

Empty place—gwagle, lle gwag, gwagfan.

Empty tattle, } gwagsiaith, gwagsiarad, llol
Empty talk, } wag, gwag lol.

Empty conceit—coegdyb, gwagdyb; ofer-dyb; ofergoel.

Empty words — geiriau gweigion, gwag eiriau, coeg eiriau, geiriau coegion.

Empty boast—gwagfolach, coegymffrost, coegfolach, gwagymffrost, ymffrostgwag.

Empty-headed—penwag; gwag ei ben.

Empty-handed—gwaglaw.

Empty belly — gwagfol, gwagfoly, bol gwag.

Empty-bellied — bolwag, gwagfol, archlawd; gwag ei fol.

Empty fellow, } coegyn, yagoegyn, dyn-
Empty coxcomb, } yn coegfalch.

Empty title—enw heb senw; enw gwag, enw gorwag; enw a dim ond enw.

Empty nuts—cnau coegion.

To send away empty—anfon ymaith yn waglaw.

Empty vessels make the greatest noise—basaf dwfr pan yd lefair.

Empty, *v.* gwaghau; gwneuthur yn wag; arllwys, arllwyso, arlloesi, arloesi, allwys, allwy, dyhysbyddu, hysbyddu; gwehynu, gwahenu; ymarllwys, ymarlloesi, ymwaghau; myned *neu* ddyfod yn wag; llwyrhau; tynu allan yn llwyr; tywallt.

To empty itself, } ymwaghau, ymarllwys,
To grow empty, } ymarloesi; ymwehynu; dywallaw, gwehynu, gwahenu; coegi.

Self-emptying—ymarllwysol, ymwaghsol; yn ymarllwys.

Emptyings, *s. pl.* gwaddod, gwaddodion, gwaelodion=gwaddod cwrw, osai, a'r cyffelyb.

Emptysis, *s.* (Gr. *emptuô*) gwaedred o'r geneu, gwaedlif geneu, geneured.

Empurple, *v. a.* (o *purple*) porffori; lliwio yn borffor; porfforliwo, rhuddgochi, cochliwo.

Empuse,† *s.* (Gr. *empousa*) drychiolaeth, ellyll, anysbryd.

Empuzzle, *v. a.* (o *puzzle*) dyrysu, methlu, nidro.

Empyema, } *s.* (Gr. *empouêma*) eisgrawn; crawn
Empyem, } yn yr eislen.

Empyreal, } *a.* (Ll. *empyreus;* Ff. *empyrée;*
Empyrean, } o'r Gr. *empuros*) nwyfreawl, arnwyfreawl, wybrenol, gwybrenol, wybrol, gwybrol, gwynain, uchwybrol, awyrol, nefol; perthynol i'r nwyfre; ter, pur, bywydol, glain, nyfedol; ffurfiedig o dân *neu* oleuni pur.

Empyreal sphere—nwyfre, arnwyfre, cylch y gwynaint, nwyfreant.

Empyrean, } *s.* nwyfre, arnwyfre, nwyfreant,
Empyreum, } gwynaint, nef y nefoedd; yr wybr dân = y nefoedd nenol neu uchaf, lle y tybid bod yr elfen dân yn hanfod.

Empyreuma, } *s.* (Gr. *empureuma*) araflosg,
Empyreum, } araflosgiad, araflosgiant, mallufeliad.

Empyreumatic, } *a.* mallufelig, araflosgol;
Empyreumatical, } i'w glywed fel sylweddau wedi eu gologi.

Empyrical, *a.* (Gr. *empuroô*) llosgeiniol, byloegol; yn cynnwys dansawdd hylosg glo.

Empyrosis, *s.* (Gr. *empuroô*) goddaith, cydlosgiad, cyflosgiad, cydfflamiad, cyflosgfa, tanllwyth, tandde, cynne.

Emrods, *s. pl.*=*Emerods.*

Emucid, *a.* (Ll. *emucidus*) gwedi llwydo, llwyd, brithlwyd.

Emulate, *v. a.* (*æmulor*) ceisio rhagori ar; ymdrechu rhagori ar; ymorchestu i ragori ar; cystadlu âg, ymgystadlu â, cydgeisio â, cydymgeisio â, cyderlyn â; cydorchestu â, cyngorchestu â, trechgeisio, rhagorgeisio, eilfyddu, dynwared, efelychu; bod yn ail *neu* eilfydd i; ymorchestu i ddynwared; gwynfydu, cenfigenu, cynghorfynu, gorfynu, *neu* eiddigeddu am ragori ar; efelychu er mwyn rhagori ar. [elfrydig.

Emulate, *a.* (Ll. *æmulatus*) uchelgeisiol, uch-

Emulation, *s.* (Ll. *æmulatio*) ymgais, cydymgais, cyfymgais, *neu* ymdrech i ragori; ymorchestiad, ymdrechiad, *neu* ymorchest i ragori; cydymgais, cyfymgais, cydgais, trechgais, cystadlaeth, cyngorchest, gorfyndod, cydorchestiad, cyfergais, rhagorgais; chwant am ragoriaeth; ymryson, cydymryson, ymrafael; cynghorfynt, eiddigedd.

Emulative, *a.* cydymgeisiol, cyfymgeisiol, rhagorgeisiol, trechgeisiol, ymgystadlawl; â gais ragori; â gais gyrhaedd rhagoriaeth ar arall; â ymorchesto am ragoriaeth; â'i duedd i ymgystadlu.

Emulator, *s.* cydymgeisiwr, cydymgeisydd; cyfymgeisiwr, cydgeisiedydd, cystedlydd, cystadlydd, cystadleuwr, ymgystadlydd, cyngorchestydd, rhagorgeisiwr, trechgeisiwr, cydorchestwr, cyderlynwr; un â geisio ragori ar arall.

Emulateress, *s.* cydgeisyddes, cystadlyddes, cydymgeisyddes, cystadles, cystadleues.

Emule,† *v. a.* (Ll. *æmulor*)=*Emulate.*

Emulge, *v. a.* (Ll. *emulgeo*) godro, godro allan; gwaghau.

Emulgent, *a.* (Ll. *emulgens*) godroawl, dysbyddol, dyhysbyddol; yn godro allan.

Emulgent veins—gwythenau dysbyddol, gwythenau godro.

Emulgent, *s.* llestr dysbyddol, llestr godro.

Emulous, *a.* (Ll. *æmulus*) chwannog *neu* awyddus i ragori; â geisio ragori; â ymdrecho *neu* â ymorchesto i ragori; cydymgeisiol, cyfymgeisiol, cydgeisiol, ymgystadlawl, ymgystadleuol, cyfergeisiol, cyngheisiol, rhagorgeisiol, trechgeisiol; gorfynogr eiddigus, eiddigeddus, cenfigenus, cynghorfynus; ymrafaelgar, ymrysongar, ymrysonol; awyddus, chwannog; am y goreu; yn ymdrechu am y goreu.

Emulsine, *s.* (Ll. *emulgeo*) cyflithain=sylwedd â geir mewn almonau.

Emulsion, *s.* (Ff. o'r Ll. *emulsus, emulgeo*) meddyglaeth.

Emulsive, *a.* meddyglaethol; llaethaidd, fel llaeth, llaethlyd; tynerol, mwyth, meddfaeth, plydd.

Emunctory, *s.* (Ll. *emunctorium*) eulbibell, cothbibell, carthle, arlloesai; eulwythen.

Emuscation, *s.* (Ll. *emuscor*) difysogliad, difysyniad, difysygliad, difysygiad, dadfysygiad; rhyddhad oddi wrth fwswn.

En, } (Gr. *en, em;* Ll. *in, im*) rhagddawd, yn
Em, } dynodi, *mewn, yn.*

Enable, *v. a.* (*en* ac *able;* Norm. *enhabler*) galluogi, nerthu, cyfnerthu, cymhorth, cynnorthwyo; cynnysgaethu â gallu; bod yn borth i; gwneuthur yn alluog; rhoi i un allu cymmesurol; rhoi grym, gallu, *neu* awdurdod i.

That we may be enabled to do this—fel y gallom wneuthur hyn.

Enablement, *s.* galluogiad, nerthiad, cyfnerthiad; gallu, galluedd, nerth.

Enact, *v. a.* (*en* ac *act*) deddfu, deddfodi, deddfiadu, rheitbio, rheithioli, deddfosod; gwneuthur yn gyfraith; gwneuthur *neu* osod cyfraith; gosod, trefnu, penodi, terfynu, sefydlu, barnu, sicrhau, ordeinio; gweithredu, cyflawnu, effeithio, gwneuthur; arddangos mewn gweithred.

Be it enacted—deddfer.

Enacting, } *a.* deddfiadol, deddfodol, rheith-
Enactive, } iannol, rheithosodol; yn deddfu.

Enactment, *s.* deddfiad, deddfodiad, deddfawd, deddfiadaeth, rheithiadaeth, deddfedigaeth, deddfwriaeth.

Enactor, *s.* deddfwr, deddfiedydd, rheithroddwr, deddfodwr, rheithosodwr; gosodwr, gosodydd, gwneuthurwr, *neu* wneuthurydd cyfreithiau;† gweithredydd.

Enacture,† *s.* amcan, bwriad.

Enaliosaurians, *s. pl.* (Gr. *enalios* a *sauros*) morfadfeillod, morfadrwyod.

Enallage, *s.* (Gr.) newidiaith = ffugr mewn areitheg.

Enambush, *v. a.* (*en* ac *ambush*) cynllwyn, cynllwyno, rhagod, cyfragod.

Enamel, *s.* (*en*, a Ff. *émail*) emliw, gleinliw, arliw, owmal, calch; emgaen; emliwiad; llosgliwiad.

Gold enamel—eurgalch.

Enamel, *v. a.* emliwio, gleinliwio, arliwio, amliwio, owmalu, calchu, calcheidio.

Enamelled with blue—calchlasar. [frith.

Enamelled with various colours—calch-

Enamellar, *a.* emliwiog, gleinliwiog, arliwiog, calchaid, calchog; emliwaidd, gleinliwaidd; dysglaer, claerlyfn, llathr, llyfn.

Enameller, *s.* emliwiwr, owmalwr, arliwiwr, emliwiedydd.

Enamelling, *s.* emliwiaeth, gleinliwiaeth, owmaliaeth; emliwiad, gleinliwiad, arliwiad, owmaliad, calchiad; emliw, owmal, calch.

Enamour, *v. a.* (o'r Ff. *amour*, Ll. *amor*) ennyn cariad; ennyn â chariad; ennill, denu, *neu* dynu serch; peri cariad tuag at; cyffröi chwant; rhoi ar dân gàn gariad; cynhes garu; bod yn glaf o serch; swyno, rhinio; myned â serch; swyno y serchiadau; trasercbu yn; rhyserchu.

Enamoured of—mewn cariad â *neu* âg; yn hoffi, yn gorhoffi, yn serchu, yn caru; yn blysio am; claf o gariad ar.

He is desperately enamoured of her—y mae efe yn barod i farw o gariad arni *neu* ati; mae efe dros ei ben a'i glustiau mewn cariad arni; y mae efe yn ddirfawr ei gariad tuag ati; y mae yn ei charu o'i galon; mae efe mewn cariad mawr â hi; y mae ganddo draserch *neu* fawrserch arni; mae efe ar farw o'i chariad.

To grow enamoured of one — myned, syrthio, cwympo, *neu* dyfu mewn cariad âg un; myned yn glaf o gariad un.

Enamorado, *s.* (o *enamour*) traserchwr, tracharwr, rhyserchwr; un mewn traserch; un claf o gariad; un dros ei ben a'i glustiau mewn cariad.

Enantiopathy, *s.* (Gr. *enantios* a *pathos*) cyfernwyd, cyfernaws; allnawsaeth, allnawsedd.

Enarmed, *a.* gwahanliw, rhagorliw, gwahanliwiog; â'r cyrn, y cyrnau, &c., o liw gwahanol i un y corff.

Enarration, *s.* (Ll. *enarratio*) hanesiad, adroddiad, traethiad, treithiad, mynegiad; mynag, hanes; dangosiad; egluriad, hysbysiad.

Enarthrosis, *s.* (Gr.) pelgnawiad, seidgnawiad, cnwbgyswllt, esgyrnseidiad; cymmal pel a grain.

Enatation, *s.* (Ll. *enato*) nofiad allan, nawf allan, nofddïanc; dïanc drwy nofio.

Enate, *a.* (Ll. *enatus*) yn tyfu allan, allandyfol.

Enaunter,† *ad.* (Gr. *enantios!*) rhag y, rhag, rhag i.

Enavigate, *v. a.* (Ll. *enavigo*) hwylio allan *neu* drosodd; troshwylio.

Encage, } *v. a.* (*en* a *cage*) cau ar, argau, am-
Incage, } gau, cau, gwarchau, gwarchau ar, cloi ar; ffroncio, cutio, llocio; rhoi mewn ffronc, cut, lloc, *neu* argae; carcharu.

Encalypta, *s.* (Gr. *en* a *caluptêr*) cwfl-fwsogl, cwfl-fwswn.

Encamp, *v.* gwersyllu, gwersylltu, lluestu, lluarthu, pebyllio; ymfyddino; castellu.

Thou knowest how we are to encamp—ti a adwaenost ein gwersyllfaoedd (*Num.* x. 31).

Encampment, *s.* gwersylliad, gwersylltiad, lluestiad, lluarthiad, pebylliad; gwersyll, gwersyllt, gwersyllfa, lluarth, lluest, lluestfa, bidwal, cadlys, garthan, garth.

Encanker, *v. a.* ysu, difa, cancro, cancru, mythlu, ysrydu.

Encarpus, *s.* (Gr. *en* a *carpos*) troffrwyth, troddail, pilffrwyth.

Encase, *v. a.* amwisgo, amlenu, amgaeaio, amgau, goblygu, gwisgo, gweinio, caeaio, caesu; cau i fewn.

Encaustic, *a.* (Gr. *en* a *causticos*) llosgliwig, llosliwig, llosliwiol, llosgliwiol, llosbaentiol, ysliwig; emliwiol, gleiniiwiol.

Encaustic painting—llosbaentiad, llosgarliwiaeth, llosliwiaeth, llosbaentio.

Encaustic, *s.* llosliw, llosgliw, ysliw, emliw; llosliwiad, ysliwiad; amliw, arliw, calch; llosbaent; llosbaentiad, llosgarliwiaeth, cwyrbaentiad.

Encave, *v. a.* (o *cave*) ogofi, gogofi, llochesu; cuddio mewn ogof *neu* loches.

Enceinte, *s.* (Ff.) amgaer, amgauad, amgae, amglawdd, cauadfa, cauadle.

Enceinte, *a.* beichiog, coledig.

Encephalocele, *s.* (Gr. *egcephalos* a *cêlê*) torymenydd, ymenyddfreg.

Encephalon, *s.* (Gr. *egcaphalon*) ymenydd, emenydd, menydd.

Enchafe, *v. a.* (*en* a *chafe*) brochi, ffrochi, cyffröi, cythruddo, cynhyrfu, afrywiogi, ffromi, sori, cynddeiriogi, digio, gorddigio, llidio, gwytho, gorwytho, brydio, gwylltio; cynhyrfu, cyffröi, cynneu, *neu* ennyn dig.

Enchain, *v. a.* (*en* a *chain*) cadwyno, tido, tresu, godrwyo; rhwymo â thid *neu* gadwyn; rhwymo, caethiwo.

Enchant, *v. a.* (Ff. *enchanter*; Ll. *incanto*) swyno, rhinio, rhino, cyfareddu, swynogli, llygattynu, darswyno, swyngyfareddu, dewino, gorchanu, gwarchanu, rheibio, rhempio, ystrempio; hudo, llithio, denu, gorfoddio, denu, gorddyddanu, serchudo.

Enchanter, *s.* swynwr, swynydd, rhinwr, rhiniwr, cyfareddwr, dewin, dewinwr, dewinydd, llygattynwr, swyngyfareddwr, darswynwr, hudolwr, hudwr, hudolydd, hudol, chwidw, chwidog, swynoglwr; gorfoddiwr.

Enchanter's nightshade — swynyddlys, swynlys, llysiau Stephan, llysiau Ystyffan.

Enchanting, *a.* swynol, hudol, hudolus, hudoliaidd, rhinfawr, swynog, hudlawn, hudoliaethus, rhiniol, swynedigol, swynlawn; hyfryd, hyfrydlawn, gorfoddiol; yn boddio tu hwnt i fesur.

Enchantment, *s.* swyn, cyfaredd, swyngyfaredd, swynoliaeth, hudoliaeth, dewiniaeth, dewindeb, llygattyn, gorchan, gwarchan; swyniad, cyfareddiad, dewiniad, darswyniad, llygattyniad, swyngyfareddiad, rheibiant, hudiad, rhempiad; gorddyddanwch.

Enchantress, *s.* hudoles, swynyddes, swynwraig, rhinwraig, swynoges, swynoles, swynogles, dewines, dewinwraig, chwilioges.

Encharge,† *v. a.* rhoi yn ngofal.

Enchase, *v. a.* (Ff. *enchasser*) delgerfio, delgrifio, delidgerfio, tlysgerfio, delwychu, delosod; addurno, harddu, gwychu, gordlysu; darlunio, dylunio, darlinellu; trychnodi; boglynu, boglynweithio.

Enchasing, *s.* delgerfiaeth, delgerfiadaeth, delgrifiaeth, delgerfiad, delgrifiad, delidgerfiad, tlysgerfiad, argerfiad, gorllysiad; delgerfwaith.

Encheason,† *s.* (hen Ff.) achos, achlysur.

Enchiridion,† *s.* (Gr. *en* a *cheir*) llawlyfr; llyfryn, llyfran.

Enchisel, *v. a.* (*en* a *chisel*) cynio, geingio; trychu â gaing *neu* gŷn; ysgythru, trychnaddu.

Enchodus, *s.* (Gr. *egchos* ac *odous*) ysberddaint.

Enchorial, } *a.* (Gr. *egchôrios*) perthynol i'r
Enchoric, } wlad; brodorol, priodol, genedigol, cynnwynol, cynhenid, naturiol, anianol, greddfol; cyffredin, gwerinaidd, gwerinol, poblog, poblogaidd, gwaeraidd; perthynol i'r bobl yn gyffredin.

Encindered, *a.* (o *cinder*) â losgwyd yn ulw; yn ulw; llosgedig.

Encircle, *v. a.* (o *circle*) cylchynu, amgylchynu, amgylchu, cwmpasu, amgylchynu, damgylchu, dygylchu, dargylchu; cofleidio.

Encirclet, *s.* (o *circlet*) cylchen, cylchig, cylchyn, amgylchen, cylch, modrwy, torch.

Enclasp, *v. a.* (o *clasp*) cofleidio, breicheidio; amglymu, amdorchi, ymdorchi am, ymblethu am.

Enclitic, } *a.* (Gr. *egcliticos*) gogwyddol,
Enclitical, } gogwyddedig, osgoawl, gogwydd, gogwyddog, gobwysol; ymglymol, ymlynol, ymglymig; yn tafiu yr acen yn ol i'r sill flaenorol.

Enclitic, *s.* ymglymair, ymlynair, gair ymlyn, gair gogwydd; ymglymsill, ymlynsill: *pl.* ymglymeiriau, ymglymolion, ymglymigion, ymlynolion.

Enclitically, *ad.* yn ogwyddol; yn ymglymol; fel ymglymair; wrth dafiu yr acen yn ol.

Enclitics, *s. pl.* ymglymeiriau, &c.; treigladaeth, cyfieuadaeth, treiglamrywiaeth; celfyddyd treiglo a chyfieuo geiriau.

Enclose, } *v. a.* (*en* a *close*) amgau, amgylchu,
Inclose, } amgylchynu, damgylchu, cylchynu, damgylchynu, dargylchu, dargylchynu, argau, gwarchau, cau, cau ar, amdŵi; amwregysu; cau i mewn, cauad i fewn; amgylchu â

chae; cau o amgylch; gwneuthur cae oddi amgylch i; dâl, dala, diogelu; goblygu, amblygu, amduddedu, caeadu, tuddedu.

They shall be set in gold in their enclosings—byddant wedi eu gosod mewn aur yn eu lleoedd (*Ecs.* xxviii. 20).

Enclosed, *p. p.* amgauedig, &c.; tufewnol.

Encloser, *s.* amgauwr, amgylchwr, amgylchydd, amgylchynwr, &c.

Enclosure, *s.* (Ff. *enclos, enclôture*) amgauad, amgylchyniad, damgylchiad, dargylchiad, dargylchyniad, cylchyniad, amdoad, gwarchauad, gwarchâd, amwregysiad; anghyttiriad; cae, cauadle, caeadle, buarthgae, coedgae, amgae, maes cauedig; claws, clos, clas, clwys, clasfaes, cadlas, ceufaes, parc, mid, midd, midfaes, gardd, maes; argae, gwarchae, polgae, attalgae, clawdd; cyttir cauedig; peth amgauedig; neilltuoliad.

Enclouded, *a.* cymylog, cymyledig, caddugol, caddugog; amdöedig gân gymylau.

Encoach, *v. a.* cerbydo; cario mewn cerbyd.

Encoffin, *v. a.* gosod mewn arch; cau mewn arch; gosod mewn ysgrin *neu* brenial.

Encomber,† *v. a.*=*Encumber.*

Encomberment,† *s.* aflonyddwch.

Encomiast, *s.* (Gr. *egcômiastês*) arwyreinydd, arwyreniwr, molydd, moliedydd, molwr, gwawdydd, gwawdwr, canmolwr, canmolydd, moliannwr, moliannor, darglodydd, dathlwr, darfolydd, ceinfolwr, arfoleddwr.

Encomiastic, } *a.* arwyreiniol, moliannol,
Encomiastical, } arfoliannol, arfoliannus, moliannus, gwawdus, gwawdiol, darglodus, canmolawl, canmoliaethol, arwyreawl, arwawdus.

Encomiastic song—arwyrain, mawlgerdd, mawlgan, gwawdgan, gwawdgerdd, gwawdeb, cerdd foliant, cerdd arwyrain.

Encomium, } *s.* (Ll. *enconium;* Gr. *egcômion*)
Encomiastic, } arwyrain, molawd, mawl, moliant, canmoliaeth, clod, gwawd, arwawd, erwawd, ceinfolawd, arfoliant, moledd, ceinfawl, gwawdeb, gwawdgan, gwawdgerdd, mawlgan, mawlgerdd, cerddfoliant, cân foliant, darfoledd, darfoliant, darfawl, darfoledigaeth, darglod, iolwg, clodaraeth, canmolwawd.

Encompass, *v. a.* (o *compass*) amgylchu, amgylchynu, cylchynu, cwmpasu, damgylchu, damgylchynu, cylchu, dygylchu; amdöi, cwddu, cau, amgau, cau am; amhwylio.

Encompassment, *s.* amgylchyniad, amgylchiad, cylchyniad, amgylchiaeth, damgylchiad, cylchiad; amgylchiaith, cylchymadrodd.

Encore, *ad.* (Ff.) eto, eton, etwa, eilwaith; unwaith eto, unwaith yn chwaneg, unwaith yn rhagor; dewch eto; drosto eto; drosto unwaith eto; gwnewch eto; gwnewch eilwaith.

Encore, *v. a.* adalw, galw drachefn; galw am yr un gân eilwaith; galw am ail adrodd.

Encounter, *s.* (Ff. *encontre*) ymgyrch, ymosod, ymladd, ymdrech, brwydr, ymladdfa, ysgarmes, aerfa, trin, gwrthdrin, breithell, brythwch, ymhwrdd, cyfarfod, ymgyfarfod, ymgwrdd, cyfrwch, ymgyfrwch, erfid, ymorchest, ymrysonfa, ymwan, ymwrthryn, cyffwrdd, cyfhwrdd, cyhwrdd, ymgyffwrdd, ymgad; ornest, ymornest, ymgysbwy; cyhydreg, erbyniad; ymbrawf; achlysur.

Encounter, *v.* ymgyrchu, brwydro, ymladd, ymladd â, ymgydio, ymdaraw, ymgyhwrdd, ymhwrdd, ymgad; cydio ac ymladd â *neu* âg; cyhydreg â; ymwrio, gwrthdrin, gwrthwynebu, gwynebu, gwynebu ar, ymgadhewrach, ymgatewrach, gwrthrym; cyfarfod â, cwrdd â, cyfarfod, ymgyfarfod, taro wrth, ymgyffwrdd, cyfrwch, cyfrychu, erfid; ymosod, ymosod ar, rhuthro ar; ymgiprys, ymgynhenu; ymwan, ymwanu, ornestu, ymwrthladd, ymarfodi, ymdrechu, ymdrech, ymbrofi; ymddadleu; sefyll yn erbyn; erbynu, erbynio.

Encounterer, *s.* ymgyrchwr, brwydrwr, gwrthwynebwr, gwynebydd, wynebwr, &c.

Encourage, *v. a.* (Ff. *encourager; en* a *courage*) cefnogi, calonogi, annog, hawntio, arialu; rhoi yni, calon, arial, calondid, cysur, *neu* hawnt mewn; hysgwo, hysgwo, cadarnhau, cryfhau, cysuro, bywiogi, cynhyrfu; annos, gyru yn mlaen; codi calon.

To encourage one another—ymannog, cydymannog, ymgefnogi, ymannos, cydymannos.

Encouragement, *s.* cefnogaeth, cefnogiad, cefnogrwydd, calonogiad, calondid, calonogrwydd, annogiad, annogaeth, hysgwaeth, hysgwedd, hawntiad; nawdd, nodded, amgeledd, porth, cynnaliaeth.

Encourager, *s.* cefnogwr, cefnogydd, calonogwr, annogwr.

Encouraging, *a.* cefnogol, calonogol, annogol, annogaethol, annogus, annogiadol, annogiadus.

Encradle, *v. a.* (*en* a *cradle*) gosod mewn cryd, crydu.

Encrease, *v.*=*Increase.*

Encrimson, *v. a.* (*en* a *crimson*) rhuddliwio, rhuddliwo, rhuddoni, rhuddeinio, creuliwo, ffuoni, rhuddgochi, porffori.

Encrinic, } *a.* (Gr. *en* a *crinon*) elestfilawl,
Encrinitic, } elestfilaidd, elestfilodig, crinon-
Encrinital, } filaidd; maenelestrig; perthynol
Encrinal, } i'r elestfilod; yn perthyn i'r crinonfilod.

Encrinite, *s.* elestfil, crinonfil, maenelest, maenelestr.

Encrisped, *a.* (o *crisp; Ysp. encrespar*) erych, crispin, crispiniog, crispiniaidd, crychedig.

Encroach, *v. n.* (Ff. *accrocher*) cyfyngu, gwasgu, dywasgu, gormesu, pwyso, goreilidio, gormeddu; rhuthro, ymwthio, ymlithro, ymlusgo; ymlithro, ymlusgo, *neu* ymwthio i mewn i gyffiniau un arall; treisruthro, treisfeddiannu, goresgyn, camoresgyn; bachu, dyfachu; pwyso *neu* wasgu ar oror un arall; myned dros y terfynau; dyfod yn lladradaidd *neu* bob yn dipyn i feddiant un arall.

Encroacher, *s.* gormeswr, gormesiad, gormesydd; cyfyngwr, gwasgwr; camoresgynwr, treisruthrwr, treisfeddiannwr.

Encroaching, *a.* gormesol, treisruthrol, ymwthiol; yn tueddu i gyfyngu ar.

Encroachment, *s.* cyfyngiad, gwasgiad, gormesiad; treisfeddiant, camfeddiant, camoresgyn; gormes, goreilid; treisruthr, gormedd.

Encrust, *v. a.*=*Incrust.*

Encumber, *v. a.* (Ff. *encombrer*) lluddio, lluddias, rhwystro, llestair, goluddio, arluddio, ystwyo, attal, rhagod, cyfluddio, cyfattal; gorlwytho, beichio, gorfeichio, llwytho; nidro, methlu, dyrysu, afrwyddo,

cynghafu, maglu, caethiwo; goreilidio; gwystlo; llwytho â dyled.

Encumbrance, *s.* rhwystr, lludd, llestair, lluddias, lluddiant, baich, llwyth, trymfaich, attalfaich, gorlwyth, goludd, arludd, cyfludd, arlwyth, attal, rhagod; nidr, nidri, dyryswch, methl, methledd, ffaig, rhwystri, rhwystrad, afrwyddad, rhwystrusi; goreilid; dyled, gwystl.

Encumbrances—dyledion; gwystleidiaeth, gwystloriaeth.

Free from encumbrances—dinidri, dinidr; diddyled.

To free from encumbrances, } hyr-
To remove encumbrances, } wyddo; cyfrwyddo, dinidro, dadrwystro, dirwystro, diluddio, difeichio, dadfeichio, &c.

There is an encumbrance on his estate—y mae dyled ar ei dir.

Encumbrancer, *s.* lluddiwr, rhwystrwr, nidrwr, llesteirydd; un y bo dyled ar ei dir.

Encyclical, *a.* (Gr. *encuclicos*) cylchynol, cylchol, cylchaidd.

Encyclopedia, } *s.* (Gr. *egcuclopaideia*) gwyddEncyclopædia, } oniadur, gwyddiadur, gwyEncyclopede, } bodiadur, geiriadur gwyddorol a chelfyddol, arleniadur, cyfwyddonur; cylch gwybodaeth; cylch y gwybodau; llyfr gwybodaeth gyffredinol.

Encyclopædia Britannica—Gwyddoniadur Prydeinig.

Encyclopedian, } *a.* gwyddoniadurol, gwyddEncyclopediac, } iadurol, gwyddiaduraidd,
Encyclopedical, } gwybodiadurol; perthynol i wyddoniadur; yn cynnwys holl gylch gwybodaeth.

Encyclopedist, *s.* gwyddoniadurwr, gwyddiadurwr, gwyddiadurydd, gwybodiadurwr, gwyddoniaduriad.

The French Encyclopedists—y Gwyddoniaduriaid Ffreinig, y Gwyddiaduriaid Ffrengig.

Encysted, *a.* (o *cyst*) codenog, erawngodog, crawngodenog; cauedig mewn coden.

End, (S. *end, ende;* Al. a Sw. *ende*) diwedd, terfyn, dyben, gorphen, pen, diweddfa, darfod; tranc, trang; eithaf, (*pl. t.* ion, oedd), eithafed, eithafedd; blaen, (*pl.* blaenion), eithafben; cetyn, gweddillyn; amcan, bwriad, arfaeth, goddeu, tuedd, tueddnod, perwyl; pwynt; y canlyniad.

In the end—yn y diwedd; o'r diwedd.

To make an end of—dybenu, diweddu, terfynu, cwblhau; dystrywio, dinystrio, dyfethu, diddymu, difodi; diffoddi; lladd, dïeneidio.

To the end that—fel, fâl, màl, fel y, fâl y, mal y, mødd y, er mwyn; i'r dyben i; i'r dyben o.

For this end—i'r perwyl hwn; i'r dyben yma; er mwyn hyn.

To the end—hyd y diwedd; i'r diwedd; yn dragywydd.

To draw towards an end—tynu tua diwedd; tynu tua therfyn; tynu at ddiwedd; talmu, tachweddu.

To be near an end—talmu, tachweddu; bod yn agos i ddiwedd *neu* derfyn.

At an end—gwedi ei ddybenu, ei ddiweddu, ei orphen, *neu* ei gyflawnu; wedi darfod; wedi dybenu; wedi myned ymaith.

From the beginning to the end—o'r dechreu i'r diwedd.

At the end of—yn mhen, yn niwedd.

At the end of the street—yn mhen yr heol.

The ends of the earth—eithafoedd y ddaiar; terfynau y ddaiar; eithafion daiar.

To what end?—i ba beth? tuag at ba beth? i ba oddeu? i beth? i ba ddyben? i tuag at ba beth?

It is at an end—darfu, deryw; dybenodd; y mae wedi darfod; darfu am dano.

Intemperance is at an end—dybenwyd anghymmedroldeb; darfu am anghymmedroldeb.

To no end—yn ofer, yn ddiles, yn ddifudd, yn seithug, yn anolo; heb un amcan *neu* ddyben; i ddim dyben; yn ddigyngyd.

Up an end—ar ei dalcen; syth, unionsyth; yn ei union sefyll; ar ei ben ol.

His hair stood an end—safodd ei wallt yn syth, &c.; hyllodd ei wallt; safodd ei wallt ar ei ben; yr oedd ei wallt yn y gwrthwyneb; yr oedd ei wallt yn ei sefyll.

Most an end—gàn mwyaf; yn fynychaf, fynychaf, yn amlaf, yn benaf.

An ill end—diwedd drwg, terfyn drwg; drwg ddiwedd, drwg ddïen; drwg ddychwaen, damwaen ddrwg, echrys, dystryw, dinystr.

Calamitous end — oerdranc; diwedd trychinebus.

He knows no end of his means—nis gŵyr faint ei gyfoeth.

At the year's end—yn mhen y flwyddyn; yn niwedd y flwyddyn; ar ddiwedd y flwyddyn.

At every year's end — ar ddiwedd *neu* ar derfyn pob blwyddyn; unwaith yn y flwyddyn.

At the end of every seven years—ar ddiwedd pob saith mlynedd; yn ol pob saith mlynedd.

The day groweth to an end—mae y dydd yn terfynu *neu* yn darfod; mae y dydd yn trengu; wele yr haul yn machludo (*Barn.* xix. 9).

I am just at an end—yr wyf ar dalmu, ar derfynu, ar ddarfod, *neu* ar ddiweddu; yr wyf ar derfyn.

To make an end of sins—i selio pechodau (*Dan.* ix. 24).

To be at one's wit's end—bod ar ei gyfynggynghor; pallu o ddoethineb un; bod mewn gwyddwig.

And are at their wit's end—a'u holl ddoethineb a ballodd (*Salm* cvii. 27).

After the end of forty days—yn mhen deugain diwrnod.

He has it at his tongue's end—y mae ef ganddo ar flaen ei dafod; efe a'i gŵyr ar flaen ei dafod.

To the end of the house of Eliashib—hyd dalcen ty Eliasib (*Neh.* iii. 21).

To what end is it for you?—beth yw hwnw i chwi (*Am.* v. 18)?

To the end that we may obtain forgiveness—er mwyn caffael o honom faddeuant.

End, scope, and aim—dyben, ergyd, ac amcan; amcan, ergyd, a thuedd.

There is an end of him—darfu am dano; dyna ddiwedd am dano.
They have had an end—darfuant, darfuasant; darfu am danynt; deryant.
Land's end—pentir, penryn, pen tir.
Without end — diddiwedd, diderfyn, didranc; bythol, tragwyddol; dibaid, dïorphen, anniwedd; yn ddiddiwedd, &c.
World without end—yn oes oesoedd; byth bythoedd; byth heb ddiwedd; byth ac yn dragywydd; heb dranc na gorphen.

End, *v.* diweddu, dybenu, terfynu, gorphen, gorphenu, penu, darfod; gwneuthur terfyn ar; rhoi terfyn ar; talmu; penderfynu; dwyn i ben, cyflawnu, cwblhau; cloi, pengloi; trengu; peidio.
It is ended — darfu, deryw, darfuodd; darfu am dano.
The tale is ended—deryw y chwedl.
The day ends—y mae y dydd yn darfod; mae y dydd yn trengu.
To end differences—dosbarthu cynhenau; terfynu amrafaelion; penderfynu dadleuon; tori ymryson.
Here the discourse ended—yma y diweddodd, y darfu, y darfuodd, y deryw, *neu* y terfynodd yr ymddyddan.
Not ended—annherfynedig, anorphen, anorphenol, anmherffaith.
A work not ended—adwaith; gwaith anorphen, anorphenol, *neu* anorphenedig.
All is well that ends well—da pobpeth da ei derfyn.

End-all,† *s.* diweddglo, terfyn, diwedd.

Endamage, *v. a.* (o *damage*) niweidio, colledu, drygu, eniweidio, eniwedu, eniwo, erniwo, aflesu, argyweddu; gwaethygu, gwaethu, gwaethäu, drycio; peri colled *neu* niwed i.

Endamagement, *s.* niwed, niwaid, colled, coll, erniwed, erniwaid, erniw, erniwiant, argywedd, rhygoll, rhygolled, afles, drwg, asgen.

Endanger, *v. a.* (o *danger*) peryglu, enbydio, enbydu, pydio, arberyglu; gosod *neu* roi mewn perygl; dwyn i berygl; niweidio, anturio.

Endangering, **Endangerment**, *s.* perygl; niwed, niwaid, colled, coll, drwg, afles, argywedd, pyd; antur.

Endear, *v. a.* (o *dear*) anwylo, anwylu, anwylhau; gwneuthur yn anwyl *neu* hoff; peri yn hoff *neu* anwyl; caredigo; gwneuthur yn anwylach.
To endear to—gwneuthur yn anwyl *neu* hoff gàn; peri yn anwyl *neu* hoff gàn; anwylhau.

Endearment, **Endearedness**, *s.* anwyldeb, anwylwch, anwyledd, anwyldod, anwylhad, anwylad, anwylawd, anwylaeth, carueiddwch, hoffedd, hoffder; mawrhad.

Endeavour, *s.* (Ff. *devoir*; Norm. *devoyer*, *endevera*) cais, ymgais, ymdrech, egni, argais, cynnyg, dargais, llyfas, llafas, dargynnyg, prawf, llafur, antur, ymroad, cynnygiad, hwp; amcan; diwydrwydd, astudrwydd, dyfalwch.
To do one's endeavour=*Endeavour*, *v.*
We did our utmost endeavour—gwnaethom ein goreu; gwnaethom ein heithaf; gwnaethom yr oll à allem.
With great endeavours—â mawr egni; âg eithaf ein gallu; â'n holl rym; â'n holl egni.

Endeavour, *v.* ymegnïo, egnïo, ymgeisio, ceisio, ymgynnyg, cynnyg, ymorchestu, argeisio, dargeisio, rhoi cais, gwneuthur cais, gwneuthur cynnyg, gwneuthur ymgais, ymdrechu, ymdrech, osio; ymröi yn gwbl i; rhoi ei holl egni; gwneuthur ei oreu; anturio, llyfasu, llafasu, llafurio, profi; amcanu.
To endeavour to get—ymgeisio âg, ymgais âg; ymgais am, ymgeisio am; ymgyrhaedd *neu* ymgyrhaeddyd ar ol.

Endeavourer, *s.* ymegnïwr, egnïwr, ymgeisiwr, ceisiwr, ceisiedydd, ymdrechydd, cynnygwr.

Endecagon, *s.* (Gr. *en*, *deca*, a *gônia*) un ochr ar ddeg, llun un ochr ar ddeg.

Endeictic, *a.* (Gr. *endeicnumi*) dangosol, mynegol, dangosiadol, arddangosol, dangosedigol.

Endeixis, *s.* (Gr.) dangosiad, mynegiad, amlygiad, dangosiant.

Endemic, **Endemical**, **Endemial**, *a.* (Gr. *endêmios*) perthynol i bobl *neu* genedl; perthynol i wlad *neu* ardal; priodol i bobl *neu* wlad neilltuol; lleol, heintleol.
Endemic disease—haint lleol, haint ardalaidd; haint y wlad; clefyd y genedl; afiechyd cyffredin i ryw bobl neilltuol.

Endenize, **Endenizen**, *v. a.* (o *denizen*) rhyddfreinio, breinio, breinioli, rhyddhau, dinesyddio, dinasyddio.

Ender, *s.* (o *end*) diweddwr, dybenwr, terfynwr, gorphenydd.

Endermatic, *a.* (Gr. *en* a *dermaticos*) croenrathol, croenrwbiol; â rathir i'r croen.

Endict, **Indict**, *v. a.* (Ll. *indictus*, o *indico*) cyhuddo, achwyn ar, cwyno ar; rhoi cwyn yn erbyn; cyffröi hawl yn erbyn; bwrw yn erbyn; cyhuddebu, hawlgwyno.

Ending, *s.* (o *end*) diweddiad, terfyniad, dybeniad, gorpheniad, talmiad, peidiad; sill derfynol.

Endite, *v.* (Ff. *enditer*; Ll. *indico*) cyfansoddi, ysgrifenu; traethu, treithu, gwneuthur; adrodd i un beth à ysgrifeno.

Endive, *s.* (Ff.; It. *endivia*; Ll. *intybum*; Ar. *hindabon*) ysgellog, bwyd-ysgall.
Wild endive — ysgellog gwyllt, ysgall y meirch.

Endless, *a.* (*end* a *less*) diddiwedd, diderfyn, didranc, dïorphen, diddarfod, annarfod, anniwedd, annherfynol, annyben, diball, dibaid, parhäus, parhaol; bythol, tragwyddol, tragywyddol, tragyfyth; heb ddiwedd.
Endless amusements—dyddanion diddiwedd, difyrion diddiwedd, difyrion anniwedd.

Endlessly, *ad.* yn ddiddiwedd, &c.; heb drano na gorphen.

Endlessness, *s.* annherfynoldeb, annherfynolrwydd, anniwedd, diddiweddrwydd, didrancedd, diddarfodrwydd, annarfodiad; bytholrwydd, tragwyddolrwydd; parhausder, parhad diddiwedd.

Endlong, *ad.* (*end* a *long*) â'i ben yn mlaen; gerfydd ei ben; yn llwrw ei dalceu; â'i ben ol yn mlaen; yn llinyn.

Endmost, *a.* pellaf, eithaf, olaf; mwyaf pellenig.

Endocarp, *s.* (Gr. *endon* a *carpos*) ynffrwyth; careg mewn ffrwyth; careg eirin.

Endoctrine, *v. a.* (o *doctrine*) athrawiaethu dysgu, addysgu, hyfforddi.

Endogen, } *s.* (Gr. *endon* a *ginomai*) yndyflys,
Endogene, } mewndyflys,planigyn mewndyfol, llysieuyn yndyfol.

Endogenous, *a.* mewndyfol, ynnhyfol, yndyfol, unhadgibog; perthynol i'r mewndyflaid *neu* ynnhyflaid.

Endogens, } *s. pl.* mewndyfolion, mewndyflaid,
Endogenæ, } ynnhyfolion, yndyflaid, unhadgibogion, unhadgibiaid, unhadgodogion, unhadnoddion.

Endophyllous, *a.* (Gr. *endon* a *phullon*) mewnddeiliog, ynddeiliog, ynneiliog.

Endopleura, *s.* (Gr. *endon* a *pleura*) ynbilen, mewnbilen, mewnwisg, hadlen.

Endorhiz, } *s.* (Gr. *endon* a *rhiza*) ynwraidd,
Endorhiza, } mewnwraidd, ynrith, mewnrith.

Endorhizous, *a.* ynrithiol, mewnwreiddiol, mewnrithiol.

Endorse, *v. a.* (Ll. *in* a *dorsum*) cefnysgrifo, cefnysgrifenu, arysgrifenu; ysgrifenu ar gefn; cymmeradwyo.

Endorsee, *s.* cefnysgrifai, arysgrifai; yr un y cefnysgrifir iddo.

Endorsement, *s.* cefnysgrif, cefnysgrifen, arysgrifen; cefnysgrifiad, cefnysgrifenad, cefnysgrifeniad; ysgrifeniad ar gefn; cefnenw; cyfaddefiad *neu* dystiolaeth derbyniad yn gymmeradwy.

Endorser, *s.* cefnysgrifwr, cefnysgrifydd, cefnysgrifenwr, arysgrifwr, arysgrifenwr.

Endosmose, } *s.* (Gr. *endon* ac *ôsmos*) trynwyad,
Endosmosis, } ynyrthiad = trosglwyddiad nwyon, agerau, *neu* hylifau i mewn trwy bilenau cyrff byw.

Endosperm, *s.* (Gr. *endon* a *sperma*) hadwyn, rhithwyn, pribaill.

Endospermic, *a.* hadwynig, rhithwynig, pribeillaidd.

Endoss, *v. a.* (Ff. *endosser*) cerfio, crifellu, crifio.

Endostome, *s.* (Gr. *endon* a *stoma*) yndrydded, ynnhrydded, mewndrydded.

Endow, *v. a.* (Norm. *endouer*; Ff. *douer*) gwaddoli, cynnysgaethu, cynnysgaeddu, goddoli, berthogi, donio, addonio, dawnu, dyddonio, berthu, alafu; gwisgo, addurno; urddo.

Who didst endue thy holy apostle—yr hwn a wisgaist dy santaidd apostol.

Endowed, *p.p.* gwaddoledig, &c.; gwaddolog, goddolog, cynnysgaethol, doniol, doniog, dawn fawr; cyfarwysog; yn berchen rhyw ddawn; yn berchen ar ryw ddawn.

Endowed with—yn meddu ar.

Not endowed—digynnysgaeth, diwaddol, anwaddolog, anghynnysgaethol, anghynnysgaeddol; annoniog, annoniol, diddawn; digynnaliaeth.

Endower, *s.* gwaddolwr, gwaddolydd, cynnysgaethwr, cynnysgaethydd, cynnysgaeddwr, doniwr, berthogydd, berthwr.

Endowment, *s.* gwaddol, cynnysgaeth; gwaddoliad, gwaddoliaeth, cynnysgaethiad, cynnysgaeddiad, goddoliad, doniad, berthogiad, berthiad, berthedd, dawnedigaeth, darddoniant, darddoniad, dyddoniad; dawn, arddawn; teithi.

Natural endowment—dawn naturiol, cynneddf.

Inherent endowment — cynddawn, dawn cynhenid, dawn cynnwynol.

The seven endowments of a bishop—seithrad esgob, saith cynneddf esgob, saith dawn esgob.

Endrudge, *v. a.* cystegu, cystogi; gwneuthur yn gaethwas.

Endue, *v. a.* (Gr. *enduô*; Ll. *induo*; Ff. *endusire*) cynnysgaethu, cynnysgaeddu, donio, arddonio, dawnu; gwisgo; cyflawnu; rhoddi.

Endue her plenteously with heavenly gifts —cynnysgaedda hi yn helaeth â doniau nefol.

Endue thy ministers with righteousness—gwisg dy weinidogion âg iawnder.

God hath endued me with a good dowry —cynnysgaeddodd Duw fi â chynnysgaeth dda.

Endued with a soul—eneidiog, eneidiol, perchen enaid; â chanddo enaid.

Enduement, *s.* cynnysgaethiad, cynnysgaeddiad, doniad, arddoniad, dyddoniad, dawnediganeth, darddoniant; gwisgiad; rhoddiad; cyflawniad.

Endurable, *a.* (o *endure*) goddefadwy, dyoddefadwy; â ellir ei oddef.

Endurance, *s.* (o *endure*) parhad, para, parhausder, parhausrwydd, hirbara; goddefedd, goddefgarwch, goddef, dyoddef, goddefiad, goddefiant, cysbod, cysbodiad, goddefawd, goddefiaeth, goddefediganeth, goddefoldeb; gwaith un yn goddef; amynedd i oddef; amynedd, hirymaros; amyneddus oddefaint; gorthaw; †oediad.

Endure, *v.* (Ff. *endurer*, o'r Ll. *durus*) parhau, para, aros, ymaros, arosi, cysbod; goddef, dyoddef, ymoddef â, ymddyoddef â, cyddwyn â; dwyn, dygyd; dwyn yn ddyoddefgar; ymaros â *neu* âg.

I cannot endure him—nis gallaf mo'i aros; nis gallaf mo'i haru; ni allaf ei oddef.

That may be endured—goddefadwy; â ellir ei oddef.

That cannot be endured, } anoddefadwy;
That may not be endured, } annyoddefol; nas gellir ei oddef.

He endured as seeing him who is invisible —efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig (*Heb.* xi. 27).

According as the children be able to endure—fel y gallo y plant (*Gen.* xxxiii. 14).

Endurer, *s.* goddefwr, dyoddefwr, goddefydd; parhäwr, aroswr, arosydd.

Enduring, *a.* parhäus, parhaol, hirbarhäus; hir ei bara; o hirbarhad; o hirbara; yn parhau yn hir, yn wastadol, *neu* byth; yn para yn hir; maith, arosol; goddefol, goddefus, goddefgar, dyoddefgar, dyoddefus.

Enduring, *s.* goddefiad, dyoddefiad, goddefiant, goddefawd, goddefedd, goddefgarwch, goddefiaeth; parhad, para; arosiad.

Endwise, *ad.* (*end* a *wise*) â'i ben yn mlaen; yn llwrw ei ben; yn wysg ei ben; ger ei ben; ar ei ben; ar ei dalcen; â'i ben i fyny; â'i ben i lawr; yn syth, yn unionsyth.

Enecate,† *v. a.* (Ll. *enecco*) lladd, dïeneidio, dïenyddio, dinystrio.

Enema, *s.* (Ll. o'r Gr. *eniêmi*) rhefrwy, rhefrolch, llafrolch; rhefrell.

Enema instrument — rhefrell, llafrell, rhefrchwistrell.

Enemy, *s.* (Ff. *ennemi*; Ysp. *enemigo*; o'r Ll. *inimicus*) gelyn, gâl, gwrthwynebwr, gwrthwynebydd, esgar, esgarant, ysgarant, cas,

casddyn, casai, cynnyguwr, dygasog; andras; gwrthblaid: *pl.* gelynion, galon, esgeraint, cascion, efnys, dygasogion, cynnygn: *f.* gelynes, gwrthwynebwraig.
The enemy—y gelyn; y gelynion.
The army of the enemy, } byddin y gelyn;
The enemy's army, } yr wrthrawd.
O mine enemy—fy ngelynes (*Mic.* vii. 8).
Many are mine enemies—llawer sydd yn fy ngwrthwynebu (*Salm* cxix. 157).

Energetic, Energetical, Energic, Energical, *a.* (Gr. *energētikos*) grymus, nerthol, nerthog, egnïol, grymiol, galluol, galluog, effeithiol, nerthus, hyrym, nerthfawr, nerthfawrus, grym; ynïol, dihafarch, bywiog, gweithgar, dianwych, dihafarchwych, cadr, grym, enwair, ynig.

Energise, *v.* egnïo, ymegnïo, ynïo, grymio, grymusu, grymu, grymiannu, nerthu, nertholi, nerthogi, nerthocäu, nerthuso, nerthiannu, nerthiannuso, nerthfawruso, galluoli, gwryggio, gwrygiannu; gweithredu yn rymus, &c.; gwneuthur yn rymus, &c.

Energizer, *s.* grymuswr, grymusydd, nerthogwr, nerthai, nerthydd, nertholydd.

Energy, *s.* (Gr. *energeia*) grym, egni, yni, nerth, gallu, yndid, ynedd, gwryg, nerthineb, nerthogrwydd, nertholdeb, nertholrwydd, nertholedd, nerthwch, nerthusrwydd, nerthedd, nerthrwydd, grymder, grymusder, grymusdra, grymusrwydd, grymiant, galluedd, gall, rhawnt, bryw, eidiogrwydd, nyw, arial, rhinwedd, digoniant; gweithrediad; effeithiolaeth, bywyd.

Enervate, *a.* (Ll. *enervatus*, o *enervo*) dinerth, gwàn, egwan, gwanaidd, gwanllyd, lleag; gwàn a llesg, dirym.

Enervate, *v. a.* (Ll. *enervo*) gwanhau, gwanychu, lleaghau, lleagu, dinerthu, dirymio, dirymu, annerthu, eiddilo, llythu, arlesgu, golesgu; gwneuthur yn wàn a llesg; tori gïau.

Enervation, *s.* (Ll. *enervatio*) gwanhad, gwanychiad, lleaghad, dinerthiad, golesgiad, anlesgiad, annerthiad, eiddilad, egwaniad, dirymiad; gwneuthuriad yn wàn; lleagedd, gwendid, egwander, gwanwch, egwanaeth, annerth, annerthedd, eiddilwch, lleagarwch, dirwander.

Enfamish, *v. a.* (o *famish*) newynu; lladd â newyn.

Enfeeble, *v. a.* (o *feeble*) gwanhau, gwanychu, lleaghau, lleagu, dinerthu, annerthu, golesgu, arlesgu, eiddilo, egwanu, dirymio, dirymu, llythu; gwneuthur yn wàn.

Enfeebled, *p. p.* gwanychedig, gwanedig, &c.; gwàn; egwan, lleag, dihoen, llyth, gwanaidd.

Enfeeblement, *s.* gwanhad, gwanychiad, lleaghad, egwaniad, annerthiad, dinerthiad, arlesgiad, golesgiad, eiddilad, llythiad, dirymiad; gwneuthuriad yn wàn.

Enfeloned, *a.* (o *felon*) ffyrnig, creulawn, dywal, ffroch.

Enfeoff, *v. a.* (Ll. gyfreithiol, *feoffo*), gosod *new* roi mewn meddiant; rhoi goresgyn i; peri meddiannu; gorchymyn i gadwraeth; rhoi mewn *new* dàn ymddiried i; ymddiried i un arall am beth; meddiantroddi.

Enfeoffment, *s.* gosodiad *new* roddiad mewn meddiant; rhoddiad goresgyn; rhoddiad meddiant; meddiant-roddiad; gweithred goresgyn, meddiant-roddeb.

Enfetter, *v. a.* (o *fetter*) llyffetheirio, hualu, cloffrwymo, gefynu, troedogi, burwyo; cadwyno.

Enfever, *v. a.* twymynu; peri twymyn ar.

Enfierce,† *v. a.* (o *fierce*) creuloni, ffyrnigo.

Enfilade, *s.* (Ff.) unionres, cydres, rhigwm, rhesawd; cyfyngffordd uniongyrch; llinyn, rhestr.

Enfilade, *v. a.* rhesodi, trywanu, *neu* ysgubo yn llinyn; ysgubo ymaith mewn llinell uniawn; saethu drwy res o ben bwygilydd; trawsgyrhaedd, cydresu; saethu ar hyd cydres.

Enfiled, *a.* (Ff. *enfiler*) trywan.

Enfire,† *v. a.* (o *fire*) tanio, gosod ar dân.

Enforce, *v. a.* (Ff. *enforcir; en* a *force*) grymuso, cadarnhau, cyfnerthu, cryfhau; dirgymhell, argymhell, cymhell, dirio, gorfodi, gorfodogi, gorfod, dychymhell; rhoi grym i; rhoi awdurdod i; gyru, gwthio, gwasgu; gwasgu ar; peri; treisio; annog; argraffu ar; rhoi mewn grym; profi.

Enforce,† *s.* grym, nerth, gallu.

Enforceable, *a.* cymhelladwy, diriadwy, &c.; à ellir ei ddirgymhell.

Enforcedly, *ad.* trwy gymhell, o anfodd, trwy orfodaeth, trwy drais, trwy orfod, o orfod, yn anewyllysgar, yn anfoddlawn; yn erbyn ei ewyllys; heb ddïolch iddo.

Enforcement, *s.* grymusiad, cyfnerthiad, cadarnhad; cymhelliad, diriad, dirgymhelliad, gorfod, gorfodaeth, gorfodiad, dir, cymhell, argymhell, dir a gorfod; angen, angenrhaid; rhoddiad mewn grym.

Enforcer, *s.* grymuswr, cyfnerthydd; diriwr, cymhellwr, dirgymhellydd, gorfodwr, gyrwr.

Enforest, *v. a.* (*en* a *forest*) troi yn goedwig; fforestu, coedwigo.

Enform, *v. a.* (*en* a *form*) ffurfio, llunio, ffurfeiddio.

Enfouldered,† *a.* (Ff. *foudroyer*) cymmysg â mellt.

Enfranchise, *v. a.* (o *franchise*) rhyddfreinio, rhyddhau, breinioli, breinio, breintio, rhyddedu; dinesyddio, dinasyddio; gwneuthur yn ddinesydd; gwneuthur yn gyfranog o ddinasfraint; rhyddhau caethwas; rhoi rhyddid i; rhoi ei ryddid i; gwneuthur yn wr rhydd *neu* freiniol.

Enfranchisement, *s.* rhyddfreiniad, rhyddfreintiad, rhyddhad, gwaredred, breiniad, breiniolad, breintiad; dinesyddiad, dinasyddiad, bwrdeisiad; breinioladd, breinioledd, dinesyddiaeth, arfreinioledd, rhyddediad; rhyddhad o gaethiwed.

Enfranchiser, *s.* rhyddfreiniwr, rhyddhäwr, breiniwr, breintiwr.

Enfroward,† *a.* (o *froward*) gwneuthur yn anynad; afrywiogi.

Enfrozen,† *a.* (o *freeze*) rhewedig, fferedig.

Engage, *v.* (Ff. *engager*) rhwymo, ymrwymo, ammodi; gwneuthur *neu* beri yn rhwymedig; ennill, tynu, denu, llithio; cymmeryd arno; cymmeryd mewn llaw; ymgymmeryd â; addaw, gwystlo, prido, rhoi ei air, ymwystlo, arwystlo, cyngwystlo, mechnïo, ateb; rhoddi yn wystl; rhoddi ar lawr; rhoddi dàn boen *neu* berygl; cydio, ymgydio, ymladd, brwydro, cyhydreg, ymgyrchu; myned

benben; myned ben yn nghad; trin, ymdrin, ymosod, ymdaraw, ymhwrdd, myned yn nghyd, taraw yn nghyd; cymmeryd i fyny; myned â; rhoddi yn llwyr, llwyr roddi; ymroddi; ymgyduno; cytuno â, cyflogi; sicrhau.

To engage one's self—ymrwymo, ymroddi.

He engaged me to do it—rhwymodd fi i'w wneuthur; efe a'm rhwymodd i'w wneuthur.

This will engage me to—pair hyn i mi —.

By these good qualities he engages every heart—trwy y cynneddfau hyn yr ennill efe bob calon.

His good nature engages every body to him—ei natur dda a bair i bawb ei garu; pair ei natur dda i bawb lynu *neu* ymrwymo wrtho; tyn ei natur dda bawb ato.

It was he that engaged me in this unfortunate event—efe oedd yr hwn a'm tynodd i'r anffawd yma.

To engage one in an affair—tynu, denu, ennill, *neu* ddwyn un i ymrwymo mewn gorchwyl *neu* neges.

To engage, } ymrwymo mewn
To engage one's self, } mater *neu* achos; cymmeryd gorchwyl arno; cymmeryd peth mewn llaw; ymdraffullio *neu* ymdrafferthu mewn peth; ymrwystro *neu* ymyryd â rhyw neges; ymgymmeryd â pheth.

To engage in an affair—ymrwymo *neu* ymnidro mewn rhyw orchwyl.

I will engage to do it—ymrwymaf i'w wneuthur.

I will engage that his debts will be paid—mi a roddaf fy ngair y telir ei ddyledion ef; ymwystlaf *neu* ymrwymaf y telir ei ddyledion.

I will engage for him—mi atebaf drosto.

Those that engaged their lives for them—y rhai a ymrwymasant drostynt dàn boen bywyd.

To engage one's honour—addaw ar ei lawgair; gwystlo ei anrhydedd.

His books were often engaged for ale—gwystlwyd *neu* gwystlid ei lyfrau yn fynych am gwrw.

I am engaged—yr wyf yn rhwym; yr wyf dàn rwymau *neu* rwymedigaeth; yr wyf dàn ammod; yr wyf wedi ymrwymo; yr wyf yn brysur, ar waith, mewn gwaith, *neu* wrth orchwyl; yr wyf dra phrysur; yr wyf wrthi; nid oes genyf amser.

Now the whole fleet was entirely engaged—yr oedd pob rhan o'r llynges yn awr yn ei gwaith *neu* yn ei thrabludd.

Who is this that engaged his heart to approach unto me?—pwy yw hwn a lwyr roddodd ei galon i neshau ataf fi (*Ier.* xxx. 21)?

Engaged, *a.* rhwymedig, ymrwymedig, &c.; rhwym; prysur, tra phrysur, dyfal, awyddus, brwdfrydig; tàn rwymau, tàn rwymedigaeth; yn rhwym, yn rhwymedig; gwedi ymrwymo, &c.

Engaged in love—gwedi ei rwydo, ei faglu, ei nidro, *neu* ei ddyrysu mewn cariad; gwedi ymrwydo, ymfaglu, ymnidro, *neu* 'dyrysu mewn cariad; gwedi ei ddàl ?yd cariad.

Engaged column—colofn ymgydunol *neu* ymgydiol; colofn rwym; colofn gyssylltiedig â mur.

Engagedness, *s.* rhwymedigrwydd; prysurdeb, prysurwch, tra phrysurdeb, ystigrwydd, astigrwydd, dyfalwch; brwdfrydedd; bywiogrwydd, bywdeb.

Engagement, *s.* rhwymedigaeth, ymrwymiad, ymrwymad, ymrwym, rhwym, rhwymad, rhwymiad, rhwymeb; ammod, cyfammod; ymwystlad, ymwystl, mechni, mechnïaeth; addewid, gofuned; neges, gorchwyl, cyfranc, gwaith; ymlyniad, ymbleidiad; cydiad, ymgydiad, brwydr, ymladd, ymgyrch, trin, ymladdfa, aer, cad.

To make a solemn engagement—ymrwymo yn ddifrifol; gofuno, gofunedu.

Engager, *s.* rhwymwr, rhwymydd, rhwymiedydd; ymrwymwr, ymrwymydd; mach, meichiai, meichai, mechnïydd; ymwystlwr, ymwystlydd; à rwymo, &c.

Engaging, *a.* deniadol, denol, hudol, hyserch, serchus, hyserchus, ennillgar, dengar, hygar, hawddgar; yn tynu serch; à dyno serch; hyfryd, hyfrydlwys; attynol; yn tynu y serch *neu* sylw; boddhaol; hoffus, tirionfwyn; difyr, digrif.

Engallant,† *v. a.* (o *gallant*) gwneuthur yn serchogddyn.

Engaol,† *v. a.* (o *gaol*) carcharu.

Engarboil,† *v. a.* (o *garboil*) annhrefnu, cynhyrfu, aflonyddu.

Engarland, *v. a.* (o *garland*) gwyrlenu, coronblethu, troblethu; amgylchu â gwyrlen, coronbleth, *neu* ddeilbleth.

Engarrison, *v. a.* amddiffyn â gwarchlu; gosod gwŷr i warchod; cadwarchod, gwarchodluo, gwarchlueddu, gwarchlüyddu, gwarchluedddio; cadarnhau â milwyr.

Engastrimuth,† *s.* (Gr. *en*, *gastêr*, a *muthos*) bol-lefarwr, bol-lafarwr, bolebrydd, bolsiaradwr.

Engender, *v.* (Ff. *engendrer*; o'r Ll. *gener*, *genero*, *geno*) cenedlu, hilio, epilio, esillio, rhialu; ennill plant *neu* epil; peri, cynnyrchu, magu; cydio, rhidio, cyridio, cyflöi; dwyn allan; esgor ar; deillio, tarddu.

Vice engenders shame—gwŷd a bair gywilydd; gwŷd a genedla gywilydd; gwŷd a esgor ar gywilydd; o wŷd y tardd cywilydd.

Engenderer, *s.* cenedlwr, cenedlydd, cenedlor, epiliwr, hiliwr, peridydd, periadur.

Engild, *v. a.* (o *gild*) euro, goreuro; gorchuddio *neu* orthöi âg aur; gloewi, lluganu.

Engine, *s.* (Ff. *engin*, o'r Ll. *ingenium*) peiriant, ermig, peirian; offeryn; moddion: *dim.* peiriennyn.

Fire-engine — tânbeiriant, peiriant tân, ermig tân, tân-ermig.

Steam-engine—agerbeiriant, peiriant ager, peiriant agerdd.

Water engine — dyfr-beiriant, peiriant dwfr, ermig dwr.

Warlike engine—peiriant rhyfel, cadbeiriant, cadofferyn; magnel.

Engines of war—peiriannau rhyfel, offer rhyfel, cadoffer, rhyfel-offer, cadbeiriannau, rhyfel-beiriannau.

Engineer, *s.* (Ff. *ingénieur*) peiriannydd, peiriannwr, ermigydd, ermigwr, peiriannor; blifwr.

Civil engineer—peiriannydd dinesig, peiriannydd dinasaidd.

Engineering, *s.* peiriannaeth, peirianwaith, ermigwaith, peiriannyddiaeth.

Engineman, *s.* (*engine* a *man*) peiriannwr, peiriannor, peiriannydd; gwr y peiriant.

Enginery, *s.* (o *engine*) peiriannaeth, ermigaeth; peiriannau, cadoffer, offer, offer rhyfel, magnelau; blifionaeth, magnelaeth; offerwaith, magnelwaith; dyfeiswaith.

Engird, *v. a.* gwregysu, amgylchu, amgylchynu, cwmpasu, damgylchu, damgylchynu; cenglu.

Engiscope, *s.* (Gr. *eggizô* a *scopeô*) adfwyadyr, mwyadyr adlewyrchol.

Englad, *v. a.* (o *glad*) llawenhau, llawenychu, llawenu, lloni, llonychu, sirioli, peri llawenhau.

Englaimed,† *a.* manflewog; gwydn.

English, *a.* (S. *Englisc*, oddi wrth *Engles*, *Aengles*, neu *Angles*, llwyth o Ellmyn â ymsefydlasant yn Mhrydain, ac â roisant i ran o honi yr enw *Engla-land*, *Engle-land*, *Englelond*, neu *England*) Seisonig, Seisonaidd, Seisnig; Seisonigaidd; Lloegraidd; perthynol i Loegr; perthynol i'r Seison; Anglig, Einglig.

English, } Seisonaeg, Seisoneg,
English language, } Seisnaeg, Seisneg, yr
English tongue, } iaith Seisoneg, yr iaith Seisonaeg, yr iaith Seisonig.

English idiom—Seisonigaeth, Seisnigaeth; hepwedd Seisonig.

Englishman—Sais: *pl.* Seison: *dim.* Seisyn.

English woman—Seisones, Seisnes.

The English Church — Eglwys Lloegr, Eglwys Loegr; yr Eglwys Seisonig.

The English borders—cyffiniau Lloegr.

English Channel—Môr Udd.

The English people—y Seison, pobl Lloegr, gwŷr Lloegr.

English Saxons—Seison Lloegr, Sacsoniaid Lloegr, Sacsoniaid Seisonig, Einglseison.

English-Welsh—Seisonig a Chymreig.

English-like — Seisonigaidd, Seisnigaidd, Seisonaidd; Lloegraidd.

English, *s.* Seisonaeg, Seisoneg, Seisnaeg, Seisneg, yr iaith Seisoneg, yr iaith Seisonaeg, yr iaith Seisonig.

English-Welsh—Seisoneg a Chymraeg.

One that speaks English—Sais.

English, *s. pl.* Seison; gwŷr Lloeg: *sing.* Sais: *dim.* Seisonach.

English, *v. a.* Seisonigo, Seisnigo; Seisoneiddio; cyfieithu i'r Seisonaeg; troi i'r Seisoneg; troi i Seisoneg.

Englishry, *s.* Seisondod, Seisonoldeb, Seisonigrwydd; y cyfiwr o fod yn Sais.

Engloom, *v. a.* (o *gloom*) caddugo, tywyllu, cymylu, gwrmu, godywyllu; gwneuthur yn dywyll.

Englut, *v. a.* (Ff. *engloutir*; Ll. *glutio*) traflyncu, gwancio, bolrythu, cegu, hopranu, rhythu, safneidio, gorlenwi, trallenwi, ymrythu ar, ymddyfolio ar, arddigoni.

Engomphosis, *s.* (Ll. o'r Gr. *en* a *gomphos*) hoelgymmaliad, hoelreddiad, hoelgnawiad.

Engore, *v. a.* (o *gore*) trywanu, gwanu, brathu, cornio.

Engorge, *v.* (Ff. *engorger*) traflyncu, llyncu, cegu, safneidio, rhylyncu, dyslyncu, gwancio, bolrythu, hopranu, ymrythu, rhythu, glythu, glythinebu, ymddyfolio, ymddyfoli, gorlenwi, trallenwi, ymlenwi, ymdorlwytho, sechu, secu, difa, ysu; bwyta yn llyminog, yn awchlym, *neu* yn wancus.

Engorgement, *s.* traflynciad, llynciad, gwanciad, rhylynciad, safneidiad, glythinebiad, glythiad, gorlanwad, ymddyfoliad.

Engoulee, *a.* (Ff. *engouler*) ynsafnedig, ynsafnol; mewn safn; yn myned i safn.

Engraft, *v. a.* (o *graft*) impio, bywullu; planu i mewn; planu yn ddwfn.

Engrail, *v. a.* (Ff. *engrêler*) crynfylchu, ymylfylchu, bylfylchu, crynrygnu, cryniricio; rhygnu, bylchu, danneddu, rhigo; gwneuthur, arddangos, *neu* ddarlunio yn grynfylchog.

Engrailed, *p.p.* crynfylchog, ymylfylchog, bylfylchog, crynrygnog, cryniriciog; rhigiog, rhiciog, rhygnog, danneddog, ymylfwlch.

Engraillment, *s.* crynfwlch, ymylfwlch, bylfwlch, manigrwy, rhigrwy, deintrwy.

Engrain, *v. a.* (o *grain*) tryliwio, tryliwo, dyfnliwio, lliwio yn ddwfn; lliwio yn gri; lliwio yn ddefnydd crai.

Engrapple, *v. a.* (o *grapple*) bachu, dyfachu, crapio, cydfachu, gafaelu, gafaelu yn, ymafaelu yn, craffu, cynghraffu, crymfachu, dâl yn dyn.

Engrasp, *v. a.* (o *grasp*) crafangu, gafaelu; gafaelu yn dyn yn *neu* mewn; dyrneidio, tynwasgu.

Engrave, *v. a.* (Ff. *graver*; Al. *graben*; Is. *graaven*; Gr. *graphô*) cerfio, crifellu, crifio, ysgythru; cynio, trychnaddu, cyndori, naddu; tori lluniau *neu* lythyrenau; argraffu, printio; craffu; †claddu.

Engravement, *s.* cerfwaith, crifwaith, crifellwaith, cerfiadwaith, cerfiadaeth; cerfiad, crifelliad, cerfluniad.

Engraver, *s.* cerfiedydd, cerfiwr, crifiedydd, crifellydd, crifellwr, crifiwr, ysgythrydd, ysgythrwr; cerfluniwr, cerfyllwr; naddwr, naddiedydd.

Engravery, *s.* cerfiadwaith, crifellwaith, crifwaith, cerfiadaeth, cerfiadwaith.

Engraving, *s.* cerfiad, crifelliad, ysgythrad, crifiad, ysgwthr, trychiad, naddiad, ysgythrawd, cyndoriad; cerfiadaeth, crifiadaeth, crifiaeth, ysgythryddiaeth; cerfwaith, cerfiadwaith, crifwaith; llun, darlun, cerflun.

Steel-engraving, } durgerfiadaeth, durEngraving on steel, } grifiadaeth; durgrifiad, durgerfiad; cerfiad ar ddur; durgerflun, cerflun dur, cerflun ar ddur.

Copper-engraving, } coprgerfiadaeth,
Engraving on copper, } efyddgrifiaeth, crifiadaeth ar gopr.

Wood-engraving, } coedgerfiadaeth,
Engraving on wood, } coedgrifiadaeth,
Xylography, } coedgrifiaeth, coedargraffyddiaeth, coedargraffiaeth, coedarluniaeth.

Stone-engraving, } maengerfiadaeth,
Engraving on stone, } maengrifiadaeth,
Lithography, } maengrifiaeth, maenargraffiaeth, maenargraffiad.

Engraving instrument—crifell, cerfyllyr, cŷn cerfio.

Engrieve, *v. a.* (o *grieve*) trallodi, gofidio, gorthrymu, poeni.

Engross, *v. a.* (Ff. *grossir*, *engrossir*; Ysp. *engrosar*) rhagachub, rhagbrynu, rhagfaelu, edwica, llwyr brynu, llwyr feddiannu; achub y blaen; mynu y farchnad i'w ddwylaw ei hun; cymmeryd yn grynswth; rhagbrynu peth er mwyn ei werthu yn ddrutach; mynu y cwbl iddo ei hun; myned á'r cwbl iddo ei hun; cymmeryd y cwbl; brasysgrifenu, brasysgrifo, ysgrifenu mewn bras lythyrenau, ysgrifenu llaw fras; †gwneuthur yn fras, tew, *neu* fawr; †mwyhau.

He engrosses the whole of the conversation to himself—efe a fyn, a achub, *neu* a gymmer yr holl ymddyddan iddo ei hun; ni fyn *neu* ni oddef i neb ond ei hunan ddywedyd gair; y mae yn myned á'r holl siarad ei hunan.

Engrosser, *s.* rhagachubydd, rhagachubwr, rhagbrynwr, edwicwr, achubwr y cwbl; á fyno y farchnad i'w ddwylaw ei hun; brasysgrifenwr, ysgrifenydd bras, brasysgrifydd.

Engróssment, *s.* rhagachubiad, rhagbryniad, edwicaeth, edwicad, edwica, rhagfaeliad; tyniad, dygiad, *neu* achubiad y farchnad iddo ei hun; cymmeriad peth yn ei grynswth; llwyr fyniad; brasysgrifiad.

Enguard, *v. a.* (o *guard*) amddiffyn, amddiffynu, diffynu, diffredu.

Engulf, } *v. a.* (o *gulf*) tafiu i lynclyn, i gaddug-
Ingulf, } lyn, *neu* i agendor; llyncu i agendor, i geudod, *neu* i gadduglyn; sugno i lynclyn; llyncu, trafiyncu, golfi, sybyllu, ceueddu.

Engulfment, } *s.* tafliad i lynclyn *neu* anoddyn;
Ingulfment, } llynciad i lynclyn, i anoddyn, i gadduglyn, *neu* i agendor; sugniad i lynclyn; golfiad; llynciad, trafiynciad.

Enhance, *v.* (Norm. *enhauncer*) codi, cyfodi, derchafu, dyrchafu, dyrchu, cwnu; mwyhau, chwanegu, ychwanegu, anghwanegu; gwneuthur yn fwy; codi, chwanegu, *neu* fwyhau pris; codi y farchnad; gwneuthur *neu* beri yn ddrutach; myned yn fwy; chwyddo, ymgodi; cynnyddu, prifio, nerthu, grymusu.

This will greatly enhance our pleasure—anghwanega hyn ein difyrwch yn fawr; pair hyn ein difyrwch yn fwy o lawer.

Enhancement, *s.* codiad, dyrchafiad, derchafiad, derchiad, cyfodiad, cwnad; mwyhad, chwanegiad, anghwanegiad, ychwanegiad, chwanedigaeth, mwyedigaeth, cynnydd, prifiad; codiad pris. [codwr pris.

Enhancer, *s.* codwr, dyrchafwr, mwyhäwr;

Enharbour, *v. n.* preswylio, trigo, trigiannu, anneddu, cyfanneddu, aros.

Enharden, *v. a.* (o *hard*) caledu; oefnogi.

Enharmonic, *a.* (o *harmony*) goseiniol, goseinraddol; cerddorol.

Enharmonic scale—goseinradd.

Enigma, *s.* (Ll. *ænigma*; Gr. *aigmigma*) dychymyg, dameg, adameg, grymeg, cymyg, tywyllwers, gorchestwawd, gorchest, dyfal; cuddholiad.

Enigmatic, } *a.* dychymygol, damegol, adam-
Enigmatical, } egol, ar ddaneg, mewn dychymyg, cymygol, grymegol, gorchestol; tywyll, mwys, amwys.

Enigmatist, *s.* dychymygwr, dychymygydd, damegwr, adamegwr, grymegwr, cymygwr, lluniwr dychymygion, dyfalwr.

Enigmatize, *v. n.* damegu, adamegu, grymegu, cymygu, dychymygu, tywyllwersu, siared ar ddameg, siared mewn dychymyg.

Enigmatography, } *s.* (Gr. *aigmigma*, *graphô*, a
Enigmatology, } *logos*) damegyddiaeth, grymegyddiaeth, cymygyddiaeth.

Enjail, } *v. a.* carcharu, caethiwo; bwrw yn
Engaol, } ngharchar.

Enjoin, *v. a.* (Ff. *enjoindre*; Ll. *injungo*) gorchymyn, gorchymyn i, erchi, peri, rhoddi gorchymyn; rhoddi ar, tasgu ar; cyfarwyddo; gwahardd, gwarafun.

He was enjoined not to meddle with it—gorchymynwyd iddo nad ymyrai âg ef; cafodd orchymyn nad ymyrai âg ef.

Enjoiner, *s.* gorchymynwr, archwr, perwr.

Enjoinment, *s.* gorchymyn, arch, archiad; cyfarwyddiad; gwaharddeb.

Enjoy, *v. a.* (o *joy*; Ff. *jouir*) mwynhau, meddu, meddiannu, amwesu, ymhyfrydu mewn, ymddigrifo mewn, dyddanu, mwyniannu, atre; perchenogi, ennill, goresgyn; dyfod o hyd i; cael i'w feddiant; cael, caffael; cael mwyniant *neu* fwynder.

To enjoy sweet pleasures — dylyn *neu* ddylyd trachwantau melus; dylyn melus chwantau.

Enjoy pleasure—cymmer dy fyd yn ddifyr.

He enjoys himself—y mae efe yn byw wrth ei fodd; y mae efe yn cymmeryd ei ddifyrwch; mae efe yn cymmeryd ei fyd yn ddifyr; y mae efe yn mwynhau ei hun; y mae yn cymmeryd byd da yn helaethwych.

Enjoyable, *a.* á ellir ei fwynhau.

Enjoyer, *s.* mwynhäwr, meddwr, meddiannwr.

Enjoyment, *s.* mwynhad, mwyniant, mwynder, mwyn; meddiant, perchenogaeth; hyfrydwch, amwes, difyrwch, dyddanwch, digrifwch, llawenydd, dedwyddyd.

Enkindle, *v. a.* (o *kindle*) cynneu, ennyn, ennynu, tanio; fflamio; gosod *neu* roi ar dân; cyffröi, cynhyrfu, annog.

Enlard, *v. a.* (o *lard*) seimio, iro, ireidio, sewio.

Enlarge, *v.* (o *large*) helaethu, eangu, ehelaethu, helaethu ar, eangu ar, lledu, mwyhau; gwneuthur yn fwy, yn lled, yn lletach, yn helaeth, *neu* yn helaethach; ymhelaethu, ymeangu, ymledu; bod yn helaeth; bod yn faith; estyn o led; amlhau, chwanegu, rhythu, cynnyddu, prifio, helaethiannu; gollwng yn rhydd o garchar *neu* gaethiwed; digarcharu, digaethiwo, rhyddhau, digaethu; rhoi mewn rhyddid.

To enlarge itself—ymhelaethu, ymeangu, ymledu, ymrythu.

Enlargement, *s.* helaethiad, eangiad, helaethiant, ehelaethiad; ymhelaethiad, ymeangiad, ymlediad; llediad, llydaniad, mwyhad; helaethder, helaethrwydd, helaethdra, eangder; chwanegiad, prifiad; chwanegiad lled, mesur, *neu* faintioli; rhyddhad, gollyngdod; rhyddhad o gaethiwed; gollyngiad yn rhydd; digaethiad, digarchariad.

Then shall there enlargement and deliverance arise to the Jews—esmwythdra ac ymwared a gyfyd i'r Iuddewon (*Esth.* iv. 14).

Enlarger, *s.* helaethwr, helaethydd, eangwr, eangydd, ehelaethwr.

Enlarging, *s.*=*Enlargement*.

Enlight, *v. a.* (o *light*)=*Enlighten*.

Enlighten, *v. a.* (o *light*; S. *enlihtan*) goleuo, llewyrchu, llewychu, lleuferu, lleueru, goleu-

annu, damlewychu, goleuferu, ffoddi; peri *neu* wneuthur yn oleu; egluro; lloni.

Enlightener, *s.* goleuwr, goleuydd, lleuferwr, lleuferydd, llewychydd, llewyrchwr.

Enlightenment, *s.* goleuawd, goleuant, goleuad, goleuanniad, llewyrchiad, llewychiad, llewychad, llewychiant, lleuerad, lleuferad, lleuferiad, lleuerawd, lleuferawd, egluriad.

Enlink, *v. a.* (o *link*) dolgydio, cydrwyo, cydenu, rhwyo, cydrwymo, cydgadwyno; cydio *neu* gyssylltu dolen yn nolen; cydio torch yn nhorch; rhwyo yn nghyd; cydgyssylltu; cyssylltu yn nghyd; cydio, cyssylltu, cyfuno.

Enlist, *v.* (o *list*) rhestru, cofrestru, cofiyfru, cofresu, rhestriadu; ymrestru, ymresu, ymgofresu, ymgofrestru, ymlyfru, ymrwymo; rhoi ei enw i mewn; myned yn filwr; ymrwymo yn filwr; rhestru yn filwr; rhwymo gwasanaeth; codi gwŷr, cwnu gwŷr, codi milwyr.

Enlisted man—gwr rhif, gwr rhestredig.

Enlisting, *s.* ymrestriad, ymgofrestriad, ymgofresiad, ymlyfriad; rhestriad, cofrestriad, cofresiad, cofiyfriad; ymrwymad; rhwymad; rhwymad yn filwr; mynediad yn filwr.

Enlive,† *v. a.* (o *live*) bywiogi, bywhau.

Enliven, *v. a.* (o *life, live*) adfywio, bywhau, bywiogi, bywiocâu, bywioli, bywio, eidiogi, arialu, eidio, eneidio, eneidioli; rhoi bywyd i *neu* yn; hawntu, pyblu; gwneuthur *neu* beri yn fywiog; rhoi arial *neu* yni yn; lloni, sirioli; brywio, nwyfo.

To enliven one's self—ymadfywio, ymfywioli, ymloni, &c.

Enlivener, *s.* bywiawdwr, bywiogwr, bywiogydd, bywhäwr, bywiocâwr.

Enlumine, *v. a.* (Ll. *lumino*) goleuo, llewyrchu, llewychu, lleueru, lleuferu.

Enmanchee, *p. p.* (Ff. *manché*) llawesog.

Enmarble, *v. a.* (o *marble*) mynori, marmori; gwneuthur mòr galed a mynor; caledu.

En Masse, *ad.* (Ff.) yn grynswth; yn eu crynswth; yn gyfan; yn un corff; yn un twr, pentwr, *neu* gruglwyth; oll gyda'u gilydd.

Enmesh, *v. a.* (o *mesh*) rhwydo, maglu, dyrysu, methlu, bachellu, byddaglu, byddagu.

Enmity, *s.* (Ff. *inimitié*) gelyniaeth, angharad, cas, casineb, dygasedd, casedd, gelynoldeb, gelynolrwydd, gelynusrwydd, gelyndod, gelynusdra, gelynusdod; llid, dig, drygwyllys, dygen. [21].

In enmity—mewn galanasdra (*Num.* xxxv.

Enmossed, *a.* (o *moss*) mysynog, mysyglog, mysoglog, mysynllyd, mysynog.

Enneacontahedral, *a.* (Gr. *ennenèconta* a *hedra*) nawdegochrog, nawdegochrol, nawdegochr; âg iddo 90 wyneb.

Enneagon, *s.* (Gr. *ennea* a *gònia*) nawochr, nawochrog, nawochron, nawor, nawelin, nawongl.

Enneander, *s.* (Gr. *ennea*, naw, ac *anèr*, gwr-yw) nawgwryw, planigyn nawgwryw; planigyn âg iddo naw briger.

Enneandria, *s.* Nawgwryw = enw y nawfed genedl o blanigion, yn ol trefniant Linnæus.

Enneandrian, } *a.* nawgwryw, nawgwrywaidd;
Enneandrous, } perthynol i'r genedl Nawgwryw.

Enneapetalous, *a.* (Gr. *ennea* a *petalon*) nawblodeuddeiliog, nawblodeiliog; âg iddo naw o flodeuddail.

Enneatical, *a.* (Gr. *ennea*) nawfed, nawed, nawfedol, nawedol.

Enneatical day—dydd nawfedol, y nawfed dydd; pob nawfed dydd i glefyd.

Enneatical years—blyneddoedd nawfedol; pob nawfed flwyddyn o oes dyn.

Ennew,† *v. a.* (o *new*) newyddu, adnewyddu.

Ennoble, *v. a.* (o *noble; Ff. ennoblir*) gwneuthur yn bendefig; gwneuthur yn unfreiniog; urddo â phendefigaeth; pendefigo, pendefigoli, dyledogi, uchelraddio, uchelfreinio, uchraddio, uchraddu, uchfreinio, urddasu, boneddu; ardderchogi, godidogi, dyrchafu, derchafu, dyrchu, ardderchafu, enwogi, hynodi; gwneuthur yn urddasol, yn enwog, yn hynod, yn honaid, *neu* yn anrhydeddus; derchafu i anrhydedd; codi i bendefigaeth.

Ennoblement, *s.* gwneuthuriad yn bendefig; uchelraddiad, uchelfreiniad, uchraddiad, uchfreiniad, pendefigoliad, urddasiad, boneddiant, ardderchogiad; dyledogaeth, boneddigaeth, pendefigiant, dyrchafiad, &c.

Ennui, *s.* (Ff.) annwyf, lludded, blinder, trymder, blinedd.

Enodation, *s.* (Ll. *enodatio*) dadglymiad, dadgylymiad, dattodiad cwlwm, dattodiad; rhwyddhad, deongliad, eglurhad.

Enode, *v. a.* (Ll. *enodo*) daglymu, diglymu, dadgylymu, dattod; egluro, rhwyddhau.

Enode, *a.* (Ll. *enodis*) diglwm, digwlwm, anghylymog, anghlymog, anghygnog.

Enomotarch, *s.* (Gr. *enòmotia* ac *archos*) penaeth y Cyflyfebwyr.

Enomoty, *s.* (Gr. *enòmotia*) Cyflyfebas; Cyflyfebiaid = corff o filwyr yn Lacedaemon gynt.

Enorm,† *a=Enormous.*

Enormity, *s.* (Ll. *enormitas*) anfadrwydd, ysgelerder, ysgelerdod, ysgelerdra, ysgeleredd, echryslonedd, echryslonrwydd, esgymunrwydd, ysgymundod; dirfawredd, anferthol-deb, anferthedd, enfawredd, tramawredd, aruthroldeb, aruthredd; dirasrwydd, erchylldod, dirdra, creulonedd, melltigedigrwydd; afreoledd, afreolaeth, aflywodraeth, anllywodraeth, afreol.

An enormity—gweithred ddybryd, cyflafan ddybryd, mawrddrwg.

Enormous, *a.* (Ll. *enormis*) anferth, anferthol; dirfawr, amrosgo, abrwysgl, anwedd, tramawr, difesur, enfawr, tra mesur, tros ben mesur, tu hwnt i fesur, allan o fesur; mawr tu hwnt i fesur; uthr, aruthr, aruthrol; anfad, ysgeler, esgymun, ysgymun, diras, erchyll, echryslawn, dybryd, anfadus, melltigaid, melltigedig, adwythig, diried, echrys, dychrynllyd; afreolus, afreolaidd, annhrefnus, aflywodraethus, anllywodraethus; heb na threfn na rheol; gorthrwm, athrwm.

Enormous wickedness—mawrddrwg, mawr ddrwg, drygioni dirfawr.

Enormously wicked — mawrddrygiog, mawrddrwg, drwg aruthr; drwg tu hwnt i fesur.

Enormousness, *s.* anfertholdeb, anferthwch, anferthedd, dirfawredd, enfawredd, tramawredd, anfadrwydd, anfadusrwydd, ysgelerder, aruthredd, &c.

Enough, *a.* (S. *genog, genoh*; Al. *genug*; Is. *genoeg*) digon; digonol, diwall.

Money enough — digon o arian; arian ddigon.

It is enough—digon yw; y mae yn ddigon; digona.

They did not count it enough—nid digon oedd ganddynt; nid digon ganddynt.

It is not enough that we abstain from doing evil—nid digon yw ymgadw o honom rhag gwneuthur drwg; nid yw ddigonol ymgadw o honom rhag gwneuthur drwg.

Enough, *s.* digon, digonedd, gwala; haflug, amledd, amlder.

I have had enough—mi a gefais ddigon; mi a gefais fy ngwala.

I have enough of it — y mae genyf fi ddigon o hono; mae genyf fi ddigon a digonedd o hono; y mae genyf fi rad Duw o hano.

I have enough to do it withal—mae genyf fodd i'w wneuthur.

To give enough to—rhoi digon, digonedd, gwala, *neu* gyfraid i; rhoi ei ddigon, ei ddigonedd, ei wala, *neu* ei gyfraid i; digoni, diwallu, digonoli; boddloni; llenwi.

Enough is as good as a feast—digon yw digon o ffigys; digon yw digon o fendith ei fam.

Enough, *ad.* digon, yn ddigon, yn ddigonol, yn ddiwall.

It is true enough—mae yn ddigon gwir; mae yn wir ddigon; y mae yn wir ei wala.

This Cæsar knew well enough—gwyddai Caisar hyn yn ddigon da; hyn a wyddai Caisar yn dda ddigon.

Ready enough—digon parod, parod ddigon; eithaf parod.

Ye have dwelt long enough in this mountain—digon i chwi drigo hyd yn hyn yn y mynydd hwn (*Deut.* i. 6).

Enounce, *v. a.* (Ll. *enuncio;* Ff. *énoncer*) traethu, treithu, cyhoeddi, mynegu, adrodd, dadgan.

Enouncement, *s.* traethiad, mynegiad, cyhoeddiad, adroddiad, dadganiad.

Enow, *a.* } **Enow,** *s.* } **Enow,** *ad.* } lluosog o *Enough:* ond anfynych eu harferir.

En Passant, *ad.* (Ff.) ar y ffordd; ar gerdded; ar redeg; ar ei hynt; ar ei daith; ar hynt; wrth fyned heibio; gyda llaw; gyda myned heibio; wrth frysio; wrth brysuro.

Enquicken,† *v. a.* bywhau.

Enquire, } **Inquire,** } *v.* (Ff. *enquerir;* Ll. *inquiro*) gofyn, holi, ceisio, chwilio, ymofyn, ymholi, ymofyn am, ymofyn â, ymoralw, ymorol, ymoroli, ymgeisio, ymgais, ymofynyd, ymorol am; ymgynghori, ymgynghori â.

Let us enquire into the matter—chwiliwn *neu* holwn y peth *neu* y mater; ymofynwn yn nghylch y peth *neu* y mater.

As though ye would enquire something more perfectly concerning him—fel pe byddech ar fedr cael gwybod yn fanylach ei hanes ef (*Act.* xxiii. 15).

Enquiry, *s.* ymofyniad, ymholiad, ymofyn, holiad, chwiliad, ymchwiliad, ymoralw, ymoralwad, ymorol, gofyniad.

Enrace,† *v. a.* (o *race*) planu.

Enrage, *v. a.* (o *rage;* Ff. *enrager*) llidio, cyffroi, cythruddo, cynddeiriogi, ennyn llid, cynneu dig, gyru yn gynddeiriog; annog, cyffroi, *neu* gynhyrfu i ddigofaint; gwylltio, gorddigio, ffyrnigo, gorwytho; peri ymgynddeiriogi, peri gwyniasu, peri ynfydu, peri gwallgofi; cynhyrfu *neu* gyffroi dig.

Enraged, *p. p.* llidiedig, &c.; cynddeiriog, llidiog, llidus, gorddig, gorwyllt; â yrwyd yn ynfyd *neu* yn gynddeiriog; gwedi ei yru yn gynddeiriog *neu* yn ynfyd.

To be enraged—bod yn gynddeiriog, &c.; llidio, gorddigio, digio, brochi, ymgynddeiriogi.

To grow enraged—myned yn gynddeiriog; cynddeiriogi, ymgynddeiriogi, ymffyrnigo.

Enrange,† *v. a.* (o *range*) rhestru, rhesu, rhencio, rhengu, rhengio.

Enrank, *v. a.* (o *rank*) rhestru, rhesu, rhencio, rhengio, rhengu; gosod yn rhestr; gosod yn rhes; byddino.

Enrapt, } **Enraptured,** } *a.* (o *rap*) mewn perlewyg, mewn llon lesmar, mewn perlesmar, mewn hyfrydfas, mewn llawenfas, perlewygol, llesmeiriol; gorlawen.

Enrapture, } **Enravish,** } *v. a.* (o *rapture, ravish*) llesmeirio, perlewygu, perloesi, gorloni, gorlloni, gorlawenu, gorlawenychu, perfasu, hyfrydfasu; tafiu *neu* fwrw i berlewyg; rhoi *neu* beri mewn hyfrydfas; llesmeirio gân ddifyrwch *neu* ddyddanwch; llanw â llesmar.

Enrapt,† *v. a.*=*Enrapture, Enravish.*

Enravishment, *s.* perlewyg, perlesmar, llesmar, llon lesmar, llawenfas, perfas, perlesmair, hyfrydfas, gorlonder, gorlawenydd, perloes, perlewygfa, llesmair, mas, gorawen; llesmar, mas, *neu* lewyg gân lawenydd.

Enregister, *v. a.* (o *register;* Ff. *enregistrer*) coflyfru, cofrestru, cofresu, cofnodi, echresu; ysgrifenu mewn coflyfr *neu* gofrestr.

Enrheum, *v. n.* (Ff. *enrhumer*) gormwytho; bod â'r gormwyth *neu* ddyferwst arno.

Enrich, *v. a.* (o *rich;* Ff. *enrichir*) cyfoethogi; gwneuthur yn gyfoethog; berthogi, brasbau, brwyso; cynnysgaethu â chyfoeth; ffrwythloni, gwrteithio; gwneuthur yn fras *neu* yn ffrwythlawn; berthu; ystorio, haflugo.

Enricher, *s.* cyfoethogwr, cyfoethogydd.

Enrichment, *s.* cyfoethogiad; yngyfoethogiad; berthogiad, berthiad; brashad, gwrteithiad, diwylliad, brwyshad, gwellhad; helaethiad, mwyhad.

Enridge, *v. a.* (o *ridge*) grynio, trumio; gwneuthur yn rynau.

Enring, *v. a.* (o *ring*) modrwyo, cylchynu, amgylchu, amgylchynu, damgylchu; rhwymo, amrwymo.

Enripen, *v. a.* (o *ripen*) addfedu, ffaethu; gwneuthur yn addfed.

Enrive, *v. a.* (o *rive*) hollti, ysgyrioni, delltu, eisgio, holli.

Enrobe, *v. a.* (o *robe*) gwisgo, dilladu; harddwisgo, addurno; harddu *neu* addurno â gwisg; trwsio, trwsiadu, arwisgo, ysgino; gwisgo am.

Enrol, } **Enroll,** } *v. a.* (Ff. *enrôler*) coflyfru, cofrestru, cofresu; ysgrifenu mewn coflyfr *neu* gofrestr; ysgrifo mewn llyfr coffadwriaeth; rhoi mewn llyfr *neu* goflyfr; cofnodi; cofysgrifo; llyfru *neu* lythyru enwau; ysgrifenu i lawr; †cau am.

Enroller, *s.* cofrestrydd, cofrestrwr, coflyfrydd, coflyfrwr, cofnodwr, cofysgrifydd.

Enrolment, *s.* cofrestriad, coflyfriad, cofresiad, llyfriad; ysgrifenad mewn coflyfr; coflyfr,

cofrestr, cofres, cofysgrif, cofysgrifen, llyfr coffadwriaeth.

Enroot, *v. a.* (o *root*) gwreiddio, peri gwreiddio; planu yn ddwfn; sicrhau.

Enround,† *v. a.* (o *round*) amgylchu, amgylchynu, cylchynu, amgau.

Ens, *s.* (Ll.) en, endid, bod, hanfod, bodolaeth, bodoliaeth; sylwedd bywiol; rhinwedd.

Ensafe,† *v. a.* diogelu.

Ensample, *s.* (o *sample*, neu *example*; Ll. *exemplum*) anghraifft, enghraifft, cynllun, cynnrych, rhagddull, cynddull, cynffurf, cynneilwad, dangoseb, dangosen, rhagffurf, cynddelw, rhagddarlun, engraff, egluryn, sampl, esampl; prawf, dangosiad.

Being ensamples to the flock—gàn fod yn esamplau i'r praidd (1 *Pedr* v. 3).

Ensample, *v. a.* rhoddi, dangos, *neu* osod anghraifft; rhoddi cynllun; anghreifftioli, egluro, profi.

Ensanguine, *v. a.* (o *sanguine*; Ll. *sanguis*) gwaedlydio, gwaedlydu, gwaedreiddio, gwaedruddo; gwneuthur yn waedlyd; halogi â gwaed; trybaeddu *neu* drochi mewn gwaed; ysbrychu â gwaed.

Ensanguined field—maes gwaedlyd, maes gwaedlydiog.

Ensate, *a.* (Ll. *ensis*) cleddyfaidd, cleddaidd; ar lun cleddyf.

Enschedule, *v. a.* (o *schedule*) atlenu, attodlenu; gosod mewn atlen; rhoddi ar attodlen.

Ensconce, *v. a.* (o *sconce*) cysgodi, gwasgodi, diogelu, amddiffyn; amgloddio.

Enseal, *v. a.* (o *seal*) inselio, selio, inseilio, golöi, cwyrfathu; rhoi *neu* osod sel ar.

Ensealing, *s.* inseliad, seliad, inseiliad.

Enseam, *v. a.* (o *seam*) gwrymio; gwnio yn nghyd, cydwnio, gwrym-wnio.

Enseamed,† *a.* (o *seam*) seimiog, seimlyd.

Ensear, *v. a.* (o *sear*) creithlosgi, serio, ysoli, llosgi.

Ensearch,† *v. a.* (o *search*) chwilio, ymchwilio am, chwilio am, ymofyn am.

Ensemble, *s.* (Ff.) cydoll, cyfoll, oll, cwbl; gyda'u gilydd, yn nghyd.

Enshield, *v. a.* (o *shield*) tarianu, cadellu; gorthöi, toi, *neu* wisgo â tharian; rhoi tarian am; amddiffyn, diffynu, noddi; amddiffynu megys â tharian; gorchuddio, gorthöi.

Enshrine, *v. a.* (o *shrine*) creirio, creirgadw; rhoddi i gadw *neu* yn nghadw mewn creirgell; rhoi yn nghadw *neu* i gadw mewn cysegrfa; creirgellu, creirdyo, tlysgellu, ysgrino, coffri.

Enshrouded, *a.* (o *shroud*) amwisgedig, amdöedig, amdoawg, gorchuddiedig.

Ensiferous, *a.* (Ll. *ensis* a *fero*) cleddyfog, cleddyfddwyn, cleddog, cleddeuddwyn; yn dwyn cleddyf.

Ensiform, *a.* (Ll. *ensis* a *forma*) cleddyfaidd, cleddyfiun, cleddyfwedd, cleddaidd, cleddyfain; ar lun cleddyf; ar ddull cledd.

Ensign, *s.* (Ff. *enseigne*; Ll. *insigne*, *insignia*) baner, baniar, lluman, penwn, penon, pensel, eiddoed; arwydd, nod; banerwr, llumanwr, banierwr, banierydd, banerydd, dygiawdwr y lluman.

Bearing an ensign — banerog, banierog, llumanog.

Ensign-bearer, *s.* banerwr, llumanwr, llumanydd, banierydd, banerydd, banierwr, dygiawdwr y lluman, dygiawdr y faner.

Ensigncy, *s.* banieraeth, baneraeth, llumanaeth, penseliaeth, baneryddiaeth; swydd *neu* urddas banerwr.

Ensigned, *p. p.* banerog, banierog, llumanog.

Enskied,† *a.* (o *sky*) gwybrenedig; gwedi ei osod yn y nef; anfarwoledig.

Enslave, *v. a.* (o *slave*) caethiwo, caethu; dwyn yn gaeth; dwyn i gaethiwed; gwneuthur yn gaeth; gwneuthur yn gaethwas; argaethu; difreinio.

Enslavedness, *s.* caethiwed, caethiwusrwydd, caethedigrwydd, caethiwedigrwydd, caethiwad; caethfyd, caethder, caethnawd, caethrawd.

Enslavement, *s.* caethiwed, caethiwad, caethiad, caethiant, caethder, caethfyd, caethrawd, caethnawd, caethwasaeth, caethwasanaeth, caledwaith, caledfyd, ceithialedd; dygiad yn gaeth, argaethiad.

Enslaver, *s.* caethiwydd.

Ensnare, *v. a.* (o *snare*) maglu, rhwydo, byddaglu, byddagu, bachellu, bagellu, carfaglu, telmu.

Ensnarer, *s.* maglwr, rhwydwr, byddaglwr, bachellwr, bagellydd.

Ensnaring, *p.p.* yn maglu, &c.; bachellgar, dichellgar, rhwydol, bachellus; dengar.

Ensnarl, *v. a.* (o *snarl*) dyrysu, maglu, rhwydo, methlu, nidro.

Ensober, *v. a.* (o *sober*) sobri, sobreiddio, dadfeddwi; peri yn sobr, yn bwyllog, *neu* yn ddifrif.

Ensphere, } *v. a.* (o *sphere*) cronellu, cronenu,
Insphere, } clobenu, clobynu, pellenu; gosod mewn cronen; gwneuthur yn gronen.

Enstamp, *v. a.* (o *stamp*) arfathu, argraffu, argrallu ar, argraffu yn ddwfn, printio yn ddwfn, gwneuthur ol dwfn.

God enstamped his image on man—argraffodd Duw ei ddelw ar ddyn.

Enstyle, *v. a.* (o *style*) enwi, cyfenwi, arenwi, gorenwi, galw.

Ensue, *v.* (Ff. *ensuivre*; Norm. *ensuer*; Ll. *sequor*) canlyn, dylyn, dylyd, arganlyn, oliannu, dyfod ar ol, dygwydd wedi.

Let him seek peace, and ensue it—ymgeisied â heddwch, a dylyned ef (1 *Pedr* iii. 11).

Ensuing, *p.* yn canlyn, yn dylyn, &c.; canlynol, dylynol, nesaf, ar ol, i ddyfod, nesaf ar ol, nesaf i ddyfod, rhagwyneb.

The ensuing year—y flwyddyn nesaf; y flwyddyn ganlynol.

Ensurable, *a.* (o *insure*) diogeladwy.

Ensurance, *s.* (o *ensure*) diogeliad, digolleddiad, yswiriant, diogelwch, diogeliant, digolliant.

Ensure, *v.* (*in* a *sure*; Ff. *assurer*) diogelu, digolledu, yswirio, digolliannu, dilysu.

Ensurer, *s.* (o *ensure*) digolledwr, digolleddydd, digolliannwr, ymrwymwr am ddigolliant.

Ensweep, *v. a.* (o *sweep*) ysgubo, hwysgo, dysguho.

Entablature, } *s.* (Ff. *entablement*; Ysp. *en-*
Entablement, } *tablamento*) argoplech, pentablech, tabwaith; gorysgwydd; topaddurn.

Entacle,† *v. a.* (o *tacle*) taclu.

Entail, *s.* (Ff. *entailler*) rhwymddisgyniad; tattrefrwym, hawlrwym, etifeddrwym, tifeddrwym, rhwym, tudrwym; anaralledd, anaralliad; rhwymdir, tir hawlrwym= rhwymiad wrth hiliogaeth yn anattaladwy, yn anwerthadwy, *neu* yn anaralladwy.

Entail, *v. a.* hawlrwymo, tattrefrwymo, tifeddrwymo, tudrwymo; anarallu; sefydlu yn anarallwy *neu* yn anwerthadwy; rhwymo wrth yr etifedd; rhwymo wrth ryw un *neu* rai neilltuol; gadael etifeddiaeth, etifeddu; rhwymo=rhwymo tir wrth had un byth, fel nas gellir na'i werthu na'i roddi i ereill oddi wrth yr iawn etifeddion; sefydlu treftadaeth yn y cyfryw fodd ag nas geill yr un o'r rhai a'i meddiannant rhag llaw mo'i rhoi i'r neb y myno.

Entail, } *s.* (It. *intaglio*) tlysgerfiad, tlysgerf-
Entaile, } waith; y rhanau mwyaf cynnil a llafurfawr o gerfwaith.

Entail, † *v. a*, cerfio, trychu, tlysgerfio.

Entailment, *s.* (o *entail*) hawlrwymiad, tattrefrwymiad, tudrwymiad, anaralliad; rhwymiad etifeddiaeth yn anaralladwy wrth ddyn a'i etifeddion; rhwymddisgyniad.

Entame, *v. a.* (o *tame*) dofi, gwarhau, gwareiddio; darostwng.

Entangle, *v. a.* (o *tangle*) dyrysu, maglu, nidro, methlu, dyrysblethu, rhwydo, carfaglu, rhysu, penblethu; dàl mewn magl; rhwystro, cynghafu, afrwyddo, annhrefnu.

To entangle one's self—ymddyrysu, ymrwystro, ymnidro, &c.

Tending to entangle—dyrysol, dyrysgar, nidrol.

Entangled, *a.* dyrys, rhwystrus, afrwydd, cynghafus, cynghafog, cynghawog, nidrog, penbleth, cinyglog, astrus, clymedig, dyrysedig, &c.

Entangled hair—gwallt dyrysedig, nidrog, *neu* ginyglog.

Entanglement, *s.* dyryswch, dyrysrwydd, dyrysni, dyrysi, dyrysedd, nidr, nidri, nidredd, nidrogrwydd, rhwystr, ymrwystr, ymbleth, ednid, methledd, astrusi, anhawsder, penbleth, cynghafusrwydd, cynghafogrwydd, cynghaw, annhrefn, didri; dyrysiad, maglad, nidrad, methledd, cymhlygiad, ymfagliad, ymddyrysiad, ymrwystrad.

Entangler, *s.* dyryswr, dyrysydd, nidrwr, maglwr, &c.

Entasis, *s.* (Gr.) cyrfleiad; canolchwydd.

Entasia, } *s.* (Gr. *entasis*) rhwymwyneg, gwr-
Entasis, } wst rwymol.

Entastic, *a.* rhwymwynegol; perthynol i wrwst dynrwymol.

Entassment, *s.* (Ff.) pentwr, twr, crug, cruglwyth, cyttwr, carnedd.

Entelechy, *s.* (Gr. *entelecheia*) gwirfod, gwirfodaeth, dirfodaeth, dirhanfod, gwirhanfod.

Entelminthia, *s. pl.* (Gr. *entos* a *helmins*)= *Entozoa.*

Entender, *v. a.* (o *tender*) ymddwyn yn dyner at; bod yn dyner *neu* dirion wrth.

Enter, *v.* (Ff. *entre*; o'r Ll. *inter, intra*) myned i mewn; dyfod i mewn; myned i; myned i mewn i; treiddio; dechreu, cynnechreu; dechreu ar; myned ar; llyfru, ymlyfru; aelodi, ymaelodi; myned yn aelod i *neu* o; cael ei dderbyn; cofrestru, cofresu, rhestru; gosod i lawr, dodi i lawr; ffurfio rhan o.

To enter into—myned i; myned i mewn i; myned i fewn i; myned i mewn.

To enter on *or* upon—cymmeryd mewn *neu* yn llaw; myned yn nghylch; myned yn nghyd â; dechreu, cychwyn; dechreu ar; ymgymmeryd â.

To enter in a book—llyfru, cofiyfru; ysgrifenu, nodi, *neu* roi mewn llyfr; gosod *neu* ddodi i lawr mewn llyfr; dodi *neu* osod mewn llyfr; ysgrifenu, dodi, *neu* nodi yn ei lyfr.

To enter in by violence—rhuthro, ymwthio, *neu* dori i mewn.

To enter in by stealth—ymlusgo, llithro, *neu* ymlithro i mewn yn lladradaidd; dyfod i mewn yn lladradaidd.

To enter an action against one—rhoi cwyn yn erbyn un; cwyno yn erbyn un; cychwyn *neu* gyffröi hawl yn erbyn un; cychwyn cynghaws yn erbyn dyn; rhoi cyfraith ar un.

To enter into the merits of a cause—chwilio gwreiddyn y mater; manwl holi peth; dwfn chwilio peth; chwilio peth i'r gwaelod; mynu gweled gwaelod, sail, *neu* eithaf peth; chwalu mater yn drwyadl.

To enter into bond for appearance—ymrwymo *neu* ymwystlo ar ymddangos; ymrwymo *neu* ymwystlo ar ateb; ymwystlo *neu* ymrwymo ar ddyfod ger bron; ymrwymo drwy fachygrif ar ateb; ymrwymo *neu* ymwystlo ar ddyod ger bron yr ynad ar y dydd penod.

To enter one's self in a person's service—myned i wasanaeth un; myned yn was *neu* weinidog i un; ymgyflogi i un; mynedat un ar ei gyflog *neu* wasanaeth.

To enter a young beginner—egwyddori; dechreu un mewn peth; rhoi yr addysg cyntaf i un; sylfaenu un mewn celfyddyd.

To enter into a league — cynghreirio, ymgynghreirio; gwneuthur cynghrair; myned i gynghrair.

To enter into articles, } ammodi, cyfam-
To enter into covenant, } modi, tynu cytundeb; myned mewn cyfammod; myned dàn gyfammod; ymgyfammodi; gwneuthur ammod *neu* gyfammod; cytuno ar ammodau.

To enter into conference—cynnadla, cynnadlu, myned mewn cynnadl.

To enter into contention — ymgynhenu, cynhenu; myned i mewn i gynhen; myned i gynhen.

To enter into conversation—dechreu ymddyddan; myned mewn ymddyddan.

They entered into conversation—hi a aeth yn ymddyddan rhyngddynt.

To enter into a treaty for peace—cylafareddu am heddwch; myned mewn cylafaredd am heddwch; cynnal cylafaredd am heddwch.

To enter into friendship with one—ymrwymo *neu* fyned mewn cyfeillach â'g un; ymgyfeillio *neu* ymgyfeillachu â'g un; myned i gyfeillach â'g un.

To enter into judgment—myned i farn.

Enter not into judgment—na ddos i farn.

To enter into orders—cymmeryd *neu* dderbyn urddau; myned dàn *neu* mewn urddau; cymmeryd urddau arno.

To enter a caveat — gwahardd; bwrw rhwystr *neu* anach; gosod rhwystr *neu* anach; rhoddi anach, gwahardd, gwaharddeb, *neu* rwystr; rhoi lluddeb *neu* anacheb; gosod, rhoddi, dodi, *neu* fwrw nam; rhoi rhybudd gochel.

To enter upon a business—ymosod *neu* ddechreu ar waith; ymosod *neu* ddechreu ar ei waith; myned i'w neges; dechreu ei orchwyl; cychwyn ei *neu* i'w orchwyl; dechreu gorchwyl; dechreu galwedigaeth.

To enter on *or* upon an estate—cymmeryd *neu* gael goresgyn; derbyn ei etifeddiaeth *neu* dreftadaeth; myned i mewn i'w etifeddiaeth *neu* dreftadaeth; cymmeryd meddiant o'i etifeddiaeth.

To enter upon an office—myned i swydd; myned i mewn i swydd; dechreu ei swydd; dechreu swydd; cymmeryd swydd arno.

To enter upon a journey — cychwyn i daith; codi i daith; dechreu taith; cychwyn taith; cychwyn.

To enter college—myned i goleg; myned i'r coleg; dechreu *neu* gynnechreu mewn coleg; derbyn i goleg; derbyn i mewn i goleg; cymmeryd i mewn i goleg; cymmeryd, derbyn, *neu* gofrestru enw mewn coleg; rhoi ei enw ar lyfrau y coleg; rhoddi ei enw yn llyfrau y coleg; ymaelodi, ymgofrestru, *neu* ymlyfru mewn coleg; myned yn aelod o goleg.

He entered St. David's College—aeth i Goleg Dewi Sant; cynnechreuodd yn Ngholeg St. Dewi; ymaelododd yn Nghlasgor Dewi Sant, &c.

He was entered at Jesus College—derbyniwyd ef i Goleg Iesu; cafodd ei dderbyn i Glasgor Iesu; aeth i Goleg Iesu; anfonwyd ef i Goleg Iesu; cofrestrwyd ef yn Ngholeg Iesu.

To enter one's self—rhoi ei enw i mewn; rhoi ei enw yn *neu* ar y llyfrau; ymgofrestru, ymrestru, ymlyfru, ymgofiyfru; ymaelodi; ymrwymo; myned i; myned yn.

To enter one's self a soldier—myned yn filwr; ymrestru yn filwr; ymrwymo yn filwr; rhoi ei enw yn mysg y milwyr; ymrwymo; rhoi ei enw i mewn.

Entered at Stationers' Hall—cofrestrwyd yn Neuadd y Safwerthwyr; cofiyfredig yn Neuadd y Safwerthyddion; breiniedig drwy *neu* yn y Safwerthlys; llyfredig yn y Safwerthlys.

To enter the lists—myned i'r ymdrechfa; ymgystadlu; tynu y dorch.

Into a malicious soul wisdom will not enter—nid â doethineb i enaid drygionus.

I will enter into the battle—mi a af i'r rhyfel.

Enter into his gates with thanksgiving—ewch i mewn i'w byrth ef â diolch.

Enterclose, *s.* (*enter* a *close*) rhyngfynedfa, rhyngffor; tramwyfa rhwng dwy ystafell.

Enterdeal,† *s.* (*enter* a *deal*) cydfasnach, cyttrafod.

Entering, *s.* mynediad, mynedfa, dyfodiad, dyfodfa; mynediad, dyfodiad, *neu* ddyfodfa i mewn; cynted, cynteddfa, cynhor, cynnor.

From the entering of Hamath—o ddyfodfa Hamath; o'r lle yr eir i mewn i Hamath; o'r ffordd yr ewch *neu* yr eir i Hamath; o'r ffordd y deuir i Hamath.

To the entering of Egypt—hyd y mynediad i'r Aifft.

Enteritis, *s.* (Gr. *enteron*) fflameg y coluddion, ennynfa yr ymysgaroedd, tandde yr ymysgaroedd.

Enterlace, *v. a.* (*inter* a *lace*) cydblethu, cymhlethu, cydweu, cyfresu, cyfrestru, rhyngsideru, cymhlitho, cydgymmysgu, gosod; rhwygo, rhwyllo.

Enterocele, *s.* (Gr. *enteron* a *cêlê*) coluddfreg, torgoludd.

Enterography, *s.* (Gr. *enteron* a *graphô*) perfeddionaeth, dysgrifiad o'r perfedd, darluniad o'r coluddion.

Enterolith, *s.* (Gr. *enteron* a *lithos*) coluddfaen.

Enterology, *s.* (Gr. *enteron* a *logos*) coluddiaeth, coluddeg; traethawd ar ranau tufewnol y corff.

Enteromphalos, *s.* (Gr. *enteron* ac *omphalos*) bogeilfreg, bogelfreg, bogeldor, torfogel.

Enterparlance, *s.* (*Ff. entre* a *parler*) cyunadledd, cynnadl, cylafaredd, cyflafaredd, cydlafaredd, cydsiarad, ymgom, ymddyddan, cymddyddan, cydymddyddan, parliad.

Enterplead, *v. n.* (*inter* a *plead*) rhyngddadleu, rhyngddadlu, rhyngymddadleu, rhyngbleidio.

Enterprise, } *s.* (*Ff.* o *entreprendre*) antur, an-
Enterprize, } turiaeth, llyfas, llafas, llefas, arlyfas, arlefas, arfaidd; cais, ymgais, cynnyg, ymgynnyg, argais, dargais, dargynnyg, prawf, baidd, dewisgamp; cychwyn; bwriad, amcan, cyrch, gosod; gwaith, gweithred, *neu* orchwyl à gymmero un arno; gwaith, gweithred, *neu* orchwyl à gymmerir mewn llaw; arlefasiad, arlyfasiad, ymorchest.

A hardy enterprise—arfaidd.

Let reason go before every enterprise—cyn dechreu pob gwaith bydded rheswm (*Eccles.* xxxvii. 16).

His enterprises were hindered — ei orchwyl ef a rwystred (1 *Mac.* ix. 55).

Having gotten opportunity to further his foolish enterprise—pan gafodd efe amser cyfaddas i'w ynfydrwydd (2 *Mac.* xiv. 5).

So that their hands cannot perform their enterprise—fel na allo eu dwylaw ddwyn dim i ben (*Iob* v. 12).

Missionary enterprises—anturion cenadol, anturiaethau cenadol.

Enterprise, *v. a.* anturio, llyfasu, llafasu, llefasu, arfeiddio, arlefasu, arlyfasu, beiddio; cymmeryd mewn llaw; cymmeryd arno; myned yn nghylch gwneuthur rhywbeth gorchestol; llafurio, ymegnïo, ymorchestu; profi, amcanu, cychwyn, dechreu; ymgeisio â gweithiau; dechreu a cheisio cyflawnu; gwneuthur *neu* roi cynnyg ar; rhoddi cais ar.

Enterpriser, *s.* anturiwr, anturydd, llyfaswr, llyfasydd, arfeiddiwr, arlyfaswr, ceisidydd; ymyrydd âg anhawsdra; dyn anturus, anturiol, anturfawr, anturgar, arfeiddiol, *neu* hyfaidd.

Enterprising, *a.* anturus, anturiol, anturiog, llyfasol, llefasol, llafasol, arlyfasol, llyfesig, llyfasus, llafasus, anturfawr, anturgar, arfeiddiol, hyfaidd; penderfynol, eofn, dewr, glew, dewrwych.

Entersole, *s.* (*Ff. entresol*) rhynglawr, rhynglofft.

Entertain, *v. a.* (*Ff. entretenir*) croesawu, croesaw, groesawu, gresaw, arfolli, arfoll, darfolli, gwestu, gwesta, gwest, llettya; derbyn

yn groesawus, yn groesawgar, *neu* yn llettygar; llettya; derbyn i'w dy; bwyda a dïodi; porthi; rhoi ymborth i; rhoi lluniaeth a chynnaliaeth i; gosymmeithio, gosymdeithio; cynnal, dygynnal, cadw, dàl, derbyn, maethu, diwallu, arlwyo; difyru, dyddanu, digrifo, digrifhau, lloni, llonychu, lloddi, lloddiannu, dadebru, boddio; rhoi lle i; coleddu, coledd, mynwesu, achlesu, amwesu, anwesu, cynnwys, llettyu.

Be not forgetful to entertain strangers—nac anghofiwch lettygarwch.

Do not entertain so unfavourable an opinion of me—na lettŷwch dyb mòr galed am danaf; na chynnwyswch dyb mòr galed am danaf; na thybiwch *neu* na feddyliwch mòr annhyner am danaf; na choleddwch *neu* na fonweswch dyb mòr anhynaws am danaf.

Do not entertain such wicked thoughts—na roddwch le i feddyliau mòr ddrwg.

I entertain hopes still — mae genyf fi obaith fyth; yr wyf fyth yn gobeithio; yr wyf fyth mewn gobaith.

Thou shalt entertain, and feast, and have no thanks—ti a lettyi ac a ddïodi rai annïolchgar (*Eccles.* xxix. 25).

Entertain,† *s.*=*Entertainment.*

Entertainer, *s.* croesawydd, gresawydd, arfollwr, arfollydd, darfollwr, llettŷwr, (*f.* llettywraig); porthwr, arlwywr; gwneuthurwr, gwneuthurydd, cynnaliwr, cynneilydd, *neu* feistr gwledd; gwleddwr, gwestwr; difyrydd, difyrwr, dyddanwr, digrifydd.

Which of these is the entertainer?—pa un o'r rhai hyn yw meistr y wledd? pa un o'r rhai hyn ydyw y gwahoddwr *neu* y gwahoddydd? pa un y gwestwr, a pha un y gwestai?

Entertaining, *a.* difyr, difyrus, dyddan, dyddanus, dyddanol, difyrol, difyrgar, difyredigol, digrifol, dyddangar, dyddanaidd, digrifhaol, boddiol, lloddus, lloddiannol; teuluaidd.

Entertaining knowledge — gwybodaeth ddifyr, gwybodaeth ddyddan.

Entertainment, *s.* croesaw, croesawiad, gresaw, gresawiad, croesawgarwch, arfolliad, arfoll, arfolliaeth, arfolledigaeth, darfolliant, darfolliad, darfoll, darfolledigaeth, derbyniad croesawus, derbyniad, llettyad, lletty, gwestfa, ysbyd, ysbydiad, ysbydaeth; gwledd, gwest, ciniaw, prain, cyfeddach, banfaeth, cywledd, gwestfa, allwest, cyfedd, arlwy, lluniaeth, ymborth; llettyaeth, llettŷwriaeth; difyrwch, dyddanwch, digrifwch, difyrwaith, lloddiant, llawdd; gochwareu, croesaren, coegchware, difyrwawd, gogymwawd, chware.

He gave me entertainment—efe a'm derbyniodd; derbyniodd fi i'w dy; efe a'm llettyodd; rhoddes i mi letty; efe a'm croesawodd.

What kind of entertainment did you meet with there?—pa fath ar letty, ar westfa, *neu* ar llettŷwriaeth a gawsoch yno?

A house *or* place of entertainment—lletty cyffredin, gwestty, gwestfa, gwestle, lletty, gwest, ostl, ostri, llettyfa, tafarndy.

A spare, scanty, *or* slender entertainment—adwledd.

To keep an entertainment—cynnal cyfeddach.

Entertissued, *a.* (Ff. *entre* a *tissu*) cydweuedig, cymhlethedig, cydblethedig, cymhleth, cyfrestredig, cydweog, masgol, masgog; cymhlith; amryliw.

Entheal, *a.* (Gr. *entheos*) dwyfysbrydol, dwyfysbrydoledig; gwedi ei ddwyfol ysbrydoli; cynhyrfedig gàn ysbryd Duw; à roddwyd gàn ysbrydoliaeth Duw.

Entheastic, *a.* (Gr. *entheos*) dwyfrymus, dwyfnerthol, dwyfuerthog, dwyfegniol; à chanddo rym Duw; à chanddo egni dwyfol.

Entheastically, *a.* yn ddwyfrymus, &c.; yn ol grym, gallu, *neu* egni dwyfol.

Entheat,† *a.* (Gr. *entheos*) penboeth, brwdfrydig, gorwyllt.

Enthral, } *v. a.* (*en* neu *in*, a *thrall*) caethiwo,
Enthrall, } caethu; gorthrymu; llyffetheirio; dwyn i gaethiwed; dwyn yn gaeth; gwneuthur yn gaeth.

Enthralment, } *s.* caethiwed; caethiwad, caeth-
Enthrallment, } iad; dygiad i gaethiwed; dygiad yn gaeth; llyffetheiriad, caethfyd, blinfyd, caethnawd, caethrawd.

Enthrill, *v.* (*o thrill*) treiddio, trywanu; menu, menu ar; treiddio trwy.

Enthrone, *v. a.* (*o throne*) gorseddu, gorseddogi; rhoi *neu* osod ar orsedd; rhoi *neu* osod i eistedd ar orseddfainc; penseddu, gorfeincio; uchafu.

Enthronement, *s.* gorseddiad, gorseddiant.

Enthronize,† *v. a.*=*Enthrone.*

Enthunder, *v. a.* (*o thunder*) taranu; gwneuthur twrf mawr fel taran.

Enthusiasm, *s.* (Gr. *enthousiasmos*) penboethni, penboethder, brwdfrydedd, brwdfrydigrwydd, penfrydedd, peniasedd, gorhewyd, gorhewydedd, hewydaeth, gwynfydiaeth; gwres *neu* frydaniaeth yr ymenydd; penboethni, syfrdandod, penwendid, gorphwyll, gwallgofrwydd, lledfryd, lledfrydedd, ynfydrwydd, *neu* wylltineb crefyddol; hewyd, gwŷn, aidd, gwresogfryd, brydiasedd, poethfryd, mawrserch, llerthrwydd, llerth; brydaniaeth darfelydd; gorawen, gorwylltineb; gau ysbrydoliaeth; traha *neu* ryfyg ysbrydol; tyb *neu* goel o fod un dàn ddigyfrwng dywysiad Ysbryd Duw; awenyddiaeth, awen; gwres, gorawydd.

Enthusiast, *s.* (Gr. *enthousiastês*) penboethwr, penboethiad, brwdfrydwr, gorhewydwr, gorhewydydd, gwynfydwr, penboethur, peniasog, peniaswr; crefyddwr penboeth, un ynfydgrefyddol, crefyddwr penfrwd, breuddwydiwr crefyddol; gorawenydd, awenydd, darfelyddwr; iwin, llerthwr.

Enthusiastic, } *a.* penboeth, brwdfrydig,
Enthusiastical, } brwdfrydus, gorwyllt, gorhewydus, gorhewydol, gorhewydig, penfrwd, peniasog, gwynfydig, gwresog, brwd, tanbaid, gwresoglym, angerddol, terwyn, tanllyd; gorawenus, awenddrud, awenfawr, awenyddfawr, awenboeth, awenyddol; dyrchafedig; ynfyd-grefyddol; iwin, llerth, ansobr; llawn penboethni, &c.

Enthymematical, *a.* (Gr. *enthumêma*) deufreichebus; perthynol i reswm deufraich; yn cynnwys dwyfreicheb.

Enthymeme, *s.* (Gr. *enthumêma*) dwyfreicheb, deufreicheb, cyfreswm deufraich; cyfreswm wedi ei gwtogi o un o'i osodion.

Entice, *v. a.* (Ysp. *atizar*; Ff. *attiser*) hudo, denu, llithio, arlithio; tynu drwy deg; dar-

ddenu, llithiannu, llithiogi, llathludo; annog, cymhell; twyllo; swyno.

Enticement, *s.* hudoliaeth, hudiad, deniad, llithiad, hudiant, llithiant, llithiawd, hudedd, llith, hud, llithiaeth, arlith, llathlud, llathludiad, hudoliad; annogaeth, annog.

Enticer, *s.* hudwr, hudydd, llithiwr, denwr, hudolydd, llathludwr.

Enticing, *a.* denol, hudol, llithiol, deniadol, llithiog, llithiannol, hudoliaethus, hudoliaethol, hudog, hudolaidd, denog, denedigol, arlithiol.

Enticing words—geiriau denu; ymadrodd hygoel; geiriau denol, &c.

Enticingly, *ad.* yn ddenol, yn ddeniadol, &c.

Entire, *a.* (Ff. *entier;* Ll. *integer*) cyfan, cyfa, cwbl, cyflawn, hollol, cyfoll, llwyr, cyfiwyr, trylwyr, allwyr, cyfangwbl, cyfrdo, cyfrgwbl, digoll, didwn, didor, anmwlch, difwlch, cydol, cyfanol, cyfaol, hollus, oll; llawn; cywir, trwyadl, clau; sicr, dilys; pur, digymmysg, anllygredig; perffaith; digangau; diranedig. [cyfan.

Entire stem — paladr digangau; paladr

Entire leaf — dalen difwlch, deilen anmwlch; dalen ddiranedig; dalen gyfan.

Entirely, *ad.* yn gyfan, &c; achlân, i gyd, i gyd oll, yn llwyrgwbl; heb adaw un; heb adaw gronyn; oll a chwbl; oll; yn lân.

To love entirely—trahoffi, gorhoffi; caru o lwyr ewyllys calon; caru o lwyr wyllys ei galon; caru yn hollol, &c.; cyfan garu.

Entireness, *s.* cyfander, cyfanrwydd, cyfandra, cwbledd, cyflawnder, llwyrdeb, llwyrder, trylwyrder, allwyrdeb, allwyrder, cyfiwyrder, cyflawnrwydd, ollid, ollder, digollrwydd, perffeithrwydd; purdeb, cleudeb, cleuder, cywirdeb, uniondeb, gonestrwydd; anllygrediqaeth; y cyfan, y cyfanswm.

Entirety, *s.* cyfanrwydd, cyfander, llwyrder, cyflawnder; y cyfan, yr oll, y cwbl, y cyfanswm, y cyfansum.

Entitative, *a.* (o *entity*) endidol; â'i ystyried ar ei ben ei hun.

Entitle, *v. a.* (Ff. *entituler*) rhoi hawl i; rhoi enw i; rhoddi braint i; hawlogi; enwi, galw; rhoi enwawd, rhoi senw, rhoi enw, rhoi hawl; addasu, cyfaddasu, cymhwyso; rhoi cymhwysder i; teilyngu i; meddu hawl; cael yr enw; cael yr enwawd.

His learning entitled him to this distinction—rhoddes ei ddysg iddo hawl i'r anrhydedd hwn; teilyngodd ei ddysgeidiaeth iddo yr anrhydedd hwn.

Your bravery entitles you to the admiration of mankind—eich dewredd a bair, o wir hawl, i'r byd yn gyfan eich mawrygu.

How ready zeal for party is to entitle Christianity to their designs!—paroted yw serch i blaid i fwrw *neu* roddi ar Gristionogaeth amcanion y blaid hòno! mòr barod yw y serch i blaid i gyfrif i Gristionogaeth amcanion y blaid hòno!

Entity, *s.* (Ll. drosgl, *entitas;* Ff. *entité*) endid, bod, hanfod, en; bodolaeth, bodoliaeth, bodoldeb, hanfodoldeb, bodiad.

Entoil, *v. a.* (o *toil*) maglu, rhwydo; dàl mewn magl; dyrysu, nidro, methlu, rhwystro.

Entomatography, *s.* (Gr. *entoma* a *graphô*)= *Entomology.*

Entomb, *v. a.* (o *tomb*) claddu, daiaru, beddrodi; rhoi mewn bedd *neu* feddrod; rhoi yn y bedd; rhoi *neu* osod mewn gwyddfa.

Entombment, *s.* claddedigaeth, angladd; claddiad, daiariad.

Entomic, *a.* (Gr. *entoma*) trychfilig, trychbryfig, rhilionig.

Entomoid, *a.* (Gr. *entoma* ac *eidos*) trychfilaidd; tebyg i drychfil.

Entomolite, *s.* (Gr. *entoma* a *lithos*) maendrychfil, rhilfaen, trychfil wedi ymgaregu.

Entomological, *a.* trychfilodol, trychednogol, trychfilyddol, rhilionegol.

Entomologist, *s.* trychfilofydd, trychfilodydd, trychfilodwr, trychfilhanesydd, trychfilydd, rhilionegydd, trychednogwr.

Entomology, *s.* (Gr. *entoma* a *logos*) trychfilodiaeth, trychednogaeth, trychfilaeth, trychfilhanes, rhilioneg, trychfilyddiaeth; hanes trychfilod *neu* drychbryfed.

Entomostomata, *s. pl.* (Gr. *entomis* a *stoma*) trycheneuogion.

Entomostraca, *s. pl.* (Gr. *entoma* ac *ostracon*) cragenrilion, cragendrychfilod.

Entomotomy, *s.* (Gr. *entoma* a *tomê*) difyniaeth trychfilod, trychfildoriaeth.

Entonic, *a.* (Gr. *en* a *tonos*) gornerthig.

Entortilation, *s.* (Ff. *entortillement*) troad yn gylch, cylchdroad.

Entozoa, *s. pl.* (Gr. *entos* a *zôon*) ymbyrion, ymbryfed, ceudodfilod, mewnbryfed, ceudodbryfed; bolgynron, bolbryfed, bollyngyr.

Entozoic, *a.* ymbyriol, ymbryfig, ceudodbryfig, ceudodfilig; cynronig.

Entozoon, *s.* ymbryfyn, ymbryf, ynbryfyn, ceudodfil, ceudodbryf; bolgynronyn, bolbryf, bolbryfyn.

Entrail, *s.* coluddyn, perfeddyn, penygen, paneg, monochen.

Entrail,† *v. a.* (It. *intralciare*) cydweu, cydwau, rhyngweu; amrywio, amrywioli.

Entrails, *s. pl.* (Ff. *entrailles;* Gr. *entera*) coluddion, coludd, perfedd, ymysgaroedd, ymysgar, perfeddion, penyg, syrth, tripa, monoch; rhanau mewnol.

Small entrails—glasgoludd, mân goluddion.

Divination by the entrails—ymysgargoel, dewiniaeth ymysgar.

Entrammel, *v. a.* (o *trammel*) llyffetheirio, cloffrwymo, hualu, gefynu, troedogi; dyrysu, rhwystro, nidro.

Entrammelled, *a.* llyffetheiriog; dyrys, nidrog; † crych.

Entrance, *s.* (Ll. *introns;* Ff. *entrant*) mynediad i mewn; dyfodiad *neu* ddyfodfa i mewn; mynediad, dyfodfa; cyntedd, cyntor, cynhor, cynnor, porth, drws; trydded, ffosp, ffor, ffordd, adwy, agoriad, rhodfa; dechreu, dechreuad, cynnechreu, cychwynfa; derbyniad, derbyniad i mewn; geneu.

Entrance money—rhagarian, tâl derbyn, rhagdal, arian derbyniad i mewn, derbyndal.

Forced entrance—rhuthrad *neu* doriad i mewn; rhuthr.

To give entrance — gollwng i mewn; cenadu dyfod i mewn; ceniadu dyfod i mewn.

To make an entrance to a discourse—cychwyn araeth; dechreu *neu* agor

ymadrodd; dechreu traethawd; rhagymadroddi.

To deny entrance to one's house—gwahardd ty i un; gwardd ei dy i un; gwarafun i un ddyfod i'w dy.

To make one's entrance—dyfod i mewn; ymddangos; dechreu, cynnechreu, dechreu ar; dyfod.

And ran before Ahab to the entrance of Jezreel—ac a redodd o flaen Ahab nes ei ddyfod i Iesreel (1 *Bren.* xviii. 46).

To the entrance of Gedor—i flaenau Gedor (1 *Cron.* iv. 39).

Entrance, *v. a.* (o *trance*) rhoddi mewn perlewyg *neu* lesmar; peri perlewyg *neu* lesmar; tafiu *neu* fwrw i berlewyg *neu* lawenfas; tafiu i hyfrydfas; perlewygu, perlesmeirio, hyfrydfasu, llawenfasu, perfasu, gorloni, gorlawenu; peri llewygu gàn hyfrydwch.

Entrap, *v. a.* (o *trap*; Ff. *attraper*) maglu, bachellu, rhwydo, carfaglu, byddaglu, bagellu, telmu; dàl mewn magl, byddag, byddagl, *neu* rwyd; denu i fagl *neu* rwyd; tynu i fagl; methlu, dyrysu, nidro; llithio, twyllo, hudo, denu, somi; dàl drwy gyfrwysdra; dwyn i lathlud.

Entreat, *v.* (Ff. *en* a *traiter*) atolygu, atolwg, deisyf, deisyfu, adolwg, adolwyn, erfyn, erfynied, erfynio, ymbil, ymbilio, eiriol, eirioli, crefu, ymhŵedd, amhŵedd, erdolwg, erchi, dymuno, gweddïo, ioli, ymneddu, ymnedd; ymioli, ymddifregu, ymadolwyn, eidduno, dir-ofyn; trin; cynghori; †difyru; †traethu.

I earnestly entreat you—ufydd atolygaf i chwi; taer ddeisyfaf arnoch.

To entreat well—bod yn dda wrth un.

To entreat ill—anmharchu.

To entreat God—atolygu ar Dduw; ymioli *neu* ymddifregu â Duw; gweddïo ar Dduw.

To entreat for one—eiriol dros un.

To entreat one's favour—ymbil âg wyneb un; ymbil o flaen un; erfyn nawdd un.

To be entreated of—gwrandaw ar; cymmodi â; bod yn foddlawn i.

Easy to be entreated—hawdd ymbil âg ef; hawdd eiriol arno; hawdd cymmodi *neu* ymgymmodi âg ef; hawdd ei ddyhuddo; cymmodol, cymmodlawn, rhywiog, hynaws; hydrin, hawdd ei drin.

Not to be entreated—anhawdd cymmodi âg ef; anhawdd ei ddyhuddo; anghymmodol, anghymmodlawn, anghymmodadwy, anymbilgar, afrywiog, anhynaws; na ellir eiriol arno; anhydrin, anhawdd ei drin.

There is no entreating of him—ni waeth ymbil âg ef na pheidio; ni thâl dim ymbil âg ef; ni ry glust yn y byd i ymbil; nid oes ymbil âg ef.

A little entreating made him stay—hanner gwahodd a barodd iddo aros; ychydig gymhell a barodd iddo aros; nid oedd rhaid iddo wrth daer wahoddiad i aros; nid oedd rhaid iddo wrth lawer o grefu arno i aros; ni cheisiodd ond prin wahoddiad i aros.

Entreatance,† *s.*=*Entreaty.*

Entreater, *s.* atolygwr, atolygydd, deisyfwr, erfyniwr, ymbiliwr.

Entreative, *a.* deisyfol, erfyniol, atolygol, ymbiliol.

Entreaty, *s.* (o *entreat*) deisyf, deisyfiad, atolygiad, atolwg, dymuniad, dymuniant, dymuneb, dymuned, damuned, ymbil, ymbiliad, erfyn, erfyniad, taer ddeisyfiad, taergais, eirioledd, eiriolaeth, eiriolwch, eirioled, eidduned, eiddunawd, arch, cais, gorymbil, gweddi, adolwch, taerni, ymnedd, gweddi daer.

To use entreaties—ymbil, deisyf, erfyn, &c.

By entreaty—wrth ddymuned, ar ddeisyf, trwy ymbil, &c.

Entree, *s.* (Ff.)=*Entry.*

Entremets, *s. pl.* (Ff.) rhyngalorion, rhyngddysglau, moethddysglau.

Entrepot, } *s.* (Ff. *entrepôt*) ystordy, ystorfa,
Entrepote, } nwyddfa, nwydd-dy, ty nwyddau.

Entresol, *s.* (Ff.) rhynglawr, rhyngloft.

Entrick,† *v. a.* (o *trick*) castio, twyllo; dyrysu, nidro.

Entrochal, *a.* trogloddol.

Entrochite, } *s.* (Gr. *trochos*) trogloddyn; *pl.*
Entrochus, } trogloddion.

Entry, *s.* (Ff. *entrée*) cyntedd, dyfodfa, cynteddfa, porth, cyntor, cynhor, cynnor, drws, trydded; mynediad i mewn; dyfodiad *neu* ddyfodfa i mewn; goresgyn, cymmeryd goresgyn, meddiannad, cymmeriad meddiant; llyfriad, coflyfriad, cofnodiad.

Single and double entry—llyfriad ac adlyfriad; unllyfriad ac adlyfriad; llyfriad unig a llyfriad dyblyg.

To give entry to—derbyn, cymmeryd, *neu* ollwng i mewn.

The entry of the river—aber afon, geneu afon.

At the entry of the city—yn mhen y dref (*Diar.* viii. 3).

At the entry of the sea—wrth borthladdoedd y môr (*Eccl.* xxvii. 3).

Entune, *v. a.* (o *tune*) ceincio, tônio, erddyganu, canu, telori, cyweirio.

Entwine, } *v. a.* (o *twine*, *twist*) cordeddu, cyf-
Intwine, } rodeddu; troi, dyrwyn, nyddu,
Entwist, } *neu* ymnyddu am; amnyddu, ffillio, cynglynu, cylchynu; ymdröi *neu* ymglymu am.

Entwined, } *p. p.* cyfrodeddig, amdröedig,
Entwisted, } cordeddedig, cyfrodedd, cyfrodeddog.

Entwinement, } *s.* cordeddiad, cyfrodeddiad,
Intwinement, } amdroad, ffilliad, amnyddad; unad, undeb.

Enubilate,† *v. a.* (Ll. *e* a *nubila*) digymylu, digaddugo, agor.

Enubilous, *a.* digwmwl, digaddug, dinifwl, didarth; teg, araul.

Enucleate, *v. a.* (Ll. *enucleo*) dignewullio, dignewullu; tynu allan y cnewull *neu* y cnewullyn; digygnu; egluro, eglurhau, esbonio, amlygu, egori, agor; dinidro, dad-ddyrysu, dirwystro; dwyn *neu* chwilio allan sylwedd.

Enucleation, *s.* dignewulliad; digygniad; eglurhad, egluriad, esboniad, amlygiad, agoriad, egoriad; dinidrad, dad-ddyrysiad, dadrwystrad.

Enumerate, *v. a.* (Ll. *enumero*) rhifo, cyfrif, cyfrifo, rhifnodi, nifeirio, niferu, niferiannu, rhifiannu, dyrifo, bwrw cyfrif, bwrw rhifedi; rhifo bob yn un ac un.

Enumeration, *s.* (Ll. *enumeratio*) rhifiad, cyf-

rifiad, niferiad, nfferiant, niferiaeth, nifeiriant, dyrifiad, rhifiant, rhifedigaeth, bwriad rhifedi.

Enumerative, *a.* rhifiadol, rhifol, rhifiannol, niferol, nifeiriannol.

Enunciate, *v. a.* (Ll. *enuncio*) traethu, treithu, dadgan, adrodd, mynegu, yngan, yuganyd, ynganu, llafaru, llefaru, arlefaru, dysmegu, dywedyd; cyhoeddi, gosod allan, dangos, arddangos, dadguddio.

Enunciation, *s.* (Ll. *enunciatio*) traethiad, treithiad, traethad, dadganiad, adroddiad, mynegiad, mynegiant, mynegiaeth, llafariad, llefariad, arlefariad, arlafariad, goddegiad, dywediad, amlygiad, ymadrodd; cyhoeddiad; hysbysiad, hysbysrwydd; traith, mynag.

Enunciative, *a.* (Ll. *enunciativus*) traethol, treithol, treithiadol, dadganiadol, mynegiadol, mynegiadus, mynegiannol; cyhoeddol, cyhoeddiadol; yn haeru *neu* yn gwadu yn bendant.

Enunciatory, *a.* traethol, treithol, mynegol, llafarol, llefarol, yuganol, goddegol, cynanol, llafarseiniol, seiniol, llefiadol, acenol.

Envassal, *v. a.* (o *vassal*) gwasoli; gwneuthur yn gaethddeiliad; gwneuthur yn gaeth; gwerthu yn gaethwas; gwneuthur yn wasolwr.

Envelop, } *v. a.* (Ff. *envelopper*) cuddio, gor-
Envelope, } chuddio, encuddio, enhuddo, amlenu, amgau, amdöi, gorthöi, amwisgo, damblygu, amblygu, goblygu, arlenu; plygu, crynöi, rhwymo, dodi, troi, *neu* roi mewn; amdröi, amwregysu, amgylchu, tulio, tuddo, tuddedu, amguddio, amgorni, amgylchu âg, amgylchynu â; rhoi yn nghudd; rhoi dàn gudd; rhoi dân orchudd; amgaesu, golöi, tuellu, eddyllu, dargau; lleinio; gwisgo â; gwisgo mewn.

Envelope, } *s.* amlen, gorchudd, tudded, gortho,
Envelop, } hudded, enhudded, amwisg, amgaes, caes, tuddedyn, tuell, tuddell, enhuddeu, fforel, hul, hulen, amdo, tul, golo, caw, llèn, caen, to, amgauad, clawr, amglawr.

Envelope of a letter—amlen llythyr.

Enveloped, *p. p.* cuddiedig, &c.; mewn amlen.

Enveloped (in heraldry)—cyfrodeddig â nadroedd; amdröedig, cyfrodeddig.

Envelopment, } *s.* gorchuddiad, encuddiad,
Envelopement, } cuddiad, amleniad, amdoad, enhuddiad, enhuddiant, gorthoad, amblygad, goblygad, damblygad, amgauad.

Envenom, *v. a.* (o *venom*) gwenwyno; cymmysgu â gwenwyn; chwerwi; cynddeiriogi, llidio.

Envermeil, *v. a.* (Ff. *vermeil*) rhufliwo, lliwio yn goch, cochliwio.

Enviable, *a.* (o *envy*) cenfigenadwy; haeddgas, llidbair; rhagorol, ardderchog, gwiw, dymunol.

Envier, *s.* cenfigenwr, cenfigenydd; cynghorfynwr, cynghorfynydd; un à genfigeno.

Envious, *a.* (o *envy*; Ff. *envieux*) cenfigenus, cenfigenllyd, cynghorfynnus, cynghorfynus, migus, cenfigenol, maleisus, drygwyllysiol, dygenus, gorfynog, gorfynol, gorfynig, gorafunol, gygus; dygns, dygasol, gelynol; yn dàl cilwg; eiddigus.

Environ, *v. a.* (Ff. *environner*, *environ*) amgylchu, amgylchynu, cylchynu, damgylchu, damgylchynu, amgau, gwarchau, amwregysu, amguddio, gorchuddio, amduddedu, amdöi, cau i mewn; gwisgo.

To environ with strength—amgadarnhau, amnerthu; amgylchu *neu* amgylchynu â chadernid; gwregysu *neu* amwregysu â nerth; rhoi amddiffyn o amgylch; rhoi amddiffyn o bob parth.

Environment, *s.* amgylchyniad, damgylchiad, damgylchyniad, cylchyniad, amgylchiad, amgauad, amgauedigaeth, amgylchedigaeth, amgylch.

Environs, *s. pl.* amgylchoedd, amgylchau, amgylchleoedd, damgylchoedd, cylchynau, cwmpasoedd, cylchleoedd, amgylch-wlad; y wlad o amgylch; y lleoedd oddi amgylch.

Envoy, (Ff. *envoyé*) llysnegeswr, llysnegesydd, llysnegesiadur, negeswr, negesydd, cenad, cenadwr, llysgenadwr, llysgenad, negesweinydd.

Envoyship, *s.* llysnegesiaeth, llysnegesiant, llysnegesyddiaeth, negesyddiaeth, negesiaeth, cenadwriaeth, llysgenadaeth.

Envy, *s.* (Ff. *envier*) cenfigen, cynghorfynt, cynghorfyn, cynghorfen, gorfyn, gorfynt, gorfyndod, drygwyllys, malais, cynddrygedd, dygasedd, cas, casineb, malais, cilwg, trachas, eiddigedd, llid.

Envy, *v. a.* cenfigenu, cynghorfynnu, cynghorfynu, gorfynnu, gorfynu; cenfigenu wrth, cynghorfynnu wrth; dàl cilwg wrth *neu* at; eiddigeddu wrth; gwynfydu; grwgnach; gorafun, gorafuno, gwarafun.

To be envied—bod yn wrthrych cenfigen; bod yn nod i saeth cenfigen.

Better be envied than pitied—gwell it' genfigenu na gresynu wrthyt.

Let us not envy one another—nac ymgenfigenwn wrth ein gilydd. [wrtho.

Envied—y cenfigener wrtho; y cenfigenir

Envying one another—gàn ymgenfigenu wrth eich gilydd.

Envying, *s.* cenfigeniad; cenfigen, cynghorfynt, cynghorfyn; cenfigenu.

Enwallowed, *a.* (o *wallow*) ymdreigledig, ymgreiniedig, ymdrybaeddol, ymdrybaeddus.

Enwheel, *v. a.* (o *wheel*) cylchu, cylchynu, amgylchu, amgylchynu, olwyno.

Enwiden, † *v. a.* (o *wide*) lledu, llydanu.

Enwomb, † *v. a.* (o *womb*) beichiogi; claddu, cuddio.

Enwrap, *v. a.* (o *wrap*) amblygu, goblygu, damblygu, amlenu, amgylchu, amgau, cau i mewn, amdöi, gorthöi, gordöi.

Eocene, *a.* (Gr. *hεὸs* a *cainos*) gwawreinaidd, gwawreinig, gwawronain.

Eocene period—y cyfnod gwawreinaidd= enw â roddir gàn ddaiaregwyr i un o bedwar cyfnod yr haenau trydyddol.

Eolian Harp, } *s.* (o *Æolus*, duw y gwyntoedd)
Eolian Lyre, } chwadelyn, awyrdelyn, telyn awelain, telyn Eolaidd, telyn Eolig, telyn Aiolain.

Eolipile, *s.* (Ll. *Æolus* a *pila*) chwabelen, agerbel, agerbelen.

Experience, *v. a.* profi, ymbrofi â; bod wedi ymarfer *neu* ymgynnefino â; bod yn profi; cael wrth brofi; deall; teimlo; clywed; profi wrth arferu, goddef, *neu* fwynhau; gwybod drwy brofiad.

Experienced, *a.* profedig; à brofwyd; gwybodedig drwy brofiad; à wybüwyd *neu* à wyddys drwy brofiad; wedi ei brofi; gwybodus *neu* hyfedr drwy brofiad; gwybodus *neu* hyfedr drwy ymarfer; à ŵyr lawer; yn gwybod llawer; hyfedr, hyfedrus, gwybodus, medrus, cyfarwydd.

Experiencer, *s.* argeisiedydd, profwr, profydd, profiedydd, ymbrofwr; un à wnel ymbrofion.

Experiment, *s.* (Ll. *experimentum*) ymbrawf, prawf, profiad, praw, prawiad, ymbrofiad, argeisiad, cynnyg, cais, ymgais, osiad, osbrawf.

Crucial experiment — prawf penderfynol, ymbrawf terfynol; prawf à benderfyno y pwnc y naill ffordd neu y llall ar unwaith.

Experiment, *v.* ymbrofi, profi; gwneuthur prawf, ymbrawf, *neu* ymgais; osio, ymgeisio, ymgynnyg, dargeisio; gwneuthur cais; gwybod drwy brawf; cael drwy brofi; rhoi ar brawf.

Experimental, } *a.* profiadol, ymbrofiadol;
Experimentative, } à gafwyd allan drwy brofiad; à ddysgwyd drwy brofiad; sefydledig ar brawf *neu* brofiad; seiliedig ar brawf *neu* brofiad; à seiliwyd ar ymbrawf; à wyddys drwy brofiad; profedig; ymarferol.

Experimental philosophy — athroniaeth brofiadol, athroniaeth ymarferol; athroniaeth seiliedig ar brofiad *neu* ymbrawf.

Experimentalist, } *s.* argeisiedydd, profwr,
Experimenter, } profydd, profiedydd, ym-
Experimentist, } brofwr; un à wnel ymbrofion.

Experimentally, *ad.* yn brofiadol, &c.; trwy brawf, trwy brofiad; ar brawf, ar brofiad.

To speak experimentally—dywedyd ar ei brofiad *neu* ei wybodaeth ei hun; dywedyd drwy brofiad; llefaru oddi ar brofiad.

Experimentative, *a.*=*Experimental.*

Expert, *a.* (Ll. *expertus*) cyfarwydd, hyfedr, celfydd, medrus, hyddysg, hwylus, cywrain, cywraint, cynnil, campus, penigamp, trylew, deheu, deheuig, hylaw, dichwith, hylwybr, hyffordd, parod, tra pharod, cyflym, trwyadl; profedig, cydnabyddus, cynnefin, gwybodus.

Expert in—cyfarwydd â, hyfedr mewn, &c.

To make expert — gwneuthur yn gyfarwydd, &c.; cyfarwyddo, dysgu, addysgu.

Expert in war—yn medru rhyfel; gwedi ei ddysgu i ryfela; gwedi ei ddysgu i ryfel; hyfedr mewn rhyfel; hyfedr ar ryfela.

Expert, *s.* un cyfarwydd, &c.; hyfedrydd, medrydd, celfyddwr, cyfarwydd: *pl.* hyddysgiaid, medrusiaid, &c.

Expertness, *s.* hyfedredd, medredd, medrusrwydd, medrusedd, medr, medrusdod, medrusder, deheurwydd, deheuder, hylawrwydd, trylewder, cywreinder, cywreindeb, cywreinrwydd, dichwithrwydd, dichwithder, medrseth, cyfarwyddyd, celfyddyd, cynnildeb; llwybreiddrwydd, hylwybredd, hwylusder, hwylusdod, hwylusrwydd; parodrwydd, esgudrwydd, cyflymdra.

To acquire expertness in a thing, } cael
To attain to expertness in a thing, } cymmedr ar beth.

Expetible,† *a.* (Ll. *expetibilis*) dymunadwy; gwiwgais, dymunol.

Expiable, *a.* (Ll. *expiabilis*) dyhuddadwy, cymmodadwy, dadolychadwy; maddeuadwy; à ellir gwneuthur iawn *neu* gymmod drosto; diwygiadwy; dileadwy; à ellir ei ddiwygio; à ellir gwneuthur cymmod drosto a'i ddileu.

Expiate, *v. a.* (Ll. *expio*) dyhuddo, dadolychu; gwneuthur cymmod *neu* iawn dros; cymmodi dros; gwneuthur iawn dros *neu* am gamwedd; dyhuddo âg aberth; diwygio bai *neu* bechod; glanhau pechod âg iawn *neu* aberth; iawnu, unioni, prido, pridio, dyfwyno; diwygio.

To expiate an injury—unioni cam, iawnu cam, diwygio sarhad; talu am y niwed à wnaeth un.

Expiation, *s.* (Ll. *expiatio*) cymmod, iawn, dad-

olwch, penyd, dyfwyn, dyfwyni, dywyni, daffar; dadolychiad, dyhuddiad, dyhuddiant, pridiant, pridiad, unionad, iawnad, diwygiad, ymlanhad, ymddiheurad; aberth; cymrodedd, boddlonrwydd.

Expiator, *s.* dyhuddwr, dyhuddydd, dadolychwr, dyhuddal, cymmodwr, pridiwr; un â ddyhuddo.

Expiatory, *a.* dyhuddol, dadolychol, iawnol, dyhuddedigol, cymmodol, cymrodeddol, cymmodroddol, pridiannol, pridiadol, pridiol, penydiol; diwygus, diwygiol, diwygiadus, diwygiedigol, diwyg-; diheurol; perthynol i lanhad oddi wrth bechod.

Expiatory sacrifice — aberth dyhuddol, aberth iawnol, diwyg-aberth.

Expilation, *s.* (Ll. *expilatio*) anrheithiad, anrheithiant, ysbeiliad; diffaethiad tir; anrhaith, difrod; lladrad.

Expirable, *a.* trengadwy, darfodadwy.

Expirant, *s.* (o *expire*) trengydd, trengwr; un yn darfod am dano.

Expiration, *s.* (Ll. *expiratio*) chwythiad neu anadliad allan; allanadliad; yr anadl ddiweddaf; tranc, trancedigaeth, marwolaeth; ymadawiad â'r byd neu â'r ysbryd; anadliad, tarthiad, tarthiant, mygdarthiad, anweddiad, ageriad, anwyddiad; anadl, tarth, ager, anwedd, mygdarth, tawch; gyrferth; diweddd, terfyn, pen, dyben, paid, ymbaid; diweddiad, terfyniad, dybeniad, peidiad, peidiant, cload, dybendod.

At the expiration of the year—yn niwedd y flwyddyn; yn mhen y flwyddyn; ar ddiwedd y flwyddyn.

At the expiration of ten days—yn mhen deg diwrnod; yn mhen deng niwrnod.

Expire, *v.* (Ll. *expiro*) anadlu allan, chwythu allan; trengu, marw; darfod am dano; ymadael â'r byd; ymadael â'r ysbryd; rhoi i fyny yr ysbryd; darfod, diweddu, dybenu, peidio; myned ar ddim; myned i'r dim; tarthu, mygdarthu, anweddu, ageru, agerddu, tarthain, terthu, terthain, anadlu, alanu, allanadlu.

The day expires—mae y dydd yn darfod; mae y dydd yn trengu; mae y dydd ar drano.

The time is expired—darfu yr amser; deryw yr amser; mae yr amser wedi myned heibio; mae yr amser wedi darfod.

When these days are expired—pan ddarfyddo y dyddiau hyn; pan ddarfo y dyddiau hyn; pan ddarffo y dyddiau hyn.

The days were not expired—ni chyflawnasid y dyddiau eto; ni ddaethai yr amser eto.

After the year was expired—gwedi pen y flwyddyn; gwedi gorphen y flwyddyn; gwedi darfod o'r flwyddyn.

When thy days be expired—pan gyflawner dy ddyddiau di.

When the year was expired—yn mhen y flwyddyn; pan ddarfu y flwyddyn.

After two years fully expired—gwedi dwy flynedd lawn (1 *Mac.* i. 29).

Expiring, *a.* trengol, ar drengu, wrth drengu, yn marw, ar farw, ar drano, wrth farw.

Explain, *v.* (Ll. *explano*) egluro, eglurhau, amlygu, esbonio, deongli, deongl, deonglyd; dangos, dattod, agoryd, egori, ysblana.

Explainable, *a.* (Ll. *explanabilis*) egluradwy, amlygadwy, esboniadwy.

Explainer, *s.* eglurwr, eglurydd, eglurjedydd, esboniwr, esboniedydd, egluriadur, deonglydd, deonglwr, amlygwr, eglurhäwr.

Explanation, *s.* (Ll. *explanatio*) eglurhad, egluriad, eglurad, esboniad, deongliad; deonglawd, deongl, amlygiad, agoriad; cymmod, cydfod.

Explanatoriness, *s.* egluroldeb, egluriadoldeb, eglurhaoldeb, eglurhaolrwydd, amlygiadoldeb, esboniadoldeb.

Explanatory, *a.* eglurhaol, egluriadol, eglurol, egluradol, amlygiadol, esboniadol, esboniol, agoriadol; yn cynnwys eglurhad.

Expletion, *s.* (Ll. *expletio*) cyflawniad, cyflenwad, adgyflenwad, cwblhad.

Expletive, *a.* (Ll. *expletivus*; Ff. *expletif*) cyflenwol, cyflawnol, cyflawniadol, adgyflenwol, adchwanegol; â roddir i lanw; â fo yn cyflenwi.

Expletive particle—banyn llanw, banyn cyflenwol, geiryn llanw, gair llanw.

Expletive, *s.* gair llanw, gair cyflenwol, cyflanw, caflawn-air, gair tragor: *pl.* cyflawniaid, cyflenwolion, geiriau llanw.

Expletory, *a.* cyflenwol, cyflenwadol, cyflawnol, cyflawniadol.

Explicable, *a.* (Ll. *explicabilis*) egluradwy, esboniadwy, deongliadwy, amlygadwy, agoradwy, dattodadwy; â ellir ei egluro; y gellir cyfrif am dano; dirnadwy.

Explicate, *v. a.* (Ll. *explico*) dadblygu, disblygu; dattod, dadrysu, dad-ddyrysu, dadlenu; egluro, eglurhau, amlygu, esbonio, deongli, agor.

Explication, *s.* (Ll. *explicatio*) dadblygiad, disblygiad; dattodiad, dadrysiad, dad-ddyrysiad; egluriad, eglurhad, eglurad, esboniad, deongliad, amlygiad, agoriad.

Explicative, } *a.* eglurhaol, egluriadol, eglurol,
Explicatory, } amlygiadol, amlygol, esboniadol, esboniol, deongliadol, agoriadol; dadblygol, disblygol, dadlenol.

Explicator, *s.* (Ll.) eglurydd, eglurwr, eglurjedydd, egluriadur, eglurhäwr, esboniwr, esboniedydd, amlygwr, amlygydd, amlygiedydd, deonglwr; dadblygwr, dadblygydd, disblygwr, dadlenwr, dad-ddyryswr.

Explicit, *a.* (Ll. *explicitus*) eglur, amlwg, goleu; pendant, penodol, hysbysol; dïos, dïlys, anamwys, honaid; gwir; claer, agored, digel, dihoced, rhydd; noeth, dïorchudd; dadblygedig, dadblyg, ar led.

Explicit,† *s.* diwedd, terfyn, dyben.

Explicitly, *ad.* yn eglur, &c.; mewn geiriau eglur; mewn geiriau pendant.

Explicitness, *s.* eglurder, eglurdeb, eglured, amlygder, amlygedd, goleuder; pendantrwydd, penodolrwydd, penodoldeb, hysbysoldeb; dïlysrwydd, anamwysedd; claerder; cleuder; honeidrwydd.

Explode, *v.* (Ll. *explodo*) ffrwydro, ysgortio, trwydo, truddo, iorni, beilio; hwtio, wfftio; difrïo, goganu, bychanu, cablu, anghanmawl; gwrthod yn ddirmygus neu yn ddïystyrllyd; taflu ymaith neu fwrw heibio yn ddirmygus; gyru allan drwy si a dwrdd; gyru allan drwy ddirmyg ac anmharch; dryllio, ymddryllio, tori, ymdori.

Exploded, *p. p.* ffrwydredig, &c.; gwrthodedig; wedi myned allan o arfer; wedi ei fwrw *neu* ei yru allan o arfer; wedi myned mewn anarfer.

Exploder, *s.* ffrwydrwr, ffrwydrydd, ysgortiwr, trwydwr; hwtiwr, wfftiwr; bychanwr, goganwr, dirmygwr.

Exploit, *s.* (Ff.) gorchest, gwrolgamp, rhagorgamp, gwiwgamp, dewisgamp, camp, gorug; gweithred orchestol, fawrglod, glodfawr, wiwgof, foneddigaidd, fawrydig, *neu* arddercbog; gwrolwaith, gorchestwaith; anturwaith, antur; peth mawr aruthrol; gorchestedd.

Exploits — gorchestion; gweithredoedd gorchestol, gweithredoedd, gorugiau.

A doer of exploits—gorchestwr, campwr, anturiwr, gwneuthurwr gorchestion, rhagorgampwr.

To perform an exploit — gorchestu; gwneuthur gorchest, &c.

Heroic exploit—gwrolgamp, gwronwaith, gwronawd, gwrolwaith, gorchest arwrol, gwrial.

Exploit,† *v. a.* gwneuthur, cyflawnu, gorchestu.

Explorate, *v. a.* (Ll. *exploro*)=*Explore.*

Exploration, *s.* (Ll. *exploratio*) fforiad, ysbeiorad, chwiliad, chwilfa, manylgais, ymofyniad, peithiad, ysbeithiad, ysbeiant, ysbeiawd, ysbeiad, ysbïad, peithiant, peithawd, selltiad, sylwy; meinholiad, holiad, manwl chwiliad; profiad, prawf.

Explorator, *s.* (Ll.) fforiwr, fforiedydd, ysbeior, ysbeithiwr, peithiwr, ysbeiennwr, selltwr, syllwr, selwr, peithor, chwiliwr, chwiliedydd, dyfal ymofynwr, manylgeisiwr, meinholwr; chwilior.

Exploratory, *a.* fforiol, fforiadol, ysbeiorol, ysbeithiol, peithiol, peithiannol, peithiannus, peithiadol, peithorol; chwiliadol, ymofynol, holiadol, profol.

Explore, *v. a.* (Ll. *exploro*) fforio, ysbeio, ysbeiori, ysbeithio, peithio, peithori, selltu, selu, ysbeienna; chwilio, craff chwilio, dyfal chwilio, chwilota, chwilena, ymofyn, holi, meinholi, profi, osio; gwneuthur prawf ar; cael allan drwy fanwl chwiliad *neu* ddyfal ymgais; canfod drwy ddyfal ymgais *neu* fanwl chwiliad.

Explorement, *s.* fforiad, ysbeiorad, peithiad, ysbeithiad; chwiliad, holiad, ymchwil, ymchwiliad.

Explorer, *s.* fforiwr, fforiedydd, ysbeior, peithiwr, peithor, ysbeithiwr, selltwr, ysbeiwr, ysbeiennwr, ysbeiedydd, syllwr, selwr, seiydd; chwiliwr, chwiliedydd, dyfal ymofynwr, manylgeisiwr, holwr, meinholwr; profwr.

Explosion, *s.* (Ll. *explosio*) ffrwyd, ffrwydrad, ysgortiad, ysgort, trwydiad, truddad, iornad, ergyd; gyriad allan drwy si a dadwrdd; trwst, twrdd, twrf, swn, *neu* ruad ergyd o ddryll; trwyd, trudd, iorn, ffrwch, wff, rhuthr; ymddrylliad disymmwth.

Explosive, *a.* ffrwydrol, ysgortiol, trwydol, truddol, trystiol, ymddrylliol, ffrychiol; â bair ffrwydrad.

Expoliation, *s.* (Ll. *expoliatio*) ysbeiliad, anrheithiad, ysglyfaethiad.

Expolish,† *v. a.* (Ll. *expolio*)=*Polish.*

Exponent, *s.* (Ll. *exponens*) mynegai, mynegor, mynegydd; mynegrif.

Exponential, *a.* mynegeiol, mynegol, mynegol, mynegorol, mynegrifol, dangosol.

Ex-pope, *s.* allbab, esbab; pab diorseddog, pab diorseddedig, pab diswyddedig.

Export, *v. a.* (Ll. *exporto*) anfon allan; allfori, allborthi, allgludo, trawgludo, trosglwyddo allan, trosglwyddo, trosfori, mordrosi; anfon allan o'r wlad i'w werthu.

Export, *s.* allforiad, allgludiad, trawgludiad; allborthiad; allnwydd, allglud, trawglud; nwydd à anfoner i orwlad.

Exports and imports—allforion a dadforion; allgludion ac atgludion; trawgludion ac atgludion; yr hyn a anfonir allan, a'r hyn a ddygir i mewn; y maint à anfonir allan, a'r maint à ddygir i mewn; allgludiad ac atgludiad.

Export-trade—masnach allforol, trafnid trosforol, trafnid allforion; masnach mewn nwyddau à anfonir allan.

Exportable, *a.* allforadwy, allgludadwy, allborthadwy; à ellir ei anfon allan.

Exportation, *s.* (Ll. *exportatio*) allforiad, allgludiad, trawgludiad, trosglwyddiad allan, anfoniad allan, allborthiad, trosforiad, mordrosiad; anfoniad i orwiad i'w werthu.

Exporter, *s.* allgludwr, allgludydd, allforiwr, anfonwr allan, anfonydd allan, allborthwr; gwerthwr dros fôr.

Exposal,† *s.* (o *expose*)=*Exposure.*

Expose, *v. a.* (Ff. *exposer*; Ll. *expono, expositum*) dynoethi, amlygu, arnoethi, noethi, diorchuddio, digelu, annirgelu; dadlenu, dilenu; rhoi mewn golwg; rhoi mewn goleuni; dwyn i'r goleu, i'r goleuni, i'r golwg, *neu* i'r amlwg; gwneuthur yn amlwg; gwneyd yn amlwg i bawb; dangos yn ngwydd pawb; dangos, dadguddio, dadenhuddio, dadencuddio, dihuddo, cyhoeddi; dangos ar gyhoedd; egori, agor; gwneuthur yn agored; ffedu, dysbelio, hoeddi, hoethi; darostwng, gwneuthur yn ddarostyngedig; tynu *neu* ddwyn peth ar; gwneuthur un yn wrthrych peth; gosod, rhoddi, gwneuthur; peryglu, arberyglu; gwaradwyddo; bwrw ar ddamwaen; cynnyg.

To expose to danger—peryglu, arberyglu, pydio; rhoi *neu* osod mewn perygl; dwyn *neu* arwain i berygl.

To expose one's self to danger—ymberyglu, ymbydio; gosod ei hun mewn perygl; peryglu ei hunan.

To expose one's self to laughter — peri chwerthin am ei ben ei hun; peri chwerthin am ei ben; gwneuthur ei hun yn watwargerdd; gwneuthur ei hun yn watwargyff; gwneuthur ei hun yn gyff gwawd; gwneuthur ei hun yn wrthrych gwawd; gosod ei hun yn gyff cler.

To expose to sale—gosod ar werth; rhoddi ar werth; cynnyg ar werth.

To expose to shame—dwyn cywilydd *neu* warth ar; cywilyddio, gwaradwyddo, gwarthruddo; gwneuthur *neu* beri yn gywilyddus.

To expose to reproach—gwneuthur *neu* osod yn waradwydd; gwneuthur *neu* osod yn warth; gwneuthur *neu* osod yn warthrudd.

To expose to view—rhoi *neu* osod ger bron; rhoi *neu* osod yn ngwydd pawb; rhoi *neu* osod ger bron pawb; dangos ar gy-

hoedd; dwyn i'r amlwg, i'r goleuni, i'r goleu, *neu* i'r golwg.

To expose one—dïarebu un; dynoethi un.

To expose a child—rhoi, gosod, *neu* fwrw plentyn allan mewn perygl; gadael plentyn i ddamwaen; bwrw plentyn ar ddamwaen; gadael plentyn; gadael plentyn mewn perygl darfod am dano; hoeddi plentyn.

From all dangers to which he may be exposed—rhag pob peryglon y dichon efe fod yn eu hergyd; rhag pob peryglon y dichyn efe fod o fewn eu hergyd.

Expose, *s.* (Ff.) eglurhad, egluriad, amlygiad, agoriad; adroddiad ffeithiau a rhesymau er eglurhad.

Exposed, *p. p.* dynoethedig, &c.; noeth, amlwg, agored, egored, arnoeth, dïorchudd, dysbeliog, hoedd, hoeddus, cyhoeddus, llwm, bledd, noethlwm.

An exposed child—plentyn à fwrier allan tàn berygl darfod am dano; plentyn dynoethedig, &c.; plentyn gadael; plentyn à fwriwyd ar ddamwaen.

Exposedness, *s.* noethedigrwydd, dynoethrwydd, amlygedigrwydd, noethni, dynoethni, dynoethedd, arnoethedd, agoredrwydd, egoredigrwydd.

Exposer, *s.* dynoethwr, dynoethydd, noethwr, dïorchuddiwr, dadguddiwr, &c.

Exposition, *s.* (Ll. *expositio*) eglurhad, egluriad, eglurad, esboniad, amlygiad, deongliad, deonglawd, deongl, agoriad, egoriad; lladmeriaeth; dynoethiad, dïorchuddiad, dangosiad, arddangosiad, cyhoeddiad, hoeddiad, dadguddiad, dadencuddiad, dadenhuddiad, dadleniad; dygiad i'r goleuni; gwneuthuriad yn gyhoedd; sefyllfa, safle; bwriad allan.

Exposition of a child—bwriad plentyn allan mewn perygl; gadawiad plentyn; bwriad plentyn ar ddamwaen.

Expositive, } *a.* eglurhaol, egluriadol, eglurol,
Expository, } amlygol, esboniadol, esboniol, agoriadol.

Expositor, *s.* (Ll.) eglurydd, eglurwr, egluriadur, egluriedydd, eglurhäwr, esboniwr, esboniedydd; deonglwr, deonglydd, lladmer, lladmerydd; eglurhad.

Family expositor—esboniwr teuluaidd; egluriadur teuluol; esboniadur teulu.

Expostulate, *v. n.* (Ll. *expostulo*) ymliwied, ymliw, ymliwio, cyfymliw; ymresymu, ymddadleu, ymddadlu, rhesymu.

Expostulation, *s.* (Ll. *expostulatio*) ymliwiad, ymliw, cyfymliw, cyfymliwiad; ymresymiad, rhesymiad, ymddadliad; cyfymliw am beth à wneler; achwyn, ymachwyn, ymachwyniad.

Expostulator, *s.* ymliwiedydd, ymliwydd, ymliwiwr, ymachwynwr; ymresymwr, ymresymydd.

Expostulatory, *a.* ymliwol, ymliwiol, ymliwaidd, cyfymliwol, ymachwynol, achwynol; ymresymol, dadleuol.

Exposure, *s.* (o *expose*) dynoethiad, noethiad, arnoethiad, amlygiad, dïorchuddiad, dadguddiad, digeliad; rhoddiad *neu* osodiad yn yr amlwg; rhoddiad *neu* osodiad yn ngolwg pawb; gwneuthuriad yn agored *neu* ddarostyngedig; bwriad allan mewn perygl; darostyngiad i berygl; hoeddiad, hoeddawd, hoethawd, arberygliad, perygliad; gosodiad yn noeth *neu* agored; cyflead; sefyllfa, safle; sefyllfa agored; cyflwr dïorchudd; noethni, noethder; bod yn agored.

To have a southern exposure—gwynebu ar y deheu; bod â'i wyneb ar y de.

Expound, *v. a.* (Ll. *expono*) egluro, eglurhau, esbonio, amlygu, agor, egori, agoryd, dattod, deongli, deongl, deonglyd, lladmeru; dirnad, dirnadu; hysbysu *neu* ddangos arwyddocâd; gosod allan ddeall *neu* ystyr; mynegu; chwilio.

Expounder, *s.* esboniwr, eglurwr, egluryddd, egluriedydd, deonglwr, amlygwr.

Ex-president, *s.* diweddar lywydd; un à fu lywydd; llywydd heb fod yn ei swydd.

Express, *v. a.* (Ll. *expressum*, o *exprimo*; Ysp. *expresar*) mynegu, adrodd, dadgan, traethu, treithu, amlygu, hysbysu, ysbysu, dywedyd, gweyd, gwedyd, dweyd, goedyd, llafaru, llefaru, yngan; arddangos, dangos, gosod allan; darlunio, arlunio, paentio, delweddu; dynodi, nodi, arwyddo, arwyddocäu; enwi; gwasgu, gwryfio, gwasgu allan; tynu allan.

To express one's mind—dywedyd ei feddwl; dangos ei feddwl; mynegu ei ofeg; traethu ei feddwl; amlygu ei feddwl.

To express one's self—dywedyd, gwedyd, gweyd, dweyd, llefaru, llafaru, traethu; amlygu ei hun; dywedyd, dangos, dadgan *neu* draethu ei feddwl; amlygu ei feddwl; gosod ei feddwl allan; hysbysu ei feddwl.

I cannot express it in words—nis gallaf mo'i gynnwys mewn geiriau; nis gallaf mo'i amgyffred mewn geiriau; nis gallaf mo'i droeglwyddo mewn geiriau; nis gallaf ei draethu mewn geiriau.

Express, *a.* (Ll. *expressus*) eglur, amlwg, goleu; pendant, hysbysol, hysbys, ysbys, ysbysol; gwir, dïos, dïlys, diau, diammheu, sicr; croew; anamwys; neilltuol, penodol, penodedig; cywir, trwyadl.

Express train—cludres frys, brys gludres, brysgludres, cludres gyflymred, cludres fuanred, brysgenadres.

The express image of his person—gwir lun ei berson ef (*Heb.* i. 3).

They made an express image of a king—gwnaethant wir ddelw brenin; hwy a wnaethant hynod ddelw brenin (*Doeth.* xiv. 17).

Express, *s.* brysgenad, brysiadur, cenad gyflymred, cenad; brysgenadwri, brysneges, brysgenadaeth, cenadwri.

Expressed, *p. p.* mynegedig, adroddedig, traethedig, dadganedig, hysbysedig; gwasgedig, gwryfiedig; à wasgwyd allan.

Expressed oils—olewon gwasgedig, gwasgolewon.

Expressible, *a.* mynegadwy, traethadwy, treithadwy, adroddadwy, dadganadwy, hydraeth, hydraith, llefadwy; à ellir ei fynegu; darluniadwy, hylun; à ellir ei ddarlunio; gwasgadwy, gwryfiadwy.

Expression, *s.* (Ll. *expressio*) mynegiad, mynegiant, traethiad, treithiad, adroddiad, dadganiad, amlygiad, dywediad, gweiad; gair, ymadrodd; dull ymadrodd, ffurf ymadrodd; traith, mynag; geiriad, llafariad, llefariad; llafar, llafarddawn, lleferydd, goddeg, parabl, eb; ebiaith; dangosiad, arddangosiad; arddangosiad bywiog; dar-

luniad, dyluniad; gwasgiad, gwryfiad, gwasg, ymwasg.

Ominous expression—gair rhamant, ymadrodd rhamantus, gair argoeliog.

Obscene expression—serthair, gair serth, ymadrodd serthus, ymadrodd serth, gair budr, sertheb.

Expression of the eye—lleferydd y llygad.

Malignant expression—gair athryfar, ymadrodd dryganianol, gair dryganianus.

Expressionless, *a.* difynag, difynegiad; heb fynegiad, &c.

Expressive, *a.* mynegol, mynegiadol, mynegiannus, mynegiannol, treithol, traethol, amlygol, amlygiadol; cryf, cryfeiriog, dwys, grymus, cynnwysfawr, pwysig, pwysfawr, dwys-eiriog, dwys-eiriedig; darluniadol, darluniol; arddangosol, dangosol; hyrym, nerthol, nerthfawr, nerthog; ystyrbell, ystyrfawr, ystyrlawn.

Expressively, *ad.* yn fynegol, &c.; yn llawn; yn ddwys; yn eglur, yn amlwg, yn oleu.

Expressiveness, *s.* mynegoldeb, traetholdeb, traetholrwydd, amlygolrwydd; grym, grymusrwydd, hyrymedd, nerthfawredd, pwysigrwydd, dwysder; lleferydd; grym mynegol; grym i arddangos.

Expressly, *ad.* yn eglur, yn amlwg, yn oleu; yn bendant, yn benodol, yn hysbys, yn groew, yn ddwys; mewn geiriau eglur.

Expressly named—à enwyd wrth ei enw; gwedi ei enwi wrth ei enw; hysbysedig wrth *neu* erbyn ei enw; gwedi ei hysbysu wrth *neu* erbyn ei enw.

Expressness, *s.* eglurdeb, eglurder, amlygder; pendantrwydd, penodoldeb, penodolrwydd, hysbysdod.

Expressure, *s.* mynegiad, mynegiant, mynegiaeth, traethiad, dadganiad, adroddiad, amlygiad, dywediad; ymadrodd, gair; lleferydd, llafarddawn, goddeg; arddangosiad; nod, argraff, ol; gwasgiad.

Exprobrate, *v. a.* (Ll. *exprobro*) edliw i, edliwied i, edliwio i, lliwied i, cyfedliw i, lliwio i, cyfedliwio i, cyfliwo i, cyfliwio i, dannod, dannod i; ymliwied âg, ymliw âg; wfftio; beio, senu, bwrw bai ar; collfarnu.

He exprobrated their stupidity — efe a ddannododd *neu* a edliwiodd iddynt eu hurtrwydd.

Exprobration, *s.* (Ll. *exprobratio*) edliwiad, edliwiant, lliwiant, edliw, dannod, dannodiad, dannodiaeth.

Exprobrative, *a.* edliwiol, edliwiannol, dannodol, cyfedliwiol, ymedliwiol, cyfymliwiol, lliwiannol.

Expropriate, *v. a.* (Ll. *ex* a *proprius*) arallu, trosi; dadbriodoli, annaerodi, anmherchenogi, dadberchenogi; rhoi hawl i fyny.

Expropriation, *s.* aralliad, trosiad; dadbriodoliad, annaerodiad, anmherchenogiad, dadberchenogiad; rhoddiad hawl i fyny.

Expugn, *v. a.* (Ll. *expugno*) gorchfygu, goresgyn, goresgynu, gorthrechu, gorfod, gorfod ar, trechu; cael gorfod ar; cael y maes ar; ennill drwy gyrch; ennill drwy ddewredd a nerth arfau; cymmeryd drwy gyrch; ymlid allan.

Expugnable, *a.* gorchfygadwy, goresgynadwy, trechadwy, gorthrechadwy, ennilladwy; à ellir ei ennill; hawdd ei ennill.

Expugnation, *s.* (Ll. *expugnatio*) gorchfygiad, goresgyniad, goresgyn, gorthrechiad, trechiad, buddugoliaeth, goruchafiaeth; ennilliad *neu* gymmeriad drwy gyrch; ennilliad drwy ddewredd a nerth arfau.

Expugner, *s.* gorchfygwr, gorchfygydd, goresgynwr, gorthrechwr, darostyngwr, cywarsangydd.

Expulse, *v. a.* (*Ff. expulser*; Ll. *expulsus*, o *expello*) gyru allan, bwrw allan, taflu allan, gwthio allan, ffwyro, tarfu, cythu, cothi, esbelio, ysbelio, yffio, ymlid allan; deol.

Expulsion, *s.* (Ll. *expulsio*) gyriad, bwriad, tafliad, *neu* wthiad allan; gyriad, bwriad, tafliad, *neu* wthiad ymaith; ymlidiad allan *neu* ymaith; ymlidiad, esbeliad, ysbeliad, ysbel, ffwyrad, tarfiad, cythiad, cothiad, yffiad, ffwyr.

Expulsive, *a.* à yro allan; à yro ymaith; gyriadol, ymlidiol, ysbeliadol, ffwyrol, tarfol, tarfus, cythol, cothol, yffiol; o rinwedd i yru allan; à ynddo *neu* à chanddo rinwedd i yru allan; à ddichon yru allan *neu* ymaith; à eill yru allan *neu* ymaith.

Expunction, *s.* (Ll. *expunctio*) dilead, difodiad; croesiad allan, crafiad ymaith.

Expunge, *v. a.* (Ll. *expungo*) dilëu, difodi, diddymu; croesi allan, tynu allan, crafu ymaith; dïoli, dadolio, dadlythyru; rhwbio ymaith; bwrw allan, bwrw ymaith; dystrywio, dinystro.

Expurgate, *v. a.* (Ll. *expuro*) puro, glanhau, coethi, pureiddio, puriannu, puredigo, dyburo, pureiddio, carthu, ysgarthu, dysgarthu, ysgoethi.

Expurgation, *s.* (Ll. *expurgatio*) purad, puredigaeth, glanhad, purawd, puriant, pureiddiad, dyburad, coethiad, carthiad, ysgarthiad, dysgarthiad; arllwysiad, ymarllwysiad.

Expurgator, *s.* (Ll.) purwr, puriedydd, puryddd, puriannwr, dyburwr, glanhäwr, puror, coethwr, coethiedydd, ysgarthydd.

Expurgatorious, } *a.* purol, puredigol, purian-
Expurgatory, } nol, puriannus, pureiddiol, glanhaol, coethol, coethedigol, dyburol, puredigaethol, pureiddiedigol, coetheiddiol, ysgarthol, carthol, carthedigol, glanweithiol; o rinwedd i lanhau *neu* garthu; âg ynddo *neu* à chanddo rinwedd i garthu *neu* lanhau.

Expurgatory index, } y gofres waharddIndex expurgatory, } edig; y gofres warddedig; ysgarthres, carthres.

Expurge,† *v. a.* (Ll. *expurgo*) puro, glanhau, carthu, ysgothi.

Exquire,† *v. a.* (Ll. *exquiro*) chwilio; ymofyn am, ymofyn i; chwilio allan.

Exquisite, *a.* (Ll. *exquisitus*) rhagorol, godidog, odiaeth, od, tragorol, tra rhagorol, arddechog, dewisol, detholedig, etholedig, dethol, ethol, gorddethol, dichlyn, hynod, dewisedig; manwl, manol, dillyn, destlus, llednais, nais, cynnil, cywrain, cywraint, cywreinwych, celfydd, cywir, cywair, cyflawn, perffaith, trylwyr, perffeithgwbl, cyfrben, cyfrgwbl; eithaf, dygn, llym, dwys; à deimlir yn ddwys; bywiog.

Exquisite pain—dygn boen, poen ddygn, eithaf poen, poen i'r eithaf.

A person of an exquisite wit — dyn tra ffraethlym ei synwyr.

There is an exquisite subtilty—y mae cyf-

rwysdra diwyd (*Eccles.* xix. 25).

Exquisite, *s.* coegyn, ysgoegyn, ysgogyn, mursyn, coegwr.

Exquisitely, *ad.* yn rhagorol, &c.; hyd eithaf oelfyddyd.

Nothing exquisitely—dim yn rhagorach na'r cyffredin; nid dim rhagorach na'r cyffredin.

Exquisiteness, *s.* rhagoroldeb, rhagorolrwydd, tragoroldeb, godidogrwydd; manyldeb, manylrwydd, manylder, cywreinrwydd, neisrwydd, destlusedd, destlusrwydd, dillynder, dichlynrwydd, dichlynedd, perffeithrwydd; dygnedd, llymder, llymdra, dwysder, eithafedd.

Exquisitive,† *a.* chwilfrydig, chwilgar, ymchwilgar, cywrain.

Exsanguinity, *s.* (Ll. *exsanguis*) diwaedogrwydd, anwaedogrwydd, anwaededd, diwaedrwydd.

Exsanguious, **Exsanguineous**, **Exsanguinous**, *a.* (Ll. *exsanguis*; o *ex* a *sanguis*, gwaed) diwaed, heb waed, anwaedog; heb waed coch, digochwaed.

Exscind, *v. a.* (Ll. *exscindo*) tori ymaith, tori ffwrdd.

Exscribe,† *v. a.* (Ll. *exscribo*) adysgrifenu, adysgrifo, cyfysgrifo.

Exscript,† *s.* (Ll. *exscriptum*) adysgrif, adysgrifen, cyfysgrif, cysgrif.

Exsection, *s.* (Ll. *exsectio*) toriad ymaith, toriad ffwrdd, toriad allan, trychiad.

Exsert, **Exserted**, *a.* (Ll. *exsero*, *exertus*) yn sefyll allan; prwysol, prwysiadol, ysgythol, tyddfol.

Exsertile, *a.* prwysadwy, ysgythadwy; à ellir ei wthio allan.

Exsiccant, *a.* (Ll. *exsiccans*) sychol, dysychol, sychiannol, sychiadol, tarnol, sychedigol; yn sychu; dyhysbyddol.

Exsiccate, *v. a.* (Ll. *exsicco*, *exiccо*) sychu, dysychu, sychiannu, sychiadu, tarnu; gwneuthur yn sych; sychu i fyny.

Exsiccation, *s.* sychiad, sychiant, dysychiad, dysychiant, tarniad; tarthiad.

Exsiccative, *a.* sychol, sychiannol, dysychol, sychiadol, sychedigol, tarnol; à dueddo i sychu.

Exspuition, *s.* (Ll. *expuitio*) poeriad, poeriant, poerad, haliwiad.

Exstipulate, *a.* (Ll. *ex* a *stipula*) heb isddail, anniseddeiliog.

Exsuccous, *a.* (Ll. *exsuccus*) disug, disudd, ansugog, dinodd, disugn, sych.

Exsuction, *s.* (Ll. *exsugo*) sugnad, sugniad, essugniad, sugnad allan.

Exsudation, *s.* (Ll. *exsudo*) chwysiad, dychwysiad, chwysiad allan; meriad, deigyniad.

Exsude, *v.* (Ll. *exsudo*) chwysu, dychwysu; deigynu, meru, dyhidlo, tarddu; llifo yn chwys.

Exsufflation, *s.* (Ll. *ex* a *sufflo*) eschwythiad, tanchwythiad; chwythiad oddi tanodd.

Exsufflate, **Exsufflicate**, † *a.* (It. *soffolar*, yn ol *Johnson*; *sufolare*?) dirmygus, tremygus.

Exsuscitate, *v. a.* (Ll. *exsuscito*) deffröi, deffro, dihuno; cyffröi, cynhyrfu.

Exsuscitation,† *s.* deffroad, dihunad; cyffroad, cynhyrfiad.

Extance,† *s.* (Ll. *extans*) hanfod allanol.

Extancy, *s.* (Ll. *extans*, *exstans*) uchgodiad; derchafiaeth uwch ereill; codiad, derchiad, derchawd; rhanau yn codi uwch y lleill.

Extant, *a.* (Ll. *exstans*, *extans*) yn bod, mewn bod, yn hanfod, yn hanfodi, mewn hanfod, ar gael, ar glawr, i'w gael; hanfodedig, hanfodol; presenfodol, yn gorsefyll; yn sefyll allan, yn sefyll uwch law.

To be extant—bod, hanfod, hanfodi, bodoli; aros; bod yn bod; bod mewn bod; bod yn hanfod; bod ar gael; bod ar glawr; bod i'w weled heddyw; bod yn aros hyd heddyw.

Extasy, *s.* (Gr. *ecstasis*)=*Ecstasy*.

Extatic, *a.*=*Ecstatic*, *Ecstatical*.

Extemporal, **Extemporanean**, *a.* { *Extemporaneous*. *Extemporary*.

Extemporaneous, **Extemporary**, *a.* (Ll. *extemporaneus*, o *ex* a *tempus*) difyfyr, diragfyfyr, diefrydol, diefryd, rhygomiol; disyfyd, disymmwth, diannod, diattreg; à wneir, à gyfansoddir, *neu* à drachhir heb ragfyfyrdod; heb ei ragfyfyrio; heb ei ystyried yn mlaen llaw.

Extemporaneously, **Extemporarily**, *ad.* yn ddifyfyr, &c.; heb ragfyfyr, heb ragfyfyrdod, heb fyfyrdod; fel y del ar ei dafod; fel y del i'w feddwl.

Extemporaneousness, **Extemporiness**, *s.* difyfyredd, diragfyfyredd, diefrydedd, diragfyfyrdod, anfyfyrioldeb, rhygomioldeb.

Extempore, *ad.* (Ll.) yn ddifyfyr, yn ddiragfyfyr, yn ddiefrydol; heb ragfyfyrdod, heb fyfyrdod, heb ragfeddwl; yn ddisyfyd, yn ddisymmwth, yn ddiattreg, yn ddiaros, yn ddiannod; yn y màn; allan o law; fel y del ar ei dafod; fel y del i'w feddwl.

To speak extempore — llafaru *neu* ymadroddi yn ddifyfyr, &c.; rhygomio; diefrydebu, difyfyrebu, difrydebu.

Extempore preaching—pregethu difyfyr, pregethu diragfyfyr, pregethu rhygomiol.

Extemporize, *v. n.* llefaru yn ddifyfyr; ymadroddi yn ddiragfyfyr; rhygomio; diefrydebu, difyfyrebu, difrydebu; dywedyd yr hyn a ddel gyntaf i'w feddwl; dywedyd yr hyn à ddel gyntaf ar ei dafod.

Extemporizer, *s.* rhygomiwr, rhygomiedydd, llefarwr difyfyr, llafarydd diragfyfyr, difyfyrebwr.

Extend, *v.* (Ll. *extendo*; Ff. *étendre*) estyn, ystyn, estynu, ystynu, estyn allan; ymestyn, ymystyn; hwyhau, parhau, cyrhaedd, cyrhaeddyd, cyrhaeddu; eangu, ehangu, helaethu, togi, angu, darestyn, lledu, taenu, arledu, llydanu, lledaenu, rhythu, agor, egori; mwyhau; gohirio; rhoddi, rhoi, ystofi; cyrhaedd hyd.

To extend itself—ymestyn, ymystyn; ymledu, ymdaenu, ymledaenu, ymrythu, ymagor; ymgyrhaedd, ymgyrhaeddyd.

To extend over — gorestyn, gorestynu, estyn dros.

To extend to—cyrhaedd i, cyrhaedd at, cyrhaedd hyd at; myned hyd at.

And hath extended mercy unto me—ac a barodd i mi drugaredd (*Ezra* vii. 28).

My goodness extendeth not to thee— fy na nid yw ddim i ti (*Salm* xvi. 2).

Extendant, *a.* taen, taenedig (mewnherodraeth).

Extended, *p.p.* estynedig, &c.; estyniog, ystyniog.

Extender, *s.* estynwr, estynydd, ystynwr, ystynydd, eangwr, lledwr, helaethwr.

Extendible, } *a.* estynadwy, ystynadwy; eang-
Extensible, } adwy, helaethadwy; à ellir ei estyn; estynol, ystynol, hyled.

Extendlessness,† *s.* estyniad diderfyn.

Extensibility, } *s.* y cyflwr *neu* yr ansawdd o
Extensibleness, } fod yn estynadwy; hylededd, estynedd, hyestynedd, estynoldeb, ystynolrwydd.

Extensile, *a.* estynadwy, eangadwy, helaethadwy, lledadwy.

Extension, *s.* (Ll. *extensio*) estyniad, ystyniad, estynedigaeth; eangiad, helaethiad, lledíad, taeniad, arlediad, lledaeniad, llydaniad; ymestyniad, ymystyniad, ymlediad, ymrythiad, ymeangiad; cyrhaedd, amgyrhaedd.

Extentional,† *a.* estynfawr.

Extensive, *a.* (Ll. *extensivus*) helaeth, eang, ehelaeth, llydan, estynol, ystynol; mawr, maith; angdde, ang, angol; cyrhaeddfawr, cyrhaeddbell, amgyrhaeddol; yn cyrhaedd yn mhell; estynadwy, hyled.

Very extensive—dirfaith, mawrfaith, tra maith, maith iawn.

Extensiveness, *s.* helaethrwydd, helaethder, helaethdra, eangder, eangrwydd, ehelaethrwydd, ehelaethder, estynoldeb, ystynolrwydd, llydander, llydanrwydd, llydanedd, meithder, meithdra, meithrwydd, meithni, amgyrhaedd, amgyrhaeddiad, cyrhaedd, cyrhaeddiad, ymlediad. [estynol.

Extensor, *s.* (Ll.) estynor, englyweth, cyhyr

Extent, *s.* (Ll. *extentus*) helaethrwydd, helaethder, helaethdra, eangder, eangrwydd, ehelaethrwydd, ehelaethder, cyrhaeddiad, cyrhaedd, amgyrhaedd, amgyrhaeddiad, meithder, meithdra, maint, angder; hyd a lled; hyd; estyn, ystyn, gafael, gafaeliad, gorestyn, estyniad.

Of great extent=*Extensive.*

Of small extent—cyfyng, cul, aneang, anhelaeth, cyrhaeddfyr; heb gyrhaedd yn mhell; bychan ei derfynau; bychan.

The extent of a country—cyrhaedd gwlad, amgyrhaedd gwlad; terfynau gwlad; helaethrwydd gwlad.

A large extent of ground—gwlad o dir; cyfran helaeth o dir.

This is beyond the extent of his capacity—y mae hwn uwch mesur ei ddeall ef; y mae hwn tu hwnt i gyrhaedd ei ddeall ef; mae hwn allan o'i ddeall ef.

An extent of land for debt—gafaeliad tir am ddyled.

Extent fee—gobr estyn.

Extent, *a.* estynedig, ystynedig, estyniog.

Extenuate, *v. a.* (Ll. *extenuo*) lleihau, ysgafnhau, bychanu, eiddilo; teneuhau, teneuo, culhau; esgusodi; gwneuthur yn llai.

Extenuation, *s.* (Ll. *extenuatio*) lleihad, lleiad, ysgafnhad, eiddilad, eiddiliad, bychaniad; toliad, teneuad, teneuhad, culhad; esgusodiad; eiddileb.

Extenuatory, *a.* lleihaol, ysgafnhaol; teneuol, teneuhaol; esgusedigol, esgusodedigol; à leihao fai.

Exterior, *a.* (Ll.) allanol, allan, oddi allan, o'r tu allan, nesaf allan, ermaes, y tu maes; tramor, pellenig.

The exterior form—y wedd oddi allan; y ffurf allanol.

The exterior court—y cyntedd nesaf allan.

The exterior relations of a kingdom—perthynasau tramor teyrnas; cyssylltiadau allanol teyrnas; perthynasau *neu* gyssylltiadau teyrnas â gwledydd ereill; amsudiau teyrnas.

The exterior part of the temple was finely gilt—y deml o'r tu allan a oreurasid yn hoewych; goreurasid y tu allan i'r deml yn hoewych.

Exterior, *s.* y tu allan; yr wyneb allan, y gwyneb allanol, y tu maes, yr ymddangosiad allanol; ymddangosiad.

Exteriority, *s.* allanoldeb, allanolrwydd; arwyneb, arwynebedd, gwyneb, wyneb allan.

Exteriorly, *ad.* oddi allan, y tu allan, o'r tu allan; yn allanol; maes, allan.

Exteriors, *s. pl.* allanolion, allanion; y rhanau oddi allan; y pethau oddi allan; pethau *neu* ranau allanol.

Exterminate, *v. a.* (Ll. *extermino*) diwreiddio, dadwreiddio; llwyr ddinystro, llwyr ddifa, llwyr ddyfetha, llwyr ddilëu; tynu o'r gwraidd; gyru ymaith, gyru allan, bwrw allan, tori ymaith, deol, alltudio; gyru dros y terfyn; gyru ar herw; cymmeryd ymaith, ymeithu.

Extermination, *s.* (Ll. *exterminatio*) diwreiddiad, dadwreiddiad; llwyr ddinystrad, llwyr ddyfethiad, llwyr ddifa, llwyr ddilead; tyniad o'r gwraidd; gyriad allan, gyriad ymaith, bwriad allan; toriad ymaith; cymmeriad ymaith; dystrywiad, dilead, dyfethiad, dinystrad, dinystr; deoliad.

Exterminator, *s.* (Ll.) diwreiddiwr, dadwreiddiwr; dyfethwr, dinystrydd, dystrywiwr, llwyr ddinystrwr, llwyr ddyfethydd.

Exterminatory, *a.* diwreiddiol, dadwreiddiol; difaol, dinystriol, dystrywiol, llwyr ddifaol.

Extermine,† *v. a.*=*Exterminate.*

External, } *a.* (Ll. *externus*) allanol, allan,
Extern, } oddi allan, nesaf allan, o'r tu allan, ermaes, o'r tu maes, y tu maes; tramor, pellenig.

Externality, *s.* allanoldeb, allanolrwydd; canfyddiad allanol.

Externally, *ad.* oddi allan, o'r tu allan, o'r tu maes, oddi maes, o faes, yn allanol; mewn ymddangosiad, yn ymddangosiadol; i'r olwg.

Externals, *s. pl.* allanolion, allanion; y rhanau oddi allan; y pethau oddi allan; peth *neu* ranau allanol; y wedd oddi allan.

Exterraneous, *a.* (Ll. *exterraneus*) tramor, allfro, allfroawl, pellenig, allwlad, arallwlad; o wlad arall.

Extersion, *s.* (Ll. *extersio*) sychiad, rhwbiad, rhathiad; dilead; sychiad *neu* rwbiad ymaith.

Extil, *v. n.* (Ll. *extillo*) dyferu, dafnu, meru, dystyllio, defnynu, deigynu, dosi, dyferu allan, defnynu allan.

Extillation, *s.* dyferiad, defnyniad, dafniad, defnïad, dystylliad, dyhidliad, deigyniad, meriad, dosiad, dyferiad allan.

Extimulate,† *v. a.* (Ll. *extimulo*)=*Stimulate.*

Extimulation,† *s.*=*Stimulation.*

Extinct, *a.* (Ll. *extinctus*) diffoddedig, diffodd; gwedi ei ddiffodd; gwedi diffodd; à ddiffoddwyd; gwedi marw, gwedi trengu; gwedi darfod am dano; difianedig, difian, difanedig; wedi difianu, wedi darfod, wedi pallu, wedi difanu, difflanedig; wedi myned ar ddi-

fancoll ; wedi myned ar ddim *neu* yn ddiddym ; wedi myned ar ddifant ; wedi ymadaw â'r byd ; diddymedig, dileuedig, dile, dirymedig, dirym ; allanfodol ; nad yw mwyach ar gael.

Extinct, *v. a.* diffoddi, diffodd ; taro allan ; dystrywio, dinystrio, dyfetha, difa.

Extinction, *s.* (Ll. *extinctio*) diffoddiad, diffoddiant, diffodd ; diffoddedigaeth ; dyfethiad, dilead, diddymiad, dinystriad, dystrywiad; dinystr, dystryw ; difiant, difianiad ; terfyniad, diweddiad, dybeniad ; tranc, difant, difiant.

Extinguish, *v. a.* (Ll. *extinguo*) diffoddi, diffodd ; taro allan ; cyfarsengu, cadw tanodd ; mogi, mygu ; dilëu, diddymu, llwyr ddifa ; cadw yn guddiedig ; cadw rhag tori allan yn fflam *neu* ffagl ; cysgodi, caddugo, tywyllu, cymylu ; dybenu, diweddu. [adwy.

That cannot be extinguished—anniffoddi-

Extinguishable, *a.* diffoddadwy ; â ellir ei ddiffoddi.

Extinguisher, *s.* diffoddwr, diffoddydd ; diffoddyr, diffoddiadyr.

Extinguisher moss — cwfl-fwsogl, cwfl-fwsogl.

Extinguishment, *s.* diffoddiad, diffoddiant ; diffoddedigaeth ; mogiad, mygiad ; dilead, diddymiad, dyfethiad, difa, dinystriad, dystrywiad ; dybeniad, diweddiad, terfyniad.

Extirp,† *v. a.* (Ll. *extirpo*)=*Extirpate.*

Extirpable, *a.* diwreiddiadwy, dadwreiddiadwy.

Extirpate, *v. a.* (Ll. *extirpo*) diwreiddio, dadwreiddio ; tynu o'r gwraidd ; llwyr ddifa, llwyr ddyfetha, dinystro, dystrywio, llwyr ddinystro ; tori ymaith, tori ffwrdd, symmud ; aballu.

Extirpation, *s.* (Ll. *extirpatio*) diwreiddiad, dadwreiddiad ; tyniad o'r gwraidd ; llwyr ddyfethiad, llwyr ddifa, llwyr ddifiad, llwyr ddyfethiad, dinystr, dystryw, dilead ; toriad ymaith, toriad i ffwrdd, trychiad.

Extirpator, *s.* (Ll.) diwreiddiwr, dadwreiddiwr ; dinystrydd, dyfethwr.

Extol, *v. a.* (Ll. *extollo*) dyrchafu, derchafu, mawrygu, mawrhau, moli, moliannu, clodfori, mawlhau, arfoliannu, darfoliannu, darfoli, dathlu, arwyrain, canmawl, dyrchu, derchu, codi, arddwyre, arddyrchafu.

Extolled, *p. p.* dyrchafedig, &c. ; clodfawr, clodforus, dathlog.

Extoller, *s.* dyrchafydd, derchafwr, mawrygwr, mawrygydd, moliannydd, clodforwr, clodforydd, canmolwr, canmolydd, dyrchafydd clod, darfolwr.

Extorsive, *a.* (Ll. *extorqueo*) treisiol, cribddeiliol, cribddeilus, cribddeiliog, cribddeiliaidd, cymhellol.

Extorsively, *ad.* yn dreisiol, &c. ; trwy drais, trwy gribddail, yn dreisgar.

Extort, *v.* (Ll. *extortus*, o *extorqueo*) gwasgu, gorthrymu, cribddeilio ; mynu ; gwasgu, gwryfio, *neu* nyddu allan ; tynu *neu* fynu allan o anfodd ; tynu peth o anfodd *neu* drwy drais ; dwyn o anfodd ; nyddu allan o anfodd ; mynu gàn un drwy drais *neu* gymhell ; mynu allan o un drwy drais *neu* gymhell ; angheri, edwica.

To extort upon—cribddeilio ; mynu mwy nag à ddylai gàn un ; mynu mwy na'r hyn sy ddyledus gàn un.

He extorted the truth from her—efe a wasgodd, a nyddodd, a dynodd, *neu* a fynodd y gwir allan o honi.

They extorted money from him—hwy a dynasant arian oddi wrtho ; hwy a fynasant arian ganddo.

To extort a kindness from one—mynu cymmwynas gàn un.

Extorter, *s.*=*Extortioner.*

Extortion, *s.* cribddail ; cribddeiliad, cribddeiliawd, cribddeiliodraeth, treisiad, treisiant ; trais, dirdrais, dirdra, gorddwy, gormes, gormail, gorthrwm, gorthrech, gorthrymgais ; myniad *neu* ofyniad mwy na'r hyn fo yn gyfiawn ddyledus ; camdal, camdreth, trathal ; trawsedd ; twyll.

Extortionary, **Extortionate,** **Extortionous,** *a.* cribddeiliol, cribddeiliog, cribddeilus, cribddeiliaidd, treisiol, gormesol, gorthrymol, gorthrymus, gormeilus, gwasgol.

Extortioner, *s.* cribddeiliwr, gorthrymwr, gorthrymydd, treisiwr, treisiad, (*pl.* treisiaid), gormeswr, gormeiliwr, ceisiad, (*pl.* ceisiaid) ; anrheithiwr, ysbeiliwr, ysbeilydd, ysgyflwr ; edwicwr.

Extortious, *a.* (o *extort*) cribddeiliaidd, cribddeiliol, cribddeilus, gorthrymus, gormesol, treisiol, anghyfiawn.

Extra, (Ll.) rhagddawd, yn dynodi *tra, rhy, tros ben, tros, tu hwnt, mwy na, ystra, gor-.*

Extra pay—trathal, rhydal, tâl ystra, tâl dros ben.

Extra-axillar, **Extra-axillary,** *a.* tracheseilol, rhygeseilol.

Extract, *v. a.* (Ll. *extractus*, o *extraho*) tynu ; tynu allan, sugno allan, gwasgu allan, gwryfio allan, tynu o ; pigo allan ; eddygu, deodi, erthynu ; goddilio, godderu ; crynöi, dethol ; tynu o'r gwraidd ; cymmeryd o ; adysgrifo.

To extract a tooth—tynu dant.

To extract the root of a number—chwilio, tynu, treiglo, dwyn, olrhain, *neu* fynu allan wreiddyn rhifedi ; deodi *neu* eddygu gwreiddyn rhif ; erthynu sawdd rhif.

Well-extracted—o waed da ; o waedogaeth dda ; o waedoliaeth dda ; da ei waed ; da ei ach ; diledach, diledryw ; boneddig ; o rieni addwyn *neu* gymmeradwy ; yn dyfod o deulu da ; yn hanu o dylwyth da ; o uchel achau.

Extract, *s.* deawd, eddygawd, erthynawd, ethyniad ; peth à dynwyd allan ; alltra, elltaeth, sylwedd ; dewisran, detholran, rhan, darn, rhaneb, dyfyniad ; crynodeb, crynoad ; †bonedd : *pl.* eddygion, deodion, ethynion, erthynion, erthynolion, pigion, dewision, detholion, dyfynion.

Extraction, *s.* (Ll. *extractio*) tyniad, tyniad allan, dygiad allan, eddygiad, deodiad, erthyniad, ethyniad, deodaeth, eddygaeth ; gwelygordd, gwehelyth, ach, gwaedoliaeth, gwaedogaeth, bonedd, cyff, llinach, ystlynedd, gwaed, achwaed, gwreiddyn, disgyniad ; y cyff *neu* y llwyth y del un o hano.

Extraction of the cube root—trysoddiad ; tyniad, eddygiad, deodiad, *neu* erthyniad trysawdd ; tyniad *neu* chwiliad allan y gwreiddyn trysawdd.

Mean, low, *or* base extraction—lledach, lledryw.

Of a noble extraction—uchelryw, dyled-

ogryw, diledach, diledryw, pendefigryw, pendefigaidd, pendefigol ; boneddig cynnwynol; pendefigol o waed; o waed pendefigaidd; gwedi hanu o bendefigion; o uchel achau; uchel ei achau; pendefigol ei wehelyth ; uchel ei waed; uchelwaed.

Extractive, *a.* tynadwy, eddygadwy, ethynadwy, erthynadwy ; à ellir ei dynu allan.

Extractive, *s.* ethynsawd, eddygnur, eddygwy.

Extractor, *s.* tynwr, tynwr allan, tyniedydd.

Extractor (in midwifery) — tyniedydd, tyniadyr.

Extradictionary,† *a.* (Ll. *extra* a *dictio*) ystrageiriol ; cynnwysedig nid mewn geiriau ond mewn sylweddolion.

Extradition, *s.* (*Ff.*) ystraddodiad; rhoddiad yn ol; rhoddiad i fyny; rhoddiad carcharor i fyny i'r llywodraeth y bo efe yn ddeiliad o honi.

Extrados, *s.* (Ll. *extra* a *dorsum*) ystrachyrfen, ystrachomell: *pl.* ystrachyrfau, ystrachomau.

Extrafoliaceous, *a.* (Ll. *extra* a *folium*) ystradeiliog, allanddeiliog.

Extrageneous, *a.* (Ll. *extra* a *genus*) arallryw, allryw, allrywiol, arallrywiog, ystrarywiol ; perthynol i ryw arall.

Extrajudicial, *a.* (*extra* a *judicial*) allan o reol, chwŷl, *neu* drefn cyfraith ; yn erbyn cyfraith ; anghyfreithiol, anghyfreithlawn, ystrachyfreithiol ; à wnaed allan o lys cyfraith; afreolaidd, anfarn.

Extrajudicially, *ad.* allan o reol cyfraith ; yn erbyn cyfraith ; yn anghyfreithiol.

Extralimitary, *a.* (*extra* a *limit*) tros y terfynau, tros y terfyn; ystratherfynol ; oddi allan i derfynau.

Extramission, *s.* (Ll. *extra* a *missio*) anfoniad allan, danfoniad allan, bwriad allan, yffiad.

Extramundane, *a.* (Ll. *extra* a *mundus*) trabydol, ystrabydol ; oddi allan i derfynau y byd ; o'r tu allan i derfynau y byd; goruwch y byd ; o faes i'r byd ; uchfydol.

Extraneous, *a.* (Ll. *extraneus*) dyeithr, estron, estronol, estronaidd, arallaidd, allfro, arallfro, allwlad, arallwlad, tramor, allfroawl, allwladol ; allanol ; oddi allan, oddi maes ; anmherthynasol, anmherthynol, anmhriodol ; arall.

Extrafficial, *a.* traswyddol, traswyddogol, ystraswyddol ; oddi allan i derfynau swydd.

Extraordinaries, *s. pl.* (Ll. *extraordinarius*) anghyffredinion, anghyffredinolion, anarferolion ; pethau anghyffredin, anarferol, *neu* anghynnefin.

Extraordinarily, } *ad.* yn anghyffredin, yn an-
Extraordinary, } arferol, &c.; tra-, iawn, tros ben ; yn anferth, yn anfeidrol.

The sun was extraordinarily red—yr oedd yr haul yn goch anarferol *neu* anghyffredin ; yr oedd yr haul yn gochach nag arferol ; yr oedd yr haul yn gochach nag y mae yn arfer.

He was extraordinary rich—yr oedd efe yn gyfoethog anghyffredin, &c.; yr oedd efe yn gyfoethog dros ben ; yr oedd efe yn gyfoethog anfeidrol.

She was extraordinary ugly—yr oedd hi yn hagr anferth ; yr oedd hi yn hagr dros ben.

The season was extraordinary cold—yr oedd y tymmor yn oer iawn *neu* yn dra oer ; yr oedd y tymmor yn oer anarferol.

Extraordinariness, *s.* anghyffredinrwydd, anarferoldeb, anarferolrwydd, anghynnefinrwydd, hynodrwydd.

Extraordinary, *a.* (Ll. *extraordinarius*) anghyffredin, anarferol, anghynnefin, annefodol; hynod, hynodol, rhyfedd, rhyfeddol; godidog, ardderchog, rhagorol, odiaeth, od, dros ben ; heb ei fath ; digyffelyb ; da dros ben ; anfynych, odid, odidog ; gwrthwyneb i'r drefn arferedig ; gwrthwyneb i'r dull arferedig ; anghytun â'r drefn *neu* â'r dull arferedig ; mwy, gwell, amgen, *neu* amgenach na chyffredin ; mwy, gwell, amgen, *neu* amgenach nag arferol ; penodol, nodedig, neilltuol.

Extraparochial, *a.* (*extra* a *parochial*) anmhlwyfol ; oddi allan i blwyf ; o'r tu allan i blwyf ; heb fod yn rhan o blwyf ; o'r tu allan i derfynau plwyf ; o faes i blwyf; diblwyf, diblwyfol.

An extraparochial place—lle anmhlwyfol, anmhlwyf, lle anmhlwyf; lle à ysgarwyd oddi wrth ei iawn blwyf.

Extraparochial land—tir anmhlwyfol, tir anmhlwyf; anmhlwyf; tir à ysgarwyd *neu* à wahanwyd oddi wrth ei iawn blwyf.

Extraphysical, *a.* uchanianol, goranianol, arddansoddol, goruchanianol, goruchanian.

Extraprofessional, *a.* ystragalwadol, ystraphroffesol ; heb fod yn perthyn i alwad *neu* alwedigaeth un ; chwanegol i alwedigaeth ; angalwadol.

Extraprovincial, *a.* annhaleithiol, trathaleithiol ; o'r tu allan i dalaeth ; heb fod yn yr un dalaeth ; heb fod o dân yr un archesgob.

Extraregular, *a.* afreolaidd ; na chynnwysir o fewn rheol *neu* reolau.

Extraterritorial, *a.* annhiriogaethol, trathiriogaethol ; o'r tu allan i diriogaeth; oddi allan i derfynau tiriogaeth.

Extratropical, *a.* estrofanol, elltrofaol, trathrofanol ; tu allan i'r trofanau ; oddi allan i'r trofanau ; tu hwnt i'r trofanau.

Extraught,† *p. p.* (o *extract*) tynedig.

Extravagance, } *s.* (Ll. *extra* a *vagans*) rhysedd,
Extravagancy, } gormodedd ; afradlonedd, afradlonrwydd, afradlondeb, afrad, afradlonder, afradiad, gwastraff, rhydraul, oferdraul, gwastraffedd, gwastraffiad, difrod ; afresymoldeb, anrhesymoldeb, afresymolrwydd, anrhesymolrwydd, ynfydrwydd, chwidredd, ffoledd ; anllywodraeth, aflywodraeth ; afreolaeth, afreoledd, afreolusrwydd ; anghymesrwydd, anghymmesuredd, anghymmedroldeb ; gormodiaeth, gormoddiaeth, gormod, gormodd, gormodoldeb ; gwylltineb, gwylltedd, gwylltrwydd; mynediad dros y terfynau; gwib, crwydr, *neu* wylltrediad y meddyliau; dirfawredd ; eithaf, eithafedd ; ymleferydd.

Extravagance of love — trachariad, traserch, rhyserch, rhygariad, trahoffder ; cariad gormodol *neu* afresymol ; gormod cariad.

Extravagant, *a.* (Ll. *extra* a *vagans*) gormodol; afresymol, anrhesymol, direswm ; anghymmedrol, anghymmesur, anghymmesurol, anghymmes ; afradlawn, afradus, afradwy, treulfawr, treulgar, helfawr, gwastraffus, oferdreulgar, difrodus, difrodol, gwastraffol, wttresgar ; afreolaidd, afreolus, aflywodraethus, anllywodraethus, didrefn ; gwyllt,

gwibiog, crwydrol; chwidr, ffol, ynfyd, lledechwyrth; gormod.

Extravagant, *s.* afradlawn, un afradlawn, un afradus; un direol, un afreolaidd, &c.

Extravagant without means—hael byrllawiog.

Extravagantness, } *s.* = *Extravagance.*
Extravagation, }

Extravagants, *s. pl.* Afreolion, Afreoligion =rhyw lythyrau gosodol neu osodiadau o eiddo y papau.

Extravagaza, *s.* (It. *estravagaza*) peth afreolaidd.

Extravagate,† *v. n.* (Ll. *extra* a *vago*) crwydro dros y terfynau; ymleferydd, ynfydu.

Extravasate, *v. a.* (Ll. *extra* a *vas*) ystralestru, dadlestru; gollwng allan o'r llestri priodol; gollwng o'r priod lestri.

Extravasated, *a.* ystralestredig, dadlestredig; gwedi ei ollwng allan o'i lestr priodol; oddi allan i'w lestri priod; o'r tuallan i'w lestri priodol.

Extravasation, *s.* ystralestriad, dadlestriad; gollyngiad allan o'i lestri priodol; tywalltiad, tywalltiad allan, gollyngiad allan.

Extravascular, *a.* ystralestrol, dadlestraidd; allan o'r llestri priodol; oddi allan i'r priodol lestri.

Extravenate, *a.* (Ll. *extra* a *vena*) à ollyngwyd o'r gwythenau.

Extraversion, *s.* (Ll. *extra* a *versio*) tafliad allan, bwriad allan, tafliad i maes, troad allan.

Extreat,† *s.*=*Extraction.*

Extreme, *a.* (Ll. *extremus*) eithaf, eithafig, eithafol; pellaf; diweddaf, olaf; mwyaf; nesaf allan, mwyaf allanol; dirfawr, rhyfawr, tramawr, tra mawr, mawr iawn, mawr dros ben; rhy-, tra-, gor-, al-; dygnaf, tostaf; dygn, dwys, trwm, trymaf; aruthrol.

Extreme unction — eneiniad diweddaf, angenan, angenad, goreneiniad.

To administer extreme unction—gweinyddu yr eneiniad diweddaf; gweinyddu angenad *neu* angenan; dodi olew; angenadu, angenanu.

Extreme right is extreme wrong—eithaf cyfraith yw eithaf camwedd.

To be in extreme pain—bod mewn poen ddygn; bod mewn dygn boen; bod mewn dirfawr boen; bod yn y ddygn boen; bod mewn poen i'r eithaf.

Extreme tortures — creulondeb aruthrol (2 *Mac.* vii. 42).

Extreme aged—cleiriach (*Eccles.* xlii. 8).

Extreme, *s.* eithaf, eithafed, eithafedd, pellafed, cwr eithaf, pen eithaf, eithafnod, pwnc eithaf, eithafradd; cwr, pen, dyben, rhy, tra, ffai; pellder: *pl.* eithafion, eithafon, eithafoedd, pellafion, pellafoedd.

At the extreme—ar yr eithaf; ar y fân dromaf, uchaf, *neu* eithaf; yn y fân eithaf, uchaf, *neu* dromaf.

Extremes seldom hold long—po tynaf y llinyn, cyntaf y tyr; po tynaf fo'r llinyn, cyntaf y tyr.

Run not out of one extreme into another—na ddos o un rhy i'r llall; na red o un rhy i'r llall; na red o un eithaf i'r llall.

Always in extremes—naill ai mêl ynte baw yn wastadol; naill ai rhy felus ynte rhy chwerw yn wastadol; yn wastadol mewn eithafon; mewn eithafoedd byth a hefyd; naill ai rhydraws ai rhydruan yn wastadol.

Extremeless, *a.* dïeithafon, dïeithaf, aneithafol, anfeidrol, diderfyn, annherfynol.

Extremely, *ad.* yn eithaf, &c.; tra, tra-, gor-, al; yn dra, iawn, yn ddirfawr, dros ben; yn fawr dros ben; yn fawr iawn; yn dra mawr; yn anferth, yn aruthr, yn anfeidrol; i'r eithaf; i'r radd eithaf.

Extremely difficult—anhawdd iawn, anhawdd dros ben, tra anhawdd, tra chaled; anhawdd i'r eithaf; eithaf anhawdd.

Extremely miserable—truenus iawn, &c.; dygn druenus, dirfawr ofidus.

Extremity, *s.* (Ll. *extremitas*) eithaf, eithafed, eithafedd, pellafed, blaen, dyflaen, cwr eithaf, pen eithaf, pen pellaf, terfyn, terfyn eithaf, eithafnod; tra, godr; ymyl; cyfyngder, cyfyngdra, gwasgfa, dirdra, dygnedd, caledi, ing, ingder, cyni, enbydrwydd, perygl, pyd, cyfyng-gynghor, ffaig; y cyfyngder mwyaf, eithaf cyfyngder.

In great extremity—mewn dirfawr galedi; mewn cyfyngder dirfawr.

Extremity of sickness—dirdra dolur.

Extremity of the season, } dirfawr er-
Extremity of the weather, } windeb yr hin; anhynawsedd yr hin; tragerwindeb y tywydd.

Extremity of law—eithaf cyfraith; y gas gyfraith; llymder y gyfraith; eithaf llymder y gyfraith.

To use one with the utmost extremity—trin un yn ol eithaf cyfraith; trin un yn ol eithaf toster y gyfraith; trin un yn llymdost ac anhynaws.

For the extremity of—gân faint y; rhag maint y; gân ddirdra y; gân ddirboen y.

Extricable, *a.* (Ll. *extrico*) rhyddadwy; à ellir ei ryddhau.

Extricate, *v. a.* (Ll. *extrico*) rhyddhau, dadrwystro, dirwystro, dad-ddyrysu, dadrysu, diddyrysu, dinidro, dadrwymo, dirwydo, dadfaglu; tynu yn rhydd; anfon allan; dadblygu.

Extrication, *s.* rhyddhad, dadrwystrad, dirwystrad, dad-ddyrysiad, dadrysiad, dinidrad, dirwydiad, dadfagliad, dirwymiad; tyniad yn rhydd; anfoniad allan; dadblygiad.

Extrinsic, } *a.* (Ll. *extrinsicus*) allanol;
Extrinsical, } oddi allan; o'r tu allan; nid o hono ei hun; anmhriodol; à fo oddi allan.

Extrinsically, *ad.* oddi allan; o'r tu allan; oddi maes; o'r tu maes; yn allanol.

Extrorsal, } *a.* (Ll. *extrorsum*) tuag allan; yn
Extrorse, } troi oddiwrth; elltroawl, ystroawl.

Extruct,† *v. a.* (Ll. *extruo, extructum*) adeiladu, adeilo, cyfadeilo, ffurfio.

Extruction,† *s.* adeilad.

Extructive, *a.* adeiladol, cyfadeilol, adeiladaidd, cyfluniol.

Extructor,† *s.* (Ll.) adeiladwr, adeiladydd, adeilwr; lluniwr, ffurfiwr, dyfeisydd.

Extrude, *v. a.* (Ll. *extrudo*) gwthio, gyru, bwrw, *neu* dafiu allan; yffio, ffwyro, ysbelio, tarfu, erychu; gyru ymaith, gyru ffwrdd; gwasgu allan; deol.

Extrusion, *s.* gwthiad, gyriad, bwriad, *neu* dafliad allan; yffiad, ffwyrad, ysbeliad,

tarfiad, erychiad; deoliad; gyriad ymaith, gwthiad i ffwrdd.

Extuberance, } *s.* (Ll. *extuberans*) chwydd, gor-
Extuberancy, } thwf, hwrwg, oddf, oddfyn, cnwc, twddf, crwmp, gorthwf.

Extuberant, *a.* chwyddedig, gorthyfol, oddfog, tyddfog, cnyciog.

Extuberate,† *v. n.* (Ll. *extubero*) chwyddo; codi yn gnwc.

Extumescence, *s.* (Ll. *extumescens*) chwydd, ymchwydd, chwyddiad allan.

Exuberance, } *s.* (Ll. *exubcrans*, o *exubero*) ar-
Exuberancy, } ddigonedd, gorllawndid, gorlawndid, gorllawnedd, helaethrwydd, digonedd, llawndid, rhylawndid, rhylawnder, rhylawnedd, trallawnder; llawnder, cyflawnder, amlder, haflug, haflugrwydd, edrysedd, gormodedd, rhysedd; gordyfiant, brasdyfiant, gordwf, hydyfiant, ireiddiant.

Exuberant, *a.* llawn, rhylawn, gorlawn, gorllawn, trallawn, gormodd, gormod, gormodol; helaethlawn, gorhelaeth, tra helaeth, hafluzol, helaeth, cyflawn, toreithiog, toreithus, ffrwythlawn, brwys, ffaeth, ffaethus, ffrwm, dibrin; gordyfol, brasdyfol, rhonc; goludog, cyfoethog; dros ben digon; yn llenwi, yn llifo, yn llifeirio, *neu* yn rhedeg drosodd.

Exuberate, *v. n.* (Ll. *exubero*) bod yn rhylawn, &c.; haflugo, heidio; bod yn dryfrith; bod yn aml; llifo *neu* lifeirio drosodd.

Exuccous, *a.*=*Exuccous.*

Exudation, *s.* (Ll. *exudo*) chwysiad, dychwysiad, chwysiad allan; meriad, deigyniad.

Exude, *v.* (Ll. *exudo*) chwysu, dychwysu; deigynu, meru, dyhidlo, tarddu; llifo yn chwys.

Exulcerate, *v.* (Ll. *exulcero*) gwelïo, llynori, peri gori, peri madru, madru; peri yn gornwyd; crawnu; myned yn weli crawnllyd; ysbelwi, llygru, peri ysbelwi, digroeni; llidio, digio, blino, cystuddio; ysu, difa.

Exulceration, *s.* (Ll. *exulceratio*) gweliad, llynoriad, goriad; pariad gŏr, pariad madredd; pariad cornwydydd; madriad, crawniad, gori, goriad; myned yn gornwyd *neu* weli; ysbelwad, llygriad, llwgr; llidiad, digiad, chwerwad; ysiad.

Exulceratory, *a.* gweliadol, llynoriadol, goriadol; â dueddo i beri gweliau.

Exult, *v. n.* (Ll. *exulto*) llamu, llemain, *neu* neidio gàn lawenydd; llamu, llemain, *neu* neidiaw o lawenydd; gorfoleddu, llawenychu, *neu* lawenhau yn fawr; llawenychu gàn lawenydd mawr dros ben; ymorfoleddu, ymlawenychu, ymloni; ymogoneddu, ymfawrygu; arfoleddu, llawenhau, llawenu, llawenychu, gorfoleddu.

Exultance, } † *s.*=*Exultation.*
Exultancy, }

Exultant, *a.* yn llamu gàn lawenydd; yn llemain o lawenydd; gorfoleddus, gorfoleddol, llawenychol.

Exultation, *s.* llamiad, llam, neidiad, naid, *neu* gryohnaid gàn lawenydd; llawenydd mawr, mawr lawenychiad, gorfoledd, llawenydd, gorlawenydd, elwch, dywenydd, arfoledd, gorawen, gorhoen, ymorfoleddiad; ymffrost, bocsach.

Exundate,† *v. a.* (Ll. *exundo*) gorlifo.

Exundation, *s.* (Ll. *exundatio*) gorlif, gorlifiad, gorlifiant, gorddylifiad, llifeiriant, llif, llifad drosodd; gorlawnder.

Exungulate, *v. a.* (Ll. *ex* ac *ungula*) tori ewinedd; tori ymaith ranau afreidiol; ysgythru.

Exuperable, *a.* (Ll. *exuperabilis*) gorchfygadwy, trechadwy.

Exuperance, *s.* gorbwys, traphwys, gorfantol; gorfantais.

Exuperant, *a.* gorchfygol, trechol, gorbwysol, traphwysol.

Exuperate,† *v. a.* (Ll. *exupero*) rhagori ar, rhagori, trechu, gorchfygu, gorfod, gorbwyso, traphwyso, gorfantoli, prwysgo.

Exuperation, *s.* (Ll. *exuperatio*) rhagoriad, trechiad, gorchfygiad, gorbwysad, traphwysad, gorfantoliad, prwysgad.

Exurgent,† *a.* (Ll. *exurgens*) cyfodol.

Exustion, *s.* (Ll. *exustio*) trylosgiad, llwyrlosgiad, llosgiad.

Exuviable, *a.* (o *exuviæ*) ysteliadwy, dïosgadwy; â ellir ei ddïosg; â ellir ei fwrw.

Exuviæ, *s. pl.* (Ll.) ystelion, dïosgion, milweisgion; dïosgranau; ystelgrwyn; milweddillion=crwyn nadroedd a'r cyffelyb wedi eu bwrw: hefyd, gweddillion milod â geir yn y ddaiar.

Eyas, *s.* (Ff. *niais*) cyw hebog, cyw gwalch, hebog diblu; hebog newydd ei gymmeryd o'r nyth.

Eyas,† *a.* diblu, dibluf, anmhlufog.

Eyas-musket, *s.* corwalch dibluf, curyll diblu.

Eye, *s.* (S. *eag, eah*; Is. *oog*; Al. *auge*) llygad; golwg, trem; crai, rhwyll, meilyn, magl; blaguryn.

Crook and eye—bach a llygad; bach a dolen; crwcyn a meilyn; bach a derbyniad.

Eye of a needle—crai nodwydd, crai nydwydd; crai nodwydd ddur.

Apple of the eye, } canwyll y llygad, can-
Ball of the eye, } wyll llygad, mablygad, clöyn; llewych y llygad.

The two eyes—y ddau lygad; y ddwy olwg; y ddwy drem.

A little eye—llygedyn, llygaden; llygad bychan.

Orbit of the eye—pwll y llygad, pwll llygad.

The eye of the light—llygad y goleuni, llygad goleuni.

Evil eye—llygad mall, llygad drwg.

Piercing eye—llygad teryll, llygad treiddiol, llygad treiddgar; golwg deryll.

Very piercing eyes—llygaid tra theryll.

By the eye—wrth yr olwg; wrth y llygad.

Rolling eyes—llygaid gwibiog, llygaid amwibiog, llygaid cyflymdro, llygaid hydreigl.

Eye of a plant—llygad planigyn; blaguryn.

To turn the eyes about wildly—serfanu llygaid.

The roving of the eye—llygadwib, gwib llygad.

Having a roving eye—llygadwib, llygadwibiol, llygadwibiog.

Pink eye—llygad gogauad; llygad bach gogauad; coeglygad, llygedyn.

Goggle eye, } llygad gwibiog, llyg-
Goggling-eye, } ad hydreigl, llygad
Out-strutting eye, } ansafadwy; llygad llo, llygad buwch, bulygad; llygad â saif allan yn mhell, megys pe bai yn barod i neidio allan o'i dwll.

Fierce eye, } llygad tanbaid, llygad tan-
Fiery eye, } beidiol, llygad tra theryll, llygad tratheryll.
Leering eye—llygad cilgam, llygad cilwenus, llygad cilwenog; llygad anllad; llygad gafr, llygad yr afr.
Quick eye, } llygad craff, llygad
Sharp-sighted eye, } craffus, llygad llym, llygad cyflym; llygad teryll; llygad eryr, llygad hebog, llygad barcud.
Having a quick eye—llygadfain, llygadgraff, llygadlym.
Wall-eye—llygad brith, llygad gorwyn, llygad brithwyn, llygad blawrwyn.
A wanton sheep's eye—llygad gwamal, llygad trythyll; llygad myharan.
Pope's eye—cneuen y forddwyd, cnewyllyn y forddwyd, llygad y Pab.
Full of eyes—llygeidiog, llawn llygaid.
Having a sore eye, } llygadglaf.
Having sore eyes, }
Having a merry *or* engaging eye—llygadlon.
Glance of the eye, } cipolwg; tafliad llyg-
Cast of the eye, } ad, tarawiad llygad; trem, cipdrem, tremyn, tremynt, lledolwg; golwg, golygiad.
To have a cast with the eyes—bod yn llygattraws; bod yn llygadgam; bod yn llygad-ŵyr; bod â llygad-wyrni arno; bod â llygattrawsi arno; bod yn drawsdrem.
To have an eye on, } golygu; dàl *neu* gadw
To have an eye to, } ei olwg ar; edrych *neu* ddysgwyl ar; bwrw golwg ar; bod â'i lygad ar; bod â'i lygaid ar; bod â'i olwg ar; llygadu ar; cadw golwg ar; syllu *neu* dremio ar; craffu â golwg ar; tafiu llygad ar; tafiu golwg ar; gwylio ar, gwylied ar, synied ar, synio ar, dàl sylw ar; ystyried, ystyrio; llygadrythu ar.
He had an eye to his own glory in all these things—yr oedd efe yn golygu ei ogoniant ei hun yn y pethau hyn oll; yr oedd efe â'i olwg ar ei ogoniant ei hun yn yr holl bethau hyn.
I have an eye to what you do—yr wyf fi yn gofalu am â wneloch; yr wyf fi yn gwylio ar â wneloch; yr wyf yn dàl sylw ar â wneloch; y mae fy llygad arnoch; mae fy ngolwg arnoch.
To have a watchful eye upon—golygu yn ofalus; gwarchod yn wyliadwrus; bod â'i lygad yn wyliadwrus ar, &c.
To cast an eye upon—bwrw *neu* daflu golwg ar; tafiu llygad ar; tafiu ei lygad ar; dàl *neu* gadw golwg ar; edrych ar; bwrw ei olwg ar; syllu ar; craffu â golwg ar; cadw llygad ar; cadw golwg ar; llygadu; llygadu ar.
To cast a sheep's eye—edrych yn ŵyr, ar osgo, *neu* â chipolwg; edrych â chil y llygad; tafiu llygad myharan; cildremu.
To look upon one with an evil eye—edrych ar un â drwg lygad; edrych ar un â llygad mall; cenfigenu *neu* wynfydu wrth un.
In one's own eyes—yn ei olwg ei hun; yn ei dyb ei hun.
With tears in his eyes—â'r dagrau yn ei lygaid; â dagrau yn ei lygaid; â'r dwr ar ei ddeurudd; tàn wylo, gyda dagrau.
The master's eye makes the horse fat—golwg y perchen yw cynnydd y da.
As is good in your eyes—fel y gweloch yn dda (*Gen.* xix. 8); fel y byddo da yn eich golwg.
Pheasant's eye—llygad y goediar.

Eye, *v.* llygadu, llygadu ar, golygu, golygu ar, tremio, tremu, tremio ar, edrych, edrych ar, syllu, syllu ar, gwylio, gwylio ar, sylwi, sylwi ar; dàl *neu* gadw golwg ar; bwrw *neu* daflu golwg ar; bod â'i lygad, â'i lygaid, *neu* â'i olwg ar; craffu â golwg ar; tafiu llygad ar; tafiu trem ar; dàl sylw ar; synied ar, synio ar; ystyried, ystyrio; llygadrythu; ymddangos, bod yn ymddangos.

Eye, *s.* nythaid, nythlwyth, nythal, deoraid, haid, haig.
An eye of pheasants—nythaid o goedieir.

Eye-attracting, *a.* llygattynol, yn llygattynu; yn tynu sylw.
Eyeball, *s.* canwyll llygad, canwyll y llygad, mablygad, clöyn.
Eyebeam, *s.* cipolwg, llygadgip; tafliad llygad; tarawiad llygad; trem, cipdrem, tremyn, tremynt.
Eyebolt, *s.* llygadfollt.
Eyebright, *s.* (*eye* a *bright*) effros, golyglys, gloewlys, goleudrem, llysiau effros.
Eye-brightening, *s.* goleudremiad, tremglaeriad.
Eyebrow, *s.* (*eye* a *brow*) ael, ael y llygad, ael llygad, ellael, cylmael: *pl.* aeliau.
Having great *or* large eyebrows—aelfawr, aeliog.
Hanging eyebrows—aeliau cibog, aeliau trymion, aeliau cuchiog, aeliau crog.
Having hanging eyebrows — aeldrwm; cuchiog, cibog, aelgrog.

Eyed, *a.* (*o eye*) llygeidiog, llygad-: arferedig mewn cyfansoddiad.
Blue-eyed—llygadlas.
Black-eyed—llygad du, llygat-ddu, llygeid-ddu, llygeitddu; du ei lygad.
Red-eyed—llygadgoch.
Grey-eyed—llygadlwyd.
Wall-eyed—llygadfrith.
Goggle-eyed—llygadfawr, llygadog, llygadrwth, (*f.* llygadroth); â llygad llo iddo.
Pink-eyed—llygadfach, llygeidfach, coeglygeidiog; â llygaid bychain gogaunad iddo.
Squint-eyed—llygadgam, llygattraws, llygadgroes, llygad-ŵyr; â llygattrawsi *neu* llygadwyrni arno; llygadgall.
Blear-eyed—llygadlaith, llygad-wlyb, llygadgoch, cilgoch ei lygad; cibddall, coegddall, llygadbwl; â phall ar ei drem.
Hollow-eyed—llygadronca, llygadronc; â llygaid rhonca iddo.
Blink-eyed—llygadgam, cam, llygadwan, camlygad, ysmiglygeidiog.
Wide-eyed—llygadrwth, (*f.* llygadroth); llydan ei lygaid.
One-eyed—unllygeidiog; llygadgoll; cam.
Full-eyed—llygadlawn; â'i lygaid ar dor y croen; â'i lygaid ar dòn y croen.
Keen-eyed—llygadgraff, llygadlym, llygadfain; craff ei lygad; craffus ei olwg; craff ei olygon.
Moon-eyed—cibddall, coegddall, llygad-

bwl ; a chanddo lygaid lleuadglaf ; lloerlygeidiog, llygadloerig.

Ox-eyed—bulygeidiog, bulygad, buolwg, budremiog, budrem, ychlygeidiog, buchlygeidiog ; llygadferth, llygadfyg ; teryll.

Ox-eyed Juno—Iuno fulygad, Iuno fuolwg, Iono ychlygad, &c.; Iuno drem deryll, Iono lygaid teryll, Iuno lygadferth ; Iuno lygad eidion.

Eyedrop, *s.* (*eye* a *drop*) deigryn, dyferyn.

Eyeglance, *s.* cipolwg, llygadgip ; tafliad y llygad ; tarawiad y llygad ; trem, tremyn, tremynt, tremiad.

Eyeglass, *s.* llygadwydr, llygadwydryn, llygatddrych ; ysbeithell.

Eye-glutting,+ *s.* gwledda y llygaid.

Eyelash, *s.* (*eye* a *lash*) geilflew, blew yr amrantau, blew amrant, amrantflew.

Eyeless, *a.* dilygad, dilygaid, heb lygaid ; dall.

Eyelet, *s.* (Ff. *œillet*) olp, twll olpai, twll orpai.

Eyelet-hole—twll olpai, olp, twll orpai.

Eyeliad, *s.* (Ff. *œillade*) cipolwg, llygadgip ; tafliad llygad ; tarawiad llygad ; cipdrem, trem, tremyn, tremynt, tremiad.

Eyelid, *s.* (*eye* a *lid*) amrant, amrant llygaid, gail, clawr llygad, caead llygad, clawr y llygad, cauad y llygad.

Eye-offending, *a.* yn tramgwyddo y llygad.

Eye-pleasing, *a* yn boddhau y llygad ; llygadfoddhaol.

Eyer, *s.* (o *eye*) llygadwr, edrychwr, edrychydd, syllwr, tremiwr.

Eyesalve, *s.* (*eye* a *salve*) eli llygaid, llygeli.

Eye-servant, *s.* llygadwas, llygad-wasanaethwr, golygwas, llygad-weinidog.

Eye-service, *s.* llygad-wasanaeth, golwg-wasanaeth, llygadweinid, llygadweiniant.

Eyeshot, *s.* golwg, golygfa ; cyrhaedd yr olwg ; cyrhaedd y llygad ; ergyd y llygad.

Eyesight, *s.* golwg, golygawd ; llewych, llewyrch, lleufer, lleuer, *neu* drem y llygaid ; llygaid ; gweled ; sylw.

If my eyesight fail me not—onid yw fy llygaid yn fy nhwyllo ; od *neu* os ydwyf yn canfod yn dda ; onid wyf fi yn camweled.

According to my cleanness in his eyesight—yn ol fy nglendid o flaen ei lygaid ef.

Eyesore, *s.* (*eye* a *sore*) dolur llygaid ; casbeth ; peth blin, cas, *neu* anhyfryd i'r olwg.

Eyesplice, *s.* (*eye* a *splice*) llygadbleth, ysblyg pen rhaff, ysblygdorch.

Eye-spotted, *a.* llygadfanog.

Eyestone, *s.* (*eye* a *stone*) llygadfaen.

Eyestring, *s.* llygadlin, llinyn y llygad, gewyn y llygad.

Eyetooth, *s.* dant llygad, llygad-ddant, llygatddant ; ysgythr-ddant, dant ysgythrog, ciddant.

Eyewink, *s.* amrantiad, ysmig, ysmiciad, tarawiad llygad ; amnaid, awgrym.

Eye-witness, *s.* llygattyst, golygdyst, tyst golwg, gwybyddiad.

Eyot, *s.* (S. *ig*) ynysig, ynysan, ynys fechan.

Eyre, *s.* (hen Ff. o'r Ll. *ire*) cylchdaith ; cylchlys, teithlys ; llys barnwyr teithiol.

Justices in eyre—barnwyr cylchdeithiol, ymdeithiol, teithiol, *neu* amdeithiog ; ynad cylchdeithiol, ynad teithiol, cylchynad.

Eyry, } *s.* (C. *eryr ;* Corn. *er*) nyth ysglyfadar,
Eyrie, } ysglyfadarnyth ; nythle adar ysglyfaethus ; nythaid, nythlwyth, haid.

F.

Faba, *s.* (Ll.) ffäen, ponar; ffa, y ffa.

Fabaceous, *a.* (Ll. *fabaceus*) ffäaidd, ffaol, ponaraidd.

Fabian, *a.* (oddi wrth Q. *Fabius* Maximus) gohiriog, addoediog, hwyrfrydig, oedgar, cyngydiol, afrys, dyhair, dyheiriol, gochelgar; yn gochelyd brwydr (fel y gwnai Cwintus Ffabius Macsimus).

Fable, *s.* (Ff.; Ll. *fabula*) chwedl; ffugchwedl, ffughanes, ffugwers, ffuglith, ffugeb, dychwedl, rhith-hanes, chwedl wneuthur; alleg, dameg, dychymyg; geudeb, ffug, gau, ffalsedd, celwydd.

Old wives' fables, } chwedlau gwrach-
Old women's fables, } ïaidd, gwrachïaidd chwedlau.

Cunningly devised fables—chwedlau cyfrwys.

Fable, *v.* ffugio, chwedlu, chwedla, chwedleua, chwedleuo, ffugchwedlu, ffuglithio; dyfeisio, dychymygu; dywedyd *neu* adrodd chwedlau; dychymygu chwedlau *neu* gelwyddau; dywedyd celwydd; chwalu chwedlau.

Fabled, *a.* chwedlog, ffugiol, ffug-; ffugiedig, chwedledig.

Fabler, *s.* chwedlydd, chwedlwr, ffugiwr, ffughanesydd; adroddwr *neu* adroddydd chwedlau; ysgrifenwr, dychymygwr, dyfeisiwr, lluniwr, *neu* gyfansoddwr chwedlau.

Fabling, *s.* chwedliad, ffughanesiad, ffugiad; gwneuthuriad chwedlau.

Fabric, *s.* (Ll. *fabrica*) adail, adeilad, adeiladaeth, adeildy, adeilwaith; gwneuthuriad, cyfansoddiad, lluniad; gwe, cydwe; des.

The fabrics of the East—gweoedd y Dwyrain.

Fabric, *v. a.* adeiladu, adeilo; gwneuthur, llunio, ffurfio, dyfeisio, cyfadeilio, cyflunio, cyfansoddi.

Fabricate, *v. a.* (Ll. *fabrico*) adeiladu, adeilo, cyfadeilio; gwneuthur, gwneyd, llunio, cyflunio, cyfansoddi, cydosod, ffurfeiddio, saernïo; dyfeisio, dychymygu, dychymyg, ffugio, ffuglunio; bathu.

Fabrication, *s.* (Ll. *fabricatio*) adeiladiad, adeiladaeth; gwneuthuriad, lluniad, ffurfiad, cyfluniad, cyfansoddiad, cyfadeilad, saernïad, eiliawd, eiliant, goberiad; ffugiad, ffugluniad, dyfeisiad; ffugysgrifiad; ffug, ffalsedd, celwydd.

Fabricator, *s.* (Ll.) adeiladwr, adeiladydd, adeilwr; gwneuthurwr, lluniwr, cyfluniwr, ffurfiwr, dyfeisiwr, dyfeisydd.

Fabrile,† *a.* (Ll. *fabrilis*) llawgelfyddol, crefftol; perthynol i lawgelfyddyd.

Fabulist, *s.* (o'r Ll. *fabula*) chwedlydd, chwedlwr, chwedlor, ffughanesydd, ffugchwedlwr, ffugiwr; ysgrifenwr, cyfansoddwr, dyfeisiwr, *neu* ddychymygwr chwedlau; cyfansoddydd, ysgrifenydd, *neu* ddyfeisydd chwedlau; damegwr, damegydd.

Fabulize, *v. a.* (Ll. *fabulo*) chwedlu, ffugchwedlu, ffughanesu; dyfeisio, cyfansoddi, ysgrifenu, *neu* adrodd chwedlau.

Fabulosity, } *s.* (Ll. *fabulositas*) chwedlog-
Fabulousness, } rwydd, chwedlgarwch, chwedleugarwch, ffuglithgarwch; geudeb, ffugiolrwydd, ffugioldeb, ffugedd, geuogrwydd; llawnder o chwedlau; annïeurwydd.

Fabulous, *a.* (Ll. *fabulosus*) ffuglawn, chwedlog, ffugiol, ffug-, chwedlaidd, dychymygol celwyddog, ffals, gau, geuog; annïau, annilys; ffuglithiol; llawn chwedlau; llawn celwydd.

A fabulous book—ffuglyfr, llyfr ffugion, llyfr chwedlau, llyfr ffuglawn.

A fabulous tale — chwedl dychymyg, chwedl ddychymygol, ffugchwedl.

Fabulous times—amseroedd ffuglawn, &c.; amseroedd am ba rai y ffugier llawer o chwedlau; amseroedd chwedlau, amseroedd ffugion.

Fabulously, *ad.* ar wedd chwedl; ar wedd chwedl wneuthur; yn ffugiol, &c.

Faburden, *s.* (*fa*, sill arferedig mewn peroriaeth, a *burden*) gwrthbwyntal, gwrthalawiad.

Façade, *s.* (Ff.) gwyneb, wyneb, gwyneb adeiladd, tâl adail, adeilwyneb, adeilweb, rhagwedd, gwynebwel, baranwel, baran.

Face, *s.* (Ff.; Ll. *facies*) gwyneb, wyneb, gwynebpryd; ffriw, gwep, gweb, gwepa, gwepia, trem, gwedd, golwg; arwyneb, arwynebedd; bleddychfa, baran, baranedd; edrych, edrychiad, drych; haerllugrwydd.

Face to face—gwyneb yn wyneb; wyneb yn wyneb; yn wyneb yn wyneb; llygad yn llygad; lygad yn llygad; yn ngwydd, ger bron, rhag bron, o flaen wyneb, cyferbyn, gyferbyn, cyfwyneb, gerwyneb, gerwydd, cyfaran, cydwyneb, cydwynebol, cynddrychol, cynnrychol, taldal, daldal, ar gyfer, tu blaen; cyferbyn âg un.

A pretty little face—gwynebyn, wynebyn.

The face of the earth—gwyneb y ddaiar, wyneb y llawr, tudwedd, tudwed, gledd, gwerydwedd.

The face of affairs—yr olwg ar bethau; gwedd, ansawdd, *neu* wyneb pethau.

Shame of face — gwynebwarth, wynebwarth, cywilydd wyneb.

Wry face—gwyneb cam, cas, sur, *neu* hagr; cam-wyneb.

To make a wry face—wynebgamu, gwynebgamu; mingamu, troi ei fin; gwneuthur wyneb cas; gwepio.

What wry faces the rogue makes!—y fath wynebau cas â wna y diffaethwr!
Having a wry face—gwynebgam, wynebgam; mingam.
To make faces — gwynebgamu, wynebgamu; mingamu, troi ei fin; gwneuthur wynebau cas; gwneuthur lluniau cas; gwepio; gwneuthur gwep, gwneyd gwepau.
To look one in the face—gwynebu; edrych yn wyneb un; sefyll yn wyneb un; syllu *neu* graffu ar un; edrych ar un yn ei wyneb; syllu yn wyneb un.
Before their faces—o flaen eu gwyneb, &c.; a hwy yn bresennol; a hwythau yn wyddfodol; yn eu gwyddfod.
To set a good face on a matter—rhoddi *neu* ddodi y gwyneb goreu allan; gosod y gwyneb goreu allan; gwneuthur y goreu o'r gwaethaf; celu *neu* ddirgelu gofid y galon; rhoi wyneb llawen ar galon athrist; edrych yn llon a siriol tra byddo y galon yn ofidus.
I must put a good face on it—mae yn rhaid i mi roi *neu* wisgo y gwyneb goreu allan.
It is good to set a good face on a bad matter—da yw ymgaloni mewn caledi.
To accept one's face—derbyn wyneb.
He has a face of brass—y mae ganddo *neu* iddo wyneb pres; mae iddo *neu* ganddo wyneb o bres; mae ganddo *neu* iddo wyneb digywilydd.
To put on a brazen face, } caledu ei wyneb;
To put on a bold face, } myned yn wynebgaled, yn ddigywilydd, yn haerllug, yn dalgryf, yn wynebsyth, *neu* yn eofn; gwisgo haerllugrwydd; ymwisgo â digywilydd-dra; taflu cywilydd *neu* orchwyledd i'w ol; sathru cywilyddgarwch dan draed; gwisgo talgryfder; ymhyfhau.
Having two faces—deuwynebog, deuwyneb, deudal; âg iddo *neu* â chanddo ddau wyneb; rhagrithiol, twyllodrus, hocedus, ffuantus.
He put on the face of religion—efe a gymmerth arno agwedd *neu* rith crefydd.
The face of my affairs has undergone a great change of late—bu cyfnewidiad nid bychan ar fy helynt i yn ddiweddar.
To one's face—yn wyneb un; yn ngwyneb un; yn nannedd un; yn ei wyneb; yn ei ddannedd.

Face, *v.* gwynebu, wynebu; gwrthwynebu; gwynebu ar; troi yr wyneb; rhagrithio; edrych.
To face down, } taeru, haeru, hòni; taeru
To face out, } ar, haeru ar, hòni ar; gorchfygu drwy daeredd, haerllugrwydd, *neu* wynebgaledwch; mynu y goreu ar un drwy daeredd, haerllugrwydd, *neu* wynebgaledwch; gwadu yn haerllug; ymhaerllugo yn erbyn; gwrthwynebu yn hyf *neu* haerllug.
He persisted in facing down the truth—efe a ddaliodd yn haerllug ar ei wad yn erbyn y gwirionedd; efe a barhaodd yn haerllug yn gwadu y gwirionedd.
To face about—troi yr wyneb; troi ei wyneb; troi i wynebu y gelyn; chwyldròi.

Facecloth, *s.* (*face* a *cloth*) llian wyneb.

Faced, *p. p.* gwynebedig; âg iddo wyneb; gwedi ei wynebu; â wynebwyd; gwynebog, wynebog.
Bold-faced—talgryf, haerllug, digywilydd, talog, hyfwyneb, hywyneb, hyweb; âg iddo *neu* â chanddo wyneb digywilydd; wynebgaled, wynebsyth.
Double-faced — deuwynebog, deuwyneb, deudal; âg iddo *neu* â chanddo ddau wyneb; rhagrithiol, twyllodrus, hocedus, ffuantus.
A two faced fellow—rhagrithiwr; un deuwynebog.
Fair-faced—âg iddo *neu* â chanddo wyneb teg; âg iddi *neu* â chanddi wyneb teg; tegwynebog, wynebol; teg o bryd; teg ei bryd; teg ei phryd; teg ei gwedd; tegwedd, tegweddog, tegwel, prydwedd-ol.
Full-faced — gwyneblawn, wyneblawn; âg iddo *neu* â chanddo wyneb llawn; gwynebdew.
Plump-faced — wynebly fn, wynebdew; â chanddo *neu* âg iddo wyneb llyfnwedd; wyneblawn.
Pale-faced—gwyneblas, wyneblwyd, piglas, piglwyd, wyneb-welw.
Shame-faced—cywilyddgar, gwŷl, llednais, gwylaidd, yswil, gwyleddog.
Ugly-faced—hagr, hyll, anferth; â chanddo *neu* âg iddo wyneb hagr; wynebfrwnt, (*f.* wynebfront), hagrwedd, hagrwynebog; hagr ei wyneb.

Faceless, *a.* diwyneb, heb wyneb, anwynebog.

Facepainter, *s.* (*face* a *painter*) ardebydd, ardebwr, ardebydd gwynebau, arluniwr wynebau, paentiwr gwynebau, ardebluniwr.

Facepainting, *s.* ardebiaeth, arliwiad gwynebau, paentio ardebau, ardebluniaeth.

Facepiece, *s.* blaenddarn.

Facet, } *s.* (Ff. *facette*; Ysp. *faceta*) gwyneb-
Facette, } yn, gwyneban, gwyneb bychan: *pl.* gwynebos, gwepionos.

Facete,† *a.* (Ll. *facetus*) llawen, cellweirus, digrif, ysmala.

Faceteness,† *s.* digrifwch, arabedd, ysmaldod.

Facetiæ, *s.* (Ll.) digrifion, digrifolion, difyrion, dyddanion, ysmaldodion, arabion, ysgrifenadau digrif.

Facetious, *a.* (Ll. *facetus*; Ff. *facétieux*) digrif, digrifion, ysmala, difyr, difyrus, cellweirus, digrifol, digriflawn, arabeddus, arab, arabol, cellweirgar, afleithus, geirllon, lloneiriog, llawen, llon, hoenus, gorhoenus, llonwych, chwarëus, arain, digriflan, dysmal.

Facetiousness, *s.* digrifwch, ysmaldod, arabedd, digrifedd, digrifder, digrifoldeb, difyrwch, afleithusrwydd, digrifionder, araboldeb, ysmalder, ysmalrwydd, ysmalwch, cellweirgarwch, cellweirusrwydd, cellwair, ysmalhäwch, afiaeth, arabeddiaeth, ffraethdeb, ffraethder, cymmwedd, arabder, llonwychder, llonder.

Facia, *s.* (Ll. *fascia*)=*Fascia.*

Facial, *a.* (o'r Ll. *facies*) gwynebol, wynebol, gwynebaidd; perthynol i'r wyneb.
Facial angle—ongl yr wyneb, elin yr wyneb; ongl wynebol, ongl wynebaidd.

Facies, *s.* (Ll.) gwyneb, wyneb; gwedd, golwg, trem, nodwedd allanol, golwg gyffredin; rhagwedd, cynfaran.

Facile, *a.* (Ff.; Ll. *facilis*) hawdd, rhwydd,

hyrwydd, esmwyth; hydyn, hydrin, hynaws, hygyrch, hyfodd, hyfoes; hyblyg, ystwyth; hylaw, deheu, deheuig, trylew, hyfedr.

Facileness, *s.* hawddineb, rhwyddineb, rhwyddyd, rhwydd-deb, hawsder, hawsdra; hyrwydd-der, esmwythder; hydynedd, hynawsedd; hyblygedd, ystwythder, meddalwch, meddaledd; hawddineb i gymmeryd ei ddarbwyllo.

Facilitate, *v. a.* (Ff. *faciliter*, o'r Ll. *facilitas*) rhwyddhau, hyrwyddo, rhwyddo, rhwyddoli, rhwyddynu, rhwyddino, rhwyddiannu, cyfrwyddo, hylwybro, hwyluso, hwylusu, hawddhau, hawshau, hoddio, dyhoddio; peri yn hawdd *neu* yn haws i'w wneuthur; cynnorthwyo yn mlaen; esmwytho.

Facilitation, *s.* rhwyddhad, rhwyddad, rhwyddiad, hyrwyddiad, rhwyddiant, cyfrwyddawd, rhwyddyniad, hylwybrad, hwylusiad, hoddiad, dyhoddiad.

Facility, *s.* (Ll. *facilitas*; Ff. *facilité*) rhwyddineb, hawddineb, hawsder, hawsdra, hawsedd, hyrwyddineb, hyrwyddedd, hwylusdod, hwylusder, hwylusdra, hwylusrwydd, rhwyddyndod, rhwydd-deb, rhwyddyd, rhwyddynedd, rhyddineb, hoddineb, rhwyddiant, esmwythedd; hyfedredd, medredd, medrusrwydd, deheuder, deheurwydd; hyblygedd, meddalwch, meddaledd, hydynedd, hydynrwydd; hynawsedd, hygyrchedd, mwynder, mynogaeth, cyweithasrwydd.

Facilities, *s. pl.* hawsderau, cyfleusderau, hwylusderau, manteision, rhwyddolion.

Facing, *p.* yn gwynebu, yn wynebu, yn wynebu ar; ar gyfer, ar gyferyd, yn gyferbyn, cyferbyn â, yn nghyfer, â'i wyneb ar, cyfaran, cyferydig, cyfarfan, argywydd; yn troi yr wyneb.

Facing, *s.* gwynebiad, wynebiad; gwynebwaith, wynebwaith; gwyneb.

Facinorous, *a.* (Ll. *facinus*) ysgeler, diried, diriaid, adwythig, echrydus, echrys, echryslawn, drwg, anfad, dryglawn, dyhir, dybryd.

Facinorousness, *s.* ysgelerder, ysgelerdod, ysgelerdra, ysgeleredd, echryslonedd, dybryddedd, anfadrwydd, echryslonrwydd, mawrdrygedd.

Facsimile, *s.* (Ll. *facio* a *similis*) cyfluneb, cyfflun, gwir gyfiun, tebyglun, tryddulleb, trydebed, gwir efelwch; gwir debygrwydd; tebygrif, cysgrif.

Fact, *s.* (Ll. *factum*) ffaith, gweithred, gwaith, gwirionedd, gwir; yr hyn a wnaed; gober.

In fact—mewn gwirionedd.

In the very fact—yn y weithred; ar y weithred; yn nghorff y weithred.

Matter of fact—ffaith, gwirionedd.

This is fact, } mae hyn yn wir

This is matter of fact, } diddadl; gwirionedd diddadl ydyw hyn; ffaith yw hyn; mae hyn yn ffaith.

This is the fact—dyma y gwir; dyma y gwirionedd; dyma fel y mae y peth yn bod; dyma fel y mae y peth yn sefyll; fel hyn y mae y peth yn bod *neu* yn sefyll; fel hyn y mae y mater yn bod *neu* yn sefyll; dyma y ffaith; y ffaith yw hyn; hyn yw y ffaith; dyma fel y mae y peth yn bod mewn gwirionedd.

The matter of fact is this—y gwir yw hyn; y gwirionedd yw hyn; y gwir fater yw hyn; y ffaith yw hyn.

Facts are stubborn things—anhydyn, anhyblyg, ystyfnig, *neu* wrthnysig yw ffeithiau; ffeithiau sy bethau anhyblyg; pethau anhydyn yw ffeithiau.

Faction, *s.* (Ff.; Ll. *factio*) plaid, ymblaid, terfysgblaid; plaid mewn gwladwriaeth, llywodblaid; gwrthblaid, cydwriaeth, cydrawd; ymbleidiad, ymraniad, terfysg, anghydfod, annysgymmod, cythrwfl, cyffro, cynhen.

A private faction — cydfrad, cydfwriad; plaid ddirgel *neu* gyfrinachol.

To go into factions—ymbleidio, ymranu; myned yn bleidiau.

One of Simon's faction—un o'r rhai oeddent gymmeradwy gân Simon (2 *Mac.* iv. 3).

Factionary, } *s.* ymbleidiwr, gwr plaid, gwr
Factioner, } pleidiol, pleidiwr, pleid-ddyn, gwr untuog.

Factionist, *s.* pleidgarwr, pleidiwr, pleidydd, ymranwr, ymbleidiwr, carwr ymraniad, terfysgwr.

Factious, *a.* (Ll. *factiosus*; Ff. *factieux*) pleidiog, pleidgar, pleidiol, ymbleidgar, ymbleidiog; gwrthbleidiog, gwrthbleidgar; parod i ymbleidio; terfysgus, terfysglyd, cynhenllyd, cynhenus, ymrafaelgar.

Factiousness, *s.* pleidgarwch, pleidiogrwydd, ymbleidgarwch, ymbleidiogrwydd, pleidiolrwydd, pleidwriaeth; gwrthbleidiogrwydd; terfysglydrwydd, terfysgusrwydd, ymrafaelgarwch; tuedd i ymbleidio *neu* ymranu.

Factitious, *a.* (Ll. *factitius*) gwneuthurol, gwneuthuredig; celfyddydol, celfyddol, celfyddydaidd; â wneler drwy gelfyddyd; â wnaed *neu* â wneler wrth ddychymyg.

Factitious stones—ceryg gwneuthur, ceryg gwneuthuredig, &c.; ceryg â wnaed drwy gelfyddyd.

Factive, *a.* (Ll. *facto*) gwneuthurol, yn gwneuthur; yn gallu gwneuthur.

Factor, *s.* (Ll.) gorchwylydd, gorchwyliwr, rhyngfaelydd, rhyngfaelwr, rhyngfaelier, trosfaelwr, rhyngfaelor, trosfasnachwr, troseinydd, rhyngfasnachydd, dirprwywr, gorchwyliwr masnachol, negeswr masnachol; trinwr, trinydd, *neu* olygydd gorchwylion masnachwyr; marchnadwr, marchnatwr, marchnatâwr, *neu* farchnadydd dros arall; prynwr a gwerthwr dros arall; negeswr, negesydd; gweithredydd, gwneuthurydd, goberwr, goberydd; tannorth, dirprwy.

Factorage, *s.* prwydal, dirprwydal, maeldal, goberdal, negesdal, prwydaliaeth; tâl rhyngfasnachwr, tâl trosfasnachydd.

Factorial, *a.* gweithfaol, goberfaol, llofweithfaol; perthynol i weithfa.

Factorship, *s.* trosfaeleriaeth, rhyngfaeloriaeth, trosfaelyddiaeth; gwaith *neu* swydd rhyngfaelydd; gorchwylyddiaeth, goberyddiaeth; gweithfa.

Factory, *s.* gweithfa, gweithdy, llaw-weithfa, llofweithfa, llaw-weithdy, goberfa, gweithle; masnachfa, negesfa, gorchwylfa, marchnadfa, trosfasnachfa, trosnegesfa; anneddfa, anneddle, *neu* annedd-dy rhyngfaelwyr; cymdeithas rhyngfaelorion, y corff rhyngfasnachol, y rhyngfasnachwyr; tannorthas.

Factotum, *s.* (Ll.) gwas pob gwaith, gwesyn pob gwaith, gwas pob peth; ollweithiwr, ollffeithydd, ollffeithiwr.

Facture, *s.* (Ff.) gwneuthuriad, goberiad, ffurfiad.

Faculæ, *s. pl.* (Ll.) claerfanau; ysmotiau claer ar wyneb yr haul.

Faculty, *s.* (Ll. *facultas*; Ff. *faculté*) gallu, galluedd, medr, medredd, dawn, arddawn, teithi, atheithi, celfyddyd, cyfarwyddyd, deheurwydd, medrusrwydd, galluogrwydd, gall, pabl, grym, nerth, gallu naturiol, gallu hanfodol; cynneddf, camp, athrylith; rhyddfraint, trwydded, rhyddid, braint, rhagorfraint, cenad; rhwyddyd, dawnedd, abledd, rhinwedd, effeithioldeb, cyferddawn, effaith; galwad, galwedigaeth; cymdeithas, brodoriaeth; entrawiaeth, yr athrawon, yr entrawon; y gymdeithas feddygol, y côr meddygol, y meddygon; meddygwaith; gwyddodaeth; gallu i wneuthur peth.

The faculty of doctors—y côr meddygol, y gymdeithas feddygol.

The gentlemen of the faculty—gwŷr y gelfyddyd; y meddygon.

Natural faculties — cynneddfau naturiol, synwyrau naturiol, doniau naturiol, cynneddfau anianol, cynneddfau.

The faculties of the soul—cynneddfau yr enaid, galluoedd yr enaid, nerthoedd yr enaid, swydd-gynneddfau yr enaid.

Mental faculty, } cynneddf feddyliol,
Faculty of the mind, } cynneddf meddwl, gallu meddyliol, gallu menwydus, gallu y meddwl, ysbwyll, llafanad.

Faculty of speech—llafar, arlafar; y gallu i lafaru; teithi llafar, teithi ymadrodd.

Memorative faculty—y cof, cof.

He has the faculty of telling a story entertainingly—efe a fedr adrodd chwedl yn ddifyr, yn ddifyrus, *neu* yn ddigrif; mae ganddo ddawn i adrodd chwedl yn ddifyr.

He has the faculty of doing it—efe a fedr y ffordd arno; efe a ŵyr y ffordd arno.

Profound faculty—dwfn babl, dwfn deithi, gallu dwys.

Facund, } *a.* (Ll. *facundus*) hyawdl,
Facundious, } ffraeth, parablus, ymadroddus, arain, arodrydd, hylafar, geiriog.

Facundity, *s.* (Ll. *facunditas*) hyawdledd, ffraethineb, ffraethder, ffraethedd, hyodledd, areinrwydd, arugledd, rhugliaith, rhugledd ymadrodd, parabledd.

Faddle, *v. n.* ofera, simera, gogusa, ymdeganu, gofregu, pencawna, gwersa, chwareu; diffrwytho yr amser, oferdreulio yr amser; gwagedda, ofersiarad.

Fiddle-faddle—ffiloreg, oferedd, oferwaith, gofregedd, oferdod, simer, coegwaith, coegsimer, coegbeth, oferbeth; ffrilion, simerion, coegbethau, gwaelbethau; coegsiarad, oferglep, ofersiarad, oferchwedl, coegchwedl, siaradach, ffregod, baldordd.

Fiddle-faddle—coegweithgar, coeg brysur, coeg drafferthus, coeg ffwdanus, ofer, oferwag, coeg, gwag, gorwag, disylwedd, diddefnydd, ffiloregaidd, simerol, gofregol, gofregus, dibwys, diwerth, ffiloregaidd; ffwdanus yn nghylch dim.

Fade,† *a.* (Ff.) gwân, egwan, eiddil, llesg.

Fade, *v.* (Ff.) edwi, edwino, gwywo, dihoeni, difianu, difanu, dedwino; dadfeilio, adfeilio; colli ei liw; dysmythu, darfod, methu; myned ar ddim; myned ar ddifiant; trycio.

Apt to fade—difian, difan, edwin, dedwin, edw, edwinol, dedwinol, difianus, difianol, hyfeth; parod i ddifianu; chwannog i edwi.

Faded, *p. p.* edwedig, &c.; edwin, edw, edwinol, dedwin, dedwinol, difian, difan, gwyw.

Fadeless, *a.* anniflan, anniflanus, anniflanol, anedwin, anedwinol, annifan, annifanol, anwyw, anwywol, anhyfeth; anniflanedig, diddiflanedig.

Fadge, *v. n.* (S. *fægen, gefegen*; Al. *fügen*) gweddu, sutio, cydweddu, cyngweddu, cytuno, cyfiadd, cyttaro, cyfateb; llwyddo.

Fading, *a.* difian, diflanol, diflanus, difan, edwin, edwinol, dedwin, dedwinol, edw, difanol, difflan, difflanol, gwyw, diflanedig, difanedig, difflanedig; yn diflanu, &c.; hyfeth.

Never-fading — anniflanol, anniflanus, anniflan, anedwin, anedwinol, annifan, annifanol, anwyw, anwywol, anhyfeth; anniflanedig, diddiflanedig; anniflanadwy.

Fading, *s.* edwad, edwinad, dedwinad, difaniad, gwywad, dihoeniad; gwywder, methiant, methineb, darfodiant, edwedd, edwaint.

Fadingness, *s.* edwaint, edwedd, dedwinedd, edwindeb, edwinoldeb, dedwindeb, dedwinoldeb, diflanoldeb, diflanusrwydd, diflanrwydd, diflant, difflant, gwywder, methiant.

Fady, *a.* (*o fude*) difian, diflanol, edwin, dedwin, gwyw; adfeiliog, dadfeiliog; yn colli ei liw; nychlyd, edwinllyd.

Fæcal, *a.* (Ll. *fæces*) gwaddodol, gwaddodlyd, gwaddodog, ffiesog; ysgarthol, ysgarthog, ysgarthlyd, ystlomol, esgothionol.

Fæces, *s. pl.* (Ll.) ysgarthion, esgarthion, ysgothion, carthion, eulon, ystlom, tom; gwaddod, gwaddodion, gwaelodion, ffies, llorion, rhytion.

Fæcula, *s.* (Ll.) paill, pain, ffiurbaill; tyfias, glasddefnydd, glesni dail; peillud, syth.

Faery, *a.* (*o fair*) perthynol i'r tylwyth teg.

Faffel,† *v. n.* (o'r sain) ffeigio, cecian; bod âg attal dywedyd arno.

Fag, *v. a.* (Ll. *fatigo*) curo, baeddu, dullo, pwyo, ymladd; blino, llesghau, diffygio, cystegu, cystogi, lluddedu, trycio; peri gwneyd caledwaith, caledweithio; gorthrinio.

Fag, *v. n.* (Ysg. *faik*) bod yn flinedig; blino, diffygio, lluddedu, cystegu, cystogi; gweithio yn galed; ymdrafferthu, ymboeni; gweithio nes diffygio.

Fag,† *s.* cystog, cystegwr, cystogwr, cystogydd, gwas i bawb; caledweithiwr, llafurwas, caethwas.

Fagend, *s.* (*fag* ac *end*) gobed brethyn; pen yr eddi; y pen eithaf *neu* olaf; eithaf, eithafedd; godre, diwedd, terfyn; y peth gwaethaf; y rhan waelaf *neu* waethaf. [nos.

The fagend of the week—diwedd yr wythThe fagend of a letter—godre llythyr, diwedd llythyr, pen eithaf llythyr, gobed llythyr.

Fagging, *s.* curiad, baeddiad, duliad; caledwaith, cystegwaith, cwst, gorthrin, gorthriniad.

Fagot, } *s.* (Ff. *fagot*; C. *ffagod*; Gr. *phacellos*)
Faggot, } ffagod, ffagoden, cidysen, cedysen, ffasg, ffasgell, ffasgen; swp *neu* ysgub o friwydd; swp, sypyn, *neu* ysgub o fanwydd: *pl.* ffagodau, cidys, cedys, ffasgau.

Fagot band—rhwymyn, rhwym, gwasgrwym, *neu* wden ffagodau.

Fagot, } *v. a.* ffagodi, ffasgu, ffasgellu, cidysu,
Faggot, } cedysu, cidysio; rhwymo *neu* wneuthur yn ffagodau.

To fagot one—rhwymo un draed a dwylaw; clymu pedair aelod un; clymu pedair bagl un; clymu un draed a mwnwgl.

Fagoting, } *s.* ffagodiad, ffasgiad, cidysiad;
Faggoting, } rhwymad brigau coed.

Fagus, *s.* (Ll.) ffawydd, coed ffawydd.

Fahlerz, } *s.* (Al. *fahlerz*) gellfwn, llwydfwn copr,
Fahlore, } llwydgopr.
Fahlorz, }

Fahlunite, *s.* delidfaen Ffahlun yn Sweden.

Fahrenheit, *s.* (Gabriel Daniel *Fahrenheit*) gwresfynag Ffahrenheit, gwresfesurydd Ffahrenheit.

Faience, *s.* (o *Faenza* yn Romagna) meinbriddion Ffaensa; arfelbriddion; priddlestri teg â lluniau *neu* arfelion arnynt.

Fail, *v.* (Ff. *faillir*; Ll. *fallo*) methu, ffaelu, ffaelio, pallu, aballu; myned ar aball; diffygio, llaesu, ymlaesu, llesghau, ymollwng; darfod; darfod am dano; llewygu, llesmeirio; adfeilio, dadfeilio, syrthio, cwympo, *neu* orwedd dàn bwn; colli ei ergyd; colli ei amcan; methu cael ei effaith; methu cyrhaedd ei amcan; gadael, ymadael â; trycio, difianu, difanu, edwi; somi; gadael allan; gadael heb ei gyflawnu; camwneuthur; esgeuluso; tori; colli; gwallygio; pylu, tywyllu; dyfod yn fyr o; bod yn ol am; gyru ar aball.

He failed in the way—blinodd, diffygiodd, methodd, *neu* ffaelodd ar y ffordd.

Fail not to come — na phalled genyt ddyfod; nac esgeulusa ddyfod.

Because they failed to confess their sins—am wallygiaw o honynt gyfaddef eu pechodau.

Their heart had failed—digalonasent.

Their heart failed them—digalonasant.

He failed in this point—efe a ballodd yn y pwnc hwn.

My heart failed me—fy nghalon a ddiffygiodd; diffygiodd *neu* pallodd fy nghalon.

He will not fail thee, nor forsake thee—ni'th edy, ac ni'th wrthyd; nid ymedy efe â thi, ac ni'th wrthyd.

The waters shall fail from the sea—y dyfroedd a ballant *neu* a ddarfyddant o'r môr.

He failed in his promise—efe a dorodd ei air *neu* ei addewid; ni safodd efe wrth ei air *neu* ei addewid.

Let no man's heart fail—na lyfrhaed calon neb.

That never fails — diball, difeth, dibaid, diddarfod; na phalla byth.

She is a treasure that never faileth—diball drysor yw hi.

Men's hearts failing them for fear—a dynion yn llewygu gàn ofn.

They partly fainted, their heart failing them—hwy weithian a lewygent gàn ball calon.

I failed in my duty, } bum yn ol am fy
I failed of my duty, } nyledswydd.

To fail one's expectation—twyllo dysgwyliad un.

I failed of my expectation—ofer fu fy nysgwyliad.

How am I failed in my expectation!—mòr ofer, mòr wag, *neu* mòr orwag fu fy ngobaith! [i mi.

The time would fail me—yr amser a ballai

There shall not fail thee a man—ni phalla i ti wr.

To fail (as a tradesman)—tori, methu, ffaelu.

To cause to fail—gyru ar aball; peri methu, pallu, diffygio, *neu* ffaelu.

To fail in one's judgment—camsynied, camsynio, camgymmeryd, camdybied; cyfeiliorni mewn barn; methu mewn barn.

Oppression, theft, and perjury, have caused all good qualities to fail—y mae trais, lledrad, ac anudon, wedi gyru ar aball bob cynneddfau da.

They shall fail together—cydballant.

If money fail—os darfu yr arian (*Gen.* xlvii. 16).

The light thereof faileth—y mae diffyg ar hwn (*Eccles.* xvii. 31).

Eyes that fail—llygaid palledig (*Bar.* ii. 18); llygadball.

To make the poor of the land to fail—i ddifa tlodion y tir (*Am.* viii. 4).

When ye fail—pan fo eisieu arnoch (*Luc* xvi. 9).

Those that failed in patience—y rhai a adawsent amynedd (*Eccles.* xvii. 24).

The fruits of his understanding fail not—ffrwythau ei ddeall ef sy aicr (*Eccles.* xxxvii. 23).

For their victuals fail them—oblegid i'w lluniaeth hwynt ddarfod (*Judeth* xi. 12).

Their vessels of water failed all the inhabitants of Bethulia—pallodd eu llestri dyfroedd gàn holl drigolion Bethulia (*Judeth* vii. 20).

Fail, *s.* meth, ffael, pall, aball, ameth, diffyg, palldod, gwall, coll; bai, nam, anaf; methiant, gwendid; eisieu, byrdra, colled, angen.

Without fail—yn ddifeth, yn ddiball, yn ddiffael; yn ddibaid.

Failance,† *s.*=*Failing, Failure.*

Failing, } *s.* (o *fail*) methiad, ffaeliad, palliad,
Failure, } palliant, aballiad, amethiad, methiant, diffygiad, colliad; meth, pall, aball, ffael, diffyg, gwall, coll, methineb, ffaeledd, palldod, gwendid; adfeiliad, dadfeiliad, llaesiad, ymlaesiad, ymollyngiad, llacâd, peidiad; toriad; bai, breuolaeth, anmherffeithrwydd, dynol freuolaeth; darfodiant, darfodedigaeth; gwaethygiad; gwallusder, gwallusrwydd, palluarwydd; syrthiad, cwymp.

The best have their failings — nid yw y goreu heb eu bai; nid oes neb heb ei fai; nid difai neb a aned; y mae gwehilion i'r gwenith.

Failing of the spirits—llesgedd ysbrydoedd, llesgedd ysbryd, ymollyngiad ysbryd, gwendid ysbryd; llewyg, llesmar, llesmair.

Failing of an undertaking, } aflwyddiant
Failure of an undertaking, } gorchwyl *neu* amcan; mall-ffynniant gorchwyl *neu* amcan; annhyciant gorchwyl; afrwydd-deb gorchwyl *neu* amcan; pall gorchwyl.

Failure of a person in business—toriad, methiad, *neu* fethiant masnachwr.

Failure in judgment—camsyniad, camgymmeriad, camgymmeriaeth, camdybiad; ffaeliad, ffael, cyfeiliornad, *neu* gamsyniad mewn barn.

Never-failing — diball, difeth, dibaid, diddarfod, diffael.

Complete failure—llwyr ball, llwyrball, llwyrwall, llwyr fethiad, &c.

Human failings—ffaeleddau dynion, gwendidau dynol, dynol freuolaeth.

Failing of eyes—darfodedigaeth llygaid (*Deut.* xxviii. 65); pall golwg, pall golygon, ffaeledd llygaid, llygadball.

Fain, *a.* (S. *fagen, fægen*) llawen, hyfryd; boddlawn, ewyllysgar, gwyllysgar, chwannog, awyddus; dymunol, da; â fo â gorfod arno wneuthur peth; â fo yn gorfod arno wneuthur peth; â fo yn rhaid iddo wneuthur peth.

To be fain—bod yn llawen *neu* hyfryd, &c.; gorfod ar, gorfod i; bod yn rhaid.

I was fain to do this—gorfu arnaf wneuthur hyn; bu raid imi wneuthur hyn; yr oedd yn hyfryd genyf wneuthur hyn.

They were fain to speak the truth—gorfu arnynt ddywedyd y gwir.

We were fain to dig wells—gorfu ini gloddio pydewau; gorfu arnom gloddio pydewau; bu yn rhaid ini gloddio ffynonau.

We were fain to depart—bu raid ini ymadael; bu yn rhaid ini ymadael.

My lips shall be fain—fy ngwefusau a fyddant hyfryd.

That they were fain to disperse themselves, every man to his own place—oni thynasent hwy ymaith bob un i'w le ei hun (1 *Mac.* vi. 54).

Fain, *ad.* yn llawen, yn hyfryd; yn foddlawn, yn fodlon, yn ewyllysgar, yn wyllysgar, yn chwannog, yn awyddus; yn ddymunol, yn dda; yn dra boddlawn; yn foddlawn iawn; o lwyr fryd calon; o lwyr ewyllys calon; yn dra chwannog; da.

I would fain, } da fyddai genyf; byddai
Fain would I, } yn dda genyf; byddai dda genyf; byddai da genyf; mi a chwennychwn; chwennychwn, ewyllysiwn, gwyllysiwn, dymunwn, mynwn; byddai hyfryd genyf; hyfryd fyddai genyf.

I would fain know why—da fyddai genyf wybod pam; hoffwn wybod pa ham.

If I would ever so fain—er cymmaint y chwennychwn; pa gymmaint bynag y chwennychwn; er chwannoced bynag fyddwn; pa mòr chwannog bynag fyddwn; er chwannoced y byddwn; pa mòr awyddus bynag y byddwn.

He would fain have filled his belly with the husks—efe a chwennychai lenwi ei fol â'r cibau.

He would fain flee out of his hand—gàn ffoi efe a fynai ffoi allan o'i law ef (*Iob* xxvii. 22).

Fain,† *v. n.* chwennychu, chwennych, awyddu, dymuno.

Faint, *a.* (Gw. *faine;* Ff. *fanéant, faner*) gwàn, egwan, gwanaidd, llesg, diffygiol, methedig, gwanllyd, llegach, culwan, gwecry, lluddedig, llwrf, (*f.* llorf), llwrf, llaes, llac, llibin, llipa, digalon, llesgenaidd, blin, blinedig, musgrell, gwanllyd, eiddil, marwaidd, marw, digalon, dïarial, llyferthin, llegus, palledig, llesgaidd, nychlyd, edwin, gwachul; gwywlyd, gwyw; aneglur, angblaer, pwl, tywyll; anghroew; anmherffaith; llewygus, llewygaidd, llewygol; parod i lewygu; gofidus.

Faint blue—golas, lledlas, gwynlas, glaswyn, glaswelw, glas gwàn, glas gwanaidd, glas gwywlyd.

To grow faint—llesgu, llesghau, llaesu, dyddfu, edwi, gwanhau, gwanychu; myned yn wàn, &c.

To grow faint from hunger—dyddfu o newyn; dyddfu gàn newyn; llewygu gàn newyn; llewygu o newyn.

To make faint—llesghau, gwanhau, gwanychu, llyfrhau, llyrfhau; gwneuthur yn wàn *neu* yn lleag, &c.

Faint heart never won fair lady — y dewr bïau'r byd; i'r dewr yr â'r da; nid oes i'r annewr ond annawn; hap Duw, ddewryn.

My heart is faint in me—fy nghalon sydd yn gofidio ynof (*Ier.* viii. 18).

Faint, *v.* llewygu, llesmeirio, masu, gloesygu; syrthio mewn llewyg *neu* lesmar; myned mewn llewyg *neu* lesmar; llesghau, llesgu, diffygio, ymlaesu, ymollwng, gwanhau, gwanychu, llaesu, yslacio, llacio; myned yn llesg, &c.; bod yn wàn, &c.; llyfrhau, llyrfhau, digaloni; edwi, nychu, dihoeni, edwino, dedwino, diflanu, adfeilio, dyddfu, gwelwi, pallu, methu, blino.

To faint away—llewygu, llesmeirio, masu, llymhuno, gloesygu; syrthio mewn llewyg, llesmar, *neu* lesmair; myned mewn llewyg *neu* lesmar.

He fainted away — fe syrthiodd arno lewyg; syrthiodd arno lesmair; syrthiodd llewyg arno.

To faint for hunger, } dyddfu gàn
To faint by reason of hunger, } newyn; dyddfu o newyn; llewygu gàn newyn; llewygu o newyn.

All the trees of the field fainted for her—yr ydoedd ar holl gced y maes lesmair am dani.

Let not your hearts faint—na lyfrhäed eich calonau; na lesghäed eich calonau; na feddalhäed eich calonau; na fyddwch egwan eich calon.

He is faint—y mae yn diffygio, &c.

The young men faint for thirst—y meibion ieuainc a ddiffoddant gàn syched; y meibion ieuainc a ddiffoddant o syched; y gwŷr ieuainc a ballant gàn syched.

Lest your hearts faint—rhag llyfrhau eich calonau.

Fainthearted, *a.* gwangalon, digalon, llwfr, llwrf, llesg, annewr, anwrol, meddalgalon, gwangalonus, dïarial; anfilwraidd; gwàn ei galon.

Be not fainthearted—na fydd egwan dy galon; na lyfrhäed dy galon; na feddalhäed dy galon; na lesghäed dy galon; na fydd wangalon, &c.

Faintheartedness, *s.* gwangalondid, digalondid, gwendid calon, anghalondid, digalonrwydd, gwangalonrwydd, dïysbrydedd, llyfrder,

llyfrdra, llyrfder, annewredd, anwroldeb.

Fainting, *s.* llewygiad, llesmeiriad, gloesygiad, masiad; llewyg, llesmair, llesmar, mas, gloesni, gloes; llesghad, gwanhad, gwanychiad, &c.

Fainting fit—llewyg, llesmair, llesmar, gloes, mas, llymhun, llewygfa.

To recover from a fainting fit—dadlewygu, dadlesmeirio, dadfasu, dadebru, dadllymhuno.

Faintish, } *a.* gwanaidd, gwanllyd, egwanaidd,
Fainty, } llediwan, gowan, llymhunig, llesgaidd, &c.

Faintishness, *s.* gwaneiddrwydd, llesgeiddrwydd, egwaneiddrwydd, egwander, lledwendid, gowendid.

Faintling,† *a.* llwfr, digalon, llibin.

Faintness, *s.* gwendid, llesgedd, llesgrwydd, llesgarwch, egwander, egwanaeth; nych, nychlydrwydd, methiant, methineb, dihoenedd; llaesder, llaesedd, llacrwydd; lludded, blinedd, blinder; dïogi, musgrelli; llyfrder, llyfrdra, llyrfdra, llibindod, llibinrwydd; gwywder, gwywlydrwydd, gwelwedd; llewyg, llesmair, llesmar, mas, llymhun.

I will send a faintness into their hearts—dygaf lesgedd ar eu calonau.

She fell down for faintness—syrthiodd gân wendid *neu* lesgedd; hi a syrthiodd yn ei llewyg.

Faints, *s. pl.* gwaddod, gwaddodion, gwaelodion, llorion; dystyllwaddod, gwaddodred; anmhuredd à erys ar ol dystyllio; gwirod gwàn, ffleswirod.

Fair, *a.* (S. *fæger*; Sw. *fager*) teg, glân, glandeg, prydferth, prydweddol, prydus, hardd, hardd-deg, cain, telaid, eirian, glwys, mirain, mir, tlws, (*f.* tlos), clws, (*f.* clos), berth, teledïw, deiniol, dain, addien, gwymp. (*f.* gwemp), cyfrdelaid, tèl, eirioes, pefr, iesin, gloew, arbrydus, galawnt; ter, goleu, goleudeg, araul, digwmwl, anghymylog, claer; gwŷn, (*f.* gwèn), gwyndeg; glân gloew; cyflawn, uniawn, union, gonest, clau, didwyll, dihoced; cyfartal, cymhwys; hwylus, hylwydd, llwyddiannus, da; mwynaidd, mwyn, mwyndeg, hynaws; agored; tegwedd.

Fair weather—tywydd teg, hin deg, hindda; hinon, tegwch.

Fair water—dwfr glân; dwr glân gloew.

Fair hair—gwallt teg; gwallt goleu, gwallt goleuliw; gwallt melyn.

Fair woman—benyw deg, menyw lân, dyn wèn, bun wèn; gwèn ei phryd; teg ei phryd; dynes landeg.

The fair maid—y ddyn wèn, y ddyn lân, gwenddyn, gwenlodes, gwenlances; gwèn ei phryd; y wyryf deg, y rhian deg, y forwyn deg, y wyryf wèn, y degwedd.

Fair sex—rhyw deg, y rhyw deg, y rhywogaeth hawddgar, y rhywogaeth deg, yr ystlen deg; y rhyw fenywaidd; benywod.

Fair man—dyn glân; dyn teg ei bryd; gwŷn ei bryd; teg ei bryd; dyn gwŷn.

Fair play—chware teg, chwareu teg.

Fair wind—gwynt hwylus, gwynt hylwydd, gwynt teg.

Fair hand—llaw deg; llaw eglur; llaw ddarllenadwy; llawysgrifen deg.

Fair words — geiriau teg; gweniaith; geiriau mwyndeg, llathreiriau.

Fair speech—ymadrodd teg; ymadrodd gwenieithaidd, ymadrodd gwenieithus, gweniaith; parabl teg, rhywiogiaith, geiriau teg, tegeiriau, parabl rhywiog.

Fair means—tiriondeb, tirionder, tirionwch, hynawsedd.

By fair means—trwy deg.

Fair tongue—tafod teg, tafod gwenieithus; tafod ymadroddus, parablus, *neu* bereiddfwyn.

Fair to see, } teg yr olwg; glân
Fair in appearance, } yr olwg; hardd ei wedd; hardd o wedd; teg ei bryd; teg ei wedd; hardd ei bryd; teg o bryd; teg o wedd; ceinwedd, tegwedd, prydweddol, prydus, prydferth, golygus.

Delicately fair, } meindeg, meinwen,
Delicate and fair, } mwyndeg.

Tolerably fair—gweddol deg, syrn deg, swrn deg, tegaidd, eryn deg, trân deg.

Amiably fair—anwylgain, anwyldeg.

Outwardly fair—ellwedd.

The fair one—yr ellwen, y degwedd; yr un deg, y ddyn deg, y ddyn wèn, y ddyn lân, y fun deg, y wenddyn, y wenlodes; y wèn ei phryd; y deg ei phryd; y deg ei gwedd; y deg ei deurydd; y rhian deg, yr eneth deg; yr elen; gwèn, benyw.

My fair one—fy mhrydferth; fy nhegwedd, &c.

The fairest lady in the land—y decaf yn y dyrfa lle del; y rhian decaf yn y wlad.

The delicate fair one—y ddyn fanol; y feinir deg, &c.

Fair complexion—lliw teg, gwyndeg, glandeg, *neu* hardd-deg; gwedd deg, gwedd landeg; tegwedd, tegwel; lliw y lili; lliw yr eira; lliw yr eiry; lliw y manod; lliw y blodau; deuliw y blodau; deune yr eiry; eiliw yr eiry; lliw hoew ne Mair; hoen blodau haf; hoen ewyn llŷn.

Of a fair appearance—tegwedd, tegwel; teg ei wedd; hardd ei wedd.

Fair-fronted — gwyndal, (*f.* gwendal), wynebwyn, (*f.* wynebwen).

The fair-fronted Indeg—Indeg wendal.

Very fair—teg iawn, tratheg, &c.; elgain, argain, gorwyn, (*f.* gorwen), arwymp, athelaid, gordelaid, teg dros ben.

Fair land—tir gâl, tir agored, tir ial, tir teg.

Fair spot—manyn teg, mangre deg, rhandir deg, gâl; ysmotyn teg.

To make fair—teghau, tecâu, tegychu, prydferthu, harddu, gwympu, tegu; gwneuthur yn deg, &c.

Not fair—annheg, &c.; didlws, diddel, dideg; hyll, salw, hagr.

As fair—mòr deg; cyn deced, càn deced; teced; cymhryd.

To be in a fair way to—bod yn *neu* ar yr iawn ffordd i; bod yn *neu* ar y ffordd uniawn i; bod yn *neu* ar y ffordd gymhwys i.

He stands as fair to succeed as any man—y mae efe cyn debyced a neb i lwyddo; y mae efe mòr debyg a neb i lwyddo; y mae mòr debygol i lwyddo a neb.

To make a fair show—ymdecâu; gwneuth-

ur ymddangosiad teg; ymddangos yn deg.

Fair words butter no parsnips—ni lenwir cylla gwag â geiriau teg; ni wna geiriau teg lau y tir.

A fair face is half a portion—mae wyneb teg yn hanner gwaddol; mae tegwch gwedd yn hanner gwaddol; mae gwedd yn hanner gwaddol.

The fair havens—y porthladdoedd prydferth.

Good words and fair speeches—ymadrodd teg a gweniaith; geiriau mwyn ac ymadroddion teg.

The maid is fair and wise—y mae hi yn llances lân synwyrol.

Fair-conditioned—da ei gynneddfau; da ei foesau; da ei foes; mocsog, moesgar, moesol, moddus, moddgar; da ei gyflwr; gwych ei helynt; da ei wedd.

Thy fair jewels—offer dy harddwch (*Exec.* xvi. 17).

Fair, } *ad.* yn deg, yn lân, yn landeg, &c.;
Fairly, } trwy deg.

To bid fair, } bod gân un gynnyg teg;
To promise fair, } bod i un gynnyg teg;
To stand fair, } bod yn debygol i gael *neu* gyrhaedd; bod yn debygol i ddyfod i; bod yn debyg i ddyfod o hyd i; bod yn sefyll yn deg; ymddangos yn deg *neu* yn dda; bod yn debyg *neu* debygol; addaw yn deg.

To bid fair for a thing—bod gân un gynnyg teg am beth; cynnyg yn deg am beth.

Fairly and softly—yn araf deg, yn arafdeg, gân bwyll.

Fair and softly goes far—gân bwyll a gyrhaedd yn mhell; gân bwyll a gerdd yn mhell.

To act fair, } gwneuthur tegwch; ym-
To deal fairly, } ddwyn yn deg *neu* ddidwyll; gwneuthur gonestrwydd; gwneuthur yr hyn a fyddo teg.

I shall be very fair with you—mi a wnaf â chwi eithaf tegwch; mi wnaf â chwi bobpeth a fyddo teg; ymddygaf yn eithaf teg tuag atoch.

To speak fair—dywedyd yn deg; gorllyfnu, sidanu; gwenieitho, truthio, trutheinio, glafru; bod yn fwyn ei ymadrodd; bod yn degwedog; bod yn ymadrodd-fwyn.

To keep fair with one—cadw heddwch *neu* degwch âg un; bod yn heddychol, yn heddychlawn, *neu* yn ddïamryson âg un; ymgadw ar delerau da *neu* deg âg un.

Fair and square—tegwch, gonestrwydd; trafodiaeth uniawn *neu* deg.

Fair, *s.* meinwen, meinir, meingan, benyw deg, menyw deg, benyw lân, dyn wèn, dynes lân, bun deg, dyn deg, un deg, un lân, tegwedd, tegwen, ellwen, elen, gwenddyn, gwenfun, gwèn, gwenlodes, gwenrian; gwèn ei phryd; teg ei phryd; teg ei gwedd; teg ei deurudd; teg ei hellwedd; dynes hardd; benyw, bun, rhian; y rhyw deg; ysgywen;† tegwch.

Fair, *s.* (Ff. *foire;* Ll. *forum, feriæ;* Ysp. *feria*) ffair; uchel farchnad, prif farchnad.

Fair-day—dydd ffair.

The fair-day—dydd y ffair.

On the very fair-day—ar gorff dydd y ffair; yn nghorff dydd y ffair.

You are come a day after the fair—chwi a ddaethoch yn rhy ddiweddar *neu* yn rhy hwyr; daethoch y dydd ar ol y ffair; daethoch dranoeth y ffair.

Fair-haired, *a.* tegwallt; â gwallt teg, goleu, *neu* oleuliw ganddo.

Fair-hand, *a.* teg ei ymddangosiad; teg ei wedd; llawdeg, teglaw.

Fairhood, *s.* tegwch, tegedd, tegrwydd, glendid, prydferthwch, harddwch, ceinder, mireinder.

Fairies, *s. pl.* (o *fairy*) y tylwyth teg, gwyllon, ellyllon, elffod, gwagysbrydion, anysbrydion, gwreigedd anwyl, plant y gwreigedd anwyl.

Fairing, *s.* (o *fair,* ffair) ffeiryn, rhan o'r ffair, rhodd o ffair.

Fairly, *ad.*=*Fair, Fairly.*

Fairness, *s.* (o *fair*) tegwch, glendid, prydferthwch, harddwch, glandegwch, tegedd, tegrwydd, tegaint, prydusrwydd, prydweddoldeb, tegder, tegid, ceinder, ceindeb, glwysder, glwysedd, mireinder, mireinedd, mireindra, mireindod, mireindeb, mireinwch, mireinrwydd, telediwrwydd, teleidrwydd, berthedd, berthineb, berthyd, deiniolder, gwympedd, tlysder, tlysni, clysni; gwynder, gwyndra; claerder, claerineb, purdeb, puredd, purineb; gloewedd, gloewder; uniondeb, unionder, unionedd, cleuder, gonestrwydd, iawnder, diduedrwydd.

Fair-seeming, *a.* tegwel, tegwelog, tegrithiol, teg-ymddangosol; yn ymddangos yn deg; teg yr olwg.

Fair-spoken, *a.* geirdeg, geirber, geirfwyn, llafardeg, mwynair; ymadrodd-fwyn, parablber; ymadroddus, parablus; gwenieithus, gwenieithol; hynaws, mwyn, hyfwyn, mwynaidd, cyweithasol, mwynlan; ymddangosiadus.

Fairy, *s.* (o *fair;* cymharer y C. tylwyth *teg*; Al. *fee*; Ff. *fée*) un o'r tylwyth teg; ellyll, gwyll, elff, gwion, ellyllyn, gwagysbryd, anysbryd, gwydion, coblyn; gwylles, ellylles, ellyllen, gwyllen, chwimpleian, chwimleian, miren, mires, gwydien, tegen; swynes, swynwraig: *pl.* y tylwyth teg, bendith eu mamau, elod, gwydiaid, gwreigedd anwyl, plant y gwreigedd anwyl.

Fairy, *a.* perthynol i'r tylwyth teg; ellyllig, elffin, elffain, elffig, gwionig, gwionain.

Fairy of the mine—coblyn y mwnglawdd, coblyn y gloddfa.

Fairy ground—trefa y tylwyth teg.

Fairy circle } cylch y tylwyth teg.
Fairy ring }

Fairy hillocks—twmpathau y tylwyth teg, twynau y tylwyth teg.

Fairy sparks—ellylldan, gwylldan, malldan, llewyrn, gwyll-wreichion, gwreichion y tylwyth teg, tân llwynog.

Fairy land—gwlad y tylwyth teg, ellyllwg, mireinwg, gwionwg.

Fairy queen—brenines y tylwyth teg, brenines yr elod.

Fairy money—arian y tylwyth teg, gwyllarian.

Fairyland, *s.* gwlad y tylwyth teg, ellyllwg, mireinwg, gwionwg.

Fairylike, *a.* mâl y tylwyth teg; ellyllaidd, gwyllaidd, elffaidd, coblynaidd.

Fairystone, *s.* gwyllfaen, miresfaen, maen y tylwyth teg.

Faith, *s.* (Ll. *fides;* Ff. *foi*) ffydd; coel, cred,

credíniaeth, coeledd, crededd; hyder, ymddiried, goglud; ffyddlondeb, ffyddlonder, cywirdeb; llawgair.
The right faith—yr iawn ffydd, yr iawn gred, yr uniawn ffydd, iawngred, uniongred, uniondyb, uniongrededd, iawngrededd.
Of the right faith—uniongred, iawngred, iawnffyddiog, iawnffyddiol; à fo o'r iawn ffydd; uniawn ei ffydd.
Wrong faith—geuffydd, geugred, camgred, camffydd, geulith, geugrefydd, gau grefydd, gau ffydd, geugrediniaeth, camgoel, camgrefydd.
Of a wrong faith—geuffyddiog, geuffyddiol, camffyddiog, geulithiog, geulithiol, geugrefyddol.
Weak faith—ffydd wàn, gwanffydd.
Of weak faith—gwanffyddiog, gwanffyddiol, gwanffydd, gwangred; gwàn ei ffydd; gwàn ei gred.
The catholic faith—y ffydd gyffredinol, y ffydd gydolig, y ffydd gatholig, y ffydd gydollig, y ffydd gytholig.
The Christian faith—y ffydd Gristionogol, y ffydd Gristianogol.
On my faith—myn fy ffydd; myn ym ffydd; ar fy llawgair.
One's faith solemnly given — llawgair, briduw.
To plight one's faith, } rhoddi briduw ar
To engage one's faith, } un; rhoddi cred ar un; rhoddi ei gred i un ar gyflawnu ei addewid; addaw i un ei lawgair; rhoi ei gred i un; ymgredu âg un; ymffyddio, ymgreirio, ymdyngu.
To have faith in—credu yn, credu mewn; bod gàn un ffydd *neu* gred yn; hyderu ar; rhoi hyder ar; ymddiried yn; gobeithio yn; rhoi goglud ar; rhoi coel ar; rhoi pwys ar.
To violate one's faith—tori ei air, ei addewid, *neu* ei lawgair; tori ei ffydd.
The finisher of our faith — perffeithydd ein ffydd; ein credofydd.
Evangelical faith—ffydd efengylaidd, ffydd yr efengyl.
Without faith or law—heb na ffydd na rhaith.
A brother in the faith — brawd ffydd, ffyddfrawd, brawd crefyddol, brawd crefydd, brawd unffydd.

Faith-breach, *s.* tor ffydd, anffyddlondeb, anffyddlonder, tor addewid, ffalsedd, brad.

Faithed,† *a.* cywir, gonest, ffyddiog.

Faithful, *a.* ffyddlawn; ffyddiog, ffyddiol; cywir, didwyll; ymddiredus; à aller coel arno; à ellir coel arno; diwair; gwir.
The faithful—y ffyddloniaid; cywiriaid; credinwyr, crediniaid.
One of the faithful—un o'r ffyddloniaid; credadyn.
Most faithful—ffyddlonaf, mwyaf ffyddlawn; ymddiried-gwbl.
It is a faithful saying—gwir yw y gair.
The three faithful clans — y tri theulu diwair; y tri diwair deulu; y tri theulu ffyddlawn.

Faithfully, *ad.* yn ffyddlawn, &c.; ar ei lawgair.

Faithfulness, *s.* ffyddlondeb, ffyddlonder, ffyddlonrwydd; cywirdeb, cywiredd, gonestrwydd, cleuder, purdeb, gwirionedd, geirwiredd; diweirdeb.

Faithless, *a.* diffydd, digred, anffyddiog, anffyddiol; anffyddlawn, ffals, anghywir, twyllodrus, anymddiriedus, hocedus, anonest, gau; digoel, anghrediniol, anghredadin, anghredin; bradwrus, bradog, bradwraidd; à doro ei air; à doro ei addewid; anhawdd ganddo gredu.
To become faithless—anffyddio; myned yn ddiffydd, &c.
Be not faithless, but believing—na fydd anghredadyn, ond credadyn.

Faithlessness, *s.* anffyddiaeth, anghred, anghrediniaeth, anghrededd, anghredadiniaeth, anffyddiogrwydd, anffydd, anffyddiolrwydd, diffyddiaeth; anffyddlondeb, anffyddlonder, anffyddlonrwydd, anghywirdeb; twyll trwy ymddiried; brad, bradwriaeth, bredych, hoced, twyll, ffalsedd; anonestrwydd.

Faitor,† *s.* (Norm. o'r Ll. *factor*) drygweithredwr, dyhiryn, bawddyn: *pl.* bawach.

Fake, *s.* (Ysg. *faik*; Sw. *vika*) rhaffrwy, rhaffdro, torch.

Fakir, } *s.* (Ar.) Ffacir, Ffaqir, monach In-
Faquir, } diaidd.

Falcade, *s.* (Ll. *falx*) crymnaid.

Falcate, *a.* (Ll. *falcatus*, o *falx*) crymanaidd, crymain, crwca, cam; ar lun cryman neu bladyr; cyrnig.

Falcate, *s.* crymanblyg, crymblyg.

Falcation, *s.* (Ll. *falx*, *falcis*) crymedd, camedd, crymaint, crwcanedd, crymaniad, cemi, camni, camder, crymeinedd.

Falchion, *s.* (Ff. *fauchon*; Ll. *falx*) crymgledd, crymgleddyf, camgleddeu, camfidog, pladyrgledd, cleddyf byr cam; cleddyf.

Falciform, *a.* (Ll. *falx* a *forma*) crymanaidd, crwca, crwm; ar lun cryman.

Falcon, *s.* (Ll. *falco*; Ff. *faucon*; It. *falcone*) hebog, gwalch; yr hebog; gwyddwalch.
Peregrine falcon—cammin, hebog dramor, hebog tramor.
Grey falcon—hebog, gwalch.
Yellow-legged falcon—cudyll, cudyll coch, cudyll y gwynt, cudyll coesfelyn, cenlly goch, ceinlly goch.
Crested falcon—hebog gopog, hebog copog.
Falcon gentil—hebog lwydwen, hebog llwydwyn, hebog penddu.

Falconer, *s.* (Ff. *fauconnier*) hebogydd, hebogwr, gwalchydd, gwalchwr, gweilchydd.
Chief falconer—penhebogydd, penhebogwr.
The office of the chief falconer—penhebogyddiaeth.

Falconet, *s.* (Ff. *falconette*) hebogwn=math o gyflegr bychan.

Falconidæ, *s. pl.* hebogolion, heboglwyth, hebogryw.

Falconry, *s.* (Ff. *fauconnerie*) hebogyddiaeth, gwalchyddiaeth, gwalchwriaeth, gweilchyddiaeth, hebogwriaeth.

Faldage, *s.* (S. *fald*, *falde*; Ll. gyfreithiol, *faldagium*; C. *ffald*) ceilfraint; hawl i fuarthu neu geilio.

Faldfee, *s.* (S *fald* a *fee*) ffaldobr, ceildal, tâl ceilfraint, toll ceilfraint.

Falding,† *s.* math o nwydd bras.

Faldistory, *s.* (S. *fald* a *stow*) gorsedd esgob gorseddfainc esgob.

Faldstool, *s.* (*fald* neu *fold* a *stool*) cader goroni, ystol goroni; yr ystol y penlinia breninoedd Lloegr arni wrth eu coroni; gorsedd esgob, ceilfainc, bugeilfainc; deisfainc, deisgader, ymbilfainc; cader hyblyg, breichgader, cader ddwyfraich; osggader; pall.

Falernian, *s.* gwin Ffalernus (yn yr Ital).

Fall, *v.* (S. *feallen*; Al. *fallen*; Is. *vallen*) cwympo, syrthio, gostwng, gostyngu; dygwydd, dygwyddo; cwyddo, tramgwyddo, codymu, trachwyddo, llithro; myned i lawr; ymddattod, adfeilio, edwi; llyfrhau, llyrfhau, lleseghau, llaesu, llacäu, llacio, yslacio, methu, pallu, ymollwng, ymfwrw, digaloni; treio, cilio, lleihau; disgyn; tawelu, gostegu, ymdawelu, llinaru, lliniaru, iselu; myned; ymarllwys, aberu; dyfod; darfod; bwrw.

To fall asleep—syrthio yn nghwsg; myned yn nghwsg; syrthio i gwsg; syrthio i gysgu; huno, cysgu.

To fall aboard of — syrthio ar draws; taraw wrth long arall.

To fall astern—syrthio yn ol; symmud yn ol; cael o'r llong ei gyru yn ol; aros yn ol.

To fall asunder—ymwahanu, ymddattod, ymollwng; syrthiaw oddi wrth eu gilydd.

To fall away—syrthio ymaith, cwympo ymaith; syrthiaw oddi wrth; culhau, curio, teneuo; dedwino, edwino, edwi, dihoeni, ·gwywo, darfod; gwrthgilio, ffyddwadu, cefnu; cilio, tynu, *neu* ymlithro ymaith; ymadaw â'i ben; ymadael â'i ben.

To fall away from one's oath—halogi *neu* dori ei lw.

To fall back—syrthio yn ol; cwympo yn ol; cilio yn ol; gwrthgilio; encilio, cilio.

To fall calm—tawelu, ymdawelu, gostegu; myned yn dawel; dyfod yn dawel; ymlonyddu, ymddystewi.

To fall down—syrthio *neu* gwympo i lawr; cwympo; syrthio.

To fall down flat—cwympo *neu* syrthio i lawr yn swrth; syrthio yn ei amgrain; syrthiaw o'i hyd gyhyd; syrthio yn ei hyd gyhyd; ymgrymu; ymostwng; suddo; nofio *neu* hwylio i waered.

To fall down together—cydsyrthio, cydgwympo; syrthio *neu* gwympo yn nghyd; syrthio i lawr yn nghyd.

To fall down headlong,
To fall down with the head foremost,
cwympo *neu* syrthio bendramwnwgl; syrthio *neu* gwympo yn llwrw ei ben; cwympo *neu* syrthio yn wysg ei ben; syrthio dibyn dobyn; syrthio yn ddïymattal.

To fall down the river—nofio, hwylio, *neu* fyned i waered; myned tua'r aber; myned i lawr ar hyd yr afon.

To fall down with violence,
To fall down headlong,
rhaiadru.

To fall foul—syrthio am ben; syrthio ar draws; ymosod, ymruthro, rhuthro; gwneuthur cyrch.

To fall from—syrthiaw oddi wrth; cwympaw oddi wrth; syrthio *neu* gwympo ymaith oddi wrth; ymadael oddi wrth; ymadaw â; gwrthgilio; ciliaw oddi wrth.

To fall from one's word—tori ei air; tori ei addewid; syrthiaw oddi wrth ei air.

To fall in—syrthio i mewn; cwympo i mewn; cydsynio, cytuno, cydfyned, cydweled, cyfladd, cyttaro, cydgordio; cyfarfod; dyfod yn agos; darganfod.

To fall in hand with a thing—myned yn nghylch rhyw orchwyl; myned yn nghyd â rhyw orchwyl; ymosod ar beth; cymmeryd gorchwyl yn *neu* mewn llaw; cychwyn i waith; cwympo at beth.

To fall in love with—cwympo, syrthio, *neu* fyned mewn cariad â; bwrw *neu* roddi ei serch ar; serchu, hoffi.

To fall in one's way—bod ar ffordd un; dyfod ar ffordd un; bod ar law un; dyfod ar law un; syrthio yn ffordd un.

To fall in price,
To fall in value,
cwympo, gostwng, *neu* syrthio mewn pris; myned yn iselbris, yn ddibris, *neu* yn ddïystyr; myned yn ddiwerth.

To fall in with — cyfarfod â, gorddiwes, goddiwes, cyfredeg â, ymgyfredeg â, ymgyhydreg â; dyfod gogyfuwch â; dyfod yn nghyd â; taraw wrth; cytuno â, cydsynio â.

To fall in with criminal measures—cydsynio *neu* gytuno â drwg fesurau *neu* arferion; bod o blaid *neu* yn mhlaid drwg arferion; bod *neu* ymroddi yn beiriant i ddwyn drwg ddychymygion yn mlaen *neu* i ben; bod â llaw mewn camrwysg; ymgyssylltu, ymuno, *neu* ymwasgu â thraws arferion *neu* draws lywodraeth; bod i *neu* gàn un ran, cyfran, *neu* law yn nrwg lywodraeth gwlad; bod yn borth *neu* yn gefn i ormes-lywodraeth *neu* fall arferion mewn gwladwriaeth.

To fall in one's gift—dyfod, cwympo, *neu* syrthio ar law un; dyfod i law, i ddwylaw, i rodd, *neu* i roddiad un.

To fall into—syrthio i, cwympo i; aberu i, ymarllwys i, ymarlloesi i, aberu yn, ymarllwys yn, ymarlloesi yn; syrthio i mewn, syrthio yn, cwympo yn.

To fall into the hand of—syrthio *neu* gwympo yn llaw; cwympo *neu* syrthio i law.

To fall lower—syrthio *neu* gwympo yn is; disgyn yn is.

To fall off—syrthio *neu* gwympo ymaith; ciliaw oddi wrth; osgöi *neu* ogwyddaw oddi wrth; cilio, encilio, gwrthgilio; methu, gwaethygu, gwaelu; lleihau; gadael, gadaw, ymadael; ymwahanu, ymddydoli; syrthio, cwympo; dyfod i lawr; myned yn fwy diwerth; crisbilio.

To fall off a bargain—ciliaw oddi wrth gytundeb *neu* ammod.

To fall off (as scales, &c.) — crisbilio, syrthio ymaith.

To fall often—mynych gwympo, mynych syrthio, dygwympo, ymddygwympo.

To fall on—syrthio ar, cwympo ar; cydio â, ymgydio â; myned yn nghyd â; myned yn nghylch; dechreu ar; ymosod ar; rhuthro ar; dwyn cyrch ar; dyfod ar warthaf; cwympo ar warthaf; disgyn ar; gwneuthur rhuthr *neu* gyrch

ar; dyfod am ben; dygwyddo ar; dyfod ar.

To fall on first—cydio yn gyntaf; dechreu; gwneuthur y cynosod.

To fall out—cwympo allan, syrthio allan, cwympo i maes; ymryson, amryson, ymrafaelio, cynhenu, ymdynu; dechreu ymryson *neu* ymrafael; digio, llidio, sori; ymddarfodi; trin; dygwyddo, dygwydd, damweinio, damwaen, hapio, bod; troi allan.

To fall out *or* from—syrthiaw o, syrthio allan o.

To fall over—syrthio dros; syrthio drosodd; myned drosodd; gwrthgilio; pleidgilio; troi, cyfnewid; newid ochr; newid ei blaid; gwrthryfelu.

To fall short of—syrthio yn fyr o; dyfod yn fyr o; methu cyrhaedd; methu â chyrhaedd; bod yn ol o; bod yn fyr o; pallu, diffygio.

To fall sick—clefychu, clafychu; myned yn glaf; taro yn glaf; syrthio yn glaf.

To fall to—syrthio i, cwympo i, syrthio at, cwympo at; myned i, myned at; cwympo ar, syrthio ar; dechreu, dechreu ar; ymosod ar; cydio â; myned yn nghyd â; myned yn nghylch; ymgydio â; cilio at; ymröi at, ymroddi at.

To fall to one — dyfod, disgyn, syrthio, cwympo, dygwyddo, dygwydd, *neu* fyned i un; dyfod i ran un.

To fall to abusing each other—myned *neu* daraw i ymdaeru; myned *neu* daraw i ymddifrïo; syrthio i ymgecru.

To fall to work—ymosod ar waith; taro at waith; cwympo at waith, &c.

To fall together by the ears—myned benben; myned yn nghyd ben a chlustiau; myned wrth y pen a'r clustiau; myned ben yn nghad; myned ben yn erfid; ymdynu, ymryson, ceintachu, ymgiprysu.

To fall under—dyfod dàn, dyfod o dàn; dyfod o fewn; syrthio dàn; bod dàn; syrthio *neu* ddyfod oddi tàn; dyfod o fewn terfynau; bod yn ddarostyngedig i.

To fall under a burden—syrthio, cwympo, *neu* ddiffygio dàn bwn; syrthio tàn lwyth.

To fall *or* knock under—cyfaddef ei fai; cyfaddef ei gamsyniad.

To fall under consideration—syrthio *neu* ddyfod dàn ystyriaeth; dyfod *neu* syrthio i'w ystyried.

To fall under one's view—dygwyddo yn ngolwg un; dygwydd o flaen llygaid un.

To fall upon=*To fall on:* cynnyg, ceisio.

To fall the voice—gostwng y llais.

To fall a sacrifice — syrthio yn aberth; myned yn aberth; cael ei aberthu.

If I fall a sacrifice to popular faction—os myfi a aberthir i ymblaid y werin; os aberthir fi i'r ymblaid boblogaidd; os myfi a dorir ymaith er dyhuddiant y werin ymbleidgar; os myfi a ddïenyddir er dyhuddiant y werin ymbleidgar.

To fall into laughter—dechreu chwerthin; myned i chwerthin; taraw i chwerthin.

The Danube falls into the Euxine—ymarllwys y Donwy i'r Môr Du; disgyna y Donaw i'r Môr Eucsin; mae y Donwy yn syrthio *neu* yn rhedeg i'r Môr Du; abera y Donaw yn y Môr Du.

If it should ever fall in my way to do you a kindness—os byth y daw ar fy llaw wneuthur i chwi gymmwynas.

We fell in with the enemy—cyfarfuom â'r gelynion; tarawsom wrth y gelynion; ni a gyfarfuom â'r gelyn.

He fell in with them—efe a darawodd gyda hwynt; efe a gymmerodd eu plaid hwynt; cytunodd â hwynt.

We fell in with two privateers—daethom ar ddwy herwlong; tarawsom wrth ddwy herwlong; dywanasom ar ddwy herwlong; daethom am ben dwy wiblong; daethom ar draws dwy wiblong; dygwyddasom ar ddwy herwlong.

We fell in with Cyprus—ni a ddaethom i Cyprus; tarawsom wrth Cyprus.

He fell in with wicked measures—cydsyniodd â drwg fesurau; cydsyniodd â drwg lywodraeth.

The first living that falls in my gift—yr eglwys gyntaf â ddel i'm rhoddiad i; y fywoliaeth gyntaf â fyddo ar fy rhoddiad i; yr eglwys gyntaf â fyddo yn fy rhoddiad i; y fywoliaeth gyntaf â syrthia i'm llaw i; y fywoliaeth gyntaf â syrthio yn fy rhodd i.

He fell into the snare — syrthiodd i'r fagl.

Ready to fall—ar syrthio, ar gwympo; serfyll, simsan, simpl, simplaidd; lledbai; ar ogwydd; ar ei ogwydd; adfeiliedig, hygwymp, hygwydd; hadl; tramgwyddus; parod i syrthio, &c.

To be ready to fall—bod ar syrthio; bod ar gwympo; bod ar ei ogwydd; bod ar ei ddibyn; simplo; adfeilio; penhwntian, pentwyno; bod yn simsan *neu* simpl; bod yn barod i syrthio.

To let fall—goddef, gadaw, *neu* ollwng i syrthio; goddef, gadael, *neu* ollwng i gwympo; gollwng.

To let fall one's suit—cilio yn ei gwyn; gadaw ei hawl; gadaw y maes.

To fall foul upon one—rhoi tafod drwg i un; rhoddi drwg dafod i un; difrïo un, enllibio un; rhoi siarad cas i un.

To fall behindhand in the world—myned *neu* redeg yn ol llaw yn y byd; bod ar ol llaw yn y byd; bod yn ol llaw â'r byd; myned *neu* redeg mewn dyled; myned *neu* redeg i ddyled; syrthio i dlodi; myned yn dlawd; tlodi.

To make one fall—peri *neu* wneuthur i un syrthio; gwneuthur i un gwympo *neu* dramgwyddo.

To fall lambs—bwrw wŷn.

Fall back, fall edge—deued à ddel; doed à ddelo; dygwydded à ddygwyddo.

He fell very sick—aeth yn glaf iawn; aeth yn drymglaf; hi a aeth yn drwm arno; syrthiodd yn glaf iawn.

This falls to my share—y mae hyn yn dyfod i'm rhan i; y mae hyn yn dygwydd i mi; mae hyn yn dygwyddo i'm rhan i.

Give me the portion of goods that falleth unto me—dyro i mi y rhan à ddygwydd o'r da.

This land shall fall unto you for inherit-

ance—y tir hwn a syrth i chwi yn etifeddiaeth.
He fell on his knees—syrthiodd ar ei liniau; penliniodd; dygwyddwys ar ei liniau.
See that ye fall not out by the way—nac ymrysonwch ar y ffordd.
Lest mischief fall upon thee—rhag disgyn *neu* ddyfod echrys ar dy warthaf.
He will fall to his master—efe a syrth at ei feistr; efe a dery gyda'i feistr.
Saul thought to make David fall by the hand of the Philistines—yr oedd Saul yn meddwl peri lladd Dafydd trwy law y Philistiaid (1 *Sam.* xviii. 25).
The father and the sons together shall fall upon them—fel y tramgwyddo wrthynt y tadau a'r meibion yn nghyd (*Jer.* vi. 21).

Fall, *s.* cwymp, codwm, syrth, cwympad, cwympiad, syrthiad, syrthiant, llithrad, gostyngiad; disgyniad, disgynfa; cwydd, tramgwydd, cwympawd; dygwydd, dygwyddiad, cwyddiad, cwyddedigaeth; syrthfa, cwympedigaeth; dymchweliad, dinystr, dystryw, adfail; tranc; llethr, llechwedd, gwaered; rhaiadr; cnwd, caen, caenen; diffwys; methiant, methineb; hydref, mesyryd.
The fall—y cwymp, y codwm; cwymp Adda.
The fall of man—cwymp dyn, syrthiad dyn, cwympad dyn, syrth dyn.
After the fall—gwedi y cwymp; ar ol y cwymp; gwedi syrth.
The fall of the leaf—cwymp, syrthiad, *neu* gwympad y dail; hydref, mesyryd, elfed, dyhewydd.
A fall of rain—cawod o wlaw; cafod o wlaw; cawad o wlaw; gwlaw.
A great fall of rain—llawer o wlaw; llaweroedd o wlaw; rhyferthwy o wlaw; gwlybin, gwlybhin, gwlybaniaeth mawr; diffwys o wlaw: *pl.* gwlawogydd, gwlawoedd.
A fall of snow—caenen o eira; cawod o eira.
A heavy fall of snow—cnwd o eira; cawod drom o eira; cafod dew o eiry; trwch o eira.
A fall of dew—caenen o wlith, gwlithgaen.
A slight fall—gogwymp, gosyrth, lledsyrth, lledgwymp, cwymp bychan.
To get a fall—cael cwymp; cwympo, syrthio.
To give one a fall—rhoi cwymp *neu* godwm i un; tafiu un i lawr; diwadnu un, disodli un, cwympo un.
The fall of a current into any larger body of water—aber.
The falls of the Niagara—rhaiadr y Niagara; cwymp y Niagara; syrthfa y Niagara; rheicidr *neu* raiadrau y Niagara.
The fall of a stag—amgrain carw.

Fallacious, *a.* (Ff. *fallacieux;* Ll. *fallax*) twyllodrus, ffugiol, gau, lledrithiog, lledrithiol, twyllgar, dichellgar, geuol, geuog, geusin, ffals, twylledigol, twylladol, hocedus; pallus, gwag, gorwag, coeg, annilys.
Fallacious argument—geuddadl, twylleb, twyllreswm, geureswm, rheswm gau.

Fallaciously, *ad.* yn dwyllodrus, &c.; trwy dwyll, trwy ddichell; mewn rhith, mewn lliw, mewn dichell, mewn twyll.

Fallaciousness, *s.* twyllodrusrwydd, twyllodrusedd, ffugioldeb, ffugiolder, ffugiolrwydd, geuedd, geuogrwydd, geuoldeb, geudeb, ffalsedd, twyllgarwch, lledrithioldeb, hocedusrwydd; somiant, somedigaeth, twyll.

Fallacy, *s.* (Ll. *fallacia*) twyll, twyllofaint, geudeb, geuedd, hoced, lledrith, lledrithiogrwydd, ffalsedd, ffalsder, ffalstedd, twyllgarwch, hudoliaeth, dichellgarwch, dichell, geusawd, som, somedigaeth, somiant, siom, ystryw, hud; anwiredd; camsyniad, camgymmeriad; geuddadl, geureswm, twyllreswm, rheswm gau, cyfrwysddadl, twylldadl.
To put a fallacy upon one—twyllo un, somi un; twyllo un trwy hud a lledrith; bwrw hud ar un; bwrw hud ar lygaid un; twyllo *neu* somi un trwy rith rheswm.

Fallen, *a.* (o *fall*) syrthiedig, cwympedig, cwympiedig, syrth, dygwyddedig, disgynedig.
They found Saul fallen in mount Gilboa—cawsant Saul yn farw yn mynydd Gilboa.

Fallency,† *s.* (Ll. *fallens*) camsyniad.

Faller, *s.* syrthiwr, cwympwr, syrthiedydd, cwympiedydd, disgynwr.

Fallibility, *s.* (It. *fallibilità*) hyballedd, hyfethrwydd, hyffaeledd, ffaeledigrwydd, ffaeledigaeth, hydwylledd, hyhudrwydd, hysomrwydd, hysomedd, somedigolrwydd; dichonolrwydd camsyniod; anmherffeithrwydd, gwendid, pallder; ansicrwydd, annilysrwydd.

Fallible, *a.* (It. *fallibile;* o'r Ll. *fallo*) hyball, hyfeth, ffaeladwy, methadwy, hysom, hysiom, hydwyll, hyhud; agored i'w dwyllo; agored i fethu *neu* i gamsynied; somedigol; ffaeledig, methedig; palladwy, aballus; llyth; à eill gamsynied *neu* gamgymmeryd; à ddichon gamsynied *neu* gamgymmeryd; darostyngedig i gamsyniad *neu* gyfeiliornad.

Falling, *s.* (o *fall*) syrthiad, cwympad, cwympiad, syrthiant, disgyniad, codymiad; cwymp; dygwyddiad, cwyddiad.
Falling away, } syrthiad ymaith, syrthiad
Falling off, } i ffwrdd, cwympiad ymaith; ymadawiad, gwrthgiliad, gwrthgwymp.
Falling down—syrthiad *neu* gwympad i lawr; llithrad, tramgwydd; cwymp hyd lawr; ymgrymiad; ymgreiniad.
A great falling down of earth—daiardor; cwymp mawr o ddaiar.
Falling in—syrthiad *neu* gwympad i mewn; pantiad, ceuad.
Falling out—cwympad allan; ymrafael, amrafael, ymryson, anghydfod, cynhen, annysgymmod, cyfrdan, ymgiprys.
Falling of waters—rhaiadr, dyfrgwymp, cwymp dyfroedd.

Falling, *p.* yn cwympo, yn syrthio, gàn syrthio, dàn syrthio, &c.; syrthiol, syrth, syrthiannus, disgynol, cwyddol; ar syrthio, ar gwympo, &c.
To keep from falling—cadw rhag syrthio; cadw yn ddigwymp.
Falling diverse ways, } amrygwydd, amry-
Falling diversely, } gwymp.

Falling-moulds, *s. pl.* syrthfoldiau, moldiau syrth.
Falling-sickness, *s.* masglwyf, haint dygwydd, clwyf dygwydd, llesmeirglwyf, haint Tegla, clwyf Tegla, y gloesion llewyg, y gloesion mawr, y gloesion bwrw, y clefyd bendigaid, gwialen Crist, dirloesion.
Falling-star, *s.* seren syrth, seren syrthiol, llucheseren : *pl.* lluchaer.
Falling-stone, *s.* maen syrth, syrthfaen ; awyrfaen, goruchionfaen, llewyrnfaen.
Falling-style, *s.* syrthbost.
Fallow, *a.* (S. *falewe, falu, fealo ;* Is. *vaal ;* Al. *falb, fahl ;* Ll. *fulvus*) braenar, hyddliw, braenarliw, melyngoch, gwelwgoch, lledgoch, coch ; braenaraidd ; anhauedig ; anarddedig ; anniwylledig.
Fallow ground—tir braenar, braenardir, braenar, adwydd.
Break up your fallow ground—braenarwch i chwi fraenar.
Fallow field—cae braenar, maes braenar.
Fallow crop—cnwd braenar.
To lie fallow—gorwedd yn fraenar.
To lay fallow—troi yn fraenar ; rhoi i orwedd yn fraenar ; rhoi i orphwys yn fraenar.
Fallow land dunged by turning in cattle—braenardail, braendail.
Fallow, *s.* braenar, cynwydd, adwydd, tir braenar, braenardir ; tir newydd aredig.
Summer fallow—braenar haf.
Green fallow—braenar glas.
Second fallow—adfraenar.
To plough a fallow—braenaru.
To second plough a fallow—adfraenaru.
Fallow, *v. a.* braenaru ; tori yn fraenar ; tori braenar ; aredig.
Fallow,† *v. n.* edwi, gwywo, melynu.
Fallow-deer, *s.* hydd, danas, danys, llwdn hydd, bwch danas, bwch danys ; hyddes, gafr ddanas, gafr ddân, ewig lwyd : *pl.* hyddod, bychod danys, geifr danas, geifr danys.
Fallow-finch, } *s.* y gynffonwen, tinwyn y cer-
Fallow-chat, } yg, (*f.* tinwen y ceryg).
Fallowing, *s.* braenariad.
Fallowist, *s.* braenarwr, braenarydd.
Fallowness, *s.* braenaredd ; diffrwythder, anffrwythlondeb.
Falsary,† *s.* (Ll. *falsarius*) ffugiwr, camdystiwr.
False, *a.* (S. ; Ll. *falsus ;* Gw. *falsa*) gau, geuol, geuog, ffals, anwir, anwireddus, celwyddog, nid gwir, cam, geuain, trawa ; twyllodrus, hocedus, twyllog, twyllfawr ; anghywir, anghyfiawn, anffyddlawn, ffalst ; ffug-, ffugiedig, ffuannol, coeg, cyfrithiol, rhagrithiol, rhith- ; bradog, bradus, bradol, bradwraidd, bradychus, bradwrus, bredychus.
False prophet — gau broffwyd, proffwyd gau, geu-broffwyd.
False brother — geu-frawd, gau frawd, brawd gau : *pl.* geu-frodyr, gau frodyr, brodyr gau.
False children—geublant, plant gau, gau blant.
False father—geudad, gau dad, tad gau.
False god—geudduw, duw gau, gau dduw.
False report—chwedl anwir, ffugiol, *neu* gelwyddog ; geuchwedl, gau chwedl, ffugchwedl, celwydd ; hanes anwir *neu* anghywir ; coeg chwedl, coegchwedl.
False accusation—camgyhuddiad, camgyhudded, trawa gyhudded, trawa gyhuddiad, camachwyn, camachwyniad.
False judgment—camfarn, geufarn, camfrawd, methfrawd, barn anghywir.
False opinion—camdyb, geudyb, camdybiant, camdybiaeth, geufarn ; tyb amryfus *neu* gyfeiliornus.
False accent — camacen, camacan, cam acen, acan anghywir.
False worship—gau addoliad, gau addoliant, geuaddoliad, geuaddoliaeth, addoliad gau, addoliant ffugiol.
False swearing — anudon ; anudoniaeth, anudonedd ; anudonair.
False oath—geulw, geudwng, anudon, anudonair, twng anudon, llw anudon ; haloglw.
False reasoning — geuddadl, coegddadl ; geuddadliad, gau ddadliad, gau resymiad.
False reason, } geubwyll, gau bwyll, rhes-
False sense, } wm gau.
False belief—geugred, camgred, geugrediniaeth, gau gredriniaeth, camgrediniaeth, camgoel, geuffydd, geulith.
False religion—gau grefydd, geugrefydd.
False appearance—geurith, lledrith, geuwedd, gau ymddangosiad, ymddangosiad gau, coeg ymddangosiad.
False glass—geuddrych ; drych anghywir, gau, *neu* dwyllodrus.
False measure—mesur anghywir, anghyfiawn, *neu* anghymhwys ; camfesur, mesur gau.
False rhyme—twyllodl, twyllawdl, geuodl, gau gyfodl.
False metre, } mydr anghywir, mydr
False verse, } anghysson, gwers anghywir, gwers anghysson, camfydr, mydr gwallus.
False orthography—camlythyriad, camlythyreg, camlythyraeth, camorgraff, camarddygraff, camlythyreniad.
False pretences—esgusodion ffugiol, gau, dychymygol, *neu* gelwyddog ; coeg esgusodion, ffug-esgusodion.
False balance—clorianau anghywir.
False witness—tyst gau, tyst celwyddog, tyst anghywir, gau dyst, geu-dyst ; gau dystiolaeth, camdystiolaeth, cam dystiolaeth.
Thou shalt not bear false witness—na chamdystiolaetha ; na ddwg gamdystiolaeth.
False imprisonment—camgarchariad, carchariad ar gam.
False knave—dyhiryn cyfrwysddrwg ; dyhiryn dichellgar.
False trick—hoced, dichell, chwired, cast bradwr.
False dealer—twyll-fasnachwr, hocedydd, hocedwr, twyllwr, somwr, bradwr, geuwr, twyll i'w gyfaill, twyll i'w gydymaith, dyn anffyddlawn, dyn bradwrus, dyn twyllodrus, dyn deuwynebog ; à chwareuo y ffon ddwybig ; à fedro chwareu y ffon ddwybig ; ffugiwr, ffuantwr ; masnachwr twyllodrus.
False fire—gwalldan.
False attic—coeg nenawr, coeglofft, ffugnenawr, ffuglofft.

False roof—coegnen, nenawr, croglofft, coeglofft.
False station—ffug-orsaf, gorsaf ffugiol; gorsaf na welir yn y cynllun (wrth gyfarchwylio).
False cadence — ffug-ddisgynsain, gau leddfeb, ffug-leddfeb.
False conception—pel y famog, llo lleuad; camdyb, &c.
False brome-grass—geuborwellt, geubawrwellt, gau borwellt.
My words shall not be false—nid celwydd fydd fy ymadroddion (*Iob* xxxvi. 4).
False to one's trust—bradog, bradwrus, bradwraidd, bradychus, bredychus, anghywir, anffyddlawn; anffyddlawn i'w ymddiried.
False dreams—breuddwydion ofer (*Sech.* x. 2).
False divination — dewiniaeth gwagedd (*Esec.* xxi. 23).

False, } *ad.* yn ffugiol, &c.; mewn modd gau;
Falsely, } yn gyfeiliornus; mewn camsyniad.
To swear false, } tyngu anudon; geu-
To swear falsely, } dyngu, gau dyngu.
That swear falsely, } anudonwr, geudyng-
False swearer, } wr, un geulw, un geudwng, anudonog.
To play false—bod yn fradwrus; chwareu y bradwr; ymddwyn yn fradus; tori ei air; tori ei addewid; camchwareu.
To deal falsely — gwneuthur ffalsedd; gwneuthur yn dwyllodrus, &c.; twyllo.
To accuse falsely—camgyhuddo, camachwyn ar; cyhuddo ar gam; beio ar.

False,† *v. a.* ffalsu, ffugio, geuo.

False-faced, *a.* rhagrithiol, lledrithiog, rhagrithiog, geurithiog, geuwynebog, geuweddog, ffugiol.

Falsehearted, } *a.* twyllodrus ei galon; twyll-
Falseheart, } galon; rhagrithiol; dichellgar, ystrywgar, hocedus; anffyddlawn; anghywir; bradwrus, bradog, bradwraidd; coeg, gwag.

Falseheartedness, *s.* twyll-galonedd; rhagrith, rhagrithioldeb; anffyddlondeb, anghywirdeb; ffalsedd; bradwriaeth, bradwch, bradoldeb; brad.

Falsehood, *s.* (*false* a *hood*) geudeb, ffalsedd, geuedd, anwiredd, anwirionedd, gau, anwir, celwydd, ffug, ffalsder, twyll, twyllofaint, twyllodrusedd, geuogrwydd, geuoldeb; ffugiant, geurith, geuwedd, hudwaith; brad, bradwriaeth, anffyddlondeb, anghywirdeb; camwedd.
That speaks falsehood—geirffug, minffug, celwyddog, geu-lafar; â draetno ffalsedd.
Full of falsehood—geuog, ffugiog, geuain; llawn anwiredd a chelwydd; llawn dichell a thwyll; ffuglawn, dichellgar, twyllfawr, twyllodrus, hocedus, cyfrwysdarwg.
Words of falsehood—geiriau gau, gau eiriau, geiriau ffug, geiriau ffalsedd.
Thou tellest a great falsehood — dywedi gelwydd yn dy ddannedd.
Their deceit is falsehood—twyllodrus yw eu dichell hwynt (*Salm* cxix. 118).

Falseness, *s.* geuogrwydd, geuoldeb, ffugioldeb, anwiredd, anwirionedd, geudeb, geuedd, ffalsedd, ffalsder, celwydd; anffyddlondeb, anffyddlonder, anghywirdeb; bradwriaeth, brad, bradwch, bradusrwydd; twyllodrusedd, hocedusrwydd, deuwynebrwydd, deuwynebedd, anonestrwydd, twyll, hoced.

Falser, *s.* twyllwr, twyllydd, geuwr, geuadur, twyllawdr, twyllodur, twyllor, hocedydd, ffugiwr.

Falsetto, *s.* (It.) ffuglais.

Falsifiable, *a.* (o *falsify*) ffugiadwy, ffalsadwy; â ellir ei ffugio, &c.; â ellir ei ffugio yn ddichellgar; â ellir ei lygru drwy gymmysgu a chyfnewid; gwrthbrofadwy, disbrofadwy; â ellir ei brofi yn gelwydd.

Falsification, *s.* (Ff. o *falsifier*) ffugiad, ffalsiad, ffugiant, geuawd, llygriad; gosodiad y naill beth yn ddichellgar yn lle y llall; gwrthbrofiad, disbrofiad, dadbrofiad; profiad yn gelwydd; anwiriad.

Falsificator, } *s.* ffugiwr, ffuantwr; llygrwr,
Falsifier, } llygrydd, diwynwr; gau gymmysgwr; geufathwr; geueiriwr, geuodwr, celwyddwr, celwyddog, dyfeisiwr celwydd; gwrthbrofwr, disbrofwr, dadbrofwr; à lygro *neu* à wyro y gwirionedd.

Falsify, *v.* (Ff. *falsifier*; o *false*) ffugio, ffalsu, ffuantu, ffuannu, lledrithio, anwirio, anghywiro, geuo; dynwared, rhithio, geurithio; celwyddu, celwyddo, dywedyd celwydd; geufathu; llygru; dynwared er twyllo; dodi, gosod, *neu* roddi geubeth yn lle y gwirbeth; rhoddi y gau yn lle y gwir; gosod peth ffugiol yn lle yr iawn beth; llygru drwy gymmysg; gwrthbrofi, disbrofi, dadbrofi, dibrofi; profi *neu* wneuthur yn gelwydd; gwyro barn, daliad, amcan, meddwl, *neu* ystyr; gwyrdröi, gau gyweirio; gwyraw oddi wrth y gwirionedd; anghyfiawnu; tori.
To falsify one's word—tori ei air; tori ei addewid; gwyraw oddi wrth ei air; gwyraw oddi wrth ei addewid; bod yn waeth na'i air.
To falsify a report—profi chwedl yn gelwyddog *neu* yn gelwydd; gwneuthur chwedl yn gelwydd *neu* yn gelwyddog; ffalsu, gwrthbrofi, disbrofi, *neu* ddadbrofi chwedl.
To falsify a trust—bod yn anffyddlawn *neu* fradwrus yn yr hyn a roddwyd i un dàn ymddiried; tori *neu* fradychu ymddiried; bod yn euog o dwyll drwy ymddiried.
To falsify coin—geufathu, gau fathu, bathu arian drwg, ffugio arian bath.

Falsity, *s.* (Ll. *falsitas*) ffalsedd, geudeb, geuedd, gau, anwiredd, anwirionedd, celwydd, ffug, ffalsder, geuogrwydd, geuoldeb, geuawd.

Falter, *v. n.* (Ysp. *faltar*) bod âg attal dywedyd arno; dywedyd âg attal arno; bod â bloesgni arno; bod âg attal arno; cecian, ffeigebu; petruso; dywedyd yn afrugl ac anhyfedr; tramgwyddo wrth ddywedyd; attal dywedyd; bloesgi; yrthio; methu, aflwyddo, pallu, ffaelu; dyrysu yn ei chwedl; dyrysu yn ei ateb; ymwrthddywedyd; telgyngu; tori.
He falters in his speech—y mae attal dywedyd arno; y mae ffeigeb arno; y mae yn cecian; mae efe yn siarad yn yrth.
To falter in one's legs—telgyngu; tramgwyddo wrth gerdded; honcian, honcio, honco, hwntian, tripio; bod â'i liniau

yn pallu; bod â'i liniau yn plygu dano; bod â'i liniau yn curo yn nghyd.

To falter in one's design—methu cael ei amcan; methu cyrhaedd ei amcan; methu *neu* ffaelu ar y ffordd.

To falter (as threshers)—coeg ddyrnu; taro coeg ergydion.

Falter,† *v. a.* gogryn, gogrynu, gwegrynu, nithio.

Faltering, *s.* gwendid, llesgedd, eiddilwch, eiddiledd; attal dywedyd, rhwystr tafod, ceciad, ffeigebiad, diffyg; bloesgni, bloesgi, yrthwch.

Faltering, *p.* yn tramgwyddo yn ei eiriau; gàn *neu* dàn dramgwyddo yn ei eiriau; yn tramgwyddo yn ei gerddediad; dàn *neu* gàn dramgwyddo yn ei gerdded; tramgwyddus, ffeigebus, petrusog; afrugl, afrwydd.

Falteringly, *ad.* tàn attal wrth ddywedyd; âg attal dywedyd arno; dàn gecian; dàn delgyngu; dàn dramgwyddo; yn afrugl, yn afrwydd; gydag anhawsder *neu* wendid.

Fama Clamosa, *s.* (Ll.) gwarthrudd cyhoedd, anghlod cyhoeddus; chwedl rugl, son rhugl; y chwedl ar led.

Famble,† *v. n.* (D. *famler*) cecian, ffeigebu; bod âg attal dywedyd arno.

Fame, *s.* (Ff.; Ll., Ysp., ac It. *fama;* Gr. *phama, phêmê*) son, y son, gair, y gair, chwedl, y chwedl; clod, gair da, geirda, bri, enw, parch, enwogrwydd, son mawr, gair mawr, enw mawr; mawrson, molawd, clodforedd, mawl, anrhydedd, clodiaeth, urddas, urdduniant, cymmeriad, cymmyredd, cymmyred, arglod; y son am un; y gair am un; newydd.

Good fame—gair da, enw da, geirda, son da; clod, moliant, mawl, bri, parch, cymmeriad; gair mawr.

Of good fame—â gair da iddo; â gair mawr iddo; âg enw mawr iddo; â son da am dano; â chlod iddo; clodfawr.

Ill fame—gair drwg, anair, drygair, enw drwg, son drwg, anghlod, achlod, anfri, gair bach.

Of ill fame—â gair drwg iddo; âg enw drwg iddo; âg anair *neu* ddrygair iddo; â son drwg am dano; â son cas am dano.

A house of ill fame—ty drwg.

Of no great fame—heb fawr son am dano; heb nemawr o son am dano.

Winged fame—son adeiniog.

Worthy of fame — gwiwglod, clodwiw, haeddglod; teilwng o glod.

Universal fame—clod cyffredinol, llwyrglod.

Fame and honour—clod ac anrhydedd, clod ac edmyg, clod a bri.

To seek after fame—clodymgeisio, clodymgais, clodgeisio; ymgeisio â chlod; ymgais â chlod; ceisio *neu* argeisio clod; chwilio *neu* ymofyn am glod.

Fame-seeking — clodgeisiol, clodymgais, clodymgeisiol; clodgar, clodgyrch, ceisglod; yn ceisio clod; yn ymgais am glod.

Ambitious after fame—clodymgais, clodgeisiol, clodymgeisiol; awyddus am glod.

Monuments of fame—argofion clod, cofarwyddion clod, cofadeiliau enwogrwydd.

A person of literary fame—gwr hynod am ddysg a gwybodaeth; dyn â gair mawr iddo am ddysg a gwybodaeth; gwr âg iddo enw mawr mewn llenoriaeth; gwr mawr ei glod llenorol; un mawr ei glod llenyddol; gwr enwog yn y byd dysgedig.

Fame outlives wealth—hwy clod no golud; hwy pery clod no golud.

His fame shall never die, } ei glod a
His fame shall live for ever, } bery byth; ei enw a bery byth; bydd son am dano tra byddo byd yn fyd; bydd son am dano tra byddo y byd yn bod.

I will get them praise and fame—mi a'u gosodaf yn glodfawr ac yn enwog (*Seph.* iii. 19).

They spread abroad his fame in all that country—hwy a'i clodforasant ef trwy yr holl wlad hòno (*Mat.* ix. 31).

Fame, *v. a.* gwneuthur yn glodfawr; clodfori, enwogi, brio; rhoi gair da i; adrodd, mynegu; traethu chwedl; rhoi y son allan.

Famed, *a.* enwog, clodfawr, hyglod, clodforus, clodlawn, clodfan, clodforeddus, clodforedig, clodleu; clodwiw, gwiwglod; â son mawr am dano; â gair mawr iddo; â gair da iddo; âg enw mawr iddo; mawr ei glod; dathl, dathledig, hyson, hynod.

Far-famed — clodbell, pellglod; pell ei glod; â son am dano yn mhell ac yn agos; â'i glod drwy y gwledydd; helaeth ei glod; hyglod, clodfawr.

Fame-giving, *a.* clodrodd, clodroddus, clodrydd, clodroddawg; yn rhoddi clod.

Fameless, *a.* diglod, anhyglod, anghlodfawr, heb glod.

Familiar, *a.* (Ll. *familiaris;* Ff. *familier*) teuluaidd, teuluol; cartrefol, cartrefaidd; cyfeillaidd, cyfeillgar, cyfeilliol; cyfrinachol, cydnabyddus; cynnefin, cynnefinol, arferol, arferedig, cydnabodus, adnabodus, adnabyddus, cyffredin, rhugl, sathredig; hysbys i bawb; y sydd yn ngeneu pawb; o'r un ty a'r un tylwyth; cyttyol, cyttyaidd, cytteuluol, cytteuluaidd; cyfnesafol, cydymeithiol, cyfathrachol; caruaidd, caredig, hynaws; rhydd ei ymddygiad at un megys pe bai o'r un teulu; rhydd, diddefod, rhwydd, hawdd; dirwystr, annyrys, ymadrodd-fwyn, geirfwyn, geirdeg; mwyn ei ymadrodd; hawdd ymddyddan âg ef; dïaddurn, annhlws; amlwg, eglur; hawdd ei ddeall; hawdd i'w ddeall; hyddeall; mynych, aml; hy, hyf; rhy gyfeillgar, rhy gynnefin.

Familiar spirit—ysbryd dewiniaeth; angel coelgrefydd; elfod cyfeillgar, cyfrinfall.

Familiar spirits—duwiau y teulu, tydduwiau, teuludduwiau; ysbrydion dewiniaeth.

That have familiar spirits, } dew-
That deal with familiar spirits, } in-
That consult with familiar spirits, } iaid, swynyddion, swynwyr, consurwyr, chwiliogion: *sing.* dewin, &c.: *f.* dewines, chwilioges.

Familiar friend—cyfaill, cydgyfaill, cyfeillfrawd, câr, carwr, cydgar, cyfaill monwesol, cyfathrachwr, cydnabod, cyfaill cyfrinachol.

To be familiar with—bod yn gyfeillgar â *neu* âg; bod mewn cyfeillgarwch â *neu* âg; bod mewn cyfeillach â *neu* âg; ymgyfeillachu â *neu* âg; ymgyfeillio â *neu*

âg; ymgyfeillach â *neu* âg; bod yn gynnefin â.

To grow familiar with—myned yn gyfeillgar, yn gyfeillaidd, yn gynnefin, *neu* yn gydnabyddus â; myned yn nabyddus â; tyfu mewn cyfeillgarwch *neu* gyfeillach â; myned mewn cyfeillach â *neu* âg; cynnefino â *neu* âg; ymgynnefino â *neu* âg.

Mine own familiar friend—y gwr oedd anwyl genyf (*Salm* xli. 9).

My familiar friends have forgotten me—y rhai oeddent o'm cydnabod a'm hanghofiassant (*Iob* xix. 14).

Familiar, *s.* cyfaill, cyfaill monwesol, cydgyfaill, cyfeillfrawd, câr, cydgar, carwr, cyfathrachwr, cydnabod, cyfaill agos, cyfaill gwresog, cyfaill cyfrin, cyfaill cyfrinachol; ysbryd dewiniaeth, angel coelgrefydd, cyfrinfall, tydduw, teuludduw; cyfrinachwr.

Familiar (in the court of Inquisition) cyfrinwas=un â gynnorthwya i ddâl a charcharu y cyhuddedig.

All my familiars watched for my halting—pob dyn heddychol â mi oedd yn dysgwyl i mi gloffi (*Ier* xx. 10).

Familiarity, *s.* (Ll. *familiaritas*) cyfeillgarwch, cyfeillach, cydnabyddiaeth, cydymeithas, cyfathrach, cyweithasrwydd; cytteuluedd, teuluedd, teulueiddrwydd; cynnefindra, cynnefinder, cynnefindod, hir gydnabod, arfer, ymarfer; rhydd gymdeithas, rhydd gyfeillach; cudeb, caredigrwydd, anwylder, hoffedd, cydhoffedd, carueiddwch; cywestach, ymgystlwn, cystlwn, cyweithas; hynawsedd, hyfwynder, mwyneiddrwydd, mwyneiddwch; hyfder, hyfdra; ymarferiaeth; rhynabyddiaeth.

Too much familiarity breeds contempt—ni bydd rhybarch rhy gynnefin.

Familiarize, *v. a.* cynnefino; gwneuthur yn gynnefin; gwneuthur yn hawdd trwy ymarfer; peri yn gyfeillgar; peri yn gydnabyddus; arferu.

Familiarly, *ad.* yn gynnefin, &c.; yn ddiddefod; heb na rhwysg na rhodres.

Familism, *s.* (o *family*) teulugred, teuluadaeth; daliadau y Teulu Cariad.

Familist, *s.* (o *family*) teuluad, (*pl.* teuluaid), un o'r Teulu Cariad; un o Deulu y Cariad.

Familistic, *a.* perthynol i'r Teulu Cariad; yn perthyn i Deulu y Cariad; teuluadol.

Famille, *s.* (Ff.) teulu.

En famille—yn deuluaidd; mewn ffordd deuluaidd; mewn dull teuluaidd; yn ffordd teulu.

Family, *s.* (Ll. ac Ysp. *familia*; Ff. *famille*) teulu, tylwyth, tylu, tylwyth ty, tyaid, ty; llwyth, gwehelyth, gwelygordd, ach, llinach, llinyn, cyff ach, paladr ach, cenedl, gwely cenedl, helyth, edryd, edryf, gwely, gwelydd, ystlynedd, achen; cymmaethlu, cymhrain; gosgordd; untyaeth, teuluaeth; ciwdod; uchelwaed, gwaedoliaeth, gwaedogaeth; rhyw a rhieni. [aid, cytty.

Joint family—cytteulu, cyttylwyth, cytty-

Having a family—teuluog, tylwythog.

Having a large *or* numerous family—tylwythog, teulufawr; â chanddo deulu *neu* dylwyth mawr; â chanddo deulu lluosog; mawr ei deulu; lluosog ei deulu.

Chief of a family, } pencenedl, pen cenedl;
Head of a family, } penteulu, pentylwyth; pencordd, pencenal, penllwyth, cenedlor.

The royal family—y teulu breninol, y breninol deulu.

Master of a family—penteulu, pen teulu, penaeth ty, pen ty, gwr y ty, pendod y ty, penog y ty.

Mistress of a family—gwraig y ty, penteulues, penes ty, pendodes ty.

Family land—tir gwelyog.

Of a noble family, } diledach, diled-
Born of a noble family, } ryw, dyledog, dyledogryw, uchelryw, pendefigryw; boneddig cynnwynol; boneddig o waed; pendefigol o waed; o uchel achau; uchel ei achau; uchel ei waed; uchelwaed; pendefigaidd; o deulu anrhydeddus.

One of a mean family—adlaw, dyn iselradd, dyn iselryw, un lledach, un lledryw, un lledrywiog, un difonedd, un iselwaed.

Of the same family—cyttylwyth, undras, cyttras; o'r un teulu; o'r un tylwyth; cytty; câr, carwr, (*f.* cares).

The father's family—tadwys, cenedl y tad, tylwyth y tad.

The mother's family—mamwys, cenedl y fam, tylwyth y fam.

Family man—teulŵr, gwr teuluaidd, tylŵr.

Family of Love—Teulu Cariad, Teulu y Cariad = plaid grefyddol benboeth a phenrydd a gododd yn 1556.

Famine, *s.* (Ff.; Ll. *fames*) newyn; diffyg ymborth, prinder ymborth, eisieu bwyd, drudaniaeth, bwydwall, ellbwyd; eisieu, amddifadrwydd.

Famish, *v.* (*Ff. affamer*) newynu; marw o newyn; lladd â newyn; lladd trwy newyn; bod yn newynog; goddef newyn.

Famished, *p. p.* newynedig, &c.; newynog, newynllyd; ar farw o newyn; ar farw gân newyn.

Famishing, *p.* yn newynu; newynol; ar farw o newyn; ar farw gân newyn; yn barod i farw gân *neu* o newyn; yn barod i drengu gân *neu* o newyn; ar dranc gân newyn; ar newynu.

Famishment, *s.* newyniad, newynogaeth, newyndod, newyndra, newynder, newynllydrwydd, newynogrwydd, newyn, bwydwalliant.

Famous, *a.* (Ll. *famosus*; Ff. *fameux*) enwog, clodfawr, hyglod, gwiwglod, clodwiw, hynod, clodforus, clodlawn, clodfan, clodleu, clodforedig, hyfawl, clodforeddus, clodus, dathl, dathledig, honaid, nodedig, canmoledig, canmoladwy, hyson; â gair mawr iddo; â son mawr am dano; â gair da iddo; mawr ei glod; â mawr son am dano.

To make famous—enwogi, clodfori, dathlu, hynodi; gwneuthur yn enwog, &c.

Nothing famous, } dim yn enwog; anenw-
Not famous, } og, anhynod, anhyglod, anghlodfawr, &c.

Famoused, *a.* enwog, clodfawr, clodforedig, moledig.

Famousness, *s.* enwogrwydd, clodforedd, hynodrwydd, hyglodedd, clodforusrwydd, clodiaeth, dathledd, clodusrwydd, honeidrwydd, bri, clod, arglod, enw mawr, enw.

Famulate,† *v. n.* (Ll. *famula*) gweini, gwasanaethu.

Fan, *s.* (S. *fann*; Sw. *vanna*; D. *wan*; Al. *wanne*; Ll. *vannus*) gwyntyll; ffedonas; nithlen; mantell wynt; gwyntyll nithio.

Fan, *v. a.* gwyntyllio, gwyntyllu, gwyntio, chwythu; nithio; casglu, gwneuthur, *neu* beri gwynt; lledoeri *neu* chwythu â gwyntyll; chwythu ar; ffuglio, dyffuglio.

To fan corn—gwyntyllio yd, nithio yd, nithio; troelli, dïoldi.

I will fan them with a fan in the gates of the land—mi a'u chwalaf hwynt â gwyntyll yn mhyrth y wlad (*Ier.* xv. 7).

Fanal, *s.* (Ff.) goleudy, goleudwr.

Fanatic, Fanatical, } *a.* (Ll. *fanaticus*) penboeth, penwyllt, ynfyd-grefyddol, gwyllt-grefyddus, llerth, iwin, iwinol, gorwyllt, ynfyd, gwallgof, gwallgofus, lledfrydig, anmhwyllog, pendwym, brwdfrydig, gorhewydus, gorhewydig, gorhewydol, peniasog, brwdfrydus, echwyrth.

Fanatic, *s.* penboethwr, penboethyn, penboethiad, ynfyd crefyddol, crefyddwr penboeth, llerthyn, llerthog, iwin, ynfydyn, brwdfrydwr, gorhewydwr, gorhewydydd, peniasog.

Fanaticism, Fanaticalness, } penboethni, penboethedd, penboethder, penboethrwydd, gwyllt-grefyddiaeth, llerthedd, llerthrwydd, penboethni crefyddol, brwdfrydigrwydd.

Fanaticize, *v. a.* llerthu, ynfydu, penboethi; gwneuthur yn benboeth, &c.

Fancied, *p. p.* (o *fancy*) dychymygedig, crebwylledig, &c.; dychymygol, ffugiol, ffug-, darfelyddol, coeg ddychymygol; â ddychymygwyd *neu* â luniwyd yn y meddwl; â dybiwyd ei fod ac na bu mewn gwirionedd; eilunaidd.

Fancier, *s.* (o *fancy*) hoffydd, hoffwr, mympwywr, dychymygwr, asbrïwr, asbriedydd, cymygwr.

Fanciful, *a.* (*fancy* a *full*) dychymygol, dychymygus, mympwyol, ympwyol, coegdybus, coegdybiog, coegdybiol, coelgar, tybgar, hydyb, hygoel, coegfeddylgar, asbriog, crebwyllog; llawn coegdybiau; llawn gwag feddyliau, &c; cymyglawn, dychymyglawn, nwythus, arnwythus.

Fancifully, *ad.* yn ddychymygol, &c.; o wir wagdyb; o wir goeg feddwl.

Fancifulness, *s.* tybgarwch, mympwyaeth, mympwyedd, mympwyoldeb, coelgarwch, hydybedd, hygoeledd, crebwylledd, dychymygolrwydd, dychymygoldeb, coegdybusrwydd, coegdybiogrwydd, dychymygiaeth, darfelyddiaeth.

Fancy, *s.* (talfyriad o *fantasy*; Ll. a Gr. *phantasia*) dychymyg, y dychymyg, asbri, crebwyll, darfelydd, cymyg; mympwy, ympwy, nwyth, nwythas, ias pen, ias, llettyb, godyb, coegdyb, gwagdyb, oferdyb, ofergoel, coel, meddwl, tybiant, tybiaeth, tyb, syniad, bryd, nwyd, chwidredd; ffug y meddwl; tyb, dychymyg, *neu* fwriad y meddwl; hoffedd, hoffder, serch, ymhoffedd, cariad, ymserchiad; tuedd, ewyllys, gwyllys; chwaeth, archwaeth; athrylith.

Fancy to, Fancy for, } serch at, hoffedd yn, hoffder yn, ymhoffedd yn; tuedd at, ewyllys at; tuedd meddwl.

To take a fancy to—serchu, traserchu, hoffi, gorhoffi, ymhoffi yn, ymserchu yn; rhoi bryd ar; rhoi ei fryd ar; rhoi ei feddwl ar; rhoi ei serch ar; bod ar un chwant i; cymmeryd hoffder yn *neu* mewn.

To have a fancy to—chwennychu, chwennych, dymuno, ewyllysio; blysio; bod ar un chwant i.

To engage one's fancy, To take one's fancy, } ennill, tynu, *neu* ddenu serch un; boddhau un; bod wrth fodd un; myned â serch un.

Fellow-worker, *s.* cydweithiwr, cydweithwr, cydweithydd.

Fellow-writer, *s.* cydysgrifenwr, cydysgrifenydd, cydysgrifwr, cydysgrifydd.

Felly, *ad.* (*o fell*) yn greulawn, yn ffyrnig, &c.

Felly, *s.* (S. a D. *fælge;* Al. *felge*) cameg, camen, camog, camer: *pl.* camegau, cemyg, camogion, camerau, camenau, cantgoed, cylchgoed, cantgoed olwyn.

Felo-de-se, *s.* (Ll. drosgl) hunleiddiad, hunanleiddiad; un à laddo ei hun o'i wirfodd.

Felon, *s.* (Ff.; Ll. drosgl, *felo;* It. *fello* neu *fellone*) cyflafanwr, cyflafanog, drygweithredydd, drygweithredwr; lleidr; un euog o gyflafan: bystwn, y bystwn, gwrlys, gwrllys, ewinwasg, ewinor.

Felon, *a.* creulawn, ffyrnig, dywal, annynol, barbaraidd, ciaidd, dryganianol, dryganianus, athryfar; maleisus, drygfrydig; bradwrus, bradol, bradog, anffyddlawn.

Felonious, *a.* cyflafanol, cyflafanaidd, cyflafanog; eneidfaddeuol; euog o gyflafan; lladradaidd, lladradol, lledradol; dryganianol, dryganianus, drygfrydig, drygfwriadol, drygfwriadus, maleisddrwg, mall, troseddfrydig; ysgeler, ysgymun, esgymun, barus, diriaid, anfad, drygionus, adwythig, mileinig, creulawn; bradol, bradog, bradus, bradwrus; anffyddlawn.

A felonious act—cyflafan, gweithred gyflafanol.

Felonwort, *s.* math o fochlys.

Felony, *s.* (o *felon*) cyflafan; anghyfarch; lladrad, lledrad.
Petty felony, } chwiwladrad.
Petit felony, }
One guilty of felony—cyflafanwr, cyflafanog.
To commit felony—cyflafanu, gwneuthur cyflafan; llofruddio; lladrata.

Felsite, (Al. *ffels*) creigith=math o greigrisfaen.

Felt, *s.* (S.; Al. *filz*; Is. *vilz*) llawban, brethyn llawban, defnydd llawban; het lawban; het; croen.
Felt cloth—brethyn llawban.
Felt hat—het lawban, hed lawban, het frethyn, het wlan.

Felt, *v. a.* llawbanu; panu dàn y llaw; gwneuthur brethyn llawban; gwneuthur hetiau llawban; gwneyd hetiau.

Felter, *v. a.* llawbanu; telpynu.

Felt-grain, *s.* croeslin coed, llin coed, coedlin.

Felting, *s.* llawbaniad; coedlinad, croeslinad.

Feltmaker, *s.* llawbanwr; hetiwr.

Felucca, *s.* (It. *feluca*) deufluregan; math o longan chwechrwyf, arferedig yn Môr y Canoldir.

Felwort, *s.* (*fell* a *wort*) crwynllya.
Marsh felwort—crwynllys y morfa.

Female, *s.* (Ll. *femella*; Ff. *femelle*) benyw, menyw; bun, gwraig, dynes, gwŵres, merch: *pl.* benywod, benywaid.
A little female—benywen, bechan, merchan, gwreigen, benyw fechan, benyw fach.
A pretty little female—benywen dlos *neu* befr; tlosen, pefren, perten.
A very diminutive female—bechanigen; benyw orfychanig, benyw fechan iawn.
Giggling females, } benywetach, benyw-
Silly females, } otach, gwrageddach, gwrageddos.
A bulky female—tylffen, tolffen, trolen, cloben, corffolen; cloben *neu* drolen o ddynes.
A young female—benyw ieuanc, merch ieuanc, merch, benen.
A flirting female—ffiloges, hoeden, cariadferch dwyllodrus, chwidren, penhoeden, mwyglen, coegen, gwibferch dinsigl, chwidwen, twyllodres.
A bearing female—hilen, epiles, benyw epilio; dynes flith; benyw yn dwyn plant.
A pampered female—mosthen, mosthen, mwythen, dynes fwythus.
A sprightly female—benyw hynwyf, fywiog, eidiog, *neu* hoenus; gwalches, nwyfen, nwyfusen.

Female, *a.* benywaidd, benywol, menywaidd, menywol, benyw, menyw; gwreigiol, gwreigol, gwreigaidd, merchaidd, merchedaidd; o ryw benyw; tyner, gwàn; -es.
Female rhymes—odlau benywaidd, cyfodlau dyblyg.
Female servant — morwyn, gweinidoges, gweinyddes.
Female friend—cyfeilles.
Female lunatic—lloerigen, lloeriges, benyw loerig.
Female child — plentyn benyw; merch; merch fechan.
The female sex—y rhyw fenywaidd, yr ystlen fenywaidd, y rhyw fenywol, y wreigiol ystlen, yr ystlen wreigiol; y rhyw deg; y rhywogaeth hawddgar; y benywod.
Intercede for the devout female sex—cyfrynga dros yr ofynedol wreigol ystlen.
Female screw—troellrych, amsidrych, amsidrwy.
Female flower—blodeuyn benyw, bloden fenyw, blodyn benywaidd.

Feme-covert, } *s.* (Ff. *femme couvert*) gwraig
Femme-covert, } briod, gwraig briodol, gwraig
Femme-couvert, } wriog, gwraig ysbwys, gwraig gowyllog; gwraig dàn gowyll; gwraig dàn nawdd ac awdurdod gwr; gwraig dàn orchudd gwr; gwraig wrnawdd; gwraig âg arglwydd-wialen briodasol arni.

Feme-sole, } *s.* (F. *femme a sole*) benyw an-
Femme-sole, } weddog, gwraig anmhriod, merch weddw, gwraig heb briodi.
Femme-sole merchant — masnach-wraig=gwraig â ddygo yn mlaen fasnach heb ei gwr.

Feminality, *s.* benywoldeb, benyweiddrwydd, menywoldeb, menyweiddrwydd, benywdod, menywdod, merchedd, gwreigdra; y natur fenywaidd.

Feminate,† *a.*=*Femininc.*

Feminine, *a.* (Ll. *femininus*; Ff. *feminin*) benywol, benywaidd, menywol, menywaidd; benyw, menyw; gwreigiol, gwreigol, gwreigaidd, merchaidd, merchedaidd; perthynol i fenyw *neu* fenywod; o'r rhyw fenywaidd; tyner, mwyth, tirion, blydd.
Feminine gender—y rhyw fenywol, y rhyw fenywaidd, yr ystlen fenywol, yr ystlen fenywaidd, y genedl fenywaidd.

Femininely, *ad.* yn fenywol, &c.

Feminism, *s.* benywiaeth, menywiaeth; teithi benywod.

Feminity,† *s.*=*Feminism.*

Feminize, *v. a.* benyweiddio, benywoli, gwreigeiddio; gwneuthur yn fenywaidd.

Femme, *s.* (Ff.) gwraig, benyw, menyw.
Baron and femme—gwr a gwraig.

Femoral, *a.* (Ll. *femoralis*) morddwydol; perthynol i'r forddwyd; eiddo y forddwyd.
Femoral bone—asgwrn y forddwyd.
Femoral artery — rhedweli y forddwyd; y rhydweli forddwydol.

Femur, *s.* (Ll.) morddwyd, y forddwyd.

Fen, *s.* (S. *fen*, *fenn*; Is. *veen*) cors, corale; gwaen wleb, ferllyd, *neu* ddyfrllyd; merfa, morfa, corswaen; siglen, mignen, migyn; corsdir, tir corsog; rhos.

Fen-berries, *s. pl.* ceirios y waen, llygaeron, llyged aeron, llygaid aeron, llyged eirian, llygeirin, llyged eirin.

Fen-born, *a.* cors-anedig; à aned mewn cors.

Fence, *s.* (o wraidd *defend*, Ll. *defendo*, *defensus*) cae, argae, clawdd, amgae, gwrych, perth, bid, polgae, caer, gwalc, gwàl, achwre, amgaer, cauad; amddiffyn, ymddiffyn, diogelwch, nawdd, nodded, achles, amgeledd, annawdd, differ, diffwyn, amwg; amddiffynfa, diffynfa, noddfa, diogelfa; gwart, gorch; cleddyfyddiaeth, ymgleddyfiaeth, chwareu cleddyfau.
Live fence—coedgae, coedwrych, perthgae, perth blan, perth fyw, cae byw, bid byw, gwrych byw.
Rail-fence—rheilgae.
Fence of pales—polgae, pawlgae, coedgae, buarthgae, cauad polion; achwre.

Ring-fence — rhwyl, cylchgae ; cae *neu* glawdd o amgylch yr holl diriogaeth.
A wattled piece of fence—pleiden.
Tottering fence — pared ar ei ogwydd (*Salm* lxii. 3).

Fence, *v.* cau, amgau, argau ; amgylchu â chau, clawdd, gwrych, bid, gwàl, *neu* fur ; cloddio ; cau ar ; cau i mewn ; diogelu, amddiffyn, diffynu, diffyn, cadarnhau ; cadarnhau *neu* ddiogelu â chlawdd, cae, *neu* argae ; ymgleddyfu, cleddyfu, chwareu cleddyfau, chwareu â chleddyfau ; ymladd, ymbrofi, *neu* ymwrio â chleddyfau ; coeg ymwan ; ymgadw.
To fence in—cau ar, cau i mewn.
To fence about, } amgau, amgaeru ;
To make a fence about, } cau o amgylch ; cau oddi amgych ; cau yn nghylch ; gwalcio, gorchi.
To fence against—amddiffyn, ymddiffyn, diffyn, *neu* ddiffynu rhag.
To fence away a stroke—troi *neu* fwrw ergyd heibio ; troi *neu* fwrw ergyd ymaith ; cadw ergyd draw ; rhagodi ergyd ; bwrw dyrnod heibio.
He hath fenced up my way—efe a gauodd fy ffordd.

Fenced, *p. p.* argauedig, cauedig, amgauedig ; amgylchynedig â chae ; caerog, amgaerog ; cadarn ; gwalciog, gwalciedig.
Fenced cities — dinasoedd caerog, dinasoedd amgaerog.
Fenced about with walls—amgaerog, caerog ; cwmpasedig *neu* amgylchedig â chaerau.
Fenced with arms — arfog ; diffynedig âg arfau.
Fenced on all sides—amarfog, cwbl-arfog ; amnoddedig, amnawdd, amnoddog ; diffynedig ar bob tu.

Fenceful, *a.* amgaeog, argaeog, caerog, amgaerog, diffynlawn.

Fenceless, *a.* digae, diargae, digaer, diglawdd ; agored, noeth, gores, gorest ; diymadferth, diamddiffyn, dinodded, diamgeledd.

Fence-month, *s.* gwarddfis ; y mis yn yr hwn nid yw rydd hela mewn coedwigoedd = o'r 9fed o Fehefin hyd y 9fed o Orphenaf.

Fencer, *s.* cleddyfwr, cleddyfydd, ymgleddyfwr, ymgleddyfydd, ymgleddyfor ; chwarëwr cleddyfau ; un hyfedr ar y cleddyf.

Fencible, *a.* cauadwy, hygae ; diffynadwy, hynawdd ; à ellir ei amddiffyn.

Fencible, *s.* diffynsawdiwr, diffynfilwr, milwr amddiffynol : *pl.* diffyniaid, diffynolion, diffynsawdwyr, diffynfilwyr.

Fencing, *s.* cleddyfyddiaeth, ymgleddyfiaeth ; chwaread, ymarfer, ymdrin, *neu* ymladd â chleddyf *neu* gleddyfau.
The art of fencing—cleddyfyddiaeth, ymgleddyfiaeth ; celfyddyd ymladd â chleddyfau.

Fencing-master, *s.* pencleddyfwr, pencleddyfydd, athraw cleddyfyddiaeth.

Fencing-school, *s.* ysgol gleddyfu, ysgol ymgleddyfu, ysgol ymgleddyfiaeth, ysgol gleddyfyddol.

Fen-cress, *s.* berwy y gors, berw y gors, berwr y gors, cors-ferwy.

Fen-cricket, *s.* rhinc y tes, rhinc y llin.

Fend, *v.* (Ll. *defendo*) cadw draw, cadw ymaith, troi heibio, bwrw heibio, amddiffyn, amddiffyn rhag, rhagodi, rhagod, cau allan, cadw hwnt, gwthio ymaith, cilgwthio ; gwrthwynebu, bod yn groes, sefyll yn erbyn ; dadleu, ymddadleu, ymddadlu, rhesymu ; bwrw cwyn, achwyn, *neu* gyhudd heibio ; dianc.
To fend and prove—coeg ymresymu, coeg resymu, gwag ddadleu ; profi a gwrthbrofi ; profi a gwrthwynebu.

Fender, *s.* (o *fend*) rhagodydd, diffynydd, parfa, aelwydydd, aelwydor, haiarn aelwyd, rhagodydd y marwor, aelwydgylch, gwalc ; gwart.
Fender-piles—diffyn-fyllt, barau amddiffyn, diffyn-bolion.

Fen-duck, *s.* corshwyad.

Fenerate, *v. n.* (Ll. *fœnero*) llogi, ocri, benthycio ar log.

Feneration, *s.* (Ll. *fœneratio*) ocraeth, ocr, maelocraeth, llog ; ocriad, llogiad, rhoddiad allan ar log.

Fenestella, *s.* (Ll.) ffenestrell, ffenestren.

Fenestral, *s.* (It. *fenestrella*) ffenestrig, ffenestr fechan.

Fenestral, } *a.* (Ll. *fenestralis*) ffenestrol,
Fenestrate, } ffenestrog.

Fen-fowl, *s.* corsedn, corsednog, corsednant.

Fen-land, *s.* corsdir, tir corsog, tir coralyd, cors.

Fennel, *s.* (S. *fenol ;* Al. *fenchel ;* Is. *venkel ;* Gw. *feneul ;* Ll. *fœniculum*) ffenigl.
Fennel giant, } marchffenigl, cedorwydd.
Giant fennel, }
Hog's fennel—ffenigl y moch, ffenigl yr hwch, pyglys.
Wild fennel—ffenigl y cwn.
Fennel flower—bulwg Rhufain.

Fenny, *a.* (o *fen*) corsog, corslyd, corsol, corsaidd, morfaog ; corsdrig.
The fenny snake—neidr y gors ; y neidr gorsdrig.

Fennystones, *s.* corslys.

Fenowed,† *a.* (S. *fynigean*) llygredig.

Fenugreek, *s.* (Ll. *fœnum Græcum*) groegwyran.

Feod, *s.* (Ll. *fides ;* It. *fede ;* Ysp. *fe*)=*Feud.*

Feodal, *a.*=*Feudal.*

Feodality, *s.*=*Feudality.*

Feodary, *s.*=*Feudatory.*

Feodatory, *s.*=*Feudatory.*

Feoff, *v. a.* (Ff. *fieffer,* o *fief ;* Norm. *feffre ;* Ll. gyfreithiol, *feoffo*) gosod *neu* roi mewn meddiant ; rhoi goresgyn i ; peri meddiannu ; meddiantroddi ; rhoi llwyr feddiant ; gorchymyn i gadwraeth ; rhoi mewn *neu* dàn ymddiried i ; rhoi tirfeddiant.

Feoff, *s.*=*Fief.*

Feoffee, *s.* meddiantroddai, goresgynai, meddiannydd, meddiannydd cyflawn ; un â roddwyd mewn goresgyn ar dir ; un â osodwyd mewn goresgyn.
Feoffee in trust—etifedd *neu* ddeiliad dàn ymddiried ; llaw ganol ; un i'r hwn y rhoddwyd tir i'w drefnu dros arall ; un i'r hwn y rhodded tir i'w roddi i arall ; meddiantroddai ar ymddiried.

Feoffer, } *s.* meddiantroddwr, goresgynog, rhodd-
Feoffor, } wr goresgyn, rhoddydd goresgyn, rhoddwr gafael.

Feoffment, *s.* (Ll. gyfreithiol, *feoffamentum*) meddiantroddiad, meddiantrodd, rhoddiad meddiant ; gosodiad *neu* roddiad mewn meddiant ; rhoddiad goresgyn ; estyn ; llwyr feddiannad, meddiannad llawn.
Deed of feoffment — meddiantroddeb,

gweithred goresgyn, gweithred meddiant.

Feoffment in trust—meddiantroddiad dàn ymddiried; rhoddiad tir i un dàn ymddiried i'w droseiwyddo i arall.

Feracious, *a.* (Ll. *ferax*) ffrwythlawn, ffrwythog, ffrwythig, cnydfawr, cythnyrchiog, cynnyrchiol, cnydiog, cnydig, cnydiol, ffrwythlawch.

Feracity, *s.* (Ll. *feracitas*) ffrwythlondeb, ffrwythlonedd, ffrwythlonder, ffrwythlonrwydd, ffrwythigrwydd, ffrwythogrwydd, cnydforedd, cnydigrwydd, cnydiogrwydd.

Feral, *a.* (Ll. *feralis*) angladdol, arwyliannus, arwyliannol, perthynol i angladd; galarus, alaethol.

Fere,† *s.* (S. *fera, gefera*) cyfaill, cydymaith.

Feretory, *s.* (Ll. *feretrum*) elor, gelor, gelorwydd; elorgist; arch, ysgrin; elorfa, elorgell.

Fergusonite, *s.* (oddi wrth R. *Ferguson*, Ysw., o'r Alban) math ar fwn.

Ferial, *a.* (Ll. *ferialis*) perthynol i wyliau; yn perthyn i wyliau; gwyliawl, gŵyl.

Feriation, *s.* (Ll. *feriatio*) gwylgadwad, gwylad, cadwad gŵyl, cynnaliad gŵyl; cadwad yn ŵyl; cymmeriad ennyd *neu* seibiant; cymmeriad ei orphwys; gorphwysiad oddi wrth waith.

Ferine, *a.* (Ll. *ferinus*) gwyllt, anwar, bwystfilaidd, bwystfilain, gwylltfilaidd, bwystus, annof, annofedig; ffyrnig, creulawn, lleddfer, dywal, gwyllt; fâl bwystfil.

Ferinely, *ad.* yn wyllt.

Ferineness, } *s.* (Ll. *feritas*) gwylltrwydd, gwylltFerity, } ineb, gwylltedd, anwaredd, annofedd, bwystfileiddrwydd, bwystfileinrwydd, dywalder, dywalrwydd, creulonedd, creulonder, ffyrnigrwydd, bwystuarwydd.

Ferm,† *s.* = *Farm*.

Ferment, *s.* (Ll. *fermentum*) ymwaith, gwaith, tarwedd, il, gil; eples, heples, swyf; chwyddwaith, ymchwydd, ilwaith; ymweithiad, iliad, gweithiad; brwch, cyffro, cynhwrf, ysgog, cyffroad, cynhyrfiad, ffrawdd, berw, gwres.

In a ferment — mewn cyffro, mewn cynhwrf, mewn il, &c.; yn ddig, yn ffrom, yn frochus, yn ffroch, yn ffrochwyllt, ffromwyllt.

Ferment, *v.* (Ll. *fermento*) ymweithio, tarweddu, ilio, gweithio; peri gweithio; peri gwaith yn; gweithio gàn heples; ymchwyddo; chwyddo gàn waith; heplesu, eplesu, llefeinio, ymlefeinio; cyffröi, cynhyrfu, brydio, berwi, dyferwi, ymgynhyrfu, ymgyffröi, sori, digio, ffromi; bod mewn cyffro.

Fermentable, *a.* ymweithiadwy, tarweddadwy, iliadwy, gweithiadwy.

Fermental, *a.* ymweithiol, tarweddol, tarweddiadol, iliog, tarweddog, gweithiol, eplesol.

Fermentation, *s.* (Ll. *fermentatio*) ymweithiad, tarweddiad, iliad, gweithiad, heplesiad, eplesiad, chwyddiad; ymwaith, tarwedd, il, ilwaith, gwaith, heples, eples, swyf, brecini; ymwaith gàn heples; ymgynhyrfiad.

Fermentative, *a.* tarweddol, tarweddus, ymweithiol, tarweddog, iliadol, gweithiol, eplesol, ilweithiol; à bair ymwaith.

Fermentativeness, *s.* tarweddoldeb, tarweddolrwydd, tarweddusrwydd, tarweddogrwydd, ymweithioldeb, gweithiolrwydd.

Fermillet, *s.* (hen Ff. *fermaillet*) bwch, gwäeg, tytmwy, ystraig, boglwm.

Fern, *s.* (S. *fearn;* Al. *farnkraut*) rhedyn: *sing.* rhedynen.

A single fern—rhedynen.

Cup-fern—ffiolell, ffiolredyn, cibredyn.

Toothed cup-fern — ffiolredyn deintiog, ffiolell ddeintiog, cibredyn deintiog.

Shield-fern—marchredyn.

Female shield-fern—rhedyn benyw: *sing.* rhedynen fenyw.

Male fern—marchredyn gwryw, rhedyn y Heath shield-fern—rhedyn Mair. [cadnaw.

Filmy-leaved fern—rhedynaeh.

Stone-fern, Curled stone-fern, Rock brakes, } adeinredyn y chwarelau.

Flowering fern—cyfrdwy, rhedyn cyfrdwy, lloerredyn cyfrdwy.

Wall-fern — rhedyn y fagwyr, rhedyn y gogofau.

Sweet fern—rhedyn per, chwegredyn.

Tree-fern—coedredyn.

Finger-fern—duegredyn, bysredyn.

Mule fern—rhedyn anhiliog, mulredyn.

Water-fern—rhedyn y dwr.

Oak-fern—rhedyn y derw.

Small fern—rhedyniach.

Fern-brake—rhedynog, rhedyneg, rhedynllwyn, rhedynos, clŷn o redyn.

Land over-grown with fern—rhedyndir, tir rhedynog.

To gather fern — rhedyna; cynnull *neu* gasglu rhedyn.

Fernery, *s.* (o *fern*) rhedynfa, rhedynog, rhedyneg.

Fern-owl, *s.* aderyn y droell, rhodwr, dylluan y rhedyn.

Ferny, *a.* (o *fern*) rhedynog; llawn rhedyn; rhedynaidd.

Ferny ground—rhedyndir, tir rhedynog.

Ferocious, *a.* (Ll. *feroz;* Ff. *féroce*) ffyrnig, creulawn, dywal, anwar, anwaraidd, anwareddog, ciaidd, annynol, barbaraidd, milain, mileinig, diflog, brywyllt, gwyllt, gorwyllt, brochwyllt, ffroch, brochus, blwng, disgyfrith, barus, rheibus, bwystus, ffyrnigaidd, golofrudd, lleddfer, hyll.

Ferocious as a wolf—bleiddfar; ffyrniced a blaidd.

Ferociousness, } *s.* (Ll. *ferocitas*) ffyrnigrwydd,Ferocity, } ffyrnigder, creulondeb, creulonder, creulondra, creulonedd, dywalder, dywaledd, dywalrwydd, anwaredd, anwareddogrwydd, annynoldeb, annynoliaeth, anwariaeth, barbaredd, mileindra, ciaidd-dra, mileinigrwydd, bwystuarwydd, gwylltrwydd, gwylltineb, gwylltnawa, gorwylltrwydd, hylldder, hylldra; broch, ffroch, trallid, llid, digofaint.

Ferreous, *a.* (Ll. *ferreus*) haiarnaidd; o ryw yr haiarn; haiarndde.

Ferret, *s.* (Is. *vret;* Al. *frett;* Ff. *furet;* Gw. *fread*) ffured, ieugen; culwe, ffuredwe.

Ferret, *v. a.* ffuredu; gyru, tarfu, *neu* hely allan; cilio; gyru allan o loches *neu* gilfach; dadlochesu.

To ferret every hole and corner—chwilio pob twll a chongl; chwilio yn mhob twll a chornel; manol chwilio, dyfal chwilio; chwilena, chwilota, chwiltaith, chwiliach; olrhain.

He ferreted them out of their lurking-places—gyrodd hwynt allan o'u llochesau; gyrodd hwynt allan o'u cilfachau; cododd hwynt o'u gwâl.

To ferret about—hely *neu* hela o fân i fân; erlid, ymlid, ystuno.

Ferreter, *s.* ffuredwr, ffuredydd; chwilenwr, chwilenai, chwiliwr, chwiliedydd, chwilotai, chwilotwr, olrheiniwr, ceisiwr, ymofynwr; gyrwr allan; dadlocheswr.

Ferriage, *s.* (o *ferry*) porthlog, porthdal, arian porth, arian cludborth, trosgluttal; trawendal; tâl am borth *neu* drosglwydd.

Ferric, *a.* (Ll. *ferrum*) haiarnig, harnig; perthynol i *neu* dynedig o haiarn.

Ferric acid—sur haiarnig, sur haiarn.

Ferricalchite, *s.* (Ll. *ferrum* a *calx*) harn-galchfaen, calchfaen haiarnog.

Ferrid-cyanic Acid, *s.* sur harnid-lasarig, sur harnid-greisflorig.

Ferrid cyanide, *s.* harnid-greisflorid, harnid-gresflorid.

Ferrid cyanide of iron—glas Prwsaia, glas Prwsiaidd.

Ferrid Cyanogen, *s.* harnid-lasai, glasai harnid.

Ferriferous, *a.* (Ll. *ferrum* a *fero*) yn cynnyrchu haiarn; haiarnddwyn.

Ferrilite, *s.* (Ll. *ferrum*, a Gr. *lithos*) haiarnfaen, harnfaen.

Ferrocyanate, *s.* harnlasaint.

Ferro-cyanic, *a.* harnlasarig, harn-greisflorig.

Ferrocyanid, **Ferrocyanuret**, } *s.* harn-greisflorid, harn-gresflorid.

Ferruginated, *a.* (Ll. *ferrugo*) haiarnrydlyd, harnrydlyd; haiarnrydliw; o liw rhwd haiarn; yn meddu cynneddfau rhwd haiarn.

Ferruginous, **Ferrugineous**, } *a.* (Ll. *ferrugineus*, o *ferrugo*) haiarnaidd, haiarnog, haiarnol, harnaidd, haiarndde; o liw haiarnrwd; haiarnddu; cochddu.

Ferrugo, *s.* (Ll.) rhwd, y rhwd.

Ferrule, *s.* (Ysp. *virola;* Ll. *ferrum*) amgarn, amdorch; torch, cylchyn.

Ferrumination, *s.* (Ll. *ferrumino*) sodriad, asiad, sawdyriad.

Ferry, *v.* (S. *feran, ferian;* Ll. *fero;* Gr. *pherô*; Al. *führen*) trosglwyddo, trosgludo, trosi, trawenu, trosgario; dwyn, cludo, cario, cywain, symmud, bwrw, *neu* dafu drosodd; bwrw *neu* dafu drwodd; myned drosodd *neu* drwodd; croesi drosodd *neu* drwodd; mordwyo drosodd *neu* drwodd; croesi y borth.

To ferry over—croesi y borth.

Ferry, *s.* ceubalfa, trosgludfa, trawenfa, trosfa, trosglwyddfa, porthfa, porth; trosgludfraint, ceubalfraint; † ceubal.

Ferryboat, *s.* ceubal, ysgraff, treiddfad, bad trawenu, trosglwyddfad, cwch trosgludo.

Ferryman, *s.* porthwas, porthwys, ysgraffwr, ceubalwr, badwr, trawenydd.

Fertile, *a.* (Ff.; Ll. *fertilis*) ffrwythlawn, ffrwythog, ffrwythig, ffaeth, ffaethus; cnydfawr, cnydiog, cnydig, toraethus, toreithiog; bras, brwys, brwysog; cyfoethog; achrwysol, rhwsg, prydd; epilliog.

Fertile country—gwlad ffrwythlawn, &c.; ffaethdir, rhws.

Fertilely, *ad.* yn ffrwythlawn, &c.

Fertileness, *s.*=*Fertility.*

Fertility, *s.* (Ll. *fertilitas*) ffrwythlondeb, ffrwythlonrwydd, ffrwythlonder, ffrwythlondra, ffrwythigrwydd, ffrwythogrwydd, ffrwythlonedd, ffaethusrwydd, cnydforedd, cnydfawredd, toraeth, toreithiogrwydd, toreithusdra; brasder, brwysedd, achrwysedd.

Fertilization, *s.* (o *fertilize*) ffrwythloniad, ffrwytholiad, ffrwytholiant, ffrwythogiad, achrwysiad.

Fertilize, *v. a.* (o *fertile*) ffrwythloni, ffrwythogi, ffrwythiannu, ffrwythuso, ffaethuso, toreithio; brasbau, brwyso, achrwyso; gwneuthur yn ffrwythlawn.

Ferulaceous, *a.* (Ll. *ferula*) corsenaidd, cecysaidd; corsenol, cecysol; corsenog.

Ferule, **Ferula**, } *s.* (Ll. *ferula*) yslapell, llawgrafell, llawddulen; crafell i guro dwylaw plant; cecysen, corsen; brysgyll.

Ferula (in botany)—cedorwydd, pyglys, marchffenigl.

Ferule, *v. a.* yslapellu, llawgrafellu; curo âg yslapell *neu* grafell; curo, cospi, *neu* gystwyo â chrafell law; yslapio.

Fervency, **Ferventness**, } *s.* (Ll. *fervens*) gwresogrwydd, gwres, poethder, poethni, poethineb, poethdra, twymder, angerdd, tanbeidrwydd, gwresedd; brwdfrydedd, brwdfrydigrwydd, terwynder, awyddfryd; taerineb, taerni, taerder, taeredd, difrifwch, difrifoldeb, difrifolrwydd; aidd, eiddigedd; dyhewyd, gwres dyhewyd; poethwyn, gwŷn poeth; trynedd.

With great fervency—yn ddifrifol iawn (*Judeth* iv. 9).

Fervent, *a.* (Ll. *fervens*) gwresog, tanbaid, brwd, terwyn, poeth, angerddol, angerddus, twym, tanllyd; taer, difrifol, difrif, dwys; awchus, gwresoglym, brwdfrydig, bywiog; greidiol, graid, gwrys; teryll; gwrdd, agwrdd; eiddig, eiddgar; berw, berwol, yn berwi, yn brydio; taer a gwresog.

To be fervent—bod yn wresog, &c.; poethi, berwi, brydio, dyfrydio, angerddu, gwyniasu.

Fervent prayer—gweddi daer, taer weddi.

Fervent mind — aidd, gwresogfryd, meddwl eiddig.

For being zealous and fervent for the law—wrth ddwyn aidd i'r gyfraith; wrth fod yn eiddgar a gwresog o blaid y gyfraith.

Fervent heat—gwir wres (2 *Pedr* iii. 10).

Thy fervent lover—yr hwn a'th gâr di yn gu (2 *Esd.* vi. 58); dy wresog gariad.

Fervescent, *a.* (Ll. *fervesco*) yn myned yn wresog, &c.; yn dechreu gwresogi; gwresogaidd.

Fervid, *a.* (Ll. *fervidus*) gwresog, poeth, twym, tanbaid, brwd, purboeth, gwynias, terwyn, graid, greidiol, greidiog, traphoeth, cynhes; eiddig, eiddgar, awyddfrydig, brwdfrydig; taer, angerddol, angerddus, terwyn, difrifol, difrif, dwys, dwysfawr.

Fervidness, *s.* gwresogrwydd, poethineb, poethni, poethder, poethdra, tanbeidrwydd, twymder, terwynder, gwyniasedd, greidiogrwydd; taerineb, taerni, taeredd, difrifoldeb, difrifwch; aidd, hewyd.

Fervour, *s.* (Ll. *fervor*) gwres, gwresogrwydd, tragwres, poethwres, gwresedd, poethder, poethineb, twymder, tanbeidrwydd, terwynder, terwyndeb, terwyndra, graid, cynhesrwydd; taerineb, taerni, taerder, difrifoldeb, difrifolder, difrifwch, brwdfrydedd, poethfrydedd; aidd; gwresogrwydd meddwl; hewyd.

Fescennine, *a.* (o *Fescennium*, yn yr Ital) penrydd, afreolus, anllad.
Fescennine, *s.* anlladgan, penrhyddeg; priodasgan.
Fescue, *s.* (Ff. *fêtu;* Ll. *festuca*) dangosbin, cyfeirbin, dangoseyr, dangoseg, asgell gyfeirio, pin cyfeirio.
Fescue-Grass, *s.* (Ll. *festuca*) peisgwellt.
Sheep's fescue-grass—peisgwellt y defaid.
Viviparous fescue-grass—peisgwellt bywhilliog.
Hard fescue-grass—peisgwellt caledaidd, peisgwellt caled.
Creeping fescue-grass—peisgwellt ymdaenol.
Barren fescue-grass—peisgwellt anhilliog.
Wall fescue-grass—peisgwellt y fagwyr.
Single-husked fescue-grass — peisgwellt uncib.
Spiked fescue-grass — peisgwellt twysenaidd.
Meadow fescue-grass — peisgwellt y gwaenydd.
Tall fescue grass (*festuca elatior*)—gwrwgawn, peisgwellt hydwf.
Tall fescue-grass (*festuca gigantea*)—peisgwellt hiriain, peisgwellt hirian.
Fessels, *s. pl.* math o wehilion.
Fesse, *s.* (Ll. *fascia*) ffas arflen, gwregys cwnsallt; ffunen ar draws arflen *neu* gwnsallt o ystlys bwygilydd; ffas ar draws cwnsallt o ystlys bwygilydd.
Party per fesse—rhanedig ar draws â ffunen; rhanedig yn ddau â ffas; rhanedig â ffas; ffasranedig.
Fesse-point, *s.* ffasbwynt, cesbwynt, canol arflen, craidd cwnsallt, canol pais arfau.
Fessitude, *s.* (Ll. *fessitudo*) blinder, lludded, blinedd.
Festal, *a.* (Ll. *festus*) gwleddol, gwestfaol; perthynol i wledd; llawen, llonwych, difyr, digrif, gorawenus, gorhoenus.
Fester, *v. n.* (Ll. *pester, pus, pustula?*) crawnu, madru, madreddu, gori, magu crawn; braenu, llygru.
Festerment, *s.* crawniad, madriad, madreddiad, goriad, magiad crawn.
Festinate,† *a.* (Ll. *festinatus*) bryslog, ffulliog, brysgar, ffestin, buan, ffrystiol.
Festination,† *s.* (Ll. *festinatio*) ffestiniad, ffrystiad, brys, ffull, dyfrys, ffrwst.
Festival, } *a.* (Ll. *festivus*) gwleddol, gwestfaol;
Festive, } perthynol i wledd; llawen, llonwych, llawenwych, gorfoleddus, difyr, difyrrus, digrif, digrifol, gorawenus, gorhoenus, hylon, hoenus, afieithus; llawn llawenydd; perthynol i ŵyl.
Festival, *s.* gŵyl, cofwyl, dydd gŵyl, dygwyl; gwledd; cylchwyl.
Commemoration festival — cofwyl, gŵyl goffa; cylchwyl; gŵyl mabsant.
High festival—uchelwyl, uchel ŵyl, prifwyl, gŵyl arbenig, uchel-ddydd.
Solemn festival—gŵyl arbenig, uchelwyl, uchel ŵyl, prifwyl, prif ŵyl; cylchwyl.
The three principal festivals—y tair gŵyl arbenig; y tair prif ŵyl; y tair prifwyl.
The festival of the apostles — gŵyl yr apostolion; grawys ebystyl.
The festival of Mary—cofwyl Mair; grawys Mair.
Not festival—na bo gŵyl; dydd gwaith.
Festively, *ad.* yn llawen, yn llonwych, &c.; ar ddull gwledd.
Festivity, *s.* (Ll. *festivitas*) llawenydd, gorfoledd, llonder, llonedd, llawenwch, llonwychder, llonychdod; difyrwch, digrifwch, gorhoen, gorhoenusrwrdd, gorawen, hoen, hoenusrwydd, elwch; arabedd, afiaeth, afieithusder, morach, elwch; llawenydd gwledd; cyfeddach, cyfeddwch; †gŵyl.
Love of festivity—gwleddgarwch.
Riotous festivity—earllach.
Festivous, *a.* (Ll. *festivus*) gwleddol; perthynol i wledd; llawen, llonwych, llawenwych, difyr, digrif, afieithus, gorhoenus, gorawenus.
Festoon, *s.* (Ff. *feston;* It. *festone*) troddail, deilwaith, talflodau; deilbleth, corombleth adail; pilflodau: *sing.* talflodyn, talfloduyn.
Festoon-work—troddeilwaith, talflodwaith, talflodeuwaith.
Festoon, *v. a.* deilweithio, troddeilio; deilblethu, ffurfio yn droddail.
Festuca, *s.* (Ll.) peisgwellt.
Festucine, *a.* (o'r Ll. *festuca*) gwelltliw, gwelltliwiog, o liw y gwellt.
Festucous, *a.* gwelltaidd; o wellt; â wnaed o Festucous hat—het wellt. [wellt.
Fet,† *s.* (Ff. *fait*) darn, dernyn.
Fet,† *v.* cyrchu, hercyd, hol.
Fetal, } *a.* (o *fetus* neu *fœtus*) milrithiol, mil-
Fœtal, } rithaidd, milrithig; perthynol i filrith.
Fetch, *v.* (S. *feccan, feccean*) cyrchu, hercyd, hol, nol, noli, cyrhaeddyd, cyrhaedd; arwedd, dwyn, oludo, cywain, cario; dyfod â; tynu; cymmeryd; gwneuthur, ysgogi, symmud, troi.
To fetch out — dwyn, arwedd, *neu* dynu allan.
To fetch in—dwyn, arwain, cywain, *neu* dynu i mewn.
To fetch back, } ail gyrchu, eilgyrchu, ad-
To fetch again, } gyrchu; dwyn *neu* dynu yn ol; galw yn ol.
To fetch up—goddiweddyd, goddiwes, gorddiwes, goddiwedd, goddiweddu, gorddiwesu, gorddiwedd, cyrhaeddyd, cyrhaedd, cyrchu.
To fetch to — adferu, adferyd, adfywio; dwyn ato ei hun; dadebru.
To fetch a price—dwyn, hercyd, *neu* gyrhaedd pris.
To fetch money—dyfod â arian; cyrhaedd, hercyd, *neu* ddwyn arian; talu; bod yn werth.
To fetch breath — anadlu; cymmeryd, hercyd, cyrhaedd, tynu, *neu* gyrchu anadl; chwythu, gwyntio; gorphwys, gorphwyso, ymddadflino.
To fetch one's breath short—bod yn fyr ei anadl; bod yn fyr-anadlog; dybĕu, peuo, lluddedu.
To fetch a leap—cymmeryd, cyrchu, *neu* hercyd naid; neidio.
To fetch a walk—myned i rodio; cyrchu godaith; cymmeryd godaith.
To fetch up lost time—tynu i mewn yr amser â gollwyd *neu* â gamdreuliwyd; ennill yn ol yr amser â gollwyd *neu* â gamdreuliwyd; prynu yr amser â gollwyd *neu* â gamdreuliwyd.
To fetch in one's debts, } cynnull *neu*
To fetch in one's dues, } gasglu ei ddyl-

edion; cynnull *neu* gasglu yr hyn sy ddyledus iddo.

To fetch a compass—myned o *neu* oddi amgylch; amgylchu, amgylchynu, damgylchynu; bod yn faith *neu* fanwl; arfer aml eiriau; arfer amgylchion geiriau.

Your plate will fetch you a considerable sum of money—dwg eich llestri arian i chwi sum nid bychan o arian bath.

He fetcheth his course again—efe a red eilwaith.

To fetch about this form of speech—ar fedr troi y chwedl.

And his hand fetcheth a stroke with the axe—ac a estyn ei law â'r fwyell (*Deut.* xix. 5).

As though they would have fetched wheat—fel rhai yn prynu gwenith (2 *Sam.* iv. 6).

Fetch, *s.* cast, ystranc, ystryw, pranc, cyfrwysder, cyfrwysdra, dichellgyrch, cyrch, dichelldro; llediith.

Fetcher, *s.* cyrchwr, cyrchydd, cyrhaeddwr, cyrhaeddydd; arweddawdr, dygiawdr.

A fetcher of water—dyfrwr; tynwr *neu* gyrchwr dwfr.

Fete, *s.* (Ff.) gŵyl, dydd gŵyl, gwledd.

Fetichism, } *s.* (o *fetich*, eilun Affricaidd) addol-
Feticism, } iad eilunod yn mhlith Duantwys Affrica; Ffeticiaeth, Ffeticaeth.

Fetid, } *a.* (Ll. *fœtidus*) drewllyd, drewedig,
Fœtid, } drygsawrus, yn drewi, mws, drewsawrus, trymsawrus, trymsawr.

Fetidness, *s.* drewi, drewdod, drewedigrwydd, drewllydrwydd, drygsawrusrwydd, drewsawrusrwydd, drewiant, mysni.

Fetiferous, *a.* (Ll. *fœtifer*) yn cynnyrchu rhai ieuainc; epiliog, hiliog, ffrwythlawn.

Fetlock, *s.* (*foot* neu *feet* a *lock*) cudyn egwyd, swrl, swrn, eswrn; egwyd, mwydle.

Fetlock joint—egwyd, swrn, eswrn, egwydled, swrl, deilw, meilwn march, mwydle, llyffethar, llyffethr.

Fetor, *s.* (Ll. *fœtor*) drygsawr, trymsawr, drewi, drewsawr, drewiant, drewdod, drygwynt, drwg arogl, drewchwa, drygsawyr, gwynt cas, tawch.

Fetter, *s.* (S. *fetor;* Al. *fessel*) llyffethar, hual, gefyn, cloffrwym, llywethyr, llyffethyr, llyffethair, llawethyr, troedog, llyffethr, meg; burwy; carchar; cadwyn.

Leg fetter—berrwy.

Fetter, *v. a.* llyffetheirio, hualu, gefynu, llyffethyru, llewythyru, troedogi, cloffrwymo, llyffethru; burwyo; rhwymo, cadwyno; carcharu.

Fettered, *a.* llyffetheiriog, hualog, gefynog, llywethyrog, troedrwym, cloffrwymol; hualedig, gefynedig, llyffetheiriedig.

Fettered ones—hualogion, gefynogion.

Fettered condition—gefyniaeth.

Fetterless, *a.* anhualog, anefynog, dilyffethar, dilywethyr, digloffrwym; rhydd, afrwym.

Fettle, *v. a.* (llygrair o *feel*) simera, ffwdanu, trafferthu; gwneuthur coegswydd; ofera; cyweirio, gwag daclu.

Fettstein, *s.* (Al.) ireidfaen, brasfaen.

Fetus, } *s.* (Ll. *fœtus*) milrith, côl, pri, rhith;
Fœtus, } y rhith wedi ei lawn lunio.

Feud, *s.* (S. *fæhth, fœgth;* Al. *fehd*) dygasedd, annysgymmod, anghydfod, anghymmodlonedd, cynddrygedd, dygas, dygn gasineb, cilwg, amryson, ymrafael, cynhen, cyfrysedd, ymgiprys, cywrysedd, cweryl, brwth; casineb marwol; hen ddygasedd.

Feud, *s.* (Ll. *fides, fœdus;* It. *fede;* Ysp. *fe;* neu o'r Ll. *emphyteusis;* neu ynte o'r T. *fee* ac *ead* neu *odh*) gwriogaeth, gwarogaeth, gwrogaeth, gwarogfael, cydnabodfael, ammodfael, gwriog-afael; gafael, tirafael, tirddaliad, tirafaeliaeth; gafaeldir.

Feudal, *a.* (Ysp.) gwriogaethol, gwrogaethol, gwarogaethol, gwriogol, gwarogol; cadweinidol; â ddelir dân wriogaeth; â ddelir dân arall; â ddalier dân arall; perthynol i ddaliad dân arall.

Feudal system—y gyfundraith wriogaethol, y cyttrefniant gwrogaethol, y gyfundrefn wriogaethol, y cyfansoddiad gwriogaethol.

Feudal, *s.* rhywbeth â ddelir ar afael; gafaelbeth.

Feudalism, *s.* (o *feudal*) y gyfundraith wriogaethol, y trefniant gwarogaethol, y gyfundrefn wriogaethol, y cyfansoddiad gwriogaethol; gwriogoliaeth, gwarogoliaeth, gwrogoliaeth.

Feudality, *s.* gwriogoldeb, gwriogolrwydd, gwarogoldeb, gwrogolder; ffurf *neu* gyfansoddiad gwarogol.

Feudalization, *s.* gwriogaethiad, gwarogaethiad, gwriogoliad, gwriogoliant, gwarogoliad; dygiad dân wriogaeth; dygiad dân wriogafael.

Feudalize, *v. a.* gwriogaethu, gwriogi, gwarogaethu, gwarogi, gwriogoli; dwyn dân wriogaeth; dwyn dân wriog-afael.

Feudary, *a.* gwriogaethol, gwarogaethol; yn dâl tir dân wriogaeth; â ddeil dir oddi gân ei well; cadweinidol.

Feudatary, *s.*=*Feudatory.*

Feudatory, *s.* gwarogwr, gwriogwr; deiliad dân warogaeth *neu* wriogaeth; deiliad dân wriog-afael; deiliad dân ammod *neu* gydnabyddiaeth; deiliad cadweini.

Feu-de-joie, *s.* (Ff.) coelcerth, banffagl, tân gorfoledd.

Feudist, *s.* ysgrifenydd ar ammodfaelion; ysgrifenwr ar warogaeth.

Feuillage, *s.* (Ff.) deilres, deiliant, deiliadaeth, dail; swp o ddail.

Feuillemort, *s.* (Ff. *feuille morte*) lliw gwywddail, lliw dail edwin, lliw gwywedig, lliw adfeiliedig, edwinliw, llwydfelyn, melynlwyd.

Feuter,† *v. a.* parotöi, gwneuthur yn barod.

Feuterer,† *s.* cynydd, ceidwad cwn.

Fever, *s.* (Ff. *fievre;* Ysp. *fiebre;* It. *febbre;* Ll. *febris*) twymyn, y dwymyn, cryd, y cryd, mwyth, y cryd poeth, haint y gwres, clefyd y gwres, llucheden, poethgryd; gwres, poethder, brydiant.

Burning fever—twymyn boeth, cryd poeth, haint gwres, yr haint gwres.

Intermitting fever—cryd dysbeidiol, twymyn ddysbeidiol, cryd a mwyth.

Continued fever, } twymyn annysbaid, cryd
Continual fever, } diddysbaid, twymyn annysbeidiol, twymyn ddiddysbaid.

Remitting fever, } twymyn laesedigol,
Remittent fever, } twymyn dreiedigol, cryd goddysbaid, mwyth goddysbaid; mwyth â gilio *neu* â dreio ar brydiau; twymyn â fo yn llaesu, yn cilio, *neu* yn treio ar brydiau.

The military fever—y mwyth brith, brith y gwanwyn, y dwymyn filwraidd.
Spotted fever—y dwymyn fânog, y nodau.
A fever of one day's continuance only—twymyn undydd, cryd undydd, twymyn undyddiog, bradgyfarfod, twymyn ddïwrnod, dyddgryd.
Putrid fever — twymyn fraen, twymyn fraenol, twymyn bodr.
Nervous fever—twymyn nychlyd.
Inflammatory fever—twymyn boeth, cryd poeth, poethgryd, haint gwres, twymyn frydiol, twymyn dandde.
Scarlet fever — y dwymyn goch, eiriosglwyf, eiriosgryd.
Mixed fever—twymyn gymmysg, clefyd deuddull.
A fit of fever—llucheden; chwiw o dwymyn.

Fever, *v. a.* rhoi mewn twymyn; twymyno, mwytho.

Fever-cooling, *a.* twymyn-oerol; yn llinaru y cryd; mwyth-linarol.

Feveret,† *s.* twymynan, twymynig, crydan, godwymyn.

Feverfew, *s.* (S. *feferfuge;* Ll. *febris* a *fugo*) tormwyth, tarfgryd, wermod wèn, chwerwyn yr ardd, chwerwyn gwŷn, meddygyn menyw.
Corn feverfew, Scentless mayweed, } ffenigl y cwn.
Sea feverfew—tormwyth arfor.

Feverish, *a.* (o *fever*) twymynaidd, twymynol, twymynog; â thwymyn arno; â'r cryd arno; â'r mwyth arno; â thwymyn ysgafn arno; â rhyw dwymyn arno; â'r dwymyn arno; poeth, brydiol, brydiog; ansicr, anwastad, anwadal, gwamal; weithiau yn dwym ac weithiau yn oer.

Feverishness, *s.* twymyneiddrwydd, twymynoldeb, twymynogrwydd; bod â thwymyn ysgafn arno.

Feverous, *a.* twymynog, twymynol, twymynaidd; â thwymyn arno; â dueddo i beri twymyn; crydbair, cryd barol.

Fever-root, **Fever-wort**, } *s.* crydlys.

Fever-sick, *s.* (S. *fefer-seoc*) claf o dwymyn; crydglaf, twymyn-glaf, mwythglaf.

Fever-sore, *s.* crydlynor, mwythlynor.

Fever-weakened, *a.* twymynwan, crydwan; gwanychedig gân gryd *neu* dwymyn.

Fever-weed, *s.* mwythlys=math o foglynon.

Fevery, *a.* twymynog, twymynaidd; claf o dwymyn, cryd, *neu* fwyth; â thwymyn arno.

Few, *a.* (S. *fea, feawa;* D. *föye;* Ll. *pauci*) ychydig; anaml; rhai; ychydig (o nifer); bychan (o nifer); ambell, ambell un; prin; bychydig; nid llawer.
Few—ychydig (os neb); nemawr, nemor; ond ychydig (os neb); prin neb; dim ond ychydig.
A few—ychydig (er nad llawer); rhai; rhyw ychydig.
There are few persons who would have acted as he did—nid oes nemawr o ddynion à ymddygasent fel yr ymddygodd efe; nid oes ond ychydig ddynion à ymddygasent fel yr ymddygodd efe; ychydig o ddynion à ymddygasent fel y gwnaeth efe; nid ymddygasai nemawr o ddynion fel y gwnaeth efe.
I know a few men who would have acted precisely as he did—adwaen ychydig o ddynion à ymddygasent yn hollol fel yr ymddygodd efe; gŵn am ychydig ddynion à ymddygasent yn hollol fel y gwnaeth efe.
Very few—ychydig iawn, anaml iawn, tra anaml, tra ychydig.
Not a few—nid ychydig; llawer, lluaws; aml.
In few words—ar fyr eiriau; mewn byr eiriau; ar ychydig eiriau; mewn ychydig eiriau.
A few days—ychydig ddyddiau; ychydig o ddyddiau; rhynawd o ddyddiau.
To grow few—myned yn ychydig, yn anaml, yn brin, *neu* yn deneu; ychydigo, prinhau, lleihau, treio.
To make few, To render few, } gwneuthur yn ychydig, yn anaml, yn brin, *neu* yn deneu; ychydigo, prinhau, lleihau; eiddilo nifer; peri yn ychydig, yn anaml, yn brin, *neu* yn ambell.
A few in number—ychydig o nifer.
I see a few of them—gwelaf ambell un o honynt; gwelaf ychydig o honynt.
Many women were with him, and a few men—yr oedd gydag ef wragedd lawer, a gwŷr rai; yr oedd gydag ef lawer o wragedd ac ychydig o wŷr.
There are but a few days since I saw him—nid oes nemawr o ddyddiau er pan welais ef.
That uses few words—anaml ei eiriau.
There were but few Christians at that time—bychodedd o Gristionogion oedd yr amser hwnw; nid oedd nemawr o Gristionogion y pryd hwnw; nid oedd ond ychydig Gristianogion ar hyny o amser.
Man that is born of woman is of few days—dyn à aned o wraig sy fyr o ddyddiau.
They are grown few—aethant yn anaml; aethant yn ychydig.
There are but a few of them—nid oes nemawr o honynt.
Fewer—llai, anamlach; llai (o nifer).
No fewer than—nid llai na.
Fewest—lleiaf, anamlaf; lleiaf (o nifer *neu* rifedi).

Fewel, *s.* (o'r Ff. *feu*) tanwydd, cynnud, tanwent, dylwyf, gosgymmon, tanborth.

Fewel, *v. a.* porthi tân; rhoi peth ar y tân.

Fewness, *s.* (o *few*) ychydigrwydd, ychydigder, ychydigdra, bychanrwydd nifer, bychander nifer, anamledd, anamlder, anamldra, prinder, bychydigrwydd, bychodedd, bychodrwydd.

Fey, *v. a.* (Is. *veegen;* Al. *feyen*) glanhau clais, dileidio clais, dileidio clawdd.

Fiance, *v. a.* (Ff. *fiancer*) dyweddïo.

Fiat, *s.* (Ll. *fio*) bydded; gorchymyn, arch, archiadeb.

Fib, *s.* (Ff. *fable;* Ll. *fabula;* Gw. *meabhra*) celwydd, celwyddan, celwydd bychan, anwiredd, gau, ffug, geudeb; coegchwedl.

Fib, *v. n.* celwyddu, dywedyd celwydd, dywedyd anwiredd; ffugio.

Fibber, *s.* celwyddwr, un celwyddog, un celwyddus, un geueiriog, un geuair; ffugiwr.

Fibre, *s.* (Ff.; Ll. *fibra*) llinionen, manedefyn, meinedefyn, meinedef, manedaf, edafedden, llined, llin, llinen, llinan, edef; gi; man-

wreiddyn: *pl.* llinion, manedafedd, meinedafedd, manwraidd, gwreiddiach.
Fibrous matter—llined.
Vegetable fibres — tyflinion, tyflinedion, llinedion tyfol, manedafedd tyflysol, manwraidd llysiau.
Woody fibre — coedlin, coedlined, meinedaf coed.

Fibreless, *a.* heb fanedafedd, di linion, heb linion.

Fibril, *s.* (Ff. *fibrille*) llinionen, llinionyn, manedefyn bach: *pl.* llinionos.

Fibrillæ, *s. pl.* (Ll.) llinionos, llinionach.

Fibrillose, } *a.* llinionog, llinionol, meinedaf-
Fibrillous, } eddog, manedefol; perthynol i linion; gorchuddiedig gàn linion.

Fibrin, } *s.* (o *fibre*) llinednur, llinedain=math
Fibrine, } o ddefnydd fferyliol à geir mewn milod a thyfolion.

Fibrinous, *a.* (o *fibrin*) llinednuraidd, llinednurog; yn cynnwys llinednur.

Fibrolite, *s.* (Ll. *fibra*, a Gr. *lithos*) llinedfaen, glasith=math o ddelidfaen.

Fibrous, *a.* (o *fibre*; Ff. *fibreux*) llinaidd, llinedol, llinedaidd, manedafeddog, meinedafeddog, manwreiddiog; llawn manedafedd; llawn gwreiddiach.
Fibrous root — gwreiddyn llinaidd *neu* fanedafeddog; llin-wreiddyn.

Fibula, *s.* (Ll.) gwäeg, balog, tytmwy, bwcl, ystraig; llorf, llorp, ysberygl, asgwrn y grimog; capfaen.

Fibular, *a.* (o *fibula*) llorfol, llorpol; perthynol i asgwrn y grimog.
Fibular artery—rhedweli y grimog.

Ficaria, *s.* (Ll. *ficus*) milfyw, bronwys, bronwst, llysiau y bronau, llygad Ebrill, melyn y gwanwyn, gwenith y ddaiar, gwenith y gog, llygad dyniawed.

Fickle, *a.* (S. *fickol*; Sw. *vackla*) anwadal, gwamal, cyfnewidiol, newidiol, ansefydlog, oriog, ysgoewan, ysgoewain, ysgoew, ansafadwy, syfal, anhysaf, hydro, chwidr, chwidrog, nwythol, nwythig, ehud, ysgafn, ysmala, gofregus, mympwyol.
A fickle person—gwamalddyn, ysgogyn, ysgoewyn, chwidryn; un anwadal, &c.

Fickleness, *s.* anwadalwch, anwadaledd, anwastadrwydd, gwamalder, gwamalrwydd, gwamaldod, gwamaledd, anwadalrwydd, syfaldod, oriogrwydd, gwamaliaeth, newidioldeb, ysmaldra, ysmalder, ansefydlogrwydd, nwythigrwydd, nwythusrwydd, chwidredd.

Fickly, *ad.* yn anwadal, &c.

Fico, *s.* (It.) cleciad bysedd ar un; clewtiad bysedd ar un; gofyn gwaethaf un; chware bysedd ar un.
To give one the fico—clecian, crinellu, *neu* glewtian bysedd ar un; gofyn gwaethaf un; erchi i un wneuthur ei waethaf; rhoi hew *neu* her i un.

Fictile, *a.* (Ll. *fictilis*) celfluniol, celfluniedig, moldluniol; à luniwyd gàn gelfyddyd; celfyddydol, gwneuthurol; à wnaed gàn y crochenydd; priddorol, cregenol, priddin.

Fiction, *s.* (Ll. *fictio*) ffugiant, ffugiad, ffug, ffuant, ffugwaith, dychymyg; ffugeb, ffugwers, ffugchwedl, chwedl, chwedl ddychymyg, chwedl wneuthur; ffalsedd, geudeb, celwydd; anwiredd, anwir, gau; ffugddyfais: *pl.* ffugion.

Fictionist, *s.* ffugionydd, ffugionwr, ysgrifenydd ffugion, ysgrifenwr ffugebion.

Fictious, *a.* (Ll. *fictus*)=*Fictitious.*

Fictitious, *a.* (Ll. *fictitius*) ffugiol, ffugiedig, gau, geuol, dychymygol, dychymygedig; ffals, llediithiog; ffug-, rhith-.
Fictitious name—ffug-enw, enw ffugiol.

Fictitiousness, *s.* ffugioldeb, ffugiolrwydd, ffugiolder, ffugiedigrwydd, geuoldeb, ffalsedd.

Fictive,† *a.* (Ll. *fictus*) ffugiedig, ffugiol.

Fictor, *s.* (Ll.) delweddwr, delwedydd, delwadwr.

Ficus, *s.* (Ll.) ffigys, y ffigys.

Fid, *s.* (It. *fitta*) ysbodfar; dattodwaell, gwaell.

Fiddle, *s.* (Al. *fiedel*; Is. *vedel*; Ll. *fidicula*, *fides*) crwth, crythen, ffil.

Fiddle, *v.* crythorio, ffilorio, crythu, canu crwth, chwareu ar y crwth; ofera, simera, segura, diffrwytho, oferdreulio; gwneuthur rhyw oferbeth *neu* oferwaith; chwareu â pheth.
To be fiddling up and down—ofer redeg yma a thraw; ofer redeg yma ac acw; ofer redeg i fyny ac i waered; ofer hela.

Fiddle-faddle, *s.* ffiloreg, oferedd, gofregedd, oferdod, coegwaith, oferwaith, coegbeth, oferbeth, coegsimer, simer; ffrilion, simerion, coegbethau, gwael bethau; oferglep, ofersiarad, coegsiarad, oferchwedl, coegchwedl, siaradach, baldordd, ffregod.

Fiddle-faddle, *a.* coegweithgar, coeg brysur, coeg drafferthus, coeg ffwdanus, gwag, gorwag, oferwag, coeg, diwerth, dibwys, ofer, disylwedd, diddefnydd, gofregol, gofregus, ffiloregaidd; ffwdanus yn nghylch dim.

Fiddle-lipped, *a.* crythweflog, crythwefusog.

Fiddler, *s.* crythor, crythwr, ffilor: *f.* crythores, ffilores.

Fiddle-shaped, *a.* crythaidd; ar lun crwth; crythluniog, crythffurflog.
Fiddle-shaped leaf — dalen grythaidd; dalen ar lun crwth.

Fiddle-stick, *s.* ffiloryn, bwa crwth, crythfwa.
I value him not a fiddle-stick—ni rown erddo ffiloryn; ni rown erddo seren bren.

Fiddle-string, *s.* tant crwth, ffildant.

Fiddle-wood, *s.* crythwydd.

Fiddling, *s.* (o *fiddle*) crythoriad, ffiloriad, crythiad, caniad crwth, chwareu ar y crwth.
A fiddling fellow — simerwr, simerwas, oferwas.

Fidejussion, *s.* (Ll. *fidejussio*) mechnïaeth, machnïaeth, mechni.

Fidejussor, *s.* (Ll.) mach, mechnïwr, mechnïydd, meichiai, (*pl.* meichiau), meichai, ymrwymwr.

Fidelity, *s.* (Ll. *fidelitas*; Ff. *fidélité*) ffyddlondeb, ffyddlonder, ffyddlonrwydd; cywirdeb, cywiredd, uniondeb, cleuder, gonestrwydd; geirwiredd, gwirionedd.

Fidge, } *v. n.* (cyfathrach, efallai, i *fickle*)
Fidget, } sygogi; coeg redeg, ofer hela; coeg redeg yma a thraw; coeg olrhain; ffwdanu; bod à rhyw iasau, nwythau, chwimiau, *neu* chwiwiau arno; bod yn aflonydd *neu* anesmwyth; rhagnythu.

Fidget, *s.* sygog, ffwdan; anorphwys, aflonyddwch, anesmwythder, ysgogiad afreolaidd; ias, nwyth, chwiw.

Fidgety, *a.* sygoglyd, aflonydd, anesmwyth, ffwdanllyd, diorbaid; nwythus, od, chwimiog, tannog, oriog.

Fiducial, *a.* (o'r Ll. *fiducia*; Ff. *fiduciel*) hyderus, ymddiriedus, ymddiriedol, ymddiried-

lawn, ymddiriedgar; dïammheuol, dibetrus anmhetrusol, ffyddiadol; llawn o hyder; sicr, cadarn, dïysgog.

Fiducially, *ad.* yn hyderus, &c.; yn hydda, mewn hyder.

Fiduciary, *a.* (Ll. *fiduciarius;* Ff. *fiduciaire*) hyderus, ymddiriedus, ymddiriedol, ymddiriedlawn, ymddiriedgar; dïammheuol, dïammheu, dibetrus; cadarn, sicr, dïysgog; na ddylid ei ammheu; â ddelir tàn ymddiried.

Fiduciary, *s.* ymddiriedai, ymddiriedog, ymddiriedur, ymddiriedolwr; un â pheth dàn ymddiried ganddo; unigffyddiad, (*pl.* unigffyddiaid), anneddfiad, gwrthddeddfwr.

Fie, } *in.* (Al. *pfui;* Gr. *phew;* Ff. *fi*) ffei! ffi!

Fy, } hach! ffach! wfft! rhag cywilydd! ffwrdd! wb!

Fief, *s.* (Ff.) gafael, daliad, tirafael, tirddaliad; maenor wriogaethol, maenor ammodol; ammodfael, cydnabodfael, gwarogfael; gwriogaeth, gwrogaeth, gwarogaeth.

Field, *s.* (S. ac Al. *feld;* Is. *veld;* Sw. a D. *felt*) maes, cae; ceufaes; coedgae; caint, ble, mai; maesdir.

A small field — maesan, maes bychan, cae bach; claws, gower.

Common field—maes cyd, tir cyd, cydfaes, cyttir, maes cyffredin.

Plain field—maes gwastad, cae gwastad, gwastadfaes.

Field of battle—maes y gad, cadfaes, cadwent, cadlan, cadfa, cadfan, aerfan, aerfa, aerfle, caint, cadgae, aergae, tranial, maes, lladdfre, ymladdle, cadgaen, cadle, rhyfelfa.

Enclosed field—ceufaes, maes cauedig, midlan, maes cau, maes caead.

A field of corn—maes o yd, cae o yd, ydfaes, ydgae, maes yd, cae yd, cae llafur.

Field-battle—cad ar faes, brwydr orsafol; maes, cad; maesgad.

To keep the field—cadw y maes; cadw ei le; aros yn ei le; trigo mewn gwersyll; trigo yn y gwersyll; meia.

To quit the field—gadaw y maes; gadael y maes; colli y maes; cilio yn ol; ffoi, gwrthgilio, encilio; cilio yn ei gwyn.

To win the field—ennill y maes; cael y maes; myned â'r maes; cael yr oruchafiaeth; ennill y dydd; cael y goreu; myned â'r gamp; gorfod, gorchfygu, goresgyn.

To take the field—myned i'r maes; cymmeryd y maes; myned allan i ryfel; meia, meio.

To challenge one to the field—galw *neu* annog i'r maes; gwahodd *neu* herio i'r maes; galw allan i ymladd.

When that fatal field was fought—pan ymladdwyd y maes angeuol hwnw; pan fu y gad angeuol, ddinystriol, echryslawn, *neu* anffodiog hòno.

We remained masters of the field—cadwasom y maes; ennillasom y fuddugoliaeth.

When he perceived it must come to a field-battle — pan ddeallodd efe nas gellid goohel dyfod i gad ar faes.

Belonging to the field—maesol; perthynol i'r maes; yn perthyn i'r maes.

Beast of the field—anifel y maes, maesfil, bwystfil maes.

A field of ice—maes o ia.

Print-field—printfaes; sefydliad argraffu ar nwyddau.

Field (in herald)—maes, y maes, maes arfau, llawr arfau; maes arfien; y cyfandir.

Field-basil, *s.* breninllys gwyllt.

Field-bed, *s.* maes-wely, gwely maes.

Field-book, *s.* maeslyfr, llyfr maes, llyfr tirfesurwr=llyfr â ddefnyddir wrth gyfarchwylio.

Field-colours, *s. pl.* maes-fanerau, maes-lumanau, maes-liwiau.

Field-duck, *s.* maes-hwyad=math o werniar.

Fielded,† *a.* maesedig, maesog; yn y maes; gwersylledig.

Fieldfare, *s.* (*field*, a *fare*, o S. *faran*, myned) socan, socas, socas lwyd, socan lwyd, socan eira, caseg y ddryghin, aderyn yr eira.

Field-madder, *s.* gwreiddrudd gwyllt, gwreiddrudd y maes, cochwraidd y maes, maesgochwraidd.

Little field-madder, } corwreiddrudd, Sher-
Blue Sherardia, } ardia glas.

Fieldmarshal, *s.* maeslywydd, maesfiliad, pencadfiliad; aergun, cadgun, maesgadlyw=y swyddog milwraidd uchaf yn Mhrydain.

Field-mouse, *s.* llyg, llygoden y maes, llygoden maes, maeslygoden, chwistlen, chwistl, pigoden, llygoden goch.

Field-officer, *s.* maesswyddog, maesraddog, swyddog maes, aerswyddog, rhyfelswyddog; swyddog milwraidd uwch law cadben.

Field-piece, *s.* maesddryll, maesgyflegr, cyflegr maes, cyflegr gwersyll, gwn maes.

Field-preacher, *s.* maes-bregethwr, pregethwr maes; pregethwr yn yr awyr agored.

Field-room,† *s.* maesle; lle agored, maes agored.

Field-sports, *s. pl.* maes-ddifyrion, difyrion y maes, difyrwch y maes; helwriaeth.

Field-staff, *s.* maesffon, meiffon.

Field-vole, *s.* maeslygoden gota, llyg llostfyr, llyg y waen.

Field-work, *s.* maeswaith, gwaith maes, gwaith allan.

Field-works, *s. pl.* maesweithiau.

Fieldy,† *a.* (o *field*) maesog; agored fel maes.

Fiend, *s.* (S. *feond;* Al. *feind;* Is. *cyand*) gelyn; ellyll, cythraul, diawl, diafl, y fall, mallt, y ddera, yr andras, yr ysbryd drwg: *pl.* cethern.

Fiends of hell, } cethern uffern, cethern, y
Hellish fiends, } gethern, ellyllon uffernol, cethern uffernol, teulu uffern, uffernolion, cythreuliaid.

Fiendfraying, *a.* (*fiend* a *fray*) â ddychryn ddiawl; ellylldarf.

Fiendful, *a.* mallt; llawn mallt; llawn o arferion drwg.

Fiend-hearted, *a.* mall-galon, mallt-galon; mallt ei galon; diawlaidd ei galon; â chanddo galon cythraul.

Fiendish, *a.* cethernol, cethernaidd, mallt, diawlaidd, ellyllaidd, cythreulaidd, uffernol, uffernaidd; dryganianus, maleisus.

Fiendishness, *s.* cethernoldeb, cethernoeiddrwydd, malltrwydd, malltedd, uffernolrwydd, cythreuligrwydd; maleisusrwydd, dryganiaeth.

Fiendlike, *a.* cethernaidd, diawlaidd, cythreulig, ellyllaidd, uffernaidd, uffernol, malltaidd; fâl ellyll.

Fierce, *a.* (Ll. *ferus, ferox;* Ff. *fier;* It. *fiero, feroce*) ffyrnig, creulawn, dywal, ffroch, ffrochus, ffrowys, ffrowysol, ffrochwyllt, dywal, difiog, disgyfrith, lleddfer, gerwin, tryn, (*f.* tren), blwng, (*f.* blong), nawswyllt, gwylltnaws, angerddol, angerddus, tanbaid, greidiol, graid, ffrwys, terwyn, tern, cynddeiriog, gwyllt, gorwyllt, brywyllt, ffrowyllaidd, ffrowyllog, ffrom, tost, croch, awchus, digllawn, dig, llidus, llidiog, chwefrin, llym, gwrys, brochus, brochwyllt; dewr, drud, hy; mileinig, milain, cïaidd, bwystus, hyll, erchyll; taer; anfwyn.

To grow fierce—ffrochi, creuloni, ymgreuloni, brochi, ffyrnigo, ymffyrnigo, angerddu, erchyllu, ymlewhau; gwylltio, gorwylltio, brywylltio, blynghau, sarigo.

Fierce winds—gwyntoedd creulawn, gwyntoedd ffyrnig.

Fierce eyes—llygaid teryll.

The lion is not half so fierce as he is painted—nid cymmaint Bleddyn a'i drwst.

Fierce anger—llid digofaint, llid digofus, angerdd llid.

Of fierce countenance—wyneb-greulawn; wyneb-galed; ffyrnig ei wedd.

Mighty kings and fierce—breninoedd cryfion a chedyrn (1 *Esd.* ii. 27).

A fierce man of war—rhyfelwr ffrom (*Doeth.* xviii. 15).

Judas with his company gave a fierce assault—Iudas a'r rhai oedd gydag ef a ruthrasant yn awchus (2 *Mac.* xii. 15).

Fiercely, *ad.* yn ffyrnig, &c.; ar ruthr.

Fierce-minded, *a.* ffyrnig ei fryd, &c.; creulonfrydig, ffroch-frydig, dywalfrydig, trynfrydig; angerddol.

Fierceness, *s.* ffyrnigrwydd, ffyrnigder, ffyrnigdra, creulondeb, creulonder, creulonedd, creulonrwydd, creulondra, dywalder, dywaledd, ffrochusrwydd, ffrochwylltrwydd, ffroch, ffrwys, trynedd, tryn, tren, trent, gerwinder, gorwylltedd, cynddaredd, cynddeiriogrwydd, mileinrwydd, mileinigrwydd, angerddoldeb, angerddusrwydd, tanbeidrwydd, &c.; llid, amwyth, dig, digofaint, angerdd.

Fierceness of anger—angerdd llid, angerdd dig, llid digofaint, cynddaredd llid, llidiogrwydd digder.

Fierceness of fire—angerdd tân, ffyrnigrwydd tân, cadernid tân.

Fierceness of heat—tanbeidrwydd gwres, angerdd gwres.

Fieri Facias, *s.* (Ll.) adgaffaelwys.

Fieriness, *s.* (o *fiery*) tanllydrwydd, tanbeidrwydd; poethder, poethineb, poethni, poethdra, gwres, gwresogrwydd; llymder; poethni tymmer, hyddigrwydd, ffromder.

Fiery, *a.* (o *fire*) tanllyd, o dân, tanbaid, poeth, poethlyd, tanllachar, bywiosg, fflamboeth, poethnaws, greidiol, tanol; llachar, dysglaer; ffrowys, ffrowysol, ffrwys, terwyn, poethwyllt; ffrawdd; hyddig, llidiog, llidus; fel tân.

Fiery disposition—tymmer danllyd, tymmer danlled, tymmer boeth, tymmer boethwyllt; poethnaws, lluchfryd.

Fiery flame—fflam dân, fflam danllyd.

A fiery furnace—ffwrn danllyd.

A burning fiery furnace—ffwrn o dân poeth.

Fiery billows—gwenyg bywiosg, tònau tanllyd, tònau tân.

Fiery wrath—llachar fâr, digofaint tanllyd.

Fiery indignation—angerdd tân, tanllyd ddigofaint.

Fiery horses—meirch tanllyd.

Fiery stream—afon danllyd, afon danlled; ffrwd o dân.

Fiery vapours—agerdd tanllyd; tarthoedd tanllyd.

Fife, *s.* (Ff. *fifre;* Al. *pfeife*) cadbib, cadbibell; chwibanogl.

Fife, *v. n.* canu cadbib; chwareu ar y gadbib; chwibanogli.

Fifer, *s.* (o *fife*) cadbibydd, cadbibwr.

Fifteen, *a.* (S. *fiftyn*) pumtheg=15.

Fifteen times—pumtheg gwaith, pumthegwaith, pumthengwaith.

Fifteen, *s.* pumtheg.

Fifteenth, *a.* (S. *fiftyntha*) pumthegfed, degfed a phump.

Fifteenth, *s.* pumthegfed, y bumthegfed ran.

A fifteenth—pumthegfed ran, pumthegfed.

Fifth, *a.* (S. *fifta*) pummed.

Fifth, *s.* pummed, y pummed, y bummed, y bummed ran, pummedran.

Perfect fifth—pummed perffaith.

Fifth-Monarchy Men—Gwŷr y Bummed Unbenaeth, Gwŷr y Bummed Freniniaeth=plaid o benboethiaid à gododd yn Lloegr tua diwedd Moduriaeth Cromwel.

Fifthly, *ad.* yn bummed; yn y pummed lle.

Fiftieth, *a.* (S. *fifteogetha*, o *fif*, pump, a *teogetha*, deg) pumdegfed, degfed a deugain, hanner canfed; pumdegol.

Fiftieth, *s.* pumdegfed, y degfed a deugain, y ddegfed a deugain, y ddegfed ran a deugain, pumdegran.

Fifty, *a.* (S. *fiftig*, o *fif*, a Goth. *tig*) pumdeg=50, deg a deugain, hanner cant.

Fifty thousand—pumdegmil, hanner cân mil, hanner canmil, pumdeg mil.

Fifty times—dengwaith a deugain, hanner canwaith, pumdegwaith, pumdengwaith.

Fifty, *s.* pumdeg, deg a deugain, hanner cant.

By fifties—bob yn hanner cant; bob yn ddeg a deugain; yn bumdegau; wrth y degau a deugain; bob yn bumdeg.

Fig, *s.* (Ll. *ficus;* Ff. *figue;* Al. *feige*) ffigysen; ffigysbren: *pl.* ffigys.

A fig for him—baw iddo.

I do not care a fig for him—gwnaed ei waethaf; ni waeth gàn i am dano ffiloryn; nid wyf yn malio brwynen am dano.

I would not give a fig for it—ni rown erddo seren bren; ni rown erddo ffiloryn; nis rhoddwn bin o'm llawes am dano; ni rown ffiöen am dano; nis rhown am dano ffiöyn.

Not to care a fig for—bod heb ofalu gronyn am; bod yn gwbl ddibris am; bod heb falio brwynen am; bod heb falio blewyn am; dibrisio, dïystyru, bychanu, dirmygu.

Of a fig, Like a fig, Belonging to a fig, } ffigysol, ffigysaidd, ffigys-; perthynol i ffigys.

Fig, *v. a.* clecian, clewtian, *neu* grinellu bysedd ar un; gofyn gwaethaf un; rhoi hew i un; pupro.

Fig-apple, *s.* ffigys-afal.

Figaro, *s.* (Ll. *vagus*) gofregyr.

Figary, *s.* (Ll. *vagus*) gofreg, pranc, nwyth, nwyd, chwim, mympwy, asbri.

Fig-gnat, *s.* gwibedyn y ffigys.

Fight, *v.* (S. *feahtan, feohtan;* Al. *fechten*) ymladd, brwydro, ymdrechu, ymdrech, trin, ymdrin, ymarfodi, ymwrio, aerodi, cadu, catïu, brythu, belu, rhyfela, ymwanu, ymwan, ymbaffio, lluedda, llueddu, llüydda; llüyddu, ymladd yn erbyn; gwrthrynu, bicra, cittrachu, ymgatewrach.

I will fight with you, } mi a ymladdaf â
I will fight you, } chwi.

To fight in battle, } rhyfela, rhyfelu, ym-
To fight in war, } ladd, llüydda, ymgad, cittrachu; ymladd mewn brwydr; ymladd mewn rhyfel.

To fight with, } ymladd â; ymladd yn
To fight against, } erbyn; ymwrio â; lluedda yn erbyn; rhyfela yn erbyn; rhyfelu â.

To fight fiercely—ymladd yn groch; ymladd yn ffyrnig.

To fight one's way through—ymladd ei ffordd drwodd; myned drwodd dân ymladd; gwneuthur *neu* agor iddo ei hun ffordd trwy nerth arfau.

To fight with lances—ymladd â rhain; ymladd âg ysberi; rheinio, ymwan, ymwanu.

To fight with swords—ymladd â chleddyfau; ymgleddyfu, ymfidogi.

To fight with knives—ymladd â chyllyll; ymgyllellu.

To fight with bows and arrows—ymladd â bwau saeth; batelu.

To fight a duel—ymornestu, ymornest, ymladd ornest.

I have fought a good fight—mi a ymdrechais ymdrech deg.

Fight against them that fight against me—ymladd â'r rhai a ymladdant â mi.

Apt to fight, } ymladdgar, rhyfelgar,
Given to fighting, } tringar.

Aptness to fight—ymladdgarwch, rhyfelgarwch, tringarwch.

Fight, *s.* ymladd, ymladdiad, brwydr, cad, trin, ymgyrch, ymladdfa, aer, ymdrech, breithell, ystrin, trafod, cadorfod, brythwch, cittrach, cysbwy, ymwan.

Land-fight—ymladd ar dir; ymladd ar y tir; cad ar dir; tirgad.

Sea-fight—ymladd ar fôr; ymladd ar y môr; cad ar fôr; morgad, morfrwydr.

A close fight—ymladd lawlaw.

It came to a fight—hi a aeth yn ymladd; hi a dyfodd yn ymladd.

Single fight—ymgysbwy, ornest, ymornest, cysbwy.

A flourish before a fight—ymladd gosteg; gosteg ymladd; gwyntiad arfau; prawf arfau; rhagymladd, blaengais, rhagbrawf ymladdwyr.

Fighter, *s.* ymladdwr, ymdrechwr, ymdrechydd, cysbwywr, brwydrwr, paffiwr, paffiedydd, rhyswr, ornestwr; rhyfelwr, cadwr.

Fighting, *a.* ymladdol, brwydrol; ymladdgar, tringar, rhyfelgar; addas i ryfel.

Given to fighting—ymladdgar, rhyfelgar, tringar.

Fighting field—maes rhyfel, maes cad, cadfaes, maes ymladd.

Fighting, *s.* ymladdiad, ymdrechiad, ymbaffiad, brwydriad; ymladd, ymryson, cynhen, ymrafael, amrafael, anghydfod, cyfrysedd, cywrysedd, ymgiprys.

Fig-leaf, *s.* (*fig* a *leaf*) dalen y ffigysbren, ffigysddalen; gorchudd teneu, ffigysalen.

Fig-marigold, *s.* rhuddos ffigysaidd, gold Mair ffigysaidd, ffigruddos.

Figment, *s.* (Ll. *figmentum*) ffug, ffugiant, ffugiad, dychymyg, dyfais, ffugddyfais, ffugwaith, ffugchwedl; celwydd, ffalsedd.

Fig-pecker, *s.* (Ll. *ficedula*) ffigysor, delor y ffigys.

Figtree, *s.* ffigysbren, ffigyswydden, ffigwydden.

Figulate, *a.* (Ll. *figulo*) â wnaed o briddgist; priddgistol, priddgistaidd, priddgleiog, priddlestrog; lluniedig, ffurfiedig.

Figurability, *s.* (o *figurable*) hylunedd, hylunder, hylundra, hylunrwydd.

Figurable, *a.* (o *figure*) hylun, lluniadwy, dulliadwy, hyddull; â ellir ei ddwyn i lun *neu* ffurf sefydlog.

Figural, *a.* darluniadol, darluniol, lluniadol, dulliadol; ffugrol.

Figurant, *s.* (Ff.) dawnsiwr cyhoeddus, dawnsydd cyhoeddus, corelwr cyhoedd, dawnsiadur.

Figurante, *s.* (Ff.) dawnsyddes gyhoeddus, dawnsiadures, corelwes.

Figurate, } *a.* (Ll. *figuratus*) lluniog, dulliog,
Figurated, } ffurfiog, arddulliog, dulliedig; âg iddo ffurf benodol; tebyg i beth penodol ei lun; ffugredig, ffugrog, rhifnodog; addurnedig â lluniau.

Figuration, *s.* (Ll. *figuratio*) lluniad, ffurfiad, dulliad, arddulliad, ardumiad, gwneuthuriad; ffugriad.

Figurative, *a.* (Ll. *figurativus;* Ff. *figuratif*) cysgodol; arddangosol; trawsfudol, allegol, arallegol, damegol, cyffelybiaethol, cyffelybol, ail-ystyriaethol, alleiriog, aralleiriog; ffugrol, ffugyrol, ffugraidd; arwyddluniol; troelliymadroddol, troellieithol, troelliseithog, trofegol, troellegol, troellog; arddulliog; llawn o droellymadrodd.

Figurative language, } troellymadrodd,
Figurative speech, } troelliaith, troelleg; iaith drofegol, allegol, ffugrol, *neu* droellog, &c.

Figuratively, *ad.* yn gysgodol, &c.; trwy gysgod; mewn ystyr amgen na'r un llythyrenol a gwreiddiol; trwy ddull, trwy ffugr.

Figurativeness, *s.* cysgodolrwydd, cysgodoldeb; allegolrwydd, arallegoldeb, trawsfudoldeb, alleiriogrwydd, ffugroldeb; troellegolrwydd, troellogrwydd.

Figure, *s.* (Ff.; Ll. *figura*) llun, dull, ffurf, ffunud, arddull, ardum, darlun, arlun, dullwedd, gwedd, agwedd, gosgedd, delw, eilun, ystum, elwig; cysgod, rhith, cyffelybiaeth, alleg, aralleg, troelleg, trofeg, trofieg, trofaeg, troelliaith, troellymadrodd, troell ymadrodd, troell, dullwedd ymadrodd; rhifnod, rhifeb, ffugr, ffugyr, ffugryn, ffugren; ymddangosiad, drych, cysgodlun, rhagarwydd, arwyddlun; darlun, darluniad, arddangosiad, *neu* ragddangosiad cysgodol; cyflun, cyttrem, cyttremiad; rhwysg, mawredd, hynodrwydd.

Figure of speech—troell ymadrodd, trofeg, trofaeg, addurn ymadrodd, dullwedd ymadrodd, troellair, ffugr ymadrodd.

Figure (in arithmetic)—rhifnod, rhifeb, ffugr, ffugyr, ffugren, ffugryn.

Figure (in astrology)—cyflun y planedau, cyttrem y planedau, tyelu y planedau.

To cut a great figure, } dwyn rhwysg
To make a great figure, } mawr; ymddangos yn wych; gwneuthur rhodres; tori cyallun gwych; torsythu; gwneuthur rhwysgawd; ymddwyn yn rhwysgfawr.
To make a ridiculous figure—ymddwyn, ymddangos, *neu* edrych yn gywilyddus; ymddwyn yn chwerthinus; edrych cyn ynfyted nes chwerthin o bawb am ei ben.
To make but a mean figure—ymddwyn, ymddangos, *neu* edrych yn wael; bod â drych gwael arno; bod yn wael ei ddrych; bod â golwg wael arno; edrych yn ddilun.
Of the same figure—un fath, unfath, unffunud, unwedd, cyflun, o'r un llun, o'r un fath.

Figure, *v.* (Ll. *figuro*) llunio, ffurfio, darlunio, arlunio, tynu llun, ystumio, arddumio, llunweddu, dullweddu, arfelu, darlinellu, delweddu, delwadu, amrywio, amryfalu, amrywioli; rhaglunio, rhagddullio, dullio; arddullio; rhagarwyddo, rhagddangos; dychymygu, tybio; rhifnodi, rhifebu, ffugro; cysgodlunio, arwyddlunio; cysgodi, troellegu, trofegu, troellymadroddi; dwyn rhwysg, rhwysgo, ymhynodi, hynodi ei hun.

Figure-caster, } †*s.* darllenwrtesni, serddewin,
Figure-flinger, } dewin.

Figured, *a.* lluniedig, ffurfiedig, &c.; llunïog, ffurflog, llunweddog, ffugrog; addurnedig â lluniau; â lluniau arno; llunaddurnog; addurnedig.
Figured bass, } trysawd.
Figured base, }
Figured stone — delw faen, maen llun, maen delweddog.
Figured expressions — troellymadroddion, troellegau, ymadroddion trofegol; ymadroddion cyffelybiaethol, ffugrol, *neu* drawsfudol.
Well-figured—lluniaidd, ffurfaidd, gosgeddig, ystumiol, ystumgar.

Figurehead, *s.* pendduryn, ffluregluu; llun, saflun, *neu* addurn ar ffllureg llong; torddwr.

Figure-stone, *s.* llunfaen, dullfaen, ffugyrfaen.

Figurial, *a.* dulliog, lluniog, lluniol, ffugrol.

Figuring, *s.* lluniad, ffurfiad, dulliad; ffugriad, rhifebiad.

Figwort, *s.* (*fig* a *wort*) gornerth, goreunerth, meddyges ddu, deilen ddu dda, llysiau y ffigys.
Water figwort, } gornerth y dwr, goreu-
Water betony, } nerth y dwfr, dannogen y dwr.
Knotty-rooted figwort — gornerth, goreunerth, meddyges dda, deilen ddu dda.
Yellow figwort—gornerth melyn.

Filaceous, *a.* (Ll. *filum*; Ff. *fil*) edefaidd, edafaidd, edafeddog, manedafeddog, meinedefaidd, manwreiddiol, llinionaidd.

Filacer, *s.* (Norm. *filicer*) teddiadur=swyddog yn y deflys.

Filago, *s.* (Ll. *filum*) edafeddog, yr edafeddog.

Filament, *s.* (Ll. *filamentum*) edefyn, manedefyn, meinedefyn, meinedef, meinedaf, edafedden, llinionen, llinionan, llinan, llinen, edef, llin; gi; manwythen; manwreiddyn: *pl.* llinion, manedafedd, meinedafedd, gïau, manwythenau, manwraidd.

Filamentous, *a.* edefaidd, manedefaidd, meinedafaidd, llinaidd, llinionaidd, manedafeddog, manwreiddiog, manwreiddiol, manwythenol.

Filanders, *s.* (Ff. *filandres*) edefwst, llinionwst =math o glefyd ar weilch.

Filatory, *s.* (o'r Ll. *filum*) edafyr, edafermig, edefiadyr, peiriant nyddu.

Filature, *s.* (Ll. *filum*) edafeddiad, edefiad; gwneuthuriad yn edafedd; cyngrodfa, cengliadyrfa, lle y cenglir sidan.

Filbert, *s.* (Ll. *avellana*; o *full beard*, yn ol *Junius* a *Skinner*; oddi wrth rywun â'i enw *Filbert* neu *Filibert*, yn ol tyb *Johnson*) cneuen y gerddi, cneuen hirgib, cneuen farfog, gardd-gneuen, cneuen Yspaen; cneuen.

Filch, *v. a.* (ansicr; cyttras â *pilfer*) chwiwladrata, chwiwledrata, chwiwio, chwiwian, chwiwbigo, goladrata, chwilena, chwilota, chwiliach, ysbeiliota, ysbeiliata, ysbeiliatan; lladrata yn nghil dwrn; ysgipio *neu* ysgylfio dd dirgel; lladrata heb wybod, dân gel, *neu* dàn llaw; lladrata mân bethau.
Apt to filch—chwiwladradaidd.

Filcher, *s.* chwiwleidr, chwiwleidryn, lleidryn, chwiwgi, goleidr, chwilgi, chwilotwr, chwilenwr, chwilenai, chwiwbigwr, chwiwiwr, lleidr: *f.* chwiwladrones: *pl.* chwiwladron.

Filchingly, *ad.* yn ddirgel fal chwiwleidr; yn lladradaidd, yn chwiwladradaidd.

File, *s.* (Ll. *filum*) llinyn; rhes, rhestr, tedd, rheng, rhenc; cofres, cofrestr, rhol; llinynaid; croglinyn, edefyn.
File of soldiers—baranres; rhes, rhestr, *neu* renc o filwyr; rhes o lïyddwyr yn sefyll olynol; rhes o sawdwyr wedi eu trefnu y naill o'r tu cefn i'r llall o'r blaenaf hyd yr olaf.
To march by file, } myned yn llinyn;
To file into a march, } myned yn rhes *neu* yn rhenc; myned yn unrhenc y naill ar ol y llall; myned yn unres olynol; trodio yn llinyn olynol.
Armed files—baranresi arfog, rhesi arfog, peithi arfog.
Files of war—rhesi cad, rhesi rhyfel, teddi cad.
To set in file—gosod yn llinyn; rhestru o hyd; gosod yn rhesi o hyd.
Rank and file—milwr cyffredin, cyffredin filwr; milwyr cyffredin, cyffredin filwyr; gradd milwyr cyffredin.
To march in rank and file—myned mewn byddin, yn fyddinedig, yn fyddinog, yn gattrefnedig, yn rhestredig, *neu* mewn trefn; cerdded, trodio, *neu* deithio yn fyddinoedd fel rhyfelwyr.
File for papers—papyras; llinyn papyrau, tennyn papyrau.
A file of papers — llinynaid o bapyrau; llinyn o bapyrau; edefynaid o bapyrau.
A file of pearls—llinynaid o leiniau; gleinres, glein-linyn; llinynaid o emau.
File of a discourse—llinyn ymadrodd, gwe ymadrodd; trefn ymadrodd.
Put these letters on the file—rhoddwch, dodwch, gosodwch, *neu* crogwch y llythyrau hyn ar y llinyn; llinynwch y llythyrau hyn; rhowch y llythyrau hyn ar yr edefyn.

File, *v.* llinynu; rhoi, rhoddi, gosod, dodi, *neu* grogi ar linyn; rhoi yn nghrog ar linyn; gosod ar dennyn; rhesu, rhestru; ymresu, ymrestru, ymrencio, ymlinynu; myned yn llinyn; myned yn rhes olynol; trodio *neu*

drodi yn llinyn ; rhestru o hyd; arddangos, teddu; arddangos yn swyddol ; arddangos erbyn prawf; trefnu a chefnysgrifo.

To file off — myned ymaith yn llinyn; trodi *neu* gychwyn yn llinyn; myned ymaith yn un rheng ar ol eu gilydd; cychwyn *neu* drodio yn un rhes olynol.

To file up—llinynu; gosod, rhoi, rhoddi, dodi, *neu* grogi ar linyn; rhoi yn nghrog ar linyn; gosod ar dennyn.

To file a bill in chancery—teddu ysgrif canghellys; llinynu ysgrif unionder; arddangos ysgrif canghellys.

File, *s.* (S. *feol;* Al. *feile;* Is. *vyl;* Sw. a D. *fil*) durlif, llif ddur, rhygnen, rhygnen law.

A smooth file—durlif gaboli, llif gaboli.

File-dust—durlifion, llifion durlif, blawd durlif, llwch y ddurlif, llifion y ddurlif, llifion.

File-fish — rhygnenbysg; pysg â chroen garw arnynt à wasanaetha i lyfnhau.

File, *v. a.* durlifio, durlifo; llifio, llifo, llifannu, llifiannu, *neu* lyfnhau â durlif; tori â durlif; caboli, llyfnhau; †diwyno.

To file off *or* asunder—lladd â durlif; durlifio ymaith.

File-cutter, *s.* gof durlifau, durlifof.

File-leader, *s.* blaenor y rhestr; arweinydd y rhes; y milwr blaenaf mewn baranres.

Filemot, *s.* (Ff. *feuille morte*) lliw gwywddail, lliw dail edwin, lliw gwywedig, lliw adfeiliedig, edwinliw, llwydfelyn, melynlwyd.

Filer, *s.* (o *file*) durlifiwr, durlifwr, durlifydd, llifiwr â durlif.

Filial, *a.* (Ff. o'r Ll. *filius, filia*) mabaidd, mabol, mabolaidd; plentynol; gweddus i fab *neu* blentyn; fel yr eiddo mab.

Filial affection — serch mabaidd, cariad mabol; serch *neu* gariad mab tuag at ei rieni; serch *neu* gariad plentyn tuag at ei riaint.

Filiate, **Affiliate**, *v. a.* (o'r Ll. *filius;* Ff. *affilier*) mabwyso, mabwysio, mabwysiadu, mabol, mabgynnwyso.

Filiation, *s.* (o'r Ll. *filius*) mabdod, maboliaeth, mabogaeth, mabaeth; mabwys, mabwysiad, mabgynnwys.

Filices, *s. pl.* (Ll.) rhedyn.

Filicoid, *a.* (Ll. *filix*, a Gr. *eidos*) rhedynaidd; ar ddull rhedyn; tebyg i redyn.

Filicoid, *s.* rhedyneiddlys; planigyn tebyg i redyn.

Filiform, *a.* (Ll. *filum* a *forma*) edefaidd, edefynaidd, meinedefaidd; ar ddull edefyn; cyfref o'r brig i'r gwaelod; o'r un praffder drosto.

Filigrane, **Filigree**, *s.* (Ll. *filum* a *granum*) edafwaith, edafron; eurwe, arianwe; berthwe, eirionwe.

Filigraned, **Filigreed**, *a.* eurweog, arianweog; edafronog; berthweog.

Filings, *s. pl.* (o *file*) durlifion, blawd durlif, llifion durlif, llwch y ddurlif, llifion y ddurlif, llifion.

Fill, *v.* (S. *fyllan, gefillan;* Al. *füllen*) llenwi, llanw; cyflenwi, gorllenwi, gorlenwi, dylenwi, cyforio; gwneuthur yn llawn, yn gyflawn, *neu* yn orlawn; diwallu, digoni; cyflawnu; tynhau; ymlenwi; myned yn llawn; croni.

To fill again—adlenwi, adlanw, llenwi drachefn.

To fill too full —rhylenwi; llenwi yn rhy lawn.

To fill one's self—ymlenwi, ymlanw; ymddiwallu, ymddigoni; ymddyfoli, ymddyfolio.

To fill to the brim—cyforio; llenwi hyd yr ymyl; llanw hyd y ddau ymyl; llenwi hyd y gib; llanw hyd y byl; llanw hyd y byl top.

To fill with stuffing—sechu, secu, sengu; llenwi dàn sang.

To fill up—llanw i fyny, llenwi i fyny, &c.; llenwi, llanw; myned yn llawn; croni; gwneuthur yn llawn.

To fill out — rhythu, ymrythu; llenwi allan; estyn allan.

To fill one's ears with words *or* noise—syfrdanu, byddaru, dwndro.

To fill with wrinkles—croen-grychu (*Iob* xvi. 8).

The stretching out of his wings shall fill the breadth of thy land—estyniad ei adenydd ef fydd llonaid lled dy dir di (*Esa.* viii. 8).

Fill, *s.* llonaid; gwala, digon; cyflanw, cyflawnder.

To have one's fill—cael ei lonaid; cael digon; cael ei ddigon; cael ei wala; cael ei ddigoni; cael ei lawn ddigon; cael llonaid ei fol.

To give one his fill—rhoi i un ei lonaid, ei wala, *neu* ei ddigon; digoni un, diwallu un.

To take one's fill—cymmeryd ei lonaid, ei ddigon, *neu* ei wala; ymlenwi, ymddiwallu, ymddigoni.

Let us take our fill of love—moes i ni ymlenwi o gariad.

They had their fill of it—cawsant eu llonaid o hono; cawsant eu gwala o hano.

Ye shall eat your fill—cewch fwyta digon; cewch fwyta eich gwala.

Thou mayest eat grapes thy fill—bwyta o rawnwin dy wala (*Deut.* xxiii. 24).

Waters flowed out to your fill—y dwfr a ddylifodd i'ch diwallu chwi (2 *Esd.* i. 20); dyfroedd a ddylifasant i'ch diwallu chwi.

They had not water to drink their fill for one day—nid oedd ganddynt ddigon o ddwfr i'w yfed dros un diwrnod (*Iudeth* vii. 21).

Fillagree, *s.*=*Filigrane, Filigree.*

Fille-de-chamber, *s.* (Ff.) ystafellyddes, ystafelles, morwyn ystafell.

Filled, *p. p.* llenwedig, llanwedig, à lanwyd, gwedi ei lenwi, &c.; llawn, cyflawn, gorllawn, gorlawn, cyforiog, digonol, diwall; wedi cael ei wala, ei ddigon, *neu* ei lonaid.

Filled full—cyforiog; sechedig, secedig; tyn gàn lonaid.

Filler, *s.* (o *fill*) llenwydd, llenwedydd; à lanwo, à lenwo; diwallwr, diwallydd, diwellydd.

Fillet, *s.* (Ff. *filet;* Ll. *filum*) ysnoden, ffunen, penre, talaith, penrwym, penrwymyn, rhwymyn, rhwymyn gwallt, llinyn; eirionyn; cylch, colofrwy, addurnrwy, pillrwy, eirionrwy, addurn-gylch, eirion-gylch; rhimgylch; goforddwyd; ysnodyn; llwynau march.

A fillet of veal—ysnodyn o gig llo; goforddwyd llo; trolyn ysnodenog o gig llo.

Fillet, *v. a.* ysnodenu, ffunenu; rhwymo âg ysnoden, &c.; rhwymo, cyfrwymo; cylchu,

colofrwyo, pillrwyo, addurn-gylchu; rhimgylchu.

Fillibeg, } *s.* (Gael. *filleadh-beg*) peisdwyg,
Phillibeg, } berbais, clunbais, briganttwyg= gwisg yn cyrhaedd hyd y penliniau, arferedig yn Ucheldiroedd yr Alban yn lle llodrau.

Filling, *s.* (o *fill*) llenwad, cyflenwad, llanwad; cyflawniad; llanw; y bwrw, y dylif.

Fillip, *v. a.* (ffurfiedig, medd *Skinner*, o'r sain) rhoi cnipws, rhoi cnocell, cnocellu, cnipysu.

Fillip, *s.* cnipws, cnocell.

Filly, *s.* (C. *filog*) eboles, ffilog; ffiloges.

Film, *s.* (S.) pilen, pilionen, croenen, croenyn, caen, caenen, huchen, rhuchen, huch, rhuch, teneugroen.

Film, *v. a.* pilenu, croenenu, caenu, caenenu, hucho, huchenu, rhucho, rhuchenu; cuddio â philen.

Filminess, *s.* (o *filmy*) pilenogrwydd, pileneiddrwydd, croenenogrwydd, huchogrwydd, rhuchogrwydd.

Filmy, *a.* pilenog, pilenaidd, croenenog, croenenaidd, croenynaidd, huchenog, rhuchenog, rhuchog, huchog, pilenig.

Filmy fern—huch-redyn, rhedyn pilenog.

Filose, *a.* (Ll. *filum*) edefaidd, edafeiddiol, fel edef, ar wedd edaf.

Filter, *s.* (Ff. *filtre*) hidl, hidlydd, hidlyr, puredydd.

Filter, *v.* hidlo, glanhidlo; teru trwy hidlo; awgoethi, gwyburo, puro, teru.

Filter, *s.*=*Philter*.

Filth, *s.* (S. *fylth*) budredd, budreddi, brynti, bryntni, anmhuredd, llwgr, bewyd; peth afian; baw, tom, biswail; carthion, ysgarthion, ysgubion, sothach, sorod, swrwd, llytrod; afiendid.

The filth of any thing washed—golchion.

The filth of the nose—llysnafedd, llyfi, ysmoneg.

The filth of sin—brynti pechod, halogrwydd pechod.

Filthily, *ad.* yn frwnt, yn fudr, &c.

Filthiness, *s.* (o *filthy*) budredd, budreddi, brynti, bryntni, llytrodedd, llytrodrwydd, anmhuredd, bawlydrwydd, baweiddrwydd, bewyd, tomlydrwydd; afiendid, halogrwydd, halogedigaeth, ffieidd-dra, anmhurdeb; mefi, serthedd, serthi.

Filthiness of communication — serthedd, serthfrynti; afiendid, anlladrwydd, anniweirdeb.

Filthiness of smell—drygsawr, drygsawrusrwydd, drewdod, drewsawr.

Filthy, *a.* (o *filth*) budr, brwnt, (*f.* bront), afian, ffiaidd, ffieiddgas, bawlyd, budrog, swga, tomlyd, afiwys, diffaeth, serth; drewllyd, drewedig.

Filthy lucre—budrelw, budrelwant, budr elw.

To get filthy lucre—budrelwa.

Not given to filthy lucre—nid yn budrelw.

Filthy in speech—budr, brwnt, afian, serth, cas, *neu* ddiffaeth ei ymadrodd; budr brwnt, afian, serth, cas, *neu* ddiffaeth ei dafod; budreiriog, sertheiriog, serth.

Filthy in conversation—afian *neu* frwnt ei fuchedd; anniwair, trythyll, anllad, diffaeth.

Filthy conversation—anniwair ymarweddiad, buchedd afian.

Filthy communication—serthedd; serthair; ymadrodd brwnt *neu* afian; budriaith, iaith fudr, iaith front.

Filthy scent *or* smell — drygsawr, sawr drwg, drygwynt, drewsawr, gwynt brwnt, gwynt cas, sawr drewllyd.

To make filthy—budrogi, budro, budrhau, budru, bryntäu, budreddu, diwyno, llytrodi, afianhau.

Filtrate, *v. a.* (Ff. *filtrer*; Ysp. *filtrar*) hidlo, glanhidlo; teru trwy hidlo; awgoethi, gwyburo, puro, teru.

Filtration, *s.* hidlad, glanhidlad, gwyburad; purad dwfr, purad gwyon.

Fimble-hemp, *s.* (*female-hemp*) cywarch benyw.

Fimbria, *s.* (Ll.) eddi, sider, olbre, sitrach.

Fimbriate, *a.* (Ll. *fimbriatus*) siderog, eddïog, olbreog, sitrachog, eddïol, siderol, hemiol.

Fimbriate, *v. a.* sideru, eddïo, hemio, eirionynu.

Fimbriated, *a.* (Ll. *fimbriatus*) hemiog, rhimgylchog; âg iddo ymylgylch cul o liw gwahanol.

Fin, *s.* (S. *finn*; Is. *vin*; D. ac Al. *finne*; Ll. *pinna*) aden pysg, adain pysgodyn, adan pysg, asgell, asgell pysg, pysgaden, pysgadain.

Fin-footed runner—cyffylog y môr.

Fin, *v. a.* tori penci, rhanu cochgangen.

Finable, *a.* (o *fine*) dirwyadwy; â ellir ei ddirwyo; agored i ddirwy; dirwyol, camlyrus.

Final, *a.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *finalis*) diweddaf, terfynol, olaf, dybenol, penderfynol; llwyr, eithaf; diweddol, diweddafol, cwblhaol.

Finale, *s.* (It.) diweddglwm, diweddglo; diweddaf; diwedd.

Finality, *s.* terfynoldeb, terfynolrwydd, dybenoldeb, dybenolder, diweddoldeb, diweddolrwydd, diweddafoldeb.

Finally, *ad.* yn ddiweddaf, yn olaf; yn y diwedd, o'r diwedd; yn derfynol.

Finance, *s.* (Ff. a Norm.) daered, argyllid, cyllid, y cyllid, cyllid y deyrnas; trethyddiaeth, daerediaeth.

Finance and commerce—cyllid a thrafnid.

Finances, *s. pl.* daeredion, cyllidau, argyllidau, ardrethion, y cyllidau, y daeredion; y cyllid, y ddaered; cyllid y sylltty, cyllid y trysorlys, y cyllid breninol, cyllidau y deyrnas, trysor y deyrnas; eurgrawn.

Financial, *a.* daeredol, argyllidol, cyllidol; perthynol i gyllid y deyrnas; yn perthyn i'r daeredion cyhoeddus; cedofyddol; arianol.

Financially, *ad.* yn ddaeredol; gyda golwg ar y cyllidau; tuag at am y daeredion; mewn perthynas i drysor y deyrnas; yn arianol.

Financier, *s.* (Ff.) pendaeredwr, pendaeredydd, daeredydd, daeredwr, arddaeredwr, trysorydd, argyllidwr; daeredofydd, cyllidofydd; cedofydd; eurgronwr.

Finary, } *s.* (o *fine, refine*) coethfa, coethffwrn,
Finery, } coethdy, ty coethi.

Finch, *s.* (S. *finc*; Al. *fink*; Is. *vink*) pinc, pincyn, pila, ysbincyn, telor.

Gold-headed finch—pila pen aur, peneuryn, pen eurin.

Green finch—y llinos werdd, pila gwyrdd, y gegid, llinosen werdd.

Blue finch—pila glas.

Small blue finch—pila glas bach.

Silk-cap finch—pila cap sidan, pincyn pen sidan.

Cold-finch—clochdar y mynydd.
Fallow-finch—y gynffonwen, tinwyn y ceryg, (*f.* tinwen y ceryg).

Find, *v. a.* (S. *findan;* Al. *finden*) cael, caffael; cael gafael ar; dyfod o hyd i; cael hyd i; cyffwrdd â, cyfarfod â; taro wrth; disgyn ar; cael allan; mynu; mynu gafael ar *neu* yn; cael cyfod ar; dàl, dala; deall, dirnad, dirnadu, amgyffred, synio, synied; gweled, canfod; profi, teimlo; gwybod; clywed; digelu; ceisio; medru ar; chwilio am.

To find out—cael, cael allan; cael gafael ar; chwilio allan; mynu *neu* gael gwybodaeth o; olrhain, olrheinio; dyfod i wybod; dyfod o hyd i; dyfeisio, dychymygu; goddiweddyd, gorddiwes; darganfod.

To find with—cynnal, digoni, *neu* ddiwallu â; cynnal *neu* gadw un mewn peth; rhoddi i un ei wala *neu* ei gyfraid o; gweini i un mewn peth; darparu i un.

To find in—darparu, cyflenwi, cynnal, cynysgaethu â, cyflenwi â, cyflawnu â; cynnal, digoni, cadw, *neu* ddiwallu mewn; cynnal, diwallu, *neu* ddigoni â; rhoddi i un ei ddigon, ei wala, *neu* ei gyfraid; gweini i un mewn peth.

To find one's self—bod, hanfod; cael ei hun; clywed ei hun; bydio, byw, cynnal, ymdaro, ymglywed; bod mewn hynt *neu* helynt.

How do you find yourself?—pa fodd yr ydych? pa sut yr ydych? sut yr ydych chwi? pa fodd yr ymdarëwch? pa fodd yr ydych yn ymdaro *neu* yn bydio? pa fyd y sydd arnoch? pa sut yr ych yn ymglywed? pa fodd yr ydych yn ymglywed? pa fyd? pa hynt? pa fodd yr ydych yn ymdeimlo? pa fodd yr ydych yn clywed eich hun?

I find myself indisposed—yr wyf yn clywed fy hun yn anhwylus *neu* yn ddihoen; yr wyf yn profi *neu* yn teimlo fy hun yn anhwylus; yr wyf yn ymglywed yn anhwylus.

I could find in my heart—mi a glywn ar fy nghalon; mi a allwn ar fy nghalon.

He could not find in his heart to quit—nid ymglywai âg ymadael; nid oedd yn ymglywed âg ymadael; ni chlywai ar ei galon ymadael.

To find fault with—beio ar, achwyn ar; bwrw bai ar; dwrdio.

I found it at last—mi a'i cefais o'r diwedd; daethym o hyd iddo o'r diwedd; tarawais wrtho o'r diwedd; cyffyrddais âg ef o'r diwedd.

He will ever find something to say—efe a fyn rywbeth fyth i'w ddywedyd; efe a ddychymyg rywbeth fyth i'w ddywedyd; ni fetha ganddo gael rhywbeth fyth i'w ddywedyd.

To find grace, } cael ffafr; cael mwynas;
To find favour, } bod yn gymmeradwy; ennill ewyllysda; ennill bodd; cael rhad.

To find an excuse—llunio esgus, cael esgus.

To find a bill—haeru cwyn, sefydlu cwyn; cael cwyn *neu* achwyn yn erbyn un; cymmeradwyo yr achwyn; cymmeradwyo y cwyn; cael ysgrif; cael gwir ysysgrif; cael y cyhuddiad yn gywir; cael cyhudded gywir.

To find one's place of abode—cael cyfod ar un.

Past finding out—anolrheinadwy.

Fast bind, fast find—os diogel y gwneir, diogel y ceir.

Be sure your sin will find you out—gwyddwch y goddiwedda eich pechod chwi.

He found out the truth—efe a olrheiniodd y gwirionedd; efe a fynodd allan y gwirionedd.

And when they could not find by what way they might bring him in—a phan na fedrent gael pa fodd y dygent ef i mewn.

And could not find what they might do—ac ni fedrent gael beth â wnaent.

Finder, *s.* caffaeliwr, caffaelydd; dychymygwr, dyfeisiwr; olrheiniwr; dadguddiwr.

Findfault, *s.* beiwr, senwr, cecryn, cecrwr, cecrydd, ymgecrwr, un cipgar.

Findfaulting, *a.* hyfeiol, hyfarn, hyfai, beigar, cyhuddgar, cipgar, cecrus.

Finding, *s.* caffaeliad, caffaeliant, caffawd; dyfodiad o hyd i beth; darganfyddiad, dadguddiad, dadenhuddiad, dadencudd, olrheiniad, canfyddiad; dedfryd, rheithfarn, rhaith.

Findings, *s. pl.* cèr crydd teithiol.

Findy,† *a.* (S. *findig;* D. *fyndig*) llawn, trwm, sylweddol.

Fine, *a.* (Ff. a Sw. *fin;* Ysp., Port., ac It. *fino;* Al. *fein;* Is. *fyn*) teg; main, mân; pur, ter, coeth, gloew, purlan, claer; tenau, addfain, addfeinus; manwl, manol, cywrain, cywraint, cynnil, celfydd, dichlyn; gwych, tlws, dillyn; destlus, dain, deiniol, pert, syw, del, clws, (*f.* clos), pefr, prydferth, cain, hardd, berth, telediw, gwymp, addien, eirig, pinc, hoew, taclus, ceinwych, gorwych, harddwych, meinwych, lluniaidd, goeseddig, golygus, elgain, telaid, ceindlws, perc, percus, tlosgain, tlysgain, ceindlws, nais; llyfn, cabol, caboledig, dilin, gwastad, miwail; disothach, disorod; manweaidd, manweddaidd, manw, manwy, manwyaidd, meinus; rhagorol, godidog, ardderchog, ysblenydd; tlysgoeth, coethwych; llym, edlym, iddas; cyfrwys, ffel, ystrywgar; rhywiog; da.

The fine arts—y celfau teg; y celfau deiniol; y celfyddydau breiniol; y celfyddydau teg; y celfyddydau dain.

Fine linen—llian main, lliain main, llian teg, llian meinwe, llian manweaidd, llian meinllin, bliant.

A table-cloth of fine linen—lliain bwyd o fliant.

Fine cloth—brethyn teg, brethyn meinwych, brethyn dinesig, meinfrethyn.

Fine hair—gwallt teg, gwallt manwyaidd.

Fine sand—tywod mân.

Fine gold—aur coeth, aur dilin, aur coethedig, aur pur.

Fine brass—pres coeth.

Fine thread—edaf fain, edef fain; edafedd main.

Fine flax—meinllin, llin teg, llin main.

Fine wool—gwlan teg, gwlan rhywiog.

Fine meal—blawd mân, blawd peillied, blawd teg.

Fine flour—peillion; mân gàn, man-gan, man-gant, manbaill; peillied, cân, paill.

A fine boy—bachgen gwych, bachgen tlws, bachgen pert, &c.

A fine woman—benyw deg, dynes wech,

benyw hardd, dynes luniaidd, gwraig olygus.
The finest lady in the land—y decaf yn y dyrfa lle del; y rhian harddaf yn y wlad.
A fine man—dyn gwych.
Fine cattle—gwartheg teg.
To make fine—meinhau, meinuso, manhau; gwychu, twtneisio, harddu, pincio, hoewi, addurno, caboli; gwneuthur yn deg, &c.
Somewhat fine—go deg, lled deg, crŷn deg, trân deg, pur deg, go fain, go fân, &c.
Very fine—teg iawn, &c.; tra theg, &c.; gorfain, gorwych; elgain, cyfrgain, cyweirwych, cyfrdelaid.
These are fine things to talk of—pethau difyr yw y rhai hyn i siarad am danynt; pethau digrif yw y rhai hyn i chwedleua am danynt; dyma bethau gwych i ymddyddan am danynt.
I have known very many fine things in that man—adwaenwn lawer o bethau *neu* gynneddfau tra godidog yn y gwr hwnw.
A person of a very fine wit—gwr tra thlws ei synwyr; gwr tra gwiwdlws ei synwyr; gwr gwych iawn ei synwyr; dyn tra ysblenydd ei arabedd.
To have a fine time of it—cael ei fyd wrth ei fodd; cael y byd wrth ei fodd; cael amser da o hani; bod heb swydd yn y byd ond chwareu a dylyn difyrwch; bod heb ddim i'w wneuthur ond chwareu ac ymddifyru; cael amser hafaidd.
To have a fine time for getting money—cael amser da i ennill arian; cael odfa deg i ennill arian.

Fine, *s.* (Ll. *finis*; C. *fin*, yn ol *Iunius*) dirwy, camgwl, camlwrw, fforffed; sarhad, sarhäed; arian blaenllaw.
A fine for an injury done to a person—sarhad, sarhäed.
A fine for an affront—gwynebwarth, wynebwarth, gwynebwerth.
To levy a fine—codi dirwy.
In fine (Ff. *enfin*; Ll. *in* a *finis*)—yn ddiweddaf, yn olaf; yn y diwedd; mewn gair; ar fyr, yn fyr; i derfynu, i ddiweddu, i ddybenu, i dalmu; i gau *neu* i gloi ar y cwbl; gwedi yr oll.

Fine, *v. a.* coethi, teru, puro, glanburo, dargoethi, gloewi, claeru, dïanmhuro, diwaddodi, diwaelodi; †teghau, addurno, pincio.

Fine, *v. a.* dirwyo, camgylu, camlyrio; rhoi dirwy ar; †talu dirwy.

Fined, *p. p.* coethedig, &c.; coeth, pur, ter, gloew; dirwyedig, camlyrus.

Finedraw, *v. a.* (*fine* a *draw*) tegwnio, neisbwytho, rhwygwnio, asbwytho, wynebwnio; gwnio mòr dlws fel nas gweler ol y rhwyg.

Finedrawer, *s.* tegwniwr, tegwniedydd, rhwygwniwr, asbwythwr, gwniwr teg, neisbwythwr.

Finedrawing, *s.* tegwniad, neisbwythad, asbwythad, rhwygwniad.

Fine-fingered, *a.* llawgywrain; cynnil, cywrain, manwl, tegweithiol; hyfedr ar waith teg.

Fine-grained, *a.* teglinaidd.

Fineless,† *a.* diddiwedd, diderfyn.

Finely, *ad.* yn deg, &c.
You are finely cheated—fe'ch twyllwyd yn deg, yn daclus, *neu* yn hyfedr.

Fineness, *s.* (o *fine*; Ff. *finesse*; It. *finezza*) tegrwydd, tegwch, tegedd, pertedd, tlysni, clysni, prydferthwch, gwychder, gwychedd, dillynder, dillynedd, destledd, destlusedd, harddwch, harddwychder, ceinwychder, ceinwychedd, gorwychder, pefredd, teleidrwydd, twtneisrwydd; meinder, meindra, meinedd, manwedd, manwyedd; bychander, bychanigrwydd, eiddiledd; manylder, manyldra, cynnilder, cynnilwch, cywreinrwydd; coethder, teredd, terineb, coethineb, purineb, purdeb, purder, gloewineb; ymddangosiad, rhwysg; ysblander; cyfrwysdra, ffelder; llyfnder; godidogrwydd, rhagoroldeb.
Fineness of thread—meinder edaf.

Finer, *s.* coethwr, coethydd, coethiedydd, purwr, puriedydd, terydd, terwr.
There shall come forth a vessel for the finer—daw i'r gof arian lestr (*Diar.* xxv. 4).

Finery, *s.* (o *fine*) gwychder, gwychedd, ceinder, ceinwychder, coegwychder; harddwisg, ceinwisg; harddwisgoedd, ceinwisgoedd, gwychderau, dillynion; coethfa, coethffwrn, coethdy, ty coethi.
Fineries — harddwisgoedd, dillynion, gwychderau.

Finespoken, *a.* (*fine* a *speak*) geirdeg, geirber, geirfwyn, llafardeg, mwynair; ymadroddfwyn, parablber; ymadroddus, parablus; gwenieithus, gwenieithol.

Finespun, *a.* (*fine* a *spin*) tegnyddedig; à dynwyd yn edef fain; main, mân, manwyaidd, manweaidd; cywreiniol, cywrain, manylaidd.

Finesse, *s.* (Ff.; It. *finezza*) ystryw, cyfrwysder, cyfrwysdra, cyfrwysdro, ystranc, dichell, dichelldro, arystryw, dychymyg ystrywgar; tro ystrywgar, destl, hyddestl, *neu* hyfedr; ymdro ystrywgar *neu* ddichellgar; dyfais.

Finesse, *v. n.* ystrywio, arystrywio; arfer cyfrwysder, &c.

Finestill, *v. a.* (*fine* a *still*) terddystyllu, terddystyllio, terferino = dystyllio gwirod o driagl, neu o ryw ddefnydd sugraidd cyffelyb.

Finestiller, *s.* terddystyllwr, terddystyllydd, terferinwr.

Finestilling, *s.* terddystylliad, terferinad.

Fine-stuff, *s.* tegblastr, plastr teg.

Finew,† *s.* (?) braenedd, braenllwydni, braenllwydedd, llwydni.

Finewy,† *a.* braenllwyd, braenllyd, braen.

Finfish, *s.* asgellbysg, adenbysg=math o forfil bach.

Fin-footed, *a.* cyfandroed, troedgyfan, asgelldroed, palfdroediog, adendroed = à fo â'i draed fel traed gwŷdd, ac ereill o adar dwr.

Finger, *s.* (S., Al., Sw., a D.) bys; *pl.* bysedd.
Fore-finger — mynegfys, mynagfys, bys blaen, gorfys, rhagfys, bys yr uwd, uwdfys.
Middle finger—hirfys, canolfys, bys canol, bys perfedd.
Ring-finger—greinfys, bys y fodrwy, canfys, meddygfys, bys y gyfaredd.
Little finger—byrfys, bys bach; bysyn.
Finger-stall—bysle.
Finger's breadth — bysfedd, bysled, lled bys.
Four fingers' breadth — pedair bysfedd, pedwar bysled, lled pedwar bys, lled pedwarbys.

Three fingers thick—tribysig; trwch tribys.
At the fingers' end—ar ben ei fysedd; ar ben pob bys; ar flaen ei fysedd; yn rhugl, yn barod, yn hyfedr.
As much as can be held on a finger—bysaid.
A ring for the finger—byson; modrwy.
To snap the fingers — clecian y bysedd; crinellu y bysedd; clewtian y bysedd; gwringellu y bysedd.
My fingers itch—y mae fy nwylaw yn gwynegu *neu* yn gwyniasu; mae fy nyrnau yn gwynegu *neu* yn gwyniasu; mae ysfan ar fy mysedd; mae arnaf fawrchwant.
With a wet finger—yn hawdd, yn hawdd lawn, yn rhwydd, yn hyrwydd; wrth ychydig boen; heb boen yn y byd; heb lafur yn y byd; mòr esmwyth a'r tes; cyn esmwythed a'r tes.
You too had a finger in the pie—yr oeddech chwithau â llaw yn y gorchwyl; yr oedd genych chwithau law yn y gorchwyl; yr oedd genych chwithau fys yn y bastai.
His fingers are lime-twigs—mae glud ar ei ddwylaw; nid oes dim à ymâd â'i ddwylaw; mae pob peth yn glynu wrth ei ddwylaw.
I will make him find his fingers—gwnaf *neu* paraf iddo dynu ei ddwylaw o'i asgre; paraf iddo dynu ei ddwylaw o'i lewys; gwnaf iddo dynu ei law o'i lawes.
I will make him feel my fingers—paraf iddo glywed pwys fy nwylaw; gwnaf ol fy nwylaw arno.
Why should one put his finger in the fire, when one can keep it out?—pa ham yr ymyrai un â pherygl yn ddïachos?
To be finger and glove with one—bod yn fawr ei gymmeriad gydag un; bod o gyfrinach *neu* ddirgel gynghor un; bod yn bobpeth gydag un.
She has a good finger—mae ganddi fys da; mae yn hyfedr ar chwareu â bysedd; mae hi yn hyfedr ar chwareu ar offer tannau; mae yn hyfedr ar dynu ar dannau. [en felen.
Ladies' fingers—plucen, plucan, meillion-

Finger, *v.* bysio, gofysio; teimlo â bys; bysdeimlo, godeimlo, teimlo; mynych deimlo, cnithio, ysgafn gyffwrdd, llaes gnithio; trafod, trin, ymyryd, ymyraeth, ymhela, ymdrafod â; chwiwio, chwiwian, chwiwbigo, chwiwladrata, goladrata, chwilota, chwilena, bachu, dyfachu, ysbeiliota; cymmeryd yn lladradaidd; rhoi ei fys ar; chwareu ar offer tannau; chwareu â bysedd; gwneuthur cynnilwaith; chwareu, maldodi, teganu.

Finger-board, *s.* bysfwrdd; bwrdd offeryn cerdd dannau.

Fingered, *a.* bysog, bysedddog, bysiog; â bysedd iddo; â chanddo fysedd; gofysiedig, bysiedig, teimledig.
Light-fingered—llawysgafn; lladronaidd, lladronig, chwiwgar, chwiwladradaidd, anonest.
To be light-fingered—bod yn llawysgafn.

Finger-fern, *s.* duegredyn, bysredyn.

Finger-grass, *s.* byswellt.
Cock's-foot finger-grass—grugwellt, troed y ceiliog, dant y ci.
Smooth finger-grass—byswellt llyfn.

Fingering, *s.* (o *finger*) bysiad, gofysiad; godeimlad, cnithiad, ysgafn gyffyrddiad; byschwareuad; chwareuad ar offeryn cerdd â bysedd; cynnilwaith llaw, byswaith.

Finger-parted, *a.* bys-ranedig, bys-ranog.

Fingerpost, *s.* mynegbost, cyfeirbost.

Finger-shell, *s.* bysgragen.

Finger-stone, *s.* bysfaen.

Fingle-fangle, *s.* ffril, anober, ffiloreg.

Finial, *s.* (Ll. *finis*) gorphenwaith, topwaith, terfyniad addurnol pinygl.

Finical, *a.* (o *fine*) coegynaidd, (*f.* coegenaidd), coegfalch, coegwych, pinc, rhyddillyn, rhyddestl, rhy binc, rhy ddestlus, ysgoegynaidd, pefrynaidd, coegaidd, ysgoeg, mursynaidd, cymhen, cymhenffol, pinclyd, del, syw, nais, gorddillyn.
A finical fellow—coegyn, ysgoegyn, un coegfalch, un coegwych, pertyn, pefryn, coegwr, mursen o ddyn.

Finically, *ad.* yn goegynaidd.

Finicalness, *s.* coegyndod, ysgoegyndod, pinorwydd, pincedd, coegyneiddrwydd, rhyddillynedd, coegwychder, coegwychedd, coegni, coegedd, coegfalchder, gorddillynder, pefryneiddrwydd, delder.

Finikin, *a.* (o *fine*) manylwag; manwl mewn ffrllion; manwl, gorddillyn, coeg, cymhenffol; segur, ofer; swyddgar, rhydresgar, gwag-brysur.
A finikin fellow—coegyn.
A finikin lass—coegen.

Fining, *p.* yn coethi, &c.; coethol, purol, teiadol.
Fining pot — coethadyr, puradyr, coethlestr, coethbot, toddlestr.
Fining house—coethdy.

Finis, *s.* (Ll.) diwedd, terfyn, dyben, gorphen, pen.

Finish, *v. a.* (Ll. *finio*; Ff. *finir*) gorphen, dybenu, terfynu, diweddu, gorphenu, darfod, penu, darfod â, talmu, tachweddu, dara; dwyn i ben, cwblhau, cyflawnu, perffeithio; cywreinio; rhoi y llaw ddiweddaf wrth.
It is finished—gorphenwyd, darfu, dybenwyd, &c.; deryw, goryw.
It has been finished—y mae wedi ei orphen; cafodd ei orphen; darodd.
Having finished—gwedi darfod, wedi darfod; gwedi gorphen, &c.
That is finished—hyny a ddarfu; hyny a dderyw; darfu hyny; deryw hyny.
I have finished my task—gorphenais fy ngorchwyl; yr wyf wedi gorphen fy ngorchwyl; darfum i â'm gorchwyl; darfu i mi â'm gorchwyl.

Finish, *s.* gorphen, diwedd, dyben, terfyn, pen, darfod, dybendod, gorphendod; cyflawniad, perffeithiad, cwblhad.

Finished, *a.* gorphenedig, &c.; cyflawn, perffeithlawn, trylwyr, perffaith, dygiadus, addysgwych, coethwych, deifniog, diwylledig, dawnwych.
A finished scholar—ysgolor tryddysg; ysgoläig perffeithlawn, addysgwych, coethwych, deifniog, dygiadus, gorphenedig, medrus, cyflawn, *neu* drylwyr.
Not finished — anorphen, anorphenedig, anorphenol, annybenus, anghyflawn, anghwbl, anmherffaith, annherfynedig; heb ei orphen.

Finisher, *s.* gorphenwr, dybenwr, diweddwr, terfynwr, cwblhäwr, cyflawnwr, perffeithiwr, perffeithydd.
The finisher of our faith—perffeithydd ein ffydd; ein credofydd.
Finishing, *s.* gorpheniad, diweddiad, dybeniad, terfyniad, cwblhad, cyflawniad, perffeithiad, dybendod.
Finishing, *a.* gorphenol, dybenus, diweddol, terfynol, dybenol; yn gorphen, &c.
The finishing stroke—y llaw ddiweddaf.
Finite, *a.* (Ll. *finitus*) terfynol, terfynedig, meidrol, dybenol; mesurol, mesuredig; penodol.
A finite number—nifer terfynol, nifer penodol, rhif terfynol.
Finitely, *ad.* yn derfynol; dân derfyn, dân derfynau.
Finiteless, *a.* annherfynol, diderfyn, anfeidrol, anfesuredig, anfesurol, didran.
Finiteness, *s.* terfynoldeb, meidroldeb, meidrolrwydd, meidrolder, terfynolrwydd; terfyniad.
Finitor, *s.* (Ll.) gorwel, terfyngylch, llywel, terfynydd.
Finitude,† *s.* (o *finite*)=*Finiteness.*
Finless, *a.* (*fin* a *less*) dïaden, dïadain, dïasgell, anadeiniog, anasgellog, dïesgyll, heb bysgedyn.
Finless fish—pysg dïaden, pysg heb esgyll.
Finlike, *a.* (*fin* a *like*) adeinaidd, adeiniol; fel adain pysg; tebyg i adain pysg; ar lun aden neu asgell; pysgadeinaidd.
Finned, (*a.* o *fin*) asgellog, adeiniog, adenog.
Finnikin, *s.* colomen fyngog, colomen siobynog.
Finny, *a.* adeiniog, asgellog, adenog, pysgadeiniog; adeiniog fel pysg.
Finochio, *s.* (It. *finocchio*) math o ffenigl.
Finscale, *s.* (*fin* a *scale*) yr asgellgen=math o bysg dwr croew.
Fintoed, *a.* (*fin* a *toe*) cyfandroed, troedgyfan, asgelldroed, adendroed, asgellfysog, palfdroediog=â fo â'i draed fel traed adar dwr.
Fiorin, *s.* (It. *florino, fiore!*) maeswellt, meuswellt.
Fiorite, *s.* cramfaen.
Fipple,† *s.* (Ll. *fibula*) ystopell.
Fir, *s.* (Al. *föhre;* S. *furh-wudu;* D. *fyrretræe;* C. *pyr*) ffeinidwydd, ffynidwydd, pyrwydd, pyr, pygwydd, ffawwydd, sybwydd, pinwydd, pererinbren, pygbren, pinbren.
Fir-tree—ffeinidwydden, pyrwydden, &c.; pererinbren, pygbren, pinbren.
Scotch fir—pinwydd gwylltion, ffeinidwydd, ffynidwydd.
Fir club-moss — pyrfwsogl, pyrfwswn, ffeinid-fwsogl.
Silver fir—ffeinidwydd arianaidd, pyrwydd arian.
Fir-in-bond—coed â adeiledir mewn muriau; murgoed, murbrenau, muradeilgoed.
Fire, *s.* (S., D., a Sw. *fyr;* Al. *feuer;* Is. *vuur*) tân, ufel, engyl.
A great fire — goddaith, coelcerth, tân mawr, cynne, eirias, tanllwyth, eiriasdan.
Blazing fire—fflamdan, tân fflamllyd.
St. Anthony's fire—iddwf, tan iddwf, fflam iddwf.
Wild fire—tân gwyllt; tandde.
Greek fire—tân Groeg, tân Groegaidd; tân gwyllt.
Divination by fire—tanogan, tanddewiniaeth, fflamgoel, tân-goel.
The fire of love—tân, angerdd, gwres, *neu* boethder cariad.
To strike fire—taraw tân, lladd tân.
Fire-back—pentan, talpentan.
On fire—ar dân; yn llosgi, &c.; yn goelcerth, yn oddaith.
To set on fire, } tanio, tanu; gosod *neu*
To set fire to, } roi ar dân; rhoi tân yn *neu* mewn; goddeithio, cynneu, tanial, llosgi; gwneuthur i ffaglu; ennyn, ennynu, fflamio, tanfflamu; gosod *neu* wneuthur yn fflam.
To take fire—tanio, tanu; cymmeryd tân.
To be on fire—bod ar dân; llosgi gân ddig *neu* lid; ymlosgi gàn ddig *neu* lid; bod yn ymlosgi gàn lid *neu* ddig.
Set on fire—à roddwyd ar dân, &c.; poeth, tanllyd, fflamboeth.
They that are set on fire—dynion poethion.
He is all on fire with desire—mae efe yn llosgi *neu* yn ymlosgi gàn awydd; y mae efe ar dân gàn awydd.
No smoke without some fire—ni bydd mwg oni bo tân; ni bydd mwg heb beth tân; lle bo tân y bydd mwg; lle bo mwg y bydd tân.
Fire, *v.* tanio, tanu; gosod, rhoi, *neu* ddodi ar dân; rhoi tân yn *neu* mewn; cynneu, goddeithio, tanial, llosgi, ennyn, ennynu, fflamio, tanfflamu, ffaglu, taniadu; ysoli, serio; gwneuthur i ffaglu; cymmeryd tân; saethu; gollwng dryll, gwn, *neu* ergyd.
Fire at it — taniwch, tanwch, tenwch, saethwch, *neu* gollyngwch ato.
Firearms, *s. pl.* arfau tân, tân-eirf, tân-arfau.
Fire-arrow, *s.* tansaeth, saeth dân.
Fireball, *s.* llosbel, llosbelen, tanbel, tanbelen, pelen dân; goruchionen; pel *neu* belen o dân gwyllt.
Firebare, *s.* pigwn, tanfwdwl, coelcerth.
Firebarrel, *s.* tanfaril, baril dân, llosfaril.
Firebavin, *s.* tân-ffagod, tân-ffagoden, ffagoden dân.
Fireblast, *s.* deifiosg, tân-falldod, llosg=afiechyd mewn pensag.
Fireboard, *s.* tanfwrdd, clawr y simnai; canad y sawell, clawr lle tân.
Firebote, *s.* tanwydd, tanraid; dogn o danwydd dyledus i'r deiliad oddi wrth ei arlwydd.
Firebrand, *s.* tewyn, pentewyn, etewyn, tewyn o dân; ffaglydd, ffaglwr, banffaglwr, ffiemor, ffleimiad, terfysgwr.
Firebrick, *s.* tân-briddfaen, priddfaen tân, priddell dân.
Firebrush, *s.* tân-ysgubell, tân-wrychell, gwrychell dân, ysgubell aelwyd.
Firebucket, *s.* tân-gelwrn; celwrn i gario dwfr i danbeiriannau.
Fireclad, *a.* tanwisgedig; gwisgedig â thân; mewn gwisg o dân.
Fireclay, *s.* tân-glai, clai tân; clai à ddeil dân.
Firecock, *s.* tân-ddwsel, tân-dwsel; dwsel i ollwng dwfr er diffoddi tân.
Fire-company, *s.* tân-gymdeithas, tân-gymdeithwys, cymdeithas y tân, cymdeithwys diffodd tân.
Firecross, } *s.* croes dân, croes danllyd.
Fiery cross, }

Firedamp, *s.* tanchwa, tanfa, lloesdarth, lloesnwy, lloesgnwy, lloesgager, uldan.
Fire-dogs, *s. pl.* brigwn, gobed.
Firedrake, *s.* sarff danllyd, sarff danlled, draig; tanwydyn, awyrdan, goruchionen, malldan, llewyrn, tân llwynog.
Fire-dress, *s.* tanwisg; gwisg nad effeithia tân arni.
Fire-eater, *s.* tân-fwytäwr, bwytäwr tân; un à ymhona y geill fwyta tân.
Fire-engine, *s.* tanbeiriant, peiriant tân, ermig tân, tân-ermig.
Fire-escape, *s.* tanddïangfa, tanffwyrell, tan ddïanc; ermyg i gynnorthwyo dïanc o dy ar dân.
Fire-eyed, *a.* tanllygeidiog; à chanddo lygaid tanllachar.
Fireflair, *s.* tanraien, tanrwchwa.
Firefly, *s.* tân-gleren, ufelgleren, ufelglyryn, cleren dân; pryf y tân: *pl.* ufelgler, ufelglyr, cler tân, tân-gler, goleugler.
Firehook, *s.* tanfach, tanfechyn; bach mawr i dynu i lawr adeiladau ar dân.
Fire-irons, *s. pl.* heiyrn tân, tanheiyrn, celfi tân, tân-gelfi.
Firelock, *s.* gŵn, dryll, dryll saethu, gŵn saethu.
Fireman, *s.* tanwr, diffoddwr tân, tanddiffoddwr, tanddiffoddydd: *pl.* tanwyr, gwŷr y tân.
Firemaster, *s.* tanfeistr, arolygwr tanweithiau.
Firenew, *a.* newydd tanlliw, newydd tanlli, newydd danlliw, newydd grai; tanllachar, tanlliw.
Fire-office, *s.* tanswyddfa, tân-yswirfa, tânddiogelfa, tân-ddilysfa, swyddfa dân.
Fire-ordeal, *s.* prawf tanllyd, tanbrawf, prawf drwy dân, dïheurbrawf trwy dân, holbrawf tanllyd.
Firepan, *s.* padell dân, tanbadell.
Fireplace, *s.* lle tân, lle y tân; aelwyd.
Fireplug, *s.* tywysel tân, tandywysel, tandwysel, ystopell dân.
Firepot, *s.* tanlestr, tanbot, ufelgib.
Fire-proof, *a.* anhydraidd i dân; à ddeil dân; anhyloeg, anllosgadwy; didandraidd, annhandraidd; nas treiddia tân trwyddo.
Fire-quenching, *a.* tanddiffoddol; yn diffoddi tân.
Firer, *s.* tanwr, taniwr, tanydd, lloesgwr, ffaglwr, banffaglwr, ffleimiad, ffiemor; gosodwr ar dân.
Fire-rail, *s.* tanreilen, rheilen dân.
Firescreen, *s.* tanlen, tanffedon, tân-gysgodfa.
Fireship, *s.* tanlong, llong dân.
Fireshovel, *s.* rhaw dân, llwyar dân.
Fireside, *s.* aelwyd; pentan; cylch y tân: teulu.
Firespark, *s.* gwreichionen, tanen, gwraich, clin: *pl.* gwreichion.
Firestick, *s.* pren tân, tanbren, tewyn, tanwyddyn.
Firestone, *s.* tanfaen, careg dân; careg anhyloeg.
Fireward, } *s.* tanwardan, tanwardain, tan-
Firewarden, } wardydd, tanwarchodwr; swyddog à chanddo awdurdod i gyfarwyddo ereill i ddiffodd tân.
Fireweed, *s.* tanchwyn, tanlys = planigyn Americaidd.
Fire-winged, *a.* tanadeiniog, tanadenog, tanasgellog.
Firewood, *s.* tanwydd, coed tân, dylwyf, cynnud, tanwent, gosgymmon, briw-wydd.
To gather firewood—cynnuta, casglu tanwydd, cynnull cynnud, coeda, coeta.
Firework, *s.* tanwaith, ufelwaith, gwaith tân; tanddangosiad; ufelyddiaeth.
Fireworker, *s.* tanweithiwr, tanweithydd = swyddog y cadoffer, is na'r tanfeistr.
Fire-worship, *s.* tân-addoliad, tân-addoliant, tân-addoliaeth.
Fire-worshipper, *s.* tân-ddolwr, addolydd tân.
Firing, *s.* (o *fire*) taniad; gosodiad ar dân; taniad arfau, saethiant, ergydiad; tanwydd, cynnud, dylwyf, gosgymmon, tanwent; seriad, creithlosgiad.
Firing iron—tanhaiarn, haiarn serio.
Firk, † *v. a.* (Ll. *ferio*) curo, dulio, pwyo, ffrewyllu, chwipio, wabio.
Firkin, *s.* (Is. *vier*; D. *fire*; a'r terfyniad *kin*) ffircyn=pedwaredd ran baril, neu 7½ galwyn amberodrol: llestryn.
Firm, *a.* (Ll. *firmus*; Ff. *ferme*) cadarn, cryf, ffyrf, (*f.* fferf), fferdd, grymus, nerthol, caled, clwn, syfn, ffêr, dwys, durfing; sad, sedr, sicr, sefydlog, hysaf, safadwy, disyfl, arsad, disyflyd, disigl, gwadal, diserfyll, dïeglyd, dïysgog, dïymmod, dïanwadal; dilys, diogel, dir; taclus, heini; mur.
To make firm—cadarnhau, cryfhau, ffyrfhau, diogelu, sadio, sicrhau; gwneuthur yn gadarn, &c.
Firm land—tir caled, tir cyfan, tir cyfun, tir sad.
Firm, *v. a.* cadarnhau, sefydlu, sadio, sicrhau; gwneuthur yn gadarn, &c.
Firm, *s.* enwad, enw, ffurfenw; enw cydfasnachwyr; cydfasnach; cydfasnachdy.
Firmament, *s.* (Ll. *firmamentum*) ffurfafen, wybr, wybren, gwybren, gwybr, ewybr, ewybren, awyrnen, entrych, entyrch, nwyfre, nwyfreant, yr awyr, y nen.
Firmamental, *a.* wybrenol, gwybrenol, gwybrol, wybrol, ffurfafenol, wybrenaidd, wybrig, gwybraidd, ewybrenol; nefol, nefolain, nenol.
Firman, } *s.* (gair Asiaidd) trwydded, trwydd-
Firmaun, } yd, trwyddeb, teithdrwydded, teith-
Broad-footed — troedlydan, llydandroed, pedlydan; llydan ei droed.
Long-footed—troedhir, hirdroediog, hirdroed.
Short-footed—troedfyr, (*f.* troedfer), byrdroediog.
Splay-footed — troedgam, troed-draws, troettraws, coesgam; â'i liniau yn nghyd a'i draed ar led; llerog.
Club-footed—troedgam, troedglwp, troedglwpa, troedgoll, troettraws.
Bare-footed—troednoeth.
Sure-footed — dilysdroed, diasgendroed, troedsicr; didramgwydd, anhygwymp, anhygwydd; sicr ar ei droed.
Web-footed—cyfandroed, troedgyfan.
Light-footed — ysgafndroed, troedysgafn, buandroed, troedfuan, cyflymdroed, troedweisgi; gweisgi, gwisgi; ysgafn ar ei droed; ysgafn ar ei draed.
Cloven-footed—troedfforchog, fforchdroed, fforchdroediog, carnafrog, ewinhollt, ewinollt, ewinholltog, ewin-fforchog, fforchewinog.

Foot-fall, *s.* llithr, llithrad, cwymp, codwm.

Footfight, *s.* peddydgad, cad ar draed, brwydr gwŷr traed, cad draed, brwydr draed.

Footguards, *s. pl.* pedwylgor, peddwylgor, traedwylwyr, gwylwyr traed, pedogordd, diffyngor traed, gwarchodlu o wŷr traed.

Foothalt, *s.* troedhecian, pedhecian=clwyf ar ddefaid.

Foothold, *s.* troedgynnal; peth i gynnal traed; y peth y gall un ddibynu yn ddiogel arno.

Foothot, *ad.* yn ddïattreg, yn ddïaros, yn uniongyrchol, yn ddïannod.

Footing, *s.* troediant, troediad, cerddediad, trawd; lle troed; lle i'w droed, lle i sefyll, lle i roi ei droed i lawr; sefyllfa, safiad, safle, lle; sail, sylfan, sylfaen, gwadn, gwaelod, gwreiddyn; cyflwr, ansawdd, amgylchiad; llwybr, camre, camrau; lle i orphwys *neu* i sefyll arno; sefydliad, ymsefydliad; trwst traed, trwst traed yn cerdded; ol traed, ol, dyol, rhawden; llawr i sefyll *neu* orphwys arno; gorphwysfa; dawns, corelw; pedestr, peddest; seilwanaf, taenres; derbyniad; teler, telerau, ammod.
I hear the footing of a man—clywaf drwst traed dyn.
To get footing in a place—ymsefydlu mewn lle; cael troediant mewn lle.
Before the English had footing in the isle of Britain—cyn cael o'r Seisoneg droediant yn ynys Prydain.
He set things on the old footing—adferodd bethau i'w hen sefyllfa.
They are on the same footing with others—y maent yn yr un ansawdd ag ereill; y maent yn yr un amgylchiadau ag ereill; y maent yn gydradd *neu* yn gydystâd ag ereill; nid oes rhagor rhyngddynt hwy ac ereill.

Footless, *a.* didraed, didroed.

Footlicker, *s.* troedlyfwr, llyfwr traed, truthan, truthiwr, gwenieithwr, cynffonlonwr.

Footman, *s.* gwr traed, milwr traed, traedfilwr, pedfilwr, llueddwr traed, un o'r peddyd; gwas traed, troedwas, gwastrodyn, pedwas; nodwas; rhedegwr, rhedwr, rheawdr, pedestr, peddestr, pedestrydd, peddestrydd.
Running footman—rhedegwas, rhedwas, rhedwastrodyn.

Footmanship, *s.* rheodraeth, rhedegyddiaeth, pedestraeth.

Footmantle, *s.* mantell draed, ambais.

Footmark, *s.* ol troed, ol traed, arllwybr, arlwybr, rhawden, dyol, ol, brisg, brisg traed, amsathr, amsang; trywydd, trywedd, adrywedd, edrywedd.

Footpace, *s.* arafdrawd, trawd araf, trawd hwyrdrwm, cerddediad araf, cerddediad chwarian, chwariandrawd; pen grisiau; careg aelwyd; ethais.

Footpad, *s.* lleidr traed, lleidr pen ffordd, lleidr ar draed, pedleidr.

Footpath, *s.* llwybr troed, llwybr traed, ffordd draed, troedffordd, pedlwybr, troedlwybr.

Footplough, *s.* ped-aradr, troed-arad, arad troed.

Footpost, *s.* rhedwr ar draed, traedredegwr, traedredwr, traedredydd, brysnegesydd.

Footprint, *s.* ol troed, ol traed, arllwybr, arlwybr, rhawden, ol, dyol, brisg, brisg traed, amsang, amsathr.

Footrace, *s.* pedredfa, pedyrfa, traedredfa,

traedredegfa, rhedeg ar draed, rhedegfa draed, rhedfa draed.
Footrope, *s.* pedraff, troedraff, gwaelod-raff.
Footrot, *s.* pedfraen, traedfraen, braen traed; braen yn nhraed defaid.
Footshackles, *s. pl.* troedogion, gefynau traed, llyffetheiriau traed, traedhualau, berrwyon.
Footsoldier, *s.* milwr traed, gwr traed, traedfilwr, pedfilwr, pedsawdiwr, llueddwr traed: *pl.* milwyr traed, gwŷr traed, peddyd, pedwys, pedyd, peddytos.
Footspace-rail, *s.* trodrail, trodreilen.
Footspade, *s.* troedraw, pedraw, pal.
Footstalk, *s.* pedgoesig, deildroed, deilbed, dalendroed.
Footstall, *s.* gwarthafl benyw, gwarthol menyw, gwarthafl; gwadn colofn, troed colofn, bon piler.
Footstep, *s.* ol troed, ol traed, arllwybr, arlwybr, ol, dyol, rhawden, brisg, brisg traed; amsathr, amsang; camre, cam; nod, arwydd, arwyddyn, arwyddnod; ffordd, llwybr, gyrfa; adrywedd, edrywedd, trywedd, trywydd: *pl.* camrau.
To deface one's own footsteps—ymddïoli.
Footstool, *s.* troedfainc, lleithig, troedle, troedfa, mainc draed, ystol draed, ystol droed.
Foot-valve, *s.* pedfalog, pedgaffell, pedgloryn, troedgloryn, troedfalog.
Footwaling, *s.* y planciau tu mewn i long.
Fop, *s.* (Ysp. a Port. *guapo;* Ll. *vappa*) coegyn, ysgoegyn, ysgogyn, coegwr, dynyn coegfalch, dyn coegfalch, mursyn, mursen o ddyn, pertyn, pefryn, belchyn, gwas dillad, mursenwr, ffrilyn, bril, un rhy ddillyn.
Fopdoodle, *s.* ffrilyn, ffrityn.
Fopling, *s.* corgoegyn, crach goegyn; coegyn, ysgoegyn: *pl.* coegynach.
Foppery, *s.* coegyndod, ysgoegyndod, coegyniaeth, coegwriaeth, coegni, coegwychedd, coegwychder, coegedd, coegfalchedd, mursendod; ffoledd, ffolineb, ynfydrwydd, gofregedd, ffiloreg, coegffoledd.
Foppish, *a.* coegynaidd, ysgoegynaidd, coegaidd, coeg, coegwych, coegfalch, balch, mursynaidd, pefrynaidd, rhyddillyn, ysgoeg; ucheldybus, ucheldrem, trem-uchel, uchel ei drem.
Foppishness, *s.* coegvndod, ysgoegyndod, coegwychedd, coegwychder, coegeiddrwydd, coegyneiddrwydd, coegfalchder, coegfalchedd, coegedd, coegni, gwagedd, gwegi, coegwedd.
For, *prep.* (S. *for, fore;* Is. *voor;* Al. *für, vor;* Sw. *för;* D. *for, för*) am, o herwydd, herwydd, oherwydd, oblegid, o blegid, o achos, o ethryb, o blaid, erwydd, plegid, plygyd, o blygyd; tros, dros, er, i, idd, er mwyn, gân, cân, o, rhag; o ran, o du; yn lle; mewn perthynas i; gyda golwg ar; tuag at am; o barth, o barthed, parth; mâl, fâl, fel, megys; yn erbyn, erbyn; yn tueddu at; yn tywys at; tua lle; i le; gân mai, gân taw; gân nad yw ond; pan ystyrier; pan ystyrier mai; wrth, yn ol, yn nghyfer, ar gyfer, yn nghyferyd, cyferbyn â, gogyfer â, cyferyd â; serch; gyda; at.
For the sake of—er mwyn, er.
For his sake—er ei fwyn; er ei fwyn ef; ero, erddo, ero ef, erddo ef.
For her sake—er ei mwyn; er ei mwyn hi; erddi, eri.
For my sake—er fy mwyn; er fy mwyn i; erof, erddof, erddwyf.
For thy sake—er dy fwyn; er dy fwyn di; erot, erddot, erod.
For our sake—er ein mwyn; er ein mwyn ni; erom, erddom.
For your sake—er eich mwyn; er eich mwyn chwi; eroch, erddoch.
For their sake—er eu mwyn; er eu mwyn hwynt; erddynt, erynt, eront.
For God's sake—er mwyn Duw, er Duw.
For me—erof, erddof, erddwyf, erof fi, erddof fi, erddwyf fi; trosof, drosof, trosof fi; am danaf, am danaf fi; gyda golwg arnaf fi; tuag at am danaf fi.
For himself—drosto ei hun.
For nothing—am ddim; yn rhad.
For this cause—am hyn, er mwyn hyn, o herwydd hyn, oblegid hyn, o achos hyn, o blaid hyn.
For what cause?—am ba achos? pa ham?
For ever—byth, dros fyth, tros byth, yn dragywydd, yn oes oesoedd, byth bythoedd, hyd byth, hyd fyth, am byth, hyd dragywyddoldeb.
For less—am lai, er llai; yn rhatach.
For more—am fwy, er mwy, am ychwaneg, am ragor; yn ddrutach, yn britach.
For how much?—am ba faint? am ba gymmaint? er pa faint? er pa gymmaint? am faint?
For so much—er cymmaint; er cymmaint a hyny; am hyn a hyn; er hyn a hyn; er hyny o bris; er hyny o werth.
For the most part—gân mwyaf, yn amlaf, fynychaf, yn fynychaf, yn benaf; oddi eithr ychydig; agos.
For my part—o'm rhan i; am à berthyn i mi; am danaf fi.
For shame — rhag cywilydd; gân gywilydd.
Fie for shame!—ffei rhag cywilydd!
As for—am; o ran; gyda golwg ar; o barth, o barthed; o barthed i; mewn perthynas i; o berthynas i; yn nghylch; tuag at am.
As for me—o'm rhan i; am à berthyn i mi; am danaf fi.
As for that—am hyny; o ran hyny; serch hyny.
For want of—o eisieu, o ddiffyg; gân eisieu, gân ddiffyg.
For what—am, o ran.
For a year—dros flwyddyn; er ys blwyddyn.
For so many years—dros gynnifer o flyneddoedd.
For a while—dros ennyd, dros encyd; am ennyd; er ys talm.
For a great while—dros hir amser; am hir amser; tros hir ennyd.
For a little time—dros ychydig amser; am ychydig amser; dros ychydig; am ennyd, dros ennyd.
For a penny—am geiniog, er ceiniog.
For a shilling a day—er swllt y dydd; am swllt y dydd.
For all this—er hyn i gyd; er hyn oll; nid anllai; nid yn llai; eto; serch hyn i gyd.
For all that—er hyny i gyd, &c.
For all that he could ever say or do—er dim à allai efe ei ddywedyd neu wneuthur.
For this reason—er mwyn hyn; oblegid hyn, o herwydd hyn; o achos hyn;

ar gyfrif hyn; am hyn; am y rheswm hwn.
For fear—rhag ofn; gàn ofn.
For joy—o lawenydd; gàn lawenydd.
Good for the tooth-ache—da rhag y ddannodd; da rhag y ddeintwst.
Word for word—gair yn ngair; air yn ngair; gair am air.
To provide clothes for winter—darparu dillad erbyn y gauaf.
A pea for a bean—pysen am ffäen; pysen er ffäen; pysen dros ffäen.
For us men, and for our salvation—erom ni ddynion, ac er ein hiachawdwriaeth.
For certain—yn ddïau, yn ddilys, yn wir ddïau, yn ddiammheu; yn sicr; trwy brawf.
To hold for done — cyfrif fel wedi ei wneuthur; cyfrif wedi ei wneyd.
To take for granted—cymmeryd yn ganiataol; cymmeryd megys wedi ei ganiatäu; cymmeryd megys yr hyn a ganiatäwyd; cymmeryd yn lle gwir; cymmeryd megys peth cyfaddef; cymmeryd fel peth profedig; cymmeryd ar fod.
I took it for truth—mi a'i cymmerais yn lle gwir.
To believe for true—credu megys gwir.
To embrace for truth — cofleidio yn lle gwirionedd; cofleidio megys gwirionedd.
To lie for dead—gorwedd fel marw; gorwedd megys marw; gorwedd yn lle marw.
He trembles for fear—y mae efe yn crynu gàn ofn; y mae efe yn crynu rhag ofn.
He leaps for joy—mae efe yn llamu o *neu* gàn lawenydd.
He is ready to perish for thirst—y mae efe ar drengu gàn syched.
He died for hunger—bu farw o newyn; bu farw gàn newyn.
You may for me—gellwch o'm rhan i.
Nor indeed could she for age—ac ni allai chwaith o ran oedran.
For our sins—am ein pechodau; dros ein pechodau; o herwydd ein pechodau.
We are going for London—yr ydym yn myned i Lundain; yr ym yn myned tua Llundain; yr ydym yn myned am Lundain; yr ydym yn myned parth â Llundain.
Bound for London } rhwym i Lundain;
Bound to London, } rhwym am Lundain.
It is for the general good—y mae er lles y cyffredin; y mae er lles i bawb.
It is not for you to know—ni pherthyn i chwi wybod; nid yw yn perthyn i chwi wybod; nid yw yn gweddu i chwi wybod.
Is it for you to ravage sea and land?—ai addas, gweddus, *neu* gymhwys i chwi anrheithio môr a thir? ai i chwi y perthyn difrodi môr a thir?
It is expedient for you—buddiol yw i chwi.
Lawful for me—cyfreithlawn i mi.
To be for one, } bod yn barod i un.
To be ready for one, }
Behold, I am for you—wele fi yn barod i chwi; wele fi atoch.
I am for doing it—yr wyf am *neu* dros ei wneuthur.
For what concerns us—am à berthyn i ni; o ran à berthyn i ni.
For what remains—am y sydd yn ol.
He is for us—y mae efe o'n plaid *neu* o'n tu; mae efe gyda ni; y mae efe drosom; y mae efe erom ni.
God be with you—Duw ar eich rhan; bydded Duw o'ch rhan; Duw a fyddo gyda chwi; Duw gyda chwi.
If God be for us—os yw Duw trosom.
They have a law for it—y mae ganddynt gyfraith drosto; mae ganddynt gyfraith o'i blaid.
For that which we call virtue—dros yr hyn a alwn ni rhinwedd; o blaid *neu* o ran yr hyn a alwn ni rhinwedd.
For a bit of bread—am damaid o fara.
For what did you buy it? } am beth y pryn-
What did you buy it for? } asoch ef? am ba beth y prynasoch ef? er peth y prynasoch ef? am ba faint y prynasoch ef?
I cannot speak for weeping—nis gallaf lefaru gàn wylo.
I could not jest for concern of mind—nis gallwn gellwair gàn ofid, pryder, *neu* gythrudd meddwl.
He was a learned man for a Jew—yr oedd efe yn wr dysgedig gàn mai Iuddew ydoedd; yr oedd yn wr dysgedig gàn nad oedd ond Iuddew; yr oedd efe yn wr dysgedig ac yntau yn Iuddew; yr oedd efe yn wr dysgedig o Iuddew; yr oedd yn wr dysgedig âg ystyried mai Iuddew ydoedd.
He was a learned man for that age—gwr dysgedig ydoedd wrth yr oes hòno; gwr dysgedig ydoedd yn ol yr oes hòno; yr oedd efe yn wr dysgedig âg ystyried yr oes hòno; gwr dysgedig ydoedd, os ystyriwn yr oes yr oedd efe yn byw ynddi; gwr dysgedig ydoedd â'i fesur wrth yr oes hòno; yr oedd efe yn wr dysgedig o'i oes.
He was a generous man for his estate—gwr hael ydoedd yn ol ei gyllid; yr ydoedd efe yn wr hael gyferbyn â'i gyllid; yr ydoedd yn wr hael âg ystyried ei gyllid; yr oedd yn wr hael mewn cymhariaeth â'i feddiannau; yr oedd yn ddyn haelionus, os ystyriwn ei feddiannau; yr oedd yn ddyn hael wrth i ni ystyried ei gyllid; dyn hael oedd pan ystyrier ei gyllid.
She is tall for her age— mae hi yn dàl o'i hoedran; mae hi yn dàl o'i hoed; mae hi yn dàl gogyfer â'i hoed; mae hi yn dàl yn nghyfer ei hoed; mae hi yn dàl wrth ystyried ei hoedran.
He is a person of extensive knowledge for a mechanic—dyn helaeth ei wybodaeth ydyw ac yntau yn grefftwr; dyn helaeth ei wybodaeth ydyw pan ystyrier mai crefftwr yw; dyn helaeth ei wybodaeth ydyw pan ystyrier nad yw efe ond crefftwr.
For all they could say to the contrary—er dim à ddywedent i'r gwrthwyneb; er dim à ddywedent i'w erbyn.
For all the philosophers say—er à ddywed yr athronwyr; er dim à ddywed yr athronyddion; er dim à ddywedo *neu* à ddyweto yr athronyddion; dyweded yr athronwyr à ddywedont.

I know for certain—mi a ŵn yn dda ddigon; mi a ŵn yn ddilys.
For aught I see—er dim à welaf fi; am ddim à welaf fi.
For my life, } pe trigwn, pe trengwn;
For my heart, } pe bai fy mywyd arno; pe bai fy mywyd i arno.
I cannot, for my life, understand the man—nis gallaf, pe trigwn, ddeall y dyn.
For, for this cause—canys am hyn.
It is good for us—da yw i ni; mae yn dda i ni; da i ni yw.
Wait for it—dysgwyl am dani; dysgwyl wrthi *neu* wrtho.
For to see†—i weled; i gael gweled; er mwyn gweled.
For to be punished—i'w cospi.

For, *c.* canys; o blegid, oblegid, o herwydd, oherwydd, herwydd; o achos, o ethryb, erwydd, o blaid; gàn, can, cans, am; gwaith, o waith, o ran, yn gymmaint a.
For that—gàn, càn, am, yn gymmaint ag, yn gymmaint a, gwaith, o waith, waith, cyd.
For as much—yn gymmaint; gàn, càn, cyd, o herwydd, am.
For that thou hast done this—gàn i ti wneuthur hyn; càn i ti wneuthur hyn; am wneuthur o honot hyn; oherwydd, oblegid, *neu* o achos i ti wneuthur hyn; oherwydd gwneuthur o honot hyn; gàn wneuthur o honot hyn.
For why — canys, cans, am, oherwydd; o herwydd pa ham; o waith pa ham; gwaith pa ham; am y rheswm hyn; am hyn o reswm. [*gwrth.*

For, rhagddawd yn dynodi, *yn erbyn, erbyn,*

Forage, *s.* (*Ff. fourrage*) gogor, gogawr, ebran, porthiant, porthiant anifeiliaid, ysborthion; gogoriaeth, gogoriad; gogorgais; ymchwil am ogor *neu* borthiant.

Forage, *v.* hela, hely, hel, cynnull, *neu* ysglyfio gogor; gogorgeisio, ysborthgeisio, gogorhela, gogorgrwydro, porthgeisio; chwilio am ogor; myned i geisio ysborthion; darymred am ogor *neu* ebran; casglu *neu* gynnull porthiant; ymbori; anrheithio, difrodi, ysglyfio, ysbeilio; difrodi o ogor; †crwydro, gwibio.

Forager, *s.* gogorgeisiwr, ysborthwr, ysborthgeisiwr, porthgeisydd, beliwr gogor, gogorheliwr; arlwywr *neu* ddarmerthwr ysborthion; ysborthwr, ebranwr; ysglyfiwr, ysbeiliwr, anrheithiwr.

Foraging, *a.* gogorgeisiol, gogorwibiol, ysborthgeisiol; yn chwilio *neu* geisio gogor.

Foraging, *s.* gogorgyrch, gogorgais, gogorgeisiad, ysborthgeisiad, gogorwibiad, heliad gogor, darymrediad am ebran; hynt i geisio gogor.

Foramen, *s.* (Ll.) twll, gorel, agoriad, ag, tyllan, twll bychan.

Foraminated, *a.* mandyllog, tyllanog.

Foraminifer, *s.* (Ll. *foramen* a *fero*) gorelfil.

Foraminifera, } *s. pl.* gorelfilod, gorelgregyn.
Foraminifers, }

Foraminiferous, *a.* gorelfilaidd, gorelfilodaidd; perthynol i'r gorelfilod.

Foraminous, *a.* (Ll. *foraminosus*) tyllog, trydyllog, amrydwl, amdwll, llawn tyllau.

Forasmuch, *c.* (*for as much*) yn gymmaint; gàn, càn, cyd, o herwydd, am.

Forbathe,† *v. a.* (o *bathe*) trochi.

Forbear, *v.* (S. *forberan; for* a *bear*) peidio, peidio â, arbed, ymarbed, ymgadw, ymattal, dysbeidio, attal, ymaröi, gadael, gadaw, arbeidio, ysbeidio; oedi, addoedi; eiriach; toli, tolio; rhoi heibio, gadael heibio; gwrthod, pallu; ymgadw rhag, ymattal rhag; gochel, gochelyd; cadw rhag; cadw oddi wrth; ymgynnal; goddef, dyoddef; ymoddef, cydoddef, cyd-ddwyn, ymaros; cydddwyn âg, ymoddef âg, ymaros âg; bod yn ddyoddefgar; cymmeryd amynedd; dwyn yn amyneddgar; dirwestu. [llefain.
Forbear to cry—paid à llefain; taw à
To forbear working—peidio à gweithio; bod heb weithio.
Forbear thee from meddling with God—paid di à Duw.
To forbear to do a thing, } peidio à
To forbear from doing a thing, } gwneuthur peth; rhoi peth heibio; gadael peth heibio.
Forbearing threatening—gàn roi bwgwth heibio.
Forbearing one another in love — gàn oddef eich gilydd mewn cariad.
I was weary with forbearing—mi a flinais yn ymattal (*Jer.* xx. 9).

Forbearance, *s.* peidiad, ymarbed, ymattal, ymattaliad, ymbaid, dysbaid, peidiant, palliad; cyd-ddygiad, cydoddefiad, ymaros, goddefgarwch, dyoddefgarwch, goddef, ymoddef, goddefedd, amynedd, hir-amynedd, hir-ymaros, gorthaw.
Forbearance is no acquittance—ni thawdd dyled er ei haros; ni hena hawl er ei hoedi.

Forbearer, *s.* peidiwr, attaliwr, gwarddwr.

Forbearing, *a.* ymaröus, amyneddgar, amyneddus, ymoddefol, ymarosol, hir-oddefus, hir-amyneddus, hir-ymaröus; hir ei ymaros; da ei amynedd.

Forbearing, *s.* peidiad, ymattaliad, ymarbediad; goddefiad, ymoddefiad, hir-ymaros, hir-amynedd, amynedd, hir-oddef, ymaros.
By long forbearing is a prince persuaded—trwy hir-ymaros y boddlonir pendefig (*Diar.* xxv. 15).

Forbid, *v.* (*for* a *bid; S. forbeodan; Al. verbieten; D. forbyder*) gwahardd, gwarafun, gwardd, gwaharddu, gwarddu, gorafun, gwarafuno; gwahardd i, gwarafun i, lluddiaw, lluddio, llesteirio, llestair, hybu, gomedd, gwthio; gorchymyn nas gwneler; attal, rhwystro, dyor.
God forbid—na ato Duw; na adawo Duw; nas gato Duw; na aded Duw; na adawed Duw.
God forbid that I should do so—na ato Duw i mi wneuthur felly.
I forbade him the house—gwaherddais y ty iddo.
He forbade the banns—efe a waharddodd y gostegion.
You are forbidden—nid oes lle i chwi; nid rhydd i chwi; gwaherddir chwi; gwarafunir i chwi.
Neither do I think myself forbidden to do it—ac nid wyf chwaith yn tybied y'm gwaherddir i'w wneuthur; ac nid wyf ychwaith yn tybied y gwaherddir imi ei wneuthur.

It is forbidden by the law—fe'i gwaherddir gàn y gyfraith ; gwaherddir e gàn y gyfraith ; y mae yn waharddedig wrth y gyfraith.

No man forbidding him—yn ddiwahardd (*Act.* xxviii. 31); a neb yn ei wahardd ; heb neb yn ei wahardd.

Forbiddance, *s.* (o *forbid*) gwahardd, gwardd, gwaharddiad, gwaharddiaeth, gwahardded-igaeth, gwarddedigaeth, gwarafun, gwarafuniaeth, gwarafuniad, attaliad, lluddias.

Forbiddenness,† *s.* gwarddedigrwydd, gwa-harddedigrwydd.

Forbidder, *s.* gwaharddwr, gwarddwr, gwarafunwr, gwarafunydd, gwaherddydd, gomeddwr, llyswr.

Forbidding, *a.* gwaharddol, gwarddol, gwarafunol, gorafunol, gwarddedigol, gwahardd-edigol ; à waharddo, à warafuno, yn gwardd, yn gwarafun ; anhygar, anhawddgar, cas, anhyfryd, gwrthwyneblyd ; ysgethin, gwthrus, gwrthrus, sarig ; hyll, cuchiog ; yn dàl draw ; yn attal dynesu ato.

Forbidding aspect — rhagyrwedd ; gwedd waharddol, gwedd anhygar, &c.

Forbidding, *s.* gwaharddiad, gwarddiad, gwarafuniad, gwardd, gwahardd, rhwystr, llestair, lluddias, gwrthwynebiad.

Force, *s.* (Ff.; Ll. *fortis*) grym, gallu, nerth, galluedd, yni, cryfder, egni, nerthineb, nerth-oldeb, grymusder, grymusdra, grymder ; angerdd, tanbeidrwydd, angerddoldeb, cadernid, tryn, tren, craid, terwynder ; rhysgyr, rhuthr, trais, gormes, cyrch, gorthrech, gyr, gorfod, gorfodaeth, dir, dirni, rhab, ymwr, llathryd, treisiant, cymhell ; rhaid, rheid-rwydd, angenrheidrwydd ; pwys, dwysder ; rhinwedd, effaith, effeithioldeb, gweithrediad ; digoniant ; cadlu, cattorf, cattyrfa, cattorfa, llueddawd, llüyddawd, cadleng, cadallu, llu, byddin, nifer.

Forces—cadluoedd, cattorfoedd, cattyrfaoedd, cattorfaoedd, cadalluoedd, cadlengau, cadrymoedd, galluoedd, byddinoedd, milwyr.

United forces—cyfluoedd, cydalluoedd.

Moving force, } Motive force, } ysgogrym, grym ysgogol.

Projectile force—tafirym, tafinerth, tawl-nerth, tawlrym, blifrym.

Centrifugal force — grym canolffo, gallu canolffo, grym creiddffoawl, grym canol-ffoawl, grym esgreiddiol ; y gallu sy'n ffoi, tynu, *neu* yru oddi wrth y canolbwynt.

Centripetal force—grym canolgyrch, grym canolgais, gallu canolgyrch, grym creidd-gyrch ; y gallu sy'n tynu tuag at y canol-bwynt.

Physical force—grym anianyddol, gallu anianol ; nerth braich ac ysgwydd ; gorfodaeth.

Moral force—grym moesol, moesrym.

Mechanical force—grym gallofyddol.

Equal force—cyfrym, grym cyfartal, cyf-allu.

By force—trwy drais ; trwy gryfder, wrth gryfder ; o anfodd.

To be of force—bod o rym, o nerth, o allu, o bwys, o awdurdod, *neu* o alluedd ; bod â grym, nerth, *neu* allu ganddo ; bod mewn bri, parch, *neu* gymmeriad ; bod mewn grym *neu* nerth.

To be of equal force with another—bod yn gyfallu âg arall ; bod yn gymmaint ei nerth ag arall.

Of great force—mawr ei rym, ei allu, ei nerth, ei gryfder, *neu* ei rinwedd ; o rym mawr ; o allu mawr ; grymus, nerthog, nerthfawr, galluog, grymus, grym.

Of small force—bychan ei rym, ei allu, ei nerth, ei gryfder, *neu* ei rinwedd ; o fychan *neu* ychydig rym ; o fychan *neu* ychydig allu ; bychan o nerth ; bychan o rym ; analluog, annerthog, egwan ; ysgafn.

Without force—dirym, dinerth, dïallu, dï-effaith.

Of more force—mwy ei rym, ei allu, *neu* ei nerth ; o chwaneg rym, nerth, *neu* allu ; mwy grymus, mwy galluog, mwy nerthog ; grymach, grymusach, galluocach, nerthocach.

Of force, } Upon force, } o angenrheidrwydd, o reidrwydd, o raid ; trwy gymhell, trwy orfod, o orfod, trwy rym.

By main force—o wir drais ; trwy wir drais ; trwy ddirdra ; o lwyr anfodd ; o anfodd ei galon ; trwy wir gryfder ; trwy nerth arfau ; trwy rym arfau ; trwy nerth braich ac ysgwydd.

By open force — trwy drais cyhoeddog ; trwy gyrch cyhoeddog ; trwy ruthr cyhoeddog.

To assault by open force — gwneuthur *neu* ddwyn cyrch cyhoedd ar ; gwneuthur *neu* ddwyn rhuthr cyhoedd ar ; gwneuthur cyrch cyhoeddog ; ymosod *neu* ymladd yn erbyn âg arfau.

With all one's force—â'i holl egni ; â'i holl rym ; â'i holl allu ; nerth braich ac ysgwydd.

To lose force—gwanhau, gwanychu, trycio, colli grym, colli nerth.

By force of arms—trwy rym arfau ; trwy nerth arfau ; trwy waith arfau.

By force and power—trwy fraich a chryfder.

To take by force—cipio, ysgipio, ysglyfio, ysgylfu ; dwyn trwy drais ; dwyn o drais ; dwyn *neu* gipio ymaith trwy drais ; dwyn oddi ar un trwy drais ; dwyn yn llathlud, dwyn i lathlud, dwyn i lathryd ; ennill trwy nerth *neu* gryfder ; goresgyn trwy nerth *neu* gryfder.

The force of a sea-wave—rhysgyr morwaneg.

With a force superior to theirs—â nifer lluosocach na'u heiddo hwynt. [au.

By the force of thunders—trwy egni taran-

The fire had more force in the water—y tân oedd yn gweithio fwyfwy yn y dwfr (*Doeth.* xvi. 17).

Force, *v.* cymhell, dirgymhell, gyru, dirio, gwthio, hyrddu, hyrddio, gyrthio, dyru, trechu, gorthrechu, gorfodi, gorfod, peri ; treisio, llathruddo, llathrydo ; dwyn trais ar ; gwneuthur gwaith anfodd ar ; goresgyn ; ennill *neu* oresgyn trwy gryfder ; mynu ; dirdynu, gwyrdröi ; dirwasgu, gwasgu ; egnïo ; taro ; rhabu.

To force back—gyru *neu* wthio yn ol.

To force down—gyru *neu* wthio i lawr.

To force in—gyru *neu* wthio i mewn ; gwthio i fewn.

To force out—gyru, gwthio, hyrddu, *neu* hyrddio allan; eigian; mynu allan.

To force one's self against—ymegnïo, ymwthio, ymhyrddu, *neu* ymhyrddio yn erbyn.

To force one's self to do a thing—dwyn ei hun o lettrais *neu* o led anfodd i wneuthur peth; dwyn ei hun drwy fawr-boen i wneuthur peth; dwyn ei hun o'r braidd i wneyd peth; anturio.

To force all one's skill—ymegnïo trwy ei gelfyddyd; rhoi *neu* osod ei gelfyddyd ar waith; gwneuthur ei oreu.

To force land — tragwrteithio tir, trachymhell tir, cymhell tir, dirgymhell tir, tra thrwsio tir, treisffrwythloni tir.

To force out of one's hand—gwasgu allan o law un; dwyn drwy drais oddi ar un.

To force a trade—ymwthio i gymeriaeth; tynu *neu* ennill cymeriaeth trwy ddiwydrwydd; peri i'w grefft ffynnu, blodeuo, llwyddo, *neu* gynnyddu drwy gais ac ymroad.

To force a trench—tori *neu* ruthro i argae cadernid; tori trwy wrthglawdd; tori trwy nerth i amddiffynfa; tori gwrthglawdd drwodd.

To force a word—gwyrdröi gair; gwyrdröi ystyr gair; dirdynu *neu* wyrgamu gair; rhoi i air ryw ystyr dyeithr ac annaturiol.

To force meat — secu, sechu, tynlenwi, sachu, *neu* sagio cig.

To force plants—cymhell, dirio, *neu* brysuro planigion; geuffaethu planigion; prysuro twf llysiau á gwres celfyddydol.

To force wine—brysderu gwin; cymhell gwin; arfer dull byr ar buro gwin.

To be forced to do a thing—gorfod ar un wneuthur peth; bod gorfod ar un wneuthur peth.

Force not the stream—nac ymegnïa yn erbyn y ffrwd.

If thou hast been forced to eat—os gorfu arnat fwyta.

Forced, *a.* cymhelledig, &c.; annaturiol, celfyddydol; coeg, coegaidd; afrwydd, trathyn; pellgyrch; à gyrchwyd o bell; rhy gywrain, rhy ddillyn; gwyrgam.

Forced expression—ymadrodd annaturiol, cymhelledig, *neu* wyrdröedig; ymadrodd pellgyrch; ymadrodd à gyrchwyd o bell.

Forced put — gwaith cymhell, gorchwyl cymhell, cymhellwaith; yr hyn à wnel un o'i anfodd; yr hyn y gorfydd ar un ei wneuthur; gwaith gorfod, gorfodwaith.

Forcedness, *s.* cymhelledigrwydd; annaturioldeb, annaturiolrwydd; pellgyrchedd; gwyrdroad, trawswyrad, gwyrgamiad, gwyrgemi, gwyrgamrwydd.

Forceful, *a.* nerthlawn, nerthfawr, nerthog, grymus, grymlawn, grymfawr, egnïol; angerddol, ffrychwyllt.

Forceless, *a.* dinerth, dirym, gwan, egwan, anegnïol, diallu.

Forcemeat, *s.* (*force* a *meat*) segfwyd, chwaethfwyd.

Forceps, *s.* (Ll.) gefail, gefail llawfeddyg.

Forcer, *s.* (o *force*) cymhellydd, cymhellwr, diriwr, gwthiwr, gwthiedydd; syflath, gorfodlath.

Forcible, *a.* (o *force*) grymus, nerthog, nerthol, cryf, cadarn, hyrym, hynerth, galluog, grym, grymiol; effeithiol; egnïol, angerddol, erthol; treisiol, gorfodol, gorthrechol.

How forcible are right words!—mor gryfion yw geiriau uniondeb!

Forcibleness, *s.* grymusder, grymusedd, grymusdra, nerthogrwydd, nerthineb, nertholdeb, cryfder, cadernid, hyrymedd, grymder, grymedd; grym, nerth, yni, egni; angerddoldeb.

Forcibly, *ad.* yn rymus, &c.; trwy nerth, trwy gryfder, wrth gryfder, trwy drais.

Forcing, *s.* cymhelliad, gyriad, gwthiad, diriad, dyriad, pestawd; prysurad; geuffaethiad; brysderad, bryagoethiad.

Forcing-pump, } *s.* sugnedydd gwthiol, sugnai
Force-pump, } gyrthiol, sugnell ddyrol, sugnedydd dyrawr.

Forcipated, *a.* (o *forceps*) gefeilaidd, gefeiliog, gwrthrimynaidd; ar ddull gefail; fel crafangau ceimwch.

Forcipation, *s.* (o *forceps*) gefeiliad, gwrthrimyniad; gwasgiad á gefail *neu* wrthrimyn.

Ford, *s.* (S. *ford, fyrd;* Al. *furt*) rhyd, rhydle, bais, llaered, basle; ffrwd, afon, cerhynt.

Rippling ford—caregryd, rhyd garegog.

Full of fords — rhydiog, beisiog, llawn rhydau.

Ford, *v. a.* rhydio, beisio, arfeisio; myned drwy y rhyd; croesi y rhyd.

Fordable, *a.* rhydiol, beisiol, hyryd, hyfais, rhydadwy, beisiadwy; á ellir ei rydio.

Not fordable—anhyryd, anhyfais, afrydiol; nas gellir ei rydio.

Fordo, } † *v. a.* (S. *fordon; for* a *do*) dinystr-
Foredo, } io, dinystro, dystrywio, dyfetha; blino, gorweithio.

Fore, *a.* (S. *fore, foran;* D. *for;* Al. *vor;* Is. *voor*) blaen; blaenaf; cyntaf; blaenorol, rhagflaenol, blaenol, rhagflynedol, rhagredol; rhagfed; blaenllaw.

Fore part—pen blaen, pen blaenaf, rhan flaen, rhan flaenaf; dechreu.

It presses more on the fore than hind part—y mae yn gwasgu mwy ar y pen blaen nag ar y pen ol.

Fore, *ad.* yn mlaen, yn mlaen llaw; yn y pen blaen; yn mlaenaf.

Fore and aft—blaen ac ol; yn mlaen ac yn ol; yn ol ac yn mlaen.

Fore, rhagddawd yn dynodi *rhag, blaen, rhac, cyn; yn mlaen, yn mlaen llaw, yn mlaenllaw, o'r blaen, o flaen.*

Foreadmonish, *v. a.* rhagrybuddio; rhybuddio yn mlaen llaw; rhybuddio yn mlaen; rhybuddiaw o'r blaen.

Foreadvice, *v. a.* rhaggynghori, rhagannog; cynghori yn mlaen llaw; cynghori o'r blaen; rhagrybuddio.

Foreallege, *v. a.* rhaghoni, rhaghaeru, rhagwirio, rhagsicrhau, cynnadgan; rhagddyfynu, rhagwysio, cynwysio.

Foreappoint, *v. a.* rhagosod, rhagbenodi, rhagbenu, rhagderfynu, rhaglunio, rhagarfaethu, cynarfaethu; gosod yn mlaen llaw; gosod o'r blaen.

Foreappointment, *s.* rhagosodiad, rhagbenodiad, rhagbeniad, rhagderfyniad, rhaglunaid, rhagluniaethad, rhagarfaethiad, cynarfaethiad; gosodiad yn mlaen llaw.

Forearm, *v. a.* rhagarfogi, cynarfogi, blaenarf-

ogl; arfogi *neu* arfu yn mlaen llaw; arfogaethu o'r blaen.
Forewarned forearmed — arfog â gaffo rybudd.
Forearm, *s.* cynfraich, rhagfraich, blaenfraich, iselin; y fraich o'r penelin i'r arddwrn.
Forebelief, *s.* rhaggred, rhaggrediniaeth, blaengred, crediniaeth flaenorol.
Forebode, *v. a.* darogan, daroganu, rhagfynegu, rhagddangos, rhagargoeli, rhagargoelio, rhagwybod, rhagddewinio, rhagfrudio, rhagarwyddo, darmain, arddarmain, aroganu, dysgogan, dysgoganu, rhagddywedyd, dewindebu.
Foreboding token—argoel, rhagargoel, rhagarwydd, rhamant.
Forebodement, } *s.* daroganiad, rhagfynegiad,
Foreboding, } rhagddangosiad; darogan, rhagargoel, rhagarwydd, darmain, armes, argoel, rhamant, arwydd, arddarmain, dewiniaeth, dewiniad.
Foreboder, *s.* daroganwr, darogenydd, rhagargoeliwr, daroganwr, dysgogenydd, rhagfynegwr, dewin, dewinwr, rhagwybedydd.
Forebowline, *s.* rhaghwylraff, rhaghwylreffyn; rhaff y gynhwyl, rhaff yr hwyl flaen.
Forebrace, *s.* rhagrwym, rhagleg, rhaglegr, rhagraff; rhaff braich y drawslath.
Forecast, *v.* rhagweled, rhagganfod, rhagddyfeisio, rhagystyried, rhagddarbod, rhagddarbodi, rhaglunio, cynllunio, rhagfwrw, rhagddychymygu, rhagfwriadu, rhagarfaethu, rhagddarparu, rhagarparu, rhagddarmerthu, rhagarmerthu, rhagsynied, rhagsynio, rhagflaenu, rhagarganfod; darbod; dyfeisio *neu* lunio yn mlaen llaw; darogan.
Forecast, *s.* rhagddyfais, rhagfwriad, rhaglunïad, rhagddychymyg, rhagddarbod, rhagddarbodaeth, rhagddarpar, rhagddarpariad, rhagddarpariaeth, rhagarmerth, rhagddarmerth, darbodaeth, rhagfyfyr, rhagweliad, rhagweledïad, rhagwel, rhaglyd, cynwelwg.
Of great forecast—darbodus, darbodfawr, rhagddarbodus, rhagddarparus; mawr ei ddarbodaeth, ei ddyfais, *neu* ei ddychymyg; â chrych o'i flaen.
Forecaster, *s.* rhagddyfeisiwr, rhagddyfeisydd, rhagluniwr, rhagwelwr, rhagweledydd, rhagddarbodwr.
Forecastle, *s.* ffluregfwrdd, blaen llong, pen blaen llong; fflureg.
Forecatharpings, *s. pl.* cymhlethraffau, rhagblethraffau.
Forechosen, *a.* rhagetholedig, rhagddewisedig, cynetholedig, rhagddewisol, rhagddethol; etholedig yn mlaen llaw.
Forecited, *a.* rhagddyfynedig, rhagwysiedig, rhaggrybwylledig, rhagenwedig; rhagbenodedig.
Foreclose, *v. a.* cau i fyny; rhaggau, rhaccau, argau, rhaggauad, rhagod, rhagodi, rhwystro, gwarchau, rhagattal, rhagrwystro, rhagluddio, attal, rhagflaenu; cau allan.
To foreclose a mortgage — rhaggau tirwystl; tori ymaith y fraint i ollwng gwystloriaeth; priodoli tir ar wystl.
Foreclosure, *s.* rhaggauad, rhagattaliad, rhagodiad, rhagflaeniad, rhagiad, rhwystrad, rhagwarchau, rhagwarchae; cauad allan; rhagrwystrad gwystlwr i ddadwystlo tir.
Foreconceive, *v. a.* rhagdybied, rhagdybio, rhagsynied, rhagddirnad, rhagddcall, rhagfyfyrio, rhagfwriadu, rhagfarnu, rhagfeddwl, cynbwyllo; tybied yn mlaen llaw.
Foredate, *v. a.* rhagddyddio, rhagddyddnodi, rhagamseru, blaenamseru; dyddio *neu* amsernodi yn mlaen llaw; dyddio cyn y gwir amser.
Foredeck, *s.* rhaglofft llong, llofft y ffluregl blaen llong; blaen bwrdd llong; arfwrdd blaen llong, bwrdd blaen.
Foredesign, *v. a.* rhagfwriadu, rhagamcanu, rhagarfaethu, rhagfeddylied, rhagarfelu.
Foredetermine, *v. a.* rhagbenderfynu, rhagderfynu, rhagarfaethu, rhagfwriadu.
Foredo, *v. a.* rhagwneuthur, rhagwneyd; gwneuthur yn mlaen llaw.
Foredoom, *v. a.* rhagddyfarnu, rhagddedfrydu, rhagfarnu, rhagfwrw, rhagarfaethu, rhaglunïaethu, rhaglunio.
Foredoom, *s.* rhagddedfryd, rhagreithfarn, rhagddyfarn, cynddedfryd, rhagdwng, rhagdynged, cynnedfryd, barn flaenorol.
Foredoor, *s.* rhagddor, cynddor, rhagddrws, talddrws, talddor, wynebddor, drws wyneb, drws yr wyneb.
Fore-end, *s.* blaen, pen blaen, pen blaenaf, rhagben, rhagflaen.
Forefather, *s.* cyndad, hendad, hynafiad, hynaf: *pl.* cyndadau, hen deidiau, hendeidiau, hen dadau, tadau, hynafiaid, hynaif, henafiaid, hyneifiaid, y tadau gynt.
Nor the offences of our forefathers—nac anwiredd ein rhieni.
Forefend, *v. a.* rhwystro, rhagod, rhagodi, lluddias, dyor, attal; cadw draw, cadw rhag, troi heibio, cadw oddi wrth; rhagflaenu; diogelu, noddi, amddiffyn, diffynu, cadw, rhagddiogelu; gwahardd, gwardd¶ diogelu yn mlaen llaw.
Heavens forefend!—nawdd Duw rhagddo! cadwed *neu* amddiffyned Duw ni! y nef a'n gwaredo!
Forefinger, *s.* mynegfys, mynagfys, bys blaen, gorfys, rhagfys, bys yr uwd, uwd-fys.
Foreflow, *v. a.* rhaglifo, rhaglifeirio, rhagddylifo, rhagredeg; llifo yn mlaen.
Forefoot, *s.* troed blaen; palf, pawen.
The forefoot—y troed blaen, y blaendroed: *pl.* y traed blaen.
Forefront, *s.* pen blaen, pen blaenaf, tu blaen, tâl, talcen, gwyneb, blaenwyneb, rhagwedd.
Forefront of a house—wyneb ty, tâl ty.
In the forefront of the hottest battle—ar gyfer wyneb y rhyfelwyr glewaf (2 *Sam.* xi. 15).
Foregame, *s.* rhagware, cynchware, blaenchware, chware cyntaf, dechreu chware; rhaggynllun.
Foreganger, *s.* rhaff tryfer.
Forego, *v. a.* gadael, gadaw, gadu, gado, ymadael â, ymwrthod â, gwrthod; rhoi i fyny; gollwng *neu* adael i fyned; ymgadw *neu* ymattal rhag; ymattal *neu* ymgadw oddi wrth; ymbeidio â, peidio â; bod yn ddïymyr â; colli; rhagfyned, rhagflaenu; gollwng gafael.
To forego one's right—ymadael *neu* ymwrthod â'i iawn.
To forego one's claim—gadael ei hawl; ymadael â'i hawl; ymwrthod â'i hawl; cilio yn ei gwyn.
I will forego you for the futuro--ni bydd i mi â wnelwyf â chwi mwyach; rhid ym-

yraf â chwi mwyach; ni bydd i mi ymyr â chwi mwyach.

Foregoer, *s.* rhagflaenwr, rhagflaenydd, rhagflaenor, rhagflynedydd, rhagflynedwr, blaenor, blaenwr, blaenred; à ei o flaen un; ymadawydd, ymwrthodydd, ymwrthodwr, ymadwr; †hynafiad, hynaf.

Foregoing, *a.* blaenorol, rhagflaenorol, rhagflaenol, blaenol, blaenfed, rhagflynedol; â aeth o'r blaen; yn rhagflaenu.

Foreground, *s.* rhaglawr, rhagfaes, rhagdir, cynbarth, parth blaen, tir blaen, tu blaen.

Foreguess, *v. a.* rhagddyfalu, dyfalu, dychymygu, rhagamcanu, dewinio, rhagddewinio, darogan, bwrw amcan.

Forehand, *s.* pen blaen; rhan benaf.

Forehand, *a.* blaenllaw.

Forehanded, *a.* blaenllaw, cynnar, cynnarol, amserol, tymmoraidd, prydlawn, rhagamserol; boreuol; lluniedig yn y pen blaen; blaenlluniaidd.

He is a forehanded man—y mae efe yn blaenllaw â'r byd.

A well forehanded beast—anifail lluniaidd ei ben blaen; anifail lluniaidd yn ei ben blaen; anifail gwiwlun ei ranau blaen.

Forehead, *s.* talcen, tâl; talgryfder, digywilydd-dra, haerllugrwydd.

Having a high forehead, } talog, talcenog,
Having a large forehead, } talfawr, talcenfawr, taluchel.

Forehead-band, } talaith, talrwym, talre,
Forehead-cloth, } tal-lian; rhactal.

The middle of the forehead—cnewullyn y talcen; cnewullyn y tâl.

Forehead-bald, *a.* talfoel, rhagfoel, talcenfoel.

Forehear, *v. n.* rhagglywed; clywed yn blaen

Forehend,† *v. a.* dâl, ymafyd yn. [llaw.

Forehew, *v. a.* rhagnaddu, rhagdori, rhaggymmynu.

Foreholding, *s.* daroganau, argoelion, rhagargoelion, rhagfynegion, rhagddaroganau, rhagfynegiadau ofergoelus.

Forehook, *s.* rhagfach; bronfach.

Forehorse, *s.* ceffyl blaen, march blaen, blaenfarch, rhagfarch.

Foreign, *a.* (*Ff. forain; Norm. forein*) tramor, estronol, estronaidd, estron, alltud, alltudaidd, allfro, arallfro, allfroawl, arallwlad, allwlad, allwladol, allmyr, tramorol, allfan; o wlad arall; pellenig, pellynig, pell; dyeithr; anmherthynol, anmherthynus, anmherthynasol, anneiryd, diberthynas; allanol, allanaidd; estronog, estronig.

Foreign countries — gwledydd tramor, gwledydd pell, gorwledydd, gwledydd pellenig, gwledydd dyeithr, arallwledydd, allwledydd, gwledydd estronol, estron wledydd, dyeithr wledydd, arallfröydd, allfröydd.

Foreign things—tramorolion, tramorediglon, tramorion, allfanigion, pellenigion; pethau tramor, &c.

Foreign nation—cenedl estronol, cenedl estron, estron genedl, cenel dramor.

Foreign forces—cadluoedd tramor, cadalluoedd estronol, lluoedd dyeithr.

Foreign tongue — estroniaith, alliaith, iaith estronol, &c.

Foreign to the subject—anghyfachos; anneiryd i'r pwnc; anmherthynasol *neu* anmhriodol i'r pwnc.

This is quite foreign to the present purpose—ni ddeiryd *neu* ni pherthyn hyn yn y mesur lleiaf i'r mater mewn llaw; y mae hyn yn gwbl ddyeithr i'r amcan presennol; y mae hyn yn hollol ddyeithr i'n hamcan presennol.

Foreign-built, *a.* adeiledig mewn gwlad dramor.

Foreigner, *s.* (o *foreign*) estron, estronwr, allwladwr, tramorwr, alltud, gorwladwr, alltrawd, allwlad, dyeithr, dyeithrad, un dyeithr, dyeithryn, dyeithr ddyn, adfan, eithrad, dyfodiad, gwr dyfod, dyn dyfod, un arallfro, un o wlad arall, dyn pellenig, dyn o wlad bell; allta, adfel, athlaw: *f.* estrones, alltudes, alltrodes, gorwlades, dyeithres, adfanes, gwraig allfro: *pl.* estroniaid, estronwyr, allwladiaid, allwladwyr, gorwladwyr, alltrodion, dyeithriaid, eithraid, edfyn, dyfodiaid.

Foreignness, *s.* tramoroldeb, tramorolrwydd, tramoredd, estronoldeb, estronogrwydd, dyeithrwch, allwladwch, pellder, pellenigrwydd, pellrwydd; anneirydedd, anmherthynedd, anmherthynoldeb.

Fore-imagine, *v. a.* rhagdybied, rhagdybio, rhagfeddylio, rhagfeddylied, rhagddychymyg, rhagddyfalu.

Forejudge, *v. a.* rhagfarnu; barnu yn blaen llaw; rhoi barn cyn gwrandaw y chwedl; barnu o flaen yr hwn y perthyn iddo farnu; deol o'r llys am gamymddygiad *neu* am wall ymddangosiad.

Forejudger, *s.* rhagfarniad, blaenfarn, cynfarn; barn yn blaen llaw.

Forejudgment, *s.* rhagfrawd, rhagfarn, rhagfarniad; barn gyfrwng cyn y frawd eithaf.

Foreknow, *v. a.* rhagwybod, rhagddeall; gwybod *neu* ddeall yn blaen llaw.

Foreknowable, *a.* rhagwybodadwy; â ellir ei ragwybod.

Foreknower, *s.* rhagwybodydd, rhagwybodydd, rhagwybodwr; un â wypo beth cyn y del.

Foreknowing, *p.* rhagwybodol, rhagwybodus, rhagddeallus.

Foreknowledge, *s.* rhagwybodaeth, rhagwybod, rhagddeall, rhagadnabod, cynwybodaeth.

Forel, *s.* math o femrwn i glorio llyfrau; florel.

Foreland, *s.* pentir, penryn, penarth, peniarth, penardd, morben.

The North and South Foreland (in Kent)—y Pentir Gogleddol a Deheuol.

Forelay, *v. a.* cynllwyn, cynllwyno, rhagodi, rhagod, cyfragod; dâl mewn cynllwyn *neu* fagl; cynllwyn i *neu* am; rhagddyfeisio.

Foreleader, *s.* rhagflaenor, rhagarweinydd, rhagarweiniwr; un â arweinio ereill â'i anghraifft.

Forelend, *v. a.* rhagechwyna, rhagfenthycio, rhagroddi; rhoi echwyn *neu* fenthyg yn blaen llaw.

Forelift, *v. a.* rhagddyrchafu, rhagddyrchu, rhaggodi; codi pen blaen.

Forelock, *s.* talgudyn, rhaglofnyn, rhaglofn, taldrwch, rhaggudyn, blaengudyn, cudyn talcen; rhaglettem.

Forelocks — rhaglettemau; llafn-binau â yrir drwy benau byllt i'w cadw rhag neidio allan o'u tyllau.

To take time by the forelock—achub yr adeg; brysio; prynu yr amser.

Forelook, *v. a.* rhagedrych, rhagwyllu, rhag-

dremlo, rhagdremu; edrych yn mlaen; syllu yn mlaen llaw.

Foreman, *s.* blaenor; hyfforddwr, cyfarwyddwr, cyfarwyddydd; pengweithiwr, prifweithiwr.

Foreman of the jury—penrheithiwr, pen y rheithwyr, blaenor rhaith, blaenor y rheithwyr, pen y rhaith.

Foremast, *s.* rhaghwylbren, rhaghwyliar, rhagwernen llong, hwylbren blaen, hwylbren blaenaf, gwernen flaen.

Foremeant, *a.* rhagdybiedig, rhagfeddyliedig.

Forementioned, *a.* rhaggrybwylledig, rhagenwedig, rhagddywededig, rhagwededig, rhagsoniedig; crybwylledig; à grybwyllwyd o'r blaen.

Foremost, *a.* blaenaf; penaf; rhagfed; nesaf yn mlaen.

Foremost, *ad.* yn flaen, yn mlaenaf; yn benaf.

First and foremost—yn benaf a blaenaf; yn gyntaf dim; yn gyntaf oll; yn mlaenaf dim; yn mlaenaf oll; yn flaenaf oll; yn flaenaf dim; yn gyntaf, yn flaenaf, yn mlaenaf.

To go foremost — myned yn mlaenaf; myned yn flaenaf; blaenu.

With his head foremost—yn wysg ei ben; yn llwrw ei ben; llwrw ei ben; â'i ben ar ei gyfer; yn nghyfer ei ben.

Foremother, *s.* cynfam, rhagfam, hynafes, henafes: *pl.* cynfamau, heu famau, y mamau gynt, hynafesau.

Forename, *s.* cynenw, blaenenw, yr enw blaenaf.

Forenamed, *a.* rhagenwedig, rhagsoniedig; à ragenwyd; gwedi ei ragenwi.

Forenoon, *s.* bore, cynnawn, rhagnawn, anterth, cyn hanner dydd, cyn canol dydd, rhagran y dydd, blaenran y dydd.

Forenotice, *s.* rhagrybudd, rhaghysbysiad.

Forensal, } *a.* (Ll. *forensis*) cyfreithiol; perth-
Forensic, } ynol *neu* briodol i'r gyfraith; perthynol i lys cyfraith; rheithlysol; arferedig mewn gweithredoedd *neu* lysoedd cyfreithiol.

Foreordain, *v. a.* rhagderfynu, rhagosod, rhagbenodi, rhagordeinio, rhagarfaethu, rhagluniio, rhagluniaethu, rhagdrefnu, cyndrefnu.

Foreordination, *s.* rhagderfyniad, rhagosodiad, rhagbenodiad, rhagosodiant, rhagosodedigaeth, rhagosod, rhagordeiniad, rhagarfaethiad, rhagluniad, rhagbenderfyniad.

Forepart, *s.* rhagran, pen blaen, rhan flaen, tu blaen, parth blaen, rhagbarth; rhan flaenaf; pen blaenaf, parth blaenaf; deohreu, dechreuad, blaen.

The forepart of the head—rhagran y pen; tu blaen y pen; yr iad.

Forepast, } *a.* rhagneithiedig, rhagbasiedig;
Forepassed, } à aeth heibio o'r blaen; à wnaethpwyd o'r blaen.

Forepiece, *s.* rhagddarn, rhagddryll, darn blaen.

Forepossessed, *a.* rhagfeddedig, rhagfeddiannedig, rhagberchenedig; rhagfeddiannol, rhagberchenol.

Foreprize, *v. a.* rhagbrisio, rhagbridio; prisio yn mlaen llaw.

Forepromised, *a.* rhagaddawedig.

Forequoted, *a.* rhagddyfynedig; à ddyfynwyd o'r blaen; à ragallebwyd; crybwylledig, rhagenwedig.

Forerank, *s.* cynfaran, rhagres, blaenres, rhes flaenaf, rhes flaen, rhagrenc, blaenreng, cynhorf.

Forereach upon, *v. a.* rhagennill ar, blaenu ar, rhagflaenu.

Foreread,† *v. a.* rhagarwyddo.

Forereading, *s.* rhagddarlleniad, cynddarlleniad.

Forecited, *a.* rhagddyfynedig; à ddyfynwyd o'r blaen; à ragallebwyd; crybwylledig, rhagenwedig.

Foreremembered, *a.* rhaggofiedig; à gofiwyd o'r blaen.

Foreright, *a.* parod, blaenllaw, blaen; buan; uniawn.

Foreright, *ad.* yn mlaen, yn flaenllaw, yn barod; yn union yn mlaen; yn mlaen yn union.

Forerun, *v. a.* rhagredeg, rhagflaenu, blaenredeg, blaenredu, blaenori.

Forerunner, *s.* rhagflaenor, rhagflaenydd, rhagflaenwr, rhagredwr, rhagredydd, rhagredor, rhagredegwr, blaenred, blaenredydd, blaenor, cenad flaenredol, rhagwas; argoel, rhagarwydd, rhagargoel; cenad à ei o'r blaen; †hynafiad.

A forerunner of troubles—argoel gofidiau i ddyfod; rhagflaenor gofidiau.

Foresaid, *a.* rhagddywededig, rhagwededig, crybwylledig, rhaggrybwylledig, rhagenwedig, dywededig, soniedig.

Foresail, *s.* hwyl flaen, rhaghwyl, blaenhwyl.

Foresay, *v. a.* rhagddywedyd, rhagfynegu, rhagwedyd, rhagweyd, darogan, daroganu.

Foresaying, *s.* rhagddywediad, rhagfynegiad, rhagwediad, darogan, daroganiad.

Foresee, *v. a.* rhagweled, rhagganfod; cynweled, rhagsylwi, rhagarganfod; rhagwybod, rhagddirnad.

Apt to foresee—rhagwelgar.

Foreseer, *s.* rhagweledydd, rhagwelwr.

Foreseize, *v. a.* rhagafaelu, rhagddal; dàl yn mlaen llaw.

Foreshadow, *v. a.* rhaggysgodi, rhagarwyddo, rhagddangos; cysgodi yn mlaen llaw.

Foreshame, *v. a.* cywilyddio, gwaradwyddo, gwarthruddo; dwyn gwarth ar.

Foreshew, } *v. a.* rhagddangos; dangos yn
Foreshow, } mlaen llaw; rhagarwyddo; rhagfynegu, rhagddywedyd, rhagwedyd, darogan, daroganu, argoeli, dysgogan, dysgoganu.

Foreship, *s.* pen blaen llong; y pen blaen i long.

Foreshorten, *v. a.* rhagfyru, rhagfyrhau, rhagdalfyru, talfyru; byrhau lluniau er mwyn ymddangos o'r lluniau o'u hol.

Foreshortening, *s.* rhagfyrhad, rhagfyriad, rhagdalfyriad.

Foreshow, } *v. a.* rhagddangos; dangos yn
Foreshew, } mlaen llaw; rhagarwyddo; rhagfynegu, rhagddywedyd, rhagwedyd, darogan, daroganu, argoeli, dysgogan, dysgoganu.

Foreshower, *s.* rhagddangoswr, rhagddangosydd; rhagarwyddwr, rhagfynegwr; daroganwr, darogenydd.

Foreshrouds, *s. pl.* rhaghwylraffau, rhagatteg-raffau.

Foreside, *s.* rhagochr, rhagystlys, ochr flaen.

Foresight, *s.* rhagweled, rhagweliad, rhagwel-

ediad, rhagwel, rhagolwg, cynweled, rhywel, cynwelwg; rhagwybodaeth, cynwybodaeth; cynsylw, rhagganfod; rhagddarbod, rhagddarbodaeth, darbodaeth, arbod; darogan, argoel.

To have a foresight of a thing—rhagweled peth, rhagganfod peth.

Want of foresight—annarbodaeth, diddarbodaeth, afragwel, anghynwelwg, diffyg rhagweled, diffyg rhagwelediad.

Foresightful, *a.* rhagwybodol, rhagwybodus, rhagwybodlawn, darbodlawn.

Foresignify, *v. a.* rhagarwyddo, rhagarwyddocäu, rhagddynodi, rhaghysbysu; cysgodi.

Foreskin, *s.* blaengroen.

Foreskirt, *s.* rhagodre, blaen-odre, godre blaen; rhanau blaen hugan.

Foreslack,† *v. a.* segur esgeuluso.

Foreslow,† *v.* oedi, addoedi, gohirio; llercian, gohytian, esfyllian, ymohirio, ymaros; rhwystro, attal; esgeuluso.

Forespeak, *v. a.* rhaglafaru, rhaglefaru, rhagddywedyd, rhagwedyd, rhagfynegu, rhagddangos, darogan; †gwahardd; †swyno.

Forespeaking,† *s.* rhaglefariad, rhagfynegiad, rhagddywediad; rhagymadrodd, rhaglith.

Forespeech,† *s.* rhagymadrodd, rhaglith, rhagdraith.

Forespent, *a.* rhagdreuliedig; treuliedig; neithiedig.

Forespoken, *a.* rhaglefaredig, rhaglafaredig, rhagwededig; à lafarwyd o'r blaen.

Forespurrer,† *s.* rhagyspardunwr, rhagfarchogwr.

Forest, *s.* (It. *foresta;* Ff. *forêt;* Al. *forst;* Llyd. *forest;* Gw. *foraois, foraighis*) coedwig, coedfa, gwigfa, fforest, coettir, gelliwig, celliwig, prysor, celli, gwig, coedwigfa; coed, coedlan, argoed, tewgoed, brycini, prysg, brwg, gwyddeli, gallt.

Forest science—gwigofyddiaeth, coedwigaeth, gwyddor coedwigoedd.

The New Forest—y Gelliwig Newydd, y Goedwig Newydd, y Fforest Newydd.

A dweller in a forest—gwigyn, coedwigyn, coettrigwr: *pl.* coedwigwys, coedwys, gwigwys, coettrigolion.

An open place in a forest—llanerch, gwiglanerch, coedlanerch, lle amgoed, amgoedle; lle agored mewn coedwig.

Forest laws—cyfreithiau coedwigol, cyfreithiau coedwigoedd, cyfreithiau fforestol, gwigreithiau, cyfreithiau y goedwig.

Forest, *v. a.* coedwigo, fforestu, prysori, gwigo; gorchuddio â choed.

Forestaff, *s.* rhagffon; onglyr.

Forestage, *s.* coedwigaeth, fforestiaeth; gwigweinid, fforestweinid; coedwig-fraint, fforestfraint, braint fforestwyr.

Forestall, *v. a.* (S. *forestallan*) rhagachub, rhagbrynu; rhagod y farchnad; edwica; achub y blaen; rhagflaenu; cymmeryd yn mlaen llaw; rhagddifuddio.

Forestaller, *s.* rhagbrynwr, rhagbrynydd; edwiciwr; un à rad bryno ac à ddrud wertho; rhagodydd y farchnad.

Forestalling, *s.* rhagachubiad, rhagachubiaeth, blaenachubiad, achubiad blaen; rhagbryniad, edwica; rhagodiad.

Forestav. *s.* blaenatteg; y rhaff à gyrhaedd o hwylbren i flaen yr oeghwyliar.

Forestborn, *a.* gwig-anedig, coed-anedig; genedig mewn coedwig *neu* anialwch.

Forester, *s.* coedwigwr, fforestwr, fforestor, fforestydd, ceidwad coedwig, argoedwr; gwigyn, preswylydd coedwig, coedwigyn; fforestwydden, gwigwydden, pren coedwig: *pl.* coedwys, gwigwys, coedwigwyr.

Foreswat,† *a.* (o *sweat*) blin gàn wres.

Foretackle, *s.* rhagdeclyn, rhagdacl, blaendeclyn, tacl blaen.

Foretaste, *s.* rhagbrawf, rhagflas, blaenbrawf, rhagchwaeth, rhagarchwaeth, prawf blaen llaw, cynbrawf, cynchwaeth.

Foretaste, *v. a.* rhagbrofi, rhagchwaethu, rhagarchwaethu, rhagflasu, cynflasu, cynchwaethu, cynbrofi; profi *neu* chwaethu yn mlaen llaw.

Foretaster, *s.* rhagbrofwr, rhagbrofydd, rhagchwaethwr, rhagarchwaethydd, blaenbrofwr.

Foreteach, *v. a.* rhagaddysgu, rhagddysgu.

Foretell, *v.* rhagddywedyd, rhagwedyd, rhaglefaru, rhagfynegu, rhagddadgan, rhagddadganu; rhagddangos; darogan, daroganu, dysgogan, dewinio, dewino.

Foreteller, *s.* rhagddywedwr, rhagddywedydd, rhagwedydd, rhagfynegwr, rhagfynegydd, rhagddadganwr; rhagddangoswr, rhagddangosydd; daroganwr, darogenydd; argoel, arwydd.

Foretelling, *s.* rhagfynegiad, rhagddywediad, rhagwediad, rhagddangosiad, daroganiad.

Forethink, *v. a.* rhagfeddwl, rhagfeddylio, rhagfeddylied, rhagsynio, rhagsynied, rhagfyfyrio, rhagdybio, rhagdybied, cynbwyllo; meddylio *neu* synio yn mlaen llaw; rhagddyfeisio.

Forethought, *s.* rhagfeddwl, rhagfyfyr, rhagfyfyrdod, rhagsyniad, rhagfwriad, cynbwyll, rhagddarbod, cynddarbod; rhagddarbodaeth; rhagwybodaeth.

Forethoughtful, *a.* rhagfeddylgar, rhagfyfyrgar, rhagfyfyriog, rhagfyfyriol, rhagfwriadol, rhagfeddyliog, rhagofalus.

Foretoken, *v. a.* rhagarwyddo, rhagddangos, rhagarwyddocäu, argoeli, rhagargoeli, rhagargoelio, rhagddynodi, rhagawgrymu, rhagfynegu, darogan.

Foretoken, *s.* rhagarwydd, argoel, rhagargoel, rhagawgrym, argoel rhamant, dysgogan, arddysgogan, cyntair.

Foretooth, *pl.* **Foreteeth,** *s.* dant blaen, rhagddant, blaenddant: *pl.* dannedd blaen, rhagddaint, rhagddannedd, blaenddaint, y gafaelion.

Foretop, *s.* rhagwallt, talwallt, iadwallt; talran, rhaggopa; rhaglwyf; rhagflaen.

Foretopmast, *s.* hwylbren rhagflaen; yr hwylbren ar ben y rhaghwylbren.

Forever, *ad.* byth, tros byth, tros fyth, yn dragywydd, yn dragywyddol, yn dragwyddol, yn oes oesoedd, byth bythoedd, hyd byth, am byth, hyd dragwyddoldeb, yn oestad.

Foreward, *s.* talgad, cadflaen, blaen byddin, cynhorf, blaenres, cyncad, llugynnor, blaen llu, wyneb llu.

They that marched in the foreward were all mighty men—y rhai oll oeddent yn blaenori y llu oeddent wŷr cryfion (1 *Mac.* ix. 11).

Forewarn, *v. a.* rhagrybuddio, rhaghysbysu; rhybuddio yn mlaen llaw; rhagwysio; rhagddangos i; dywedyd o'r blaen i; cynghori.

Forewarning, *s.* rhagrybudd, rhybudd blaenllaw, rhagwys; rhagrybuddiad, rhagwysiad, rhaghysbysiad.
Forewend,† *v. a.* myned o flaen, rhagflaenu.
Forewheel, *s.* rhagolwyn, olwyn flaen.
Fragment, *s.* (Ll. *fragmentum*) darn, dernyn, dryll, dryllyn, cetyn, cat, cilcyn, cilc, cnap, cnepyn, clwt, talp, telpyn, difyn, briwsionyn, briwionyn, briwysyn, rhan, tipyn, tip, yffityn, yffi, cwlff, ysgyffyn, ticyn, talch, telchyn, wll, arn: *pl.* darnau, dryllian, catiau, cilcynos, cilcion, briwion, briwsion, briwysion, yffion, teilchion, tipian, dernynau, &c.

Fragments of meat—briwfwyd, briwsion bwyd, briwysion bwyd, briwsion; bwyd gweddill, gwarged, gweddillion bwyd, gwargedion bwyd, atborion.

A small fragment—dernyn, dryllyn, cetyn, cilcyn, briwionyn, telchyn, tipyn, cylffyn, darn bychan.

Fragmentary, *a.* dernynol, dryllynol, manddarnol, o fân ddarnau, o ddernynau.

Fragmented, *a.* darnedig, drylliedig, catiedig; toredig yn fân ddarnau.

Fragmentist, *s.* darneuwr, ysgrifenydd darnau, darnawdur.

Fragor, *s.* (Ll.) trwst, grill, olindarddach, twrf, ysgort; arogl cryf.

Fragrance, } *s.* (Ll. *fragrantia*) perarogledd.
Fragrancy, } perarogl, perogledd, perogl, perarogliant, cysewyr, persawyr, persawr, arogleredd, pereidd-dra arogl, peredd arogl, pereiddwch arogl, perder arogl, arogl per, arogl peraidd, peraidd sawr, arogl uchel, arogl pereiddfawr, perarwynt, perchwa.

Fragrancy of summer—perarogl haf, perarogledd haf, cysewyr haf.

Fragrant, *a.* (Ll. *fragrans*) peraroglaidd, peraroglus, peroglaidd, peroglus, arogleber, arogleuber, arogleraidd, persawrus, persawyrus, persawr, per ei arogl, per eisawr, pereiddfawr, aroglaidd, aroglus, perchwaol, sawyrber, safwyrber, sawyrus.

Fragrantly, *ad.* yn beraroglaidd, &c.; yn ber ei arogl.

Frail, *a.* (*Ff. frêle*; It. *frale*; Ll. *fragilis*) gwàn, egwan, eiddil, gwanllyd, lleeg, hyfeth, llyth, brydd; brau, breuol, bregus; anwadal, ansafadwy; pilaid, ysgig; diffan, diffan, dibara, palledig, methedig, serfyll, hygwymp, hygwydd, trancedig; hydor, hyfriw, athor; darostyngedig i wendidau; salw.

A frail one—engyn; un gwàn, &c.

Frail, *s.* (Norm. *fraile*) basged frwyn, cawell brwyn, brwynas; basged, cawell; basgedaid, cawellaid; basged-frwyn, brwyn basgedi, brwyn.

A frail of figs—basgedaid neu gawellaid o ffigys=oddeutu 75 pwys.

Frailness, } *s.* (o *frail*) gwendid, egwander,
Frailty, } gwander, gwandra, lleegedd, lleegrwydd, eiddilwch; breuder, breuolder, breuoldeb, breuoledd, breuolaeth, breuolrwydd, breuawd, breurwydd, breuedd, bregedd, bregusrwydd, egwanaeth.

Human frailty—dynol freuolaeth, breuder

dynol, gwendid dyn, breuolder dynoliaeth.

Fraischeur, *s.* (Ff.) ffresgoer, ffresoer, lleswyr, ffresgoeredd, gwyrfedd.

Fraise, *s.* (Ff.) ffrisgledr; †ffroes.

Fraised, *a.* ffrisgledrog; diffynedig gàn ffrisgledr.

Framable, *a.* (o *frame*) ffurfiadwy, lluniadwy.

Frame, *v. a.* (S. *fremman*) ffurfio, llunio, ffurfeiddio, gwneuthur, gwneyd, lluniaethu, lluniadu, cyflunio, lluniodri, cyfansoddi; adeiladu, adeilo, saernïo; dychymygu, dychymyg, dyfeisio, cynllunio, llyfelu; hwylio; trefnu, cyttrefnu, llywio, llywodraethu, rheoli, rheoleiddio; cymmoni, cymmesuro, addasu, cyfaddasu, sutio, cymhwyso, cydagweddu, cyfartalu; ystofi; cyssylltu, cydgyssylltu; cydblethu; ystramio, syddu, ymylgylchu, trestlu, gwalcio, cantu; rhoi mewn cant, ystram, *neu* ymylwydd; rhoi ystram, cant, ymylwydd, *neu* attegwydd am.

To frame together—cyssylltu, cydgyssylltu, cydffurfio, cydlunio.

To frame to *or* unto—addasu i, cyfaddasu i; cyflunio â; gwneuthur yn gyflun *neu* yn unddull â.

To frame artillery—trwyllo cadoffer; gosod cadoffer ar drwyll *neu* drwyllau; rhoi cadoffer ar drwyll; rhoi *neu* osod cadoffer ar drwyllgeir; rhoi cadoffer ar glud.

He could not frame to pronounce it right—ni fedrai efe lefaru yn groew; ni fedrai efe lefaru felly; ni fedrai efe ei lefaru yn iawn.

They will not frame their doings to turn unto their God—ni roddant eu gwaith ar droi at eu Duw.

Well-framed—lluniaidd, ffurfaidd, gwiwlun, gosgeddig, cywrain, cywraint, celfydd, cryno, taclus, clwn, cymhen, cywair, crefftwraidd, twtnais, dillyn, destlus, trefnus, cyflëus; hardd ei lun.

Ill-framed—afluniaidd, anffurfaidd, anosgeddig, anghywrain, anghywraint, anghelfydd, anghryno, anghymhen, annhaclus, anghywair, gwrthun, trwsgl, anhardd, dilun, diddelw, bwngleraidd, anghrefftwraidd, annhrefnus, anghyflëus; anhardd ei lun.

Frame, *s.* dull, llun, agwedd, gosgedd, gwedd, ffurf; ansawdd, cyflwr; trefn; hwyl, cywair; adail, adeilad, cydadail, cyfadail, adeilwaith; gwaith; gwneuthuriad, cyfansoddiad, cyfluniad, lluniad, ffurfiad, lluniaethad, cyfeiliad, cydosodiad, cydgyssylltiad; gosail, cynllun; ystram, swdd, swth, attegwydd, ymylwydd, cynnalwydd, marchwydd, cant, atteg, annel, pill, peithyn, amatteg, trestl, march, llwyf, llwyfan, gwalc; carfan.

Door-frame—hiniog, rhiniog, ystram drws, attegwydd drws, gwiag drws, attegwisg drws, annelwisg drwsg, attegddor, dorystram, dorgaes, ymylddor, bylddor.

Window-frame — ystram ffenestr, swdd ffenestr, attegwydd ffenestr, &c.

Frame of a table—ystram, attegwydd, annelwydd, marchwydd, atteg, annel, trestl, march, *neu* swdd bwrdd.

The frame of a city—adail dinas.

The frame of the world—cyfeiliad, adeilad, cyfansoddiad, cyssylltiad, *neu* gydgyssylltiad y byd; gwaith y byd.

Frame of the mind—hwyl, tuedd, tymmer, ardymmer, tymmyr, naws, ansawdd.

Frame (for embroidering)—peithyn.

Stocking-frame—peithyn hosanau.

Frame of a picture—ystram ardeb, ymylwydd darlun, cant ardeb.

Out of frame—mewn anhrefn; anhwylus, anhoesus, dihwyl, dihoen, mewn anhwyl, mewn anhoen.

The frame of one's life—ymddygiad, ymarweddiad, buchedd, *neu* helynt un; hwyl a threfn bywyd un; hwyl bywyd un.

The frame of a piece of ordnance—ystram cyflegr, ystram cadofferyn, clud cadofferyn, clud cyflegr.

He knoweth our frame—edwyn ein defnydd.

Framer, *s.* lluniwr, ffurfiwr, lluniedydd, gwneuthurwr, gwneuthurydd, dyfeisiwr, dyfeisydd, llyfelwr, dychymygydd.

Framework, *s.* ystramwaith, attegwaith, peithynwaith; gwaith à wnaer mewn ystram.

Framing, *s.* ystramiad; brasgoedwaith, braswaith coed; lluniad, ffurfiad, &c.

Frampold,† *a.* (?) anniddig, anynad, croes, anfwyn, gerwin.

Franc, } *s.* (Ff. *franc*) ffranc, ffrencyn=darn
Frank, } o arian Ffrainc, gwerth agos i 10*c.*

Franche-Botras, } *s.* onglatteg, onglwanas.
Franche Buttress, }

Franchise, *s.* (Ff.; It. *franchezza*) braint, rhasgorfraint, uchelfraint, rhyddfraint; dinasfraint; rhyddid, rhydded, rhydd-did; breindir, breintdir; noddfa, noddle, seintwar; rhyddogaeth.

Elective franchise—etholfraint.

Franchise, *v. a.* rhyddfreinio, rhyddhau, breinioli, breinio, breintio, rhyddedu; dinesyddio, dinasyddio; gwneuthur yn ddinesydd; gwneuthur yn gyfranog o ddinasfraint; rhyddhau caethwas; rhoi rhyddid i; rhoi ei ryddid i; gwneuthur yn wr rhydd *neu* freiniol.

Franchisement, *s.* rhyddfreiniad, rhyddfreintiad, rhyddhad, gwaredred, rhyddid, breiniad, breintiad, breiniolad; dinesyddiad, dinasyddiad; breiniolaeth, breinioledd, dinesyddiaeth, arfreinioledd, rhyddediad; rhyddhad o gaethiwed.

Francolin, *s.* math o betrus.

Frangibility, *s.* (o *frangible*) hydoredd, hyfregedd, breuder, breuolder, hydrychedd, hydrychni.

Frangible, *a.* (o'r Ll. *frango*) hydor, toradwy, hyfreg, hydrwch; bran, breuol, bregus; crin, crinedig; gwàn.

Franion,† *s.* (?) gordderch; glân gydymaith.

Frank, *a.* (Al.; Ff. *franc*) rhydd, rhwydd, agored; rhwydd *neu* rydd ei feddwl; clau, cleufryd, gonest, diffuant, didwyll; teg, digaeth; rhull, brac, ffranc; hael, hyged, rhwyddged, rhwyddgalon, llawegor; bywiog, brau; heb ludd, heb wahardd; †penrydd.

Frank, *s.* rhyddlythyr, llythyr rhydd, rhyddeb, ffrencyn, ffranc; †ffronc, twlc.

Frank, *v. a.* rhyddebu, rhwyddebu, rhyddfreintio, breinnodi; rhyddhau, breinio, breintio, *neu* noddi llythyr; ffrancio; †ffroncio, pesgu, tewhau.

Frankalmoigne, *s.* (*frank*, a Norm. *almoignes*) cardottir, elusendir; rhyddgardod.

Frankalmoigne land—cardottir, elusendir. The abbot's land is frankalmoigne—cardottir rhydd yw tir yr abad.

Frankchase, *s.* rhydd helwriaeth, rhyddhelfa.

Frankenia, *s.* (oddi wrth Ioan *Frankenius*, entraw yn mhrifysgol Upsal) grugeilun.

Frankfee, *s.* rhydd-ddaliad, rhyddafael, rhydd-ddalfa, rhydd-dyddyn, tyddyn diardreth.

Frankfoldage, *s.* rhydd geilfraint; braint meistr tir i fuarthu ei ddefaid ar dir ei ddeiliad.

Frankhearted, *a.* rhyddgalon, rhwyddgalon, calonrydd, haelfron; rhwydd *neu* rydd ei galon.

Frankheartedness, *s.* rhyddgalonrwydd, rhyddgalondid, rhwyddgalonder, rhwydd-der calon, rhyddineb calon, rhullder calon.

Frankincense, *s.* (*frank* ac *incense*) thus; perfygdarth, rhullarogl, perarogldarth.

Franklaw, *s.* breintraith, rhyddraith, cyfraith gyffredin, cyfraith y tir, rhydd gyfraith; rhad *neu* fuddged cyfraith gyffredin y tir.

Franklin,† *s.* (o *frank*) rhydd-ddeiliad, breddyn, uchelwr, gwr tiriog.

Franklinite, *s.* (oddi wrth y Dr. B. *Franklin*) delidfaen à geir yn Nhalaeth Iersey Newydd.

Frankly, *ad.* (o *frank*) yn rhydd, &c.; o fodd.

To give frankly—rhoddi yn rhull.

Frank-marriage, *s.* priodasfael, rhydd briodas= daliad neu afael tir à geir yn waddol gyda gwraig tân ammod ffyddlondeb i'r neb a'i rhoddo.

Frankness, *s.* rhydd-did, rhydd-der, rhyddid, rhyddineb, rhwydded, rhullder, rhulldra, rhullrwydd, rhulledd, rhulliant, rhwyddedd calon, rhwyddedd meddwl; cleuder, cleufrydedd, gonestrwydd, tegwch; hygedrwydd, haeledd; parodrwydd.

Frankpledge, *s.* rhydd wystl, rhyddwystl, rhyddadneu, rhyddwaesaf; gwystl dros wr rhydd *neu* freiniol.

Franktenement, *s.* rhydd-dyddyn, rhydd-syddyn, tyddyn rhydd, tir breiniol, rhyddfeddiant.

Frantic, *a.* (Ll. *phreneticus*; Gr. *phrenêticos*) ynfydwyllt, gorphwyllog, gwallgof, gwallgofus, cynddeiriog, llerth, gorwyllt, gorphwyllus, anmhwyllog, lledfrydig, disbwyllog, ynfyd, iwin, ffrychwyllt, llerthus, llerthig, cynddeiriogwyllt, indeg; gwyllt, ffrowys, ffrowysol, ffyrnig, dywal, afreolus; trystfawr; i maes o'i gof; i maes o'i bwyll; allan o'i gof; allan o'i bwyll.

To become frantic—myned yn orphwyllog, &c.; myned o'i gof; myned o'i bwyll; gwalloft, gorphwyllo, anmhwyllo, ynfydu; colli arno ei hun.

To turn frantic—llerthu, llerthuso; troi yn llerth.

Frantic state — llerthrwydd, llerthedd, gwallgofrwydd.

Franticly, *ad.* yn orphwyllog, &c.; allan o'i gof; allan o'i bwyll; i maes o'i gof; i maes o'i bwyll.

Franticness, *s.* gwallgofrwydd, gwallgof, gorphwyll, anmhwyll, llerthrwydd, llerthusrwydd, llerthedd, llerthigrwydd, cynddeiriogrwydd, cynddaredd, ynfydrwydd, ynfydedd, iwinder, gorphwyllogrwydd, gorphwyllusrwydd, anmhwylledd, lledfrydedd, lledfryd, marwerydd; ffyrnigrwydd, ffrowysder, dywalder.

Frap, *v. a.* croesgyttynu, croesdynhau; croesdynu taclau llong er mwyn eu gwneuthur yn dynach; croesi a thynu yn nghyd.

Fratercula, *s.* (Ll.) palednod, y palod, y pwffingod.

Fraternal, *a.* (Ll. *fraternus*; Ff. *fraternel*) brawdol, brawdaidd; brawdgar, brodyriol; cariadus.

Fraternal love — brawdgarwch, cariad brawdol, brawdserch, brodyriol gariad.

Fraternally, *ad.* yn frawdol; fel brawd; fel brodyr.

Fraternity, *s.* (Ll. *fraternitas*) brawdoliaeth, brodoriaeth, brawdoriaeth, brodedd, brawdoldeb; cymdeithas, cyfeillach, brodyrdde.

Fraternization, *s.* brodoriad, brodoriant, brawdoliad.

Fraternize, *v. n.* (Ll. *fraternus*) brodori, brawdoli, brawdori, cymdeithasu fel brodyr.

Fratrage, *s.* (Ll. *frater*) brawdran, brawdgyfran; cyfran cyttifeddion; cyfran brodyr ieuaf.

Fratricelli, *s. pl.* (Ll. *frater*) y Brodyr Bychain =cangen o'r Ffransisciaid.

Fratricidal, *a.* (o *fratricide*) brawdladdol; brawdleiddiadol.

Fatricide, *s.* (Ll. *fratricidium*, *fratricidia*) brawdladdiad, brawdladd, brawdlofruddiaeth, llofruddiaeth brawd, lladdiad brawd; brawdleiddiad, brawdladdwr, brawdlofrudd, lleiddiad brawd, llofrudd brawd.

To commit fratricide—brawdladd, lladd brawd, brawdlofruddio, llofruddio brawd.

Fraud, *s.* (Ll. *fraus*; Ff., It., ac Ysp. *fraude*) twyll, hoced, dichell, twyllofaint, hud, som, somiant, somedigaeth, cast, cyfrwysedd, chwired, ystryw, chwiongl, hioed, ffug, ffalsedd, twylledigaeth, twyllawd, geudeb, hocedwaith.

Pious fraud—twyll crefyddol.

Without fraud=*Fraudless.*

Fraudful, *a.* twyllodrus, hocedus, twyllgar, dichellgar, twyllfawr, twyllog, castiog, ystrywgar, hocedlawn, cyfrwys, chwiredus, chwiredol; bradog, bradwrus, bradus, bradlawn; llawn twyll a dichell.

Fraudfully, *ad.* yn dwyllodrus.

Fraudless, *a.* didwyll, dihoced, diddichell, annichellgar, annhwyllodrus, anhocedus.

Fraudlessly, *ad.* yn ddidwyll.

Fraudlessness, *s.* didwylledd, dihocedrwydd, annichellgarwch, annhwyllogrwydd, anhoced.

Fraudulence, } *s.* (Ll. *fraudulentia*) twyllgar-
Fraudulency, } wch, dichellgarwch, hudgarwch, twyll, dichell, hoced, twyllofaint, twyllodruso edd, twyllodrusrwydd, ffalsedd, ffalsder, ffalsdra, hocediaeth, hudoliaeth, somedigaeth, castiogrwydd.

Fraudulent, *a.* (Ll. *fraudulentus*) twyllodrus, hocedus, twyllgar, dichellgar, twyllfawr, twyllog, ystrywgar, castiog, hocedlawn, cyfrwys, chwiredus, chwiredol; bradog, bradwrus, bradus.

Fraudulently, *ad.* yn dwyllodrus, &c.; trwy dwyll.

Fraught, *a.* (Is. *vragt*; Al. a Sw. *fracht*; D. *fragt*) llwythog, llwythedig, à lwythwyd, gwedi ei lwytho; llawn, cyflawn, gorllawn, gorlawn.

Fraught with danger—llawn perygl, peryglus, llawn peryglon.

Fraught,† *s.* llwyth llong, llonglwyth, llwyth; cargoedd.

Fraught,† *v. a.* llwytho, llonglwytho; llenwi, llanw.

Fraxinella, *s.* (Ll. *fraxinus*, o'r Gr. *phrassô*) dittain, dittawnt.

Fraxinine, *s.* (o *fraxinus*) onednyw=dansawdd llysieuaidd anfloreiog, â geir yn rhieg yr onen.

Fraxinus, *s.* (Ll.) onen, on, onwydd.

Fray, *s.* (Ff. *fracas;* It. *fracasso*) ffrwgwd, ymrafael, amrafael, ymladd, brwydr, trin, ystrin, ymryson, terfysg, brwth, brythwch, brythred, cyfryssedd, godorin, ceintach, ymgiprys, cweryl, cynhen, cythrwfl, cymhelri, ymswrn; ornest, cysbwy, ymwan.

To allay a fray—trywyn, athrywyn, trywynu, trywynio, ffrewyn, ffrewynu, ffrewi.

Fray, *s.* (Ff. *frayer;* Ll. *frico*) rhwb, rhwt, rhwbiad, rhathiad, rhugl, rhwg.

Fray, *v. a.* rhwbio, rhathu, rhwtio, treulio, rhuglo, ysrathu; dysgyrnu; ymrwbio wrth, ymrathu wrth.

Fray,† *v. a.* (Ff. *effrayer*) brawychu, dychrynu, peri ofn, arswydo.

Fraying, *s.* pil corn carw.

Freak, *s.* (Isl. *freka;* Al. *frech;* D. *frek*) nwyth, nwyd, chwidredd, asbri, mympwy, chwim, chwimp, ias, gwŷn anwadal, gofreg, pranc, gwamaldyb, gwibfeddwl, nwythas, hynt, ysmaldro: *pl.* ysmalion.

A mad freak—pranc ynfyd, gwyllt, ffol, *neu* chwidr; gwyllt antur, ynfydgais, tro ynfyd, nwyth ynfyd, tro gorwag, ynfyd branc, gwyllt-gamp.

What freaks are in thy head?—pa hyntiau sydd yn dy ben?

There are odd freaks in that man—mae nwythau rhyfedd yn y dyn yna.

Freak, *v. a.* amrywio, amrywioli, amrywiogi, amryfeilio, amryfalu, amliwio, britho, dyfritho, tryfritho, amliwio, amliwiogi.

Freakish, *a.* nwythus, nwythog, nwythig, nwythaidd, nwydog, nwydol, nwydus, penffol, penchwiban, chwidr, chwidrus, chwidrog, gofregus, lledynfyd, lledffol; anwadal, oriog, gwamal, syfal, ysmala, cyfnewidiol, ysgoew, talmig, pranciol, pranciog, mympwyol.

Freakishness, *s.* nwythusrwydd, nwythogrwydd, nwythigrwydd, penffoledd, penchwibandod, chwidredd, penchwidredd, nwydusrwydd, gofregedd, anwadalwch, anwadaledd, gwamaldeb, oriogrwydd, talmigrwydd.

Freckle, *s.* (C. *brych;* Gw. *breac;* Al. *fleck?*) brychyn, brych, brycheuyn, màn, ysmotyn, ysmot, menyn, manyn, manwg, brychfan, màn ar groen; brychni: *pl.* brychion, ysmotiau.

Freckles in the face—brychni wyneb.

Full of freckles—llawn brychni, brych, brychlyd, brychog, mànog.

Freckled, *a.* brych, (*f.* brech), brychlyd, brychedig, brychog, arfrych, ysbrychlyd, ysbrych; â brychni arno; mànog, ysmotiog, brychfanog.

Freckled face—gwyneb brych, brychyn, brychweb.

Freckled man—dyn brych.

Freckled woman — benyw frech, dynes frech.

To become freckled—brychu, ysbrychu; myned yn frych.

Freckledness, *s.* brychni, arfrychni, brychi, brychedd, brychogrwydd, brychedigrwydd, mànogrwydd, ysmotiogrwydd.

Freckle-faced, *a.* gwynebfrych, wynebfrych, (*f.* wynebfrech); brych ei wyneb, (*f.* brech ei hwyneb); â brychni yn ei wyneb; âg wyneb brych iddo; llinfryniog.

Freckly, *a.* brychlyd, brychaidd, brych, brychog, brycheulyd, llawn brychni, mànog, ysmotiog.

Free, *a.* (S. *frig, freoh;* Al. *frei, frey;* Is. *vry;* D. a Sw. *fri*) rhydd, rhwydd, rhyddedog, rhyddidog, mewn rhyddid, digaeth, eang; dinidr, annyrys, dirwystr, diattal; breiniol, breiniog, breintrydd, breinrydd; hael, haelionus, rhull, ffranc, brac, hyged, oedrwys, cedfawr, oedrydd, rhwyddged; parod, gwyllysgar, ewyllysgar; agored, clau, cleufryd, annhawedog, digel; agored, rhydd, *neu* rwydd ei feddwl; trwyddedog; rhad; heb na mâl na thâl; heb na gwerth na gwobr; à roer yn rhad, o wyllys da, *neu* o wirfodd; gwirfodd, gwirfoddol; heb ludd, heb wahardd; cyffredin; agored i bawb; hydrum, hygyrch; diangol; penrydd; eon, eofn, hy; eng, ang; esgaeth, anghaeth; rhugl.

Free school—ysgol rydd; ysgol rad.

Free passage—ffordd rydd, ffordd rwydd, rhwydd hynt, rhydd fynedfa, rhwydd fynediad, mynediad helaeth, rhwyddred.

Free land—tir rhyddedog.

Free gift—rhodd rad, rhad rodd, rhodd wirfodd, rhadrodd, rhodd wir fodd.

Free from—rhydd oddi wrth, &c.; iach oddi wrth; diniwed oddi wrth; glân oddi wrth.

Free from business—ysgyfala, didres, didrafferth, diofal, hamddenol, mewn hamdden, mewn seibiant, rhydd; rhydd oddi wrth alwedigaeth.

Free from tribute—didreth, didoll, didal; rhydd oddi wrth dreth.

Free of expense—didraul, digost; yn rhad, yn ddidraul.

Free in conversation — rhydd; rhydd, rhwydd, *neu* agored ei feddwl; annhawedog, digel; rhydd ei ymddyddan; rhydd ei foes.

Free in giving—hael, haelionus, rhydd, hyged, rhwyddged, hyrodd, rhoddgar.

To set free, } rhyddhau; rhoi *neu*
To make free, } wneuthur yn rhydd; rhoi ei ryddid i; breinio, breinioli; digaethiwo, esgaethu, diwarogi.

To make one free of a city—gwneuthur un yn gyfranog o fraint *neu* freiniau dinas; gwneuthur un yn gyfranog o ddinasfraint; gwneuthur un yn ddinasfreiniol; dinasfreintio un.

To make one free of a company—gwneuthur yn gyfranog o fraint *neu* freiniau cymdeithas; derbyn *neu* wneuthur yn aelod o'r frawdoliaeth.

Of a free heart — ewyllysgar o galon; gwyllysgar ei galon; rhwyddgalon, rhyddgalon, calonrydd; o galon rwydd.

He is free of another man's purse—hael Hywal o bwrs y wlad.

To live upon free cost—byw yn rhad; cael ymborth *neu* fwyd am ei fwyta.

To be somewhat free with one—bod yn o

gyfeillgar âg un; bod yn lled gyfeillgar âg un; bod yn lled rydd ar un.

To make too free with a person—bod yn rhy eofn ar un; bod yn rhy rydd ar un; gwneuthur yn rhy rydd ar un; cymmeryd rhyddid ar un; cymmeryd gormod ryddid ar un.

To be free of one's tongue—bod yn dafodrydd; bod yn ddywedgar *neu* siaradgar.

To be free from—bod yn rhydd oddi wrth; cael ei ryddhau oddi wrth; diane rhag; cael gwared o.

Free horse—ceffyl rhydd, march bywiog, march gwyllyagar, ceffyl parod.

Free, *v. a.* rhyddhau; gollwng, tynu *neu* ddwyn yn rhydd; gwneuthur yn rhydd; rhyddhau o, rhyddhau oddi wrth; rhwyddo, gollwng, dadrwystro, dirwystro, dinidro, diddyrysu, dad-ddyrysu, dadrysu, dadrwymo, disgraffu, dadfaglu, dattod; gwaredu, gwared, esgaethu, digaethiwo, anghaethiwo, dadgaethu, dadgaethiwo; rhoi ei ryddid i; breinio, breinioli.

To free from bondage — rhyddhau *neu* ollwng o gaethiwed; rhyddhau caeth; rhoi ei ryddid i gaeth; adferu caeth i'w ryddid; esgaethu, digaethiwo, dadgaethiwo, dadgaethu.

To free the boat—allwys *neu* arllwys y bad; allwys y cwch; bwrw y dwr allan o'r bad.

Free-agency, *s.* rhydd weithrediad, rhyddweithrediad, rhyddweithrediant; rhydd ewyllys, ewyllys rhydd.

Freebench, *s.* rhyddwaddol.

Freebooter, *s.* (Al. *freibuter;* Is. *vrybuiter*) ysbeiliwr, ysbeilydd, ysglyfaethwr, ysglyfiwr, ysglyfiad, preiddiwr, anrheithiwr.

Freebooting, *s.* ysbeiliad, preiddiad, ysbail, anrhaith, ysglyfaeth, ysglyfiant.

Freeborn, *a.* breiniol geni, rhydd geni, rhyddanedig, rhydd-enedig; rhydd, breiniol, breinrydd; â anwyd yn freiniol; à anwyd yn rhydd; boneddig cynnwynol.

Free-chapel, *s.* capel rhydd, rhydd gapel, addoldy rhydd.

Free-city, *s.* dinas rydd, dinas amherodrol= dinas â lywodraethir yn unig gân ei phenswyddogion ei hun.

Freecost, *s.* annhraul, anghost; heb draul, heb gost; yn ddidraul, yn rhad.

Freedenizen, *s.* dinesydd rhydd, rhydd ddinasydd, dinesydd breiniol, dinesydd.

Freedman, *s.* (*free, freed,* a *man*) gwr rhydd, gwr breiniol, ffranc; caeth wedi ei ryddhau; caeth rhyddedog, caethwas rhyddedog; un â wnaed o gaeth yn rhydd.

Freedom, *s.* (o *free*) rhyddid, rhydd-did, rhydded, rhyddineb, rhydid, rhyddyd, rhydd-deb, rhwyddyd, rhwydd-deb, rhwyddineb, rhwyddyndod, rhwyddynedd; rhyddhad; trwydded, cenad, cynnwys; gollyngdod; braint, breinioldeb, breiniolaeth, breinioledd; ystâd, cyflwr, *neu* ansawdd gwr breiniol; anghaethiwed, digaethder, esgaethder; dinidredd, afrwymedd, eangder; hydeb, hyfder, eonder, eofnder, eondra; rhulldor.

Freedom of a city — dinasfraint, braint dinesydd, braint.

Freefishery, *s.* rhydd bysgota, rhyddbysgota.

Free-footed,† *a.* troedrydd.

Freehearted, *a.* rhwyddgalon, rhyddgalon, calonrydd, haelfron, bronheilin; rhwydd *neu* rydd ei galon; brac, rhull, hyged, rhwyddged, hael, haelionus, rhoddgar, haelgar; tirion, hynaws, caredig, mwyn; annhawedog, digel, calon-egor.

Freeheartedness, *s.* rhwyddgalonrwydd, rhwyddgalonder, rhyddgalondid, rhyddgalonrwydd, bronhaelder, rhwydd-der calon, rhwyddineb calon, rhulldor calon, cleuder, rhulldor, haeledd, haelioni, haelgarwch, hygedrwydd.

Freehold, *s.* (*free* a *hold*) rhydd-ddaliad, rhyddafael, rhydd-ddalfa, rhydd-dyddyn, rhyddfeddiant, tyddyn rhydd, tir diardreth, maenor ddiardreth, tir un ei hun, tyddyn priodol, hawldir, rhydd-dir; tir uchelwr, tir breddyn; breddyniaeth.

Freeholder, *s.* rhydd-ddeiliad, breddyn, uchelwr, perchen tir, gwr tiriog, gwrda, rhydd-ddaliwr.

Freeliver, *s.* (*free* a *live*) rhyddfucheddwr, bucheddwr rhydd, bucheddwr pensydd, un rhyddfucheddol; un â gymmero fyd da yn helaethwych beunydd.

Freeliving, *s.* rhyddfuchedd, rhydd fuchedd, buchedd rydd, rhydd fucheddiad, rhydd fywoliaeth.

Freely, *ad.* yn rhydd, &c.; yn rhodd, o wirfodd, o ewyllys da; o hono ei hun; o'i waith ei hun; heb ludd, heb wahardd.

Freeman, *s.* (*free* a *man*) gwr rhydd, gwr breiniol, gwr breiniog, gwr eang, eangwr, ffranc; dinesydd, bwrdais.

Freeman of a city—dinesydd, dinasydd, dinesydd rhydd, rhydd ddinasydd, un breiniol, un dinasfreiniol, bwrdais, bwrgais.

Freemartin, *s.* ychanner, eidiones.

Freemason, *s.* rhinsaer, saer rhydd, rhyddsaer, rhydd faensaer; un o'r seiri rhyddion; rhingelydd, rhingelwr: *pl.* rhinseiri, seiri rhyddion.

Freemasonry, *s.* rhinsaerniaeth, rhinsaeriant, rhinsaeroniaeth, rhyddsaerniaeth, rhyddsaeroniaeth; cymdeithas y seiri rhyddion.

Freeminded, *a.* rhydd ei feddwl; meddylrydd; diofal, dibryder.

Freeness, *s.* rhydd-deb, rhydd-der, rhwydd-deb, rhydded, rhyddid, rhyddedogrwydd; cleuder, cleufrydedd, gonestrwydd, tegwch; annhawedogrwydd, digelrwydd; haeledd, haelioni, haelder, hygedrwydd, haelionusrwydd; rhadedd, rhadwch; anghaethder, anghaethiwed.

Freeschool, *s.* ysgol rydd; ysgol rad.

Freespoken, *a.* rhydd o'i feddwl; rhydd ar ei feddwl; rhyddlafar, siaradrydd, tafodrydd, dywedrydd; à lefaro yn ddigel.

Freestone, *s.* careg nadd, maen nadd, naddfaen, mwrl.

Freethinker, *s.* rhydd-dybiwr, rhyddfeddyliwr; penryddyn; anffyddiwr, anghredwr, anghredadyn; gwadwr crefydd ddadguddiedig; *pl.* rhydd-dybwyr, penryddion, penryddiaid.

Freethinking, *s.* rhydd-dybiaeth; anffyddiaeth, anghred.

Freetongued, *a.* tafodrydd; rhydd ei dafod.

Freewarren, *s.* braint helfaes, braint helgae, braint milfaes, braint cwningfa.

Freewill, *s.* ewyllys rhydd, gwyllys rhydd, rhyddwyllys, rhydd ewyllys; gwyllysgarwch.

Freewill offerings — offrymau gwirfodd

offrymau gwirfoddol, offrymau ewyllysgar, gwyllysgar offrymau.

Freewoman, *s.* gwraig rydd, benyw rydd, dynes rydd, rhyddferch, anghaethes.

Freeze, *v. a.* (S. *frysan*) rhewi, dyrewi; fferu, sythu, ymsythu, ceulo, oergeulo, dysgeulo.

Freeze, *s.*=*Frieze*, &c.

Freezing, *s.* rhewiad, rhewiant; rhewi.

Freezing point—rhewbwnc, rhewbwynt, pwnc rhewi, pwynt rhewi.

Freight, *s.* (Al. a Sw. *fracht*; Is. *vragt*; Ff. *fret*) llwyth llong, llonglwyth, llwyth; hur llong, llonglog, llog llong, arian clud, arian porth; trosgludiad.

Freight, *v. a.* llwytho, llwytho llong, llonglwytho, cargu; llenwi, llanw.

Freighter, *s.* llonglwythwr, llwythwr llong; llonglogwr, llonghuriwr.

Freightless, *a.* dilwyth, heb lwyth, digarg.

Freisleben, *s.* math o ddelidfaen.

Fren,† *s.* dyeithr. [corn Ffreinig.

French-horn, *s.* trogorn, troellgorn, chwilgorn,

Frenchify, *v. a.* (o *French*) Ffreinigo, Ffrengigo; gwneuthur yn Ffreinig *neu* Ffrengig; dynwared y Ffrancod; peri lleiaith Ffrengig ar; peri hoffi moesau y Ffrancod.

Frenetic, *a.*=*Frantic*; *Phrenetic*.

Frenzical, } *a.* (o *frenzy*) gwallgofus, gorphwyll-
Frenzied, } us, gorphwyllog, cynddeiriog, cynneiriog, llerth, llerthig, llerthus, iwin, lledfrydig, ynfyd, ynfydwyllt.

Frenzy, *s.* (Ff. *frénésie*; Gr. a Ll. *phrenitis*) gorphwyll, gwallgof, anmhwyll, disbwyll, gorphwylldra, gwallgofrwydd, llerthedd, llerthrwydd, ynfydrwydd, lledfrydedd, lledfrydigrwydd, cynddaredd, cynddeiriogrwydd, iwinder, marwerydd, penddaredd, gorwylltedd, llerth, gwynofaint, gwŷn, ffrwys, gwallbwyll, dera.

Frequence, *s.* (Ff.; Ll. *frequentia*) haid, tŵr, tyrfa, torf, llu, myntai, bagad, lluaws, amledd o bobl, llaweroedd o bobl.

Frequency, *s.* (Ll. *frequentia*) mynychder, mynychdra, mynychrwydd, mynychedd, mynychiad; amlder, amldra, amledd; cyffredinrwydd; †tyrfa, haid.

By frequency of acts a thing grows into a habit—mynych wneuthur peth a'i pair yn naturiol o'r diwedd; mynych wneuthuriad peth a'i pair yn naturiol o'r diwedd.

Frequent, *a.* (Ff. o'r Ll. *frequens*) mynych; aml; cyffredin; arferedig; mynychol.

Frequent, *v. a.* (Ll. *frequento*; Ff. *frequenter*) mynychu; mynychu, cynniwair, cynniweirio, cynnyred, cyrchu, tramwy, tramwyo, ymgyrchu, hygyrchu, *neu* ddygyrchu i (le) *neu* at (beth); mynych gyrchu i *neu* at; myned yn fynych i *neu* at; cyrchu, hygyrchu, cynnyred, tramwy; helgyd, helcyd, helcu.

Frequentable,† *a.* hygyrch, cyrchadwy, hydrum.

Frequentage, *s.* mynychiad, mynychiant, mynych gyrchiad.

Frequentation, *s.* (Ll. *frequentatio*) mynychiad, cynniweiriad, cynnyred, ymgyrchiad, cyrchiad, hygyrchiad, dygyrchiad, cyrchedigaeth, dargyrchiad, mynych gyrchiad.

Frequentative, *a.* (Ll. *frequentativus*) mynychol, mynychiadol.

Frequentative verb—berf fynychol, perwyddiad mynychol.

Frequented, *p. p.* mynychedig, tramwyedig, cyrchedig, dygyrchedig; hygyrch, hyddyn; â mawr gyrchu iddo *neu* ato.

Much frequented—hygyrch, hyddyn, hydrum; â mawr gyrchu iddo *neu* ato; â mynych gyrchu iddo.

A much frequented place—lle hygyrch, cyrchfa, cynniweirfa, cynnyredfa, cyrchle, cyrchfan.

The most frequented place in his dominion was Caerleon upon Usk—hygyrchaf lle yn ei gyfoeth oedd Caerlleon ar Wysg.

Not frequented, } anhygyrch, an-
Not much frequented, } hyddyn, diymgyrch, digynniwair, didramwy, anghynnyred, anghynniwair; diasthr, diymsathr.

Frequenter, *s.* mynychwr, mynychydd, cynniweirydd, cynniweiriwr, mynych gyrchwr, cyrchwr, cyrchydd, ymgyrchwr, cynnyredwr, dygyrchwr, dargyrchwr; â gyrcho yn fynych; â elo yn fynych.

Frequently, *ad.* yn fynych; mynych.

Frequentness, *s.* mynychder, mynychdra, mynychrwydd, mynychedd.

Frere, *s.* (Ff.) brawd.

Frescades, *s. pl.* (It. *fresco*; Ff. *fresque*) göerfëydd, göerfaoedd, gŵerfëydd, gŵerfaoedd, ffresgrodion, ffresgoerfëydd, ffresgrodfëydd, cysgodfaoedd, cysgodleoedd, gwasgodwydd.

Fresco, *s.* (It.) ffresgoer, ffresoer, ffresgoeredd, göer, gŵer, oeredd, oerder, llugoeredd, llugoerder, geloer, lledoeredd, oerawel; cysgod, cysgodfa, göerfa, gŵerfa, oerfa; cysgod rhag y tes; cyflychwyr, gorchyfarwy, gowyllni, tywyllni; ffresgwy, oerlyn; dïod eloer; ffresglun.

To walk in fresco—rhodio yn y göer; rhodio yn y ffresgoer; rhodio yn y geloer; rhodio yn yr awel; rhodio dân yr awyr; rhodio mewn lle agored.

To drink in fresco—yfed ffresgwy, yfed oerlyn, yfed oergib; yfed yn y göer; yfed yn y ffresgoer; yfed dân yr awyr.

To paint in fresco—paentio ar ffresgoer; paentio yn ffresgoer; paentio ffresgoer; irbaentio, ffresbaentio, ffresgliwio, irliwio; paentio ar gymrwd ir er mwyn greddfu o'r lliwiau yn y plastr.

Fresco painting—paentio ffresgoer.

Fresh, *a.* (S. *fersc*; Al. *frisch*; Is. *versch*; It. ac Ysp. *fresco*; Ff. *frais*, *fraîche*) ir, gwyrf, gwyryf, gwyra, newydd, ffresg, ffres, croew, crai, cri, anhallt; göer, ffresgoer, lledoer, geloer, awelaidd, oer, addoer, tawel-oer; bywiog, eidiog, hoenus, heinif, gwyrenig, tirf, gwryglol, gŵyr, irlas, tirflas, iraidd, irain, gwyrfain; gwridog, gwridgoch, blodeuog; newydd wneuthur, newydd tanlliw, newydd ddyfod, newydd ddygwydd, diweddar; dïen, dilwgr; rhydd, rhedegog; agored; per, peraidd; llefrin; brysg, gweisgi, chwyrn, hoew, ffraw, ffysg; dïadfail, annifian: *f.* gwerf.

Fresh butter—ymenyn gwyrf, ymenyn gwyra, ymenyn gwyryf, ymenyn ffres, ymenyn ffresg.

Fresh water—dwfr croew, dwr crai, dwfr gwyra, aweddwfr, aweddwr.

Fresh meat—cig ir, cig ffres, cig ffresg, irgig.

Fresh oil—olew ir.

Fresh taste—blas crai.
It has too fresh a taste for me—y mae ei flas yn rhy grai i mi.
The beef eats too fresh—y mae y cig eidion yn bwyta yn rhy grai *neu* yn rhy ffres.
Fresh and lively—teg a gwyrenig; tirf ac iraidd.
Fresh air — awyr rhydd dilwgr; awyr iach; awyr rhedegog; awyr ffresg, awyr ffres; lleswyr, llaswyr.
To take the fresh air—lleswyra, llaswyra; rhodio yn yr awel; rhodio dàn yr awyr; rhodio dàn yr awyr rhydd dilwgr.
Fresh milk—llefrith, llaeth ffres, llaeth ffresg.
Somewhat fresh—gwyrfaidd, croewaidd, ffresgaidd; lled ir, &c.
A fresh gale—awel fryag, ffraw, chwern, *neu* chwai.
Fresh and new—newyddgrai, newydd grai.
Fresh and fasting — heb na bwyta nac yfed; yn gwbl ddifrwysg; yn gwbl sobr; yn gwbl ddifeddw.
To take fresh courage—cymmeryd calon newydd.
Fresh shot — dwr afon yn cadw yn grai encyd o ffordd i'r môr; morddwfr croew; aweddwfr yn y môr.
Fresh verdancy—irlesni, irlasrwydd, tirflesni, tirflasrwydd.

Fresh, *s.* aweddwfr, aweddwr, dwr croew; dwfr crai; ffresglif; llifddwr, llifeiriant, dylwch; ffresglyn, llŷn o ddwr croew.

Freshen, *v.* croewi, creio, gwyrfio, ffresghau, ffreshau, ffresio, ffresgu; bywiogi, eidiogi, bywiocäu, bryagio; tirfhau, gwrygio; gwneuthur yn ffresg, &c.; myned yn ffresg, &c.; newyddu, adnewyddu; ymfywiogi; dihalltu.

Freshes, *s. pl.* llifeiriaint, llifddyfroedd, llifau, llifogydd, gorlifau, dylifau; ffresglifau; cymmysgedd dwr croew a dwr hallt.

Freshet, *s.* (o *fresh*) aweddwfr, aweddwr, dwr croew, dwr crai; ffresglif; llifddwr, llifeiriant; ffresglyn, llŷn dwr croew.

Freshforce, *s.* newyddgyrch, ffresgorddwy.

Fresh-looking, *a.* irwedd; yn edrych yn ffresg; yn edrych yn wridog.

Freshly, *ad.* yn ir, yn wyrf, &c.

Freshman, *s.* (*fresh* a *man*) newyddian, gwr crai, dechreuwr: *pl.* newyddianod.

Freshmanship, *s.* newyddianaeth, sefyllfa newyddian.

Freshness, *s.* newydd-deb, newydd-der, newydd-dra, newyddedd, newyddiant; creider, croewder, croewedd, croewdeb, croewineb; irder, irdra, iredd, ireiddrwydd, ffresrwydd, ffresgrwydd, ffresineb, gwyrfedd, gwyryd, gwyrdra, tirfdra, tirfder, anhalltrwydd, perder, pereiddrwydd; bywiogrwydd, eidiogrwydd, hoenusrwydd, gwyrenigrwydd, gwrygioldeb, yni; brysgrwydd; göerder, geloer, geloerder, oerder, lledoerder, ffresgoeredd, llaswyredd, lleswyredd; gwridogrwydd, gwridgochni, gwrid; ieinder.
Aerial freshness — llaswyr, lleswyr, llaswyredd, lleswyredd, ffresgoeredd; göerder yr awel, ffresgrwydd awelaidd.
In the freshness of the morning—yn llaswyr y bore; gydag awel ber y bore; gydag awel y dydd; yn ngöerder y bore.
Freshness of the countenance—gwridogrwydd, gwridgochni, gwridgochder, *neu* gochder yr wyneb.
Fresh verdure—irlesni, irlasrwydd, tirflesni, tirflasrwydd.

Freshnew,† *a.* newyddgrai.

Freshwater, *s.* dwfr croew, dwfr crai, dwr gwyra, aweddwfr, aweddwr.

Freshwater, *a.* aweddyfrol, aweddyfrog; perthynol i aweddwfr; yn perthyn i ddwfr croew; crai, cri; anfedrus, anhyfedr, anghyfarwydd, anhyddysg, anmhrofedig.
Freshwater sailor — morwr dwr croew, morwr dwfr crai, llongwr creiddwfr.
Freshwater fish—pysgod afon, pysgod dwr croew, pysg afon, pysg dwr croew.

Freshwatered, *a.* newydd ei ddyfrhau; newydd gael ei ddyfru; aweddyfrog.

Fret, *v.* (Sw. *fräta;* Ff. *frotter;* Al. *fressen*) rhwbio, rhathu, ysrathu, rhwtio, treulio, rhuglo, dyrathu; ysu, difa; rhathu yn llwyr; llygru *neu* dreulio trwy rathu *neu* rwbio; llygru, ysbelwi, gwynofi, dolurio; ymrathu, ymrwbio, ymrwtio, ymdreulio, ymlygru; cynhyrfu, cythruddo, ffromi, sori, coddi, digio, llidio, chwerwi, cyffröi, terfysgu, gofidio, blino, dygn flino, gwenwyno, gwynafu, moni, gwytho, gorwytho, peri gwytho; ymddigio, ymofidio, ymchwerwi, ymdrallodi, ymsori, ymwytho, ymwenwyno; bod allan o dymmer; bod allan o dymmer dda; bod allan o hwyl; bod mewn gŵyth *neu* soriant; bod mewn gofid meddwl; bod yn ymddigio *neu* ymofidio; cael ei ofidio; cael ei flino; bod yn anesmwyth *neu* aflonydd yn ei feddwl; bod ar y drain; bod yn anniddig *neu* anfoddog; annog i lid; ymgynhyrfu, ymweithio; amrywio, amrywioli, amryfalu, rhwyllweithio; crychu, ffreulo, nugio; twyfario; cynnysgaethu á thwyfarau.
To fret one's self—ymddigio, ymofidio, chwerwi, ymchwerwi, ymwytho, ymwenwyno, ymsori, &c.; blino ei hun.
To make one fret, } peri ymddigio, &c.;
To put one in a fret, } cythruddo.

Fret, *s.* cythrudd, cyffro, cynhwrf; cythrudd, cyffro, *neu* gynhwrf meddwl; cythrudd, cyffro, *neu* gynhwrf annhymmer; soriant, cythruddiant, coddiant, ffromiant, ffromiad, gwŷn, anesmwythder, edlid, llid, dig, digder, digofaint, ffromder, anfoddlonedd; ymwaith, ymgynhwrf; llwgr; rhwyllwaith; cymhleth; clwm cariad cywir; cnapwaith, clymwaith, cnycwaith, clwm; dellten; twyfar.
Frets (in music)—twyfarau, cymmedrolyddion tannau.
Fret (in heraldry)—cymhleth, clwm cariad cywir.
Without hole or fret—heb na thwll na thraul.
To be in a fret, } bod allan o dymmer;
To be upon the fret, } bod allan o dymmer dda; bod allan o hwyl; bod mewn gŵyth; bod mewn gofid meddwl; bod mewn soriant; bod yn ymddigio *neu* ymofidio; sori, ffromi, ffrochi, brochi; bod yn ffrom.
To be somewhat upon the fret, } moni,
To be a little upon the fret, } tèru, sori; bod dipyn allan o hwyl.

Fret, } *s.* (Ll. *fretum*) mornant, morgainc,
Fretum, } morgamlas, moryd, cyfyngfor.

Fretful, *a.* ffrom, anfoddog, anniddig, hyddig,

anhyfodd, digofus, anynad, gwynafog, hyffrom, ffrochus, ffroch, gwythlawn, drygnawsus, drygnaws, drygnwydus, digus, dig, dreng, croes, sor, gygus, gofidiog; drwg ei dymmer, ei natur, ei anian, ei hwyl, ei nwydau, *neu* ei anwydau.

Fretfulness, *s.* ffromder, anfoddogrwydd, anniddigrwydd, hyddigrwydd, digofusrwydd, anynadrwydd, drygnawsedd, croesineb, drengder; drygnaws, drygnwyd, natur ddrwg, anwes.

Frett, *s.* treulochr; yr ochr dreuliedig i geulan afon.

Fretted, } *a.* rhathedig, treuliedig, rhwbiedig,
Fretten, } ysedig; cynhyrfiedig, cyffröedig, cythruddedig, cythruddog; nugiog; cymhleth, cymhlethedig, clymedig; rhwyllog, rhigolog, rhygnog, rhychog, pannylog, ffosog.

Fretted roofs — cromglwydau rhwyllog, cronglwydau rhwyllog, rhwyllnenau.

Fretter, *s.* rhathydd, rhwbiedydd; digiwr, cythruddwr, &c.

Fretting, *s.* cynhyrfiad, cyffroad, cythruddad; ymddigiad, ymofidiad, &c.

The plague is a fretting leprosy—gwahanglwyf ysol yw y pla (*Lef.* xiii. 51).

Fretty, *a.* rhwyllog; cymhlethog; ar wedd clwm cariad cywir; delltenog; addurnedig â rhwyllwaith.

Fretum, *s.* (Ll.)=*Fret*, *Fretum*.

Fretwork, *s.* (*fret* a *work*) rhwyllwaith, rhigolwaith, rhygnwaith, delltwaith; cnapwaith, clymwaith; gwaith cymhleth; rhwyll.

Friability, } *s.* (o *friable*) hyfriwedd, hy-
Friableness, } friwder; briwsionllydrwydd, hawddineb peth i gymmeryd ei friwo.

Friable, *a.* (Ff.; Ll. *friabilis*) hyfriw, briwsionllyd; hawdd ei friwo, ei falu, falurio, *neu* ei bylori.

Friar, *s.* (Ff. *frère*, o'r Ll. *frater*) brawd, crefydd-frawd, brawd crefydd, brawd ffydd, ffyddfrawd, mynach, monach, manach; gofynach, mynach nad yw offeiriad.

Capuchin Friar—Brawd Cycyllog, Cycyllfrawd; Brawd Llwyd; mynach o urdd Sant Ffransis: *pl.* Cycyllogion, Cycyllfrodyr, Brodyr Cycyllog, &c.

Grey Friar—Brawd Llwyd, Lleiog, Mynach Llwyd; Ffransisciad, monach o urdd Sant Ffransis: *pl.* Lleiogion.

Black Friar—Brawd Gwisgddu, Gofynach Du, Brawd Du; Dominiciad; brawd *neu* fynach o urdd Sant Dominic.

White Friar—Brawd Gwŷn, Mynach Gwŷn; Carmeliad.

Preaching Friars — Brodyr Pregethol= Dominiciaid.

Crouched Friars, } Brodyr y Groes, Brodyr
Crutched Friars, } Croesog, Croesfyneich,
Crossed Friars, } Croesfonachod, Croesfrodyr.

Austin Friar—Brawd Awstinaidd; mynach o urdd Sant Awstin.

Mendicant Friar—Brawd Cardoteiol, cardotëig, cardotol *neu* gardotlyd; Cardodfrawd; Brawd o urdd *neu* frawdoliaeth y Cardoteion.

Friar's cowl—cwcwll y mynach, cwfl y mynach, brawdgwcwll=math o blanigyn â'i flodyn yn tebygu i gwcwll monach.

Friar's lantern — hudlewyrn, hudlewyn, malldan, llewyrn, ellylldan, tân ellyll, llugern mynach.

Friarlike, *a.* mynachaidd, monachaidd, mynachol, monachol, manachol; fel monach, fel crefydd-frawd; anghynnefin â'r byd.

Friarly, *a.* mynachaidd, monachaidd, manachaidd, mynachol, monachol, manachol, fel mynach, fel crefydd-frawd; perthynol i frodyr *neu* fyneich; anghynnefin â'r byd; anwybodus o arferion y byd.

Friary, *s.* brodordy, brodyrdy, ffreutur; gofynachdy, cyfaint, mynachdy, manachdy, monachlog, manachlog.

Friation, *s.* briwad, briwiad, maluriad, briwionad, briwsionad, briwawd.

Fribble, *a.* (Ll. *frivolus*; Ff. *frivole*) dibwys, diwerth, gwagsaw, disylwedd, digyfrif; ffrilaidd, celachaidd, gelachaidd, eiddilaidd, ffritaidd; gwael, salw, disas, dirmygus; gwag, coeg, oferwag; ffol, anghall, lledffol, disynwyr.

Fribble, *s.* ffrityn, ffrilyn, ffril, celach, gelach, eiddilyn, bril, brilyn, llipryn, llibyn, gwageddwr, simerwas: *f.* ffriten, ffrilen, llipren, brilen.

Fribble, *v. n.* ffritian, ofera, simera, gogusa, gwagedda, chwareu, chware, cellwair, cydgam, gwag dreulio, oferdreulio, oferchware, segura, pencawna, gwersa; gwegian, gwegio, honcian.

Fribbler, *s.*=*Fribble*.

Friborg, *s.* (*fres* a *burg*) rhyddwystl, rhydd wystl, rhyddadneu, rhyddwaesaf; gwystl dros wr rhydd *neu* freiniol.

Fricace, *s.* (Ff. *fricassée*) briwgig wedi ei drin gyda sibr cryf; ffrienaint.

Fricassee, *s.* (Ff.; It. *frigasea*) ffrifrithog, ffrifanfwyd, ffrifriwgig; brithog, manfwyd; manddryllïau o gig ffriedig.

Fricassee, *v. a.* trin ffrifrithog, trin ffrifriwgig; trin yn ffrifrithog.

Frication, *s.* (Ll. *fricatio*) rhuglad, rhwbiad, rhathiad.

Friction, *s.* (Ll. *frictio*) rhathiad, rhwbiad, rhuglad, rhybiad, rhwtiad, rhytiad, ysrathiad, treuliad; rhugl, rhugledd, rhwb, rhwt, rhwgn, ysrath; ymrwbiad, ymdreuliad.

Frictionless, *a.* dirugl, dirath, heb rathiad, heb ruglad.

Friday, *s.* (S. *frig-dæg*, o *Frigga*, Gwener y Gogledd, a *dæg*, dydd; Al. *freitag*; Is. *vrydag*) dydd Gwener, dyw Gwener.

Good Friday—Dydd Gwener y Croglith, Dydd Gwener Croglith.

Upon Sundays, Wednesdays, and Fridays—ar y Suliau, y Mercherau, a'r Gwenerau; ar Suliau, Merchurau, a Gwenerau.

Fridge,† *v. n.* (S. *frician*) brysio, ffysgio, ffrystio, chwimio, symmud yn chwimmwth.

Friend, *s.* (S. *freond*; Al. *freund*; Is. *vriende*) cyfaill, cyfaillt, cydymaith, enrhaith; câr, carwr, carodyn, carodog, anwylddyn, anwylyn, anwyliad, hoffddyn; un o garedigion; ewyllysiwr da.

Female friend, } cyfeilles; cares, caroden,
She-friend, } cydymeithes, anwyles.

False friend—cyfaill gau, gau gyfaill, geugar, geugyfaill; twyll i'w gydymaith.

Familiar friend—cyfaill, cydgyfaill, cyfeillfrawd, câr, carwr, cydgar, cyfaill cyfrinachol, cyfaill monwesol, cyfathrachwr, eydnabod.

Trusty friend—cyfaill ymddiriedus, cyfaill cyfrin, cyfaill cyfrinachol, câr ymddiriedus, cyfrinachydd, cyfrinachwr, ymddiriedog, cyfrin, ymddiriedyn, ymddiried-ddyn, cyfaill monwesol.

Bosom friend—cyfaill monwesol, cyfaill calon, cyfaill anwylaf, cyfaill monwes.

Mutual friend—cydgyfaill, cydgar.

Belly-friend, } bolerwr, bolerai, bol-
Trencher-friend, } garwr, Ieuan lygad y bwyd, truthlynwr.

Society of Friends—Cymdeithas y Cyfeillion; y Cyfeillion, y Carodorion, y Crynwyr.

To make friends—cymmodi, adgymmodi; ymgymmodi; gwneuthur cymmod, cydfod, *neu* heddwch rhwng; ennill cyfeillion, gwneuthur cyfeillion.

To make men friends—cymmodi dynion, adgymmodi dynion; gwneuthur cymmod, heddwch, *neu* gydfod rhwng dynion; cymmodi, adgymmodi, ymgymmodi, dygymmodi, heddychu, cylafareddu, *neu* dangnefeddu rhwng dynion.

To be friends with one, } bod *neu*
To become friends with one, } fyned yn gymmodol âg un; bod *neu* fyned yn gymmodol âg un; cymmodi, ymgymmodi, dygymmodi, ymgymmodi, *neu* ymheddychu âg un; bod yn gyfeillion âg un; dyfod yn gyfeillion âg un; myned yn gyfeillion âg un.

To stand one's friend—sefyll gydag un; sefyll o blaid un; sefyll yn mhlaid un; pleidio un; pleidio gydag un; sefyll yn gyfaill i un.

To get one's self friends, } ennill, ynnill,
To make one's self friends, } *neu* wneuthur i un gyfeillion.

Make to yourselves friends—gwnewch i chwi gyfeillion.

To make a person one's friend—gwneuthur un yn gyfaill iddo; ennill un yn gyfaill iddo; gwneuthur un yn garedig iddo; ennill un i fod yn garedig iddo; ennill.

A friend in need is a friend indeed—câr cywir yn yr ing y gwelir; y câr cywir yn yr ing y gwelir; y câr dilys ing a'i dengys.

A friend is never known till one have need—câr cywir yn yr ing y gwelir.

A friend in court is better than a penny in purse—gwell câr mewn llys nag aur ar fys.

Thou art not Cæsar's friend—nid wyt ti garedig i Cæsar.

My very friends and companions—hyd yn oed fy ngheraint a'm cyfeillion.

Certain of Heliodorus' friends—rhai o gyfeseaf Heliodorus (2 *Mac.* iii. 31).

When his friends heard of it—pan glybu yr eiddo ef (*Marc* iii. 21).

Inward friends—cyfrinachwyr (*Iob* xix. 19).

Friend,† *v. a.* cymmwynasu; gwneuthur cymmwynas; gwneyd rhan cyfaill; pleidio, cynnorthwyo, cefnogi.

Friended, *a.* cyfeillgar, cyfeilliog; anwylgar, careugar; pleidiog.

Friendless, *a.* dïgyfaill, digar, digarad; diborth, digynnorthwy, digymhorth, diymgeledd; amddifaid o geraint *neu* gyfeillion; heb na chân na chyfaill; amddifad; angharad.

Nearly friendless—breiddgar; heb gyfaill braidd; bron heb gyfaill.

Friendlike, *a.* cyfeillaidd, fel cyfaill, caruaidd.

Friendliness, *s.* cyfeillgarwch, caredigrwydd, caruciddwch, caruciddrwydd, cymmwynasgarwch, mwynasgarwch, careugarwch, ewyllys da, hygaredd, hawddgarwch, hynawsedd, cariadusrwydd, carodoldeb; addfwynder; cariad.

Friendly, *a.* cyfeillgar, cyfeillaidd, caredig, cariadus, caruaidd, carodol, carodog, caredigol, cymmwynasgar, mwynasgar, cymdeithasgar, cydymeithgar; mwyn, addfwyn, cyweithas, cyweithasol, heddychol, heddychlawn, heddgar, tangnefus, hynaws, tirion, hawddgar; da ei ewyllys; yn dwyn ewyllys da; pleidiol.

Friendly societies—cymdeithasau cyfeillgar.

Friendly Islands—Yr Ynysoedd Cyfeillgar; Ynysoedd Tonga (yn y Môr Tawel).

Friendly, *ad.* yn gyfeillgar, &c.; fel cyfaill, fel câr; yn deg; wrth fodd calon.

Friendship, *s.* cyfeillach; caredigrwydd; carwriaeth, carennydd; cymdeithas; cyfeillgarwch; cymmwynas, mwynas; cymhorth.

To break friendship—dattod cyfeillach, tori cyfeillach.

Make no friendship with an angry man—na fydd gydymaith i'r digllawn (*Diar.* xxii. 24).

Friesland-Green, *s.* gwyrdd Brunswig, gwyrdd Ffriesland, gwyrdd Ffriesdir.

Frieze, } *s.* (Ysp. *friza*; Ff. *friser*) gra, ceden;
Freeze, } brethyn graog, brethyn cedenog,
Freese, } brethyn tewban; ffris, isdalaith,
Frize, } pilladdurn.

Frieze of a column—ffris colofn, pilladdurn, gra colofn=y rhan o ben colofn sy rhwng y pensaffwn a'r talefwrn.

Frieze-rail—ffrisrail, ffrisreilen.

Friezed, *a.* graog, cedenog; â gra *neu* geden arno.

Friezelike, *a.* cedenaidd, fel gra; ffrisaidd.

Friezing, *s.* cedeniad, codiad gra, grïad.

Frigate, *s.* (Ff. *frégate*; It. *fregata*; Gr. *aphratos*!) ffreigad=math ar gadlong ysgafn: †llongen.

Frigate-bird—yr eryr goradain.

Frigate-built, *a.* â'r pedryfwrdd a'r ffluegfwrdd wedi eu codi yn uwch na'r prif fwrdd.

Frigatoon, *s.* (Ff. *frégaton*) ffreigaden Gwenethia, ffreigaden Gweneth.

Frigefaction, *s.* (Ll. *frigus* a *facio*) oerbariad, oeriad, gwneuthuriad yn oer.

Fright, *s.* (D. *frygt*; S. *fyrhto*; Al, *furcht*) braw, dychryn, arswyd, ofn, echryn, echryd, ergryd, swyd, orn, arynaig, argyswr, argyswrw, bredych, hylldraw, erchylldod.

Chilling fright—oerfraw.

Sad fright—braw aele, braw anhylon, dychryn aflawen.

Fright, } *v. a.* brawychu, dychrynu; peri
Frighten, } ofn, dychryn, braw, *neu* arswyd ar; ofnhau; gyru ofn, braw, *neu* ddychryn ar; aryneigio, ciliorni, hylldrawu; bygylu, bwbachu; llyfrhau, digaloni; alarmu.

Frightful, *a.* dychrynllyd, erchyll, ofnadwy, arswydus, arswydfawr, arswydol, arswydlawn, echryslawn, aruthr, cethin, certh, uthr,

anferth, hagr, hyll, (*f.* hell), hyllig, erch, irad, echrydus, brawychus, brawychol.

Frightfulness, *s.* dychrynllydrwydd, erchyllrwydd, erchylldod, erchyllder, erchylldra, arswydolrwydd, arswydlonedd, arswydusrwydd, arswydfawredd, oethindeb, oethinrwydd, iradedd, hagrwch, aruthredd.

Frightless, *a.* difraw, diofn, diddychryn, diarswyd.

Frigid, *a.* (Ll. *frigidus*) oer, oerllyd, addoer, rhynllyd, diwres, oerfelog, oeraidd; marwaidd, difywyd, dieffaith; egwan, lleg, dinerth, anmhybyr, diarial, diallu, llipa, llibin, llaes, lleipr; dinwyf, anwraidd, analluog; dideimlad; ffurfiol; anystwyth.

Frigid zone—y cylch oer, addoer, oerfelog, oerllyd, *neu* rewllyd; oergylch, rhewgylch.

Frigidity, } *s.* (Ll. *frigiditas*) oerder, oerni,
Frigidness, } oeredd, oerdra, oerdeb, oerllydrwydd, addoeredd, oerfelogrwydd, rhyndod, anwres; marweidd-dra, egwander, llesgedd, pylni, diflasdod, anmhybyrwch; annheimladrwydd; anystwythder; ffurfioldeb.

Frigorific, *a.* (Ll. *frigorificus;* Ff. *frigorifique*) oeriadol, oeredigol, oerol, oerbair, oerbar, oerbarol, oerddwyn; à baro oerfel *neu* oerni.

Frill, *v. n.* (Ff. *frileux;* Is. *trillen;* Al. *trillern*) crynu, ffrynu, ysgrydu, ysgrydian, ysgrydio, ysgrynu, ysgrydiannu, rhynu, nugio; crynu gàn annwyd *neu* oerfel.

Frill, *s.* crychlen, crychan, sidergrych, dillgrych, crychaddurn.

Frim,† *a.* (S. *freom*) blodeuog.

Fringe, *s.* (Ff. *frange;* Al. *franse;* Is. *franje*) sider, sitrach, rhidens, rhidels, eddi, ymylwe, gwrlys; ymylgylch, amaerwy.

To make fringes — sideru, sitrachu; gwneuthur sider, &c.

To put on a fringe to a garment—sideru *neu* amaerwyo dilledyn; rhoi sider ar *neu* wrth ddilledyn.

Having a fringe, } siderog, eiddïog, sit-
Having fringe, } rachog, amaerwyog; âg iddo sider, &c.

Thou shalt make thee fringes upon the four quarters of thy vesture—plethau a weithi i ti ar bedwar cwr dy wisg (*Deut.* xxii. 12).

Fringe, *v. a.* sideru, sitrachu, eddïo, amaerwyo; rhoi sider ar *neu* wrth; rhoi rhidens ar *neu* wrth; gwnio sider ar *neu* wrth; gwnio rhidens ar *neu* wrth; taselu.

Fringed, *p. p.* siderog, sitrachog, eddïog; sideredig.

Fringeless, *a.* disider, ansiderog, disitrach, dieddi.

Fringelike, *a.* sideraidd, sitrachaidd, eddïaidd; fel sider, &c.

Fringemaker, *s.* siderydd, siderwr, eddïwr.

Fringe-tree, *s.* siderwydden, sitrachwydden, eiriawl, Virginia: *pl.* siderwydd, sitrachwydd =math o gloch maban, neu eiriawl.

Fringilla, *s.* (Ll.) y winc, y gwincod.

Fringillidæ, *s. pl.* (Ll. *fringilla*) y pincod, y pinclwyth.

Fringy, *a.* (*o fringe*) siderog, sitrachog, eddïog; addurnedig â sider.

Fripperer, } *s.* (Ff. *friper*) henddilladwr, hen-
Fripper, } ddillatwr, hennwyddwr, gwerthwr hen ddillad, masnachydd hen ddillad, coeglugenydd; bragaldiwr, baldorddwr.

Frippery, *s.* (Ff. *friperie*) henddillad, hen ddillad, hen ddillatach, hen ddillad eilwerth, hen fratiau; henddilladfa, hennwyddfa, marchnadfa hen nwyddau, marchnadle hennwyddwyr, marchnadfa gwerthwyr hen bethau, gwerthle hen bethau; hennwyddiaeth, henddilladaeth, masnach mewn hen ddillad; baldordd.

Friseur, *s.* (Ff.) gwalltrinwr, gwalltrinydd, crychwr gwallt, trinwr gwallt, argrychwr.

Frisk, *v. n.* (D.; Al. *frisch*) crychneidio, crychlamu, cyrchneidio, cyrchlamu, rhonta, llamu, llemain, llamsach, llamsachu, cyrneidio, ysboncio, dychlamu, prancio, taplasu, taplasa, pestota, pestodi, moelystota, moeldesota, nwyflamu, nwyfneidio, darchware, nwyfchware, gofregu; corelwi, dawnsio.

To frisk about—llercyna, simera, dyrain, sefyllian; crychneidiaw o amgylch.

Frisk, *a.* bywiog, nwyfus, heini, hoenus, chwarëus, chwareugar, gorhoenus, gorawenus, pranciol, gofregus, llamsachus, rhontëig.

Frisk, *s.* crychlam, crychnaid, cyrchlam, cyrchnaid, rhout, llam, pranc, llamsach, naid, taplas; nwyfchware, darchware, gwamalwch, asbri: *pl.* crychlamau, &c., munudiau llamsachus.

Friskal,† *s.*=*Frisk.*

Frisker, *s.* rhontyn, crychneidiwr, cyrchneidiwr, cyrchlamwr, crychlamwr, llamsachwr, llamsachydd, nwyflamwr, nwyfwr, nwyfyn, gwamalyn, gwantan: *f.* rhonten, nwyfen.

Frisket, *s.* (Ff. *frisquette*) ffrysgylch, ffrysgryd, ffrysgen=ystram y bapyrien yn yr argraffwasg.

Friskful, } *a.* bywiog, rhontëig, rhontus,
Frisky, } nwyfus, hoenus, gorhoenus, heini, hawntus, hawntiog, llamsachus, chwarëus, chwareugar, gofregus, pranciol, gorawenus; chwiwiol, gwantan, nwyflawn, nwyfol, nwyfog; llawn nwyflant a chware; rhemp.

Friskiness, *s.* bywiogrwydd, hoenusrwydd, heinifrwydd, rhontusrwydd, rhonteigrwydd, nwyfusrwydd, nwyfusedd, hawntusrwydd, hawnt, hawntrwydd, nwyfogrwydd, chwareugarwch, chwareusrwydd, hoewedd, hoewder, llonder, gofregusrwydd; dyrain, dyre; gwegawrwydd; llamsach, rhont, darchware, hoen.

Frit, *s.* (Ff. *fritte;* It. *fritto*) ffriddefn=lludw i wneuthur gwydr.

Frith, *s.* (Ll. *fretum*) mornant, moryd, morgamlas, morgainc, morgang, morddwfr, morafon, cyfyngfor, cainc o fôr, culffrwd; gored; rhwyd.

Frith, } *s.* (o'r C.) ffrith, ffridd; coedwig, fforest,
Firth, } coedfa, gwig.

Frithy,† *a.* coediog, coedog, gwyddog.

Fritillary, *s.* (Ll. *fritillus*) britheg.

Fritinancy,† *s.* (Ll. *fritinnio*) creciad, gwichiad, grilliad, trydariad.

Fritter, *s.* (It. *frittella;* o'r Ll. *frictus*) cremog, cremogen, crempog, crempogen, crammwyth, mïoden, teisen fïod; ffrigig, cig ffriedig, dernyn o gig ffriedig; darn, dernyn, dryll, dryllyn, yffllyn, cwlff, cat, cetyn, cilcyn, cinyn, ciniochyn, llerpyn.

All to fritters—yn chwilfriw, yn yffion, yn dipiau, yn ddarnau, yn gyrbibion, yn deilchion, yn llarpiau mân, yn yffion mân, yn gandryll.

Fritter, *v. a.* manddryllio, manddarnio, chwil-

friwo, teilchio, tameidio; cigfriwo; tori cig yn fân ddarnau i'w ffrio.
To fritter away—lleihau, toli; difa yn raddol; treulio ymaith; pilio ymaith; gwneuthur yn ddim o fesur ychydig; gwastraffu.
Frivolity, *s.*=*Friviolousness.*
Frivolous, *a.* (Ll. *frivolus*; Ff. *frivole*) dibwys, disylwedd, diwerth, ofer, diras, gorwag, gwag, coeg, oferwag, gwael, sal, salw, gorwael, diddefnydd, diystyr, dibris, digyfrif, gwagsaw, diddym.
A frivolous matter, } anober, anoberi,
A frivolous thing, } oferbeth, coegbeth, gwegi, gwaelbeth; peth dibwys.
Frivolousness, *s.* oferedd, gwagder, diasrwydd, gwaeledd, salwedd, gorwagedd, gorwaeledd, coegedd, gwagsawrwydd, dibwysedd, ysgafnder.
Frizz, } *v. a.* (Ysp. *frisar*; Ff. *friser*) crychu,
Frizzle, } argrychu, crispio, crispynio, crispynu, crybychu, modrwyo, torchi; gwneuthur yn grych *neu* grisp.
Frizzle, *s.* crych, cudyn, cudyn crych, llofn crych, crychgudyn.
Frizzler, *s.* crychwr, crychiedydd, crybychwr, crispynwr.
Fro, *ad.* (S. *fra*; byrhad, efallai, o *from*) o, oddi wrth; odd wrth; oddi, odd; draw, ymaith; yn ol.
To and fro—yma ac acw, yma a thraw, hwnt ac yma, draw ac yma; yn ol ac yn mlaen; i ac o.
From going to and fro in the earth—o dramwy ar hyd y ddaiar.
Frock, *s.* (Ff. *froc*; Al. *frack*; Llyd. *frocq*) amdwyg, twyg, arwisg, amdegrys; gŵn.
Frock coat—mantgoban, mantbais.
Frockless, *a.* didwyg, diamdwyg.
Frog, *s.* (S. *froga, frogga*; D. *frõe*) creiniog, llyffant, llyffan, llyffant melyn, llyffan melyn, broga; bywyn carn ceffyl.
Frog (in farriery)—llyffant, llyffan, bywyn carn ceffyl, llyffant carn march.
Frog of a gown—creiniog gŵn, tasel gŵn.
Green frog — llyffant gwyrdd, gwyrdd lyffant; llyffan bwytadwy.
Esculent frog—llyffant bwytadwy.
Bull-frog — creiniog mawr, gorgreiniog.
Frog spawn—griffi, griff, griffyll, egriffi, chwydredd creiniogod, chwyd llyffaint.
Frog-satyrion—baldar blodeuwyrdd, llysiau yr ysgyfarnog.
Frogbit, *s.* (*frog* a *bit*) alaw lleiaf.
Frogfish, *s.* morlyffant, llyffant y môr, llyffanbysg, pysglyffant.
Frog-grass, *s.* creinioglys.
Froggy, *a.* (o *frog*) creiniogog, llyffeintiog, llyffanog, llawn llyffaint.
Froghopper, *s.* llyffiamydd, llyffiamidydd; poergreiniog, poerhegab=math o drychfilyn à geir yn mhoeryn y gog.
Frogkite, *s.* bod y gwerni.
Froise, *s.* (Ff. *froisser*) ffroes, ffroesen, ffrwysen, cremogen facynog: *pl.* ffroesod, ffrwys.
Frolic, } *a.* (Al. *fröhlich*; Is. *vrolyk*) llon-
Frolicsome, } wych, llon, llawen; hoenus, gorhoenus, nwyfus, nwyfol, nwyfog, hynwyf, nwyflawn, chwarëus, chwareugar, rhontus, rhontëig, gorawenus, pranciol, pranciog, gofregus, llamsachus, heini, heinif, bywiog, nwyfchwarëus, ysmala; llawn nwyfiant a chware; llawn pranciau; llawn castiau gwagsaw; llawn castiau coeg ddigrif; cellweirgar, cellweirus, afieithus, difyr, digrif; ysgafn; à chware arno; llawn ysmalion; saethytol.
The frolic winds—y gwyntoedd gwantan.
Out of a frolicsome disposition—o dra nwyfiant; o nwyfiant natur.
Frolic, *s.* pranc, nwyth, nwyd, gofreg, asbri, chwim, chwimp, ias, mympwy, gwŷn anwadal, nwythas, hynt, ysmal, cast, gwamaldro; chwidredd, gwamalwch, gwamalder, difyrwch, digrifwch, coeg ddifyrwch, masweedd, ysmaldod, gwres, nwyfiant; gofregfa, nwythfa, ysmalfa: *pl.* ysmalion, castiau digrif, pranciau digrif, ystrancian digrif.
For a frolic—er mwyn llawenydd, difyrwch, *neu* ddigrifwch; er ysmaldod, er asbri; o wir asbri; o dra nwyfiant.
Thou art troubled with some odd frolic—mae arnat ti ryw wres garw.
Frolic, *v. n.* prancio, rhonta, gofregu, chwareu, chware, ysmaldodi, pestota, pestodi, nwyfchware, masweddu, gorawenu; chwareu yn nwyfus, &c.; chwareu pranciau digrif.
Frolicful, *a.*=*Frolic, Frolicsome.*
Frolicly,† *ad.* yn llonwych, yn llon, &c.
Frolicsomely, *ad.* yn llonwych, yn hoenus, &c.
Frolicsomeness, *s.* llonwychder, llonder; hoenusrwydd, gorhoenusrwydd, nwyfusrwydd, nwyfusedd, hynwyfedd, chwareusrwydd, chwareugarwch, gwagsawrwydd, chwidredd, rhontusrwydd, rhonteigrwydd, gofregusrwydd, nwythigrwydd; nwyfiant; gwyllineb, gwamalrwydd, *neu* chwidredd llawenydd; nwyfiant *neu* nwyfusrwydd tymmer; dyrnin, dyre, teasch; gwrhewcrusrwydd.
Out of frolicsomeness, } o dra nwyfiant;
Through frolicsomeness, } o nwyfiant natur; o wir nwyfusrwydd.
From, *prep.* (S. *fram, from*) o, oddi wrth, odd wrth, o wrth, oddi, odd, oc; oddi gàn, oddi ar, odd ar; rhag; er; iwrth; iarn.
From me—oddi wrthyf, oddi wrthof, odd wrthyf; oddi wrthyf fi; oddi arnaf.
From thee—oddi wrthyt, oddi wrthot, odd wrthyt; oddi arnat, oddi arnad, odd arnat, iarnad.
From him, } oddi wrtho, odd wrtho; oddi
From it, } wrtho ef; oddi arno, odd arno.
From her, } oddi wrthi, odd wrthi; oddi
From it, } wrthi hi; oddi arni, odd erni.
From us—oddi wrthym, oddi wrthom, odd wrthom; oddi arnom, odd arnom.
From you—oddi wrthych, oddi wrthoch, odd wrthych; oddi arnoch.
From them—oddi wrthynt, oddi wrthont, odd wrthynt; oddi arnynt; onaddynt, onaddu.
From above—oddi uchod, odd uchod, oddiuchod, oddiucho, oddi fry, oddi fyny, oddi fynydd, oddi uwch; oddi ar, odd ar.
From about—oddi am, odd am, o gylch, oddi gylch, oddi gylchen, oddi amgylch.
From afar—o bell, o hirbell.
From beneath—oddisod, odd isod, oddi isod, oddiso, oddobry, oddi waered, oddi obry, oddi lawr, oddi tanodd, oddi tàn.

From amidst, } o blith, o fysg, oddi rhwng,
From among, } o ganol.
From below—oddisod, odd isod, oddi isod, oddiso, oddobry, oddi obry, oddi waered, oddi lawr, oddi tàn.
From behind—o'r tu cefn, odd yn ol, o'r tu ol.
From beyond—o'r tu hwnt i; o'r tu draw i; oddi dros, oddi tros.
From far—o bell, o hirbell.
From high, } o'r uchelder; oddi uchod,
From on high, } odduchod, odd uchod, oddi fry, oddi fyny, oddi fynydd.
From hence, } oddi yma, oddyma, oddyma,
Hence, } oddi yman, oddyman; oddi yna, odd yna, oddyna; o hyn; oddi wrth hyn; yn ol hyn, ar ol hyn.
From henceforth—o hyn allan; o hyn i maes; maes; rhag llaw; o'r pryd hwn allan; yn ol hyn; ar ol hyn; weithian, bellach, mwy, mwyach; dros yr amser i ddyfod.
From forth—allan o; o'r; oddi allan; odd allan o'r.
From off—oddi ar, odd ar; oddi; iarnadd.
From on—oddi ar, odd ar; iarn, iar, iarnadd.
From out—oddi allan, odd allan, o'r tu allan, oddi faes, oddi maes.
From thence, } oddi yna, odd yna, oddyna;
Thence, } oddi yno, oddyno, odd yno; o'r fân hòno; o'r lle hwnw; o'r pryd hwnw *neu* hyny; o'r amser hwnw *neu* hyny.
From where—o ba le; o ba un; o'r lle.
From within—oddi mewn, oddi fewn; o'r tu mewn.
From without—oddi allan, odd allan, oddi faes, oddi maes; o'r tu allan; nid o hono ei hun.
From under—oddi dàn, oddi tàn, o dàn.
From yonder—oddi acw, odd acw, oddi draw, oddi oco, oddi hwnt.
From off me, } oddi arnaf, odd arnaf.
From over me, }
From off thee, } oddi arnat, odd arnat,
From above thee, } oddi arnad.
From off them—oddi arnynt, odd arnynt, oddi arnaddynt. [o'm.
From my—o'm, o fy, o fym, odd ym; allan
From home—oddi gartref, oddi cartref, o gartref, o dref; heb fod gartref.
From abroad—o'r gwledydd pell; o'r gwledydd tramor; o wlad dyeithr; oddi allan, o bant.
From that place—oddi acw, oddi oco; o'r fân acw; o'r fân oco; oddi draw; o'r lle hwnw; o'r lle acw.
From off the way—oddi ar ffordd; odd ar y ffordd; o'r ffordd.
From the possession of, } oddi gàn.
From being with, }
From my possession — oddi genyf, oddi ganddwyf, oddi ganddof, oddi ganwyf.
From his possession—oddi ganddo, oddi ganto, oddi gantho, oddi gano.
From her possession—oddi ganddi, oddi ganti, oddi ganthi, oddi genddi, oddi genti, oddi genthi.
From between us—oddi rhyngom, oddi rhyngddom, oddi rhyngtom, oddi rhyngthom.
From on horseback—oddi ar gefn ceffyl; oddi ar geffyl; odd ar farch.
From day to day—o ddydd i ddydd; o ddydd bwygilydd; beunydd; bob dydd; yn feunyddiol, yn beunyddiol.
From all places—o bob lle; o bob parth; o bob màn; o bob tu; o amgylch ogylch.
Deliver us from evil — gwared ni rhag drwg.
I kept him from doing this—mi a'i cedwais rhag gwneuthur hyn; atteliais ef rhag gwneyd hyn.
From between his feet—oddi rhwng ei draed.
From the beginning of the world—er dechreuad y byd; oddi ar ddechreu y byd.
From the beginning of the world to this day—o ddechreuad y byd hyd heddyw.
They went out from us—aethant allan oddi wrthym ni.
The sceptre shall not depart from Judah—nid ymedy y deyrnwialen o Iudah; nid ymedy y deyrnwialen â Iudah.

Fromward, *ad.* (*from* a *ward*) oddi wrth, odd wrth; ymaith oddi wrth.
Frond, *s.* (Ll. *frons*) deilgangen, deilgang, deilgainc, deilosglen; dalen.
Frondation, *s.* (Ll. *frondatio*) brigladdiad; briwfrig, osglau, manwydd; ysgythron coed.
Frondesce, *v. n.* (Ll. *frondesco*) deilio.
Frondescence, *s.* deilawd, amser deilio; y cywir amser y deilia pob math ar blanigion.
Frondiferous, *a.* (Ll. *frondifer*) deilddwyn, deilfag, deiliar; yn dwyn dail.
Frondous, *a.* (o *frond*) deilaidd, deilgangog.
Front, *s.* (Ff.; Ll. *frons*) tâl, talcen; talwyneb, gwyneb, wyneb, rhagwedd; tu blaen, pen blaen; rhag; haerllugrwydd, talogrwydd, talgryfder, eofnder, eondra, digywilyddra.
Front of an army, } cadflaen, talgad, blaen
Front of battle, } y gad, y fyddin flaen, gwyneb y drin, cyncad, y blaeniaid, y blaen-gis, llugynnor, cynhorf, cyntorf.
Front rank—arleng, rhagleng, rhagrestr, rhagres, blaenres, rhes flaen, rhestr flaen, rhenc flaen.
Front to front—taldal, daldal.
Variegated front—talfrith.
Of variegated front—talfrith.
With what front could he do it? â pha wyneb y gallai efe ei wneuthur? â pha haerllugrwydd y gallai efe ei wneuthur?
Front-stall of a bridle — talffrwyn, talre ffrwyn, rhagdal ffrwyn; talaith march.
Front, *v.* gwynebu, wynebu; sefyll yn wyneb; sefyll yn ngwyneb; sefyll gyferbyn â; sefyll ar gyfer; gwynebu ar; bod â'i wyneb ar *neu* at; sefyll yn flaenaf; gwrthwynebu.
Frontage, *s.* (o *front*) gwyneb, wyneb, rhagwedd, rhagran adeilad, gwyneb adail.
Frontal, *a.* (Ff. o *front*) talcenol; perthynol i'r talcen; à fo blaen; amytal.
Frontal bone—asgwrn y talcen, y talasgwrn, yr asgwrn amrytal.
Frontal, *s.* (Ff.; Ll. *frontale*) rhagdal, rhactal, rhagdalaith, blaendalaith, talddarn, taladdurn, talaith, talfa, talwynebyn, talwisg; talgyffer, talgyffyr, meddyginiaeth i'r talcen.
Frontated, *a.* (Ll. *frontatus*) yn tyfu letach letach.

Frontbox, *s.* talgor, côr blaen, sedd flaen, cuddigl blaen.

Fronted, *a.* talog, talcenog, rhagweddog; âg iddo dâl *neu* dalcen.
Rough-fronted—talgrych, talarw: *f.* talgrech.
Round-fronted—talgrwn; *f.* talgron.
Bald-fronted—talfoel.
Short-fronted—talfyr; *f.* talfer.
Of many-coloured front—talfrith; *f.* talfraith.
Front-covered—taldrwch.
Bold-fronted—talgryf; *f.* talgref.
Fair-fronted — gwyndal, (*f.* gwendal); wynebwyn, (*f.* wynebwen), granwyn, (*f.* granwen.
Silver-fronted—talarian, talariant.
Iron-fronted—talhaiarn.

Frontier, *s.* (Ff. *frontière*) cyffin, ffin, terfyn, cyffinid, cyffinydd, cyttorfyn, argyffin; cyffiniau, gororau, blaenau; talaeth.

Frontier, *a.* cyffiniol, cydffin, cydffiniol, cyttorfynol, amminiog, argyffiniol, ffiniol, unffin; â fo ar y cyffiniau *neu* y terfynau.
Frontier town—tref gyffin, tref gyffiniol, caer gyffin, cyffindref, tref ffin, tref amminiog; tref ar y cyffiniau.

Frontiered, *a.* diffynedig ar y cyffiniau; ffinddiffynog, cyffinnawdd.

Fronting, *a.* taldal, wyneb yn wyneb; cyferbyn, cyferbyniol, cyferydig, cyfaran, cyfarfan, argywydd; yn gwynebu ar.

Frontiniac, *s.* gwin Ffrontiniac (yn Languedoc).

Frontispiece, *s.* (Lt. *frontispicium*) talwyneb, gwyneb, wyneb, tâl, talcen, adeilwyneb, adeilweb; taladdurn, taleilun, gwyneblun, wyneblun, rhagaddurn, rhaglen.

Frontless, *a.* talgryf, haerllug, digywilydd, talog, hyfwyneb, hyweb, wynebgaled, hy, eofn.

Frontlet, *s.* rhagdal, rhactal, talaith, talrwym, talwisg.

Frontroom, *s.* ystafell wyneb, cell wyneb; ystafell yn wyneb ty.

Froppish,† *a.* (?) afrywiog, anniddig, anynad, anfwyn, drygnawa.

Frore, } † *a.* (Al. *fror, gefroren;* Is. *vroor,*
Frorne, } *bevrooren*) rhewedig, rhewog, rhewlyd.
Frory, }

Frost, *s.* (S., Al., Sw., a D.) rhew: *pl.* rhewogydd.
Hoar-frost—llwydrew, barug, glasrew, gorwydr, arien.
Hard sharp-pointed frost, } crimprew.
Sharp frost, }
Black frost—durew, rhew du.
Nipping frost—ewinrew, gwynrew, deifrew.

Frost, *v. a.* rhewgaenu, arienu, rhewdaenellu, rhewdabu, caensugro, haensugro; cuddio *neu* daenellu â pheth tebyg i lwydrew; iâu, tallu.

Frost-bearer, *s.* rhewddygydd, rhewddygai, rhewddygyr, rhewadyr.

Frostbitten, *a.* ewinrew, gwynrew; â'r ewinrew arno; â'r gwynrew arno; â gwynrew arno; âg ewinrew arno; rhewedig, fferedig; wedi rhewi, fferu, *neu* rynu; deifiedig gân rew.

Frostbound, *a.* rhewrwym, rhewgaeth; rhwym yn *neu* gân y rhew.

Frosted, *a.* briglwyd, penllwyd, llwydwyn, llwydrewaidd; tebyg i lwydrew; gwŷn, gwynedig, gwedi gwynu; gorchuddiedig *neu* daenelledig â pheth fel llwydrew; rhewgaenedig, rhewdaenellog, rhewdabedig; âg wyneb garw fel llwydrew iddo; barugwedd; tallog; arienog; yn edrych fel barug ar blanigion.
Frosted glass — barugwydr; gwydr â gwyneb garw fel llwydrew iddo.
Frosted work — barugwaith, arienwaith; addurnwaith yn ymddangos fel barug ar blanigion; gwaith rhewgaenog.

Frostily, *ad.* yn rhewllyd.

Frostiness, *s.* rhewogrwydd, rhewlydrwydd, rhewllydrwydd.

Frosting, *s.* rhewdaen, rhewgaen, rhewdab, llwydrewdab, llwydrewdaen=peth fel llwydrew â roir ar hyd teisenau a'r cyffelyb.

Frostless, *a.* direw, heb rew.

Frostnail, *s.* hoel rew, hoelen rew, rhew-hoelen: *pl.* hoelion rhew, rhew-hoelion.

Frostnipped, *a.* ewinrew, gwynrew; â'r gwynrew *neu* ewinrew arno; deifiedig gân rew.

Frostwork, *s.* barugwaith, arienwaith; gwaith ar ddull llwydrew ar blanigion.

Frosty, *a.* rhewllyd, rhewlyd, rhewog; llwydrewaidd, barugaidd, barugol, baruglyd; penllwyd, briglwyd, penwyn, gwŷn, llwydwyn.

Froth, *s.* (Gr. *aphros*) ewyn, dystrych, ysgai, gai, geian, gorferw, ewyngant, ewyngaen, gorisgell, isgal, miows, molwyn, broch, arfroch, burym, swyf, swyfen, swyfi; ffiloreg.
Froth of liquor—miows dîod, ewyn dîod.
The froth of liquids in boiling—gorferw.
To skim off froth, } dîewynu, tynu yr ewyn.
To scum off froth, }

Froth, *v.* ewynu, dystrychu, ysgeio, molwyno, burymu, gorisgellu; malu ewyn, bwrw ewyn, dwyn ewyn; berwi *neu* fyned yn ewyn; gorferwi; peri ewynu.

Frothily, *ad.* yn ewynog, &c.; yn wag, yn orwag, yn ddisylwedd.

Frothiness, *s.* ewynogrwydd, ewynedd, ewynllydrwydd, gorisgellogrwydd, dystrychogrwydd, ysgeiogrwydd, molwynogrwydd, geiandra; gwagder, gorwagder, gwegyd, ysgafnder, gwagsawrwydd, ansylwyredd.

Frothless, *a.* dîewyn, diddystrych, heb ewyn.

Frothspit, *s.* poeryn y gog, poer y gog, poeryn y gwcw, poer y gwcw.

Frothy, *a.* ewynog, ewynllyd, gorisgellog, dystrychog, molwynog, ysgeiog, geifawr, burymog, brochog, llawn ewyn, isgalog, isgalaidd; heb ddim ynddo ond yr ewyn; ysgafn, gwagsaw, disylwedd, dibwys, gorwag, gwag, ansylweddol.

Frounce, *s.* (Ysp. *fruncir*) poerwst=anhwyldeb ar weilch, trwy fod poer gwŷn yn ymgasglu cylch y big.

Frounce, *v. a.* (Ysp. *fruncir;* Ff. *froncer*) crychu, amgrychu, crybychu; crychu gwallt o gylch yr wyneb.

Frounce, *s.* cryeh, crychni, dill; plyg; crychaddurn.

Frounceless, *a.* digrych, anghrych, diblyg, heb grych.

Frouzy, } *a.* mws, drewllyd, drewedig, drew-
Frowzy, } sawrus, drygsawrus; tywyll, caddugol, cymylog.

Frow,† *s.* (Al. *frau;* Is. *vrouw*) benyw, gwraig.

Froward, *a.* (S. *frawcard*) afrywiog, anynad, gwrthnysig, ystyfnig, cyndyn, cildyn, cil-

dynus,cildynog,cyndynog,anhyfodd,anniddig, drygnaws, drygnwydus, drygnawsus, anhydyn, anhywaith, anhywedd, anystywallt, anhydrin, pengaled, hwstr, gwynafog, dreng, drygfoesol, anwesog, gwynog, trofäus, traws, anghyweithas, gwarsyth, gwegilsyth, gwargaled, anystwyth, sarig, der, ffrowys, gwrthgas, anghydfod, anufydd, aflywodraethus, taiogaidd, anhynaws; drwg ei naws; drwg ei natur.

Frowardness, *s.* afrywiogrwydd, anynadrwydd, gwrthnysig, ystyfnigrwydd, cyndynrwydd, hwstredd, &c.

Frower, *s.* (?) delltor, holltydd, holltyr, haiarn hollti, offeryn i hollti dellt.

Frown, *v.* (Ff. *refrogner*) cuchio, gygu, blynghau, cuwchio; edrych yn guchiog, yn guchiol, yn flwng, yn ddig, *neu* yn ddigofus; edrych yn gilygus; talgrychu; cuchio ar, gygu ar; ceryddu, orni.

To frown upon—cuchio ar, gygu ar, blynghau wrth.

The world frowns upon him—mae y byd yn gygu *neu* yn cuchio arno; y mae y byd yn ei wrthwynebu.

Frown, *s.* gwg, cuch, cuwch, cuwg, cilwg, blwng, orn, talgrych; crychiad talcen gân soriant.

The frowns of fortune — cilwg y byd; cuchiau tynged, gygon tyngedfen, cilygon tynged; gwrthwynebedd y byd; adfyd.

Frowning, *a.* gygus, cuchiog, cuwchiog, cilygus, talgrych, blwng, (*f.* biong), sarig, aeldrwm, ffroensur, trwynsur, trwynsor, trwyndrist, digus, digofus, digllawn, anfoddog, cipasog, sur ei olwg, garw-guchiog, bygylus.

Frowning looks—cuchiau, cuwchiau, cipassau, gygon, &c.

Frowningly, *ad.* yn ygus, yn guchiog; gyda gwg, gyda chilwg.

Frowy, *a.* mws, drewllyd, drewedig, drewsawrus, drygsawrus.

Frozen, *a.* (o *freeze*) rhewedig, gwedi rhewi; wedi rhewi i fyny; ceuledig; rhewog, rhewllyd, rhewlyd; oer.

Easily frozen—hyrew.

Not easily frozen—anhyrew.

Frozen sea—môr rhewedig, rhewfor, môr y rhew.

To be frozen over—bod wedi rhewi drosto *neu* drosti; bod wedi ei orchuddio âg ia; bod wedi rhewi drosto *neu* drosti.

Frozenness, *s.* rhewedigrwydd; rhewogrwydd; rhewedd.

Fructed, *a.* (Ll. *fructus*) ffrwythog, cnydiog; yn dwyn ffrwyth.

Fructescence, *s.* (Ll. *fructus*) ffrwythawd, addonawd, ffrwyth-dymmor, tymmor ffrwyth, amser ffrwyth.

Fructiferous, *a.* (Ll. *fructifer*) yn dwyn ffrwyth; yn dwyn cnwd; yn cnydio; ffrwythol, ffrwythog, cynnyrchiol, cnydiog, cnydiol, cnydfawr, ffrwythlawch, ffrwythiannus, ffrwythlawn, cnydig.

Fructification, *s.* (o *fructify*) ffrwythiant, ffrwythad, ffrwythiad, ffaethiad.

Fructify, *v.* (Ll. *fructifico*) ffrwythloni, ffrwytho, ffrwythiannu, ffaethu; gwneuthur yn ffrwythlawn; peri yn ffrwythlawn; cnydio, cynnyrchu, dwyn ffrwyth.

Fructuation,† *s.* cynnyrch, ffrwyth.

Fructuous, *a.* (Ll. *fructuosus*) ffrwythlawn, ffaeth, cnydig, toreithiog, cnydfawr, cnydiog, brwys, achrwysol; ffrwythlonol, ffrwythlonus, ffaethol.

Fructure,† *s.* (Ll. *fructus*) mwynhad, mwyniant, mwynder, defnydd.

Frugal, *a.* (Ff. ac Ysp.; Ll. *frugalis*) cynnil, annhreulgar, ymarbedus, arbedus, diwastraff, dïafrad, tolgar, cymmedrol, dryd, drydol, trin, tringar, didraul; toreithus; ardymmerus; hwsmonaidd.

Frugality, *s.* (Ll. *frugalitas*) cynnildeb, cynniledd, cynnilwch, cynnilder, cynnildra, tolgarwch, annhreulgarwch, cynnildraul, cymmedroldeb, cymmedroledd, cymmedrolder, ymarbed, toliant; hwsmonaeth.

Frugiferous, *a.* (Ll. *frugifer*) yn dwyn ffrwyth; yn dwyn cnwd; yn cnydio; ffrwythol, ffrwythog, cynnyrchiol, cnydiog, cnydiol, cnydfawr, ffrwythlawch, ffrwythiannus, cnydig.

Frugivorous, *a.* (Ll. *fruges* a *voro*) ffrwythysol, addonysol; yn byw *neu* ymborthi ar ffrwythau; hadysol, ydysol; yn byw ar had *neu* yd.

Fruit, *s.* (Ff.; Ll. *fructus*; Al. *frucht*) ffrwyth; cnwd, cynnyrch, toraeth; aeron, addon, cair; budd, lles, elw, buddred, mantais, elwant, ennill, mael.

First fruits — cynffrwyth, blaenffrwyth, cynnwyn, blaengnwd.

To bear fruit, } dwyn ffrwyth, cyn-
To bring forth fruit, } nyrchu ffrwyth, ffrwytho, cnydio.

Summer fruits—ffrwythau haf; aeron.

Fruit time—amser ffrwythau, tymmor ffrwythau; yr hydref.

Fruit-garden—ffrwythardd, gardd ffrwythau, gardd ffrwyth.

The fruits of the earth, } ffrwythau y
The fruit of the earth, } ddaiar, ffrwyth y ddaiar, cnwd y ddaiar, adgen y ddaiar, cynnyrch y ddaiar, daiarguwd.

The kindly fruits of the earth—amserol ffrwythau y ddaiar.

The fruit of the womb—ffrwyth y bru; ffrwyth y groth; plant; beichiogi.

To cast its fruit, } bwrw ei ffrwyth; dy-
To shed its fruit, } hidlo.

Seller of fruits — gwerthydd ffrwythau, ffrwythwerthwr, ffrwythwerthydd, ffrwythwr.

Fruit of agrimony—canghaf mân.

Fruit, *v. n.* ffrwytho, cnydio, achrwyso.

Fruitage, *s.* (Ff.) ffrwythau; amryffrwyth.

Fruitbearer, *s.* ffrwythiedydd, ffrwythddygydd, ffrwythaddygydd, dygydd ffrwyth.

Fruitbearing, *a.* yn dwyn ffrwyth; yn dwyn cnwd; yn cnydio, yn ffrwytho; ffrwythol, ffrwythog, cnydiol, cnydiog, cynnyrchiol, cnydfawr, ffrwythlawch, ffrwythiannus, cnydig.

Fruitbud, *s.* ffrwythflaguryn, ffrwytheginyn; y blaguryn à ddwg ffrwyth.

Fruiterer, *s.* ffrwythwerthwr, ffrwythwerthydd, gwerthydd ffrwythau, aeronwerthwr, gwerthwr aeron, ffrwythwr, aeronydd, ceirionydd, afaleuwr, ceirionwr.

Fruitery, *s.* (Ff. *fruiterie*) ffrwythau; ffrwythfa, ffrwythgell, ffrwythlofft, llofft ffrwythau, llofft aeron, llofft ceirion, aeron-gell.

Fruitful, *a.* ffrwythlawn, toreithiog, cnydiog, cnydig, cnydfawr, ffrwythig, ffaeth, ffaethus,

brwys, toreithus, ffrwythus, ffrwythog, achrwysol, cynnyrchiog; epiliog, epilgar; haflug.

To be fruitful—ffrwytho, cnydio, ffaethu, ffrwythloni; bod yn ffrwythlawn, &c. dwyn ffrwyth, dwyn cnwd.

To make fruitful—ffrwythloni, ffrwythiannu, ffaethu, ffrwythigo; gwneuthur neu beri yn ffrwythlawn, &c.

Be fruitful—ffrwythwch, byddwch ffrwythlawn.

Fruitfulness, *s.* ffrwythlondeb, ffrwythlonrwydd, ffrwythlonder, ffrwythlonedd, ffrwythineb, ffrwythigrwydd, cnydiogrwydd, cnydigrwydd, cnydforedd, ffaethder, ffaethusrwydd, toraeth, achrwys, achrwysedd, ffrwythusrwydd; epiliogrwydd.

Fruit-grove, *s.* ffrwythwig, ffrwythlwyn; ffrwyth-goedfa.

Fruiting, *a.* ffrwythol, ffrwythus; yn perthyn i ffrwyth; yn dwyn ffrwyth.

Fruition, *s.* (Ll. *fruitio*) mwynhad, mwyniant, mwynder, mwyn; dywenydd, llawenydd.

Fruitive, *a.* mwynhaol, mwyniannol, mwyn iannus; yn mwynhau.

Fruitless, *a.* diffrwyth, anffrwythlawn; ofer, difudd, seithug, anfuddiol, anolo; meth-, methol; diepil, anepiliog, diaddon.

To render fruitless—diffrwytho; gwneuthur yn ddiffrwyth, &c.

Fruitlessness, *s.* diffrwythder, diffrwythdra, diffrwythdod, anffrwythlondeb, anffrwythlonrwydd; ofereddd, oferdod, seithugrwydd, anfuddioldeb; afles.

Fruit-loft, *s.* ffrwythlofft, ffrwythgell, ffrwythfa, llofft ffrwythau, llofft aeron.

Fruit-time, *s.* amser ffrwythau, tymmor ffrwythau; yr hydref.

Fruit-tree, *s.* ffrwythwydden, aeronwydden, pren ffrwythau, pren ffrwyth, ffrwythbren, ffrwythgoeden, ceirwydden: *pl.* ffrwythwydd, aeronwydd, ffrwythgoed, coed ffrwythau.

Frumentaceous, *a.* (Ll. *frumentaceus*) gwenithaidd; tebyg i wenith; ar ddull gwenith.

Frumentarious, *a.* (Ll. *frumentarius*) grawnol, grawnaidd, gwenithol; perthynol i rawn neu wenith.

Frumentation, *s.* (Ll. *frumentatio*) ydrodd, rhodd o yd, anrheg o yd=yd a roddid i'r bobl, yn mhlith y Rhufeiniaid gynt, i'w cadw rhag ymderfysgu.

Frumenty, *s.* (Ll. *frumentum*) gwenithgawl, cawl gwenith, gwrmrwyd.

Frump,† *s.* (?) gwawd, gwatwar, cellwair, hers, greff.

Frump,† *v. a.* gwawdio, gwatwar, coddi, sarhau.

Frumper,† *s.* gwawdiwr, gwatwarwr, dirmygydd.

Frush,† *v. a.* (Ff. *froisser*) briwo, tori, malurio, yssigo.

Frush, *s.* (Al. *frosch*) llyffant, llyffan, bywyn carn march, bywyn carn ceffyl.

Frustrable, *a.* (Ll. *frustro*) seithugiadwy, somadwy.

Frustraneous, *a.* (o'r Ll. *frustra*) ofer, difudd, diles, anolo, anfuddiol, aflesol, seithug, diffrwyth, gwag.

Frustrate, *v. a.* (Ll. *frustro*; Ff. *frustrer*) seithugio, somi, siomi, diddymu, difuddio, dïebrydu, dïebreidio, dirymu, dïelwi; peri seithug i; peri methu, peri colli; gwneuthur yn seithug; gwneuthur yn ofer; gwneuthur neu beri yn anolo.

Frustrate, *a.* seithug, ofer, aneffeithiol, difudd, diles, anolo, anfuddiol, aflesol, diffrwyth, diddym, dirym, somedig, dïebrydig, dïebredig, dïebreidiog.

Lest I die frustrate of my hope—rhag i mi farw yn ofer yn fy ngobaith.

To be frustrate of his purpose—methu ganddo yr hyn a amcanodd.

Frustration, *s.* (Ll. *frustratio*) seithugiad, seithugiant, seithugiaeth, somiad, somiant, somedigaeth, diddymiad, dirymiad, dïebryd, dïabred; seithugrwydd, seithug.

Frustrative, *a.* seithugiol, somedigol, siomedigol, dïebrydol, dïebrydus, dïebreidiol, dyorol; twyllodrus, gau, geuol, ffugiol.

Frustratory, *a.* seithugiol, somedigol, dïebrydol, dïebreidiol; diddymol, dirymol, dirymiol, diddymedigol.

Frustule, *s.* (Ll. *frustulum*) gwymyffyn.

Frustum, } *s.* (Ll. *frustum*) torgat, torgetyn:
Frust, } *pl.* torgatiau.

Frustum of a cone—torgat ffain, torgat côn, torgetyn ffain.

Frutescent, *a.* (Ll. *frutex*) prysgeiddiol; o lysieuaidd yn myned yn fanwyddaidd; yn myned yn fanwydd.

Frutex, *pl.* **Frutices**, *s.* (Ll.) prysgen, manwydden, prysgoeden, gwyddenig, godd, prysgwydden, lledwydden.

Fruticant, *a.* (Ll. *fruticans*) ysgewyllog, impiog, impynog, mabgeinciog; llawn blagur neu ysgewyll.

Fruticous, } *a.* (Ll. *fruticosus*) manwyddog,
Fruticose, } prysgoedog, prysgoediog, prysgwyddog.

Fry, *v.* (o'r sain; Ll. *frigo*; Gr. *phrugô*; Ff. *frire*; Gw. *friochta/aim*) ffrio; crasboethi, crasbobi; berwi, dyferwi.

I have other fish to fry—mae i mi beth arall i'w wneuthur; mae i mi rywbeth arall i'w wneuthur; mae i mi orchwyl arall mewn llaw; mae genyf fi orchwyl arall mewn llaw.

Fry, *s.* ffri, ffrifwyd, bwyd ffriedig.

Fry, *s.* (Ff. *frai*) sil, silod, grawn pysg, grawn pysgod, manbysg, haig o fanbysg.

Fry of fish—sil pysgod.

Fryingpan, *s.* padell ffrio, ffribadell, ffriban.

Out of the fryingpan into the fire—neidiaw o'r badell i'r tân; dïanc ar Glwyd a boddi ar Gonwy; o'r mwg i'r tân; dianc rhag y mwg i'r daflod; newid drwg am waeth.

Fub,† *s.* crwt, crwtyn, hogyn tew; benyw.

Fub, *v. a.* (Al. *foppen*) oedi, gohirio, addoedi; twyllo, coegio, hocedu, somi, castio, hudo; bwrw heibio.

Fubby, *a.* tew, cnodig, efras, llyfndew.

Fucate, } *a.* (Ll. *fucatus*) paentiedig, arliwFucated, } iedig, lliwiedig, rhithliwiedig; ffugiedig, geurithiog, lledrithiog.

Fuchsia, *s.* (oddi wrth Leonard *Fuchs*, llyseuwr Almaenig) Ffiwsia, Ffuchsia=rhywogaeth o fanwydd tra phrydferth.

Fucoid, *s.* (Ll. *fucus*, a Gr. *eidos*) cloddwymon, cloddwyg.

Fucus, *s.* (Ll.) paent, arliw, golchliw, lliw, gwepliw; lledrith, geurith, geuwedd, rhith.

Fucus, *pl.* Fuci, Fucuses, *s.* (Ll.) gwymon, gwyg y môr, morwyg.
Fudder, *s.*=*Fother, Fodder.*
Fuddle, *v.* (?) meddwi, brwysgo; yfed gormodd; yfed i ormodedd; yfed, ymyfed, diota, llymeitian, llymeitia, llymeitio, ymfeddwi, ymfrwysgo, potio; peri *neu* wneuthur yn feddw.
Fuddling bout—cyfeddach, cyfedd, term.
Fuddler, *s.* meddwyn, brwysgwr, brwysgyn, diotwr, diodrydd.
Fudge, *s.* (S. *fægan;* Al. *fügen*) ffugwaith, fug, ffugedd, ffach; ffisdredd, ffoledd, ffregod, ffreg, ffol eiriau ffiloreg; celwydd.
Fuel, *s.* (o'r Ff. *feu*) tanwydd, cynnud, tanborth, tanwent, dylwyf, gosgymmon, briwwydd, ymborth tân, peth ar y tân.
To gather fuel—cynnuta; cynnull *neu* gasglu cynnud; cynnull *neu* gasglu tanwydd; coeda, coeta; hel peth ar y tân.
Fuel, *v. a.* porthi tân, tanborthi; rhoi ar y tân; rhoi tanwydd *neu* gynnud ar y tân.
Fueller, *s.* cynnutai, cynnutwr, tanwyddwr.
Fuero, *s.* (Ysp.) deddf, deddfawd, rheithiad, brawdwriaeth; breintysgrif, breintlen.
Fuff, *v. n.* (o'r sain) pyffio, piffio, chwythu, chwiffio.
Fuffy, *a.* pyffiog, piffiog, chwiffiog; ysgafn.
Fugacious, *a.* (Ll. *fugax*) ffoadurus, ffoawl, fföedigol, hyffo, hedin, hedegol, hedol, hedog, hedegog, hedinol, fföedig, diflanol, dibara, crwydrus.
Fugaciousness, *s.* ffoadurusrwydd, hedinrwydd, hedegolrwydd, hedegogrwydd, hedolrwydd, hedogrwydd, fföedigrwydd.
Fugacity, *s.* ffoadurusrwydd, hedinrwydd, hedegolrwydd, hedsgoldeb, hedegogrwydd, hedolrwydd, hedogrwydd, fföedigrwydd, hyfföedd, hedinoldeb; diflanrwydd, llithredigrwydd, trancedigrwydd, hylithredd; parodrwydd i ffoi *neu* hedeg ymaith; ffw, ffwy; ansicrwydd, ansicredd, ansefydlogrwydd, anwadalwch, gwamalder.
Fugh, } *in.* ffei! ffi! hach! ffach! wfft! rhag
Foh, } cywilydd! ffwrdd! wb! pw! pw pw! tw!
Fugitive, *a.* (Ll. *fugitivus;* Ff. *fugitif*) ffoadurus, ffoawl, fföedigol, hyffo, fföedig, hedin, hedegog, hedol, hedog, hedinol, crwydrus, crwydrol, gwibiol, gwibiog, crwydredig, crwydredigol, crwydr, crwydraidd, hylithr; ansefydlog, anwadal, gwamal, anhysaif, ysgafn; difyfyr, byrfyfyr, achlysurol; parod i ffoi *neu* hedeg ymaith; tueddol i ffoi *neu* hedeg ymaith.
Fugitive, *s.* ffoadur, ffoaduriad, ffoawdr, ciliadur, enciliwr, crwydryn, ciliwr, ciliad, (*pl.* ciliaid), cilydd, encilydd, gwibiad, gwibiwr, gwibiawdr, crwydriad, crwydrai, crwydrwr, dyn treigl, treiglad, treigldyn, ffflemor.
Fugitiveness, *s.* ffoadurusrwydd, fföedigrwydd, hedinrwydd, hyfföedd, hedegogrwydd; anwadalwch, ansefydlogrwydd, gwamalder, gwamalwch, ansadrwydd; ffw, ffwy.
Fugleman, } *s.* (Al. *flügelmann*) arweinydd,
Fugelman, } blaenor, gwaladr, cynwaladr, rhagwaladr,
Fugue, *s.* (Ff.; Ll., Ysp., ac It. *fuga*) ffwyal, ffoalaw; canred, oliant.
Fuguist, *s.* (o *fugue*) ffwyalawydd, ffwyeilewydd, ffwyeilwy, canredwr.
Fulcible, *a.* (Ll. *fulcibilis*) attegadwy; à ellir ei attegu.
Fulciment, *s.* (Ll. *fulcimentum*) atteg, gwanas, gwifrwym.
Fulcrate, *a.* (Ll. *fulcrum*) gwifrwymog, attegog.
Fulcrum, } *s.* (Ll. *fulcrum*) gwifrwym; atteg,
Fulcre, } colpwys.
Fulfil, *v. a.* (o *full* a *fill*) cyflawnu, cyflenwi, cwblhau, dybenu, gorphen, gorphenu, dwyn i ben, gwneuthur, gwneyd, gorugo; cywiro.
Fulfiller, *s.* cyflawnwr, cyflawnydd, cwblhäwr, gorphenwr.
Fulfilment, } *s.* (o *fulfil*) cyflawniad, cwblhad,
Fulfilling, } cyflenwad, dybeniad, gorpheniad, gwneuthuriad; cyflawnder.
Fulgency, *s.* (Ll. *fulgens*) dysgleirdeb, dysgleirder, dysgleiredd, llugeinder, gorddysgleirdeb, llethrid, ysblander, ysblandra, gloewder, gloewineb, claerder, claeredd, arglaerder, ysblanedd, effflander, eiriander.
Fulgent, *a.* (Ll. *fulgens*) dysglaer, claer, gloew, llachar, seirian, ysblenydd, dysgleiriol, goleufawr, llethridfawr, llethridog, llethridiannol, llathraid, ffloew, effflan, effflanol, canloew, glain, eirian, ysblan, ysblanol, llewyrchol, eirig, llugiannol, llugiawn.
Fulgid,† *a.* (Ll. *fulgidus*)=*Fulgent.*
Fulgidity, *s.* (o *fulgid*)=*Fulgency.*
Fulgor, *s.* (Ll.)=*Fulgency.*
Fulgurant,† *a.* (Ll. *fulgurans*) melltenol, ffiachiol, lluchedenol.
Fulgurate,† *v. n.* (Ll. *fulguro*) melltenu, lluchedenu, ffiachio, saethu mellt.
Fulguration, *s.* (Ll. *fulguratio*) melltenïad, lluchedeniad, lluchediad, ffiachiad, lluchedigaeth.
Fulgurites, *s. pl.* (Ll. *fulguro*) tywodbibau gwydredig.
Fuliginosity, *s.* (o'r Ll. *fuligo*) huddyglydrwydd, huddygleiddrwydd, pardduogrwydd, pardduleiddrwydd.
Fuliginous, *a.* (Ll. *fuliginous, fuliginosus*) huddyglyd, huddyglaidd, pardduog, pardduaidd, pardduol; myglyd.
Fulimart, *s.* (*foul martin!* Ysg. *foumarte*) ffwlbart, gwichyn, gwichyll, gwichydd.
Full, *a.* (S. a Sw.; Al. *voll;* Is. *vol*) llawn, cyflawn; cyfan, cyfa, cwbl, cyfangwbl, llwyr, cyflwyr; perffaith; aml, helaeth, ehelaeth; dân sang, secedig, sechedig, gwedi ei secu, wedi ei sechu; yn llawn; cryf; ffiwch, (*f.* ffioch); digon, digonol.
Full to the brim—cyforiog, cyfor; llawn hyd y byl; llawn hyd yr ymyl; llawn hyd y gib.
A full week—wythnos gyfan, wythnos gyflawn, wythnos gron, wythnos lawn.
A full day—diwrnod cyfan.
Full moon — llawn lleuad, llawn lloer, llawnlleuad, llawnlloer, llawn lluned, llawnlluned, cyfanlloer, cefnlloer, cefn y lloer, cefn y lleuad, lleuad lawn, y llawnlleuad.
It is full moon— mae yn llawn lleuad; mae yn llawn lloer, &c.; mae yn gyfanlloer; mae y lleuad ar y cefn; mae y lleuad yn llawn.
Full sea—gorllanw, llawn llanw, llawnfor, peu llanw, uchelfor.
Full sea mark—nod y gorllanw, nod gorllanw, nod uchelfor, arwyddyn llawnfor, gorlifnod.

At full tide—ar y llawnfor.
Very full—gorllawn, trallawn, tra llawn, llawn iawn, llawn dros ben.
Full of — llawn o, llawn, yn llawn, yn llawn o.
Full of business—trafferthus; llawn trafferth; llawn o drafferth; llawn gorchwylion; llawn heldrin.
Full of grief—gofidus, gofidiog, llawn gofid, llawn o ofid, trallodus, helbulus, cystuddiog, athrist.
Full of words—siaradus, geiriog, geiriolus; aml ei eiriau; llawn o eiriau.
Of full age—yn ei gyflawn oed; cyflawn oed; o gyflawn oed; o oedran addfed.
Full butt—daldal, dalcen yn nhalcen.
To run full butt at one another—ymgyfredeg, ymgyhydreg, *neu* ymgyfranc dalcen yn nhalcen; ymruthro dalcen yn nhalcen; ymgyfredeg daldal.
To meet one another full butt—ymgyfarfod *neu* ymdaraw daldal.
Two full years—dwy flynedd gyfan, gyflawn, *neu* lawn.
When he was full forty years old—pan oedd efe yn llawn deugain mlwydd oed.
With full speed—ar lawn frys; ar lawnfrys; ar ddyfrys; ar fuan-frys; ar y gyrfau gwyllt; ar y pedwarcarnau gwyllt; ar y pedwar carn gwyllt; ar frys gwyllt; ar y cerhynt gwyllt.
It is full time—mae yn llawn bryd; mae yn fadws; madws yw; mae yn hen bryd.
A full *or* clear voice—llais croew; llais cyflawn.
To be full—bod yn llawn; ymlenwi.

Full, *s.* llonaid; gwala, diwalliad, llanwad, llenwad; -aid.
Cup-ful—cwpanaid, cibaid, llonaid cwpan.
Mouthful—safnaid, geneuaid, tamaid, cegaid, llonaid geneu.
To the full—i'r eithaf; hyd yr eithaf; ei wala, yn ddigonol.
At full—ar y llawn; ar yr uchaf; yn gyfan, yn gwbl, yn llwyr, yn hollol, yn llawn.
The moon is at full—mae yn llawn lleuad, yn llawn lloer, *neu* yn llawn lluned, &c.; mae yn gyfanlloer; mae y lleuad ar y cefn.
The full of the moon=*Full moon.*
This is the news at full—dyma y newydd yn gyfan.
When we did eat bread to the full—pan oeddym yn bwyta bara ein gwala.
When the Lord shall give you bread to the full—pan roddo yr Arglwydd i chwi fara eich gwala.

Full, *ad.* iawn, tra, dra, dros ben, eithaf; digon; yn hollol, yn gwbl, yn llawn, yn gyflawn; i'r eithaf; hyd yr eithaf; yn union.
I am full glad—mae yn dda iawn genyf; y mae yn llawen iawn genyf.
Full well—gwych; eithaf da.
I know his meaning full well—mi a wn ei feddwl yn dda ddigon; gwn ei feddwl yn ddigon da; gwn ei feddwl yn eithaf da; gwn ei feddwl yn burion; gwn yn burion beth yw ei feddwl.
Full sore against my will—yn ddygn yn erbyn fy ewyllys.

Full, *v. a.* (S. *fullian*; Ll. *fullo*) panu.
Fulling mill — melin bàn, melin banu, pandy.

Full-acorned, *a.* gwedi cael ei wala *neu* ei lonaid o fes.

Fullage, *s.* (o *full*) pandal; tâl am banu; arian am banu; yr arian à delir am banu.

Fullam, *s.* (o *Fulham*, ger Llundain) genddisiau, gau ddisiau, gau ffristiau.

Full-bloomed, *a.* blodlawn; yn ei lawn *neu* gyflawn flodau.

Full-blown, *a.* gwedi llawn ymagor; wedi cwbl ymagor; llawn o wynt *neu* chwyth; llawn gàn wynt *neu* chwyth; gwyntlawn.

Full-bottom, *s.* godre llawn, llawn odre, godre mawr.

Full-bottomed, *a.* llawn-odreog, godre-lawn; llawn ei odre; gwaelodlawn.

Full-butt, *ad.* daldal, dalcen yn nhalcen.

Full-charged, *a.* llawn lwythog; wedi ei lwytho yn llawn; llwythlawn.

Full-crammed, *a.* gwedi ei sechu i'r eithaf; tynlawn, dàn sang, tynsecedig.

Full-dressed, *a.* gwisglawn; llawnwisgedig; gwedi gwisgo yn gyflawn; mewn cyflawn wisg; mewn llawn drwsiad.

Full-drive, *a.* gyrlawn; yn gyru ar lawn frys, ar ddyfrys, *neu* ar frys gwyllt; ar lawn yrfa.

Full-eared, *a.* llawn ei dwys; âg iddo dwys llawnion; llawn-dwysenog, twyslawn; llawn-ronynog.

Fulled, *p. p.* panedig, pàn; gwedi ei banu.

Fuller, *s.* (o *full*) panwr, panydd.
Fuller's trade—panwriaeth, panyddiaeth, celfyddyd panwr.
Fuller's earth — pridd gogarth, pridd y panwr, priddgalch y panwr, priddgalch y panwyr, clai y panwr.
Fuller's thistle, } teilai, ysgall y panwr,
Fuller's weed, } cribau y panwr, llysiau y panwr, llysiau y cribau, teilai mawr, ysgall panwr. [*Mal.* iii. 2).
Fullers' soap — sebon y golchyddion

Fullery, *s.* (o *fuller*) pandy.

Full-eyed, *a.* llygadlawn; â'i lygaid ar dòr y croen; â'i lygaid ar dòn y croen.

Fullfaced, *a.* gwyneblawn, wyneblawn; âg iddo *neu* â chanddo wyneb llawn; gwynebdew.

Full-fed, *a.* wedi cael ei wala *neu* ei lonaid; wedi cael digon; wedi ei lawn besgu; cestlawn; digonol, diwall, llawn.

Full-fleshed, *a.* ciglawn, cnodlawn, cnodig, cigog, efras, tew, corffog.

Full-formed, *a.* llawnweddog, llawnlluniog; gwedi ei lawn lunio.

Full-fraught, *a.* llawn lwythog, llwythlawn; llwythedig i'r eithaf.

Full-gorged, *a.* gwedi ei lenwi hyd ormodedd; gorllawn; gwedi ei orllenwi; gwedi ei orfwydo; gwedi cael gormod.

Full-grown, *a.* tyfiawn; wedi cael ei dwf, ei lawn dwf, *neu* ei lawn dyfiant; wedi cyrhaedd ei lawn dwf; gwedi llawn dyfu; llawndwf.

Full-hearted, *a.* calonog; llawn gwroldeb, llawn hyder.

Full-hot, *a.* poethlawn; poeth i'r eithaf; eithaf poeth.

Fulling, *s.* (o *full*) panu, paniad, panfa, pàn.
Fulling mill — melin bàn, melin banu, pandy.

Full-laden, *a.* llawn lwythog; tan ei lawn lwyth, llwythlawn.

Full-manned, *a.* cyflawn ddiwall o wŷr; cyflawn o wŷr.

Full-mouthed, *a.* ceglawn, cegagored; â chanddo lais croew, cryf, *neu* uchel.

Full-orbed, *a.* cyfangrwn, rhodlawn, llawngylchog; fel llawn lleuad; fel cyfanllloer; lloergantog.

Full-spread, *a.* llawndaen, llawn daenedig; taenedig i'r eithaf; eithaf taenedig.

Full-stomached, *a.* â chanddo gylla llawn *neu* orlawn; llawn ei gylla; tyn-gyllaog, llawngyllaog.

Full-stuffed, *a.* tynsecedig, tynsechedig; gwedi ei sagio hyd yr eithaf; saglawn.

Full-summed, *a.* cyflawn-ranog; cyflawn yn ei holl ranau.

Full-winged, *a.* llawn-adeiniog; adeinfawr; parod i hedfan; awyddus, awchus.

Fully, *ad.* yn llawn, yn gyflawn, yn gwbl, yn hollol, yn gyfan; yn hen.

I am fully persuaded—mae yn gwbl sicr genyf.

Fulmar, *s.* (*foul martin?*) ffwlbart, gwichyll, gwichyn, gwichydd.

Fulmar, *s.* gwylan y graig, creigwylan.

Fulminant, *a.* (Ll. *fulminans*) taranol, taranllyd, taranus, yn taranu; bygythiol, bygylus.

Fulminate, *v.* (Ll. *fulmino*) taranu, taranu allan; ffrwydro, trystio; bwgwth, bygylu.

Fulminate, *s.* cymmysgedd ffrwydrol, trwydol, *neu* drystiol; trwydblith, trwydfysg.

Fulmination, } *s.* taraniad; ffrwydrad, trystiad,
Fulminating, } trwydiad, ysgortiad; bygythiad, bygyliad.

Fulminating compounds — cymmysgion ffrwydrol, trwydol, arysteiniol, *neu* drystiol; trwydblithion, trwydfysgion.

Fulminatory, *a.* taranol, taranllyd, taranus, taraniadol; yn taranu bygythion; bygythiol, bygylus; yn taraw â dychryn.

Fulmine, † *v. a.* (Ll. *fulmino*) taranu.

Fulminic Acid, *s.* sur taranig, sur ffrwydrig.

Fulness, *s.* (o *full*) llawnder, llawndid, llewndid, llawndra, cyflawnder, cyflawnedd, llawnedd, llawnaeth, cyflawndra; gwala, digonedd; hawg.

Fulsome, *a.* (S. *ful*) chwydlyd, chwydus, chwydog, gorchwydus, gorchwydol, gwrthwynebus, gwrthwyneblyd, alarllyd; cas, adgas, ffiaidd, brwnt, afian, anmhur; anhyfryd gân ei felused; mws, drewllyd; serth, serthaidd, serthus, trythyll, anllad, chwantus, chwantaidd.

Fulsomeness, *s.* chwydlydrwydd, chwydusrwydd, chwydogrwydd, gwrthwyneblydrwydd, alarwch; adgasrwydd, ffieiddrwydd, ffieiddwch; mysni, drewdod; serthedd, trythyllwch, chwantusrwydd.

Fulvid, } *a.* (Ll. *fulvus*) melyn, melynliw;
Fulvous, } saffrymliw; melyngoch.

Fumado, *s.* (Ll. *fumus*) pysgodyn coch, pysg coch, pysg mygedig, pysg sychfygedig; pysg wedi eu sychu yn y mwg.

Fumage, *s.* (Ll. *fumus*) treth aelwyd, mygdreth, treth simneiau, tâl aelwydydd, treth aelwyddydd.

Fumarate, *s.* (Ll. *fumus*) myghalan: *pl.* myghalion.

Fumaria, *s.* (Ll. *fumus*) mwg y ddaiar, tudfwg.

Fumaric Acid, *s.* (Ll. *fumus*) sur mygarig, sur tudfwg.

Fumble, *v.* (Is. *fommelen;* D. *famlen;* Sw. *famla*) palfalu, ymbalfalu; trîn yn chwithig; bod *neu* fyned yn lledchwith yn nghylch peth; gweithio yn anghelfydd *neu* anfedrus; ceisio gwneuthur yr hyn nis medr un arno; bongleru; trin llawer ar; ceisio yn drwsgl; crugio yn nghyd.

Fumbler, *s.* palfalwr, ymbalfalwr, bongler, bwngler, bonglerwr, trysglyn, un trwsgl, un trwstan, musgrellyn, anfedrusyn.

Fumblingly, *ad.* yn anfedrus, yn anhyfedr, yn anghelfydd, yn fongleraidd, yn anghyfarwydd, yn drwsgl; dân ei ddwylaw; fel newyddian.

Fume, *s.* (Ll. *fumus*) mwg, mygdarth, ager, agerdd, tarth, anwedd, anwydd, agerw; broch, ffroch, dig, digder, ffromder, sor, digofaint, soriant, poethder; oferdyb, coegdyb.

Fume, *v.* mygu, ysmygu, ysmwcio, mygdarthu, tarthu, ageru, anweddu; mygsychu; rhoi *neu* sychu yn y mwg; perarogli, perfygu; brochi, ffrochi, ffromi, sori, digio, llidio, ymddigio.

Fumeless, *a.* difwg, didarth, heb fwg.

Fumet, *s.* (Ff.) tom hydd, cagl hydd, hyddgagl.

Fumette, *s.* (Ff.) drewdarth, drewsawr cigfwyd.

Fumid, *a.* (Ll. *fumidus*) myglyd, tarthlyd, tarthog, anweddog, tarthus, mygdarthog.

Fumidity, *s.* myglydrwydd, tarthlydrwydd, tarthogrwydd, tarthusrwydd, tarthusedd, tarthusdra, mygdarthogrwydd.

Fumiferous, *a.* (Ll. *fumifer*) mygddwyn, mygol, tarthol, tarthus; yn dwyn *neu* gynnyrchu mwg.

Fumifugist, *s.* (Ll. *fumus* a *fugo*) mygdarfwr, mygdarfydd, mygymlidydd; un â yro fwg ymaith; gyrwr mwg drwg i'w dref.

Fumigant, *a.* (Ll. *fumigans*) mygol, tarthol, yn mygu.

Fumigate, *v. a.* (Ll. *fumigo*) mygu; mygdarthu, perfygu, perdarthu.

Fumigation, *s.* (Ll. *fumigatio*) mygiad, mygiant; mygdarth, tarth; mygdarthiad.

Fumigatory, *a.* mygiadol; myglanhaol.

Fuming, *p.* yn mygu, mygol, anweddol, tarthol, tarthiadol; ffrom, brochus, ffroch, digus, digofus, digllawn, anfoddog.

Fuming liquor—myghylif, hylif mygol, myglyn, mygwy, gwlybwr mygol.

Fumish, *a.* (o *fume*) myglyd, tarthlyd; poeth; brochaidd, brochus, dig, ffrom, hygawdd.

Fumitory, *s.* (Ll. *fumaria herba;* Ff. *fumeterre*) mwg y ddaiar, tudfwg.

Common fumitory—mwg y ddaiar cyffredin, mwg y ddaiar meddygol.

Ramping fumitory—mwg y ddaiar afreolus.

White climbing fumitory—mwg y ddaiar gafaelgar.

Hedge fumitory—mwg y perthi.

Fumous, } *a.* (o *fume*) mygol, tarthol, myg-
Fumy, } darthol, myglyd, tarthlyd, tarthog, tarthus, mygdarthog, llawn tarth.

Fun, *s.* (Al. *wonne*) difyrwch, digrifwch, ysmalwch, sarllach, arabedd, cellwair; dywenydd, llawenydd, llawenwch, gwenydd; chware.

For fun—er difyrwch, er digrifwch, er llawenydd; er mwyn difyrwch; er mwyn chwerthin am ei ben; er mwyn cael chwerthin am ei ben; er mwyn iddo fod yn gyff cler.

Funambulate, *v. a.* (Ll. *funis* ac *ambulo*) rhaff-

rodio, rhaffddawnsio, cerdded ar raff, cerdded rhaff, rhaffgerdded.

Funambulatory, *a.* rhaffrodiol, rhaffddawnsiol; yn gwneuthur fel rhaffddawnsiwr; cul fel rhodfa rhaffgerddwr.

Funambulist, Funambulo, Funambulus, *s.* (Ll. *funambulus*) rhaffddawnswr, rhaffrodiwr, rhaffgerddwr; dawnsiwr, cerddwr, *neu* rodiwr ar raff.

Funaria, *s.* (Ll. *funis*) rhaff-fwsogl, rhaff-fwswn, rheffyn-fwsogl.

Function, *s.* (Ll. *functio*) swydd, swyddogaeth, galwad, galwedigaeth, gweinidogaeth; gwneuthuriad, gwasanaethiad, *neu* gyflawniad swydd; teithi, atheithi, gallu, galluedd, dawnedd; swyddall, swyddallu; gwaith.

Functional, *a.* swyddol, swyddogaethol, galwadol; perthynol i deithi; teithïol; perthynol i swyddau.

Functionary, *s.* swyddog, swyddwr, un mewn swydd.

Fund, *s.* (Ff. *fond;* Ll. *fundus;* Ysp. *fondo, funda*) trysorgyff, argyffre, ariansawdd, trysorfa, trysorged, cyff, ariangyff, ariangrawn, ystorged, ystorgyff, cynsawdd, cyn-eiddo, cyn-alaf, cyfalaf, cynsum, dylged, sawdd, gwaelod; elw; dyled y wlad; ystôr, toraeth, llawnder, haflug, amlder, digonedd; arian.

Funds in the bank—cedsoddion, ariansoddion y banc, trysorgyffion yr ariandy.

Sinking fund—trysorgyff sawdd, soddged, soddgyff, talsawdd.

Consolidated fund—cydsawdd, cydargyffre, cyfnofant, cydgyllid.

Public funds—soddion cyhoeddus, ariansoddion cyhoeddus, dylgedion cyhoedd; dyled y wlad, dyledsoddion.

Fund, *v. a.* ariansoddi, trysorgedu, ystorgedu, trysorgyffio; gwneuthur trysorfa *neu* drysorgyff; gosod arian mewn trysorfa.

Funded property—da sawdd, eiddo sawdd, elw sawdd; eiddo mewn trysorfa, trysorged, ystorged, *neu* ystorgyff.

Funding system—cyfundrefn ariansoddol, cyttrefn soddol, cyttrefn sawdd.

Fundament, *s.* (Ll. *fundamentum*) cyfeistedd, y cyfeistedd, yr eisteddfa, yr eisteddfod, rhefr, cwthr; †sylfaen.

The falling down of the fundament—syrthiad yr eisteddfod.

Fundamental, *a.* sylfaenol; o'r sail, o'r sylfaen, o'r sylfan, bonsangus; perthynol i'r sail *neu* sylfaen; gwreiddiol; hanfodol; prif, penaf, arbenig, arbenicaf.

To err fundamentally—cyfeiliorni mewn pynciau sylfaenol *neu* hanfodol; cyfeiliorni mewn pethau hanfodol *neu* sylfaenol; cyfeiliorni yn y sylfaen.

Fundamental note — seilnod, cyweirnod, cyweirsain.

Fundamental law—deddf hanfodol, cynraith, cynddeddf.

Fundamental, *s.* peth sylfaenol, gwreiddiol, *neu* hanfodol; rhan hanfodol; prif bwnc, pwnc sylfaenol; cynsail, seilwaith.

The fundamentals of the christian faith—sylfaenolion y ffydd gristionogol; pynciau sylfaenol y ffydd gristionogol; hanfodolion Cristionogaeth; prif bynciau y ffydd gristionogol.

Fundless, *a.* diged, diarian, diariansawdd, heb drysorgyff, heb drysorfa.

Funebrial, Funebrious, † *a.* (Ll. *funebris*) angladdol, arwyliannus; perthynol i angladdau *neu* arwyliannau.

Funeral, *s.* (It. *funerale;* Ff. *funerailles;* Ll. *funus*) angladd, arwyl, arwyliant, claddedigaeth, cynhebrwng, canhebrwng, arwyledigaeth.

To make a funeral—gwneuthur arwyl.

Funeral, *a.* angladdol, arwyliannus, arwyliannol, arwylawl; perthynol i angladd.

Funeral obsequies, Funeral exequies, Funeral solemnities, } arwyl, arwyliant, defodau angladdol, defodau angladd, defodau arwyl, arwyl-ddefodau, arwylwasanaeth.

Funeral procession—cynhebrwng, canhebrwng, gorymdaith angladdol.

Funeral pile — mygedorth, coelcerth angladdol, pentwr angladdol=tanllwyth i losgi cyrff meirw.

Funeral song—cân angladdol, cân angladd, cân arwyl, arwylgerdd, galargerdd wrth gladdu un; marwnad.

Funeral torches—canwyllau angladd, canwyllau arwyl, ffaglau angladdol.

To perform funeral obsequies—arwyllanu; cyflawnu defodau angladdol.

Funeral feast — gwledd arwyl, gwledd angladdol, gwledd angladd.

Funeration,† *s.* (Ll. *funeratio*) arwylad, cadwad arwyl.

Funereal, *a.* angladdol, arwyliannol, arwylliannus; priodol *neu* berthynol i angladd; tywyll, gwrm, prudd, trist, athrist, tristlawn, alaethus, galarus, allwyaig, allwynin, agro, erch.

Funest,† *a.* (Ll. *funestus*) galarus, alaethus.

Fungal, *a.* (o *fungus*) ffyngol; perthynol i ffwng.

Fungate, *s.* (o *fungus*) ffynghalan; *pl.* ffynghalion.

Funge,† *s.* (Ll. *fungus*) un pen feddal, un penfasw, penblydd, pendew, penbwl, ffwl, ffwlcyn, ynfyd.

Fungi, *s. pl.* (Ll.) ffyngoedd, medyrch, ffyngryw.

Fungi of trees—callod coed, callodr coed, ffyngoedd coed.

Fungia, *s.* (o *fungus*) ffyngwylar.

Fungic, *a.* (o *fungus*) ffyngig, madarchig; a geir o fedyrch *neu* ffyngoedd.

Fungic acid—sur ffyngig, sur madarchig.

Fungiform, *a.* (Ll. *fungus* a *forma*) ffyngaidd; ar lun *neu* ddull ffwng; yn terfynu fel copa ffwng.

Fungin, *s.* (o *fungus*) ffyngnur, ffyngain=math o ddansawdd à geir mewn ffyngoedd.

Fungite, *s.* (o *fungus*) ffyngith, ffyngwylarfaen =math o wylar cloddelig.

Fungivorous, *a.* (Ll. *fungus* a *voro*) ffyngysol; yn byw ar ffyngoedd; yn ymborthi ar felyrch; yn ysu bwyd y barcud.

Fungoid, *a.* ffyngaidd, madarchaidd, madalchaidd; ar ddull madarch.

Fungosity, *s.* ffyngeiddrwydd; gorthyfiant tyner, gorthwf masw; cig marw.

Fungous, *a.* (o *fungus*) ffyngaidd, madarchaidd, madalchaidd, ffyngol, madarchol; masw, maswy, meddal, tyner, ysbyngaidd; gorthyfol, gordyfol; mandyllog fel ysbwng; ysgafn a thyllog fel madarch.

Fungus, *s.* (Ll.) ffwng, madarch, madalch, bwyd ellyllon, bwyd y barcud, bwyd y llyffant,

caws y llyffant, bwyd llyffant, caws llyffant; cig marw, cig balch, meddalgig, gorthwf masw.

Funicle, *s.* (Ll. *funiculus*) rhaffan, rheffyn, cordyn, corden; llinyn; llinionyn, edefyn; hadgoesig, hadgoesen.

Funicular, *a.* rheffynaidd, cordynaidd, cortynaidd, llinynaidd, llinionynaidd, edefynaidd, manedafeddol, manlinynaidd.

Funicular machine—peiriant rhaffol, rhaffermig.

Funk, *s.* (Ff. *fange;* Llyd. *fancq?*) drewsawr, drewdod, tagfwg, drewi, drew, mwg drewedig, tarth drewedig, tawch.

To be in a funk—bod allan o'i hwyl; bod â'r sorglwyf arno; bod â'r pwd arno; bod yn y sorglwyf; bod yn ddrwg ei dymmer; bod mewn tymmer *neu* natur ddrwg; bod yn ddrygnwydus, anniddig, *neu* anhyfodd; bod mewn cyffro.

Funk, *v.* drewi, drewsawru, tagfygu; llanw â drewdod; drewi drwy *neu* gân ofn.

Funnel, *s.* (C. *ffynel*) ffynel, ffynell; ceg, pibell, corn, *neu* lwnc simnai; twmffed, ffiol geg; ceudwll, carthdwll, pibell.

Funnel of a kiln—piben odyn.

Funnelform, } *a.* ffynelaidd, ffynellaidd, twm-
Funnelshaped, } ffedaidd; ar lun twmffed; tebyg i dwmffed.

Funny, *a.* (o *fun*) digrif, difyr, ysmala, digrifol, cellweirus, arabeddus, dysmal, arab, difyrlon, digrifian, digrifiawn, llawen.

Funny, *s.* bad ysgafn, ysgonfad.

Fur, *s.* (Ff. *fourrure;* C. *ffwrw?*) pân, ffwrw, ffwrwr, mynfyr, manflew, goflew; blew; blewgroen; blewgrwyn; cen, crest, cresten.

A skin of fur—mynfyrgroen, pan-groen, blewgroen; croen wedi ei drin â'r blew arno.

Furred—cotymog, panog.

Fur-wrought—â wnaed o ffwrw; gwneuthuredig o bân *neu* fynfyr.

Fur, *v. a.* cuddio, gwisgo, *neu* wynebu â phân; gosod *neu* roddi ffwrw ar; panwisgo; cenu, crestu, crestenu; gwynebu âg astell, astellwebu.

To fur a vessel—tynu ymaith y planciau neesaf i mewn, a'u rhoi ar ystlys llong o'r tu allan; astellwebu llong.

Furacious, *a.* (Ll. *furax*) lladradgar, lledradgar, lladronllyd, lladronaidd, lladraidd, lladradaidd, lleidrynaidd, chwiwgar, chwiwgïaidd; tueddol i ladrata; chwannog i ladrata.

Furacity, *s.* (Ll. *furacitas*) lladradgarwch, lledradgarwch, lladreiddrwydd, lladronllydrwydd, chwiwgarwch, lladradnwyd.

Furbelow, *s.* (Ff., It., ac Ysp. *falbala*) amadrwy, sider, amaerwy, amsider, sidergylchau.

Gentlefolks, } igion, boneddigion, gwŷr da, gwyrda, uchelwyr, gwŷr boneddig.

Gentleman, *s.* (*gentle* a *man*) gwr boneddig, boneddig, boneddwr, uchelwr, mab uchelwr, gwr da, gwr mynog; boneddwas, uchelwas.

Gentleman by birth and descent—boneddig cynnwynol, boneddig diledryw, boneddwr diledach, boneddig gwlad=boneddig fam a thad, heb gaeth, heb alltud, heb ledach ynddo.

Upstart gentleman—drygfoneddig, boneddig difonedd, uchelwr pendodi, gwr pendodi, boneddig diwraidd, boneddig diwaed, gwr newydd-gyfod; boneddig lledrywiog, boneddwr lledachog.

Half gentleman—hanner boneddig, boneddig lledrywiog, boneddig lledachog, boneddig o hanner gwaed.

Gentleman of the first rank—boneddig dyledog, pendefig, pendeddig, uchelwr.

Gentlemen of the first rank—pendefigion, dyledogion, goreugwyr, boneddigion dyledog, pendefigion y bobl.

Gentleman of the chamber—uchelwas yr ystafell, boneddwas ystafell, ystafellwas, gwas ystafell.

Of a gentleman, } boneddigaidd, bonedd-
Like a gentleman, } ig.

Gentlemanlike, } *a.* boneddigaidd; fel gwr bon-
Gentlemanly, } eddig; yn debyg i wr boneddig; rhywiogaidd.

To bring up gentlemanlike—dwyn i fyny ar fonedd; dwyn ar fonedd; dwyn i fyny yn foneddigaidd.

Gentlemanliness, *s.* boneddigeiddrwydd, boneddigrwydd; moesgarwch, hyfoesedd; ymddygiad gwr boneddig.

Gentleness, *s.* (o *gentle*) tiriondeb, tirionder, tirionedd, tiriondra, tirioni, tirionwch, mwynder, mwyndra, gwarder, gwardra, addfwynder, mwyneidd-dra, gwaredd, gwarineb, gwareddogrwydd, gwareddoldeb, gwarwch, hynawsedd, hynawsder, rhadlonedd, llarieidd-dra, llarieiddrwydd, llareiddwch, llaryeiddrwydd, llaryedd, llarwch, arafwch, arafedd, rhywiogrwydd, cyweithasrwydd, mynogrwydd, mynogaeth, mynogi, tawelwch, dofedd, tynerwch; †boneddigrwydd; †caredigrwydd.

Gentleship,† *s.* (o *gentle*) ymddygiad boneddig, boneddigrwydd.

Gentlewoman, *s.* (*gentle* a *woman*) gwraig foneddig, boneddiges, boneddes, bun foneddig; uchelforwyn.

A young gentlewoman—merch foneddig, geneth foneddig, boneddiges ieuanc, rhian.

A great gentlewoman—gwraig foneddig ddyledog, boneddiges ddyledig, pendefiges, dyledoges, boneddes uchelwaed.

Gentlewoman of the bed-chamber—ystafellyddes, ystafelloges, boneddes yr ystafell wely.

Gentlewomanlike, *a.* boneddigesaidd, boneddesaidd; gweddus i wraig foneddig; boneddigaidd.

Gently, *ad.* yn dirion, yn fwyn, yn addfwyn, &c.; gàn bwyllog, yn bwyllog; yn araf deg.

To lead gently—arwain yn dirion, &c.; coledd (*Esa.* xl. 11).

Gentoo, *s.* (Port. *gentio*) Hindw, Hindwad: *pl.* Hindwys, Hindwaid.

Gentry, *s.* (o *gentle*) bonedd; boneddigion, boneddwyr, uchelwyr, boneddion, gwŷr boneddigion, gwŷr boneddig, gwŷr da, gwyrda; boneddigaeth, boneddigrwydd; †cyweithasrwydd.

Gentry of the meaner sort, } bonedd lled-
Half-gentry, } rywiog, crach fonedd, crach foneddigion, boneddigach.

Genuflection, *s.* (Ll. *genuflectio*) plygiad glin, plygiad gliniau, glinblygiad.

Genuine, *a.* (Ll. *genuinus*) naturiol, cynnwynol, cynhenid, anianol; pur, digymmysg, anghymmysg, dilwgr, diledryw, diledach; cyntefig, brodorol, genedigol; gwir, gwirioneddol, gwireddol, cywir, priod, priodol; anffugiol, nid ffugiol; perthynol i'r peth ei hun.

Genuineness, *s.* naturioldeb, cynnwynoldeb, cynnwynolrwydd, cynenidrwydd; purdeb, anghymmysgedd, digymmysgrwydd, digymmysgedd, anghymmysgrwydd; gwiredd, gwireddoldeb, cywirdeb.

Authenticity and genuineness—awdurdodaeth a chynnwynoldeb; awduroldeb a phurdeb.

Genus, *pl.* Genera, Genuses, *s.* (Ll.) rhyw, rhywogaeth; tylwyth; cynryw, prifryw, ach, hil; dosbarth.

Genus and species—rhyw a rhith; rhywogaeth a rhithogaeth; rhyw a chenedl; rhyw ac adryw; cynryw ac adryw; tylwyth a rhywogaeth; rhyw a math.

A genus of birds—rhyw o adar; rhywogaeth o adar; tylwyth o adar.

Geocentric, *a.* (Gr. *gê* a *centron*) daiargreiddig; â chanddo y ddaiar yn ganolbwynt; â [illegible]nddo yr un canolbwynt a'r ddaiar; megys pe'i gwelid o ganolbwnc y ddaiar.

Geocentric latitude—lledred daiargreiddig.

Geocyclic, *a.* (Gr. *gê* a *cuclos*) daiargylchig; yn cyfnodol amgylchu y ddaiar.

Geode, *s.* (Gr. *gaiódês*) daiarfaen, daiargram.

Geodesic, } *a.* (Gr. *geôdaisia*) asfesurol, daiar-
Geodesical, } asaf[illegible]; perthynol i asfesuriaeth.

Geodesia, } *s.* (Gr. *geôdaisia*) asfesuriaeth, as-
Geodæsia, } feidraeth, daiarasfeidraeth, daiarasafiaeth, graddfesuriaeth.

Geodetic, } *a.* asfesurol, daiarasafol, gradd-
Geodetical, } fesurol; perthynol i asfesuriaeth.

Geodiferous, *a.* (*geode*, a Ll. *fero*) daiarfaenog; yn dwyn daiarfain.

Geognost, *s.* (Gr. *gê* a *gnôsis*) daiarwyddwr, daiarofydd, daiaregydd, daiaregwr.

Geognostic, *a.* daiarwyddol, daiarwyddig, daiarwyddain, daiaregol, daiarofyddol.

Geognosy, *s.* (Gr. *gê* a *gnôsis*) daiarwyddiant, daiarofyddiaeth, daiareg.

Geogonic, *a.* daiarffurfiol, daiarffurfig.

Geogony, *s.* (Gr. *gê* a *gonê*) daiarffurfiaeth; athrawiaeth ffurfiad y ddaiar.

Geographer, *s.* (Gr. *geôgraphêô*) daiarydd, daiaryddwr, daiargraffwr, daiarddarluniwr.

Geographic, } *a.* daiaryddol, daiargraffol,
Geographical, } daiarddarluniol.

Geography, *s.* (Gr. *gewgraphia*) daiaryddiaeth, daiargraffiaeth.
Physical geography—daiaryddiaeth anianyddol.
Geological, *a.* (o *geology*) daiaregol, daiarofyddol, daiardreithiol.
Geologist, *s.* daiarofydd, daiaregydd, daiaregwr.
Geologize, *v. n.* daiarofyddu, myfyrio daiareg, efrydu daiarddyeg.
Geology, *s.* (Gr. *gê* a *logos*) daiareg, daiarofyddiaeth, daiarddyeg, daiardraith.
Geomancer, *s.* daiarddewin, daiargoeliwr.
Geomancy, *s.* (Gr. *gê* a *manteia*) daiargoel, daiarogan; dewiniaeth drwy dynu lluniau a gwneuthur cwmpasau ar y ddaiar.
Geomantic, *a.* dargoelig, daiargoelus, daiargoelin, daiargoeling, daiaroganus; perthynol i ddaiargoel.
Geometer, } *s.* (Gr. *geômetrês*) meidrofydd,
Geometrician, } meintonydd, meintonwr, mesuronydd, mesurydd, gwyddonydd.
Geometral, *a.* meidrofyddol, meintonol; perthynol i feintoniaeth.
Geometric, } *a.* (Gr. *geômetricos*) meidrofydd-
Geometrical, } ol, meintonol, medonol, mesuronol, mesuryddol.
Geometrically, *ad.* yn feidrofyddol, &c.; yn ol rheolau meidrofyddiaeth.
Geometrize, *v. a.* meidrofyddu; gwneuthur yn feidrofyddol; gwneuthur yn ol rheolau neu ddeddfau mesuryddiaeth.
Geometry, *s.* (Gr. *geômetria*) meidrofyddiaeth, mesurofyddiaeth, meintoniaeth, medoniaeth, meintoni, meintofyddiaeth; mesureg, mesuryddiaeth.
Elementary geometry — meidrofyddiaeth elfenol.
Geomys, *s.* (Gr. *gê* a *mus*) tudlyg.
Geoponic, *a.* (Gr. *gê* a *ponos*) tirlafuriol, tirdriniol, tirddiwylliol, tirddiwyllus, amaethonol, amaethyddol, tiramaethol; perthynol i'r tir.
Geoponics, *s.* llafuriaeth, tirlafuriaeth, tirddiwylliaeth, tirdriniaeth, tirddiwyll, tirddiwyllawd.
Georama, *s.* (Gr. *ge* a *horama*) daiarwel=math o beiriant à ddengys olwg dra chyflawn o'r ddaiar.
George, *s.* marchoglun St. Siôr, à wisgir gàn Farchogion y Gardas: to[illegible] eilflawd.
George-Noble — Siôr Nobl=darn aur yn amser Harri VIII., gwerth 6*s.* 8*c.*
Georgic, *s.* (Gr. *geôrgicos*) llafureg, llafurgerdd, llafurgan.
The Georgics of Virgil—Llafuregau Virgil, Llafuregion Virgil.
Georgic, *a.* llafuregol; llafuriol, amaethyddol, tirdriniol; perthynol i amaethyddiaeth; perthynol i orchwylion gwladaidd.
Georgium Sidus, *s.* (Ll.; o barch i *George* III.) Seren Siôr, Seren Georg; Uranus, Herschel.
Geosaurus, *s.* (Gr. *gê* a *sauros*) daiarfadion.
Geoscopy, *s.* (Gr. *gê* a *scopeô*) daiarsylliaeth, gwybodaeth o'r ddaiar trwy syllu arni.
Geotic, *a.* (Gr. *gê*) daiarig, daiarol, daiaraidd, deierin.
Geranium, *s.* (Ll. o'r Gr. *geranion*) pig yr aran, garanbig, mynawyd y bugail.
Gerent, *a.* (Ll. *gerens*) dygol, dygiadol, yn dwyn, cludol.
Gerfalcon, *s.* (Ff. *gerfaut*; Ll. *gyrus* a *falco*) hebog chwyldro.
Germ, *s.* (Ll. *germen*) blaguryn, blaendardd, eginyn, blagur, bragur, baldardd, hadflagur-yn, hadflagur, hadfal, bywull, impyn, hedyn, rhith; dechreu, dechreuad, cynddaneawdd, cynegwyddor, elfydd, anian, cychwyn.
German, *a.* (Ll. *germanus*) cyfnesaf; unwaed, cyfrywiol, rhywiog, naturiol.
Brother german — brawd undad unfam, gwirfrawd, brawd calon, brawd unwaed.
Cousin german—cefnder, cefnderw, cefnder unwaed: *pl.* cefndyr, cefndyrw, cefnderoedd, cefnderon, cefnderwedd, cefnderwydd, cefnderwyr: *f.* cyfnither, cyfnitherw: *pl.* cyfnitheroedd, cyfnitheron, cyfnitheredd.
Germander, *s.* (Ff. *germandrée*) derlys, derwlys, derwen y ddaiar.
Wild germander, } rhwyddlwyn blew-
Germander speedwell, } ynog.
Germander chickweed—rhwyddlwyn gorweddol.
Water germander—derlys y dwr, derwlys y dwr, ysgyr.
Wall germander—derlys y fagwyr, llysiau Cadwaladr.
Wood germander — derlys y goedwig, chwerwyn y twyn, chwerwlys yr eithin, llwyd yr eithin, triagl y Cymro, ceidwad wyllt.
Germen, *s.*=*Germ.*
Germinal, *a.* (Ll. *germinalis*) blagurol, blaendarddol, hadflagurol, eginol, bywulliog.
Germinal, *s.* enw mis yn Ffrainc Chwyldroawl, Mawrth 21 hyd Ebrill 19.
Germinant, *a.* (Ll. *germinans*) blaendarddol, blagurol, balgurol, baldarddol, balannol, eginol; yn tarddu allan, yn blaguro.
Germinate, *v.* (Ll. *germino*) blaendarddu, blaguro, bywullu, egino, baldarddu, blaendyfu, balannu, piburi, agor, impio, tarddu, rhithio.
Germination, *s.* (Ll. *germinatio*) blaendarddiad, blaguriad, baldarddiad, eginad, impiad, bywulliad, bywulliant, piboriad, tarddiant allan, darfaiant, blaendyfiad; blaendardd, blaendwf, tardd, bala, twf; blagurawd, bywullawd, amser blaendarddu.
Gerocomical, *a.* perthynol i driniaeth hen bobl.
Gerocomy, *s.* (Gr. *gêrôn* a *comeô*) triniaeth feddygol hen bobl.
Gerund, *s.* (Ll. *gerundium*) cyfrodiad, gorchwylydd.
Gess, *s.* (It. *getti*, *zetti*) taflhual, taflhualen; addurn gwalch; y careion am goesau gwalch.
Gest,† *s.* (Ll. *gestum*) gweithred, gorug; dangosiad, arddangosiad.
Gest, *s.* (Ff. *gîte*) teithraddlyfr, rhes teithrannau, teithrol; † teithradd, teithran.
Gestation, *s.* (Ll. *gestatio*) cyfebriad, beichiogiad, beichiogi, beichiogrwydd, torogiad, dygiad yn y groth; dygiad, cludiad; gwisgad.
Gestatory, *a.* (Ll. *gestatorius*) dygadwy, arweddadwy; gwisgadwy.
Gestic, *a.* (o *gest*) gweithrediadol, gorugiol; perthynol i weithredoedd; ffugiol, chwedleuol, ffuglithiol.
Gesticulate, *v.* (Ll. *gesticulor*) ystumio, mydumio, munudio, chwidro; gwneuthur munudiau, ystumiau, mydumiau, neu lamidyddiaeth; chwareu yr ysgentyn; efelychu, dynwared, gweithredu, awgrymu, amneidio.

Gesticulation, *s.* (Ll. *gesticulatio*) ystumiad, mydumiad, munudiad, chwidrad, ystumiaeth, mydumiaeth, ffunudiaeth, chwydawiaeth; gwneuthuriad ystumiau, mydumiau, *neu* funudiau; ymddygiad, agweddiad: *pl.* ystumiau, mydumiau, munudiau, castiau, castiau digrif.

Gesticulator, *s.* ystumiwr, mydumiwr, munudiwr, ysgentyn.

Gesticulatory, *a.* ystumiol, mydumiol, munudiol, amneidiol.

Gestor,† *s.* (Ll.) hanesydd, adroddwr.

Gesture, *s.* (Ll. *gestus;* Ff. *geste*) ystum, mydum, munud, amnaid, awgrym, agwedd, arweddiad, arddull, ymddygiad; moes; safiad; llechwen.

Full of gestures — ystumiog, munudiog, mydumiog, ystumgar; llawn ystumiau, &c.

Gesture, *v. a.* ystumio, mydumio, munudio, amneidio.

Gestureless, *a.* diystum, difydum, difunud; heb ystumiau, &c.; rhydd oddi wrth funudiau.

Gesturement, *s.* ystumiad, mydumiad, munudiad; gwneuthuriad ystumiau *neu* funudiau.

Get, *v.* (S. *getan, gytan, geatan*) cael, caffael; celsio; darparu, darmerth, parotöi, mynu; dwyn, dwyn allan; ennill, ynnill, elwa, maelio; cyrhaedd, cyrhaeddyd; meddiannu, goresgyn, perchenogi; gwneuthur, peri, peru; cymmeryd; dysgu; cenedlu, hilio; darbwyllo; casglu, hely; dyfod; dyfod i; myned; myned i, myned yn; bod gàn; bod.

To get above, } myned uwch law; myned
To get before, } o flaen; myned tu hwnt
To get beyond, } i; cael *neu* ennill y blaen ar; myned dros; gadael ar ol; gadael o'i ol; rhagori ar, blaenu ar; trechu.

To get abroad—myned allan; myned ar led; myned yn gyhoeddus.

To get acquaintance—ennill cyfeillach; ennill iddo ei hun gyfeillion; ffurfio *neu* wneuthur cydnabyddiaeth; ennill adnabyddiaeth.

To get acquainted with one—gwneuthur cydnabyddiaeth âg un; myned mewn cydnabyddiaeth âg un; myned yn gydnabyddus âg un; myned mewn cydnabod *neu* gyfeillach âg un; ymgydnabod âg un; dyfod yn gydnabyddus âg un.

To get ahead — myned yn mlaen; myned rhagddo; dyfod yn mlaen; dyfod rhagddo; llwyddo, ffynnu, tycio.

To get along—myned rhagddo; myned yn mlaen; myned yn y blaen; dyfod rhagddo, &c.

To get along—myned yn mlaen; myned yn y blaen; myned rhagddo; dyfod rhagddo; dyfod yn mlaen.

To get among—dyfod i fysg *neu* i blith; myned i blith *neu* i fysg; ymgymmysgu â; dyfod *neu* fyned yn un o'r nifer.

To get an inkling of a thing—cael lledwybodaeth o *neu* am beth; cael awgrym o *neu* am beth; cael brith arwynt ar beth; lled arogli peth; brith ddeall peth.

To get asleep—myned yn nghwsg; syrthio yn nghwsg; syrthio i gwsg; myned yn nghwsg; syrthio i gysgu; huno, cysgu.

To get at—cyrhaedd, cyrhaeddyd; myned at, dyfod at, dyfod i; dyfod o hyd i.

To get away—ymadael, ymadaw; dïanc, ffoi; myned ymaith *neu* ffwrdd; ffoi ymaith, ffoi ffwrdd; ymryddhau, ymddirwydo, ymddirwyllo, ymddinidro; troi o'r neilltu.

To get away from a pursuer—dïanc rhag ymlyniad; ffoi rhag erlynydd.

To get back—dyfod yn ol; dychwelyd; troi yn ol.

To get between—cyrhaedd rhwng; myned rhwng.

To get behind—bod yn ol; bod ar ol; aros ar ol; aros yn ol; sefyll ar ol; sefyll yn ol; aros yn olaf; llercian, hirdrigo.

To get by—myned heibio; pasio heibio.

To get by entreaty—cael trwy ddymuned.

To get by heart—dysgu ar dafodleferydd; dysgu ar ei dafod; dysgu allan.

To get children—ennill plant, cael plant, planta; cenedlu plant.

To get clear—ymryddhau, ymddirwydo, ymddirwystro, ymddirwyllo; myned yn rhydd; dyfod yn rhydd; cael ei ryddhau; hebrwng oddi wrtho; cael ei ben yn rhydd.

To get down—disgyn; myned *neu* ddyfod i lawr; dyfod *neu* fyned i waered.

To get drunk—meddwi; myned yn feddw.

To get forward—myned yn mlaen; myned yn y blaen; myned rhagddo; dyfod yn mlaen; dyfod rhagddo; llwyddo, ffynnu, tycio.

To get home — dyfod adref, cyrhaedd cartref, cyrhaedd adref.

To get in—cael i mewn; cael dàn do; cael i ddiogelwch; cywain.

To get in, } myned i, dyfod; myned yn,
To get into, } dyfod yn; myned i mewn; ymwthio i mewn; ymlithro i mewn; ymlusgo i mewn; cael ei hun i mewn.

To get into one's favour—ennill bodd un; ennill ewyllys da un; myned mewn parch *neu* gymmeriad gydag un; ymwthio i ewyllys da un.

To get a lesson—dysgu gwers; codi gwers.

To get loose, } ymryddhau, ymddirwydo,
To get free, } ymddirwyllo, ymrwyllo, ymddirwystro; myned yn rhydd; dyfod yn rhydd; cael ei ben yn rhydd.

To get a mile—cerdded milltir, myned filltir, teithio milltir; myned *neu* gerdded milltir o ffordd.

To get near—agoshau, neshau, nesu, dynesu, dyneshau, ymneshau, ymnesu; myned *neu* ddyfod yn agos.

To get off — myned ymaith; ymadael; dïanc, ffoi; dihatru, tynu ymaith, tynu oddi am, tynu i ffwrdd, dadwisgo; ymryddhau, ymddirwydo; cael gwared o; gwaredu; symmud; disgyn; gwerthu, rhoi ar werth.

To get off a horse—disgyn oddi ar geffyl; disgyn oddi ar gefn ceffyl.

To get on—myned yn mlaen; myned yn y blaen; myned rhagddo; dyfod yn mlaen; dyfod rhagddo; gwisgo, rhoi am, rhoi am dano, ymwisgo â.

To get on a garment—gwisgo dilledyn; ymwisgo â dilledyn; rhoi dilledyn am dano.

To get on horseback—myned ar geffyl; myned ar gefn ceffyl; esgyn *neu* ddringo i gefn ceffyl.
To get out—cael allan, tynu allan, mynu allan, cael i maes, dwyn allan; rhyddhau; myned allan, dyfod allan; dïanc, ffoi, dïanc allan; ymryddhau.
To get over—gorchfygu, trechu, gorfod ar, gorthrechu; cael yr oruchafiaeth ar; cael y trechaf ar; cael y gorfod ar; cael y goreu ar; cael y llaw uchaf ar; ennill y dydd ar; maeddu; gwella o, gwellhau o, ymiachâu o; myned dros; dyfod drwy.
To get ready — gwneuthur yn barod; parotöi, darparu.
To get rid of, } cael gwared o; mynu
To get quit of, } gwared o; rhyddhau o; rhyddhau oddi wrth; ymryddhau o; ymryddhau oddi wrth; ysgwyd ymaith; symmud; mynu llonydd gân; bwrw, symmud, *neu* dafiu oddi arno.
To get safe home—dyfod yn iach adref.
To get the better—cael y goreu; cael yr oruchafiaeth *neu* y fuddugoliaeth; cael y maes; cael y llaw uchaf *neu* drechaf; cael y trechaf; ennill y maes; ennill y fuddugoliaeth *neu* yr oruchafiaeth; myned â'r maes; myned â'r trechaf; ennill *neu* gario y dydd; gorchfygu, trechu, gorfod, gorthrechu, gortrechu, goresgyn.
To get the day—ennill y dydd; cael y dydd; cario y dydd; myned â'r dydd; ennill y gamp; myned â'r gamp; cael y maes; cael y goreu; myned â'r maes; ennill y fuddugoliaeth, &c.; ennill, gorchfygu, trechu.
To get a thing out of one—tynu, mynu, *neu* gael peth allan o un.
To get through—myned drwy; treiddio trwy; tori trwodd; gorphen, dybenu, cyflawnu.
To get to—myned i; cyrhaedd, cyrhaeddyd, cyrhaeddu; dyfod i.
To get to land—cyrhaedd tir, cael tir; myned i'r lân; dyfod i'r lân; myned i dir; dyfod i dir; tirio, glanio.
To get together — hel yn nghyd; cynnull, casglu, tyru, crugio, pentyru; casglu *neu* gynnull yn nghyd; dwyn yn nghyd; ymgasglu, ymgynnull, crynöi, ymgrynöi, cyfarfod, dyfod yn nghyd.
To get up—cyfodi, codi; esgyn, dringo; myned i fyny; ymgymmeryd; myned; ymsymmud; cymmeryd; dwyn yn mlaen; dysgu, parotöi; gwneuthur yn barod; tynu, codi, dwyn, cael, *neu* fynu i fyny.
To get with child—beichiogi; gwneuthur *neu* beri yn feichiog; trymhau.
Get up—cwyd, cyfod, coda, cyfoda.
Get thee away—dos ymaith; dos i ffwrdd; dos i'th ffordd; i ffwrdd â thi; ymaith â thi; cerdd i gerdded; cerdd i dy ffordd.
Get ye gone — ewch ymaith; ymaith â chwi; ffwrdd â chwi; ffwrdd.
Get thee hence, Satan—ymaith, Satan.
Get thee gone, base fellow—ymaith, ddiffaethwr.
The report was got abroad—aethai y son allan; aethai y gair allan; aethai y son ar led.
He will get—caiff, ceiff, ca; â, e â.
Getter, *s.* (o *get*) caffaeliwr, caffaelydd; ennillwr, ennillydd; cenedlor, cenedlwr.
Getters, *s. pl.* cloddwyr, daiargloddwyr.
Getting, *s.* caffaeliad, caffad, caffawd, cafawd, cafaeth, cïad; ennilliad, ynnilliad; ennill, elw, mael.
There is no getting of it again—ni cheir mo hono drachefn; nid oes modd i'w gael yn ol.
Getting in the top—gwneuthur nen *neu* gromglwyd amserol (mewn ceuffyrdd).
With all thy getting get understanding—â'th holl gyfoeth cais ddeall (*Diar.* iv. 7).
Geum, *s.* (Ll. o'r Gr. *geuô*) mabgoll, llysiau fy anwylyd, bendigeidlys.
Gewgaw, *s.* (S. *ge-gaf?* Ff. *joujou?*) tegan, coegbeth, ffril, tegan plant bach, gofregedd, coeg chwareubeth.
Gewgaw, *a.* teganaidd; coeg, diwerth; dangoeiadus a diwerth.
Geyser, *s.* (o'r Isl.) ffynnon ferw; enw à roir i ffynnonau berwedig Ynys yr Ia.
Ghastful,† *a.* (S. *gastlic*) hyll, erchyll, irad, echryslawn, prudd, pruddwedd.
Ghastliness, *s.* (o *ghastly*) hyllrwydd, erchylldod, erchyllrwydd, erchylldra, hylldra, iradrwydd, iradedd, hyllrwydd gwedd, erchylldod golwg, erchwedd, ysbrydwedd; oelyrwedd, gwelwedd; gwelwedd angeuol yn yr wynebpryd; tebygrwydd i wedd yr angeu; gwedd angeuaidd.
Ghastly, *a.* (S. *gastlic*) erchyll, irad, hyll, celaneddog, celanaidd, llurgunaidd, trengwedd, girad, cethin; hyll ei wedd; irad ei olwg; tebyg i ysbryd *neu* anysbryd; âg angeu yn ei wedd; glas, gwelw, *neu* laswelw fel ysbryd *neu* yr angeu; angeuaidd, dïenig, oerwelw, gwelw, gwelwlas, glaswelw; echryslawn, erch, echrys, echrydus, aethus, ansiriol, anhylon, dychrynllyd, echrysol, arswydus, iradus.
A ghastly look — hylldrem, hyllwedd, erchwedd, golwg irad.
Ghastness,† *s.*=*Ghastliness.*
Ghaut, *s.* (gair Indiaidd) rhes o fynyddau, cyfres o fynyddoedd, mynyddres, mynyddres; bwlch, adwy, ffosp, trawïen, *neu* gulfforddd trwy fynydd; rhesfforddd; grisiau yn disgyn i afon; disgynres.
The Ghauts of Hindustan — Mynyddres Hindwstan, Mynyddres Hindwstan, Mynyddres Hindwstan.
Ghee, *s.* ymenyn ter, arferedig yn yr India.
Gherkin, *s.* (Al. *gurke*) cucumer cyffeithiedig, chwerfwr cadwadwy.
Ghess,† *s.*=*Guess.*
Ghost, *s.* (S. *gast;* Al. *geist;* Is. *geest*) ysbryd; enaid; ellyll, gwyll, anysbryd, bwgan, bwg, bwbach, mwci, drychiolaeth.
Holy Ghost — Ysbryd Glân, yr Ysbryd Glân, yr Ysbryd Santaidd, y Glân Ysbryd, y Santaidd Ysbryd.
Ghosts of the dead—ysbrydion y meirw, eneidiau y meirwon; gwyllon, gwyllion, anysbrydion, gwag ysbrydion, ellyllon.
To give up the ghost—rhoi *neu* roddi i fyny yr ysbryd; ymadael â'r ysbryd; ymadaw â'r enaid; marw, trengu; llesmeirio.

Ghost,† *v.* marw, trengu; aflonyddu âg ysbryd, blino â drychiolaeth.
Ghostless, † *a.* diysbryd, difywyd.
Ghostlike, *a.* ysbrydaidd; tebyg i ysbryd; irad, hyll, erchyll, trengwedd; hyll ei wedd; gwyw, gwywedig; llygadbyllog.
Ghostliness, *s.* (o *ghostly*) ysbrydolrwydd, ysbrydoldeb.
Ghostly, *a.* (o *ghost*) ysbrydol; eneidiol; perthynol i ysbryd; perthynol i wyllon; ellyllaidd, lledrithiol.
Ghostly enemies—gelynion ysbrydol.
Ghote, *s.* ysbryd drwg dychymygol yn mhlith y Dwyreinwyr.
Ghoul, *s.* elfod â ymborth ar y meirw (yn ol breuddwydion y Dwyrain).
Giallolino, *s.* (It. *giallo*) melyn Naples, tegfelyn=math o baent melyn teg.
Giambeaux,† *s. pl.* (hen Ff. o *jambe*) coesarfau, coesarnau, coeswisg.
Giant, *s.* (Ff. *géant;* It. ac Ysp. *gigante;* Ll. a Gr. *gigas*) cawr; *pl.* cawri, cewri.
Giant's Causeway, Giants' Causeway, Giants' Causey, } Sarn y Cawr, Sarn y Cawri.
Giant, *a.* cawraidd, cawr-; gorfawr, anferth, enfawr, amrosgo, dirfawr; anferth o faint.
Giant son—cawr-fab.
Giantess, *s.* cawres; gwiddanes.
Giant-fennel, *s.* marchffenigl, cedorwydd.
Giantise, *v. n.* chwareu y cawr.
Giant-killing, *a.* cawrladdol; yn lladd cawri.
Giantlike, } *a.* cawraidd; anferth o faint; an-
Giantly, } ferth ei faint; enfawr, gorfawr, amrosgo, abrwysgl, dirfawr.
Giantry, *s.* y cawri, y cewri, yr hil gawraidd; cawrdod.
Giantship, *s.* cawredd, cawraeth, cawrdod, cawrder, cawrdeb; sefyllfa, ansawdd, *neu* nodwedd cawr.
Giaour, *s.* (Tyrc.=ci) anghredadyn, anffyddloniad, anffyddiwr=enw â rydd y Mahometiaid i bawb ond hwy eu hunain.
Gib,† *s.* cath.
Gib,† *v. n.* bod fel cath; ymddwyn fel cath.
Gibbe,† *s.* hen anifail methedig.
Gibber,† *v. n.* (cyfathrach i *jabble* a *jabber*) baldorddi, ffregodi, llolian.
Gibberish, *s.* (o *gibber*) ffreg, ffrec, ffregod, ffregawd, ffregodiaeth, ffregiaith, ffugiaith, ffiloreg, clebar, clegyr, clegar, baldordd, chwaldod, chwaldordd, peprwn, pepraeth, pepre, llol, gwagsiarad, ofersiarad, brygawthen; ffol eiriau ffiloreg.
Gibberish, *a.* ffregodaidd, ffregaidd, baldorddus, chwaldodus; annealladwy, diaylwedd, diaynwyr.
Gibbet, *s.* (Ff. *gibet;* Llyd. *gibel*) crogbren, crogwydd, hongwydd; trawslath.
Gibbet, *v. a.* crogosod, tidgrogi, tidhongian; crogi ar grogbren; rhoi yn nghrog ar bren; crogi.
Gibbier,† *s.* (Ff. *gibier*) heladar, helfilod, asgafaeth.
Gibble-gabble, *s.* baldordd, siaradach; ffregod, ffrec, brygawthen, oferglep; ymddadl heb na rhimyn na rheswm.
Gibbose, *a.* (Ll. *gibbosus*) oddfog, onyciog, hyrygog, crwca.
Gibbosity, } *s.* (Ff. *gibbosité;* o'r Ll. *gibbosus*)
Gibbousness, } crythogrwydd, crythedd, crwmach, crothogrwydd, argrymedd, crytholdeb, crytholrwydd, crymedd, crymgant, cynghrynedd, oddfogrwydd, tyddfogrwydd, argrynedd; oddf, cnwc, twddf, chwydd, crwb, crymddull; cefngrymedd; bolgrymedd.
Gibbous, *a.* (Ll. *gibbosus*) crythog, crwm, argrwm, crythol, crythaidd, crythedig, oddfog, hyrygog, tyddfog, crymaidd, amgrwm, crwbi, argrwn; cefn-grwm, cefn-hwrwg, cefn-grwba, cefn-grwbi, cefn-grwth, cefngrwca; gwargam; yn chwyddo allan; â bolchwydd ynddo; â chrwth iddo.
The moon is gibbous—mae y lleuad yn grythog.
Gibbously, *ad.* yn grythog, &c.; ar wedd crwth.
Gibbsite, *s.* (oddi wrth Geo. *Gibbs*) delidfaen â geir yn Massachusetts.
Gibcat, *s.* gwrcath, cath wryw; hen gath.
Gibe, *v.* (S. *gabban;* Ff. *gaber*) gwawdio, gwatwar, gwatwor, dirmygu, goganu, greffio, difrïo, anfrïo, difenwi, senu, mocio; dannod; chwerthin am ben; dyfalu.
Gibe, *s.* gwawd, gwatwar, gwatwor, greff, dirmyg, anfri, sen, moc, gogan; gwatwargerdd, gwatworgerdd, cellweirgno.
Giber, *s.* gwawdiwr, gwawdydd, gwatwarwr, gwatworydd, gwatworwr, greffwr, senwr, goganwr, difrïwr, dyn gwatwarus, dyn gwatworgar.
Gibingly, *ad.* yn wawdus, yn watworus, yn watworgar, o watwar, o wawd, dân watwar, mewn gwawd.
Giblets, *s. pl.* (Ff. *gibier*, yn ol *Junius;* Goth. *gibla*, aden) syrth gŵydd, syrth.
Giblet-pie—pastai syrth.
Gibstaff, *s.* hirffon.
Giddily, *ad.* (o *giddy*) yn benysgafn, &c.
Giddiness, *s.* (o *giddy*) penddaredd, pendro, y bendro, penddar, gysp, meigryn, ehegr, penfrag, gwibwrn; penchwibandod, penysgafnder, madrondod, pensyfrdandod, syfrdandod, syfrdanedd, syfrdander, penwendid, penwander, chwidredd, pensyndod; anwadalwch, anwadaledd, anwadalrwydd, gwamalwch, gwamalder, ansefydlogrwydd, anofaledd, ysgafnder, nwyfusrwydd, nwyfiant.
Giddy, *a.* (S. *gidig*) penysgafn, penwan, pendröedig, pendroiog, penchwiban, chwidr, chwidrog, pensigl, syfrdan, pensyfrdan, penffol, penddarus, pendroawl, dystroawl, chwildroawl, chwyldroawl; chwidrol, syfrdanus, syfrdanol, chwibwrn, gwibwrn, serf, serfyll; â'r bendro arno; ysgoewan, ysgoewain, anwadal, gwamal, ansefydlog, anwastad, anhysaf, ansafadwy, syfal, newidiol, oriog; difeddwl, esgeulus, dïymdawr, anofalus, anystyriol, dibryder, byrbwyll; meddw, penfeddw.
Giddy, *v.* chwidro, dyströi, chwildröi, pendröi, penddaru, pensiglo, pensynu; peri y bendro.
Giddy-brained, } *a.* penysgafn, penwan, pen-
Giddy-headed, } dröedig, pendroiog, penchwiban, pendrawn, penfeddw, chwidr, &c.; difofal, dïymdawr, difeddwl, esgeulus, dibryder, anofalus, diddarbod, diamwel, anochelgar, ehud; anwadal, gwamal, ansefydlog, oriog, hydro, anwastad, ysgoew, ysgoewain.
Giddy-head, *s.* un penysgafn, dyn penchwiban, chwidryn, chwidrwr, ysgoewan.
Giddy-paced, *a.* anwastad ei gamrau.
Gier-eagle, *s.* (Is. *gier*, buri?) math o eryr; eryr chwyldro; piogen (*Lef.* xi. 18; *Deut.* xiv. 17).

Gierfalcon, *s.*=*Gerfalcon ; Gyrfalcon.*
Gieseckite, *s.* (oddi wrth Syr C. *Giesecke*) math o ddelidfaen.
Gift, *s.* (o *give*) rhodd, anrheg, dawn, cyflwyn, gwoseb, goseb, cyfarwys ; rhoddiad, doniad, doniaeth, rhoddedigaeth, rhoddiant ; llawrodd ; ced ; rheg ; gwobr ; offrwm ; teithi ; rhad.
A gift returned *or* given back again—adrodd.
New year's gift—calenig.
In the nature of a gift — gwosebol, gosebol.
Splendid gift—ceinrodd, ceinrad, rhodd ysblenydd.
Mutual gift—cyfrodd, cydrodd.
Inherent gift—cynddawn, dawn cynhenid.
Superior gift—rhagorddawn, gorddawn.
Free gift—rhadrodd, rhodd rad.
To present a gift—rhoddi rhodd, anrhegu, gosebu, gwosebu ; cyflwyno rhodd, anrheg, *neu* woseb.
To receive gifts, } derbyn rhoddion, an-
To accept gifts, } rhegion, gwosebion, *neu* osebion ; rhoddgymmeryd.
Receiver *or* accepter of gifts—rhoddgymmerwr, rhoddgymmeriawdr, derbyniwr rhoddion, derbynydd anrhegion.
That has a gift bestowed on him—cyfarwysog ; doniog.
That is endowed with a gift—cyfarwysog ; doniog.
Bountiful in gifts—hyrodd, hyddawn, hyged ; hael ei ged.
Showering down gifts—lluchddawn.
In his gift—yn ei rodd ; ar ei law.
Gift, *v. a.* donio, dawnu, darddonio, arddonio, dyddonio, cynnysgaethu, anrhegu, rhoddi.
Gifted, *a.* doniog, dawnus, doniol, dawnfawr, mawrddawn ; rhoddedig, dawnedig, rhoddog ; teithiog.
Greatly gifted—dawnfawr, mawrddawn ; mawr ei ddawn.
Giftedness, *s.* doniogrwydd, dawnusrwydd, doniolrwydd, donioldeb, dawnforedd, dawnedigrwydd.
Gig, *s.* (It. *giga ;* Ff. *gigue ;* Sw. *giga*) cerbydan, cerbydon, cerbyd unmarch ; corn tro, trodegan ; crwth ; tryfer, pysgdryfer ; bad, bad llong, bad cadben, cadben-fad ; ffiloges, ffilog, nwyfen, nwyfes, hoeden, mwyglen, gwilff.
Gig,† *v. a.* (Ll. *gigno*) cenedlu.
Gig, *v. a.* (o *gig*, tryfer) tryferu, tryferu pysg ; dal pysg â thryfer.
Gigantean, *a.* (Ll. *giganteus*) cawraidd ; nerthfawr, nerthol, cryf.
Gigantic, *a.* (Ll. *giganticus*) cawraidd, cawr- ; enfawr, gorfawr, anferth, anferthol, dirfawr, amrosgo, abrwysgl, cymrwysg ; anferth o faint ; anferth ei faint ; annhyngedfenol o fawr ; fel cawr o faint.
Gigantical, } † *a.*=*Gigantic.*
Gigantine, }
Giantology, *s.* (Gr. *gigas* a *logos*) cawrhanes, cawrofyddiaeth ; hanes *neu* ddarluniad o gawri.
Giantomachy, *s.* (Gr. *gigas* a *machê*) cawrymladdfa, cawrymladd, cawrgad ; rhyfel y cawri yn erbyn y nef.
Giggle, *s.* (S. *geagl ;* Is. *gichgclen*) cilchwerthin, cilchwardd, ofer chwerthin, chwerthin byth a hefyd, chwerthin dân ddannedd, chwerthin cil boch, chwerthin, chwardd.
Giggle, *v. n.* cilchwerthin, chwerthinial, crechwenu, cilchwarddu, ofer chwerthin ; chwerthin byth a hefyd ; chwerthin am ddim ; chwerthin am ben pob dim ; chwerthin yn ddiarbed ; chwerthin yn ddibaid ; chwerthin dân ddannedd ; chwerthin dân ei ddannedd ; chwerthin yn nghil ei foch ; mogi chwerthin, nwyfchwerthin, telain, ffol chwerthin, crych chwerthin, chwerthin, chwarddu.
Giggler, *s.* cilchwarddwr, cilchwerthinwr, cilchwerthwr, crechwenwr, ffol chwarddwr, chwarddwr dân ei ddannedd ; chwarddwr, chwerthinwr, dyn chwerthinog, dyn chwerthinllyd.
Giglet, } *s.* (o *giggle ;* S. *geagl ;* Ff. *gigueг*)
Giglot, } hoeden, mwyglen, anllades, anlladferch, trythylles, dyhiren, nwyfen, nwyflodes, coegen drythyll chwerthinllyd ; benyw chwerthinog, chwerthinllyd, chwerthingar, nwyfus, anllad, anniwair, *neu* drythyll.
Giglot, } *a.* chwerthinog, chwerthinllyd,
Giggling, } chwerthingar, ffol chwerthinllyd ; nwyfus, trythyll, anllad, tinboeth ; gwantan, chwidr, penysgafn, penffol, anwadal, gwamal, ansefydlog, ysgafn.
Gigot, *s.* (Ff.) cymmal pen y glun ; tafell.
A gigot of mutton—chwarthor ol o gig mollt ; aelod ol o gig mollt ; chwarthor ol mollwyn.
Gilbertite, *s.* (oddi wrth Davies *Gilbert*, Ysw.) enw delidfaen.
Gild, *v. a.* (S. *gildan, geldan ;* Is. ac Al. *geld*) goreuro, euro ; gorthôi *neu* orchuddio âg aur ; gloewi, llugeinio, llathru, eirianu, goleuo ; addurno.
Gild, *s.*=*Guild.*
Gilder, *s.* goreurwr, goreurydd, eurwr.
Gilder, } *s.* (Al. *gulden*) darn bath yn yr Is-
Guilder, } diroedd, gwerth tua 1*s.* 9*c.*
Gilding, *s.* goreurad, eurawd, eurad ; goreuraeth, euradaeth ; goreuro ; eurdo, cargaen, eurdaen.
Water gilding, } dyfr-eurad, golch-eurad,
Wash gilding, } dyfr-eurawd, goreurad dwfr.
Leaf gilding—deil-eurad, deil-eurawd, [illegible]-eurad dalen.
Gill, *s.* (Sw. *gel ;* Ysp. *agalla*) crogen ; tagell ; crogen *neu* dagell pysgodyn : *pl.* crogenau, tagellau, tegyll, dwyen.
Gills of fish—crogenau pysg, crogenau pysgodyn, tagellau pysgod, tegyll pysg, dwyen pysg.
The gill of a fowl—tagell aderyn, tagell ehediad.
Gill, *s.* (Ll. *gilla, gillo, gello*) gwartharn, chwartharn=chwarthor neu bedran peint.
Gill (among miners)—mesur tua pheint.
Gill, *s.* eidral, beidiog las, bydiog las, eiddew y ddaiar, llysiau y gerwyn, llysiau yr eagyrn, canwraidd las : beidioglyn, eidralwy, diod eidral.
Gill, *s.* (Sw. *gilja ;* ond o *gillian*, yr hen ddull o ysgrifenu *Julian* neu *Juliana*, yn ol barn *Johnson*) nwyfes, nwyfusen, nwyfoges, ffiloges, ffilog, anllades, anlladferch, trythylles, hoeden, llances, mwyglen, cymmones, cyffoden, gwilff : hollt mewn bryn, agoriad mewn bryn ; nant.
Gill-flap, *s.* llabed crogen.

Gillhouse, *s.* gwerthdy beidioglyn; tafarn.
Gill-lid, *s.* clawr crogenau, clawr crogen.
Gill-opening, *s.* agoriad y crogenau.
Gilly-flower, *s.* (Ff. *giroflée, giroflier*) archmain, blodau Gorphenaf.
Sea gilly-flower—archmain, clustog Fair, clustog Mair.
Clove gilly-flower—penigan cigliw.
Queen's gilly-flower—disawr.
Gilse, } *s.* eogyn; eog heb fod yn ei gyflawn
Grilse, } faint.
Gilt, } *a.* (o *gild*) goreuredig, euredig,
Gilded, } goreurog, eurog, eurdde, eurdo; goreuraid, goreurin, goreurol, euraid, eurog; golchedig.
Gilt, *s.* eurdo, eurgaen, eurdaen: banwes, hychig.
Gilt-head, *s.* eurben, banwes, y pysg eurben; peneuryn, penaur.
Gilt-tail, *s.* eurlost, llosteuryn.
Gim, *a.* (talfyriad o *gemmy*) pert, pinc, pefr, dillyn, taclus, trwsiadus, twt, destl.
Gilvicephalous, *a.* (Ll. *gilvus*, a Gr. *cephalê*) penfelyngoch; â chanddo ben cigliw.
Gimbals, } *s. pl.* (Ll. *gemellus*) llallogrwy, gef-
Gimbols, } ellrwy, gefeillrwy; modrwy mewn
Gimbles, } modrwy; llallogrwyon, gefellrwyon.
Gimcrack, *s.* (o *gin*, am *engine*, yn ol dyfaliad y Dr. *Skinner*) tegan, ffril, ffrilyn, coegbeth.
Gimlet, } *s.* (Ff. *gibelet;* Llyd. *gwymeled*)
Gimblet, } ebill, gwimbill, gwimled, taredryn.
Gimlet, *v. a.* ebillio; troi fel troi ebill; troi angor wrth ei gyff.
Gimmal, *s.* (Ll. *gemellus*, yn ol *Skinner* ac *Ainsworth;* ond llygriad o *geometry*, yn ol tyb *Johnson*) peirianwaith, dyfais, rhyw ddyfais.
Gimmal, *a.* (Ll. *gemellus*) rhwyog, modrwyog, dolenog, torchog.
Gimmer,† *s.* (gwel *Gimmal*) peirianwaith, dyfais. [sidan.
Gimp, *s.* (Ff. *guiper*) trobleth, ffillwe, eirionwe
Gimp,† *a.* (C. *gwymp*) gwymp, pinc, pert, pefr, dillyn.
Gin, *s.* (talfyriad o *geneva*) merywin, merywlyn, gwirod meryw, eithinwy, pereithwy.
Gin, *s.* (talfyriad o *engine*) peiriant, ermig; magl, croglath, telm, byddag, byddagl, tagfagl, annel, hoenyn, hwynyn, carfagl, ysleppan, maglen, telmyn.
Gin, *v. a.* dinidro cotwm, dihadu cotwm; glanhau cotwm â pheiriaut; byddaglu, byddagu, telmu, maglu, hoenynu, hwynynu, carfaglu, hwyno; dàl mewn magl.
Gin,† *v. a.* (S. *gynnan*) dechreu.
Ginger, *s.* (Ff. *gingembre;* Ysp. *gengibre;* Ll. *zinziber;* Gr. *zingiberis;* o'r Ar.) sinsir, poethwraidd tramor.
Ginger beer—dïod sinsir.
Gingerbread, *s.* bara sinsir, bara sinserog, bara perboeth, bara perfias.
Gingerly,† *ad.* yn dirion, yn dyner, yn araf, yn esmwyth; yn wych, yn nais; yn ochelgar, gàn bwyll.
Gingerness,† *s.* tirionwch, tirionder, tynerwch; neisrwydd, destlusrwydd; gochelgarwch, pryder.
Gingerworts, *s. pl.* sinsirwydd, sinsirlysiau.
Gingham, *s.* math o gotymwe rhengog.
Ginging, *s.* gwynebiad mwndwll â cheryg *neu* briddfain.
Gingival, *a.* (Ll. *gingiva*) uchaneddol; perthynol i gig y dannedd; yn perthyn i'r uchanedd; deintgigol, deintreiniol.
Gingle, } *v.* (o'r sain; Pers. *zangl*) tincian,
Jingle, } tincio, tincial, rhincian, rhincio, clecian, darsteinio, darstain; cydseinio, cydleisio, cyttaro.
The words gingle—y mae geiriau yn taro; mae y geiriau yn clecian.
To gingle in words—dewis geiriau i glecian; dewis geiriau cydsain *neu* gydseiniol; peri i eiriau glecian *neu* gyttaro; clecian geiriau; tincian geiriau.
Gingle, *s.* tinc, tincian, tinciad, tinclais, darstain, clec, leciad, rhinc; cydsain, cyssain, cydseinedd, cydseiniad.
A mere gingle—sain a dim ond sain.
Ginglymoid, *a.* (Gr. *gigglumos* ac *eidos*), fel colfachredd.
Ginglymus, *s.* (Gr. *gigglumos*) colfachredd; cymmal tebyg i golyn dor *neu* lidiart.
Ginnet, *s.* (Ff. *genet*) crynfarch, corfarch, merlyn; ceffylyn Yspaenig lluniaidd lledfychan.
Ginseng, } *s.* (Chinaeg) math o wreiddyn medd-
Ginsing, } ygol.
Ginshop, *s.* gwirotty, gwerthdy gwirod.
Gip, *v. a.* diberfeddu ysgadan, tynu perfedd penweig; gildio ysgadan *neu* benweig.
Gipsire, *s.* gwregysgod.
Gipsy, *s.* (llygriad, tybir, o *Egyptian*) Aifftwysen, Aifftes, bedlemes; Aifftwysyn, bedlemydd, bedlemyn, crwydryn, gwibiad, crwydriad, crwydrai, gwibiawdr, bedlem; hudoles; melyndduan; un melynddu; un felenddu: *pl.* Aifftwys, gwiblu, bedlemod, bedlemwys, gwibiaid, crwydriaid, melynddu on.
A cunning gipsy — hudoles, bedlemes hudol.
A little gipsy—coegen fach; genethan, llancesan.
Gipsy, *s.* bedlemaeg, Aifftwysaeg, bedlemiaith, iaith y gwiblu.
Gipsyism, *s.* bedlemiaeth, bedlemyddiaeth, Aifftwysaeth; crwydri, gwibli, crwydrusrwydd; cyfrwysder ac arferion bedlemod; twyll, hoced, hudoliaeth, hud, twyllofaint; truth, gweniaith.
Gipsy-wort, *s.* llysiau yr hudolesau, llysiau yr Aifftwys, llysiau y gwiblu, llysiau yr Aifftesau.
Giraffe, *s.* (Ysp. *girafa;* It. *giraffa*) camelewpard, camelewpart, cawrlewpard, y Giraff.
Girandole, *s.* (Ff.; It. *girandola*) canwyllyr, goleuddal, ceincganwyllyr.
Girasole, *s.* (It.; Ff. ac Ysp. *girasol*) heulflodyn, blodyn yr haul, heuldro, huandro; blodau yr haul; heulem.
Girasole (in mineralogy)—heuldro, heulem =delidfaen gwŷn, â adlewyrcha liw lledgoch, pan ei troir at yr haul.
Gird, *s.* (S. *geard, gyrd*) gwasgfa, gloes, cnofa, pang; llach.
To do a thing by fits and girds, }
To do a thing by girds and snatches, } gwneuthur peth ar ruthrau; gwneuthur peth yn doriadau.
Gird, *v.* (S. *gyrdan;* Al. *gurten;* Is. *gorden*) gwregysu, cenglu, tenglu, rhwymo, amwregysu, amgylchu, amgylchynu, cylchynu, amrwymo, amfesur, amfesuro; creffynu; hwylio; gwisgo, trecio, taclu, trwsiadu, trwsio,

hwylio; gwawdio, gwatwar, greffio; llachio, dygaboli.
To gird about—amwregysu, amrwymo, amgenglu; bancawio.
To gird one's self—ymwregysu.
To gird slack — gowregysu, gorwymo, lled wregysu, lled rwymo, llaes wregysu, gwregysu yn llaes, gwregysu yn llac.
The ship is girt—mae dalraff y llong cyn dyned fel nas dichon hi fyned trosodd ar y trai, *neu* ar droad y dwfr.

Girded, } *p. p.* gwregysedig, cengledig, tenglGirt, } edig, rhwymedig, cylchedig; gwregysog, creffynog.
Sea-girt — morgylch, morgylchedig; á'r môr o'i amgylch.
The sea-girt island—yr ynys forgylch.
Not girded—diwregys, heb wregys, heb ei wregysu; rhydd.

Girder, *s.* ewinbren, rhwymbren, rhwymdrawst, rhwymydd, gwregysydd; duchanwr, goganydd, goganwr.

Girding, *s.* gwregysiad, rhwymiad, rhwymad; gwregys.

Girdle, *s.* (S. *gyrdle, gyrdl;* Al. *gürtel*) gwregys, rhwymyn, gwasgrwym, gwasgrwymyn; cengl, tengl, rhwym; amgylchedd, cylchedd, amgant, cylch, cylchrwy, cae; sidydd; greidell, cradell, planc.
Marriage girdle—gwregys priodas.
Girdle bread, } bara greidell, bara cradell,
Griddle bread, } bara llech, bara planc.
Sword girdle—gwregys cleddyf.
To have one's head under one's girdle—bod yn drech nag un; cael y llaw drechaf *neu* uchaf ar un; cael y goreu *neu* y trechaf ar un; gorfod ar un; bod á phen un dàn ei wregys; cael pen un dàn ei wregys; bod âg un yn gwbl yn ei allu *neu* feddiant; bod âg un yn gwbl dàn ei law *neu* droed.
Sea girdle and hangers—morwiail; morwialen.

Girdle-belt, *s.* gwregys gwasg, gwregys, gwasgrwym.

Girdler, *s.* gwregysydd, gwregyswr; gwneuthurwr gwregysau; amrwymwr.

Girdle-stead, *s.* y canol, lle y gwregys, gwregysfa, gwregysle, y wasg, y gwregys.

Gire, *s.* (Ll. *gyrus,*) cylch, modrwy, cylchrwy, cylchdro.

Girl, *s.* (Ll. drosgl *gerula;* C. *herlodes,* yn ol *Junius;* Isl. *karlinna,* yn ol y Dr. *Hickes;* Ll. *garrula,* yn ol *Minshew*) geneth, llances, llodes, bachgenes, hogen, morwyn, morwynig, hocrell, croten, crotes, rhocen, rhoces; merch.
A little girl—genethig, genethan, llancesan, llancesig, morwynig, hocrell, croten, crotes, crotesan, hogenig, bechan, merchan, geneth fechan.
A dwarfish girl—bechanigen, coren, cores, geneth fechanig.
A wanton girl—ffiloges, ffilog, nwyfusen, nwyfoges, nwyfes, hoeden, mwyglen, anllades, geneth wantan, gwilff.
A flighty little girl—ffriten; perten.
A smart girl—perten, pefren, geneth bert, llances dlos, prydwen, meinwen.
A lively girl—geneth fywiog *neu* weisgi; cangen weisgi; gwiwell.
A waiting girl—morwyn weini, gweinyddes, llawforwyn.
Girl (among sportsmen)—hydd dwyflwydd; hocryll.

Girlhood, *s.* genethdod, hogendod, genethedd, hogenedd, crotendod; cyflwr *neu* oedran geneth.

Girlish, *a.* genethaidd, llancesaidd, hogenaidd, llodesaidd, herlodesaidd, crotenaidd, hocrellaidd, crotesaidd; plentynaidd; nwyfus, chwarëus, chwareugar, ysgafn.

Girlishly, *ad.* yn enethaidd, &c.; fel geneth, fel crotes, ar ddull hogen.

Girlishness, *s.* genetheiddrwydd, hogeneiddrwydd, llodeseiddrwydd; nwyfusrwydd, nwyfedd, chwareugarwch, ysgafnder; moesau hogen.

Girrock, *s.* y cornbig mwyaf, mornodwydd, mornydwydd.

Girt, } *s.* (o *gird*) cengl, tengl, ceingel, torGirth, } gengl; amfesur, cylchfesur, amgylchedd, cwmpas; rhwymyn, rhwym, amrwym.

Girt, *v. a.* gwregysu, amrwymo, amgylchu, amgylchynu, cylchynu, amwregysu; amfesur, amfesuro.

Girt, } *p. p.* (o *gird*) = { *Girded.*
Girded, } { *Girt.*

Girth, *v. a.* cenglu, tenglu, ceinglo, torgenglu; rhoi cengl am; rhwymo á chengl.

Gismondine, *s.* (oddi wrth *Gismondi,* y delfaenwr) enw delidfaen.

Gise, *v. a.* (Ff. *gésir, gîter*) poriannu, porfelu, poriadu, rhoi porfa, porfäu.

Gisle,† *s.* gwystl.

Gist, *s.* (Ff. *gésir*) y prif bwnc mewn dadl; pegwn y ddadl.

Gith, *s.* papyr Gini, pupyr yr adar.

Gittern, *s.* (Gr. a Ll. *cithara;* Ff. *guitare*) gutorn.

Gittern, *v. n.* chware ar y gutorn.

Giusto, *s.* (It.) amser cyfiol.

Give, *v.* (S. *gifan, gyfan;* D. *giver;* Is. *geeven;* Al. *geben*) rhoddi, rhoi, dyroddi, dyröi, dodi, gosod; anrhegu, cyflwyno, donio; donio á; rhadroddi, hael roddi; caniatäu, ceniatäu, ceniadu; peri, gwneuthur; dwyn; chwanegu; ystofi; ymroddi; ymollwng, cilio, symmud; dadlaith, toddi, dadmer; dattod, dechreu tyneru.

[Gellir cyfieithu *Give* fynychaf, os nid bob amser, á'r ferf à etyb i'r sylweddair Seisonig à osodir ar ei ol.]

To give away—rhoi ymaith, rhoddi ffwrdd; troseglwyddo, trosi; rhoddi i.
To give back—adferu, adferyd, edfryd gwrthferu, gwrthfer, gwrthferyd, dychwelyd; rhoi, rhoddi, *neu* ddwyn yn ol; rhoi, rhoddi, *neu* ddwyn adref; talu yn ol; talu adref; talu y pwyth; ad-dalu; adrodd i, dadroddi, dadroi.
To give advice—cynghori, rhoi cynghor, rhoddi cynghor.
To give answer—ateb, atebu, rhoi ateb, rhoddi ateb.
To give battle—brwydro, ymladd; ymgyrchu, rhuthro; rhuthro *neu* daro yn nghyd; cyhydreg *neu* ymdaraw.
To give diligence—gwneuthur ei oreu; bod yn ddiwyd.
To give ear—gwrandaw, gwrando, ymwrandaw, andaw, ymandaw, clust-ymwrandaw, clust-ymwrando, clustfeinio, rhoi clust, rhoddi clust, gostwng clust.

To give forth—rhoi allan, rhoddi allan, rhoi i maes; gosod allan; rhoi y son allan; rhoi y gair allan; cyhoeddi, adrodd, dywedyd, traethu, dadgan, son; gwneuthur yn gyhoeddus.

To give ground—colli tir, cilio, encilio, cilio yn ol, cilio i'w wrthol, gwrthgilio; myned yn ngwrthgefn, yn ei wrthgefn, yn ngwrthol, *neu* yn ei wrthol; dychwelyd, ymddychwelyd; rhoi lle, rhoi ffordd; ymadaw â'i orsaf.

To give heed to—gwrandaw ar; dàl ar; dàl sylw ar; rhoi *neu* roddi coel i; ystyried, gwrandaw; rhoi clust i; bod â chroel ar; bod â'i goel ar; gofalu am; gofalu ar; edrych am; rhoi ystyriaeth i; rhoi sylw i; talu sylw i; gwneuthur sylw o.

To give in—rhoddi i fyny, rhoi i fyny; plygu, ymostwng, gildio, caniatäu, cydsynio; bod yn foddlawn *neu* gymmodlawn; ufyddhau i; ymfoddloni, ymorphwys; rhoi i mewn; †cilio yn ol, myned yn ei wrthol.

To give the hand—ymostwng; rhoi y flaenoriaeth; rhoi y llaw.

To give in to—cydsynio â, cydsynied â; rhoi cydsyniad i; bod yn foddlawn *neu* gymmodlawn i; mabwyso, mabwysiadu; cymmeradwyo; cytuno â; rhoi i fyny i; gildio; gadael i.

To give laws to—rhoi deddf, deddfau, *neu* gyfreithiau i; gorchymyn pa beth a pha fodd y gwneir; meistroli ar; deddfroddi i.

To give life, } bywiocäu; rhoi bywyd i;
To give life to, } rhoi bywyd yn.

To give leave, } cenadu i, ceniadu i,
To give one leave, } caniatäu i; rhoi cenad i; gadaw i, gadael i, goddef i.

To give light—goleuo, llewyrchu, llewychu; rhoi goleu, rhoddi goleuni.

To give off—rhoi heibio; peidio; gadael, goddef; rhoi i fyny.

To give on† — rhuthro ar, syrthio ar, cwympo ar.

To give offence—tramgwyddo, anfoddhau, anfoddloni, anfoddogi; rhoi tramgwydd; rhoi achos tramgwydd; digio.

To give no offence—bod yn ddiachos tramgwyddo; peidio â rhoi tramgwyddo.

To give over—rhoi i fyny; rhoddi i fyny; gadael, gadaw, gadu, peidio; ymadael â, ymwrthod â, peidio â; ymroddi, ymröi; rhoi heibio; darfod â; dybenu â; trosglwyddo, trosi.

To give over from one to another—trosi *neu* drosglwyddo i arall; rhoi i fyny i arall; arallu.

To give a thing over for lost—cyfrif yn golledig; cyfrif megys yn golledig; gadael *neu* fwrw yn golledig; rhoi i fyny megys wedi ei golli.

To give one's self to—ymroddi i, ymröi i; rhoddi ei fryd, ei feddwl, ei fwriad, *neu* ei serch ar; ymgyflwyno i; parhau yn, parhau mewn; aros yn.

To give one the slip—diianc ar un; diianc gàn un; ymladrata oddi wrth un; cilio yn lladradaidd oddi wrth un.

To give out — rhoi allan, rhoddi allan, rhoi i maes; rhoi y gair allan; rhoi y son allan; taenu y son; cyhoeddi, adrodd, dywedyd, traethu, son; dangos; anfon allan; gyru allan; bwrw allan; ymroddi, peidio, gildio; peidio âg ymladd *neu* ymryson; taflu ei arfau i lawr; tewi.

To give place—rhoi lle, rhoddi lle; ymröi; cilio *neu* sefyll yn ol.

To give to, } rhoi i, rhoddi i, cyfranu i.
To give unto, }

To give quarter — arbed einioes, arbed hoedl; derbyn i'w nodded; derbyn i'w nawdd; derbyn dàn ei nawdd; rhoi nodded.

To give the sense of passage—rhoi ystyr lle *neu* fàn; rhoi ystyr yr hyn a ddarllenwyd; gosod allan synwyr yr hyn a ddarllenwyd; deongli, dehongli, deongl; gosod allan ddeall peth.

To give sentence, } barnu, rhoi barn, dy-
To give judgment, } farnu.

To give strength—nerthu, cyfnerthu, rhoi nerth, nerthocäu, nerthogi, nertholi, nerthuso, nerthiannu.

To give suck—rhoi sugn, rhoi bronau, rhoi bron, rhoi y fron; brona, bronhau, peri sugno; magu.

To give thanks—diolch, talu diolch, rhoddi diolch, rhoi diolch.

To give to understand—rhoi ar ddeall; rhoddi ar ddeall; peri deall, peri gwybod; hysbysu.

To give one trouble—peri gofid, blinder, trallod, *neu* drafferth i un; gofidio, blino, trallodi, trafferthu.

To give to drink—diodi, diodi â; rhoi diod i; rhoi i un beth i'w yfed.

To give up—rhoi i fyny; rhoddi i fyny; traddodi; ymroddi, ymröi; ymostwng; ymollwng; rhoi y goreu i; gadael i syrthio; gildio, peidio, gadael; ymwrthod â; peidio â; ymadael â; ymgyflwyno.

To give up an argument—rhoi dadl i fyny; gadaw dadl i syrthio; rhoi y goreu i ddadl; rhoi y goreu i'w wrthwynebwr; tewi; gadael y maes.

To give up one's right—rhoi ei hawl i fyny; rhoddi ei iawnder i fyny; ymadaw *neu* ymadael â'i hawl; rhoi ei gyfiawnder i arall.

To give up one's self—ymroddi, ymröi; ymgyflwyno; rhoi ei hun i fyny; ymollwng.

To give up one's self to idleness—ymroddi *neu* ymollwng i seguryd.

To give way—ymroddi, ymostwng, ufyddhau, rhoi lle, rhoi ffordd; gildio; cilio, encilio, ymneilltuo; methu, ffaelu.

To give way to—ymroddi i, &c.; dyoddef, goddef.

To give flattering titles—gwenieithio; rhoi senwau gwenieithus.

Give (in the imperative)—moes, moesa, rho, dyro; moeswch, rhowch, rhoddwch, &c.

Give me—moes i mi; dyro i mi; rho i mi; doda i mi; rhoddwch *neu* moeswch i mi; dewiswn, dewis genyf, dewis.

Give me thy hand—moes i mi dy law; dyro i mi dy law; rho i mi yth law

To give one as good as he brings, } talu y
To give like for like, } pwyth; talu yr echwyn adref; rhoi i un y naill dros y llall; talu cast am gast; talu y gwrthbwyth; talu un yn ei fath ei hun; gwneuthur i un fel y gwnaeth yntau i arall; gwneuthur âg un fel y gwnaeth yntau âg arall.

I gave — rhoddais, rhoais, rhois; mi a roddais, &c.

He gave me no answer—nid atebodd imi; nid atebodd efe fi; ni roddes efe i mi ateb; ni'm hatebodd.

We ought to give the more earnest heed—rhaid i ni ddàl yn well.

Give heed to me—ystyria wrthyf; gwrandaw arnaf, &c.

Thou givest thy mouth to evil—gollyngaist dy safn i ddrygioni.

Giving all for gone—gàn gyfrif, gàn farnu, *neu* gàn feddwl darfod colli y cwbl; gàn gyfrif, gàn farnu, *neu* gàn feddwl myned o'r cwbl yn golledig; gàn gyfrif, gàn feddwl, *neu* gàn farnu darfod am beth yn llwyr.

Given, *p. p.* (o *give*) rhoddedig; à roddwyd; wedi ei roddi, wedi ei roi; rhoddwyd; ymroddedig, ymröedig, ymroddgar, ymroddol, chwannog, tueddol, ymdueddol; â'i duedd at; â'i chwant i; â'i serch ar; -gar.

Given to—ymroddedig i, chwannog i, tueddol i; hoff o; â'i duedd at; â'i chwant i; â'i serch ar; yn *neu* wedi ymroddi i; yn serchu, yn hoffi, yn dylyn, yn canlyn.

Given to wine—gwingar; chwannog i win; tueddol i win; â'i duedd at win, &c.

Given to drink—dïodgar, yfgar, yfedgar.

Given to appetite—blysig, bwytëig, glwth.

Given to hospitality—llettygar.

Given to charity—elusengar.

Given to quarrel — ymrysongar, tringar, cwerylgar.

Given to fighting—ymladdgar, tringar.

Given to women—benywodgar, gwragedd-gar, merchedgar; â'i duedd at wragedda; â'i serch ar fenywota.

Given to change — anwadal, anwastad, cyfnewidiol, newidiol, oriog, newidgar.

Given to pleasures—ymroddgar i ddifyrwch a mwythau; yn ymroddi i ddifyrwch a mwythau; difyrgar, plesergar, mwythgar, moethgar; moethus, mwythus, trythyll.

He is otherwise given—y mae efe o duedd amgen *neu* arall; y mae ei serch ef ar beth arall.

Neither shall wickedness deliver those that are given to it—ac nid achub annuwioldeb ei pherchenog.

Given over—à roddwyd i fyny; à roed i fyny; gwedi ei roddi i fyny; wedi ei adael; wedi ei adael i farw.

He is given over by the physicians—efe a adäwyd gàn y meddygon; gadwyd ef gàn y meddygon; nid oes gàn y meddygon obaith am ei wellhad; rhoed ef i fyny gàn y meddygon.

One that is given over—claf dïobaith; un à roddwyd i fyny.

Given over to another — trosglwyddedig *neu* drosedig i arall; à drosglwyddwyd i arall; gwedi ei drosglwyddo i arall.

Was there something given to thee?—a roed peth i ti? a roddwyd rhywbeth i ti?

Giver, *s.* rhoddwr, rhoddiad, rhoddiedydd, rhoddydd, rhoddiawdr, doniwr, dodwr, ystofwr, cyfranwr, deon.

The Lord and Giver of life—yr Arglwydd a'r Bywiawdwr.

Gives, *s. pl.*=*Gyves.*

Giving, *s.* rhoddiad, rhoddiant, rhoad, rhoddedigaeth, dodiad, doniad, dawd; honiad peth diamil.

The giving of the law—dodiad y ddeddf; rhoddiad y ddeddf; deddfroddiad, deddfroddiant, rheithroddiad.

Gizzard, *s.* (Ff. *gésier*) glasog, y lasog, yr afu glas, y gropa las, glasgylla.

To fret the gizzard—gofidio, trallodi; ymofidio, ymdrallodi, dygnu; cnoi ei flino; gwenwyno.

Glabriate,† *v. a.* (Ll. *glabro*) llyfnhau, gwastatäu, gwastatäu.

Glabrity,† *s.* (Ll. *glabritas*) llyfnder, llyfndra, llyfnedd, gwastadrwydd.

Glabrous, *a.* (Ll. *glaber*) llyfn, gwastad, llathr, llathraidd, gwyneblyfn;] diflew; moel: *f.* llefn.

Glacial, *a.* (Ff.; Ll. *glacialis*) iäaidd, iäin, iäain, ialyd, rhewllyd, rhewlyd, rhewedig.

Glaciate, *v. n.* (Ll. *glacio*) troi yn ia; troi yn rhew, myned yn rhew, rhewi.

Glaciation, *s.* iäad, rhewiad, troad yn ia, myned iad yn ia, mynediad yn rhew; iäaeth.

Glacier, *s.* (Ff.; Al. *gletscher*) ysblent, ysglent, llithralpia, ysglentrew: *pl.* llithralpiau, ysglentiau=alprew neu alpia, milltiroedd o faint, à ddisgyn o ddyfnderoedd uchel yr Alpau, a mynyddoedd goruchel ereill.

Glacious, *a.* (Ll. *glacio*) iäaidd, iäin, iäain, ialyd, rhewllyd, rhewlyd, rhewaidd.

Glacis, *s.* (Ff.) llethrglawdd, clawdd llethrog; osglanerch, llechwedd.

Glad, *a.* (S., D., a Sw.; Ll. *lætus*) llawen, llon, hyfryd, siriol, hylon, dyddan, difyr, hywen, hoenus, gorhoenus, gorawenus, digrif; llonwych.

Very glad—tra llawen, llawen iawn, gorlawen, &c.

Somewhat glad—go lawen, lled lawen, lledlawen, crŷn lawen, lledlon.

I am glad—mae yn dda genyf, mae yn llawen genyf; y mae yn hyfryd genyf; da genyf.

Glad tidings — newyddion da; llawen chwedl, llawenchwedl, llonchwedl.

To declare glad tidings—cyhoeddi newyddion da, dwyn newyddion da; efengylu.

To be glad, } llawenhau, llawenychu,
To wax glad, } lloni, ymloni, ymlawenu, ymlawenychu, gorfoleddu, ymorfoleddu, ymddigrifo, ymhyfrydu, gorawenu; bod â hoen arno; bod yn llawen, &c.; difyru, ymddifyru; cymmeryd difyrwch o beth.

Tending to gladden—llawenhaol, llawenychol, llonychol, lloniannol, llonedigol.

He too would be glad to see you—byddai dda ganddo yntau eich gweled.

I shall be glad to do you any service—bydd hyfryd genyf wneuthur i chwi unrhyw wasanaeth.

He is glad of the office—y mae yn dda ganddo y swydd.

The priest's heart was glad, } da oedd
The priest was glad at heart, } gàn gal-
The priest was glad in his heart, } on yr offeiriad; yr oedd yn dda gàn galon yr offeiriad; da fu gàn galon yr offeiriad.

I will make him glad to take it—gwnaf iddo ei gymmeryd a'i gymmeryd yn llawen; gwnaf iddo ei gymmeryd a da ganddo weled y ffordd.

Glad, } *v.* lloni, llawenychu, llawenu, llaw-
Gladden, } enhau, llonychu, sirioli, lloneiddio, loniannu, hyfrydu, darloni; cysuro; ymlawenhau; gwneuthur yn llawen, &c.

Gladder, *s.* llonwr, llawenwr, llawenychwr, llawenhäwr, darlonwr, llonychwr, llonychydd.

Glade, *s.* (Isl. *klad*? C. *cled*, *clyd*?) llanerch, coedlanerch, goleule, goleufwlch, llawnt agored, goleule mewn coed, llwynfwlch, coedagorfa, glasledd, rhodfa rhwng coed, cledfa.

To make a glade — tori *neu* wneuthur llanerch mewn coed; gwneyd coedlanerch; gwneuthur adwy goleu trwy goed.

Glade, *s.* (Is. *glad*; Al. *glatt*) ia llyfn (yn Lloegr Newydd).

Gladen, } *s* (Ll. *gladius*) cleddyflys, cleddlys;
Glader, } helhesg, hyllgryg.

Gladful,† *a.* llawen, llawn llawenydd.

Gladfulness,† *s.* llawenydd, llawenwch, llonder.

Gladiate, *a.* (Ll. *gladius*) cleddyfaidd, cleddaidd; ar lun cleddyf.

Gladiator, *s.* (Ll.) ymgleddyfwr, ymgleddyfydd, ymgleddyfor, ymgleddor, cleddyfwr, cleddyfydd; campryswr.

Gladiatorial, } *a.* (Ll. *gladiatorius*) ymgleddor-
Gladiatory, } ol, ymgleddyfol, cleddyfyddol; perthynol i ymgleddorion.

Gladiature,† *s.* (Ll. *gladiatura*) ymgleddyfiaeth, ymgleddoriaeth, ymladd â chleddyfau.

Gladiole, *s.* (Ll. *gladiolus*) engraff.

Water gladiole—engraff, brwynen flodeuog.

Gladly, *ad.* (o *glad*) yn llawen, yn llon, &c.; o fodd calon; o wirfodd; yn chwannog, yn ewyllysgar, yn wyllysgar.

I could gladly wish—mi a ddymunwn o ewyllys fy nghalon.

Gladness, *s.* (o *glad*) llawenydd, gorfoledd, llonder, llondra, llonedd, llondeb, llonwch, llawenwch, lloniant, hyfrydwch, sirioldeb, sirioledd, difyrwch, digrifwch, dyddanwch, hoen, gorhoen, gorawen, menwyd, elwch, llonychdod, morach.

Gladship,† *s.* llawenedigaeth, llawenwch.

Gladsome, *a.* llawen, llon, hylon, digriflon, dyddanus, dyddan, hyfryd, hyfrydlon, difyr, gorhoenus, gorawenus, siriol, cysurlawn; llawenhaol, llawenychol, llonychol, llonniannol, llonedigol, gorawenol, boddhaol; menwydus, ffawg, llawdd, llawddog, maws.

Gladsomely, *ad.* yn llawen, &c.

Gladsomeness, *s.* llawenydd, llonder, llondra, llonwch, llonedd, hyfrydwch, digrifiondeb, &c.; rhodres, dangosiadusrwydd, hoewychder.

Gladwin, } *s.* (Ll. *gladius*) helhesg, hyllgryg.
Gladwyn, }

Glair, *s.* (Ff. *glaire*; S. *glœre*) gwŷn wy; clur, claerwy, claerolch; glaif, ffonfwyell.

Glair of eggs—gwŷn wyau, gwynion wyau.

Glair, *v. a.* golchi *neu* ferneiso â gwŷn wy; berneisio; gwynwyo, cluro, claerolchi.

Glairy, *a.* (o *glair*) cluraidd, claerwyaidd, gwynwyaidd; fel gwŷn wy; o natur gwŷn wy; fel clur.

Glaive, } *s.* (Ff. *glaive*; C. *glaif*) glaif, cleddyf
Glave, } llafnllydan, cledd llafnllydan; cleddyf, cledd.

Glance, *s.* (Al. *glanz*; Is. *glans*) cipolwg, lledolwg, cilolwg, llettrem, cipdrem, trem, tremyn, tremynt, godrem, tafliad llygad, tarawiad llygad, cipwel, athlwg, athrem, golwg, golygiad, gwasel, arfaul; godywyn, athywyn, llettywyn, lledlewyrch, llethrid, llygas, pelid, pelydryn o oleu; lluwch, glawdd, ffiach, gla, air, llug, rheiddyn; llugem, gloddem, llethridem, llethridfaen.

Silver-glance — arianlug, llugem arian, llethridem arianaidd.

A glance at—cipolwg ar, lledolwg ar, &c.; cyffyrddiad â pheth yn fyr *neu* ysgafn; ergyd, cnith, *neu* gip wrth fyned heibio.

A glance of light—llygedyn, llygaden, lluchedyn.

Glance, *v.* llettremio, llettremu, cipdremio, godremio; bwrw *neu* daflu cipolwg; taflu cil llygad; edrych ar gip; ciledrych, cipolygu, cipedrych; bwrw trem; pelydru, rheiddio, paladu; taflu, bwrw; neidio, picio, tasgu, saethu, ysglentio; neidiaw o'r neilltu; gofwrw, godaflu; awgrymu.

To glance the eye on, } taflu cipolwg ar;
To glance the eye upon, } bwrw cipolwg ar; taflu cil llygad ar; bwrw golwg fêr ddisymmwth ar; bwrw trem ar; llettremio, llettremu, cipdremio; llettremio ar, gordremio ar; taflu cildrem ar.

To glance upon—llettremio ar, cipdremio ar, &c.; taflu *neu* fwrw cipolwg ar; taflu cil llygad ar; edrych ar gip ar; ysgafn rathu peth wrth fyned heibio; cyffwrdd yn ysgafn â pheth wrth fyned heibio; gogyffwrdd â; ehedeg yn ysgafn dros; ymlithro heibio i; ymlithro heb law i; ysglentiaw oddi ar ystlys peth; lleddfu oddi ar beth; golewyrchu ar; bwrw godywyn ar.

To glance at—taflu cipolwg ar, &c.; gofwrw, godaflu, go ergydio, *neu* drawsergydio at; llettremio at.

To glance over—bwrw *neu* daflu cipolwg dros; bwrw *neu* daflu cipolwg ar; bwrw *neu* daflu cipolwg ar hyd; rhedeg yn ysgafn dros; darllen ar redeg; go ddarllen; bwrw brith olwg dros.

Glancing of the eye—tarawiad llygad.

Glance-coal, *s.* glo caled, glo careg, caledlo, maenlo, glo maen.

Glancingly, *ad.* wrth fwrw cipolwg; wrth daflu llettrem; ar gipdrem, ar gipolwg, ar gildrem, ar gip, ar redeg, ar frys, dan redeg; wrth frysio heibio; wrth fyned heibio; yn llettraws, ar ysglent.

Gland, *s.* (Ll. *glans*; Ff. *glande*) chwaren, chweryn, cilchweryn, cilchwyrnen, cilchwyrnyn, cilchwaren, cigfesen, mesen gig; mesen; cnewullyn *neu* gneuen yn y cnawd: *pl.* chwarenau, cilchwyrn, cilchwyrnau, chwerynau.

Full of glands—chwarenog, chwerynog, cilchwyrnog, cilchwerynog, cilchwarenog; llawn cilchwyrn *neu* chwarenau.

Lachrymal gland — deigriden, chwaren ddeigrol, cilchwyrnen ddagreuol, cilchweryn y dagrau.
Salivary gland — poerchwaren, chwaren boer, chweryn glyfoerol, chwaren haliwiol, glyfoeren.
Gland-moss—chwaren fwsogl.

Glandage, *s.* (o *gland*) mesdymmor, mesyryd, tymmor mes.

Glandered, *a.* (o *glanders*) â'r llynmeirch arno; ysgyfeiniog.

Glanders, *s.* (o *gland*) llynmeirch, llŷn y meirch; chwarenwst, clwyf y chwarenau, clwyf y cilchwyrn; yr ysgyfaint.

Glandiferous, *a.* (Ll. *glandifer*) mesddwyn, mesfag, mesgyrch, mesog; â ddwg fes; yn dwyn mes.
Glandiferous trees—coed mes, mesgoed, meswydd; coed mesddwyn, &c.; coed yn dwyn mes.

Glandiform, *a.* (Ll. *glans* a *forma*) chwarenaidd, chwerynaidd, mesenaidd; ar lun mesen; âg iddo ffurf chwaren; fel mesen, fel chwaren.

Glandular, } *a.* (Ll. *glandulosus*) chwarenol,
Glandulous, } chwerynol, cilchwyrnol, cilchwarenol, chwarenog, chwerynog, cilchwyrnog, chwarenaidd, chwerynaidd, cilchwyrnaidd; perthynol i'r chwarenau; yn cynnwys cilchwyrn.
Glandular consumption — llifiant y cilchwyrn; darfodiant chwarenol.

Glandulation, *s.* (o'r Ll. *glandula*) chwareniant, chweryniad; cyflead a chyfadeilad y chwarenau.

Glandule, *s.* (Ll. *glandula*) chwarenig, cilchwyrnen, chwaren fechan.

Glanduliferous, *a.* (Ll. *glandula* a *fero*) chwarenddwyn; yn dwyn chwarenau; cilchwyrnog.

Glandulosity, *s.* (o'r Ll. *glandulosus*) chwarenieaeth, chweryniaeth, chwarenogrwydd; cynnulliad o chwarenau.

Glans, *s.* (Ll.) mesen, cneuen; cneuen y pidyn; cilchwyrnen.

Glare, *s.* (D. *glar;* Isl. *gler*) dysgleirdeb, dysgleirder; rhyddysgleirdeb, gorddysgleirdeb; dysgleirdeb serenol, dysgleirder teryll; tywyn *neu* lewyrch tanbaid; tywyn, llethrid, dysglain, terwawl, lluchwawl, pelidwawl, llathrawd, ysblander, dysbleiniad, llugiant, claerder, gwynwg, gwynygawd; golwg deryll, danbaid, *neu* ffyrnig; syllдrem; clur, claerwy.
The glare of the sun's rays—tes ysblenydd, tes-dywyn.

Glare, *v.* rhyddysgleirio, gorddysgleirio, teryllu, dysgleirio, dysgleinio, dysbleinio, llathru, llethrido, pelydru, serenu, ardywynu, arwynygio, echdywynu, tanbaid lewyrchu, teryll dywynu, tanbeidio, seirianu, seriglo; lluchedenu, ffiachio; edrych yn deryll; syllu yn deryll; syllдremio, syllдremu.

Glareous, *a.* (Ff. *glaireux*) gwynwyaidd, claerwyaidd, cluraidd; tebyg i wŷn wy.

Glaring, *a.* (o *glare*) rhyddysglaer, gorddysglaer, dysgleiriol, dysglaer, dysglain, dysgleiniol, claer, rhyglaer, llachar, tanbaid, teryll, echdywynol, arwynyg, arwynygiol, llathr, llathraid, pleiniol, llethridog, llethridfawr, seirian, ffiachiol, lluchedenol, ysblenydd, ffloew; yn gorddysgleirio, &c.; eglur, amlwg, honaid, hysbys, hynod, cyhoeddus, agored; dybryd, gwaradwyddus, gwarthus, digywilydd, haerllug, gorthrwm; dyfnliw, cochliw, dwfn ei liw, coch ei liw.

Glaringly, *ad.* yn rhyddysglaer, &c.; ar gyhoedd; ar gyhoedd pawb.

Glass, *s.* (S. *glæs;* AL., Is., Sw., a D. *glas*) gwydr; gwydryn; gwydraid, gwydrynaid; glain; drych; syllwydr; hinwydr, hinfynag.
Glasses—gwydrau, ysbeithell, drychwydrau, gwydr golwg, golygwydr.
Looking-glass—drych.
Drinking glass—gwydryn yfed, gwydr yfed, yfwydryn, diod-wydryn, gwydryn diod, gwydr diod, gwydryn, gwydr, yffain, cwpan gwydr.
False glass—geuddrych, drych anghywir, dryeh gau, drych twyllodrus.
Cupping glass—cibwydryn, gwaedwydryn, cibwaedryn, sugnwydr, sugnwydryn, craffinai, ysgraffinai, gwydryn craffinol.
Opera glass—syllyr chwareufa, syllwydr chwareudy, drych chwarwyfa.
Eye-glass — llygadwydr, llygadwydryn, llygatddrych; ysbeithell.
Wine glass—gwydr gwin, gwydryn gwin, gwinwydryn, gwinlain.
A glass of wine—gwydraid o win, gwydrynaid o win.
Over a glass of wine—uwch ben gwydraid o win; uwch cwpanaid o win; wrth ymyfed; wrth gydyfed, wrth gyfeddach.
Hour-glass—awrwydr, awrwydryn, tywodwydr awr, awrydd.
Optic glass—tremwydr, tremiadyr, tremyr.
A panel of glass, } pennill o wydr; pedr-
A pane of glass, } oryn o wydr; pedryn
A square of glass, } o wydr; pedroglyn o wydr; cwarel o wydr; pennill o ffenestr, cwarel ffenestr.
A vessel of glass, } llestr gwydr, llestr o
A glass vessel, } wydr.
To do with glass—gwydro.
Flint-glass—celltwydr, criswydr, crisialwydr, gwydr callestr, gwydr callestrig.
Crown glass—gwydr dilin, purwydr; y gwydr ffenestri goreu.
Night-glass — noswydr, noswydryn, nosddrych.
Sand-glass—tywod-wydr, tywod-wydryn.
Watch-glass—gwyl-wydr, gwyl-wydryn.
Seamen's watch-glass—gwyl-wydr morwyr =hanner awr.
The ship fought three glasses—ymladdodd y llong tra yr ymarllwysai y gwydryn deirgwaith; ymladdodd y llong nes ymwaghau o'r gwydr dair gwaith; ymladdes y llong am awr a hanner.
In half a glass (among seamen)—mewn hanner awr.
His glass is run—rhedodd ei wydr; y mae ei awrwydr wedi rhedeg; y mae ei amser wedi dyrwyn i ben.
Full of glass—gwydrog, llawn gwydr.

Glass, *a.* gwydr, gwydrin, gwydrol, gwydraidd, o wydr.
Glass bottle — potel wydr, costrel wydr, costrel o wydr.
Glass window—ffenestr wydr.

Glass, *v. a.* gwydro; cuddio â gwydr; †gweled megys mewn drych, edrych mewn drych.

Glass-coach, *s.* cerbyd gwydr; cerbyd â hurir am ysbaid byr.

Glassful, *s.* gwydraid, gwydrynaid, llonaid gwydr, llonaid gwydryn, llonaid cwpan gwydr.
Glass-furnace, *s.* ffyrnes wydr, ffwrn wydr.
Glass-gazing, *a.* drych-syllgar; chwannog i edrych mewn drych; coegynaidd, coegenaidd, coegaidd.
Glassgrinder, *s.* malwr gwydr, malydd gwydr, llugeinydd gwydr.
Glasshouse, *s.* gwydrdy, gwydrweithdy, ty y gwydr; ty lle y gwneir gwydr.
Glassiness, *s.* (o *glassy*) gwydredd, gwydroldeb, gwydrolrwydd, gwydreiddrwydd, gwydreiddwch, gwydrinedd.
Glasslike, *a.* gwydraidd; fel gwydr; tebyg i wydr.
Glassman, *s.* gwydrwerthwr, gwydrwerthydd, gwerthydd gwydr, masnachwr gwydr.
Glassmaker, *s.* gwneuthurwr gwydr; gwneuthurwr llestri gwydr.
Glassmetal, *s.* gwydradwyn, mettel gwydr.
Glasspot, *s.* pot gwydr, crochan gwydr, toddbot gwydr, gwydr-bot.
Glassware, *s.* llestri gwydr.
Glasswork, *s.* gwaith gwydr, gwydrwaith.
Glassworks, *s. pl.* gwydrweithiau, gweithiau gwydr, gweithfaoedd gwydr; lle y gwneir gwydr.
Glasswort, *s.* llyrlys.
Jointed glasswort — llyrlys llysieuaidd, chwyn hallt.
Glassy, *a.* gwydraidd, gwydrin, gwydrol; gwydrliw; gloew fel gwydr; tryloew, gloew, trybelid; crisialaidd.
Glastonbury-Thorn, *s.* draenen Ynys Wydrin, draenen Ynys Afallon, draenen wèn Ynys Afallach.
Glauberite, *s.* (oddi wrth Ioan Rudolff *Glauber*) creighalfaen, Glauberith.
Glauber-Salt, *s.* (oddi wrth I. R. *Glauber*, y fferyll Almaenig) hal Glauber, halan Glauber, llysnurhalan, ufelgris llysnur, ufelaint llysnur.
Glaucescent, } *a.* (Gr. *glaucos;* Ll. *glaucus*)
Glaucine, } golaswyrdd, lledlaswyrdd, llwydlasaidd, llwydwyrdd, llwydwyrddaidd, glaswyrddaidd, llwydlaswyrdd.
Glaucine, *s.* (Gr. *glaucos*) llwydlasnur, llwydlasain.
Glaucium, *s.* (Gr. *glaucos*) llwydlas, pabi corniog.
Glaucolite, *s.* (Gr. *glaucos* a *lithos*) llwydlasfaen, llwydlasem.
Glaucoma, *s.* (Gr.) llwydgrislyn, llwydlaslyn.
Glauconite, *s.* (Gr. *glaucos*) llwydlasfarl, llwydlasglai.
Glaucopicrine, *s.* (Gr. *glaucos* a *picros*) llwydlasgenwyn, llwydlaschwerwain.
Glaucous, *a.* (Gr. *glaucos;* Ll. *glaucus*) glaswyrdd, gwyrddlas, lledwyrdd, gwyrddoleu, morwyrdd, morlas, llwydlas, gwrmlas, glaswyn, gwyrddlwyd, llwydwyrdd.
Glaux, *s.* (Gr. *glaucion*) helas, llaethlys arfor.
Glave, } *s.* (Ff. *glaive;* C. *glaif*) glaif, cleddyf
Glaive, } llafnllydan, cledd llafnllydan; cleddyf, cledd.
Glaver, *v. n.* (C. *glafru*) glafru, gwenieitho, truthio, trutheinio.
Glaverer, *s.* glafrwr, gwenieithwr, gwenieithydd, truthan, truthiad, truthwr.
Glaymore, *s.* (Gael. *claidheamch mòr*) gleifawr, cledd mawr; cleddyf llafnllydan Ucheldiriaid yr Alban.
Glaze, *v. a.* (o *glass*) gwydro; crawenu, crestenu, caenenu, *neu* olchi â gwydr; cluro, golchi, gleinolchi, gwydrolchi, claerolchi, llathrolchi; berneisio; dysgleinio, caboli, llathru, ysgipanu, llugeinio.
Glaze, *s.* golch, clurolch, claerolch, dysgleinolch, gwydrolch.
Glazen, *a.* (o *glaze*) gwydraidd, gwydrin, fel gwydr.
Glazier, *s.* (o *glaze* neu *glass*) gwydrwr, gwydrydd.
Glazing, *s.* gwydryddiaeth; golch, clurolch, claerolch, gwydrolch, dysgleinolch, clur.
Gleam, *s.* (S.) llygedyn, llygeidyn, pelydryn, lluchedyn, fflach, hirell, hiriell, llugyn, llug, lluched, godywyn, tesyn, llygedyn o haul, rhaidd, llethrid, llugas, lluch, fflaw, lluchyn, dysglaer dywyn; pelydr a thywyn haul; dysgleirdeb, llewyrch, llewych, tywyn, ysblander, goleuni.
A short *or* small gleam—godywyn, pelydryn, byr desyn, byr lygedyn.
Gleam of light—llygedyn o wawl, lluch o wawl, fflach o lewyrch, hiriell, hirell.
A warm gleam—llygedyn gwresog, llygedyn tesog, tes-dywyn, tes-lygedyn.
A gleam of sunshine through fleeting clouds—heulen, llygedyn haul, llygedyn o haul, mychedyn.
Gleam, *v. n.* pelydru, tywynu, lluchedu, fflachio, rheiddio, ffloi, rhaiadu, rheio, pleinio, paladu, peleidro, lluchedenu, dysgleirio, llewyrchu, llewychu, saethu gwawl, llethrido, efflanu, llathru, dysbleinio, echdywynu.
To gleam (among falconers) — chwydu brynti, cyfogi baw.
Gleaming, *s.* pelydriad, fflachiad, lluchediad, peleidriad, peleidriant, llugad, llugant, pleiniad, dysgleiriad; llygedyn, lluchedyn, fflach, lluch, llugyn, llug, llethrid.
Gleamy, } *a.* pelydrol, tywynol, fflachiol,
Gleaming, } fflachiog, llachar, dysgleiriol, llewychol, llewyrchol, rheiddiol, peleidrol, pelydrog, pelydraidd, rheiddiog, llethridog, llethridol, dysbleiniol, llethridfawr, goleufawr, llug.
Fire-gleaming—tanllachar.
Glean, *v.* (Ff. *glaner*) lloffa; casglu lloffion; cynnull *neu* gasglu yr hyn a adäwyd ar ol.
Glean, *s.* lloffa; casgl; lloffyn: *pl.* lloffion.
Gleaner, *s.* lloffwr, lloffydd; casglwr, casglydd: *f.* lloffwraig, lloffyddes.
Gleaning, *s.* lloffa, lloffiad; casgl, casgliad; lloffyn: *pl.* lloffion, helion.
Bundle of gleanings—lloffyn.
Glebe, *s.* (Ll. *gleba;* Ff. *glèbe*) tir llan, tir eglwys, tir yr eglwys, clasdir, tir clas, tir y clas, llandir, eglwysdir; tywarchen, priddell, gweryd, daiar, tir; mwndir; †crisial.
Glebe-land—tir llan, tir eglwys, tir yr eglwys, clasdir, tir clas, llandir, eglwysdir.
Glebe-house—llandy, ty llan, ty eglwys, ty yr eglwys, clasdy; persondy.
Glebous, } *a.* (Ll. *glebosus*) priddellog, tywarch-
Gleby, } og, tywarchol, tywarchlyd; hygnwd, ffrwythlawn.
Glechoma, *s.* (Gr.) eidral, beidiog las, bydiog las, llysiau y gerwyn, eiddew y ddaiar.

Glede, *s.* (S. *glida;* Sw. *glada*) bod, barcud, barcutan, bery, beri, beiri.

Glee, *s.* (S. *glic*) llawenydd, llonder, llonedd, gorfoledd, llondra, llonwch, llawenwch, elwch, dywenydd, hoen, gorawen, hyfrydwch, gwi; hoeneg, difyrgan, goraweneg.

Gleed,† *s.* (S. *gled*) glo tanlliw, marwor.

Gleeful, *a.* llawen, llon, hylon, llonwych, hoenus, gorhoenus, gorawenus, siriol, hoew, difyr, llawn gwi.

Gleek,† *s.* (S. *glic, glig*) cerddoriaeth, alaw; cerddor, perorydd; greff, gwawd; chware ar gardiau.

Gleek,† *v. n.* difyru, digrifo, gwneuthur difyrwch; gwawdio, gwatwar, chwerthin am ben, greffio; ofera, diffrwytho yr amser, pencawna.

Gleeman,† *s.* (*glee* a *man*) cerddor, perorydd, eilewydd, alawydd, clerwr.

Gleen,† *v. n.* (C. *glcinio, glân;* Gw. *glan*) dysgleirio, pelydru, gleinio, dysgleinio.

Gleesome,† *a.* (o *glee*) llawen, llon, gorawenus, hylon.

Gleet, *s.* (S. *glidan*) hadlif, hadred; dyferlif, dyfergrawn, gôr, crawn.

Gleet, *v. n.* dyferlifo, dyferu, deigynu; rhedeg yn ddyferlif; rhedeg, llifo; rhedeg *neu* lifo yn deneu; hadredeg, hadredu, hadlifo.

Gleety, *a.* (o *gleet*) dyferlifaidd, llifnoddol, dyferol, deigynol; hadlifaidd, hadlifol; crawnaidd, goraidd; teneu, gloew.

Glen, } *s.* (S.; C. *glŷn;* Gw. *glean*) glŷn,
Glyn, } dyffryn, cwm, cwmarch, pant, allmor, dôl.

Glene, *s.* (Gr. *glénê*) llygattwll, twll y llygad, ceudod y llygad; grain, llygadrain.

Glenoid, *a.* (Gr. *glénê* ac *eidos*) greinaidd.

Glew, *s.*=*Glue.*

Gliadine, } *s.* (Gr. *glia*) glyain=un o ddefnydd-
Gliadin, } inu cyfansoddol glud.

Glib, *a.* (Is. *glibberen, glippen*) llyfn, yslipan, yslib, yslip, caboledig, cabol, trybelid, llithrig, hylithr, llithredig; hydro, hydreigl; rhugl, bangaw, rhwydd, rhydd; tafodlyfn, tafodlithrig.

A glib tongue—tafod llithrig, llyfn, rhugl, rhydd, bangaw, diattal, hydro, *neu* drybelid.

Glib,† *s.* ffluwchyn o wallt à grog i'r llygaid.

Glib, *v. a.* dysbaddu; llyfnhau, yslipanu; gwneuthur yn llyfn, &c.

Glibly, *ad.* yn llyfn, yn llithrig, &c.

Glibness, *s.* llyfnder, llyfndra, llyfnedd, llithrigrwydd, hylithredd, llithrigder, llithrigdra, llithrigedd, ysliprwydd, llithredigrwydd; bangawrwydd, rhugledd, hydreigledd, hydröedd, parodrwydd.

Glide, *v. n.* (S. *glidan;* Al. *gleiten*) llithro, ymlithro, ffithlo, ffithio; llithro *neu* ymlithro yn llyfn yn mlaen; araf lithro, llyfn lifo; rhedeg yn llyfn; ymlusgo, eddain, dylifo, llifo, rhedeg; myned megys ar nawf.

Aptness to glide—hylithredd, hylifedd.

Glide, *s.* llithr, llithred, ymlithr, ffithl, ffith, eddain, eddaint, edd, llyfn lithr, llyfn ysgogiad, llyfn lif; llithrad, llithriant, rhediad, llifad; llithrfa.

Glider, *s.* llithrwr, llithrydd, llithredydd, ffithiwr; ffithlen, taffithlen.

Gliding, *a.* llithrol, hylithr, eddeiniol; yn llithro yn mlaen; rhaglithrol.

Glike, *s.* (S. *glig*) gwawd, gwatwar, gwatwor, greff, dirmyg, gogan.

Glimmer, *v. n.* (Al. *glimmern, glimmen*) godywynu, golewyrchu, lledlewyrchu, llettywynu, rhoddi godywyn, bwrw godywyn, rhoddi golewyrch, rhoi goleufer, lledoleuo, lledwawrio; llewyrchu yn wàn; rhoi goleu gwàn; llwydoleuo, gwawrio.

Glimmer, *s.* godywyn, golewyrch, lledlewyrch, llettywyn, lledlewych, goleufer, lledwawr, lledoleuni; gwawr, pelydryn; lledolwg, cipolwg, godrem: gleinwydr, llugwydr, glawdd, gloddem.

Glimmering, *s.* godywyniad, llettywyniad, golewyrchiad, golewychiad, lledlewyrchiad; godywyn, golewyrch, lledlewyrch, goleufer, lledwawr; lledolwg, godrem.

Glimmering, *p.* yn godywynu, &c.; gwàn, gwanaidd, egwan, anghlaer, pwl; godremiol, llettremiol.

A glimmering light—llwyd oleuni, goleuni tywyll, goleu gwàn.

Glimpse, *s.* (Is. *glimp*) godywyn, golewyrch, golewych, llettywyn, lledlewyrch, ciplewyrch, ciplewych, cipoleuni, cipoleu, goleu annilys, goleuni annilys; llethrid, ffiach, lluchedeu, lluch, llug, gwawr; lluchedeniad, llathriad; lledolwg, cipolwg, godrem, llettrem, tremyn, cipdrem, bêr olwg, golwg annilys, godremid; goliw; byr fwyniant, mwynhad byr a difiandedig.

To have a slight glimpse of a thing—gweled godywyn peth; cael cipolwg ar beth; gweled peth megys trwy niwl; gweled peth megys mewn niwl.

Glimpse, *v. n.* ciplewyrchu, godywynu, golewyrchu, llettywynu, lledlewyrchu; ymddangos ar gipolwg.

Glires, *s. pl.* (Ll.) pathewolion=y pedwerydd llwyth o dethogion, yn ol trefniant Linnæus.

Glassa, *s.* math o bysg digen.

Glist, *s.* (o *glisten*) gleinwydr, llugwydr, glawdd, gloddem.

Glisten, } *v. n.* (S. *glimian, glitenan;* Al.
Glister, } *gleissen*) dysgleirio, dysgleinio, lle-
Glitter, } wyrchu, llewychu, claer lewyrchu, lluganu, llugeinio, llathru, llethrido, tywynu, echdywynu, tywynygu, dysbleinio, pleinio, gorddysgleirio, rhyddysgleirio, effianu, lleueru, lleuferu, serenu, seriglo, seirianu, gwynygu, gwynygio, echdywynygu, ymdywynygu, damlewyrchu, tanbeidio, llethridiannu.

All is not gold that glitters—nid aur pob dysglaer; llawer teg drwg ei ddefnydd, llawer hagr hygar fydd.

Glister, *s.* (Gr. *clustêr*) rhefrolch, llafrolch; llafrelliad.

Glistering, } *a.* dysglaer, llachar, ysblenydd,
Glittering, } llathr, llathraid, dysgleiriol, effian, effianol, claer, gloew, seirian, arloew, arglaer, llethridog, llethridfawr, llethridiannol, ffloew, canloew, llewyrchol, ysblan, ysblanol, erwyn, gwynygol, echdywynedig, dysgleiniol, llugeiniol, dysbleiniol, tywynol, tanbeidiol, dysgleirwych, tanllyd; tanllyd ysgwydedig.

Fine brass glittering like gold—pres gloew yn dysgleirio fel aur.

Glittering sword, } cleddyf dysglaer, cledd-
Glistening sword, } yf llachar; gloew lafn.

White and glittering—dysgleirwyn; gwŷn a dysglaer; claerwyn.
His raiment was white and glittering—ei wisg oedd yn wèn ddysglaer; ei wisg oedd ddysgleirwen.

Glitter, *s.* dysgleirdeb, dysgleirder, llethrid, llugeinder, arloewder, gloewineb, gloewder, gloewedd, ysblander, llewych, llewyrch, tywyn, ysblander, claerder, glawdd, eiriander, serigledd, llathrawd.

Glitterand,† *a.* dysglaer.

Gloam, *v. n.* (Ysg. *gloum*) bod yn sarig; sori, moni.

Gloar, } † *v. n.* (Is. *gluuren*; Sw. *glutta*) cil-
Gloat, } edrych, cildremu, trawsedrych; edrych yn llygattraws; edrych ar ŵyr; llygadrythu.

Globard, *s.* magien, y gyfarwydd, goleuen, glöen, glöyn.

Globate, } *a.* (Ll. *globatus*) crwn, cyfrgrwn,
Globated, } cronenaidd, cronellaidd, cronenog, cronellog, clobynog, clobynaidd, cynghrwn, crynaidd.

Globe, *s.* (Ff.; Ll. *globus*) cronen, cronell, pel, pellen, clobyn, clob; y ddaiar, y byd, y daiarfyd; llun y ddaiar.
Terrestrial globe—daiargronen, daiargronell, daiargron, daiarell, daiarglob, daiarbel; daiarfyd.
Celestial globe — sergronen, sergronell, sergron, nenbel, nefgronen, nen-gronen, nen-gronell, nen-glob, nefen; nenfyd.
A little globe—crynyn, cronenig, cronellan; pelen.
The globe of the earth—y daiarfyd, y bellen ddaiarol.
Globe amaranth—llysiau yr eiddigedd.

Globe,† *v. a.* cronellu, cronenu, clobynu, cydbellenu.

Globe-animal, *s.* pelfilionyn, pelfilyn.

Globe-daisy, *s.* swynfri cronellaidd.

Globe-fish, *s.* pelbysg, cronenbysg.

Globe-flower, *s.* cronell.

Globe-thistle, *s.* ysgall cronenaidd.

Globose, } *a.* (Ll. *globosus*) crwn, cyfrgrwn,
Globous, } cynghrwn, cyfangrwn, crynaidd, cronellog, cronellaidd, cronenog, pelaidd, pellenaidd, amgrwn, cylchaidd, cyrfol.

Globosity, *s.* crynder, cyfrgrynder, crynrwydd, cynghrynrwydd, crynedd, cyfangrynedd, crynciddrwydd, cronellogrwydd, cronenogrwydd, crwmach.

Globular, *a.* (o *globe*) crwn, cyfrgrwn, cyfangrwn, cynghrwn, crynaidd, cronellog, cronellaidd, cronenog, cronenaidd, pelaidd, pellenaidd, clobynaidd, clobaidd, amgrwn, cylchaidd, cyrfol; crwn fel pel; ar wedd cronen: *f.* cron, cyfrgron, cyfangron, amgron.
Globular chart — cronforlen, crynforlun, morlen gron.
Globular sailing — mordwyo yn grwn, crynfordwyo, union fordwyo; crynfordwyaeth, mordwyaeth gron, mordwyaeth uniongyrch=mordwyo ar hyd y pellder lleiaf rhwng dau le.

Globule, *s.* (Ff.; Ll. *globulus*) crynyn, cronellan, defnyn.

Globuline, *s.* (o *globule*) crynynain=defnydd alwynaidd à ffurfia y rhan fwyaf o grynynau y gwaed.

Globulous, *a.* (o *globule*) crynynol, crynynaidd, crynynog; ar wedd crynyn; crwn, cyfrgrwn, cyfangrwn, cronellog, cronellaidd, cylchaidd, cynghrwn, pelaidd, pelenaidd, pellenaidd, amgrwn.

Globy, *a.* (o *globe*) crwn, cyfrgrwn, clobaidd, clobynaidd.

Glochidiate, *a.* (Gr. *glochis*) camhollog, hollt-fachog; á'i flaen wedi ei hollti ac yn camu yn ol.

Glome, *s.* (Ll. *glomus*) crynben, pen crwn blodau.

Glomerate, *v. a.* (Ll. *glomero*) pellenu, twysgo, clobynu, crynsypio, cryndyru, cydbellenu, cynghlobynu, cydgrynhau, cydgrynöi; dyrwyn yn bellen; dyrwyn yn grwn.

Glomerate, *a.* clobynaidd, clobynog, twysgol; pellenedig, cydsypiedig.

Glomeration, *s.* (Ll. *glomeratio*) pelleniad, twysgiad, clobyniad, sypiad, crynsypiad; dyrwyniad yn grwn; dyrwyniad yn bellen; twysg, pellen.

Glomerous, *a.* (Ll. *glomerosus*) pellenaidd, twysgaidd, crynsypaidd, clobynaidd, clobynog; twysgedig, pellenedig, clobynedig.

Gloom, *s.* (S. *glomung*; Ysg. *gloum*) caddug, gwyll, godywyllwch, tywyll, tywyllni, hudd, gwylledd, gwyllwch, tywyllwch, cudd, duedd, düwch, anoleurwydd, dileuferedd, mwrllwch, gwrm, arddwll, gosgel, muchiant, muchiaint, much; anhylonrwydd, pruddineb, prudd-der, athristwch, athristedd, ansirioldeb, trymfryd, pruddineb tymmer, trymder meddwl, dueg, pruddglwyf, pruddnaws, tawedogrwydd, blyngedd, sor, tristwedd; hyllrwydd, erchylldod.

Gloomily, *ad.* yn dywyll, &c.

Gloominess, *s.* (o *gloomy*) caddug, gwyll, godywyllwch, godywyllni, tywyll, tywyllni, hudd, gwylledd, gwyllwch, tywyllwch, cudd, düedd, düwch, anoleurwydd, dileuferedd, mwrllwch, gwrm, gwrmedd, gwrmder, muchaint, caddugoldeb; ffylliogrwydd; anhylonrwydd, ansirioldeb, athristwch, athristedd, trymfrydigrwydd, pruddineb tymmer, trymder meddwl, dueg, pruddglwyf, prudd-der, pruddnaws, pruddni, tristwch, sor, soriant, blyngedd; tristlonedd; erchylldod, erchylldra, hyllder, hyllrwydd.

Gloomy, *a.* tywyll, godywyll, caddugol, caddugaidd, gwyll, caddueglyd, dywyll, anoleu, dileufer, dilewyrch, hudd, du, cymylog, niwlog, aneglur, ffadw, arddu, duaidd, gwrm, gwrmdde, gwrmwn, gell, dulwyd, ffyll, huddog, erwyll, gosgel; oethin, hyll, erch, erchyll, irad; prudd, athrist, trist, tristlawn, ansiriol, anhylon, trymfrydig, trymfryd, tryndde, pendrist, pruddglwyfus, dilon, prudd ei dymmer, trwm ei galon, prudd ei fron, tawedog; arddufrych; sur, sor, sarig.

Gloppen,† *v. a.* synu, peri syndod.

Glore, *s.* (Gw. *gleire*) brasder.

Gloriation,† *s.* (Ll. *gloriatio*) bost, ffrost, ymffrost, bocsach; gorfoledd, goruchafiaeth.

Gloried,† *a.* (o *glory*) gogoneddus, ardderchog, anrhydeddus.

Glorification, *s.* (o *glorify*) gogoneddiad, gogoniad, gogoniaeth; rhoddiad gogoniant, moliant, *neu* anrhydedd; dygiad *neu* ddyrchafiad i ogoniant; cyflead mewn gogoniant.

Glorify, *v. a.* (Ff. *glorifier*; Ll. *glorifico*) gogoneddu, gogoniannu, gogoni; gwneuthur yn ogoneddus; derchafu i ogoniant; dyrchafu *neu* ddwyn i ogoniant ac anrhydedd; moli,

moliannu, clodfori, ardduno, mawrygu, mawrhau, dyrchafu, anrhydeddu, mygreddu, mygru.
To glorify one's self—ymogoneddu, ymogoni.

Glorious, *a.* (Ll. *gloriosus;* Ff. *glorieux*) gogoneddus, gogoned, gogoneddog, gogoniannol, gogoniannus, gogoneddol, gogonawl, coneddus; mygr, myg, myged, mygrawl, mygreddog, moliannus, molediw, anrhydeddus, enrhydeddus, enwog, clodfawr, ardderchog, godidog, rhagorol, enwog, ffaw, iesin, ffawg, plenig; gogoneddgar; †ffrostus, balch.
Vain-glorious — gwagogoneddgar, gwagogoneddus, gogoneddgar, gwaggoneddus, ymffrostus, bocsachus, ymddangosgar, gwagfalch, gwagfolachus.

Gloriously, *ad.* yn ogoneddus, &c.; mewn gogoniant.

Glory, *s.* (Ll. *gloria;* Ff. *gloire*) gogoniant, gogonedd; anrhydedd, enrhydedd, mygredd, myged, conedd, godidogrwydd, ardderchogrwydd, urdduniant, clod, mawl, molawd, moliant, clodforedd, clodforusrwydd, canmoliaeth, urddas, edmyg, gwychedd, ysblander, dysgleirdeb, ffaw, ffawdd.
Vain glory—gwagogoniant, gwag ogoniant, gwagogonedd, gorwagglod, gwaggonedd, gwaggoned, coeg ogoniant, coegfawl, gwagfawl, gorwagedd, gwagglod, rhodres, gwagfalchedd.

Glory, *v. n.* ymogoneddu, ymogoni, ymogoniannu, ymgoneddu; ymffrostio, ymorfoleddu, gorfoleddu, ffrostio, bostio; ymfawrygu, llawenhau, llawenychu, ymlawenhau, balchio, ymfalchio.
Glory over me—cymmer ogoniant arnaf fi.
Glory not—nac ymogoneddwch; nac ymffrostiwch; na fyddwch ffrostwyr.
In him shall they glory—ynddo yr ymogoneddant; ynddo ef yr ymglodforant.
That no flesh should glory—fel na orfoleddai un cnawd; fel nad ymffrostiai un cnawd.
Let no man glory in men—na orfoledded neb mewn dynion.
Glory ye in his holy name—gorfoleddwch yn ei enw santaidd.
He hath whereof to glory—y mae iddo orfoledd.
Occasion to glory—achlysur i orfoleddu; achlysur gorfoledd.

Glorying, *s.* ymogoneddiad, ymogoniad, ymogoniant, gorfoleddiad, ymorfoleddiad, ymglodforiad; ffrost, ymffrost, bost, gorfoledd.

Glose, *s.*=*Gloze.*

Gloser, *s.*=*Glozer.*

Gloss, *s.* (Al. *glosse;* S. *glesan;* Ll. *glossa*) caboledd, dysgleirdeb, dysgleirder, llewych, dysgleindra, tywyn, arlathredd, gla, glawdd, grân; dysgleirdeb arwynebol, gwynebliw; eglurhad, egluriad, eglurad, esboniad, arnodiad, deongliad, agoriad, egoriad, sylwad, sylw, agornod; gau eglurhad, gau esboniad, rhith-ddeongliad, cyfrwys eglurhad; lliw.
Gloss of leather—herwin; grân lledr.

Gloss, *v.* caboli, arlathru, dysgleinio, granu; peri dysgleirio, llewyrchu, *neu* ddysgleinio; gosod caboledd ar; rhoi caboledd ar; rhoi dysgleirdeb arwynebol ar; claerlyfnu; lliwio, berneisio, cyluro; esbonio, egluro, eglurhau, agor, deongli, arnodiadu, arnodi; gau esbonio, gau egluro, rhith-ddeongli, ffug-esbonio; cuddio gwrthuni â ffug a dychymyg; bychanu, lleihau; gwneuthur i beth ymddangos yn wahanol; rhoi lliw ar beth; gwneuthur nodiadau cyfrwys.
To gloss over a meaning—cyluro ystyr; gau egluro ystyr; rhoi gau esboniad ar ystyr; troi ystyr peth; gwyrdröi ystyr peth; lliwio yr ystyr er mwyn rhyw ddyben neilltuol.

Glossalgia, *s.* (Gr. *glôssa* ac *algos*) tafodwst, dolur tafod, poen yn y tafod.

Glossarial, *a.* (o *gloss*) eglurol, eglurhaol, esboniol, esboniadol, deongliadol; yn cynnwys eglurhad; geireglurol, egluriadurol.

Glossarist, *s.* eglurwr, egluriedydd, esboniwr, arnodiadur, nodiadur, eglurhäwr.

Glossary, *s.* (Ll. *glossarium;* Ff. *glossaire*) egluriadur, geirnodiadur, amlygiadur, geireglurydd, geiregluryn, geirddeonglur, geirddeonglydd; geiriadur, geirlyfr, geirlyfryn.

Glossator,† *s.* (Ff. *glossateur*) esboniwr, eglurwr, eglurydd.

Glosser, *s.* (o *gloss*) eglurwr, eglurydd, egluriedydd, arnodiedydd, eglurhäwr, deonglwr, deonglydd, nodiedydd, esboniwr, esboniedydd; cabolwr, cabolydd, arlathrydd, arlathrwr, llathrydd, llugeinydd.

Glossiness, *s.* (o *glossy*) caboledd, cabolrwydd, dysgleiredd, dysgleirdeb, arlathredd, claerder, llugeinedd, llugeinder, lluganedd, llathreidrwydd, llathreiddrwydd, wyneblyfnedd, wyneblyfnder.

Glossist,† *s.* (o *gloss*)=*Glossator.*

Glossly, *ad.* yn gabol, yn arlathr, yn ddysglaer, yn llyfn a gloew.

Glossographer, *s.* (*gloss* a Gr. *graphô*) arnodiadur, arnodiedydd, eglurydd, eglurwr, egluriedydd, eglurhäwr, esboniwr, esboniedydd, nodiedydd, arnodwr; geirddeonglwr, geirddeonglydd, geireglurhäwr, geirnodiedydd; geiriadurwr.

Glossography, *s.* esboniadaeth, nodiaduriaeth, nodiedyddiaeth, geirddeonglaeth, geireglduriaeth, geirnodiadaeth, geiriaduriaeth, arnodiadaeth; ysgrifenad nodiadau eglurhaol.

Glossological, *a.* geiregluregol, geireglurol.

Glossologist, *s.* geireglurwr, esboniwr, esboniedydd, eglurwr, eglurhäwr, arnodiedydd, arnodiadur, deonglwr, deonglydd.

Glossology, *s.* (*gloss,* a Gr. *logos*) geireglureg, geirddeongleg, arnodiadeg; arnodiadau, esboniadau, eglurnodau, nodiadau eglurhaol, sylwadau eglurhaol; tafodeg.

Glossotomy, *s.* (Gr. *glôssa* a *tomê*) tafottrwch, difyniaeth y tafod.

Glossy, *a.* (o *gloss*) dysglaer, arlathr, alathr, llathr, cabol, caboledig, llathraidd, llathraldd, claerlyfn, ysblenydd, granus, llyfn-ddysglaer, wyneblyfn, llyfn a gloew, gloewlyfn, dysglaerlyfn, dylathr, lluganol, llugeiniol.

Glottis, *s.* (Gr. *glôtta*) beudag, agoriad y breuant.

Glout,† *v.* (Ysg.) teru, moni, sori, cuchio, gygu; edrych yn anfoddog; syllu yn graff ar.

Glove, *s.* (S. *glof*) maneg, amlaw; dyrnfol, llawegen: *pl.* menyg.
Kid-gloves—menyg o groen myn; menyg croen myn; menyg cen myn.
To throw the glove—taflu y faneg; taflu

yr herfaneg; herio, rhoi her, beiddio, herfeiddio.
Covered with a glove — manegog; yn gwisgo maneg; âg iddo faneg; amlawiog.
Having gloves — menygog, amlawiog; â menyg iddo; â chanddo fenyg; yn gwisgo menyg; à wisgo fenyg.
To be hand and glove together—bod yn gyfeillion mynwesol.

Glove, *v. a.* gwisgo â maneg; gwisgo maneg am; amlawio.

Glover, *s.* (o *glove*) menygwr; menygwerthwr; gwneuthurwr menyg.
Glover's trade—menygwriaeth, crefft menygwr.

Glow, *v. n.* (S. *glowan*; Al. *glühen*) gwyniasu, terwynu, tanbeidio; bod, llosgi, *neu* fyned yn wynias; brydio, poethi, greidio, creidio, gwresogi, angerddu, ymboethi; llosgi, gwrido, twymwrido, cochi, gwridgochi, poethiasu, ymlosgi; tywynu, dysgleirio, llewychu, llewyrchu, goleuo, lleueru, lleuferu; bod yn boeth; bod yn wynias; bod yn wyrenig; llosgi, poethi, gwyniasu, ymlosgi, cynneu, *neu* ennyn gân lid *neu* ddigofaint; ffrochi, brochi, ffromi.

Glow, *s.* gwynias, poethias, gwenias, tywynias, twymias, twym ias, brydias, gwres llachar; ias; gwrid, twymwrid, cochni, cochedd; rhuddel, glawdd; poethder, gwres, graid, craid; brydaniaeth, ennynfa; tewynder.

Glowing, *a.* gwynias, twymias, terwyn, tanlliw, tanbaid, llachar, tanllachar, coch, gwridog, gwridgoch, gloewgoch; brwd, poeth, greidiol, creidiol, brydlawn, claerboeth, claerwresog, purboeth; claer, dysglaer; gwyrenig; yn gwyniasu, yn terwynu, &c.
Glowing heat—gwynias, twymias, poethias, gwyniasedd, twym ias, gwres gwynias.
Glowing coal—rhysodyn, marworyn: *pl.* rhysod, marwor.

Glowworm, *s.* (*glow* a *worm*) magïen, mageien, y gyfarwydd, goleuen, glöen, glöyn, magïad: *pl.* magïod, mageiod, magïaid, goleuod, glöenau, glöynod.

Gloze, *v. n.* (S. *glesan*) gwenieithio, gwenieithu, truthio, trutheinio, glafru, sidanu; cynffonloni, twyllfoddio.

Gloze, *s.* gweniaith, truth, glafr; †lliwiad, cyluriad.

Glozer, *s.* gwenieithwr, gwenieithydd, truthan, truthiad, truthiwr, glafrwr.

Glozing, *s.* lliwiad, cyluriad, gau ddangosiad, geuwedd.

Glucic, *a.* (Gr. *glucus*) melusig, chweg.
Glucic acid—sur melusig.

Glucine, } *s.* (Gr. *glucus*) perddelidnur, per-
Glucina, } ddelegrid, egrid perddelid.

Glucinium, *s.* (Gr. *glucus*) perddelid.

Glue, *s.* (*Ff. glu*; Gr. *glia*; Ll. *gluten*) glud, ysgrawling, asgrawling, ysglawring, ysgroling, asgroling, asgloring, ysgloring.

Glue, *v. a.* gludio, ysglawringo, ysgrawlingo, asgloringo, ysgloringo, asgrolingo, ysgrolingo; uno, cyssylltu, cydio, asio.

Glueboiler, *s.* gludferwydd, berwydd glud, berwr ysglawring, gwneuthurwr ysgrawling.

Gluer, *s.* gludiwr, asgrolingwr, ysgrolingydd, ysgrawlingwr, ysgloringydd.

Gluey, *a.* (o *glue*) gludiol, gludiog, gludaidd, ysglawringaidd, ysgrolingaidd, asgloringol; gwydn, glynol, hylud, hylyn, teng, glud.

Glueyness, *s.* gludedd, gludrwydd, gludiogrwydd, gludiolrwydd, gludioldeb, gludeiddrwydd, ysgrolingrwydd; gwydnedd, hyludedd.

Gluish, *a.* (o *glue*) gludaidd, gludiog, gludiol, ysgrawlingaidd, ysglawringaidd, ysgrolingaidd, asgloringaidd, asgrolingaidd; gwydn, hylud.

Glum, *a.* (Ysg. *gloum*; o *gloom*, yn ol *Johnson*) anhylon, diserch, gygus, cuchiog, sarig, prudd, sur, ansiriol, tawedog.

Glum, *s.* gwg, cuwch, anhylondeb, ansirioldeb, sarigrwydd.

Glum, *v. n.* gygu, cuchio; edrych yn sarig, &c.

Glumaceous, *a.* (o *glume*) uslenog, rhuchog, hosanog; usog, masglog, plisgog; usaidd, cibaidd; hadwisgog, hadruchog.

Glume, *s.* (Ll. *gluma*) uslen, us, plisg, cib, hadwisg; gwisg yd *neu* borfa.

Glummy, *a.* (o *glum*) sarig, anhylon, diserch, gygus, cuchiog; tywyll, gwyll, caddugol, prudd, erch.

Glumous, *a.* (Ll. *gluma*) bonruchog, bonruchaidd, bonuslenog.

Glut, *v. n.* (Ll. *glutio*; *Ff. engloutir*) glythu, trafiyncu, gwancio, cegio, cegu, safneidio, gorlenwi, secu, sechu, gorlwytho, arddigoni, gorddigoni, alaru ar, llaru ar, diflasu ar, cael digon ar, blino ar; bolera.

Glut, *s.* trafiwnc, trafiwng, safnaid; gormodedd, arddigonedd, gorddigonedd, gwala, alar, gorllawndid; gwanc, llanw.
There is a glut of corn—y mae gwala o yd; y mae yr yd wedi myned yn chwyddog.

Gluteal, *a.* (Gr. *gloutos*) ffolenaidd, ffolenol, clunaidd, clunol, morddwydaidd; perthynol i'r ffolenau.
The gluteal artery — rhedweli y ffolen, rhedweli y ffolenau.

Gluten, *s.* (Ll.) gludain, tyfiud; glud.

Glutinate, *v. a.* (Ll. *glutino*) gludio, ysgrawlingo, ysglawringo, ysgrolingo, asgrolingo, ysgloringo, asgloringo; cydludio, cyngludio; cydio, cyssylltu.

Glutination, *s.* gludiad, ysgrolingad, asgrolingad, ysgloringad, cydludiad, cyngludiad.

Glutinative, *a.* (o'r Ll. *glutino*) gludiol, gludiadol, cyngludiol, cydludiol, gludiog, gwydn, hylyn, hylud, glud, teng.

Glutinosity, } *s.* gludedd, gludrwydd, glud-
Glutinousness, } iogrwydd, gludiolrwydd, hyludrwydd, cyngludedd, cyngludrwydd, gwydnedd, tengrwydd.

Glutinous, *a.* (Ll. *glutinosus*) gludiog, gludiol, gludaidd, cyngludiol, hylud, gwydn, hylyn, teng, glynol, ysgrolingaidd, ysglawringaidd.

Glutton, *s.* (Ll. drosgl, *gluto*; Ff. *glouton*) glwth, glythwr, gwanciwr, gewai, rhemmwth, glythyn, llawciwr, bolrythwr, tryfoliwr, cegwr, trafoliwr, un glwth, dyn glwth, dyn rhwth, dyn rhawth, bwytäwr mawr, bwytäwr diwala, dyn bwytëig, dyn glythig, glythinebwr, gorfwytäwr, bolgi.
Glutton (*Gulo vulgaris*)—rhemmwth.

Gluttonize, *v. n.* glythu, glythinebu, gwancio, gnythu, cegu, hopranu, tryfolio, bolera, ysu y cwbl, ymdorlwytho, chwareu y glwth; wttresa, gloddesta; bwyta yn llyminog, bwyta yn wancus.

Gluttonous, *a.* glwth, glythig, bolrwth, ceul-

rwth, cegrwth, glythlyd, glythaidd, gwancus, glythol, glythog, rhawth, rhwth, gnythol, bwytëig, bwydiog, rheibus, cyfys, barus: *f.* gloth, rhoth.

Gluttony, *s.* glythineb, glothineb, glythni, glythi, glythedd, glythigrwydd, bolrythi, bolrythni, ceulrythni, cegrythni, gnwth, rhawth, gwanc, bwyteigrwydd, rhythni, gwancusrwydd, glythinebgarwch, glythogrwydd.

Glyceria, *s.* (Gr. *gluceros*) perwellt, chwegwellt, chweglys.

Glycerine, *s.* (Gr. *gluceros, glucus*) chwegnur, melusnur = dansawdd melus brasder ac olew.

Glycerule, *s.* (Gr. *gluceros* a *hulê*) chwegnursawdd.

Glycicoll, *s.* (Gr. *glucus* a *colla*) glysugr, chweglud, sugr ceuledain.

Glyconian, } *a.* (o *Glucôn* neu *Glycon*, y dyfeis-
Glyconic, } ydd) Glyconig, Glyconaidd, Glyconain; cynnwysedig o gorfan hir, corfan dyrchrywiog, a chorfan cloff.

Glycyrrhiza, *s.* (Ll.; Gr. *glucus* a *rhiza*) gwylys, chwegwraidd, perwraidd.

Glyn, } *s.* (C. *glŷn;* Gw. *glean*) glŷn, dyffryn,
Glen, } cwm, cwmarch, pant, allmor, dôl.

Glyph, *s.* (Gr. *gluphê*) tlysgaf, addurnwm, tlysgeufan, cerfwm.

Glyphic, *s.* arwyddlun, geirlun, geirarwydd, bathain.

Glyptic, *a.* (Gr. *gluptos, gluphô*) lluniog; gemgerfiol, gemgrifiol.

Glyptics, *s.* gemgerfiaeth, gemgrifiaeth, gemgerfiadaeth, gemgrifiadaeth, cerfiad gemau, gemgerfiad.

Glyptodon, *s.* (Gr. *gluptos* ac *odous*) math o greadur difîan.

Glyptographic, *a.* cerfemofyddol, gemgrifegol, gemgerfegol.

Glyptography, *s.* (Gr. *gluptos* a *graphô*) cerfemofyddiaeth, gemgerfeg, gemgrifeg, darluniaeth o gerfiad gemau.

Gnaphalium, *s.* (Gr. *gnaphalion*) edafeddog, yr edafeddog.

Gnar,† *s.* (Al. *knorren*) cwlwm, clwm, cwgn.

Gnar, } *v. n.* (S. *gnyran, gnorian;* Al. *gnurren*)
Gnarl, } chwyrnu; grymial, gremial, rhemial, grymiala, grymialu, gryngian, gryngio, grwytho, dysgyrnu, ysgyrnygu; rhochi; grwgnach, grydwst.

Gnarled, *a.* cygnog, clymog, cylymog.

Gnash, *v.* (D. *knasker*) rhincian, rhincio, ysgyrnygu, esgyrnygu, dysgyrnygu; ymrincian, ymddanneddu, ymddeintio; rhincian dannedd; gwasgu dannedd; clecian, grillian; grymial, chwyrnu.

To gnash the teeth — rhincian dannedd, deintrincian, deintrincio; gwasgu y dannedd gân boen *neu* ddig; gwasgu dannedd yn nghyd gân boen *neu* ddigofaint.

Gnashing, *s.* rhinciad, rhincian, ysgyrnygiad, esgyrnygiad, dysgyrnygiad, ymgnoad.

Gnashing of teeth — rhincian dannedd, deintgryd, deintgryn, ysgyrnygu dannedd, ysgyrnygiad dannedd, deintrinciad.

Gnashingly, *ad.* dân rincian.

Gnat, *s.* (S. *gnæt*) gwibedyn, gwiban, gwibedyn bach, ednogyn, piw, cylionyn, (*f.* cylionen): *pl.* gwibed, piwiaid, cylion.

To strain at a gnat and swallow a camel — hidlo gwibedyn a llyncu camel.

Gnat-flower, *s.* gwibedlys, ceineirian, blodyn y gwenyn.

Gnathonical,† *a.* (Ll. *gnatho*) gwenieithus, gwenieithol, truthiol, glafrol, twyllodrus.

Gnathostoma, *s. pl.* (Gr. *gnathos* a *stoma*) manteneuod.

Gnatsnapper, *s.* gwibedog, gwibedgipydd.

Gnathotheca, *s.* (Gr. *gnathos* a *thêcê*) genwain.

Gnatworm, *s.* macai gwibedyn, gwibedbryf.

Gnaw, *v.* (S. *gnagan;* Al. *nagen*) cnoi, dygnoi, deintio, dargnoi, amgnoi, cnofain; difa, ysu, treulio; ymgnoi; gofidio, dygnu.

To gnaw about—amgnoi, damgnoi.

To gnaw upon a thing—ymofidio *neu* ymflinaw o herwydd peth; ymgnoi o herwydd peth; cnoi peth; cnofain ar beth.

Gnawer, *s.* cnöwr, cnöydd, damgnöwr, dygnöwr; yswr, treulydd.

Gnawing, *s.* cnoad, dygnoad, deintiad, amgnoad, cnofa; ysiad.

Gnawings of conscience—cnofëydd cydwybod; ymgno cydwybod; tymmigiadau cydwybod; oethri cydwybod.

Gneiss, *s.* (Al.) haenithfaen, haenithgraig.

Gnoff,† *s.* cybydd.

Gnome, *s.* (Gr. *gnômê*) tudelfod=bod neu elfod dychymygol â breswylia ranau tufewnol y ddaiar.

Gnome,† *s.* doethwers, arwiredd, direb, byrwireb, byrfyfyrdod.

Gnomical, } *a.* (Gr. *gnômicos*) arwireddol, ar-
Gnomic, } wireddog, gwirebus, byrwirebus, byreiriog, doetheiriog, synwyrwersog, doethwersog, byrwersog, gwersog, synwyriawn.

The gnomic poets of Greece—prydyddion doetheiriog Groeg; beirdd arwireddol Groeg.

Gnomiometrical, *a.* (Gr. *gnômôn* a *metreô*) mynegfesurol, dangosfydrol.

Gnomonologic, } *a.* arwirgronol, direbgronol,
Gnomonological, } direbionol; perthynol i arwirgrawn.

Gnomonology, *s.* (Gr. *gnômôn* a *logos*) arwirgrawn, arwirgasgl, direbioneg, direbgrawn, adfyfyrgrawn=casgliad o arwireddau, synwyrwersi, neu adfyfyrion.

Gnomon, *s.* (Gr.) mynegfys, mynagfys, dangoseg, mynegai; nodwydd, pin, bys, llaw, mynegfys, crib, *neu* drwyn orfynag; pin.

Gnomon of a globe—mynegfys cronell, mynegai cronen; mynegai yr awrgylch.

Gnomonic, } *a.* (o *gnomon*) orfynegol, awr-
Gnomonical, } fynegol, heulfynegol; perthynol i orfynegiaeth.

Gnomonics, *s.* orfynegiaeth, heulfynegiaeth, heuloriaeth, mynegfysaeth.

Gnostic, *s.* (Gr. *gnôsticos;* Ll. *gnosticus*) Gwybedydd, Gwybodydd: *pl.* Gwybedyddion, Gwybodigion, Gwybodyddion, Gnosticiaid.

Gnostic, *a.* Gwybodig, Gwybedyddol, Gwybodyddol: perthynol i'r Gwybedyddion; yn perthyn i Wybedyddiaeth.

Gnosticism, *s.* Gwybedyddiaeth, Gwybodyddiaeth, Gwybodigaeth, Gnosticiaeth, athrawiaeth y Gwybedyddion.

Gnu, *s.* (enw brodorol) bualfarch = anifel perthynol i Ddeheudir Affrica.

Go, *v. n.* (S. *gan;* Al. *gehen*) myned; cerdded, rhodio, symmud, troedio, ysgogi, cychwyn, rhoi camrau, camru, hyntio, teithio, ymdeithio, ymdaith, gorymdaith, dygychwyn, llwybro, ymlwybro, tramwy, tramwyo, troi,

elu, eddu, eddain, athu; neithio, pasio; dyfod; ymroddi, ymröi; cyrhaedd, ymestyn.

To go about—myned o amgylch; myned yn nghylch; myned oddeutu; ymgynnyg ar, rhoi cais ar, ymosod ar; tramwy, amrodio.

To go about the bush — ffusto perthi; pwyo y perthi; curo *neu* ffusto y llwyni; myned i gyrchu pen ffordd; arferu maith amgylchion geiriau.

To go aboard—myned i long; esgyn i long; dringo i long; myned i fwrdd llong; llongi.

To go abroad—myned allan; myned i maes; myned ar led; myned ar daen.

To go after—myned ar ol; canlyn, dylyn.

To go again—myned eilwaith; myned drachefn, ail fyned; dychwelyd.

To go against—myned yn erbyn; myned i ymosod ar; bod yn erbyn; bod yn groes *neu* wrthwyneb.

To go aside—myned o'r neilltu; myned ar neilltu; myned naill ochr; ymneilltuo, ymddydoli, osgöi, cilio; cyfeiliorni.

To go astray—myned ar gyfeiliorn; myned ar grwydr; myned ar ddisberod; myned ar goll; myned ar ddigrain; cyfeiliorni, crwydro.

To go asunder—myned yn wahanedig; myned ar wahan; ymwahanu, ymneilltuo, ymddattod, ymollwng.

To go away — myned ymaith; myned i ffwrdd; myned i'w ffordd; myned hwnt; myned i bant; myned i faes; myned i maes; myned i gerdded; ymadael, ymadaw, edfyn.

To go away with—myned ymaith â, &c.; dwyn, cludo, *neu* gipio ymaith; myned â pheth i ffwrdd.

To go awry—myned ar gam; myned ar ŵyr; myned yn wyrgam *neu* wyrdraws; gwyro, lleddfu, lledbeio, ystlysu, osgöi.

To go back—myned yn ol; myned yn ei ol; myned yn ei wrthol; dychwelyd, cilio, encilio; gwrthgilio.

To go back from one's word—tori ei air; tori ei addewid; cilio *neu* fyned oddi wrth ei air; bod yn anffyddlawn i'w air.

To go before—myned o flaen; blaenu, blaenori, rhagflaenu; cerdded *neu* fyned o'r blaen; myned rhag; cael *neu* ennill y blaen; gadael ar redeg; rhagu.

To go between—myned rhwng; cyfryngu, athrywynu; ceisio dosbarthu cynhenau.

To go beyond—myned tu hwnt i; myned dros; myned heibio i; rhagori ar, blaenori ar; twyllo, hudo, somi; gorthrymu, gwasgu; troseddu; rhyseddu; trău; maeddu.

To go by—myned heibio; pasio heibio; neithio heibio; hybio; gadael heibio, gadael allan; cael yn y diwedd.

To go by water—myned ar hyd y dwr; myned ar hyd y môr; ymdeithio ar fôr; morio, mordwyo, llongwrio.

To go down—disgyn; myned i lawr; machludo, machlud, ymachludo, ymachludd; methu, ffaelu, pallu; myned i'r dim; cael ei lyncu; cael ei dderbyn.

To go down the stream — myned gyda'r afon; myned gyda'r ffrwd; myned i lawr *neu* i waered gyda'r afon; myned i lawr hyd *neu* ar hyd yr afon; myned i lawr yr afon.

To go down the wind—myned yn ol yn y byd.

To go down the stairs—myned i waered *neu* i lawr o'r llofft; myned i waered hyd, ar hyd, *neu* i lawr y grisiau; disgyn ar hyd y grisiau.

To go down with—myned i lawr gàn *neu* gyda; myned i waered gàn *neu* gyda; cael ei dderbyn gàn; cael ei gymmeradwyo gàn; bod yn dderbyniedig, yn dderbyniol, *neu* yn gymmeradwy gàn; bod heb ei lysu *neu* ei wrthod gàn; cael ei lyncu gàn.

To go far—myned yn mhell; pellhau, ymbellhau.

To go a footpace—myned ar y cam; cerdded ar y cam.

To go for nothing — myned am ddim; myned yn ddiffrwyth; diweddu yn ddiles; bod yn ddiwerth; bod yn ddïeffaith.

To go forth — myned allan; myned i maes.

To go forward—myned yn mlaen; myned rhagddo, (*f.* myned rhagddi, *pl.* myned rhagddynt); cychwyn, dygychwyn; ymgychwyn.

To go from place to place—myned o le i le; myned o fàn i fàn; treiglo, crwydro.

Goosery, *s.* (o *goose*) cut gwyddau, ffronc gwyddau; cut i besgu gwyddau; ffronc i borthi gwyddau.

Goosetongue, *s.* dystrewlys, ystrewlys, tafod yr ŵydd.

Goosewing, *s.* gwyddaden, gwyddadain, adain gŵydd=math o hwyl.

Gopher, *s.* (Ff. *gaufres*) milyn o ddeutu cymmaint a gwiwer.

Gopher, *s.* (H.) Gopher, coed Gopher.

Goppish,† *a.* balch, uchel, anfoddog.

Gorbellied, *a.* (C. *gòr,* a *belly*) cestog, boliog, cestfawr, bolfawr, rhythfoliog, gorfoliog, bolrwth, boldyn, boldwn, torstain, potenog, torllaes, torog.
A gorbellied one—torogyn, un cestog: *f.* toroges, un gestog.

Gorbelly,† *s.* cest, tor, poten, gorfol, rhythfol, rhemmwth.

Gorce,† *s.* (Norm. *gors*) pysgodlyn, cored.

Gorcock, *s.* cochiad, ceiliog coch y grug, coch y grug, ceiliog coch y mynydd, grug-geiliog, ceiliog y grug.

Gorcrow, *s.* breuan.

Gord, *s.* offeryn hapchwareu.

Gordian, *a.* (o *Gordius,* brenin Phrygia) dyrys, astrus, annattodol, annattod, anhyddattod, diddattod, annattodadwy, anhawdd ei ddattod.
Gordian knot—clwm annattod, cwlwm annattodol, dyrysglwm; anhawsder annattodadwy.
To cut the Gordian knot—tori y dyrysglwm; tori y clwm annattod; tori y cwlwm diddattod.

Gore, *s.* (S. *gor, gore;* C. *gôr;* Gw. *cear*) gwyar, gwaed, crau, gôr; ceulwaed, gorwaed, crawnwaed, gwaed o friw; baw, tom, llaid.

Gore, *s.* (Isl. *geir;* Ysg. *gore, gair*) cwysed; llain; lleinddarn; llain drichornel; llain ar lun gaing.

Gore, *v. a.* (C. *gyru,* yn ol *Webster*) cornio; gwanu, brathu, *neu* rwygo â chyrn; cyrchu; hwylio, topi; gwanu, brathu, pwynio; gwaenadu.

Gorge, *s.* (Ff.; It. *gorga, gorgia;* Ysp. *gorja* ceg, llwnc, llwng, llyncfa, breuant, corn

gwddf, corn breuant, corn pori, sefnig, ceudod y gwddf, llawg; crombil, cromil, cropa; goalef; cegrigol, cegaddurn; y peth â lyncir.
The gorge of a capital — llawg heiliog, llawg penclwm, ceg penclwm.

Gorge, *v.* llyncu, trafllyncu, gwancio, llawcio, cegu, glythu, glythinebu, bolrythu; llenwi hyd y geg; gorllenwi, gorlenwi, trallenwi, dyslyncu, cestu, bolio, trafolio; ymlythu, ymddyfolio, ymddyfoli; ymlenwi hyd at ormodd; ymborthi, ymbesgu.

Gorged, *a.* cegog, llyncfaog, sefnigog; â chanddo geg *neu* freuant; gorllawn; wedi ei orlenwi, &c.; â choron o amgylch ei wddf.

Gorgeous, *a.* (hen Ff. *gorgias*, yn ol *Skinner*) dysgleirwych, gorwych, claerwyn, (*f.* claerwen), dysgleirwyn, (*f.* dysgleirwen), claerwych, harddwych, hoewych, uchelwych, addurnwych, gwychderus, gwych, dillyn, hoew, gwymp, (*f.* gwemp), ysblenydd, cain, eirian, teg; mawrwych, mawreddog, godidog, rhagorol.
Gorgeous dress — gwisg ddysgleirwych, gwisg glaerwen, &c.; claerwisg.

Gorgeousness, *s.* gorwychder, gorwychedd, claerwychder, claerwychedd, dysgleirwychder, harddwychder, hoewychder, gwychder, claerwynder, claerwyndra, hoewder, gwymped, ceinder, eirianedd, mireinwch, pefri, ysblander gwisg; mawrwychedd, mawrwychder, mawreddogrwydd.

Gorgerin, *s.* (o *gorge*) pilergeg, ceg colofn.

Gorget, *s.* (Ff. *gorgette*) cegwisg; broneg, brondor, bronfoll, dwyfroneg; mynyglwisg.

Gorget, } *s.* maenddeotyr = offeryn maen-
Gorgeret, } drychu neu faenddeoti.
Blunt gorget—ceudrychor, trychor, arweinyr chwibolaidd pwl.

Gorgon, *s.* (Gr.) anghenfil, gwrthfil, erchon, hyllyn, erchyn, hyllbeth; peth tra hyll *neu* erchyll: Gorgon.

Gorgon, *a.* erchyll, echrys, hyll, erch, anghenfilaidd, gwrthfilaidd; Gorgonaidd.

Gorgonean, } *a.* (o *gorgon*) erchyll, hyll, erch,
Gorgonian, } echrys, tra erchyll, anghenfilaidd, gwrthfilaidd, erchonaidd; Gorgonaidd, Goronig.

Gorgoneia, *s. pl.* Gorgoneion, erchoneion, hyllfygydau.

Gorhen, *s.* grugiar, grugiar goch, iar goch y mynydd, iar goch y grug.

Goring, *s.* (o *gore*, *v.*) corniad, gwanad, brathiad, pigad, brath, gwân.

Goring, } *s.* (o *gore*) hwylgwysed; hwyl
Goring-cloth, } ar lun cwysed; y rhan o hwyl ar ddull cwysed.

Goring, } *a.* cwysdedaidd; ar lun cwysed;
Goaring, } wedi ei dori ar ŵyr *neu* ar oleddf; lletach yn y cwr isaf na'r uchaf; yn lleddf bigfeiniaw o'r bon i'r brig.

Gormand, } *s.* (Ff. *gourmand*; C. *gormant*)
Gormander, } glythwr, glwth, gwanciwr, bolrythwr, gewai, rhemmwth, tryfoliwr, trafoliwr, llawciwr, glythyn, bolrythyn, glythinebwr, cegwr, un glwth, dyn glwth, dyn rhwth, dyn rhawth, bwytäwr mawr, bwytäwr diwala, dyn bwytëig, dyn glythig, gorfwytäwr, bolgi.

Gormandism, *s.* glythineb, glothineb, glythni, glythi, glythedd, glythigrwydd, bolrythi, bolrythni, ceulrythni, ceirythni, gnwth, rhawth, gwanc, bwyteigrwydd, rhythni, gwancusrwydd, glythogrwydd, glythinebgarwch.

Gormandize, *v. n.* glythu, glythinebu, gwancio, llawcio, gnythu, cegu, bolrythu, tryfolio, trafolio, hopranu, bolera, cestio, cestu, ymdorlwytho, gorymlenwi, ysu y cwbl, chwareu y glwth, wttresa, gloddesta; bwyta yn llyminog *neu* wancus.

Gormandizer, *s.*=*Gormand*, *Gormander*.

Gorse, *s.* (S. *gorst*) eithin, aith, aeth: *sing.* eithinen.
Common gorse — eithin ffreinig, eithin Ffrengig.
A place where gorse has been burnt standing—poethwal.

Gory, *a.* (o *gore*) gwyarllyd, creulyd, gwaedlyd, gwyarog, gorllyd, ceulwaedlyd; llofruddiog, creugar.
Gory, } deudaleithiog, deufwaog (mewn
Gorse, } herodraeth).

Goshawk, *s.* (S. *goshafoc*) gwyddwalch, hebog Marthin.

Gosling, *s.* (S. *gos*, g*ŵ*ydd, a'r terfyniad bychanig *ling*) g*ŵ*ydd fach, g*ŵ*ydd fechan, g*ŵ*ydd ieuanc, cyw g*ŵ*ydd, g*ŵ*yddan: *pl.* g*ŵ*yddau bach.
Goslings (on trees)—cenawon, gwyddau bach; cenawon cyll a phinwydd.

Gospel, *s.* (S. *godspell*, o *god*, da, a *spell*, hanes) efengyl; coelfain, llawenchwedl; newydd da, newyddion da.
To preach the gospel—pregethu yr efengyl; efengylu.
As true as the gospel — cyn wired a'r efengyl.
Belonging to the gospel, } efengylaidd;
Of the nature of the gospel, } perthynol i'r efengyl.
The four Gospels—y pedair Efengyl.

Gospel, *v. a.* efengylu; efengyleiddio; efengylu i.

Gospeller, *s.* efengylwr, efengylydd; darllenwr yr Efengyl wrth yr allor.
Gospeller (in church history)—efengylydd, efengylwr=canlynwr y diwygiwr Wicliff.

Gospel-gossip, *s.* efengyles y gleo.

Gospelize, *v. a.* efengylu, efengyleiddio; pregethu yr efengyl; efengylu i.

Goss, *s.* eithin mân, llawr-eithin.

Gossamer, *s.* (Ll. *gossipium*, cotwm; C. *gosymerth*) gwawn, gosymerth; eurwawn.

Gossamery, *a.* gosymerthol; fel gwawn, fel gosymerth; llymsi, diaylwedd, ansylweddol, gwagsaw.

Gossip, *s.* (S. *godsibb*) clecai, clepai, clebren, clebardden, clecwraig, clepwraig, chwedleuwraig, llolen, chwaldodes, chwedleues, pepren, dynes glebarddus, benyw wagsiaradus, beuyw siaradus; benyw â gâr chwalu chwedlau; gorseddwraig; siaradydd, gwag-siaradydd, chwaldodydd; cyfeddachwr, cydyfwr, glân gydymaith; clec, clep, clap, siaradach, gwagsiarad, clincwm, chwaldod, clebar, ofersiarad, llol, sibrwd, sisial; †alltraw, tad bedydd; †cyfaill, cymmydog.
Gadding gossip—rhodlenai, rhodlenwraig, gwibiodres, crwydrwraig, chwilast, clebardden, clebren, clecai, clepai, clecai rodlenol; un yn gwibiaw o dy i dy gân chwalu chwedlau.
Drinking gossip—yfwraig, cydyfwraig, cyfeddachwraig; cydyfwr, cyfeddachwr.

Prating gossip, } clecai, clepai, clebren,
Tattling gossip, } clebardden, clecwraig, clepwraig, llolen, &c.; benyw siaradus, benyw wagsiaradus; benyw à gâr chwalu chwedlau.
Gossip shop—ty y glec; ty y clep; ty y clap; cleceifa.

Gossip, *v. n.* cleca, clecian, clebran, clepian, clapian, chwaldodi, gorseddu, gwersa, eistedd yn cleca, eistedd yn clecian, chwedla, chwedleua, siarad, siared, gwagsiarad, ofersiarad, chwalu chwedlau, taenu chwedlau, tori ystorïau, ymgomio, ymchwedleus, baldorddi, baldorfi, llolian, cychwedlu, sisial, dàl pen chwedl; ofer dreulio yr amser yn gwibiaw o dy i dy gàn chwalu chwedlau *neu* dori ystorïau; bod yn lân gydymaith, cydyfed, cyfeddachu; taenu chwedlau ofer.

Gossiping, *s.* clecwaith, clepwaith, clebarwaith; clec, clep, clap, clincwm; clecïad, clepiad, lloliad, gorseddiad; eisteddiad yn cleca; gwersa, cleca, clecian, &c.; cyfedd *neu* gyfeddach gwragedd.

Gossipred,† *s.* (*o gossip*) cyttadoliaeth; alltrawiaeth; perthynas tad bedydd â'r un yr etyb efe drosto; perthynas ysbrydol.

Gossoon,† *s.* (*o'r* Ff. *garçon*) bachgen, gwas.

Gossypium, *s.* (Ll. *gossipium;* Gr. *gossipion*) cotwm.

Gosting, *s.* gwreiddrudd, madr.

Goth, *s.* Gothiad, Goth, Gothyn; anwariad, barbariad, anfoesog, anfoesyn, anwaryn.

Gothamist, *s.* (*o Gotham*, yn swydd Nottingham) doethyn, ffwlcyn, symlyn, iolyn, cuall; un o ddoethion Gotham.

Gothic, *a.* Gothig, Gothaidd; anwar, anwaraidd, barbaraidd, trwsgl, delffaidd, anfoesgar, henaidd, hen, henddulliog.
Gothic architecture—adeilyddiaeth Gothig.
Gothic letters—llythyrenau Gothig, llythyrenau Gothaidd.

Gothic, *s.* Gothaeg, Gotheg, iaith y Gothiaid.

Gothicism, *s.* Gothiciaeth, Gothigaeth, Gothigrwydd; priodwedd Gothig, ieithwedd Gothig; dull Gothig; anwaredd, barbaredd, anfoesogrwydd, anfoesgarwch, trysgledd, taiogrwydd.

Gothicize, *v. a.* anwareiddio, barbareiddio, anwaru; gwneuthur yn anwaraidd; Gothigeiddio.

Goud,† *s.* (Ff. *guede;* S. *wad, waad*)= *Woad.*

Gouge, *s.* (Ff.) gaing gau, cŷn cau, ceugyn, ysgeueg, cŷn llwy.

Gouge, *v. a.* ceugynio, ysgeuo, ysgeuegu, cafnu; gwasgu *neu* grafu allan.

Goujeers, *s.* y frech fawr, y frech ffreinig; anlladwst, haint y trythyllwch.

Gouland, *s.* math o blanigyn neu flodeuyn.

Goulard-Extract, *s.* (oddi wrth enw y dyfeisydd) deawd Gowlard, alltra Gowlard, plymdaeth, plymalltra, elltaeth plwm.

Gourd, *s.* (Ff. *courge;* Is. *kawoerde*) cicaion, palm Crist, pwmpel.
Bitter gourd—surgicaion, chwerafal, cicaion chwerw.
Gourd-tree—cicaionwydd; Calabass-wydd, y pren Calabass.

Gourdiness, *s.* coeschwydd; chwydd yn nghoesau ceffyl wedi taith.

Gourdy, *a.* â chwydd yn ei goesau; chwyddedig ei goesau; coeschwyddedig.

Gourmand, *s.* (Ff.)=*Gormand, Gormander.*

Gournet, *s.*=*Gurnet.*

Gout, *s.* (Ff. *goutte;* It. *guta;* Ll. *gutta*) cymmalwst, y gymmalwst, troedwst, clefyd y cymmylau, clwyf y cymmalau, clwyf cymmalau; †dyferyn, dos.
Gout in the hand—llofwst, llawwst.
Gout in the foot—troedwst, pedwst.
Gout in the hip—clunwst.
Gout in the knee—glinwst.

Gout, *s.* (Ff. o'r Ll. *gustus*) blas, archwaeth, chwaeth.
He has no gout for such things—nid oes ganddo flas ar y cyfryw bethau.

Goutiness, *s.* cymmalystedd, troedystedd, troedystogrwydd, pedystogrwydd; haint *neu* glwyf y cymmalau.

Goutwort, } *s.* (*gout, goat,* a *wort* neu *weed*)
Goatwort, } llysiau y gymmalwst, troed yr
Goutweed, } afr.

Gouty, *a.* (*o gout*) cymmalystog, cymmalystaidd; pedystog, troedystaidd; â'r gymmalwst arno; â'r droedwst arno, &c.; darostyngedig i'r gymmalwst; à flinir gàn y gymmalwst; yn cael ei flino *neu* ei ormeilio gàn y gymmalwst; perthynol i'r gymmalwst; †chwyddedig, corsog.

Gove, † *s.* mwdwl, beisgawn.

Gove,† *v. a.* mydylu.

Govern, *v.* (Ff. *gouverner;* Ll. *guberno*) llywodraethu, rheoli, llywio; gwledychu, gwladychu, gwladyddu, teyrnasu; trefnu, cyfarwyddo, llywiadu, llywodri, llywiodri, llywiannu, llywedu, llywiodi, ardwyo, arlywio, arlywodraethu, twyogi.
To govern a ship—llywio llong, hwylio llong.
To govern in a country—gwledychu, gwladychu, gwladyddu; llywodraethu mewn gwlad.
To govern (as a king)—teyrnasu; teyrnasu ar; llywodraethu; llywodraethu ar.
Dost thou now govern the kingdom of Israel?—a ydwyt ti yn awr yn teyrnasu ar Israel?
To govern the tongue—llywodraethu y tafod; ffrwyno *neu* attal y tafod.

Governable, *a.* llywiadwy, rheoladwy, llywodraethadwy; hylyw, hydrin; hawdd ei lywio; hawdd ei drin; â ellir ei lywio *neu* ei lywodraethu.

Governance, *s.* (Ff. *gouvernance*) llywodraeth, rheolaeth, llywiaeth, llywiadaeth; llywodraethiad, llywiad, llywiant, rheoliad, llywiawd; llywiaduriaeth, llywodri, llywiodri, ardwy, llywyd, pendodaeth.
To have the governance of—llywio, llywodraethu, rheoli; bod yn rheoli; bod i un lywodraeth; bod i un y llywodraeth ar.
Want of governance—aflywodraeth, anllywodraeth, afreolaeth.
Governance by one—unbenaeth, unbenogaeth, llywodraeth un.
Governance by the nobles—llywodraeth pendefigion; pendefigaeth, pendefigiant, arbendodaeth.
Governance by the people—llywodraeth y bobl; llywodraeth gàn y bobl; gwerinlywiaeth, gwerinlywiaeth, gwaerlywodraeth, gwerinlywodraeth, gwerinwladwriaeth.

Governante, *s.* (Ff. *gouvernante*) llywodres,

llywiodres, dysgodres, athrawes, dysgawdures, addysges, llywiadures.

Governed, *p. p.* rheoledig, llywiedig, llywodraethedig; à lywiwyd; gwedi ei lywio, &c.

Well-governed—iawn lywiedig, iawn-lywiedig, madlywiedig; yn cael ei reoli yn dda; dan reolaeth, llywiaeth, *neu* lywodraeth dda.

Ill-governed—drwg lywiedig, dryg-lywiedig; yn cael ei lywodraethu yn ddrwg; dân reolaeth, llywiaeth, *neu* lywodraeth ddrwg.

The governed—y llywiedig, y llywiedigion; y sawl a lywodraethir.

Rash youth must rather be governed—rhaid yw yn hytrach ffrwyno yr ieuenctyd gorwyllt.

Governess, *s.* llywodres, llywiodres, dysgodres, athrawes, dysgawdures, addysges, llywadures, llywiadures, llywedyddes, llywiedyddes, llywodraethwraig, llywodraethyddes, rheolwraig.

Governing, *a.* llywodraethol, llywiol, llywiadol, llywodraethus, llywiannol, llywiannus, llywodrol, llywiedigol, llywiedyddol, yn rheoli, llywio, yn llywodraethu.

Government, *s.* (o *govern; Ff. gouvernement*) llywodraeth, rheolaeth, llywiaeth, llywiodraeth, llywedyddiaeth, llywiedyddiaeth, llywiadwriaeth, llywodri, llywiodri, ardwy, ardwyaeth; gwledwch, gwledychawd, gwledigaeth, gwledigrwydd; trefnidiaeth, trefniant, cyfarwyddiad; arglwyddiaeth; maeroniaeth; talaeth, tywysogaeth.

Monarchical government — unbenaeth, llywodraeth unbenol, unbenaduriaeth, archdeyrnaeth, archdeyrnogaeth, brenhiniaeth.

Absolute government—llywodraeth annibynol, anammodol, annherfynol, *neu* ddiammodol; unbenaeth annibynol; dirlywodraeth; llywodraeth seiliedig ar ewyllys y penadur yn unig.

Despotic government — treisiywodraeth, ymbenlywodraeth, gormesiywiaeth, trawsiywodraeth, trawsbenaeth, unbenaeth annibynol; llywodraeth ymbenol, arglwyddaidd, amherodraidd, *neu* drawsarglwyddol.

Republican government — gweriniaeth, gwerinlywiaeth, gwerinlywodraeth, gwaerlywodraeth, gwerinwladwriaeth, gwaerlywiaeth, llywodraeth werinol, llywodraeth y werin, llywodraeth weriniaethol.

Aristocratic government — llywodraeth bendefigol, pendefigaeth, pendefigiant, arbendodaeth, llywodraeth pendefigion.

Executive government—llywodraeth weinyddol, llywodraeth gyflawniadol.

Provisional government — llywodraeth ddarbodol, llywodraeth ddarparol, llywodraeth ddarpariadol, llywodraeth barotoawl.

Government and concord—llywodraeth a chydweddiad; rheolacth a chyfundod.

Self government—hunan-lywodraeth, hunan-lywiaeth, hun-lywodraeth, llywodraeth ar un ei hun.

Deputy government—rhaglawiaeth, rhaglywiaeth, llywodraeth raglywiol, llywodraeth raglawiol.

Petticoat government—llywodraeth y bais, llywodraeth y dinbais; llywodraeth gwraig, llywodraeth benyw; coeg lywodraeth gwraig ar ei gwr.

He is under petticoat government—y mae efe yn gwisgo y bais; y mae efe â'r bais ar *neu* am ei ben; y mae efe dân lywodraeth y bais.

The government of a family—llywodraeth teulu, teuluwriaeth.

The government of a country *or* state—llywodraeth gwlad, gwladwriaeth.

To have the government of—llywodraethu, llywio, rheoli; bod yn rheoli; bod i un lywodraeth; bod i un y llywodraeth ar.

One that has no government of himself—un nad oes ganddo lywodraeth arno ei hun; un dilywodraeth arno ei hun; un nas medr lywodraethu ei wyniau a'i chwantau.

They committed their government to one man every year—yr oeddynt hwy yn ymddiried i un gwr bob blwyddyn i'w llywodraethu hwynt (1 *Mac.* viii. 16).

Her waiting-woman that had the government of all things that she had—ei llawforwyn yr hon oedd yn llywodraethu ei holl olud hi (*Judeth* viii. 10).

Governor, *s.* (Ff. *governeur*) llywodraethwr, llywodraethydd, llyw, llywadur, llywiadur, llywiawdwr, llywiawdr, llywawdydd, llywiawdydd, llywydd, glyw, arlyw, llywiedydd, llywedydd, llywawdr, llywiodydd, ffelaig, rheolwr, rheolydd, rhiolawdr, ardwyad.

Chief governor—penllywydd, penllywadur, penllywindur, penllywiawdr, penllywodraethwr, penrheolwr, penaeth, pen, penadur, unben, gwledig, rhwyf, rhwyfadur.

Deputy governor—rhaglaw, rhaglofydd, rhaglyw, rhaglywiadur, rhaglywiad, rhaglywiawdwr, rhaglaw brenin, rhaglaw talaeth.

Governorship, *s.* llywaduriaeth, llywiaduriaeth, llywyddiaeth, llywyddiadaeth, llywiawdwriaeth, llywiodwriaeth, llywodyddiaeth, llywiodyddiaeth, swydd llywodraethwr.

Gowan, *s.* (oddi wrth I. R. *Gowan?*) llygad y dydd, swynfri, yswynfri, llygad y dydd cyffredin.

Gowk, *s.* = *Gawk.*

Gowlard's-Extract, *s.* (o *Goulard*, enw y dyfeisydd) deawd Gowlard, alltra Gowlard, plymdaeth, plymalltra, elltaeth plwm.

Gown, *s.* (C. *gŵn; Gw. gunna; It. gonna*) gŵn, hug, twyg, ysgin, tabar, gwalling, gwisg laes, llaeswisg, ysginen.

A loose gown—gŵn llaes, gwalling, gwisg laes, llaeswisg.

A little gown—gynyn, gynan, hugyn, gŵn bach, gŵn bychan.

A close gown—gynell, gŵn tyn.

A maker of gowns—ysginydd, ysginwr, ysginor, gynwr, gwneuthurwr gynau, gwallingwr.

Wearing a gown—gynog, ysginog; à wisg ŵn; yn gwisgo gŵn; yn ei ŵn.

Men of the gown—gynogion, ysginogion, gwŷr y gynau, seganfeib.

Gowned, *a.* gynog, ysginog, twygog, gwallingog; yn gwisgo gŵn; à wisg ŵn; yn ei ŵn.

Gownman, } *s.* (*gown* a *man*) gynog, ysginog,
Gownsman, } seganfab; heddgarwr: *pl.* gynogion, ysginogion, gwŷr y gynau.
Gozzard, *s.* (*o goose* a *herd*) bugail gwyddau.
Grab, *s.* llong arferedig ar dueddau Malabar, âg iddi ddau neu dri hwylbren.
Grab, *v. a.* (D. *greb;* Sw. *grabba*) dàl, dala, gafaelyd, ymaflyd yn, cipio, ysgipio.
Grab, *s.* dàl, dalfa, cip; mantais, elw, ennill.
Grabble, *v. n.* (bychanig o *grab;* Is. *grabbelen;* Al. *grübeln*) palfalu, ymbalfalu, palfu; chwilota, chwiltaith; ymgreinio, ymysgreinio, ymysgrain, gorwedd yn llediesn; bod yn llorwedd.
Grace, *s.* (Ff.; Ll. *gratia;* Gw. *grasa*) rhad, llad, gras; rhadlonedd, rhadineb, gwyllys da, ewyllys da, hoffder, hoffedd, mwynas, ffafr, ced, caredigrwydd; rhinwedd; braint, rhagorfraint; maddeuant, trugaredd, gollyngdod; diwyg da, glendid, dillynder ymddygiad, tlysni ymddygiad, gweddusrwydd, gweddusder, prydferthwch, harddwch, glendid, tegwch, diwyg, ceinder, tlysni, telediwrwydd, teleidrwydd, telid; addurn; dawn, doniaeth; rhadraith, gweithred prifysgol, pleidlais prifysgol.
The Graces—y Teleidesau, y Teleidiaid, y Teleidion, y Lladesau, y Rhadesau; y tair chwaer deledlw=Aglaia, Thaleia, ac Euphrosyne.
Graces—rhadau, lladau, grasau, grasusau; ceinion, teleidion, dillynion, prydferthion, tlysion.
With grace—yn rhadlawn, yn rasol, mewn rhad, mewn gras, gyda gras; mewn harddwch, mewn prydferthwch, yn hardd, yn brydferth, yn deledlw, yn weddus, yn weddaidd, yn brydus, yn delaid.
Good graces—ewyllys da, gwyllys da, bodd, ffafr; cyfeillach, cyfeillgarwch.
With a good grace—yn hardd, yn brydferth, yn dlws, yn glws, yn deledlw, yn ddillyn, yn addwyn, yn weddaidd, yn weddus, yn gain, yn deliaidd, yn delaid, yn gyfrgain, yn olygus, yn wych.
To do a thing with grace, } gwneu-
To do a thing with a good grace, } thur peth yn hardd, &c.
Without grace—yn anhardd, yn anmhrydferth, yn anaddwyn, yn anweddaidd, yn anweddus, yn annhlws, yn annillyn, yn annestlus, yn annheledlw, yn annheliaidd, yn anolygus; diras, yn ddiras.
A person of an ill grace—dyn anniwygus, annillyn, annestlus, annheledlw, annheliaidd, trwsgl, anolygus, dilun, *neu* anneheuig.
To do a thing with an ill grace—gwneuthur peth yn wrthun, yn anghyflun, yn anniwygus, yn ddybryd, yn anhardd, yn anmhrydferth, yn anolygus, yn annheledlw, yn ddilun, yn drwsgl, yn drwstan, yn garbwl, *neu* yn anneheuig.
To be in the good graces of a person—bod mewn bri, parch, cymmeriad, *neu* urddas gydag un; bod yn hoff gàn un; meddiannu ewyllys da un; bod wrth fodd un; bod yn fawr ei fri, ei barch, ei gymmeriad, *neu* ei urddas gydag un; bod yn llyfrau un.
To obtain the good graces of a person—ennill bodd un; ennill ewyllys da un; ennill ffafr un; ennill cymmeriad, bri, *neu* barch gydag un.
Act of grace—deddf gollyngdod, deddf ebargofiad.
Day of grace—dydd gras, dydd rhad.
Days of grace—dyddiau oed, oed-ddyddiau.
Sovereign grace—gras penarglwyddol, penarglwyddol ras, gras penarglwyddiaethol, rhad penadurol, priflad, llad penaf.
Free grace—rhad ras, rhyddrad, rhwyddrad, gras rhad.
Grace at meals—gras bwyd; gras wrth fwyd; gras cyn bwyd; gras ar ol bwyd; bendith; diolch.
Grace before meat—gras cyn bwyd; gras o flaen bwyd; bendith.
Grace after meat—gras ar ol bwyd; gras wedi bwyd; diolch.
To say grace—dywedyd gras; bendithio bwyd; gofyn bendith ar fwyd; rhoi diolch am fwyd.
He cannot stay till grace be said—gàn faint ei wanc nid erys efe am *neu* wrth y fendith; efe a wancia ei fwyd yn ddifendith; nis gall aros tra y dyweder gras.
Without grace or goodness—heb na rhad na mad.
His Grace the Duke of York—ei Rad Dug Caerefrog; ei Ras Duc Caerefrog; ei Radlonrwydd Dug Efrog.
Grace in speaking—harddwch, prydferthwch, hyfrydwch, hawddgarwch, pefredd, *neu* dlysni ymadrodd.
A double grace—gras ar ras; rhad dyblyg.
A gift hath grace in the sight of every man living—y mae cymmeriad i rodd yn ngolwg pob un byw.
The grace of fools shall be poured out—ffafr ffyliaid a dywelltir allan.
All-hail, thou grace-favoured one!—hanbych well, y radgaredig!
Grace (in English universities)—rhadraith, llenarch, pleidlais, gweithred.
Graces (in music)—addurnau, teleidion, telsdau.
Herb of grace—gorddawn, gorddon, gras Duw, torwenwyn, llysiau yr echryshaint, rhud, rhut, rhutain.
Grace, *v. a.* addurno, harddu, prydferthu, urddasu, gwychu, harddwychu, teleidio; urddo, brio, dyrchafu, derchu, anrhydeddu; rhadfori, rhadoli; rhoi gras i.
Grace-cup, *s.* cwpan cariad, rhadgib.
Graced, *a.* addurnedig, addurnog, harddedig, diwygus; †prydferth, hardd; †rhinweddol, diwair, rheolaidd.
Graceful, *a.* hardd, prydferth, telediw, telaid, teleidiog, gweddus, gweddaidd, teg, tlws, cain, harddwych, gorwych, ceinwych, dillyn, destlus, herddull, gweddol, teliaidd, golygus, cyfrgain, cyweirwych, prydus, prydweddol; trefnus, taclus, tra thaclus, esgeiddig, gosgeiddig, diwygol, diwygus; rhadlawn.
Gracefulness, *s.* harddwch, prydferthwch, gweddusder, gweddusrwydd, teleidrwydd, telediwrwydd, harddineb, teleidiogrwydd, &c.
Graceless, *a.* diras, anrasol, anraslawn, dirad, diriaid, diried, dyhir, anfad; ansantaidd, llygredig, drwg, annuwiol.

Gracelessness, *s.* anrasolonrwydd, anrasoldeb, anrasolrwydd, diraswydd; anras.

Graces, *s. pl.* Teleidesau, Teleidion, Lladesau, Rhadesau; rhadau, lladau, grasau, grasusau, ffafrau; ceinion, teleidion, dillynion, prydferthion, tlysion.

Grace-sayer, *s.* dywedwr gras; gofynwr bendith; talwr *neu* roddwr diolch.

Gracile, } † *a.* (Ll. *gracilis*) main, addfain,
Gracilent, } eiddil, gwàn.

Gracility,† *s.* meinder, meindra, meinedd, eiddiledd, eiddilwch, gwander.

Gracioso, *s.* (Ysp.) ysgentyn, digrifwas, digrifwr; chwydawydd.

Gracious, *a.* (Ll. *gratiosus;* Ff. *gracieux*) rhadlawn, rhadfawr, graslawn, grasol, grasus, grasusol, rhadol, lladus, lladol, lladfawr, rhadferth; trugar, trugarog, tirion, hynaws, mwyn, cun, hygar; madiain, mad, da; rhinweddol; †rhagorol, hardd.

Most gracious—rhadlonaf, rhadforaf, graslonaf, grasusaf.

Her most gracious majesty—ei rhadlonaf fawrhydi, ei rhadforaf fawrhydi, &c.

To be gracious with a person—bod mewn parch, bri, cymmeriad, *neu* urddas gydag un; bod yn hoff gàn un; meddu ewyllys da un; bod wrth fodd un; bod yn fawr ei fri, ei barch, *neu* ei gymmeriad gydag un.

To become gracious—rhadloni; dyfod *neu* fyned yn rhadlawn.

The blessing of God upon every gracious gift—rhad Duw ar bob rhadferthwch.

God be gracious unto thee—Duw a roddo ras i ti (*Gen.* xliii. 29).

Graciously, *ad.* yn rhadlawn, &c.; o'i ras; yn rhwyddradol, yn rhwyddrasol; yn hyfryd.

Graciousness, *s.* rhadlonrwydd, rhadlonder, rhadlondra, rhadlondeb, rhadlonedd, rhadlonaeth, rhadforedd, graslonrwydd, grasolrwydd, graslondeb, graslonedd, rhadferthwch; lladforedd, lladusrwydd, lladoldeb; trugarogrwydd, mwynder, tiriondeb, hynawsedd.

Gracle, *s.* (Ll. *graculus*) gregl; greglod=math o adar.

Gradation, *s.* (Ff.; Ll. *gradatio*) graddiad, graddiant, graddesgyn, graddesgyniad, esgyniad, graddiaeth, graddiadaeth; esgyniad o radd i radd; mynediad yn mlaen o radd i radd; codiad graddol; codiad o radd i radd; gradd, trefn, cyfres.

Gradational, *a.* graddiadol, graddiannol, graddol, graddesgynol; yn ol graddesgyn.

Gradationed, *a.* graddedig, graddiannedig, graddiadog.

Gradatory, *a.* graddesgynol; yn codi o radd i radd; yn codi yn raddol; yn myned yn mlaen yn raddol; graddedigol.

Gradatory, *s.* rhes o risiau, grisfa, grisres; clasrisiau; grisiau o'r clwysdy i'r eglwys.

Grade, *s.* (Ff.; Ll. *gradus;* D. a Sw. *grad*) gradd; gris; sefyllfa; esgynradd; cam.

Grade, *v. a.* gwneuthur yn raddol; tynu yn raddol; graddu, osgraddio.

Gradely, *a.* trefnus, gweddus, gweddaidd.

Gradely, *ad.* yn drefnus, yn weddus, yn weddaidd.

Gradient, *a.* (Ll. *gradiens*) graddol, graddiannol, mynedol, graddfynedol, graddedigol; yn myned o radd i radd; yn myned o gam i gam.

Gradient, *s.* graddosgo, graddogwydd, graddfa, gradd, osgradd.

Gradual, *a.* (Ff. *graduel*) graddol, graddedigol, graddiannol; graddesgynol; à el yn mlaen *neu* i fyny o radd i radd.

Gradual, *s.* grislyfr, grisiadur; gradd, gris, grisiau.

Graduality,† *s.* graddoldeb, graddolrwydd, graddineb.

Gradually, *ad.* yn raddol; o radd i radd; o ris i ris; bob yn radd; o fesur ychydig ac ychydig; bob ychydig; bob yn ychydig; o fesur cam a cham; o fesur gradd a gradd; gam a cham; yn araf deg; bob yn dipyn; o dipyn i beth; †mewn gradd.

Graduate, *v.* (It. *graduare;* Ff. *graduer;* o'r Ll. *gradus*) graddio, graddogi, graddoli, graddu, graddiannu, graddori; ymraddio, ymraddu, ymraddogi, ymraddoli; cymmeryd gradd; graddnodi, graddranu; myned yn raddol; gwella, gwellhau, parotöi, tymmeru.

Graduate, *s.* graddwr, graddog, graddolwr, graddor, graddol; urddog: *pl.* graddogion, graddolion, graddorion, graddoriaid.

Church graduate—graddwr eglwys, graddog eglwysig.

Graduated, *a.* graddedig, graddog, graddorol, graddol; tymmeredig.

Graduated bard—bardd cadeiriog, cadeirfardd, bardd caw; bardd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain.

Graduateship, *s.* graddogaeth, graddoliaeth, graddoriaeth, cyflwr graddog.

Graduation, *s.* (Ff.; o *graduate*) graddedigaeth, graddawd, graddiant, graddiad; graddraniad, graddnodiad; gwellhad, tymmeriad.

Graduator, *s.* graddnodydd, graddiannor, graddiedydd, graddofferyn.

Graduction, *s.* graddraniad, graddnodiad; tymmeriad.

Grady, *s.* (Ll. *gradus*) graddog, grisiog; gwalciog.

Gradus, *s.* (Ll.) graddiadur, geiriadur mydryddol.

Graff, *s.* (S. *graf;* Is. a Sw. *graf*) clawdd, ffos, amglawdd, cylchffos.

Graff,† *s.*=*Graft.*

Graft, *s.* (Ff. *greffe;* Is. *griffel*) imp, impyn.

Graft, *v.* impio; planu i mewn; bywullu.

A stock to graft upon—coettrych.

To cleft-graft—hollt-impio; ag-impio.

Grafter, *s.* impiwr, impiedydd, impydd.

Grafting, *s.* impiad, impiedigaeth.

Grafting-stock—coettrych.

Grafting instrument—bwsg.

Grail, *s.* (o *gradual*) grislyfr, grisiadur.

Grail, *s.* (Ff. *grêle*) rhonos, mân ronynau, tionynau, tipynau, ithion, tilion, hilion.

Grain, *s.* (Ff.; Ll. *granum;* Al. a Gw. *gran*) gronyn; yden, ydyn, hedyn; mymryn, gronynyn, ith, tipyn, ydyn, temig, til, tip, timyn, tipyn, rhithyn, chwythryn, graianen, graienyn; grawn, yd; llin, llinon, llin pren, llin coed; grân, graen; glawdd, gla, caboledd, tywyn; defnydd lliwiedig; defnydd, nwydd; dant, pig; gwythen; tymmer, credd, rhâl, dull, gwedd, cysgod: *pl.* gronynau, rhonos.

A grain of wheat—gwenithen, gwenithyn; gronyn o wenith.

A grain of salt—gronyn o halen.

A grain of sand—tywodyn, graenyn, graienyn.

Grain of wood—llin coed, llin, llinon.
Empty grain—wtr.
The grain of leather—herwm; grân lledr, graen lledr.
A grain of gold—gronyn o aur, mymryn o aur, til o aur.
To dye in grain—criliwio, creiliwo; lliwio yn grai; lliwio yn gri; lliwio yn y nwydd cri; lliwio yn y cri ddefnydd; lliwio cyn ei wneuthur.
Dyed in grain — criliwiedig, criliwedig, criliwiog; wedi ei liwio yn gri, &c.
A knave in grain—dyhiryn o'i galon; dyhiryn o'i fodd.
Against the grain—yn erbyn ei ewyllys; yn groes i'w ewyllys; o'i anfodd, yn anewyllysgar; yn erbyn y grân; yn groes i'r grân; yn afrywiog.
An ash of a fine grain—llinon.
Wood of a fine grain—llin-goed.
To give a grain to leather—rhoi herwm ar ledr; graenu lledr, caboli lledr; rhoi *neu* beri grân ar ledr.
To give grains of allowance—esgusodi mân feiau; cyd-ddwyn â mân feiau; rhoi gronyn dros ben.
The best must have their grains of allowance—nid yw y goreu heb ei fai; nid yw y goreu heb eu bai; nid oes neb heb ei fai; nid difai neb a aned; y mae gwehilion i'r gwenith.
Grain-fed—grawnfaeth.

Grain,† *v. n.* dwyn ffrwyth.

Grain, *v. a.* graenu, llinarliwio, llinbaentio, troellogi; paentio yn droellog.

Grain, } † *v. n.*=*Groan.*
Graine, }

Grained, *a.* garw, afiyfn, anwastad; gronynog; graenedig, graenus; llinog; troellog, criliwiog, criliwiedig.
Grained wood—coed llinog; llin-goed.
Grained (as a wainscot)—troellog.
Cross-grained — croeslinog; afrywiog, anynad, anfoddog, anniddig, anwyllysgar, anhywaith, trofaus, sarig, blin, blwng, swr, sor, croes, gwrthnysig.

Grainer, *s.* herymwy, graenor, graenwy.

Graining, *s.* bylchiad, gylfiad, rhiciad, rhigiad; llinarliwiad, troellogiad; graenbysg.

Grain-tin, *s.* graenalcan, tibalcan, rhonalcan, alcan gronynog.

Grains, *s. pl.* gronynau; grawn; soeg.
Grains of Paradise — grawn Paradwys, grawn Paris.
Empty grains—gwehilion, hedion, manyglion, manion, gohilion, usion, wtr.

Grainstaff, *s.* ffon bedror, par pedror, pedryffon.

Grainy, *a.* gronynog; ydog, ydlawn; llawn grawn; llawn gronynau.

Gralla, *s. pl.* (Ll.) hirgoesogion, hirgoesiaid, adar hirgoes, rhydadar, rhydyddion=y pedwerydd llwyth o adar, yn ol trefn Linnæus.

Grallatores, *s.pl.* (Ll.)hirgoesogion, hirgoesiaid, adar hirgoes, rhydadar, rhydyddion=y pedwerydd llwyth o adar, yn ol trefn Vigors.

Grallatory, *a.* hirgoes, coeshir; perthynol i'r hirgoesogion.

Grallic, *a.* (Ll. *grallæ*) hirgoes, hirheglog, coeshir, hirgoesnoeth; tudfachog.

Gram,† *a.* (S., Sw., a D.) dig, llidus.

Gram, } *s.* (Ff. *gramme*; o'r Gr. *gramma*)
Gramme, } unyn neu ddechreu pwysau (yn nghyfundrefn pwysau yn Ffrainc)=15.438 gronyn.

Gramercy,† *ad.* (*Ff. grand merci*) diolch iti; bendith Duw iohwi.

Gramineal, } *a.* (Ll. *gramineus*) porfaog, por-
Gramineous, } faol, glaswelltog, gwelltog, porfelog, gwelltaidd, poriog, poriol.

Graminifolious, *a.* (Ll. *gramen* a *folium*) porfaddeiliog, porfelddeiliog, porfelddail.

Graminivorous, *a.* (Ll. *gramen* a *voro*) gwelltysol, pawrysol; yn byw ar borfa; yn ymborthi ar wellt.

Grammar, *s.* (Ff. *grammaire*; Ll. *grammatica*; Gr. *grammatikê*) gramadeg, ieithadur, llythyreg, ieitheg, dwnad.
Grammar (as a science)—ieitheg, ieithaduriaeth, gramadegiaeth, gramadeg, llythyreg.
Grammar learning—gramadegiaeth, gramadegyddiaeth, llythyregyddiaeth.
This is not grammar—nid gramadeg hyn; nid gramadeg mo hyn; nid yw hyn gyssonâ gramadeg; nid yw hyn gysson â rheolau gramadeg.
Not according to grammar—anramadegol, anramadegaidd, angramadegol; heb fod yn ol gramadeg.
Contrary to grammar—gwrthramadegol, gwrthramadegaidd, anramadegol; croes i ramadeg; anghysson âg ieithadur.
English grammar — gramadeg Seisonig, ieithadur Seisonig, ieithadur Seisoneg.
A grammar of the English language—gramadeg Seisoneg, ieithadur Seisonaeg; gramadeg o'r iaith Seisonaeg.
To write grammar—ysgrifenu yn ramadegol; ysgrifenu yn ol gramadeg; ysgrifenu yn gysson â rheolau ieithadur; ysgrifenu gramadeg.

Grammar,† *v. n.* gramadegu; siarad *neu* lafaru yn ramadegol.

Grammar, *a.* gramadegol, gramadegaidd, ieithadurol, llythyregol; perthynol i ramadeg.
Grammar school—ysgol ramadegol, ysgol ieithadurol, ysgol ramadeg; ieithysgol; ysgol lle y dysgir Lladin a Groeg.
Grammar rule—rheol gramadeg.

Grammarian, *s.* gramadegwr, gramadegydd, llythyregydd; ieithadurydd, ieithadurwr, dwnedwr; ieithegydd, ieithegwr, ieithydd, ieithwr, ieithgarwr.
A mean grammarian=*Grammaticaster.*

Grammarless, *a.* diramadeg, angramadegol, anramadegol, heb ramadeg.

Grammarye, } *s.* swyngyfaredd, dewiniaeth,
Grammary, } swyn, hudoliaeth.

Grammatic, *a.* gramadegol, gramadegaidd, ieithadurol, llythyregol.

Grammatical, *a.* (Ff.) gramadegol, gramadegaidd, ieithadurol, ieithaduraidd, llythyregol, ieithegol, dwnedol; cysson â gramadeg; yn ol rheolau gramadeg.
Grammatical rule—rheol gramadeg; rheol ramadegol.

Grammatically, *ad.* yn ramadegol, &c.; yn ol rheolau gramadeg; yn ol rheol gramadeg; wrth reolau gramadeg; yn gysson â rheolau gramadeg.

Grammaticaster, *s.* coeg ramadegwr, coeg ramadegydd, coeg ieithadurwr, gramadegyddyn, ieithegyddyn, crach ramadegwr.

Grammaticize, *v. a.* gramadegu, gramadegeiddio; gwneuthur yn ramadegol.
Grammatist, *s.* (Ll. *grammatista*) gramadegyddyn, ieithegyddyn, llythyregai, coeg ramadegwr, crach ramadegydd.
Grammopetalous, *a.* (Gr. *gramm*é a *petalon*) llinddeiliog, llinddail.
Grample, *s.* cranc, morgranc, ceimwch.
Grammatite, *s.* llythyrith=math o ddelidfaen.
Grampus, *s.* morfochyn, morhwch; morfilyn.
Granade, } *s.* (Ff. *grenade;* Ysp. *granada;* It.
Granado, } *granata*) llosbelen, llosbel, llos-
Grenade, } beled, tanbelen, pelen daullyd, peled o dân gwyllt, pylorbel.
Granadier, *s.*=*Grenadier.*
Granadilla, *s.* (Ysp.) math o blanigyn.
Granam, *s.*=*Grandam.*
Granary, *s.* (Ll. *granarium;* Ff. *grenier*) ytty, heiniardy, ydgell, ydle, ydlofft, ystordy yd, ystorgell yd, ysgubor.
Granate, *s.* (It. *granato;* Ff. *grenat;* Ll. *granatus*) gronem, groned, garned, gronfaen.
Granatite, } *s.* (Ll. *granum*) rheiddronem,
Grenatite, } rheiddronith, gronith.
Granatum, *s.* (Ll.) grawnafal, afal gronynog, pomgranad.
Grand, *a.* (Ff.; Ll. *grandis*) mawr; mawrwych, mawreddus, mawreddog, mawreddig, mawrydig, mawryddig; godidog, ardderchog, rhagorol, gogoneddus; gwych, gwymp, athafar, myg, myged, mygr; uchel, uchelwych, uchelfawr, dyrchafedig, derchafedig, derch; prif, penaf, arbenig; boneddig, syberw, syber; arddunol; cain, ceinwych; hen, hŷn.
Extremely grand — gorwych, uchelfawr, gorwymp; tra mawrwych, mawreddus dros ben.
Grand day — dydd mawr, uchelddydd; gŵyl arbenig, uchel ŵyl, uchelwyl.
Grand duke — uchelddug, gorddug, gorddue, pendug.
Grand dukedom—gorddugiaeth, gorddueiaeth, uchelddueiaeth, pendugiaeth.
Grand things—pethau mawrwych, mygedion, godidogion.
Grand jury—uchelreithwyr, uchel reithwyr, y damdyngwyr penaf; uchelraith, yr uchelraith.
Grand juror—uchelreithiwr, uchel reithiwr.
Grand Seignior—unben y Tyrciaid, ymherawdr y Tyrciaid, ymherawdwr Twrci, Sultan.
Grandam, *s.* (*grand* a *dame*) nain, neina, henfam, mam gu; hen wraig, hen ddynes, hen fenyw, gwrach.
Grandchild, *s.* ŵyr: *f.* ŵyres: *pl.* ŵyrion.
Great grandchild—gorwyr: *f.* gorwyres.
Grandchild's grandson—goresgynydd.
Grand-daughter, *s.* ŵyres.
Grandee, *s.* (Ysp. *grande*) pendefig, pendeddig, uchelwr, boneddig, dyledog: *pl.* pendefigion, dyledogion, goreugwyr, boneddigion dyledog, gwŷr dyledog, gwyrda.
Grandeeship, *s.* pendefigaeth, pendefigiant, pendeldigaeth, dyledogaeth.
Grandeur, *s.* (Ff. o *grand*) mawredd; mawrwychder, mawrwychedd, mawreddigrwydd, mawreddogrwydd, mawreddusrwydd, mawryd; gwychder, gorwychder, gorwychedd, rhwysg, rhodres, rhwyf, uchelrwysg, uchelwychder; godidogrwydd, ardderchogrwydd; claerwychedd, claerwychder; uchelder, ucheldra, uchelfawredd, uchder, uchedd; urddas, anrhydedd, uchelfraint, myged, mygredd, arddunedd.
Grandevity,† *s.* (Ll. *grandævus*) henoed, hirhoedledd, henaint.
Grandevous,† *a.* hiroediog, hirhoedlog, oesbraff, oesog, hen.
Grandfather, *s.* taid, hendad, tad cu.
Great grandfather—hendaid, gorhendad, hendad cu, hen dad cu.
Great great grandfather, } gorhendaid,
Great grandfather's father, } tad yr hendaid, tad yr hendad cu.
Grandfather in law—rhagchwegrwn, taid yn nghyfraith.
Grandific, *a.* (Ll. *grandis* a *facio*) mawreddol, mawreddigol, mawrygus.
Grandiloquence, *s.* (Ll. *grandis* a *loquor*) uchelaith, mawriaith, rhodresiaith, chwyddiaith, mawreiriogrwydd, mawrair.
Grandiloquous, *a.* (Ll. *grandiloquus*) mawreiriog, uchelieithog, mawrieithog, chwyddieithog, geirfawr; yn llefaru mewn ieithwedd uchelwych; chwyddedig.
Grandinous, *a.* (Ll. *grandinosus*) cenllusog ceseiriog; yn cynnwys cesair neu genllysg.
Grandiose, *a.* mawrwych, uchelwych, coegwych, rhwysgfawr.
Grandity,† *s.* (Ll. *granditas*) mawredd, mawrwychder.
Grandly, *ad.* yn fawr, yn fawrwych, gyda rhwysg.
Grandmother, *s.* nain, henfam, mam gu.
Great grandmother—hennain, gorhenfam, henfam gu, hen fam gu.
Great great grandmother, } gorhen-
Great grandmother's mother, } nain, mam yr hennain, mam yr orhenfam, mam yr henfam gu.
Grandmother in law—rhagchwegr, nain yn nghyfraith.
Grandness, *s.* (o *grand*)=*Grandeur.*
Grandsire, *s.* taid, hendad, tad cu; cyndad, hynafiad.
Grandson, *s.* ŵyr: *pl.* wyrio.
Great grandson—gorŵyr.
Grandchild's grandson—goresgynydd.
Grange, *s.* (Ff.) amaethdy, hafotty, maerdy, maesdref, ty unig; tyddyn, syddyn, maenor, maenol; ysgubor; ydlan; tyddyn gyda'r adeiladau perthynol iddo.
Graniferous, *a.* (Ll. *granifer*) grawnddwyn, grawnddygol; yn dwyn grawn neu gnewull.
Graniform, *a.* (Ll. *granum* a *forma*) ydrawnaidd, grawnaidd; ar lun grawn.
Granite, *s.* (Ff. *granit;* It. *granito*) ithfaen, gronynfaen, gweunithfaen: *pl.* ithfeini, ithfain.
Granitel, } *s.* (bychanig o *granite*) ithfeinyn,
Granitell, } ithfaenyn: *pl.* ithfaenos.
Granitic, *a.* (o *granite*) ithfeinin, ithfeinig, ithfaenol, ithfaenog, ithfeiniog, gweunithfaenog.
Granification, *s.* (*granite*, a Ll. *facio*) ithfaenad; troad yn wenithfaen.
Grainlite,† *s.* math o ronynfaen.
Granitiform, *a.* ithfaenaidd, gronynfaenaidd; ar wedd ithfaen; tebyg i wenithfaen.
Granitin, } *s.* (o *granite*) ithfaenre, ithfaendwr-
Granitine, }

Granitoid, *a.* (*granite*, a Gr. *eidos*) ithfaenaidd, gronynfaenaidd, gwenithfaenaidd; tebyg i ronynfaen.

Granivorous, *a.* (Ll. *granum* a *voro*) grawnysol, ysrawn; yn byw ar rawn; yn bwyta grawn; yn ymborthi ar hadau.

Grannam, *s.*=*Grandam.*

Grant, *v. a.* (Norm. *granter*) caniatäu, ceniadu, cenadu, caniadu; goddef, gadael, gadaw, gadu; rhoddi, rhoi, dodi; addef, cyfaddef; cydsynio â, cydsynied â, cytuno â, cyduno â; dywedyd am gael; anrhegu.

To take for granted—cymmeryd yn ganiatäol; cymeryd megys wedi ei ganiatäu; cymmeryd megys yr hyn a ganiatäwyd; cymmeryd yn lle gwir; cymmeryd megys peth cyfaddef; cymmeryd fel peth profedig; cymmeryd ar fod.

To be taken for granted—cael ei gymmeryd yn ganiatäol; cael ei gymmeryd yn lle gwir, &c.

It was taken for granted—cymmerwyd e yn ganiatäol; cymmerwyd ef yn lle gwir, ac nis chwiliwyd mo hono; efe a gymmerwyd yn lle gwir heb ei chwilio.

Grant it be so — bid felly, boed felly, bydded felly, poed felly; gadwch, gadëwch, bwriwch, *neu* bernwch ei fod felly; gadwch i hyny fod; gadwch iddi fod felly; caniatäer ei bod fel hyny.

God grant—caniatäed Duw; Duw a ganiatao; rhynged bodd i Dduw; Duw a wnelo; Duw a wnel; a ga gàn Dduw.

May God grant me—caniatäed Duw imi; Duw a ganiatao imi, &c.; a gaf gàn Dduw.

Granted during life only—oesfoddog.

You will grant this—chwi a addefwch hyn; cyfaddefwch hyn; caniatëwch hyn.

I grant it—yr wyf yn cyfaddef; yr wyf yn ei addef; nid wyf yn ammheu; gwir yw; bid felly; yr wyf yn ei ganiatäu.

If the Most High grant thee to live—os y Goruchaf a rydd i ti hoedl.

To grant one's request—rhoi ei arch i un; gwneuthur *neu* ganiatäu dymuniad un; rhoddi i un ei gais.

Thou hast granted me life—bywyd a ddarperaist i mi.

With much ado the king had it granted him—caniatäwyd ef i'r brenin trwy fawr orchest, drwy fawr waith, *neu* drwy fawr drafferth.

Grant, *s.* rhoddiad, rhodd, anrheg, dawn; y peth *neu* yr hyn a rodder; cyfarwys; goddefiad, cenad, caniatäd.

Grantable, *a.* rhoddadwy, caniatadwy; à ellir ei roddi *neu* ganiatäu.

Grantee, *s.* (o *grant*) rhoddai, derbyniwr, derbynydd, y derbynydd; yr hwn y caniatäer, y ceniader, *neu* y rhodder peth iddo; rhoddgymmeriawdr, rhoddgymmerwr.

Granter, } *s.* rhoddwr, rhoddydd, rhoddiedydd,
Grantor, } rhoddiad, caniatäwr, caniadwr, ceniadwr.

Granular, *a.* (o'r Ll. *granum*) gronynog, gronynaidd, gronynol.

Granulary, *a.* gronynaidd, gronynol, graenol.

Granulate, *v.* (Ff. *granuler*; o'r Ll. *granum*) gronynu; ymronynu; gwneuthur yn ronynau; graianu, graenu, afiyfnu.

Granulate, } *a.* gronynog, gronynaidd, gron-
Granulated, } ynol, gleinronog.

Granulation, *s.* (o *granulate*) gronyniad, gwneuthuriad yn ronynau; graianiad, ymronyniad.

Granule, *s.* (Ysp. *granillo*; o'r Ll. *granum*) gronyn, mymryn, gronynyn, graienyn, graianen, tilyn, tipyn, rhonyn, ith, briwsionyn.

Granulous, *a.* gronynog, gronynaidd, gronynol, graianol, graiandde, graianllyd, llawn gronynau.

Grape, *s.* (Ff. *grappe de raisin*) grawnwin, gwinrawn, grawn gwin, grawn y gwin, grab, grawn y gwinwydd, eirin graban; grawnsypiau: *sing.* gwinronyn.

Grape-wine—grabwin, gwin grawn, gwin y winwydden.

Grape-gatherer—cynauafwr, casglwr, *neu* gasglydd grawnwin.

Grape-gatherers—cynauafwyr gwin (*Ier.* xlix. 9); casglwyr, casglyddion, cynnullwyr, *neu* gynauafwyr grawnwin.

Grape-gathering—cynauaf gwin, cynauaf grawnwin; casgliad grawnwin.

Grape-gleaning—lloffa grawnwin, lloffiad grawnwin.

Gleaning grapes—lloffion grawnwin, lloffion grawn.

Cluster of grapes—swp o rawnwin, swp grawnwin, grawnswp, (*pl.* grawnsypiau), grawnsypyn; grawn-gangen.

A bunch of grapes—grawnswp, grawnsypyn; swp, bagad, *neu* fagwy o rawnwin.

Tender grapes—grawnwin ieuainc, gwinrawn ieuainc, egin grawnwin, egin y grawnwin, egin grawn.

Grapes (in the mange)—coesrab; chwydd ar goesau ceffyl.

Grape-hyacinth—grablas y llwyn, cenin y brain grabaidd.

Grapeless, *a.* dirawnwin; heb rym *neu* fias grawnwin.

Grapery, *s.* gwinllan, grabardd, grabfa, graban, gardd rawnwin.

Grapeshot, *s.* (*grape* a *shot*) haels magwyol, grawn magwyol, saethrawn.

Grapestone, *s.* cnewullyn grawnwin, cnewullyn y grawnwin, careg grawnwin.

Graphic, } *a.* (Gr. *graphicos*; Ll. *graphicus*)
Graphical, } argraffol, ysgrifol; dysgrifiol, darluniol, darluniadol, dysgrifiadol, arluniog; wedi ei ddarlunio yn fanwl, yn gywir, *neu* yn gywrain; gwedi ei ddarlunio, ei ddysgrifio, *neu* ei ddarlinellu yn dda; tra darluniol, tra dysgrifiol; gwedi ei ddysgrifio yn wych; cywir ddarluniol, gwir ddysgrifiol; manwl, cywrain, cywraint, celfyddgar; yn ymddangos megys wedi ei ysgrifenu *neu* argraffu; gwedi ei lunio yn gywrain, yn gelfydd, *neu* yn ddestlus; gwedi ei gywrain weithio; à wnaed i'r bywyd; à wnaed i berffeithrwydd.

Graphically, *ad.* yn argraffol, &c.; i'r bywyd; i berffeithrwydd; wrth reol a llinyn.

Graphic-granite, *s.* ysgrifithfaen, ithfaen ysgrifig.

Graphite, *s.* (Gr. *graphô*) plwm du, muchblwm, dublwm.

Grapholite, *s.* (o'r Gr. *graphô*) ysgriflech, ysgriflechfaen, llechfaen ysgrifenu.

Graphometer, *s.* (Gr. *graphô* a *metron*) gogylchyr, hannergylch.

Graphometrical, *a.* gogylchyrol; perthynol i hannergylch.

Grapnel, } *s.* (o *grapple*; Ff. *grappin*) ang-
Grapling, } oryn, angor bychan, crapangor; gafaelfach, dalfach, tynfach, cipen, crap, craff, cynghraff.

Grapple, *v.* (Goth. *greipan*; Al. *greifen*) gafaelu, bachu, dyfachu, crapio, cydfachu, caffio, craffu, cynghraffu, grabinio, crabinio, bachellu; gafaelu *neu* ymafaelu yn dŷn yn mheth; gafaelu yn mheth â bach; dàl â bach; dàl yn dŷn; ymfachu, ymgrafangu, ymgigweinio, ymgigo, ymgrabinio, ymrabinio, ymgydio, ymgripio; crebachu, crybachu; ymladd, cyhydreg, cyhydru, cydio; cydio â, cyhydreg â; ymladd fach-fach, graff-graff, graff yn nghraff, afael yn ngafael, *neu* grafanc yn nghrafanc; ymgyfrwch, ymgyrchu, cydymgydio, cydymfachu, ymgynghydio; bachu yn nghyd; † uno wrth, rhwymo yn ddiwahan wrth.

To grapple a ship—bachu llong.

To grapple with—ymladd â, ymdrechu â; ymladd yn llwyddiannus â; cyhydru â.

They grappled with the enemy—cyhydrasant â'r gelyn; ymladdasant lawlaw â'r gelyn; ymfachasant â'r gelyn.

Long did I grapple with his perverseness—hir yr ymdrechais â'i wrthgasrwydd ef; hir y bum yn ymdrech â'i drofausrwydd ef.

Grapple, *s.* gafaelfach, dalfach, tynfach; crap, cipen, bachell, caff; gafael, ymafael, gafaeldrin, cydafael, ymornest, ymorwst; ymgyrch, cyhydreg, ymgyhydreg; cyfranc, tyn afael, ymafiyd.

Grapplement, *s.* gafaeliad, ymafiad, gafael; ymgyrch, cyfrwch, cyfranc, cyhydriad; ysgwfl, ysgwlf.

Grappling-irons, *s. pl.* gafaelfachau, dalfachau, cynghraffau, tynfachau, crapiau.

Grapy, *a.* (o *grape*) grabaidd, grawnwinaidd, grabog, grabin, grawnwinog; tebyg i rawn gwin; llawn grawnwin.

Grasp, *v.* (It. *graspare*) gafaelu, gafaelio, gafaelyd, tynwasgu, ymafael, ymafaelu, ymafiyd, cydio, ymolli; dyrneidio, crafangu, crafangio, grabinio, crabinio; dàl, dala; cydio yn; gafaelu yn dŷn yn *neu* mewn; gwasgu mewn dwrn; cau dwrn yn dŷn ar; gwasgu ar; † ymdrechu.

To grasp at—crafangu am; ymgrafangu am; agor ei grafanc *neu* grafangau am; agor ei grafanc *neu* grafangau ar; ceisio dàl; ceisio cyrhaedd; ymgrabinio am; ceisio gafael yn *neu* ar; ceisio cipio; ymgaffio at; rhoi cais ar gyrhaedd.

Alexander grasped at universal empire—crafangai Alecsander am ymherodraeth gyffredinol.

Grasp, *s.* gafael, gafaeliad; crafanc, caff, ysbach, affiau, llofien, angad, bachell, pedryoled, pedryging, gwasg, gwasgiad, dyrnwasg; crafangaid, dyrnaid, llawaid, llonaid llaw, crimpaid; cyrhaedd; llyweth, dylofyn; meddiant.

Graspable, *a.* gafaeladwy.

Grasping, *p.* yn gafaelu, &c.; awyddus, cybyddus, trachwantus, rheibus, cipgar, ysgipiol, ysglyfgar.

Grasping at honour—tra chwannog i anrhydedd; yn taer erlyn ar ol anrhydedd; yn crafangu am anrhydedd; â'i grafanc am anrhydedd.

Grasper, *s.* gafaelwr, gafaelydd, crafangwr, crafangydd, dyrneidiwr, cipiwr, caffiwr, daliwr, tyn afaelwr.

Grass, *s.* (S. *græs, gærs*; Al. *ac* Is. *gras*) glaswellt, gwellt, porfa, gwellt glas, irwellt, allwest, gwellt y ddaear, pawr.

Arrow-grass—saethbenig.

Marsh arrow-grass—saethbenig y gors.

Sea arrow-grass—saethbenig y morfa.

Barley-grass—heiddwellt.

Bent-grass—maeswellt, meuswellt.

Brown bent-grass—maeswellt y ci.

Fine bent-grass—maeswellt addfain.

Creeping bent-grass—maeswellt rhedegog.

Marsh bent-grass — maeswellt gwŷn y waen.

Sea bent-grass—maeswellt arfor.

Silky bent-grass—maeswellt sidanaidd.

Bristly bent-grass—maeswellt y brynau.

Brome-grass—pawrwellt, porwellt.

Smooth rye brome-grass—pawrwellt llèr, llèr.

Soft brome-grass — pawrwellt maswy, porwellt masw.

Smooth brome-grass—pawrwellt llyfn.

Upright perennial brome-grass—pawrwellt unionsyth.

Hairy wood brome-grass — pawrwellt blewog.

Barren brome-grass—pawrwellt anhiliog.

Slender wood brome-grass — pawrwellt eiddil y goedwig.

Canary grass—pefrwellt.

Manured canary-grass — pefrwellt amaethol.

Sea canary-grass—pefrwellt y tywod, pefrwellt arfor.

Cat's-tail grass—rhonwellt y gath.

Common cat's-tail grass, } rhonwellt y
Meadow cat's-tail grass, } gath cyffredin, rhonwellt
Timothy grass, } y gath.

Cock's-foot grass — byswellt, grugwellt, troed y ceiliog, dant y ci.

Rough cock's-foot grass—byswellt garwaidd, grugwellt garw.

Cotton-grass—gwaenblu, gwaunblu, gwaenbluf, sidan y waen, plu gwaenydd, pluf y gwaenydd, gwlanwair.

Broad-leaved cotton-grass — gwaenblu llydanddail, plu gwaenydd llydanddail, sidan y waen llydanddail, gwaenblu tusw̆og.

Common cotton-grass — gwaenblu culddail, sidan y waen culddail, pluf y gwaenydd culddail.

Alpine cotton-grass—gwaenblu gwrychog y mynydd.

Hare's-tail cotton-grass—gwaenblu gweiniog, gwlanwair gweiniog.

Couch-grass—glaswellt y cwn, gwenithwellt ymdaenol, gwenithwellt ymdaenu, gwenithwellt rhedegog, llygad y ci, triagl y cwn.

Dog's-tail grass—rhonwellt y ci.

Crested dog's-tail grass—rhonwellt y ci cribog.

Feather-grass—plufwellt, pluwellt, pluciddwellt.

Fescue-grass—peisgwellt.

